

# Arfarniad Cynaliadwyedd

Gorffennaf 2017



## Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Gwynedd & Môn

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# CYNNWYS

| | | Tud |
|---|---|---|
| 1. | **CYFLWYNIAD** | **1** |
| | Cefndir<br>Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd<br>Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)<br>Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd<br>Asesiadau Eraill<br>Strwythur yr Adroddiad | |
| 2. | **METHODOLEG YR ARFARNIAD CYNALIADWYEDD** | **8** |
| | Cyflwyniad<br>Camau yn y broses AC/AAS<br>Grwp Tasg Cynaliadwyedd<br>Cwmpasu ‘r Materion Cynaliadwyedd Allweddol a Fframwaith yr AC<br>Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd<br>Dull yr AC<br>Ansicrwydd a bylchau yn y data<br>Ymghyngori a’r AC | |
| 3. | **CYD-DESTUN AC AMCANION CYNALIADWYEDD** | **37** |
| | Cefndir<br>Arolwg o Raglenni a Chynlluniau Perthnasol<br>Casglu’r Gwaelodlin<br>Adnabod Materion a Phroblemau Cynaliadwyedd | |
| 4. | **AC O DDEWISIADAU AMGEN** | **54** |
| | Cyflwyniad<br>Asesiad Dewisiadau Amgen Mewn AC/AAS<br>Canfyddiadau’r AC a’r Rhesymau Dros Ddewis/Wrthod Dewisiadau Amgen yn y Cynllun | |
| 5. | **AC O’R HOFF STRATEGAETH (2013)** | **89** |
| | Cyflwyniad<br>Datblygu’r Weledigaeth: Cydweddoldeb yn Erbyn Fframwaith yr AC<br>Amcanion Strategol<br>AC o’r Polisiau Strategol a Ffefrir | |
| 6. | **AC O’R CYNLLUN ADNEUO & NEWIDIADAU FFOCWS** | **114** |
| | Cyflwyniad<br>Y Weledigaeth a’r Amcanion<br>AC o’r Cynllun Adneuo A Newidiadau Ffocws<br>Rhyngweithiad â Cynlluniau a Phrosiectau Perthnasol Eraill (Effeithiau Rhwng-Cynlluniau) | |
| 7. | **AC O NMC AC ARGYMHELLION YR AROLYGYDD** | **143** |

AC o'r NMC
AC o'r NMC Pellach ac Argymhellion yr Arolygydd

**8. MONITRO** **145**

Cyflwyniad
Datblygu'r Fframwaith Monitro

**ATODIAD 1 -** YMATEB I'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS
**ATODIAD 2 –** DIWYGIADAU I'R ADRODDIAD CWMPASU
**ATODIAD 3** – DIWEDDARIAD O'R GWAELODLIN AC AROLWG O GYNLLUNIAU A RHAGLENNI
**ATODIAD 4 –** ASESIAD O AMCANION Y CDLL
**ATODIAD 5 –** AC O'R OPSIYNAU GOFODOL
**ATODIAD 6 –** AC O'R OPSIYNAU TYFIANT
**ATODIAD 7** – AC O'R OPSIYNAU SAFLEOEDD
**ATODIAD 8 –** AC O'R POLISIAU STRATEGOL
**ATODIAD 9** – AC O'R NEWIDIADAU FFOCWS
**ATODIAD 10** – AC O'R NMC AC ARGYMHELLION YR AROLYGYDD

# 1. CYFLWYNIAD

### Cefndir

1.1 Adroddiad Arfarniad Cynaladwyedd (AC) terfynol yw'r ddogfen hon o Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl) Adnau Môn a Gwynedd. Yn unol â chanllawiau'r llywodraeth, mae'r AC hefyd yn ymgorffori'r gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) dan Gyfarwyddeb y UE 2001/42/EC. Mae'n esbonio sut y cynhaliwyd y gwerthusiad a sut mae'r broses wedi helpu i ddatblygu fersiwn terfynol o'r Cynllun . Mae'n cynnwys asesiad o weledigaeth, amcanion opsiynau strategol, opsiynau safleoedd a pholisiau y CDLl ar y Cyd. Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi'r holl waith gwerthuso sydd wedi'i gyflawni.. Comisiynoddd y Cyngor Enfusion Ltd i gynorthwyo i gynnal yr AC.

### Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl) Môn a Gwynedd

1.2 Y mae'r gofyniad i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) gynhyrchu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cael ei nodi yn Rhan 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004. Cynllun defnydd tir yw'r CDLl, sydd yn amodol ar archwiliad annibynnol, a fydd yn creu'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal mewn awdurdod lleol at ddibenion y Ddeddf. Mae'n cynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisiau ardal-eang ar gyfer mathau datblygu, dyraniad tir, ble bo angen polisiau a chynigion ar gyfer prif ardaloedd allweddol o newid a gwarchodaeth. Caiff polisiau a dyraniadau eu nodi yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sydd yn ffurfio rhan o'r Cynllun.

1.3 Penderfynodd Bwrdd Cyngor Gwynedd ynghyd â Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn paratoi un CDLl ar y cyd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn. Pan fydd y CDLl ar y Cyd yn cael ei fabwysiadu bydd yn cymryd lle'r Cynlluniau Datblygu a welir yn y tabl isod. Bydd hefyd yn cymryd lle Cynllun Datblygu Unedol Ynys Môn (a ddaeth i ben yn 2005) sy'n ystyriaeth gynllunio berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio gan Gyngor Sir Ynys Môn.

**Tabl 1: Rhestr o'r Cynlluniau Datblygu fydd yn cael eu disodli pan gaiff y CDLl ar y Cŷd ei fabwysiadu**

| Ardal Awdurdod Cynllunio Ynys Môn | Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd |
|---|---|
| • Cynllun Fframwaith Gwynedd 1993) | • Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd (2009) |
| • Cynllun Lleol Ynys Môn (1996) | |

DRAFT

1.4 Pan gaiff y CDLl ei fabwysiadu, fe fydd y mwyafrif o benderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn y ddwy ardal yn cael eu seilio ar gynnwys y CDLl.

1.5 Yn unol â Deddf Cynllunio (2004) mae'n ofynnol i'r holl CDLlau fod yn ddibynno, ar Arfarniad Cynaladwyedd (AC). Mae hefyd angen Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) o dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC yn seiliedig ar yr asesiad o gynlluniau a rhaglenni penodol ar yr amgylchedd.

**Asesiad Cynaladwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)**

1.6 Mae Arfarnu Cynaladwyedd i'r CDLl yn ofynnol o dan y Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol, 2004. Mae AC yn ymdrin ag effeithiau cymdeithasol ac economaidd y CDLl ynghyd â rhai amgylcheddol. Mae Arfarnu Cynaladwyedd yn ceisio sicrhau fod polisiau a chynigion y CDLl yn cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.

1.7 Pum egwyddor allweddol strategaeth datblygu cynaladwy presennol Llywodraeth y DU 'Diogelu'r Dyfodol' (Mawrth 2005) yw:

- Byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol
- Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyflawn
- Cyflawni economi gynaladwy
- Hyrwyddo llywodraethu da
- Defnyddio gwyddoniaeth gadarn yn gyfrifol

1.8 I Gymru mae'r amcanion hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cymru (LIC) 'Cymru'n: Cenedl Un Blaned'; (Mai 2009) sy'n diffinio datblygiad cynaladwy yn y termau a ganlyn: *"datblygiad sydd yn bodloni anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain."*

**Datblygu Cynaliadwy yng Nghymru**

Yng Nghymru, mae datblygiad cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymdeithasau gan ennyn gwell ansawdd bywyd ar gyfer eich cenhedlaeth chi a'r dyfodol.

- Mewn ffordd sydd yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; ac
- Mewn ffyrdd sydd yn mwyhau'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau – gan ddefnyddio dim ond swm teg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth diwylliannol.

1.9 Mae AAS yn broses i sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n deillio o gynlluniau a rhaglenni yn cael eu hadnabod, eu hasesu, eu lliniaru, a'u cyfathrebu i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau ac yna'u monitro. Mae'r broses AAS yn ystyried effeithiau positif a negyddol cynlluniau

DRAFT

a'u polisiau, ac mae'n cael ei ddefnyddio i hysbysu a hwyluso mesurau amgylcheddol pro-actif.

1.10 Daeth y Gyfarwyddeb AAS i rym ar 21 Gorffennaf 2004. Y mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn angenrheidiol i bob corff cyhoeddus ymgymeryd ag AAS o'u cynlluniau a'u rhaglenni pan fo tebygolrwyddd o effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd ac/neu pan fo fframwaith wedi ei sefydlu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol. Golyga hyn ei bod yn angenrheidiol i'r CDLl fod yn destun Asesiad.

1.11 Mae'n ceisio: *"…darparu amddiffyniad uchel dros yr amgylchedd a chyfrannu tuag at integreiddio ystyriaethau amgylcheddol i mewn i baratoi a mabwysiadu cynlluniau a rhaglenni gyda golwg i hyrwyddo datblygiad cynaladwy, drwy sicrhau bod, yn unol â'r Gyfarwyddeb hon, asesiad amgylcheddol yn cael ei gynnal o gynlluniau a rhaglenni penodol sydd yn debygol o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd." (Erthygl 1).*

1.12 Mae Rheoliadau AAS yn gofyn i faterion amygylcheddol diffiniedig gael eu cynnwys yn y broses asesu sef:

- Bioamrywiaeth
- Poblogaeth
- Iechyd Pobl
- Ffawna
- Fflora
- Pridd
- Dŵr
- Aer
- Ffactorau Hinsawdd
- Asedau Materol
- Treftadaeth Ddiwylliannol
- Tirwedd
- Y gydberthynas rhwng yr uchod

1.13 Cynghora Llywodraeth Cymru fod yn well ymgorffori anghenion y Gyfarwyddeb AAS yn yr Arfarniad Cynaladwyedd yng nghyswllt cynlluniau datblygu. Gellir diwallu gofynion statudol y ddau asesiad mewn un broses integredig Arfarniad Cynaladwyedd. Er mwyn bodloni gofynion yr Arfarniad Cynaladwyedd, mae gan yr adroddiad hwn ffocws ehangach nag agweddau amgylcheddol, a chynhwysir yn ychwanegol, data cymdeithasol ac economaidd.

**Yr allbynnau o'r Broses Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) hyd yma**

1.14 Mae'r broses AC ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLl ar y Cyd) wedi cynhyrchu'r adroddiadau canlynol hyd yma:

DRAFT

- **Adroddiad Cwmpasu Gorffennaf 2011** (sy'n rhoi crynodeb o Gam A), y dylid ei ddefnyddio i ymgynghori ar gwmpas yr AC/Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 21/07/2011 am gyfnod o saith wythnos. Rhoddwyd hysbysiad mewn papurau newydd lleol a oedd yn cyflwyno gwybodaeth am y cyfnod ymgynghori ac yn estyn gwahoddiad i unrhyw un â diddordeb gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar yr Adroddiad.
- Cyhoeddwyd **Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol Drafft Gorffennaf 2012** (sy'n nodi camau A i B) – ar wefannau'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2012
- **Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol Mai 2013**) (sy'n nodi camau A i C). Roedd yr adroddiad hwn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ochr yn ochr â'r Hoff Strategaeth, am gyfnod o 7 wythnos.
- **Adroddiad Adnau Arfarniad Cynaliadwyedd Chwefror 2015** (sy'n dogfennu Cyfnodau A i D). Cyflwynwyd yr adroddiad hwn ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau, am gyfnod o 7 wythnos.
- **Adroddiad Arfarnu Cynaladwyedd Newidiadau â Ffocws ac Adnau** (yn dogfennu camau A i D). Fe wnaeth yr adroddiad hwn yn gyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau a Newidiadau â Ffocws ar eu cyflwyniad i Lywodraeth Cymru.
- **Arfarniad Cynaladwyedd o Newidiadau Materion sy'n Codi Rhagfyr 2016** ystyriwyd diwygiadau arfaethedig i'r CDLl yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau ar y Newidiadau Ffocws yn ogystal â gwaith pellach o ran opsiynau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, datblygiad ynni adnewyddol ac i ymateb i sylwadau'r Arolygydd yn ystod y cyfnod Cyn-Gwrandawiad o'r Archwiliad.
- **Adroddiad Adendwm Cynaladwyedd (Gorffennaf 2016)** ystyriwyd diwygiadau arfaethedig i'r CDLl a gododd o ganlyniad i'r materion a drafodwyd yn ystod y sesiynau gwrandawiadau.
- **Adrodddiad Arfarniad Cynaladwyedd Terfynol Gorffennaf 2017** (yr adroddiad hwn) Mae'r adroddiad hwn yn mynd gyda fersiwn mabwysiedig terfynol o'r CDLl.

DRAFT

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

1.15 Ochr yn ochr â'r broses AC, roedd yn angenrehidiol ymgymeryd ag Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ArhC) of CDLl. Y nod trawsfwaol yw i bennu, gan edrych ar amcanion cadwraeth a nodweddion cymwys safle, os y cai'r cynllun, unai yn unigol/ neu mewn cyfuniad gyda chynlluniau eraill effaith andwyol ar hygrededd safle Natura 2000 (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig a Safleoedd Ramsar).

1.16 O fewn Ardal Cynllun Gwynedd ac Ynys Môn, mae 25 o safleoedd wedi eu dynodi ar lefel Ewropeaidd am eu pwysigrwydd i gadwraeth natur o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Yn ychwanegol, mae'n rhaid i'r Cyngor yn canfod

a oes Safleoedd Ewropeaidd o fewn awdurdodau cyfagos y gallai'r CDLl effeithio'n andwyol ar eu cyfanrwydd.

1.17 Mae'r Atodiad i NCT 5 (2009) sydd yn amlinellu sut y dylai'r Rheoliadau Cynefinoedd gael eu gweithredu mewn cysylltiad â CDLl ar y Cyd, yn nodi::

*"Ni ddylai [Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd] gael eu hymgorffori i mewn i AC neu AAS. Dylent gael eu rhedeg law yn llaw gyda'r prosesau hyn…" (Ychwanegiad 6, paragraff 1.5)*

1.18 Fodd bynnag, nid yw'r arweiniad yn nodi y gellir gwneud yr adrodd ochr yn ochr gyda'r AC os yw wedi arwyddo'n glir. Wrth i'r cynllun datblygu, roedd yr AC a'r HRA yn cael eu cysylltu er mwyn sicrhau fod y polisiau CDLl yn cael eu datblygu i ystyried effeithiau'r Cynllun ar y safleoedd Natura 2000. Enfusion Cyf ymgymerodd â'r gwaith ARhC ac fe gafoddhwn ei gyflwyno ochr yn ochr fersiwn o'r adroddiad AC hwn a'r CDLl Drafft Adnau i Lywodraeth Cymru.

1.19 Canfu sgrinio'r CDLl ar y Cyd Adnau ei bod yn annhebygol y byddai mwyafrif y polisïau neu ddyraniadau safle arfaethedig o fewn y CDLl ar y Cyd Adnau yn cael effaith sylweddol ar safleoedd Ewropeaidd. Roedd nifer o resymau dros hyn, gan gynnwys: nid yw'r mwyafrif o'r polisïau o reidrwydd yn cynnig datblygu, ond yn hytrach yn cefnogi rhai mathau o ddatblygiadau ac yn nodi meini prawf ar gyfer penderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio. Mae nifer o'r polisïau hefyd yn cynnwys mesurau diogelu sy'n ceisio gwarchod bioamrywiaeth neu sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynnig am ddatblygiad gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae hyn, ynghyd â'r mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisïau'r CDLl ar y Cyd Adnau, gan gynnwys Polisi Strategol PS16 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) - sy'n ceisio rheoli datblygiad i gadw a, lle bo hynny'n bosibl, gwella'r amgylchedd naturiol drwy ddiogelu safleoedd Ewropeaidd a bioamrywiaeth ehangach - yn helpu i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd Ewropeaidd.

1.20 Hefyd ystyriodd yr asesiad sgrinio effeithiau posibl y CDLl ar y Cyd Adnau yn gyffredinol, yn ogystal ag ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill. Daeth i'r casgliad bod y CDLl ar y Cyd Adnau yn annhebygol o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill o ganlyniad i lygredd atmosfferig, mwy o aflonyddwch, colli neu ddarnio cynefin, ac ansawdd a lefelau dŵr is. Roedd y canfyddiadau hyn yn amodol ar y sylwadau ymgynghori a chyngor gan CNC a rhanddeiliaid ehangach.

1.21 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y CDLl ar y Cyd Adnau, gwnaeth y Cynghorau nifer o newidiadau i'r Cynllun. Cafodd y newidiadau hyn eu sgrinio a chanfuwyd nad oeddynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r Sgrinio ARhC i'r CDLl ar y Cyd Adnau. Felly, daethpwyd i'r casgliad nad oedd y CDLl ar y Cyd yn debyg o gael effeithiau sylweddol ar unrhyw safleoedd

DRAFT

Ewropeaidd naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd. Mae copi o'r Adroddiad ARhC diweddaraf ar gael mewn dogfen ar wahan.

**Asesiadau Eraill**

1.22 Roedd y CDLl ar y Cyd hefyd yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC). Mae AEC y CDLl ar y Cyd yn ofyniad cyfreithiol dan Ddeddf Cydraddoldeb [2010] a Deddf yr Iaith Gymraeg [1993]. Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn declyn sy'n cynorthwyo awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r Cyngor yn gwahaniaethu a'u bod yn hyrwyddo cydraddoldeb ble bynnag y bo modd ac yn meithrin perthnasau cymunedol da. Mae cynnal AEC yn cynnwys asesu effeithiau tebygol polisïau ar bobl o ran anabledd, rhyw, hil, iaith, oedran, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd neu gred.

1.23 Cynhaliwyd Asesiad Effaith Iechyd (AEI) y CDLl ar y Cyd hefyd. Teclyn yw'r AEI y gellir ei ddefnyddio i asesu effaith iechyd datblygiad ffisegol, newid arfaethedig i gyflwyniad gwasanaeth neu bolisi neu strategaeth. Y nod yw cael gwared ag unrhyw effeithiau negatif posib ar iechyd a lles pobl, neu eu lleddfu, ac i uchafu'r cyfleoedd i helpu pobl i wella'u hiechyd. Er bod y prif faterion iechyd yn cael eu cyflwyno'n dda yn y Fframwaith AC cynhaliwyd yr AEI fel ymarfer ar wahân i'r AC. Mae'n seiliedig ar fethodoleg 'Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau: Arweiniad Ymarferol i Asesu'r Effaith ar Iechyd' - arweiniad Cymru i'r AEI. (Llywodraeth Cynulliad Cymru a Her Iechyd Cymru, Gwella Iechyd a Lleihau Anghydraddoldebau: Arweiniad ymarferol i asesu'r effaith ar iechyd, 2004). Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn wedi datblygu teclyn Asesu Iechyd a Lles a gafodd ei ddefnyddio i asesu'r CDLl ar y Cyd.

1.24 Yn olaf cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) ar gyfer y CDLl ar y Cyd. Y mae AEIG yn caniatáu adnabod yr effeithiau posib ar yr iaith Gymraeg a allai ddod yn sgil datblygiad. Cynhaliwyd yr AEIG fel ymarfer ar wahân i AC y CDLl ar y Cyd. Mae casgliadau'r asesiadau a enwir uchod i gyd wedi hysbysu'r broses AC.

**Strwythur yr Adroddiad AC**

1.25 Cyflwynir yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

- Mae Adran 2 yn esbonio'r ymagwedd ar gyfer yr AC ac yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod pob cam a phob elfen o'r gwaith o ddatblygu'r CDLl ar y Cyd,
- Mae Adran 3 yn disgrifio nodweddion ardal y Cynllun Lleol a materion pwysig, gan gyflwyno'r amodau gwaelodlin a'r cyd-destun polisi, ynghyd â syniad o sut y gallai'r ardal ddatblygu heb y CDLl ar y Cyd.
- Mae Adran 4 yn disgrifio'r dewisiadau wrth lunio cynlluniau ac asesiad amgen yn yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS).

DRAFT

- Mae Adran 5 yn nodi canfyddiadau'r AC o'r Hoff Strategaeth yn 2013;
- Mae Adran 6 yn cyflwyno canfyddiadau'r AC o'r Cynllun Adnau sy'n datblygu ac yn ystyried y Newidadau Ffocws arfaethedig;
- Mae Adran 7 yn cyflwyno canfyddiadau'r AC o'r Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC) ac argymhellion yr Arolygydd.
- Mae Adran 8 yn darparu disgrifiad o'r mesurau monitro arfaethedig;


DRAFFT

## 2. METHODOLEG YR ARFARNIAD CYNALADWYEDD

### Cyflwyniad

2.1 Mae'r adran yma yn nodi'r dull bras a'r fethodoleg ar gyfer y broses AC/AAS, gan gynnwys asesiad o'r opsiynau strategol, polisiau a safleoedd sydd wedi eu dynodi. Dengys Ffigwr 2.1 isod sut y roedd y broses AC/AAS yn integreiddio â phob cam o'r broses CDLl ar y Cyd.

**Ffigwr 2.1: Y berthynas rhwng y broses AC/AAS a'r CDLl[1]**




D.S. Dylid paratoi'r cynllun, cynnal yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r ymgynghoriad mewn modd integredig.

### Camau yn y Broses AC/AAS

2.2 Mae pump prif ran yn y broses AC/AAS ac mae gan bob cam dasgau allweddol i'w cyflawni fel yr amlinellir yn nhabl 2.1 isod:

[1] LLCC (2006) Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol. Cyflwyniad i'r Arfarniad o Gynaliadwyedd gan Ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS), Rhan B, tud 19

**Tabl 2.1: Camau allweddol a'r tasgau yn y broses AC**

| Cam AC | Tasgau Allweddol |
|---|---|
| **Cam A** Gosod y cyd-destun a sefydlu'r waelodlin a phenderfynu ar y cwmpas | • Adnabod cynlluniau, rhaglenni ac amcanion perthnasol eraill i ddiogelu'r amgylchedd (Tasg A1)<br>• Casglu gwybodaeth gwaelodlin (Tasg A2)<br>• Adnabod materion a phroblemau cynaliadwyedd (Tasg A3)<br>• Datblygu Fframwaith AC (Tasg A4)<br>• Paratoi ac ymgynghori ar gwmpas yr AC (Tasg A5) |
| **Cam B** Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effeithiau | • Profi'r cynllun neu amcanion y rhaglen yn erbyn y Fframwaith AC (Tasg B1)<br>• Datblygu opsiynau'r CDLl (Tasg B2)<br>• Rhagweld effeithiau'r CDLl (Tasg B3)<br>• Cloriannu effeithiau'r CDLl (Tasg B4)<br>• Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau niweidiol ac uchafu buddion  (Tasg B5)<br>• Cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol (Tasg B6) |
| **Cam C** Paratoi'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd | • Paratoi'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd [Amgylcheddol] (Tasg C1) |
| **Cam D** Ymgynghori a gwneud penderfyniadau | • Ymgynghori ar y cynllun drafft neu raglen a'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd [Amgylcheddol] (Task D1)<br>• Gwerthuso newidiadau sylweddol (yn cynnwys o'r cyflwyniadau) (Task D2)<br>• Gwneud penderfyniadau a darparu gwybodaeth (Task D3) |
| **Cam E** Monitro gweithrediad y cynllun neu'r rhaglen | • Cwblhau'r amcanion a'r dulliau ar gyfer monitro (Tasg E1)<br>• Ymateb i effeithiau niweidiol (Tasg E2) |

**Grŵp Tasg Cynaladwyedd**

2.3 Sefydlodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd grŵp gorchwyl mewnol i ddarparu mewnbwn arbenigol i AC y CDLl ar y cyd. Roedd y grŵp gorchwyl yn cynnwys nifer o swyddogion o wahanol adrannau'r ddau Gyngor. Dewiswyd pob swyddog i ddarparu mewnbwn ar agweddau gwahanol o broses yr AC/AAS, yn ôl eu maes arbenigol penodol. Defnyddwyd y mewnbwn gan y grŵp gorchwyl i hysbysu camau gwahanol o'r AC.

DRAFT

**Cwmpasu'r Prif Faterion Cynaliadwyedd a'r Fframwaith AC**

2.4 Yn ystod camau cynnar y gwaith o baratoi'r Cynllun Lleol yn 2007, cafodd cynlluniau a rhaglenni perthnasol eu hadolygu, a chafodd gwybodaeth waelodlin ei chasglu a'i dadansoddi gan Swyddogion, i'w helpu i nodi'r materion, y problemau a'r cyfleoedd ar gyfer yr ardal (cyflwynir manylion pellach yn Adran 3 y ddogfen hon). Cyflwynwyd manylion y dadansoddiad hwn yn yr Atodiadau technegol i'r Adroddiad Cwmpasu Gorffennaf 2011.[2]

2.5 Cafodd Fframwaith o Amcanion yr AC a chwestiynau a fyddai'n hwyluso penderfyniadau eu datblygu o'r prif faterion a nodwyd yn 2011, fel rhan o'r gwaith cwmpasu. Mae'r fframwaith hwn yn ceisio hyrwyddo a/neu ddiogelu ffactorau cynaliadwyedd sy'n berthnasol i ardal y Cynllun Lleol a'r amserlen ar gyfer ei weithredu. Mae'n ffurfio'r sail ar gyfer arfarnu elfennau o'r CCLl ar y Cyd, wrth iddynt gael eu datblygu, gan ddefnyddio asesiad meintiol ac ansoddol o'r sylfaen dystiolaeth a barn broffesiynol.

2.6 Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn cyflwyno'r broses a gynhaliwyd, a chafodd ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Gorffennaf 2011 am gyfnod o 7 wythnos. Rhoddwyd hysbysiad mewn papurau newydd lleol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y cyfnod ymgynghori ac yn estyn gwahoddiad i unrhyw un â diddordeb gyflwyno sylwadau ysgrifenedig am yr Adroddiad. Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar yr Adroddiad Cwmpasu, cofrestrwyd 10 o sylwadau a oedd yn codi mwy na 100 o faterion.

2.7 Derbyniodd y Grŵp Gorchwyl Cynaliadwyedd, a gyfarfu ar 08 Medi 2011, arsylwadau hefyd ar gynnwys yr Adroddiad Cwmpasu, a chafodd y rhain eu hystyried a'u cofrestru fel sylwadau. Mae ymateb y Cyngor i'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac unrhyw ddiwygiadau dilynol a wnaed i'r Adroddiad Cwmpasu wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad hwn.

2.8 Cyflwynir Fframwaith yr AC o Amcanion, Cwestiynau sy'n Hwyluso Penderfyniadau a Dangosyddion Posibl, a ddiwygiwyd o ganlyniad i ymgynghoriad statudol a chyhoeddus yn y tabl canlynol (*yn cynnwys croesgyfeiriadau mewn llythrennau italig ar gyfer y pynciau yng Nghyfarwyddeb yr AAS)*:

[2] https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%C3%AFau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Cynllun-Datblygu-Lleol-ar-y-Cyd/Asesiadau-ac-Arfarniadau.aspx



DRAFT

**Fframwaith yr Arfarniad Cynaliadwyedd**

**Tabl 2.2: Y Fframwaith AC**

**Fframwaith Amcanion yr AC**

**1. Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd**
***(Pynciau AAS: bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd)***

A fydd y cynllun yn...

- Amddiffyn cyfanrwydd safleoedd dynodedig (rhyngwladol, cenedlaethol a lleol), ac osgoi cynefinoedd / rhywogaethau tameidiog
- Diogelu a mwyhau cynefinoedd bywyd gwyllt ar y tir ac yn y môr (yn cynnwys yr ased coetiroedd sylweddol a geir yn ardal y cynllun), a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig a threfol
- Cynnal a gwella'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd
- Diogelu a mwyhau'r safleoedd daearegol dynodedig a'r ddaear amrywiaeth ehangach
- Cynnal a mwyhau swyddogaeth chysylltedd ecolegol

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- Y bioamrywiaeth a gollir drwy ddatblygiadau, a fesurir gan y safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl ar y Cyd a gollir neu yr effeithir arnynt
- Colled net y bioamrywiaeth yn ardal y CDLl a achosir gan ddatblygiadau
- % y nodweddion (amrywiol fathau) mewn cyflwr addawol, yn rhai ar dir ac yn y môr
- Cyrhaeddiad amcanion a thargedau y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (y DU, gwlad benodol / rhanbarthol / lleol)
- Tueddiadau a statws rhywogaethau / cynefinoedd Adran 42 NERC 2006
- Nifer ac arwynebedd y Safleoedd Cadwraeth Natur Arbennig (SINCs) a'r GNLl o fewn y Cynllun

**2. Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant ac iechyd a lles cymunedol**
***(Pynciau AAS: iechyd bodau dynol, y boblogaeth)***

A fydd y cynllun yn...

- Bodloni anghenion poblogaeth sy'n heneiddio
- Lleihau nifer y bobl mewn oed gwaith sy'n allfudo er mwyn cefnogi cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran y boblogaeth
- Gwella'r ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau i gymunedau difreintiedig ac ardaloedd gwledig a gwella mynediad atynt.
- Hyrwyddo rhyngweithio cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol
- Cael gwared ar rwystrau a chreu cyfleoedd i bobl fyw bywydau iachach, e.e. hyrwyddo ymarfer corff (cerdded, beicio)
- Lleihau'r anghydraddoldeb iechyd rhwng ardaloedd a grwpiau cymdeithasol

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- % y boblogaeth gyfan sydd â mynediad at wasanaethau allweddol
- mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. pobl dros eu pwysau,

DRAFT

| **Fframwaith Amcanion yr AC** |
|---|
| gordewdra) – Arolwg Iechyd Cymru |
| **3. Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu** <br> ***(Pynciau AAS: ffactorau hinsawdd, aer)*** |
| A fydd y cynllun yn... <br> ▪ Lleihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth, adeiladau a phrosesau cynhyrchu ynni <br> ▪ Cefnogi ac annog datblygiadau newydd sy'n ynni effeithlon ac sy'n medru gwrthsefyll newid hinsawdd <br> ▪ Integreiddio a hyrwyddo ynni adnewyddadwy a chynlluniau ynni carbon isel, ar lefel leol a chymunedol, a chynyddu'r galw am ynni a gyflenwir gan ffynonellau carbon isel <br> ▪ Sicrhau y cynllunnir am addasiadau mewn ffordd sy'n gwneud y mwyaf o gyfleoedd ac sy'n isafu'r costau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd |
| **Dangosyddion Arfaethedig:** <br> ▪ % y newid mewn allyriadau carbon deuocsid o'r sectorau diwydiant / masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd, newid mewn defnydd tir a choedwigaeth |
| **4. Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg** <br> ***(Pynciau AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol)*** |
| A fydd y cynllun yn... <br> ▪ Gwarchod a mwyhau'r cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg |
| **Dangosyddion Arfaethedig:** <br> ▪ Nifer / % y siaradwyr Cymraeg |
| **5. Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol** <br> ***(Pynciau AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol)*** |
| A fydd y cynllun yn… <br> ▪ Sicrhau y gwarchodir asedau hanesyddol, archeolegol a diwylliannol lleol (yn cynnwys eu gwarchod rhag datblygiadau newydd), ac y gwneir y mwyaf ohonynt er budd trigolion ac ymwelwyr <br> ▪ Hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol er dibenion addysg a thwristiaeth / datblygiad economaidd |
| **Dangosyddion Arfaethedig** <br> ▪ Nifer / newid yn yr adeiladau / asedau hanesyddol mewn perygl |
| **6. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol** <br> ***(Pynciau AAS: Poblogaeth)*** |
| A fydd y cynllun yn... |

DRAFT

**Fframwaith Amcanion yr AC**

- Hyrwyddo a hwyluso buddsoddiad i fusnesau lleol ar draws amrywiaeth o sectorau economaidd
- Gwella a mwyhau cyfleoedd cyflogaeth, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig
- Cefnogi'r diwydiant twristiaid drwy wneud gwelliannau amgylcheddol a gwella'r seilwaith, a chynorthwyo i wella adnoddau a seilwaith presennol
- Darparu mynediad at gyfleoedd am hyfforddiant, addysg a datblygu sgiliau i bob sector yn y gymuned

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- Gweithgarwch economaidd fesul sector
- Statws cyflogaeth trigolion 16 mlwydd oed a throsodd
- Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn ac allan o ardaloedd yr awdurdod

**7. Darparu tai cynaladwy, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol**
***(Pynciau AAS: y boblogaeth, iechyd bodau dynol)***

A fydd y cynllun yn...

- Gwella ansawdd ac argaeledd y stoc tai presennol ar gyfer cymunedau difreintiedig
- Cyflwyno mwy o dai fforddiadwy a chynaliadwy gyda'r effaith leiaf bosib ar yr amgylchedd mewn ardaloedd gwledig a threfol
- Cyflwyno tai addasadwy sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol y cymunedau

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd / blwyddyn fel canran o'r holl unedau newydd

**8. Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun**
**(Pynciau AAS: y dirwedd)**

A fydd y cynllun yn...

- Gwarchod a mwyhau nodweddion arbennig y dirwedd yn ardal y cynllun, yn cynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, y dirwedd arfordirol / morol a threfweddau
- Gwarchod a gwella ansawdd y mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn amgylchedd gwledig ac adeiledig
- Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u hintegreiddio'n briodol a sensitif gyda chymeriad y dirwedd a'r drefwedd yn ardal y cynllun

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- Cyfran y tirwedd o ansawdd uchel / uchel iawn a nodir gan LANDMAP
- Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE
- Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio'n bwysig gan LANDMAP

DRAFT

| Fframwaith Amcanion yr AC |
|---|
| |
| **9. Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu** ***(Pynciau AAS: asedau deunyddiau, pridd)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Blaenoriaethu datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes / tir llwyd addas heb effeithio ar fioamrywiaeth, asedau treftadaeth hanesyddol na'r dirwedd<br>▪ Gwarchod ansawdd y pridd (y tir gorau a'r tir mwyaf amlbwrpas)<br>▪ Hyrwyddo adfer tir wedi'i halogi ac osgoi / lleihau achosion o halogi pridd<br>▪ Lleihau'r swm o wastraff a grëir a chefnogi symud tuag at hierarchaeth rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer datblygiadau presennol a newydd (yn cynnwys trwy rwydwaith gynaliadwy o gyfleusterau rheoli)<br>▪ Diogelu swyddogaethau priddoedd sy'n cynnwys lliniaru llifogydd ac atafaeliad carbon.<br>▪ |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ % / cyfran y datblygiadau ar dir a ddatblygwyd eisoes<br>▪ % y gwastraff bwrdeistrefol a yrrir i safleoedd tirlenwi<br>▪ % y gwastraff bwrdeistrefol a ailddefnyddir / ailgylchir<br>▪ Arwynebedd pridd eliedig a'r arwynebedd o briddoedd carbon uchel / organig sy'n cael eu datblygu |
| **10. Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth a rhyngrwyd da i gefnogi'r gymuned a'r economi** ***(Pynciau AAS: y boblogaeth, iechyd bodau dynol)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Gwella hygyrchedd mewn ardaloedd lleol, drwy gysylltu rhwydweithiau cludiant (cludiant cyhoeddus a heb gerbyd) â'r canolfannau gwasanaethu<br>▪ Lleihau'r angen am deithio mewn ceir preifat, drwy wella'r seilwaith cludiant cyhoeddus<br>▪ Blaenoriaethu hygyrchedd drwy gael opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Dull o deithio i'r gwaith - % y boblogaeth sy'n gweithio sy'n teithio mewn car<br>▪ Canran y datblygiadau preswyl newydd ble y gellir cyrraedd cyfleusterau o fewn taith 30 munud ar gludiant cyhoeddus<br>▪ Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau drwy gludiant cyhoeddus, cerdded a beicio<br>▪ % y cynnydd yn y rhwydwaith seiclo<br>▪ Cyfran y ffynonellau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur<br>▪ Nifer o gyfleusterau ailwefru electronig a ffynonnellau tanwydd hydrogen sydd ar gael. |

DRAFT

**Fframwaith Amcanion yr AC**

**11. Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr ac isafu'r risg o lifogydd**
***(Pynciau AAS: dŵr, bioamrywiaeth)***

A fydd y cynllun yn...

- Sicrhau bod ansawdd dŵr mewn afonydd, llynnoedd, dŵr daear a dyfroedd arfordirol yn cael ei warchod a'i wella
- Isafu'r llygredd tryledol o ardaloedd gwledig a threfol
- Gwarchod a mwyhau'r adnoddau dŵr a chefnogi integreiddiad mesurau effeithlonrwydd dŵr ymhob datblygiad newydd
- Isafu'r risg o bob math o lifogydd (llanw, afonol, dŵr daear a charthffosiaeth) i bobl ac eiddo drwy gynllunio'n briodol a dylunio cynaliadwy
- Hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr a mesurau addasu mewn datblygiadau newydd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd (e.e. SUD)
- Hwyluso datblygiadau ar diroedd nad ydynt mewn perygl o lifogydd

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- % [neu nifer neu gyfradd o'r cyfanswm] o ddatblygiadau newydd sydd â systemau draenio cynaliadwy
- % y cyrff dŵr sy'n meddu ar statws ecolegol da neu â'r potensial i fod â statws ecolegol da
- cyfradd / nifer terfynol y datblygiadau sydd ym mharthau C1 ac C2 (yn unol â diffiniad NCT 15)

DRAFT

**Dull yr AC**

2.9 Mae'r Fframwaith AC hwn yn sail i'r broses o werthuso'r opsiynau strategol ar gyfer y lefel a'r dosbarthiad o dwf, yr opsiynau rhesymol ar gyfer safleoedd a pholisïau o 2012 i 2015. Cafodd y wybodaeth sylfaenol a'r adolygiad o'r cynlluniau a rhaglenni eu diweddaru yn 2013 a 2014; roedd y materion a'r problemau cynaliadwyedd ar gyfer y Cynllun Lleol yn parhau'r un fath, ac ystyriwyd bod y Fframwaith AC yn berthnasol o hyd, ac fe gafodd ei gadw at ddibenion parhad arfarnu. Mae'r crynodeb o'r wybodaeth waelodlin a'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni yn Adran 3, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

2.10 Yn ystod camau cynnar y gwaith o baratoi'r AC a'r Cynllun Lleol yn 2011-2013, defnyddiodd yr AC system o symbolau i gynrychioli canfyddiadau'r AC ar gyfer gwahanol elfennau o'r cynllun a oedd yn datblygu, sef:

**Tabl 2.3 Allwedd Dadansoddiad Cydweddoldeb o Weledigaeth ac Amcanion (2012)**

| | |
|---|---|
| ✓ | Yn Gydnaws â'r Amcanion |
| ✗ | Yn Anghydnaws â'r Amcanion |
| +/- | Ystod o ganlyniadau positif a negyddol posibl |

| | |
|---|---|
| **-** | Dim perthynas |

Ar gyfer arfarnu opsiynau a pholisïau strategol:

**Tabl 2.4: Allwedd yr AC i Natur ac Arwyddocâd Effeithiau (2011-2013)**

| | |
|---|---|
| **++** | Positif Mawr |
| **+** | Positif Bach |
| **0** | Effaith Niwtral |
| **+/-** | Ystod o ganlyniadau positif a negatif posibl |
| **-** | Negyddol Bach |
| **--** | Negyddol Mawr |

2.11 Gwnaed diwygiadau i'r allwedd arwyddocâd ym mis Mai 2014, er mwyn esbonio effeithiau cynaliadwyedd y CDLl ar y cyd yn gliriach. Cyflwynir yr allwedd arwyddocâd diwygiedig ar gyfer yr AC o'r dyraniadau safleoedd posibl yn Nhabl 2.5 isod:

**Tabl 2.5: Allwedd Arwyddocâd Diwygiedig (2014-2015)**

| **Categorïau Arwyddocâd** | | |
|---|---|---|
| **Symbol** | **Ystyr** | **Effaith ar Gynaliadwyedd** |
| **--** | Negyddol Mawr | Problemus ac annhebygol oherwydd materion cynaliadwyedd hysbys; mesurau lliniaru yn debygol o fod yn anodd a/neu ddrud |
| **-** | Negyddol Bach | Materion cynaliadwyedd posibl: materion lliniaru a/neu drafodaeth yn bosibl |
| **+** | Positif Bach | Dim cyfyngiadau o ran cynaliadwyedd ac mae'r datblygiad yn dderbyniol |
| **++** | Positif Mawr | Anogir y datblygiad oherwydd byddai'n datrys problem gynaliadwyedd bresennol |
| **?** | Ansicr | Effeithiau Ansicr neu Anhysbys |
| **0** | Niwtral | Effaith Niwtral |
| **-**   **+** | Mae rhai o Amcanion yr AC yn ystyried mwy nac un pwnc ac, oherwydd hyn, gallai'r cynllun gael effeithiau gwahanol ar bob pwnc sy'n cael ei ystyried. Er enghraifft, mae Amcan 2 yn gysylltiedig â'r pellter o wasanaethau/cyfleusterau, yn ogystal ag iechyd pobl. Gallai'r datblygiad gael effaith negyddol bach am nad yw o fewn pellter cerdded i wasanaethau/cyfleusterau presennol ond gallai gael effaith bositif fach ar iechyd drwy ddarparu tai. | |
| **+ ?** | Mae hefyd yn bosibl cael dau symbol ar gyfer un o Amcanion yr AC, pan fydd ond yn ystyried pwnc unigol. Er enghraifft, gallai datblygiad gael effaith negyddol fach yn erbyn Amcan 5 yr AC; fodd bynnag, mae elfen o ansicrwydd nes y bydd asesiadau lefel is wedi'u cynnal. | |

2.12 Yn ystod proses gyfan yr AC, roedd yr arfarniad yn gymesur â cham datblygiad y Cynllun Lleol a'r elfennau hynny o'r cynllun oedd yn cael eu harfarnu.

DRAFT

**Arfarnu Opsiynau Strategol**

2.13 Roedd opsiynau strategol rhesymol ar gyfer lefel a dosbarthiad twf yn destun AC strategol lefel uchel yn erbyn pob un o amcanion yr AC yn 2011 gan ddefnyddio'r allwedd yn Nhabl 2.4. Cynhaliwyd arfarniad cymesur a chymharol o'r opsiynau strategol a darparwyd sylwebaeth sy'n disgrifio'r effeithiau posibl a'r posibiliadau o liniaru unrhyw effeithiau andwyol neu welliannau i effeithiau positif. Ceir crynodeb o ganfyddiadau'r gwaith hwn yn Adran 4 gyda'r arfarniad manwl yn Atodiadiau 5 a 6. Cafodd yr asesiad ei lywio gan y Grŵp Gorchwyl Cynaliadwyedd, a gyfarfu ar 13 Rhagfyr 2011. Mae unrhyw newidiadau i lefel neu ddosbarthiad twf cyffredinol, a gyflwynwyd yn Adroddiad Cychwynnol Drafft yr AC (2012) hefyd wedi'u hystyried yn Adran 4.

**Arfarnu Hoff Bolisïau Strategaeth**

2.14 Roedd pob un o'r polisïau yn y Ddogfen Hoff Strategaeth (2013) yn destun arfarniad unigol yn erbyn y Fframwaith AC llawn (Tabl 2.2) gan ddefnyddio'r allwedd a gyflwynir yn Nhabl 2.4. Cafodd y canfyddiadau eu crynhoi yn Adran 6 yr Adroddiad AC Cychwynnol (Mai 2013) gyda matricsau manwl yr arfarniad wedi'u cyflwyno yn Atodiad 8.

**Arfarnu Opsiynau Safleoedd**

2.15 Mae Proses a Methodoleg y Cyngor ar gyfer Safleoedd Posibl ar gyfer y CDLl ar y cyd yn dilyn proses 'hidlo' gynyddol, lle bydd ardaloedd o dir neu opsiynau safleoedd yn cael eu hasesu yn erbyn cyfres o feini prawf gwaharddol a dewisol. Bu Enfusion yn gweithio gyda'r Cynghorau yn 2013 a 2014 i sicrhau bod amcanion yr AC/AAS a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cael eu hymgorffori ym Mhroses a Methodoleg y Safleoedd Posibl.

2.16 Yn 2014, cafodd y Fframwaith AC ei fireinio gan Enfusion a'r Cynghorau er mwyn darparu eglurder pellach a chyfiawnhad dros arfarnu'r safleoedd posibl, drwy roi diffiniad o'r trothwyon arwyddocâd a ddefnyddiwyd yn fanwl. Cyflwynir y Fframwaith AC ar gyfer y Safleoedd Posibl isod yn Nhabl 4.2 a chafodd ei ddatblygu a'i fireinio i amlygu materion neu feini prawf pwysig ar gyfer pob un o Amcanion yr AC. Nodir unrhyw ragdybiaethau ac ansicrwydd, gydag arwydd clir o'r safonau a'r trothwyon a ddefnyddir i benderfynu ar natur ac arwyddocâd yr effeithiau ar yr opsiynau safleoedd. Mae Tabl 4.2 yn dangos cynnydd clir o'r modd y bydd Amcanion yr AC, a ddatblygwyd i fynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd yn ardal y CDLl ar y cyd, yn cael eu defnyddio i arfarnu cynaliadwyedd opsiynau safleoedd posibl.

DRAFT

**Tabl 2.6: Fframwaith AC ar gyfer Opsiynau Safleoedd**

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| **1. Cynnal a gwella buddiannau a chysylltedd bioamrywiaeth** **_(Pynciau AAS: bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd)_** | | | | |
| A fydd y cynllun yn…. <br>▪ Diogelu integredd safleoedd wedi'u dynodi (rhyngwladol, cenedlaethol a lleol) ac yn osgoi darnio cynefinoedd/rhywogaethau <br>▪ Gwarchod a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt daearol a morol (yn cynnwys asedau coetir sylweddol ardaloedd y cynllun) a bioamrywiaeth fwy cyffredinol mewn ardaloedd gwledig a threfol <br>▪ Cynnal a gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd <br>▪ Gwarchod a gwella safleoedd daearegol wedi'u dynodi a geoamrywiaeth cyffredinol | **4.** A fyddai datblygu'r safle yn arwain at golli cynefinoedd, rhywogaethau blaenoriaeth, coed a gwrychoedd pwysig, neu'n arwain at ddarnio coridor gwyrdd? <br>**10.** Arfarniad LANDMAP: <br>• Gweledol a Synhwyraidd: <br>• Daearegol: <br>• Cynefinoedd Tirluniau: <br>• Hanesyddol: <br>• Diwylliannol: | Dylai'r meini prawf gwaharddol sy'n rhan o Broses a methodoleg Safleoedd Posibl fod wedi cael gwared ar unrhyw safleoedd ger SoDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, AGA a GNG. <br><br>Dylai'r maen prawf asesu manwl 4 yn nogfen Proses a Methodoleg y Safle Posibl ddangos a allai'r datblygiad arwain at golli cynefin, rhywogaethau â blaenoriaeth, coed a gwrychoedd pwysig neu arwain at ddarnio coridor gwyrdd. | **++** | Mae'n annhebygol y byddai datblygiad yn unrhyw un o'r safleoedd yn cael effeithiau positif mawr ar fioamrywiaeth, oni bai y byddai'r datblygiad yn mynd i'r afael â mater cynaliadwyedd presennol sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth. |
| | | | **+** | Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli cynefin, rhywogaethau â blaenoriaeth, coed a gwrychoedd pwysig, nac yn arwain at ddarnio coridor gwyrdd, ac mae cyfleoedd posibl yn bodoli i wella bioamrywiaeth. |
| | | | **0** | Gallai'r datblygiad arwain at golli cynefin, rhywogaethau â blaenoriaeth, coed a gwrychoedd pwysig neu arwain at ddarnio coridor gwyrdd; fodd bynnag, mae mesurau lliniaru addas ar gael i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol. Mae posibilrwydd o effaith niwtral |
| | | | **?** | Mae elfen o ansicrwydd ar gyfer pob safle, nes y bydd arolygon ac asesiadau lefel is wedi'u cynnal. |
| | | | **-** | Gallai'r datblygiad arwain at golli cynefin, rhywogaethau â blaenoriaeth, coed a gwrychoedd pwysig neu arwain at ddarnio coridor gwyrdd. <br>Byddai mesurau lliniaru yn anodd neu'n ddrud. |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Mae posibilrwydd o effaith negyddol fach weddilliol |
| | | | -- | A oes potensial y gallai'r datblygiad ar y safle gael effeithiau negyddol ar safle Ewropeaidd (ACA, AGA a Ramsar) neu SoDdGA. Ar y cam hwn, ystyrir y byddai'n annhebygol i unrhyw un o'r dyraniadau safleoedd rhesymol gael effaith negyddol fawr ar fioamrywiaeth oherwydd dylai hyn fod wedi'i ystyried eisoes drwy'r Broses a'r Fethodoleg ar gyfer Safleoedd Posibl. |
| **2. Hyrwyddo hyfywedd, cydlyniant, iechyd a lles cymunedol**<br>***(Pynciau AAS: iechyd pobl, poblogaeth)*** | | | | |
| A fydd y cynllun yn…<br>▪ Diwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio<br>▪ Lleihau nifer y bobl o oedran gweithio sy'n allfudo er mwyn cefnogi cymunedau â chydbwysedd oedran<br>▪ Gwella'r ddarpariaeth, a'r mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau i gymunedau difreintiedig ac ardaloedd gwledig | **7.** A oes gan y safle unrhyw werth fel man agored neu bwysigrwydd o safbwynt hamdden?<br>**8.** A yw'r defnydd presennol/blaenorol o'r safle yn awgrymu bod risg bosibl o dir halogedig?<br>**15.** Nodwch y pellter i'r gwasanaeth/cyfleuster cymunedol agosaf:<br>• Swyddfa Bost<br>• Siop Gyfleustra<br>• Ysgol Gynradd neu | Mae'r Amcan hwn o'r AC yn mynd i'r afael â dau fater gwahanol. Y cyntaf yw'r pellter i wasanaethau/cyfleusterau cymunedol sydd eisoes yn bodoli ac yn ail, iechyd pobl.<br><br>**Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol**<br>Tybir y gall unrhyw gynnig i ddatblygu wneud darpariaeth briodol ac amserol ar gyfer unrhyw seilwaith cefnogol angenrheidiol, yn cynnwys iechyd, y seilwaith gwyrdd a chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol eraill. | ++ | **Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol**<br>Mae'r safle yn sicr o fewn y trothwyon pellter i wasanaethau a chyfleusterau cymunedol.<br><br>**Iechyd Pobl**<br>Ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai datblygiad yn unrhyw un o'r safleoedd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol mawr ar iechyd. |
| | | | + | **Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol**<br>Mae'r safle yn cyflawni'r trothwyon pellter ar gyfer y rhan fwyaf o wasanaethau a chyfleusterau |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| ▪ Hyrwyddo rhyngweithiad cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol<br><br>▪ Dileu rhwystrau a chreu cyfleoedd i bobl fyw bywydau iachach, e.e. hyrwyddo ymarfer corff (cerdded, beicio)<br><br>▪ Lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng ardaloedd a grwpiau cymdeithasol | Uwchradd<br><br>• Archfarchnad<br><br>• Meddygfa<br><br>• Fferyllfa<br><br>• Deintydd<br><br>• Ardal Chwarae<br><br>• Arall (nodwch)<br><br>**20.** A fyddai unrhyw effaith andwyol yn deillio o wrthdaro rhwng defnyddiau gwahanol o'r tir?<br>**21.** A yw'r safle wedi'i leoli o fewn ffurf adeiledig anheddiad neu a yw'n cynrychioli estyniad bychan i anheddiad? | Mae natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn seiliedig ar y pellter i gyfleusterau/gwasanaethau cymunedol sydd eisoes yn bodoli. Wedi'i hysbysu gan faen prawf asesu manwl 15 yn y Broses a'r Fethodoleg ar gyfer Safleoedd Posibl.<br><br>**Iechyd Pobl**<br>Tybir bod gan unrhyw gynnig datblygu y potensial i gael effeithiau negyddol tymor byr ar iechyd pobl yn sgîl lefelau uwch o lygredd sŵn, golau a llygredd aer. Tybir hefyd y bydd mesurau lliniaru addas yn cael eu darparu drwy bolisïau'r CDLl a'u bod ar gael ar lefel y prosiect er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau negyddol tymor byr yn ystod y cyfnod adeiladu, gydag effaith niwtral weddilliol.<br><br>Tybir hefyd bod potensial i ddatblygiadau arfaethedig ym mhob safle gael effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol ar iechyd drwy | | cymunedol.<br><br>**Iechyd Pobl**<br>Mae gan ddatblygiadau ym mhob un o'r safleoedd hyn y potensial i gael effeithiau positif hirdymor anuniongyrchol ar iechyd drwy ddarparu tai neu gyflogaeth a diwallu anghenion ardal y Cynllun yn y dyfodol. |
| | | | **0** | **Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol**<br>Nid yw effaith niwtral yn bosibl .<br><br>**Iechyd Pobl**<br>Os nad oes unrhyw faterion posibl i iechyd pobl, yna dylid rhoi effaith gadarnhaol fach ar gyfer y safle, gweler y testun uchod ar gyfer +. |
| | | | **?** | **Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol**<br>Elfen o ansicrwydd yn debygol os bydd y gwasanaethau / cyfleusterau sy'n cael eu darparu yn yr anheddiad yn gyfyngedig.<br><br>**Iechyd Pobl**<br>Mae elfen o ansicrwydd yn debygol ar gyfer unrhyw effeithiau negyddol posibl a nodwyd mewn cysylltiad ag iechyd pobl. |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| | | ddarparu tai neu gyflogaeth, a diwallu anghenion ardal y Cynllun yn y dyfodol.<br><br>Bydd natur ac arwyddocâd yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag iechyd pobl yn seiliedig ar wybodaeth a fydd yn cael ei darparu drwy feini prawf asesu 7, 8 ac 20 Proses a Methodoleg Safleoedd Posibl. | | |
| | | | - | **Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol**<br>Nid yw'r safle yn llwyddo i ddiwallu'r rhan fwyaf o'r trothwyon pellter i gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol,<br><br>**Iechyd Pobl**<br>Materion bach yn bosibl mewn cysylltiad ag iechyd pobl. |
| | | | -- | **Cyfleusterau/Gwasanaethau Cymunedol**<br>Mae'r safle yn methu yn arwyddocaol i gyflawni'r mwyafrif o'r trothwyon pellter i gyfleusterau a gwasanaethau cymunedol.<br><br>**Iechyd Pobl**<br>Mae mater arwyddocaol posibl i iechyd pobl. |

DRAFT

| **Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy’n hwyluso Perfformiad yr AC** | **Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu’r Swyddog Safleoedd Posibl** | **AC o Ddyraniadau Safleoedd** | **Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC** | |
|---|---|---|---|---|
| **3. Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu** <br> ***(Pynciau AAS: ffactorau hinsoddol, aer)*** | | | | |
| A fydd y cynllun yn… <br> ▪ Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth, adeiladau ac wrth gynhyrchu ynni <br> ▪ Cefnogi ac annog datblygiadau newydd sy’n effeithlon o ran ynni ac sy’n wydn i newid yn yr hinsawdd <br> ▪ Integreiddio a hyrwyddo cynlluniau ynni adnewyddadwy a charbon isel, yn cynnwys ar lefel leol gymunedol, a chynyddu cyfran y galw am ynni sy’n cael ei ddiwallu gan ffynonellau carbon isel <br> ▪ Sicrhau cynlluniau addasu sy’n gwneud y gorau o’r cyfleoedd ac sy’n lleihau cost newid yn yr hinsawdd | **1.** A oes risg o lifogydd? <br> **21.** A yw’r safle wedi’i leoli o fewn ffurf adeiledig anheddiad neu a yw’n cynrychioli estyniad bychan i anheddiad? <br> **13.** A yw’n bosibl cael mynediad i’r safle o briffordd gyhoeddus ac a yw’r system briffyrdd gyfagos (yn cynnwys cyffyrdd) o ansawdd digonol i ddelio â datblygiad posibl ar y safle? <br> **14.** A yw’r system briffyrdd gerllaw (yn cynnwys cyffyrdd) o ansawdd digonol i ddelio â datblygiad posibl y safle? | Tybir y gallai datblygiad ar unrhyw un o’r safleoedd ymgorffori technolegau effeithlonrwydd ynni a thechnolegau ynni adnewyddadwy a charbon isel ar y safle. Gallai datblygiad llai o faint gynnig llai o ddewis o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel o gymharu â’r opsiwn safleoedd mwy. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu na allai datblygiadau llai leihau allyriadau carbon oddi ar y safle. <br><br> A yw unrhyw ddatblygiad yn debygol o gael effeithiau negyddol yn erbyn yr Amcan hwn o’r AC, drwy’r ynni ymgorfforedig sy’n rhan gynhenid o waith adeiladu a chynnal a chadw datblygiad. Mae dulliau a thechnolegau prosesu yn debygol o leihau’r swm o ynni ymgorfforedig a ddefnyddir yn y dyfodol; fodd bynnag mae hyn yn ansicr ar y cam hwn. <br> Ystyrir felly y dylai natur ac arwyddocâd yr effaith yn erbyn yr Amcan hwn o’r AC ganolbwyntio ar yr effeithiau ar draffig. <br> Trafodir llifogydd yn erbyn 11 yr | **++** | Mae gan y datblygiad y potensial i leihau lefelau traffig yn sylweddol mewn ardal sy’n profi problemau tagfeydd traffig. |
| | | | **+** | Mae gan y datblygiad y potensial i leihau lefelau traffig. Posibilrwydd o effaith gadarnhaol fach. |
| | | | **0** | Bydd datblygiad ar y safle yn cael effaith niwtral ar draffig. Mae posibilrwydd bod mesurau lliniaru addas ar gael i leihau effeithiau negyddol, gyda’ r potensial i gael effaith niwtral weddilliol. |
| | | | **?** | Mae elfen o ansicrwydd yn bodoli ar gyfer pob safle, nes y bydd arolygon ac asesiadau lefel is wedi’u cynnal. |
| | | | **-** | Mae gan y datblygiad y potensial i gynyddu traffig yn yr ardal. |
| | | | **--** | Mae’r datblygiad yn debygol o gynyddu’r lefelau traffig yn yr ardal, ardal sydd eisoes yn profi problemau tagfeydd traffig, <br> Mesurau lliniaru yn anodd a/neu’n ddrud. |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| | | AC (Dŵr). | | |
| **4. Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg**<br>***(Pwnc AAS: treftadaeth ddiwylliannol)*** | | | | |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Diogelu ac yn gwella cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg | **15.** Nodwch y pellter i'r gwasanaeth/cyfleuster cymunedol agosaf:<br>• Swyddfa Bost<br>• Siop Gyfleustra<br>• Ysgol Gynradd neu Uwchradd<br>• Archfarchnad<br>• Meddygfa<br>• Fferyllfa<br>• Deintydd<br>• Ardal Chwarae<br>• Arall (nodwch) | Ni fydd yr Amcan hwn o'r AC yn wahaniaethydd allweddol rhwng y safleoedd posibl.<br><br>Ystyrir y bydd pob un o'r safleoedd posibl yn cael effaith niwtral yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC. | **++** | Nid ystyrir bod effaith gadarnhaol fawr yn bosibl. |
| | | | **+** | Nid ystyrir bod effaith gadarnhaol fach yn bosibl. |
| | | | **0** | Ystyrir y byddai pob un o'r opsiynau safleoedd yn cael effaith niwtral yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC. |
| | | | **?** | Ystyrir nad yw effaith ansicr yn bosibl. |
| | | | **-** | Nid ystyrir bod effaith negyddol fach yn bosibl. |
| | | | **--** | Nid ystyrir bod effaith negyddol fawr yn bosibl, |
| **5. Gwarchod, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol**<br>***(Pwnc AAS: treftadaeth ddiwylliannol)*** | | | | |

DRAFT

| **Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC** | **Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl** | **AC o Ddyraniadau Safleoedd** | **Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC** | |
|---|---|---|---|---|
| A fydd y cynllun yn …<br>▪ Sicrhau bod asedau hanesyddol, archeolegol a diwylliannol lleol (yn cynnwys o ddatblygiadau newydd) yn cael eu diogelu a'u gwella, er budd preswylwyr ac ymwelwyr.<br><br>▪ Hyrwyddo mynediad i'r amgylchedd hanesyddol ar gyfer datblygiad addysgol a datblygiad twristiaeth/economaidd | **3.** A yw'r safle (neu ran o'r safle) wedi'i ddiogelu / wedi'u diogelu gan ddynodiadau tirlun, ecolegol, daearegol, hanesyddol neu ddiwylliannol?<br>**9.** A fyddai datblygu'r safle yn cyflwyno cyfle i gael gwared ar ddolur llygad?<br>**10.** Gwerthusiad LANDMAP:<br>• Gweledol a Synhwyraidd:<br>• Daearegol:<br>• Cynefinoedd Tirlun:<br>• Hanesyddol:<br>• Diwylliannol:<br><br>**18.** A fyddai datblygiad ar y safle yn cael effaith andwyol ar olygfeydd/fistâu?<br>**19.** A fyddai datblygu'r safle yn cael effaith niweidiol ar gymeriad yr anheddiad? | Bydd natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC yn bennaf berthnasol i asedau treftadaeth dynodedig a'u lleoliad.<br><br>A oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig, neu eu lleoliad, a allai gael eu heffeithio o fewn neu ger y safle?<br><br>A oes unrhyw gyfleoedd i wella asedau diwylliant neu dreftadaeth, megis; sicrhau defnyddiau newydd priodol ar gyfer Adeiladau Rhestredig gwag; cael gwared ar ddolur llygad ar leoliad asedau dynodedig; gwella mynediad ac arwyddion neu dir y cyhoedd?<br><br>Ystyrir bod elfen o ansicrwydd ar gyfer pob safle, nes y bydd arolygon ac asesiadau lefel is manwl wedi'u cynnal drwy geisiadau cynllunio.<br><br>Mae angen ystyried pa mor agos yw safle i asedau treftadaeth dynodedig a natur ac arwyddocâd yr effeithiau a nodwyd yn erbyn Amcan 8 yr AC (Tirlun a | **++** | Mae'r datblygiad yn debygol o gael effaith gadarnhaol fawr ar arwyddocâd yr ased treftadaeth/amgylchedd hanesyddol neu gall fynd i'r afael â mater arwyddocaol presennol sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, ac sy'n gysylltiedig â diwylliant a threftadaeth. |
| | | | **+** | Mae gan y datblygiad y potensial i greu effeithiau cadarnhaol bach oherwydd gallai wella lleoliad neu fynediad i asedau dynodedig. |
| | | | **0** | Bydd y datblygiad yn cael effaith niwtral. Y rheswm am hyn yw nad oes unrhyw asedau treftadaeth o fewn dylanwad y datblygiad arfaethedig neu mae'r mesurau lliniaru yn cael eu hystyried yn ddigonol ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau negyddol posibl gyda'r potensial am effaith niwtral weddilliol. |
| | | | **?** | Mae elfen o ansicrwydd yn bodoli ar gyfer pob safle, nes y bydd arolygon ac asesiadau lefel isel wedi'u cynnal. |
| | | | **-** | Mae gan y datblygiad y potensial i greu effaith negyddol fach weddilliol ar Heneb Restredig, Adeilad Rhestredig, Parciau a Gerddi Rhestredig a Meysydd Brwydro Cofrestredig. Hyd yn oed ar ôl ystyried mesurau osgoi a lliniaru, mae potensial o hyd i greu effaith negyddol fach weddilliol. |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| | | Threflun). | **--** | Mae gan y datblygiad y potensial i greu effaith negyddol fawr weddilliol ar Heneb Restredig, Adeilad Rhestredig, Parciau a Gerddi Rhestredig a Meysydd Brwydro Cofrestredig. Nid yw mesurau lliniaru yn bosibl neu maent yn anodd/drud. |
| **6. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi amrywiol a hyfyw sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol** ***(Pwnc AAS: Poblogaeth)*** | | | | |
| A fydd y cynllun yn …<br>▪ Hyrwyddo a hwyluso buddsoddiad i fusnesau lleol ar draws sectorau economaidd gwahanol<br>▪ Gwella cyfleoedd cyflogaeth, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig<br>▪ Cefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy welliannau amgylcheddol a gwella seilwaith a hwyluso gwelliannau i gyfleusterau a seilwaith sy'n bodoli eisoes<br>▪ Darparu mynediad at gyfleoedd hyfforddiant, addysg a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau i bob sector o'r gymuned. | **14.** A yw safon y system briffyrdd gerllaw (yn cynnwys cyffyrdd) o ansawdd ddigonol i ddelio â datblygiad posibl ar y safle?<br>**15.** Nodwch y pellter at y gwasanaeth/cyfleuster cymunedol agosaf:<br>• Swyddfa Bost<br>• Siop Gyfleustra<br>• Ysgol Gynradd neu Uwchradd<br>• Archfarchnad<br>• Meddygfa<br>• Fferyllfa<br>• Deintydd<br>• Ardal Chwarae | Bydd natur ac arwyddocâd effeithiau'r Amcan hwn o'r AC yn ymwneud yn bennaf â chapasiti'r safle i gael defnydd cyflogaeth o'r tir a cholledion cyflogaeth presennol. | **++** | Datblygiad cyflogaeth sy'n cael ei gynnig yn bennaf. Mae potensial i gael effaith gadarnhaol fawr yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC. |
| | | | **+** | Cynigir datblygiad defnydd cymysg. Mae potensial i gael effaith gadarnhaol fach hirdymor. |
| | | | **0** | Os mai datblygiad preswyl yn unig sy'n cael ei gynnig, yna mae potensial i gael effaith niwtral yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC. |
| | | | **?** | Gallai'r datblygiad arwain at golledion cyflogaeth presennol, ond mae hyn yn ansicr ar y cwm hwn. |
| | | | **-** | Bydd y datblygiad yn arwain at fân golledion cyflogaeth. |
| | | | **--** | Bydd y datblygiad yn arwain at golledion cyflogaeth presennol mawr. Mae potensial i gael effaith negyddol fawr hirdymor. |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| | • Arall (nodwch)<br><br>**16.** Nodwch y pellter at y cyswllt cyfleustodau agosaf:<br>• Trydan<br>• Nwy<br>• Dŵr<br>• Carthffosiaeth<br>• Telathrebu<br><br>**20.** A fyddai unrhyw effaith andwyol yn deillio o wrthdaro rhwng defnyddiau gwahanol o'r tir? | | | |
| **7. Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol** | | | | |
| ***(Pwnc AAS: poblogaeth, iechyd pobl)*** | | | | |
| A fydd y cynllun yn…<br>▪ Gwella ansawdd ac argaeledd y stoc tai presennol i gymunedau difreintiedig<br><br>▪ Darparu mwy o dai fforddiadwy a chynaliadwy gan greu'r effaith leiaf bosibl ar yr amgylched mewn ardaloedd gwledig a threfol | **14.** A yw safon y system briffyrdd gerllaw (yn cynnwys cyffyrdd) o ansawdd ddigonol i ddelio â datblygiad posibl ar y safle?<br>**15.** Nodwch y pellter at y gwasanaeth/cyfleuster cymunedol agosaf:<br>• Swyddfa Bost<br>• Siop Gyfleustra | Tybir y byddai datblygiad ar unrhyw un o'r safleoedd yn cyflawni'r gofynion tai fforddiadwy yn y CDLl ar y Cyd.<br><br>Ystyrir na fydd yr Amcan hwn o'r AC yn wahaniaethydd allweddol rhwng gwahanol safleoedd posibl, am ei fod yn ymwneud â darparu tai. Bydd y math o ddatblygiad y gellir ei gynnal ar y safle yn dylanwadu ar natur ac | **++** | Datblygiad sy'n bennaf breswyl sy'n cael ei gynnig. Mae potensial i gael effaith gadarnhaol fawr yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC. |
| | | | **+** | Datblygiad defnydd cymysg sy'n cael ei gynnig. Mae potensial i gael effaith gadarnhaol fach hirdymor. |
| | | | **0** | Os nad oes unrhyw gyfleoedd cyflogaeth yn cael eu cynnig fel rhan o'r datblygiad, a'i fod yn safle cyflogaeth, yna ystyrir ei fod yn cael effaith niwtral |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| ▪ Darparu tai y gellir eu haddasu sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol cymunedau | • Ysgol Gynradd neu Uwchradd<br>• Archfarchnad<br>• Meddygfa<br>• Fferyllfa<br>• Deintydd<br>• Ardal Chwarae<br>• Arall (nodwch)<br><br>**16.** Nodwch y pellter at y cyswllt cyfleustodau agosaf:<br>• Trydan<br>• Nwy<br>• Dŵr<br>• Carthffosiaeth<br>• Telathrebu<br><br>**20.** A fyddai unrhyw effaith andwyol yn deillio o wrthdaro rhwng defnyddiau gwahanol o'r tir? | arwyddocâd yr effaith. | | yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC. |
| | | | **?** | Ddim yn berthnasol. |
| | | | **-** | Ddim yn berthnasol. |
| | | | **--** | Ddim yn berthnasol. |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| **8. Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella tirluniau gwledig a threfluniau trefol ardal y cynllun (Pynciau AAS: tirlun)** | | | | |
| A fydd y cynllun yn…<br>▪ Diogelu a gwella nodweddion arbennig tirlun ardal y cynllun, yn cynnwys AHNE, tirluniau arfordirol/morol a threfluniau<br>▪ Diogelu a gwella ansawdd mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn amgylcheddau gwledig ac adeiledig<br>▪ Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu hintegreiddio mewn ffordd briodol a sensitif gyda chymeriad tirlun a threflun ardal y cynllun | **3.** A yw'r safle (neu rannau o'r safle) wedi'i ddiogelu/wedi'u diogelu gan ddynodiadau tirlun, ecolegol, daearegol, hanesyddol neu ddiwylliannol?<br>**7.** A oes gan y safle unrhyw werth fel man agored neu bwysigrwydd hamdden?<br>**9.** A fyddai datblygiad ar y safle yn cyflwyno cyfle i gael gwared ar ddolur llygad?<br>**10.** Gwerthusiad LANDMAP:<br>• Gweledol a Synhwyraidd:<br>• Daearegol:<br>• Cynefinoedd Tirlun:<br>• Hanesyddol:<br>• Diwylliannol:<br>**18.** A fyddai datblygiad ar y safle yn cael effaith andwyol ar olygfeydd/fistâu?<br>**19.** A fyddai datblygu'r safle yn cael effaith niweidiol ar gymeriad yr anheddiad? | Bydd natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn bennaf ddibynnol ar ba mor bwysig a sensitif yw'r safleoedd posibl o ran y tirlun.<br><br>Bydd meini prawf asesu manwl 3 a 4 Proses a Methodoleg Safleoedd Posibl yn hysbysu'r arfarniad.<br><br>Os nad yw lefel sensitifrwydd y tirlun yn hysbys, yna tybir y gallai datblygiad ar safle maes glas gael effaith negyddol fach oherwydd byddai datblygiad ar ardal heb ei datblygu o'r blaen.<br><br>Os nad yw lefel sensitifrwydd y tirlun yn hysbys, yna tybir y gallai datblygiad ar safle tir llwyd gael effaith gadarnhaol fach oherwydd byddai'n golygu adfywio'r safle.<br><br>Ystyrir bod elfen o ansicrwydd yn bodoli ar gyfer pob safle, nes y bydd arolygon ac asesiadau lefel is manwl wedi'u cynnal drwy geisiadau cynllunio. | **++** | Byddai'r datblygiad yn cael gwared ar ddolur llygad arwyddocaol a/neu byddai'n adfywio tir llwyd segur sy'n cael effaith negyddol fawr ar hyn o bryd ar y tirlun/treflun. |
| | | | **+** | Byddai'r datblygiad yn cael gwared ar ddolur llygad a/neu byddai'n adfywio tir llwyd segur sy'n cael effaith negyddol fach ar hyn o bryd ar y tirlun/treflun, |
| | | | **0** | Nid ystyrir fod effaith niwtral yn bosibl. |
| | | | **?** | Mae elfen o ansicrwydd yn bodoli ar gyfer pob safle posibl, nes y bydd asesiadau lefel is wedi'u cynnal. |
| | | | **-** | Mae gan y safle lefel gymedrol i uchel o bwysigrwydd / sensitifrwydd o ran y tirlun. Mae potensial i gael effaith negyddol fach weddilliol. |
| | | | **--** | Mae gan y safle lefel uchel o bwysigrwydd / sensitifrwydd o ran y tirlun, ac mae mesurau lliniaru yn debygol o fod yn anodd/drud. Mae potensial i gael effaith negyddol fawr weddilliol. |
| **9. Defnyddio tir ac asedau mwynau yn effeithlon a hyrwyddo dulliau o leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff *(Pwnc AAS: asedau materol, pridd)*** | | | | |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| A fydd y cynllun yn …<br>▪ Blaenoriaethu datblygiadau ar dir addas sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol / tir llwyd heb gael effaith ar fioamrywiaeth, asedau treftadaeth hanesyddol a'r tirlun<br>▪ Diogelu ansawdd y pridd (y tir gorau a mwyaf amlbwrpas)<br>▪ Hyrwyddo cyfleoedd i adfywio tir halogedig ac osgoi/lleihau llygredd pridd<br>▪ Lleihau gwastraff a chefnogi proses o symud at hierarchaeth rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer datblygiadau presennol a newydd (yn cynnwys drwy rwydwaith cynaliadwy o gyfleusterau rheoli) | **2.** A fyddai datblygu'r safle yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas (Graddau 1, 2 a 3a)?<br>**6.** A yw'r safle yn cynrychioli tir Llwyd?<br>**8.** A yw'r defnydd presennol/blaenorol o'r safle yn awgrymu bod risg bosibl o dir halogedig?<br>**20.** A fyddai unrhyw effaith andwyol yn deillio o wrthdaro rhwng defnyddiau gwahanol o'r tir? | Dylai'r meini prawf gwaharddol a nodir ym Mhroses a Methodoleg y Safleoedd Posibl wedi cael gwared ar unrhyw safleoedd o fewn neu ger safleoedd diogelu glo neu fwynau.<br><br>Bydd natur ac arwyddocâd yr effaith yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC yn ymwneud yn bennaf â'r math o dir dan sylw (maes glas / tir llwyd) a graddfa tir amaethyddol (Gradd 3a ac uwch). | **++** | Mae'r safle i gyd yn dir llwyd. Mae potensial i gael effaith gadarnhaol fawr yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC. |
| | | | **+** | Mae'r safle yn dir llwyd yn rhannol. Mae potensial i gael effaith gadarnhaol fach yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC. |
| | | | **0** | Nid ystyrir fod effaith niwtral yn bosibl. |
| | | | **?** | Mae peth ansicrwydd ynglŷn â'r math o dir a/neu raddfa tir amaethyddol. |
| | | | **-** | Mae'r safle yn faes glas a gallai arwain at golli cyfran fach o'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. |
| | | | **--** | Mae'r safle i gyd yn faes glas ac mae'n cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn bennaf. |
| **10. Hyrwyddo a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da er mwyn cefnogi'r gymuned a'r economi**<br>***(Pwnc AAS: poblogaeth, iechyd pobl)*** | | | | |
| A fydd y cynllun yn…<br>▪ Gwella hygyrchedd mewn ardaloedd gwledig, drwy gysylltu rhwydweithiau trafnidiaeth (cyhoeddus a difodur) i | **11.** A yw'r safle wedi'i leoli o fewn pellter cerdded i derfynell trafnidiaeth gyhoeddus / safle bws? (Nodwch y pellter ac a yw'n llwybr serth/â rhwystrau)<br>**12.** Pa mor bell yw'r safle o lwybr | Mae effeithiau traffig yn cael eu trafod yn erbyn Amcan 3 yr AC. Bydd natur ac arwyddocâd yr effeithiau yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC yn ymwneud â hygyrchedd i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy | **++** | Mae'r safle yn diwallu'r mwyafrif o'r trothwyon ar gyfer pellter i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy (safleoedd bws, gorsaf reilffordd, llwybrau cerdded a beicio) ac mae ei bellter i'r prif ganolfannau gwasanaeth ac ardaloedd |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| ganolfannau gwasanaeth<br><br>▪ Lleihau'r angen i deithio mewn ceir preifat, drwy wella'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus<br><br>▪ Blaenoriaethu hygyrchedd drwy opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd | cerdded/beicio hamdden presennol?<br>**13.** A yw'r safle yn hygyrch o briffordd gyhoeddus ac a yw safon y system briffyrdd gerllaw (yn cynnwys cyffyrdd) o ansawdd ddigonol i ddelio â datblygiad posibl ar y safle?<br><br>**14.** A yw safon y system briffyrdd gerllaw (yn cynnwys cyffyrdd) o ansawdd ddigonol i ddelio â datblygiad posibl ar y safle? | a lleihau'r angen i deithio.<br><br>Tybir y gallai datblygiad ar unrhyw un o'r safleoedd ddarparu neu gyfrannu at ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy gwell. | | cyflogaeth yn golygu y byddai'r datblygiad yn debygol o leihau'r angen i deithio. |
| | | | **+** | Mae'r safle yn diwallu'r mwyafrif o'r trothwyon ar gyfer pellter i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy (safleoedd bws, gorsaf reilffordd, llwybrau cerdded a beicio) ac mae ei bellter i'r prif ganolfannau gwasanaeth ac ardaloedd cyflogaeth yn golygu y byddai'r datblygiad yn debygol o leihau'r angen i deithio. |
| | | | **0** | Nid ystyrir fod effaith niwtral yn bosibl. |
| | | | **?** | Mae elfen o ansicrwydd yn erbyn yr Amcan hwn o'r AC yn debygol ar gyfer pob un o'r safleoedd. |
| | | | **-** | Nid yw'r safle yn cyflawni rhai o'r trothwyon ar gyfer y pellter i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy (safleoedd bws, gorsaf reilffordd, llwybrau cerdded a beicio) ac o ystyried ei bellter i wasanaethau/cyfleusterau, nid yw'n debygol o leihau'r angen i deithio. |
| | | | **--** | Nid yw'r safle yn cyflawni rhai o'r trothwyon yn sylweddol ar gyfer y pellter i ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy (safleoedd bws, gorsaf reilffordd, llwybrau cerdded a beicio) ac o ystyried ei bellter i wasanaethau/cyfleusterau, nid yw'n debygol o leihau'r angen i deithio. |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| **11. Gwarchod ansawdd dŵr, rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy a lleihau'r risg o lifogydd** ***(Pwnc AAS: dŵr, bioamrywiaeth)*** | | | | |
| A fydd y cynllun yn…<br>▪ Sicrhau bod ansawdd dŵr o afonydd, llynnoedd, dŵr daear a dyfroedd arfordirol yn cael ei ddiogelu a'i wella<br>▪ Lleihau llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig a threfol<br>▪ Diogelu a gwella adnoddau dŵr a chefnogi'r gwaith o integreiddio mesurau effeithlonrwydd dŵr ym mhob datblygiad newydd<br>▪ Lleihau'r risg o bob math o lifogydd (llanwol, afonol, dŵr wyneb a charthffosiaeth) i bobl ac eiddo drwy gynlluniau priodol a dyluniadau cynaliadwy<br>▪ Hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr a mesurau addasu mewn datblygiadau newydd, er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, (e.e. SDCau)<br>▪ Hwyluso datblygiadau oddi wrth dir | **1.** A oes perygl o lifogydd?<br>**5.** A yw'r safle mewn ardal warchodaeth dŵr daear neu ddŵr wyneb? | Dylai'r meini prawf gwaharddol ym Mhroses a Methodoleg y Safleoedd Posibl fod wedi cael gwared ar unrhyw safleoedd sydd wedi'u lleoli yn gyfan gwbl neu'n rhannol mewn ardaloedd sydd mewn perygl uchel o lifogydd.<br><br>Bydd meini prawf asesu manwl 1 a 5 Proses a Methodoleg y Safleoedd Posibl yn hysbysu'r arfarniad hwn.<br><br>Tybir y gallai datblygiad ar unrhyw un o'r safleoedd ymgorffori mesurau effeithlonrwydd dŵr a draeniau cynaliadwy. | **++** | Gallai datblygiad ar y safle gynnig cyfle i leihau'r perygl presennol o lifogydd yn sylweddol. |
| | | | **+** | Gallai datblygiad ar y safle gynnig cyfle i leihau'r dŵr arwyneb ffo presennol. |
| | | | **0** | Nid yw'r safle mewn ardal sy'n wynebu perygl o lifogydd ac nid yw mewn ardal diogelu dŵr daear neu ddŵr arwyneb |
| | | | **?** | Mae ansicrwydd ynglŷn â'r perygl o lifogydd, ardal diogelu dŵr a / neu fesurau lliniaru posibl. |
| | | | **-** | Mae rhan o'r safle mewn ardal sydd â pherygl uchel o lifogydd ac mae mewn ardal diogelu dŵr daear a dŵr arwyneb |
| | | | **--** | Mae'r safle cyfan mewn ardal sydd â pherygl uchel o lifogydd. |

DRAFT

| Fframwaith Amcanion a chwestiynau sy'n hwyluso Perfformiad yr AC | Y Meini Prawf Asesu Manwl a ystyriwyd yn Ffurflen Asesu'r Swyddog Safleoedd Posibl | AC o Ddyraniadau Safleoedd | Y Meini Prawf Arwyddocâd ar gyfer Dyfarniadau Safleoedd yr AC | |
|---|---|---|---|---|
| sydd mewn perygl o lifogydd | | | | |

DRAFFT

2.17 Mae'r Fframwaith AC ar gyfer y Safleoedd Posibl a gyflwynir yn Nhabl 2.6 yn sail i arfarnu'r opsiynau rhesymol ar gyfer dyraniadau safleoedd. Mae'n nodi'r safonau a'r trothwyon a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar natur ac arwyddocâd effeithiau yn erbyn Amcanion yr AC, yn cynnwys unrhyw dybiaethau neu ansicrwydd. Mae hyn yn sicrhau ymagwedd gyson ar gyfer arfarnu pob safle posibl rhesymol. Mae'n bwysig darllen y golofn AC y Dyraniadau Safleoedd (meini prawf ar gyfer gwneud penderfyniadau, yn cynnwys unrhyw dybiaethau neu ansicrwydd) a'r golofn meini prawf arwyddocâd, ochr yn ochr â'i gilydd, oherwydd mae'r golofn gyntaf yn nodi'r cyd-destun a'r cyfiawnhad ar gyfer yr ail golofn. Mae hyn yn cynnwys esboniad clir i ddangos a yw materion penodol yn cael eu hystyried yn y Fframwaith AC.

2.18 Bu i'r Cynghorau gynnal AC ar safleoedd posibl rhesymol yn erbyn pob un o Amcanion yr AC yn 2014, gan ddefnyddio'r prif AC a gyflwynir yn Nhabl 2.5 a'r Fframwaith AC a gyflwynir yn Nhabl 2.6. Mae'r safleoedd posibl wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn ôl anheddiad, er mwyn sicrhau bod arfarniad cymharol o'r dewisiadau amgen yn cael ei gynnal. Mae hyn hefyd yn helpu i sicrhau y rhoddir ystyriaeth briodol i effeithiau cronnus posibl y safleoedd posibl ar aneddiadau. Cafodd unrhyw safleoedd strategol (safleoedd dros 3ha) eu hystyried mewn matrics unigol, oni bai bod grŵp arbennig o safleoedd yr oedd angen eu hystyried gyda'i gilydd, er mwyn sicrhau bod yr effeithiau cronnus yn cael eu hystyried yn briodol. Cynhaliodd Enfusion Cyf Asesiad Ansawdd o'r AC o'r safleoedd posibl, a gynhyrchwyd gan y Cyngor yn 2014, er mwyn sicrhau bod ymagwedd gyson yn cael ei mabwysiadu. Cyflwynir crynodeb o ganfyddiadau'r AC o'r dewisiadau posibl yn Adran 4 gyda'r matricsau manwl yn cael eu cyflwyno yn Atodiad 7 yr Adroddiad AC hwn.

2.19 Yn dilyn ymgynghoriad ar y CDLl ar y Cyd Adnau, ystyriodd y Cynghorau opsiwn safle ychwanegol i ddarparu ar gyfer datblygiad ym Methel. Gan ddefnyddio'r un dull a nodir uchod, ystyriwyd y dewis safle newydd trwy'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae'r canfyddiadau cryno a gyflwynir yn Adran 4 a'r matrics gwerthuso manwl i Fethel yn Atodiad 7 yr adroddiad hwn wedi cael eu diwygio yn unol â hynny.

**Cynllun Adnau (2015)**

2.20 Roedd AC y Cynllun Adnau, yn cynnwys polisïau, yn cynnwys 12 pennawd pwnc, a oedd wedi'u cysylltu â'r Amcanion yn y Fframwaith AC, yn ogystal â'r pynciau sydd yng Nghyfarwyddeb yr AAS. Roedd hyn yn darparu fframwaith a strwythur ar gyfer gwerthuso effeithiau arwyddocaol tebygol y Cynllun Adnau, yn erbyn y pynciau allweddol hyn. Rhannwyd arfarniad o bob pwnc yn nifer o is-benawdau, er mwyn rhoi ystyriaeth i bob agwedd ar y Cynllun Lleol sy'n cael ei ddatblygu (Polisïau a Dyraniadau Safleoedd), yn ogystal â'r cydberthnasau rhwng pynciau ac effeithiau cronnus y Cynllun yn ei gyfanrwydd.

2.21 Cynhaliwyd yr arfarniad gan ddefnyddio barn broffesiynol, wedi'i ategu gan y wybodaeth waelodlin ddiweddaraf a'r dystiolaeth ddiweddaraf ar gyfer y

DRAFT

Cynllun Lleol, yn ogystal ag unrhyw ffynonellau gwybodaeth perthnasol eraill. Mae natur yr effeithiau cynaliadwyedd tebygol (yn cynnwys cadarnhaol/negyddol, hyd, parhaol / dros dro, eilaidd, cronnus a synergaidd) yn cael eu disgrifio, ynghyd ag unrhyw ansicrwydd a nodwyd. Nodir tystiolaeth pan fydd yn berthnasol a rhoddir sylwebaeth ac awgrymiadau ar gyfer mesurau lliniaru neu wella pan fydd hynny'n berthnasol. Mae'r Arfarniad Cynaliadwyedd yn cael ei lywio gan y wybodaeth a'r data gorau sydd ar gael; fodd bynnag, mae bylchau ac ansicrwydd yn bodoli yn y data, ac nid yw bob amser yn bosibl rhagweld yn gywir yr effeithiau ar lefel asesu strategol.

**Newidiadau Ffocws (2016)**

2.22 Cynigwyd nifer o newidiadau i'r CDLl ar y Cyd yn ers i'r ymgynghoriad Adnau ddod i ben ym Mawrth 2015. Roedd yn bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu sgrinio trwy'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd er mwyn penderfynu os oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (Chwefror 2015) ac os oedd angen gwaith gwerthuso pellach. Cynhyrchwyd tabl sgrinio i ystyried yr holl welliannau, sy'n cynnwys newidiadau arfaethedig i Bolisi yn ogystal â'r dyraniadau safleoedd a ffefrir. Ceir canfyddiadau'r gwaith hwn yn Atodiad 9 o'r Adroddiad hwn.

2.23 Canfu'r sgrinio bod y newidiadau yn rai mân ac nad oeddent yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaithAC blaenorol wrth iddynt geisio darparu eglurhad pellach neu osgoi ailadrodd. Er nad ystyriwyd bod unrhyw waith arfarnu sylweddol pellach yn angenrheidiol, ystyriwyd ei bod yn briodol diweddaru canfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer CDLl ar y Cyd Adnau yn Adran 6 i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig, gan gynnwys polisïau newydd, yn ogystal â'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad.

2.24 Ar ôl ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ar y Newidiadau Ffocws, cynigiodd y Cynghorau nifer o ddiwygiadau ychwanegol posib i'r CDLl ar y Cyd. Darganfu sgriniad ar y diwygiadau posib yn dilyn ymgynghoriad ar y Newidiadau Penodol mai mân newidiadau oedd yr holl newidiadau ac nid oeddynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu rhagor o eglurhad neu sicrhau cysondeb. Cyflwynwyd adroddiad Adendwm yr AC i'r Arolygydd er ystyriaeth ym mis Gorffennaf 2016, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Adroddiad AC terfynol hwn (gweler Dogfen Cyfeirnod DA.021 Dogfennau Archwiliad - https://www.gwynedd.llyw.cymru/ên/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Examination-Documents/DA021.pdf)

**Newidiadau Materion yn Codi (2017)**

2.25 Cynigiwyd nifer o newidiadau i'r CDLl ar y Cyd a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i faterion a ystyriwyd yn ystod Sesiynau Gwrandawiad y CDLl ar y Cyd. Roedd yn bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu sgrinio drwy'r broses AC i benderfynu a ydynt yn effeithio'n sylweddol ar



DRAFT

ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol a gyflwynwyd yn yr Adroddiad AC (Chwefror 2016) a ph'un ai oedd angen rhagor o waith arfarnu. Cynhyrchwyd Adroddiad Adendwm AC i ddogfennu yr asesiad (Dogfen archwiliad DA041 - https://www.gwynedd.llyw.cymru/ên/Council/Documents---Council/Strategies-and-policies/Environment-and-planning/Planning-policy/Examination-Documents/Operating-Points/DA038-DA043/SA-MAC-Addendum-Report.pdf) a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Adroddiad Terfynol hwn. Darganfu'r sgriniad mai mân oedd yr holl newidiadau arfaethedig ac nad oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu rhagor o eglurhad neu sicrhau cysondeb. Roedd yr Adroddiad Adendwm yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r Newidiadau Materion sy'n Codi am gyfnod o chwe wythnos yn dechrau Ionawr 2017.

2.26 Atodlen o Newidiadau Materion sy'n Codi (DA.039 a DA.040) oedd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus o 23 Ionawr hyd at 9 Mawrth 2017. Arweiniodd ystyriaeth i'r sylwadau a'r drafodaeth mewn Sesiynau Gwrandawiad a gynhaliwyd ar 26 a 27 Ebrill 2017 at nifer o fân ddiwygiadau i'r Atodlen Newidiadau Materion sy'n Codi. Cyhoeddwyd Atodlen derfynol o Newidiadau Materion sy'n Codi ar 8 Mai 2017. Roedd y diwygiadau i'r Atodlen Newidiadau Materion sy'n Codi yn amodol ar asesiad sgrinio AC. Darganfu'r gwaith hwn mai mân oedd yr holl newidiadau ac nad oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu rhagor o eglurhad neu sicrhau cysondeb. Mae'r asesiad sgrinio hwn wedi'i gynnwys yn Atodiad yn Atodiad 10A o'r adroddiad hwn.

**Newidiadau Gorfodol Argymelledig yr Arolygydd (Gorffennaf 2017)**

2.27 Mae'r Arolygydd wedi casglu bod y CDLl ar y Cyd yn gadarn, yn amodol ar gyfres o Newidiadau Materion sy'n Codi a nodwyd yn Atodiad A ac Atodiad B yn ei adroddiad. Mae'r Newidiadau Gorfodol a nodwyd yn Atodiad A yn atgynhyrchu Atodlen Derfynol o Newidiadau sy'n Codi y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 2.26 uchod. Felly, maent yn barod wedi bod yn amodol i asesiad sgrinio a gwelwyd nad oeddent yn effeithio yn sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaith AC. Gwnaeth yr Arolygydd un Newid ychwanegol i'r Materion sy'n Codi (NMC), a nodwyd yn Atodiad B yn ei Adroddiad. O ystyried natur yr ANMC, mae'r Arolygydd yn casglu nad yw'r newid yn tanseilio'r prosesau AC, AAS a'r ARC a gynhaliwyd, ac nid yw'n cyfaddawdu strategaeth y Cynllun chwaith. Sgriniwyd argymhelliad yr Arolygydd er mwyn pennu a oedd y newid yn ddigon sylweddol ac a fyddai'n golygu effeithiau cynaliadwyedd arwyddocaol. Casglwyd na fyddai'r newid yn cael effaith sylweddol ar faterion cynaliadwyedd ac AC cyffredinol y Cynllun, yn unol â chanfyddiadau'r Arolygydd.

**Ansicrwydd a bylchau yn y data**

2.24 Nid yw bob amser yn bosibl rhagweld effeithiau cynaliadwyedd yn gywir wrth ystyried cynlluniau o faint strategol o'r fath. Er enghraifft, bydd yr effeithiau ar fioamrywiaeth a threftadaeth ddiwylliannol yn dibynnu ar wybodaeth ac

astudiaethau mwy manwl ar lefel safleoedd unigol. Er bod cywirdeb y wyddoniaeth ar newid yn yr hinsawdd yn gwella, mae'n anodd rhagweld yr effeithiau sy'n debygol o ddeillio o newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys effeithiau synergaidd. Mae'r materion hyn o ansicrwydd wedi'u cydnabod yn yr arfarniad, y wybodaeth waelodlin ac mewn rhannau eraill o'r Adroddiad AC hwn, lle y bo'n berthnasol.

**Ymgynghori ar yr AC**

2.25 Mae Cyfarwyddeb/Rheoliadau'r AAS yn datgan y bydd y cyhoedd yn cael cyfle cynnar ac effeithiol, o fewn yr amserlenni priodol, i fynegi eu barn ar y cynllun drafft a'r adroddiad amgylcheddol cysylltiedig, cyn i'r cynllun gael ei fabwysiadu.

2.26 Mae'r AC wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod y cam cwmpasu yn 2011 a rhoddwyd Adroddiad AC Drafft ar gael i'r cyhoedd ar wefan y ddau Gyngor yng Ngorffennaf 2012. Hefyd, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar yr Adroddiad AC Cychwynnol (Mai 2013) a oedd yn cyd-fynd â'r Ddogfen Hoff Strategaeth yn 2013 yn ogystal â'r Adroddiad AC (Chwefror 2015) a gyflwynwyd ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau ar ymgynghoriad yn 2015. Cyflwynir yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar yr AC, yn cynnwys y gwaith cwmpasu, yn Atodiad 1.

DRAFT

## 3. CYD-DESTUN CYNALADWYEDD A MATERION ALLWEDDOL

### Cefndir

3.1 Yng Ngorffennaf 2011, cynhyrchodd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Adroddiad Cwmpasu fel rhan o'r broses AC. Roedd yr Adroddiad Cwmpasu AC yn cynrychioli deilliant allweddol cyntaf yr AC ac fe helpodd sicrhau bod yr AC yn ymdrin â'r prif faterion cynaladwyedd sy'n berthnasol i ddatblygiad y system cynllunio yn y ddwy ardal Awdurdodau Lleol. Roedd y materion hyn yn cynorthwyo datblygiad yr amcanion a ddefnyddir yng nghamau'r AC/AAS i asesu effeithiau cynaladwyedd y cynllun sydd ar y gorwel.

3.2 Er mwyn sicrhau fod yr AC o'r Cynllun wedi ei seilio ar dystiolaeth cyfredol, mae'r waelodlin sy'n disgrifio sefyllfa bresennol yn ardal y Cynllun, a'r arolwg o gynlluniau a rhaglenni wedi eu diweddaru. Mae'r adrannau a ganlyn yn disgrifio'r prif dasgau a gwblhawyd fel rhan o Gam Cwmpasu yr AC ar gyfer CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (fel yr amlinellwyd yn nhabl 2.1 uchod) sy'n cynnwys diweddariadau a wnaethpwyd yn 2013 ac yn hwyr yn 2014 sy'n cynnwys y diweddariad a wnaethpwyd yn 2014.

### Adolygiad o Gynlluniau, Rhaglenni a Strategaethau Perthnasol (Tasg A1)

3.3 Pwrpas y cam hwn oedd sefydlu sut mae'r cynllun yn cael ei effeithio gan ffactorau allanol gan helpu i adnabod amcanion yr AC. Mae'n rhaid i'r ACLl ystyried y berthynas rhwng y CDLl a chynlluniau, rhaglenni a pholisiau perthnasol eraill. Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn gofyn yn benodol bod amcanion diogelu'r amgylchedd a sefydlwyd ar lefel Rhyngwladol, y Gymuned Ewropeaidd neu genedlaethol yn cael eu hystyried. Cyflwynodd Atodiad 1 o'r Adroddiad Cwmpasu adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni a ystyrir sy'n berthnasol i'r CDLl ar y Cyd. Crynhowyd yr amcanion allweddol a goblygiadau cynlluniau a rhaglenni perthnasol o dan bob pwnc, tra y crynhowyd negeseuon allweddol yr adolygiad ym mhrif gorff yr Adroddiad Cwmpasu.

3.4 Cafodd y cynlluniau a'r rhaglenni unigol a'u hadolygwyd eu grwpio dan feysydd pwnc allweddol yr AAS (fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.12) sydd wedi eu henhangu i fodloni'r agwedd arfarniad o gynaladwyedd gan gynnwys:

**1. Bioamrywiaeth** (fflora a ffawna)
**2. Cymunedau** (yn cynnwys iechyd ac eithrio cymdeithasol)
**3. Ffactorau Hinsawdd** (yn cynnwys materion newid yn yr hinsawdd)
**4. Treftadaeth Ddiwylliannol** (yn cynnwys archaeoleg, yr iaith Gymraeg a'i diwylliant)
**5. Yr economi**
**6. Tai**
**7. Tirwedd** (yn cynnwys trefwedd a morlun /materion yr arfordir)
**8. Priddoedd, Mwynau, Gwastraff** (yn cynnwys materion amaethyddol ble fo'n berthnasol)

**9. Cludiant** (yn cynnwys materion mynediad)
**10. Dŵr** (yn cynnwys adnodd, ansawdd a materion llifogydd)

3.5 Dylid nodi nad oedd rhai o'r cynlluniau a adolygwyd yn syrthio yn esmwyth i unrhyw un maes pwnc AAS, tra bu eraill yr un mor bwysig ar draws nifer o bynciau. Dylid felly ystyried y rhaniad cynlluniau a rhaglenni rhwng pynciau fel yr un mwyaf addas, yn hytrach na phroses ddosbarthu derfynol. Ceir dadansoddiad o amcanion y cynlluniau a'u hoblogiadau tebygol i'r CDLl yn yr Adroddiad Cwmpasu. Mae'r tabl isod yn amlinellu'r negeseuon allweddol o adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni.

**Tabl 3.1: Negeseuon Allweddol yr Adolygiad o'r Cynlluniau a'r Rhaglenni**

| BIOAMRYWIAETH |
|---|
| • Dylai'r CDLl ar y Cyd fod yn gyson â'r amcanion a'r targedau a osodwyd yn y cynlluniau cenedlaethol a'r ddau Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a dylai anelu at atgyfnerthu'r gofyn na chaiff datblygiad ei ganiatáu petai unrhyw ardrawiad andwyol arwyddocaol gweddillol ar unrhyw rywogaethau gwarchodedig neu gynefin gwarchodedig a dylent gael eu gwella ble bynnag y bo'n bosib.<br>• Bydd angen i'r Cynllun ystyried gofynion y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Bydd angen adnabod y cynefinoedd perthnasol a ble y bo'r angen eu dynodi'n briodol yn y CDLl ar y Cyd. Dylai'r polisïau annog rheoli nodweddion y dirwedd sydd o bwysigrwydd mawr o ran fflora a ffawna.<br>• Dylai unrhyw gynllun neu brosiect sy'n debygol o gael ardrawiad sylweddol ar safle dynodedig dderbyn Asesiad Priodol o'i oblygiadau i amcanion cadwraeth y safle. Rhaid cwblhau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) wrth baratoi CDLl ar y Cyd yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd er mwyn asesu goblygiadau'r cynllun i safleoedd Ewropeaidd.<br>• Dylai'r Cynllun hwyluso gwarchod bioamrywiaeth a gwella ac adfer cynefinoedd tir gwlyb ble y bo'n bosib gan adlewyrchu eu harwyddocâd cymharol.<br>• Dylai'r Cynllun hwyluso'r angen i gynnal a mwyhau swyddogaeth a chyslltedd ecolegol.<br>• Dylai'r CDll ystyried rôl coetiroedd wrth greu polisiau rheolaeth datblygu, ynghŷd â'r cyfraniadau positif fyddai'n deillio drwy gynyddu gorchudd coetiroedd. |
| **CYMUNEDAU** |
| • Dylai'r CDLl ar y Cyd gynnwys y cyhoedd ym mhroses paratoi'r cynllun.<br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo creu cymunedau cynaliadwy a hwyluso |

DRAFT

datblygu sy'n ofodol gytbwys.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy o ran nodweddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd hyrwyddo adfywio cynaliadwy yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Môn a Gwynedd drwy wella a gwarchod yr amgylchedd a’r isadeiledd a thrwy wella hygyrchedd i wasanaethau i’r bobl yn yr ardaloedd hyn.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd hwyluso gwelliannau yn ansawdd bywyd preswylwyr - ym mhob rhan o’r gymdeithas er mwyn cynnal a hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, llewyrchus a bywiog.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd gyfrannu tuag at fabwysiadu a datblygu pobl ifanc er mwyn iddynt fod yn fentrus o fewn eu cymunedau, gan gyfrannu at ddatblygiad eu hardaloedd a’r economi leol ac yn fwy pwysig, rhoi sgiliau, gwybodaeth a phrofiad iddynt gyflawni hynny.

- Dylid hyrwyddo gwella iechyd a lles preswylwyr drwy’r Cynllun a dylid mynd i’r afael â ffactorau cymdeithasol ac economaidd sy’n dylanwadu ar iechyd.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd hyrwyddo gwelliant mewn iechyd a lles y preswylwyr drwy hyrwyddo datblygiadau hamdden sy’n gynaliadwy yn amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd hwyluso datblygu cymunedau iach, cryf a gweithgar.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd hyrwyddo mynediad hawdd i lecynnau agored, gwasanaethau, cyfleusterau hamdden a chwaraeon a llecynnau agored.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd hyrwyddo cyfleoedd cerdded a beicio.

- Dylai’r Cynllun sicrhau fod meini prawf y polisïau yn ystyried ardrawiad datblygu o ran y sŵn a gynhyrchir er mwyn osgoi, lleihau a lliniaru sŵn amgylcheddol.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd ystyried anghenion pobl hŷn.

- Gellir mynd i’r afael â’r holl amcanion strategol drwy gyfrwng amcanion y CDLl ar y Cyd, megis:  y materion ehangach sy’n effeithio ar iechyd a lles, gwarchod yr amgylchedd a chefnogi pobl i fod yn annibynnol.

- Dylai’r CDLl ar y Cyd ddarparu ar gyfer anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, a cheisio lleihau anghydraddoldebau, a chynyddu mynediad i’r grŵp hwn.

DRAFT

DRAFT

**FFACTORAU HINSAWDD**

- Dylai'r CDLl ar y Cyd fynd i'r afael â materion megis newid hinsawdd, annog lleihau allyriadau nwyon niweidiol tŷ gwydr a hwyluso gwella ansawdd aer. Dylai'r Cynllun fod yn gyson ag amcanion a thargedau a sefydlwyd yn y cynlluniau a'r canllawiau cenedlaethol, megis Strategaeth Ansawdd Aer y DU.
- Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried amcanion a thargedau'r polisi cenedlaethol pan ffurfir y polisïau yn ymwneud â chynhyrchu ynni yn Ardal y Cynllun.
- Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddol mewn datblygiadau newydd a phwysleisio'r berthynas rhwng ynni a dyluniad adeiladu.
- Bydd argaeledd cludiant cyhoeddus yn ystyriaeth bwysig i'r CDLl ar y Cyd, yn enwedig o ran cynaliadwyedd, hygyrchedd, lleihau'r ddibyniaeth ar gludiant cyhoeddus a chyfrannu tuag at ymateb i newid hinsawdd.
- Dylai'r Cynllun, drwu ei bolisiau, helpu adeiladu a hyrwyddo hydwythdedd newid hinsawdd o fewn ardal y Cynllun.

**TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL**

- Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried cynlluniau a chanllawiau allweddol wrth ffurfio'i bolisïau a'i gynigion.
- Dylai'r CDLl ar y Cyd ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r dreftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo'r cyfleoedd fydd yn codi yn sgil adnoddau ieithyddol a diwylliannol yr ardal.
- Wrth lunio'r cynigion, dylai'r CDLl ystyried yr wybodaeth am dreftadaeth ddiwylliannol sydd yn LANDMAP.
- Dylai'r CDLl gadw a diogelu tirweddau hanesyddol a diwylliannol sydd ar Gofrestr Tirweddau Hanesyddol Cymru, a chadw cyfanrwydd nodweddion ac asedau tirweddau diwylliannol.

**ECONOMI**

- Ar lefel leol, mae gan Ynys Môn gynllun adfywio penodol. Felly, mae'n bwysig bod y CDLl ar y Cyd yn ystyried y strategaeth leol hon ynghyd â'r targedau cenedlaethol a sefydlwyd yn y Cynlluniau a'r canllawiau uchod.
- Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso twf economaidd cynaliadwy yn Ardal y Cynllun gyda'r nod o greu economi fywiog a llewyrchus.
- Dylai'r CDLl ar y Cyd asesu ac annog bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi a chanolfannau manwerthu.
- Dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau fod ardaloedd a ddynodir ar gyfer cyflogaeth mewn lleoliadau cynaliadwy, gan gynnwys lleihau'r angen i deithio.
- Dylai'r CDLl ar y Cyd wella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn enwedig

| |
|---|
| mewn cymunedau difreintiedig.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo twf twristiaeth, tra ar yr un pryd, ddiogelu'r amgylchedd a diddordebau cymunedau lleol.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso gwelliannau mewn sgiliau yn y gweithlu, hyrwyddo mentergarwch ac yn sgil hynny creu cyfleoedd gwaith cynaliadwy o ansawdd uchel. |
| **TAI** |
| • Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried amcanion tai yn y cynlluniau a'r canllawiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n gysylltiedig â thai.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso gwella'r cyflenwad tai yn yr ardal, eu hansawdd, eu fforddiadwyedd a'u haddasrwydd er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth breswyl.<br><br>• Dylai'r Cynllun hwyluso datblygu adeiladau sy'n effeithlon o ran ynni.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso ailddefnyddio tai gwag er mwyn cynorthwyo i ddiwallu anghenion tai'r boblogaeth.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso darparu llety addas ar gyfer pobl hŷn.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd adnabod tir ar gyfer dyraniadau tai, gan ffafrio ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen ac adeiladau sydd â chysylltiadau cludiant da. |
| **TIRWEDD** |
| • Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried cynlluniau a chanllawiau allweddol/ a nodwyd wrth ffurfio'i bolisïau a'i gynigion.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ddarparu ar gyfer cadwraeth a ble y bo'n briodol modd, gwella'r amgylchedd naturiol a'r dirwedd, a pharchu hawliau tramwy.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo datblygiadau mewn mannau priodol a dylunio da sy'n parchu hynodrwydd yr ardal adeiledig a'r tirwedd.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried ardrawiad datblygu telathrebu ar gynaliadwyedd, gan bwyso a mesur yr angen am dwf economaidd yn erbyn effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd liniaru effaith potensial datblygiadau ymwthiol fel tyrbinau gwynt ar y tirwedd (diffinnir datblygiadau ymwthiol fel datblygiadau sydd yn cael effaith negyddol sylweddol ar gyfanrwydd y tirwedd a mwynderau).<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ddiogelu tir comin yn unol â'r Deddf Comin. |

DRAFT

| PRIDDOEDD, MWYNAU, GWASTRAFF |
| --- |
| • Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried cynlluniau a chanllawiau allweddol wrth ffurfio'i bolisïau a'i gynigion.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd roi ystyriaeth lawn i'r canllawiau a sicrhau fod y defnydd o fwynau yn cael ei ddatblygu'n gynaliadwy.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso echdynnu agregau yn gynaliadwy o fewn Ardal y Cynllun, gan sicrhau cydbwysedd rhwng y costau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau fod ei bolisïau ynglŷn â gwastraff yn adlewyrchu amcanion a thargedau cynlluniau a chanllawiau perthnasol.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff ac annog lleihau'r gwastraff a gynhyrchir.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo ailgylchu a hwyluso lleihau'r gwastraff a anfonir i dirlenwi yn unol â thargedau a osodir gan y Gyfarwyddeb Tirlenwi.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ddarparu fframwaith defnydd tir er mwyn galluogi'r ddau Awdurdod i ddyrannu safleoedd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso lleihau cyfradd twf gwastraff yn ardal y Cynllun.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ymgorffori cyfleusterau rheoli gwastraff digonol ac effeithiol mewn datblygiadau newydd.<br><br>• Dylai'r CDLl hwyluso cynhaliaeth a mwyhad swyddogaethau priddoedd, gan gynnwys y rhai hynny sydd â'u swyddogaethau yn ymwneud ag atafaeliad carbon a lliniaru llifogydd. |
| **TRAFNIDIAETH** |
| • Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso datblygu cyfundrefn gludiant effeithiol a chynaliadwy, sy'n gwella mynediad i bawb, fydd yn ei dro yn grymuso cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.  Bydd argaeledd cludiant cyhoeddus yn ystyriaeth bwysig i'r CDLl ar y Cyd, yn enwedig o ran cynaliadwyedd, hygyrchedd, lleihau'r ddibyniaeth ar gludiant cyhoeddus a chyfrannu tuag at yr ymateb i newid hinsawdd.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo dulliau cludiant sy'n garedig i'r amgylchedd a datblygu rhwydwaith cludiant craidd wedi'i integreiddio'n dda sydd hefyd yn  ddiogel, effeithiol, glân a theg. |
| **DWR** |

DRAFT

- Dylai'r cynllun ymgorffori gofynion y cynlluniau a'r canllawiau allweddol perthnasol a hwyluso gwarchod a gwella ansawdd dŵr. Dylid datblygu polisïau ar gyfer diogelu adnoddau dŵr.
- Dylai'r Cynllun sicrhau nad yw ansawdd cyrff dŵr yn Ardal y Cynllun yn cael eu rhoi yn y fantol gan gynigion datblygu defnydd tir.
- Dylai'r CDLl hwyluso defnyddio dŵr yn effeithiol a chynaliadwy.
- Dylai'r CDLl sicrhau yr ystyrir perygl llifogydd wrth benderfynu ar leoliad datblygiad newydd. Dylai datblygiadau newydd gael eu cyfeirio oddi wrth yr ardaloedd hynny sydd mewn risg uchel o lifogydd.

**Casglu Gwybodaeth Gwaelodlin (Tasg A2)**

3.6 Cam nesaf yn y broses Cwmpasu oedd casglu gwybodaeth gawelodlin (tasg A2). Pwrpas y cam hwn oedd disgrifio cyflwr nodweddion presennol cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr ardal sy'n debygol o gael eu heffeithio yn sylweddol gan y Cynllun. Byddai hyn yn cynorthwyo'r broses o adnabod materion cynaliadwyedd a phroblemau amgylcheddol yn Ardal y Cynllun yn ogystal â darparu'r sail tystiolaeth ar gyfer rhagweld a monitro effeithiau'r CDLl ar y Cyd.

3.7 Mae casgliad cryf o wybodaeth waelodlin yn bwysig er sicrhau sail tystiolaeth gref i'r CDLl. Er hynny, mae'r Rheoliadau yn gofyn mai dim ond gwybodaeth sydd ei hangen yn rhesymol sydd angen ei chynnwys yn yr adroddiad. Mae Atodiad 2 o'r Adroddiad Cwmpasu yn cyflwyno'r wybodaeth waelodlin. Mae'r tablau yn dangos tueddiadau yn ogystal â data cymharol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol pan fo ar gael. Yn ogystal, nodwyd y materion allweddol/cyfyngiadau/cyfleoedd a gyfyd o'r dadansoddiad gwaelodlin. Roedd hyn o gymorth gyda datblygiad y fframwaith arfarnu AC. Darperir gwybodaeth gryno yn ogystal â'r materion gwaelodlin allweddol i bob pwnc ym mhrif destun yr Adroddiad.

3.8 Roedd lefel a manylion yr wybodaeth waelodlin yn amrywio rhwng pynciau oherwydd yr wybodaeth sydd ar gael. Ble bynnag fo'n bosib fe gafodd yr ystadegau a'r wybodaeth ddiweddaraf eu defnyddio. Diweddarwyd y waelodlin yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu ac eto hwyr yn 2014. Mae'r gwaelodlin a ddiweddarwyd yn hwyr yn 2014 ar gael yn atodiad 3.

3.9 Mae'r gyfarwyddeb AAS yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddisgrifio'r *"agweddau perthnasol o gyflwr yr amgylchedd a'r esblygiad heb weithredu'r cynllun neu raglen" (Ychwanegiad 1 (b))*. Mae'r materion a'r negeseuon allweddol sy'n berthnasol i ardal y Cynllun, fel a gafodd eu hadnabod fel rhan o'r broses cwmpasu wedi eu dadansoddi er mwyn asesu'r senario tebygol pe na byddai'r CDLl yn cael ei gynhyrchu.

DRAFT

3.10 Mae'n anodd rhagweld cyflwr yr amgylchedd yn gywir heb weithredu'r Cynllun gan fod nifer o rymoedd a cynlluniau a strategaethau eraill sydd hefyd yn dylanwadu ar ddatblygiad unrhyw ardal. Felly, mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r oblygiadau defnydd tir tebygol o'r cynlluniau datblygu lleol mabwysiedig (h.y. Cynllun Strwythur Gwynedd, Cynllun Lleol a Chynllun Datblygu Unedol Gwynedd).

**Tabl 3.2: Esblygiad Tebygol y Waelodlin Heb Weithrediad y Cynllun**

| Pwnc AC | Esblygiad Tebygol y Waelodlin Heb Weithrediad y Cynllun |
|---|---|
| **Bioamrywiaeth** | • Dylai deddfwriaeth lleol a chenedlaethol presennol sicrhau gwarchodaeth<br>• Byddai diffyg fframwaith strategol yn arwain at ddatblygiad ad hoc a gall, a gallai hyn gyfaddawdu swyddogaeth a chysylltedd ecolegol. Bydd hyn, ynghŷd â chynnydd yn y boblogaeth yn rhoi pwysau cynyddol ar yr amgylchedd naturiol gyda bygythiad parhaol i'r amgylchedd naturiol yn arwain at golled bioamrywiaeth. |
| **Cymunedau** | • Allfudiad cynyddol o bobl ifanc.<br>• Cymunedau difreintiedig yn parhau i fod arwahan.<br>• Lleihad cynyddol yng nghyfran siaradwyr Cymraeg.<br>• Cynnydd parhaus mewn anghydraddoldebau cymdeithasol.<br>• Byddai uechyd y boblogaeth yn dirywio gyda dim darpariaeth o gyfleusterau iechyd a chymunedau i ddiwallu anghenion. |
| **Ffactorau Hinsawdd** | • Achosion newid hinsawdd ar lefel lleol yn parhau i gynyddu os na fyddai tyfiant yn cael ei reoli mewn modd cynaladwy.<br>• Ni fyddai targedau cenedlaethol yn cael eu cyfarfod<br>• Newid hinsawdd yn debygol o arwain at gynnydd mewn perygl llifogydd<br>• Newid hinsawdd yn debygol o achosi peryglon o ran sychder a peryglon daearyddol i rwydweithiau trafnidiaeth (tirlithriad ayb). |
| **Treftadaeth Diwylliannol** | • Byddai'r adnodd treftadaeth diwylliannol dan fygythiad oherwydd datblygiad anaddas.<br>• Gallai gwasanaethau a chyfleusterau lleol fod yn anigonnol wrth geisio diwallu anghenion y boblogaeth gynyddol. |
| **Economi** | • Diffyg safleoedd cyflogaeth addas mewn lleoliadau cynaladwy a hyfyw.<br>• GVA yn parhau in fod yn isel yn enwedig yn Ynys Môn.<br>• Gweithgaredd gymharol uchel yng Ngwynedd yn dod o dan bwysau.<br>• Y gyfradd ddiweithdra yn parhau i fod yn uchel yn Ynys |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | Môn.<br>• Diywiad parhaol mewn economiau gwledig<br>• Lleihad barhaol yn niwydiannau defnydd tir.<br>• Lleihad barhaol yn ansawdd y diwydiant twristiaeth.<br>• Ni fyddai darpariaeth addysgol yn ddigonol i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n tyfu |
| **Tai** | • Gofyn cynyddol am dai ochr yn ochr â chynnydd mewn prisiau tai.<br>• Lleihad cynyddol yn narpariaeth tai fforddiadwy.<br>• Prinder tai o ansawdd da yn enwedig yng Ngwynedd.<br>• Cyfradd uchel o ail dai / tai gwyliau yn parhau<br>• Dibyniaeth ar safloedd ar hap ar gyfer darpariaeth tai gyda dim fframwaith strategol. |
| **Tirwedd** | • Pwysau cynyddol ar y tirwedd<br>• Mannau agored yn dod o dan bwysau i'w datblygu<br>• Diwm gwelliant yn ansawdd dyluniad datblygiadau newydd oherwydd diffyg fframwaith statudol.<br>• Colled potensial o wahanolrwydd tirwedd a cholled potensial o gyfanrwydd asedau tirwedd sy'n bwysif idatblygiad economaidd gan gynnwys llonyddwch. |
| **Priddoedd, Mwynau, Gwastraff** | • Cynnydd yn y boblogaeth yn arwain at gynnydd yn y gwastraff sy'n cael ei greu.<br>• Pwysau ar safleoedd tirlenwi yn cynyddu.<br>• Bygythiad i dir amaethyddol o'r ansawdd gorau. |
| **Trafnidiaeth** | • Dibyniaeth barhaol ar y car preifat fel y dull i deithio.<br>• Datblygiad mewn mannau anghynaladwy yn arwain at dibyniaeth gynyddol ar drafnidiaeth preifat.<br>• Cyfyngiad yn y cyfleoedd ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth mawr. |
| **Dŵr** | • Bygythiad i ansawdd afonydd, dŵr wyneb a dŵr daear.<br>• Perygl llifogydd yn parhau mewn rhai ardaloedd. |

3.11 Dylid nodi fel rhan o Raglen Ynys Ynni Ynys Môn, sy'n anelu i ddenu swyddi ansawdd uchel sy'n ymwneud ag ynni i Ynys Môn dros y ddau ddegawd nesaf, y gallai atomfa niwclear newydd yn Wylfa B gael ei ddatblygu ar yr ynys. Mae goblygiadau datblygiad posib atomfa bŵer Wylfa B wedi'u hystyried yn y gwerthusiad a'r cynllun datblygu proses.

**Adnabod Materion Cynaladwyedd a Phroblemau**

3.12 Cam nesaf o'r broses Cwmpasu oedd adnabod y materion cynaladwyedd drwy ddadansoddiad o'r gwybodaeth waelodlin a'r arolwg o gynlluniau a rhaglenni. Pwrpas y cam hwn oedd helpu diffinio'r materion allweddol i'r CDLl sy'n hanfodol i gynaliadwyedd y CDLl ac i gynorthwyo i ddylanwadu ar y



DRAFT

Fframwaith AC /AAS sy'n dod yn enwedig o safbwynt adnabod amcanion, is-amcanion a dangosyddion.

3.13 Cafodd faterion a phroblemau cynaliadwyedd eu hadnabod drwy broses ailadroddol, gan roi ystyriaeth i'r wybodaeth waelodlin, adolygiad o'r cynlluniau, polisïau a rhaglenni perthnasol. Mae'r problemau a'r materion amgylcheddol allweddol a nodwyd i'r AC i CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd wedi eu darparu ar gyfer pob pwnc fel a ddangosir yn y tabl isod.

DRAFFT

**Tabl 3.3: Materion allweddol a chyfleoedd**

| MAES | MATERION ALLWEDDOL O DDADANSODDIAD O'R GWAELODLIN | MATERION CYNALADWYEDD A CHYFLEOEDD |
|---|---|---|
| **BIOAMRYWIAETH** | • **Bygythiadau i gyflwr a pharhad nodweddion bioamrywiaeth**<br>• **Diogelu Coetiroedd Rhannol Naturiol**<br>• **Yr angen i gynnal a mwyhau swyddogaethau a chysylltedd ecolegol.** | • Yr angen i gynnal, cadw a gwella rhywogaethau a chynefinoedd drwy eu gwarchod nhw rhag effeithiau andwyol datblygiadau a, ble bo angen, sicrhau y cymerir mesurau lleddfu er mwyn osgoi effeithiau andwyol o'r fath. Yn ei dro, bydd hyn yn atal difrod i rywogaethau ac osgoi colledion na ellir eu hadfer.<br>• Yr angen i ddarparu ar gyfer cadw a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd sydd wedi'u hadnabod a'u cynnwys yn y cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth.<br>• Yr angen i sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn achosi difrod i nodweddion safleoedd sydd wedi'u dynodi'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol a, ble bo hynny'n briodol, y cymerir mesurau lliniaru i osgoi unrhyw effeithiau andwyol.<br>• Gwella ardaloedd dynodedig ac ehangach o fioamrywiaeth drwy gynnal a gwella isadeiledd gwyrdd.<br>• Yr angen i ystyried pwysigrwydd coetiroedd a sicrhau yr hyrwyddir eu gwarchod a'u gwella. |
| **CYMUNEDAU** | • **Poblogaeth sy'n heneiddio**<br>• **Allfudo gan bobl ifanc**<br>• **Poblogaeth gymharol iach a diogel ond gydag amrywiadau'n amlwg o fewn ardal y CDLl ar y cyd**<br>• **Anghydraddoldebau amddifadedd cymdeithasol** | • Mae'r boblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at ostyngiadau yn y gweithlu sydd ar gael.<br>• Effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar wasanaethau lleol.<br>• Hyfywdra rhai gwasanaethau yn y dyfodol (e.e. ysgolion bach) o gofio'r gostyngiad yn niferoedd y disgyblion.<br>• Cyfleoedd cyflogaeth yn nhermau darparu cyfleusterau gofal iechyd.<br>• Effaith colli pobl o oed gweithio ar yr economi lleol.<br>• Yr angen parhaus i wrthsefyll allfudo gan y gweithlu ifanc. |

DRAFT

| MAES | MATERION ALLWEDDOL O DDADANSODDIAD O'R GWAELODLIN | MATERION CYNALADWYEDD A CHYFLEOEDD |
|---|---|---|
| | | • Cymunedau llai cynaliadwy a chymysg.<br>• Yr angen i greu cymunedau gyda mwy o gydbwysedd oedran yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>• Yr angen i gynnal a gwella iechyd a lles cyffredinol y preswylwyr.<br>• Yr angen i annog ffordd o fyw iachach i breswylwyr.<br>• Yr angen i hyrwyddo'r gostyngiad parhaus mewn cyfraddau trosedd drwy annog datblygiadau sy'n gwella diogelwch cymunedau.<br>• Yr angen i annog darpariaeth mannau agored, isadeiledd gwyrdd a chyfleusterau chwaraeon er mwyn hyrwyddo mwy o ymarfer corff.<br>• Yr angen i ostwng amddifadedd yn benodol yn nhermau tai a mynediad i wasanaethau, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.<br>• Yr angen i ostwng yr anghydraddoldebau drwy'r system gynllunio.<br>• Yr angen i hwyluso datblygu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a hwyluso gwelliannau mewn cyfleoedd lleol drwy gynyddu faint o gyflogaeth o safon sydd ar gael ynghyd â chefnogi busnesau lleol. |
| **FFACTORAU HINSAWDD** | • **Cynnal ansawdd aer da yn gyffredinol**<br>• **Nwyon tŷ gwydr a bygythiad newid hinsawdd**<br>• **Niwed posibl i ecosystemau gan ddyddodion nitradau ac asid**<br>• **Y perygl o lifogydd o ganlyniad i newid hinsawdd**<br>• **Hyrwyddo a chreu hydwythdedd a chymhwysedd newid hinsawdd mewn tai ac isadeiledd presennol.** | • Yr angen i ystyried effeithiau ansawdd aer wrth asesu bwriadau datblygu mewn ardaloedd ble y gallai datblygiadau newydd/ychwanegol arwain at effeithiau sylweddol/cronnus er mwyn cynnal neu wella ansawdd aer.<br>• Yr angen i gyfrannu at leihau nwyon tŷ gwydr drwy leihau defnydd o ynni a chynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy.<br>• Yr angen i hyrwyddo effeithiolrwydd ynni wrth ddylunio adeiladau newydd ac addasu adeiladau presennol.<br>• Yr angen i leihau ôl-troed ecolegol y ddau awdurdod lleol, gyda ffocws penodol ar yr allyriadau sy'n codi o dai a thrafnidiaeth.<br>• Lleihad mewn cynhyrchiant nwyon tŷ gwydr drwy leihau faint o deithio a wneir mewn cludiant preifat, gan hyrwyddo mwy o gerdded, beicio a |

DRAFT

| MAES | MATERION ALLWEDDOL O DDADANSODDIAD O'R GWAELODLIN | MATERION CYNALADWYEDD A CHYFLEOEDD |
|---|---|---|
| | | defnydd o gludiant cyhoeddus.<br>• Yr angen i sicrhau bod y datblygiad newydd yn wydn a bod modd ei addasu i wrthsefyll effeithiau llifogydd<br>• Ymgorffori mesurau addasu i newid hinsawdd fel elfen annatod o'r holl ddatblygiadau newydd gan gynnwys datblygiadau tai, seilwaith a thwristiaeth, ac ystyried a fydd y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu'n bositif tuag at leihau neu reoli'r risg o lifogydd.<br>• Hwyluso datblygu ffynonellau ynni carbon isel ledled ardal y cynllun. |
| **TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL** | • **Gostyngiad diweddar yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg**<br>• **Treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol**<br>• **Colli nodweddion tirwedd hanesyddol** | • Yr angen i hwyluso cadw a gwella'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig fel rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol.<br>• Yr angen i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth ynghylch effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg ble bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol.<br>• Ceir potensial o ddifrod i safleoedd treftadaeth pwysig a'r amgylchedd hanesyddol o fewn ardal y CDLl ar y cyd gan ddatblygiadau yn sgil dinistr/ymyrraeth i nodweddion o bwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol a hefyd drwy ymyrryd ar leoliad nodweddion o'r fath.<br>• Yr angen i hyrwyddo gwarchod, cadwraeth a gwella tirwedd archeolegol, pensaernïol, adeiliedig a hanesyddol ardal y CDLl ar y cyd. |
| **ECONOMI** | • **Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) cymharol isel yn benodol yn Ynys Môn**<br>• **Cyfradd gweithgarwch economaidd gymharol uchel yn ardal y CDLl ar y cyd ond diweithdra uwch na'r cyfartaledd yn Ynys Môn**<br>• **Gostyngiad yn niwydiannau'r tir** | • Yr angen i hwyluso buddsoddiad mewn amrywiaeth o sectorau economaidd, yn benodol yn Ynys Môn.<br>• Yr angen i hyrwyddo adfywio cynaliadwy yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig drwy wella a gwarchod yr amgylchedd a'r isadeiledd a thrwy wella mynediad i wasanaethau i'r bobl yn yr ardaloedd hyn.<br>• Yr angen i gyfrannu at gryfhau ac amrywio economïau lleol o fewn ardal y Cynllun drwy gefnogi a hyrwyddo twf mewn busnesau lleol.<br>• Yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r economi lleol yn ardal y CDLl ar y cyd |

DRAFT

| MAES | MATERION ALLWEDDOL O DDADANSODDIAD O'R GWAELODLIN | MATERION CYNALADWYEDD A CHYFLEOEDD |
|---|---|---|
| | • **Enillion llai na'r cyfartaledd**<br>• **Cyrhaeddiad addysgol**<br>• **Hybu twf cynaladwy o fewn y diwydiant twristiaeth** | gan fod angen cynnal ac adfywio'r economi hwn, yn benodol o gofio'r dirywiad yn y diwydiant amaethyddiaeth.<br>• Yr angen i gefnogi gweithgarwch economaidd priodol o fewn ardal y CDLl ar y cyd a gwella rhagolygon a chyfleoedd cyflogaeth gan ystyried y sectorau hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth.<br>• Yr angen i hybu buddsoddiad drwy ddarparu isadeiledd o drafnidiaeth, cysylltiadau a thir sy'n gymorth i ddenu busnesau newydd er mwyn darparu gwaith â chyflog uwch.<br>• Yr angen i hwyluso darparu cyfleoedd hyfforddiant ac addysg er mwyn gwella sgiliau'r boblogaeth o oed gweithio.<br>• Yr angen i gefnogi twf y diwydiant twristiaeth gyda'r isadeiledd angenrheidiol.<br>• Datrys y broblem o siopau gwag. |
| **TAI** | • **Amddifadedd tai yn benodol yng Ngwynedd**<br>• **Fforddiadwyedd a diffyg tai fforddiadwy**<br>• **Tai gwag ac ail gartrefi** | • Yr angen i ddarparu amrediad o dai addas a fydd yn bodloni anghenion bob math o aelwydydd fel bod gan bawb y cyfle i fyw mewn cartref gweddus a fforddiadwy.<br>• Yr angen i wella'r stoc tai presennol ble bo angen drwy addasiadau, estyniadau ac ati.<br>• Yr angen i ddarparu nifer a dosbarthiad digonol o wahanol fathau o dai.<br>• Yr angen i hwyluso darpariaeth cyflenwad mwy amrywiol o dai mewn ardaloedd gwledig er mwyn gweddu i'r holl anghenion. Dylai tai newydd fod yn fforddiadwy i'r boblogaeth leol heb gael effaith andwyol ar gymeriad ac elfen nodedig lleol ardaloedd gwledig.<br>• Yr angen i hwyluso datblygu tai fforddiadwy lleol neu dai i'r farchnad nghenion lleol yn ardal y CDLl ar y cyd.<br>• Cynllunio ar gyfer aelwydydd sy'n lleihau. |

DRAFT

| MAES | MATERION ALLWEDDOL O DDADANSODDIAD O'R GWAELODLIN | MATERION CYNALADWYEDD A CHYFLEOEDD |
|---|---|---|
| | | • Cefnogi aelwydydd un rhiant gydag mynediad da. |
| **TIRWEDD** | • **Pwysau ar ddynodiadau tirwedd pwysig**<br>• **Y posibilrwydd o golli nodweddion tirwedd hanesyddol a phwysig e.e cloddiau**<br>• **Pwysigrwydd llonyddwch ac awyr dywyll mewn ardaloedd eang** | • Yr angen i warchod a gwella tirweddau a'r môr drwy ddyluniadau a datblygiadau priodol o safon uchel sy'n cyd-fynd â chymeriad a natur nodedig lleol a, ble bo hynny'n briodol, nad ydynt yn cael effaith andwyol sylweddol ar olygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri ac AHNEau nac allan ohonynt.<br>• Yr angen i sicrhau bod yr AHNEau a'r Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod rhag datblygiadau sydd â'r potensial i ddifrodi eu nodweddion cadwraeth arbennig.<br>• Yr angen i warchod a gwella ardaloedd o lonyddwch ac awyr dywyll, yn enwedig o fewn AHNEau, drwy ddyluniadau a datblygiadau priodol.<br>• Annog cysylltiadau isadeiledd gwyrdd, a diogelu a gwella gwrychoedd, coed mwynderol a choedtiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau.<br>• Defnyddio lletemau glas lle ystyrir bod angen dynodiadau o'r fath |
| **PRIDDOEDD, MWYNAU. GWASTRAFF** | • **Cynnal dwysedd carbon priddoedd yng Ngwynedd**<br>• **Maint cyfyngedig o'r tir amaethyddol gorau a'r tir mwyaf amlbwrpas**<br>• **Cynnydd mewn Gwastraff Bwrdeistrefol**<br>• **Lleihau dibyniaeth ar safleoedd tirlenwi** | • Yr angen i warchod a rheoli pridd gan gynnwys cynnal carbon pridd ac anelu i osgoi peri risg ychwanegol drwy lygru neu halogi.<br>• Yr angen i gyfeirio datblygiadau i safleoedd tir llwyd neu, fel arall, i'r tir amaethyddol o'r ansawdd gwaethaf gymaint â phosib er mwyn cadw'r tir amaethyddol gradd uchel.<br>• Adnabod yr angen i leihau gwastraff sy'n deillio o'r holl sectorau fel y gellir cyrraedd y targedau a osodir gan Ewrop a Llywodraeth Cymru.<br>• Yr angen i alluogi'r lleiahd/lliniariad llygryddion dŵr ac aer sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth.<br>• Yr angen i sicrhau yr ystyrir materion gwastraff wrth asesu a phennu ceisiadau cynllunio ar gyfer pob math o ddatblygiadau.<br>• Yr angen i gyfrannu tuag at leihau faint o wastraff bwrdeistrefol sy'n cael |

DRAFT

| MAES | MATERION ALLWEDDOL O DDADANSODDIAD O'R GWAELODLIN | MATERION CYNALADWYEDD A CHYFLEOEDD |
|---|---|---|
| | | ei dirlenwi drwy hwyluso darparu rhwydwaith cynhwysfawr, integreiddiedig a chynaliadwy o gyfleusterau rheoli gwastraff newydd a gwell ar gyfer trin a gwaredu gwastraff fel dewis amgen i dirlenwi.<br>• Yr angen i gyfrannu tuag at gynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio. |
| **TRAFNIDIAETH** | • **Dewisiadau cludiant cyfyngedig**<br>• **Dibyniaeth uchel ar y car preifat i deithio** | • Yr angen i hwyluso rhwydwaith cludiant cynaliadwy, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.<br>• Ystyried lleoliad datblygiadau yn nhermau hygyrchedd drwy wahanol fathau o gludiant.<br>• Lleihau lefelau uchel o deithio i'r gwaith gyda thrafnidiaeth preifat. |
| **DWR** | • **Cynnal ansawdd afonydd da a gwella safonau ble bo angen**<br>• **Cynnal dyfroedd ymdrochi glân a gwella eraill**<br>• **Nifer o ardaloedd poblog mewn perygl o orlifo**<br>• **Mae'n bosibl na fydd llawer o arfordir a gorlifdiroedd Gwynedd ac Ynys Môn yn addas ar gyfer datblygiadau tymor-hir**<br>• **Llai o adnoddau dŵr ar gael** | • Yr angen i annog y gwelliant mewn ansawdd dŵr drwy leihau'r risg o lygredd yn mynd i mewn i gyrsiau dŵr.<br>• Yr angen i liniaru'r achosion ble mae adnoddau dŵr daear a chyflenwadau dŵr yfed yn cael eu halogi.<br>• Ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy mewn datblygiadau newydd.<br>• Hyrwyddo gweithgareddau sy'n debygol o gynnal ansawdd uchel y dŵr ymdrochi.<br>• Yr angen i sicrhau nad yw datblygiadau wedi'u lleoli o fewn ardaloedd sydd â risg uchel o lifogydd.<br>• Yr angen i gyflwyno mesurau isafu neu liniaru llifogydd i leihau cyfaint a chyfradd dŵr ffo mewn datblygiad newydd.<br>• Yr angen i leihau'r risg o lygryddion fynd i fewn i ddyfroedd arfordirol, llynnoedd a dŵr daear, yn ogystal â chyrsiau dŵr afonydd.<br>• Sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys mesurau effeithiolrwydd dŵr.<br>• Yr angen i hyrwyddo defnyddio dŵr, fel adnodd naturiol, mewn ffordd gynaliadwy. |

DRAFT

| MAES | MATERION ALLWEDDOL O DDADANSODDIAD O'R GWAELODLIN | MATERION CYNALADWYEDD A CHYFLEOEDD |
|---|---|---|
| | | • Lleihau'r galw ym Mharthau Ffynhonellau Dŵr Gogledd Eryri ac Ynys Môn i liniaru pwysau. |

DRAFFT

**AC O'R DEWISIADAU AMGEN**

**Cyflwyniad**

4.1 Mae'r gwaith o ddatblygu opsiynau ar gyfer creu cynllun a'r AC/AAS o'r dewisiadau eraill wedi bod yn elfen barhaus o'r gwaith o gynhyrchu'r CDLl ar y Cyd a'i AC cysylltiedig. Mae dewisiadau eraill wedi'u hystyried o'r camau cynharaf - o'r Adroddiad AC Cychwynnol Drafft (Gorffennaf 2012) i'r cam o gynhyrchu'r Adroddiad AC hwn (Chwefror 2015). Mae'r adaran hon yn cyflwyno hanes dewisiadau eraill yr AC ac asesiadau o'r opsiynau hyd yma. Mae'n crynhoi'r ffordd y cafodd opsiynau eu nodi, eu hasesu a'u datblygu drwy wahanol gamau'r broses o wneud cynlluniau; mae'n crynhoi ac yn cyfeirio at AC sydd wedi'u cynnal, ac yn dangos sut mae canfyddiadau'r AC hwn wedi dylanwadu ar wahanol gamau'r Cynllun Lleol.

**Asesiad o Ddewisiadau Amgen yn yr AC/AAS**

4.2 Mae Cyfarwyddeb AAS yr UE[3] yn datgan bod angen cynnwys asesiad o effeithiau arwyddocaol tebygol cyflwyno'r cynlluniau a "*dewisiadau eraill* rhesymol" gan ystyried "*amcanion a chwmpas* daearyddol" y cynllun a'r rhesymau dros ddewis dewisiadau eraill yn yr Adroddiad. Nid yw'r Gyfarwyddeb yn cynnwys diffiniad penodol o "*ddewis arall rhesymol*", fodd bynnag, mae canllawiau'r DU ar AC/AAS[4] yn datgan y dylai olygu "*realistig a pherthnasol*", h.y. mae'n bosibl ei gyflawni ac o fewn amserlen y cynllun.

4.3 Mae canllawiau'r AAS[5] yn cyflwyno'r ymagwedd a'r dulliau ar gyfer datblygu ac asesu dewisiadau eraill. Mae hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth o hierarchaeth y dewisiadau eraill sy'n berthnasol a chymesur â haenau'r gwaith o lunio cynlluniau. Nid oes angen ymhelaethu'n fanwl ar y dewisiadau eraill sy'n cael eu hystyried yn ystod camau cynnar y broses o lunio cynllun, er mwyn i'r "*materion pwysig*" fod yn amlwg; dim ond y prif wahaniaethau rhwng y dewisiadau eraill y dylid eu nodi h.y. dylai'r asesiad fod yn gymesur â lefel a chwmpas y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer paratoi'r cynllun. Ceir crynodeb o hierarchaeth y dewisiadau eraill yn Ffigur 4.1 isod.

4.4 Mae cyfraith achosion diweddar yn Lloegr wedi egluro a darparu arweiniad pellach ar yr arfer presennol ar sut y dylid ystyried dewisiadau eraill mewn AC/AAS o gynlluniau gofodol a defnyddio tir. Roedd Dyfarniad Forest Heath[6] yn cadarnhau bod angen esbonio'r rhesymau dros ddewis neu wrthod dewisiadau eraill, ac y dylid rhoi cyfle effeithiol i'r cyhoedd roi sylwadau ar yr arfarniad o ddewisiadau eraill. Mae'n rhaid i'r adroddiad AC, sy'n cyd-fynd â'r cynllun drafft, gyfeirio at, crynhoi neu ailadrodd y rhesymau a roddwyd mewn fersiynau cynharach o'r cynllun a'r AC, ac mae'n rhaid i'r rhain barhau i fod yn ddilys.

DRAFT

---

[3] http://ec.europa.eu/environment/eia/sea-legalcontext.htm
[4] https://www.gov.uk/government/publications/strategic-environmental-assessment-directive-guidance
[5] http://www.pas.gov.uk/pas/core/page.do?pageId=152450
[6] Save Historic Newmarket Ltd v Cyngor Dosbarth Forest Heath (2011) EWHC 606

4.5 Roedd Dyfarniad Broadlands[7] yn tynnu ar ganfyddiadau Forest Heath ac yn nodi ymhellach, er nad yw'n ofyniad penodol yng Nghyfarwyddeb AAS yr UE, y dylid arfarnu dewisiadau eraill ar yr un lefel â'r hoff opsiwn; mae'n rhaid i'r Adroddiad AC terfynol roi amlinelliad o'r rhesymau pam nad yw'r dewisiadau amrywiol sydd wedi'u hystyried yn flaenorol cystal â'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno yn awr yn y cynllun, ac mae'n rhaid rhoi crynodeb o'r rhesymau dros wrthod unrhyw ddewisiadau eraill rhesymol – a bod y rhesymau hynny'n parhau i fod yn ddilys. Roedd Dyfarniad Rochford[8] yn cadarnhau bod y Cyngor wedi rhoi esboniad digonol o'r ffordd yr oedd wedi cynnal yr asesiad cymharol o safleoedd sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd a bod unrhyw wendidau a oedd yn bodoli ar ddechrau'r broses wedi'u datrys erbyn i Adroddiad AC Atodol gael ei gyhoeddi.

4.6 Canfu penderfyniad diweddar yn yr Uchel Lys[9] bod y dewis o ddewisiadau eraill ar gyfer asesiad amgylcheddol yn fater o farn cynllunio. Yn *Ashdown Forest Economic Development LLP,* roedd Sales, J o'r farn bod gan yr awdurdod cynllunio lefel uchel o ddisgresiwn o ran manylder yr ymholiadau y byddai angen eu cynnal er mwyn nodi'r dewisiadau eraill rhesymol i'w harchwilio mewn mwy o fanylder. O dan y Gyfarwyddeb AAS a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol 2004, yr awdurdod sy'n llunio'r cynllun yw'r prif benderfynwr ar gyfer nodi'r hyn sy'n cael ei ystyried yn ddewis arall rhesymol.

**Canfyddiadau'r AC a'r Rhesymau dros Ddewis/Gwrthod Dewisiadau Eraill yn y Cynllun Lleol**

**Opsiynau Strategol**

4.7 Roedd dogfen Gweledigaeth, Prif Amcanion ac Opsiynau Strategol y CDLl ar y Cyd, a oedd yn cael ei ddatblygu (Cyflwynwyd drafft llawn i'w drafod ym mis Tachwedd 2011), yn cynnig pum opsiwn gofodol strategol, sef:

- **Opsiwn D1 – Canolbwyntio ar Fangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol** – Byddai hwn yn canolbwyntio mwyafrif y datblygiadau newydd ym Mangor neu'n agos ato, sy'n Anheddiad gyda Swyddogaeth Genedlaethol, ac yn, neu'n agos at, Phrif Aneddiadau Allweddol. Y rhain yw'r ardaloedd trefol lle ceir y mwyafrif o dai presennol ac amrywiaeth dda o gyfleoedd cyflogaeth, unedau manwerthu, cyfleusterau hamdden a chwaraeon, a chyfleusterau cymunedol fel llyfrgelloedd, ysgolion ac ysbytai. Byddai twf yn yr holl aneddiadau eraill yn gyfyngiedig i'r cyflenwad presennol, safleoedd ar hap, addasu adeiladau presennol, ac aneddiadau'n cael eu llenwi a'u cwblhau ("rounded off2). Gallai hyn olygu rhyw 20% o'r twf cyfan.

[7] Heard v Cyngor Dosbarth Broadland, Cyngor Dosbarth De Norfolk, Cyngor Dinas Norwich (2012) EWHC 344
[8] Cogent Land LLP v Cyngor Dosbarth Rochford (2012*) EWHC 2542*
[9] Ashdown Forest Economic Development LLP v SSCLG, Cyngor Dosbarth Wealden ac Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs
[2014] EWHC 406 (Gwein).

- **Opsiwn D2 – Canolbwyntio ar Fangor, y Prif Aneddiadau Allweddol a'r Brif Ardal Ffocws a'r Ail Ardal Ffocws a'u dalgylchoedd** - Mae'r Opsiwn yma'n seiliedig ar "Cau'r Bwlch" Strategaeth Datblygu Gogledd Orllewin Cymru. Mae'n anelu i hyrwyddo twf yn yr ardaloedd craidd lle gwelwyd fod mwy o gyfleoedd i adeiladu cymunedau cynaliadwy ac i gael gwelliannau amgylcheddol ac yn yr isadeiledd. Mae'r Opsiwn yma'n adnabod ardaloedd o gwmpas Bangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol sy'n cynnwys aneddiadau eraill a all fod yn ffocws ar gyfer mwy o dwf na ragwelwyd ar eu cyfer o dan Opsiwn 1. Mae'r Opsiwn yma'n cymryd mantais o leoliad strategol yr aneddiadau mawr sydd yn yr ardal a'u cydberthynas agos hwy gydag aneddiadau llai sydd hefyd mewn sefyllfa i gynnig cyfleoedd i'r boblogaeth leol o ran gwaith, tai a chyfleusterau a gwasanaethau.

- **Opsiwn D3 – Dosbarthiad Cymesur Trefol a Gwledig** – Yn ychwanegol i Fangor a'r Prif Anheddiadau Allweddol mae yna gymunedau cymharol fawr eraill yn cynnig cyfleusterau fel siopau, cysylltiadau trafnidiaeth dda, cyfleusterau addysg, tir cyflogaeth. Mae'r aneddiadau mwy yma'n hunanddigonol o ran rhai anghenion lleol o ran gwasanaethau (e.e. iechyd, addysg, hamdden). Hefyd, mae yna rwydwaith o aneddiadau llai sy'n cyfarch anghenion dydd i ddydd eu trigolion ac ardal fechan o'u cwmpas. Byddai'r Opsiwn yma'n gwasgaru twf newydd i safleoedd mawr yn neu ger Bangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol, ac i safleoedd bach neu ganolig ym mwyafrif Aneddiadau Allweddol a Phentrefi ardal y CDLl ar y Cyd.

- **Opsiwn D3a – Ffocws ar ardaloedd gwledig** - Mae'r Opsiwn yma'n canolbwyntio ar yr Aneddiadau Allweddol sy'n cynnig cyfleusterau fel siopau, cysylltiadau trafnidiaeth dda, cyfleusterau addysg, tir cyflogaeth. Mae'r Aneddiadau mwy yma yn hunanddigonol o ran rhai anghenion lleol o ran gwasanaethau (e.e. iechyd, addysg, hamdden), ond mae ganddynt gysylltiadau ffordd a chludiant cyhoeddus da gyda'r prif aneddiadau allweddol a/neu gyda Bangor. O'u cwmpas nhw mae yna rwydwaith o bentrefi allweddol ac aneddiadau llai sy'n cyfarch anghenion dydd i ddydd eu trigolion ac ardal fechan o'u cwmpas. Byddai'r Opsiwn yma'n gwasgaru mwy o'r twf newydd i'r Aneddiadau Allweddol, pentrefi'r ardal a phentrefi gwledig/ pentrefannau gwledig nag a welwyd yn Opsiwn D3. Byddai llawer llai o dwf yn cael ei dywys i Fangor a Phrif Aneddiadau Allweddol nag a welir ym mhob un o'r Opsiynau blaenorol.

- **Opsiwn D4 – Canolbwyntio ar ddatblygiadau mawr raddfa gymysg** – Mae gan yr ardal ddosraniad da o ganolfannau cyflogi allweddol mewn lleoliadau gweddol hygyrch a gyda photensial rhesymol i ddatblygu'n bellach. Byddai cyfeirio'r mwyafrif o't wf newydd iThe area has a good apportionment of key employment centres in relatively accessible locations and with a potential to expand further. Directing most of the new growth to these settlements or to sites that geroin them or are close to

DRAFT

them would reduce the need to travel in cars to work. This strategy would focus new growth in Bangor, Holyhead and Pwllheli or close to them. Growth in other settlements would be limited to the present supply, windfall sites, conversions, and rounding off and infilling smaller settlements.

4.8 Mae'r Gyfarwyddeb AAS yn datgan bod angen llunio asesiad o'r senario 'busnes fel arfer' neu 'gwneud dim', heb gyflwyno'r CDLl ar y cyd newydd. Mae'r ymagwedd 'gwneud dim' yn tybio y bydd y cynlluniau datblygu presennol yn parhau (h.y. Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, Cynllun Strwythur Gwynedd a Chynllun Lleol Ynys Môn) yn ystod oes y cynllun, gan ystyried y penderfyniadau cynllunio tebygol a fyddai'n cael eu gwneud yn absenoldeb y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

4.9 Fodd bynnag, mae'r ddyletswydd sydd gan Awdurdodau Lleol i baratoi cynllun datblygu lleol yn golygu nad yw'r ymagwedd o wneud dim ar gyfer cyfnod y Cynllun hyd at 2026 yn realistig ac felly nid yw'n ddewis rhesymol. Byddai 'gwneud dim' yn golygu peidio cael cynllun o gwbl, a byddai hynny'n mynd yn groes i bolisi'r Llywodraeth a'r gofynion yng Nghynllun Gofodol Cymru i ddiwallu anghenion tai. Felly, nid oedd y dewis o wneud dim/yr isafswm/busnes fel arfer yn cael ei ystyried yn ddewis rhesymol na realistig.

4.10 Roedd dogfen Datblygu'r Weledigaeth, Prif Amcanion ac Opsiynau Strategol y CDLl ar y Cyd (Cyflwynwyd drafft llawn i'w drafod ym mis Tachwedd 2011) hefyd yn nodi pedwar opsiwn ar gyfer y lefel twf cyffredinol, sef:

- **Opsiwn T1 – 'Dosraniad Isranbarthol'** (445 o unedau tai'r flwyddyn (270 – Gwynedd; 175 – Mon). Byddai'r Opsiwn yma'n arwain at 6,675 o unedau tai ychwanegol yn y 15 mlynedd rhwng 2011-2026 yn ardal y CDLl ar y Cyd, sef twf o 8% yn y cyfanswm o unedau tai.

- **Opsiwn T2 – 'Twf ar sail dueddiadau poblogaeth'** (Tua 638 o unedau tai'r flwyddyn (tua 370 – Gwynedd; 268 – Mon). Mae'r Opsiwn yma wedi ei seilio ar ragolygon tueddiadau ac aelwydydd hanesyddol. Bydd yr Opsiwn yma'n arwain at 9,750 o unedau tai ychwnaegol yn y 15 mlynedd rhwng 2011 – 2026 yn ardal y CDLl ar y Cyd, sef twf o 11.6% yn y cyfanswm o unedau tai.

- **Opsiwn T3 – 'Tueddiadau adeiladu'** 10 mlynedd (416 o unedau tai'r flwyddyn (196 – Gwynedd; 220 – Môn)). Mae'r Opsiwn yma'n seiliedig ar gyfradd adeiladu tai dros y degawd diwethaf a all arwain at 6,240 o unedau tai ychwanegol yn y 15 mlynedd rhwng 2011 – 2026 yn ardal y CDL. Ar y Cyd, sef twf o 8% yn y cyfanswm o unedau tai.

- **Opsiwn T4 – 'Twf ar sail economaidd yn unig'** (389 o unedau tai'r flwyddyn (264 – Gwynedd; 125 – Môn)). Bydd yr Opsiwn yma ar ben ei hun yn arwain at 5,835 o unedau tai yn y 15 mlynedd rhwng 2011 – 2026 yn ardal y CDLl ar y Cyd, sef twf o 3.3% yn y cyfanswm o unedau tai.

4.11 Roedd pob un o'r opsiynau rhesymol ar gyfer dosbarthiad a lefel y twf a nodwyd uchod yn destun AC a chafodd y canfyddiadau eu cyflwyno mewn Adroddiad AC Cychwynnol Drafft (Gorffennaf 2012). Cafodd yr asesiad ei hysbysu gan y Grŵp Gorchwyl Cynaliadwyedd, a gyfarfu ar 13 Rhagfyr 2011. Cyflwynwyd canfyddiadau'r arfarniad hefyd yn yr Adroddiad AC Cychwynnol, a gyflwynwyd ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o 9/5/13 i 27/6/13. Mae crynodeb o'r canfyddiadau isod, gyda matricsau arfarnu manwl yn Atodiadau 5 a 6.

**AC o'r Opsiynau Tyfiant – Crynodeb o'r Canfyddiadau**

4.12 Canfuwyd bod Opsiynau Twf T1 a T3 yn cael effaith debyg iawn, gan y byddai'r ddau yn darparu lefel gyffelyb o gartrefi newydd bob blwyddyn. Mae Opsiwn T3 yn cynnwys cyfran uwch o gartrefi arfaethedig ar gyfer Ynys Môn, felly byddai mwy o fanteision economaidd gymdeithasol yn debygol ar gyfer Ynys Môn, ond effeithiau amgylcheddol uwch hefyd ar gyfer yr opsiwn hwn o'i gymharu ag Opsiwn T1. Yn opsiwn T1, byddai'r un canlyniad yn berthnasol i Wynedd. Fodd bynnag, perfformiodd yr opsiynau hyn yn eithaf da ar ystod o amcanion yr Arolwg Cynaliadwyedd (AC), a nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer y gymuned ac iechyd, yr economi, tai a hygyrchedd a thrafnidiaeth. Nodwyd effeithiau negyddol ar gyfer Opsiwn T1 a T3 o ran newid yn yr hinsawdd, tirwedd a threfwedd, cymunedau a hygyrchedd a thrafnidiaeth (nodwyd canlyniadau negyddol a chadarnhaol) ac ansicrwydd o ran dŵr a newid yn yr hinsawdd.

4.13 Gan ei fod yn cynnig lefel twf is, canfuwyd y byddai gan Opsiwn 4 lai o effeithiau niweidiol ar gyfer y meini prawf cynaliadwyedd amgylcheddol (e.e. bioamrywiaeth, tirwedd a threfwedd, dŵr a risg llifogydd, ond nid oedd yn perfformio gystal ar y meini prawf cymdeithasol ac economaidd (yr economi, tai a chymunedau).

4.14 Canfuwyd bod Opsiwn T2, sy'n cynnig lefel twf uwch, â'r potensial mwyaf ar gyfer effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, yn enwedig ar dir, mwynau a gwastraff a thirwedd/trefwedd, ond yn cael effaith gadarnhaol lawer uwch ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd, yn enwedig yr economi a thai (er y gallai hefyd achosi problemau o ran cydlyniad cymunedol).

4.15 Ar y cyfan, mae Opsiynau T1 a T3 yn darparu dull gweithredu mwy cytbwys o ran cynaliadwyedd nag opsiynau T2 a T4; fodd bynnag, fel y canfuwyd gydol yr arolwg, gellir lliniaru llawer o'r effeithiau negyddol (a ganfuwyd ar gyfer pob opsiwn, ond yn benodol ar gyfer Opsiwn T2) drwy bolisïau cryf yn y Cynllun Datblygu Lleol (e.e. ar dirwedd a bioamrywiaeth) a lleoli datblygiadau'n briodol.

4.16 Arweiniodd y broses ymgysylltu ynghŷd â chyfarfod y grŵp tasg Cynaladwyedd, a gyfarfu yn ystod y cyfnod ymgysylltu i gynnal arolwg o'r opsiynau tyfiant potensial yn erbyn yr amcanion AC, at yr angen i archwilio opsiynau tyfiant tai gwahanol fyddai'n darparu ar gyfer y newidiadau

DRAFT

disgwyliedig mewn maint aelwydydd yn ogystal â'r cynnydd disgwyliedig yn yr angen ar gyfer tai o ganlyniad i dyfiant economaidd.

4.17 Ar sail canlyniadau'r broses ymgysylltu a'r broses AC, ystyriwyd y byddai'n gallach cynllunio ar gyfer ffigwr oedd yn caniatau ar gyfer lefel dwf ychydig yn uwch na'r lefelau twf isaf (Opsiwn T3 a T4) ond y byddai Opsiwn T2 yn afrealistig ac yn anodd i'w ddarparu.

4.18 O ganlyniad, datblygwyd lefel tyfiant hybrid /amgen (opsiwn twf canolig sy'n gymesur a chynnydd blynyddol ar gyfartaledd o 511 o unedau tai yn ystod oes y Cynllun). Ystyriwyd fod yr opsiwn twf Canolig hwn yn fwy realistig ac yn fwy posibl i'w ddarparu. Mae'n darparu ar gyfer ac yn hwyluso twf yn yr economi leol, yn enwedig yn y sector ynni, ynghyd â thwf net mewn swyddi a chynnydd cysylltiedig yn y galw am dai a gwasanaethau.

**AC o'r Opsiynau Gofodol – Crynodeb o'r Canfyddiadau**

4.19 Dangosodd yr asesiad bod Opsiynau D1, D2 a D4 yn perfformio'n well yn gyffredinol o bersbectif amgylcheddol oherwydd y ffaith y byddai canolbwyntio datblygiad mewn aneddiadau allweddol yn cwrdd ag amcanion amgylcheddol o ran effeithlonrwydd ynni ac adnoddau, defnydd o dir a ddefnyddiwyd yn flaenorol, a hwyluso llai o angen teithio. Fodd bynnag, er bod yr opsiynau hyn o gymorth o ran mynd i'r afael ag amcanion cymdeithasol ac economaidd drwy ganolbwyntio cyfleusterau cymunedol, iechyd ac addysg mewn lleoliadau hygyrch lle y mae fwyaf eu hangen, yn ogystal ag annog arallgyfeirio economaidd mewn lleoliadau strategol, maent yn diystyru anghenion y boblogaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig.

4.20 Ar y llaw arall, mae Opsiwn D3a yn rhoi sylw i ofynion y boblogaeth ehangach ac yn perfformio'n dda yn erbyn yr amcanion economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, drwy gyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth aneddiadau allweddol, mae'r opsiwn hwn yn debygol o gael effeithiau negyddol o ran yr amgylchedd drwy effeithio'n niweidiol ar y dirwedd, bioamrywiaeth ac ansawdd aer.

4.21 Yn gyffredinol, mae'r gwerthusiad wedi dangos mai Opsiwn D3 yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy, gan sgorio orau yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion cynaliadwyedd. Mae dosbarthu datblygiad yn gymesur drwy holl ardal y Cynllun yn rhoi sylw i anghenion economaidd-gymdeithasol y boblogaeth drefol a gwledig, tra ar yr un pryd yn lleihau'r effaith bosibl ar yr amgylchedd oherwydd natur wasgaredig y datblygu.

4.22 Dylid cofio, fodd bynnag, bod pob un o'r opsiynau â'r potensial i gael effeithiau cadarnhaol a negyddol, er bod maint yr effeithiau hyn yn dibynnu llawer ar weithredu'r opsiwn a'r mesurau a gymerir o ran lliniaru.

**Rhesymau Dros Wrthod/Symud Ymlaen Gyda'r Opsiynau Strategol**

4.23 Mae Tabl 4.1 isod yn crynhoi'r opsiynau / dewisiadau amgen strategol a ystyriwyd ar gyfer y CDLl ar y Cyd, gydag amlinelliad o'r rhesymau ble'n

DRAFT

berthnasol. Dylid nodi tra bo darganfyddiadau'r AC yn cael eu hystyried gan y Cynghorau yn eu dewis o opsiynau ac yn ffurfio rhan o'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r CDLl, nid yw darganfyddiadau'r AC yn sail penderfyniad ar ei ben ei hun; mae ffactorau cynllunio a diochonolrwydd yn chwarae rôl allweddol yn y broses gwneud penderfyniadau.

**Tabl 4.1 Crynodeb o'r Dull o Asesu a Dewis yr Opsiynau Amgen**

| Opsiynau a gafodd eu hystyried a'u hasesu | Rhsymau dros wrthod/symud ymlaen yr Opsiwn |
|---|---|
| **Opsiynau Tyfiant** | |
| ▪ Opsiwn T1 – 'Dosraniad Isranbarthol' | ▪ Mae'r opsiwn hwn wedi ei seilio ar Ragamcanion Poblogaeth a Thai 2003 sydd wedi ei ddisodli gan ragamcanion poblogaeth ac thai 2006 a 2008<br>▪ Nid yw'n darparu ar gyfer lefelau tyfiant uwch gan gynnwys y cynnydd disgwyliedig yn y angen am dai o ganlyniad i dyfiant economaidd a newidiadau yn strwythur aelwydydd. |
| ▪ Opsiwn T2 – 'Twf ar sail tueddiadau poblogaeth' | ▪ Y potensial i ddifetha cymeriad diwylliant/ cymunedau;<br>▪ Dim galw am lefel llawer uwch o dai<br>▪ Angen unioni tyfiant tai gyda thyfiant economaidd<br>▪ Anrealistig a dim yn bosib ei gwrdd |
| ▪ Opsiwn T3 – 'Tueddiadau Adeiladu' 10 mlynedd | ▪ Nid yw'n darparu ar gyfer lefelau tyfiant uwch gan gynnwys y cynnydd disgwyliedig yn y angen am dai o ganlyniad i dyfiant economaidd a newidiadau yn strwythur aelwydydd. |
| ▪ Opsiwn T4 – Twf ar sail economaidd yn unig'' | ▪ Nid yw'n darparu ar gyfer lefelau tyfiant uwch gan gynnwys y cynnydd disgwyliedig yn y angen am dai o ganlyniad i dyfiant economaidd a newidiadau yn strwythur aelwydydd. |
| ▪ Opsiwn Amgen/Hybrid – tyfiant canolig | ▪ Gallai'r lefel dwf amgen / hybrid (opsiwn twf canolig) ildio tua 66 HUPA yn fwy nag Opsiwn T1 (sydd, yn fras, yn cyfateb i'r niferoedd sy'n cael eu cynllunio ar hyn o bryd ar gyfer ardal y Cynllun). Ystyriwn fod yr opsiwn twf Canolig hwn yn fwy realistig ac yn fwy posibl i'w ddarparu. Mae darparwyr seilwaith wedi nodi y gallent, mewn egwyddor, ddarparu ar gyfer y lefel dwf hon. Mae'n darparu ar gyfer ac yn hwyluso twf yn yr economi leol, yn enwedig yn y sector ynni, ynghyd â thwf net mewn swyddi a chynnydd cysylltiedig yn y galw am dai a gwasanaethau. |
| **Opsiynau Gofodol** | |
| ▪ Opsiwn D1 – Canolbwyntio ar Fangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol | Gwrthodwyd yr opsiwn oherwydd y rhesymau canlynol:<br>▪ Nid yw'n adlewyrchu cymeriad gwledig yr ardal<br>▪ Gallai rhai lleiniau glas ac ardaloedd tirwedd arbennig ger yr aneddiadau gael eu colli<br>▪ Gallai llai o ddatblygiad mewn aneddiadau |

| | |
|---|---|
| | eraill olygu diffyg buddsoddiad mewn isadeiledd a gwasanaethau<br>▪ Gallai arwain pobl iau, sy'n actif yn economaidd, i fudo i'r prif aneddiadau allweddol neu fynd tu allan i'r ardal i chwilio am swyddi ac amodau byw gwell<br>▪ Gallai'r cyfleoedd i wella cyflwr amgylcheddol safleoedd a chyfleusterau cymunedol /isadeiledd mewn aneddiadau eraill gael eu methu<br>▪ Mae'n debygol y byddai'n rhaid i fwyafrif y twf gael ei leoli ar safleoedd tir glas yn bennaf. O ganlyniad, gellid colli tirwedd a thir amaethyddol o ansawdd dda<br>▪ Ni fyddai'r dosbarthiad o fantais i rai cymunedau difreintiedig ardal y CDLl ar y Cyd. |
| ▪ Opsiwn D2 – Canolbwyntio ar Fangor, y prif Aneddiadau Allweddol a'r Brif Ardal Ffocws a'r Ail Ardal Ffocws a'u dalgylchoedd | Gwrthodwyd yr opsiwn oherwydd y rhesymau canlynol:<br>▪ Fawr ddim o ddatblygiad newydd mewn aneddiadau tu allan i'r Brif Ardal Ffocws, Ail Ardal Ffocws a'u parth dylanwad;<br>▪ Gallai rhai lleiniau glas ac ardaloedd tirwedd arbennig ger yr aneddiadau gael eu colli;<br>▪ Gallai llai o ddatblygiad mewn aneddiadau eraill olygu diffyg buddsoddiad mewn isadeiledd a gwasanaethau;<br>▪ Gallai arwain pobl iau, sy'n actif yn economaidd, i fudo i'r prif aneddiadau allweddol/ aneddiadau allweddol neu fynd tu allan i'r ardal i chwilio am swyddi ac amodau byw gwell;<br>▪ Gallai'r cyfleoedd i wella cyflwr amgylcheddol safleoedd a chyfleusterau cymunedol/isadeiledd mewn aneddiadau eraill gael eu methu;<br>▪ Mae'n debygol y byddai'n rhaid i fwyafrif y twf gael ei leoli ar safleoedd tir glas yn bennaf. O ganlyniad, gellid colli tirwedd a thir amaethyddol o ansawdd dda; |
| ▪ Opsiwn D3 – Dosbarthiad Cymesur Trefol a Gwledig | Cymeradwywyd yr opsiwn oherwydd y rhesymau canlynol:<br>▪ anoddach cael datblygiad defnydd cymysg o dai, cyflogaeth, siopa a hamdden mewn lleoliad cynaliadwy;<br>▪ byddai gofynion isadeiledd newydd wedi eu gwasgaru dros fwy o leoliadau yn rhoi pwysau ychwanegol ar arian cyhoeddus a phreifat;<br>▪ mae gwasgariad a datblygiadau llai yn lleihau'r cyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer isadeiledd a chyfleusterau cymunedol (e.e. tai fforddiadwy, mannau agored cyhoeddus, gwelliannau trafnidiaeth, ayb.);<br>▪ gallai rhai lleiniau glas ac ardaloedd tirwedd arbennig gael eu colli |

DRAFT

| | |
|---|---|
| ▪ Opsiwn D3a – Ffocws ar ardaloedd gwledig | Gwrthodwyd yr opsiwn oherwydd y rhesymau canlynol:<br>▪ Anodd iawn cael datblygiad defnydd cymysg o dai, cyflogaeth, siopa a hamdden mewn lleoliad cynalidawy;<br>▪ Heb reolaeth gallai arwain at yr angen i fwy o bobl deithio'n bellach i fannau gwaith a mynd yn erbyn ymdrechion i leihau ôl troed carbon ym maes trafnidiaeth<br>▪ Byddai gofynion isadeiledd newydd wedi eu gwasgaru dros fwy o leoliadau yn rhoi pwysau ychwanegol ar arian cyhoeddus a phreifat<br>▪ Mae gwasgariad a datblygiadau llai yn lleihau'r cyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer isadeiledd a chyfleusterau cymunedol (e.e. tai fforddiadwy, mannau agored cyhoeddus, gwelliannau trafnidiaeth ayb)<br>▪ Yn ddibynnol ar y raddfa o dwf a ddewisir, risg y gallai gael ardrawiad andwyol ar gymeriad cymunedau<br>▪ Gallai rhai lleiniau glas gael eu colli a chael ardrawiad andwyol ar ansawdd y tirlun<br>▪ Risg na fyddai'r nifer angenrheidiol o dai'n cael eu darparu oherwydd dibyniaeth ar nifer helaeth o safleoedd bach |
| ▪ Opsiwn D4 – Canolbwyntio ar ddatblygiadau mawr raddfa gymysg | Gwrthodwyd yr opsiwn oherwydd y rhesymau canlynol:<br>▪ nid oes gan yr aneddiadau presennol lawer o dir llwyd dros ben a gall twf newydd olygu defnyddio safleoedd tir glas a chael ardrawiad andwyol ar gymeriad y tirlun<br>▪ byddai'n rhaid i bobl ddal i deithio yn y car i'r siopau, ysgolion a chyfleusterau hamdden;<br>▪ dim yn adlewyrchiad o gymeriad gwledig yr ardal<br>▪ Ni fyddai'r dosbarthiad o fantais i rai cymunedau difreintiedig ardal y CDLl ar y Cyd.<br>▪ Gallai arwain pobl iau, sy'n actif yn economaidd, i fudo i'r prif aneddiadau allweddol/ aneddiadau allweddol neu fynd tu allan i'r ardal i chwilio am swyddi ac amodau byw gwell; |

4.24 Roedd yr Hoff Strategaeth, a oedd yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ym Mai 2013, yn cynllunio ar gyfer 7,665 o unedau tai yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod y Cynllun (2011-2026). Roedd hyn yn cyfateb i 3,373 o unedau tai yn Ynys Môn a 4,252 yng Ngwynedd.

4.25 Cyflwynwyd sylwadau gan Lywodraeth Cymru a phartïon eraill ynghylch y lefelau hyn o dwf tai. Roedd y rhain yn amrywio o Lywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau bod cyfiawnhad digonol yn cael ei ddarparu ynghylch gwyro



DRAFT

oddi wrth yr amcanestyniadau cenedlaethol i wahanol safbwyntiau yn bennaf o du'r diwydiant datblygu a thirfeddianwyr y dylai fod yn uwch, a rhai cymunedau, unigolion neu grwpiau lleol yn credu y dylai fod yn is.

4.26 Mewn ymateb i'r sylwadau ac adolygiad o amgylchiadau lleol, adolygwyd y targedau tai. Seilir y ffigyrau tai diwygiedig ar ddadansoddiad o nifer o senarios twf ac amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd diweddaraf Llywodraeth Cymru (sail 2011), yn ogystal ag ystyriaeth o ffactorau dylanwadol, a oedd yn cynnwys amcanestyniadau canol-blwyddyn wedi'u diweddaru, newidiadau mewn penderfyniadau buddsoddwyr sydd wedi arwain at oedi mewn prosiectau arbennig e.e. Wylfa Newydd, a thwf ar ôl y dirwasgiad, sydd wedi bod yn raddol.

4.27 Awgryma'r amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2011 tra bydd twf aelwydydd yn parhau ar draws Gwynedd, rhagwelir y bydd lefel y newid rhwng 2011 a 2026 yn is nag yr awgrymwyd gan yr amcanestyniadau aelwydydd blaenorol yn seiliedig ar 2008. Mae gwahaniaeth amlwg yn yr amcanestyniadau 2011 ar gyfer Ynys Môn, gyda'r prif amcanestyniad 75% yn is, a'r tueddiad mudo 10 mlynedd 52% yn is, na phrif amcanestyniadau sail-2008.

4.28 Golyga'r lefel twf tai diwygiedig ar gyfer yr ardal y ceir tua 479 o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod oes y Cynllun. Mae hyn yn gyfystyr â chyfanswm o 7,184 o unedau tai ychwanegol erbyn 2026. Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu'r newid trawsnewidiol a ragwelir i'r economi leol o ganlyniad i fuddsoddi mewn prosiectau seilwaith mawr yn ardal y Cynllun ac mewn ardaloedd cyfagos. Rhagwelir y bydd llawer o'r angen am dai newydd yn digwydd yn ystod ail hanner cyfnod y Cynllun. Bydd y raddfa o newid yn gysylltiedig â buddsoddiad yn yr economi leol a llwyddiant strategaethau pob Cyngor i gadw cyfran uwch o bobl leol o oedran gwaith yn yr ardal. O'r herwydd, credir y bydd yr opsiwn twf hwn yn cwrdd ag anghenion y poblogaethau lleol.

4.29 Felly, nid yw'r twf adeiladu diwygiedig ar gyfer yr ardal yn gwyro o'r opsiwn twf hybrid a gariwyd ymlaen yn 2012. Mae'r rhesymau dros ddewis a gwrthod opsiynau yn yr Hoff Strategaeth yn barhau i fod yn ddilys yng ngolau'r tystiolaeth newydd. O ganlyniad, nid oedd yn angenrheidiol ymgymeryd â gwaith arfarnu pellach.

### Opsiynau Dynodiadau Safleoedd

4.30 Er mwyn canfod pa dir sydd ar gael er mwyn cwrdd ag anghenion datblygu Ynys Môn a Gwynedd, yn Hydref 2011, agorwyd Cofrestr Safleoedd Posib (CSB) yn ffurfiol, ble cynigiwyd i randdeiliaid, perchnogion tir a grwpiau eraill â diddordeb, i gyflwyno tir ar gyfer cael i gynnwys yn y CDLl. Cynigiwyd cyfanswm o 865 safle posib gyda 364 yng Ngwynedd a 501 yn Ynys Môn.

DRAFT

4.31 Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, wedi ei gynnwys yn y llawlyfr CDLl (2006), ffurfiwyd methodoleg asesu, yn gyntaf er mwyn canfod os oedd safleoedd â'r gallu i gael eu datblygu; ac yn ail, er mwyn penderfynu os oeddent yn gydnaws gyda'r strategaeth CDLl. Roedd y fethodoleg yn cynnwys meini prawf i hidlo safloedd oedd yn îs na maint penodol, yn mynd i'r gwrthwyneb â pholisi cenedlaethol neu wedi eu lleoli mewn mannau anaddas oherwydd cyfyngiadau sylweddol, fel ardaloedd dan berygl llifogydd. Yn ogystal â hyn, arolygwyd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu'r safleoedd posibfel eu bod yn gydnaws â'r amcanion AC yn y Fframwaith AC, er mwyn sicrhau cysondeb.

4.32 Gwaredwyd y safleoedd hynny nad oedd yn bodloni'r meini prawf cyflwyno yn yn y gwaith hidlo cychwynnol o'r safleoedd posib yn erbyn y fethodoleg a gytunwyd arni h.y. adnabuwyd hwy yn hollol anrealistic i'w datblygu, nid oeddent yn cydymffurfio â pholisi rhyngwladol, cenedlaethol neu lleol, neu roedd ganddynt gyfyngiadau sylfaenol nad oedd yn bosib eu lliniaru. O ganlyniad, gwaredwyd 243 o safleoedd o'r broses asesu.

4.33 Roedd yr holl opsiynau rhesymol a adnabuwyd drwy'r Broses a Methodoleg Safleoedd Posib y Cynghorau yn destun i AC gyda'r canfyddiadau wedi eu hamlinellu isod a matricsau wedi eu cynnwys yn Atodiad 7. Yn dilyn ymgynghoriad ar y CDLl ar y Cyd Adnau yn 2015, mae'r Cynghorau wedi ystyried opsiwn safle ychwanegol i ddarparu ar gyfer datblygiad ym Methel. Ystyriwyd y safle drwy'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd a cheir y canfyddiadau cryno isod, a'r matrics gwerthuso manwl diwygiedig ar gyfer Bethel yn Atodiad 7.

| **SAFLE** | **AMCAN AAS** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **Gwynedd** | | | | | | | | | | | | |
| **Abermaw** | | | | | | | | | | | | |
| SP937 Tir ger Bryn Glasfor | **0 ?** | **-** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- ?** | **0** |
| SP938 Tir ger Bryn Glasfor | **0 ?** | **-** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- ?** | **0** |
| SP943 Tir ger Wenallt | **0 ?** | **-** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- ?** | **0** |
| **Abersoch** | | | | | | | | | | | | |
| SP935 Tir ger Lon Garmon | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| SP971 Tir ger Bryn Garmon | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| SP936 Tir ger Lon Sarn Bach | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **Bangor** | | | | | | | | | | | | |

| SAFLE | AMCAN AAS | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| SP922 Tir ger Crematorium | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | ? | + | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP37 Pen y Ffridd, Bangor | 0 ? | + | +? | - ? | 0 | 0 ? | + | ++ | - ? | - | + ? | 0 ? |
| SP791 Tir ger Gerddi pen Lôn | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0? | 0 | ++ | + | ++ | +? | 0 |
| SP1004 Hen Depo Bysus | 0? | +? | +? | 0? | 0 | 0? | 0 | ++ | + | ++ | +? | 0 |
| SP1003 Ger Coleg Menai | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | ? | + | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| **Bethel** | | | | | | | | | | | | |
| SP788 Tir yn Saron | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP962 Tir ger B4366 | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + ? | 0 |
| SP963 Tir ger Bro Eglwys | 0 ? | + | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP282 Tir gyferbyn Stad Rhoslan | 0? | + | +? | 0? | 0 | 0? | 0 | ++ | - | - | +? | 0 |
| **Bethesda** | | | | | | | | | | | | |
| SP942 Tir ger Maes Coetmor, Bethesda | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | ? | 0 |
| **Blaenau Ffestiniog** | | | | | | | | | | | | |
| SP954 Tir ger Fronlas Terrace | 0 ? | -- | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | -- | 0 |
| SP918 Former Playing Fields | 0 ? | -- ? | ? | 0 ? | 0 | 0 ? | - | ++ | - ? | - | -- ? | 0 |
| **Bontnewydd** | | | | | | | | | | | | |
| **SP669** | 0? | + | +? | -? | 0 | 0? | 0 | ++ | -? | - | + | 0 |
| **Botwnnog** | | | | | | | | | | | | |
| SP433 Cae Cefn Capel | 0 ? | - | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - - ? | 0 |
| SP956 Tir ger Llyn Alys | 0 ? | - | +? | 0? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - - ? | 0 |
| SP957 Tir ger Pentre | 0 ? | - | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - - ? | 0 |
| **Caernarfon** | | | | | | | | | | | | |
| SP707 Tud cefn i Maes Gwynedd | 0 ? | - | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP906 Cyn Randiroedd | 0 ? | - | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP907 Tir yn Cae | 0 ? | - | +? | - ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |

| SAFLE | AMCAN AAS | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| Bold | | | | | | ? | | | ? | | | |
| SP912 Hen Ysgol Hendre | 0 ? | - | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | + ? | ++ | - ? | 0 |
| SP911 Tir ger Bryn Rhos Estate, Caernarfon | 0? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | + | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| **Chwilog** | | | | | | | | | | | | |
| SP958 Tir ger Tyn Rhos | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP959 Tir ger Cae Capel | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP960 Tir tu cefn i Madryn Arms | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| **Criccieth** | | | | | | | | | | | | |
| SP379 Tir ger North Terrace | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | ? | 0 | ++ | -? | - | + ? | - ? |
| SP735 Hen Safle Cronfa | + ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | + ? | + ? | + ? | - ? |
| SP944 | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | ? | 0 | ++ | - | - | + ? | 0 ? |
| SP945 | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 ? |
| SP946 Cyn gwrtiau tenis | + | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | + ? | ++ | + ? | 0 ? |
| **Deiniolen** | | | | | | | | | | | | |
| SP964 Tir ger Pentre Helen | 0 ? | + | + | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| SP966 Tir ger GTirinorwic | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + ? | 0 ? |
| **Llanberis** | | | | | | | | | | | | |
| SP941 Tir ger Victoria Hotel | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | ? | 0 | ++ | - ? | - | +? | 0 |
| **Llanrug** | | | | | | | | | | | | |
| SP243 Cae'r Eglwys | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP292 Tir tu cefn i Pencae | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP931 Tir ger Tan Rhythallt | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP932 Tir ger A4086 | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| **Nefyn** | | | | | | | | | | | | |
| SP488 Tir ger Helyg | 0 ? | + | +? | 0 | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |
| SP339 Tir ger Bro | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |

| SAFLE | AMCAN AAS | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| Gwylwyr | | | | | | ? | | | | | | |
| SP681 Cyn Randiroedd | 0 ? | + | +? | 0 | 0 | ? | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |
| SP933 | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |
| **Penrhyndeudraeth** | | | | | | | | | | | | |
| SP19 Cae Canol | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP949 Tir ger Cae Canol | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP950 Tir ger Ysbyty Minffordd | ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP986 | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| **Penygroes** | | | | | | | | | | | | |
| SP597 Tir ger Bryn Neuadd | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + ? | 0 |
| SP953 Tir ger Bro Llwyndu | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | + ? | + | + | 0 |
| SP952 Tir ger Maes Dulyn | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + | 0 |
| **Pwllheli** | | | | | | | | | | | | |
| SP116 Tir ger Lôn Abererch | 0 ? | -? | +? | ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | - |
| SP916 Tir ger Caernarfon Rd | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP917 Cyn gaeau Hoci | 0 ? | ? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | ? | 0 |
| SP918 Cae Deinio | 0 ? | ? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | ? | 0 |
| SP922 Tir ger to Caernarfon Road | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + ? | 0 |
| **Rachub** | | | | | | | | | | | | |
| SP967 Tir ger Maes Bleddyn | 0 ? | + | +? | 0 | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + | 0 ? |
| SP968 Tir ger Bron Afon | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + | 0 ? |
| **Tywyn** | | | | | | | | | | | | |
| SP702 Cae Eithin | 0 ? | + | + | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |
| SP952 Tir ger Ind Estate | 0 ? | + | 0? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |
| **Y Ffor** | | | | | | | | | | | | |
| SP682 Tir ger yr | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |

| SAFLE | AMCAN AAS | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| ysgol | | | | | | ? | | | | | | |
| SP969 Tir ger Tyn Lon | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |
| SP980 Tir ger Lon Ty'r Gof | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - ? | + | 0 |
| **SP995 Hen ysgol Hafod Lon** | + | + | +? | 0? | 0 | 0? | 0 | ++ | + | -? | + | 0 |
| **C10Safle cyflogaeth** | 0? | + | +? | 0? | 0 | 0? | ++ | 0 | - | -? | + | 0 |
| **Anglesey** | | | | | | | | | | | | |
| **Amlwch** | | | | | | | | | | | | |
| SP245 Tir yn Madyn Farm | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP561 Tir ger Cae Rheinwas | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | - ? | 0 | ++ | - - ? | - | + ? | 0 ? |
| SP247 Tir ger Tan y Bryn | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP900 Tir ger Football Ground | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP981 Tir ger Manyn Farm | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP985 Tir ger Maes Mona | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | ++ | + ? | 0 |
| SP378 Cae Syr Rhys, Amlwch | 0 ? | + | +? | - | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |
| **Benllech** | | | | | | | | | | | | |
| SP233 Tir ger Pant y Cydun | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 ? |
| SP792 Tir ger Tudno View | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| SP924 Wendon Café Site | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 ? |
| **Bodedern** | | | | | | | | | | | | |
| SP59 Cae Sarn Garnau | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| SP172 Tir ger Llwyn Angharad | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| **Cemaes** | | | | | | | | | | | | |
| SP926 Tir rear of Holyhead Rd | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| **Gaerwen** | | | | | | | | | | | | |
| SP130 Tir ger Gaerwen Uchaf Farm | 0 ? | - | +? | ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - | -? |

| SAFLE | AMCAN AAS | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **C38 Employment Site** | 0? | + | +? | 0? | 0 | 0? | ++ | 0 | - | - | - | 0 |
| **Gwalchmai** | | | | | | | | | | | | |
| SP316 Tir ger Fron Deg | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| SP411 Tir at Tyddyn Carrog | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| **SP481 Tir ger Wylfa Terrace** | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| **Holyhead** | | | | | | | | | | | | |
| SP228 Tir ger Stad Waunfawr | 0 ? | -? | +? | -? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP296 Tir ger Tyddyn Bach | 0 ? | -? | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP66 Tir ger Cae Rhos | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + ? | 0 ? |
| SP190 Tir at yr Ogof | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |
| SP296 Tir ger Tyddyn Bach, Holyhead | 0 ? | ++ | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | ++ | 0 |
| **Llanerchymedd** | | | | | | | | | | | | |
| SP82 Tir ger Tyn y Ffynnon | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |
| SP502 Tirtu cefn i Maes Athen | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |
| SP615 Tir ger Eithinog | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |
| SP340 Tir ger Hafod y Foel | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |
| **Llanfairpwll** | | | | | | | | | | | | |
| **SP721** | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | 0? | 0 |
| **Llangefni** | | | | | | | | | | | | |
| SP657: Tir ger. Maes Derwydd | 0 ? | - | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - | 0 ? |
| SP658/SP58: Tir yn Gwernhefin | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | - ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| SP833: Bodelis Fields | 0 ? | - | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | - | 0 ? |
| SP902: Tir ger. Ty Hen Estate | 0 ? | - | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - | 0 ? |
| SP903: Tir yng Ngh！oleg Menai | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 ? |

| SAFLE | AMCAN AAS | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| SP970: Tir ger. Tyn Coed | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |
| SP990 | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |
| SP991 | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |
| SP1000 Hen Ysgol y Bont | 0? | + | +? | 0? | 0 | 0? | 0 | ++ | + | ++ | + | 0 |
| SP1001 Tir ger Coleg Menai | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |
| **Menai Bridge** | | | | | | | | | | | | |
| SP264 Tir ger Maes yr Hafod | 0 ? | - | +? | 0? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | ? | 0 |
| SP985 Tyddyn Mostyn | 0 ? | + | +? | -? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| SP289 Ty Mawr | 0 ? | + | +? | -? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| SP1002 Tir ger Lôn y Gamfa | 0? | - | +? | 0? | 0 | 0? | 0 | ++ | -? | - | ? | 0 |
| **Newborough** | | | | | | | | | | | | |
| SP463 Cae Plas | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| SP969 Tir ger Church Street | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | + | + | 0 |
| **Pentraeth** | | | | | | | | | | | | |
| SP773 Tir yn Glanrafon | 0 ? | + | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + | - ? |
| SP222 Pentraeth Nursery | 0 ? | + | +? | - ? | 0 | 0 ? | - ? | ++ | + ? | ++ | + | 0 |
| **Rhosneigr** | | | | | | | | | | | | |
| SP241 Tir ger Trewan Cottage | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 ? |
| SP928 Tir ger School | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - | - | + | 0 ? |
| SP927 Tir ger Sisal y Mor | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - | - | + | 0 |
| **Valley** | | | | | | | | | | | | |
| SP944 Cyn Farchnad | 0 ? | +? | ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | + | ++ | + ? | 0 |

**Y Rhesymau dros Ddatblygu/Gwrthod Dewisiadau Safle**

4.33 Mae tabl 4.2 isod yn cyflwyno crynodeb o'r dewisiadau safle rhesymol a ystyriwyd ar gyfer y CDLl ar y Cyd, gydag amlinelliad o'r rhesymau dros ddewis neu wrthod, pan fo hynny'n berthnasol. Dylid nodi, er bod canfyddiadau'r AC yn cael eu hystyried gan y Cynghorau wrth iddynt ddewis opsiynau, a'u bod yn rhan o'r dystiolaeth sy'n sail i'r CDLl ar y Cyd, nid canfyddiadau'r AC yw'r unig sail i benderfyniad; mae ffactorau cynllunio ac ymarferoldeb yn bwysig yn y broses o wneud penderfyniadau. Dylid nodi hefyd yn dilyn ymgynghoriad ar y CDLl ar y Cyd Adnau y bu nifer o newidiadau i ddyraniadau safle arfaethedig yn y Cynllun, a oedd yn cynnwys cael gwared ar safleoedd T4 ym Mangor a T58 ym Methel, yn ogystal â chynnwys dau safle newydd ym Methel. Mae'r tabl isod wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r Newidiadau â Ffocws..

**Tabl 4.2 Crynodeb o Ganfyddiadau'r Asesiad y Dewisiadau Amgen**

| Opsiynau a Ystyriwyd ac a Werthuswyd | Crynodeb o'r rhesymau dros symud ymlaen neu wrthod yr opsiwn wrth lunio'r Cynllun | Symud Ymlaen neu Wrthod? |
|---|---|---|
| **Abermaw** | | |
| SP937 Tir ger Bryn Glasfor | ▪ Mae'r safle mewn lleoliad gymharol bell o ganol y dref a'i chyfleusterau cysylltiedig.<br>▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✗ |
| SP938 Tir ger Bryn Glasfor | ▪ Mae'r safle mewn lleoliad gymharol bell o ganol y dref a'i chyfleusterau cysylltiedig.<br>▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✗ |
| SP943 Tir ger Wenallt | ▪ Safle ar lethr sy'n gymharol bell o ganol y dref a'i chyfleusterau cysylltiedig.<br>▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✗ |
| **Abersoch** | | |

| | | |
|---|---|---|
| SP935 Tir ger Lon Garmon | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✗ |
| SP971 Tir ger Bryn Garmon | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✗ |
| SP936 Tir ger Lon Sarn Bach | ▪ Mae safle mewnlenwi addas yn union gerllaw'r ffin ddatblygu bresennol.<br>▪ Wedi'i gynnwys o fewn y ffin ddatblygu, ond nid fel dyraniad, oherwydd nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✓<br>O fewn y Ffin Datblygu ond nid yn ddyraniad |
| **Bangor** | | |
| SP922 Tir ger Yr Amlosgfa | ▪ Wedi'i leoli gyferbyn â safle'r amlosgfa, mae gan y safle hwn ffordd wasanaeth ddigonol i greu mynediad.<br>▪ Er ei fod gryn bellter o ganol y dref, byddai'r safle hwn yn addas os nad oes safleoedd eraill ar gael. | ✓ |
| SP37 Pen y Ffridd, Bangor | ▪ Mae gan y safle hwn broblemau mynediad mawr a fydd ond yn cael ei ddatrys drwy ddarparu ffordd gyswllt drwy Ysbyty Gwynedd. Os na fydd yn bosibl datrys hyn, gallai'r problemau mynediad olygu nad yw'n bosibl defnyddio'r safle hwn.<br>▪ Mae cais presennol ar y safle wedi arwain at wrthwynebiad gan DCWW.<br>▪ Mae safleoedd eraill sydd â llai o broblemau / dim problemau mynediad ar gael yn yr anheddiad.<br>▪ Nid oes angen y safle cyfan i | ✗ |

| | | |
|---|---|---|
| | ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | |
| SP791 Tir ger Gerddi Pen Lôn | ▪ Mae wedi'i leoli o fewn y ffin ddatblygu bresennol ar dir llwyd, yn agos at ganol y dref, gyda chysylltiadau trafnidiaeth da. | ✓ |
| SP1004 Yr Hen Ddepo Bysiau | ▪ O fewn parth llifogydd | ✗ |
| SP1003 Ger Coleg Menai | ▪ Mae wedi'i leoli o fewn y ffin ddatblygu bresennol ar dir llwyd, yn agos at ganol y dref, gyda chysylltiadau trafnidiaeth da. | ✓ |
| **Bethel** | | |
| SP788 Tir yn Saron | ▪ Mae mwyafrif o'r safle wedi ei ddynodi fel safle bywyd gwyllt anstatudol. | ✗ |
| SP962 Tir ger B4366 | ▪ Safle tir gwyrdd gwastad wedi ei leoli ar ymyl y bentref.<br>▪ Er fod mwyafrif o'r ffurf adeiledig wedi ei leoli tua gogledd o'r B4366, mae datblygiad preswyl ger y safle i'r de o'r B4366 | ✓ |
| SP963 Tir ger Bro Eglwys | ▪ Mae mynediad i'r safle yn broblemus gyda llain bridwerth yn effeithio ar y gallu i gyflawni. | ✗ |
| SP282 land gyferbyn Ystad Rhoslan | ▪ Safle tir gwyrdd gwastad wedi ei leoli ar ymyl y pentref, yn union ger ardal breswyl ac o fewn pellter cerdded o gyfleusterau cymunedol. | ✓ |
| **Bethesda** | | |
| SP942 Tir ger Maes Coetmor, Bethesda | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✗ |
| **Blaenau Ffestiniog** | | ✗ |
| SP954 Tir ger Rhes Fronlas | ▪ Wedi'i leoli yn ardal ddeheuol yr anheddiad, mae'r safle yn gymharol bell o ganol y dref a'i chyfleusterau cysylltiedig, fodd | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| | bynnag, oherwydd y cyfyngiadau topograffaidd, nid oes unrhyw safleoedd addas sy'n agosach at ganol y dref ar gael. | |
| SP914 Hen Gaeau Chwarae | ▪ Wedi'i leoli yn ardal ogleddol yr anheddiad, mae'r safle gwastad hwn wedi'i leoli ger prif ffordd a llwybr bysiau. | ✓ |
| **Bontnewydd** | | |
| SP669 Tir ger Pont Glan Beuno | ▪ Wedi'i leoli ger ffordd B, mae'r safle yn union gyferbyn ag ardal o ddatblygiad preswyl. | ✓ |
| **Botwnnog** | | |
| SP433 Cae Cefn Capel | ▪ Safle mewnlenwi addas â mynediad oddi ar y B4413 gyda ffordd wasanaeth ddigonol i greu mynediad. | ✓ |
| SP956 Tir ger Llyn Alys | ▪ Byddai angen darparu mynediad drwy SP433 ac nid y trac un lôn sy'n arwain at y safle.<br>▪ Mae safleoedd eraill sydd â mynediad gwell ar gael. | ✗ |
| SP957 Tir ger Pentre | ▪ Safle mewnlenwi addas â mynediad oddi ar Lôn Ysgol, gyda ffordd wasanaeth ddigonol i ddarparu mynediad. | ✓ |
| **Caernarfon** | | |
| SP707 Cefn Maes Gwynedd | ▪ Mae dyraniad tai'r CDU eisoes yn bodoli o fewn ffin ddatblygu'r CDU. | ✓ |
| SP906 Hen Randiroedd | ▪ Wedi'i leoli o fewn ffin ddatblygu bresennol y CDU, mae hwn yn safle mewnlenwi addas, ond nid oes angen dyraniad ar ei gyfer. | ✓<br>O fewn y Ffin Datblygu ond nid yn ddyraniad |
| SP907 Tir yng Nghae Bold | ▪ Wedi'i leoli yn union ger ffin ddatblygu'r CDU, gallai problemau mynediad effeithio ar y gallu i | ✗ |

| | | |
|---|---|---|
| | gyflawni'r safle.<br>▪ Mae safleoedd eraill heb unrhyw broblemau mynediad ar gael. | |
| SP912 Hen safle Ysgol Hendre | ▪ Safle tir llwyd mewn ardal breswyl o fewn ffin ddatblygu bresennol y CDU. | ✓ |
| SP911 Tir ger Ystâd Bryn Rhos, Caernarfon | ▪ Mae'r safle yn ffinio ar hyn o bryd â ffin ddatblygu'r CDU i'r dwyrain o'r anheddiad, a phe byddai'n cael ei ddatblygu, byddai'n cynrychioli estyniad i'r cyfeiriad hwn.<br>▪ Gallai maint y safle fod yn ormesol yn y lleoliad hwn ac mae safleoedd mwy addas ar gael yn yr anheddiad. | ✗ |
| **Chwilog** | | |
| SP958 Tir ger Tyn Rhos | ▪ Mae dyraniad tai'r CDU eisoes yn bodoli o fewn ffin ddatblygu'r CDU.<br>▪ Mae safleoedd eraill gyda mynediad gwell ar gael. | ✗ |
| SP959 Tir ger Cae Capel | ▪ Estyniad posibl i ddyraniad tai'r CDU presennol, fodd bynnag, byddai'r safle yn cael ei weld fel estyniad mawr iawn i'r pentref. | ✗ |
| SP960 Tir tu cefn i Madryn Arms | ▪ Mae dyraniad tai'r CDU eisoes yn bodoli o fewn ffin ddatblygu'r CDU. | ✓ |
| **Cricieth** | | |
| SP379 Tir ger North Terrace | ▪ Mae dyraniad tai'r CDU eisoes yn bodoli o fewn ffin ddatblygu'r CDU. | ✓ |
| SP735 Hen Safle Cronfa Ddŵr | ▪ Wedi'i leoli o fewn ffin ddatblygu bresennol y CDU ac wedi'i leoli y tu ôl i Deras Antipodes, ger Ystâd Waen Helyg, mae'r safle yn addas ar gyfer datblygiad preswyl, cyn belled ag y bydd yn bosibl penderfynu ar ei addasrwydd drwy'r broses cais cynllunio, gan farnu'r cynnig yn erbyn y | ✓<br>O fewn y Ffin Datblygu ond nid yn ddyraniad |

| | | |
|---|---|---|
| | polisi/meini prawf yn y cynllun datblygu a fabwysiadwyd. | |
| SP945 | ▪ Byddai datblygu'r safle hwn yn ymestyn y ffurf adeiledig i gefn gwlad agored. | ✗ |
| SP946 Hen Gwrt Tenis | | |
| **Deiniolen** | | |
| SP964 Tir ger Pentre Helen | ▪ Mae'r safle o fewn y ffin ddatblygu bresennol, ac mae wedi'i ddyrannu ar gyfer tai yn y CDU. | ✓ |
| SP966 Tir ger Glandinorwic | ▪ Mae'r safle mewn cefn gwlad agored, ac nid yw'n ffinio â'r ffin ddatblygu. | ✗ |
| **Llanberis** | | |
| SP941 Tir ger Gwesty'r Victoria | ▪ Mae dyraniad tai y CDU eisoes yn bodoli o fewn y ffi ddatblygu bresennol. Mae'n safle addas, o ystyried y problemau mynediad ar y safleoedd sy'n agosach at ganol y dref. | ✓ |
| **Llanrug** | | |
| SP243 Cae'r Eglwys | ▪ Mae gan y safle ganiatâd cynllunio eisoes ar gyfer 10 annedd. | ✓ |
| SP292 Tir tu cefn i Pencae | ▪ Wedi'i leoli i'r gorllewin o'r anheddiad, ger datblygiad tai newydd, mae'r safle hwn yn addas, a byddai'n cynrychioli estyniad bychan i'r cyfeiriad hwn, fodd bynnag mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✗ |
| SP931 Tir ger Tan Rhythallt | ▪ Mae dyraniad tai y CDU eisoes yn bodoli o fewn y ffi ddatblygu bresennol. Mae gan ran o'r safle ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer 6 annedd. | ✓ Rhannol |
| SP932 Tir ger A4086 | ▪ Nid oes angen dyraniad newydd yn yr anheddiad, oherwydd mae banc | ✗ |

| | | |
|---|---|---|
| | tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | |
| **Nefyn** | | |
| SP488 Tir ger Helyg | ▪ Mae tir pori gwastad yn ffinio â Theras Tai Lôn, ac mae ffordd wasanaeth ddigonol ar hyd y B4417 i ddarparu mynediad. | ✓ Part |
| SP339 Tir ger Bro Gwylwyr | ▪ Wedi'i leoli y tu ôl i ystâd Bro Gwylwyr, a byddai'r mynediad a ffafrir drwy'r SP488 ac nid drwy'r ystâd ei hun, a allai effeithio ar faint unrhyw ddatblygiad.<br>▪ Mae safleoedd eraill â mynediad gwell ar gael. | ✗ |
| SP681 Hen Randiroedd | ▪ Mae gan y safle ganiatâd cynllunio presennol ar gyfer 10 o dai.<br>Dylid diogelu rhandai y tu ôl i ardal y caniatâd cynllunio. | ✓ Rhannol |
| SP933 Hen Ddyraniad Tai | ▪ Mae dyraniad tai'r CDU eisoes yn bodoli o fewn y ffi ddatblygu bresennol.<br>▪ Nid oes angen dyraniad oherwydd mae safleoedd sydd â llai o broblemau mynediad a chaniatâd cynllunio presennol. | ✗ |
| **Penrhyndeudraeth** | | |
| SP19 Cae Canol | ▪ Mae dyraniad tai'r CDU eisoes yn bodoli o fewn y ffi ddatblygu bresennol, gyda ffordd wasanaeth ddigonol i ddarparu mynediad. | ✓ |
| SP949 Tir ger Cae Canol | ▪ Safle datblygu addas gyda ffordd wasanaeth ddigonol. Dylid rhannu mynediad gyda SP19. | ✓ |
| SP950 Tir ger Ysbyty Minffordd | ▪ Wedi'i leoli rhwng Penrhyndeudraeth ac Ysbyty Minffordd. Safle addas gyda ffordd wasanaeth ddigonol i greu mynediad. | ✓ |
| SP986 | ▪ Mynediad gwael i'r safle. Byddai | ✗ |

| | | |
|---|---|---|
| | angen trefnu mynediad drwy SP 949.<br>▪ Mae safleoedd eraill heb unrhyw broblemau mynediad ar gael. | |
| **Penygroes** | | |
| SP597 Tir ger Bryn Neuadd | ▪ Mae'r safle wedi'i leoli mewn Ardal Chwilio Tywod a Graean a Ffafrir. Mae safleoedd eraill ar gael. | ✗ |
| SP953 Tir ger Bro Llwyndu | ▪ Safle tir llwyd o fewn ffin ddatblygu bresennol y CDU. Wedi'i ddyrannu ar gyfer tai yn y CDU.<br>▪ Nid oes angen dyraniad pellach i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. Y safle i barhau o fewn y ffin. | ✓<br>O fewn y Ffin Datblygu ond nid yn ddyraniad |
| SP952 Tir ger Maes Dulyn | ▪ Dyraniad tai yn y CDU o fewn ffin ddatblygu bresennol y CDU.<br>▪ Nid oes angen dyraniad bellach i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. Y safle i barhau o fewn y ffin. | ✓<br>O fewn y Ffin Datblygu ond nid yn ddyraniad |
| SP993 Tir ger Maes Dulyn | ▪ Ffordd wasanaeth ddigonol ar hyd y B4418 i ddarparu mynediad addas. Nid oes angen y safle cyfan i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✓<br>Rhannol |
| **Pwllheli** | | |
| SP116 Tir ger Lôn Abererch | ▪ Wedi'i leoli ar Lôn Abererch yn ardal ddwyreiniol yr anheddiad, ystyrir bod y safle yn bell o ganol y dref.<br>▪ Mae rhannau o'r safle a'r mynediad i'r safle mewn ardal lle ceir perygl o lifogydd C1, a byddai angen cynnal asesiad o ganlyniadau llifogydd cyn y gellir cynnwys y safle yn y cynllun.<br>▪ Mae safleoedd eraill heb unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol ar gael. | ✗ |
| SP916 Tir ger Ffordd | ▪ Yn ffinio â ffin ddatblygu bresennol | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Caernarfon | y CDU yn ardal ddwyreiniol yr anheddiad, mae gan y safle ffordd wasanaeth ddigonol i greu mynediad.<br><br>Byddai angen creu cysylltiadau i gerddwyr o'r safle i'r anheddiad.<br>▪ Byddai'r safle yn addas pe na fyddai unrhyw safleoedd addas eraill ar gael yn yr anheddiad. | |
| SP917 Hen Gaeau Hoci | ▪ Dyraniad presennol yn y CDU ar gyfer Allt Salem. Ni fyddai datblygu'r safle hwn yn ymestyn ffurf adeiledig yr anheddiad i gefn gwlad agored. | ✓ |
| SP918 Cae Deinio | ▪ Dyraniad presennol yn y CDU ar gyfer Allt Salem. Ni fyddai datblygu'r safle hwn yn ymestyn ffurf adeiledig yr anheddiad i gefn gwlad agored. | ✓ |
| SP922 Tir ger Ffordd Caernarfon | ▪ Yn ffinio â ffin ddatblygu bresennol y CDU yn ardal ddwyreiniol yr anheddiad, mae gan y safle hwn ffordd wasanaeth ddigonol i greu mynediad.<br><br>Byddai angen creu cysylltiadau i gerddwyr o'r safle i'r anheddiad.<br>▪ Byddai'r safle yn addas pe na fyddai unrhyw safleoedd addas eraill ar gael yn yr anheddiad. | ✓ |
| SP919 Tir ger Stryd Llyn | ▪ Yn ffinio â ffin ddatblygu bresennol y CDU yn ardal ddwyreiniol yr anheddiad, mae gan y safle hwn ffordd wasanaeth ddigonol i greu mynediad.<br><br>Byddai angen creu cysylltiadau i gerddwyr o'r safle i'r anheddiad.<br>▪ Byddai'r safle yn addas pe na fyddai unrhyw safleoedd addas eraill ar gael yn yr anheddiad. | ✓ |
| **Rachub** | | |
| SP967 Tir ger Maes | ▪ Wedi'i leoli i'r gogledd o Ystâd Bron Arfon ac yn ffinio â ffin ddatblygu | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Bleddyn | bresennol y CDU. | |
| SP968 Tir ger Bron Afon | ▪ Wedi'i leoli i'r gogledd o Ystâd Maes Bleddyn ac i'r gorllewin o Lwyn Bedw.<br>▪ Mae rhan o'r safle hwn yn dueddol o brofi llifogydd dŵr wyneb ac mae coed ar y ffin sydd wedi'u diogelu gan Orchymyn Cadw Coed. Pe byddai'r safle hwn yn cael ei ddyrannu, byddai'n rhaid tynnu'r ardal hon o'r dynodiad. | ✘ |
| **Tywyn** | | |
| SP702 Cae Eithin | ▪ Tir pori gwastad oddi ar Ffordd y Pier, ac wedi'i amgylchynu gan ddatblygiad preswyl i'r gorllewin a'r de, parc carafannau sefydlog mawr i'r gogledd a rheilffordd y Cambrian i'r dwyrain.<br>▪ Nid oes angen dyraniad newydd yn yr anheddiad, oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✘ |
| SP952 Tir ger yr Ystâd Ddiwydiannol | ▪ Wedi'i leoli gyferbyn ag Ystâd Fenter Pendre, byddai'r safle yn ffurfio estyniad mawr iawn i'r pentref a byddai'n ffurfio llechfeddiant sylweddol ar gefn gwlad agored, pe byddai'n cael ei ddatblygu.<br>▪ Nid oes angen dyraniad newydd yn yr anheddiad, oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r anheddiad. | ✘ |
| **Y Ffor** | | |
| SP682 Tir ger yr ysgol | ▪ Safle mewnlenwi addas gyda mynediad digonol o Stryd Madog. Gallai gynnwys tir ychwanegol i'r gogledd. | ✔ |
| SP980 Tir ger Lon Ty'r Gof | ▪ Byddai datblygu'r safle hwn yn ymestyn y ffurf adeiledig i gefn | ✘ |

| | | |
|---|---|---|
| | gwlad agored. | |
| SP995 Safle hen Ysgol Hafod Lon | • Wedi'i leoli yn ardal ogleddol yr anheddiad ar dir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol. | ✓ |
| C10 Safle Cyflogaeth | Daeth yr Adolygiad Cyflogaeth a Thir i'r casgliad bod angen dyraniad cyflogaeth newydd yn ardal Pwllheli/Dwyfor. Mae'r safle hwn wedi'i leoli ar y brif ffordd gyda ffordd wasanaeth ddigonol i ddarparu mynediad. | ✓ |
| **Ynys Môn** | | |
| **Amlwch** | | |
| SP245 Tir yn Madyn Farm | ▪ Er bod y safle wedi'i leoli yn union gerllaw'r ffin ddatblygu bresennol, gyferbyn â Garej Roland ar y B5111, nid yw'n ymddangos bod y safle ar wahân i weddill yr anheddiad.<br>▪ Fodd bynnag, mae palmant o'r giât fynedfa ar hyd yr A5025 tuag at ganol y dref, a fydd yn helpu i gysylltu'r safle â gweddill yr anheddiad.<br>▪ Byddai angen cynefin arall ar gyfer y Madfallod Dŵr Cribog pe byddai'r safle hwn yn cael ei ddatblygu. | ✓ |
| SP561 Tir ger Cae Rheinwas | ▪ Dangosir bod rhan fach o'r safle mewn perygl o lifogydd yn ystod yr amlinelliad llifogydd eithafol – mae angen lleihau maint ardal y safle er mwyn cyflwyno'r safle ar gyfer y cam nesaf.<br>▪ Gallai'r safle fod yn addas os na fydd unrhyw safleoedd eraill ar gael. | ✓ |
| SP247 Tir ger Tan y Bryn | ▪ Wedi'i leoli yn ardal de orllewinol yr anheddiad, mae gan y safle gysylltiadau trafnidiaeth da ac mae'n gymharol agos at gyfleusterau. | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ Byddai angen gwarchod coed a gwrychoedd aeddfed. | |
| SP900 Tir ger Cae Pêl-droed | ▪ Mae'r safle mewn lleoliad da a gellir ei ystyried yn safle mewnlenwi pe byddai'n bosibl trefnu mynediad drwy T6. | ✓ |
| SP981 Tir ger Madyn Farm | ▪ Er bod y safle wedi'i leoli yn union gerllaw'r ffin ddatblygu bresennol ar y B5111, nid yw'n ymddangos bod y safle ar wahân i weddill yr anheddiad.<br>▪ Mae angen ymestyn y palmant o'r cae cyfagos ar hyd yr A5025 tuag at ganol y dref, a fydd yn helpu i gysylltu'r safle gyda gweddill yr anheddiad.<br>▪ Byddai'r safle yn addas os na fydd unrhyw safleoedd eraill ar gael. | ✓ |
| SP985 Tir ger Maes Mona | ▪ Dyraniad yn y CDU presennol.<br>▪ Safle mewnlenwi – ni fyddai datblygu'r safle hwn yn ymestyn y ffurf adeiledig i gefn gwlad agored. | ✓ |
| SP378 Cae Syr Rhys, Amlwch | ▪ Mae'r fynedfa anaddas (y gyffordd gyda'r A5025) a chapasiti Lôn Fach yn gwneud y safle hwn yn anaddas i'w gynnwys yn y cynllun. | ✗ |
| **Benllech** | | |
| SP233 Tir ger Pant y Cydun | ▪ Mae rhai problemau dŵr wyneb yn bodoli.<br>▪ Mae tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ar gael yn yr anheddiad. | ✗ |
| SP792 Tir ger Tudno View | ▪ Wedi'i leoli i'r gogledd o'r anheddiad, byddai'n bosibl cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o'r A5025.  Byddai datblygu'r safle yn ymestyn y ffurf adeiledig i gefn gwlad agored.<br>▪ Mae safleoedd eraill nad ydynt yn ymestyn ffurf adeiledig yr | ✗ |

| | | |
|---|---|---|
| | anheddiad ar gael. | |
| SP924 Safle Caffi Wendon | ▪ Mae tir llwyd segur wedi'i leoli ger y traeth o fewn y ffin ddatblygu bresennol. Bydd angen sicrhau nad yw dyluniad a maint y datblygiad yn cael effaith negyddol ar leoliad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. | ✓ |
| **Bodedern** | | |
| SP59 Cae Sarn Garnau | ▪ Mae'r safle wedi'i leoli y tu ôl i Bron y Graig a byddai'n bosibl cael mynediad iddo drwy'r datblygiad tai newydd, a fyddai'n cyfyngu'r nifer o aneddiadau posibl ar y safle.<br>▪ Mae safleoedd eraill heb broblemau mynediad ar gael. | ✗ |
| SP172/722/173/171 Tir ger Llwyn Angharad | ▪ Wedi'i leoli yn ardal ddeheuol yr anheddiad, mae gan y safle ffordd wasanaeth ddigonol i sicrhau lleiniau gweledd digonol i'r ddau gyfeiriad. | ✓ |
| **Cemaes** | | |
| SP926 Tir i'r cefn o Ffordd Caergybi | ▪ Mae gan y safle hwn, sy'n ffinio â'r ffin ddatblygu i'r gorllewin o'r anheddiad, ffordd wasanaeth ddigonol ar hyd Ffordd y Felin i ddarparu mynediad. | ✓ |
| **Gaerwen** | | |
| SP130 Tir ger Fferm Gaerwen Uchaf | ▪ Mae'r cais presennol ar y safle wedi dangos y byddai angen gwelliannau ar hyd Lôn yr Eglwys er mwyn cael mynediad i'r safle.<br>▪ Mae problemau dŵr wyneb mawr yng Ngaerwen, a byddai angen lliniaru'r rhain cyn gallu cynnwys y safle yn y CDLl ar y Cyd.<br>▪ Nid oes angen dyraniad newydd yn yr anheddiad, oherwydd mae banc tir digonol i ddiwallu anghenion tai'r | ✗ |

| | | |
|---|---|---|
| | anheddiad. | |
| C38 Parc Gwyddoniaeth Menai | ▪ Mae'r safle wedi'i ddynodi yn Safle Fenter gan Lywodraeth Cymru, ac mae cais wedi'i gyflwyno ar gyfer parc gwyddoniaeth arfaethedig. | ✓ |
| **Gwalchmai** | | |
| SP316 Tir ger Fron Deg | ▪ Wedi'i leoli ar yr A5 i'r gorllewin o'r anheddiad, mae gan y safle ffordd wasanaeth ddigonol i ddarparu mynediad clir. | ✓ |
| SP411 Tir yn Nhyddyn Carrog | ▪ Mae'r safle wedi'i leoli y tu ôl i eiddo ar hyd yr A5.<br>▪ Byddai angen mynediad drwy ardal orllewinol Maes y Ffridd, a allai effeithio ar faint y datblygiad.<br>▪ Mae safleoedd eraill sydd â mynediad uniongyrchol o'r brif ffordd ar gael. | ✗ |
| SP481 Tir ger Rhes Wylfa | ▪ Wedi'i leoli ar yr A5 i'r gorllewin o'r anheddiad, mae gan y safle ffordd wasanaeth ddigonol i ddarparu mynediad clir. | ✓ |
| **Caergybi** | | |
| SP228 Tir ger Stad Waunfawr | ▪ Mae gan ran o'r safle ganiatâd cynllunio. Dyrannu'r rhan sydd â chaniatâd ond hepgor gweddill y safle. | ✓<br>(Rhannol) |
| SP66 Tir ger Cae Rhos | ▪ Mae gan y safle, sydd wedi ei leoli i'r gorllewin i Gae Rhos, ffryntiad digonol i ddarparu mynediad.<br>▪ Byddai angen ymchwilio i faterion draenio, a'u lliniaru, cyn datblygu'r safle. | ✓ |
| SP190 Tir yn yr Ogof | ▪ Byddai mynediad i'r safle hwn, sydd wedi ei leoli i'r gorllewin i Ystâd yr Ogof, drwy'r ystâd ac nid ar hyd Mill Road.<br>▪ Gallai materion topograffigol yn | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| | gysylltiedig â'r tir arwain at ddwysedd datblygu is. | |
| SP296 Tir ger Tyddyn Bach, Caergybi | ▪ Yn cael ei ystyried yn addas fel estyniad i Fferm Tyddyn Bach sydd eisoes â chaniatâd cynllunio ac wedi ei gynnwys yn y CDU. | ✓ |
| **Llannerchymedd** | | |
| SP82 Tir ger Tyn y Ffynnon | ▪ Mae gan y safle, sydd wedi ei leoli i'r gorllewin i'r anheddiad, ffryntiad digonol i ddarparu mynediad addas.<br>▪ Nid oes angen y safle cyfan i ddiwallu anghenion yr anheddiad o safbwynt tai. | ✓ (Rhannol) |
| SP502 Tir tu cefn i Faes Athen | ▪ Byddai'n rhaid i'r mynediad fod ar hyd Lôn Cilgwyn, byddai hynny'n effeithio ar raddfa'r datblygiad.<br>▪ Mae safleoedd eraill y gellir cael mynediad iddynt drwy'r brif ffordd ar gael. | ✗ |
| SP615 Tir ger Eithinog | ▪ Mae'r safle wedi ei leoli ar y B5111 rhwng tai sengl mawr. Mae'n bosibl na fyddai datblygu ystâd yma'n gydnaws â chymeriad yr ardal.<br>▪ Mae safleoedd eraill sy'n nes at wasanaethau'n pentref ar gael. | ✗ |
| SP340 Tir ger Hafod y Foel | ▪ Mae'r safle wedi ei leoli ar y B5111 rhwng tai sengl mawr. Mae'n bosibl na fyddai datblygu ystâd yma'n gydnaws â chymeriad yr ardal.<br>▪ Mae safleoedd eraill sy'n nes at wasanaethau'n pentref ar gael.. | ✗ |
| **Llanfairpwll** | | |
| SP721 Tir ger Bryn Eira | ▪ Mae'r safle'n cyd-ffinio â ffin y CDU presennol ar hyd ei ffin ogleddol a hefyd mae'n cyd-ffinio â ffurf adeiledig yr anheddiad o ran tai preswyl ystâd Y Wern. | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| | ▪ O bosibl ystyried cynnwys caeau i'r dwyrain i'r cais.<br>▪ Nid oes angen y safle cyfan i ddiwallu anghenion yr anheddiad o safbwynt tai. | |
| **Llangefni** | | |
| SP657: Tir ger. Maes Derwydd | ▪ Byddai mynediad i'r safle, sydd wedi ei leoli wrth ymyl Ystâd Tŷ Hen a thu ôl i Ysgol Gyfun Llangefni, ar hyd lôn fferm sy'n arwain o ystâd Tŷ Hen.<br>▪ Mae'r safle'n agos at yr ysgol uwchradd ond nid o fewn pellter cerdded i ganol y dref a'i chyfleusterau cysylltiedig. Mae'n bosibl bod safleoedd mwy canolog eraill sy'n addas wedi eu cyflwyno yn Llangefni. | ✓ |
| SP658/SP58: Tir yn Gwernhefin | ▪ Mae'r safle, sydd wedi ei leoli ar gyrion Llangefni, yn weddol amlwg gan ei fod ar dir uchel a gallai hynny olygu bod y datblygiad yn cael effaith negyddol ar yr Ardal Gadwraeth.<br>▪ Mae safleoedd eraill sydd heb fod yn effeithio ar yr ardal gadwraeth ar gael. | ✗ |
| SP833: Caeau Bodelis | Mae'r safle'n agos at Ysgol Corn Hir ond nid o fewn pellter cerdded i ganol y dref a'i chyfleusterau cysylltiedig. Mae'n bosibl bod safleoedd canolog eraill sy'n fwy addas wedi eu cyflwyno yn Llangefni. | ✗ |
| SP902: Tir ger Ystâd Tŷ Hen | ▪ Byddai mynediad i'r safle, sydd wedi ei leoli wrth ymyl Ystâd Tŷ Hen a thu ôl i Ysgol Gyfun Llangefni, ar hyd lôn fferm sy'n arwain o ystâd Tŷ Hen.<br>▪ Mae'r safle'n agos at yr ysgol uwchradd ond nid o fewn pellter cerdded i ganol y dref a'i chyfleusterau cysylltiedig. Mae'n bosibl bod safleoedd canolog eraill | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| | sy'n fwy addas wedi eu cyflwyno yn Llangefni. | |
| SP903: Tir yn Coleg Menai | ▪ Mae'r safle hwn wedi ei leoli rhwng y Coleg ac ystâd dai, mae hwn yn safle mewnlenwi addas ar yr amod y gellir lliniaru unrhyw ofnau o ran traffig. | ✓ |
| SP904 Tir yn Coleg Menai | ▪ Mae'r safle hwn wedi ei leoli o fewn y ffin datblygu, mae hwn yn safle mewnlenwi addas i'w gynnwys yn y cynllun. | ✓ |
| SP970: Tir ger. Tyn Coed | ▪ Nid yw'r cais cynllunio ar gyfer unedau preswyl a'r cyfleuster gofal ychwanegol wedi amlygu unrhyw broblemau. | ✓ |
| SP990 Tir ger Tan Capel | ▪ Mynediad i'r safle'n annhebygol oni bai bod ffordd osgoi newydd yn cael ei hadeiladu. | ✗ |
| SP1000 Hen safle Ysgol y Bont | ▪ Tir llwyd o fewn y ffin datblygu bresennol gyda chysylltiadau cludiant da. | ✓ |
| SP1001 Tir ger Coleg Menai | ▪ Y tir yn rhan o strategaeth ehangu Coleg Menai i wella'r campws presennol. | ✓ |
| **Porthaethwy** | | |
| SP264 Tir ger Maes yr Hafod | ▪ Gallai'r safle hwn, sydd wedi ei leoli i'r gogledd i'r anheddiad ac yn cyd-ffinio â'r ffin datblygu, fod yn addas ond mae safleoedd eraill ar gael naill ai gyda chaniatâd cynllunio'n barod neu o fewn y ffin datblygu bresennol. | ✗ |
| SP985 Tyddyn Mostyn | ▪ Mae gan y safle hwn ganiatâd cynllunio. | ✓ |
| SP1002 Tir ger Lôn y Gamfa | ▪ Ni fyddai'r safle hwn, sydd wedi ei leoli o fewn ffin datblygu'r CDU, yn ymestyn ffurf adeiledig yr anheddiad i gefn gwlad agored. | |
| **Niwbwrch** | | |

| | | |
|---|---|---|
| SP463 Cae Plas | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad gan fod banc tir digonol i ddiwallu anghenion yr anheddiad o ran tai | ✗ |
| SP969 Tir ger Heol yr Eglwys | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad gan fod banc tir digonol i ddiwallu anghenion yr anheddiad o ran tai | ✗ |
| **Pentraeth** | | |
| SP773 Tir yn Glanrafon | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad gan fod banc tir digonol i ddiwallu anghenion yr anheddiad o ran tai | ✗ |
| SP222 Meithrinfa Pentraeth | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad gan fod banc tir digonol i ddiwallu anghenion yr anheddiad o ran tai | ✗ |
| **Rhosneigr** | | |
| SP241 Tir ger Bwthyn Trewan | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad gan fod banc tir digonol i ddiwallu anghenion yr anheddiad o ran tai | ✗ |
| SP928 Tir ger yr Ysgol | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad gan fod banc tir digonol i ddiwallu anghenion yr anheddiad o ran tai | ✗ |
| SP927 Tir ger Sisal y Môr | ▪ Nid oes angen dyraniad yn yr anheddiad gan fod banc tir digonol i ddiwallu anghenion yr anheddiad o ran tai | ✗ |
| **Y Fali** | | |
| SP944 Safle'r hen Fart | ▪ Mae safle tir llwyd o fewn ffin datblygu'r CDU presennol. Cais presennol ar y safle. | ✓ |

## 5. AC O'R HOFF STRATEGAETH (2013)

### Cefndir

5.1 Mae'r adran a ganlyn yn crynhoi canfyddiadau yr AC o'r Hoff Strategaeth ac yn dangos sut y dylanwadodd y CDLl. Ymgynghorwyd â'r Adroddiad AC Cychwynnol (2013) ochr yn ochr â'r Hoff Strategaeth ym mis Mai/Mehefin 2013.

### Datblygu'r Weledigaeth: Cydweddoldeb yn erbyn y Fframwaith AC

5.2 Roedd y dadansoddiad o weledigaeth Cynllun Cymunedol Ynys Môn a Strategaeth Gymunedol Gwynedd ar y Cyd ynghyd â'r materion sy'n wynebu'r ardal ar hyn o bryd yn gymorth i ddatblygu'r weledigaeth a ganlyn ar gyfer y CDLl ar y Cyd:

*Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn ardal fydd yn cael ei adnabod fel un gyda chymunedau bywiog sy'n dathlu eu diwylliant, eu treftadaeth a'r amgylchedd naturiol unigryw.*

*Golyga hyn y bydd yr ardal yn un:*

- *lle bydd cymeriad unigryw ei threftadaeth adeiledig, ei chefn gwlad, ac asedau ei glannau a'i hamgylchedd wedi'u gwarchod a'u gwella.*
- *lle bydd anghenion tai cymunedau lleol yr ardal yn cael eu diwallu'n well, o ran cyflenwad, math, ansawdd, lleoliad a fforddiadwyedd*
- *lle bydd ei drigolion a'i fusnesau'n cydio mewn cyfleoedd economaidd newydd i dyfu*
- *lle bydd yr economi'n gryf ac amrywiol gan fanteisio ar gryfderau'r ardal (e.e. adnoddau craidd naturiol, amgylchedd, tirlun, iaith, diwylliant, hanes a thalentau lleol) ac ar y sectorau allweddol a gwerth uchel yn y dyfodol, fel amaeth - cynnyrch craidd a chynhyrchu bwyd; gofal; diwydiannau creadigol; gwyddorau a meddygol; uwch dechnoleg a ddigidol; cynhyrchu, gwasanaethu a pheirianneg i'r sector ynni niwclear a'r sector ynni adnewyddol amgen*
- *lle bydd pobl a chymunedau'r ardal yn gallu ymdopi â newid hinsawdd*
- *sy'n gartref i rwydweithiau byrlymus o gymunedau cynhwysol, cydlynol, brwd a ffyniannus, yn drefol ac yn wledig, a lle mae'r trigolion, yn hen ac yn ifanc, yn dda eu hiechyd a'u lles.*
- *lle bydd y Gymraeg yn rhan hanfodol o fwy o gymunedau a busnesau*
- *lle bydd cymunedau'n manteisio ar gryfderau a chyfleoedd yr ardal a lle y cedwir y buddiannau sy'n deillio ohonynt yn lleol*
- *lle bydd y rhwydweithiau presennol o aneddiadau, yn drefol ac yn wledig, yn cael eu cynnal a'u gwella, gan gryfhau'r dolenni rhyngddynt fel bod llai o angen teithio ac y bydd gwasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth leol yn well ac yn gadarn*
- *lle na fydd daearyddiaeth yn atal neb rhag cyflawni, nac yn ei atal rhag manteisio ar y lles a'r cyfleoedd o ran ffordd o fyw sydd ar gael y tu mewn i ardal y CDLl ar y Cyd neu'r tu allan iddi*

5.3 Gan fod y Weledigaeth yn cynrychioli datganiad cyffredinol a chryno nid yw'n cyfeirio'n benodol at yr holl faterion cynaladwyedd yn Ardal y Cynllun. O ganlyniad, cynhaliwyd asesiad cydweddoldeb cyffredinol o'r weledigaeth. Mae'r weledigaeth wedi'i hasesu yn erbyn Amcanion yr AC ac fe welir canlyniadau'r asesiad hwn yn y tabl isod:

**Tabl 5.1: Asesiad o'r Weledigaeth yn Erbyn y Fframwaith**

| AMCANION AC | | AC O'R WELEDIGAETH |
|---|---|---|
| 1 | Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd | ✓ |
| 2 | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant ac iechyd a lles cymunedol | ✓ |
| 3 | Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu | ✓ |
| 4 | Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg | ✓ |
| 5 | Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol | +/- |
| 6 | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol | ✓ |
| 7 | Darparu tai cynaladwy yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol | ✓ |
| 8 | Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun | +/- |
| 9 | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu | ✓ |
| 10 | Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth a rhyngrwyd da i gefnogi'r gymuned a'r economi | ✓ |
| 11 | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr ac isafu'r risg o lifogydd | +/- |

5.4 Ar y cyfan roedd y weledigaeth yn gydnaws â'r amcanion allweddol sydd wedi'u nodi yn y Fframwaith AC, ac mae'n darparu fframwaith strategol cadarn ar gyfer cyflawni cynaladwyedd tymor hir i economi, cymunedau ac amgylchedd Ynys Môn a Gwynedd. Mae nifer o amcanion yr AC yn sgorio'n uchel o ran perfformiad cynaladwyedd. Dylid nodi hefyd mai rôl y weledigaeth yw gosod y polisi gofodol llawn a'r bwriad strategol ar gyfer ardaloedd ALl Gwynedd a Môn. Nid oes disgwyl i'r weledigaeth fynd i'r afael yn fanwl â'r holl agweddau unigol a geir yn y Fframwaith AC. Fodd bynnag, gwneir y pwyntiau a ganlyn:

- *Amcan AC 3:* Dangoswyd bod tai a thrafnidiaeth yn cyfrannu'n helaeth tuag at nwyon tŷ gwydr sydd yn y pen draw'n achosi newid hinsawdd. Er bod y weledigaeth yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â phwysigrwydd lleihau'r angen i deithio, a thrwy hynny gyfrannu tuag at system drafnidiaeth gynaliadwy, gellid cryfhau'r weledigaeth drwy hwyluso'r broses o hyrwyddo tai ynni-effeithiol.

- *Amcan AC 5:* Nid yw treftadaeth ddiwylliannol yn cael ei chyfarch ddigon yn y Weledigaeth, er y gwneir cyfeiriad uniongyrchol at bwysigrwydd yr iaith Gymraeg

mewn cymunedau. Byddai o fudd i'r Weledigaeth pe tynnid mwy o sylw at bwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol yn ardal y CDLl ar y Cyd.

- *Amcan AC 6:* dylai'r weledigaeth gyfeirio at yr angen i hyrwyddo tyfiant economaidd mewn ardaloedd trefol a gwledig.

- *Amcan AC 8*: Nid oes cyfeiriad uniongyrchol at yr adnodd tirwedd pwysig yn Ardal y Cynllun.

- *Amcan AC 9*: Dylai'r Weledigaeth gyfeirio at yr angen i annog cynlluniau ynni adnewyddol (gan gynnwys fel rhan o ddatblygiadau tai) a'r angen i hyrwyddo rheoli gwastraff cynaladwy.

- *Amcan AC 11:* Nid oes cyfeiriad uniongyrchol yn y weledigaeth at reoli'n gynaliadwy ansawdd dŵr a faint ohono sydd ar gael. Gallai nifer o agweddau yn y weledigaeth gael effaith andwyol o bosib ar ansawdd dŵr a faint o ddŵr sydd ar gael, gan gynnwys hwyluso datblygiadau tai a chyflogaeth. Fodd bynnag, dylid cofio mai pwrpas y Weledigaeth yw rhoi nod cyffredinol y dylai'r CDLl ar y Cyd ymdrechu i'w gyrraedd. Mae'n bwysig ymdrin â'r mater a'i fonitro yn ystod camau nesaf datblygu'r Cynllun.

5.5 Mewn ymateb i'r uchod, fe wnaed yr addasiadau a ganlyn i Weledigaeth y CDLl ar y Cyd (dangosir testun newydd mewn print trwm, tra rhoddwyd llinell drwy'r hen destun):

> Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn ardal fydd yn cael ei adnabod fel un gyda chymunedau bywiog sy'n dathlu eu diwylliant, eu treftadaeth a'r amgylchedd naturiol unigryw.
>
> Golyga hyn y bydd yr ardal yn un:
>
> - lle bydd cymeriad unigryw ei threftadaeth **ddiwylliannol ac** adeiledig, ei chefn gwlad **a'i thirwedd**, ~~ac asedau ei glannau~~ a'i hamgylchedd ~~wedi'u~~ **yn cael ei werthfawrogi, ei** warchod a'i wella.
> - lle bydd anghenion tai cymunedau lleol yr ardal yn cael eu diwallu'n well, o ran cyflenwad, math, ansawdd, **effeithlonrwydd ynni**, lleoliad a fforddiadwyedd, **gan hyrwyddo 'r defnydd o dechnolegau ynni adnewyddol lle'n briodol.**
> - lle bydd ei drigolion a'i fusnesau'n cydio mewn cyfleoedd economaidd newydd i dyfu **a ffynnu, heb niweidio asedau lleol.**
> - lle bydd yr economi **gwledig a threfol yn** gryf ac amrywiol gan **wneud y defnydd gorau o** ~~fanteisio ar~~ gryfderau'r ardal (e.e. adnoddau craidd naturiol, amgylchedd, tirlun, iaith, diwylliant, hanes a thalentau lleol) ac ar y sectorau allweddol a gwerth uchel yn y dyfodol, fel amaeth - cynnyrch craidd a chynhyrchu bwyd; gofal; diwydiannau creadigol; gwyddorau a meddygol; uwch dechnoleg a ddigidol; cynhyrchu, gwasanaethu a pheirianneg i'r sector ynni niwclear a'r sector ynni adnewyddol amgen
> - lle bydd pobl a chymunedau'r ardal yn gallu ymdopi â newid hinsawdd
> - sy'n gartref i rwydweithiau byrlymus o gymunedau cynhwysol, cydlynol, brwd, **dylanwadol** a ffyniannus, yn drefol ac yn wledig, a lle

mae'r trigolion, yn hen ac yn ifanc, yn dda eu hiechyd a'u lles.

- lle bydd y Gymraeg yn rhan hanfodol ~~o fwy~~ o gymunedau a busnesau
- lle bydd cymunedau'n manteisio ar gryfderau a chyfleoedd yr ardal a lle y cedwir y buddiannau sy'n deillio ohonynt yn lleol
- lle bydd y rhwydweithiau presennol o aneddiadau, yn drefol ac yn wledig, yn cael eu cynnal a'u gwella, gan gryfhau'r dolenni rhyngddynt fel bod llai o angen teithio **mewn modd anghynaladwy**
- **ble mae cynlluniau ynnia adnewyddol yn cael eu hyrwyddo a ble mae rheolaeth cynaladwy o wastraff ac ail-ddefnyddio gwastraff yn cael eu hyrwyddo**
- lle na fydd daearyddiaeth yn atal neb rhag cyflawni, nac yn ei atal rhag manteisio ar y lles a'r cyfleoedd o ran ffordd o fyw sydd ar gael y tu mewn i ardal y CDLl ar y Cyd neu'r tu allan iddil

5.6 Roedd y weledigaeth, fel yr amlinellwyd yn y ddogfen 'Datblygu'r Weledigaeth, Prif Amcanion ac Opsiynau Strategol' hefyd yn destun ymgynghoriad gyda grwpiau budd-ddeiliaid allweddol a'r Panel CDLl ar y Cyd. Gan ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod y cyfnod ymgynghori a chanlyniadau'r Arfarniad Cynaladwyedd datblygwyd y weledigaeth ddiwygiedig a ganlyn:

Erbyn 2026, bydd Ynys Môn a Gwynedd yn cael eu cydnabod am eu cymunedau ffyniannus a llawn bywyd sy'n dathlu eu diwylliant, treftadaeth a'u hamgylchedd unigryw ac yn rhywle y bydd pobl yn dewis byw ynddynt.

Mae hyn yn golygu y bydd ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn:

- lle mae anghenion tai cymunedau lleol yr ardal yn cael eu diwallu'n well o ran cyflenwad, math, ansawdd, effeithlonrwydd ynni, lleoliad a fforddiadwyedd
- lle mae'r preswylwyr a busnesau'n gallu achub ar y cyfleoedd economaidd newydd i ffynnu
- sy'n brolio gweithlu medrus priodol ac economi amrywiol, eang, gynaliadwy gyda chysylltiadau da sy'n gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chyfleoedd lle mae'r manteision sy'n deillio ohonynt yn aros yn lleol
- sy'n gartref i rwydweithiau egnïol o gymunedau cynhwysol lle mae'r preswylwyr yn mwynhau iechyd a lles da
- lle mae'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o gymunedau
- sy'n addasu ac yn ymateb yn gadarnhaol i'r sialensau a gyflwynir gan y newid hinsawdd
- lle mae cymeriad unigryw ei threftadaeth adeiledig a diwylliannol, ei chefn gwlad a'i thirwedd, a'i hamgylchedd, yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a'i wella
- lle mae pobl eisiau byw gweithio ac ymweld â hi

**Strategic Objectives: Compatibility Against the SA Objectives**

5.7 Er mwyn gwireddu'r weledigaeth datblygwyd amcanion strategol. Camau gweithredu yw Amcanion Strategol sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth. Maent yn cynrychioli bwriadau eang a bydd mwy o bolisïau a chynigion manwl o fewn y CDLl ar y Cyd yn cyflawni'r rhain maes o law. Canllawiau yw'r amcanion strategol i ddisgrifio'r hyn mae'r cynllun yn ceisio ei gyflawni. Nodwyd y 20 amcan a ganlyn yn wreiddiol:

i) Darparu ar gyfer ystod ac amrywiaeth o dai a deiliadaeth i ddiwallu'r gofyniad tai trefol a gwledig ac anghenion amrywiol poblogaeth leol sy'n cynyddu ac yn heneiddio, gan ddarparu'r tai mewn mannau lle mae pobl yn dymuno byw.

ii) Cydlynu'r ddarpariaeth tai â buddsoddi mewn cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys cyfleusterau iechyd, er mwyn sicrhau bod aneddiadau'n gynaliadwy, yn hygyrch a'u bod yn diwallu amrywiol anghenion eu cymunedau.

iii) Amddiffyn, cryfhau a hybu defnyddio'r Gymraeg a'i diwylliant fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned.

iv) Annog cymunedau diogel a saff a lliniaru eu hofnau ynglŷn â throseddu

v) Sicrhau bod tir ac eiddo'n cael eu diogelu ac yn cael eu dynodi i ddenu buddsoddiad, cadw a chynyddu nifer y swyddi cynhenid a chreu cyflogaeth o safon, gan hyrwyddo gweithio gartref lle bo hynny'n briodol.

vi) Amrywio sylfaen economaidd cefn gwlad a'r trefi drwy ddarparu fframwaith cynllunio cadarnhaol ar gyfer datblygu twristiaeth, diwydiannau creadigol, sector gofal, a diwydiannau seiliedig ar wybodaeth, peirianneg arbenigol a'r sector ynni, gan gynnwys technolegau ynni adnewyddadwy.

vii) Darparu safleoedd sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o anghenion addysgu a hyfforddi.

viii) Bydd nifer y graddedigion lleol sy'n byw a gweithio yn yr ardal yn uchel.

ix) Hybu canol trefi bywiog a bwrlwmus sydd wedi ailddarganfod eu pwrpas fel canolfannau gwaith a gwasanaethau, ac sy'n fannau bywiog a deniadol i drigolion ac i ymwelwyr

x) Annog a hybu sector twristiaeth drwy'r flwyddyn sy'n gynaliadwy ac yn garedig wrth yr amgylchedd ledled yr ardal a chyda sylfaen lety da'n ei gefn iddo

xi) Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd trwy, e.e. leihau risg llifogydd, ddylunio a lleoli adeiladau'n briodol, sefydlu patrwm anheddiad a thwf sy'n gostwng cynnyrch nwyon tŷ gwydr

xii) Cyfrannu'n sylweddol at leihau nwyon tŷ gwydr drwy gynorthwyo i ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy priodol, e.e. tyrbinau gwynt, pŵer dŵr

xiii) Gwneud defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol priodol, ac adeiladau segur neu rai sydd ddim yn cael eu defnyddio'n llawn, lle mae'r rhain ar gael

xiv) Sicrhau cymunedau gwledig dirgrynol sy'n llefydd byw a gweithio

xv) Gwarchod a chyfoethogi tirwedd yr ardal gan gynnwys yr amgylchedd gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol

xvi) Atal colli bioamrywiaeth gan ei chryfhau a gwella'i chysylltedd ledled yr ardal, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd sy'n flaenoriaeth yn lleol, a chan wella ar yr un pryd allu pobl i fwynhau a deall bioamrywiaeth drwy eu hannog i ymweld â safleoedd o ddiddordeb cadwriaethol; ar yr amod bod modd diogelu eu dyfodol ecolegol.

xvii) Sicrhau bod y seilwaith ffisegol a chymunedol yn ddigonol a'i fod wedi'i gynllunio e.e. rhaid darparu ffyrdd, cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau gofal sylfaenol, cartrefi gofal ychwanegol, ysgolion, band eang, ac ati, ochr yn ochr â datblygiadau newydd.

xviii) Darparu ar gyfer rheoli gwastraff ac adennill adnoddau mewn ffordd gynaliadwy, gan geisio sicrhau cyn lleied o amharu ar yr amgylchedd, ar iechyd pobl, ar nodweddion cymdeithasol ac economaidd, a sicrhau cymaint o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd â phosib, gan ddiwallu anghenion cymunedau a busnesau

xix) Diwallu'r angen lleol a rhanbarthol am fwynau mewn ffordd gynaliadwy

xx) Gwella llwybrau at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg/ hyfforddi a hynny ar droed, ar feic ac ar gludiant cyhoeddus, a thrwy hynny, leihau nifer y teithiau mewn ceir preifat.

5.8 Cynhaliwyd asesiad cydweddoldeb o amcanion y CDLl ar y Cyd yn erbyn Amcanion yr AC fel rhan o'r broses i asesu cynaladwyedd amcanion y CDLl ar y Cyd. Gwnaed hyn i sicrhau bod amcanion cyffredinol y CDLl ar y Cyd yn unol ag amcanion yr AC ac i ganfod anghysondebau posib. Byddai hyn yn rhoi cyfle i fireinio neu ddatblygu unrhyw amcan ymhellach. Cafodd hGweler asesiad o amcanion y CDLl ar y Cyd yn erbyn y Fframwaith AC ei gynnwys yn Atodiad 4 o'r Adroddiad AC Cychwynnol (Mai 2013), sydd ar gael ar wefan y ddau Gyngor.

5.9 Dangosodd AC o'r amcanion fod mwyafrif yr Amcanion AC un ai'n gydnaws ag Amcanion y CDLl ar y Cyd, neu nad oedd perthynas rhyngddynt o gwbl. Dim ond nifer fechan o amcanion oedd o bosib yn anghydnaws â'i gilydd. Mae'r eithriadau hyn fel arfer yn adlewyrchu ansicrwydd o ran sut eir i'r afael â'r amcan mewn amgylchiadau penodol. Gall yr anghysondebau posib hyn ddod i'r amlwg pan fo ceisio cyflawni un o amcanion y CDLl neu'r AC yn

arwain at lwyddiant un ar draul y llall. Roedd hyn yn fwyaf amlwg pan allai'r amcan sy'n ymwneud â thwf economaidd a datblygiadau tai e.e. cwrdd â thwf tai, effeithio'n andwyol ar nodweddion y dirwedd a bioamrywiaeth. Hefyd, dangoswyd y gallai rhai o amcanion y CDLl fod yn gydnaws â'r amcanion AC, yn amodol ar sut y cyflawnir hwy. Er enghraifft, gallai amcan 7 y CDLl fod yn gydnaws â nifer o amcanion yr AC, yn ddibynnol ar y math o gyfleoedd a ddarperir, ac yn lle y byddent wedi'u lleoli.

5.10 Dylid nodi hefyd fod gan rai o'r amcanion CDLl ar y Cyd y potensial i ddwyn ymlaen amrywiaeth o ganlyniadau positif a negyddol posib oherwydd yr ansicrwydd o ran cydweddoldeb yr amcan gyda rhai o'r Amcanion AC e.e. gall ddatblygiad newydd gael ardrawiad positif neu negyddol ar dirweddau gwledig a threfol, yn ddibynnol ar nifer o ffactorau fel dyluniad a lleoliad. Bydd llawer yn dibynnu ar bolisiau mwy manwl y Cynllun fel mae'n datblygu. Dylai'r polisiau hyn liniaru yn erbyn yr ardrawiadau negyddol tra'n mwyhau'r rhai hynny sydd wedi eu hadnabod fel bod yn bositif.

5.11 Roedd yr amcanion strategol hefyd yn destun ymgynghoriad gyda grwpiau budd-ddeiliaid allweddol a'r Panel CDLl ar y Cyd. Wedi cymhwyso amcanion y Gwerthusiad Cynaladwyedd ac ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod ymgynghoriad y budd-ddeiliaid allweddol datblygwyd fersiwn diwygiedig o'r amcanion strategol fel a ganlyn:

i) sicrhau bod ystod digonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy,

ii) darparu ar gyfer cyflenwad tai cytbwys gan sicrhau bod yr holl stoc dai o safon dda, yn fforddiadwy, ac yn darparu ar gyfer gwahanol fathau a gwahanol deiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth

iii) sicrhau poblogaeth sefydlog a chytbwys mewn cymunedau

iv) darparu ar gyfer y byd addysg a gwasanaethau cymdeithasol sy'n newid

v) sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau

vi) sicrhau bod pob datblygiad wedi'i ddylunio'n dda ac yn rhoi sylw dyledus i'w amgylchoedd er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o droseddu

vii) sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ac adeiladau yn cael ei ddiogelu a'i ddyrannu mewn lleoliadau cynaliadwy i ddenu buddsoddiad ac i gadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol, cefnogi datblygu gweithgarwch economaidd mewn sectorau â gwerth uwch, sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle, a hyrwyddo gweithio o adref lle bo hynny'n briodol

viii) arallgyfeirio economi wledig a threfol ardal y CDLl ar y Cyd er mwyn hwyluso economi gymysg a ffyniannus sy'n adeiladu ar gyfleoedd, gan

gynnwys y rhai a gyflwynir gan y sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel a'r diwydiannau gwybodaeth

ix) sicrhau isadeiledd priodol yn ei le neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad

x) hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus sydd wedi cael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd

xi) rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr

xii) diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy

xiii) lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd

xiv) rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dwr a lleihau faint o ddwr a ddefnyddir

xv) lleihau effaith llifogydd drwy sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg lle bynnag y bo hynny'n bosibl

xvi) lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau

xvii) annog rheoli gwastraff ar sail yr hierarchaeth o ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel

xviii) hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal

xix) defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael

xx) gwarchod a gwella bioamrywiaeth, drwy gryfhau a gwella ei gyd-gysylltiad ar draws yr ardal, a hwyluso cymunedau I fwynhau a gwerthfawrogi bioamrywiaeth

xxi) gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, effeithlon, modern ac integredig o ansawdd uchel ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl

xxii) sicrhau bod datblygiadau newydd wedi eu cefnogi gan gyflenwad digonol neu a gynlluniwyd o seilwaith digidol a ffonau symudol

xxiii) Gwneud yn fawr o gyfleon Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A487/ A470 fel coridorau cludiant allweddol

xxiv) diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned

xxv) nodi, gwarchod a lle bo hynny'n bosibl gwella llefydd, tirweddau ac adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol ac archeolegol, a'u gosodiadau

xxvi) sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol

5.12 Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi sut y bu I'r AC ddiweddaru a dylanwadu ar yr amcanion strategol diwygiedig.

**Tabl 5.2: Crynhoad o Berfformiad Amcanion y Cynllun yn erbyn y Fframwaith AC a Datblygiad Amcanion Diwygiedig y Cynllun.**

| AMC. Y CDLL | SYLWADAU | ADDASIADAU A AWGRYMIR I AMCANION Y CDLL YN DILYN ASESIAD AC | SUT MAE'R AC WEDI DYLANWADU AR FERSIWN DDIWYGIEDIG TERFYNOL O'R AMCANION STRATEGOL |
|---|---|---|---|
| **1.** | Mae'r amcan yn perfformio'n dda o ran mynd i'r afael â darparu amrywiaeth o dai i bob rhan o gymdeithas. Fodd bynnag, mae'r amcan yn rhoi pwys mawr ar ddatblygiad ffisegol ac felly mae'n debyg y ceid anghysondeb ag amcanion a ddyluniwyd i warchod adnoddau naturiol. Y prif faterion sy'n gysylltiedig â'r amcan CDLl hwn yw y gallai wrthdaro o bosib â nodweddion naturiol, diwylliannol a thirwedd oherwydd lleoliad a maint datblygiadau megis dyraniadau tai. Mae caniatáu darpariaeth o dai '*mewn llefydd ble y dymunai pobl fyw*' yn hybu datblygiadau tai mewn lleoliadau anghynaladwy. Awgrymir felly y byddai o fydd i'r amcan petai'n cyfeirio at yr angen i ddyrannu tai o ystod a graddfa **'briodol'** mewn **'lleoliadau cynaliadwy'**. | 1. Darparu ystod ac amrywiaeth **briodol** o dai a thenantiaethau i gwrdd â'r anghenion tai trefol a gwledig, ac amrywiol anghenion poblogaeth leol sy'n tyfu ac yn heneiddio, gan ddarparu tai mewn ~~llefydd~~ **lleoliadau cynaliadwy** ble y dymuna pobl fyw. | **SO1:** Sicrhau bod ystod digonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaladwy. |
| **2.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |

| AM C. Y CD LL | SYLWADAU | ADDASIADAU A AWGRYMIR I AMCANION Y CDLL YN DILYN ASESIAD AC | SUT MAE'R AC WEDI DYLANWADU AR FERSIWN DDIWYGIEDIG TERFYNOL O'R AMCANION STRATEGOL |
|---|---|---|---|
| **3.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |
| **4.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |
| **5.** | Yn debyg i Amcan 1 y CDLl, byddai agwedd cynaladwyedd yr amcan hwn yn gwella petai'n cyfeirio at yr angen i ddyrannu tir mewn lleoliadau cynaliadwy. Yn ogystal â hyn, byddai o fudd i'r amcan petai'n cynnwys cyfeiriad at yr angen i hwyluso economi amrywiol yn Ardal y Cynllun sy'n addas i bob rhan o gymdeithas. Byddai'r amcan hefyd yn manteisio drwy hyrwyddo gweithio o adref. | Sicrhau bod tir ac eiddo yn cael eu diogelu a'u dyrannu **<u>mewn lleoliadau cynaliadwy</u>**, er mwyn denu buddsoddiad, cadw a chynyddu'r nifer o swyddi lleol a chreu **<u>cyfleoedd</u>** cyflogaeth **<u>amrywiol</u>**, o ansawdd, **<u>gan hyrwyddo gweithio o adref pan fo hynny'n briodol.</u>** | **SO7:** Sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ac adeiladau yn cael ei ddiogelu a'l ddyrannu mewn lleoliadau cynalidawy I ddenu buddsoddiad ac I gadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol, cefnogi datblygu gweithgarwch economaidd mewn sectorau â gwerth uwch, sicrhau cyfleoedd I wella sgiliau ac addysg y gweithle, a hyrwyddo gweithio o adref lle bo hynny'n briodol. |
| **6.** | Y prif fater sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yw'r effaith bosib ar yr amgylchedd a'r dirwedd yn Ardal y Cynllun, o ganlyniad i ddatblygiad cysylltiedig. Mae hyn yn arwyddocaol yn enwedig o ran effeithiau posib datblygiadau twristiaeth a datblygiadau'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy e.e. melinau gwynt. I liniaru'r effeithiau hyn, gellid gwneud cyfeiriad at bwysigrwydd parchu adnoddau'r dirwedd ac adnoddau amgylcheddol.<br><br>Byddai'r amcan hefyd yn manteisio drwy gyfeirio at yr angen i gefnogi mentrau newydd. | Amrywio'r economi wledig a threfol drwy **<u>gefnogi mentrau newydd a</u>** darparu fframwaith cynllunio cadarn ar gyfer twristiaeth, diwydiannau creadigol, y sector gofal a'r sector peirianneg ac ynni arbenigol sy'n seiliedig ar wybodaeth, yn cynnwys y sectorau ynni adnewyddadwy a charbon isel, **<u>tra'n parchu'r amgylchedd a'r dirwedd ar yr un pryd</u>**. | **SO7:** Sicrhau bod cyflenwad digonol o dir ac adeiladau yn cael ei ddiogelu a'l ddyrannu mewn lleoliadau cynalidawy I ddenu buddsoddiad ac I gadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol, cefnogi datblygu gweithgarwch economaidd mewn sectorau â gwerth uwch, sicrhau cyfleoedd I wella sgiliau ac addysg y gweithle, a hyrwyddo gweithio o adref lle bo hynny'n briodol.<br><br>**SO25:** Nodi, gwarchod a lle bo hynny'n bosibl gwella llefydd, tirweddau ac adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol, diwylliannol ac archeolegol, a'u gosodiadau. |
| **7.** | Y prif fater sy'n gysylltiedig â'r amcan hwn yw'r effaith bosib ar rai agweddau penodol o'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, o ganlyniad i ddatblygiad adeiladau newydd, megis | Darparu safleoedd **<u>mewn lleoliadau cynaliadwy</u>** sy'n addas ar gyfer amryw sefydliadau addysgol a hyfforddiant. | **SO21:** Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, effeithlon, modern ac integredig o ansawdd uchel ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / |

| AM C. Y CD LL | SYLWADAU | ADDASIADAU A AWGRYMIR I AMCANION Y CDLL YN DILYN ASESIAD AC | SUT MAE'R AC WEDI DYLANWADU AR FERSIWN DDIWYGIEDIG TERFYNOL O'R AMCANION STRATEGOL |
|---|---|---|---|
| | ysgolion, mewn lleoliadau anghynaladwy. I oresgyn yr anghysondeb posib hwn, awgrymir gwneud cyfeiriad penodol at yr angen i safleoedd gael eu darparu mewn lleoliadau cynaliadwy. | | hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl. |
| **8.** | Yn gydnaws â'r amcanion AC. | Dim newid. | |
| **9.** | Y prif faterion sy'n gysylltiedig â pherfformiad cynaladwyedd yr amcan hwn yw'r effaith bosib o ganlyniad i ddatblygiadau newydd mewn canol trefi. Fodd bynnag, dylai amcanion CDLl eraill leddfu hyn. | Dim newid. | |
| **10.** | Mae'r amcan hwn yn hybu datblygiadau ffisegol sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, a allai beryglu'r amcanion AC sy'n ceisio gwarchod amgylcheddau naturiol ac adeiledig presennol. Er enghraifft, gallai cyfleusterau twristiaeth newydd roi straen ar yr amgylchedd naturiol ac annog mwy o deithio. Bydd yn bwysig bod mesurau rheoli polisi a mesurau lliniaru'n cael eu datblygu i warchod yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. | Dim newid. | |
| **11.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. Fodd bynnag, byddai o fudd i'r amcan petai'n cyfeirio'n benodol at reoli dŵr yn gynaliadwy. Awgrymir ei gwneud yn gliriach sut y gallai datblygiadau gyfrannu at gadw allyriadau nwyon tŷ gwydr i'r lleiafswm. | Lliniaru ac addasu i newid hinsawdd e.e. lleihau perygl llifogydd, **hwyluso rheolaeth gynaliadwy o ddŵr mewn datblygiadau**, adeiladau wedi'u dylunio a'u lleoli'n briodol **sy'n ynni-effeithiol**, sefydlu patrwm aneddiadau a lefel twf sy'n lleihau nwyon tŷ gwydr. | **SO14:** Rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir<br><br>**SO16:** Lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau |
| **12.** | Yn debyg i amcan 6 uchod, y prif faterion sy'n | Cyfraniad sylweddol i leihau nwyon tŷ gwydr drwy | **SO26:** sicrhau bod pob datblygiad newydd yn |

| AMC. Y CDLL | SYLWADAU | ADDASIADAU A AWGRYMIR I AMCANION Y CDLL YN DILYN ASESIAD AC | SUT MAE'R AC WEDI DYLANWADU AR FERSIWN DDIWYGIEDIG TERFYNOL O'R AMCANION STRATEGOL |
|---|---|---|---|
| | gysylltiedig â'r amcan hwn yw'r effaith bosib ar yr amgylchedd a'r dirwedd yn Ardal y Cynllun, o ganlyniad i ddatblygiad cysylltiedig. | hwyluso'r broses o ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy priodol e.e. melinau gwynt, ynni o ddŵr, **<u>heb gael effaith andwyol ar yr amgylchedd na'r dirwedd</u>**. | cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol. |
| **13.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |
| **14.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |
| **15.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. Byddai'r unig wrthdaro posib yn gysylltiedig â datblygiadau tai a chyflogaeth. | Dim newid. | |
| **16.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |
| **17.** | Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y gallai'r amcan hwn effeithio ar nodweddion ecolegol a thirwedd ardal y Cynllun e.e. drwy ddatblygu isadeiledd telathrebu a ffyrdd. Awgrymir diwygio'r testun i adlewyrchu pwysigrwydd gwarchod y nodweddion hyn. | Sicrhau bod unrhyw ddatblygiad newydd â chyflenwad digonol, wedi'i gynllunio, o isadeiledd ffisegol a chymunedol tu cefn iddo e.e. ffyrdd, cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau gofal sylfaenol, tai gofal ychwanegol, ysgolion, **<u>isadeiledd TG effeithiol</u>** ~~band eang~~ **<u>heb achosi niwed i nodweddion ecolegol a nodweddion y dirwedd</u>**. | **SO22:** Sicrhaubod datblygiadau newydd wedi eu cefnogi gan gyflenwad digonol neu a gynlluniwyd o seilwaith digidol a ffonau symudol.<br><br>**SO26:** Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd, sy'n unigryw yn lleol. |
| **18.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |
| **19.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |
| **20.** | Yn gydnaws ar y cyfan â'r amcanion AC. | Dim newid. | |

| AM C. Y CD LL | SYLWADAU | ADDASIADAU A AWGRYMIR I AMCANION Y CDLL YN DILYN ASESIAD AC | SUT MAE'R AC WEDI DYLANWADU AR FERSIWN DDIWYGIEDIG TERFYNOL O'R AMCANION STRATEGOL |
|---|---|---|---|
| | | | |

*Nodyn: Lleoliadau Cynaladwy – lleoliad sy'n hygyrch i gyflogaeth, addysg, manwerthu, cyfleusterau cymunedol ac eraill drwy ddewis atyniadol o drafnidiaeth ar wahan i'r car preifat gan gynnwys cerdded, beicio a thrafnidiaeth cyhoeddus, a hefyd o ran gwarchod bioamrywiaeth a adnoddau naturiol. Gall hefyd gael ei ddiffinio fel lleoliad sydd â mynediad TG da.*

**AC o'r Hoff Bolisïau Strategol**

5.13 Roedd pob un o'r 22 Polisi Strategol Drafft a gyflwynwyd yn yr Hoff Strategaeth (Mai 2013) yn destun AC yn erbyn y Fframwaith AC llawn. Roedd natur y polisïau yn strategol a chawsant eu llunio gan ddilyn Gweledigaeth ac Amcanion y CDLl ar y Cyd, a'r rhain yw'r dull arfaethedig o gyflenwi'r hoff strategaeth gyffredinol. Cyflwynir crynodeb o ganfyddiadau'r AC yn y tabl isod, gyda'r matricsau arfarnu manwl yn cael eu cyflwyno yn Atodiad 8 yr Adroddiad hwn.

**Tabl 5.3: Crynodeb o Ganfyddiadau'r AC o Bolisiau yr Hoff Strategaeth**

| **Polisi PS1 Datblygiad Cynaliadwy** |
|---|
| Ar y cyfan bydd polisi cyffredinol PS1 yn cael effeithiau cadarnhaol mawr ar ddatblygiadau cynaliadwy a chymunedau'r ardal. Fodd bynnag, mae peth ansicrwydd gan fod gweithredu'r amcanion uchelgeisiol hyn yn ddibynnol ar bolisïau strategol a manwl eraill a byddant hwy yn rhoi canllawiau pellach gan gynnwys y safonau sydd angen eu cwrdd.<br><br>Nodir nad yw'r polisïau strategol yn cynnwys polisi sy'n ymwneud â dylunio ac adeiladu cynaliadwy, er bod amcan rhif 10, PS1 yn gofyn am gynnwys egwyddorion adeiladu cynaliadwy. Awgrymir y byddai'r fath bolisi yn rhoi mwy o sicrwydd y ceir effeithiau cadarnhaol; fodd bynnag, sylweddolir y gallai'r mater hwn gael ei gynnwys mewn polisi manwl yn ddiweddarach.<br><br>Awgrymodd yr AC y dylai'r Polisi gynnwys cyfeiriadau at wasanaethau ecosystemau, asedau a gosodiad treftadaeth ac amcanion Gorllewin Cymru CrhBA, sydd wedi eu hymgorffori erbyn hyn. |
| **Polisi PS2 Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt** |
| Bydd dull y polisi hwn yn cynorthwyo unigolion a chymunedau i addasu i a bod yn fwy gwydn i effeithiau andwyol yn sgil newid hinsawdd. Mae'r polisi yn mynd i'r afael â'r holl ffactorau cydberthnasol – ailddefnyddio; yr hierarchaeth ynni; llifogydd; dyluniad a gosodiad; cynhyrchu bwyd yn lleol a phridd; cludiant a rheoli dŵr yn gynaliadwy – sydd oll yn gysylltiedig ag effeithiau newid hinsawdd.<br><br>Bydd lles dynol yn gwella gan fod mwy o sicrwydd y gellir gwrthsefyll |

| |
|---|
| effeithiau newid hinsawdd cyn gymaint â phosib ac y gellir lleihau'r perygl cyffredinol o lifogydd yn yr ardal. Datgan y polisi y lleolir pob datblygiad i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle mae perygl llifogydd, gyda'r nod o leihau'r perygl cyffredinol o lifogydd i fyny ac i lawr yr afon. Bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol cronnus hirdymor ar yr amcan AC hwn.<br><br>Bydd hyrwyddo defnydd effeithiol a chynaliadwy o adnoddau a deunyddiau a'r gofyn am roi ystyriaeth i'r hierarchaeth ynni yn cael effeithiau cadarnhaol. Bydd lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ac annog teithio drwy ddulliau eraill heblaw defnyddio ceir yn cael effeithiau cadarnhaol cronnus yn yr hirdymor.<br><br>Bydd lleihau effaith datblygiadau newydd ar yr amgylchedd drwy gynnwys safonau uchel ar gyfer mesurau effeithlonrwydd dŵr, SUDS, dylunio ac adeiladu cynaliadwy, yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar fioamrywiaeth ac effeithiau cronnus cadarnhaol ar yr amgylchedd dŵr yn yr hirdymor. Byddai'r gofyn am fesurau ychwanegol megis gofyn am ddarpariaeth o isadeiledd gwyrdd a phlannu coed yn cael effeithiau cadarnhaol pellach ar fioamrywiaeth.<br><br>**Argymhellwyd** bod y Cynghorau yn cynnwys pwynt ychwanegol dan yr hierarchaeth ynni i gefnogi cynigion am brosiectau ynni cymunedol[10]. Gallai hyn fod yn briodol yma yn PS2 neu yn PS17 Technoleg Adnewyddadwy a Charbon Isel. Byddai hyn yn symud yr amcanion DC ymlaen ymhellach o ran ymgysylltiad ac ymglymiad.<br><br>**Argymhellwyd** y dylai'r polisi wneud yn eglur yr agwedd ddilyniannol i ddatblygu a pherygl llifogydd.<br><br>Datgan y polisi "cyn gymaint â phosib" o ran dylunio – gellir cryfhau hyn drwy ofyn am "safonau uchel" o ran dyluniad a gweithrediad cynaliadwy er mwyn gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.<br><br>**Argymhellwyd** bod maen prawf rhif 9 y polisi yn cynnwys geiriad sy'n anelu at amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, er enghraifft - ... cynnal llif ac ansawdd dŵr yn amcanion CRhBA Gorllewin Cymru, gan gynnwys defnyddio systemau draenio cynaliadwy *yn unol ag amcanion CRhBA Gorllewin Cymru* NEU drwy ychwanegu maen prawf cyffredinol (rhif 4 newydd) – *bodloni'r amcanion a gynhwysir yn CRhBA Gorllewin Cymru* (a gweler isod). Mae'r argymhelliad wedi ei ymgorffori i'r polisi.<br><br>Mae'r polisi hwn ar effeithiau newid hinsawdd yn cynnwys polisi strategol ynglŷn a dŵr – llifogydd, llif, effeithlonrwydd yr adnodd, maint ac ansawdd. Mae'r gofynion ynghylch ansawdd dŵr, ac felly rheolaeth gynaliadwy o ddŵr, yn cael eu gyrru gan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE yn hytrach na dim ond effeithiau newid hinsawdd. Felly, **argymhellwyd** bod y Cynghorau yn cynnwys maen prawf cyffredinol (rhif 4 newydd) – *gweithredu rheolaeth gynaliadwy o ddŵr yn unol ag amcanion CRhBA Gorllewin Cymru.* Bydd hyn yn rhoi'r un statws i ddŵr ag ailddefnyddio / ailgylchu, yr hierarchaeth ynni a chludiant. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r Polisi. |
| **Polisi PS3 Strategaeth Anheddiad** |
| Yn gyffredinol, golyga'r dosbarthiad cymesurol, a hwylusir gan y Polisi hwn, |

[10] Canllaw pellach yn http://www.tcpa.org.uk/pages/community-energy-urban-planning-for-a-low-carbon-future-.html

| |
|---|
| fod y polisi'n ymdrin â gofynion y boblogaeth ehangach ac, yn gyffredinol, yn perfformio'n dda yn erbyn yr amcanion cymdeithasol-economaidd, gydag effeithiau cadarnhaol hirdymor. Bydd datblygiadau'n cael eu tywys i aneddiadau presennol, fydd felly'n cynnal cymunedau lleol drwy gyflwyno datblygiadau newydd mewn lleoliadau lle mae'r gofyn mwyaf amdanynt. O ran perfformiad y polisi yn erbyn yr amcanion amgylcheddol, bydd union raddfa a maint unrhyw effaith yn dibynnu ar leoliad a math y datblygiadau mewn perthynas ag asedau amgylcheddol pwysig. Bydd yn bwysig i'r polisïau mwy manwl, a gynhwysir yn y Cynllun Adneuo, ymdrin ag effeithiau andwyol posib ar wahanol agweddau o'r amgylchedd a darparu mesurau lliniaru addas i negyddu neu leihau unrhyw effaith. |
| **Polisi PS4 Datblygiad yng Nghefn Gwlad** |
| Dylai arwain datblygiadau i gefn gwlad gael effeithiau cadarnhaol ar gyfer yr amcanion AC sy'n berthnasol i gymunedau gwledig a'r economi wledig drwy leihau angyhydraddoldebau cymdeithasol a gwella mynediad at dai a chyflogaeth yn ogystal â gwasanaethau a chyfleusterau. Mae gan y ddarpariaeth o dai, cyflogaeth a gwasanaethau yng nghefn gwlad y potensial i leihau'r angen i gymunedau gwledig i deithio. Mae gan hyn y potensial i gael effeithiau positif ar yr amcanion AC sy'n berthnasol i gymunedau, trafnidiaeth a newid hinsawdd. O ran perfformiad y polisi yn erbyn yr amcanion amgylcheddol, bydd union raddfa a maint unrhyw ardrawiadau yn dibynnu ar leoliad a math y datblygiad mewn perthynas ag asedau amgylcheddol pwysig. Yn gyffredinol, mae gan gefn gwlad fwy o werth yn nhermau amgylcheddol o'i gymharu ag aneddiadau a chanolfannau sefydledig. Mae asedau o'r fath yn cynnwys nodweddion tirwedd a bioamrywiaeth pwysig. Bydd yn bwysig i'r polisïau mwy manwl, a gynhwysir yn y Cynllun Adneuo, ymdrin ag ardrawiadau andwyol posib ar wahanol agweddau o'r amgylchedd a darparu dulliau lliniaru addas i isafu ardrawiadau posib. |
| **Polisi PS5 Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr** |
| Mae darparu isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol addas yn bwysig i gynnal a mwyhau bywiogrwydd cymunedol ynghyd â gwella iechyd a lles. Mae asesiad o'r Polisi hwn wedi dangos ei fod wedi perfformio'n gadarnhaol yn erbyn y mwyafrif o amcanion AC. Mae'r polisi'n hwyluso'r datblygiad o isadeiledd digonol a fydd o fudd i gymunedau drwy ddarparu, er enghraifft, dulliau cludiant digonol, tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r asesiad wedi dangos bod datblygiad yn gallu effeithio'n andwyol ar asedau amgylcheddol a diwylliannol/treftadaeth, a bydd angen lliniaru effeithiau drwy ddarparu polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo. Bydd hefyd yn bwysig i'r Cynllun Adneuo gynnwys mwy o fanylion ar fathau penodol o isadeiledd, ynghyd â sut y byddant yn cael eu cyflwyno'n raddol i ddatblygiad. |
| **Polisi Strategol PS6 – Cynigion am brosiectau isadeiledd mawr** |
| Mae pob math o isadeiledd, gan gynnwys cludiant, cymuned, gwyrdd ac addysg yn angenrheidiol i greu lleoedd cynaliadwy. Dylai'r polisi hwn helpu i gyflawni'r mathau priodol o isadeiledd er mwyn hwyluso mathau eraill o ddatblygiad e.e. tai. Mae'r effeithiau posib ar amcanion AC sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, treftadaeth, y dirwedd a'r amgylchedd dŵr yn ansicr gan fod hyn yn dibynnu ar fath, graddfa a lleoliad y cynigion unigol. Dylai polisïau mwy manwl y Cynllun Adneuo gynnwys mwy o fanylion ynghylch mathau penodol o isadeiledd, gan gynnwys sut y byddant yn cael eu hymgorffori i'r |

| |
|---|
| datblygiad newydd. |
| **Polisi PS7 Datblygiad yn ymwneud â niwclear yn yr Wylfa** |
| Mae'r asesiad wedi dangos fod gan ddatblygiad pwerdy niwclear yn Wylfa y potensial o gael effaith sylweddol hir-dymor positif ar economi Ynys Môn a Gogledd Cymru. Mae potensial hefyd o effeithiau sylweddol hir-dymor positif ar newid hinsawdd gan na fydd pwerdy niwclear yn cyfrannu at allyriad nwyon tŷ gwydr. Dangosodd yr asesiad fod gan ddatblygiad pwerdy niwclear y potensial i gael efffeithiau sylweddol hirdymor negyddol ar amcanion AC sy'n berthnasol i fioamrywiaeth, tirwedd, dŵr / priddoedd, trafnidiaeth a'r amgylchedd dŵr. Mae'r Polisi'n cynnwys nifer o amodau sy'n anelu i ddiogelu a lleihau'r ardrawiad ar amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar weithrediad y datblygiad gan fod mesurau lliniaru priodol ar gael ar lefel prosiect. Mae'r polisi'n cynnwys nifer o amodau sy'n anelu i ddiogelu a lleihau ardrawiadau ar amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Fodd bynnag, fe fydd yn bwysig i'r Cynllun roi mwy o fanylion ynglŷn â sut bydd ardrawiadau posib datblygiadau mawr o'r fath yn cael eu lliniaru. |
| **Polisi PS8 Darparu cyfle ar gyfer economi ffyniannus** |
| Mae'r Polisi hwn yn hwyluso twf economaidd yn uniongyrchol a dylai gynnig effeithiau manteisiol o ran cynnal / cynyddu gweithgarwch economaidd, a thrwy wneud hynny, dylai hefyd leihau tlodi ac eithrio cymdeithasol drwy warchod tir cyflogaeth presennol a darparu tir cyflogaeth ychwanegol. Bydd y polisi'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac felly'n cyfrannu at gynnal cymunedau bywiog. Ar y llaw arall, gall asedau amgylcheddol megis bioamrywiaeth gael eu heffeithio, yn ddibynnol ar raddfa, math a lleoliad y datblygiad newydd. |
| **Polisi PS9 Economi'r Ymwelwyr** |
| Yn aml, lleolir datblygiadau twristiaeth yng nghefn gwlad, ac mae'n bosib i hyn gael effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol. Bydd union natur yr effaith yn dibynnu ar fath y datblygiad a'i berthynas â'r asedau amgylcheddol all gael eu heffeithio. Ar y llaw arall, mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig iawn yn Ardal y Cynllun a byddai mwy o ddatblygiadau priodol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr economi leol ac felly hefyd y cymunedau lleol. |
| **Polisi Strategol PS10 Canol Trefi a manwerthu** |
| Mae'r polisi'n perfformio'n dda yn erbyn y rhan fwyaf o amcanion AC yn enwedig yr amcanion economaidd-gymdeithasol. Wrth dywys datblygiadau i'r canol trefi, bydd y polisi hwn yn helpu i gefnogi canolfannau manwerthu presennol a gwella'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sy'n hygyrch i'r boblogaeth leol. Bydd ffocysu datblygiadau mewn canol trefi presennol hefyd yn helpu i warchod yr amgylchedd naturiol rhag datblygiadau. |
| **Polisi Strategol PS11 Darpariaeth tai gytbwys** |
| Bydd darparu tai addas yn unol â'r polisi hwn yn arwain at fuddion mawr i'r trigolion. Gan y bydd y datblygiad wedi'i leoli'n bennaf yn y prif aneddiadau, ble y mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn byw, mae'n debygol o ddiwallu cyfran fawr o'r angen a nodwyd. Mae'r polisi hefyd yn darparu tai fforddiadwy ddylai ddiwallu anghenion sydd wedi'u hadnabod ar lefel leol. Mae darparu tai i ddiwallu gofynion tai hefyd yn debygol o fod o fudd i gymunedau yn eu cyfanrwydd drwy leihau eithrio cymdeithasol a gwella bywiogrwydd |

cymunedau. Yn yr un modd â phob math o ddatblygiadau, mae'r asesiad wedi adnabod effeithiau negyddol posib ar rai asedau amgylcheddol. Bydd angen lliniaru hyn yn y Cynllun Adneuo.

**Polisi PS12 Tai Fforddiadwy**

Bydd y polisi'n ennyn buddion sylweddol ynghylch darparu digon o dai i alluogi pobl i fyw mewn tai addas y gallent eu fforddio. Bydd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn cyfrannu'n anuniongyrchol at gynnal cymunedau bywiog ac at leihau eithrio cymdeithasol. Bydd angen sail dystiolaeth i gefnogi polisïau tai fforddiadwy mwy manwl i ddangos eu bod yn hyfyw.

**Polisi Strategol PS13 Llety Sipsiwn a Theithwyr**

Mae'r ddogfen genedlaethol 'Teithio at Ddyfodol Gwell' (LlC 2012) yn sefydlu fframwaith polisi manwl ar gyfer Cynghorau ac o ganlyniad mae'r polisi hwn, PS12 yn cael ei symleiddio er mwyn osgoi dyblygu. Bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol ar ystod o amcanion AC, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rhyngweithio cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol, lleihau anghydraddoldebau iechyd a thai.

**Polisi Strategol PS14 Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol**

Mae'r polisi'n ceisio gwarchod a gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun. Mae posibilrwydd i hyn gael effeithiau cadarnhaol hirdymor mawr ar fioamrywiaeth a'r dirwedd. Mae cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol hefyd â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar iechyd a lles unigolion a chymunedau drwy ddarparu ardaloedd ar gyfer hamdden a mannau i bobl ymlacio. Yn ogystal, gall yr amgylchedd naturiol gynorthwyo i leihau dŵr ffo eithafol a gwella'r gallu i ddal y glawiad, sy'n ei dro yn lleihau'r perygl o lifogydd ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Yn ogystal, mae posibilrwydd y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr economi gan fod yr amgylchedd naturiol yn agwedd allweddol sy'n denu ymwelwyr i'r ardal.

Mae argymhellion yr AC wedi eu hymgorffori i'r polisi; roedd rhain yn cynnwys gwahaniaeth fwy clir rhwng safleoedd bioamrywiaeth wedi eu diogelu, ceisio am ddim colled mewn bioamrywiaeth a gwarchod a mwyhau gwasanaethau ecosystemau ac Isadeiledd Gwyrdd.

**Polisi Strategol PS15 Diogelu a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth**

Bydd y polisi yn cael effeithiau cadarnhaol byrdymor i hirdymor mawr drwy ddiogelu a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth pwysig. Mae posibilrwydd y ceir effeithiau cadarnhaol ar gymunedau cytbwys gan fod ardal y CDLl â threftadaeth gref sy'n rhan bwysig o gymeriad yr ardal. Gall hyn chwarae rôl mewn creu'r ymdeimlad o gymuned a naws am le. Yn ogystal, gall adfywio a gwella adeiladau ac ardaloedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar yr ymdeimlad o hunaniaeth gymunedol ynghyd â lefelau cyfranogiad diwylliannol.

Yn ogystal mae posibilrwydd y ceir effeithiau cadarnhaol ar yr economi drwy hyrwyddo ystod o swyddi megis adeiladu, twristiaeth, cynnal a chadw a rheoli ac yn benodol, sgiliau yn y diwydiant treftadaeth ac atgyweirio. Yn ogystal, mae posibilrwydd y ceir effaith gadarnhaol ar y drefwedd a'r dirwedd.

| **Polisi Strategol PS16 Technoleg ynni adnewyddadwy** |
|---|
| Sicrhau bod ardal y Cynllun yn cyflawni ei photensial fel ardal flaengar i fentrau'n seiliedig ar dechnolegau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau ynni carbon isel ac yn cael effaith gadarnhaol fawr ar newid hinsawdd. Awgrymodd yr AC gall yr economi gael ei wella drwy ymdrin ag ynni adnewyddadwy yn fwy cadarn a chyd-drefnus. Mae'r Polisi nawr yn hyrwyddo gwahanol fathau o ffynonnellau ynni adnewyddadwy o fewn cynigion datblygu ynghŷd â datblygiadau technoleg ynni adnewyddadwy yn sefyll ar ben ei hunain.<br><br>Aseswyd mai ansicr fyddai effaith y polisi ar fioamrywiaeth, cymunedau, treftadaeth / diwylliant, tirwedd a'r amgylchedd dŵr gan y byddai'n ddibynnol ar weithredu cynigion unigol. |
| **Polisi Strategol PS17 Rheoli gwastraff** |
| Mae'r polisi yn sicrhau bod digon o dir ar gael i ddiwallu'r galw gwastraff ac mae'r polisi'n hyrwyddo dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn seiliedig ar hierarchaeth o leihau, ailddefnyddio ac adfer, sydd â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol yn erbyn amcan AC gwastraff. Ystyriwyd bod effaith bosib y polisi yn ansicr yn erbyn y mwyafrif o'r amcanion AC gan ei bod yn ddibynnol ar weithredu cynigion rheoli gwastraff unigol. |
| **Polisi Strategol PS18 Mwynau** |
| Aseswyd bod gan y polisi y posibilrwydd o gael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar yr amcan AC sy'n ymwneud â mwynau drwy ddiogelu adnoddau agregau a mwyhau'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu a gwastraff mwynau. Yn ogystal, mae gan ddiogelu adnoddau agregau a chefnogi ymestyn chwareli agregau presennol (ble bo'n briodol) y potensial o gael effeithiau cadarnhaol ar yr economi.<br><br>Ystyriwyd bod effaith bosib y polisi yn ansicr yn erbyn y mwyafrif o amcanion yr AC ac mae'n ddibynnol ar weithredu cynigion unigol. |
| **Polisi Strategol PS19 Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig** |
| Cyfeiria'r polisi hwn yn uniongyrchol at yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg, ac fe ddylai gynorthwyo i gynnal a chynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun. Mae'n bwysig i'r Cynllun Adneuo gynnwys mesurau lliniaru manwl i gynorthwyo i fynd gam ymhellach i warchod yr iaith. |
| **Polisi Strategol PS20 Isadeiledd Cymunedol** |
| Mae'r polisi yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar nifer o amcanion AC. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r lefel o fanylder gofynnol i edrych yn llawn ar ardrawiadau (er enghraifft ar y dirwedd, dŵr a'r economi) ar gael ar y lefel strategol hon a byddai angen eu hasesu ar lefel prosiect a lefel safle. Mae maint yr effeithiau'n ansicr a byddant yn rhannol ddibynnol ar bolisïau manwl pellach sy'n ymwneud ag ansawdd dylunio ac adeiladu cynaliadwy a gweithrediad / meddiannaeth.<br><br>Mae'r polisi yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gymunedau ac ar iechyd cyhoeddus. Bydd cymunedau yn derbyn effeithiau cadarnhaol uniongyrchol drwy ddarparu cyfleusterau newydd sydd wedi'u cynnal yn dda, megis tai fforddiadwy, ysgolion, gwasanaethau iechyd a chymunedol, mannau agored a llecynnau chwarae / hamdden. Dylai hyn gynorthwyo i annog cynhwysiad ac integreiddiad cymdeithasol ynghyd â chryfhau'r |

gymuned ag effeithiau cadarnhaol mawr.

Bydd adeiladu a chynnal cyfleusterau iechyd hygyrch yn cael effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ar gymunedau. Dylai creu mannau agored, gan gynnwys llecynnau chawarae a hamdden, gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd cyhoeddus a lles y cyhoedd yn yr ardal drwy ddarparu gofod sy'n annog adloniant a hamdden; mae'n bosib cael effeithiau cronnus yn yr hirdymor. Mae'r polisi yn nodi y dylai cyfleusterau cymunedol fod ar gael yn agos iawn i'r gymuned a dylent fod yn hygyrch drwy gerdded a beicio – gydag effeithiau cadarnhaol ar yr un pryd ar hygyrchedd a chludiant ac annog ffordd o fyw iachach. Mae maint yr effeithiau yn ddibynnol ar fanylion safleoedd penodol.

Cyfeiria'r polisi'n benodol at ddarparu cyfleusterau addysgol, gan gynnwys hyfforddiant i ddysgwyr Cymraeg, a bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr amcan AC hwn.

Gallai'r polisi ddarparu ystod o gyfleoedd gwaith ond mae hyn yn ddibynnol ar faint o isadeiledd cymdeithasol newydd sy'n cael ei ddatblygu.

Awgrymodd yr AC bod y Cynghorau yn ystyried yr amseriad neu ystyried datblygu isadeiledd cymdeithasol mewn camau a dylid ei ddarparu yn brydon. Bydd hyn yn bwysig o ran isadeiledd ffisegol a gwasanaethau ynghyd ag isadeiledd gwyrdd. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. **Argymhellir** hefyd y dylai'r Cynghorau ystyried paratoi Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd a Chynllun Gweithredu ar gyfer yr ardal i adnabod ardaloedd ble mae diffygion, adnabod y blaenoriaethau, datblygu mewn camau ac adnabod partneriaid posib ar gyfer y posibilrwydd o gydweithio a chydariannu. Byddai polisi manwl penodol ar IG yn cynorthwyo i sicrhau gweithrediad a sicrhau effeithiolrwydd y gwelliant. Awgrymodd yr AC, hefyd, y dylid ystyried anghenion penodol pobl ifanc a hŷn. Mae hyn wedi cael ymdriniaeth erbyn hyn drwy ystyried grwpiau bregus yn y gymuned.

**Polisi Strategol PS21 Technoleg Gwybodaeth a chyfathrebu**

Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu sy'n caniatáu i bobl gyfathrebu'n haws a gwella mynediad at wasanaethau ar-lein a bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, drwy leihau eithrio cymdeithasol. Bydd gwella mynediad at fand eang cyflymder uchel yn rhoi cyfleoedd i bobl gychwyn busnesau yn seiliedig ar y we a gwerthu / marchnata eu nwyddau ac / neu eu gwasanaethau a gweithio o gartref a chael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol hirdymor ar yr economi. Bydd rhoi'r cyfle i bobl weithio o gartref hefyd o bosib yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol ar yr amcanion AC sy'n ymwneud â newid hinsawdd a chludiant gan y bydd yn cynorthwyo i leihau'r nifer o deithiau mewn cerbydau.

Ystyriwyd bod effaith y polisi ar fioamrywiaeth, treftadaeth / diwylliant, y dirwedd, yr amgylchedd dŵr a mwynau a gwastraff yn ansicr gan ei fod yn ddibynnol ar weithredu cynigion unigol.

**Polisi Strategol PS22 Cludiant cynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd**

Bydd y polisi yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor mawr ar gludiant a mynediad drwy gefnogi gwelliannau cludiant a cheisio mwyhau mynediad at ddulliau cludiant cynaliadwy. Bydd hyn yn cynorthwyo i wella mynediad at

| |
|---|
| swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau a lleihau'r angen i deithio â char. Bydd gwella mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn cynorthwyo i integreiddio cymunedau newydd a rhai sy'n bodoli, gwella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau a bydd yn annog pobl i fyw bywydau iachach drwy wella llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio. Yn ogystal, mae cludiant hygyrch yn bwysig i bob carfan o'r gymuned, gan gynnwys yr ifanc, pobl hŷn a phobl ag anableddau<br><br>Ystyriwyd bod posibilrwydd y ceir effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol ar yr economi gan fod cludiant cynaliadwy yn cefnogi canolfannau manwerthu ac yn rhoi mynediad i waith. Yn ogystal, gall fod o fudd i'r economi ymwelwyr drwy wella mynediad i leoliadau ymwelwyr a datblygiadau ar gyfer ymwelwyr. Effeithiau cadarnhaol hirdymor ar yr economi. Mae posibilrwydd y bydd effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol gan y bydd gwella mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy yn cynorthwyo i liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr a grëir drwy ddatblygu cartrefi ychwanegol a mwy o geir ar y ffordd.<br><br>Ystyriwyd bod effeithiau'r polisi ar fioamrywiaeth, treftadaeth / diwylliant, y dirwedd a'r amgylchedd dŵr yn ansicr gan ei bod yn ddibynnol ar weithredu cynigion unigol. |

5.14 Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi sut y bu i'r AC ddiweddaru a dylanwadu ar y Polisiau Strategol.

**Tabl 5.4 Sut y dylanwadwyd y CDLl gan yr AC o'r Hoff Strategaeth**

| PS | Argymhellion yr AC | Sut mae'r AC wedi dylanwadu ar y Polisi Strategol (rhannau perthnasol wedi ue hamlygu) |
|---|---|---|
| **1** | • Cynnwys cyfeiriad at wasanaethau ecosystemau<br>• Cynnwys cymunedau cytbwys a neu cymysg er mwyn helpu ymdrin â'r mater o gymunedau anghytwbys yn yr ardal.<br>• Cynnwys asedau treftadaeth a diwylliannol a'u gosodiad<br>• Cynnwys ansawdd a fforddiadwy (tai)<br>• Cynnwys asedau tirwedd a threfwedd a'u gosodiad<br>• Cynnwys cyfeiriad at yr amcanion sydd yng Nghynllun Rheolaeth Basn Afonydd (CrhBA) Gorllewin Cymru. | 3.Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi i fod yn fwy hunangynhwysol trwy gyfrannu at **gymunedau cytbwys** sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau digonol; gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon ac adloniadol; ystod amrywiol o gyfleon cyflogaeth; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol; a dewis mewn dulliau teithio o un lle i'r llall;<br><br>4. Bod unedau tai, mewn achosion perthnasol yn cwrdd ag anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran **ansawdd, math o ddaliadaeth a fforddiadwyedd;**<br><br>11. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac sy'n cael ei wastraffu; lleihau'r effaith ar adnoddau ac ansawdd dwr; rheoli bygythiad |

| | | |
|---|---|---|
| | | llifogydd **a gwneud y defnydd mwyaf o gynlluniau draenio cynaliadwy; a chyflawni amcanion y Cynllun Rheoli Dwr Basn Afon Gorllewin Cymru;**<br><br>12.Gwarchod a gwella ansawdd asedau'r **amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad)**, gan wella'r ddealltwriaeth ohonynt a'u gwerthfawrogiad a'u defnydd cynaliadwy;<br><br>13. Gwarchod a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd naturiol, ei **dirluniau** a bioamrywiaeth, gan gynnwys ein **dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad ohonynt oherwydd y gwasanaethau cymdeithasol ac economaid maent yn darparu**. |
| **2** | • Sicrhau fod y cydberthynas rhwng PS2 a PS16 yn glir<br>• Cynnwys y gofyniad am 'safonnau uchel' o ddyluniad cynaladwy er mwyn gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.<br>• Egluro'r broses dilyniannol i ddatblygiad a pherygl llifogydd.<br>• Cynnwys geiriad i anelu at amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ym maen prawf 9 yn unol ag amcanion yn y CrhBA Gorllewin Cymru. | 4.weithredu mesurau rheoli dwr yn gynaliadwy **yn gyson ag amcanion Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru;**<br><br>5.gael eu lleoli i ffwrdd o ardaloedd sydd dan fygythiad llifogydd, ac yn anelu i leihau'r bygythiad oferôl o lifogydd o fewn ardal y Cynllun ac ardaloedd du allan iddo, **gan roi ystyriaeth i 100 mlynedd a 75 mlynedd o newid hinsawdd yn achos datblygiad preswyl a di-breswyl yn y drefn hwnnw;**<br><br>**6.gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd cymaint â phosib oherwydd safon uchel ei ddyluniad cynaliadwy, leoliad, gynllun a dulliau adeiladu cynaliadwy;** |
| **3** | Dim | Dim |
| **4** | • Cynnwys amod i sicrhau fod nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol ac | Mewn ardaloedd wedi'u dynodi'n Gefn Gwlad, **yn amodol ar allu amgylcheddol, cymdeithasol ac** |

| | | |
|---|---|---|
| | economaidd yr ardal yn cael eu diogelu. | **o ran isadeiledd i ymdopi gyda newid,** bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i beth sydd angen lleoliad gwledig ac sydd ar gyfer un neu fwy o'r rhai a ganlyn: |
| **5** | • Cynnwys 'Cynlluniau Bioamrywiaeth' i'r rhestr o isadeiledd gwyrdd posib a all fod yn ofynnol.<br>• Cyfeirio at ddiogelu a mwyhau gwasanaethau ecosystemau yn y rhestr o gyfleusterau isadeiledd.<br>• Pwysleisio'r angen am isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth cynaladwy.<br>• Amodi'r angen am dai ar gyfer angen lleol.<br>• Cynnwys yr angen am isadeiledd rheolaeth gwastraff cynaladwy<br>• Cynnwys angen am gynlluniau rheolaeth dŵr cynaladwy. | <u>Isadeiledd ffisegol</u><br><br>**Rhwydwaith trafnidiaeth gynaliadwy (gan gynnwys cludiant cyhoeddus, llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio)**<br><br>**Rheoli gwastraff cynaliadwy**<br><br>**Rheoli cynaliadwy o ddwr**<br><br><u>Isadeiledd Cymdeithasol</u><br><br>Tai fforddiadwy, gan gynnwys **angen lleol**<br><br><u>Isadeiledd Gwyrdd/Glas</u><br><br>**Mesurau cadwraeth natur a lliniaru effeithiau, e.e. cynlluniau bioamrywiaeth** |
| **6** | • Cyfeirio at yr angen i asesu unrhyw ardrawiad potensial ar yr amgylchedd hanesyddol ym mhwynt 3. | **3.Bod asesiad cynhwysfawr o ardrawiadau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, hanesyddol a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd a mwynderau), ieithyddol a diwylliannol, cludiant ac economaidd (positif, negyddol a chronnol) o'r cynnig yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredol a'r cyfnodau dadgomisiynu ac adferiad (os yw hynny'n berthnasol) yn cael ei ddarparu, yn ogystal â mesurau cyflawni lle mae'n briodol i osgoi, lleihau, lleddfu a/neu ddigolledu'r niwed a achosir; a** |
| **7** | Dim | None |
| **8** | • Cyfeirio at yr angen i warchod yr amgylchedd naturiol.<br>• Hyrwyddo'r ddarpariaeth o safleoedd mewn lleoliadau | Tra'n anelu i **amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol** ac adeiledig, bydd y Cynghorau'r hwyluso twf economaidd trwy: |

| | | |
|---|---|---|
| | hygyrch. | 5. cefnogi ffyniant economaidd…a thrwy annog darparu safleoedd a thir ac adeiladau **mewn lleoliadau hygyrch priodol** tu mewn i'r strategaeth anheddiad |
| **9** | • Pwysleisio dylai datblygiadau beidio fod ar draul nodweddion cymdeithasol yr Ardal.<br>• Gofyn i ddatblygiadau twristiaeth fod yn hygyrch ac wedi eu gwasanaethu gan drafnidiaeth cyhoeddus<br>• Gofyn i gynigion warchod yr amgylchedd hanesyddol<br>• Nodi y dylai gyfleusterau twristiaeth gael eu datblygu mewn lleoliadau hygyrch. | **Wrth sicrhau perthynas dda gyda'r economi leol a chymunedau a sicrhau diogelu'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol…**bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth sy'n parhau gydol y flwyddyn trwy:<br><br>4. cefnogi darpariaeth a mentrau twristiaeth newydd ar raddfa briodol mewn **lleoliadau cynaliadwy** |
| **10** | • Annog trosiad adeiladau presennol. | **5.uchafu cyfleon i ailddefnyddio adeiladau priodol mewn canol trefi;** |
| **11** | • Cynnwys cyfeiriad at yr angen am dai fforddiadwy 'lleol'.<br>• Egluro beth sy'n cael ei olygu gan ddefnydd cynaladwy o dir ar gyfer tai.<br>• Nodi'r angen i ddatblygu mewn lleoliadau hygyrch. | 1.Ddarparu cymaint ag y bo modd o dai fforddiadwy **(gan gynnwys angen lleol)** ar draws ardal y cynllun;<br><br>3.Sicrhau defnyddio tir tai **mewn ffordd gynaliadwy, gan sicrhau dwysedd adeiladu effeithiol sy'n gweddu mwynderau lleol;** |
| **12** | • Nodi bydd tai fforddiadwy yn cael eu darparu ble bo angen am ddatblygiadau o'r fath. | **Er mwyn rhoi sylw i'r angen wedi ei brofi am dai fforddiadwy, bydd y Cynghorau'n ceisio trefnu bod datblygwyr preswyl yn darparu cyfran o dai fforddiadwy am byth.** |
| **13** | Dim | Dim |
| **14** | • Cynnwys maen prawf Isadeiledd Gwyrdd<br>• Cynnwys cyfeiriad at warchod gosodiadau<br>• Cyfeirio at isadeiledd gwyrdd a glas. | 1.Ddiogelu bioamrywiaeth, daeareg, cynefinoedd, hanes a thirweddau ardal y Cynllun trwy amddiffyn a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol **a'u gosodiad**… |

| | | |
|---|---|---|
| | | **3.Gwarchod a gwella gwasanaethau ecosystemau trwy rwydwaith o isadeiledd gwyrdd/ glas;** |
| **15** | Dim | Dim |
| **16** | • Cynnwys cyfeiriad at nodweddion cadwraeth natur pwysig.<br>• Annog datblygiad technoleg adnewyddadwy a charbon isel. | Bydd y Cynghorau'n ceisio sicrhau bod ardal y Cynllun yn cyflawni ei botensial fel ardal arweiniol ar gyfer mentrau **wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel lle bynnag y bydd hynny'n ymarferol a hyfyw trwy:**<br><br>**2. sicrhau nad yw cyfarpar mewn ardaloedd sy'n destun dynodiad rhyngwladol, cenedlaethol neu leol yn unol a Pholisi Strategol PS14 ar ben ei hun neu'n gronnol yn gwrthdaro gydag amcanion y dynodiad;** |
| **17** | Dim | Dim |
| **18** | Dim | Dim |
| **19** | Dim | Dim |
| **20** | • Cynnwys polisi penodol ar isadeiledd Gwyrdd<br>• Cyfeirio at anghenion pobl ifanc a hŷn.<br>• Cyfeirio at bwysigrwydd ddatblygu isadeiledd cymunedol gam wrth gam a'r ffaith y dylai gael ei ddarparu mewn modd amserol.<br>• Cyfeirio at PS12 ym maen prawf rhif 5. | Bydd y Cynghorau'n sicrhau, wrth annog cael tai a thwf yn ardal y Cynllun, bod **isadeiledd addas yn cael ei ddarparu ar gyfer anghenion y poblogaethau presennol a'r rhai i'r dyfodol, trwy;**<br><br>**2. gwneud y defnydd mwyaf sydd modd o gyfleoedd i ddarparu cyfleusterau ffisegol, cymdeithasol, gwyrdd/glas ychwanegol yn amserol fel rhan o ddatblygiadau newydd;**<br><br>5 ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gyfrannu tuag at ddarparu isadeiledd cymdeithasol, gyda chyfraniadau naill ai ar y safle neu trwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | gyfraniadau cynllunio, **yn unol gyda Pholisi Strategol PS5 a PS12;**<br><br>**6. gwella'r rhwydwaith isadeiledd gwyrdd/ glas trwy greu a gwella llefydd agored, chwarae a hamdden, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae diffyg;** |
| **21** | Dim | Dim |
| **22** | Dim | Dim |

## 6. AC O'R CYNLLUN ADNAU A NEWIDIADAU FFOCWS

### Cyflwyniad

6.1 Mae'r Adran hon yn cyflwyno canfyddiadau AC y Cynllun Adnau a Newidadau ffocws. Cafodd ei llunio gan ddilyn 12 pwnc allweddol sydd wedi'u cysylltu ag Amcanion perthnasol yr AC yn ogystal â phynciau'r Gyfarwyddeb AAS. Mae'r arfarniad o bob un o'r pynciau hyn wedi'i rannu yn nifer o is-benawdau er mwyn sicrhau bod pob agwedd o'r CDLl ar y Cyd yn cael eu hystyried, yn cynnwys polisïau a dyraniadau safleoedd, yn ogystal â'r gydberthynas rhwng pynciau ac effeithiau cronnus y Cynllun yn ei gyfanrwydd.

6.2 Yn unol â Chyfarwyddeb a Rheoliadau'r AAS, fe gafodd unrhyw effeithiau arwyddocaol tebygol yn cael eu nodi, ochr yn ochr ag unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen i fynd i'r afael â hwy. Felly, nid yw'r AC yn darparu naratif ar natur ac arwyddocâd yr effeithiau ar gyfer pob polisi yn y Cynllun Lleol, oherwydd efallai na fydd polisi yn berthnasol i bwnc penodol, neu ystyrir nad yw'n debygol y bydd yn cael effaith arwyddocaol.

6.3 Roedd Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (Chwefror 2015) yn cael ei gyflwyno ynghyd â'r CDLl ar y Cyd Adnau ar ymgynghoriad cyhoeddus o 16 Chwefror - 31 Mawrth 2015. Mae'r sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, a sut y maent wedi derbyn sylw, yn Atodiad 1 o'r Adroddiad hwn. O ganlyniad i ymatebion a dderbyniwyd ar y CDLl ar y Cyd Adnau, fe wnaeth y Cyngor nifer o newidiadau i'r Cynllun er mwyn paratoi ar gyfer ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Roedd yn bwysig bod y newidiadau hyn yn cael eu sgrinio er mwyn penderfynu os oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd blaenorol a gyflwynwyd yn Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Chwefror 2015.

6.4 Fe gafodd Newidiadau â Ffocws arfaethedig i'r CDLl ar y Cyd ers y cyfnod Adnau wedi cael eu sgrinio am arwyddocâd o ran y gwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd, a chyflwynir hwn yn Atodiad 9 o'r Adroddiad hwn. Canfu'r sgrinio bod mwyafrif y newidiadau yn rhai mân ac nad oeddent yn cael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r gwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd blaenorol wrth iddynt geisio darparu eglurhad pellach neu sicrhau cysondeb. Er bod y rhan fwyaf o'r newidiadau yn rhai mân ac nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar y canfyddiadau, ystyriwyd ei bod yn briodol diweddaru canfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd isod i'r CDLl ar y Cyd Adnau, er mwyn adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig, gan gynnwys unrhyw bolisïau a newidiadau newydd i ddyraniadau safle.

### The Vision and Objectives

6.5 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Hoff Strategaeth a'r Cynllun Adnau, derbyniwyd nifer o sylwadau ar weledigaeth ac amcanion strategol y Cynllun. Mewn ymateb, penderfynodd y Cyngor i ail-drefnu geiriad yr amcanion er mwyn dangos y berthynas rhwng y weledigaeth, yr amcanion strategol,

allbynnau a strategaethau yn well; ac i'w diwygio drwy grwpio'r amcanion strategol o dan nifer llai o bennawdau sydd yn cydsynio â phrif themau'r strategaeth. Fe gafodd amcan newydd sy'n ceisio uchafu cyfleon economaidd-gymdeithasol, a lleihau effeithiau andwyol a all godi o ganlyniad i Brosiect Wylfa Newydd ei gynnwys i adlewyrchu'r cyfle unigryw mae'r prosiect yn ei ddarparu i Ynys Môn. Nid oedd yr amcanion strategol yn gwahaniaethu'n sylweddol o'r fersiwn cynharach, ac roeddent yn parhau i fod yn gyson gyda'r amcanion cynaliadwyedd yn y Fframwaith Cynaliadwyedd. Nid oedd angen ymgymeryd â gwaith arfarnu pellach.

**AC o'r Cyllun Adnau**

> **Tai**
>
> Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Poblogaeth a Iechyd Dynol
>
> Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:
> - Amcan Asesiad Strategol 7: Darparu tai o ansawdd da, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n cyflawni anghenion lleol

***Gwerthusiad o Bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.6 Mae polisïau strategol a gynhwysir yn y Cyd-gynllun Adneuo yn cefnogi'r pwnc tai trwy sicrhau:

- Bod darpariaeth ddigonol o anheddau newydd (fel a ddangosir yn yr Angen a Asesir yn Wrthrychol am dai [ffigwr cyfredol o 7,902 annedd yn ystod oes y Cynllun]);
- Cymysgedd priodol o wahanol fathau o ddaliadaeth (gan gynnwys safleoedd sipsiwn a theithwyr, llety myfyrwyr, tai amldenantiaeth a llety i'r henoed);
- Darparu Tai Fforddiadwy: a
- Hybu dyluniad o ansawdd uchel er mwyn diwallu anghenion y gymuned gyfan.

6.7 Mae Polisi PS13 yn mynnu darpariaeth o 7,902 annedd yn ystod oes y Cynllun, sydd â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol mawr o dan Amcan 7 yr Asesiad Strategol. Cynigir amrediad o wahanol fathau o anheddau a bydd hynny'n helpu i ddiwallu anghenion y gymuned gyfan, gan hybu rhagor ar yr effeithiau cadarnhaol hynny. Mae Polisi TAI1 yn chwilio am gymysgedd briodol o dai i gynorthwyo i ddiwallu anghenion y gymuned gyfan. Hefyd mae polisïau penodol yn ymwneud â thai gofal i'r henoed (Polisi TAI3), llety myfyrwyr (Polisi TAI5) a sipsiwn a theithwyr (Polisïau TAI9/A a TAI9/B).

6.8 Bydd datbygiad tai yn cael ei ddosrannu yn ôl yr hierarchiaeth o aneddiadau a restrir yn Mholisi PS15, ac wedi eu gamu'n briodol er mwyn sicrhau gall cymunedau gymhwyso datblygiad fel y'i hamlinellir ym Mholsii TAIX. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol

a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Mae hynny'n golygu y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio yn bennaf yn ac oddi amgylch, y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) a Phentrefi a Chlystyrrau (25% o'r twf) yn ystod oes y Cynllun. Bydd hyn yn help i ddiwallu'r angen am dai mewn ardaloedd trefol a gwledig ac yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar y pwnc hwn. Mae Polisi TA14 yn cyfyngu ar lefel y datblygiad mewn mewn ardaloedd gwledig sensitif y dynodir bod ganddynt lefel gyfyngedig o wasanaethau a chyfleusterau. Nifer cyfyngedig yn unig o dai fforddiadwy fydd yn cael eu cefnogi, i helpu i gwrdd ag angen cymunedol lleol ac i amddiffyn cymeriad pentrefi gwledig.

6.9 Mae Polisïau TAI10 i TAI12 yn rhestru dosraniad manwl y twf mewn tai yn ystod oes y Cynllun. Mae Polisi PS14 yn sicrhau y dynodir digon o dir i gyflawni targed o leiafswm o 1400 o dai fforddiadwy newydd yn ystod oes y Cynllun hwn gyda Pholisi TAI8 yn nodi'r trothwyon ar gyfer y ddarpariaeth. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gyfer y pwnc hwn. Bydd cyflwyniad graddol datblygiadau fel a nodir ym Mholisi TAIX yn caniatáu digon o amser i sicrhau y gall darpariaeth cyfleustodau ac isadeiledd gael ei rheoli'n effeithiol hefyd ochr yn ochr â'r cyflenwad o dai newydd.

6.10 Cydnabyddir potensial Tai Amldenantiaeth (HMOs) i arwain at effeithiau negyddol a newid cymeriad cymdeithasol ardal. Mae Polisi TAI2 sy'n ceisio cyfyngu'r math hwn o ddatblygiad i ardaloedd lle mae'n briodol a lle nad ydynt yn effeithio ar amwynderau'r ardal, nac yn gorfodi teuluoedd allan. Tai teras deulawr yn unig sydd i gael eu troi yn dai amldenantiaeth. Mae'r pwysau hwn i'w weld gryfaf yn nhref brifysgol Bangor, lle mae angen cadw rheolaeth dros newid defnydd o dai annedd i Dai Amldenantiaeth, fel a amlinellir ym mholisi TAI2. Mae'r polisi hwn hefyd yn ceisio hybu'r effeithiau cadarnhaol sy'n deillio o dai amldenantiaeth trwy gymhwyso darpariaethau tai fforddiadwy ar gyfer tai amldenatiaeth sy'n datblygu mwy nag un uned newydd, lle bo modd gwneud hynny.

6.11 Fe'i adnabuwyd yn yr Hoff Strategaeth fod angen unedau preswyl dros dro er mwyn cefnogi datblygiad Project Wylfa. Ymdrinir â hyn drwy weithrediad Polisi TAI3 sy'n hwyluso lletai newydd, tai aml-feddaniaeth a thai eraill gyda cyfleusterau a rennir ar gyfer gweithwyr adeiladu symudol. Mae Polisi TAI8 yn hwyluso'r defnydd preswyl o garafanau neu letai eraill o fathau gwahanol, ar yr amod fod eu lleoliad dros gyfnod cyfyngiedig, ac yn gysylltiedig gyda phrosiect adeiladu a gymeradwywyd.

***Gwerthusiad o Ddyraniadau Safleoedd***

6.12 Mae'r safleoedd a ffefrir yn cwrdd â'r angen am dai yn ardal y Cynllun yn uniongyrchol. Gan fod y dynodiadau hyn yn darparu datblygiadau tai yn uniongyrchol, ble maent eu hangen, mae pob un yn perfformio'n dda yn erbyn yr amcan AC perthnasol. Ystyrir hefyd, fod y safleoedd sydd wedi eu dewis ar gyfer tai yn sicrhau for y lefel twf perthnasol yn cael ei gyfeirio i aneddleoedd unigol.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.13 Drwyddi draw, bydd y Cyd-gynllun Adneuo yn cael effeithiau crynodol cadarnhaol yn y maes tai yn yr hirdymor, trwy ddarparu 7,902 o dai newydd i ddiwallu'r Angen a Aseswyd yn Wrthrychol. Mae polisïau yn sicrhau bod tai yn cael eu darparu mewn ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig a bod cymysgedd addas o dai yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion yr holl bobl yn y dyfodol. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio sicrhau bod nifer addas o dai fforddiadwy yn cael eu cyflenwi a bod ardaloedd gwledig sensitif yn cael eu gwarchod rhag datblygu anaddas.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.14 Gall darparu tai a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddaw yn sgil hynny gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar nifer o bynciau eraill, gan gynnwys yr economi a chyflogaeth, cymunedau ac iechyd, a thrafnidiaeth a hygyrchedd. Ochr arall y geiniog yw y gall darparu tai gael effaith niweidiol ar nifer o bynciau, gan gynnwys cymunedau ac iechyd, trafnidiaeth a hygyrchedd, ansawdd yr aer a llifogydd, adnoddau ac ansawdd dŵr, yr amgylchedd naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, a gwastraff ac ailgylchu.

**Yr Economi a Chyflogaeth**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Poblogaeth ac Iechyd Dynol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 6: Cynnal twf economaidd a hwyluso economi bywiog ac amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.15 Mae gan bolisi CYF1 y potensial o gael effeithiau hirdymor cadarnhaol mawr o ran Amcan Asesiad Strategol 7 trwy ddiogelu safleoedd cyflogaeth a darparu tir cyflogaeth newydd i ddiwallu anghenion pobl o fewn ardal y Cyd-gynllun Adneuo. Mae'r Arolwg o Dir Cyflogaeth[11] yn nodi y bydd angen168ha o ofod cyflogaeth ar draws holl ardal y cynllun yn y cyfnod hyd at 2026, a hynny wedi ei rannu yn gyfartal i 84ha yr un yn ardaloedd y ddau awdurdod. Mae Polisïau CYF2, CYF3, CYF4 a CYF6 yn cefnogi'r potensial ar gyfer cyflogaeth ychwanegol – nad yw'n cael ei nodi o fewn Polisi CYF1 – yn ogystal â defnydd ategol neu ddefnydd amgen o safleoedd cyflogaeth, yn amodol ar nifer o feini prawf, sydd â'r potensial o gael effaith hirdymor cadarnhaol bychan ar yr economi a chyflogaeth. Mae trosi adeiladau gwledig at ddibenion busnes hefyd yn cael ei gefnogi (Polisi CYF5), yn ogystal ag arallgyfeirio amaethyddol (Polisi CYF7), sydd â'r potensial o sicrhau effeithiau

[11] URS (2012) Economic and Employment Tir Review Study for the Anglesey and Gwynedd Planning Authority Area [arlein] http://www.gwynedd.gov.uk/upload/public/attachments/1179/Gwynedd_and_Anglesey_Employment_Tir_Review.pdf [cyrchwyd ym mis Hydref 2014]

hirdymor cadarnhaol bychan ar yr economi gwledig. Mae Polisi CYF8 yn cefnogi adfywiad tir sydd wedi cael ei ddatblygu'n flaenorol o fewn ardaloedd gwledig lle bo modd.

6.16 Cefnogir Gweithio o'r Cartref mewn ardaloedd gwledig, er enghraifft mae Polisi CYF5 yn caniatáu addasu adeiladau gwledig at ddibenion preswyl a busnes er mwyn caniatáu gweithio o'r cartref (lle bo'n briodol ac yn addas). Ymhellach at hyn, mae Polisi CYF7 yn cefnogi arallgyfeirio busnesau amaethyddol (yn amodol ar ddangos bod cysylltiad gyda'r gweithgaredd busnes presennol) er mwy diogelu defnydd amaethyddol a sicrhau eu bod yn hyfyw.

6.17 Mae'r wybodaeth sylfaenol (gwaelodlin) yn dangos bod ymfudiad pobl ifanc yn broblem fawr i'r ardal. Er mwyn targedu'r broblem hon mae'r Cynllun yn ceisio gwella amrywiaeth yng nghyfleoedd cyflogaeth yr ardal, a darparu atyniadau newydd ac arloesol i deuluoedd, yn ogystal â gweithgareddau gyda'r nos.

6.18 Un ffactor economaidd o bwys mawr i'r ardal yw datblygu gorsaf ynni niwclear yn y Wylfa, sy'n debygol o gael effeithiau hirdymor cadarnhaol ar gyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal. Mae'r Cynllun yn ceisio darparu addysg a hyfforddiant sgiliau er mwyn caniatáu i drigolion lleol gael mynediad i'r buddion cyflogaeth a gynhyrchir gan y datblygiad. Ystyrir y bydd hyn yn cael effaith hirdymor gadarnhaol sylweddol iawn ar yr economi lleol a chyflogaeth. Mae Polisi CYF1 hefyd yn dynodi 'safleoedd wrth gefn' i ddiwallu anghenion y Rhaglen Ynys Ynni.

6.19 Mae adran bolisi arall ar dwristiaeth yn cefnogi'r sector hollbwysig hwn o'r economi lleol. Mae Polisi TWR/1 yn cefnogi atyniadau a chyfleusterau newydd ac estynedig/rhagorach i ymwelwyr; o fewn ffiniau aneddiadau, ar dir a ddatblygwyd yn flaenorol, yn agos at gyfleusterau twristiaeth sy'n bodoli'n barod, neu mewn lleoliadau a ystyrir yn addas oherwydd eu nodweddion cynhenid. (e.e. adnoddau hanesyddol). Rhoddir blaenoriaeth i farchnadoedd arbenigol Twristiaeth Weithgareddau, Twristiaeth Digwyddiadau a Thwristiaeth Ddiwylliannol. Mae Polisi TWR/2 yn cefnogi datblygu llety gwyliau o ansawdd uchel, a Pholisi TWR/3 yn gefnogol i ddiogelu ardaloedd tirwedd mwyaf gwerthfawr yr ardal (er enghraifft AOHNE Arfordiroedd Môn a Llŷn) trwy wahardd safleoedd carafán a chabannau gwyliau yn yr ardaloedd hynny, a thrwy gefnogi adleoli safleoedd o'r fath o'r Parth Rheoli Newid Arfordirol i ardaloedd daearyddol mwy cynaliadwy. Drwyddi draw, cyn belled â bod yr effeithiau niweidiol yn fychan, mae cefnogaeth gyffredinol i ddatblygiadau graddfa fechan ac i ymestyn safleoedd carafanau a safleoedd gwersylla cyfredol, ac mae Polisi TWR/4 yn sicrhau na fydd unrhyw dymhorau gwyliau estynedig yn gwaethygu canlyniadau digwyddiad o lifogydd eithafol. Mae gan y polisïau twristiaeth botensial i gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol bychan o dan Amcan Asesiad Strategol 7.

6.20 Mae dwy brif Ardal Fenter yn effeithio ar ardal y Cynllun; Ardal Fenter Ynys Môn sy'n canolbwyntio ar y sector ynni, a Gwynedd sydd wedi ei ddynodi yn ganolbwynt ar gyfer Ardal Fenter Eryri - sy'n canolbwyntio ar Dechnoleg

Gwybodaeth a Chyfathrebu a mentrau digidol. Gallai'r ardaloedd hyn roi cefnogaeth ychwanegol i gadw pobl ifanc yn yr ardal trwy ddarparu cyfloed cyflogaeth fedrus a diwydiannau modern. Mae Ardaloedd Menter bychan ychwanegol mewn sawl rhan o Gaergybi, sy'n parhau i fod yn un o brif ganolfannau cyflogaeth Ynys Môn.

6.21 Yn y maes mân-werthu (Polisïau MAN1 i MAN7), mae Bangor yn parhau i weithredu fel canolfan siopa isranbarthol ac mae'r Cynllun yn cydnabod angen am ragor o arwynebedd llawr siopa yn rhai o'r aneddiadau ehangach. Serch hynny, i raddau helaeth mae'r ymdrechion ar gyfer mân-werthu yn canolbwyntio ar wella ansawdd y canol trefi presennol, gan gynnwys; Bangor, Caernarfon, Caergybi a Llangefni mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r dirywiad yn yr amgylchiadau mân-werthu. Ymhellach, mae'r polisïau yn rhoi cefnogaeth bellach i economïau lleol, er enghraifft mae Polisi MAN4 yn diogelu siopau a thai tafarnau pentrefi.

6.22 Mae Polisi CYF9 yn dynodi Caergybi yn brif ardal adfywio, ac yn ceisio cynnal ei swyddogaeth fel canolfan dwristiaeth a phorth i Gymru a gweddill y Deyrnas Unedig, trwy wella cysylltiadau gyda'r porthladd ac o fewn y dref, ymhlith pethau eraill. Mae'r polisi yn anelu at wella amgylchedd materol a hunan-gynhwysiant y dref, yn ogystal ag amddiffyn ei threftadaeth gyfoethog. Mae gan y gwelliannau botensial i gael effeithiau ar yr economi lleol, a hefyd ar iechyd, cymunedau a'r amgylchedd hanesyddol.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.23 Er mai ar gyfer tai mae'r mwyafrif llethol o safleoedd wedi cael eu dynodi, ystyrir bydd gwella argaeledd tai yn cael effeithiau buddiol ar yr amcan AC sy'n berthnasol i'r economi. Mae'r mwyafrif o safleoedd wedi eu dynodi'n agos i gyfleon cyflogaeth, sydd yn ei dro'n gwella mynediad preswylwyr newydd i'r cyfleon hyn. Mae dau safle wedi eu dynodi ar gyfer defnydd cyflogaeth, fydd yn cael effaith bositif ar yr amcan AC.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.24 Rhwng popeth, bydd y Cyd-gynllun Adneuo yn cael effeithiau crynodol cadarnhaol ar yr economi a chyflogaeth yn y byrdymor a'r hirdymor trwy ddiogelu safleoedd a thrwy ddarparu 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y cynllun. Mae polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu cydbwysedd rhwng darparu cyflogaeth, tai ac isadeiledd ar y naill law, ac isadeiledd newydd ar y llall, gam ei ddarparu yn yr ardaloedd lle mae'r mwyaf angen. Trwy gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac anelu at amrywiaeth economaidd, mae gan y Cynllun botensial i sicrhau canlyniadau crynodol cadarnhaol dros yr hirdymor trwy ddiogelu grwpiau oedran allweddol, sgiliau a gweithlu preswyl.

***Cydberthynas gyda phynciau eraill***

6.25 Mae darparu cyflogaeth yn creu'r potensial ar gyfer canlyniadau cadarnhaol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd, trafnidiaeth a hygyrchedd, ansawdd

yr aer, newid hinsawdd a llifogydd, adnoddau ac ansawdd dŵr, yr amgylchedd naturiol, treftadaeth ddiwylliannol, a gwastraff ac ailgylchu, o ganlyniad i gynnydd yn natblygiad cyflogaeth yn ardal y Cynllun.

**Cymunedau ac Iechyd**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Poblogaeth a Iechyd Dynol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 2: Hybu dichonoldeb, cydlyniad, iechyd a lles cymunedol

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.26 Mae'r potensial yn bodoli i bolisïau sy'n anelu at ddarparu tai a chyflogaeth gael effaith negyddol fechan ar iechyd yn y byrdymor yn ystod y cyfnodau adeiladu, oherwydd y lefelau uwch o sŵn, a llygredd aer a golau. Ond ystyrir bod mesurau lliniaru addas ar gael yn y polisïau Rheoli Datblygu ac ar lefel safle (e.e Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu) i roi sylw i'r effeithiau byrdymor hyn. Ar y llaw arall mae gan yr un polisïau botensial i gael effeithiau cadarnhaol hirdymor mawr yn anuniongyrchol, o ran Amcan Asesiad Strategol 2 trwy wella mynediad i amrywiaeth o wahanol fathau o dai a chyfleoedd adeiladu, yn ogystal â'r gwasanaethau a chyfleusterau cysylltiol.

6.27 Mae Polisïau PS5 ac ISA1 yn anelu at welliannau yn y ddarpariaeth isadeiledd a chyfraniadau datblygwyr i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gynnal yn yr ardal sy'n ei dderbyn. Gellir chwilio am gyfraniadau ar gyfer ystod o wahanol ddibenion i gynnal cymunedau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i); dai fforddiadwy, cyfleusterau addysgol, ardaloedd hamdden neu agored, cyfleusterau gofal iechyd, lliniaru risg llifogydd ac isadeiledd band eang. Mae Polisi CYFF2 hefyd yn hyrwyddo amgylcheddau diogel, yn unol ag egwyddorion 'Secured by Design'. Mae gan y rhain botensial i gael mân effeithiau cadarnhaol o ran Amcan Asesiad Strategol 2.

6.28 Mae Polisi ISA/2 yn cefnogi datblygiad priodol cyfleusterau cymunedol newydd lle nodir angen, yn ogystal â chadw cyfleusterau cymunedol sy'n bodoli'n barod. Ymhellach at hynny mae Polisi ISA/5 yn sicrhau mynediad addas i ardaloedd agored mewn datblygiadau tai newydd yn unol â safonau meincnodi Fields in Trust, gan annog ffordd fywiog o fyw. Mae Polisi MAN/4 yn hybu'r effeithiau cadarnhaol hyn trwy anelu at gynnal economïau lleol a chyfleusterau sy'n cynnal cymunedau pentrefi, sef yn yr achos hwn siopau pentref a thai tafarnau.

6.29 Mae polisïau adneuo hefyd yn ceisio mynd i'r afael â chymunedau cynhwysol, er enghraifft ym Mholisi CYFF2, sy'n hybu ansawdd uchel mewn dylunio ac amgylcheddau dirwystr gyda darpariaeth ar gyfer yr anabl. Y mae hefyd y disgwyl i ddatblygiadau integreiddio rhwydweithiau trafnidiaeth a chyfathrebu

a hybu buddiannau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â sicrhau cysylltiadau gyda chymunedau eraill sydd o'u hamgylch. Mae Polisi PS1 hefyd yn sicrhau fod yr iaith Gymraeg wedi ei amddiffyn ac yn cael ei fwyhau, a bod holl arwyddion yn ddwyieithog. Dylai hynny helpu i sicrhau bod datblygiadau newydd yn cael eu cymathu gyda chymunedau presennol a'u bod yn cael mân-effeithiau cadarnhaol dros yr hirdymor.

**Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd**

6.30 Bydd y ddarpariaeth o amrywiaeth o dai ar y safleoedd a ffefrir yn cael effeithiau positif drwy hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r stoc tai hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol.

**Effeithiau Synergol a Chrynodol**

6.31 Mae potensial ar gyfer effeithiau crynodol hirdymor cadarnhaol trwy'r cyfraniadau cysylltiedig i'r isadeiledd o ganlyniad i ddatblygiad, gan gefnogi cymunedau presennol yn ogystal â rhai newydd. Mae'r fframwaith polisi yn cefnogi datblygu cyfleusterau cymunedol a fydd, os cânt eu dwyn ymlaen, yn hybu'r effeithiau cadarnhaol hirdymor ac, ar y cyd â datblygiadau eraill a gynllunnir (er enghraifft tai a chyflogaeth) a fydd yn cyfrannu'n grynodol at sefydlu cymunedau iach, cynaliadwy a chydlynol.

**Cydberthynas â phynciau eraill**

6.32 Gall natur ac arwyddocad yr effeithiau a geir ar y rhan fwyaf o bynciau eraill effeithio yn anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd. Gall effeithiau cadarnhaol ar dai, cyflogaeth, a thrafnidiaeth a hygyrchedd arwain at effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd. Gall effeithiau ar bynciau amgylcheddol, megis ansawdd yr aer, adnoddau ac ansawdd dŵr, a'r amgylchedd naturiol, effeithio yn anuniongyrchol, yn gadarnhaol neu'n negyddol, ar gymunedau ac iechyd.

**Trafnidiaeth a Hygyrchedd**

Pynciau Cyfarwyddeb AAS: Poblogaeth a Iechyd Dynol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 10: Hybu a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da i gynnal y gymuned a'r economi

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.33 Mae Polisïau tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Gallai hyn gynyddu lefelau trafnidiaeth ar y rhwydwaith briffyrdd bresennol

gyda'r potensial o ddrwg-effeithiau. Bydd datblygiad tai yn cael ei ddosrannu yn ôl yr hierarchaeth o aneddiadau a restrir ym Mholisi PS15 ac yn cael eu datblygu'n raddol fel yr amlinellir ym Mholisi TAIX. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Mae hynny'n golygu y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio yn bennaf yn ac oddi amgylch y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) a Phentrefi a Chlystyrau (25% o'r twf) yn ystod oes y Cynllun. Bydd hyn yn help i ddiwallu'r angen am dai mewn ardaloedd trefol a gwledig ac yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar y pwnc hwn. Mae Polisïau TAI10 i TAI12 yn rhestru union ddosraniad y twf mewn tai yn ystod oes y Cynllun.

6.34 Mae ardal y Cynllun yn cynnwys trefi, pentrefi a chefn gwlad agored, gyda phob un yn cynrychioli gwahanol broblemau o ran trafnidiaeth a hygyrchedd. Yr ardaloedd sy'n darparu orau ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus yw'r Ganolfan Isranbarthol, sef Bangor, a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol, sef Amlwch, Caergybi, Llangefni, Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog a Phwllheli. Mae'n anochel bod y Canolfannau Gwasanaeth lleol mwy gwledig, y Pentrefi a'r Aneddiadau Clwstwr yn fwy dibynnol ar geir preifat. Mae'r Cynllun yn cydnabod yr angen i leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat tra ar yr un pryd yn cyflawni twf angenrheidiol mewn tai a chyflogaeth.

6.35 Mae Polisi TRA1 yn anelu at welliannau i isadeiledd presennol, yn ogystal â chyfnewid rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth er mwyn lleihau'r galw am deithio a dibyniaeth ar geir, ynghyd ag asesiadau trafnidiaeth i'w cyflwyno gyda chynigion datblygu. Bydd datblygiadau ar raddfa fawr neu ddatblygiadau mewn ardaloedd sensitif sy'n creu cynnydd sylweddol mewn teithiau gan gerbydau preifat yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn cynnwys mesurau fel rhan o asesiad trafnidiaeth. Mae'r polisi hefyd yn ceisio gwelliannau i'r rhwydwaith drafnidiaeth strategol trwy ddiogelu a darparu tir ar draws dau gynllun, yr A487 Caernarfon i Bontnewydd a Ffordd Gyswllt Llangefni. Mae'r cynlluniau hyn yn gysylltiad strategol rhwng y datblygiad cyflogaeth arfaethedig ym Mhrosiect yr Wylfa a'r rhwydwaith drafnidiaeth ac aneddiadau cyfagos, gyda photensial o effeithiau cadarnhaol hirdymor. Hefyd chwilir am fesurau i leihau effeithiau teithio sy'n gysylltiedig â'r Prosiect Wylfa Newydd, sy'n cynnwys cyfleuster parcio a theithio a chanolfannau logisteg adeiladu i reoli nifer ac amseriad y symudiadau traffig i safle'r orsaf ynni..

6.36 Mae gan Bolisi TRA4 y potensial o gael mân-effeithiau cadarnhaol byrdymor neu hirdymor gan ei fod yn anelu at sicrhau bod pob datblygiad newydd yn rhoi sylw priodol o i'r galw am effeithiau teithio, yn cyfrannu at leihau dibyniaeth ar geir preifat, yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer hygyrchedd ac yn osgoi niwed annerbyniol i'r isadeiledd trafnidiaeth presennol. Mae'r polisïau eraill sy'n debygol o gael effeithiau cadarnhaol yn cynnwys Polisi ISA1, sy'n caniatáu datblygu dim ond lle mae capasiti digonol eisoes yn bodoli yn yr isadeiledd trafnidiaeth, neu lle mae'n cael ei ddarparu yn amserol. Mae Polisi TRA3 yn amddiffyn hen lwybrau rheilffyrdd fel y gellir

adfer y llwybrau i'w defnyddio yn y dyfodol. Mae hyn yn creu'r potensial o wella'r rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus dros yr hirdymor, a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol.

6.37 Mae'r polisïau trafnidiaeth yn cael eu cefnogi gan bolisïau cyffredinol, megis polisi PS5 ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n ailddatgan y gobaith am well hunan-gynhwysiant mewn Canolfannau a Phentrefi, wedi eu cefnogi â dewis o ddulliau teithio, a Pholisi PS2 sy'n anelu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy annog teithio trwy ddulliau eraill heblaw ceir.

6.38 Bydd y polisïau hyn yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar drafnidiaeth trwy gefnogi dulliau amgen o drafnidiaeth gynaliadwy a thrwy sicrhau bod datblygiad yn digwydd ochr yn ochr â gwelliannau priodol i'r isadeiledd trafnidiaeth. Oherwydd natur wledig ardal y Cynllun bydd yn anodd i'r Cynllun sicrhau gostyngiad sylweddol yn yr angen i deithio ac i leihau dibyniaeth ar geir preifat. Mae'n debygol y bydd angen i gymunedau gwledig barhau i deithio i gyrchu gwaith a chyfleusterau cymunedol a byddant yn parhau i ddibynnu ar ddefnyddio cerbydau preifat. Bydd polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn lliniaru rhywfaint ar hyn ac yn sicrhau na cheir effaith sylweddol ar lefelau trafnidiaeth.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.39 Er fod rhai safleoedd yn perfformio'n well na rhai eraill o ran mynediad i wasanaethau a chyfleusterau a mynediad i systemau trafnidiaeth cynaliadwy, mae lleoliad yr holl safleoedd o fewn aneddleoedd yn golygu nad yw'r rhain yn faterion arwyddocaol. Fodd bynnag, ble bo materion mynediad wedi eu hadnabod, ystyrir y gellir datrys rhain yn rhwydd.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.40 Mae polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn ceisio mynd i'r afael ag effeithiau datblygiad arfaethedig ar y rhwydwaith ffyrdd bresennol gan geisio sicrhau bod isadeiledd priodol yn cael ei ddarparu. Mae'r Cynllun hefyd yn anelu at welliannau i'r isadeiledd presennol, yn ogystal â throsglwyddo rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth er mwyn helpu i leihau'r galw am deithio a'r ddibyniaeth ar geir. Mae gan hyn botensial ar gyfer effaith grynodol gadarnhaol yn yr hirdymor, ond oherwydd natur wledig y Rhanbarth y mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol gan y bydd yn rhaid i drigolion yr ardaloedd gwledig barhau i deithio i'r aneddiadau mwy i gyrchu ystod ehangach o wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.41 Gall effeithiau cadarnhaol trafnidiaeth a hygyrchedd arwain at effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd. Hefyd mae yna botensial ar gyfer effeithiau negyddol anuniongyrchol dan bynciau amgylcheddol fel ansawdd aer a dŵr.

**Ansawdd yr Aer**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Yr Aer

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 3: Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd trwy hybu a chynnal mesurau lliniaru ac addasu

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.42 Mae polisïau Tai a chyflogaeth PS13 a CYF1 y Cyd- gynllun Adneuo yn anelu at ddarpariaeth o 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Mae gan y datblygiad arfaethedig y potensial o gynyddu lefelau trafnidiaeth ac felly i gynyddu llygredd yr awyrgylch yn ardal y Cynllun, a allai gael effeithiau negyddol ar ansawdd yr aer. Yn y byrdymor ac yn y tymor canol gallai fod rhai mân-effeithiau negyddol ar ansawdd yr aer yn yr ardaloedd lle mae'r tagfeydd mwyaf ar hyn o bryd, yn arbennig mewn ardaloedd cyflogaeth a mân-werthu allweddol megis Bangor a Chaergybi sy'n denu trigolion o bob rhan o ardal y Cynllun, yn ogystal â Phont Britannia. Mae hyn yn debygol o wella yn y dyfodol wrth i gerbydau newydd gyflawni safonau rheoli allyriadau caeth yr Undeb Ewropeaidd, ond mae hynny'n ansicr ar hyn o bryd. Mae gwell cysylltiadau trafnidiaeth cyhoeddus i'r ardaloedd hyn yn debygol o leihau'r effeithiau negyddol, ond y mae'n dal i fod yn debygol y bydd mwy o drafnidiaeth yn yr ardaloedd hynny.

6.43 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol adolygu ansawdd yr aer yn eu hardal o bryd i'w gilydd i ganfod a yw amcanion ansawdd aer cenedlaethol yn cael eu cyflawni. Nid yw'r gwaith monitro a chofnodi a wneir gan gynghorau Ynys Môn[12] a Gwynedd[13] yn dangos bod unrhyw broblemau o bwys gydag ansawdd yr aer o fewn ardal y Cynllun ar hyn o bryd.

6.44 Mae Polisi PS6 yn anelu at ostwng allyriadau nwyon tŷ gwydr trwy annog teithio trwy ddulliau eraill heblaw ceir, yn ogystal â chynyddu'r sinciau carbon sydd ar gael, er enghraifft trwy ddarparu coed ac isadeiledd gwyrdd. Mae Polisi TRA1 yn anelu at welliannau i isadeiledd presennol, yn ogystal â throsglwyddo rhwng gwahanol ddulliau teithio er mwyn cynorthwyo i leihau'r galw i deithio a gostwng dibyniaeth ar geir, ynghyd ag asesiadau trafnidiaeth i fynd gyda chynigion datblygu yn enwedig datblygiad graddfa fawr a datblygiadau mewn lleoliadau sensitif sydd yn debygol o generadu cynnydd arwyddocaol mewn traffig. Mae gan Bolisi TRA4 y potensial i wneud mân-welliannau cadarnhaol gan ei fod yn ceisio sicrhau bod pob datblygiad newydd yn rhoi sylw priodol i'w heffaith ar deithio ac yn cyfrannu at leihau dibyniaeth ar geir preifat. Cefnogir y polisïau trafnidiaeth gan bolisïau

[12] Cyngor Sir Ynys Môn Ansawdd Aer. Ar gael ar lein.: http://www.anglesey.gov.uk/planning-and-waste/environmental-health/pollution/air-quality/
[13] Cyngor Geynedd Rheoli Ansawdd Aer Lleol : Ar gael arl lein: http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_doc.asp?doc=22183&Language=1&p=1&c=1

cyffredinol megis Polisi PS1 ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n ailddatgan y dyhead i sicrhau mwy o hunangynhwysiant mewn Canolfannau a Phentrefi lle mae dewis o wahanol ddulliau trafnidiaeth.

6.45 Â chymryd y dystiolaeth bresennol ar ansawdd yr aer yn ardal y Cynllun, ystyrir na fydd y polisïau sydd yn y Cynllun na'r datblygiad arfaethedig yn cael effeithiau negyddol mawr ar ansawdd aer yn yr hirdymor. Yn y byrdymor mae potensial ar gyfer effaith negyddol; ond mae polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at roi sylw i effeithiau datblygiad arfaethedig ar y rhwydwaith ffyrdd a gwella mynediad i ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy. Dylai'r effeithiau cadarnhaol a'r mesurau lliniaru a ddarparir gan Bolisi PS2 a pholisïau trafnidiaeth sicrhau na fydd yr effeithiau negyddol byrdymor ddim yn sylweddol.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.46 Y prif fater a adnabuwyd o ran yr ardrawiad ar ansawdd aer, yw'r ardrawiad posib fyddai'n deillio o gynnydd mewn traffig. Tra nad yw traffig yn debygol o gynyddu'n arwyddocaol yn y mwayfrif o safleoedd, mae potensial i gynyddu allyriad nwyon tŷ gwydr, gydag effaith negatif ar newid hinsawdd yn y byr dymor. Yn yr hir dymor, mae'n debygol bydd allyriadau tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnydd cerbydau yn lleihau o ganlyniad i reoliadau allyriadau tynn ar gerbydau newydd oherwydd safonnau Ewropeaidd.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.47 Ystyrir bod effeithiau negyddol crynodol mawr ar ansawdd yr aer yn annhebygol o ddigwydd o ganlyniad i'r Cyd-gynllun Adneuo. Mae polisïau yn anelu at ddelio ag effeithiau datblygiadau arfaethedig ar y rhwydwaith ffyrdd ac at wella mynediad at ddulliau cynaliadwy o deithio. Er y gallai fod rhai effeithiau byrdymor mewn rhai ardaloedd lleol cyfyngedig o ganlyniad i ddatblygiad arfaethedig, bydd y mesurau lliniaru a gynigir ym mholisïau'r Cynllun Lleol yn gofalu nad yw'r rhain yn arwyddocaol.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.48 Mae cysylltiad agos rhwng ansawdd yr aer a thrafnidiaeth a hygyrchedd, gan fod lefelau uwch o draffig yn gallu arwain at lefelau uwch o lygredd yn yr awyrgylch. Ar sail canfyddiadau'r Asesiad Strategol mewn perthynas ag ansawdd aer a thrafnidiaeth a hygyrchedd, ystyrir bod potensial ar gyfer effeithiau negyddol anuniongyrchol hirdymor ar ansawdd yr aer. Mae gan hyn y potensial o gael effeithiau negyddol anuniongyrchol hirdymor ar iechyd, ansawdd dŵr a'r amgylchedd naturiol.

**Newid hinsawdd**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Ffactorau Hinsawdd

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 3: Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd trwy hybu a chynnal mesurau lliniaru ac addasu

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.49 Mae Polisïau tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Mae gan hyn botensial o effeithiau negyddol ar newid hinsawdd gan y gallai darparu tai newydd a chyflogaeth arwain at lefelau uwch o drafnidiaeth ac felly at allyriadau nwyon tŷ gwydr. Serch hynny, ar sail canfyddiadau'r Asesiad Strategol mewn perthynas â phynciau trafnidiaeth a hygyrchedd ac ansawdd yr aer, uchod, ystyrir hi'n annhebygol y bydd polisïau'r Cynllun Lleol yn cael effeithiau negyddol ar newid hinsawdd trwy gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr. Cyfeiriwch, os gwelwch yn dda, at y pynciau trafnidiaeth a hygyrchedd ac ansawdd yr aer, uchod.

6.50 Mae potensial hefyd ar gyfer effeithiau negyddol trwy'r ynni corfforedig cynhenid a ddefnyddir i adeiladu a chynnal datblygiad. Mae dulliau a thechnolegau yn debygol o wella'r gostyngiad ym maint yr ynni corfforedig a ddefnyddir; ond mae hynny'n ansicr. Mae'r polisïau cyffredinol wedi cael eu trefnu o amgylch y thema o fyw'n gynaliadwy, sy'n cynnwys rhoi sylw i'r ffactorau sy'n achosi newid hinsawdd yn ogystal ag ymaddasu i effeithiau presennol a chynyddol newid hinsawdd fel a amlinellir ym Mholisi PS1. Mae Polisi PCYFF4 yn ei gwneud yn ofynnol am asesiad ynni cyn gweithredu er mwyn adnabod yr opsiynau rheoli carbon mwyaf addas ynghyd â mesurau effeithlonrwydd ynni. Mae Polisi PS6 yn ymwneud yn benodol â byw'n gynaladwy, gan fynnu bod datblygiad yn ymateb i neu'n rhoi cyfrif am:

- Yr hierarchaeth ynni; lleihau'r galw am ynni, effeithiolrwydd ynni, a defnyddio technolegau ynni carbon isel a dim carbon;
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr;
- Gweithredu mesurau rheoli dŵr cynaliadwy, ac anelu at safonau uchel o effeithlonrwydd dŵr;
- Osgoi ardaloedd lle mae risg o lifogydd;
- Safonau uchel o ddylunio ac adeiladu cynaliadwy;
- Diogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, ac amddiffyn ansawdd y pridd;
- Hybu rhandiroedd a chynhyrchu bwyd yn lleol; a
- Profi mesurau rheoli carbon, megis cysgod naturiol ac oeri, Isadeiledd Gwyrdd a choed.

6.51 Rhagwelir y bydd effeithiau llifogydd yn gwaethygu oherwydd newid hinsawdd. Trafodir effeithiau'r Cynllun ar ansawdd dŵr a'r risg o lifogydd yn yr adran berthnasol ar ddŵr.

6.52 Ystyrir bod mesurau lliniaru addas ar gael trwy gyfrwng y Cynllun ac ar lefel prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.53 Y prif fater a adnabuwyd o ran yr ardrawiad ar ansawdd aer, yw'r ardrawiad posib fyddai'n deillio o gynnydd mewn traffig. Tra nad yw traffig yn debygol o gynyddu'n arwyddocaol yn y mwayfrif o safleoedd, mae potensial i gynyddu allyriad nwyon tŷ gwydr, gydag effaith negatif ar newid hinsawdd yn y byr dymor. Yn yr hir dymor, mae'n debygol bydd allyriadau tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnydd cerbydau yn lleihau o ganlyniad i reoliadau allyriadau tynn ar gerbydau newydd oherwydd safonnau Ewropeaidd.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.54 Mae potensial ar gyfer effeithiau crynodol hirdymor negyddol ar newid hinsawdd o ganlyniad i ddatblygu tir glas i gwrdd â'r targedau twf a ddynodir yn y Cynllun. Gall effeithiau crynodol negyddol eraill godi o'r cynnydd tebygol yn y boblogaeth, gwastraff, dŵr gwastraff , a thrafnidiaeth. Hefyd mae potensial ar gyfer effeithiau crynodol cadarnhaol o ganlyniad i gynnydd yn nifer y coed a'r isadeiledd gwyrdd mewn ardaloedd trefol, gan weithredu fel sinciau carbon yn ogystal â darparu cysgod.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.55 Mae cysylltiad agos rhwng natur ac arwyddocad newid hinsawdd a llifogydd, ar y naill law, a thai, cyflogaeth a thrafnidiaeth ar y llall. Mae cysylltiad agos hefyd rhwng llifogydd a chymunedau ac iechyd dynol, yn ogystal ag ansawdd dŵr. Gall cynnydd yn y risg o lifogydd gael effeithiau negyddol ar iechyd dynol yn ogystal â chael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar ansawdd dŵr a'r economi. Mae cysylltiad hanfodol rhwng llifogydd a newid hinsawdd ac mae'n effeithio'n sylweddol ar y defnydd o dir.

**Adnoddau Dŵr, Ansawdd Dŵr a'r Risg o Lifogydd**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Dŵr

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 11: Diogelu ansawdd dŵr, rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy a lleihau i'r eithaf y risg o lifogydd

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.56 Mae effeithiau negyddol ar ffynonnellau ac ansawdd dŵr fioamrywiaeth yn fwyaf tebygol o godi o ganlyniad i bolisïau sy'n pennu maint a lleoliad twf arfaethedig. Ystyrir bod polisïau lefel uwch, megis Polisi PS1, yn cael effaith ansicr gan fod maint a lleoliad datblygiadau yn cael eu rhestru mewn polisïau eraill o'r Cyd-gynllun Adneuo polisïau. Mae Polisïau tai a chyflogaeth PS11 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun i ddiwallu anghenion y Dosbarth yn y dyfodol, gyda'r potensial o gael effeithiau negyddol hirdymor ar adnoddau dŵr ac ansawdd trwy gynyddu maint y dŵr a echdynnir ar gyfer yfed a chynyddu lefelau'r gwaciadau a ganiateir.

6.57 Gall y cynnydd yn arwynebedd anhydraidd o ganlyniad i ddatblygu gael effaith ar ansawdd dŵr hefyd, trwy drosglwyddo llygryddion yng ngorlif y dŵr wyneb. Rhestrir lleoliadau datblygiad ym Mholisïau CFY1 a TA1/10 i TA1/12 ac er bod potensial ar gyfer effeithiau negyddol; mae'n fwy priodol rhoi sylw i'r rheini trwy ystyried dyraniadau safle penodol.

6.58 Mae Polisi Strategol trosfwaol PS1 ar Ddatblygu Cynaliadwy yn anelu at:

- Leihau faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio a'i wastraffu;
- Lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr a'i ansawdd
- Rheoli'r risg o lifogydd;
- Mwyhau'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy; a
- Hybu amcanion Cynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru.

6.59 Cefnogir hyn mewn mwy o fanylder ym Mholisi Strategol PS5, sy'n anelu at fynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd, ac mae llifogydd yn ffactor bwysig yn hynny. Mae'r polisi yn hyrwyddo profion cyfresol er mwyn osgoi'r ardaloedd lle mae'r risg mwyaf o lifogydd, yn ogystal â safonau uchel o effeithiolrwydd dŵr a mesurau i wrthsefyll sychder a gwella ansawdd dŵr. Mae'r safonau hyn yn cael eu hailadrodd ym Mholisïau CYFF2 a CYFF3 ar ddylunio, tirweddu a ffurfio lleoedd, lle disgwylir bod datblygiad yn sicrhau y cyfyngir ar orlif dŵr wyneb a lle darparir arwynebau hydraidd.

6.60 Mae Polisi CYFF5 yn anelu at sicrhau bod cynigion datblygu yn ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr a Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS). Y mae hefyd yn anelu at sicrhau bod datblygiad yn lleiafu'r risg o lifogydd ac yn osgoi ail-leoli'r risg o lifogydd. Ymhellach at hyn, mae Polisi AMG3 yn anelu at ddiogelu ansawdd dŵr ar hyd yr arfordiroedd sydd mor werthfawr.

6.61 Mae Polisïau'r Cyd-gynllun yn cydymffurfio â'r Strategaeth Ddŵr ar gyfer Cymru[14], sy'n gosod allan gyfeiriad polisi hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer dŵr ac yn anelu at gydbwyso anghenion hirdymor yr amgylchedd gyda'r angen i sicrhau bod digon o adnoddau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff ar gael.

[14] Llywodraeth Cymru (2014) Drafft Ymgynghorol Strategaeth Ddŵr ar gyfer Cymru.

6.62 Â chymryd y mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo uchod, a phrosesau rheoleiddio cyfredol, megis y Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr[15] a gynhyrchir gan Dŵr Cymru, ystyrir y gellir mynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol sylweddol posibl a all ddigwydd yn sgil polisïau'r Cynllun. Ystyrir bod gweddill yr effeithiau yn niwtral, gydag elfen o ansicrwydd gan y byddant yn ddibynnol ar weithredu mesurau lliniaru.

6.63 Ystyrir bod y gwahanol bolisïau yn darparu mesurau lliniaru digonol i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol mawr ar adnoddau dŵr, ansawdd dŵr na'r risg o lifogydd o ganlyniad i ddatblygiadau arfaethedig. Bydd datblygiadau yn cael eu cyfeirio oddi wrth ardaloedd lle mae risg o lifogydd a bydd potensial ar gyfer mân-effeithiau hirdymor cadarnhaol ar adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr.

6.64 Argymhellir y dylai Polisi CYFF5 restru targedau penodol ar gyfer datblygu tai a chyflogaeth o safbwynt cadwraeth dŵr. Mae'r argymhelliad hwn bellach wedi ei ymgorffori yn y CDLl gyda Pholisi CYFF5 yn gofyn i unrhyw gynnig dros 1000 m2 neu 10 tŷ fod yn destun Datganiad Cadwraeth Dŵr.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.65 Ymgymerwyd ag Asesiad Strategol Canlyniad Llifogydd (ASCLl) er mwyn pennu polisïau datblygu addas a dyrannu tir mewn ffordd sy'n osgoi neu'n lleihau'r perygl o lifogydd o bob ffynhonnell drwy ddefnyddio mapiau mwyaf diweddar o'r Mapiau Cyngor Datblygu gan Llywodraeth Cymru. Nid yw'r safleoedd o fewn ardal mewn perygl llifogydd. Fodd bynnag, mae materion llifogi wedi eu hadnabod mewn rhai safleoedd. Fodd bynnag, ni ystyrir fod rhain yn arwyddocaol a byddai mesurau lliniaru ar lefel prosiect yn datrys unrhyw broblem.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.66 Rhwng popeth, ystyrir bod gan y Cyd-gynllun Adneuo botensial ar gyfer mân-effeithiau crynodol negyddol o dan y pwnc hwn, trwy ddarparu 7,184 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth yn ystod oes y Cynllun. Mae polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn amddiffyn yr amgylchedd dŵr ac yn annog cynnwys mesurau effeithlonrwydd dŵr a systemau draenio cynaliadwy yn ogystal â darparu'r isadeiledd angenrheidiol. Y maent hefyd yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle mae risg o lifogydd, gan ddefnyddio'r prawf cyfresol. Dylai mesurau lliniaru sicrhau na fydd effeithiau negyddol crynodol ar adnoddau dŵr, ansawdd dŵr a'r risg o lifogydd yn sylweddol. Ond mae elfen o ansicrwydd ynglŷn â hyn gan fod natur ac arwyddocad yr effaith grynodol yn dibynnu yn y pen draw ar i'r mesurau gael eu gweithredu.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.67 Mae nifer o'r pynciau sy'n cael sylw yn yr Asesiad Strategol hwn yn effeithio ar, ac yn cael eu heffeithio gan yr amgylchedd dŵr. Gall effeithiau negyddol posibl ar adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr hefyd gael effeithiau negyddol

[15] Dŵr Cymru (Ebrill 2014) Final Water Resources Management Plan Technical Report.

anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd dynol a'r amgylchedd naturiol. Yn yr un modd, gall gwelliannau i adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr hefyd wneud budd o dan y pynciau hyn. Â chymryd bod y gwerthusiad wedi canfod nad yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd dŵr, ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol sylweddol o dan unrhyw dopig arall.

**Tirwedd**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Tirwedd

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 8: Gwerthfawrogi, diogelu a gwella tirwedd gwledig a threfweddau dinesig ardal y cynllun

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.68 Mae gan y polisïau sy'n gosod allan faint (Polisïau SP11 & CYF1), dosbarthiad a lleoliad datblygiad (Polisïau PS3, TA1/10 to TA1/14) y potensial o gael effeithiau negyddol ar y dirwedd. Bydd natur ac arwyddocad yr effeithiau yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys union leoliad, graddfa, dwysedd a dyluniad y datblygiad yn ogystal â sensitifrwydd y dirwedd lle bydd yn digwydd. Hefyd mae potensial i'r datblygiad gael effeithiau cadarnhaol ar drefwedd neu dirwedd trwy adfywio safleoedd tir llwyd neu adeiladau a ystyrir yn ddolur llygad.

6.69 Bydd datblygiad tai yn cael ei ddosrannu yn ôl yr hierarchaeth o aneddiadau a restrir ym Mholisi PS15. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Mae hynny'n golygu y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio yn bennaf yn ac oddi amgylch y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) a Phentrefi a Chlystyrrau (25% o'r twf) yn ystod oes y Cynllun. Mae rhai o'r aneddiadau hyn yn gorwedd o fewn neu yn agos at Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn a Llŷn yn ogystal â Pharc Cenedlaethol Eryri. Nodir union leoliad y datblygiadau ym mholisïau TA1/10, TA1/11 a CYF1 ac er bod potensial ar gyfer effeithiau negyddol ar y dirwedd ar lefel leol mae'n fwy priodol i'r rheini gael sylw trwy ystyried dyraniadau safleoedd penodol.

6.70 Mae polisïau yn anelu at gyfyngu ar ddatblygu yng nghefn gwlad agored ac yn cyfeirio datblygiad tuag at ardaloedd adeiledig sydd â mynediad addas i wasanaethau a chyfleusterau, gan roi blaenoriaeth i ddefnyddio tir sydd wedi cael ei ddefnyddio yn flaenorol (e.e. Polisïau PS5 a CYFF1). Er gwaethaf y flaenoriaeth a roddir i ddefnyddio tir llwyd y mae'n anochel y bydd y datblygiad arfaethedig yn arwain at golli rhywfaint o dir glas a gallai hynny gael effaith negyddol ar y dirwedd.

6.71 Mae polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddiogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig (Polisi AMG1), yn ogystal â hybu nodweddion a phriodweddau sy'n unigryw i gymeriad y dirwedd leol (Polisi AMG2), gan gynnwys nodweddion trefwedd traddodiadol fel patrwm strydoedd, strwythurau a'r ffordd y mae anheddau wedi cael eu gosod allan. Mae Polisi AMG2 yn cydnabod lleoliad ehangach yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol a'r Parc Cenedlaethol ac yn anelu at amddiffyn cymeriad y dirwedd sydd o amgylch yr ardaloedd hyn sydd wedi eu dynodi ar lefel genedlaethol. Mae'r Cynllun bellach yn cynnwys Polisi sy'n ceisio diogelu gosodiad yr AHNE'oedd ac unrhyw olygfeydd arwyddocaol i mewn ac allan ohonynt. Mae'r polisi yn creu cysylltiadau â'r Cynlluniau Rheoli AHNE i sicrhau bod nodau ac amcanion y rhain yn cael eu hystyried yn llawn mewn datblygiadau newydd. Ymhellach, mae Polisi PS7 yn ceisio lleihau effaith llinellau uwchben datblygiadau newydd ar y dirwedd, yn enwedig mewn ardaloedd tirwedd sensitif, drwy osod ceblau o dan y ddaear lle bo angen.Mae ffin orllewinol ardal y Cynllun yn derfyn arfordirol ac yn nodwedd amlwg o'r dirwedd. Gan hynny mae'n cael ei ddiogelu ym Mholisi AMG3, sy'n cynnwys cefnogaeth i adleoli busnesau presennol o fewn y Parth Rheoli Newid Arfordirol.

6.72 Mae polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at wella tirweddau a threfweddau trwy ddylunio o ansawdd uchel sy'n amddiffyn tirweddau, golygfeydd, awyrlin, asedau hanesyddol a lleoliadau o werth ac sy'n cynnwys mannau agored newydd (e.e. Polisïau CYFF2 a CYFF3). Mae Polisi Strategol PS2 yn anelu at ddiogelu'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas er mwyn amddiffyn a gwella'r amgylchedd gwledig, yn ogystal â sicrhau nad yw gallu tirweddau i ymaddasu ar gyfer newid hinsawdd yn cael ei amharu, a bod amgylcheddau cyfatebol yn cael eu darparu i wneud iawn am golledion os oes angen.

6.73 Ystyrir bod y mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn ddigonol i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol mawr ar y dirwedd. Mae datblygiad yn cael ei gyfeirio i ac oddi amgylch aneddiadau sy'n bodoli'n barod, gan roi blaenoriaeth i dir sydd wedi cael ei ddatblygu yn flaenorol. Mae ardaloedd tirwedd pwysig a sensitif yn cael eu gwarchod a bydd yn rhaid i bob cynnig datblygu ddangos ansawdd uchel o ddyluniad sy'n parchu'r dirwedd leol.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.74 Mae'r arfarniad wedi dangos fod rhai safleoedd yn perfformio'n well na'i gilydd o ran eu hardrawiad potensial ar y tirwedd. Mae nifer o safleoedd tir llwyd wed eu dynodi ar gyfer eu datblygu, a dylai rhain gael effaith bositif ar y tirwedd lleol. Gall effeithiau andwyol ar y tirwedd ddigwydd ar safleoedd tir glas a safleoedd sydd wedi eu lleoli ar ymylon aneddleoedd.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.75 Mae gan y lefel twf a gynigir yn y Cynllun botensial i gael effeithiau negyddol hirdymor mawr ar y dirwedd. I fynd i'r afael â'r broblem y mae'r Cynllun yn

anelu at gyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth yr amgylcheddau mwyaf sensitif, yn cefnogi datblygiad o ansawdd uchel sy'n parchu ac yn hyrwyddo'r dirwedd yn ogystal ag yn darparu mannau agored newydd ac Isadeiledd Gwyrdd o fewn y datblygiad newydd. Dylai'r mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisïau'r Cynllun ac sydd ar gael ar lefel prosiect leihau effeithiau negyddol er mwyn sicrhau nad ydynt yn arwyddocaol; serch hynny mae'r effaith grynodol gyffredinol yn parhau i fod yn ansicr. Mae datblygiad yn debygol o arwain at golli tir glas a thir amaethyddol, ac at newid y dirwedd i ryw raddau, a allai gael mân-effeithiau negyddol yn yr hirdymor.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.76 Mae'r dirwedd yn dylanwadu ar ac yn cael ei effeithio gan nifer o'r pynciau sy'n cael eu hystyried yn yr Asesiad Strategol. Gall effeithiau negyddol posibl ar yr amgylchedd dŵr, ansawdd aer, bioamrywiaeth, treftadaeth a phridd hefyd gael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar y dirwedd. Gall newidiadau yn y dirwedd effeithio yn gadarnhaol ac yn negyddol ar gymunedau ac iechyd.

**Bioamrywiaeth**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Bioamrywiaeth, planhigion ac anifeiliaid

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 1: Cynnal a hybu buddiannau a chysylltiadau bioamrywiaeth

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.77 Mae effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth yn fwyaf tebygol o godi o ganlyniad i bolisïau sy'n pennu maint a lleoliad twf arfaethedig. Ystyrir bod polisïau lefel uwch, megis Polisi PS1 yn rhwym o gael effaith ansicr gan fod maint a lleoliad penodol y datblygiad yn cael eu nodi mewn polisïau eraill o'r Cyd-gynllun Adneuo. Mae Polisïau tai a chyflogaeth PS13 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth i ddiwallu anghenion y Dosbarth yn y dyfodol ac mae gan hynny botensial i gael effeithiau negyddol hirdymor mawr ar fioamrywiaeth.

6.78 Mae Polisi PS5 yn rhoi blaenoriaeth i wneud defnydd effeithiol o dir, gan roi blaenoriaeth lle bo modd i ailddefnyddio tir sydd wedi cael ei ddatblygu yn flaenorol o fewn ffiniau'r anheddiad. Mae hyn yn gadarnhaol o ran bioamrywiaeth oherwydd, er cydnabod y gall safleoedd tir llwyd fod yn bwysig, safleoedd tir glas sydd gan amlaf yn fwyaf gwerthfawr. Bydd datblygiad tai yn cael ei ddosrannu yn ôl yr hierarchiaeth o aneddiadau a restrir ym Mholisi PS15. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Mae hynny'n golygu y bydd datblygiad yn cael ei ganolbwyntio yn bennaf yn

ac oddi amgylch y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) a Phentrefi a Chlystyrrau (25% o'r twf) yn ystod oes y Cynllun. Er cydnabod bod nifer sylweddol o safleoedd dynodedig yn bodoli o amgylch aneddiadau, yn arbennig mewn safleoedd arfordirol, bydd y strategaeth ddosrannu o leiaf yn canolbwyntio twf yn yr aneddiadau presennol ac o'u hamgylch, gan osgoi'r ardaloedd mwy sensitif sydd heb gael eu datblygu.

6.79 Nodir union leoliad datblygiad ym mholisïau TA1/10, TA1/11 a CYF1 ac er bod potensial ar gyfer canlyniadau negyddol ar lefel leol trwy golli cynefinoedd; y mae'n fwy priodol rhoi sylw i'r rhain trwy ystyried dyraniadau safleoedd penodol. Mae perthynas rhwng y brif effaith negyddol sy'n debygol o godi o ganlyniad i bolisïau datblygu strategaeth, a cholli a darnio cynefinoedd yn gyffredinol. Dylid gwarchod a chynnal coridorau cynefinoedd gan fod cydgysylltiad cynefinoedd yn bwysig o ran hyfywedd bioamrywiaeth yn yr hirdymor.

6.80 Mae polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at warchod a hybu bioamrywiaeth, ac mae gan hynny botensial i gael effeithiau cadarnhaol o'r byrdymor i'r hirdymor. Mae Polisi PS1 yn anelu at amddiffyn a gwella ardaloedd o werth bioamrywiol uchel, ac yn cyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth yr ardaloedd mwyaf sensitif. Mae Polisi PS6 yn cydnabod rôl bioamrywiaeth mewn newid hinsawdd ac yn anelu'n arbennig at sicrhau'r buddion y gall rhai nodweddion naturiol penodol eu darparu (e.e. yr effaith o oeri sy'n gysylltiedig â choed). Mae Polisi CYFF3 yn anelu at adnabod a diogelu nodweddion naturiol megis coed, gwrychoedd a chyrsiau dŵr mewn datblygiadau, neu ddarparu rhai yn eu lle pan na fydd yn bosibl eu cadw.

6.81 Mae Polisïau AMG4 ac AMG5 yn ymrwymo i warchod a gwella ardaloedd cadwraeth bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol, a chyfeirio datblygiad oddi wrth yr amgylcheddau sensitif hynny. Mae'r rhain yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol (LNR) A Safleoedd Bywyd Gwyllt (WS). Mae'r polisïau hefyd yn anelu at sicrhau rhwydwaith isadeiledd gwyrdd sydd wedi ei gyd-gysylltu er mwyn cynnal symudiad bywyd gwyllt yn ogystal â chynnal Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol (LBAP), gan anelu at ddatblygiad a fydd yn cyfrannu at dargedau LBAP. Lle bo angen mae Polisi EMG4 hefyd yn mynnu Asesiad Ecolegol i gyd-fynd â'r cais cynllunio.

6.82 Ystyrir bod polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo, a amlinellir uchod, yn darparu mesurau lliniaru addas i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol o ganlyniad i lefel gyffredinol y twf arfaethedig.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.83 Nid oes unrhyw un o'r safleoedd wedi eu lleoli o fewn dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol. Fe all y golled o dir glas yn rhai safleoedd gael effaith negyddol bach ar fioamrywiaeth, drwy'r golled o gysylltedd a darniad coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir fod y Cynllun yn

darparu mesurau lliniaru addas er mwyn sicrhau nad oes effeithiau negyddol arwyddocaol yn digwydd.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.84 Mae gan lefel y twf a gynigir yn y Cynllun y potensial o gael effeithiau negyddol hirdymor ar yr amgylchedd naturiol. I ddelio â hyn y mae'r Cynllun yn ceisio: cyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth yr amgylcheddau mwyaf sensitif, rhoi cefnogaeth i hybu cynefinoedd naturiol presennol a darparu mannau agored newydd ac isadeiledd gwyrdd o fewn datblygiadau newydd. Dylai'r mesurau lliniaru a ddarperir gan bolisïau'r Cynllun ac sydd ar gael ar lefel prosiect, leihau effeithiau negyddol er mwyn sicrhau nad ydynt yn arwyddocaol o ran bioamrywiaeth; ond mae'r effaith grynodol gyffredinol yn parhau i fod yn ansicr. Mae datblygiad yn debygol o arwain at golli tir glas, a newid neu amharu ar gynefinoedd presennol i ryw raddau, naill ai trwy golli cydgysylltiad neu trwy ddarnio cynefinoedd.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.85 Mae'r amgylchedd naturiol yn dylanwadu ar ac yn cael ei heffeithio gan nifer o'r pynciau sy'n cael eu hystyried drwy'r Asesiad Strategol. Gall effeithiau negyddol posibl ar yr amgylchedd naturiol, hefyd gael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd dynol, newid hinsawdd ac ansawdd dŵr. Yn yr un modd, gall gwelliannau i'r amgylchedd naturiol gael effaith fuddiol hefyd o dan y penawdau hyn. Ystyrir bod digon o fesurau lliniaru ar gael yn y Cynllun i sicrhau ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol sylweddol o dan unrhyw dopig arall.

**Pridd**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Pridd

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 9: Defnyddio pridd ac asedau mwynol yn effeithlon a hybu mecanweithiau i leihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.86 Lle bo modd, mae'r polisïau yn blaenoriaethu'r defnydd o dir sydd wedi cael ei ddefnyddio'n flaenorol (Polisi PS5) ac yn ceisio osgoi datblygu yng nghefn gwlad agored ac mewn ardaloedd lle mae tir o ansawdd arbennig o dda, er enghraifft, mae Polisi Strategol PS6 yn ceisio gwarchod y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

6.87 Mae adran benodol ar fwynau yn dynodi Ardaloedd Diogelu Mwynau at y dyfodol (Polisi MWYN1) a chyflenwad cynaliadwy o fwynau (Polisi MWYN2). Ymhellach at hynny mae Polisi MWYN3 yn dynodi'r Ardaloedd Blaenoriaeth

Chwilio ar gyfer cyflenwadau'r dyfodol o dywod, graean a chreigiau mâl. Mae polisïau eraill yn gosod y meini prawf ar gyfer datblygiadau mwynol (Polisi MWYN4) ac yn cefnogi cynhyrchu cerrig adeiladu lleol (Polisi MWYN5) er mwyn cynnal arddull ac ymddangosiad adeiladau traddodiadol yn yr ardal. Mae Polisi MWYN6 yn sicrhau y cynhelir parthau clustogi oddi amgylch safleoedd mwynol er mwyn lleiafu effeithiau echdynnu. Mae Polisi MWYN10 yn caniatáu ar gyfer datblygu Pyllau Benthyg lle bo'n briodol; mae pyllau benthyg yn gyfryngau cyflenwi dros dro sy'n gallu lleihau effeithiau trafnidiaeth a'r effeithiau amgylcheddol cysylltiedig.

6.88 Bydd twf yn ardal y Cynllun yn arwain yn anochel at golli tir glas a rhai ardaloedd o dir amaeth da, ac mae gan hynny botensial o effaith hirdymor negyddol ar dir a phriddoedd. Ond ystyrir bod mesurau lliniaru addas yn bodoli yn fframwaith y polisi er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol mawr.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.89 Mae'r arfarniad wedi dangos fod rhai safleoedd yn fwy tebygol o gael ardrawiad ar briddoedd. Mae safleoedd sydd wedi eu dynodi ar dir llwyd yn perfformio'n well o ran hyn drwy ailddefnyddio tir ar dir llwyd.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.90 Mar gan y twf a gynigir yn y Cyd-gynllun Adneuo botensial i gael effeithiau hirdymor negyddol ar briddoedd. I roi sylw i hyn y mae'r Cynllun yn anelu at: gyfeirio datblygiad i ffwrdd oddi wrth y tir o'r ansawdd uchaf, a darparu mannau agored newydd ac isadeiledd gwyrdd o fewn datblygiadau newydd. Dylai'r mesurau lliniaru a ddarparir gan bolisïau'r Cynllun ac sydd ar gael ar lefel prosiect leihau effeithiau negyddol fel nad ydynt yn arwyddocaol o ran priddoedd, ond serch hynny mae'r effaith grynodol gyffredinol yn parhau i fod yn ansicr. Mae datblygiad yn debygol o arwain at golli tir glas a thir amaethyddol, a newid yn ansawdd y pridd mewn rhai ardaloedd.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.91 Mae'r amgylchedd naturiol yn dylanwadu ar, ac yn cael ei heffeithio gan nifer o'r pynciau sy'n cael eu hystyried drwy'r Asesiad Strategol. Gall effeithiau negyddol posibl ar yr amgylchedd naturiol, hefyd gael effeithiau negyddol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd, newid hinsawdd a llifogydd, ansawdd yr aer ac ansawdd dŵr. Yn yr un modd, gall gwelliannau i'r amgylchedd naturiol gael effaith fuddiol hefyd o dan y penawdau hyn. Ystyrir bod digon o fesurau lliniaru ar gael yn y Cynllun i sicrhau ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol sylweddol o dan unrhyw dopig arall.

**Treftadaeth Diwylliannol**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Treftadaeth ddiwylliannol

Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 4: Diogelu, hybu ac atgyfnerthu'r iaith Gymraeg
- Amcan Asesiad Strategol 5: Diogelu, hybu ac atgyfnerthu adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.92 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arfarniad Cynaladwyedd gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y Cynllun ar y defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal yr awdurdod. Er mwyn asesu datblygiad y Cynllun yn erbyn aamcan AC 4 (Diogelu, hybu ac atgyfnerthu'r iaith Gymraeg) ymgymerwyd ag Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) drwy gydol y broses. Mae canfyddiadau'r AEIG wedi bwydo i mewn i'r AC hwn. Mae'r Cynllun yn cynnwys nifer o bolisiau manwl fydd yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg, tra ar yr un pryd, yn lleihau unrhyw effaith niweidiol ar fywiogrwydd yr iaith.

6.93 Mae'r fframwaith bolisi o'r Cynllun sy'n datblygu yn creu'r'r fframwaith ar gyfer hyrwyddiad effeithiol o'r iaith Gymraeg a diwylliant. Dylai'r amrywiaeth o gyfleoedd sy'n cael eu darparu gan y polisiau, gan gynnwys y ddarpariaeth o whanol fathau o dai, dim dyraniadau tir ar gyfer tai farchnad agored mewn pentrefi a chlystyrau lleol, arfordirol a gwledig, datblygu tai gam wrth gam, tyfiant economaidd lleol, negodi cyfraniadaupriodol gan ddatblygwyr ar gyfer isadeiledd, ac amddiffyn a mwyhautreftadaeth diwylliannol i gyd gyfrannu at wella bywiogrwydd yr iaith Gymraeg.

6.94 Mae Polisïau tai a chyflogaeth PS13 a CYF1 y Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddarparu 7,902 o dai a 168 ha o dir cyflogaeth er mwyn diwallu anghenion y Dosbarth yn y dyfodol. Er bod potensial i gael effeithiau negyddol arwyddocaol o ganlyniad i'r lefel twf a gynigir y mae natur ac arwyddocad yr effeithiau a ddaw yn sgil y polisïau hyn yn aneglur, gan eu bod yn dibynnu ar union leoliad y datblygiad arfaethedig a nodir mewn polisïau eraill. Mae polisiau manwl yn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth mewn anheddleoedd o fewn ardaloedd trefol a gwledig, fydd yn cyfrannu at ddatblygiad economaidd amrywiol. Bydd datblygiad economaidd gwledig hefyd yn helpu i gadw preswylwyr sy'n siarad Cymraeg i aros yn eu cymunedau, fydd yn ei dro yn fuddiol i'r iaith. Mae nifer o bolisiau economaidd yn hwyluso datblygiad ar gyfer defnydd cyflogaeth gan gynnwys arallgyfeirio amaethyddol ac adfywio safloedd, fydd yn cynyddu nifer swyddi yn ogystal â darparu cyfleoedd i ffurfio busnesau newydd. Gall gyfleoedd cyflogaeth addas hefyd arwain at annog siaradwyr Cymraeg oedd wedi symud i ffwrdd o'r ardal i chwilio am waith i ddychwelyd. Bydd Polisi ISA1 yn darparu'r fframwaith berthnasol i'w gwneud hi'n ofynnol i fusnesau newydd neu bresennol sy'n ehangu i fformiwleiddio cynllun iaith Gymraeg, os yw'r rhwymedigaeth yn cwrdd â'r profion statudol.

6.95 Bydd datblygiad tai yn cael ei ddosbarthu yn unol â'r hierarchaeth aneddiadau a nodir ym Mholisi PS15. Mae'r strategaeth yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaeth yr anheddiad, ei swyddogaeth a'i faint (poblogaeth) ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol a chymdeithasol a'i allu i ddygymod â datblygiad. Trwy ganolbwyntio datblygiad mewn ac oddi amgylch y Prif Ganolfannau (55% o'r twf), Canolfannau Gwasanaeth Lleol (20% o'r twf) mae potensial i gael effeithiau hirdymor negyddol arwyddocaol ar dreftadaeth yn yr ardaloedd hyn, sy'n cynnwys Henebion Rhestredig, Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Yn groes i hynny, bydd hefyd yn helpu i osgoi a lleiafu effeithiau negyddol posibl ar asesiadau treftadaeth y tu allan i'r ardaloedd hynny. Gall datblygiad gael effaith gadarnhaol ar dreftadaeth hefyd trwy helpu i wella arwyddion neu hygyrchedd neu trwy adfywio safle tir llwyd a oedd cynt yn cael effaith negyddol ar dirwedd neu drefwedd. Mae natur ac arwyddocad yr effaith yn dibynnu ar union leoliad y datblygiad arfaethedig.

6.96 Mae Polisïau TAI10 a TAI11 yn rhestru'r safleoedd a gynigir ar gyfer datblygiad yn y ganolfan isranbarthol, canolfannau gwasanaeth isranbarthol a chanolfannau gwasanaeth lleol. Mae'r safleoedd cyflogaeth a gynigir yn cael eu rhestru ym Mholisi CYF1. Mae'n fwy priodol ymdrin â materion sy'n ymwneud a safleoedd penodol trwy ystyried y dyraniadau safle, sy'n cael eu rhestru isod o dan bennawd ar wahân. Mae'r ddarpariaeth o gymysgedd addas o dai, gan gynnwys tai fforddiadwy, yn hanfodol wrth gadw poblogaeth aelwydydd lleol yn eu cymunedau yn ogystal ag aelwydydd oed gweithio sydd angen symud yn ôl/ i mewn i ardal y Cynllun eu bod yn cael eu lletya os ydynt yn ffafrio tŷ newydd yn hytrach thŷ o'r stoc dai bresennol. Mae polisiau tai yn y Cynllun, yn enwedig, TAI1 (Cymysgedd Briodol o Dai) TAI/5 (Tai Marchnad Lleol) a TAI/9 (Trothwy Tai Fforddiadwy a'r Dosbarthiadau) yn anelu i hwyluso datblygiad o'r math cywir o dai sydd yn cwrdd ag anghenion lleol fydd yn annog pobl ifanc i aros yn eu cymunedau. Gall ddarpariaeth o'r fath hefyd arwain at annog siaradwyr Cymraeg a oedd wedi gadael yr ardal i ddychwelyd. Yn dilyn asesiad o'r sylwadau ar y Cynllun Adneuo, cyflwynwyd Polisi ychwanegol, sy'n gosod y fframwaith er mwyn hwyluso datblygu cam wrth gam ar safleoedd sydd wedi eu dynodi neu safleoedd ar hap.

6.97 Mae hyfywedd a bywiogrwydd cymunedol hefyd yn cael ei fwyhau drwy bolisiau amrywiol yn y Cynllun. Bydd rhain yn helpu cefnogi mentrau sy'n adeiladu cymunedau sefydlog, diogel, iach a chryf, sy'n cynnwys parchu a mwyhau'r iaith Gymraeg a diwylliant. Er engrhaifft, bydd Polisiau ISA1 (Darpariaeth Isadeiledd) ac ISA2 (Cyfleusterau Cymunedol) yn diogelu a sicrhau gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol ble'n briodol, a ddylai yn ei dro, gwella cydlyniad cymunedol ac integreiddiad. Bydd cyfraniadau i ddiogelu isadeiledd cymunedol addas drwy fecanweithiau cynllunio yn adeiladu ar fentrau sy'n cael eu hybu gan y Cyngor, Hunaniaith a Menter Iaith Môn. Mae'r math olaf hwn o ymrwymiad cynllunio, yn ogystal â chyfeiriad at fentrau hyfforddiant lleol wedi eu hychwanegu at gofrestr dangosol o wahanol fathau o ymrwymiadau cynllunio sydd wedi eu cynnwys ym mholisi ISA1.

6.98 Mae'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at amddiffyn asedau treftadaeth gwerthfawr a'u lleoliadau a lleiafu effeithiau datblygu. Mae Polisi AT1 yn sicrhau bod datblygiadau yn rhoi ystyriaeth i strategaethau a fabwysiadwyd, gan gynnwys; Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth, Cynlluniau a Strategaethau Cyflawni, Cynlluniau Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd a'r Gofrestr Tirweddau, Parciau a Gerddi o Ddiddordeb Hanesyddol arbennig yng Nghymru. Lle bo'n briodol mae hyn yn cynnwys yr angen am Asesiad Effaith Treftadaeth. Er yr anelir at ddiogelu asedau gwerthfawr, mae Polisi AT2 yn cydnabod hefyd y gall datblygu sicrhau cadwraeth ac y gall hybu rhai asedau (er enghraifft Adeiladau Rhestredig nas defnyddir) a thrwy hynny hyrwyddo eu hamgylchedd lleol a gwella lleoliadau treftadaeth. Gan hynny mae'r polisi yn gosod y meini prawf ar gyfer galluogi datblygu asedau hanesyddol.

6.99 Ymhellach, mae Polisi AT3 yn cyfeirio at asedau treftadaeth nad ydynt wedi eu dynodi, ond eu bod o bwys lleol neu ranbarthol, ac mae'n ceisio diogelu'r asedau hyn a'u hamgylcheddau trwy ddatblygu cydymdeimladol sy'n cefnogi'r cymeriad a'r hunaniaeth leol. Gweithredir yn yr un ffordd i ddiogelu safleoedd archeolegol nad ydynt wedi cael eu dynodi a gall fod angen asesiadau archeolegol lle bernir fod angen hynny, Yn yr achos hwn mae treftadaeth ddiwylliannol yn cynnwys diogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel a fynegir ym Mholisi PS1, ceir mesurau i sicrhau fod rhai mathau o ddatblygiadau (yn enwedig datblygiadau mawr) yn ceisio mwyhau'r agwedd diwylliannol o'r ardal, gan gynnwys enwau Cymraeg addas ac arwyddion dwyieithog.

6.100 Mae polisïau'r Cynllun Lleol yn anelu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac osgoi datblygiad a fydd yn cael effaith ar arwyddocad asedau treftadaeth. Mae mesurau yn bodoli i sicrhau y bydd cynigion datblygu yn cymryd i ystyriaeth yr effeithiau posibl ar dreftadaeth, gan ddarparu mesurau lliniaru priodol lle bo angen. Gan hynny ystyrir bod mesurau lliniaru addas yn bodoli i sicrhau na fydd polisïau'r Cyd-gynllun Adneuo yn cael effeithiau negyddol mawr ar dreftadaeth. Ond mae elfen o ansicrwydd yn parhau hyd nes y bydd asesiadau lefel prosiect wedi cael eu gwneud a mesurau lliniaru wedi cael eu gweithredu.

***Gwerthusiad o Ddyraniad Safleoedd***

6.101 Gall nifer fechan o safleoedd gael ardrawiad ar asedau treftadaeth, gan gynnwys asedau archeolegol. Ar y cyfan, fodd bynnag, ystyrir fod y safleoedd a ffefrir yn anhebygol o gael ardrawiad negyddol ar adnoddau fel hyn. Bydd polisïau manwl hefyd yn lliniaru yn erbyn effeithiau andwyol.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.102 Rhwng popeth, mae'r Cyd-gynllun Adneuo yn anelu at ddiogelu a hybu treftadaeth, yn ogystal ag osgoi datblygiad a fydd yn cael effaith negyddol ar arwyddocad asedau treftadaeth neu eu lleoliad. Er cydnabod bod gan ddatblygiad y potensial i gael effaith negyddol ar dreftadaeth ystyrir hefyd bod cyfle i sicrhau effeithiau cadarnhaol trwy wella asedau a hyrwyddo gwell mynediad. Mae mesurau lliniaru addas ar gael i fynd i'r afael ag effeithiau

negyddol er mwyn sicrhau nad ydynt yn arwyddocaol; ond mae effeithiau crynodol cyffredinol y Cynllun Lleol ar dreftadaeth yn parhau i fod yn ansicr.

***Cydberthynas gyda phynciau eraill***

6.103 Mae gan Dreftadaeth gysylltiadau gyda nifer o bynciau eraill gan y gall tai a chyflogaeth effeithio ar hyn, yn ogystal â'r amgylchedd naturiol (effeithiau tirwedd). Gall diogelu a hybu treftadaeth gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar gymunedau ac iechyd hefyd.

**Gwastraff ac Ailgylchu**

Pynciau Cyfarwyddeb SEA: Asedau materol
Amcanion Asesiad Strategol perthnasol:

- Amcan Asesiad Strategol 9: Defnyddio pridd ac asedau mwynol yn effeithlon a hybu mecanweithiau i leihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu

***Gwerthusiad o bolisïau'r Cyd-gynllun Adneuo***

6.104 Mae potensial y gall darparu tai a thwf mewn cyflogaeth (Polisïau PS13 a CYF1) gael effaith negyddol ar wastraff o'r byrdymor i'r hirdymor. Yn y byrdymor bydd mwy o wastraff yn cael ei gynhyrchu yn ystod y cyfnodau adeiladu, ac yn yr hirdymor o ganlyniad i'r gwastraff a gynhyrchir o ddydd i ddydd gan y teuluoedd ychwanegol a'r ardaloedd cyflogaeth.

6.105 Mae Polisi Strategol trosfwaol PS5 at Ddatblygu Cynaliadwy yn rhoi blaenoriaeth i wneud defnydd effeithiol o dir, yn arbennig tir sydd wedi cael ei ddefnyddio yn flaenorol, ac mae'n ceisio lleihau effaith datblygiad ar adnoddau lleol; osgoi llygredd, ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu at gadwraeth ynni ac effeithiolrwydd trwy ddefnyddio ynni adnewyddadwy, lleihau ac ailgylchu gwastraff, a defnyddio defnyddiau o ffynonellau cynaliadwy.

6.106 Mae Polisi CYFF1 yn sicrhau bod y datblygiad yn darparu'r ardal amwynderau priodol a'i fod y rhoi sylw priodol i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff. Mae'r polisi hefyd yn amddiffyn iechyd, diogelwch a mwynderau pobl yn ardal leol y datblygiad rhag lefelau annerbyniol o amhariad, dirgryniad, sŵn, llwch, tarthau, sbwriel, draeniad, llygredd aer a niwsans. Mae defnyddio adnoddau yn effeithiol yn fater sy'n cael ei ailadrodd mewn llawer o bolisïau unigol ac mae adran bolisi benodol yn delio â gwastraff, er mwyn sicrhau bod isadeiledd digonol ar gyfer rheoli gwastraff ac ailgylchu dros gyfnod y Cynllun (Polisi G1), ac y gall datblygu rheoli gwastraff ddigwydd y tu allan i ffiniau aneddiadau neu safleoedd a ddyrennir pan fydd angen cydnabyddedig am ddatblygiad o'r fath (Polisi G2). Mae'r polisïau hyn yn darparu mesurau lliniaru priodol ar lefel strategol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol o ganlyniad i'r gwastraff byrdymor neu hirdymor a gynhyrchir o ganlyniad i dwf mewn tai a chyflogaeth.

6.107 Dylid nodi hefyd bod Polisi G3 yn caniatáu ar gyfer trin, storio a gwaredu gwastraff ymbelydrol Lefel Isel ac Isel Iawn, ac yn gosod y meini prawf i wneud y gweithgareddau hynny yn dderbyniol. Mae'r polisi yn cefnogi datblygu'r sector ynni, sydd o berthnasedd mawr yn Ynys Môn a Gwynedd. Mae'r polisi hwn yn bwysig oherwydd y potensial o ddatblygu gorsaf ynni niwclear newydd yn y Wylfa ar Ynys Môn.

***Effeithiau Synergol a Chrynodol***

6.108 Ystyrir bod gan y Cynllun y potensial i gael mân-effeithiau crynodol negyddol ar wastraff ac ailgylchu o'r byrdymor i'r hirdymor trwy ddarparu ar gyfer twf mewn tai, cymuned a chyflogaeth, gan gynyddu cyfradd gyffredinol cynhyrchu a gwaredu gwastraff. Y ffordd y mae Ynys Môn a Gwynedd wedi gweithredu ar hyn yw mabwysiadu dull strategol llyfn a di-dor o gynllunio ac mae gan ardal y Cynllun botensial ar gyfer mân-effaith grynodol gadarnhaol trwy reoli a chynllunio gwastraff mewn ffordd fwy cynaliadwy ar raddfa ehangach.

***Cydberthynas â phynciau eraill***

6.109 Gall gwastraff effeithio yn negyddol yn anuniongyrchol ar ansawdd tir a phridd, iechyd, ansawdd dŵr a'r aer, yn arbennig wrth ymdrin â gwastraff ymbelydrol lefel isel. Ond dylai'r dull o storio a thrin gwastraff a amlinellir uchod sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol anuniongyrchol mawr ar unrhyw un o Amcanion eraill yr Asesiad Strategol.

**Y Berthynas â Chynlluniau a Phrosiectau Perthnasol Eraill (Effeithiau Rhwng Cynlluniau)**

6.110 Wrth ystyried effeithiau'r CDLl ar y Cyd gyda chynlluniau a phrosiectau eraill, rhoddwyd blaenoriaeth i'r dogfennau allweddol a fydd yn effeithio ar gynllunio a datblygiadau ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynnwys: cynlluniau datblygu lleol eraill, cynlluniau trafnidiaeth/seilwaith eraill a strategaethau economaidd. Mae'r cynlluniau a ystyriwyd yn adlewyrchu'r dogfennau hynny sy'n fwyaf perthnasol i arfarniad ar lefel strategol. Nod y dadansoddiad o'r effeithiau rhwng cynlluniau oedd nodi sut y gallai cynlluniau a phrosiectau allweddol eraill effeithio ar gynaliadwyedd Ynys Môn a Gwynedd.

**Tabl 6.1: Effeithiau Cronnus Rhwng Cynlluniau**

| Cynlluniau a Rhaglenni | Effeithiau cyfunol arwyddocaol y CDLl ar y Cyd gyda chynlluniau a rhaglenni eraill |
|---|---|
| Cynlluniau Datblygu Lleol ardaloedd Cyfagos (Parc Cenedlaethol Eryri, Conwy, Powys, Sir Ddinbych, Ceredigion) | **Effeithiau Cadarnhaol**<br>▪ Darpariaeth tai gwell, yn cynnwys tai fforddiadwy i'r boblogaeth sy'n byw/mudo yng Ngogledd Cymru,<br>▪ Mynediad gwell at wasanaethau a chyfleusterau. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Adfywiad economaidd gwell gyda phwyslais lleol penodol.<br>**Effeithiau Negyddol**<br>▪ Pwysau cynyddol ar fannau agored/glas ac asedau bioamrywiaeth o ddatblygiad hamdden, aflonyddwch a datblygiad uniongyrchol.<br>▪ Twf cyffredinol mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr yn sgîl cynnydd mewn traffig/trafnidiaeth ac allyriadau o'r amgylchedd adeiledig.<br>▪ Effeithiau ar yr amgylchedd dŵr (a'r fioamrywiaeth ddibynnol), drwy dwf mewn galw.<br>▪ Cynnydd cyffredinol yng nghwmpas gwasanaethau anhydraidd. |
| Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Taith) a Chanolbarth Cymru (Trac) | **Effeithiau Cadarnhaol**<br>▪ Gwelliannau cynyddol i rwydweithiau trafnidiaeth gynaliadwy (gwelliannau i lwybrau trenau a bysiau yn ogystal â chyfleoedd gwell i gerdded a beicio).<br>▪ Llai o dagfeydd traffig.<br>▪ Cysylltiadau gwell rhwng aneddiadau a mynediad gwell at wasanaethau a chyfleusterau.<br>▪ Mynediad gwell at gyflogaeth a phroses well o symud adnoddau a nwyddau.<br>▪ Gostyngiad mewn llygredd atmosfferig ac allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy rwydweithiau trafnidiaeth gynaliadwy gwell a llai o dagfeydd traffig.<br>**Effeithiau Negyddol**<br>▪ Pwysau cynyddol ar fannau agored/glas, bioamrywiaeth, y tirlun, treftadaeth ddiwylliannol, yr amgylchedd dŵr (yn cynnwys y perygl o lifogydd). |
| Cymru: Economi yn Ffynnu (Llywodraeth Cymru, 2005);<br>Strategaeth Adfywiad Economaidd Ynys Môn (2004 - 2015) a Strategaeth Dwristiaeth Gogledd Cymru (2010 - 2015) | **Effeithiau Cadarnhaol**<br>▪ Mwy o gyfleoedd cyflogaeth ac economi well.<br>**Effeithiau Negyddol**<br>▪ Pwysau cynyddol ar fannau agored/glas, bioamrywiaeth, y tirlun, treftadaeth ddiwylliannol, yr amgylchedd dŵr (yn cynnwys y perygl o lifogydd). |

**Adroddiad Adendwm AC Gorffennaf 2016**

6.111 Cyflwynwyd y CDLl ar y Cyd a thystiolaeth gefnogol, gan gynnwys yr AC, i Lywodraeth Cymru fis Mawrth 2016. Yn syth cyn y cyflwyniad, gosododd Cynghorau Newidiadau Penodol ar y CDLl ar y Cyd Adneuo ar ymgynghoriaeth a ddaeth i ben ar 13 Ebrill 2016. Ar ôl ystyried y sylwadau a

dderbyniwyd ar y Newidiadau Penodol, cynigiodd y Cynghorau nifer o ddiwygiadau ychwanegol posib i'r CDLl ar y Cyd.

6.112 Gofynnodd yr Arolygydd am eglurhad yn ei Nodyn Rhagarweiniol yng nghyswllt y gwahaniaethau yng nghynnwys manwl y polisïau a ystyriwyd drwy'r AC. Eglurwyd hyn mewn manylder pellach yn y cyfarfod cyn-archwiliad ar 14 Mehefin 2016. Gofynnodd yr Arolygydd a oedd yr AC yn ymdrin yn ddigonol â'r agweddau hynny o'r Cynllun a all fod â goblygiadau cynaliadwyedd arwyddocaol. Teimlwyd bod angen sylw pellach ar rai polisïau, er enghraifft, TRA1, CYF3, CYF7 a TAI12. Nodwyd hefyd nad oedd y rhifau polisi y cyfeiriwyd atynt yn adran Adroddiad Adneuo AC bob tro yn cyd-fynd gyda'r rhifau polisi yn y CDLl ar y Cyd Adneuo. Cynhaliodd y Cynghorau waith pellach i ymdrin â sylwadau'r Arolygydd a chyflwynasant ddilyniant o rifau polisi yn ogystal â fersiwn marcio newidiadau o Adran 6 yr Adroddiad AC (CDLl.997) ar 1 Gorffennaf 2016.

6.113 Cynhaliodd y Cynghorau waith pellach hefyd yng nghyswllt asesiad o anghenion ac adnabod dewisiadau safle ar gyfer y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr o fewn ardal y Cynllun, a'r posibilrwydd o ddatblygu ynni adnewyddadwy. Darganfu sgriniad ar y diwygiadau arfaethedig yn dilyn ymgynghoriad ar y Newidiadau Penodol mai mân newidiadau oedd yr holl newidiadau ac nad oeddynt yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu rhagor o eglurhad neu sicrhau cysondeb. Cyflwynwyd adroddiad Adendwm yr AC i'r Arolygwr er ystyriaeth ym mis Gorffennaf 2016, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Adroddiad AC terfynol hwn (dogfen Archwilio DA021).

## 7. AC o NMC AC ARGYMHELLION YR AROLYGYDD

7.1 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau AC y Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC ac ANMC) a argymhellwyd gan yr Arolygydd.

**AC o NMC**

7.2 Cynigiwyd nifer o newidiadau i'r CDLl ar y Cyd a ddaeth i'r amlwg o ganlyniad i faterion a ystyriwyd yn ystod Sesiynau Gwrandawiad y CDLl ar y Cyd. Roedd yn bwysig sicrhau bod unrhyw newidiadau arfaethedig yn cael eu sgrinio drwy'r broses AC i benderfynu a fuasent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol a gyflwynwyd yn yr Adroddiad AC (Chwefror 2016) a ph'un ai oedd angen rhagor o waith arfarnu. Cynhyrchwyd Adroddiad Adendwm AC i ddogfennu yr asesiad (Dogfen archwiliad DA041) a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Adroddiad Terfynol hwn.

7.3 Felly, y cam cyntaf yn yr asesiad oedd sgrinio bob NMC i adnabod y rheiny allai gael effaith sylweddol ar y canfyddiadau terfynol sy'n deillio o weithredu'r Cynllun. Gosodwyd bob NMC mewn atodlen. Er mwyn hwylustod wrth ei ddefnyddio, gosodwyd elfennau'r Cynllun sydd yn gaeth i NMC yn yr un drefn â'r Cynllun Adneuo. Cofnodwyd canfyddiadau'r gwaith sgrinio mewn colofn yn erbyn bob NMC.

7.4 Roedd y newidiadau yn cynnwys symud y cyfeiriad at y dyraniad tai ym Miwmares (T32) o Bolisi TAI 15 i TAI 5. Wrth ymgymryd â Sgrinio AC yr atodlen NMC, daeth yn amlwg nad oedd y safle wedi ei sgrinio yn yr asesiad gwreiddiol. Felly, cyflwynwyd arfarniad o'r safle hefyd yn yr Adroddiad Adendwm, y cyfeirir ato ym mharagraff 7.2 uchod.

7.5 Darganfu'r sgriniad mai mân oedd yr holl newidiadau arfaethedig ac nad oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu rhagor o eglurhad neu sicrhau cysondeb. Roedd yr Adroddiad Adendwm yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r Newidiadau Materion sy'n Codi am gyfnod o chwe wythnos yn dechrau Ionawr 2017.

**AC o ddiwygiadau i'r Atodlen NMC gwreiddiol ac Argymhellion yr Arolygydd**

7.6 Roedd Atodlen Newidiadau Materion sy'n Codi (DA.039 a DA.040) yn destun ymgynghoriad cyhoeddus o 23 Ionawr hyd at 9 Mawrth 2017. Ystyriodd y Cynghorau sylwadau ynghylch y Newidiadau Materion sy'n Codi. Cynhaliwyd dau Sesiwn Gwrandawiad ychwanegol ar 26 a 27 Ebrill er mwyn ystyried materion yn ymwneud â sylwadau a gyflwynwyd ynghylch y NMC. Arweiniodd ystyriaeth i'r sylwadau a'r drafodaeth yn y Sesiynau Gwrandawiad at nifer o ddiwygiadau i'r Atodlen Newidiadau Materion sy'n Codi gwreiddiol. Cyhoeddwyd Atodlen derfynol o Newidiadau Materion sy'n Codi ar 8 Mai 2017 a chafodd ei hystyried gan yr Arolygydd cyn iddo gwblhau ei adroddiad yn derfynol. Mae Atodiad 10A yn cynnwys asesiad sgrinio AC y diwygiadau

uchod, sydd wedi'u nodi mewn coch. Darganfu'r sgriniad mai mân oedd yr holl newidiadau arfaethedig ac nad oeddent yn effeithio'n sylweddol ar ganfyddiadau gwaith yr AC blaenorol gan eu bod yn ceisio darparu rhagor o eglurhad neu sicrhau cysondeb.

7.7 Ar ** Mehefin 2017, cyflwynodd yr Arolygydd Cynllunio adroddiad a gasglodd bod CDLl ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn yn darparu sail briodol ar gyfer cynllunio'r Siroedd hyd at 2026 yn amodol ar Newidiadau Materion sy'n Codi a nodwyd yn Atodiad A a B yn ei adroddiad. Gyda'r newidiadau a argymhellwyd, mae'r Cynllun yn bodloni gofynion adran 65(5) Deddf 2004 ac yn diwallu'r profion cadernid a nodwyd yn y polisi cenedlaethol.

7.8 Yn ogystal â'r Newidiadau Materion sy'n Codi a gynigiwyd gan y Cynghorau, gwnaeth yr Arolygydd un Newid Materion sy'n Codi (ANMC) gorfodol i'r CDLl ar y Cyd, a nodir yn Atodiad B ei adroddiad. Mae'r Arolygydd yn casglu na wnaeth y newid danseilio'r prosesau AC, AAS a'r ARC a gynhaliwyd, ac nid yw'n cyfaddawdu strategaeth y Cynllun chwaith. Sgriniwyd yr ANMC er mwyn pennu a oedd y newidiadau yn sylweddol ac a fyddai'n golygu effeithiau cynaliadwyedd arwyddocaol.

7.9 Mae Atodiad 10B yn cynnwys asesiad sgrinio ar gyfer y newid hwn ac mae'n cynnwys sylwebaeth ar oblygiadau'r newid ar Arfarniad Cynaliadwyedd y CDLl ar y Cyd. Casglwyd na fyddai’r newid yn cael effeith arwyddocaol ar faterion cynaliadwyedd ac AC cyffredinol y Cynllun, yn unol â chanfyddiadau'r Arolygydd.

# 8. MONITRO

## Cyflwyniad

8.1 Mae Cyfarwyddeb AAS yr UE a Rheoliadau AAS y DU yn gofyn bod effeithiau amgylcheddol arwyddocaol (cadarnhaol a negyddol) o weithredu'r Cynllun yn cael eu monitro er mwyn adnabod effeithiau na ragwelwyd yn y dyddiau cynnar ac er mwyn gallu cymryd camau adfer priodol.

8.2 Felly, mae angen datblygu strategaeth fonitro er mwyn asesu perfformiad y CDLl ar y Cyd yn erbyn yr AC fel y gellir adnabod unrhyw broblemau amgylcheddol sy'n codi o ganlyniad i weithredu'r cynllun.

## Datblygu'r Fframwaith Fonitro

8.3 Mae canllaw Llywodraeth Prydain ar AG/AAS yn cynghori y dylid defnyddio trefniadau monitro sy'n bodoli ble fo'n bosib, i osgoi dyblygu. Cadarnheir y dull hwn gan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, sydd yn cynghori y gellir integreiddio monitro AAS gyda'r Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB), gofyn statudol ar gyfer y CDLl. Ystyrir bod Adroddiad Monitro'r Cynllun yn ddigonol i sicrhau bod monitro priodol yn digwydd yng nghyswllt yr AAS/AC.

8.4 Nid oes unrhyw ddarpariaeth statudol eglur ynghylch monitro yn dilyn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Fodd bynnag, byddai monitro priodol ar effeithiau cynllun ar unrhyw safleoedd Ewropeaidd yn ddarpariaeth ddoeth yn y cynigion monitro i'w hymgorffori yn yr AC/AAS a'r AMB. Mae cyflwr safleoedd Ewropeaidd yn cael ei fonitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a gallai hyn gael ei effeithio gan amryw o ffactorau nad ydynt dan ddylanwad y Cynllun.

8.5 Mae fframwaith fonitro AC yn nhabl 8.1 yn adnabod yr 11 amcan AC, ac yn darparu is-set o 16 targed AC posib. Mae’r tabl hefyd yn darparu cyfres o ddangosyddion AC posib. Bwriedir bod sgôp y monitro AMB yn ymgorffori'r dangosyddion hyn.

8.6 Mae monitro'r Cynllun yn ymwneud ag asesu perfformiad polisïau wrth gyflawni Strategaeth y Cynllun a chyflawni ei amcanion, ac mae nifer yn cysylltu'n uniongyrchol gyda datblygiad cynaliadwy. Felly, mae cryn orgyffwrdd rhwng fframwaith fonitro'r Cynllun a'r monitro AC a awgrymwyd. Felly, ble fo'n briodol yn yr AMB bydd bob un o amcanion yr AC yn cael eu hasesu yn erbyn dangosyddion monitro'r Cynllun sy'n berthnasol i'r amcanion cynaliadwyedd. Er mwyn pwysleisio'r dull integredig, mae Tabl 9.1 yn adnabod dangosyddion y Cynllun, y credir fod ganddynt berthynas uniongyrchol gyda thargedau a dangosyddion AC posib.

8.7 Rhestrir dangosyddion AC posib a adnabuwyd fel rhan o'r Fframwaith AC ac a ddefnyddir fel rhan o'r broses fonitro yn nhabl 9.1 isod. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu targedau posib fel y gellir mesur perfformiad y CDLl ar y Cyd yn erbyn amcanion yr AC.

**7.**

**Tabl 7.1: Targedau potensial a dangosyddion**

| | Targedau Potensial | Dangosyddion Potensial | Dangosyddion y Cynllun |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC: Bioamrywiaeth** | | | |
| **1.** | Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd | ▪ Colled bioamrywiaeth drwy ddatblygiad sy'n cael ei fesur drwy golled neu ardrawiad i safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl.<br>▪ Gwir golled bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun oherwydd datblygiad.<br>▪ % o nodweddion (gwahanol fathau) mewn cyflwr ffafriol, gan gynnwys nodweddion ar y tir ac ar y môr<br>▪ Llwyddiant amcanion a thargedau BAP (DU a gwledydd penodol/rhanbarthol/ lleol)<br>▪ Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhan 42 rhywogaethau / cynefinoedd.<br>▪ Nifer ac arwynebedd SINCs a GNL o fewn y Cynllun. | ▪ D59 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd bioamrywiaeth<br>▪ D60 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd a ddynodwyd. |
| **Amcan AC: Cymuned a Iechyd** | | | |
| **2.** | Gwella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng ardaloedd a grwpiau cymdeithasol.<br><br>Gwella rhyngweithiad a chynhwysiad cymunedol. | ▪ % cyfanswm poblogaeth gyda mynediad at wasanaethau allweddol.<br>▪ Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.g. gorbwysedd) – Arolwg Iechyd Cymru. | ▪ D5 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr.<br>▪ D6 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau cymunedol. |

| **Amcan AC: Newid Hinsawdd** | | | |
|---|---|---|---|
| **3.** | Lleihau achosion newid hinsawdd ac addasu i'r ardrawiadau | ▪ % newid mewn allyriad carbon deuocsid gan ddiwydiant /masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd a'r sector coedwigaeth. | ▪ D7 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen ar fannau agored.<br>▪ D9 Paratoi Canllawiau Atodol yn ymwneud â darparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd.<br>▪ D12 Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio |
| **Amcan AC: Yr Iaith Gymraeg** | | | |
| **4.** | Hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg | ▪ Nifer/ % siaradwyr Cymraeg | ▪ D1 % Siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd.<br>▪ D4 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. |
| **Amcan AC: treftadaeth/diwylliant** | | | |
| **5.** | Gwarchod a hyrwyddo'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol | ▪ Nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg | ▪ D62 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir mewn Ardaloedd Cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n effeithio ar eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol.<br>▪ D63 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth. |
| **Amcan AC: Economi, cyflogaeth** | | | |
| **6.** | Gwella a mwyhau cyfleoedd cyflogaeth, gan gynnwys mewn ardaloedd gweldig. | ▪ Actifedd economaidd fesul sector<br>▪ Statws cyflogaeth preswylwyr dros 16 mlwydd oed. | ▪ D35 Statws cyflogaeth pobl 16+ oed.<br>▪ D36 Nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Develop a prosperous economy across all sectors for all residents. | ▪ Nifer o bobl yn cymudo i fewn ac allan o ardaloedd awdurdodedig. | Wynedd. |
| **Amcan AC: Tai, forddiadwy** | | | |
| **7.** | Gwella ansawdd ac argaeledd y stoc dai bresennol ble bo'i angen.<br><br>Danfon tai fforddiadwy sy'n diwallu angen lleol. | ▪ Nifer o unedau tai fforddiadwy sy'n cael ei ddarparu bob blwyddyn fel canran o'r holl unedau. | ▪ D47 Cyfanswm nifer tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun. |
| **Amcan AC: Tirwedd a threfwedd** | | | |
| **8.** | Gwarchod a mwyhau'r tirwedd trefol a gwledig. | ▪ Cyfran o'r tirwedd o ansawdd uchel/uchel iawn fel mae wedi ei adnabod gan TIRMAP<br>▪ Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE<br>▪ Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio'n bwysig gan LANDMAP | ▪ D61 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr mewn Ardal o Harddwch naturiol Eithriadol (AHNE).<br>▪ D24 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio. |
| **Amcan AC: Tir, mwynau a gwastraff** | | | |
| **9.** | Lleihau gwastraff a hyrwyddo ailgylchu, ail-ddefnyddio ac adferiad. | ▪ % cyfradd datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.<br>▪ % gwastraff bwrdeistrefol a yrrwyd i'w dirlenwi<br>▪ % ail-ddefnyddio / ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol | ▪ D19 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd eisioes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn.<br>▪ D64 Swm o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yn ardal y Cynllun. |
| **Amcan AC: Trafnidiaeth a mynediad** | | | |
| **10.** | Lleihau'r angen i deithio a lleihau'r | ▪ Dull o deithio i'r gwaith - % o'r boblogaeth weithiol | ▪ D12 Nifer o geisiadau cynllunio |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nifer o siwrneai gyda ceir preifat.<br><br>Gwella mynediad at opsiynau trafnidiaeth cynaladwy. | sy'n teithio gyda car<br>▪ Canran datblygiad preswyl o fewn 30 munud (amser trafnidiaeth trafnidiaeth gyhoeddus)<br>▪ Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan drafnidiaeth cyhoeddus, cerdded a beicio.<br>▪ % cynnydd yn y thwyfwaith beicio<br>▪ Cyfradd adnoddau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur. | gydag Asesiad Teithio. |
| **Amcan AC: Dŵr a pheryfl llifogydd** | | | |
| **11.** | Gwella ansawdd dŵr a hyrwyddo rheolaeth cynaladwy dŵr.<br><br>Lleihau'r risg o lifogydd i bobl a chartrefi | ▪ % o ddatblygiadau newydd gyda systemau draenio cynaladwy.<br>▪ % cyrff dŵr gyda statws ecolegol da neu potensial<br>▪ Cyfradd / nifer absoliwt o ddatblygiadau yn C1 ac C2 (fel y'i diffinnir yn NCT15). | ▪ D17 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir gan gategori NCT 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1.<br>▪ D18 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed a ganiateir mewn ardaloedd gorlifdir C2. |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

## ADRODDIAD CWMPASU AC, 2011

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| **PENNOD 1: CYFLWYNIAD** | | | | |
| **1.** | CCGC | Adran 1.7: Yn ogystal, dylid ei gwneud yn glir, gan fod y broses AAS yn gofyn am roi ystyriaeth i gynllun / rhaglen amgen ac yn gofyn am i ganlyniadau'r asesiad gael eu cymryd i ystyriaeth yn y cynllun / rhaglen derfynol, y dylai'r cynllun / rhaglen , yn sgil hynny, osgoi effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn ogystal â lliniaru ardrawiadau o'r fath. | Derbyn yr argymhelliad | **DA1** |
| **2.** | Grŵp Cynaladwyedd | Camsillafu yn y pwynt bwled cyntaf – dylai ddarllen 'Natura 2000' | Derbyn yr argymhelliad | **DA2** |
| **3.** | CCGC | Mae'n datgan fel a ganlyn: "Dylai unrhyw gynllun neu brosiect sy'n debygol o gael ardrawiad sylweddol ar safle dynodedig dderbyn Asesiad Priodol o'i oblygiadau ar amcanion cadwraeth y safle." Mae hyn yn wir am safleoedd Natura 2000 yn unig – angen eglurhad yn y testun. | Derbyn yr argymhelliad | **DA3** |
| **4.** | Grŵp Cynaladwyedd | NCT 5 (2009) wedi'i fabwysiadu – nid yw ar ffurf drafft mwyach. | Derbyn yr argymhelliad | **DA4** |
| **5.** | YDCW (Cangen Môn) | Para 1.21 "Drwy gefnogi sefydlu defnyddiau ar gyfer cyflogaeth newydd." Byddai enghraifft i ddangos beth a olygir yn y cyd-destun hwn yn ddefnyddiol. | Mae'r UPCC ar y cyd yn cytuno bod y frawddeg yn annelwig fel y mae. | **DA5** |
| **6.** | John Rowlands | Cynaladwyedd – diffiniad gwan. "Datblygiad cynaladwy yw'r broses a fydd yn arwain at gyrraedd y nod o gynaladwyedd." Byddwn i yn awgrymu'r hyn a ganlyn fel diffiniad sy'n rhoi llawer mwy o wybodaeth. "Datblygiad cynaladwy yw datblygiad sy'n bodloni anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain." | Cytunir bod y diffiniad o ddatblygiad cynaladwy yn annelwig. Yn ogystal, nodir bod diffiniad mwy cywir o ddatblygiad cynaladwy wedi'i gymryd o'r ddogfen 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned 2009' i'w weld ym mharagraff 1.5. Felly, mae'r diffiniad ym mharagraff 1.6 yn ailadrodd yn ddiangen a dylid ei ddileu. | **DA6** |
| **3. BIOAMRYWIAETH** | | | | |
| **7.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r bocs y materion allweddol o'r dadansoddiad gwaelodlin:<br>• Bygythiadau i gyfanrwydd a pharhad nodweddion bioamrywiaeth | Derbyn yr argymhelliad | **DA7** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| **6.** | YDCW (Cangen Môn) | Paragraff 3.8 Negeseuon Allweddol - y frawddeg olaf fel a ganlyn: 'Nodweddion y dirwedd sydd o bwysigrwydd mawr.' Sut y diffinnir y rhain a sut y cânt eu hadnabod? | Mae 'Nodweddion y dirwedd sydd o bwysigrwydd mawr' yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at gynefinoedd a rhywogaethau ynghyd â safleoedd dynodedig megis ADdGA sy'n bwysig o ran eu gwerth bioamrywiaeth a'u gwerth ecolegol. Barn y UPC ar y Cyd yw nad yw'n angenrheidiol cynnwys manylion penodol o'r fath nodweddion yn y rhan hon o'r adroddiad. Dim newid. | **Amherthnasol** |
| **7.** | CCGC | Mae llawer o ardaloedd pwysig am fioamrywiaeth yng Ngwynedd a Môn wedi'u dynodi fel Safleoedd o Ddiddordeb Cadwraeth Natur. Mae'n bwysig bod gwerth bioamrywiaeth ardaloedd sydd heb eu dynodi yn cael eu hasesu yn y dogfennau cwmpasu. Gall Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru, COFNOD ac ecolegwyr eich awdurdodau eich helpu i ddatblygu'r sefyllfa bresennol a'r tueddiadau sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn. | Derbyn yr argymhelliad Yn disgwyl data. | |
| **8.** | CCGC | Yn unol â Deddf NERC 2006, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rhestr o organebau a chynefinoedd yr ystyrir eu bod o bwysigrwydd pennaf at ddiben gwarchod bioamrywiaeth. Bydd rhaid i chi ystyried y rhestr hon ar y cyd â Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y DU a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. | Mae'r AC yn cynnwys Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Gwynedd a Môn a Deddf NERC yn ei adolygiad o gynlluniau a rhaglenni. Golyga hyn y bydd gofynion y rhain yn cael eu hystyried ym mhroses y cynllun. Yn ogystal, nodir bod y rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau y cyfeirir ati yn cael ei chynnwys fel dangosydd yn yr AC. | **Amherthnasol** |
| **4. CYMUNEDAU** | | | | |
| **9.** | YDCW (Cangen Môn) | Paragraff 4.3 'Mewnfudiad categori oedran 45-64'. Yn gyffredinol, mae'n hysbys nad yw cyfran sylweddol o'r categori oedran hwn yn chwilio am waith mewn gwirionedd ond yn hytrach maent yn chwilio am ffordd o fyw hawsach wrth fyw ar fudd-daliadau. Rydym yn gwybod bod hyn yn cael effaith andwyol ar ein poblogaeth gynhenid o ran ein hiaith a'n diwylliant. Mae profiad yn ein hysgolion yn ddangosyddion o'r tranc hwn. | Nid rôl yr Adroddiad Cwmpasu na'r CDLlar y Cyd yw rhwystro mewnfudwyr yn y categori oedran rhwng 45 -64 mlwydd oed rhag byw ar fudd-daliadau. Dylid nodi'n ogystal bod nifer o amcanion y Fframwaith AC â'r bwriad o hwyluso cadw pobl ifanc yn eu cymunedau lleol eu hunain. Dim newid. | **Amherthnasol** |
| **10.** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones | Rhaid gwneud llawer mwy i wella adeiladau ein hysgolion - gan fod addysg mor bwysig, mae'n rhaid iddo gael blaenoriaeth o fewn ein cyllidebau - rydym angen coleg addysg bellach yng Nghaergybi ac mae gennym brif safle yn hen Ysgol Cybi ger Ysgol Uwchradd Caergybi. | Nid yw'r angen i wella cyflwr adeiladau ysgolion yn fater i Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad Cynaladwyedd fynd i'r afael ag o. Dim newid. | **Amherthnasol** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | | **5. FFACTORAU HINSODDOL** | | |
| **11.** | John Rowlands | "Yr angen i gyfrannu at leihau nwyon tŷ gwydr drwy leihau'r defnydd o ynni a chynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy." Yn amlwg, mae hyn yn hanfodol, ond pa mor hawdd yw hi i'r boblogaeth gyffredin gymryd rhan mewn materion ynni adnewyddadwy? Efallai mai diwydiant yw'r ateb ond mae hyn angen dosbarthiad ynni canolog (grid) ond fel arfer, nid yw hyn yn cydweddu â chysyniadau cynaladwyedd, sy'n rhagweld cymunedau ac unigolion yn cynhyrchu trydan. | Mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu mater sydd wedi'i nodi yn un pwysig o ran cyflawni datblygiad cynaladwy. Mae'n amlinellu amcan y gellid ei gyflawni drwy gyfrwng polisïau'r Cynllun drwy annog datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr, graddfa wedi'i ganoli a graddfa llai cymunedol neu micro-adnewyddadwy. Dim newid. | **Amherthnasol** |
| **12.** | CCGC | Paragraff 5.2 – Yn ogystal ag "amcangyfrifon cyfredol " yn y ddogfen gwmpasu, dylid cynnwys yr hyn a ganlyn: Fel y gwelir mewn rhannau eraill o'r DU, mae'n debyg y bydd ardrawiadau yng Nghymru yn cynnwys tymheredd uchel gydol y flwyddyn, stormydd amlach, lefel y môr yn codi, stormydd ymchwydd amlach, glawiad ychwanegol, mewnlif ychwanegol mewn aberoedd a'r môr, newid i'r patrwm glawiad yn ystod y flwyddyn (gaeafau gwlypach, hafau sychach) a mwy o anwedd-drydarthiad o blanhigion, cyrff dŵr a phriddoedd). | Derbyn yr argymhelliad | **DA8** |
| **13.** | CCGC | Yn ogystal, dylid amlygu bod problem ynghylch ansawdd yr aer a'i ardrawiad ar gynefinoedd, yn enwedig dyddodiad asid ac ewtroffigedd (eisoes wedi'i nodi yn y waelodlin fel mater i safleoedd Natura 2000). | Derbyn yr argymhelliad | **DA9 a D10** |
| **14.** | Bourne Leisure | Er bod newid hinsawdd wedi'i nodi fel mater allweddol ym Mhennod 5 'Ffactorau Hinsoddol', nodir nad yw'r perygl cynyddol o lifogydd ac erydiad arfordirol yn cael eu nodi fel pryderon allweddol.<br><br>Gan ystyried natur arfordirol ardal y CDLl ar y Cyd, mae'n hanfodol bwysig bod y Cynllun Datblygu sydd ar fin cael ei gyhoeddi yn ceisio sicrhau bod datblygiadau newydd yn medru gwrthsefyll llifogydd ac yn medru addasu i effeithiau llifogydd ac yn cymryd i ystyriaeth cynaladwyedd hirdymor y datblygiad yn ogystal â'r amgylchedd.<br><br>Felly, mae angen i 'Ffactorau Hinsoddol' ganolbwyntio nid yn unig ar achos newid hinsawdd, h.y. nwyon tŷ gwydr, ond hefyd y canlyniadau, gyda phwyslais yn benodol ar y perygl cynyddol o lifogydd arfordirol ac erydiad arfordirol. | Cytuna'r CDLl ar y Cyd y dylid gwneud cyfeiriad penodol at y perygl cynyddol o lifogydd oherwydd newid hinsawdd ac y dylai hwn gael ei nodi fel mater allweddol yn y bennod ar 'Ffactorau Hinsoddol.' Yn ogystal, dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau bod datblygiad newydd yn medru gwrthsefyll effeithiau llifogydd ac yn medru addasu i effeithiau llifogydd. | **DA11 a DA12** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 15. | Bourne Leisure | O ran perygl llifogydd, mae angen i faterion yn yr Adroddiad Cwmpasu gael eu drafftio fel eu bod yn cymryd ystyriaeth lawn o nodweddion penodol ystod eang o ddefnyddiau tir a'u bregusrwydd gan gynnwys datblygiadau twristiaeth. Er enghraifft, mae'n rhaid i rai defnyddiau twristiaeth fod yn agos at ddŵr neu barhau i fod yn agos at ddŵr. Yna, bydd rhaid ystyried p' un a yw'r perygl gweddillol o lifogydd i bobl ac eiddo yn dderbyniol ac y gellir ei reoli'n foddhaol a pha un ai a yw'r datblygiad arfaethedig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i leihau'r perygl o lifogydd neu i reoli'r perygl hwnnw.<br><br>O ran datblygiadau presennol o fewn y parth arfordirol, dylid nodi fel mater allweddol bod angen i weithredwyr / perchnogion datblygiadau twristiaeth sicrhau a darparu adeiladwaith ar gyfer diogelu'r arfordir, gwaith cynnal a chadw a gwella er mwyn diogelu eu heiddo a'u busnesau. | Mae'r CDLl ar y Cyd yn cytuno y dylai'r math o ddatblygiad a nodir ym mhwynt bwled 6 gael ei ehangu i gynnwys pob mathau o ddatblygiadau gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â thwristiaeth. | **DA13** |
| **6. TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL** | | | | |
| 16. | Grŵp Cynaladwyedd | Angen gwirio os yw'r ffigwr o 12% "mewn perygl " yn ystadegau diweddaraf. | Mae'r ffigwr yn cynrychioli'r data gorau sydd ar gael ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r CDLl ar y Cyd yn cydnabod y dylai'r dyddiad gael ei gynnwys yn y testun. | **DA14** |
| 17. | Grŵp Cynaladwyedd | Cywiriad – dylai'r dyddiad fod yn 1986. | Derbyn yr argymhelliad | **DA15** |
| 18. | CCGC | Yn ogystal, rydym yn awgrymu y dylid ystyried nodweddion ychwanegol o ddiddordeb diwylliannol nad ydynt wedi'u dynodi, e.e. strwythurau amaethyddol, systemau ffyrdd hynafol, terfynau a systemau caeau, coed hynafol a rhai sydd o ddiddordeb diwylliannol ac ati. Argymhellir hefyd y dylid cynnwys cyfeiriad at yr wybodaeth am Dreftadaeth Ddiwylliannol yn LANDMAP. | Derbyn yr argymhelliad | **DA16 a DA19 a DA49** |
| 19. | Grŵp Cynaladwyedd | Materion Allweddol – ychwanegu 'Colli nodweddion y dirwedd hanesyddol'. | Derbyn yr argymhelliad | **DA17 a DA26** |
| 20. | Grŵp Cynaladwyedd | Cyfleoedd - ychwanegu 'y tirlun pensaernïol, y dreftadaeth adeiledig a'r dirwedd hanesyddol'. | Derbyn yr argymhelliad | **DA18** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **21.** | John Rowlands | Treftadaeth Ddiwylliannol: diffiniad cul o dreftadaeth. Mae treftadaeth yn cynnwys llawer mwy o agweddau na'r hyn a nodir yn y ddogfen. O bwysigrwydd arbennig yw'r diddordeb cynyddol a'r potensial sylweddol mewn 'twristiaeth tawelwch' ('tranquility tourism). Mae ardaloedd eang ym Môn a Gwynedd sydd â ffurfafen y nos sy'n sylweddol dywyllach na'r ffurfafen a welir dros lawer o weddill y DU. Awgrymaf y dylid ystyried pwysigrwydd tywyllwch y ffurfafen yn y nos yn y ddogfen. | Derbyn yr argymhelliad | **DA27 a DA30 a DA70** |
| **22.** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones | SAFLEOEDD TREFTADAETH - ar hyn o bryd ychydig iawn o ran cynnal a chadw sy'n cael ei wneud i nifer fawr o adeiladau treftadaeth - mae gennym strwythur unigryw yng Nghaergybi, sef y Morglawdd Mawr. Mae mewn perygl i'r môr dorri drwyddo gan nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw. Mae'r eitem hon yn cael ei chynnwys dan eich rhaglen Dyfodol yr Economi. | Mae Adroddiad Cwmpasu'r AC yn nodi'r angen i ddiogelu safleoedd treftadaeth pwysig a'r amgylchedd hanesyddol rhag difrod allai ddigwydd yn sgil datblygiad. Yn dilyn hyn, bydd y Fframwaith AC a ddefnyddir ar gyfer asesu'r Cynllun yn cynnwys amcan sy'n ceisio "diogelu, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol". Bydd hyn yn sicrhau na fydd polisïau a chynigion y cynllun sydd ar fin cael ei gyhoeddi yn cael effaith andwyol ar nodweddion treftadaeth ddiwylliannol yn ardal y Cynllun. Mae cynnal a chadw'r adeiladau treftadaeth y tu allan i gylch gwaith yr AC a'r CDLl ar y Cyd. | **Amherth nasol** |
| **23.** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones | YR IAITH GYMRAEG – mae angen i'r Gymraeg fod yn rhan o fywyd pob dydd yn ein hysgolion. Mae angen i'r iaith fod yn rhan o ffordd o fyw'r plant ac nid yn ail iaith fel y mae rhai o'n hysgolion yn gweithredu. Dylai cynlluniau tai newydd ymdoddi i fywyd Pentref, gyda ffafriaeth yn cael ei roi i deuluoedd lleol a bod canolbwyntiau o fewn y datblygiadau, megis parc bychan ac y rhoir anogaeth i siop bentref. Dylai trefi mawr gael cynlluniau arbennig wedi'u teilwra ar gyfer pobl ifanc er mwyn iddynt fedru datblygu eu sgiliau yn yr iaith Gymraeg. | Nid rôl Adroddiad Cwmpasu'r AC na'r CDLl ar y Cyd yw hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion. Noda'r Adroddiad Cwmpasu bod angen hwyluso cadw a gwella'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig fel rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol. Ymgymerir ag Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn y gwahanol gamau o'r broses datblygu'r cynllun a bydd hynny'n sicrhau bod yr iaith yn cael ei diogelu a'i mwyhau ble bynnag y bo'n bosib. O ran yr angen i ddarparu tai ar gyfer teuluoedd lleol, eir i'r afael a hyn gan un o'r amcanion yn y Fframwaith AC sy'n datgan bod angen "darparu tai o ansawdd da, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol". Dim newid. | **Amherth nasol** |
| **24.** | R. Parri ar ran Tanc Meddwl | Rydym yn galw i'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Mon a Gwynedd i ystyried y canlynol mewn unrhyw strategaeth yn y dyfodol: | Mae'r Adroddiad Cwmpasu'n nodi'r sefyllfa gyfredol o ran yr iaith Gymraeg ynghyd â'r tueddiadau mewn gwahanol | **Amherth nasol** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | Cymuned Môn | i) Adroddiad gan Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y cysyniad o Ardaloedd Datblygu Iaith mewn cymunedau gyda dros 60% o siaradwyr Cymraeg.<br>ii) Adroddiad Cyngor Bwrdeistrefol Wrecsam ar y cysyniad o Ardaloedd Cadwraeth yr Iaith mewn cymunedau gyda dros 20% o siaradwyr Cymraeg.<br>iii) Sefyllfa gyhoeddus presennol (Cyfrifiad 1991) o'r Iaith Gymraeg yn Ynys Môn a'r ffaith mai dim ond cymuned yn nghanol Ynys Môn oedd gyda dros 75% o siaradwyr Cymraeg. Yn ôl tystiolaeth gwyddonol rhyngwladol, yr ardaloedd hyn oedd yr ardaloedd ble 'roedd y Gymraeg yn iaith hyfyw yn y gymuned.<br>iv) Ardrawiad hwb Bangor ar hyfywdra'r Iaith Gymraeg yn yr ardaloedd hynny rhwng Llanfairpwllgwyngyll a Llangefni ac ardaloedd cyfagos. Bastiwn olaf yr iaith Gymraeg yn Ynys Môn.<br>v) Effaith tebygol datblygu pwerdy niwclear yn ngogledd-orllewin Ynys Môn ar gymunedau arfordirol yn rhan hwn o ynys Môn.<br>vi) Effaith hirdymor gor ddatblygu ers y 1960au ar iaith, ethnigrwydd a demograffi yn ystod y cyfnod. Bydd y duedd hon yn parhau yn y dyfodol os yw cynllunio pellach yn cael ei seilio ar y strategaethau uchod.<br><br>Yn ogystal â hyn, rydym yn galw ar Uned yr Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru i oruchwylio popeth ac yn galw am gonsensws gwleidyddol yn y Senedd ac yng nghynghorau Gwynedd a Môn i ddeddfu ar y canlynol. Rydym yn galw ar sefydlu'r canlynol ym Môn a Gwynedd wedi ei seilio ar Gyfrifiadau 2011 a 2001:<br>i) Sefydlu Ardaloedd Datblygu Iaith (wedi ei seilio ar gyfrifiadau 2011 a 2001) ac fe fyddant yn cynnwys bob cymuned sy'n bodoli yn 2011 ac a oedd yn bodoli yn 2001 gyda dros 60% o siaradwyr Cymraeg.<br>ii) Sefydlu Ardaloedd Datblygu Iaith (wedi ei seilio ar gyfrifiadau 2011 a 2001) ble mae dros 20% yn siaradwyr Cymraeg. | rannau yn ardal y Cynllun. Adnabuwyd y materion allweddol sy'n wynebu'r iaith o'r dadansoddiad hwnnw. Bydd unrhyw gynigion neu bolisïau yn y CDLl ar y Cyd yn cael eu hasesu yn erbyn Fframwaith yr AC sy'n cynnwys amcanion sydd â'r bwriad o ddiogelu'r iaith oddi wrth effaith andwyol unrhyw ddatblygiadau.<br><br>Bydd y CDLl ar y Cyd sydd ar fin ei gyhoeddi yn destun Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG). Golyga hyn bod pob safle, pob polisi a phob cynnig a gynhwysir yn y cynllun yn cael ei asesu yn erbyn meini prawf penodol sydd â'r bwriad o ddiogelu diddordebau'r iaith Gymraeg gan liniaru unrhyw effaith andwyol gaiff y datblygiad arni.<br><br>Seilir AEIG y CDLl ar y Cyd ar yr egwyddorion yn yr adroddiad "Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005)." Er na chafodd y ddogfen ei mabwysiadu'n ffurfiol fel rhan o bolisi cenedlaethol a system ganllawiau, cydnabyddir mai'r Iaith Gymraeg: Y Ffordd Ymlaen (2005) yw'r unig fath o ganllaw ar y modd y dylid ymgymryd ag Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg.<br><br>Defnyddir ystadegau manwl ynghylch yr iaith Gymraeg (gan gynnwys y tueddiadau), fel sail ar gyfer penderfyniadau yn yr asesiad. Bydd y broses o asesu effaith y CDLlar y Cyd ar yr iaith Gymraeg yn un ailadroddus a bydd gwaith yn parhau fel y bydd y Cynllun yn esblygu.<br><br>Bydd y Fframwaith AC, a fydd yn cael ei ddefnyddio yn y gwahanol gamau o'r cynllun yn cynnwys amcan sydd â'r bwriad o ddiogelu'r iaith a gwella sefyllfa'r iaith Gymraeg. Cafwyd yr amcan hwn mewn dadansoddiad o sefyllfa bresennol yr iaith Gymraeg ym Môn a Gwynedd. Felly, bydd proses yr AC yn diogelu'r iaith Gymraeg rhag datblygiadau andwyol. | |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | Bydd unrhyw ddatblygiad sy'n gysylltiedig â datblygiad cynnig Wylfa B yn destun Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg ffurfiol ar wahân i AEIG y CDLl ar y Cyd. Bwriad asesiad o'r fath yw lliniaru unrhyw effaith negyddol posib gaiff datblygiad ar yr iaith Gymraeg.<br><br>Nid yw'r mater o sefydlu Ardaloedd Datblygu'r Iaith Gymraeg yn berthnasol i AC y CDLl ar y Cyd.<br><br>Felly, yn gyffredinol, ystyrir bod y dull a fwriedir ei ddefnyddio o ran asesu'r effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr Arfarniad Cynaladwyedd a'r CDLlar y Cyd ei hun yn ddigon cadarn ar gyfer lliniaru unrhyw effaith andwyol posib gan ddatblygiad ar yr iaith Gymraeg. | |
| **7. ECONOMI** | | | | |
| **25.** | John Rowlands | Anghydnawsedd: Gwella'r diwydiant twristiaeth yn erbyn cynaladwyedd. Gan ystyried pwysigrwydd y car modur preifat, a yw'n anghydnaws awgrymu y gellir gwella twristiaeth ond ar yr un pryd cadw cynaladwyedd? | Mae'n anorfod y bydd diddordebau sy'n gwrthdaro yn y CDLl ar y Cyd. Nid yw datblygu ynddo'i hun yn ffafrio egwyddorion cynaladwyedd. Bwriad y Cynllun yw hyrwyddo datblygiadau sydd mor gynaladwy â phosib. Roedd yr angen i wella'r diwydiant twristiaeth yn ardal y Cynllun yn un o'r materion a gafodd eu hadnabod drwy asesu'r wybodaeth waelodlin a thrwy adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni. Fodd bynnag, cytunir y dylai'r geiriad gael ei ddiwygio er mwyn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaladwy. | **DA22** |
| **26.** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones | Mae nifer o geisiadau cynllunio wedi cael eu cyflwyno am dai o fewn ac o amgylch yr harbwr allanol yng Nghaergybi ac ymddengys bod datblygwyr yn dod â chynlluniau ymlaen am ddatblygiadau o dai haf mewn amlfeddiannaeth mewn marinas fydd yn cael effaith ar olygfeydd panoramig arfordirol. Mae pwysau i gael y rhain. Mae'n rhaid i ni rwystro datblygiadau ar hyd glannau'r môr megis yr hyn a geir yn y Felinheli ble maent wedi cymryd drosodd tafell eang o lannau'r Fenai ar gyfer defnydd gan berchnogion y tai haf - a pha waith ddaw i'r gymuned leol yn eu sgil? - mae'r tai hyn yn wag am fwy na hanner y flwyddyn. Mae | Mae'r Adroddiad Cwmpasu yn nodi'r angen i'r Cynllun ddarparu tai o safon dda, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni anghenion lleol. Bydd yr union fath a nifer o dai yn amrywio yn ddaearyddol, yn ddibynnol ar angen lleol mewn ardal benodol. Bydd Arolwg Anghenion Tai a phapurau ymchwil ynglŷn â thai yn penderfynu ar yr angen lleol am dai fforddiadwy o fewn ardal y Cynllun. | **Amherthnasol** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | | angen mwy o dai cymunedol a dylai atebolrwydd y Cymdeithasau Tai fod yn rhan o gylch gwaith ein Llywodraeth Leol. | | |
| **27.** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones | CANOL TREFI – mae'n rhy hwyr i droi'r llanw yn y canol trefi - mae'r cynllunwyr wedi derbyn canolfannau siopa y tu allan i'r dref. | Mae Adroddiad Cwmpasu'r AC yn cydnabod y dylai'r CDLl ar y Cyd asesu ac annog bywiogrwydd, atyniad a hyfywedd canol trefi a chanolfannau manwerthu. Yn ogystal, mae'n datgan yr angen i gyfrannu tuag at gryfhau ac amrywio economïau lleol o fewn ardal y Cynllun drwy gefnogi a hyrwyddo twf mewn busnesau lleol. Dim newid. | **Amherthnasol** |
| **28.** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones | TWRISTIAETH - Ychydig o ran mesurau rhagweithiol sy'n cael eu cymryd - dylid annog gwestai ac ati i wella'u safonau - cyflogir cannoedd yn y diwydiant twristiaeth ac eto ymddengys nad oes dim cydlyniant ac nid oes tîm penodol yn edrych ar sut y gellir cydlynu'r cyfan. | Mae'r Adroddiad Cwmpasu wedi nodi'r angen i wella'r diwydiant twristiaeth yn ardal y Cynllun. O ganlyniad, un o is-amcanion y Fframwaith AC yw'r bwriad i gefnogi'r diwydiant twristiaeth drwy wella'r amgylchedd a gwella'r isadeiledd. Dim newid. | **Amherthnasol** |
| **29.** | YDCW (Cangen Môn) | YR ECONOMI - yn yr adran hon, ni ellir anwybyddu'r tebygolrwydd o adeiladu Wylfa B a'r canlyniadau. Pam nad yw wedi'i gynnwys? Bydd yn rhaid mynd i'r afael â'r goblygiadau hirdymor yn dilyn cwblhau'r pwerdy. | Derbyn yr argymhelliad. Dylai'r Adroddiad Cwmpasu amlinellu'r deilliannau posib Rhaglen Ynys Ynni Môn. | **DA64(i) & (ii)** |
| **30.** | Bourne Leisure | Mae Paragraff 7.9 o'r Adroddiad Cwmpasu yn datgan o ran Gwynedd bod "gofyn am lefel sylweddol o fuddsoddiad mewn llety, atyniadau twristiaeth a gweithgareddau hamdden o'r safon uchaf er mwyn denu sail cwsmeriaid ehangach i'r ynys." Datgan Paragraff 7.9 bod niferoedd twristiaid wedi gostwng ers 2005. Mae'n bwysig nodi bod angen mabwysiadu dull cynhwysfawr a chyson yn ardal y CDLl ar y Cyd, ble y ceisir gwella'r mater allweddol o dwristiaeth ym Môn a Gwynedd fel ei gilydd. | Mae AC y CDLlAYC yn cynnwys Ardaloedd Awdurdodau Cynllunio Lleol y ddau Awdurdod ac o ganlyniad bydd yr amcanion yn y Fframwaith AC yr un mor berthnasol i Fôn a Gwynedd fel ei gilydd. | »» |
| | Bourne Leisure | Mae'n bwysig pwysleisio'r angen i sicrhau bod parciau gwyliau arfordirol yn gallu parhau i addasu a chyrraedd gofynion y twristiaid. Rhaid i'r polisi gael sgôp i newid (wedi'i selio ar fframwaith amcanion yr AC / AAS), nid yn unig er mwyn cyflawni amcan y polisi ehangach o hybu twristiaeth yn gyffredinol, ond hefyd i hyrwyddo uwchraddio ac ehangu'r llety presennol er mwyn traws-ariannu gwelliannau eraill i barciau, ac yn sgil hynny, | Cytuna'r UPC ar y Cyd y dylai AC y CDLl ar y Cyd hwyluso gwella'r cyfleusterau twristiaeth sy'n bodoli. | **DA47** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | | hybu twristiaeth gydol y flwyddyn. | | |
| **9. TIRWEDD** | | | | |
| **31.** | CCGC | Paragraff 9.2. Mae'r paragraff hwn wedi nodi'n anghywir bod y cyfan o Arfordir Môn wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac mae angen cywiro hyn. | Derbyn yr argymhelliad | **DA24** |
| **32.** | CCGC | Paragraff 9.3. Yn yr adran hon mae angen nodi hefyd y gallai'r bygythiadau presennol mwyaf ddod o ddatblygiadau ymwthiol yn enwedig rhai sy'n gysylltiedig ag ynni, cludiant a thwristiaeth; yr olaf wedi'i grynhoi o amgylch yr arfordir a'r Parciau Cenedlaethol. | Derbyn yr argymhelliad | **DA25** |
| **33.** | CCGC | Dylai'r adran hon gynnwys mynediad at ardaloedd naturiol ar gyfer dibenion adloniadol yn ogystal. Mae unrhyw ddatblygiad ac isadeiledd â'r posibilrwydd o gael effaith negyddol ar gymeriad y dirwedd, y drefwedd a'r morlun os na chaiff ei leoli'n briodol a'i ddylunio'n briodol. Gall mater o'r fath gynnwys, er enghraifft, lleoliad fferm wynt a'i heffaith ar y dirwedd / morlun.<br>Yn ychwanegol i'r rhestr a amlinellir, dylid ychwanegu'r hyn a ganlyn: Ymestyniad Trefol / Datblygiad newydd, Ynni / Diwydiant. | Derbyn yr argymhelliad | **DA25** |
| **34.** | Grŵp Cynaladwyedd | Paragraff 9.3. Ychwanegu'r hyn a ganlyn at yr ail frawddeg "Mae'r rhain yn cynnwys ... ddatblygiadau twristiaeth megis cabannau pren, cynigion megis ffermydd / melinau gwynt." | Derbyn yr argymhelliad | **DA25** |
| **35.** | Grŵp Cynaladwyedd | Materion allweddol o'r dadansoddiad gwaelodlin – ychwanegu "... golygfeydd tuag at neu allan o PCE a'r AHNE ."<br>" Annog cysylltiadau isadeiledd gwyrdd a gwarchod a gwella'r gwrychoedd , coed mwynderol a choedlannau sy'n llawn rhywogaethau. Defnyddio llecynnau gwyrdd ble'r ystyrir bod dynodiadau o'r fath yn angenrheidiol. | Derbyn yr argymhelliad | **DA29 a DA31 a DA32** |
| **36.** | YDCW (Cangen Môn) | Paragraff 9.3 Negeseuon Allweddol, ail bwynt bwled - pwy sy'n a sut mae penderfynu 'ble bo'n briodol'? Yn wir, dylid defnyddio pob dull gwella yn gyson. | Cytuna'r UPC ar y Cyd y dylid newid yr ymadrodd "ble bo'n briodol" i "ble bo'n bosib". | **DA33** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **37.** | Grŵp Cynaladwyedd | Negeseuon allweddol - ychwanegu ' Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo datblygiad sydd wedi'i leoli'n addas a datblygiad o ddyluniad da sy'n parchu hynodrwydd amgylchedd adeiledig yr ardal a hynodrwydd tirwedd yr ardal. | Derbyn yr argymhelliad | **DA34** |
| **38.** | John Rowlands | Tirwedd: 'Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo dylunio da sy'n parchu hynodrwydd lleol yr ardal.' Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r trafodaethau ynglŷn â'r dirwedd wedi'u cyfyngu i olygfeydd yn ystod y dydd. Dylai'r adran sy'n ymwneud â'r dirwedd gymryd i ystyriaeth ddyluniadau goleuo nad ydynt yn llygru'r golau yn erbyn y cyfiawnhad bod ffurfafen yr hwyr yn yr ardal yn nodedig gan ei bod â llawer llai o lygredd na'r mwyafrif helaeth o'r DU. | Cytuna'r UPCar y Cyd y dylid cyfeirio at bwysigrwydd ffurfafen dywyll y nos yn ardal y Cynllun. | **DA27 a DA30 a DA70** |
| **39.** | YDCW (Cangen C'fon) | Yn yr adran ar y dirwedd rydym yn cytuno bod safleoedd carafanau a gwersylla yn un o sawl ffynhonnell sylweddol o bwysau ar y dirwedd, yn enwedig yn ardaloedd arfordirol Dwyfor a Meirionnydd. | Nodir y sylwadau cefnogol. | **Amherthnasol** |
| **40.** | YDCW (Cangen C'fon) | Gall rhwydweithiau ynni, gan gynnwys ceblau uwchben a pheilonau a phresenoldeb melinau gwynt unigol ar raddfa ganolig fod yn fygythiad cynyddol i dirwedd Gwynedd a Môn a dylid ystyried hyn yn y Cynllun. | Derbyn yr argymhelliad | **DA25** |
| **10. PRIDDOEDD, MWYNAU, GWASTRAFF** | | | | |
| **41.** | John Rowlands | Ceir cyfeiriad byr at 'leihau' llygredd o amaethyddiaeth ond syndod braidd yw na chafwyd cyfeiriad at Barthau Perygl Nitradau (NVZs), er bod uned gan LlC yn ymdrin â hyn. Mae nitradau yn gryn broblem ym Môn a Gwynedd a dylid fod wedi rhoi mwy o amlygrwydd i hyn yn y ddogfen. | Cytuna'r CDLl ar y Cyd y dylid cyfeirio at 'Barthau Perygl Nitradau' yn yr Adroddiad Cwmpasu. | **DA35 a DA39 a DA73** |
| **42.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Mae Polisi Cynllunio Cymru (2011) paragraff 13.6 yn rhoi cyngor ynghylch Cynlluniau Datblygu a Thir wedi'i Lygru. Mae'n oblygiad i'r CDLl ar y Cyd bod yn rhaid i'r broses hwyluso adfer tir a gafodd ei effeithio gan lygredd drwy gyfrwng polisïau a dyraniadau priodol. Rydym yn awgrymu y dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau bod unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar dir sy'n wybyddus ei fod wedi'i lygru, neu fod amheuon cryf ei fod wedi'i lygru, fod yn destun Asesiad Risg Rhagarweiniol cyn | Derbyn yr argymhelliad | **DA37** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| CYF. | Enw'r Sylwebydd | Crynodeb o'r Sylwadau | Ymateb yr Uned Polisi Cynllunio | Rhif y Diwygiad |
|---|---|---|---|---|
| | | dyrannu safle iddo o fewn y CDLl ar y Cyd. | | |
| **43.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Dylid ystyried Prosiect Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru wrth benderfynu a chyfiawnhau'r angen am unrhyw gyfleusterau gwastraff ym Môn a Gwynedd. | Derbyn yr argymhelliad | **DA38** |
| **44.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Dylid cyfrifo pob deilliannau gwastraff presennol a rhai disgwyliedig er mwyn penderfynu'r nifer, y math a'r gofynion arwynebedd tir ar gyfer cyfleusterau newydd. Dylai'r asesiad ganfod y mathau o gyfleusterau rheoli angenrheidiol a'u lleoliadau. Drwy gyfrwng y broses CDLl/ AC, byddwn yn ceisio sicrwydd a chadarnhad gennych fod y gofynion ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau wedi'u hystyried, sut y cawsant eu dewis a sut y bydd y Cynllun yn cyflawmi'r fath ofynion. | Cytuna'r CDLl ar y Cyd y dylai hwn gael ei nodi dan adran 'Negeseuon Allweddol' y bennod sy'n ymwneud â gwastraff. | **DA38** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **11. CLUDIANT** | | | | |
| **45.** | John Rowlands | 'Negeseuon allweddol o'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni yn datblygu rhwydwaith cludiant craidd sydd wedi'i hintegreiddio'n dda ac sy'n ddiogel, yn effeithiol, yn lân ac yn deg.' Nid wyf yn sicr os yw'r term 'glân' yn golygu unrhyw beth. A yw'n cyfeirio at lanweithdra cludiant cyhoeddus neu allyriadau isel gan gerbydau? | Yma, mae'r term 'glân' yn golygu'r angen i ddatblygu rhwydwaith cludiant sydd â'r cyfraniad isaf posib tuag at lygredd yr aer. Mae'r UPC ar y Cyd yn ystyried ei fod yn derm priodol yn y cyd-destun hwn. Dim newid. | **Amherth nasol** |
| **12. DŴR** | | | | |
| **46.** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones | AMDDIFFYNFEYDD LLIFOGYDD - mae'r angen am amddiffynfeydd arfordirol yn allweddol ym Môn – mae gennym lawer o dir a allai fod dan fygythiad pe byddai'r môr yn codi i'r lefelau a ragamcanwyd yn y can mlynedd nesaf. | Mae Adroddiad Cwmpasu'r AC yn nodi bod llifogydd yn broblem mewn rhai mannau penodol o ardal y Cynllun. Neges allweddol a nodir yn yr Adroddiad Cwmpasu o ddadansoddiad o'r wybodaeth waelodlin ac o adolygiad o'r cynlluniau a'r rhaglenni yw y dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau bod y perygl o lifogydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu ar leoliad datblygiad newydd ac y dylai datblygiadau newydd gael eu cyfeirio oddi wrth yr ardaloedd hynny sydd mewn perygl uchel o lifogydd. Rôl Asiantaeth yr Amgylchedd yw adeiladu a chynnal amddiffynfeydd llifogydd ac amddiffynfeydd arfordirol. | **N/A** |
| **47.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Un o'r materion allweddol yng Nghynllun Rheoli'r Draethlin a'r Cynlluniau Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd yw y gallai bod rhannau helaeth o arfordir Gwynedd a Môn a'u gorlifdiroedd yn anaddas ar gyfer eu datblygu yn yr hirdymor, a dylid cynnwys y mater hwn fel mater allweddol yn y Ffactorau Hinsoddol ac / neu bynciau sy'n ymwneud â Dŵr yn yr Adroddiad Cwmpasu. | Derbyn yr argymhelliad. | **DA40** |
| **48.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Dŵr – Astudiaeth/ Strategaeth Cylch Dŵr: Rydym yn croesawu cyfeiriad sylweddol yn yr Adroddiad Cwmpasu a'i ddogfennau cysylltiedig at Gynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru. Y pwynt i'w nodi yw bod rhan fechan o Wynedd, e.e. Llandderfel yng Nghynllun Rheolaeth Basn yr Afon Dyfrdwy hefyd. | Derbyn yr argymhelliad. | **DA59** |
| **49.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Credwn y bydd ymgymryd ag Astudiaeth Cylch Dŵr dros gyfnod y CDLl ar y Cyd yn nodi'r ardaloedd hynny ble y gellid cael problemau ynghylch pwysau dŵr a bydd hyn yn cynorthwyo i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o fewn ardal Môn a Gwynedd. Dylai fod sicrhau isadeiledd digonol yn allweddol i gynllunio defnydd tir. Gallai hyn gynorthwyo â chlymu i mewn y strategaeth a ddefnyddir gan Dŵr Cymru o ran cynllunio isadeiledd y cyflenwad dŵr yfed a'r garthffosiaeth a'r | Nid yw'r mater o ymgymryd ag arolwg o'r fath yn fater i'r Adroddiad Cwmpasu fynd i'r afael ag o. Bydd yr angen am astudiaeth o'r fath yn cael ei benderfynu ar wahân fel rhan o broses y CDLl ar y Cyd. | **N/A** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | penderfyniad ynghylch ble i leoli datblygiadau newydd fel y bwriedir yn y CDLl ar y Cyd. | | |
| **50.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Er ein bod yn croesawu'r ddau ddangosydd sy'n ymwneud â dŵr a'r perygl llifogydd (tud.43 o'r Adroddiad Cwmpasu), byddwn yn argymell cynnwys dangosydd sydd wedi'i gysylltu â'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon, e.e. % o gyrff dŵr sydd â statws ecolegol da neu'r posibilrwydd o'i gyflawni. | Derbyn yr argymhelliad | **DA56 a DA74** |
| **13. FFRAMWAITH YR ARFARNIAD CYNALADWYEDD (AC)** | | | | |
| **51.** | YDCW (Cangen Môn) | Paragraff 13.4 - Oni ellir cymryd camau gweithredu ynglŷn â'n sylwadau ar Bara. 4.3 dros y dudalen, rydym yn rhagweld y bydd dirywiad pellach yn yr hyn na ellid cyfeirio ato fel 'datblygiad yr iaith Gymraeg'. | Mae'r Adroddiad Cwmpasu'n nodi'r sefyllfa gyfredol o ran yr iaith Gymraeg ynghyd â'r tueddiadau mewn gwahanol rannau yn ardal y Cynllun. Adnabuwyd y problemaul sy'n wynebu'r iaith o'r dadansoddiad hwn. Bydd unrhyw gynigion neu bolisïau yn y CDLl ar y Cyd yn cael eu hasesu yn erbyn Fframwaith yr AC sy'n cynnwys amcanion sydd â'r bwriad o ddiogelu'r iaith oddi wrth effaith andwyol unrhyw ddatblygiadau. Bydd y CDLl ar y Cyd sydd ar fin ei gyhoeddi yn destun Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg. Golyga hyn bod pob safle, pob polisi a chynigion a gynhwysir yn y cynllun yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol sydd â'r bwriad o ddiogelu diddordebau'r iaith Gymraeg gan liniaru unrhyw effaith andwyol y datblygiad arni. Dim newid. | **Amherth nasol** |
| **52.** | YDCW (Cangen C'fon) | Ym Mhennod 13, dylid rhoi mwy o bwyslais ar y mater o wella'r dirwedd drwy bolisïau neu fentrau penodol wedi'u cynllunio i liniaru effaith datblygiadau sy'n bodoli ynghyd â datblygiadau newydd. Mae hyn yn berthnasol i safleoedd carafanau presennol (a safleoedd carafanau sefydlog unigol o fewn cwrtil tai unigol), ynghyd â, er enghraifft, lleoliad, graddfa a lliwiau siediau amaethyddol mawr. Mae'r dangosydd a awgrymir ar gyfer yr effaith ar y dirwedd yn amwys ac aneglur. Pwy sy'n adrodd am statws cyflwr, sut y gwneir hyn a pha ddynodiadau? Byddai dangosyddion mwy gwrthrychol yn ddymunol ar gyfer hyn, un sy'n gyffelyb i'r rhai ar gyfer y rhan fwyaf o bynciau eraill, er y gwerthfawrogir y gallai hyn fod yn anodd, er enghraifft, yn achos safleoedd carafanau. Gallai hyn fod angen arolwg monitro gwaelodlin wrthrychol o'r effaith ar y dirwedd (e.e. mabwysiadu lliwiau cadwraeth ar gyfer carafanau sefydlog, pa mor weladwy ydynt yn y dirwedd, ac ati). | Rôl y CDLl ar y Cyd yw sefydlu'r fframwaith defnydd tir ar gyfer datblygiadau ***newydd*** yn ardal y cynllun. Nid rôl y Cynllun yw dylanwadu ar effaith datblygiadau sy'n bodoli ar y dirwedd. Teimla'r UPC ar y Cyd bod yr amcan a gynhwysir yn Fframwaith yr AC sy'n anelu at "**werthfawrogi, diogelu a gwella tirweddau gwledig a'r tirweddau trefol yn ardal y cynllun"**, yn ddigonol ar gyfer diogelu'r dirwedd bresennol**.** Cytuna'r UPC ar y Cyd y dylid ychwanegu dangosyddion ychwanegol i'r Fframwaith AC er mwyn monitro effaith datblygiadau ar y dirwedd. | **DA50** |

# ATODIAD 1: Ymateb i’r Ymgynghoriad Cyhoeddus a’r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **53.** | Bourne Leisure | Er y cefnogir amcanion 1 ac 8, sy’n ceisio gwarchod yr amgylchedd naturiol, mae’r Cwmni yn dymuno pwysleisio bod angen mabwysiadu dull mwy cytbwys a chynhwysfawr a fydd yn hyrwyddo datblygiadau twristiaeth priodol sydd o fudd i'r economi leol, wrth gydnabod yr angen i warchod yr amgylchedd naturiol. Y mae’r dull cytbwys hwn yn briodol hyd yn oed mewn ardaloedd mwy sensitif, cyn belled ag y gellir gweithredu mesurau lliniaru cydnaws (megis ychwanegu parth byffer a thirweddu priodol) i liniaru effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Felly, dylid ystyried pob datblygiad twristiaeth arfaethedig ar ei haeddiant ei hun a chyda cyfeiriad penodol at fuddiannau economaidd a chymdeithasol, ynghyd ag ystyriaethau amgylcheddol. Felly, mae’n bwysig bod Amcanion yr AC / AAS sy’n mynd i’r afael a buddiannau amgylcheddol naturiol yn gytbwys a chynhwysfawr. | Barn yr UPC ar y Cyd yw bod yr amcanion a gynhwysir yn Fframwaith yr AC yn cynrychioli dull cytbwys o ran hwyluso twf tra ar yr un pryd diogelu’r amgylchedd naturiol. Cynhwysir cyfeiriad penodol at yr angen i hyrwyddo'r diwydiant twristiaeth yn is-amcanion amcan 6 - "Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy’n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol.” Dim newid. | **Amherthnasol** |
| **54.** | Grŵp Cynaladwyedd | Nid yw’n bosib cael data ar gyfer y % newid yn y rhywogaethau â blaenoriaeth a chynefinoedd yn ardal y CDLl ar y Cyd, felly dylid dileu hwn. | Derbyn yr argymhelliad | **DA41** |
| **55.** | Grŵp Cynaladwyedd | Tabl 13.1 – Yn y bocs bioamrywiaeth, ychwanegu’r dangosydd a fwriedir ei gynnwys: “colli bioamrywiaeth drwy ddatblygiad yn cael ei fesur drwy’r golled neu’r effaith ar safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl ar y Cyd”. | Derbyn yr argymhelliad | **DA42** |
| **56.** | Grŵp Cynaladwyedd | Yn ogystal, ychwanegu “y golled net o fioamrywiaeth yn ardal y CDLl a achoswyd gan ddatblygiad”. | Derbyn yr argymhelliad | **DA43** |
| **57.** | CCGC | Rydym yn awgrymu’r dangosyddion ychwanegol a ganlyn:<br>Amddiffyn cyfanrwydd safleoedd dynodedig (rhyngwladol, cenedlaethol a lleol), ac osgoi cynefinoedd / rhywogaethau tameidiog<br>Y dangosydd a awgrymir: % o nodweddion (gwahanol fathau) sydd mewn cyflwr boddhaol, gan gynnwys y rhai sy’n seiliedig yn y tir a’r môr (LlCC, 2006)<br>Diogelu a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt ar dir a môr (gan gynnwys asedau coedlannau sylweddol yr ardal) a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig a threfol<br>Y dangosyddion a awgrymir:<br>i) Amcanion a thargedau’r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gyflawnwyd (rhai’r DU a rhai sy’n benodol i’r wlad / rhanbarth / lleol). | Derbyn yr argymhelliad | **DA44** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ii) Tueddiadau a statws rhywogaethau / cynefinoedd NERC 2006, Adran 42<br>iii) Nifer ac arwynebedd Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur SINC a'r Gwarchodfeydd Natur Lleol (GNLl) o fewn y cynllun<br>Byddwn yn croesawu trafodaeth bellach ynghylch y pwyntiau uchod. | | |
| **58.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ai gwybodaeth 'Local and Regional CO2 Emissions Estimates' fyddai'n cael ei ddefnyddio ar gyfer % y newid mewn allyriadau carbon deuocsid o'r stoc tai? Os ia, pam ddim defnyddio'r ffigyrau ar gyfer y sectorau eraill fel dangosydd? | Derbyn yr argymhelliad | **DA46** |
| **59.** | Grŵp Cynaladwyedd | Amcan 7 - Cwetiynu defnyddio 'ansawdd da' – gwell fuasai defnyddio tai cynaliadwy gydag ardrawiad minimal ar yr amgylchedd ond derbyn fod angen ystyried a oes modd monitro'r rhain. | Derbyn yr argymhelliad | **DA48** |
| **60.** | CCGC | Nid ydym yn glir ar yr hyn mae eich dangosydd "% o ddynodiadau yn adrodd am statws cyflwr boddhaol" yn ei olygu. | Cytuna'r UPC ar y Cyd y byddai'n anodd mesur statws cyflwr y dynodiadau tirwedd ac felly dylid dileu'r dangosydd hwn. | **DA49** |
| **61.** | Grŵp Cynaladwyedd | Amcan 8 – Angen bwydo 'LANDMAP' yn y fan hyn. | Derbyn yr argymhelliad | **DA50** |
| **63.** | Grŵp Cynaladwyedd | Amcan 9 – Cyfeiriad tuag at flaenoriaeth i ddatblygu ar diroedd a ddatblygwyd eisoes. Rhai o'r safleoedd o'r math yma yn gallu bod yn gynefinoedd hynod o bwysig i fywyd gwyllt – angen edrych ar yr eirfa. | Derbyn yr argymhelliad | **DA51** |
| **64.** | Grŵp Cynaladwyedd | Amcan 10 – dylid cyfeirio at rwydwaith beicio yma. Cwestiynu os oes angen y gair 'cyhoeddus' o fewn y cwestiynau. Un dangosydd bosib fuasai faint o lefydd 'charging' ceir trydan sydd ar gael neu ar gyfer cael tanwydd lpg sydd ar gael. | Derbyn yr argymhelliad | **DA52 a DA53 a DA54** |
| **65.** | Bourne Leisure | Er ein bod yn nodi nad yw'r risg llifogydd wedi'i adnabod fel mater allweddol dan 'Ffactorau Hinsoddol' ym Mhennod 5 yr Adroddiad Cwmpasu, mae Bourne Leisure yn croesawu Amcan 11 yr AC / AAS sy'n ceisio lleihau'r perygl o bob math o lifogydd gan gynnwys llifogydd llanwol. | Mae'r UPC ar y Cyd yn cydnabod y sylwadau cefnogol. | **Amherthnasol** |
| **66.** | Grŵp Cynaladwyedd | Amcan 11 – a ddylid cynnwys geirfa yn atal datblygiadau o fewn ardal mewn perygl o lifogydd? | Derbyn yr argymhelliad | **DA55** |
| **67.** | Grŵp Cynaladwyedd | Tabl 13.2 Rhes 1. Camsillafu "biodiversity interests **and** ecological connectivity". | Derbyn yr argymhelliad | **DA57** |

# ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **68.** | Grŵp Cynaladwyedd | Cynnig newid cynnwys tabl 13.2 | Derbyn yr argymhelliad | **DA58** |
| | | **ATODIAD 1 – AROLWG O'R CYNLLUNIAU** | | |
| **69.** | Cyngor Sir Ynys Môn | Nid yw Cynllun Rheolaeth AoHNE Mon wedi ei nodi yn y rhestr o gynlluniau. | Derbyn y dylid ychwanegu'r Cynllun Rheolaeth AoHNE Mon i'r rhest o gynlluniau ar rhoi amlinelliad o bwrpas ac amcanion y cynllun hwnnw yn Atodiad 1. | **DA59** |
| **70.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru (a chynlluniau cyflawni cysylltiedig). | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **71.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Cynllun 3 Blynedd (newydd) Cyngor Gwynedd ar gyfer 2011-2014. Mae gwaith nifer o'r Byrddau Rhaglen yn berthnasol i'r CDLl ar y Cyd. | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **72.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Mae fersiwn terfynol o'r Cynllun Datblygu Cynaladwy felly dim angen yr 'Ymgynghoriad'. | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **73.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Strategaeth Gymuned (Drafft) Gwynedd | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **74.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: A ddylai'r rhan ar y Strategaeth Newid Hinsawdd hefyd gyfeirio tuag at y cynlluniau cyflawni? | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **75.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Gwella Bywydau a Chymunedau Cartrefi yng Nghymru (Ebril 2010) | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **76.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Strategaeth Digartrefedd Gwynedd – Canllaw Cynllunio Atodol | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **77.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Review of relevant plans under biodiversity – replace TAN5 1996 with TAN5 2009. | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **78.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Strategaeth Tai Gwag Ynys Môn | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **79.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ychwanegu i'r rhestr: Strategaeth Adnewyddu Tai Sector Breifat Ynys Mon | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **80.** | Grŵp Cynaladwyedd | Amnewid NCT 6 (2000) am NCT 6 (2010) | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **81.** | Grŵp | Ychwanegu i'r rhestr: Datganiad Cyflenwi Tai Fforddiadwy a Fframwaith | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynaladwyedd | Cyfranogi (Ynys Môn) | | |
| **82.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Pridd, Mwynau a Gwastraff - Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at Gynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru, Adolygiad Cyntaf 2007. Fodd bynnag, mae'r ddogfen hon wedi'i disodli gan wahanol gynlluniau'r sector gwastraff - Cynllun Sector Gwastraff Bwrdeistrefol, Cynllun Sector Cynhyrchu, Cynllun Sector Gwasanaethau a Manwerthu Bwyd a Chynllun Sector Casgliadau, Isadeiledd a Marchnadoedd. | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **83.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Ychwanegu'r hyn a ganlyn at adolygiad o'r polisi:<br>Cynllun Rheoli'r Draethlin (Gorllewin Cymru)<br>Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylchoedd (CRhLID Gogledd Orllewin Cymru a'r Afon Dyfrdwy).<br>Cynlluniau Gweithredu Eogiaid<br>Cynllun Rheoli Llyswennod Gorllewin Cymru | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **84.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Fe'ch cyfeirir chi at Strategaethau Rheoli Echdynnu o'r Dalgylch ar gyfer ardaloedd Gwynedd a Môn. Er y bydd gwybodaeth o'r strategaethau hyn wedi'u cynnwys yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon, credwn y dylid ystyried y rhain ar wahân. | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **85.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Ynys Ynni - Rydym yn croesawu ac yn cefnogi'r cyfeiriad a wneir at y Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft ar gyfer Isadeiledd Ynni Adnewyddadwy (EN-3) a NCT 8 Llywodraeth Cymru (2005) - Ynni Adnewyddadwy oherwydd y nifer fawr o ddatblygiadau posib, yn enwedig ym Môn. Bydd yn rhaid ymgynghori'n agos gyda ni a chyrff statudol eraill ynglŷn â'r agwedd hon gydol y broses CDLl ar y Cyd. | Derbyn y sylw o gefnogaeth. | **Amherth nasol** |
| **86.** | Grŵp Cynaladwyedd | Ystyried ychwanegu cynlluniau / dogfennau yn ymwneud ag addysg i'r arolwg o gynlluniau perthnasol. | Derbyn yr argymhelliad | **DA59** |
| **87.** | CCGC | Dylid ychwanegu nifer o gynlluniau a rhaglenni i'r adolygiad o gynlluniau a rhaglenni. | Derbyn bod rhinwedd mewn adolygu priodoldeb cynnwys y Cynlluniau a'r Rhaglenni a amlygir yn y rhestr o Gynlluniau a Rhaglenni. | **DA59** |
| **ATODIAD 2 - GWAELODLIN** | | | | |
| **88.** | Grŵp Cynaladwyedd | A yw'r union un data wedi ei ddefnyddio ar gyfer dadansoddi Gwynedd ac Ynys Mon? | Mae'r un data wedi cael eu defnyddio ar gyfer Gwynedd ac Ynys Mon ble bo hynny'n bosib. Fodd bynnag, mewn rhai | **Amherth nasol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | amgylchiadau, nid oedd yr wybodaeth ar gael i'r ddwy ardal. Er hyn ni ragwelir fod hyn yn fater sy'n tanseilio ansawdd a hygrededd y gwaelodlin sydd wedi ei chynnwys yn yr Adroddiad. | |
| **89.** | Grŵp Cynaladwyedd | Er eglurder i'r darllennydd, credaf y byddai'n syniad ceisio cynnwys eich ffynonellau data ar gyfer yr holl ddata sydd o fewn o ddogfen (credaf y byddai cynnwys y ffynonellau wrth ymyl y data yn helpu tra hefyd yn eich helpu chi ddiweddaru'r dystiolaeth yn y dyfodol). | Gan fod amrywiaeth eang o ffynhonellau wedi eu defnyddio (rhai ohynynt yn rai hir) cytunwyd i gynnwys troednodiadau gyda ffynhonnellau'r data ar ddiwedd bob adran er mwyn osgoi cymhlethu'r asesiad gwaelodlin. | **Amherth nasol** |
| **90.** | CCGC | Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC) – Dylai'r waelodlin gynnwys Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC). Mae'r dynodiad hwn yn berthnasol i'r safleoedd anstatudol pwysicaf ar gyfer diogelu bywyd gwyllt . | Derbyn yr argymhelliad Yn disgwyl data. | |
| **91.** | CCGC | Bydd yn rhaid i'r waelodlin gynnwys Safleoedd Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol. Mae'r safleoedd hyn yn fannau pwysig i ddaeareg a geomorffoleg y tu allan i dir sydd wedi'i ddiogelu'n statudol megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SODdGA). Mae'r camau gweithredu ar gyfer diogelu a gwella daearamrywiaeth ardal benodol wedi'u gosod yng Nghynlluniau Gweithredu Daearamrywiaeth Lleol (CGDLl).<br>Mae prif amcanion y Cynlluniau Gweithredu Daearamrywiaeth Lleol fel a ganlyn:<br>• Adnabod, diogelu a gwella'r safleoedd gorau sy'n cynrychioli hanes daearegol ardal yn y cyd-destun gwyddonol, addysgol a diwylliannol;<br>• Hyrwyddo safleoedd geolegol a gwneud cadwraeth ddaearegol yn berthnasol i bobl;<br>• Ymgymryd ag arolwg daearamrywiaeth lleol (archwiliadau o safleoedd a sgiliau), a dylanwadu ar bolisi cynllunio lleol;<br>Mae canllawiau cenedlaethol ynglŷn â chadwraeth ddaearegol yn cynorthwyo i ddatblygu Cynlluniau Gweithredu Daearamrywiaeth Lleol ac mae'r rhai sy'n bwysig yn rhanbarthol / lleol (megis RIGS) yn dod ynghyd mewn fframwaith cyffredin. Roedd CGDLl Môn yn un o'r cyntaf o'i fath yng Nghymru (GeoMôn). | Derbyn yr argymhelliad Yn disgwyl data. | |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **92.** | CCGC | Parciau Daearegol UNESCO - Nid yw'r waelodlin yn cynnwys Parciau Daearegol. Ardaloedd eang yw'r rhain sy'n cynnwys un neu ragor o safleoedd o bwysigrwydd gwyddonol, nid yn unig am resymau daearegol, ond hefyd oherwydd eu gwerth archeolegol ac ecolegol neu eu gwerth diwylliannol. Mae Parc Daearegol Môn yn un o wyth parc UNESCO o'i fath yn y DU. | Derbyn yr argymhelliad | **DA71(i) a DA24** |
| **93.** | CCGC | Dylai'r Adroddiad gynnwys Gwarchodfeydd y RSPB a Gwarchodfeydd eraill sy'n perthyn i sefydliadau anllywodraethol. | Derbyn yr argymhelliad | **DA60** |
| **94.** | Grŵp Cynaladwyedd | Tud 23: Disgwyliad oes – mae 4 blynedd o ddata mwy diweddar ar gael trwy wefan StatsWales (http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=3816) | Cytuno y dylid diweddaru'r waelodlin yn unol â'r awgrymiadau a gynigir. | **DA60 (i)** |
| **95.** | Grŵp Cynaladwyedd | Tud 27: trosedd – mae data hyd at 2009-10 ar gael ar lefel Gogledd Cymru ar gael trwy Llywodraeth Cymru (http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/110705crimeen.pdf) | Cytuno y dylid diweddaru'r waelodlin yn unol â'r awgrymiadau a gynigir. | **DA61** |
| **96.** | Grŵp Cynaladwyedd | Economi – mae data mwy diweddar ar gael (Pennod 'Cymunedau - Gwynedd yn unig) | Mae'r adran hon yn ail-adrodd yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn y bennod sy'n delio gydag economi ardal y Cynllun. Ystyrir, felly nad oes angen ailadrodd y prif negeseuon yn yr adran hon. Fodd bynnag, awgrymir fod y 'materion' sydd wedi cael eu hadnabod o'r data yn yr adran hon yn cael eu cynnwys yn yr adran sy'n delio gyda MALIC. | **DA62 a DA63** |
| **97.** | Grŵp Cynaladwyedd | Mae Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru 2011 wedi cael eu rhyddhau – dylid cynnwys y ffigyrau hyn yn lle data 2008. | Derbyn yr argymhelliad | **DA63** |
| **98.** | Grŵp Cynaladwyedd | Gwefan y Cynulliad yn cynnwys gwybodaeth o ran rhagolygon lefel uchel newid hinsawdd ar gyfer Cymru. Mae data UKCP09 yn galluogi unigolion i edrych ar ardaloedd penodol i weld yr effaith tebygol ar ardaloedd llawer yn llai. | Derbyn yr argymhelliad | **DA64** |
| **99.** | CCGC | Ffactorau Hinsoddol – Mae'r waelodlin wedi adlewyrchu materion ynglŷn â glaw asid a dyddodi nitradau – dengys hyn bod problem o ran ansawdd yr aer mewn cynefinoedd naturiol – dylid adlewyrchu hyn yn y prif destun a'r Problemau / Cyfyngiadau / Cyfleoedd a nodwyd. | Derbyn yr argymhelliad | **DA9** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **100.** | Grŵp Cynaladwyedd | Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) – mae data ar gyfer 2008 ar gael trwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. | Cytuno y dylid diweddaru'r waelodlin yn unol â'r awgrymiadau a gynigir. | **DA65** |
| **101.** | Grŵp Cynaladwyedd | Addysg a Sgiliau – mae data mwy diweddar ar gyfer oedolion heb gymwysterau ar gael trwy Nomis (ONS Annual Population Survey: https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/la/2038432109/report.aspx#tabquals) | Derbyn yr argymhelliad | **DA66** |
| **102.** | Grŵp Cynaladwyedd | Twristiaeth – Dylai'r ffigyrau twristiaeth gael eu diweddaru gydag ystadegau o adroddiad STEAM 2008 a 2009. | Derbyn yr argymhelliad | **DA20 a DA21 a DA67** |
| **103.** | Grŵp Cynaladwyedd | Tudalen 85-86: Prisiau Tai/Gwerthiannau – fe ddylid darparu data mwy diweddar. | Derbyn yr argymhelliad | **DA23 a DA68** |
| **104.** | CCGC | Tirwedd – Dylai'r Waelodlin gynnwys ffiniau'r Parc Cenedlaethol. | Derbyn yr argymhelliad | **DA71** |
| **105.** | Grŵp Cynaladwyedd | Cwetiynnir os oes twf mewn gwastraff bwrdeistrefol wedi digwydd yn wirioneddol. | Derbyn fod gwastraff bwrdeistrefol wedi lleihau dros y blynyddoedd diweddar a dylai'r gwaelodlin gynnwys data a ffigyrau mwy diweddar. | **DA36 a DA72** |
| **106.** | CCGC | Asedau Materol - Byddai CCGC yn annog yr UPC ar y Cyd i ystyried mwy o asedau materol yn eu hadroddiadau gwaelodlin. Cyhoeddodd CCGC ganllawiau ar gyfer ymarferwyr ar y pwnc hwn o fewn cyd-destun diddordeb CCGC.<br>Pwnc AAS: Asedau Materol Cyngor Cefn Gwald Cymru 2007 (http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/managing-land-andsea/environmental-assessment/sea.aspx) | Derbyn yr argymhelliad Disgwyl am yr wybodaeth | |
| **107.** | Grŵp Cynaladwyedd | Mae'r gwaelodlin yn dangos fod gan Ynys Môn ffigyrau uchel o garbon deuocsid ond efallai fod y sefyllfa hon wedi newid ers i Alwminiwm Môn gau. | Nid oes data sy'n dangos lefelau carbon deuocisd ar lefel awdurdodau lleol wedi eu cyhoeddi ers i Alwminiwm Môn gau. Fodd bynnag, mae bwriad diweddaru'r Adroddiad Cwmpasu ar gyfnodau penodol yn y dyfodol. Dim newid. | **Amherth nasol** |
| **108.** | Grŵp Cynaladwyedd | Enillion – Gallom ddarparu data mwy diweddar. | Ystyrir fod y data sydd yn yr Adroddiad Cwmpasu yn dangos gwybodaeth ar lefel fwy manwl na'r hyn sy'n cael ei gynnig. Ystyrir fod y ffigyrau sydd yn dyddio o flwyddyn 2009 yn rai sy'n rhoi darlun ddigon cywir a chyfoes o'r sefyllfa o ran | **Amherth nasol** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | enillion yn ardal y Cynllun. | |
| **109.** | Grŵp Cynaladwyedd | Diwydiant – Gallom ddarparu data mwy diweddar yn y dyfodol. | Cytuno i ddiweddaru'r adroddiad pan fydd y data ar gael. | **Amherth nasol** |
| **110.** | Grŵp Cynaladwyedd | Tudalen 75-76: Amaeth – mae ystadegau mwy diweddar ar gael trwy Llywodraeth Cymru ((http://wales.gov.uk/topics/statistics/headlines/agriculture2011/110728/?lang=en) | Nid yw'r data'n gyflawn ar gyfer bob maes o ran amaethyddiaeth, felly teimlir fod y data sydd wedi cael ei ddefnyddio yn rhoi darlun fwy cyflawn o'r sefyllfa bresennol yn ardal y cynllun. | **Amherth nasol** |
| **111.** | YDCW (Cangen Môn) | Tirweddau Gwledig a Threfol. Rydym yn dymuno gweld tirweddau morol yn cael eu cydnabod drwy eu cynnwys. Mae gan ein tirweddau arfordirol gwarchodedig ddimensiwn morwrol sy'n rhan hanfodol o'r morlun er nad yw'r amgylchedd morol o dan y marc distyll cymedrig yn cael ei gynnwys yn y dynodiad AHNE. | Cytuna'r UPC ar y Cyd y dylid cyfeirio at dirweddau morol Môn a Gwynedd. | **DA28 a DA69** |
| **CYFFREDINOL** | | | | |
| **112.** | Y Cynghorydd R Llewelyn Jones | Fel sylwadau cyffredinol, byddwn wedi hoffi gweld llawer mwy o ymgynghori ar y ddogfen hon yn enwedig gydag ysgolion a cholegau lleol. | Yn unol â gofynion y Gyfarwyddeb AAS a'r canllaw ar gyfer yr Arfarniad Cynaladwyedd mae gofyn i'r Cynghorau ymgynghori â'r tri Chorff Ymgynghori Statudol (CADW, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Cefn Gwlad Cymru) am gyfnod o bum wythnos ar gynnwys yr Adroddiad Cwmpasu. Er mwyn derbyn adborth ar yr holl faterion cynaladwyedd sydd wedi'u nodi, mae'r UPC ar y Cyd wedi ymgynghori ag ystod eang o fudd-ddeiliaid eraill, yn benodol y cyrff ymgynghori 'cyffredinol' a 'phenodol' a restrir yng Nghytundeb Cyflawni'r CDLl ar y Cyd. Dim newid. | **Amherth nasol** |
| **113.** | Richard J Roberts | Yn ol dogfennau blaenorol, bydd 5 mlynedd yn mynd heibio cyn y bydd y CDLl yn cael ei fabwysiadu ar y cyd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, a fydd tystiolaeth o Gyfrifiad 2011 (fel y caiff ei ryddhau) yn cael ei ddefnyddio lle bo hynny'n bosib, i ddiweddaru ac i gryfhau'r dystiolaeth a ddyfynnir o Gyfrifiadau 1991 a 2001? Tra'n cydnabod bod y data diweddaraf posib yn cael ei ddefnyddio mewn sawl adran o'r CDLl, mae'n amlwg y dibynnir yn helaeth ar Gyfrifiadau 1991 a 2001 am wybodaeth. Teimlwn nad yw hynny'n adlewyrchu'r newidiadau cymdeithasol/ieithyddol sydd wedi digwydd ers 2001. I roi hygrydedd cyfoes i'r CDLl dylid bod modd diweddaru'r adrannau perthnasol yn ol y dystiolaeth a geir o Gyfrifiad 2011. | Mae casgliad cryf o wybodaeth waelodlin yn bwysig er mwyn sicrhau sail tystiolaeth gref i'r CDLl. Er hynny, mae'r Rheoliadau'r AAS yn gofyn mai dim ond gwybodaeth y mae angen rhesymol amdani sydd angen ei chynnwys yn yr adroddiad. Mae'r data gwaelodlin yn yr Adroddiad Cwmpasu yn adlewyrchu'r data gorau oedd ar gael ar adeg ei gynhyrchu. Caiff y data ei ddiweddaru yn awr ac yn y man er mwyn adlewyrchu unrhyw wybodaeth newydd sydd ar gael. Bwriedir diweddaru data amgylcheddol y waelodlin unwaith y bydd canfyddiadau Cyfrifiad 2011 yn cael eu rhyddhau. | **Amherth nasol** |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **114.** | YDCW (Cangen Môn) | Teimlwn yn gryf bod yn rhaid paratoi darpariaeth er mwyn ei gynnwys yn y cynllun sy'n ymwneud ag adeiladu pwerdy Wylfa B. Bydd yr angen am hwn yn gliriach yn ystod cyfnodau datblygu'r CDLl ar y Cyd. Gan mai datganiad polisi yw hwn, byddwn yn croesawu datganiad ynglŷn â llinellau trosglwyddopŵer ar draws Ynys Môn. Mae YDCW o'r farn y dylai allbwn Wylfa B gael ei drosglwyddo i'r pwynt grid ar lannau Dyfrdwy ar hyd gwely'r môr yn uniongyrchol o'r Wylfa. Ar hyn o bryd mae'r Grid Cenedlaethol yn erdych ar drosglwyddo ar wely'r môr o Hunterston yn yr Alban i Lannau Dyfrdwy. Nid yw'n dderbyniol erbyn hyn cael mwy o beilonau hyll yn mynd ar draws Môn, trwy ein AHNE, ar draws y Fenai, trwy ran o Barc Cenedlaethol Eryri ac yna trwy AHNE Bryniau Clwyd ac rydym yn dymuno gweld datganiad cryf yn cefnogi trosglwyddiad ar wely'r môr yn y CDLl ar y Cyd. | Nid yw'r dull o drosglwyddo ynni o bwerdy arfaethedig Wylfa B o fewn Cylch Gwaith yr Adroddiad Cwmpasu. Dim newid. | **DA69(i)** |
| **115.** | Cyngor Tref Porthmadog | Yng nghyfarfod diweddaraf Cyngor Tref Porthmadog mynegwyd pryderon oherwydd tybiwyd bod Cynllun ar y Cyd rhwng Gwynedd ac Ynys Mon yn ymbellhau gyda'r canlyniad bydd pobl yn colli ymwybyddiaeth o ddefnydd tir yn eu hardal. Penderfynnwyd, felly, wrthod y Cynllun ar egwyddor o gydweithio ag Ynys Mon. | Nid yw'r sylw'n berthnasol i gynnwys yr Adroddiad Cwmpasu. Er gwybodaeth, fe benderfynodd Bwrdd Cyngor Gwynedd (15/06/2010) ynghyd â Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i sefydlu Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwyn paratoi un CDLl ar y cyd ar gyfer Ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd a Môn. Mae'r ddau Awdurdod hefyd wedi cymeradwyo newid cyfansoddiadol er mwyn creu Cydbwyllgor Polisi Cynllunio a fydd yn gwneud penderfyniadau yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. | **Amherth nasol** |
| **116.** | Asiantaeth yr Amgylchedd | Hyd Oes Datblygiad – Problem gynyddol o ran perygl llifogydd a newid hinsawdd yw hyd oes unrhyw ddatblygiad arfaethedig. Ar hyn o bryd, nid oes polisi cynllunio eglur (heb ei gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 15) o ran newid hinsawdd ac am faint o flynyddoedd y dylid ystyried newid hinsawdd o ran unrhyw ddatblygiad arfaethedig. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynghori y dylid ystyried 100 mlynedd ar gyfer datblygiadau preswyl newydd a 75 mlynedd ar gyfer datblygiad diwydiannol / masnachol. Credwn y dylid ystyried polisi o'r fath a'i gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Yn ogystal, byddwn yn eich cynghori'n gryf i ystyried mabwysiadu polisi dros dro er mwyn sicrhau bod hyd oes datblygiad yn cael ei ystyried ar gyfer ceisiadau cynllunio a gyflwynir cyn mabwysiadu eich CDLl ar y Cyd. Byddwn yn fodlon eich cyfarfod er mwyn trafod y posibilrwydd o bolisi CDLl ar y Cyd | Bydd y mater o p' run a ddylid cynnwys polisi o'r fath yn cael ei benderfynu gan broses y CDLl ar y Cyd. | **Amherth nasol** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | dros dro ar gyfer y mater hwn. | | |
| **117.** | Grŵp Cynaladwyedd | Angen asesu cymunedau cynaladwy a chael datblygiadau megis tyrbeini gwynt ar gyfer y cymunedau hynny. | Cytuna’r UPC ar y Cyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar hwyluso datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy megis melinau gwynt ar lefel lleol. | **DA45** |

## TALFYRIADAU

AHNE - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
BAP – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth
CDLl ar y Cyd - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
UPC ar y Cyd - Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd
GNL - Gwarchodfa Natur Leol
Deddf NERC– Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig
AC - Arfarniad Cynaladwyedd
AAS - Asesiad Amgylcheddol Strategol
SINC - Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur
PCE - Parc Cenedlaethol Eryri
SoDdGA - Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
NCT – Nodyn Cyngor Technegol
LlC - Llywodraeth Cymru
WIMD - Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

### AC ar gyfer yr Hoff Strategaeth (Mai 2013)

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| **Cyfoeth Naturiol Cymru** (26 Mehefin 2013) | O'r 1 Ebrill 2013, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cymryd dyletswyddau a chyfrifoldebau Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Er mwyn egluro a hwyluso'r broses asesiad strategol, bydd CNC yn sefydlu un Porth AC, er mwyn gallu cyflwyno'r holl ymholiadau a'r ymgynghoriadau ynghylch yr AAS a'r ARhC ar lefel cynllun. | Nodwyd. |
| | 1.9: Byddai CNC yn awgrymu fod yr adran hon, fel mae wedi'i hysgrifennu, yn awgrymu mai ffocws y broses AAS yw adnabod effeithiau amgylcheddol andwyol ac argymell camau lliniaru priodol. Yn y broses AAS mae angen ystyried effeithiau positif ac effeithiau negyddol gweithredu cynlluniau a'u polisïau, a gellir eu defnyddio i ffurfio a galluogi mesurau amgylcheddol positif a rhagweithiol. | Nodwyd ac yn cytuno. |
| | 1.14: Gweler ymateb CNC i'r sgrinio ARhC ar gyfer yr Hoff Strategaeth. | Nodwyd. |
| | **Tabl 3.1: Negeseuon Allweddol:**<br><br>**Bioamrywiaeth.** Byddai CNC yn awgrymu y dylid nodi negeseuon allweddol ychwanegol o ran yr angen i gynnal a gwella swyddogaethau a chysylltedd ecolegol. | Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau. |
| | **Ffactorau'r Hinsawdd.**<br>Dylid cyfeirio at yr angen i adeiladu a hyrwyddo gwytnwch yng nghyswllt newid hinsawdd yn ardal y cynllun. | Gweler yr ymateb uchod. |
| | **Treftadaeth Ddiwylliannol.**<br>Dylid cyfeirio at dirweddau diwylliannol a hanesyddol sydd ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru a'r angen i warchod cyfanrwydd adnoddau a nodweddion y dirwedd ddiwylliannol. | Gweler yr ymateb uchod. |
| | **Y Dirwedd**<br>Byddem yn croesawu eglurder ar yr hyn ellid ei ystyried yn 'ddatblygiad ymwthiol', ar wahân i dyrbinau gwynt. | Nodwyd ac yn cytuno. Darperir eglurder pellach yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau. |
| | **Priddoedd, Mwynau a Gwastraff**<br>Byddai CNC yn awgrymu bod materion allweddol ychwanegol sy'n ymwneud â 'selio' | Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | pridd a 'chynnal a gwella swyddogaethau'r pridd' gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â dal a storio carbon a lliniaru rhag llifogydd. | cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau. |
| | **Dŵr.**<br>Dylid cyfeirio at adeiladu gwytnwch i newidiadau hinsawdd mewn adnoddau dŵr, a'r angen i ystyried perygl llifogydd o ddyfroedd wyneb a dyfroedd arfordirol. | Gweler yr ymateb uchod ar gyfer priddoedd, mwynau a gwastraff. |
| | **Tabl 3.2: Esblygiad Tebygol heb Weithredu'r Cynllun:**<br><br>**Bioamrywiaeth.**<br>Byddai CNC yn awgrymu y gallai diffyg fframwaith strategol beryglu swyddogaeth a chysylltedd ecolegol. | Nodwyd ac yn cytuno. Caiff hyn ei adlewyrchu yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau. |
| | **Ffactorau'r Hinsawdd.**<br>Byddai CNC yn awgrymu bod newid hinsawdd yn debygol o achosi peryglon eraill hefyd o ran sychdwr, perygl daearegol i rwydweithiau trafnidiaeth (tirlithriad, ymsuddiant y tir ac ati). | Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth. |
| | **Y Dirwedd.**<br>Dylid cyfeirio at y posibilrwydd o golli hynodrwydd y dirwedd, a cholli asedau a chyfanrwydd y dirwedd – y pethau y gall datblygiad economaidd fod yn seiliedig arnynt, gan gynnwys llonyddwch y dirwedd. | Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth. |
| | **Tabl 3.3:**<br>**Bioamrywiaeth.**<br>Byddai CNC yn awgrymu cyfeirio'n benodol at yr angen i gynnal a gwella swyddogaethau a chysylltedd ecolegol. | Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth. |
| | **Ffactorau'r Hinsawdd.**<br>Dylid cyfeirio at yr angen i hyrwyddo a chreu gwytnwch ac addasrwydd i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys creu gwytnwch i'r newid yn yr hinsawdd mewn tai ac isadeiledd sy'n bodoli. | Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth. |
| | **Y Dirwedd.**<br>Dylid cyfeirio nid yn unig at yr ardaloedd AHNE yn ardal y Cynllun, ond hefyd at y Parc Cenedlaethol cyfagos. | Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth. |
| | **Priddoedd, Mwynau a Gwastraff.** | Gweler yr ymateb uchod ar gyfer |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | Dylid cyfeirio at yr angen i alluogi lleihau/lliniaru llygryddion yn y dŵr a'r aer sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth ddwys. | bioamrywiaeth. |
| | **Dŵr.**<br>Dylid cyfeirio at yr angen i leihau'r risg o 'lygredd' yn mynd i ddyfroedd arfordirol, llynnoedd a dŵr daear yn ogystal â chyrsiau dŵr afonydd. | Gweler yr ymateb uchod ar gyfer bioamrywiaeth. |
| | **Tabl 3.4: Y Fframwaith AC:**<br>**Bioamrywiaeth.**<br>Dylid ychwanegu amcanion ychwanegol yng nghyswllt yr angen i gynnal a gwella swyddogaeth a chysylltedd ecolegol yn ardal y Cynllun.<br><br>Dylai dangosyddion arfaethedig fod yn berthnasol ac yn ymateb i'r Cynllun a'r Polisïau sy'n cael eu craffu. Awgrymir er enghraifft y gall nifer o ffactorau a materion ddylanwadu ar dueddiadau ymysg rhywogaethau NERC/Adran 42, nad ydynt o reidrwydd wedi'u cyfyngu i Gynllun ar y Cyd Gwynedd a Môn. | Nodwyd ac yn cytuno. Bydd y cwestiwn a ganlyn yn cael ei gynnwys dan Amcan 1 yr AC er mwyn cynorthwyo â phenderfyniadau: *A fydd y cynllun yn cynnal ac yn gwella swyddogaeth a chysylltedd ecolegol?*<br><br>Nodwyd; fodd bynnag, mae hyn yn berthnasol i nifer o ddangosyddion. Gall y dangosyddion hyn dal fod o gymorth i ddangos a oes problem, a gall ymchwil pellach bennu a yw hynny o ganlyniad i'r CDLl ar y Cyd. |
| | **Newid Hinsawdd.**<br>Dylid datblygu dangosyddion sy'n galluogi mesur perfformiad y Cynllun o ran ei wytnwch i newid hinsawdd e.e. datblygiadau sy'n defnyddio dŵr yn effeithlon ac yn gallu gwrthsefyll perygl llifogydd.<br>Dylai dangosyddion arfaethedig fod yn berthnasol ac yn ymateb i'r Cynllun sy'n cael ei graffu a dylid gallu eu mesur/monitro. Byddem felly'n croesawu eglurder ar p'un a yw'n ymarferol mesur y % newid mewn carbon deuocsid sy'n deillio o ddatblygiad yn ardal y Cynllun. | Nodwyd. Caiff y dangosyddion monitro arfaethedig eu haddasu a'u mireinio trwy'r broses AC ailadroddol i ystyried canfyddiadau'r arfarniad a'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Rhoddir ystyriaeth i hyn yng nghamau diweddarach y broses AC. |
| | **Pridd.**<br>Byddem yn croesawu amcanion ychwanegol o ran yr angen i warchod swyddogaethau pridd, yn cynnwys lliniaru rhag llifogydd a dal a storio carbon. | Nodwyd ac yn cytuno. Bydd y cwestiwn a ganlyn yn cael ei gynnwys dan Amcan 9 yr AC er mwyn cynorthwyo â phenderfyniadau: *A* |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | Gallai dangosyddion posib gynnwys ardal o bridd sydd wedi'i 'selio'n' barhaol ac ardal o briddoedd organig/llawn carbon a ddatblygwyd. | *fydd y cynllun yn gwarchod swyddogaethau pridd, gan gynnwys lliniaru rhag llifogydd a dal a storio carbon.*<br><br>Nodwyd. |
| | **Y Dirwedd.**<br>Cynigir dangosydd ychwanegol ar gyfer y pwnc hwn – cyfran / nifer y datblygiadau o fewn pob math gwahanol o dirwedd. Er enghraifft: nifer / cyfran y datblygiadau newydd mewn AHNE neu nifer / cyfran y datblygiadau newydd mewn ardaloedd sydd wedi'u dosbarthu'n rhai eithriadol gan LANDMAP. | Nodwyd ac yn cytuno. Caiff y dangosydd hwn ei gynnwys a'i gyflwyno yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau. |
| | **Y boblogaeth, iechyd bodau dynol**<br>Nodwn fod 'Cyfran y ffynonellau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur' yn ddangosydd arfaethedig ar gyfer y pwnc hwn. Er nad yw technolegau'n cael eu defnyddio'n helaeth ar hyn o bryd, efallai y byddai'n fuddiol hefyd monitro nifer y pwyntiau gwefru cerbydau trydan a'r ffynonellau tanwydd hydrogen sydd ar gael. | Nodwyd ac yn cytuno. Caiff y dangosydd hwn ei gynnwys a'i gyflwyno yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau. |
| | **Tabl 4.1**<br>Gweler y sylwadau ar Dabl 3.4 uchod. | Gweler yr ymatebion i'r sylwadau ar Dabl 3.4 uchod. |
| | **4.9.**<br>Amcan AC 3: mae CNC yn croesawu'r argymhelliad i gryfhau Amcan 3, fodd bynnag, byddem hefyd yn croesawu cydnabyddiaeth well o'r angen i adeiladu gwytnwch i effeithiau newid hinsawdd.<br>Amcan AC 5: mae CNC yn croesawu'r argymhelliad i gryfhau'r amcan hwn o ran treftadaeth ddiwylliannol.<br>Amcan AC 8: mae CNC yn cytuno y dylid rhoi ystyriaeth bellach i bwysigrwydd a gwerth adnoddau tirwedd a morlun ardal y Cynllun. | Nodwyd ac yn cytuno. |
| | **Tabl 4.9.**<br>Byddai CNC yn awgrymu y dylid rhoi ystyriaeth ychwanegol i'r diffiniad o 'leoliad cynaliadwy'. Fel mae wedi'i ysgrifennu, caiff 'lleoliadau cynaliadwy' eu diffinio yn ôl | Nodwyd ac yn cytuno. |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | ffactorau cymdeithasol ac economaidd yn unig. Er mwyn bod yn gynaliadwy, mae'n rhaid rhoi ystyriaeth i ffactorau amgylcheddol yn cynnwys bioamrywiaeth ac adnoddau naturiol. | |
| | **5.8 – 5.23.**<br>Nodwn fod arfarniad cynaladwyedd (AC) ar gyfer Opsiynau Twf T1, T2, T3 a T4 wedi'i gynnal. Nodwn hefyd fod yr Opswn a Ffafrir yn cyfuno elfennau o Opsiynau T2 a T3. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut mae'r effeithiau arwyddocaol sy'n benodol i'r Opsiwn a Ffafrir wedi derbyn ystyriaeth. Er ei bod yn bosib fod yr asesiad o'r ddau opswn amgen, T2 a T3, yn ymgorffori holl effeithiau amgylcheddol positif a negyddol yr Opswn Cyfun yn llawn, hwyrach nad dyma'r achos o reidrwydd.<br><br>Cynghorwn felly fod yr awdurdodau yn egluro'n llawn a oes unrhyw effeithiau arwyddocaol yn gysylltiedig â'r Opsiwn a Ffafrir sy'n wahanol i'r rheini a nodir ar gyfer Opsiynau Twf T2 a T3, ac os oes, sut maent wedi'u hymgorffori yn yr AC. | Nodwyd, ni ystyrir fod yr Opsiwn Cyfun yn debygol o gael unrhyw effeithiau arwyddocaol penodol neu wahanol (positif a negyddol) i'r rheini a ystyriwyd eisoes trwy arfarnu Opsiynau T1, T2, T3 a T4. Bydd yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau yn egluro hyn yn well. |
| | **Tabl 6.5: Pwynt 4.**<br>Dylid ei gwneud yn glir pa ddatblygiadau fydd yn cael caniatâd mewn ardaloedd o Gefn gwlad sydd wedi'u dynodi. | Nodwyd, caiff hyn ei wneud yn fwy clir yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau. |
| | **Tabl 7.1:**<br>Argymhellir y newidiadau a ganlyn i sgoriau'r polisïau yn y tabl hwn. Gweler y sylwadau manwl ynglŷn ag Atodiad 6 isod am eglurhad pellach.<br><br>PS3 Y Strategaeth Aneddleoedd – Amcan AC 3 – dylid newid yr opsiwn hwn i Negyddol Bach (-).<br><br>PS5 Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr – Amcan AC 11 – dylid newid y sgôr hwn i fod yn Ddibynnol ar Weithredu'r Opsiwn (**+/-**).<br><br>PS9 Yr Economi Ymwelwyr – Amcan AC 10 – dylid newid y sgôr hwn i fod yn Ddibynnol ar Weithredu'r Opsiwn (**+/-**). | Gweler yr ymatebion i'r sylwadau ar Atodiad 6 isod. |
| | **Tabl 9.1: Y Dirwedd.** | Gweler yr ymatebion i'r sylwadau ar |

**ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd**

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | Gweler y sylwadau ar Dabl 3.4 Y Dirwedd uchod. | Dabl 3.4 uchod. |
| | **Atodiad 4: D3. Bioamrywiaeth:**<br>Mae CNC yn cytuno bod datblygiad bach yn debygol o gael llai o effaith o'i gymharu â datblygiad mawr yn lleol. Fodd bynnag, os cwblheir llawer o ddatblygiadau bach yn hytrach nag un mawr, gallai'r effaith yn y pen draw fod yn gyfartal, ond ei fod wedi'i wasgaru dros ardal fwy. Gallai hyn hefyd beri mwy o gynefinoedd darniog nag un datblygiad mawr a gallai fod yn anos ei fonitro. | Nodwyd. |
| | **Atodiad 5:**<br>Gweler sylwadau 5.8 – 5.23 uchod. | Gweler yr ymatebion i'r sylwadau ar 5.8 - 5.23 uchod. |
| | **Atodiad 6:**<br>**PS3 – Newid Hinsawdd.**<br>Bydd cynnydd mewn datblygiadau yn cynyddu allyriadau'n gyffredinol, fodd bynnag ni fydd yn cynyddu allyriadau o'r 'adeiladau eu hunain'. Dylid geirio hwn yn fwy clir.<br>Gellid lleihau allyriadau y pen trwy ddatblygu'n agos at y prif ardaloedd cyflogaeth. Fodd bynnag, gan fod disgwyl i'r boblogaeth gynyddu, bydd allyriadau gros yn cynyddu. Gan y bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar ganolfannau trefol a lleol, nid yw'n glir sut y bydd hyn yn lleihau nifer yr ardaloedd crynodedig sydd ag ansawdd aer gwael.<br>Oherwydd y rhagwelir cynnydd yn y boblogaeth a thwf, mae'r cynllun/polisi yn annhebygol o arwain at leihad cyffredinol yn y defnydd o geir.<br>Gan ystyried y pwyntiau uchod, ystyrir y dylid newid yr asesiad ar yr Amcan AC hwn i Negyddol Bach (**-**). | Nodwyd ac yn cytuno. Caiff yr arfarniadau eu haddasu i adlewyrchu hyn. |
| | **PS3 – 8 Y Dirwedd a'r Drefwedd.**<br>I sicrhau dyluniad, graddfa a lleoliad priodol i brosiectau, dylai Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella ar gyfer yr amcan hwn gynnwys yr amodiad na fydd effeithiau arwyddocaol ar ardaloedd megis yr AHNE / y Parc Cenedlaethol o ganlyniad i ddatblygiad. | Nodwyd. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn unrhyw waith arfarnu pellach. |
| | **PS4 – 1 Bioamrywiaeth.**<br>Dylid ei gwneud yn eglur pa fath o ddatblygiad fydd yn cael ei ganiatáu mewn ardaloedd a ddosberthir fel 'Cefn gwlad'. | Nodwyd, caiff hyn ei wneud yn fwy clir yn yr Adroddiad AC sy'n cyd-fynd â'r CDLl ar y Cyd Adnau. |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | **PS5 – 11 Dŵr a Pherygl Llifogydd.**<br>Fel sy'n cael ei gydnabod yn y testun, bydd hyn yn cynyddu'r pwysau ar adnoddau dŵr ac yn cynyddu'r perygl o lifogydd. Felly, dylid newid yr asesiad o'r Amcan AC hwn i fod yn Ddibynnol ar Weithredu'r Opsiwn (**+/-**). | Nodwyd ac yn cytuno. Caiff yr arfarniadau eu haddasu i adlewyrchu hyn. |
| | **PS9 – 10 Trafnidiaeth.**<br>Mae potensial hefyd am draffig uwch ar yr holl ffyrdd o ganlyniad i'r cynllun hwn. Felly, dylid newid yr asesiad o'r Amcan AC hwn i fod yn Ddibynnol ar Weithredu'r Opsiwn (**+/-**). | Nodwyd ac yn cytuno. Caiff yr arfarniadau eu haddasu i adlewyrchu hyn. |
| | **PS14 – 3 Newid Hinsawdd a 11 Dŵr a Pherygl Llifogydd.**<br>Gallai Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella pellach ar gyfer yr opsiynau hyn hefyd gynnwys amodiad i annog rheolaeth ar ddalgylchoedd uwch. Yn enwedig mewn ardaloedd o fawn sy'n hanfodol ar gyfer storio carbon, rheoleiddio lefel y dŵr ac ansawdd dŵr. | Nodwyd. Caiff yr arfarniadau eu haddasu i adlewyrchu hyn. |
| **Llyw. Cymru** (27 Mehefin 2013) | Nodwn fod yr Hoff Strategaeth wedi bod yn destun AC / AAS interim ac wedi bod yn destun sgrinio ARhC.<br><br>Mae'n awr yn fwy priodol i gyfeirio at CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) yn hytrach na CCGC neu'r AA. | Nodwyd. |
| **Asbri Planning** (27 Mehefin 2013) | Dan y pennawd 'Esblygiad Tebygol y Waelodlin Heb Weithredu'r Cynllun', nodir y caiff ei ddatgan yn Nhabl 3.2 mai 'diffyg safleoedd cyflogaeth digonol mewn lleoliadau cynaliadwy' fyddai'r canlyniad.<br><br>Er mwyn bod yn gyson â'r sylwadau a wnaed, byddem yn gwneud y sylw y dylid newid hwn i: 'ddiffyg safleoedd cyflogaeth digonol mewn lleoliadau cynaliadwy a hyfyw.' | Nodwyd ac yn cytuno. |
| **Strydoedd Diogel Ynys Môn** (27 Mehefin 2013) | Rydym yn anghytuno gyda'r asesiad cyffredinol mai D3 yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy. Mae'r Arfarniad Cynaladwyedd ac asesiadau eraill o'r amrywiol opsiynau, D1 i D4, yn hynod o ddiffygiol. Rydym yn cwestiynu sail yr arfarniadau hyn.<br><br>Y prif ffactor sy'n atal grwpiau bregus rhag medru gwella eu sefyllfa yw'r diffyg llwybrau diogel i ganolfannau cyflogaeth a chyfleusterau canolog eraill. Bydd yr opsiwn a ffafrir | Mae'r arfarniad yn cydnabod bod Opsiynau D1, D2 a D4 yn perfformio'n well yn erbyn amcanion amgylcheddol, sy'n cynnwys lleihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, mae hefyd yn cydnabod bod yr opsiynau |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | ar hyn o bryd, D3, yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig ond ni fydd yn arwain at welliant sylweddol i'w mynediad at gyfleusterau neu gyfleoedd cyflogaeth – ni ellir darparu'r naill na'r llall yn effeithiol mewn ardaloedd gwledig ar y raddfa angenrheidiol. Bydd y boblogaeth wledig ychwanegol naill ai o dan anfantais ddifrifol oherwydd ynysu daearyddol, neu byddant yn ddibynnol ar drafnidiaeth fodur (os gallant ei fforddio), fydd yn gwneud y ffyrdd yn llai croesawus fyth.<br><br>Os mai'r bwriad yw darparu rhwydwaith addas o lwybrau trafnidiaeth lesol, mae'n amlwg mai opsiwn D2 a ffafrir ar bob un o'r prif feini prawf. Bydd opsiwn D2 yn canolbwyntio twf y boblogaeth o fewn cyrraedd rhwydd at gyflogaeth a chyfleusterau, trwy deithio llesol. Bydd opsiwn D1 yn eu crynhoi'n ormodol, gan adael allan ardaloedd sy'n medru cefnogi datblygiad cynaliadwy iach o fewn poblogaethau, a bydd opsiynau D3, D3a, a D4 yn caniatáu twf mewn ardaloedd bregus sydd dan anfantais, lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn dibynnu ar drafnidiaeth fodur i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas. Bydd llai o ddibyniaeth ar drafnidiaeth fodur yn gwella cynaladwyedd, ac yn lleihau allyriadau carbon yn arbennig.<br><br>Rydym felly'n cefnogi opsiwn D2, sy'n ymgorffori ardal 'teithio i'r gwaith' sydd ymhell o fewn cyrraedd trafnidiaeth lesol. Dyma'r opsiwn sy'n fwyaf addas er mwyn creu teithiau drws-i-ddrws rheolaidd heb ddefnyddio car. Nodwn fod yr Iseldiroedd wedi cymryd tua wyth mlynedd i ddarparu rhwydwaith o'r fath – mae'r cyfnod amser hwn oddi mewn i sgôp y Cynllun. | hyn yn diystyru anghenion y boblogaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig, gan felly gynyddu anghydraddoldebau o bosib, a lleihau hygyrchedd at dai, cyflogaeth a chyfleusterau/gwasanaethau.<br><br>Cafodd opsiwn D3 ei arfarnu i fod â'r potensial i leihau'r angen i deithio; fodd bynnag, cydnabyddir hefyd na fyddai'n digwydd i'r un graddau ag a allai ddigwydd dan Opsiwn D1 a D2. Byddai natur wasgaredig datblygiadau yn gwella hygyrchedd i rai cymunedau gwledig gan y byddai peth datblygiad yn cael ei gyfeirio yma. Byddai'r ddarpariaeth dai trwy holl ardal y Cynllun yn cyfrannu at greu a chynnal lefel boblogaeth sydd yn cefnogi gwasanaethau a busnesau lleol yn y trefi a'r pentrefi llai. Byddai hyn yn gwella hygyrchedd ac yn lleihau'r angen i bobl deithio. Arfarnwyd opsiwn D3 hefyd i fod â'r potensial i leihau anghydraddoldebau trwy hwyluso dosbarthu datblygiadau'n fwy cyfartal yn nhermau gofodol. Mae'r arfarniad yn nodi er y byddai gwasgaru datblygiad yn gallu lleihau cyfraniadau gan |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | | ddatblygwyr tuag at isadeiledd a chyfleusterau cymunedol (e.e. tai fforddiadwy, mannau agored cyhoeddus, gwelliannau i gludiant ac ati), bydd hyn yn ddibynnol ar nifer y tai gaiff eu hadeiladu. Os caiff digon o dai eu datblygu, gall yr opsiwn arwain at ddigon o adfywio neu gyfraniadau gan ddatblygwyr i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth iechyd, e.e. cyfleusterau meddygol a llwybrau beicio neu gyfleusterau chwaraeon.<br><br>Mae'r opsiynau a ystyrir yn strategol ac yn ofodol eu natur. Mae'r polisïau strategol a amlinellir yn yr Hoff Strategaeth yn rhoi manylion pellach ar sut y bydd gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant cynaliadwy yn lleihau'r angen i deithio. Mae Polisi Strategol PS5 (Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr) yn ceisio cyfraniadau gan ddatblygiadau newydd i ddarparu isadeiledd, sy'n cynnwys trafnidiaeth gynaliadwy. Mae Polisi Strategol PS22 (Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd) yn ceisio gwella hygyrchedd a newid ymddygiad pobl yng nghyswllt teithio trwy nifer o |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | | fesurau, gan gynnwys gwell cludiant cyhoeddus a troedffyrdd / llwybrau beicio. Bydd y CDLl ar y Cyd Adnau yn cynnwys manylion pellach ar sut y bydd yr angen i deithio yn cael ei leihau, a'r gwelliannau penodol sy'n cael eu cynnig i'r isadeiledd trafnidiaeth. |
| **Beicio Bangor ar ran y Grŵp** (26 Mehefin 2013) | Rydym yn anghytuno gyda'r asesiad cyffredinol mai D3 yw'r opsiwn mwyaf cynaliadwy. Mae'r Arfarniad Cynaladwyedd ac asesiadau eraill o'r amrywiol opsiynau, D1 i D4, yn hynod o ddiffygiol. Nodwn mai diffyg llwybrau diogel i ganolfannau cyflogaeth a chyfleusterau canolog eraill yw'r prif ffactor sy'n atal grwpiau bregus rhag medru gwella eu sefyllfa. Bydd yr opsiwn a ffafrir ar hyn o bryd, D3, yn arwain at gynnydd yn y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig ond ni fydd yn arwain at welliant sylweddol i'w mynediad at gyfleusterau neu gyfleoedd cyflogaeth – ni all y Cynllun arwain y naill na'r llall yn effeithiol. Bydd y boblogaeth ychwanegol naill ai o dan anfantais ddifrifol oherwydd ynysu daearyddol, neu byddant yn ddibynnol ar drafnidiaeth fodur (os gallant ei fforddio), fydd yn gwneud y ffyrdd yn llai croesawus fyth.<br><br>Os mai'r bwriad yw darparu rhwydwaith addas o lwybrau trafnidiaeth lesol, mae'n amlwg mai opsiwn D2 a ffafrir ar bob un o'r prif feini prawf. Bydd opsiwn D2 yn canolbwyntio twf y boblogaeth o fewn cyrraedd rhwydd at gyflogaeth a chyfleusterau, trwy deithio llesol. Bydd opsiwn D1 yn eu crynhoi'n ormodol, gan adael allan ardaloedd sy'n medru cefnogi datblygiad cynaliadwy iach, a bydd opsiynau D3, D3a, a D4 yn caniatáu twf mewn ardaloedd bregus sydd dan anfantais, lle mae'r rhan fwyaf o bobl yn dibynnu ar drafnidiaeth fodur i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas.<br><br>Rydym felly'n cefnogi opsiwn D2. Mae'r opsiwn hwn yn fwy addas ar gyfer creu teithiau drws-i-ddrws rheolaidd heb ddefnyddio car. Nodwn fod yr Iseldiroedd wedi cymryd tua wyth mlynedd i ddarparu rhwydwaith o'r fath – mae'r cyfnod amser hwn oddi mewn i | Gweler yr ymateb uchod. |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| Ymateb gan | Crynodeb o'r cynnwys | Ymateb |
|---|---|---|
| | sgôp y Cynllun. | |
| | Rydym yn bryderus fod diffyg adroddiad ar Drafnidiaeth wedi cyfyngu gallu'r Asesiad Cynaladwyedd i roi ystyriaeth ddigonol i'r effaith mae trafnidiaeth yn ei gael ar yr hoff strategaeth. Cynigiwn ein sylwadau cyfyngedig isod fel modd o amlygu'r potensial am archwiliad mwy trylwyr yn y dyfodol rhyw dro. Mae'n cefnogi ein dadl mai opsiwn D2 ddylai fod yr opsiwn a ffafrir. | Nodwyd. |

## Arfarniad o Gynaliadwyedd i'r CDLl ar y Cyd Adnau (Chwefror 2015)

| Ymatebydd | Adran | Crynodeb o'r sylwadau | Ymateb y Cyngor |
|---|---|---|---|
| CNC | Safleoedd C6, C39 & T4 | O ran 'Dŵr' rydym yn tynnu eich sylw at ein gwrthwynebiad i'r dyraniadau C6, C39 a T4 sydd wedi eu lleoli naill ai mewn parthau llifogydd C1 neu C2 fel y diffinnir gan fapiau Cyngor Datblygu Llywodraeth Cymru, oni bai bod gwybodaeth bellach yn cael ei darparu trwy gyfrwng Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol wedi'i ddiweddaru. | Gweler ymateb y Cynghorau i'r sylwadau yn ymwneud â C6, C39 aT4. |
| CNC | Para 6.61 a 6.63 | O ran y casgliad y daethpwyd iddo ym mharagraffau 6.61 a 6.63, nid yw CNC yn cytuno na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar ansawdd dŵr, adnoddau dŵr neu risg llifogydd o ganlyniad i ddatblygiad arfaethedig.  Fel y nodwyd, mae angen cyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd. | Gweler ymateb y Cynghorau i'r sylwadau yn ymwneud â C6, C39 a T4. Anghytuno y bydd effeithiau sylweddol mewn perthynas â safleoedd C6 & C39 ac mae safle T4 yn cael ei ddileu i gymryd i ystyriaeth sylwadau CNC.  Bydd canfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael eu diweddaru i adlewyrchu dileu safle T4.  Bydd brawddeg olaf paragraff 6.61 hefyd yn cael ei diwygio i roi eglurhad pellach am yr angen i gyfeirio datblygiadau i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd: |

## ATODIAD 1: Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus a'r grwp Tasg Cynaladwyedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | "~~Cyfeirio~~ **<u>Dylai datblygiadau</u> <u>gael eu cyfeirio</u>** i ffwrdd o ardaloedd lle mae perygl llifogydd ..." |
| CNC | Para 6.78 | Nid yw'r cyfeiriad at Bolisi PS1 ym mharagraff 6.78 yn gywir. Cred CNC y dylai'r cyfeiriad hwn fod at Bolisi PS16 Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol gan fod y Polisi yn ceisio diogelu a gwella ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel, a chyfeirio datblygiadau i ffwrdd oddi wrth yr amgylcheddau mwyaf sensitif. | Cytuno. Dylai'r cyfeiriad at Bolisi PS1 gael ei ddileu a dylid cyfeirio at PS16 yn hytrach:<br>6.78 "…Mae Polisi ~~PS1~~ **<u>PS16</u>** yn ceisio diogelu a gwella ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel …" |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

(Mae testun newydd wedi ei ddangos mewn ysgrifen bras ac wedi ei danlinellu e.e. **testun** tra bo testun sydd wedi ei ddileu wedi ei ddangos gyda ~~llinell drwyddo~~)

1.7 Yn ogystal â'r gofyniad i gwblhau AC o'r CDLl, dan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC, sy'n cael ei gweithredu yn y DU drwy Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004, dylai Cynlluniau Datblygu Lleol hefyd fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS). Mae AAS yn broses i sicrhau bod yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n deillio o gynlluniau a rhaglenni yn cael eu hadnabod, eu hasesu, eu lliniaru, a'u cyfathrebu i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniadau ac yna'u monitro. **Drwy ei gwneud yn ofynnol i ystyried cynlluniau amgen ac i ystyried canlyniadau'r asesiad wrth lunio'r cynllun terfynol, dylai'r broses AAS sicrhau bod y cynllun yn fodd o osgoi unrhyw effeithiau andwyol ar yr amgylchedd yn ogystal â lliniaru effeithiau o'r fath.**

**DA1**

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd**

1.12 O dan Erthygl 6(3) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (92/43/EEC), mae asesiad priodol angen ei gwblhau mewn cysylltiad ag unrhyw gynllun neu brosiect sydd:

- Un ai yn unigol neu mewn cyfuniad gyda chynlluniau neu brosiectau eraill a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle sydd wedi ei ddynodi oddi mewn i rwydwaith Natura 200**0** **(h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig; Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig a Safleoedd Ramsar);**
- Dim mewn cysylltiad uniongyrchol gyda rheolaeth y safle ar gyfer cadwraeth natur.

**DA2**
**DA3**

1.16 Mae'r Atodiad ~~drafft ymgynghori~~ i NCT 5 (~~Hydref~~ 200**9**~~6~~), sydd yn amlinellu sut y dylai'r Rheoliadau Cynefinoedd gael eu gweithredu mewn cysylltiad â CDLl ar y Cyd, yn nodi:

**DA4**

1.21 Mae gan ddynodiadau a pholisïau y CDLl ar y Cyd y potensial i effeithio'n sylweddol ar yr iaith Gymraeg (e.e. drwy annog tyfiant a'r cynnydd mewn pobl o fannau eraill) ~~neu drwy gefnogi sefydlu defnydd~~ **drwy ddarparu tai newydd a darparu cyfleoedd** cyflogaeth newydd. Y mae Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEIG) yn caniatáu adnabod yr effeithiau posib ar yr iaith Gymraeg a allai ddod yn sgil datblygiad. Dylai'r Ymgynghoriad drafft o NCT20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (AEIG) fod yn rhan hanfodol o'r Arfarniad

**DA5**

Cynaladwyedd (AC) a'r prosesau asesu safle sy'n cael eu cynnal yn ystod paratoad cynlluniau.

1.6 I Gymru mae'r amcanion hyn yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun datblygu cynaliadwy Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned;' (Mai 2009) sy'n diffinio datblygiad cynaliadwy yn y termau a ganlyn: *"Datblygiad sydd yn bodloni anghenion heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion eu hunain."*

**Datblygiad Cynaliadwy yng Nghymru**

Yng Nghymru, mae datblygiad cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymdeithasau gan ennyn gwell ansawdd bywyd ar gyfer eich cenhedlaeth chi a'r dyfodol.

- Mewn ffordd sydd yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal; ac
- Mewn ffyrdd sydd yn mwyhau yr amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parchu ei derfynau – gan ddefnyddio dim ond swm teg o adnoddau'r ddaear a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol.

~~Datblygiad cynaladwy yw'r broses a fydd yn arwain at gyrraedd y nod o gynaladwyedd.~~ **DA6**

**3. BIOAMRYWIAETH**

| **Materion allweddol o'r asesiad gwaelodlin** |
| --- |
| • **Bygythiadau i gyflwr a pharhad nodweddion <u>bioamrywiaeth</u> ~~y dirwedd~~** |

**DA7**

- **Diogelu Coetiroedd Rhannol Naturiol**

## 5. FFACTORAU HINSAWDD

### Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a thueddiadau

5.1 Nid yw llygredd aer yn broblem sylweddol yn Ynys Môn a Gwynedd a fyddai'n cyfiawnhau dynodi Ardal Rheoli Ansawdd Aer (ARAA). Ar y cyfan, mae ansawdd aer yn dda yn y ddau awdurdod. Yn ynys Môn a Gwynedd, mae crynodiadau PM10, er enghraifft, yn sicr o fewn y cyfyngiadau cenedlaethol ac mae ardaloedd LSOA y Sir ymhlith y lleiaf difreintiedig yng Nghymru yn nhermau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru : Mynegai Allyriadau Aer ar sail Cyfartaledd y Boblogaeth (2008). Awgryma hyn fod cyflwr ansawdd aer yn dda i'r boblogaeth breswyl yn ôl yr indecsau hyn. Mae monitro lleol yn parhau mewn amrywiol safleoedd ledled y ddau awdurdod – roedd yr unig fesur ansawdd aer oedd yn uwch na'r hyn sy'n dderbyniol ar yr A55 yn Llanfairpwll ble roedd y canlyniadau'n uwch na'r amcanion blynyddol ar gyfer NO2.

5.2 Mae allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi cynyddu'n raddol ers 2002 ac mae allyriadau'n parhau i fod yn broblem ac yn rhywbeth sy'n cyfrannu'n sylweddol at newid hinsawdd. ~~Mae amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu y bydd hafau yn sychach a gaeafau yn wlypach yn sgil newid hinsawdd dros y 25 mlynedd nesaf, gyda mwy o law yn gyffredinol. Mae'n debygol y bydd tymereddau'n cynyddu hefyd.~~ **Fel mewn ardaloedd eraill o fewn y DU, mae'n debygol y bydd yr effeithiau yng Nghymru yn cynnwys tymheredd uwch gydol y flwyddyn, stormydd amlach, cynnydd yn lefel y môr, hyrddiadau storm amlach, mwy o law a chynnydd yn y mewnlif i aberoedd a'r môr, newidiadau ym mhatrwm y glawiad blynyddol (gaeafau gwlypach, hafau sychach), a chynnydd yn yr anwedd-drydarthiad (y dŵr a gollir o blanhigion, crynofeydd dŵr a phridd).** Gallai newidiadau mewn patrymau glawiad a faint o law a geir effeithio ar faint o ddŵr sydd ar gael i bobl a'r amgylchedd. Mae amodau mewn diwydiant, tai ac yn benodol trafnidiaeth ffordd yn brif gyfranwyr i allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y ddwy sir. **DA8**

5.3 Carbon deuocsid yw'r prif gyfrannwr i allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae cyfwerth CO2 cyfanswm y nwyon tŷ gwydr nad ydynt yn CO2 yng Nghymru wedi gostwng gan 28% rhwng 1990 a 2006. Ceir y cyfraniad mwyaf tuag at allyriadau CO2 yng Ngwynedd gan ffynonellau domestig. Yng Ngwynedd, mae allyriadau CO2 o ffynonellau domestig yn uwch na chyfartaledd Cymru (2.6 y pen o gymharu â 2.4 yng Nghymru), sy'n dangos y ceir cyfran uwch na'r cyfartaledd o dai sy'n defnyddio ynni'n aneffeithiol. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r gyfran uchel o dai a adeiladwyd cyn 1919 yn yr ardal. Ceir y cyfraniad mwyaf tuag at allyriadau CO2 yn Ynys Môn gan ddiwydiant a gweithgarwch masnachol (54%). Tai (allyriadau tanwydd) yw elfen fwyaf ôl-troed ecolegol Cymru, sy'n cyfrif am 22-27%.

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

5.4 **Mae dyddodion asid a nitradau yn broblem mewn rhannau o Ynys Môn a Gwynedd. Mae dyddodion asid yn cynnwys dyddodion gwlyb a sych o lygryddion o'r atmosffer sydd â'r potensial i asideiddio pridd a dŵr croyw. Mae nitrogen yn cyfeirio at ddogn y llygrydd, a all arwain at ewtroffeiddio. Mewn rhai ardaloedd o fewn ardal y Cynllun ceir mwy na'r llwyth critigol ar gyfer rhai rhywogaethau, sy'n cael effaith negyddol ar rai cynefinoedd a rhywogaethau.** DA9

| **Materion allweddol o'r asesiad gwaelodlin** |
|---|
| • **Cynnal ansawdd aer da yn gyffredinol**<br>• **Nwyon tŷ gwydr a bygythiad newid hinsawdd**<br>• **Niwed posibl i ecosystemau gan ddyddodion nitradau ac asid**<br>• **Y perygl o lifogydd o ganlyniad i newid hinsawdd** |

DA10

DA11

| **Materion cynaladwyedd a chyfleoedd** |
|---|
| • Yr angen i ystyried effeithiau ansawdd aer wrth asesu bwriadau datblygu mewn ardaloedd ble y gallai datblygiadau newydd/ychwanegol arwain at effeithiau sylweddol/cronnus er mwyn cynnal neu wella ansawdd aer.<br>• Yr angen i gyfrannu at leihau nwyon tŷ gwydr drwy leihau defnydd o ynni a chynyddu cynhyrchiant ynni adnewyddadwy.<br>• Yr angen i hyrwyddo effeithiolrwydd ynni wrth ddylunio adeiladau newydd ac addasu adeiladau presennol.<br>• Yr angen i leihau ôl-troed ecolegol y ddau awdurdod lleol, gyda ffocws penodol ar yr allyriadau sy'n codi o dai a thrafnidiaeth.<br>• Lleihad mewn cynhyrchiant nwyon tŷ gwydr drwy leihau faint o deithio a wneir mewn cludiant preifat, gan hyrwyddo mwy o gerdded, beicio a defnydd o gludiant cyhoeddus. |

- **Yr angen i sicrhau bod y datblygiad newydd yn wydn a bod modd ei addasu i wrthsefyll effeithiau llifogydd** DA12

- Ymgorffori mesurau addasu i newid hinsawdd fel elfen annatod o'r **holl** ddatblygiadau ~~tai ac isadeiledd newydd~~ **newydd gan gynnwys datblygiadau tai, seilwaith a thwristiaeth, ac ystyried a fydd y datblygiad arfaethedig yn cyfrannu'n bositif tuag at leihau neu reoli'r risg o lifogydd.** DA13

- Hwyluso datblygu ffynonellau ynni carbon isel ledled ardal y cynllun.

**Negeseuon allweddol yn sgil adolygu cynlluniau a rhaglenni**

- Dylai'r CDLl ar y Cyd fynd i'r afael â materion megis newid hinsawdd, annog lleihau allyriadau nwyon niweidiol tŷ gwydr a hwyluso gwella ansawdd aer. Dylai'r Cynllun fod yn gyson ag amcanion a thargedau a sefydlwyd yn y cynlluniau a'r canllawiau cenedlaethol, megis Strategaeth Ansawdd Aer y DU.

- Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried amcanion a thargedau'r polisi cenedlaethol pan ffurfir y polisïau yn ymwneud â chynhyrchu ynni yn Ardal y Cynllun.

- Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddol mewn datblygiadau newydd a phwysleisio'r berthynas rhwng ynni a dyluniad adeiladu.

- Bydd argaeledd cludiant cyhoeddus yn ystyriaeth bwysig i'r CDLl ar y Cyd, yn enwedig o ran cynaliadwyedd, hygyrchedd, lleihau'r ddibyniaeth ar gludiant cyhoeddus a chyfrannu tuag at ymateb i newid hinsawdd.

## 6. TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL

6.4 Mae cyfoeth o ddynodiadau ffurfiol yn adnabod ac yn gwarchod y nodweddion pwysicaf yn nhreftadaeth hanesyddol a phensaernïol ardal y CDLl ar y cyd. Gwynedd sydd â'r nifer ail uchaf o adeiladau rhestredig yng Nghymru tra bod Ynys Môn yn nawfed drwy Gymru. Mae'r adeiladau rhestredig hyn yn amrywio o eglwysi ac adeiladau cyhoeddus i fythynnod bach, ciosgau ffôn neu hyd yn oed gerrig milltir. Y cyswllt cyffredin rhwng strwythurau mor amrywiol â hyn yw'r ffaith bod CADW yn eu hystyried yn archeolegol neu'n hanesyddol arbennig. Fodd bynnag, mae cyfran o'r adeiladau hyn dan fygythiad ac mae 11% yng Ngwynedd wedi'u dynodi i fod 'wrth risg' ac yn Ynys Môn, mae 12% o'r holl adeiladau rhestredig yn y categori hwn **(Hydref 2007)**. **DA14**

6.5 Yn ogystal, mae gan Wynedd nifer gymharol uchel o Ardaloedd Cadwraeth – 40 i gyd (y nifer ail uchaf yng Nghymru) tra bod gan Ynys Môn 12 o'r dynodiadau hyn.

6.6 Mae ardal y CDLl ar y cyd hefyd yn cynnwys un Safle Treftadaeth y Byd sydd ar ddau safle – ychwanegwyd Castell Caernarfon a Muriau'r Dref yng Ngwynedd a Chastell Biwmares yn Ynys Môn i restr Safleoedd Treftadaeth y Byd fel safleoedd diwylliannol o werth byd-eang eithriadol ym **1986** ~~1987~~. **DA15**

6.7 **Yn ogystal â'r nodweddion dynodedig hyn o ddiddordeb hanesyddol a diwylliannol, bydd yn bwysig ystyried nodweddion nad ydynt wedi'u dynodi, megis** strwythurau amaethyddol, systemau ffyrdd hynafol, ffiniau a systemau caeau, coed sydd o bwysigrwydd hanesyddol ac ati. **DA16**

| **Materion allweddol o'r asesiad gwaelodlin** |
|---|
| • **Gostyngiad diweddar yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg**<br>• **Treftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol**<br>• **Colli nodweddion tirwedd hanesyddol** |

**DA17**

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| **Materion cynaladwyedd a chyfleoedd** |
|---|
| • Yr angen i hwyluso cadw a gwella'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig fel rhan bwysig o'n treftadaeth ddiwylliannol.<br><br>• Cefnogi a hwyluso'r dull gweithredu a nodwyd yn y Mesur Iaith Gymraeg (gweler y waelodlin fel cyfeiriad).<br><br>• Yr angen i gasglu tystiolaeth a gwybodaeth ynghylch effaith datblygiadau ar yr iaith Gymraeg ble bo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol.<br><br>• Ceir potensial o ddifrod i safleoedd treftadaeth pwysig a'r amgylchedd hanesyddol o fewn ardal y CDLl ar y cyd gan ddatblygiadau yn sgil dinistr/ymyrraeth i nodweddion o bwysigrwydd treftadaeth ddiwylliannol a hefyd drwy ymyrryd ar leoliad nodweddion o'r fath.<br><br>• Yr angen i hyrwyddo gwarchod, cadwraeth a gwella **tirwedd** ~~treftadaeth~~ archeolegol, pensaernïol, **adeiliedig a hanesyddol** ardal y CDLl ar y cyd. |

DA18

| **Negeseuon allweddol yn sgil adolygu cynlluniau a rhaglenni** |
|---|
| • Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried cynlluniau a chanllawiau allweddol wrth ffurfio'i bolisïau a'i gynigion.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ddiogelu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r dreftadaeth ddiwylliannol a hyrwyddo'r cyfleoedd fydd yn codi yn sgil adnoddau ieithyddol a diwylliannol yr ardal.<br><br>• **Wrth lunio'r cynigion, dylai'r CDLl ystyried yr wybodaeth am dreftadaeth ddiwylliannol sydd yn LANDMAP.** |

DA19

**ECONOMI**

Mae'r rhan fwyaf o rannau'r sector twristiaeth wedi profi twf bychan a chyson **dros y blynyddoedd diwethaf.** Fodd bynnag, nid yw'r cyfraddau twf yn sylweddol uchel i awgrymu fod y diwydiant yn chwyddo ar raddau cyflym iawn; mae angen lefel uchel o fuddsoddiad mewn llety o safon uchel, atyniadau i dwristiaid a gweithgareddau hamdden er mwyn denu mwy o gwsmeriaid i'r ynys. **Mae rhan fwyaf y sectorau o fewn y diwydiant twristiaeth wedi gweld gwelliant cyffredinol rhwng 2006 a 2009. Fodd bynnag, mae'r sector llety â gwasanaeth wedi dirywio yn ystod yr un cyfnod.** ~~Dirywiodd cyfanswm yr ymwelwyr a ddeuai i Ynys Môn rhwng 2004 a 2006, er eu bod yng nghynt wedi cynyddu ers 2001. Mae'r cyfanswm sydd wedi'u cyflogi yn y diwydiant twristiaeth yn Ynys Môn wedi aros yn weddol gyson ers 2001. Yng Ngwynedd, cynyddodd nifer y twristiaid rhwng 1999 a 2005, ond maent wedi gostwng ers hynny.~~

D20

D21

| Materion allweddol o'r asesiad gwaelodlin |
| --- |
| • Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) cymharol isel yn benodol yn Ynys Môn<br>• Cyfradd gweithgarwch economaidd gymharol uchel yn ardal y CDLl ar y cyd ond diweithdra uwch na'r cyfartaledd yn Ynys Môn<br>• Gostyngiad yn niwydiannau'r tir<br>• Enillion llai na'r cyfartaledd<br>• Cyrhaeddiad addysgol<br>• ~~Gwella'r~~ **Hybu twf cynaladwy o fewn y** diwydiant twristiaeth |

DA22

**8. TAI**

8.4 Cynyddodd cyfartaledd pris yr holl dai a werthwyd yng Ngwynedd rhwng **mis Tachwedd 2002 a mis Mai 2011** ~~1997 a 2006~~ o ~~213~~ **89.2**% - uwch na'r cynnydd o ~~173~~ **69**% yng Nghymru. Yng Ngwynedd, cyfartaledd pris tŷ ym ~~2006~~ **mis Mai 2011** oedd ~~£159,452 - £7,252~~ **£169,780 - £8,081** yn uwch na chyfartaledd Cymru. Cynyddodd cyfartaledd pris yr holl dai a werthwyd yn Ynys Môn rhwng ~~1996/97 a 2006~~ **mis Tachwedd 2002 a mis Mai 2011** o ~~205~~ **81**%. Yn Ynys Môn, cyfartaledd pris tŷ ym **mis Mai 2011 oedd £170,471 - £8772** ~~2006 was £155,714, £3,514~~ yn uwch na chyfartaledd Cymru. **DA23**

## 9. TIRWEDD

### Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a thueddiadau

9.1 Mae gan ardal y CDLl ar y cyd adnodd tirwedd gwerthfawr iawn sy'n cynnwys nifer o ardaloedd dynodedig megis parciau a gerddi hanesyddol, ardaloedd gwarchod y dirwedd, tirweddau hanesyddol ac AHNEau. Mae rhannau o Wynedd hefyd yn ffurfio Parc Cenedlaethol Eryri.

9.2 Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn enwog am ei thirweddau arfordirol a'i morweddau, ~~gydag arfordir Ynys Môn gyfan~~ **mwyafrif** Ynys Môn, sy'n cynnwys arfordir treftadaeth ac ardaloedd o werth daearegol a diwylliannol wedi ei ddynodi'n AoHNE. Mae AoHNE Llŷn yng Ngwynedd hefyd wedi ei ddynodi'n arfordir treftadaeth sy'n adlewyrchu gwerth ei asedau hanesyddol, daearegol, daearyddol ac ecolegol. **DA24**

**Mae parc GeoMôn wedi'i leoli ar Ynys Môn. Canolbwynt y Parc yw'r amrywiaeth anhygoel o ddaeareg sy'n cynnwys creigiau solid o'r cyfnodau Cyn-Gambriaidd i'r *Neogene* gyda rhai gwaddodion Mïosenaidd, ynghyd â nodweddion helaeth rhewlifiant Pleistosenaidd o'r cyfnod Cwaternaidd.**

9.3 Mae cymeriad tirwedd a nodweddion bioamrywiaeth AHNEau Llŷn a Môn dan bwysau gan nifer o ffactorau sy'n ymwneud â datblygiadau. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladau newydd ac addasiadau, safleoedd carafanau a gwersylla, **datblygiadau twristaidd megis cabanau pren, ffermydd/tyrbinau gwynt,** ffyrdd, **ehangu trefi/datblygiadau newydd, ynni/diwydiant**, cyfathrebu a thelegyfathrebu **(e.e peilonau)**, chwareli a gweithfeydd mwynau, coedwigaeth, gwastraff a gwaredu gwastraff, prosesau naturiol a ffermio. **DA25**

**Materion allweddol o'r asesiad gwaelodlin**

- **Pwysau ar ddynodiadau tirwedd pwysig**
- **<u>Y posibilrwydd o golli nodweddion tirwedd hanesyddol a phwysig e.e cloddiau</u>** DA26
- **<u>Pwysigrwydd llonyddwch ac awyr dywyll mewn ardaloedd eang</u>** DA27

**Materion cynaladwyedd a chyfleoedd**

- Yr angen i warchod a gwella tirweddau **<u>a'r môr</u>** drwy ddyluniadau a datblygiadau priodol o safon uchel sy'n cyd-fynd â chymeriad a natur nodedig lleol a, ble bo hynny'n briodol, nad ydynt yn cael effaith andwyol sylweddol ar olygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri **<u>ac AHNEau</u>** nac allan ohonynt. DA28 DA29

- Yr angen i sicrhau bod yr AHNEau yn cael eu gwarchod rhag datblygiadau sydd â'r potensial i ddifrodi eu nodweddion cadwraeth arbennig.

- **<u>Yr angen i warchod a gwella ardaloedd o lonyddwch ac awyr dywyll, yn enwedig o fewn AHNEau, drwy ddyluniadau a datblygiadau priodol.</u>** DA30

- **<u>Annog cysylltiadau isadeiledd gwyrdd, a diogelu a gwella gwrychoedd,</u> <u>coed mwynderol a choedtiroedd sy'n gyforiog o rywogaethau.</u>** DA31

- **<u>Defnyddio lletemau glas lle ystyrir bod angen dynodiadau o'r fath</u>** DA32

**Negeseuon allweddol yn sgil adolygu cynlluniau a rhaglenni**

| | | |
|---|---|---|
| | • Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried cynlluniau a chanllawiau allweddol/ a nodwyd wrth ffurfio'i bolisïau a'i gynigion.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ddarparu ar gyfer cadwraeth a ble y **bo'n briodol** modd, gwella'r amgylchedd naturiol a'r dirwedd, a pharchu hawliau tramwy.<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo **datblygiadau mewn mannau priodol a** dylunio da sy'n parchu hynodrwydd yr ardal **adeiledig a'r tirwedd.**<br><br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried ardrawiad datblygu telathrebu ar gynaliadwyedd, gan bwyso a mesur yr angen am dwf economaidd yn erbyn effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol. | <br><br>**DA33**<br><br><br><br>**DA34** |

**10. PRIDDOEDD, MWYNAU, GWASTRAFF**

**Crynodeb o'r sefyllfa bresennol a thueddiadau**

10.1 Mae gan Wynedd bridd â dwysedd carbon uchel, yn bennaf yn sgil natur ucheldirol topograffeg y sir. Mae carbon organig yn deillio o lystyfiant corfforedig naill ai'n cael ei waddodi neu sy'n gysylltiedig â deunydd gwraidd o fewn pridd. Mae'n bwysig ar gyfer nifer o nodweddion a phrosesau pridd. Gall colli mater organig pridd arwain at erydiad pridd, colli ffrwythlondeb, cywasgiad a dirywiad tir cyffredinol. Mae Ocsideiddiad mater organig (ei dorri i lawr) yn rhoi egni i organebau pridd a thrwy resbiradaeth mae'n arwain at allyriadau carbon deuocsid. Mae lefel y carbon yn y pridd wedi bod yn syrthio'n raddol yng Nghymru a Lloegr oherwydd nifer o ffactorau ac mae newid hinsawdd ymysg y rhesymau hynny. Mae colli carbon o briddoedd yng Nghymru a Lloegr wedi digwydd ar raddfa gymedrig o 0.6% y flwyddyn rhwng 1978 a 2003. **Mae Parth Perygl Nitradau wedi'i ddynodi i'r de-orllewin o Langefni. O fewn y parth hwn, rhaid i ffermwyr gydymffurfio â rhaglen weithredu o fesurau sy'n cynnwys cyfyngiadau ar amseriad a gwasgariad gwrteithiau a thail, a chadw cofnodion cywir.** **D35**

10.4 **Mae cyfanswm y gwastraff bwrdeistrefol (ac eithrio cerbydau wedi'u gadael) a gynhyrchwyd yng Nghymru wedi gostwng bob blwyddyn dros y pum mlynedd diwethaf, gyda 1.67 miliwn tunnell wedi'i gynhyrchu yn 2009-10 o'i gymharu â 1.93 miliwn tunnell yn 2004-05 – gostyngiad cyffredinol o 13.4 y cant (lleihad o 258,301 tunnell), a gostyngiad cyfartalog bob blwyddyn o 2.7** **DA36**

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

**y cant ar ffigwr 2004-05**. ~~Mae maint y gwastraff bwrdeistrefol ledled y DU yn cynyddu bob blwyddyn a dengys ffigyrau nad yw Ynys Môn a Gwynedd yn eithriad i'r duedd hon.~~ Ceir amrediad o ffactorau a allai effeithio ar y cynnydd mewn faint o wastraff a gynhyrchir yn cynnwys, newidiadau i'r boblogaeth, newidiadau i nifer yr aelwydydd a'u maint, ymddygiad defnyddwyr/prynwyr, effeithiolrwydd strategaethau lleihau gwastraff a newidiadau i ffyniant economaidd rhanbarth. Pwysleisir yr angen i gynhyrchu llai o wastraff yn y lle cyntaf **er mwyn cyrraedd y targedau a osodir gan y llywodraeth**. ~~Yn wir, mae rhanbarth gogledd Cymru yn wynebu'r her sylweddol o leihau gwastraff aelwydydd y pen gan oddeutu 40% y flwyddyn.~~

| **Negeseuon allweddol yn sgil adolygu cynlluniau a rhaglenni** |
|---|
| • Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried cynlluniau a chanllawiau allweddol wrth ffurfio'i bolisïau a'i gynigion.<br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd roi ystyriaeth lawn i'r canllawiau a sicrhau fod y defnydd o fwynau yn cael ei ddatblygu'n gynaliadwy.<br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso echdynnu agregau yn gynaliadwy o fewn Ardal y Cynllun, gan sicrhau cydbwysedd rhwng y costau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.<br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau fod ei bolisïau ynglŷn â gwastraff yn adlewyrchu amcanion a thargedau'r cynlluniau a'r canllawiau uchod.<br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff ac annog lleihau'r gwastraff a gynhyrchir.<br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo ailgylchu a hwyluso lleihau'r gwastraff a anfonir i dirlenwi yn unol â thargedau a osodir gan y Gyfarwyddeb Tirlenwi.<br>• Dylai'r CDLl ar y Cyd ddarparu fframwaith defnydd tir er mwyn galluogi'r |

ddau Awdurdod i ddyrannu safleoedd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd.

- Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso lleihau cyfradd twf gwastraff yn ardal y Cynllun.
- Dylai'r CDLl ar y Cyd ymgorffori cyfleusterau rheoli gwastraff digonol ac effeithiol mewn datblygiadau newydd.
- **Dylai'r CDLl sicrhau bod unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar dir wedi'i halogi, neu ar dir yr amheuir yn gryf ei fod wedi'i halogi, yn destun Asesiad Risg Rhagarweiniol (PRA), cyn neilltuo safle o fewn ardal y cynllun.** **DA37**
- **Dylid ystyried prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru wrth benderfynu ar yr angen am unrhyw gyfleusterau gwastraff yn ardal y cynllun. Dylid cyfrifo maint y gwastraff presennol a'r rhagamcanion er mwyn pennu'r anghenion o ran nifer y cyfleuesterau a pa fathau, a'r arwynebedd tir.** **DA38**

**Materion cynaladwyedd a chyfleoedd**

- Yr angen i warchod a rheoli pridd gan gynnwys cynnal carbon pridd ac anelu i osgoi peri risg ychwanegol drwy lygru neu halogi.
- **Yr angen i gynorthwyo i leihau llygredd dŵr a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol.** **DA39**
- Yr angen i gyfeirio datblygiadau i safleoedd tir llwyd neu, fel arall, i'r tir amaethyddol o'r ansawdd gwaethaf gymaint â phosib er mwyn cadw'r tir

amaethyddol gradd uchel.

- Adnabod yr angen i leihau gwastraff sy'n deillio o'r holl sectorau fel y gellir cyrraedd y targedau a osodir gan Ewrop a Llywodraeth Cymru.
- Yr angen i sicrhau yr ystyrir materion gwastraff wrth asesu a phennu ceisiadau cynllunio ar gyfer pob math o ddatblygiadau.
- Yr angen i gyfrannu tuag at leihau faint o wastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei dirlenwi drwy hwyluso darparu rhwydwaith cynhwysfawr, integreiddiedig a chynaliadwy o gyfleusterau rheoli gwastraff newydd a gwell ar gyfer trin a gwaredu gwastraff fel dewis amgen i dirlenwi.
- Yr angen i gyfrannu tuag at gynyddu cyfraddau ailgylchu a chompostio.

**12. DWR**

| **Materion allweddol o'r asesiad gwaelodlin** |
| --- |
| • **Cynnal ansawdd afonydd da a gwella safonau ble bo angen**<br>• **Cynnal dyfroedd ymdrochi glân a gwella eraill**<br>• **Nifer o ardaloedd poblog mewn perygl o orlifo**<br>• **<u>Mae'n bosibl na fydd llawer o arfordir a gorlifdiroedd Gwynedd ac Ynys Môn yn addas ar gyfer datblygiadau tymor-hir</u>**<br>• **Llai o adnoddau dŵr ar gael** |

**DA40**

| **Fframwaith Amcanion yr AC Drafft** |
| --- |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

**1. Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd**
***(Pynciau AAS: bioamrywiaeth, ffawna, fflora, pridd)***

A fydd y cynllun yn...

- Amddiffyn cyfanrwydd safleoedd dynodedig (rhyngwladol, cenedlaethol a lleol), ac osgoi cynefinoedd / rhywogaethau tameidiog
- Diogelu a mwyhau cynefinoedd bywyd gwyllt ar y tir ac yn y môr (yn cynnwys yr ased coetiroedd sylweddol a geir yn ardal y cynllun), a bioamrywiaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig a threfol
- Cynnal a gwella'r ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd
- Diogelu a mwyhau'r safleoedd daearegol dynodedig a'r ddaear amrywiaeth ehangach

**Dangosyddion Arfaethedig:**

~~% y newid yng nghynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth a nodir yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth ardal y cynllun~~ **DA41**

- **Y bioamrywiaeth a gollir drwy ddatblygiadau, a fesurir gan y safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl ar y Cyd a gollir neu yr effeithir arnynt** **DA42**
- **Colled net y bioamrywiaeth yn ardal y CDLl a achosir gan ddatblygiadau** **DA43**
- **% y nodweddion (amrywiol fathau) mewn cyflwr addawol, yn rhai ar dir ac yn y môr**
- **Cyrhaeddiad amcanion a thargedau y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (y DU, gwlad benodol / rhanbarthol / lleol)**
- **Tueddiadau a statws rhywogaethau / cynefinoedd Adran 42 NERC 2006** **DA44**
- **Nifer ac arwynebedd y Safleoedd Cadwraeth Natur Arbennig (SINCs) a'r GNLl o fewn y Cynllun**

**2. Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant ac iechyd a lles cymunedol**
***(Pynciau AAS: iechyd bodau dynol, y boblogaeth)***

A fydd y cynllun yn...

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

- Bodloni anghenion poblogaeth sy’n heneiddio
- Lleihau nifer y bobl mewn oed gwaith sy'n allfudo er mwyn cefnogi cymunedau sy'n gytbwys o ran oedran y boblogaeth
- Gwella’r ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau i gymunedau difreintiedig ac ardaloedd gwledig a gwella mynediad atynt.
- Hyrwyddo rhyngweithio cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol
- Cael gwared ar rwystrau a chreu cyfleoedd i bobl fyw bywydau iachach, e.e. hyrwyddo ymarfer corff (cerdded, beicio)
- Lleihau’r anghydraddoldeb iechyd rhwng ardaloedd a grwpiau cymdeithasol

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- % y boblogaeth gyfan sydd â mynediad at wasanaethau allweddol
- mesurau iechyd sy’n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. pobl dros eu pwysau, gordewdra) – Arolwg Iechyd Cymru

**3. Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu**
***(Pynciau AAS: ffactorau hinsawdd, aer)***

A fydd y cynllun yn...

- Lleihau’r allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth, adeiladau a phrosesau cynhyrchu ynni
- Cefnogi ac annog datblygiadau newydd sy’n ynni effeithlon ac sy’n medru gwrthsefyll newid hinsawdd
- Integreiddio a hyrwyddo ynni adnewyddadwy a chynlluniau ynni carbon isel, **ar lefel leol a chymunedol,** a chynyddu’r galw am ynni a gyflenwir gan ffynonellau carbon isel DA45
- Sicrhau y cynllunnir am addasiadau mewn ffordd sy’n gwneud y mwyaf o gyfleoedd ac sy’n isafu’r costau sy’n gysylltiedig â newid hinsawdd

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- % y newid mewn allyriadau carbon deuocsid o’r ~~stoc dai~~ **sectorau diwydiant / masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd, newid mewn defnydd tir a** DA46

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| |
|---|
| **choedwigaeth** |
| **4. Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg**<br>***(Pynciau AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Gwarchod a mwyhau'r cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Nifer / % y siaradwyr Cymraeg |
| **5. Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol**<br>***(Pynciau AAS: Treftadaeth Ddiwylliannol)*** |
| A fydd y cynllun yn…<br>▪ Sicrhau y gwarchodir asedau hanesyddol, archeolegol a diwylliannol lleol (yn cynnwys eu gwarchod rhag datblygiadau newydd), ac y gwneir y mwyaf ohonynt er budd trigolion ac ymwelwyr<br>▪ Hyrwyddo mynediad at yr amgylchedd hanesyddol er dibenion addysg a thwristiaeth / datblygiad economaidd |
| **Dangosyddion Arfaethedig**<br>▪ Nifer / newid yn yr adeiladau / asedau hanesyddol mewn perygl |
| **6. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol**<br>***(Pynciau AAS: Poblogaeth)*** |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Hyrwyddo a hwyluso buddsoddiad i fusnesau lleol ar draws amrywiaeth o sectorau economaidd |

| | |
|---|---|
| ▪ Gwella a mwyhau cyfleoedd cyflogaeth, yn cynnwys mewn ardaloedd gwledig<br>▪ Cefnogi'r diwydiant twristiaid drwy wneud gwelliannau amgylcheddol a gwella'r seilwaith, **a chynorthwyo i wella adnoddau a seilwaith presennol**<br>▪ Darparu mynediad at gyfleoedd am hyfforddiant, addysg a datblygu sgiliau i bob sector yn y gymuned | **DA47** |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Gweithgarwch economaidd fesul sector<br>▪ Statws cyflogaeth trigolion 16 mlwydd oed a throsodd<br>▪ Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn ac allan o ardaloedd yr awdurdod | |
| **7. Darparu tai cynaladwy ~~ansawdd da~~, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol**<br>***(Pynciau AAS: y boblogaeth, iechyd bodau dynol)*** | |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Gwella ansawdd ac argaeledd y stoc tai presennol ar gyfer cymunedau difreintiedig<br>▪ Cyflwyno mwy o dai fforddiadwy a chynaliadwy ~~o ansawdd uchel~~ **gyda'r effaith leiaf bosib ar yr amgylchedd** mewn ardaloedd gwledig a threfol<br>▪ Cyflwyno tai addasadwy sy'n mynd i'r afael ag anghenion unigol y cymunedau | **DA48** |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd / blwyddyn fel canran o'r holl unedau newydd | |
| **8. Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun**<br>**(Pynciau AAS: y dirwedd)** | |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Gwarchod a mwyhau nodweddion arbennig y dirwedd yn ardal y cynllun, yn | |

| | |
|---|---|
| cynnwys Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, y dirwedd arfordirol / morol a threfweddau<br>▪ Gwarchod a gwella ansawdd y mannau agored sy'n hygyrch i'r cyhoedd mewn amgylchedd gwledig ac adeiledig<br>▪ Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u hintegreiddio'n briodol a sensitif gyda chymeriad y dirwedd a'r drefwedd yn ardal y cynllun | |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ ~~% y dynodiadau sy'n adrodd eu bod mewn cyflwr ffafriol~~<br>▪ **<u>Cyfran y tirwedd o ansawdd uchel / uchel iawn a nodir gan LANDMAP</u>** | **DA49**<br>**DA50** |
| **9. Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu**<br>***(Pynciau AAS:  asedau deunyddiau, pridd)*** | |
| A fydd y cynllun yn...<br>▪ Blaenoriaethu datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes / tir llwyd **<u>addas</u>** **<u>heb effeithio ar fioamrywiaeth, asedau treftadaeth hanesyddol na'r dirwedd</u>**<br>▪ Gwarchod ansawdd y pridd (y tir gorau a'r tir mwyaf amlbwrpas)<br>▪ Hyrwyddo adfer tir wedi'i halogi ac osgoi / lleihau achosion o halogi pridd<br>▪ Lleihau'r swm o wastraff a grëir a chefnogi symud tuag at hierarchaeth rheoli gwastraff cynaliadwy ar gyfer datblygiadau presennol a newydd (yn cynnwys trwy rwydwaith gynaliadwy o gyfleusterau rheoli) | **DA51** |
| **Dangosyddion Arfaethedig:**<br>▪ % / cyfran y datblygiadau ar dir a ddatblygwyd eisoes<br>▪ % y gwastraff bwrdeistrefol a yrrir i safleoedd tirlenwi<br>▪ % y gwastraff bwrdeistrefol a ailddefnyddir / ailgylchir | |
| **10. Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth <u>a rhyngrwyd</u> da i gefnogi'r gymuned a'r economi**<br>***(Pynciau AAS:  y boblogaeth, iechyd bodau dynol)*** | |

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

A fydd y cynllun yn...

- Gwella hygyrchedd mewn ardaloedd lleol, drwy gysylltu rhwydweithiau cludiant ~~(cyhoeddus~~) **<u>(cludiant cyhoeddus a heb gerbyd)</u>** â'r canolfannau gwasanaethu DA52
- Lleihau'r angen am deithio mewn ceir preifat, drwy wella'r seilwaith cludiant cyhoeddus
- Blaenoriaethu hygyrchedd drwy gael opsiynau trafnidiaeth cynaliadwy ar gyfer datblygiadau newydd
- **<u>Hyrwyddo mynediad i'r rhyngrwyd ledled ardal y Cynllun.</u>**

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- Dull o deithio i'r gwaith - % y boblogaeth sy'n gweithio sy'n teithio mewn car
- Canran y datblygiadau preswyl newydd ble y gellir cyrraedd cyfleusterau o fewn taith 30 munud ar gludiant cyhoeddus
- Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau drwy gludiant cyhoeddus, cerdded a beicio
- **<u>% y cynnydd yn y rhwydwaith seiclo</u>** DA53
- **<u>Cyfran y ffynonellau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur</u>** DA54

**11. Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr ac isafu'r risg o lifogydd**
***(Pynciau AAS: dŵr, bioamrywiaeth)***

A fydd y cynllun yn...

- Sicrhau bod ansawdd dŵr mewn afonydd, llynnoedd, dŵr daear a dyfroedd arfordirol yn cael ei warchod a'i wella
- Isafu'r llygredd tryledol o ardaloedd gwledig a threfol
- Gwarchod a mwyhau'r adnoddau dŵr a chefnogi integreiddiad mesurau effeithlonrwydd dŵr ymhob datblygiad newydd
- Isafu'r risg o bob math o lifogydd (llanw, afonol, dŵr daear a charthffosiaeth) i bobl ac eiddo drwy gynllunio'n briodol a dylunio cynaliadwy
- Hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr a mesurau addasu mewn datblygiadau newydd er

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd (e.e. SUD)

- <u>**Hwyluso datblygiadau ar diroedd nad ydynt mewn perygl o lifogydd**</u> DA55

**Dangosyddion Arfaethedig:**

- % [neu nifer neu gyfradd o'r cyfanswm] o ddatblygiadau newydd sydd â systemau draenio cynaliadwy
- <u>**% y cyrff dŵr sy'n meddu ar statws ecolegol da neu â'r potensial i fod â statws ecolegol da**</u> DA56
- cyfradd / nifer terfynol y datblygiadau sydd ym mharthau C1 ac C2 (yn unol â diffiniad NCT 15)

## Tabl 13.2: Cydweddoldeb Amcanion AC

DA57

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd | | | | | | | | | | |
| 2. Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol | C | | | | | | | | | |
| 3. Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu | ~~C~~<u>**?**</u> | C | | | | | | | | |
| 4. Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau yr iaith Gymraeg | ~~C~~- | ~~C~~<u>**?**</u> | - | | | | | | | |
| 5. Cadw, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol | C | C | - | C | | | | | | |
| 6. Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol | ? | C | ? | ? | ? | | | | | |
| 7. Darparu tai cyncaladwy, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol | ~~C~~<u>**?**</u> | C | ? | ? | ? | C | | | | |
| 8. Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun | C | C | C | ~~C~~<u>**-**</u> | C | ? | ? | | | |

DA58

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9. Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu | C | C | C | ~~C~~**-** | ~~C~~**-** | ? | ? | C | | | |
| 10. Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi | -**?** | C | ~~C~~**?** | -**?** | -**C** | C | ? | ~~C~~**?** | - | | |
| 11. Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaliadwyedd adnoddau dŵr ac isafu'r risg o lifogydd | -**?** | -**C** | C | - | - | ? | ? | C | C | ~~C~~- | |
| **AMCANION AC** | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |

**DA59**

| **DATBLYGU CYNALADWY A PHOLISI AMGYLCHEDDOL** |
|---|
| Datganiad Rio Ynglŷn â'r Amgylchedd a Hinsawdd a Datblygu |
| Datganiad Johannesburg Ynghylch Datblygu Cynaladwy (2001) |
| Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Undeb Ewropeaidd (diwygiad 2006) |
| Chweched Cynllun Gweithredu Amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd (Gorffennaf 2002) |
| **Cyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol yr UE** |
| **Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig (IPPC)** |
| **Deddf Diogelu'r Amgylchedd (1990)** |
| Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r DU – 'Securing the Future' (2005) |
| **Strategaeth Amgylcheddol Cymru – Cynllun Gweithredu 2008-2011** |
| **Rheoliadau Rheoli Peryglon o Ddamweiniau Mawr (COMAH)** |
| LLCC (2006) Strategaeth Amgylcheddol ar Gyfer Cymru |
| LLCC (2003) Cymru – Gwlad Well |
| Cynllun Datblygu Cynaliadwy a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) |
| Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – ~~Ymgynghori ar Gynllun Datblygu Newydd i Gymru (Fersiwn Ymgynghori)~~ **Cynllun Datblygu Cynaladwy Newydd i Gymru, Mai 2009** |
| LLCC (2008) Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 |
| Cynllun 3 Blynedd (Gwynedd) |
| Strategaeth Adfywio 2006-2013 (Gwynedd) |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| ~~Strategaeth Amgylcheddol Gwynedd~~ |
| Cynllun Llwyddo'n Lleol 08/09 (Gwynedd) |
| **POLISI DATBLYGU GOFODOL** |
| Persbectif datblygu Gofodol y Gymuned Ewropeaidd (1997) |
| Diweddariad i Gynllun Datblygu Gofodol Cymru (2008) |
| LLCC (2010) Polisi Cynllunio Cymru |
| LLCC (1996) Parthau Cynllunio Syml |
| LLCC (1997) NCT 9 – Gorfodi Rheolaeth Cynllunio |
| Strategaeth Datblygu Gogledd Cymru |
| Cau'r Bwlch: Strategaeth Datblygu Gofodol Gogledd Orllewin Cymru |
| Strategaeth Datblygu Lleol (2007-2013) (Gwynedd) |
| Cynllun Gweithredu Arfordirol Môn-Menai |
| Strategaeth Goriad Gwyrdd Eryri (2005) (Gwynedd) |
| **Adolygiad o Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru (2004)** |
| **Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri** |
| **BIOAMRYWIAETH** |
| Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol (1992) |
| Strategaeth Fioamrywiaeth Ewrop |
| Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wlypdiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol (1971) |
| **Confensiwn Bonn ar Warchod Rhywogaethau Ymfudol o Anifeiliaid Gwyllt (1979)** |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| **Confensiwn Bern ar Warchod Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop (1979)** |
| Cyfarwyddeb y CE ar Warchod Adar Gwyllt 1979 (Cyfarwyddeb Adar Gwyllt, 79/409/EEC) |
| Cyfarwyddeb y CE ar Gynefinoedd 1994 (92/43/EEC) |
| Cyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw'r CE 2006 (2006/44/EEC) |
| **Cyfarwyddeb Pysgod Cregyn y CE (79/923/EEC)** |
| **Cynllun Gweithredu Strategaeth Fforestydd yr UE** |
| **Halting the Loss of Biodiversity by 2010 – and Beyond** |
| **Rheoliadau Perthi (1997)** |
| **Y Strategaeth Eogiaid Genedlaethol (1996)** |
| Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig (2005) |
| Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaeth 2010 |
| Deddf bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 9 Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000)) |
| **Deddf Gwarchod Moch Daear Gwyllt (2003)** |
| **UK Forestry Standard – The Government's Approach to Sustainable Forestry (2004)** |
| **Coed Cadw – Creu Lle i Natur (2002)** |
| **Coetiroedd i Gymru (2001)** |
| **Cynefinoedd â Blaenoriaeth yng Nghymru CCGC (2003)** |
| **Gweithredu dros Fioamrywiaeth yn y Dyfodol yng Nghymru – Grŵp Bioamrywiaeth Cymru (Mai 2002)** |
| LLC ~~(1996)~~ **(2009)** NCT 5 – Cynllunio a Chadwraeth Natur |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| LLC (1997) NCT 10 – Gorchmynion Cadw Coed |
| Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 |
| Cynllun Rheolaeth Pen Llŷn a’r Sarnau |
| Natur Gwynedd |
| Gweithio Dros y Cyfoeth o Fywyd Gwyllt: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Ynys Môn |
| **Cynllun Gweithredu Eogiaid Afon Ogwen (1999)** |
| **Cynllun Rheoli Llyswennod Gorllewin Cymru (2010)** |
| **CYMUNEDAU** |
| Confensiwn Aarhaus |
| Cyfarwyddeb yr UE ar Sŵn Amgylcheddol (02/49/EC) (2002) |
| Creu’r Cysylltiadau |
| Stratgeaeth Cerdded a Beicio ar Gyfer Cymru (2003) |
| Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio ar Gyfer Cymru 2009-2013 |
| Lles yng Nghymru (2002) |
| Twristiaeth Chwaraeon yng Nghymru: Fframwaith ar Gyfer Gweithredu (2003) |
| Dringo’ n Uwch (2005) |
| LLC (1997) NCT11 - Sŵn |
| LLC (1998) NCT16 – Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored |
| ~~Gwynedd ar y Cyd Gwella~~ **Gwynedd ar y Cyd – Drafft Ymgynghori Ebrill 2011 (Strategaeth Gymuedol Ddrafft i Wynedd)** |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Gwynedd 2008-2011 |
| Strategaeth Plant a Phobl Ifanc 2008-2011 |
| **Strategaeth Aildrefnu Ysgolion Gwynedd (AALl Gwynedd)** |
| Strategaeth Gymunedol Ynys Môn – Gwella Bywyd Ynys Môn 2005-2015 |
| Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles Ynys Môn |
| Strategaeth Pobl Hŷn Ynys Môn |
| **FFACTORAU HINSAWDD** |
| Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd 1994 |
| Protocol Kyoto (1997) |
| Rhaglen Newid Hinsawdd Ewropeaidd |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Ansawdd Aer y CE 1996 (96/62/EC) |
| **Our Energy Future: Renewable Sources of Energy (CE, 1997)** |
| **Cyfarwyddeb yr UE ar Hyrwyddo Biodanwydd ar gyfer Trafnidiaeth (2003/30/EC)** |
| **System Masnachu Allyriadau yr UE** |
| **Cyfarwyddeb yr UE i Hyrwyddo Trydan o Ynni Adnewyddol (2001/77/EC)** |
| **Rheoliadau (Gwerthoedd Terfyn) Ansawdd Aer (2003)** |
| **Confensiwn ar Lygredd Pellgyrhaeddol Trawsffiniol** |
| **Cyfarwyddeb Terfyn Allyriadau Cenedlaethol** |
| Strategaeth Ansawdd Aer y DU (2000) |
| Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd (2010) |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| **<u>Newid Hinsawdd yng Nghymru: Dysgu Byw'n Wahanol (2001)</u>** |
| **<u>Ynni Cymru - Trywydd: Dogfen Ymgynghori (2005)</u>** |
| Newid Hinsawdd: Rhaglen y DU (2006) |
| **<u>Cymru: Newid Hinsawdd: Dewisiadau Heriol (2000)</u>** |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft ar Gyfer Cynhyrchu Ynni Niwclear (EN-6) |
| Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft ar Gyfer Isadeiledd Ynni Adnewyddadwy (EN-3) |
| Dyfodol Ein Hynni – Creu Economi Carbon Isel |
| LLC (2005) NCT8 – Ynni Adnewyddadwy |
| Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd |
| Ynni Cymru: Trywydd ar gyfer Dyfodol Ynni Glan, Isel Mewn Carbon a Mwy Cystadleuol yng Nghymru |
| **<u>Rhaglen Ynys Ynni Môn</u>** |
| **TREFTADAETH DIWYLLIANNOL** |
| **<u>Confensiwn Treftadaeth y Byd</u>** |
| Iaith Pawb –Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog (2003) |
| LLC (2000) NCT 20 – Yr Iaith Gymraeg – CDU a Rheoli Cynllunio |
| Strategaeth Dwristiaeth Ddiwylliannol ar Gyfer Cymru (2003) |
| **<u>Cynllun Rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd (CADW)</u>** |
| **ECONOMI** |
| Strategaeth Cyflogaeth Ewropeaidd |
| Polisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd (Diwygiad (2003) |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| LLC (2001) Ffermio i'r Dyfodol |
| LLC (2005) Cymru: Economi yn Ffynnu |
| LLC (20~~00~~**10**) NCT 6 –Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy |
| Cymru'n Ennill – Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol Llywodraeth (2002) |
| Cynulliad Cymru 2002 |
| Gwireddu'r Potensial: Strategaeth Swyddi Gwyrdd i Gymru 2009 |
| Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru (Dogfen Ymgynghorol) 2007 |
| Cyflawni Ein Potensial 2006-2013 – Arolwg Canol Tymor Strategaeth Dwristiaeth Cymru |
| LLCC (1996) NCT6 – Adwerthu a Chanol Trefi |
| LLC (1997) NCT 13 - Twristiaeth |
| Strategaeth Twristiaeth Gogledd Cymru 2003-2008 – Cynllunio Twristiaeth Yfory Heddiw |
| Strategaeth Dwristiaeth Ranbarthol |
| Cynllun Gweithredu Cyfleon Twristiaeth – Mwyhau Twristiaeth Mewndirol Canolbarth Cymru |
| Cynllun Gweithredu Bae Ceredigion 2007 |
| Cynyddu Budd Economaidd Arfordir Môn - Menai |
| Cynllun Gweithredu Arfordir Gogledd Cymru 2016 |
| Strategaeth Adfywio Economaidd ynys Môn 2004-2015 |
| **TAI** |
| Cyfarwyddeb yr UE ar Berfformiad Ynni Adeiladau |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| Cartrefi Gwell i Bobl Cymru: Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru (2001) |
| Côd Cartrefi Cynaladwy |
| LLC (2006) NCT1 – Astudiaethau Argaeledd Tir ar Gyfer Tai ar y Cyd |
| LLC (2006) NCT 2 – Cynllunio a Thai Fforddiadwy |
| **Gwella Bywydau a Chymunedau - Cartrefi yng Nghymru** |
| Asesiad o'r Farchnad Leol yng Ngogledd-Orllewin Cymru |
| Strategaeth Tai Lleol Gwynedd 2007-2012 (Gwynedd) |
| Strategaeth Tai Gwag (Gwynedd) |
| Strategaeth Llety a Phobl Hŷn (Gwynedd) |
| Strategaeth Tai Sector Breifat 2007-2010 (Gwynedd) |
| **Strategaeth Digartrefedd 2010-2013 (ACLl Gwynedd)** |
| **Datganiad Darparu Tai Fforddiadwy (2009) (Ynys Môn)** |
| Strategaeth Tai Lleol Ynys Môn 2007-2012 (Ynys Môn) |
| Strategaeth Digartrefedd Ynys Môn |
| **Strategaeth Tai Gwag (2010) (ACLl Ynys Môn)** |
| **Strategaeth Adnewyddu Tai Sector Breifat (2010) (ACLl Ynys Môn)** |
| **TIRWEDD** |
| Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd y CE (Dilyswyd 2006) |
| LlCC (1996) NCT7 Rheoli Hysbysebion Awyr Agored |
| LLCC (1998) NCT 14 – Cynllunio Arfordirol |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| LLCC (2002) NCT 19- Telathrebu |
| **Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol** |
| Strategaeth Dwristiaeth Ddiwylliannol ar Gyfer Cymru (2003) |
| LLCC (2002) NCT 12 - Dylunio |
| Cynllun Rheoli AoHNE Llŷn |
| Strategaeth Tirwedd Gwynedd 2007 |
| **Strategaeth Tirwedd Ynys Môn – Diweddariad (2011)** |
| **DŴR** |
| Cyfarwyddeb y CE ar Nitradau 91/676/EEC (1991) |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE 00/60/EC (2000) |
| Cyfarwyddeb Ansawdd Dŵr Ymdrochi yr UE 2006/7/EC (2006) |
| Epil Gyfarwyddeb Dŵr Daear yr UE (2007) |
| **Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yr UE ac Ardaloedd a ddynodir yn Ewtroffig Sensitif** |
| **Y Gyfarwyddeb Llifogydd (2007/60/EC)** |
| **Deddf Adnoddau Dŵr 1991** |
| **Deddf Dŵr (2003)** |
| **Dŵr i'r Bobl a'r Amgylchedd: Strategaeth Adnoddau Dŵr i Gymru a Lloegr (2009)** |
| LLCC (2004) NCT 15 – Datblygiad a Pherygl Llifogydd |
| **Dyfrffyrdd i Gymru – Y Ffordd Ymlaen (2000)** |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| **Cleaner Coasts, Healthier Seas** |
| **Cynllun Sychder Asiantaeth yr Amgylchedd (drafft) (Medi 2011)** |
| Cynlluniau Rheoli Basn Afon Drafft |
| **Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru** |
| **Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Gogledd Orllewin Cymru** |
| **Cynllun Rheoli Llifogydd Dalgylch Afon Dyfrdwy** |
| **Strategaeth Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylch Ynys Môn** |
| **PRIDDOEDD, MWYNAU, GWASTRAFF** |
| Cyfarwyddeb yr UE ar Dirlenwi (1999) (99/31/EC) |
| Cyfarwyddeb Fframwaith yr UE ar wastraff (2000) (75/442/EEC) |
| **Strategaeth Thematig Pridd yr UE (2006)** |
| **Cyfarwyddeb Slwtsh 86/278/EEC** |
| **Siarter Pridd Ewrop** |
| **Consortiwm Dangosyddion Pridd y DU (DEFRA)** |
| **Adfer Tir a Halogwyd (2001)** |
| **Cyfarwyddeb Llosgi Gwastraff (Cymru a Lloegr)** |
| **Cynllun Gweithredu Pridd Cymru** |
| **Soil a Precious Resource – Strategaeth Pridd Asiantaeth yr Amgylchedd** |
| **Cod Ymarfer Da Amaethyddol ar gyfer Diogelu Pridd** |
| **Nodi a Datblygu cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Ansawdd Pridd** |

**ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

| |
|---|
| **Rheoliadau Slwtsh** |
| **Rheoliadau Parthau Perygl Nitradau** |
| **Astudiaeth Gwmpasu  ar Bridd (2002)** |
| **Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993** |
| **Rheoliadau Trwyddedu Gwastraff 1994** |
| **Strategaeth Mwyngloddiau Metel Cymru 2002** |
| LLC (2002) Yn Gall Gyda Gwastraff – Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru |
| LLC (2001) NCT 21 - Gwastraff |
| LLC (2001) Polisi Cynllunio Mineralau Cymru |
| LLC (2004) NCT  Mwynau 1- Agregau |
| Tuag at Dyfodol Diwastraff Cymru’n Un: Cenedl Un Blaned |
| ~~Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru – Arolwg Cyntaf 2007~~ |
| **Cynllun y Sector Gwastraff Trefol (Mawrth 2011)** |
| **Cynllun Drafft y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Manwerthu Bwyd, (Mawrth 2011)** |
| **Cynllun Sector ynghylch Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, (Mawrth 2011)** |
| Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau 2008 |
| Strategaeth Gwastraff Trefol Gwynedd |
| Strategaeth Rheoli Gwastraff Trefol Ynys Môn, 2004 |
| **Strategaeth Archwilio Tir Halogedig (terfynol) (Ynys Môn)** |
| **Strategaeth Tir Halogedig (drafft) (Gwynedd)** |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| **TRAFNIDIAETH** |
|---|
| Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar y Polisi Cludiant Ewropeaidd |
| LLC (2008) Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl –Strategaeth Drafnidiaeth Cymru |
| Fframwaith Trafnidiaeth Cymru (Tachwedd 2001) |
| Yr Adran Drafnidiaeth (2004): Dyfodol Trafnidiaeth: Rhwydwaith ar gyfer 2030 |
| Yr Adran Drafnidiaeth (2008): Cyflwyno System Drafnidiaeth Gynaladwy |
| LLCC (2007) NCT 18 - Trafnidiaeth |
| Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 DEFRA (2000) |
| Cynllun Cludiant Cyhoeddus Rhanbarthol TAITH |
| Cynllun Cludiant Rhanbarthol TAITH |
| Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TRACC (Canolbarth Cymru) (Gwynedd) |
| Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Gwynedd (Gwynedd LPA) |
| Strategaeth Cludiant Cymunedol Gwynedd (Gwynedd) |
| Cynllun Trafnidiaeth Lleol Ynys Môn |

| **Cyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol yr UE** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu fframwaith yn seiliedig ar egwyddor "y llygrwr sy'n talu" yn ôl p'run mae'r llygrwr yn talu pan mae difrod amgylcheddol yn digwydd. Prif amcan y Gyfarwyddeb yw atal a gwella "difrod amgylcheddol". Diffinnir difrod amgylcheddol fel difrod i rywogaethau a** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried gofynion y Gyfarwyddeb a lliniaru yn erbyn difrod amgylcheddol.** |

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| chynefinoedd (natur) a warchodir, difrod i ddŵr a difrod i bridd. | |

| **RHEOLIADAU IPPC** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae'r rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd mewn Ffordd Integredig yn defnyddio dull integredig i reoli'r effeithiau amgylcheddol o weithgareddau diwydiannau penodol Mae'n cynnwys darganfod y rheolaethau priodol i ddiwydiant i warchod yr amgylchedd drwy broses trwyddedu unigol. Bydd ffynonellau diwydiannol yng Nghymru a Lloegr yn cael eu rheoli yn ôl safonau IPPC drwy broses trwyddedu sengl.<br>Pwrpas cyffredinol yr IPPC yw:<br>• Atal/lleihau ar allyriadau (i'r aer, tir a dŵr)<br>• Atal/lleihau sŵn, aroglau a dirgryniad<br>• Atal/lleihau gwastraff<br>• Atal/lleihau damweiniau amgylcheddol<br>• Adfer y safle<br>• Gwarchod Ynni** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r lleihad o lygredd i'r aer, y tir a'r dŵr.** |

| **DEDDF DIOGELU'R AMGYLCHEDD (1990)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn sefydlu cyfrifoldebau cyfreithiol i fusnesau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i ofalu am wastraff, tir halogedig a niwsans statudol.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried anghenion y Ddeddf.** |

| **WES – CYNLLUN GWEITHREDU STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL 2008-2011** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae'r Cynllun gweithredu yn canolbwyntio ar ddeg thema, gyda nifer o weithredoedd o dan pob thema i amlinellu beth a wneir i gyflawni cynnydd gwirioneddol tuag at ganlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol. Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn pwysleisio bod y Strategaeth Amgylcheddol yn ddogfen ar gyfer Cymru gyfan a bod cynnydd yng nghanlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol yn dibynnu ar weithio ar y cyd gyda'r holl bartneriaid.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ymgorffori egwyddorion o ddatblygiad cynaliadwy a hyrwyddo gwarchod yr amgylchedd.** |

| **RHEOLIADAU COMAH** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Eu prif amcan yw atal a lliniaru effeithiau'r damweiniau mawr hynny sy'n ymwneud â sylweddau peryglus, megis clorin, nwy petroliwm hylifol, ffrwydron ac *arsenic pentroxide* a all achosi** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried anghenion y Gyfarwyddeb.** |

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| **difrod/niwed difrifol i bobl a/neu'r amgylchedd. Mae Rheoliadau COMHA yn trin risgiau i'r amgylchedd yr un mor ddifrifol â risgiau i bobl.** | |

| CYMRU'N UN: CENEDL UN BLANED: ~~YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN DATBLYGU CYNALIADWY NEWYDD I GYMRU (FERSIWN YMGYNGHORI)~~ **CYNLLUN DATBLYGU CYNALADWY I GYMRU:** MAI 2009 | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae'r Cynllun yn cyflwyno fframwaith strategol sydd yn nodi sut y gallai polisïau sicrhau fod datblygu cynaliadwy<br>yn cael ei ddarparu. Pwysleisir y Cynllun ar yr angen i helpu pobl fwyaf difreintiedig a cheisio lleihau ein heffaith<br>amgylcheddol.<br>Un modd o geisio sicrhau fod ol-troed Cymru yn cael ei leihau yw drwy edrych ar drafnidiaeth, bwyd a thai. Mae<br>angen i bolisïau fod yn radical gan sicrhau fod y mater yn cael ei ymdrin ag ef mor sydyn ag sydd bosib.<br>Mae angen i ddatblygu cynaliadwy fod yn rhan allweddol o bolisïau strategol. Cyflawnir hynny drwy:-<br>• Ymgynghoriad – pobl a chymunedau angen bod yn rhan bwysig o ddatblygu cynaliadwy.<br>• Integreiddiad - er mwyn cyflawni datblygu cynaliadwy mae angen integreiddio sialensiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.<br>Y modd o gyflawni'r amcanion hyn bydd drwy:-<br>- Dadgyplu<br>- Gwerthoedd a buddiannau cyflawn<br>- Egwyddor ragofalus<br>- Egwyddor llygrwr yn talu<br>- Egwyddor agosrwydd<br>- Adlewyrchu unigrwydd | |

| **LLEOL (ACLL GWYNEDD)**<br>**CYNLLUN TAIR BLYNEDD (2011-2014)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r <u>CDLl ar y Cyd</u>** |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| Mae'r Cynllun Tair Blynedd yn ddogfen allweddol i'r Cyngor am mai cynllun strategol ydyw sy'n crynhoi'r amcanion gwella yr hoffai'r Cyngor edrych arnynt dros y tair blynedd nesaf.<br>Mae'r Cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar y prif newidiadau y mae'r Cyngor wedi'u hymrwymo i gyflawni drwy raglen a phrosiectau penodol. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gobeithio gwella gwasanaethau i breswylwyr ond mae eraill yn galluogi'r Cyngor i wneud hyn. Rhoddir sylw i'r meysydd pwnc ynghyd â rhaglenni unigol isod:<br><br>i)Economi **– Gwynedd Werdd a'r Sector Carbon isel; Gwynedd Ddigidol; Datblygiadau'r Sector Feddygol, Wyddonol ac Uwch Dechnoleg; Cadw'r Budd yn Lleol; Llwybr Cyflogi Prentisiaid Ifanc; Goresgyn Rhwystrau i Waith; Yma mae Pethau'n Digwydd; Bwrsariaeth Swyddi Allweddol a Bywiocau a Gwella Delwedd Canol Trefi.**<br><br>ii) Gofal – **Gwasanaethau Pobl Hŷn; Gwasanaethau Anabledd Dysgu; Cefnogi Oedolion Bregus; Trawsnewid Trefniadau Rheoli Busnes; Cefnogi Teuluoedd – Ymyrraeth Ddwys; Gwasanaethau Yfory.**<br><br>iii) Plant – **Prosiect Torri'r Cylch (Cefnogi Teuluoedd), Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc Anabl a Gwael; Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gyda Phroblemau Ymddygiad; Prosiect Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol; Prosiect Trawsnewid Addysg Gynradd ac Uwchradd; Prosiect Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant Ôl-16; Prosiect Trawsnewid Profiadau a Chyfleoedd i Bobl Ifanc.**<br><br>iv) Amgylchedd – **Cynllun Lleihau Ôl Troed Carbon Gwynedd; Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor; Strategaeth Wastraff; Rheoli Risg Llifogydd; Tai Fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu; Tai Gwas nôl i ddefnydd; Cynllun ôl-troed carbon tai; Cludiant Cymunedol.**<br><br>v) Iechyd – **Gwynedd Iach; Segurdod; Tybaco; Alcohol a Chamddefnyddio Sylweddau; Gordewdra; Iechyd ar draws y Cyngor; Iechyd Corfforaethol.**<br><br>vi) Iaith – **Trawsnewid y gefnogaeth i rieni ddatblygu eu hyder a'u sgiliau yn y Gymraeg; Darparwyr addysg feithrin Gwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg; Darparwyr addysg feithrin Gwynedd yn gosod sylfaen gadarn i'r Gymraeg; Trawsnewid defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg ymysg plant sector cynradd Gwynedd; Trawsnewid y ddarpariaeth Hamdden, Ieuenctid, a Chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg; Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn y gymuned; Cynlluniau cymathu yn llwyddiannus yn ymdoddi dysgwyr i weithgarwch cymunedol cyfrwng Cymraeg; Trawsnewid gweithleoedd Gwynedd yn leoliadau sydd yn annog a chefnogi'r gweithlu i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle; Sefydlu'r Gymraeg fel arf Economaidd gweledol.** | The JLDP should incorporate the principles of sustainable development throughout the Plan. |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL GWYNEDD | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Prif amcan – Amgylchedd naturiol ac adeiledig o safon fydd yn cael ei wella, ei warchod a'i fwyhau.<br><br>Er mwyn ymgyrraedd tuag at yr amcan uchod bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i:<br>i) Warchod a gwella amgylchedd naturiol ac amrywiaeth bywyd gwyllt yr ardal<br>ii) Lleihau gwastraff preifat a masnachol, annog ailgylchu ac ailddefnyddio a hyrwyddo dulliau o arbed ynni<br>iii) Annog pobl i fwynhau, parchu a dod yn fwy ymwybodol o gyfoeth a chyfraniad yr amgylchedd lleol.<br>iv) Cynnal a chyfoethogi ansawdd adeiledig yr ardal mewn modd fydd yn parchu ac yn cyfoethogi diwylliant, amgylchedd a chymeriad lleol.<br>v) Hyrwyddo trafnidiaeth effeoiol a chynaliadwyfyd dyn rhoi mwy o ddewis i ddenfyddwyr. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ymgorffori egwyddorion datblygu cynaladwya hyrwyddo gwarchod yr amgylchedd. |

| Confensiwn Bonn ar Gadwraeth Rhywogaethau Ymfudol o Anifeiliaid Gwyllt(1979) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Amcan Confensiwn Bonn yw gwella statws rhywogaethau ymfudol sydd dan fygythiad drwy weithredu cenedlaethol a Chytundebau rhyngwladol rhwng gwladwriaethau o fewn yr amrywiaeth o grwpiau penodol o rywogaethau. Ei amcan yw gwarchod ac adfer cynefinoedd a rheoli ffactorau eraill a allai beryglu'r adar ymfudol sydd wedi'u rhestru. | Dylai'r CDLl ar y Cyd geisio osgoi neu leihau'r datblygiadau – effaith perthnasol ar rywogaethau ymfudol a'u cynefinoedd. |

| ADOLYGIAD O AWDURDODAU PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU (2004) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Cyflwyno darganfyddiadau Adolygiad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APC) yng Nghymru. Darparu trosolwg ac ymdrin â: y Parciau Cenedlaethol fel ased cenedlaethol i Gymru; diogelu a gwella harddwch naturiol; deall a mwynhau'r Parciau Cenedlaethol; lles economaidd a chymdeithasol yn gefnogol i ddibenion y parc; cyflawni dibenion y parc – rôl Adran 62(2); cynllunio a thai; cynllun rheoli'r parc a rheoli corfforaethol; rheolaeth; crynodeb o argymhellion a goblygiadau o ran adnoddau. | Dylai'r CDLl ar y Cyd gyd-fynd ag egwyddorion cynllunio yr PCE ac edrych ar ddynodiadau a dyraniadau a all effeithio ar y ddwy Ardal ACLl. |

| CYNLLUN RHEOLI PARC CENEDLAETHOL ERYRI | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Eryri (y Cynllun) yn ddogfen bwysig sy'n gysylltiedig â dyfodol yr ardal. Mae'n darparu'r fframwaith polisi strategol i'r Parc Cenedlaethol gyfan ac yn | Dylai'r CDLl ar y Cyd gyd-fynd â'r egwyddorion cynllunio a gynhwysir yn y Cynllun Rheoli ac sy'n |

| | |
|---|---|
| cynnwys Cynllun Gweithredu penodol a fydd yn cael ei weithredu dros y ddwy flynedd nesaf. Mae'n darparu'r fframwaith polisi strategol i'r Parc Cenedlaethol gyfan ac yn cynnwys Cynllun Gweithredu penodol a fydd yn cael ei weithredu dros y ddwy flynedd nesaf. | edrych ar ddynodiadau a dyraniadau a allai effeithio ar y ddwy Ardal ACLl. |

| CONFENSIWN BERN AR GADWRAETH BYWYD GWYLLT A CHYNEFINOEDD NATURIOL EWROP (1979) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r confensiwn yn anelu i:<br>• Warchod fflora a ffawna gwyllt a chynefinoedd naturiol<br>• Hyrwyddo cydweithrediad rhwng gwladwriaethau<br>• Rhoi sylw penodol i rywogaethau prin a bregus, gan gynnwys rhywogaethau ymfudol prin a bregus.<br>• Mae Atodiadau yn darparu gwybodaeth fanwl ar rywogaethau a chynefinoedd a warchodir o dan y confensiwn. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried cadwraeth bioamrywiaeth. |

| CYFARWYDDEB DŴR CRAGENBYSGOD Y GE (79/923/EED) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Gyfarwyddeb yn ceisio gwarchod a/neu wella ansawdd cyrff dŵr mewndirol a hallt ble mae cragen bysgod yn byw er mwyn cyfrannu at ansawdd cynnych bwytadwy cragen bysgod. Mae'n gosod safonau ar gyfer ansawdd dyfroedd dynodedig (canllaw o werthoedd ynghyd â gwerthoedd hanfodol) ac mae disgwyl i Aelod-wladwriaethau fonitro ansawdd y dyfroedd ac i gymryd camau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol. | Dylai'r Cynllun hwyluso'r gwaith o warchod a gwella ansawdd dŵr. |

| STRATEGAETH/CYNLLUN GWEITHREDU COEDWIGAETH YR UE | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Strategaeth yn pwysleisio pwysigrwydd rôl aml swyddogaethau coedwigoedd a Rheolaeth Gynaliadwy o Goedwigoedd ar gyfer datblygu cymdeithas, ac yn adnabod cyfres o elfennau allweddol sy'n ffurfio sail i'w weithredu. Mae'n datgan bod polisi coedwigaeth yn gorwedd yng nghymhwysedd yr Aelod-wladwriaethau ond gall yr UE gyfrannu at weithrediad Rheolaeth Gynaliadwy o Goedwigoedd drwy bolisïau ar sail yr egwyddor o ddatganoli a'r weledigaeth o gyfrifoldeb ar y cyd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy o goedwigoedd drwy ei bolisïau. |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| RHWYSTRO COLLI BIOAMRYWIAETH ERBYN 2010 – A THU HWNT | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Ar 22 Mai 2006 mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd wasanaeth Cyfathrebu "Rhwystro Colli Bioamrywiaeth erbyn 2010 – gwasanaethau cynnal ecosystemau ar gyfer lles dynol" sy'n nodi dull polisi uchelgeisiol i rwystro colli bioamrywiaeth erbyn 2010. Yn benodol, mae'n darparu Cynllun Gweithredu UE sy'n cynnig mesurau cadarn ac yn amlinellu cyfrifoldebau sefydliadau'r UE ac Aelod-wladwriaethau yn eu trefn. Mae hefyd yn nodi dangosyddion i fonitro cynnydd ac amserlen ar gyfer gwerthuso.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a gwella bioamrywiaeth.** |

| RHEOLIADAU GWRYCHOEDD (1997) | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **O dan y Rheoliadau Gwrychoedd, y mae'n anghyfreithlon tynnu neu ddinistrio rhai gwrychoedd heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol. Mae angen caniatâd cynllunio cyn tynnu gwrychoedd sydd o leiaf 20metr o hyd, dros 30 oed ac sy'n cynnwys rhai rhywogaethau o blanhigyn. Bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn asesu pwysigrwydd y gwrychoedd gan ddefnyddio meini prawf sydd wedi'i nodi yn y rheoliadau.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried gofynion y Rheoliadau yn ei bolisïau a'i gynigion.** |

| STRATEGAETH CENEDLOAETHOL EOG (1996) | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae Strategaeth Cenedlaethol Eog a lansiwyd gan y *National Rivers Authority* ym mis Chwefror 1996 ac a etifeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd (NRA, 1996) yn nodi pedwar amcan i reoli pysgodfeydd eog yng Nghymru a Lloegr:**<br>**1) Optimeiddio'r nifer o eogiaid sy'n dychwelyd i bysgodfeydd dŵr cartref.**<br>**2) Cynnal a gwella ffitrwydd ac amrywiaeth stociau eog.**<br>**3) Optimeiddio cyfanswm gwerth economaidd stoc dros ben.**<br>**4) Sicrhau fod buddiolwyr yn cyrraedd costau angenrheidiol.**<br>**Mae'r amcanion hyn wedi'u dylunio i ddiogelu stociau pysgod yn y dyfodol.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried amcanion y Cynllun.** |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| DEDDF GWARCHOD MOCH DAEAR GWYLLT (2003) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Ddeddf yn ceisio atgyfnerthu, gwella ac ailddeddfu deddfwriaeth flaenorol. Y mae'n gwneud lladd, niweidio neu dynnu mochyn daear o fywyd gwyllt yn drosedd. Mae hefyd yn drosedd i ddifrodi neu ymyrryd â brochfa oni bai y ceir trwydded gan awdurdod statudol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau nad yw ei ddynodiadau a'i bolisïau'n effeithio ar gynefinoedd moch daear. |

| COED CADW (WOODLAND TRUST) – LLE AR GYFER NATUR (2002) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r ddogfen hon yn nodi barn y Coed Cadw ar ddatblygiad gweithredu ar raddfa tirwedd ar gyfer bioamrywiaeth coetir. Rhan o'r nod yw gweld bioamrywiaeth coedwigoedd yn cael ei adfer a'i wella.<br>• Gan atal colli mwy o coetir hynafol.<br>• Ceisio gwarchod ac ymestyn pob ardal o hen dyfiant.<br>• Ceisio adfer coetir hynafol a blannwyd â choed conwydd ymwthiol lled-naturiol.<br>• Hyrwyddo ac ymgymryd a byffro ac ymestyn coetir hynafol a chynefinoedd tir agored lled-naturiol presennol mewn ardaloedd â dwysedd uchel o goetir hynafol drwy greu coetir gynhenid newydd a chynefinoedd lled-naturiol eraill.<br>• Ymgymryd â chynlluniau creu coetir.<br>• Cefnogi'r angen i warchod a chynnal cynefinoedd tir agored lled-naturiol.<br>• Cefnogi symud coedlan a phlanhigfeydd eilaidd o'r cynefinoedd tir agored lled-naturiol, ble mae digon o nodweddion creiriol yn goroesi i sicrhau eu bod yn cael eu hadfer yn llwyddiannus.<br>• Ceisio cael lleihad cyffredinol yn nwyster y defnydd a wneir o'r tir, yn enwedig gyfochrog â chynefinoedd lled-naturiol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn, gwarchod a gwella coetiroedd. |

| COETIROEDD I GYMRU (2001) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r strategaeth wedi'i llunio o amgylch coetiroedd a choed Cymru fel sail ar gyfer ei gweithredu ar draws pedwar o themâu strategol, sy'n cynnwys:<br>• Ymateb i newid hinsawdd- ymdopi a newid hinsawdd a chynorthwyo i leihau ein ôl-troed carbon.<br>• Coetiroedd i bobl – gwasanaethu anghenion lleol am iechyd, addysg a swyddi. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn, gwarchod a gwella coetiroedd. |

| | |
|---|---|
| • Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig – diwydiannau arloesol a medrus sy'n cyflenwi cynnyrch adnewyddadwy o Gymru.<br>• Ansawdd amgylcheddol – gwneud cyfraniad positif i bioamrywiaeth, tirweddau ac etifeddiaeth a lleihau pwysau amgylcheddol eraill. | |

| CYNEFINOEDD BLAENORIAETH YNG NGHYMRU CYNGOR CEFN GWLAD CYMRU (2003) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Canllaw technegol ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth leol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso gwarchodaeth, amddiffyniad a phan bo hynny'n briodol, gwella'r cynefinoedd blaenoriaeth a nodwyd i fod yn gyson ag amcanion y cynllun. |

| GWEITHREDU DROS FIOAMRYWIAETH YN Y DYFODOL YNG NGHYMRU – GRŴP BIOAMRYWIAETH CYMRU (MAI 2002) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Ym mis Mai 2002, cyhoeddodd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gyngor i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar Adroddiad Mileniwm y DU. Cefnogodd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yr MBR ac fe wnaethant nifer o argymhellion ar sail yr egwyddorion allweddol ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth yng Nghymru:<br>• Partneriaeth – cynnwys y gwahanol sectorau cyhoeddus, gwirfoddol, academaidd a busnes;<br>• Camau gweithredu a thargedau – mynd i'r afael â'r blaenoriaethau ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth drwy sefydlu gweithrediadau clir, deilliannau mesuradwy ac atebolrwydd;<br>• Integreiddio Polisïau – prif-ffrydio pryder am amrywiaeth bywyd i mewn i ddatblygiad o polisïau integredig, i gylchdroi tueddiadau sy'n gostwng mewn bioamrywiaeth fel rhan o ymrwymiad i ddatblygiad cynaliadwy;<br>• Gwybodaeth – penderfyniadau creiddiol gyda gwyddoniaeth a gwybodaeth gadarn a gweithio mewn ffyrdd arloesol i lenwi bylchau gwybodaeth a dealltwriaeth;<br>• Ymwybyddiaeth cyhoeddus – pwysleisio'r angen i gipio dychymyg y cyhoedd a sicrhau gwerthfawrogiad o asedau naturiol Cymru sy'n effeithio ar y penderfyniadau a wneir gan bobl yn eu bywyd dyddiol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn, gwarchod a gwella bioamrywiaeth. |

| SAFON GOEDWIGAETH Y DU – AGWEDD Y LLYWODRAETH TUAG AT GOEDWIGAETH GYNALIADWY (2004) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| **Mae Safon Goedwigaeth y DU yn diffinio safonau rheoli ac yn darparu sylfaen ar gyfer rheolaeth a monitro ar sail egwyddorion a meini prawf y cytunwyd arnynt ar gyfer coedwigaeth cynaliadwy. Mae Safon Goedwigaeth y DU yn diffinio gofynion y Llywodraeth am reolaeth gynaliadwy o goedwigoedd ar y meysydd allweddol isod:**<br>• **Coedwigoedd a Thirwedd**<br>• **Coedwigoedd ac Amgylchedd Hanesyddol**<br>• **Coedwigoedd a Bioamrywiaeth**<br>• **Coedwigoedd a Phridd**<br>• **Coedwigoedd a Newid Hinsawdd**<br>• **Coedwigoedd a Phobl**<br>• **Coedwigoedd a Dŵr.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd gyfrannu tuag at goedwigaeth cynaliadwy.** |

| LlCC (2009) TAN 5 - CADWRAETH NATUR A CHYNLLUNIO – 2009 | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLlC** |
| Guidance on special conservational considerations and how the issue needs to be dealt with in the case of specific planning applications that could affect special conservational designations.<br><br>**Mae'r TAN yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol ar:**<br>• **Egwyddorion allweddol o gynllunio cadarn am gadwraeth bywyd gwyllt;**<br>• **Cadwraeth bywyd gwyllt a Chynlluniau Datblygu Lleol;**<br>• **Cadwraeth bywyd gwyllt mewn gweithdrefnau rheoli datblygiad;**<br>• **Ddatblygiad yn effeithio ar safleoedd a chynefinoedd a warchodir yn rhyngwladol ac sydd wedi'u dynodi ar lefel genedlaethol;**<br>• **Datblygiad sy'n effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth a warchodir.**<br><br>Protecting conservations and realising biodiversity objectives is critical to the LPA. Before making decisions regarding special conservation designations, consideration would have to be given to all extant planning permissions that could affect the proposed area. | The JLDP should consider the guidance when formulating al its policies relating to nature conservation. It is important that the JLDP is based on a sufficient understanding of the geology, landscape, species and habitats of the area. |

| **CYNLLUN GWEITHREDU EOG AFON OGWEN (1999)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno Cynllun Gweithredu Eog a Brithyll Môr (SAP) ar gyfer Afon Ogwen – un o'r 63 cynllun sy'n cael ei baratoi ar gyfer afonydd eog yng Nghymru a Lloegr yn 1998/99 fel rhan o Strategaeth Genedlaethol Rheoli Eog yr Asiantaeth.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried amcanion y Cynllun.** |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| Mae'r Gweithdrefnau a gynigwyd yn y Cynllun yn cynnwys:<br>• Gwaith adfer cynefinoedd yn Nyffryn Nant Ffrancon.<br>• Canfod ardaloedd eraill o ddirywiad cynefinoedd, yn enwedig o amgylch afonydd silfeydd.<br>• Ymchwilio i effeithiolrwydd rhwystrau sy'n ceisio atal salmonidau hŷn rhag cael eu colli i geuffordd a lagŵn Chwarel y Penrhyn a Melin Tal-y- Bont.<br>• Gwella mynediad i salmonidau hŷn lawr rhaeadr Ogwen a fydd hefyd yn gymorth i leihau potsio.<br>• Addasu is-ddeddfau pysgodfeydd môr i leihau rhwydo anghyfreithlon yn yr aber ac ar hyd yr arfordir.<br>• Gwella'r ffordd o gasglu data dal pysgod a'r system cofnodi. | |

| CYNLLUN RHEOLI LLYSYWOD GORLLEWIN CYMRU | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Cynllun Rheoli Llysywod Gorllewin Cymru ar gyfer Ardal Basn Afonydd Gorllewin Cymru (RBD) yn anelu i ddisgrifio statws presennol poblogaethau llysywod, asesu cydymffurfiaeth a'r targed a nodwyd yn Rheoliad Rhif 1100/2007 y Cyngor a mesurau rheoli manwl i gynyddu cilfa llysywen arian. Bydd hyn yn cyfrannu at adfer y stoc o lysywod Ewropeaidd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd anelu i wella a chynnal bioamrywiaeth yn Ardal y Cynllun. |

| LOCAL (GWYNEDD)<br><br>~~GWYNEDD AR Y CYD~~ GWELLA GWYNEDD AR Y CYD – DOGFEN YMGYNGHOROL EBRILL 2011 | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

--------------------------------------------------------------------------------

| | |
|---|---|
| ~~Mae'r Strategaeth gymuendol yn gosod cyfeiriad a chanllawiau cadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd yng Ngwynedd ar sail blaenoriaethu fydd yn cryfhau cydweithio gwirioneddol ar draws cyrff y sir.~~<br>~~Gweledigaeth – Cydweithio i wella ansawdd bywydau trigolion Gwynedd – i gynnal a hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, llewyrchus a bywiog.~~<br><br>**Pwrpas y Strategaeth Gymunedol yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Ngwynedd.**<br><br>**Mae'r egwyddorion a ganlyn yn ganolog i'r gwaith:**<br><br>• **Hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau er mwyn gwella ansawdd bywyd ar gyfer ein cenhedlaeth ni a chenedlaethau'r dyfodol.**<br>• **Hyrwyddo gwasanaethau lleol gan ganolbwyntio ar ddinasyddion.**<br>• **Delio â materion cymdeithasol sy'n cyfrannu at waharddiad, iechyd gwael a chyfleoedd cyfartal.**<br>• **Ymrwymiad i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus, y sector breifat a'r trydydd sector.**<br>• **Ymrwymiad i fod yn atebol i ddinasyddion y sir.**<br>• **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.**<br>• **Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg**<br><br>**Mae'r strategaeth yn ceisio creu:**<br>• **Ardal ble mae'r economi'n ffynnu.**<br>• **Ardal ag amgylchedd cynaliadwy**<br>• **Ardal ym mhle mae plant a phobl ifanc yn llwyddo**<br>• **Ardal gyffrous i fyw ynddi gyda chymunedau bywiog.**<br>• **Ardal â iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned.** | **Dylai'r Cynllun ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy.** |

| **STRATEGAETH AD-DREFNU YSGOLION GWYNEDD** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

-------------------------------------------------------------------------------

| | |
|---|---|
| Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth y Cyngor i:<br>"Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir a'u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn".<br>Mae'r strategaeth yn adnabod chwe phrif amcan, sef:<br><br>1. dosbarthiadau o faint addas ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel<br>2. hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg<br>3. datblygu cynllun hir dymor rhagweithiol a chreadigol<br>4. gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael<br>5. creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant ac athrawon y Sir<br>6. datblygu ysgolion yn sefydliadau sy'n ganolbwynt i weithgareddau cymunedol.<br><br>Sefydlwyd yr egwyddorion canlynol ar gyfer y broses ad-drefnu:<br>• Bod angen cynllunio'r newid fesul dalgylch, gan flaenoriaethu'r dalgylchoedd ble mae'r angen am y newid fwyaf amlwg a chlir;<br>• Bod graddfa, natur ac amserlen y newid am amrywio o ddalgylch i ddalgylch;<br>• Bod angen cynllunio'r newid fesul dalgylch law yn llaw gyda chynrychiolwyr lleol – mewn rhai dalgylchoedd bydd posib trafod nifer o opsiynau ac mae modd ystyried syniadau newydd fydd yn deillio o'r drafodaeth leol;<br>• Bod fframwaith adolygu clir a theg yn cael ei weithredu ar gyfer dalgylchoedd ac ysgolion unigol – bydd y fframwaith yn gyd-destun pwysig wrth benderfynu graddfa, natur ac amserlen y newid mewn dalgylchoedd penodol;<br>• Bod unrhyw gynnig i newid y ddarpariaeth addysg gynradd yn lleol yn cynnal a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg fel iaith addysgol a chymunedol.<br>• Bod y Cyngor yn ymrwymo i gadw unrhyw arbedion sy'n deillio o ad-drefnu ysgolion yn y gyfundrefn addysg. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried goblygiadau'r strategaeth ar gynllunio defnydd tir yn ardal y Cynllun gan gynnwys goblygiadau unrhyw newidiadau daearyddol ym mhoblogaeth plant. |

| DYFODOL EIN HYNNI: FFYNONELLAU YNNI ADNEWYDDADWY (EC, 1997) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r papur gwyn yn diffinio gweledigaeth strategol hirdymor i bolisïau ynni, drwy gyfuno ein nodau amgylcheddol, sicrwydd cyflenwad, cystadleuaeth a chymdeithasol. Pum nod allweddol:<br><br>1. dilyn llwybr tuag at gwtogi ar ollyngiadau CO2 y DU - y prif gyfrannwr i gynhesu byd eang - o ryw 60% erbyn tua 2050 gan amlygu gwir gynnydd erbyn 2020;<br>2. cynnal dibynadwyedd cyflenwadau ynni; | Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd a phwysleisio'r berthynas rhwng ynni a dyluniad adeilad. |

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| 3. **hybu marchnadoedd cystadleuol yn y DU a'r tu hwnt, gan helpu i godi cyfradd ein twf economaidd cynaliadwy**<br>4. **gwella'n cynhyrchedd**<br>5. **sicrhau bod pob cartref wedi'i wresogi'n briodol mewn modd fforddiadwy.** | |

| **CYFARWYDDEB YR UE I HYRYWDDO BIO DANWYDD AR GYFER TRAFNIDIAETH (2003/30/EC)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae Cyfarwyddeb 2003/30/EC yn nodi canran lleiafswm o biodanwydd (yn ôl cynnwys ynni) i ddisodli disel a phetrol mewn cludiant ac yn nodi rhwymedigaeth ar Aelod-wladwriaethau i sicrhau bod y cwotâu biodanwydd hyn yn cael eu cwrdd yn ymarferol o 2005 ymlaen. Mae'r amserlen arfaethedig ar gyfer y cyfranddaliad biodanwydd gorfodol fel a ganlyn: 2005 - 2%; 2006 - 2.75%; 2007 - 3.5%; 2008 - 4.25%; 2009 - 5%; 2010 - 5.75%.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo datblygiad rhwydwaith cludiant clir a chynaliadwy.** |

| **SYSTEM MASNACHU ALLYRIADAU'R UNDEB EWROPEAIDD** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Gelwyd hyn yn Gynllun Masnachu Allyriadau'r UE yn flaenorol. System Masnachu Allyriadau'r Undeb Ewropeaidd yw un o'r polisïau sydd wedi'i gyflwyno ledled yr Undeb Ewropeaidd (UE) i geisio cyrraedd ei darged allyriadau nwyon tŷ gwydr o dan y Protocol Kyoto. Ar hyn o bryd mae gan y cynllun ddau gyfnod gweithredu:**<br>**Roedd Cyfnod 1 yn weithredol o 1 Ionawr 2005 i 31 Rhagfyr 2007 ac yn 'gyfnod dysgu trwy wneud';**<br>**Mae Cyfnod II yn weithredol o 1 Ionawr 2008 i 31 Rhagfyr 2012 ac yn cynnwys monitro diwygiedig a rheolau adrodd a capiau allyriadau mwy caeth a ffynonellau hylosgiad ychwanegol.**<br>**Mae Cyfnod III, a fydd yn weithredol o 1 Ionawr 2013 i 31 Rhagfyr 2020 yn cyflwyno newidiadau mawr gan gynnwys cydgordio methodoleg dosbarthu a ffynonellau nwyon tŷ gwydr ac allyriadau ychwanegol.** | **Dylai'r CDLl fynd i'r afael â newid hinsawdd ac annog y lleihad mewn allyriadau nwyon niweidiol tŷ gwydr.** |

| **CYFARWYDDEB YR UE I HYRWYDDO TRYDAN O YNNI ADNEWYDDADWY (2001/77/EC)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Amcan y Gyfarwyddeb yw hyrwyddo cynnydd sylweddol yng nghyfran y trydan a gynhyrchir o ffynonellau ynni adnewyddadwy ar draws yr Undeb Ewropeaidd erbyn 2010.** | **Dylai'r CDLl annog cynhyrchu ynni o Ffynonellau Ynni Adnewyddadwy** |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| RHEOLIADAU ANSAWDD AER (UCHAFSWM GWERTH) (2003) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r rheoliadau hyn yn adnabod crynodiadau cymedrig blynyddol o llygryddion aer penodol byddant yn difrodi llystyfiant ac ecosystemau uwchben y crynodiadau hynny. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso gwella ansawdd yr aer. |

| CONVENTION ON LONG RANGE TRANSBOUNDARY AIR POLLUTION | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Bwriad y Convention on Long-Range Transboundary Air Pollution (CLRTAP) yw gwarchod yr amgylchedd ddynol rhag llygredd aer ac i atal llygredd aer yn raddol , gan gynnwys llygredd aer trawsffiniol amrediad pell. Amcan y Confensiwn yw y bydd Partïon yn ymdrechu i gyfyngu a chyn belled ag y bo modd, leihau ac atal llygredd aer yn raddol gan gynnwys llygredd aer trawsffiniol amrediad pell. Bydd Partïon yn datblygu polisïau a strategaethau i daclo'r gollyngiad o lygryddion aer drwy gyfnewid gwybodaeth, ymgynghori, ymchwil a monitro. | Dylai'r Cynllun fynd i'r afael â newid hinsawdd ac annog y lleihad mewn allyriadau nwyon niweidiol tŷ gwydr. |

| CYFARWYDDEB AR UCHAFSWM ALLYRIADAU CENEDLAETHOL | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae Cyfarwyddeb 2001/81/EC y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor ar Uchafsymiau Allyriadau Cenedlaethol Llygryddion Penodol (Cyfarwyddeb NEC) yn pennu'r lefelau uchaf ar gyfer pob Aelod-wladwriaeth ar gyfer y cyfanswm o allyriadau yn 2010 o ran y pedwar llygredd sy'n gyfrifol am asideiddio, ewtoffeiddio a llygredd oson ar y ddaear (sylffwr deuocsid, ocsidau nitrogen, cyfansoddion organig anweddol ac amonia), ond mae mwyafrif y gwaith o ddewis pa fesurau – yn ychwanegol at ddeddfwriaeth Cymunedol ar gyfer categorïau ffynonellau arbennig – yn cael ei adael i Aelod-wladwriaethau i'w gwneud er mwyn cydymffurfio. | Dylai'r Cynllun fynd i'r afael â newid hinsawdd ac annog y lleihad mewn allyriadau nwyon niweidiol tŷ gwydr. |

| NEWID YN YR HINSAWDD CYMRU – DYSGU SUT I FYW YN WAHANOL (2001) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Adroddiad sy'n:<br>• crynhoi effaith newid hinsawdd ar Gymru;<br>• dynodi efallai ble bydd angen addasiad;<br>• dynodi sut y gellir lleihau allyriannau.<br>• ac sy'n amlinellu camau gweithredu Llywodraeth y Cynulliad ar addasiadau – llifogydd a pheryglon naturiol eraill. | Dylai'r Cynllun fynd i'r afael â newid hinsawdd ac annog y lleihad mewn allyriadau nwyon niweidiol tŷ gwydr. |

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| | |

| **YNNI CYMRU – TRYWYDD YNNI: DOGFEN YMGYNGHORI (2005)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae'r Ddogfen Ymgynghori'n nodi ein gweledigaeth i wneud Cymru'n ffenestr siop i ynni glân a chynnal ein hysfa gystadleuol rhyngwladol.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd.** |

| **NEWID HINSAWDD: PENDERFYNIADAU HERIOL (2000)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae'r astudiaeth hon yn cynnwys newidiadau posib i hinsawdd, barn arbenigol ar y goblygiadau a chanlyniadau cyfweliadau'r budd-ddeiliaid. Mae'n amlinellu sut bydd newid hinsawdd yn newid:**<br>• **glawiad;**<br>• **tymheredd;**<br>• **lefelau'r môr; a**<br>• **gwynt.**<br><br>**Bydd yn effeithio ar amgylchedd naturiol ac adeiedig Cymru, ei harfordiroedd a iechyd ei phobl ac efallai'n cynyddu amlder llifogydd. Mae hefyd yn cyfeirio at y modd y dylid trafod newid hinsawdd mewn ffordd deniadol ac awdurdodol.** | **Dylai'r Cynllun fynd i'r afael â newid hinsawdd ac annog y lleihad mewn allyriadau nwyon niweidiol tŷ gwydr.** |

| **STRATEGAETH NEWID HINSAWDD CYMRU (HYDREF 2010)** | |
|---|---|
| **Objectives and Requirements** | **Implications for JLDP** |
| Mae'r Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd yn bolisi newydd sy'n adeiladu ar y Strategaeth Amgylcheddol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2006 a'r ddogfen Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned a gyhoeddwyd ym mis Mai 2009.<br>Mae'r pwyntiau allweddol yn y Strategaeth fel a ganlyn:<br>▪ Ail ddatgan y targed o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru o 3% y flwyddyn o 2011 ymlaen (heb gynnwys diwydiant trwm a chynhyrchiad pŵer).<br>▪ Ymrwymiad i gyflawni lleihad o 40% yn allyriadau holl nwyon tŷ gwydr erbyn 2020 (o gymharu â gwaelodling 1990).<br>▪ Targedau penodol ar gyfer lleihau allyriadau lleiafswm ym mhob un o'r 6 sector: trafnidiaeth, preswyl, busnes, amaethyddiaeth a defnydd tir, sector gyhoeddus, sector gwastraff.<br>▪ Lefel uchafswm ar gyfer allyriadau o adeiladau sector gyhoeddus fel gall y llywodraeth arwain drwy esiampl.<br>▪ Cydlyniad cenedlaethol er mwyn sicrhau fod Cymru mewn sefyllfa dda i addasu i newid hinsawdd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd anelu i gyfrannu at lwyddiant yr amcanion sydd wedi eu hamlinellu yn y Strategaeth **a'i gynlluniau** a hyrwyddo gwellhad mewn ansawdd aer ac i beidio â gwaethygu llygredd aer. |

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| Yn ogystal mae gan Strategaeth Newid Hinsawdd Cymru ddau gynllun cyflwyno penodol – Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Allyriadau a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Allyriadau yn nodi'r polisïau a'r rhaglenni a fydd o gymorth i gyrraedd y targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 3% fesul blwyddyn mewn ardaloedd o gymhwysedd datganoledig. Mae'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Ymaddasu yn disgrifio'r gweithdrefnau a fydd yn bodloni amcanion y Fframwaith Ymaddasu i wneud Cymru'n fwy gwydn i effeithiau newid hinsawdd. | |

| FFRAMWAITH YNYS YNNI YNYS MÔN | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Elfennau allweddol Fframwaith Ynys Ynni yw:<br><br>Yn y tymor byr: gosodiadau biomas ar raddfa fawr a bach a chefnogi cnydau ynni, camau effeithlonrwydd ynni a micro gynhyrchu. Trafodaethau a chyd-drafodaethau cychwynnol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd yn sgil Ynni Gwynt ar y Môr.<br><br>Y tymor canolig i hir: y safle newydd yn yr Wylfa hyd ar 3.2 GW. gweithredu prosiect ynni'r llanw yn Ynysoedd Moelrhoniaid, gorsaf ynni gwynt ar y môr yn Mhorthladd Caergybi ac ailosod ffermydd ynni gwynt ar y môr sy'n bodoli eisoes.<br><br>Yr hirdymor: ehangu ynni'r llanw a datblygu'r economi hydrogen.<br><br>Mae i Ynys Ynni gryn botensial o ran gwireddu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer economi Ynys Môn a Gogledd Orllewin Cymru. Mae potensial i greu uchafswm o 4500 o swyddi adeiladu (2017) ym Mon a Gogledd Orllewin Cymru, gan gynnwys swyddi yn y gadwyn gyflenwi. Gallai'r fframwaith hefyd greu 2500 o swyddi gweithredol a chynnal eraill ar yr ynys ac yn yr isranbarth ehangach erbyn 2025. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried cynigion ac amcanion Fframwaith Ynys Ynni. |

| CONFENSIWN TREFTADAETH Y BYD | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Nod Confensiwn Treftadaeth y Byd yw hyrwyddo cydweithredu ymysg cenhedloedd i warchod treftadaeth o amgylch y byd sydd o werth byd-eang eithriadol ac mae ei gadwraeth yn bwysig i | Dylai'r CDLl ar y Cydhwyluso'r gwaith o amddiffyn, gwarchod adnoddau treftadaeth pwysig. |

| | |
|---|---|
| genedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. | |

| CYNLLUN RHEOLI SAFLE TREFTADAETH Y BYD | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae Diben y Cynllun Rheoli fel a ganlyn:<br>Mae rheoli Safle Treftadaeth y Byd yn gynhwysfawr yn dibynnu ar ddiogelu'r henebion o fewn y ffiniau arysgrifedig; diogelu a gwella eu lleoliad; eu cyflwyno i'r cyhoedd at ddibenion addysg gydol oes; a hyrwyddo addysg ac ymchwil. Goruchwyliwyd y gwaith o baratoi'r Cynllun Rheoli hwn gan grŵp llywio gyda chynrychiolwyr o Cadw – un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cynulliad Cymru – awdurdodau lleol yr ardal, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; ac ICOMOS-UK. Cafwyd cyfraniadau gan grwpiau arbenigol a chymunedol ac asiantaethau perthnasol eraill o'r llywodraeth drwy gyfrwng arolwg o sefydliadau a gwaith ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod y broses ddrafftio. Bwriedir i'r cynllun ddarparu fframwaith ar gyfer rheolaeth gynhwysfawr ar y safle. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried y fframwaith rheoli a gynhwyswyd yn y cynllun rheoli. |

| WAG (2010) TAN6 – PLANNING FOR SUSTAINABLE RURAL COMMUNITIES | |
|---|---|
| Objectives and Requirements | Implications for JLDP |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

---

| | |
|---|---|
| ~~Cyflwynir yr ystyriaethau sydd angen rhoi pwyslais arnynt wrth ymdrin â chais ar gyfer datblygiad amaethyddol neu ddatblygiad gwledig.~~<br><br>~~Pwysleisir yr angen i ddatblygiadau newydd ystyried eu lleoliad gan sicrhau nad ydyw'n cael effaith ar ffermydd. Yn ogystal mae yna arweiniad yn cael ei roi ar ailddefnyddio/addasu adeiladau gwledig gan nodi mai un o'r prif ystyriaethau yw natur a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Mae materion eraill sydd yn cael eu hymdrin ag hwy yn y NCT penodol hyn yn cynnwys, datblygiadau yn ymwneud ag arallgyfeirio, hawliau datblygu mewn perthynas ag amaethyddiaeth a choedwigaeth, anheddau amaethyddol parhaol a datblygiadau sydd yn gysylltiedig â cheffylau.~~<br><br>**Diben y NCT hwn yw darparu arweiniad ymarferol ar rôl y system gynllunio i gefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy.**<br>**Mae'r NCT yn darparu arweiniad ar sut y gall y system gynllunio gyfrannu tuag at:**<br>• **gymunedau gwledig cynaliadwy;**<br>• **tai gwledig cynaliadwy;**<br>• **gwasanaethau gwledig cynaliadwy; ac**<br>• **amaethyddiaeth gynaliadwy.**<br><br>**Dylai awdurdodau cynllunio geisio cryfhau cymunedau gwledig drwy geisio sicrhau y gall trigolion presennol weithio a chael mynediad at wasanaethau'n lleol gan ddefnyddio cludiant carbon isel i gael cyfran uwch o'u hanghenion ynni o ffynonellau adnewyddadwy lleol. Dylai awdurdodau cynllunio asesu anghenion a blaenoriaethau cymunedau gwledig. Dylai cynlluniau datblygu ddiffinio anghenion lleol gan ystyried cymeriad cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal.** | Dylai'r CDLl roi ystyriaeth i'r arweiniad ynghylch amaethyddiaeth a datblygu gwledig a hwyluso gwelliant yn y diwydiant amaethyddol wrth warchod yr amgylchedd ar yr un amser. |

| **GWELLA BYWYDAU A CHYMUNEDAU – CARTREFI YNG NGHYMRU (2010)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae'r ddogfen hon yn nodi'r heriau wrth geisio diwallu gofynion tai, y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd. Mae hefyd yn esbonio'r manteision o fuddsoddi mewn tai a'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.**<br><br>**Y bwriad yw gwella bywyd pobl. Bydd yn:**<br>**i) Darparu mwy o'r math priodol o dai a chynnig mwy o ddewis.**<br>**ii) Gwella tai a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni tai newydd a thai presennol.**<br>**iii) Gwella'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael i ymdrin â materion sy'n ymwneud â thai, yn enwedig ar gyfer pobl sy'n agored i niwed a phobl o grwpiau lleiafrifol.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso gwella'r cyflenwad, ansawdd, fforddiadwyedd ac addasrwydd tai yn yr ardal ar gyfer pob rhan o'r gymdeithas.** |

# ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| **Mae hyrwyddo mynediad cyfartal at dai a gwasanaethau i bawb, gwella gwasanaethau, taclo tlodi ac anghydraddoldeb ac ymateb i faterion mawr megis newid hinsawdd yn themâu sy'n rhedeg drwy'r bwriad.** | |
| **STRATEGAETH DIGARTREFEDD 2010-2013** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Y weledigaeth sy'n gyrru'r Strategaeth Digartrefedd yw:**<br>**"Datblygu gwasanaeth digartrefedd sy'n hyblyg, yn hygyrch ac yn holistig gyda phartneriaid allweddol yng Ngwynedd, gyda'r nod o hyrwyddo byw'n annibynnol a thai cynaliadwy ar gyfer pob grŵp client ac felly'n lleihau'r achosion o ddigartrefedd."**<br>**Er mwyn cyflawni'r weledigaeth, nodwyd pedwar o amcanion allweddol strategol fydd yn strwythuro sut y cyflawnir y weledigaeth:**<br>**iv) Rhoi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd gan ganolbwyntio ar y cwsmer trwy gyfrwng gwell gweithdrefnau strategol a gweithredol o fewn y Cyngor a chyda sefydliadau partner o ran cynllunio a chyflwyno'r gwasanaethau digartrefedd.**<br>**v) Gwella mynediad at wasanaethau iechyd ar gyfer pobl fregus digartref a darparu dull holistig tuag at hyrwyddo a sicrhau eu hiechyd a'u lles.**<br>**vi) Gwella argaeledd llety a gwella mynediad at lety dros dro a sefydlog addas.**<br>vii) **Gwella'r trefniadau rheoli perfformiad ar gyfer yr holl wasanaethau digartrefedd sy'n cael eu darparu gan y Cyngor a'i bartneriaid.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso gwella'r cyflenwad, ansawdd, fforddiadwyedd ac addasrwydd tai yn yr ardal ar gyfer pob rhan o'r gymdeithas.** |

| | |
|---|---|
| **DATGANIAD CYFLENWI TAI FFORDDIADWY (2009)** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Prif bwrpas DCTFf yw cynyddu'r ddarpariaeth o gartrefi fforddiadwy, gyda'r broses gynllunio yn cael ei gweld fel offeryn hanfodol i wella cyflenwad. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn ei gwneud yn ofynnol ar i holl Gynghorau Cymru gynhyrchu DCTFfau, Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi ymrwymo i uchafu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy i'w drigolion ac, yn y broses, creu cymunedau wedi'u hintegreiddio'n dda ac sy'n gynaliadwy.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried y canllawiau wrth lunio ei bolisïau a'i ddyraniadau.** |
| **STRATEGAETH TAI GWAG YNYS MÔN (2010)** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Pwrpas: I ddod â chartrefi sydd wedi bod yn wag am fwy na chwe mis yn ôl i ddefnydd preswyl**<br>**Er mwyn:**<br>• **Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy**<br>• **Gwella cynaladwyedd y cymunedau a'r amgylchedd adeiledig.**<br>• **Gwneud y defnydd gorau posib o'r stoc tai presennol.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso ailddefnyddio tai gwag er mwyn cynorthwyo i ddiwallu anghenion tai'r boblogaeth.** |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| **Camau Gweithredu:**<br><br>1. Gweithredu Strategaeth Tai Gwag.<br>2. Sefydlu dull trawsadrannol i ddelio â materion tai gwag mewn ffordd gydlynol gan wneud y defnydd gorau o adnoddau.<br>3. Creu bas data o dai gwag.<br>4. Gweithio mewn partneriaeth â pherchnogion a rhoi gwybodaeth iddynt.<br>5. Sicrhau cyfleoedd ariannu sydd ar gael.<br>6. Rhoi blaenoriaeth i ganfod tai gwag allai fodloni anghenion Tai Fforddiadwy.<br>7. Datblygu opsiynau i ddod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.<br>8. Adnabod targedau i ddelio â thai gwag sy'n amodol ar adolygiad blynyddol. | |

| STRATEGAETH ADNEWYDDU TAI SECTOR PREIFAT (2010) (ACLl Ynys Môn) | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Pwrpas: Wedi cwblhau Arolwg Amod Tai yn y Sector Preifat a chydymffurfio ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru i drefnu dull gweithredu strategol i Adnewyddu Tai Sector Preifat.<br><br>Amcan Strategol: I hyrwyddo dull gweithredu'r Cyngor wrth geisio cynorthwyo, a ble bo'n briodol, hybu'r eiddo hynny sydd angen gwelliant drwy Grantiau Adnewyddu Tai yn y Sector Perchentyaeth a'r Sector Rhentu Preifat. Gan gynnwys dod ag eiddo gwag ac adfeiliedig addas yn ôl i ddefnydd preswyl. Wrth wneud hynny, gwneud y defnydd gorau posib o adnoddau sydd ar gael a chydnabod mai cyfrifoldeb pob perchennog tŷ/eiddo yw cynnal ei eiddo personol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso gwella'r cyflenwad tai yn yr ardal, eu hansawdd, eu fforddiadwyedd a'u haddasrwydd er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth breswyl. |

| STRATEGAETH RHEOLAETH INTEGREDIG AR BARTHAU ARFORDIROL | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae'r strategaeth yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy i arfordir Cymru:<br>• Ym mherchenogaeth y gymuned;<br>• Wedi'i optimeiddio;<br>• Yn cael ei werthfawrogi;<br>• Yn cael ei ddiogelu;<br>• Yn ffynnu; ac<br>• Yn gynaliadwy.<br><br>Mae'r weledigaeth yn anelu at warchod a gwella asedau naturiol diwylliannol ac economaidd y parth | Dylai'r CDLl ar y Cyd warchod a gwella asedau naturiol, diwylliannol ac economaidd arfordiroedd. |

| | |
|---|---|
| arfordirol. Cyflawni gwaith Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol a'r weledigaeth i sicrhau'r un canlyniad sef arfordir cynaliadwy sy'n cael ei ddefnyddio a'i fwynhau gan bawb.<br><br>Mae'r Strategaeth yn nodi amcanion a chamau gweithredu i weithredu Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yng Nghymru. Daw'r amcanion, a nodir yn adran chwech o'r ddogfen, o dan saith prif bennawd:<br>1. Hyrwyddo Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol yn genedlaethol ac yn lleol;<br>2. Integreiddio polisïau;<br>3. Prosesu cynllunio a gwneud penderfyniadau integredig;<br>4. Gwell gwybodaeth;<br>5. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o werth y parth arfordirol a Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol;<br>6. Ymuno â'n cymdogion; a<br>7. Monitro'r broses Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol. | |

| STRATEGAETH TIRWEDD YNYS MÔN – DIWEDDARIAD (2011) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Adnabod ardaloedd sydd â gwerthoedd tirwedd o ansawdd uchel gan ddefnyddio methodoleg LANDMAP. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried canfyddiadau'r Strategaeth Tirwedd. |

| CYFARWYDDEB YR UE AR DRIN DŴR GWASTRAFF TREFOL AC ARDALOEDD SENSITIF EWTROFFIG DYNODEDIG | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| O dan Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol 1991, mae safonau casglu, trin a gwaredu dŵr gwastraff sydd angen ym mhob gweithle yn ddibynnol ar ddau ffactor:<br>1. maint yr ardal drefol.<br>2. dosbarthiad y dŵr sy'n cael ei dderbyn, h.y. sensitif ai peidio i ewtoffeiddio. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried gofynion y Gyfarwyddeb<br>a hwyluso'r gwaith o amddiffyn a gwella ansawdd dŵr. |

| CYNLLUN SYCHDER ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD (DRAFFT YMGYNGHORI) (MEDI 2011) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |

## ATODIAD 2: Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| **Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rheoli sychder yng Nghymru. Mae'n amlinellu:**<br>• strwythur rheoli sychder;<br>• penderfyniadau rheoli sychder a'r camau gweithredu a gymerwyd a'r sbardunau ar gyfer y gwaith hynny;<br>• sut mae effeithiau sychder yn cael eu monitro a'u mesur;<br>• sut yr ymdrinnir â cheisiadau am drwydded sychder a gorchymyn sychder;<br>• sut mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn adrodd ar sychder;<br>• sut mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyfathrebu ag eraill. | **Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried achos a goblygiadau sychder wrth gynhyrchu'r cynllun** |

---

| CYFARWYDDEB LLIFOGYDD (2007/60/EC) | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae Cyfarwyddeb Llifogydd yn gofyn i Aelod-wladwriaethau i gysylltu a'u hadrannau llywodraeth, asiantaethau a chyrff eraill i lunio Asesiad Rhagarweiniol Risg Llifogydd. Diben yr asesiad hwn yw ystyried yr effeithiau ar iechyd a bywyd dynol, yr amgylchedd, treftadaeth amgylcheddol a gweithgarwch economaidd gyda dyddiad cwblhau deddfwriaethol o Ragfyr 2011.  Defnyddir y wybodaeth yn yr asesiad hwn i adnabod yr ardaloedd sydd mewn peryg arwyddocaol a gaiff ei fodelu wedi hyn i gynhyrchu mapiau perygl a risg llifogydd. Mae'r mapiau hyn i fod yn weithredol erbyn Rhagfyr 2013 a byddent yn cynnwys manylion ar raddfa, dyfnder a lefel y llifogydd mewn tri senario risg (tebygolrwydd uchel, canolig ac isel).** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd sicrhau bod y peryg o lifogydd yn cael ei ystyried wrth benderfynu lleoliad datblygiad newydd.** |

---

| DEDDF ADNODDAU DŴR 1991 | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae Deddf Adnoddau Dŵr 1991 yn rheoli adnoddau dŵr, ansawdd dŵr, llygredd a ffyrdd o amddiffyn rhag llifogydd.  Mae Rhan II y Ddeddf yn rhoi'r strwythur gyffredinol ar gyfer rheoli adnoddau dŵr. Mae Rhan III wedyn yn esbonio'r safonau a ddisgwylir gan ddŵr sydd wedi'i reoli; a'r hyn a ystyrir yn llygredd dŵr. Mae Rhan VI yn darparu gwybodaeth ar liniaru drwy amddiffyn rhag llifogydd.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso defnyddio dŵr yn gynaliadwy ac yn effeithlon a sicrhau nad yw datblygiad yn effeithio'n andwyol ar ansawdd dŵr.** |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| DEDDF DŴR (2003) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Strategaeth Graidd i gefnogi datrys problemau sylweddol a cheisio cyflawni rheolaeth gynaliadwy o adnoddau dŵr. | Dylai'r CDLl ar y Cyd amddiffyn adnoddau, cyflenwad a'r amgylchedd dŵr. |

| DŴR I'R BOBL A'R AMGYLCHEDD - STRATEGAETH ADNODDAU DŴR I GYMRU A LLOEGR | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Noda'r strategaeth gamau gweithredu o ran newid hinsawdd fydd yn:<br>▪ Galluogi cynefinoedd a rhywogaethau i addasu'n well i newid hinsawdd;<br>▪ Galluogi'r ffordd yr ydym yn gwarchod yr amgylchedd dŵr i addasu'n hyblyg i hinsawdd sy'n newid;<br>▪ Lleihau'r pwysau ar yr amgylchedd a achosir wrth i ddŵr gael ei gymryd i'w ddefnyddio gan fodau dynol;<br>▪ Annog dewis opsiynau sy'n medru gwrthsefyll newid hinsawdd mewn cyfnodau o ansicrwydd;<br>▪ Gwarchod seilwaith cyflenwad dŵr hanfodol yn well;<br>▪ Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a grëir gan bobl sy'n defnyddio dŵr, gan ystyried y defnydd bywyd cyfan;<br>▪ Gwella dealltwriaeth o'r risgiau ac o'r hyn sy'n ansicr am newid hinsawdd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso defnyddio dŵr yn gynaliadwy ac yn effeithlon a sicrhau nad yw datblygiad yn effeithio'n andwyol ar ansawdd dŵr. |

| WATERWAYS FOR WALES – THE WAY FORWARD (2000) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae amcanion y strategaeth fel a ganlyn:<br>• Sbarduno adfywio economaidd;<br>▪ Gweithredu fel catalydd ar gyfer adferiad gwledig;<br>▪ Datblygu bywyd cynaliadwy;<br>▪ Hyrwyddo bywiogrwydd treftadaeth ddiwydiannol Cymru;<br>▪ Hyrwyddo Cymru yn y byd ehangach. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried gofynion y Cynllun. |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| CLEANER COASTS, HEALTHIER SEAS | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Rydym oll eisiau arfordiroedd glanach a moroedd iachach o amgylch Cymru a Lloegr. Rydym yn anelu i gyfrannu at gyflawni hyn drwy'r Strategaeth Forol wrth:<br><br>▪ hyrwyddo datblygiad cynaliadwy;<br>▪ integreiddio rheolaeth rhwng y tir a'r môr;<br>▪ rheoleiddio'r arfordir mewn modd effeithlon;<br>▪ sicrhau ein bod oll yn gwerthfawrogi ein hamgylchedd arfordirol a'n hamgylchedd morol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried amcanion y cynllun gweithredu wrth sefydlu polisïau a gweithdrefnau. |

| CYNLLUN RHEOLI TRAETHLIN GORLLEWIN CYMRU (CHWEFROR 2011) (SMP) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Cynllun Rheoli Traethlin (SMP) yn darparu asesiad eang o'r risgiau sydd ynghlwm ag esblygiad arfordirol ac yn cyflwyno fframwaith polisi i fynd i'r afael â'r risgiau sy'n bygwth pobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy.<br><br>Mae'r cynllun yn darparu asesiad eang o'r risgiau hyn a hefyd cyngor eithaf manwl i awdurdodau gweithredol am reoli eu hamddiffyniadau. Y prif egwyddorion yw:<br><br>• Cyfrannu at gymunedau a datblygiad cynaliadwy.<br>• Lleihau'r ddibyniaeth ar amddiffyn a chynyddu cydnerthwch cymunedau.<br>• Cefnogi agwedd integredig at gynllunio gofodol, ac yn arbennig adnabod y cydberthnasau rhwng canolfannau datblygu a chymunedau amgylchynol.<br>• Gweithgarwch dyn a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol yn hanfodol i hunaniaeth, lles a bywiogrwydd cymuned, a'i arwyddocâd mewn twristiaeth ac adfywio economaidd.<br>• Cynnal a chefnogi'r prif ganolfannau gweithgarwch economaidd.<br>• Cynnal bywiogrwydd a chefnogi addasu aneddiadau llai.<br>• Osgoi difrodi'r amgylchedd naturiol a cheisio cyfleoedd i'w wella.<br>• Cefnogi'r dreftadaeth ddiwylliannol a defnydd yr iaith Gymraeg.<br>• Cynnal y dirwedd ansawdd uchel, neu ei gwella,<br>• Cynnal hygyrchedd cynaliadwy o ran cynnal cyswllt cenedlaethol a rhanbarthol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ymgorffori'r egwyddorion yn y cynllun hwn o ran llifogydd a rheoli perygl llifogydd. |

| CYNLLUN RHEOLI LLIFOGYDD DALGYLCHOEDD GOGLEDD ORLLEWIN CYMRU (North Wales CFMP) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| Mae'r CFMP yn darparu trosolwg o'r perygl llifogydd yn nalgylchoedd Gogledd Orllewin Cymru ac yn gosod y cynllun a ffafrir ar gyfer rheoli perygl llifogydd mewn modd cynaliadwy dros y 50 i 100 mlynedd nesaf.<br><br>Mae'r CFMP yn ystyried pob math o lifogydd tir, o afonydd, i ddŵr daear i ddŵr wyneb a llifogydd llanw, ond nid llifogydd yn uniongyrchol o'r môr (llifogydd arfordirol), sy'n cael ei gynnwys yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin. Rôl y CFMP yw sefydlu polisïau rheoli perygl llifogydd fydd yn darparu rheolaeth gynaliadwy o beryglon llifogydd yn y tymor hir.<br><br>Mae'r CFMP hwn yn adnabod polisïau rheoli peryglon llifogydd er mwyn rhoi cymorth i'r penderfynwyr allweddol yn y dalgylchoedd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried y casgliadau a'r argymhellion yn y cynllun o ran rheoli llifogydd. Dylai arwain cynllunio gofodol o ran perygl llifogydd. |

| CYNLLUN RHEOLI DALGYLCH AFON DYFRDWY (River Dee CFMP) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r CFMP yn darparu trosolwg o'r perygl llifogydd yn nalgylch Afon Dyfrdwy ac yn gosod y cynllun a ffafrir ar gyfer rheoli perygl llifogydd mewn modd cynaliadwy dros y 50 i 100 mlynedd nesaf.<br><br>Mae'r CFMP yn ystyried pob math o lifogydd tir, o afonydd, i ddŵr daear i ddŵr wyneb a llifogydd llanw, ond nid llifogydd yn uniongyrchol o'r môr (llifogydd arfordirol), sy'n cael ei gynnwys yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin. Rôl y CFMP yw sefydlu polisïau rheoli perygl llifogydd fydd yn darparu rheolaeth gynaliadwy o beryglon llifogydd yn y tymor hir.<br><br>Mae'r CFMP hwn yn adnabod polisïau rheoli peryglon llifogydd er mwyn rhoi cymorth i'r penderfynwyr allweddol yn y dalgylchoedd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried y casgliadau a'r argymhellion yn y cynllun o ran rheoli llifogydd. Dylai arwain ar gynllunio gofodol o ran perygl llifogydd. |

| STRATEGAETHAU RHEOLI TYNNU DŴR (Môn, Meirionnydd, Llŷn ac Eryri) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Prif amcanion Strategaethau Rheoli Tynnu Dŵr Dalgylchoedd (CAMS) yw diffinio'r adnoddau dŵr sydd ar gael mewn dalgylch, pan fo'r lefelau dŵr yn isel, wrth benderfynu ar gynhwysedd y dŵr sydd ei angen i gynnal neu wella ei amgylchedd afonol. Hefyd i ddarparu strategaeth drwyddedu gynhwysfawr i sicrhau fod adnoddau dŵr o fewn ardal CAMS yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Dylai'r broses unffurf a ddefnyddir i gyflawni hyn arwain at agwedd gyson yng Nghymru a Lloegr. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy adnoddau dŵr yn unol â'r CAMS. |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| STRATEGAETH THEMATIG YR UE AR GYFER PRIDD (2006) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Strategaeth yn cynnwys: cyfathrebiad sy'n sefydlu rhaglen waith ddeng mlynedd; cyfarwyddeb fframwaith ddrafft ac asesiad effaith yn dadansoddi effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y mesurau arfaethedig. Strategaeth Thematig yr UE ar gyfer pridd yw'r olaf o saith strategaeth thematig a ddatblygwyd dan chweched Raglen Gweithredu Amgylcheddol yr UE. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

| CYFARWYDDEB LLAID Y GE (86/278/EEC) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Diben y Gyfarwyddeb hon yw rheoleiddio'r defnydd o laid carthffosiaeth mewn amaeth mewn modd sy'n atal effeithiau niweidiol ar bridd, llystyfiant, anifeiliaid a dyn a thrwy hynny annog defnydd priodol o laid carthffosiaeth o'r fath. Mae'r Gyfarwyddeb yn gosod cyfyngiadau gwerthoedd ar gyfer crynodiadau o fetelau trwm yn y pridd, mewn llaid ac ar gyfer uchafswm y cyfansymiau blynyddol o fetelau trwm y gellir eu cynnwys mewn pridd. Rhaid i'r Aelod-wladwriaethau gymryd y mesurau hyn o ddifrif i sicrhau nad yw'r cyfyngiadau hyn yn cael eu torri drwy ddefnyddio llaid. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

| SIARTER PRIDD EWROPEAIDD | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mabwysiadodd yr Undeb Ewropeaidd Siarter Pridd Ewropeaidd yn 1972 a mabwysiadwyd diwygiad i'r siarter hwn yn ddiweddarach yn 2003 (Cyngor Ewrop 2003) mewn ymateb i dueddiadau o golled a diraddiad pridd a'r angen i gael offeryn cyfreithiol ar gyfer y gwledydd sy'n aelodau o'r UE. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

| CONSORTIWM DANGOSYDDION PRIDD Y DU (DEFRA) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Grŵp o fudd-ddeiliaid cyhoeddus yw Consortiwm Dangosyddion Pridd y DU sy'n datblygu cyfres o ddangosyddion ar gyfer pridd y DU a chynllun monitro pridd.<br>Mae'r amcanion fel a ganlyn:<br>1. Datblygu cyfres o ddangosyddion ansawdd pridd sy'n berthnasol i bolisi ac yn wyddonol gadarn sy'n:<br>• Cynnwys holl swyddogaethau pridd<br>• Cadw golwg ar newidiadau sylweddol mewn ansawdd pridd mewn modd amserol<br>• Diwallu gwahanol anghenion y sefydliadau sy'n aelodau (gwneud y defnydd gorau o'r data a gesglir)<br>• Gwneud defnydd o waith ymchwil dangosyddion sy'n cael ei gefnogi gan sefydliadau sy'n aelodau | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| 2. Datblygu cynllun monitro ar gyfer y DU fydd:<br>• yn sefydlu'n well gyflwr priddoedd cenedlaethol<br>• yn cael ei deilwra ar gyfer yr adnoddau sydd ar gael ac ar gyfer anghenion sefydliadau unigol<br>• yn cael ei ddylunio i gadw golwg ar newidiadau sylweddol mewn ansawdd pridd<br>• yn adeiladu ar waith ymchwil a ariannwyd yn flaenorol ar ddyluniad cynlluniau monitro | |

| ADFER TIR A HALOGWYD (2001) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Ar 15 Medi 2001, daeth system well ar gyfer adnabod ac adfer tir a halogwyd i rym.<br>-<br>Cyfeirir at y system tir a halogwyd fel "Rhan IIA" neu "Ran 2A", sef Rhan 2A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol. Mae'r system yn rhoi'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i:<br>-<br>• archwilio eu hardaloedd;<br>• adnabod tir a halogwyd;<br>• ymdrin â materion yn unol â'r dull "addas i'w ddefnyddio". | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried gofynion y Cynllun o ran rheoli tir a halogwyd. |

| CYFARWYDDEB LLOSGI GWASTRAFF (CYMRU A LLOEGR) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff, neu'n fwy ffurfiol, Cyfarwyddeb 2000/76/EC y Senedd a'r Cyngor Ewropeaidd 4 Rhagfyr 2000 ar losgi gwastraff (OJL332, T91 - 111) yn Gyfarwyddeb a gyhoeddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac mae'n ymwneud â'r safonau a'r fethodoleg sy'n ofynnol gan Ewrop ar gyfer yr weithred o losgi a thechnoleg llosgi. Diben y Gyfarwyddeb yw lleihau effaith effeithiau amgylcheddol negyddol ar yr amgylchedd ac ar iechyd dyn sy'n deillio o allyriadau i'r aer, pridd, dŵr wyneb a dŵr daear oherwydd llosgi a chyd-losgi gwastraff. Mae gofyniadau'r Gyfarwyddeb wedi'u datblygu i adlewyrchu gallu safleoedd llosgi cyfoes i gyrraedd safonau uchel o reoli allyriadau'n fwy effeithiol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried anghenion y Gyfarwyddeb. |

| CYNLLLUN GWEITHREDU PRIDDOEDD CYMRU | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Diben y cynllun gweithredu priddoedd oedd adolygu pwysigrwydd priddoedd yn nhermau | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn |

| | |
|---|---|
| amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Yn ogystal â hyn, mae'n amlinellu'r prif fygythiadau i briddoedd ac yn ystyried polisïau cyfredol a chamau arfaethedig i daclo neu liniaru'r bygythiadau hyn. | a chadw priddoedd. |

| PRIDD: ADNODD AMHRISIADWY - STRATEGAETH BRIDD ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Dyma strategaeth Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer amddiffyn, rheoli ac adfer pridd. Mae chwe amcan i'r strategaeth:<br>1) Bydd pobl yn gwerthfawrogi pridd ac yn cydnabod ei fod yn adnodd naturiol pwysig sydd angen yr un lefel o amddiffyniad â dŵr ac aer.<br>2) Bydd pobl yn adnabod pwysigrwydd amgylcheddol y cysylltiadau rhwng pridd, aer a dŵr ac yn ystyried hyn wrth reoli pridd.<br>3) Bydd ffermwyr a thyfwyr yn rheoli eu priddoedd yn ddoeth er mwyn cynhyrchu bwyd iach mewn modd cynaliadwy sy'n diogelu'r amgylchedd.<br>4) Bydd pobl yn gwerthfawrogi pridd yn yr amgylchedd adeiledig am ei fod yn darparu cyfleoedd hamdden mewn gerddi a mannau gwyrdd cymunedol, am ei fod yn cefnogi bioamrywiaeth a hefyd am ei fod yn cynnig manteision i ni o ran ansawdd aer a dŵr. Bydd diwydiant yn mabwysiadu dulliau o atal llygredd fydd yn amddiffyn priddoedd a bydd pridd yn cael ei reoli a'i ddefnyddio'n well mewn gweithgarwch adeiladu.<br>5) Byddwn yn gwybod mwy am fioamrywiaeth pridd. Byddwn hefyd yn gwella ein dealltwriaeth o effaith gweithgarwch dyn a newid amgylcheddol ar bridd a rhoi'r gallu i ni fonitro'r effaith hwn er mwyn cadw'n priddoedd yn iach.<br>6) Byddwn yn darganfod gwybodaeth newydd am briddoedd, ei gwneud hi'n haws i gael mynediad at wybodaeth am bridd a rhannu gwybodaeth gydag eraill er mwyn cael gwell dealltwriaeth. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

| COD ARFER AMAETHYDDOL DA AR GYFER AMDDIFFYN PRIDD | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Cod hwn yn darparu cyngor ac arweiniad ar gyfer lleihau'r risg o beri llygredd. Diffinnir arfer da fel yr hyn sy'n lleihau'r risg o lygredd, wrth ganiatáu i ffermio proffidiol a chynhyrchiol barhau. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

| ADNABOD A DATBLYGU CYFRES O DDANGOSYDDION CENEDLAETHOL AR GYFER ANSAWDD PRIDD | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| Mae'r prosiect hwn yn ychwanegu at ddarganfyddiadau prosiect blaenorol a arweiniwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, *Adnabod a Datblygu Cyfres o Ddangosyddion Cenedlaethol Ar Gyfer Ansawdd Pridd.* Daeth y prosiect yn 2002 i'r casgliad y dylid seilio dangosyddion ansawdd pridd (SQI) ar swyddogaeth pridd, a'r swyddogaethau pwysicaf yw rhyngweithiad amgylcheddol, cynhyrchu bwyd a ffibr, cefnogi cynefinoedd a bioamrywiaeth ecolegol, darparu deunyddiau crai ac amddiffyn treftadaeth ddiwylliannol. O amrediad o 67, adnabuwyd naw swyddogaeth allweddol gan yr adroddiad. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

| RHEOLIADAU LLAID | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae Rheoliadau Llaid Carthffosiaeth y Du (Rheoliadau Llaid (Ei ddefnyddio mewn Amaethyddiaeth) 1989) yn darparu rheoliadau ar gyfer cynnwys metel trwm mewn llaid sydd i'w ddefnyddio ar y tir. Maent yn manylu ar y cyfyngiadau blynyddol ar gyfer elfennau penodol a hefyd yn nodi na chaiff pH y pridd fod yn is na phump. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

| RHEOLIADAU PARTHAU PERYGL NITRADAU | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu rhaglen weithredu ar gyfer parthau perygl nitradau a ddynodwyd gan y Rheoliadau Diogelu Dŵr Rhag Llygredd Nitradau Amaethyddol (Cymru a Lloegr) 1996. Mae'r Rheoliadau'n gweithredu'r gofyn i sefydlu rhaglen o'r fath yn Erthygl 5 Cyfarwyddeb Cyngor 91/676/EEC sy'n ymwneud ag amddiffyn dyfroedd rhag llygredd gan nitradau o ffynonellau amaethyddol.<br>Mae gofyn i breswylydd fferm neu uned da byw, ble mae rhan ohono mewn parth llifogydd nitradau, neu pan fo'r holl dir mewn parth llifogydd nitradau, sicrhau y gweithredir y rhaglen weithredu yn y fferm neu'r uned da byw neu yn y rhan ohoni sydd y tu mewn i barth perygl nitradau. | Dylai'r CDLl ar y Cyd amddiffyn adnoddau, cyflenwad a'r amgylchedd dŵr. |

| ASTUDIAETH SGOPIO PRIDD (2002) | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae'r Astudiaeth Sgôp yn darparu'r sail ar gyfer rheoli ac amddiffyn pridd yn dda. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso'r gwaith o amddiffyn a chadw priddoedd. |

| DEDDF SYLWEDDAU YMBELYDROL 1993 | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| Mae Deddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 yn ymwneud â rheoli deunydd ymbelydrol ac unrhyw groniad pellach o wastraff ymbelydrol a gwaredu gwastraff ymbelydrol. Mae'r amodau sy'n ymwneud â'r awdurdodi'n berthnasol i reoli a diogelu gwastraff ymbelydrol cronnus a'i warediad.<br><br>Diben y Ddeddf hon yw amddiffyn yr amgylchedd rhag llygredd ymbelydrol drwy reoli'r defnydd o ddeunydd ymbelydrol ac yn arbennig drwy waredu gwastraff ymbelydrol. Rhaid i unrhyw weithgaredd sy'n defnyddio deunyddiau ymbelydrol, boed hynny'n ffynonellau caeedig neu agored, fod wedi cofrestru i gadw a defnyddio deunydd o'r fath, ac os ydynt yn cynhyrchu gwastraff, dylent fod wedi cael eu hawdurdodi i gronni a gwaredu'r gwastraff hwn. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried gofynion y Ddeddf wrth ffurfio'r polisi. |

| RHEOLIADAU TRWYDDEDU GWASTRAFF 1994 | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r rheoliadau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer datblygu 'System Drwyddedu Rheoli Gwastraff' dan ran II Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990. Darperir ar gyfer gwaredu olewau ac iraid gwastraff. Darperir yn ogystal ar gyfer amddiffyn dyfroedd daear, rhag llygredd drwy waredu sylweddau rhestredig penodol. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy gwastraff ac amddiffyn yr amgylchedd rhag halogiad. |

| STRATEGAETH MWYNGLODDIO METEL I GYMRU 2002 | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae Strategaeth Mwyngloddio Metel Cymru yn dwyn ynghyd safbwyntiau penodol amryw o fudd-ddeiliaid mewn un ddogfen ac yn adnabod safleoedd sydd â safbwyntiau neu bryderon gwahanol. O ran ansawdd dŵr, mae'r dalgylchoedd dan fygythiad o beidio â chyflawni statws cemegol ac ecolegol da erbyn 2015 oherwydd y metelau dyrchafedig sy'n gysylltiedig â gweithgarwch mwyngloddio hanesyddol yn ei ddyfroedd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso amddiffyn dyfroedd a lliniaru llygredd posib oherwydd gweithgarwch mwyngloddio. |

| ~~RHAMBARTHOL~~<br><br>~~CYNLLUN GWASTRAFF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU – AROLWG CYNTAF 2007~~ | |
|---|---|
| ~~Amcanion a Gofynion~~ | ~~Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd~~ |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| ~~Gweledigaeth:~~<br><br>~~Darparu fframwaith cynllunio defnydd tir i reoli gwastraff ac adennill adnoddau mewn ffordd gynaliadwy yng ngogledd Cymru, gyda'r amcanion a ganlyn:~~<br><br>~~Amcan A: Lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl.~~<br>~~Amcan B: Lleihau effeithiau cymdeithasol ac economaidd andwyol ac uchafu cyfleoedd cymdeithasol ac economaidd.~~<br>~~Amcan C: Bodloni anghenion cymunedau a busnesau.~~<br>~~Amcan D: Cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, targedau, egwyddorion a pholisïau a bennir gan fframwaith polisi Ewropeaidd a chenedlaethol.~~ | ~~Dylai'r CDLl hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff ac annog lleihau'r gwastraff a gynhyrchir. Yn ogystal, dylai'r CDLl hyrwyddo ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a hyrwyddo lleihau cyfanswm y gwastraff a dirlenwir, yn unol â thargedau a osodir gan Gyfarwyddebau perthnasol.~~ |

| **CYNLLUN SECTOR GWASTRAFF BWRDEISTREFOL (MAWRTH 2011)** | |
|---|---|
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| **Mae'r Cynllun Sector Bwrdeistrefol yn cefnogi 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', y brif ddogfen strategaeth wastraff ar gyfer Cymru, drwy fanylu ar ganlyniadau, polisïau a chamau cyflawni ar gyfer y sector hwn.**<br><br>**Y dull a ddefnyddir ar gyfer Rhan 1 y Cynllun Sector Bwrdeistrefol yw gweithredu yn y pedwar prif faes a ganlyn:**<br><br>**Atal gwastraff – atgyfnerthu rôl bwysig Awdurdodau Lleol wrth ymgysylltu â phreswylwyr a chymunedau i leihau faint o wastraff sy'n cael ei roi allan i'w gasglu, gan helpu i gyflawni canlyniadau amgylcheddol, cynyddu cyfleoedd i wella lles cymdeithasol drwy ailddefnyddio gwastraff a lleihau costau casglu a rheoli gwastraff.**<br><br>**Paratoi ar gyfer ailddefnyddio - sicrhau bod cyfran llawer iawn uwch o'r gwastraff a gesglir gan Awdurdodau Lleol yn cael ei baratoi i gael ei ailddefnyddio, er mwyn cynnal lles drwy fod yn rhan o weithgareddau ailddefnyddio a lleihau costau rheoli gwastraff.**<br><br>**Gwelliannau i wasanaethau casglu deunydd ailgylchu - cyflawni canlyniadau datblygiad cynaliadwy mewn modd cost-effeithiol a gweithio i gyrraedd y targedau gwastraff bwrdeistrefol newydd a osodir gan 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.**<br><br>**Trin a gwaredu cynaliadwy - llwyddo i drin a gwaredu gwastraff bwrdeistrefol yn gynaliadwy mewn modd sy'n gost-effeithiol a gweithio i gyflawni'r targedau a osodir gan 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff'.** | **Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff ac annog lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, yn unol ag amcanion y cynllun.** |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| | |

| CYNLLUN DRAFFT Y SECTOR GWEITHGYNHYRCHU, GWEINI A GWERTHU BWYD (MAWRTH 2011) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Bwriad Cynllun y Sector Gweithgynhyrchu, Gweini a Gwerthu Bwyd yw mynd i'r afael â'r materion yn y tri phrif faes, gan ganolbwyntio ar fwyd a deunydd pacio;<br><br>i) Atal gwastraff:<br>• Lleihau deilliannau gwastraff sy'n cael eu cynhyrchu'n uniongyrchol gan y sectorau yn y cynllun (gan ganolbwyntio ar fwyd a deunydd pacio yn y llif gwastraff cymysg a gynhyrchir gan Fusnesau Bach a Chanolig (SMEs), a deilliannau bwyd mewn cwmnïau cynhyrchu bwyd mawr).<br>• Gweithredu'r cylch cyflenwi mewn modd gwyrdd, gan gynnwys ecoddylunio er mwyn i ddeunydd pacio greu llai o wastraff.<br><br>ii) Ailgylchu:<br>• Mae busnesau'n cael deunyddiau i wahanu a phecynnu bwyd sy'n diweddu ar hyn o bryd yn y llif gwastraff cymysg, ac felly'n cynyddu'r cyfraddau ailgylchu ar y safle.<br>• Darparu gwasanaeth casglu ar wahân ar gyfer gwastraff deunydd pacio a bwyd.<br>• Deunydd ailgylchu i gael ei ailgylchu er mwyn ei ailddefnyddio neu ei 'ailgylchu i fyny' (*up—cycle*).<br>• Anfon gwastraff bwyd i safleoedd treulio anaerobig (pan nad oes modd ailddefnyddio e.e. fel bwyd anifeiliaid).<br>• Cynyddu faint o ddeunydd pecynnu y mae modd ei ailgylchu.<br>• Cynyddu faint o ddefnydd wedi'i ailgylchu a ddefnyddir i becynnu. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff ac annog lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, yn unol ag amcanion y cynllun. |

# ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | |
|---|---|
| iii) Trin a gwaredu - llwyddo i drin a gwaredu gwastraff masnachol a diwydiannol yn gynaliadwy mewn modd sy'n gost-effeithiol a gweithio i gyflawni'r targedau a osodir gan 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff' gan gynnwys y rhai sy'n cyfyngu ar ynni o wastraff ac sy'n ceisio cael gwared â thirlenwi'n llwyr. | |

| CYNLLUN SECTOR DRAFFT YNGHYLCH CASGLIADAU, SEILWAITH A MARCHNADOEDD (MAWRTH 2011) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Cynllun Sector drafft ynghylch Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd yn cynnwys rheoli pob gwastraff yng Nghymru, waeth o ba sector y daw. Mae'r Cynllun hwn yn cefnogi 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', y brif ddogfen strategaeth wastraff ar gyfer Cymru, drwy fanylu ar ganlyniadau, polisïau a chamau cyflawni ar gyfer y sector hwn. Mae'n ffurfio rhan o gyfres o ddogfennau sydd ar y cyfan yn cynnwys y cynllun rheoli gwastraff i Gymru yn unol â'r gofynion wrth lunio cynllun sydd wedi'u cynnwys yn neddfwriaeth y DU a'r UE.<br><br>Dyma brif faterion /amcanion y Cynllun:<br>• Ceisia'r Cynllun Sector ynghylch Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd greu'r amodau i alluogi agwedd gynaliadwy tuag at reoli adnoddau drwy sicrhau bod cyfaint uchel o ddeunydd ailgylchu glân wedi'i wahanu yn cael ei gasglu a'i ddosbarthu i ailbroseswyr (cymaint â phosib o Gymru), ac y datblygir marchnadoedd ar gyfer ailgylchu deunyddiau i'w hailddefnyddio yn cael eu datblygu (cymaint â phosib yng Nghymru).<br>• Mae'r cynllun drafft yn ceisio sicrhau, cymaint â phosib, y cedwir gwerth economaidd y deunydd ailgylchu yn economi Cymru.<br>• Dengys tystiolaeth bod nifer sylweddol o ddeunydd i'w ailgylchu yn cael ei dirlenwi, yn enwedig o gartrefi ac o'r sector masnachol.<br>• Ceir tystiolaeth hefyd fod rhai deunyddiau yn cyrraedd marchnadoedd diwedd, sydd ddim yn opsiwn cynaliadwy iawn i Gymru.<br>• Mae angen gwella ansawdd y deunydd ailgylchu a gesglir.<br>• Mae'r cynllun yn adnabod ble mae angen gwella'r broses o gasglu deunydd ailgylchu a ble y ceir cyfleoedd i ddatblygu seilwaith. Bwriad y cynllun drafft yw hwyluso datblygiadau seilwaith wrth ddangos bod angen buddsoddiadau o'r fath.<br>• Atal gwastraff. | Dylai'r CDLl ar y Cyd hwyluso rheolaeth gynaliadwy o wastraff ac annog lleihau'r gwastraff a gynhyrchir, yn unol ag amcanion y cynllun. |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| STRATEGAETH DERFYNOL YMCHWILIO TIR WEDI'I HALOGI (YNYS MÔN) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Prif amcanion y Cyngor wrth ymdrin â thir wedi'i halogi fydd:<br>• Amddiffyn iechyd pobl<br>• Amddiffyn dyfroedd wedi'u rheoli<br>• Atal difrod i eiddo<br>• Atal unrhyw halogiad tir pellach<br>• Annog pobl i lanhau tir wedi'i halogi yn wirfoddol<br>• Annog ailddefnyddio tir wedi'i halogi, neu dir llwyd fel y'i gelwir. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried gofynion y Cynllun o ran rheoli tir a halogwyd. |

| STRATEGAETH DDRAFFT TIR WEDI'I HALOGI (GWYNEDD) | |
|---|---|
| Amcanion a Gofynion | Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd |
| Mae'r Strategaeth yn manylu ar y trefniadau a'r gweithdrefnau y bydd Cyngor Gwynedd yn eu dilyn i archwilio tir yn y Sir am halogiad, er mwyn adnabod a chael gwared â pheryglon annerbyniol i iechyd pobl ac i'r amgylchedd.<br><br>Dyma amcanion Strategaeth Cyngor Gwynedd sy'n ymdrin â thir wedi'i halogi:<br>• adnabod a chael gwared â pheryglon annerbynniol i iechyd pobl ac i'r amgylchedd;<br>• ceisio dychwelyd tir wedi'i niweidio i ddefnydd buddiol; a<br>• cheisio sicrhau bod baich y costau i unigolion, cwmniau a'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd yn gymesurol, yn hylaw ac yn gynaliadwy'n economaidd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd ystyried gofynion y Cynllun o ran rheoli tir a halogwyd. |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

### ATODIAD 2

**Bioamrywiaeth (Ynys Môn a Gwynedd)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws/Tuedd | Problemau / Cyfyngiadau/Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Bioamrywiaeth** | | | | |
| Gwarchodfeydd RSPB | Clogwyni South Stack<br>Mae rhywogaethau'n cynnwys Gwylogod, Gweilch,  ac adar y pâl.  Gellid gweld brain goesgoch prin yno hefyd.<br><br>Gwlyptiroedd y Fali (Ynys Môn)<br>Mae rhywogaethau'n cynnwys hwyaid copog, hwyaid bengoch, hwyaid llydanbig, hwyaid llwyd a gwyachod.<br><br>Dyffryn Mawddach  - Cors Arthog (Eryri)<br>Gwlyptir bach yw Cors Arthog ble gellir dod o hyd i amrywiaeth eang o blanhigion, blodau, goynod byw ac adar. Mae oddeutu 130 rhywogaeth o blanhigion i'w gweld yno.<br><br>Dyffryn Mawddach Coed Garth Gell (Eryri)<br>Gwarchodfa coetir a rhostir yw CoetirCoed Garth Gell | | | |

**DA60**

**Cymunedau (Gwynedd)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws/Tuedd | Problemau / Cyfyngiadau/Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cymunedau** | | | | |
| Disgwyliad Oes | Disgwyliad Oes | | | |

| | 1991-1993 | | 1995-1997 | | 1999-2001 | | 2003-2005 | | 2007-2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| **Gwynedd** | 73.6 | 79.7 | 75.1 | 80.4 | 76.0 | 80.9 | 76.9 | 81.0 | **77.3** | **82** |

**DA60 (i)**

# ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cymru** | 73.3 | 78.8 | 73.8 | 79.1 | 74.8 | 79.8 | 76.2 | 80.6 | **77.2** | **81.6** | |
| | **Ar y cyfan, ar gyfer dynion a merched, mae disgwyliad oes wedi cynyddu'n raddol ers 1991.** | | | | | | | | | | | |

**Cymunedau (Ynys Môn)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws/Tuedd | Problemau / Cyfyngiadau/Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cymunedau** | | | | |
| Disgwyliad Oes | (see below) | | | |

**Disgwyliad Oes**

| | 1991-1993 | | 1995-1997 | | 1999-2001 | | 2003-2005 | | 2007-2009 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw | Gwryw | Benyw |
| Anglesey | 73.5 | 79.7 | 74.8 | 79.7 | 75.8 | 80.3 | 76.9 | 81.3 | 76.7 | 81.9 |
| Cymru | 73.3 | 78.8 | 73.8 | 79.1 | 74.8 | 79.8 | 76.1 | 80.6 | 77.2 | 81.6 |

Ar y cyfan, ar gyfer dynion a merched, mae disgwyliad oes wedi cynyddu'n raddol ers 1991.

**Cymunedau (Gwynedd)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws/Tuedd | Problemau / Cyfyngiadau/Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd


**Cymunedau**

**Trosedd**

~~Y Gyfradd Drosedd i bob 1,000 o'r boblogaeth~~[i]

| ~~**Trosedd a Gofnodwyd 2006-07 (i bob 100,000 o'r boblogaeth)**~~[ii] | | |
|---|---|---|
| | ~~**Gwynedd**~~ | ~~**Cymru**~~ |
| ~~**Trosedd a gofnodwyd**~~ | ~~**73.5**~~ | ~~**87.5**~~ |
| ~~Trais yn erbyn person~~ | ~~21.9~~ | ~~18.2~~ |
| ~~Byrgleriaeth o dŷ~~ | ~~1.7~~ | ~~3.6~~ |
| ~~Dwyn cerbyd~~ | ~~1.3~~ | ~~3.8~~ |
| ~~Dwyn o gerbyd~~ | ~~3.5~~ | ~~8.6~~ |

~~Troseddau Hysbysadwy a Gofnodwyd gan yr Heddlu (Ebrill 07 – Mawrth 08)~~[iii]





<u>**Y Gyfradd Drosedd i bob 1,000 o'r boblogaeth**</u>

Mae angen hyrwyddo'r gostyngiad parhaus mewn cyfraddau trosedd drwy annog datblygiadau sy'n gwella diogelwch cymunedau.

**DA61**

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




Mae'r gyfradd drosedd yng Ngwynedd wedi gostwng yn raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda gostyngiad cyffredinol o 14% rhwng 2006/07 a 2009/10.

Yn 2009/10, Gwynedd oedd â'r gyfradd drosedd isaf namyn wyth yng Nghymru.

| Cyfraddau Trosedd (2010 -11) | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfradd y troseddau a gofnodwyd i bob 1000 o'r boblogaeth | | |
| Cyfradd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd i bob 1000 o'r boblogaeth | 58.2 | 67.8 |
| Trais yn erbyn person | 15.78 | 14.19 |
| Troseddau Rhywiol | 0.92 | 0.82 |
| Lladrad | 0.16 | 0.31 |
| Byrgleriaeth | 4.95 | 7.97 |
| Troseddau yn erbyn cerbydau | 3.56 | 7.12 |
| Troseddau lladrata eraill | 13.5 | 16.27 |
| Twyll a ffugiad | 1.23 | 1.62 |
| Difrod troseddol | 13.43 | 14 |
| Troseddau cyffuriau | 3.5 | 4.51 |
| Troseddau amrywiol | 1.16 | 1.06 |


# ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

**Cymunedau (Ynys Môn)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws/Tuedd | Problemau / Cyfyngiadau/Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Cymunedau** | | | | |
| **Trosedd** | | | | |

| ~~Trosedd a Gofnodwyd 2006-07 (i bob 100,000 o'r boblogaeth)~~ | | |
|---|---|---|
| | ~~Ynys Môn~~ | ~~Cymru~~ |
| ~~**Trosedd a gofnodwyd**~~ | ~~**67.7**~~ | ~~**87.5**~~ |
| ~~Trais yn erbyn person~~ | ~~20.4~~ | ~~18.2~~ |
| ~~Byrgleriaeth o dŷ~~ | ~~1.3~~ | ~~3.6~~ |
| ~~Dwyn cerbyd~~ | ~~1.3~~ | ~~3.8~~ |
| ~~Dwyn o gerbyd~~ | ~~2.1~~ | ~~8.6~~ |

~~**Y Gyfradd Drosedd i bob 1,000 o bobl**~~[1]




| <u>Cyfraddau Trosedd (2010 -11)</u> <u>Cyfradd y troseddau a gofnodwyd i bob 1000 o'r boblogaeth</u> | <u>Ynys Môn</u> | <u>Cymru</u> |
|---|---|---|
| <u>Cyfradd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd i bob</u> | <u>51.02</u> | <u>67.8</u> |


**DA61**

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| 1000 o'r boblogaeth | | |
| Trais yn erbyn person | 14.78 | 14.19 |
| Troseddau Rhywiol | 0.84 | 0.82 |
| Lladrad | 0.16 | 0.31 |
| Byrgleriaeth | 5.48 | 7.97 |
| Troseddau yn erbyn cerbydau | 2.02 | 7.12 |
| Troseddau lladrata eraill | 10.97 | 16.27 |
| Twyll a ffugiad | 1.06 | 1.62 |
| Difrod troseddol | 11.58 | 14 |
| Troseddau cyffuriau | 3.37 | 4.51 |
| Troseddau amrywiol | 0.74 | 1.06 |


Yn 2009/10, Ynys Môn oedd â'r gyfradd drosedd isaf namyn pedwar yng Nghymru.

**Y Gyfradd Drosedd i bob 1000 o'r boblogaeth**




~~**Troseddau Hysbysadwy a Gofnodwyd gan yr Heddlu (Ebrill 09 – Mawrth 10)**~~[1]

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd






**Communities (Gwynedd)**


| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Communities** | | | | |
| ~~**Economi**~~ | ~~Ceir yn y mapiau isod ddadansoddiad gofodol manwl o aelwydydd sy'n derbyn budd-dal yng Nghymru wledig. Dengys y mapiau hyn yn glir raniad rhwng y dwyrain a'r gorllewin o fewn y Gymru wledig, o ran derbyn y tri budd-dal gwladol, ac yn gyffredinol mae'r lefelau sy'n derbyn budd-dal yn uwch yn y gogledd-orllewin ac yn is yn yr ardaloedd dwyreiniol. Yn ogystal, yng Nghymru wledig, ymddengys fod lefelau budd-dal ar eu huchaf yn y wardiau hynny sy'n cynnwys y trefi mwy. Mae'r patrwm gofodol mwyaf trawiadol rhwng y gorllewin a'r dwyrain i'w weld yn yr ail ffigwr isod, sy'n dangos y gyfran o bobl sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith, gyda lefelau uchel o dderbyn budd-dal i'w gweld yn y rhan fwyaf o wardiau Ynys Môn, gogledd-orllewin Gwynedd a de-ddwyrain Ceredigion. Ymddengys o'r tri ffigwr hefyd fod gan Wynedd ac Ynys Môn broffiliau tebyg i'r Cymoedd. Fel ag yn achos lefelau budd-dal ac incwm, ceir rhaniad amlwg rhwng y gorllewin a'r dwyrain o ran cyfraddau diweithdra, gyda'r cofnodion uchaf i'w cael yng Ngwynedd, Ynys Môn a Sir Benfro, a'r cyfraddau isaf i'w cael yn Sir Fynwy a Phowys. Ceir clystyrau o wardiau â lefelau diweithdra uchel yn Ynys Môn a rhannau gogledd-orllewin Gwynedd.~~ | | | ~~Amrywiadau daearyddol sylweddol yn y gyfradd diweithdra, sy'n awgrymu bod angen cryfhau ac arallgyfeirio economïau lleol o fewn y sir.~~<br><br>~~Yr angen i hwyluso datblygu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a hwyluso gwella cyfleoedd lleol drwy gynyddu faint o gyflogaeth o ansawdd sydd ar gael ynghyd â chefnogi busnesau lleol.~~ |


**DA62**

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| | **~~Canran yr aelwydydd yn hawlio cymhorthdal incwm yn 2001, yn ôl ward~~**<br><br><br>**~~Canran yr aelwydydd yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm yn 2001, yn ôl ward~~**<br><br><br>**~~Canran yr aelwydydd yn hawlio credyd treth i deuluoedd yn 2001, yn ôl ward~~**<br>**~~Canran yr aelwydydd di-waith yn 2001, yn ôl w~~** | ~~Mae angen hybu buddsoddiad mewn ardaloedd gwledig drwy ddarparu isadeiledd o drafnidiaeth, cysylltiadau a thir sy'n gymorth i ddenu busnesau newydd er mwyn darparu gwaith â chyflog uwch.~~ |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




**~~Canran cyfraddau hawlwyr budd-dal, 2001 yn ôl awdurdod lleol gwledig~~**

| | **~~Lwfans Ceisio Gwaith~~** | **~~Cymhorth dal Incwm~~** | **~~Budd-dal Y Dreth Gyngor~~** | **~~Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio~~** |
|---|---|---|---|---|
| ~~Sir Gaerfyrddin~~ | ~~1.9~~ | ~~14.8~~ | ~~22.1~~ | ~~2.5~~ |
| ~~Ceredigion~~ | ~~1.6~~ | ~~9.6~~ | ~~15.7~~ | ~~2.2~~ |
| ~~Conwy~~ | ~~2.1~~ | ~~15.1~~ | ~~16.8~~ | ~~2.9~~ |
| ~~Sir Ddinbych~~ | ~~1.9~~ | ~~15.5~~ | ~~19.1~~ | ~~2.7~~ |
| ~~Gwynedd~~ | ~~2.8~~ | ~~12.6~~ | ~~12.4~~ | ~~2.9~~ |
| ~~Ynys Môn~~ | ~~3.4~~ | ~~13.7~~ | ~~35.0~~ | ~~2.8~~ |
| ~~Sir Fynwy~~ | ~~1.2~~ | ~~8.4~~ | ~~13.4~~ | ~~1.8~~ |
| ~~Sir Benfro~~ | ~~2.2~~ | ~~13.7~~ | ~~20.8~~ | ~~3.1~~ |
| ~~Powys~~ | ~~1.4~~ | ~~9.8~~ | ~~14.2~~ | ~~2.5~~ |
| **~~Gwledig~~** | **~~2.0~~** | **~~12.7~~** | **~~18.5~~** | **~~2.6~~** |
| **~~Trefol~~** | **~~2.3~~** | **~~14.8~~** | **~~23.0~~** | **~~2.4~~** |
| ~~* Ardaloedd awdurdodau lleol Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe~~ | | | | |

~~Yng Nghymru wledig, roedd gan y pedwar awdurdod lleol yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin y lefelau incwm cyfartalog isaf a'r gyfran uchaf o aelwydydd incwm isel yn 2003. Cofnodwyd fod gan Wynedd ychydig yn llai na 22% o aelwydydd ar incwm isel a'r canran ar gyfer Ynys Môn~~

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd


~~oedd 21%. Dengys y map isod sut y dosbarthir aelwydydd incwm isel yn ôl pob ward, gyda'r cyfrannau uchaf o aelwydydd incwm isel i'w gweld mewn rhannau eang o Wynedd ac Ynys Môn.~~

**~~% o aelwydydd gydag incwm blynyddol llai na £10,000~~**

| ~~Ardal~~ | ~~% aelwydydd~~ |
|---|---|
| ~~Gwynedd~~ | ~~27.2~~ |
| ~~Sir Ddinbych~~ | ~~27~~ |
| ~~Sir Benfro~~ | ~~26.9~~ |
| ~~Sir Gaerfyrddin~~ | ~~26.5~~ |
| ~~Conwy~~ | ~~26~~ |
| ~~Môn~~ | ~~24.7~~ |
| ~~Ceredigion~~ | ~~22.8~~ |
| ~~Powys~~ | ~~22.8~~ |
| ~~Sir y Fflint~~ | ~~20.3~~ |
| ~~Bro Morgannwg~~ | ~~17.5~~ |
| ~~Sir Fynwy~~ | ~~16.5~~ |
| ~~Cyfartaledd Cymru wledig~~ | ~~24.8~~ |

**~~Cyfran yr aelwydydd yn derbyn incwm blynyddol llai na £10,000 yng Nghymru yn 2003, yn ôl ward~~**

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




**~~Canran cyfraddau hawlwyr budd-dal, 2001 yn ôl awdurdod lleol gwledig~~**

| | ~~Lwfans Ceisio Gwaith~~ | ~~Cymhorth dal Incwm~~ | ~~Budd-dal y Dreth Gyngor~~ | ~~Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio~~ |
|---|---|---|---|---|
| ~~Sir Gaerfyrddin~~ | ~~1.9~~ | ~~14.8~~ | ~~22.1~~ | ~~2.5~~ |
| ~~Ceredigion~~ | ~~1.6~~ | ~~9.6~~ | ~~15.7~~ | ~~2.2~~ |
| ~~Conwy~~ | ~~2.1~~ | ~~15.1~~ | ~~16.8~~ | ~~2.9~~ |
| ~~Sir Ddinbych~~ | ~~1.9~~ | ~~15.5~~ | ~~19.1~~ | ~~2.7~~ |
| ~~Gwynedd~~ | ~~2.8~~ | ~~12.6~~ | ~~12.4~~ | ~~2.9~~ |
| ~~Ynys Môn~~ | ~~3.4~~ | ~~13.7~~ | ~~35.0~~ | ~~2.8~~ |
| ~~Sir Fynwy~~ | ~~1.2~~ | ~~8.4~~ | ~~13.4~~ | ~~1.8~~ |
| ~~Sir Benfro~~ | ~~2.2~~ | ~~13.7~~ | ~~20.8~~ | ~~3.1~~ |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ~~Powys~~ | ~~1.4~~ | ~~9.8~~ | ~~14.2~~ | ~~2.5~~ |
| **~~Gwledig~~** | **~~2.0~~** | **~~12.7~~** | **~~18.5~~** | **~~2.6~~** |
| **~~Trefol~~** | **~~2.3~~** | **~~14.8~~** | **~~23.0~~** | **~~2.4~~** |
| ~~* Ardaloedd awdurdodau lleol Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe~~ | | | | |

**Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD)**

~~Dengys WIMD 2008 fod yng Ngwynedd (sydd â 75 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs)) dair LSOA (4%) sydd o fewn y 10% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru.~~

~~Yn y 10% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru ceir:~~

- ~~Niferoedd o LSOAs sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Ngwynedd ar gyfer Tai (41%) a Mynediad (24%)~~
- ~~Amddifadedd o ran mynediad i wasanaethau sy'n uwch mewn pentrefi bychain ac ardaloedd gwledig.~~
- ~~Niferoedd o LSOAs yn is na'r cyfartaledd yng Ngwynedd ar gyfer:~~
  - ~~Amddifadedd Cyffredinol (4%)~~
  - ~~Incwm (3%)~~
  - ~~Cyflogaeth (1%)~~
  - ~~Addysg (4%)~~
  - ~~Yr Amgylchedd (l%)~~
  - ~~Y Gymuned (5%)~~

~~Roedd 44% o'r LSOAs yng Ngwynedd yn fwy difreintiedig na chyfartaledd Cymru~~ [iv]~~.~~

~~Dengys y map isod fod gan ardaloedd gwledig megis Pen Llŷn fynegai amddifadedd cyffredinol sydd ar y cyfan yn uwch na'r hyn ar gyfer y rhan fwyaf o Wynedd.~~

**~~Map yn Dangos Safle WIMD cyffredinol Wardiau Gwynedd~~**[v]


~~Mae angen gostwng amddifadedd yn benodol yn nhermau tai a mynediad i wasanaethau, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.~~

**Yr angen i hwyluso datblygu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol mewn ardaloedd gwledig a hwyluso gwella cyfleoedd lleol drwy gynyddu faint o gyflogaeth o ansawdd sydd ar gael ynghyd â chefnogi busnesau lleol.**

**Mae angen hybu buddsoddiad mewn ardaloedd gwledig drwy ddarparu isadeiledd o drafnidiaeth, cysylltiadau a thir sy'n gymorth i ddenu busnesau newydd er mwyn darparu gwaith â chyflog uwch.**

**DA63**


## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




**Dengys WIMD 2008 fod 3 LSOA (4%) yng Ngwynedd (sydd â 75 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) yn disgyn ymysg y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.**
**Y pedwar yw: Peblig, Caernarfon (safle 119 allan o 1896 yng Nghymru); Marchog 1 (safle 136 yng Nghymru) a Marchog 2 (safle 143 yng Nghymru).**

**Roedd gan Wynedd y canrannau a ganlyn o'i LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru.**

- **Incwm (4%)**
- **Cyflogaeth (0%): Gwynedd a Sir Fynwy yw'r awdurdodau lleol lleiaf difreintiedig yn y categori cyflogaeth, nid oes unrhyw LSOA yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dim ond 28% o LSOAs Gwynedd sydd yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, a 29.3% yw'r ffigwr yn Sir Fynwy.**
- **Iechyd (4%)**
- **Addysg (0%)**
- **Tai (41.3%): mae pob un o'r 75 LSOA namyn dau yn y 50% mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac felly Gwynedd yw'r awdurdod lleol mwyaf difreintiedig o ran y categori hwn.**
- **Yr Amgylchedd (1%)**
- **Mynediad i Wasanaethau (21%)**

| | | |
|---|---|---|
| | • **Diogelwch Cymunedol (8%)**<br>• **Amddifadedd o ran mynediad i wasanaethau sy'n uwch mewn pentrefi bychain ac ardaloedd gwledig.**<br><br>**Dengys y map isod fod gan ardaloedd gwledig megis Pen Llŷn fynegai amddifadedd cyffredinol sydd ar y cyfan yn uwch na'r hyn ar gyfer y rhan fwyaf o Wynedd.**<br><br><br> | |

**Communities (Anglesey)**


| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Communities** | | | | |
| **Welsh Index of Multiple Deprivation (WIMD)** | ~~Dengys WIMD 2008 fod gan Ynys Môn (sydd â 44 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs)) dair LSOA (4%) sydd o fewn y 10% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent fel a ganlyn:-~~<br><br>• ~~Morawelon sydd â sgôr o 48.2, ac yn safle 119 allan o 1896 yng Nghymru. Gosodwyd yr LSOA hwn yn y categori o'r 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.~~<br>• ~~Tudur sydd â sgôr o 42.9, ac yn safle 187 allan o 1896 yng Nghymru. Gosodwyd yr LSOA hwn yn y categori o'r 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.~~<br>• ~~Porthyfelin 1 sydd â sgôr o 41.6, yn safle 204 allan o 1896 yng Nghymru. Gosodwyd yr~~ | | | There is a need to reduce deprivation particularly in terms of housing and access, especially in the most deprived areas.<br><br>**Yr angen i hwyluso datblygu cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol** |

**DA63**

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| | ~~LSOA hwn yn y categori o'r 10-20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.~~<br><br>~~Yn Ynys Môn:~~<br>~~• Roedd gan yr LSOAs ddosbarthiad sgôr amddifadedd o dros 88% o'r holl amrediad yng Nghymru.~~<br>~~• Mae 5% o'i LSOAs yn disgyn o fewn y categori o'r 10% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru.~~<br>~~• Mae 55% o'i LSOAs yn disgyn o fewn y categori o'r 50% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru.~~<br>~~• Mae lefelau o amddifadedd sy'n is na'r cyfartaledd yn y tri chategori mwyaf difreintiedig (y mwyaf difreintiedig 10%, 20%, 30%), ond mae lefelau o amddifadedd yn uwch na'r cyfartaledd yn y categori 50% mwyaf difreintiedig).~~<br><br>~~Yn y 10% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru ceir:~~<br><br>~~• Niferoedd o LSOAs sy'n uwch na'r cyfartaledd yn Ynys Môn ar gyfer Tai (18%) a Mynediad (18%)~~<br>~~• Niferoedd o LSOAs sy'n is na'r cyfartaledd yn Ynys Môn ar gyfer:~~<br>~~• Amddifadedd Cyffredinol (5%)~~<br>~~• Incwm (7%)~~<br>~~• Cyflogaeth (2%)~~<br>~~• Iechyd (2%)~~<br>~~• Addysg (5%)~~<br>~~• Y Gymuned (7%)~~<br><br>~~Roedd 55% o'r LSOAs yn Ynys Môn yn fwy difreintiedig na chyfartaledd Cymru.~~ [vi]<br><br>**~~Map yn Dangos Safle WIMD cyffredinol Wardiau Ynys Môn~~**[vii] | **mewn ardaloedd gwledig a hwyluso gwella cyfleoedd lleol drwy gynyddu faint o gyflogaeth o ansawdd sydd ar gael ynghyd â chefnogi busnesau lleol.**<br><br>**Mae angen hybu buddsoddiad mewn ardaloedd gwledig drwy ddarparu isadeiledd o drafnidiaeth, cysylltiadau a thir sy'n gymorth i ddenu busnesau newydd er mwyn darparu gwaith â chyflog uwch.** |


## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




**Dengys WIMD 2011 fod yn Ynys Môn (sydd â 44 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) un LSOA sydd o fewn y 10% o'r LSOAs mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yr ardal yw Morawelon, sy'n safle 146 o 1896 yng Nghymru.**

**Roedd gan Ynys Môn y canrannau a ganlyn o'i LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru:**

- **Incwm (7%)**
- **Cyflogaeth (7%)**
- **Iechyd (0%)**

| | | |
|---|---|---|
| | • **Addysg (0%)**<br>• **Tai (18%)**<br>• **Yr Amgylchedd (2%)**<br>• **Mynediad i Wasanaethau (16%)**<br>• **Diogelwch Cymunedol (5%)**<br><br> | |


**Ffactorau Hinsawdd (Gwynedd ac Ynys Môn)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Ffactorau Hinsawdd** | | | | |
| **Rhagolygon Newid Hinsawdd**[viii] | **Trosolwg**<br><br>Rhagwelir y bydd cynnydd cyffredinol yn y tymereddau cyfartalog blynyddol yng Nghymru o 1.3°C erbyn y 2020au, 2.0°C erbyn y 2040au a 3.3°C erbyn y 2080au, yn erbyn y waelodlin 1961 i 1990. Rhagwelir y bydd cyffredinol yn uchafswm tymereddau dyddiol Cymru yn ystod yr haf yn 1.9℃ erbyn y 2020au, 2.8℃ erbyn y 2040au a 4.8℃ erbyn y 2080au. Rhagwelir y bydd cynnydd yn lleiafswm tymereddau dyddiol Cymru yn ystod y gaeaf o 1.5℃ erbyn y 2020au, 2.1℃ erbyn y 2040au a 3.5℃ erbyn y 2080au. Yn gyffredinol, gall y Sir hefyd ddisgwyl cael hafau sychach, a mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol / anarferol, megis glawiad uwch / gaeafau gwlypach. | | | Bydd angen ymgorffori mesurau addasu newid yn yr hinsawdd fel elfen annatod o ddatblygiadau tai ac isadeiledd newydd. |

DA64


**Tymheredd yng Nghymru**

**Dengys y mapiau isod y newidiadau a ragwelir yn y tymheredd dyddiol cyfartalog blynyddol yng Nghymru erbyn y 2020au, 2050au a'r 2080au dan senario o allyriadau canolig yn seiliedig ar ffigurau gwaelodlin 1961-1990. Erbyn y 2050au, disgwylir i'r tymheredd fod wedi cynyddu o rhwng 2 a 3°C ar draws y wlad.**





**Glawiad yr haf yng Nghymru:**

**Dengys y mapiau isod y newidiadau a ragwelir yng nglawiad yr haf yng Nghymru erbyn y 2020au, 2050au a'r 2080au dan senario o allyriadau canolig. Erbyn y 2050au disgwylir i lawiad yr haf fod wedi gostwng o – 10 i -20% ar draws y rhan fwyaf o'r wlad gyda mwy o newid yn rhai rhannau o'r de a'r gorllewin.**




**Glawiad y gaeaf yng Nghymru:**

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| | Dengys y mapiau isod y newidiadau a ragwelir yng nglawiad y gaeaf yng Nghymru erbyn y 2020au, 2050au a'r 2080au dan senario o allyriadau canolig. Erbyn y 2050au disgwylir i lawiad fod wedi cynyddu o 10% ar draws y wlad gyda mwy o newid amlwg yn y de ac ardaloedd yn y gogledd-orllewin.<br><br><br>Ffynhonnell: *UK Climate Impacts Programme – breakdown of impacts:* http://www.ukcip.org.uk/ | |

Treftadaeth Diwylliannol (Ynys Môn)

**DA64 (i)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Treftadaeth Diwylliannol** | | | | |
| Rhaglen Ynys Ynni Môn | Mae adroddiad 'Allbynnau Potensial a Mesurau Perfformiad' yn adnabod yr allbynnau canlynol o'r rhaglen o ran treftadaeth diwylliannol.<br>• Lleihau allfudo ymysg pobl ifanc – gyda % o bobl rhwng 16-24 oed yn sefydlogi ar 10%.<br>• Dylai'r Rhaglen ddal gafael ar ddiwylliant lewyrchus gyda chyfran siaradwyr Cymraeg yn aros ar ei lefel bresennol, gyda rhwng 60-65% o'r boblogaeth (3 mlwydd oed neu fwy) yn gallu siarad Cymraeg. | | | |

Economi (Ynys Môn)

# ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd



DA64 (ii)

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Economi** | | | | |
| Rhaglen Ynys Ynni Môn | Bwriad Rhaglen Ynys Ynni Môn yw denu swyddi newydd sy'n ymwneud ag ynni o ansawdd uchel i Ynys Môn dros y ddau degawd nesaf. Gosodiad canol y Rhaglen yw datblygiad niwclear potensial yn Wylfa. Fodd bynnag, gobeithir denu cwmniau a fydd yn datblygu technolegau ynni adnewyddol newydd gan gynnwys gwynt (artraeth ac alltraeth), llanw, biomas yn ogystal â niwclear.<br><br>Prif elfennau'r Fframwaith Ynys Ynni yw:<br><br>• Tymor byr: Safleoedd biomas graddfa mawr a bach a chefnogi cnydau ynni, mesurau effeithlonrwydd ynni, a micro-gynhyrchiad. Trafodaethau cychwynnol i uchafu cyfleoedd sy'n deillio o Barth 3 Gwynt ar y Môr yr Iwerydd.<br>• Tymor hir /canolig: datblygiad newydd yn Wylfa i fyny at 3.2GW, gweithrediad prosiect llanw yn Skerries, canolfan gwynt ar y môr ym Mhorthladd Caergybi ac ailblannu ffermydd gwynt ar y tir presennol.<br>• Tymor hir: enhangiad pŵer llanw a datblygiad yn yr economi hydrogen.<br><br>Mae adroddiad 'Allbynnau Potensial a Mesurau Perfformiad' yn adnabod yr allbynnau canlynol o'r rhaglen.<br><br>Economi<br><br>• Cynnydd o 10-13% yng Ngwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) dros y sail bresennol /tuedd Cymru hyd at 2025.<br>• Creu i fyny at 2,000 o swyddi ychwanegol hyd at 2025, a hefyd 6,000 o swyddi adeiladu.<br>• Gostyngiad yng nghyfraddau diweithdra a ddylai ddechrau cydgyfeirio cyfradd ar gyfer Cymru.<br>• Gwella sgiliau'r gweithlu gan arwain at gynnydd o 3% yng nghyfran y gweithlu (dros lefelau 2008) ar gyfer Safon Dosbarthiad Galwedigaethol 1-3.<br>• Cyfran hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn goswtwng i lefel Cymru<br>• Disgwylir i gyfraddau actifedd godi i o leiaf 1% yn fwy n Chymru.<br>• Disgwylir i ddiweithdra hir dymor ostwng i gyfartaledd Cymru ar y cyfan. | | | |

**Economi (Gwynedd ac Ynys Môn)**

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

DA65

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Economi** | | | | |
| **Gwerth Ychwanegol Crynswth y Pen (GVA)** | | ~~**Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen 1998-2006**~~<br><br>**Gwerth Ychwanegol Crynswth y pen 1995-2008**<br> | | Angen hwyluso'r gwaith o barhau i hyrwyddo buddsoddiad yn yr economi leol er mwyn cefnogi tyfiant busnesau lleol, yn enwedig ymysg y diwydiannau gweithgynhyrchu a masnach |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

DA66

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws/Tuedd | Problemau / Cyfyngiadau/Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Economi** | | | | |
| Addysg a Sgiliau | Addysg a dysgu gydol oes yng Ngwynedd, Môn a Chymru (2009-2010)[1] (see table below) | | | |

**Addysg a dysgu gydol oes yng Ngwynedd, Môn a Chymru (2009-2010)[1]**

| | Môn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|
| Cymhareb disgybl athro (09-10): ysgolion cynradd y mae'r AALl yn eu cynnal | 19.5 | 19 | 20.1 |
| Cymhareb disgybl athro (09-10): ysgolion uwchradd y mae'r AALl yn eu cynnal | 16.2 | 15.6 | 16.5 |
| % sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig – cam allweddol 1 (L2+) (09-10 | 83.2 | 84.9 | 81.6 |
| % sy'n ennill 5+ TGAU A*-C (09-10) | 57.9 | 63.8 | 57.7 |
| % y boblogaeth oedolion sydd heb gymwysterau, (Ion 2010-Rhag 2010) (Ffynhonnell: Nomis 2010) | 13.3 | 13.4 | 13.3 |

**Economi (Ynys Môn)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws/Tuedd | Problemau / Cyfyngiadau/Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Addysg a Sgiliau** | | | | |
| | Yn ystod eu blwyddyn olaf o addysg orfodol, enillodd cyfran fymryn yn uwch o ddisgyblion Môn bum gradd TGAU A*-C nag a wnaeth disgyblion yng Nghymru gyfan - roedd y ffigwr yn 57.9% ym Môn o gymharu â 57.7% yng Nghymru (2009-10). Yn 2006/07, roedd cyfran y disgyblion a adawodd addysg lawn-amser heb gymwysterau yn is ym Môn o gymharu â Chymru. | | | |

**Addysg a dysgu gydol oes yng Ngwynedd, Môn a Chymru (2009-2010)[1]**

| | Môn | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|
| Cymhareb disgybl athro (09-10): ysgolion cynradd y mae'r AALl yn eu cynnal | 19.5 | 19 | 20.1 |
| Cymhareb disgybl athro (09-10): ysgolion uwchradd y mae'r AALl yn eu cynnal | 16.2 | 15.6 | 16.5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **% sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig – cam allweddol 1 (L2+) (09-10** | 83.2 | 84.9 | 81.6 |
| **% sy'n ennill 5+ TGAU A*-C (09-10)** | 57.9 | 63.8 | 57.7 |
| **% y boblogaeth oedolion sydd heb gymwysterau, (Ion 2010-Rhag 2010) (Ffynhonnell: Nomis 2010)** | **13.3** | **13.4** | **13.3** |

**ECONOMI (Gwynedd)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Economi** | | | | |
| **Tourism** | | (see tables below) | | **Er gwaethaf cynnydd diweddar yn rhan fwyaf o sectorau'r diwydiant twristiaeth,** mae yna angen parhaus i wella amrywiaeth ac ansawdd cyfleusterau i dwristiaid, llety i dwristiaid ac atyniadau. **Mae hyn yn arbennig o wir o ran llety a wasanaethir.** |

| (£ miliwn) | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | % y newid (2006-2009) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety | 97.6 | 90.1 | **90.5** | **95.3** | **-2.4** |
| Bwyd a Diod | 116.2 | 113.1 | **128.2** | **126.7** | **9.0** |
| Hamdden | 42.8 | 41.0 | **50.3** | **49.1** | **14.7** |
| Siopa | 158.8 | 155.1 | **176.1** | **172.2** | **8.4** |
| Trafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, | 56.5 | 54.8 | **63.9** | **62.7** | **10.9** |
| Gwariant Anuniongyrchol | 186.2 | 179.6 | **205.0** | **201.6** | **8.3** |
| TAW | 82.6 | 79.4 | **89.1** | **88.6** | **7.2** |
| Cyfanswm | 740.6 | 713.0 | **803.2** | **796.3** | **7.5** |

| Refeniw yn ôl Categori Ymwelwyr (£ miliwn) | 2006 | 2007 | 2008 | 2009 | % y newid (2006-2009) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â Gwasanaeth | 122.5 | 115.1 | **86.8** | **105.2** | **-14** |

**DA67**

# ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llety heb Wasanaeth** | 466.1 | 447.9 | **566.4** | **539.7** | **15.7** |
| **Aros â Ffrindiau neu Berthnasau** | 10.8 | 10.9 | **11.3** | **11.3** | **4.6** |
| **Ymwelwyr am y dydd** | 141.2 | 139.1 | **138.7** | **140.0** | **-0.8** |
| **Cyfanswm** | 740.6 | 713.0 | **803.2** | **796.3** | **7.5** |

| **Dyddiau Twristiaid (£ miliwn)** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **% y newid (2006-2009)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llety â Gwasanaeth** | 1,493 | 1,449 | **1027** | **1241** | **-16.9** |
| **Llety heb Wasanaeth** | 13,971 | 13,557 | **15888** | **15315** | **9.6** |
| **Aros â Ffrindiau neu Berthnasau** | 434 | 435 | **435** | **435** | **0.2** |
| **Ymwelwyr am y dydd** | 4,065 | 4,004 | **3831** | **3868** | **-4.8** |
| **Cyfanswm** | 19,963 | 19,445 | **21181** | **20858** | **4.4** |

| **Nifer y Twristiaid Miloedd** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **% newid(2006-2009)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llety â Gwasanaeth** | 841 | 815 | **569** | **694** | **-17.5** |
| **Llety heb Wasanaeth** | 2,116 | 2,057 | **2413** | **2315** | **9.4** |
| **Aros â Ffrindiau neu Berthnasau** | 182 | 183 | **183** | **183** | **0.5** |
| **Ymwelwyr am y dydd** | 4,065 | 4,004 | **3831** | **3868** | **-4.8** |
| **Cyfanswm** | 7,204 | 7,059 | **6996** | **7060** | **-1.9** |

| **Sectorau sy'n cyflogi (Cyfystyr â Gwaith Llawn Amser)** | **2006** | **2007** | **2008** | **2009** | **% y newid (2006-2009)** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llety** | 3694 | 3700 | **3722** | **3669** | **-0.7** |
| **Bwyd a Diod** | 2821 | 2746 | **2987** | **2952** | **4.6** |
| **Hamdden** | 1260 | 1208 | **1423** | **1390** | **10.3** |
| **Siopa** | 3515 | 3432 | **3740** | **3657** | **4** |
| **Trafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru,** | 613 | 594 | **665** | **653** | **6.5** |
| **Cyfanswm Cyflogaeth Uniongyrchol** | 11903 | 11680 | **12538** | **12321** | **3.5** |

# ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflogaeth Anuniongyrchol** | 2984 | 2877 | **3152** | **3099** | **3.9** |
| **Cyfanswm** | 14,886 | 14,556 | **15690** | **15420** | **3.6** |

**Mae'r rhan fwyaf o sectorau yn y diwydiant twristiaeth wedi gweld gwelliant cyffredinol rhwng 2006 a 2009. Fodd bynnag, mae llety â gwasanaeth wedi gweld gostyngiad amlwg o ran refeniw, defnydd, gwariant a chyflogaeth.**

Roedd cyfanswm gwariant twristiaid yng Ngwynedd yn ~~**2007**~~ **2009** yn ~~£713~~ **£796** miliwn, tra bod y nifer o dwristiaid wnaeth ymweld ag ardal yr awdurdod lleol yn **7,060,000** ~~815,000~~.


Yn ~~2007~~ **2009**, roedd ~~14,556~~ **15,420** o bobl wedi'u cyflogi yn y diwydiant twristiaeth. Y ~~sector llety~~ **sectorau** oedd yn cyflogi'r rhan fwyaf o bobl oedd **y sector llety a'r sector siopa** oedd yn cyflogi **23.7**% ~~25.4%~~ o gyfanswm y diwydiant ~~wedyn y sector siopa (23.6%) ac wedi hynny'r sector bwyd a diod (18.9%).~~

**Gwariant twristiaeth a nifer y twristiaid yng Ngwynedd (£miliwn)**




**Cyfanswm y bobl sydd wedi'u cyflogi yn y diwydiant twristiaeth yng Ngwynedd a Môn**[ix]

# ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




ECONOMI (Anglesey)

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Economi** | | | | |
| Twrisitiaeth | Dadansoddiad Gwariant fesul Sector | | | **Er gwaethaf cynnydd diweddar yn y rhan fwyaf o sectorau'r diwydiant twristiaeth, mae** yna angen parhaus i wella amrywiaeth ac ansawdd cyfleusterau i dwristiaid, llety i dwristiaid ac atyniadau. **Mae hyn yn arbennig o wir o ran llety a** |

| (£ miliwn) | 2007 | 2008 | 2009 | % y newid (2007-2009) |
|---|---|---|---|---|
| Llety | 32.5 | 34.6 | 34.4 | 5.8 |
| Bwyd a Diod | 29.4 | 31.8 | 31.7 | 7.8 |
| Hamdden | 10.7 | 12.5 | 12.3 | 15 |
| Siopa | 38.7 | 41.3 | 41.7 | 7.8 |
| Trafnidiaeth, | 13.9 | 15.5 | 15.3 | 10 |
| Gwariant Anuniongyrchol | 51.2 | 55.1 | 55.24 | 7.8 |
| TAW | 21.9 | 23.7 | 23.71 | 8.2 |
| Cyfanswm | 198.4 | 214.6 | 214.4 | 8 |

DA67

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

wasanaethir.

**Refeniw yn ôl Categori Ymwelwyr**

| (£ miliwn) | 2007 | 2008 | 2009 | % y newid (2007-2009) |
|---|---|---|---|---|
| Llety â Gwasanaeth | 31.7 | 32.4 | 31.68 | 0 |
| Llety heb Wasanaeth | 143.0 | 158.7 | 157.4 | 10 |
| Aros â Ffrindiau neu Berthnasau | 6.6 | 6.6 | 6.6 | 0 |
| Ymwelwyr am y dydd | 17.1 | 16.8 | 18.8 | 9.9 |
| Cyfanswm | 198.4 | 214.6 | 214.4 | 8.1 |

**Dyddiau Twristiaid**

| (£ miliwn) | 2007 | 2008 | 2009 | % y newid (2007-2009) |
|---|---|---|---|---|
| Llety â Gwasanaeth | 352 | 351 | 339 | -3.7 |
| Llety heb Wasanaeth | 3,770 | 4,137 | 4106 | 8.9 |
| Aros â Ffrindiau neu Berthnasau | 253 | 254 | 253.7 | 0.2 |
| Ymwelwyr am y dydd | 473 | 466 | 519 | 9.7 |
| Cyfanswm | 4,848 | 5,207 | 5219 | 7.7 |

**Nifer y Twristiaid**

| Miloedd | 2007 | 2008 | 2009 | % y newid (2007-2009) |
|---|---|---|---|---|
| Llety â Gwasanaeth | 203 | 201 | 194.5 | -4.1 |
| Llety heb Wasanaeth | 587 | 643 | 634.8 | 8.1 |
| Aros â Ffrindiau neu Berthnasau | 106 | 107 | 106.6 | 0.6 |
| Ymwelwyr am y dydd | 473 | 466 | 519.2 | 9.8 |
| Cyfanswm | 1,369 | 1,417 | 1455 | 6.2 |

**Sectorau sy'n cyflogi**

| (Cyfystyr â Gwaith Llawn Amser) | 2007 | 2008 | 2009 | % y newid (2007-2009) |
|---|---|---|---|---|
| Llety | 1,046 | 1,046 | 1041 | -0.5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Bwyd a Diod** | **685** | **742** | **740** | **8** |
| **Hamdden** | **304** | **354** | **347** | **14.1** |
| **Siopa** | **822** | **879** | **886** | **7.8** |
| **Trafnidiaeth,** | **145** | **161** | **160** | **10.3** |
| **Cyfanswm Cyflogaeth Uniongyrchol** | **3,003** | **3,183** | **3172** | **5.6** |
| **Cyflogaeth Anuniongyrchol** | **789** | **849** | **849** | **7.6** |
| **Cyfanswm** | **3,791** | **4,031** | **4022** | **6.1** |

**Mae'r rhan fwyaf o sectorau yn y diwydiant twristiaeth wedi gweld gwelliant cyffredinol rhwng 2007 a 2009. Fodd bynnag, mae llety â gwasanaeth wedi gweld gostyngiad amlwg o ran refeniw, defnydd, gwariant a chyflogaeth.**

**Bu i gyfanswm yr ymwelwyr i Ynys Môn gynyddu o 6% rhwng 2007 a 2009. Mae cyfanswm y bobl sydd wedi'u cyflogi yn y diwydiant twristiaeth ym Môn wedi aros yn weddol gyson ers 2001, ac mae'r nifer sydd wedi'u cyflogi yn y diwydiant twristiaeth wedi aros yn sefydlog yn ystod yr un cyfnod.**


Gwelwyd twf bychan a chyson ar draws y rhan fwyaf o rannau'r sector twristiaeth rhwng 2007 a ~~2008~~ **2009**. Fodd bynnag, nid yw'r graddau twf yn ddigon uchel i awgrymu bod y diwydiant yn chwyddo ar radd hynod o gyflym, sy'n awgrymu bod angen buddsoddi'n sylweddol mewn llety ansawdd uchel, atyniadau i dwristiaid a gweithgareddau hamdden er mwyn denu mwy o gwsmeriaid i'r ynys.

Roedd cyfanswm gwariant twristiaid ym Môn yn **2009** ~~2008~~ yn £214 miliwn, tra bod nifer y twristiaid wnaeth ymweld ag ardal yr awdurdod lleol yn ~~1,417,000~~ **1,455,000.**


Yn ~~2008~~ **2009**, roedd ~~4,031~~ **4,022** o bobl wedi'u cyflogi yn y diwydiant twristiaeth.  Total direct employment employed the most (78.9%)[x].

~~**Cyfanswm ymwelwyr (miliynau)**[17]~~

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd





~~**Cyfanswm y bobl sydd wedi'u cyflogi yn y diwydiant twristiaeth yng Ngwynedd a Môn**~~[18]




*<u>Llety â Gwasanaeth</u>*

Yn gyffredinol, gwelir bod y patrymau data'n dilyn tueddiadau'r boblogaeth, a bod y lefelau stoc gwlâu uchaf i'w gweld yn ardaloedd mwyaf poblog yr ynys. Yn gyffredinol, nid yw'r cymunedau mwyaf gwledig yn cynnig lefelau uchel o leoedd stoc gwlâu.

**Ffigurau Stoc Gwlâu Llety â Gwasanaeth fesul Cymuned**[xi]





A surprising trait is the fact that, with the exceptions of Beaumaris, Menai Bridge and Llanfairpwll, the level of serviced accommodation on the Riviera Coast is not particularly high.

*Self Catering*

A total of 6,645 bed spaces are in self-catering properties (cottages, bungalows, apartments, etc), an increase of 251% since 2000 when the figure stood at 1,893. This substantial increase in bed stock suggest a significant development within the self-catering market.

There are 1,187 self-catering properties on Anglesey containing a total of 3,769 rooms. These rooms fall under three categories: single, double and twin.

**Self-catering Bedstock Figures by Community**[xii]




*Caravan and Camping*

There appears to be two 'hub' areas for caravan and camping bedstock figures on the island. The first is a combination of the Historic Coast (Cemaes, Amlwch) and the Family Coast (Benllech, Moelfre), the second being a combination of the Mountain, Nature and Harbour Coast with one community each from the Active Coast, Rural Coast

| | | |
|---|---|---|
| | and the Open Countryside. Again the main areas of concentration for caravans and camping are located on the coast | |

**TAI (Gwynedd & Môn)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws/Tuedd | Problemau / Cyfyngiadau/Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Tai** | | | | |
| Prisiau Tai | (see below) | | | |

DA68

**Prisiau cyfartalog unedau preswyl sydd wedi eu gwerthu**
**(Mae'r ffigyrau hyn yn nodi'r pris cyfartalog ar gyfer y cyfnod o 6 mis cyn y dyddiad a nodir ar sail prisiad a gwerthiannau).**


| Cyfnod | Gwynedd | | Ynys Môn | | Cymru | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pris (£) | Nifer (y sampl) | Pris (£) | Nifer (y sampl) | Pris (£) | Nifer (y sampl) |
| Tachwedd 2002 | 89,693 | 1,965 | 94,104 | 1,177 | 95,246 | 58,401 |
| Mai 2003 | 105,908 | 1,974 | 102,087 | 1,035 | 103,338 | 52,362 |
| Tachwedd 2003 | 118,418 | 2,184 | 122,571 | 1,358 | 116,473 | 71,352 |
| Mai 2004 | 125,259 | 1,341 | 130,556 | 817 | 127,475 | 54,773 |
| Tachwedd 2004 | 143,052 | 1,388 | 153,743 | 919 | 142,594 | 51,408 |
| Mai 2005 | 152,292 | 1,196 | 151,253 | 720 | 144,402 | 40,733 |
| Tachwedd 2005 | 158,697 | 1,517 | 165,480 | 937 | 150,966 | 49,829 |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mai 2006 | 163,136 | 1,339 | 163,223 | 817 | 153,869 | 46,897 |
| Tachwedd 2006 | 170,186 | 1,750 | 177,783 | 1,104 | 162,069 | 59,374 |
| Mai 2007 | 171,400 | 1,582 | 179,748 | 1,011 | 164,161 | 49,586 |
| Tachwedd 2007 | 184,460 | 1,607 | 183,750 | 1,137 | 168,129 | 52,659 |
| Mai 2008 | 176,869 | 1,182 | 183,514 | 736 | 167,527 | 38,467 |
| Tachwedd 2008 | 177,243 | 1,090 | 188,816 | 672 | 168,688 | 31,343 |
| Mai 2009 | 167,985 | 871 | 182,402 | 526 | 160,058 | 24,452 |
| Tachwedd 2009 | 167,780 | 1,276 | 175,019 | 723 | 165,127 | 32,810 |
| Mai 2010 | 172,789 | 1,196 | 180,088 | 599 | 164,399 | 30,174 |
| Tachwedd 2010 | 171,490 | 1,369 | 189,682 | 740 | 166,833 | 33,743 |
| Mai 2011 | 169,780 | 915 | 170,471 | 492 | 161,699 | 21,656 |

Ffynhonnell: Hometrack


## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




- **Prisiau tai cyfartalog yng Ngwynedd wedi codi ym mhob un o'r cyfnodau a nodir hyd at Tachwedd 2007 (cynnydd o 105.7% ym mhrisiau cyfartalog tai yng Ngwynedd rhwng Tachwedd 2002 a Tachwedd 2007). Wedi hynny gwelwyd lleihad amlwg yn y prisiau cyfartalog (gyda'r prisiau yn anghyson wedi'r cyfnod hwn). Mae'n debygol bod y tueddiad hwn yn adlewyrchu'r problemau economaidd a ddaeth i'r amlwg ym Mhrydain yn 2008.**
- **Mae'r patrwn ychydig yn wahanol yn Ynys Môn gan nad oes gostyngiad amlwg mewn prisiau tai cyfartalog (ar wahân i'r cyfnod rhwng Tachwedd 2010 a Mai 2011). Cafwyd cynnydd o 98.5% ym mhrisiau cyfartalog tai yn Ynys Môn rhwng Tachwedd 2002 a Tachwedd 2010 (y cyfnod ble gwelir y prisiau tai cyfartalog uchaf) a 95.3% rhwng Tachwedd 2002 a Tachwedd 2007 (er mwyn cymharu a'r ffigwr blaenorol ar gyfer Gwynedd).**
- **Gweler hefyd bod gostyngiad amlwg yn nifer y sampl h.y. nifer y gwerthiannau, yng Ngwynedd a Ynys Môn o Fai 2008 ymlaen. Mae hyn yn cyd-fynd â'r tueddiad ar draws Cymru gyfan.**

~~**Prisiau Cyfartalog Tai**~~

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




**Prisiau tai cyfartalog yn ôl math o dŷ, Gogledd orllewin Cymru (Ffynhonnell: Cofrestrfa Tir ei Mawrhydi)**

| Math o dŷ | Blwyddyn | Ynys Môn | Conwy | Gwynedd |
|---|---|---|---|---|
| Tŷ ar wahân | 2008 | 210,000 | 200,000 | 215,000 |
| | 2006 | 191,000 | 195,000 | 205,000 |
| | 2005 | 190,000 | 185,000 | 200,750 |
| | 2004 | 180,000 | 182,000 | 175,000 |
| Tŷ par | 2008 | 140,000 | 138,500 | 147,000 |
| | 2006 | 126,975 | 137,975 | 148,000 |
| | 2005 | 128,000 | 135,000 | 130,000 |
| | 2004 | 97,750 | 122,250 | 118,250 |
| Tŷ teras | 2008 | 102,000 | 115,000 | 115,000 |
| | 2006 | 93,000 | 118,000 | 110,000 |
| | 2005 | 87,500 | 113,500 | 105,000 |
| | 2004 | 76,000 | 93,000 | 86,000 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Fflatiau a fflatiau deulawr | 2008 | 162,000 | 115,000 | 121,250 |
| | 2006 | 129,500 | 119,000 | 110,000 |
| | 2005 | 180,000 | 97,000 | 94,000 |
| | 2004 | 138,250 | 83,250 | 111,000 |
| Pob math o dŷ | 2008 | 150,250 | 145,000 | 140,000 |
| | 2006 | 145,250 | 145,000 | 140,000 |
| | 2005 | 142,500 | 140,000 | 134,000 |
| | 2004 | 120,000 | 126,000 | 113,500 |

~~Cododd pris cyfartalog pob tŷ a werthwyd yng Ngwynedd rhwng 1997 a 2006 o 213% - yn uwch na 'r cynnydd o 173% a gofnodwyd ar gyfer tai yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, ers 2006, bu gostyngiad graddol yn y prisiau. Roedd pris cyfartalog tŷ yng Ngwynedd yn 2006 yn £159,452, sef £7,275 yn uwch na'r ffigwr cymharol ar gyfer Cymru gyfan. Yn 2003, gwerthwyd 955 o dai teras yng Ngwynedd, y nifer mwyaf o werthiannau tai teras yn y sir ac ym mhob awdurdod lleol rhwng 2003-2006. Yn 2003, roedd y cyfrannau mwyaf o dai teras a werthwyd yng Ngwynedd a Sir Ddinbych o fewn yr ystod pris rhwng £50,000 a £60,000. Gwerthwyd 160 (16%) yng Ngwynedd a dros 100 (20%)[10] yn Sir Ddinbych.~~

**~~Prisiau Tai yn Ôl Deiliadaeth~~[11]**

| ~~Math y Tŷ~~ | ~~Dyddiad~~ | ~~Gwynedd~~ | ~~Cymru~~ |
|---|---|---|---|
| ~~Ar Wahân~~ | ~~2006~~ | ~~£227,427~~ | ~~£226,460~~ |
| | ~~2005~~ | ~~£215,080~~ | ~~£212,411~~ |
| | ~~2003~~ | ~~£148,833~~ | ~~£158,186~~ |
| | ~~1997~~ | ~~£70,049~~ | ~~£81,815~~ |
| ~~Lled-wahanedig~~ | ~~2006~~ | ~~£151,222~~ | ~~£140,930~~ |
| | ~~2005~~ | ~~£134,771~~ | ~~£130,296~~ |
| | ~~2003~~ | ~~£93,233~~ | ~~£90,576~~ |
| | ~~1997~~ | ~~£47,872~~ | ~~£50,629~~ |
| ~~Tai Teras~~ | ~~2006~~ | ~~£120,032~~ | ~~£111,879~~ |
| | ~~2005~~ | ~~£112,112~~ | ~~£103,481~~ |
| | ~~2003~~ | ~~£69,891~~ | ~~£70,774~~ |
| | ~~1997~~ | ~~£36,871~~ | ~~£39,451~~ |
| ~~Fflatiau a *maisonettes*~~ | ~~2006~~ | ~~£111,743~~ | ~~£130,146~~ |
| | ~~2005~~ | ~~£114,473~~ | ~~£129,335~~ |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ~~2003~~<br>~~1997~~ | ~~£64,323~~<br>~~£32,377~~ | ~~£95,784~~<br>~~£43,899~~ |
| ~~**Pob Math**~~ | ~~2006~~<br>~~2005~~<br>~~2003~~<br>~~1997~~ | ~~£159,452~~<br>~~£148,845~~<br>~~£100,335~~<br>~~£50,954~~ | ~~£152,177~~<br>~~£141,560~~<br>~~£102,932~~<br>~~£55,688~~ |

~~**Nifer y Tai a Werthwyd**~~[12]

| ~~**Dyddiad**~~ | ~~**Nifer a werthwyd – pob math o dŷ**~~ |
|---|---|
| ~~2006~~ | ~~1931~~ |
| ~~2005~~ | ~~1673~~ |
| ~~2004~~ | ~~1892~~ |
| ~~2003~~ | ~~2201~~ |
| ~~2002~~ | ~~2596~~ |
| ~~2001~~ | ~~2308~~ |
| ~~2000~~ | ~~2343~~ |
| ~~1999~~ | ~~2040~~ |
| ~~1998~~ | ~~1927~~ |
| ~~1997~~ | ~~1875~~ |

~~Dengys y tabl uchod bod gwerthiant tai ar ei anterth yn 2002 tra gwerthwyd y nifer isaf o dai yn 2005.~~


**TIRWEDD (Ynys Môn)**

**DA68 (i)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Problemau/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Tirwedd** | | | | |
| **Rhaglen Ynys Ynni Môn** | **Mae potensial cryf i rai o'r datblygiadau sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Môn a Gwynedd gael ardrawiad andwyol ar dirwedd a morwedd Ynys Môn. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys, ffermydd gwynt, pwerdy niwclear a llinellau trosglwyddiad.** | | | **Fe fydd yn bwysig fod mesurau lliniaru yn cael eu hadnabod er mwyn osgoi ardrawiadau negyddol ar y** |


| | | |
|---|---|---|
| | | <u>tirwedd a'r morwedd.</u> |

**TIRWEDD (Gwynedd and Anglesey)**


<table>
<tr><th>Dangosydd</th><th>Data Cyfredol</th><th>Cymaryddion a Thargedau</th><th>Statws/Tuedd</th><th>Problemau/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd</th></tr>
<tr><td colspan="5">Tirwedd</td></tr>
<tr><td>Y Môr</td><td colspan="3"><u>Dengys y map isod leoliadau'r tir sydd â golygfa o'r môr ble mae Elfen Weledol a Synhwyrol LANDMAP hefyd yn rhoi gwerth i'r ardaloedd hynny yn ei ddau ddosbarth uchaf, sef 'uchel' (coch) ac 'arbennig' (oren).</u><br><br><u>Tir sydd â golygfa o'r môr y mae LANDMAP yn ei ddyfarnu'n 'uchel' neu'n 'arbennig'</u><br><br>
<br><br><u>Sensitifrwydd y dirwedd forol i ddatblygiadau ffermydd gwynt ar y môr</u></td><td></td></tr>
</table>

DA69

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd





**Sensitifrwydd y dirwedd forol i ddatblygiadau ffermydd tonnau**




**Sensitifrwydd y dirwedd forol i ddatblygiadau ffrwd llanw**


## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd





| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a thargedau | Statws / Tuedd | Problemau/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Tirwedd** | | | | |
| Heddwch | <u>**Mae'r term 'heddwch' yn hynod o oddrychol ac mae dod o hyd i ddiffiniad yn dasg heriol.  I rai, gall olygu bod allan yn gwrando ar synau natur, i eraill gall olygu eistedd yn y tŷ yn gwrando ar gerddoriaeth.**</u><br><br><u>**Ceir isod fap heddwch a gynhyrchwyd yn 1996, mae CCGC ar fin dechrau prosiect i ddiweddaru'r map. Mae'r patrwm o lai o heddwch ar hyd arfordiroedd y gogledd a'r de sy'n cyd-fynd â ffyrdd prysur a phrif aneddiadau i'w weld yn glir.**</u> | | | |

DA70

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| |  <br>**Cyfeirnod: Asesiad o Dirwedd Forol Cymru: http://www.ccw.gov.uk/landscape--wildlife/protecting-our-landscape/seascapes/seascape-assessment-of-wales.aspx [Accessed 14/9/11]**<br><br>**Llygredd Golau yn y Deyrnas Unedig** | |


| | | |
|---|---|---|
| | <br>**<u>Dengys y mapiau uchod yn glir for gan y rhan fwyaf o Gymru ardaloedd eang ble mae awyr ddu i'w gweld yn bennaf.</u>** | |

**TIRWEDD (GWYNEDD)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Problemau/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Tirwedd** | | | | |
| **<u>Parc Cenedlaethol Eryri</u>** | **<u>Wedi'i leoli ar arfordir gorllewinol Prydain ac yn 823 milltir sgwâr o dirweddau amrywiol, mae Parc Cenedlaethol Eryri yn ardal y mae pobl yn byw ac yn gweithio ynddi ac yn gartref i fwy na 26,000 o bobl. Eryri yw'r Parc Cenedlaethol mwyaf yng Nghymru, ac yn ogystal â hynny yn Eryri y ceir y mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr, a'r llyn naturiol mwyaf yng Nghymru, ynghyd â chyfoeth o bentrefi deniadol megis Betws-y-coed a Beddgelert. Mae Eryri yn ardal sy'n gyforiog o ddiwylliant a hanes lleol ble mae</u>** | | | |

DA71

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| | **mwy na hanner ei phoblogaeth yn siarad Cymraeg.**  | |

TIRWEDD (YNYS MON)

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Problemau/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Tirwedd** | | | | |
| **GeoMôn** | **Daeth GeoMôn neu Geoparc Ynys Môn yn aelod o Rwydwaith Geoparciau Ewropeaidd a'r *Global Network of National Geoparks* sy'n cael ei gefnogi gan UNESCO ym mis Mai 2009. Dyma'r ail Geoparc i gael ei ddynodi yng Nghymru a'r seithfed yn y Deyrnas Unedig.** | | | |

**DA71 (i)**

| | | |
|---|---|---|
| | **Yn wreiddiol Grŵp RIGS Gwynedd a Môn oedd yn gyfrifol am weinyddu geogadwraeth ar Fôn, ond gwnaed y penderfyniad i ymgeisio i gael bod yn aelod o Geoparc. Mae GeoMôn yn gwmni cyfyngedig, wedi'i gofrestru â Thŷ'r Cwmnïau, sy'n gweinyddu'r Geoparc ac ar hyn o bryd mae ganddo bedwar cyfarwyddwr, dau ddaearegwr a dau swyddog o Gyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Geoparc yn seiliedig ar amrywiaeth anhygoel ei ddaeareg sy'n cynnwys cerrig solet o'r cyfnod cyn-Gambriaidd i'r cyfnod Neogene gyda rhai gwaddodion Mïosen a nodweddion rhewlifiant Pleistosenaidd eang o'r cyfnod Cwaternaidd.** | |

**DA72**

**PRIDD, MWYNAU, GWASTRAFF (Gwynedd)**


| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Problemau/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Pridd, Mwynau, Gwastraff** | | | | |
| | (see table below) | | | Ceir amrediad o ffactorau a allai effeithio ar y twf mewn faint o wastraff a gynhyrchir yn cynnwys, newidiadau i'r boblogaeth, newidiadau i nifer y cartrefi a'u maint, ymddygiad defnyddwyr/prynwyr, effeithiolrwydd strategaethau lleihau gwastraff a newidiadau i ffyniant economaidd rhanbarth. **Er gwaethaf y gostyngiad** |

**~~Deilliannau Gwastraff Rhanbarthol yng Nghymru 2007 (miloedd o dunelli)~~**[xiii]


| ~~Math Gwastraff~~ | ~~Gogledd Cymru~~ | ~~De-ddwyrain Cymru~~ | ~~De-orllewin Cymru~~ |
|---|---|---|---|
| ~~Gwastraff Cemegol~~ | ~~26.29~~ | ~~29.08~~ | ~~33.16~~ |
| ~~Gwastraff Metalig~~ | ~~44.65~~ | ~~176.65~~ | ~~45.33~~ |
| ~~Gwastraff Gofal Iechyd~~ | ~~0.77~~ | ~~2.67~~ | ~~0.20~~ |
| ~~Gwastraff anfetel~~ | ~~114.66~~ | ~~127.70~~ | ~~65.08~~ |
| ~~Offer y cafwyd ei wared~~ | ~~0.63~~ | ~~1.92~~ | ~~0.66~~ |
| ~~Gwastraff anifeiliaid a llysiau~~ | ~~135.11~~ | ~~194.32~~ | ~~20.61~~ |
| ~~Gwastraff cyffredin cymysg~~ | ~~67.99~~ | ~~99.21~~ | ~~88.97~~ |
| ~~Lleidiau cyffredin~~ | ~~38.78~~ | ~~18.37~~ | ~~12.87~~ |
| ~~Gwastraff Mwynol~~ | ~~51.13~~ | ~~388.52~~ | ~~110.84~~ |

~~Ers y flwyddyn 2000, bu cynnydd yn y nifer o wastraff bwrdeistrefol a gynhyrchwyd yng Ngwynedd. Yn 2005/06,~~


ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| | ~~cynhyrchwyd ychydig mwy na 80,500 tunnell o wastraff bwrdeistrefol yn y sir, sy'n hafal i dros ddwy ran o dair tunnell o wastraff i bob person yng Ngwynedd bob blwyddyn. Cydnabyddir bod deilliannau gwastraff bwrdeistrefol yn cynyddu bob blwyddyn yn y DG, gyda'r twf blynyddol cyfredol ar gyfer y DG ar y cyfan yn 2.7% y flwyddyn. Mae ffigurau ar y dudalen nesaf yn dangos deilliannau gwastraff ar gyfer Gwastraff Bwrdeistrefol a Gwastraff Tŷ hyd at y flwyddyn 2020 yn seiliedig ar nifer o senarios graddfa twf:~~[xiv]<br><br>• ~~Cyfrifwyd bod y raddfa dwf gyfredol ar gyfer Gwynedd yn oddeutu 2.2%;~~<br>• ~~Graddfa dwf o 6% (cyfartaledd dros y 15 mlynedd ddiwethaf);~~<br>• ~~Graddfa dwf sy'n gostwng o 3.8% (NCT21);~~<br>• ~~Graddfa dwf o 1%~~<br><br>~~Mae'r ffigurau fel ei gilydd yn dangos 'graddfa dwf sy'n cyrraedd targedau LlCC' sy'n ceisio cydymffurfio â thargedau gostwng a sefydlogi gwastraff, ar gyfer gwastraff tai yn unig, a amlinellir yn y ddogfen 'Yn Gall Gyda Gwastraff'. Mae'r targedau fel a ganlyn:~~<br><br>• ~~erbyn 2009/10 ni ddylai deilliannau gwastraff ar gyfer bob aelwyd fod yn fwy na'r rhai hynny yn 1997/98; ac~~<br>• ~~erbyn 2020, dylai deilliannau gwastraff ar gyfer bob person fod yn llai na 300kg/y flwyddyn.~~<br><br>~~**Rhagolwg o Ddeilliannau Gwastraff Bwrdeistrefol yng Ngwynedd**~~<br><br><br><br>~~**Rhagolwg o Ddeilliannau Gwastraff Tŷ yng Ngwynedd**~~ | **<u>diweddar mewn deilliannau gwastraff, mae angen gostwng deilliannau gwastraff o bob sector fel y gellir cyrraedd y targedau a osodir gan Ewrop a Llywodraeth Cymru.</u>** |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| | <br><br>~~Dengys y ffigwr uchod amrywiaeth mawr rhwng y deilliannau gwastraff tŷ tybiedig a'r tunelledd mwyaf i gydymffurfio â'r targedau sefydlogi gwastraff a nodir uchod. Mewn gwirionedd, er mwyn cyflawni'r targedau sefydlogi gwastraff, bydd angen gwrthdroi'r duedd dwf a chyflawni gostyngiad o oddeutu 2.2% y flwyddyn mewn deilliannau gwastraff.~~<br><br>~~Ystyrir mai'r senario '3.8% o dwf sy'n gostwng' yw'r un mwyaf realistig, gan ystyried y graddfeydd twf diweddar/cyfredol a'r tebygolrwydd y bydd y twf yn gostwng dros gyfnod y strategaeth o ganlyniad i effaith strategaethau lleihau gwastraff a'r tebygolrwydd nad yw'r twf economaidd cyfredol yn debygol o barhau dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hwn yn union yr un fath â'r senario graddfa dwf a ddefnyddir yng Nghynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (NCT 21).~~<br><br>~~Mae Adolygiad Cyntaf Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (2009) yn rhagweld y maint deilliannau gwastraff a ganlyn yng Ngogledd Cymru erbyn 2013.~~<br><br>**~~Rhagolwg o Ddeilliannau Gwastraff a Rhai Cyfredol yng Ngogledd Cymru (2004 – 2013)~~** | |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd





~~Dengys y ffigwr isod sut y rhagwelir y bydd cyfran berthnasol bob prif ffrwd wastraff yn newid rhwng 2004 a 2013. O gymharu'r data hwn gwelir:~~

- ~~bod **Adeiladu a Dymchwel a Masnachol a Diwydiannol** i gyfrif am fwyafrif deilliannau'r ardal;~~
- ~~y bydd **MSW** yn parhau i fod y brif ffrwd wastraff sy'n tyfu gyflymaf; ac~~
- ~~y bydd cyfran y **gwastraff amaethyddol** sydd angen ei reoli'n allanol yn parhau i fod yn ddi-nod o gymharu â'r prif ffrydiau gwastraff eraill.~~

~~**Rhaniad Cyfran Gwastraff Cyfredol a Rhagolwg (2004/5 a 2012/13) yng Ngogledd Cymru**~~

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




**Mae cyfansymiau gwastraff bwrdeistrefol a gwastraff y cartref bellach yn gostwng:**

- **Mae cyfanswm y gwastraff bwrdeistrefol (ac eithrio cerbydau sydd wedi'u gadael) a gynhyrchir yng Nghymru wedi gostwng bob blwyddyn ers y pum mlynedd diwethaf, gyda 1.67 miliwn o dunelli wedi'u gynhyrchu yn 2009-10 o gymharu â 1.93 miliwn yn 2004-05 - gostyngiad cyffredinol o 13.4% (gostyngiad o 258,301 tunnell), a gostyngiad cyfartalog bob blwyddyn o 2.7% o gymharu â ffigwr 2004-05.**
- **Ar gyfer yr un cyfnod, mae gwastraff cartrefi wedi gostwng o 8.5% (gostyngiad o 134,112 tunnell) o 1.58 miliwn i 1.45 miliwn o dunelli, gyda gostyngiad cyfartalog o 1.7% pob blwyddyn ar sail y ffigwr ar gyfer 2004-05.**

**Mae cyfansymiau ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol a gwastraff y cartref bellach yn cynyddu bob blwyddyn:**

- **Mae'r canran o wastraff bwrdeistrefol (ac eithrio cerbydau wedi'u gadael) sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio yng Nghymru wedi cynyddu'n barhaus ers 2000-01. Mae cyfradd 2009-10, sef 40% (gan gynnwys rwbel, gweddillion llosgyddion, mater o lanhau traethau a bwrdd plaster) yn fwy na phum gwaith yn uwch na'r gyfradd yn 2000-01, sef 7%.**
- **Mae'r duedd yn parhau yn 2010-11, gyda'r ddau chwarter cyntaf (Ebrill – Medi 2010) yn dangos cyfradd dros dro cyfanswm ailgylchu / compostio gwastraff bwrdeistrefol o 44%**


**(ac eithrio cerbydau wedi'u gadael, rwbel, gweddillion llosgyddion, mater o lanhau traethau a bwrdd**

**plaster).**

**Mae'r cyfanswm o wastraff bwrdeistrefol gweddilliol sy'n cael ei dirlenwi'n gostwng pob blwyddyn:**

- **Tirlenwi yw'r brif ffordd o reoli gwastraff bwrdeistrefol gweddilliol, eto i gyd mae'r defnydd o safleoedd tirlenwi wedi bod yn gostwng yn raddol dros yr wyth mlynedd diwethaf o gyfanswm o 1.57 miliwn o dunelli wedi'u tirlenwi yn 2001-02 i 0.93 miliwn o dunelli yn 2009-10 - gostyngiad cyffredinol o 40.8% (gostyngiad o 641, 766 tunnell).**

**Ffigwr 2: Cyfanswm y lefelau gwastraff (tunelli) bwrdeistrefol a gwastraff gweddilliol ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2009-10.**




**Gosododd Yn Gall Gyda Gwastraff y targedau a ganlyn ar gyfer sefydlogi a lleihau gwastraff cartref: erbyn 2009-10 (ac yn berthnasol ar ôl hyn) ni ddylai deilliannau gwastraff i bob aelwyd fod yn fwy na'r rhai hynny yn 1997-98 (yng Nghymru);**
**erbyn 2020, dylai deilliannau gwastraff ar gyfer bob person fod yn llai na 300kg/y flwyddyn.**

**Cyflawnwyd y targed i leihau gwastraff cartref ar gyfer bob aelwyd pob wythnos i lefelau 1997-98 (21kg) erbyn 2009-10 gyda ffigwr o 20.4kg.**

**Ffynhonnell: Cynllun Sector Gwastraff Bwrdeistrefol (Mawrth 2011)**

Nodir y targedau a ganlyn ar gyfer gwastraff yng Nghymru yn yr Ymgynghoriad ar Strategaeth Wastraff Newydd ar gyfer Cymru (Tuag at Ddyfodol Diwastraff):

| **Targedau Gwastraff ar gyfer Cymru** | *TARGEDAU AR GYFER BOB BLWYDDYN* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| *Targed ar gyfer:* | *09/10* | *12/13* | *15/16* | *19/20* | *24/25* |
| *Lleiafswm lefelau o ailddefnyddio ac ailgylchu / compostio (neu AD)* | *40%* | *52%* | *58%* | *64%* | *70%* |
| *Lleiafswm cyfran ailddefnyddio / ailgylchu / compostio y mae'n rhaid iddo ddod o ddidoli yn y ffynhonnell (ymyl ffordd, safle dyfod ac / neu safle amwynder dinesig (AD).* | *80%* | *80%* | *80%* | *80%* | *80%* |
| *Lleiafswm lefelau compostio (neu AD) o wastraff bwyd o geginau a ddidolir yn y ffynhonnell ac fel rhan o'r targed ailgylchu / compostio cyfunol uchod* | *-* | *12%* | *14%* | *16%* | *16%* |
| *Uchafswm lefel gwastraff tŷ gweddilliol i bob preswylydd bob blwyddyn* | *-* | *295kg* | *258kg* | *210kg* | *150kg* |
| *Uchafswm lefel tirlenwi* | *-* | *-* | *-* | *10%* | *5%* |
| *Uchafswm lefel ynni o wastraff* | *-* | *-* | *42%* | *36%* | *30%* |


**PRIDD, MWYNAU, GWASTRAFF (Ynys Môn)**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Problemau/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Pridd, Mwynau, Gwastraff** | | | | |
| | **Mae cyfansymiau gwastraff bwrdeistrefol a gwastraff y cartref bellach yn gostwng:**<br>• **Mae cyfanswm y gwastraff bwrdeistrefol (ac eithrio cerbydau sydd wedi'u gadael) a gynhyrchir** | | | |

**DA72**

| | | |
|---|---|---|
| | <u>**yng Nghymru wedi gostwng bob blwyddyn ers y pum mlynedd diwethaf, gyda 1.67 miliwn o dunelli wedi'i gynhyrchu yn 2009-10 o gymharu â 1.93 miliwn yn 2004-05 - gostyngiad cyffredinol o 13.4% (gostyngiad o 258,301 tunnell), a gostyngiad cyfartalog bob blwyddyn o 2.7% o gymharu â ffigwr 2004-05.**</u><br>• <u>**Ar gyfer yr un cyfnod, mae gwastraff cartrefi wedi gostwng o 8.5% (gostyngiad o 134,112 tunnell) o 1.58 miliwn i 1.45 miliwn o dunelli, gyda gostyngiad cyfartalog o 1.7% bob blwyddyn ar sail y ffigwr ar gyfer 2004-05.**</u><br><br><u>**Mae cyfansymiau ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol a gwastraff y cartref bellach yn cynyddu bob blwyddyn:**</u><br><br>• <u>**Mae'r canran o wastraff bwrdeistrefol (ac eithrio cerbydau wedi'u gadael) sy'n cael ei ailgylchu neu ei gompostio yng Nghymru wedi cynyddu'n barhaus ers 2000-01. Mae cyfradd 2009-10, sef 40% (gan gynnwys rwbel, gweddillion llosgyddion, mater o lanhau traethau a bwrdd plaster) yn fwy na phum gwaith yn uwch na'r gyfradd yn 2000-01, sef 7%.**</u><br>• <u>**Mae'r duedd yn parhau yn 2010-11, gyda'r ddau chwarter cyntaf (Ebrill – Medi 2010) yn dangos cyfradd dros dro cyfanswm ailgylchu / compostio gwastraff bwrdeistrefol o 44% (ac eithrio cerbydau wedi'u gadael, rwbel, gweddillion llosgyddion, mater o lanhau traethau a bwrdd plaster).**</u><br><br><u>**Mae'r cyfanswm o wastraff bwrdeistrefol gweddilliol sy'n cael ei dirlenwi'n gostwng pob blwyddyn:**</u><br><br><u>**Tirlenwi yw'r brif ffordd o reoli gwastraff bwrdeistrefol gweddilliol, eto i gyd mae'r defnydd o safleoedd tirlenwi wedi bod yn gostwng yn raddol dros yr wyth mlynedd diwethaf o gyfanswm o 1.57 miliwn o dunelli wedi'u dirlenwi yn 2001-02 i 0.93 miliwn o dunelli yn 2009-10 - gostyngiad cyffredinol o 40.8% (gostyngiad o 641, 766 tunnell).**</u><br><br><u>**Ffigwr 2: Cyfanswm y lefelau gwastraff (tunnelli) bwrdeistrefol a gwastraff gweddilliol ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2009-10.**</u> | |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




**Gosododd Yn Gall Gyda Gwastraff y targedau a ganlyn ar gyfer sefydlogi a lleihau gwastraff cartref:**

- **erbyn 2009-10 (ac yn berthnasol ar ôl hyn) ni ddylai deilliannau gwastraff i bob aelwyd fod yn fwy na'r rhai hynny yn 1997-98 (yng Nghymru);**
- **erbyn 2020, dylai deilliannau gwastraff ar gyfer bob person fod yn llai na 300kg/y flwyddyn.**

**Cyflawnwyd y targed i leihau gwastraff cartref ar gyfer pob aelwyd pob wythnos i lefelau 1997-98 (21kg) erbyn 2009-10 gyda ffigwr o 20.4kg.**

**Ffynhonnell: Cynllun Sector Gwastraff Bwrdeistrefol (Mawrth 2011)**

~~Mae gwastraff bwrdeistrefol yn cynnwys gwastraff y cartref yn ogystal â gwastraff arall a gesglir gan awdurdod casglu gwastraff. Cydnabyddir bod deilliannau gwastraff bwrdeistrefol yn cynyddu bob blwyddyn yn y DG, gyda'r twf blynyddol cyfredol ar gyfer y DG ar y cyfan yn 2.7% y flwyddyn. Mae ffigurau 5 a 6 yn dangos deilliannau gwastraff Ynys Môn yng nghyswllt gwastraff bwrdeistrefol a gwastraff y cartref hyd at y flwyddyn 2020 yn seiliedig ar nifer o senarios cyfraddau twf:~~

- ~~cyfradd dwf o 6% (yn cynrychioli twf dros y 5 mlynedd ddiwethaf);~~
- ~~cyfradd dwf o 2.0% (yn cynrychioli'r twf cyfredol);~~
- ~~cyfradd dwf o 1.5%; a~~
- ~~cyfradd dwf sy'n gostwng (Mae hwn yn tybio'r gyfradd dwf gyfredol o 2.0% hyd at 2006, wedi'i dilyn â chyfradd dwf sy'n gostwng hyd at 2017 a dim cyfradd dwf wedi hynny)~~

~~Mae'r ffigurau yn dangos 'cyfradd dwf sy'n cyrraedd targedau LICC' sy'n ceisio cydymffurfio â thargedau lleihau a~~


~~sefydlogi gwastraff, ar gyfer gwastraff y cartref yn unig, a amlinellir yn y ddogfen 'Yn Gall Gyda Gwastraff'. Mae'r targedau fel a ganlyn:~~

- ~~erbyn 2009/10 ni ddylai deilliannau gwastraff pob cartref fod yn fwy na'r rhai hynny yn 1997/98; ac~~
- ~~erbyn 2020, dylai deilliannau gwastraff y pen fod yn llai na 300kg/y flwyddyn.~~

~~Dengys ffigwr 3 amrywiaeth fawr rhwng deilliannau gwastraff y cartref tybiedig a'r tunelledd mwyaf i gydymffurfio â'r targedau sefydlogi gwastraff a nodir uchod. Mewn gwirionedd, er mwyn cyflawni'r targedau sefydlogi gwastraff, byddai angen gwrthdroi'r duedd dwf a chyflawni lleihad o oddeutu 2.2% y flwyddyn mewn deilliannau gwastraff.~~


~~Ystyrir mai'r senario 'twf sy'n gostwng' yw'r mwyaf realistig, gan ystyried cyfraddau twf diweddar/cyfredol a'r tebygolrwydd y byddai'r twf yn gostwng dros gyfnod y strategaeth o ganlyniad i effaith strategaethau lleihau gwastraff.~~

**~~Rhagolygon Deilliannau Gwastraff Bwrdeistrefol yn Ynys Môn~~[8]**




**~~Rhagolygon Deilliannau Gwastraff Tai yn Ynys Môn~~[9]**


## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




~~Mae Adolygiad Cyntaf Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru (2009) yn rhagweld y deilliannau gwastraff a ganlyn yng Ngogledd Cymru erbyn 2013.~~

**~~Deilliannau Gwastraff Cyfredol a'r Rhagolygon ar gyfer Gogledd Cymru (2004-2013)~~**[10]

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd





~~Mae'r ffigwr isod yn dangos sut y rhagwelir y bydd cyfran gymharol pob ffrwd gwastraff yn newid rhwng 2004 a 2013. Wrth gymharu'r data, gwelir:~~

- ~~**bod Adeiladu a Dymchwel a Masnachol a Diwydiannol i gyfrif am fwyafrif y deilliannau** yn y rhanbarth;~~
- ~~bydd **MSW** yn parhau i fod y brif ffrwd gwastraff sy'n tyfu gyflymaf; ac~~
- ~~mae cyfran y **gwastraff amaethyddol** sydd angen ei reoli'n allanol yn parhau'n ddi-nod o gymharu â phrif ffrydiau gwastraff eraill.~~

~~**Rhaniad Gwastraff Cyfartalog a Chyfredol a'r Rhagolygon (2004/5 a 2012/13) yng Ngogledd Cymru** [11]~~

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd




The Consultation on a New Waste Strategy for Wales ('Towards Zero Waste' (2009)) notes the following targets for waste in Wales:


**Waste Targets for Wales**

| *Target for:* | *TARGETS FOR EACH YEAR* | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | *09/10* | *12/13* | *15/16* | *19/20* | *24/25* |
| *Minimum levels of reuse and recycling / composting (or AD)* | *40%* | *52%* | *58%* | *64%* | *70%* |
| *Minimum proportion of reuse / recycling/ composting that must come from source separation (kerbside, bring and/ or civic amenity (CA) site)* | *80%* | *80%* | *80%* | *80%* | *80%* |
| *Minimum levels of composting (or AD) of source separated food waste from kitchens as part of the combined recycling/ composting target above.* | - | *12%* | *14%* | *16%* | *16%* |
| *Maximum level of residual household waste per inhabitant per annum* | - | *295kg* | *258kg* | *210kg* | *150kg* |
| *Maximum level of landfill* | - | - | - | *10%* | *5%* |
| *Maximum level of energy from waste* | - | - | *42%* | *36%* | *30%* |

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

**PRIDD, MWYNAU, GWASTRAFF (Ynys Môn)**


**DA73**

| Dangosydd | Data Cyfredol | Cymaryddion a Thargedau | Statws/Tuedd | Problemau/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| **Pridd, Mwynau, Gwastraff** | | | | |
| **<u>Parthau Perygl Nitradau</u>** | **<u>Parthau Perygl Nitradau (NVZ)</u>**<br><br>**<u>Mae'n rhaid adnabod dyfroedd wyneb os yw gormod o nitrogen wedi peri newid i dwf planhigion sy'n effeithio ar blanhigion eraill, ar anifeiliaid ac ar ddefnydd y dŵr. Gall cynnydd mewn lefelau nitradau arwain at ewtroffeiddio ecosystem ble mae rhywogaethau planhigion sy'n gallu gwrthsefyll lefelau uwch o nitrogen yn tra-arglwyddiaethu, gan leihau amrywiaeth y planhigion, ar safleoedd daearol ac yn yr amgylchedd dŵr croyw. Bydd lleihad yn amrywiaeth y planhigion yn effeithio ar bethau eraill gan y bydd yr amrywiaeth o ffawna hefyd yn gostwng.</u>**<br><br>**<u>Unwaith bo corff o ddŵr wedi'i adnabod, mae'r holl dir sy'n draenio i'r dŵr hwnnw'n cael ei ddynodi'n Barth Perygl Nitradau. Yn y parthau hyn, mae'n rhaid i ffermwyr gadw at raglen weithredu mesurau sy'n cynnwys cyfyngu ar yr amser a'r dull o ddefnyddio gwrtaith a thail, a chadw cofnodion manwl.</u>** | | | |

# ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

| | | |
|---|---|---|
| | **<u>Yng Nghymru, mae llai na 3% o'r tir wedi'i ddynodi yn Barth Perygl Nitradau, tra bo mwy na hanner Lloegr wedi'i ddynodi felly.</u>** | |

**WATER (Gwynedd)**

<table>
<tr><th>Dangosydd</th><th>Data Cyfredol</th><th>Cymaryddion a Thargedau</th><th>Statws/Tuedd</th><th>Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd</th></tr>
<tr><td colspan="5">Water</td></tr>
<tr><td>Ansawdd Dŵr Afonydd</td><td colspan="3"><u>Statws Ecolegol Cyfredol / Posibilrwydd Dŵr Wyneb yn Nalgylch Uchaf Afon Dyfrdwy</u><br><br></td><td></td></tr>
</table>

**DA74**

**ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd**

## ATODIAD 2 - Diwygiadau Arfaethedig i Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad Cynaladwyedd

**ATODIAD3 : Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni**

**Testunau:**

**1. Dŵr**
**2. Bioamrywiaeth**
**3. Trafnidiaeth**
**4. Tai**
**5. Economi**
**6. Cymunedau**
**7. Treftadaeth ddiwylliannol**
**8. Ffactorau hinsoddol**
**9. Tirwedd**

** Mae hwn yn ddiweddariad o’r wybodaeth waelodlin bresennol fel rhan o'r broses AC/AAS CDLl ar y Cyd. Fel y cyfryw, dylid ei darllen ar y cyd ag Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, a’r diweddariad blaenorol a gafwyd yn Atodiad 3 Cynllun Adnau AC Chwefror 2015.

**ATODIAD3 : Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni**

## Testun 1: DŴR

| Dangosydd | Data presennol | Cymharydd / Targed | Statws/ Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| Ansawdd dŵr | Cyhoeddodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ganllaw cyflym ar gyfer Ansawdd Dŵr yng Nghymru ym mis Hydref 2013, a nododd yng Nghymru bod 36% o'r holl gyrff dŵr wedi cyflawni Statws Ecolegol Da yn 2012, gyda'r nod o gynyddu hyn i 50% erbyn 2015.<br><br>Mae Crynodeb Dalgylch Rheoli Ynys Môn a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2015 yn nodi bod y rhesymau dros beidio â chyflawni statws da yn cynnwys; cyfoethogiad maetholion (yn enwedig drwy ffosfforws), gollyngiadau a rheoli tir amaethyddol.<br><br>Nodwyd mesurau lleol i gyfrannu at gyflawni amcanion sy'n cynnwys;<br>- rheolaethau allyriadau;<br>- ymdrin â llygredd tarddle pwynt;<br>- proses arfordirol briodol a rheoli gwaddodion;<br>- draenio a rheoli lefel y dŵr;<br>- carthu a rheoli silt;<br>- gwell llwybrau a chynefinoedd pysgod;<br>- llifoedd a lefelau dŵr gwell;<br>- rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol;<br>- dŵr mwyngloddio ac adfer tir halogedig;<br>- tir cynaliadwy a rheoli morol;<br>- lleihau llygredd o danciau septig;<br>- lleihau llygredd o arllwysiadau carthion; ac<br>- arferion amaethyddol cynaliadwy. | | | Gall y CDLl ar y Cyd gefnogi ac annog y mesurau lleol a nodwyd, a all gyfrannu tuag at gyflawni statws ecolegol da y cyrff dŵr yn ardal y cynllun. |
| Cynllun Rheoli Traethlin 2 (2012) | Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Traethlin wedi'i ddiweddaru (SMP) 2 yn 2012, sy'n darparu asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag esblygiad arfordirol, ac sy'n cyflwyno fframwaith polisi i ymdrin â'r risgiau hyn i bobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae ardaloedd Arfordirol F a G yn ymwneud ag ardal y CDLl ar y Cyd. Mae Ardaloedd Arfordirol F a G yn ymwneud ag ardal y CDLl ar y Cyd.<br><br>**Ardal Arfordirol G**: Ynys Môn (ac eithrio Afon Menai) - mae'r ardal yn cynnwys tri Pharth Datblygu Polisi (PDZs); 17, 18 a 19. | | | Gall y Cynllun Rheoli Traethlin helpu i lywio'r CDLl ar y Cyd i leoli datblygiad newydd yn briodol er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a macsimeiddio'r effeithiau cadarnhaol. Gall y CDLl ar y Cyd hefyd geisio sicrhau |

| | | |
|---|---|---|
| | Esblygiad Tymor Hir: Mae'r arfordir yn gyffredinol wedi'i gyfyngu'n fawr gan y ddaeareg galed o ran ei sefyllfa ac mewn perthynas â drifft gwaddod. Ar hyn o bryd mae ardaloedd o erydiad araf cyffredinol dros y clogwyni meddal ac ardaloedd o dwyni cymharol sefydlog. Ymddygiad hirdymor y draethlin hon yw parhad o'r erydiad araf hwn ond yn cynyddu gyda chynnydd yn lefel y môr. Gyda chynnydd yn lefel y môr byddai mwy o brism llanwol o fewn y gilfach rhwng y tir mawr ac Ynys Cybi. Gallai hyn arwain at newid yn arbennig yn y fynedfa ddeheuol..<br><br>Materion Rheoli Allweddol:<br>▪ Y risgiau i weithrediad a photensial datblygiad porthladd Caergybi<br>▪ Y risgiau i weithrediadau yn RAF Fali<br>▪ Y risg o lifogydd i'r prif drefi ac yn lleol i aneddiadau llai eraill<br>▪ posibilrwydd o golli cymunedau lleol neu effaith sylweddol arnynt<br>▪ Tarfu ar y system drafnidiaeth ranbarthol a lleol<br>▪ Colled posibl o gymeriad hanfodol o rai o'r baeau bach a thraethau oherwydd gwasgfa arfordirol a'r effaith gyffredinol ar werth twristiaeth a chadwraeth natur<br>▪ Colli nodweddion treftadaeth penodol a dirywiad yn yr amgylchedd hanesyddol.<br><br>**Ardal Arfordirol F**: Afon Menai a Chonwy - yr ardal yn cynnwys 3 PDZs; 15, 16 & 20<br><br>Esblygiad Tymor Hir: Gyda chynnydd yn lefel y môr, bydd mwy o bwysau erydu ar hyd llawer o'r draethlin, yn enwedig lle mae amddiffynfeydd presennol yn rheoli erydiad naturiol yr ardaloedd cefndraeth clogwynog. Ystyrir bod yr ardal ger y lan yn gyffredinol gyfoethog mewn gwaddod. Fel y cyfryw, gyda chynnydd yn lefel y môr, ac os yw gallu'r arfordir i rolio yn ôl yn cael ei gynnal, yna mae tebygolrwydd cryf y byddai'r draethlin yn gallu cadw i fyny gyda chynnydd yn lefel y môr. Yn benodol, aseswyd bod yr aberoedd mewn cydbwysedd cymharol gyda hanes o weithredu fel sinciau gwaddod. Felly byddai'r broses arwyddol yn y tymor hwy yn ymwneud â chau digyfyngiad o'r aberoedd â thyddodion, yn unol â chynnydd yn lefel y môr. Byddai hyn yn berthnasol yn nodweddiadol yn ardal Traeth Lafan. Fodd bynnag, mae peth ansicrwydd mewn perthynas ag ymddygiad y Fenai a'r effaith a gaiff cynnydd yn lefel y môr ar drefn y llif. Gallai hyn wedyn ddylanwadu ar ymddygiad y nodweddion arfordir agored yn y pen gorllewinol ac ymddygiad Traeth Lafan.<br><br>Materion Rheoli Allweddol:<br>▪ Cynnal yr hybiau economaidd pwysig mewn perthynas â'r cynnydd sylweddol yn y tebygolrwydd o lifogydd, yn uniongyrchol ac yn nhermau gorlifo o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr.<br>▪ Yr angen i gynnal llwybr trafnidiaeth yr A55 a'r prif rwydwaith o ffyrdd yn ardal y Fenai, | cyfraniadau datblygu i gefnogi rheolaeth barhaus o berygl llifogydd a materion rheoli traethlin eraill a nodir yn y Cynllun Rheoli. Gall y CDLl ar y Cyd ategu'r Cynllun Rheoli Traethlin drwy gefnogi cymunedau arfordirol a'u lles tymor hir. |

| | | |
|---|---|---|
| | a'r cyfyngiad clir a osoda hyn ar reoli'r draethlin rhwng Llanfairfechan a Phenmaenmawr.<br>▪ Adfywio a chynnal gweithgareddau hamdden ac agweddau diwylliannol, hanesyddol a chymunedol sylfaenol yr aneddiadau presennol sy'n sail i ansawdd bywyd a'r diwydiant twristiaeth.<br>▪ Risg i gymunedau gwledig ac amaethyddol o lifogydd ac erydiad. Mae'r risg i amaethyddiaeth yn cael ei gynyddu yn enwedig yn Nyffryn Conwy os yw cynnydd yn lefel y môr yn gosod, nid yn unig yr angen posibl i godi amddiffynfeydd os yw'r defnydd presennol i gael ei gynnal, ond hefyd perygl cynyddol o lifogydd dŵr afonol a dŵr wyneb. Mae cynyddu amddiffynfeydd yma yn gosod tuedd o ran rheoli tymor hwy, lle bo draeniad tir yn dod yn fwy anodd ac yn fwy sylfaenol i'r defnydd presennol.<br>▪ Risg i gymunedau arfordirol lleol sydd mewn gwirionedd ar y draethlin<br>▪ Mewn llawer o ardaloedd mae'r arfordir angen lled i ddatblygu'n naturiol ac i leihau effaith egni cynyddol o ganlyniad i gynnydd yn lefel y môr. Mae angen hwn hefyd i gefnogi a chynnal yr amddiffyniad naturiol ac amddiffyniad o waith dyn, yn ogystal â gofod lle gellir cynnal y buddiannau gwarchod natur hanfodol. | |

## Testun 2: BIOAMRYWIAETH

| Dangosydd | Data presennol | Cymharydd / Targed | Statws/ Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| Rhaglen LIFE Natura 2000 | Mae Rhaglen LIFE Natura 2000 yn y broses o greu 11 o gynlluniau gweithredu thematig i ymdrin â materion a risgiau mawr a nodwyd fel rhai sy'n cael effaith andwyol ar nodweddion Natura 2000 ar draws y rhwydwaith. Mae'r cynlluniau gweithredu yn tynnu sylw at y canlynol:<br>▪ Mae mynediad a gweithgareddau hamdden yn cael (neu yn debygol o gael) effaith andwyol ar 86 allan o 123 o nodweddion cynefin neu rywogaeth (70%) mewn 59 allan o'r 112 o safleoedd Natura 2000 yng Nghymru (53%). Mae'r materion a risgiau yn gysylltiedig â niwed gwirioneddol neu a amheuir i gynefinoedd neu rywogaethau, neu aflonyddu ar rywogaethau. Mae'r nodweddion sy'n cael eu heffeithio'n andwyol amlaf gan weithgareddau mynediad cyhoeddus a hamdden yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) rhostiroedd sych, gorgors a choetir cymysg.<br>▪ Mae llygredd aer (dyddodiad nitrogen) yn cael (neu yn debygol o gael) effaith andwyol ar 71 allan o'r 123 o wahanol nodweddion cynefin neu rywogaeth Natura 2000 (58%) mewn 73 allan o 112 o safleoedd Natura 2000 yng Nghymru (65%). | | | Mae'r cynlluniau gweithredu a grëwyd yn Rhaglen LIFE Natura 2000 yn seiliedig ar bynciau a fydd, i ryw raddau, yn cael eu heffeithio gan y CDLl ar y Cyd. Yn enwedig, gall materion penodol megis mynediad a gweithgareddau hamdden, a llygredd aer gael eu heffeithio'n sylweddol gan y penderfyniadau a wneir o fewn y broses CDLl ar y Cyd a chyfeiriad datblygiadau yn y dyfodol. Bydd yn bwysig bod y CDLl ar y Cyd yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae’r nodweddion sy’n cael eu heffeithio'n andwyol ac yn amlaf gan ddyddodiad nitrogen yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) rhostiroedd sych, coetir derw asidig gorllewinol a dolydd glaswellt y gweunydd..<br>▪ Mae llygredd dŵr gwasgaredig yn cael (neu yn debygol o gael) effaith andwyol ar 61 allan o’r 123 o wahanol nodweddion cynefin neu rywogaeth Natura 2000 (49%) mewn 39 allan o 112 o safleoedd Natura 2000 ledled Cymru (35%). Mae’r nodweddion sy’n cael eu heffeithio'n andwyol amlaf gan lygredd gwasgaredig yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) dyfrgwn, llysywod pendoll yr afon, llysywod pendoll y nant a llysywen bendoll y môr.<br>▪ Mae pori amhriodol a rheoli da byw yn risg mewn 78 allan o’r 112 o safleoedd Natura 2000 ledled Cymru (70%). Mae'r risgiau hyn yn ymwneud yn bennaf â nifer, math ac amseriad pori da byw ar y safle, ond hefyd yn cynnwys colli arferion rheoli da byw traddodiadol megis bugeilio. Mae’r nodweddion sy’n cael eu heffeithio'n andwyol amlaf gan bori amhriodol a rheoli da byw yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) rhostiroedd sych, gorgors, dolydd glaswellt y gweunydd a britheg y gors.<br>▪ Mae rhywogaethau ymledol a phathogenau yn cael (neu yn debygol o gael) effaith ar 71 allan o’r 123 o nodweddion cynefin neu rywogaeth Natura 2000 (58%) mewn 84 allan o 112 o safleoedd Natura 2000 yng Nghymru (75%). Mae'r risgiau sy'n deillio o rywogaethau ymledol a phathogenau yn gysylltiedig â gostyngiad mewn bioamrywiaeth trwy gystadleuaeth am adnoddau ac yn achos y pathogenau, difrod i a marwolaethau organebau lletyol. Mae’r nodweddion sy’n cael eu heffeithio'n andwyol amlaf gan rywogaethau ymledol a phathogenau yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt) rhostiroedd sych, y fadfall gribog, coetir cymysg ar briddoedd tra-fasig sy'n gysylltiedig â llethrau creigiog a choedwigoedd llifwaddodol.<br>▪ Mae newidiadau a wnaed gan ddyn i amodau hydrolig yn cael (neu yn debygol o gael) effaith ar 43 allan o’r 123 o nodweddion cynefin neu rywogaeth (36%) mewn 45 allan o 112 o safleoedd Natura 2000 yng Nghymru (40%). Mae’r nodweddion sy’n cael eu heffeithio'n andwyol amlaf gan y newidiadau a wnaed gan ddyn i amodau hydrolig yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig iddynt) gorgors, corsydd dirywiedig, eog yr Iwerydd a llysywod pendoll yr afon.<br>▪ Mae rheoli coetir amhriodol neu annigonol ac effeithiau negyddol ceirw yn cael (neu yn debygol o gael) effaith ar 44 allan o’r 123 o wahanol nodweddion cynefin neu rywogaeth Natura 2000 (36%) mewn 47 allan o 112 o safleoedd Natura 2000 ledled Cymru (42%). Mae’r nodweddion sy’n cael eu heffeithio'n andwyol amlaf gan reoli coetiroedd amhriodol yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig iddynt) coetir derw asidig gorllewinol, coetir cymysg ar briddoedd tra-fasig sy'n gysylltiedig â llethrau creigiog, | ceisio diogelu’r cynefinoedd a rhywogaethau hynny a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl, a’i fod yn cefnogi gwell bioamrywiaeth er enghraifft trwy geisio gwella darnio cynefinoedd, a chreu cynefinoedd newydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | diraddio cyforgorsydd a rhostiroedd sych.<br>Dylid nodi bod cynlluniau ar gyfer y themâu newid yn yr hinsawdd a darnio cynefinoedd, rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, a physgodfeydd morol eto i gael eu cyhoeddi. | | | |

## Testun 3: TRAFNIDIAETH

| Dangosydd | Data presennol | Cymharydd / Targed | Statws/ Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru Drafft | Mae Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru Drafft (2015) yn nodi'r materion trafnidiaeth allweddol canlynol ar gyfer Gogledd Cymru:<br>▪ Gallu'r coridorau cefnffyrdd a rheilffyrdd strategol i ddarparu'r cysylltedd da angenrheidiol, ar gyfer pobl a nwyddau, o fewn Gogledd Cymru, i'r porthladdoedd ac i weddill y DU i gefnogi'r economi a swyddi, gan gynnwys twristiaeth;<br>▪ Diffyg gwydnwch y rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd i ddigwyddiadau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio, gan gynnwys tywydd eithafol;<br>▪ Yr angen am fynediad da at a rhwng y tair Ardal Fenter yng Ngogledd Cymru<br>▪ Diffyg dewisiadau amgen hyfyw a fforddiadwy, rhai yn hytrach na'r car, i gael mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill; ac<br>▪ Angen am gysylltiadau ffordd da i / o'r rhwydwaith cefnffyrdd i mewn i'r ardaloedd gwledig i helpu i gadw hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg | | | Bydd y CTLl ar y Cyd Drafft pan gaiff ei fabwysiadu yn darparu fframwaith ar gyfer cyflwyno gwelliannau trafnidiaeth ar draws Gogledd Cymru. Gall y CDLl ar y Cyd geisio macsimeiddio'r manteision a buddsoddiad sy'n codi o ganlyniad i'r cynllun lefel uwch, ar y lefel leol. Gall y CDLl ar y Cyd hefyd ategu'r cynllun lefel uwch gyda mesurau lleol i gefnogi Ardaloedd Menter o fewn ei gwmpas dylanwad. |

## Testun 4: TAI

| Dangosydd | Data presennol | Cymharydd / Targed | Statws/ Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| | Dim diweddariad - gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, ac Atodiad 3 y Cynllun Adnau AC Chwefror 2015 yn dal yn berthnasol. | | | |

## Testun 5: ECONOMI

## ATODIAD3 : Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

| Dangosydd | Data presennol | Cymharydd / Targed | Statws/ Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| | Dim diweddariad - gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, ac Atodiad 3 y Cynllun Adnau AC Chwefror 2015 yn dal yn berthnasol. | | | |

## Testun 6: CYMUNEDAU

| Dangosydd | Data presennol | Cymharydd / Targed | Statws/ Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| Proffil Iechyd GIG Ynys Môn (2014) | Mae Proffil Iechyd Ynys Môn yn nodi poblogaeth breswyl o 70,100, gyda'r gyfran uchaf o drigolion yn yr ystod oedran 65-69, yn cael ei ddilyn yn agos gan ystod oedran 60-64. Noda ystadegau pellach bod 57% o unigolion dros 3 oed yn Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn uwch na Gogledd Cymru a chyfartaleddau cenedlaethol Cymru. Mae 1,470 o bobl yn byw yn y 10% mwyaf difreintiedig o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Mae'r bachgen cyfartalog a anwyd yn yr ardal fwyaf difreintiedig yn Ynys Môn yn debygol o fyw dros 7 mlynedd yn llai na'r bachgen cyfartalog o'r ardal fwyaf cefnog, ac yn debygol o dreulio 13 mlynedd ychwanegol mewn iechyd gwaeth. Mae'r ferch gyfartalog a anwyd yn yr ardal fwyaf difreintiedig yn Ynys Môn yn debygol o fyw dros 5 mlynedd yn llai na'r ferch gyfartalog o'r ardal amddifadedd lleiaf, ac yn debygol o dreulio 11 mlynedd ychwanegol mewn iechyd gwaeth. Mae bron i hanner yr holl oedolion dros 16 yng Ngogledd Cymru yn adrodd eu bod yn byw gydag o leiaf un salwch cronig. Yn 2012/13 yn achos oedolion yn Ynys Môn, adroddwyd bod 23% yn ysmygu; 40% yn yfed mwy na'r lefelau a argymhellir; 23% yn ordew; 32% yn weithredol ar 5 diwrnod neu fwy yr wythnos; a 30% heb unrhyw ddiwrnodau gweithredol. | | | Gall y CDLl ar y Cyd geisio ategu amcanion iechyd yn ardal y cynllun, a cheisio lleihau amddifadedd drwy fesurau megis cynyddu hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau lleol, a darparu tai fforddiadwy. |
| Proffil Iechyd GIG Gwynedd (2014) | Mae Proffil Iechyd Gwynedd yn nodi poblogaeth breswyl o 121,900, gyda'r gyfran uchaf o drigolion yn yr ystod oedran 20-24. Noda ystadegau pellach bod 65% o unigolion dros 3 oed yng Ngwynedd yn gallu siarad Cymraeg, sydd yn uwch na Gogledd Cymru a chyfartaleddau cenedlaethol Cymru. Mae 4,930 o bobl yn byw yn y 10% mwyaf difreintiedig o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru. Mae'r bachgen cyfartalog a anwyd yn yr ardal fwyaf difreintiedig yng Ngwynedd yn debygol o fyw dros 3 mlynedd yn llai na'r bachgen cyfartalog o'r ardal fwyaf cefnog, ac yn debygol o dreulio 6 blynedd ychwanegol mewn iechyd gwaeth. Mae'r ferch gyfartalog a anwyd yn yr ardal fwyaf difreintiedig yng Ngwynedd yn debygol o fyw dros 2 mlynedd yn llai na'r ferch gyfartalog o'r ardal amddifadedd lleiaf, ac yn debygol o dreulio 5 mlynedd ychwanegol mewn iechyd gwaeth. Mae bron i hanner yr holl oedolion dros 16 yng Ngogledd Cymru yn adrodd eu bod yn byw gydag o leiaf un salwch cronig. Yn 2012/13 yn achos oedolion yng Ngwynedd, adroddwyd bod 23% yn ysmygu; 42% yn yfed mwy na'r lefelau a argymhellir; 18% yn ordew; 33% yn weithredol ar 5 diwrnod | | | Gall y CDLl ar y Cyd geisio ategu amcanion iechyd yn ardal y cynllun, a cheisio lleihau amddifadedd drwy fesurau megis cynyddu hygyrchedd gwasanaethau a chyfleusterau lleol, a darparu tai fforddiadwy. |

| | | |
|---|---|---|
| | neu fwy yr wythnos; a 30% heb unrhyw ddiwrnodau gweithredol. | |

## Testun 7: TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL

| Dangosydd | Data presennol | Cymharydd / Targed | Statws/ Tuedd | Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd |
|---|---|---|---|---|
| Ariannu Treftadaeth[1] | Ym mis Chwefror 2015 cyhoeddwyd bod Menter Treftadaeth Treflun Caergybi a ddarperir gan Gyngor Sir Ynys Môn wedi derbyn grant o £1.55 miliwn gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Clustnodwyd £2.375 miliwn pellach i adfywio Neuadd y Farchnad Caergybi[2], gyda £50,000 ymlaen llaw i helpu cyflwyno cynlluniau'n llwyddiannus ar gyfer y neuadd. | | | Mae cyfleoedd i ategu Menter Treftadaeth Treflun Caergybi drwy ddatblygiad sy'n cefnogi mwy o fynediad ac yn cyfrannu at well seilwaith. Gall y CDLl ar y Cyd gyflwyno cyfleoedd datblygu sy'n cefnogi rheolaeth tymor hwy a chynnal a chadw'r craidd hanesyddol a'i fuddsoddiad diweddar. Bydd yn bwysig sicrhau bod y datblygiad cyffredinol a gynigir yn y CDLl ar y Cyd yn cefnogi bywiogrwydd a hyfywedd canol tref Caergybi. |

[1] http://www.anglesey.gov.uk/empty-nav/news/press-releases-2015/february-2015/massive-25-million-boost-to-restore-historic-holyhead/125070.article
[2] http://www.anglesey.gov.uk/empty-nav/news/press-releases-2015/march-2015/heritage-lottery-earmarks-2375m-for-holyheads-market-hall/125542.article

## ATODIAD3 : Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## Testun 8: FFACTORAU HINSODDOL

| **Dangosydd** | **Data presennol** | **Cymharydd / Targed** | **Statws/ Tuedd** | **Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd** |
|---|---|---|---|---|
| Prosiect Mapio Erydu Arfordirol Cenedlaethol (NCERM), Cyngor Sir Ynys Môn a Chyfoeth Naturiol Cymru | Mae awdurdodau lleol wedi gweithio ochr yn ochr â Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu map a rhoi gwybodaeth am sut y gallai erydu arfordirol effeithio ar ardaloedd dros y can mlynedd nesaf. Mae'r map yn nodi meysydd o adlinio rheoledig, lle mae cynllunio yn hyrwyddo'r llinell, lle y mae'r llinell amddiffyn bresennol yn cael ei chynnal, a lle nad oes ymyriad gweithredol.<br><br>Gellir gweld y map drwy'r ddolen ganlynol:<br>http://maps.environment-agency.gov.uk/wiyby/wiybyController?text=coastal_erosion&layerGroups=default&lang=_e&ep=map&scale=4&x=233097&y=389761 | | | Gall datblygiadau newydd o amgylch yr arfordir gael eu llywio gan y wybodaeth hon, yn ogystal â chefnogi rheolaeth barhaus o'r erydu arfordirol trwy fesurau lliniaru priodol a/neu gyfraniadau. Mae'r map yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i gefnogi iechyd a bywiogrwydd parhaus cymunedau arfordirol sy'n bodoli eisoes, y bydd y CDLl ar y Cyd yn ceisio eu diogelu a'u gwella. |

## Testun 9: TIRWEDD

| **Dangosydd** | **Data presennol** | **Cymharydd / Targed** | **Statws/ Tuedd** | **Materion/ Cyfyngiadau/ Cyfleoedd** |
|---|---|---|---|---|
| | Dim diweddariad - gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, ac Atodiad 3 y Cynllun Adnau AC Chwefror 2015 yn dal yn berthnasol. | | | |

**ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni**

**Testunau**

**1. Datblygiad Cynaliadwy a Pholisi Amgylcheddol**
**2. Polisi Datblygu Gofodol**
**3. Bioamrywiaeth**
**4. Cymunedau**
**5. Ffactorau hinsoddol**
**6. Treftadaeth ddiwylliannol**
**7. Economi**
**8. Tai**
**9. Tirwedd**
**10. Adnoddau Dŵr, Ansawdd a Risg Llifogydd**
**11. Pridd, Mwynau a Gwastraff**
**12. Trafnidiaeth**

** Mae hwn yn ddiweddariad o’r Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni presennol  a goladwyd fel rhan o'r broses AC/AAS CDLl ar y Cyd. Fel y cyfryw, dylid ei darllen ar y cyd ag Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, a’r diweddariad blaenorol a gafwyd yn Atodiad 3 Cynllun Adnau AC Chwefror 2015.

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## Datblygiad Cynaliadwy a Pholisi Amgylcheddol

<table>
<tr><th colspan="2">CENEDLAETHOL</th></tr>
<tr><th colspan="2">Deddf Lles Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015</th></tr>
<tr><th>Amcanion a Gofynion</th><th>Goblygiadau i’r CDLl ar y Cyd</th></tr>
<tr><td>Mae'r Ddeddf yn anelu at wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn rhestru cyrff cyhoeddus sy’n gorfod meddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig. Y nodau yw:<br>▪ Cymru lewyrchus;<br>▪ Cymru gydnerth;<br>▪ Cymru iachach;<br>▪ Cymru fwy cyfartal;<br>▪ Cymru o gymunedau cydlynus;<br>▪ Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu; a<br>▪ Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang.<br><br>Mae’n nodi<br>"Rhaid i bob corff cyhoeddus gyflawni datblygu cynaliadwy", sy’n gorfod cynnwys gosod a chyhoeddi amcanion a gynlluniwyd i facsimeiddio cyfraniad at gyflawni nodau lles, a chymryd pob cam rhesymol i fodloni’r amcanion hynny. Bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn gweithredu fel gwarcheidwad dros fuddiannau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru a chefnogi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf.</td><td>Rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi datganiad wrth bennu eu hamcanion lles gan egluro sut y bydd yr amcan yn helpu i gyflawni nodau a sut y mae wedi defnyddio pob egwyddor datblygu cynaliadwy. Bob blwyddyn rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n dangos y cynnydd a wnaethant wrth fodloni eu hamcanion. Mae nodau lles yn rhyng-gysylltiedig â chynlluniau datblygu yn y dyfodol, a gall monitro gefnogi'r blynyddol</td></tr>
<tr><th colspan="2">Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Llywodraeth Cymru (2011)</th></tr>
<tr><th>Amcanion a Gofynion</th><th>Goblygiadau i’r CDLl ar y Cyd</th></tr>
<tr><td>Mae'r cynllun yn anelu at ddod yn "genedl un blaned", gan roi datblygu cynaliadwy wrth wraidd y llywodraeth. Mae'r cynllun yn ceisio gwella ac integreiddio'r modd y mae'r defnydd o dir, môr, aer a dŵr yn cael eu rheoli a'u rheoleiddio. Mae camau gweithredu allweddol yn cynnwys:<br>▪ Byw o fewn terfynau amgylcheddol a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd<br>▪ Diogelu ecosystemau iach<br>▪ Creu mannau cynaliadwy ar gyfer pobl</td><td>Mae'r Cynllun yn nodi agenda’r llywodraeth i integreiddio'r gwaith o gynllunio a rheoli tir, y môr, aer a dŵr i sicrhau datblygu cynaliadwy; dylai’r dull integredig hwn o ddatblygu cynaliadwy fod yn sail i'r CDLl ar y Cyd.</td></tr>
<tr><th colspan="2">Bil Amgylchedd (Cymru) 2015</th></tr>
<tr><th>Amcanion a Gofynion</th><th>Goblygiadau i’r CDLl ar y Cyd</th></tr>
<tr><td>Mae'r bil yn creu'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy cynaliadwy a chydgysylltiedig. Mae darpariaethau yn cynnwys gofynion penodol ar gyfer Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR), Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol (NNRP) a datganiadau ardal. Mae'r bil</td><td>Gall y CDLl ar y Cyd gefnogi amcanion y bil i sicrhau dull integredig o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gall</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| hefyd yn darparu i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fwy o bwerau i ymgymryd â chytundebau rheoli tir a chynlluniau arbrofol. Mae'r bil hefyd yn cynnwys darpariaethau i ymdrin â newid yn yr hinsawdd, trwy dargedau lleihau allyriadau statudol a chyllidebu carbon i gefnogi cyflenwi. | monitro hefyd gefnogi'r broses o gi GGnhyrchu datganiadau ardal. |

**ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni**

**Polisi Datblygu Gofodol -** Dim diweddariad - gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, ac Atodiad 3 y Cynllun Adnau AC Chwefror 2015 yn dal yn berthnasol.

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## Bioamrywiaeth

<table>
<tr><th colspan="2">CENEDLAETHOL</th></tr>
<tr><th colspan="2">Cynllun Gweithredu ar gyfer Peilliwyr yng Nghymru, Llywodraeth Cymru (2013)</th></tr>
<tr><th>Amcanion a Gofynion</th><th>Goblygiadau i’r CDLl ar y Cyd</th></tr>
<tr><td>Gweledigaeth: “Mae Cymru yn cynnal poblogaethau iach o beillwyr gwyllt ac wedi’u rheoli er budd pobl, economi ac amgylchedd Cymru”.<br>Mae canlyniadau ar gyfer meysydd gweithredu yn darparu fframwaith i weithio tuag at y weledigaeth; y canlyniadau yw fel a ganlyn:<ul><li>Canlyniad 1: Mae Cymru â pholisi cydgysylltiedig, llywodraethu a sail dystiolaeth gadarn ar gyfer gweithredu i beillwyr</li><li>Canlyniad 2: Mae Cymru yn darparu cynefinoedd cyfoethog a chysylltiedig o flodau amrywiol i gefnogi ein peillwyr</li><li>Canlyniad 3: Mae poblogaethau peillio Cymru’n iach</li><li>Canlyniad 4: Mae dinasyddion Cymru yn fwy gwybodus ac ymwybodol o bwysigrwydd a rheoli peillio</li></ul></td><td>Mae'r cynllun yn amlygu mai’r prif feysydd sy'n peri pryder ar gyfer peillwyr yw defnydd tir dwys, dinistrio a darnio cynefinoedd, clefydau, y defnydd o agro-gemegau, a newid yn yr hinsawdd. Gall y CDLl ar y Cyd gyfrannu'n sylweddol at gyflawni amcanion y cynllun gweithredu peillio drwy gynllunio datblygiadau yn y dyfodol mewn modd strategol, sy'n lleihau darnio cynefinoedd, er enghraifft, yn ogystal â mynnu cyfraniadau datblygu i gefnogi cynefinoedd lleol..</td></tr>
<tr><th colspan="2">Rhaglen LIFE Natura 2000</th></tr>
<tr><th>Amcanion a Gofynion</th><th>Goblygiadau i’r CDLl ar y Cyd</th></tr>
<tr><td>Mae'r Rhaglen wedi creu 11 o Gynlluniau Gweithredu Thematig, pob un ohonynt yn rhoi manylion am gamau gweithredu strategol blaenoriaeth i ymdrin â materion a risgiau mawr sydd wedi cael eu nodi fel rhai sy’n cael effaith andwyol ar nodweddion Natura 2000 ar draws y rhwydwaith.<br>Mae'r cynlluniau gweithredu yn cynnwys:<ul><li>Mynediad a hamdden</li><li>Llygredd Aer: Dyddodiad nitrogen</li><li>Newid yn yr hinsawdd a darnio cynefinoedd</li><li>Llygredd dŵr gwasgaredig</li><li>Rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol</li><li>Rheoli pori a da byw</li><li>Rhywogaethau a phathogenau ymledol anfrodorol</li><li>Newidiadau a wnaed gan ddyn i amodau hydrolig</li><li>Pysgodfeydd morol</li><li>Rheoli coetir</li></ul></td><td>Mae gan y CDLl ar y Cyd y potensial i effeithio'n uniongyrchol ar nifer o'r pynciau a nodir drwy gynlluniau gweithredu fel blaenoriaethau strategol i ymdrin â materion a risgiau mawr sy'n effeithio ar fioamrywiaeth dynodedig. Dylai'r CDLl ar y Cyd geisio lleihau’r effeithiau negyddol posibl sy'n deillio o ddatblygiad yn y dyfodol ar safleoedd bioamrywiaeth dynodedig, a cheisio gwneud y gorau o fanteision posibl i fioamrywiaeth yn ardal y cynllun i gefnogi gweithrediad ecosystemau iach.</td></tr>
</table>

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## Cymunedau

| **CENEDLAETHOL** | |
|---|---|
| **Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016, Llywodraeth Cymru** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae'r Cynllun yn ceisio atal tlodi, helpu pobl i wella eu sgiliau a gwella perthnasedd eu cymwysterau, a lliniaru effaith tlodi. | Gall y CDLl ar y Cyd gefnogi'r Cynllun Gweithredu Tlodi drwy gyfeirio datblygiadau newydd yn briodol, yn cynnwys tai newydd, cyfleoedd cyflogaeth a chyfleusterau addysgol. |

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

**Ffactorau hinsoddol -** Dim diweddariad - gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, ac Atodiad 3 y Cynllun Adnau AC Chwefror 2015 yn dal yn berthnasol.

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## Treftadaeth ddiwylliannol

<table>
<tr><td colspan="2">CENEDLAETHOL</td></tr>
<tr><td colspan="2">Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015, Llywodraeth Cymru</td></tr>
<tr><td>Amcanion a Gofynion</td><td>Goblygiadau i’r CDLl ar y Cyd</td></tr>
<tr><td>Nod y strategaeth yw gwella gwasanaethau amgueddfeydd erbyn 2015 yn ôl tair egwyddor arweiniol:<br>▪ Amgueddfeydd i Bawb; Bydd amgueddfeydd yn cyfrannu at gymunedau byw, gan hyrwyddo gwerthoedd cymdeithas deg a chyfiawn a darparu cyfleoedd dysgu gydol oes i bawb<br>▪ Casgliad i'r Genedl; Bydd amgueddfeydd yn dal, gofalu a pharhau i ddatblygu casgliadau ar gyfer y genedl sy'n cynrychioli ein diwylliant cyfoethog ac amrywiol<br>▪ Gweithio'n Effeithiol; bydd amgueddfeydd yn rheoli eu safleoedd, eu gweithrediadau, eu casgliadau a'u pobl yn fwy effeithiol er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau i ddinasyddion – gwasanaethau sy'n berthnasol, yn gadarn ac yn gynaliadwy</td><td>Mae hygyrchedd yn bryder allweddol i'r CDLl ar y Cyd, sy'n cynnwys mynediad at asedau treftadaeth ddiwylliannol sy'n cyfoethogi bywydau pobl. Dylai datblygiadau newydd hefyd geisio sicrhau rheolaeth barhaus a gwella asedau treftadaeth.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), Llywodraeth Cymru (2015)</td></tr>
<tr><td>Amcanion a Gofynion</td><td>Goblygiadau i’r CDLl ar y Cyd</td></tr>
<tr><td>Bydd y Bil yn cefnogi rheolaeth bositif o newid yn amgylchedd hanesyddol Cymru. Bydd y Bil yn:<br>▪ Gwneud penderfyniadau ar yr amgylchedd hanesyddol yn fwy agored a thryloyw drwy gyflwyno prosesau ymgynghori ac adolygu ffurfiol ar gyfer dynodi asedau hanesyddol<br>▪ Galluogi Gweinidogion Cymru i gydnabod a diogelu unrhyw safleoedd o bwysigrwydd cenedlaethol lle ceir tystiolaeth o weithgarwch dynol yn y gorffennol<br>▪ Rhoi mwy o bwerau i awdurdodau gymryd camau i ddiogelu asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol<br>▪ Gwella rheolaeth gynaliadwy ar yr amgylchedd hanesyddol<br>▪ Rhoi cofnodion amgylchedd hanesyddol Cymru ar sail fwy diogel<br>▪ Rhoi cyngor ar yr amgylchedd hanesyddol i Weinidogion Cymru drwy sefydlu panel cynghori annibynnol</td><td>Bydd angen i'r CDLl ar y Cyd gyd-fynd â'r Bil a chefnogi newid cadarnhaol yn yr amgylchedd hanesyddol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">LLEOL</td></tr>
<tr><td colspan="2">Menter Treftadaeth Treflun Caergybi (MTT)</td></tr>
<tr><td>Amcanion a Gofynion</td><td>Goblygiadau i’r CDLl ar y Cyd</td></tr>
<tr><td>Mae'r MTT yn gynllun grant adfywio a arweinir gan gadwraeth ac mae'n ffurfio rhan o strategaeth i ddod ag adnewyddiad economaidd i ganol tref Caergybi drwy gadwraeth adeiladau, gan geisio cyflawni'r canlyniadau canlynol:<br>▪ Cadw a gwella cymeriad ac ymddangosiad ardal gadwraeth canol y dref.<br>▪ Dod ag adeiladau hanesyddol yn ôl i ddefnydd priodol a chynaliadwy.</td><td>Gall y CDLl ar y Cyd gefnogi MTT i gyflenwi datblygiadau yng Nghaergybi ac o amgylch yn y dyfodol, a sicrhau bod y manteision sy'n deillio o'r MTT yn cyrraedd mor bell ar draws ardal y</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| ▪ Diogelu cymeriad yr ardal gadwraeth drwy adfer nodweddion pensaernïol a gollwyd.<br>▪ Cynyddu cyfleoedd hyfforddiant mewn sgiliau treftadaeth.<br>▪ Cynyddu cyfranogiad cymunedol; a<br>▪ Gwella dulliau o reoli cadwraeth adeiladau a chynnal a chadw eiddo.<br>Mae'r MTT Caergybi yn rhaglen a fydd yn darparu tua £3.2 miliwn o fuddsoddiad dros y 3 blynedd nesaf i;<br>▪ Ymdrin â nifer o eiddo adfeiliedig ar hyd a lled yr ardal gadwraeth<br>▪ Defnyddio cymorth grant i greu prosiectau enghreifftiol ar gyfer atgyweirio adeiladau hanesyddol a'u hailddefnyddio<br>▪ Yn cael ei arwain gan ansawdd, yn canolbwyntio ar godi safonau trwy warchodaeth briodol ar adeiladau hanesyddol<br>▪ Yn ceisio ymgorffori dull tymor hwy ar gyfer rheoli'r ardal gadwraeth<br>▪ Cynnwys y gymuned wrth godi eu hymwybyddiaeth o werth a chyfraniad yr amgylchedd hanesyddol. | cynllun a thu hwnt ag y bo modd. Gall y CDLl ar y Cyd geisio cyfuno manteision mentrau fel y Menter Treftadaeth Treflun ac Ardaloedd Menter i facsimeiddio'r manteision posibl i gymunedau a'r economi a thwristiaeth. |

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## Economi

| **CENEDLAETHOL** | |
|---|---|
| **Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid - Cynllun Gweithredu i Gymru 2010-15, Llywodraeth Cymru** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Nod y strategaeth yw arfogi pobl ifanc 5-25 oed gyda sgiliau ac agweddau entrepreneuraidd er mwyn eu helpu i wireddu eu potensial. Nod y strategaeth yw cyflawni'r ymrwymiad yn Cymru'n Un i 'greu a datblygu cysylltiadau rhwng entrepreneuriaeth ac addysg'. | Dylai'r CDLl ar y Cyd geisio cyflenwi darpariaethau addysgol cytbwys ar draws ardal y cynllun. |
| **Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth Dwristiaeth 2013-2020** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Gweledigaeth: Bydd Cymru yn darparu'r croeso cynhesaf, o ansawdd rhagorol, gwerth ardderchog am arian a phrofiadau cofiadwy, dilys i bob ymwelydd.<br>Nod: Twristiaeth i dyfu mewn modd cynaliadwy ac i wneud cyfraniad cynyddol i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.<br>Uchelgais: Cynyddu enillion twristiaeth yng Nghymru o 10% neu fwy erbyn 2020.<br>Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar 5 maes allweddol (hyrwyddo brand, datblygu cynnyrch, datblygu pobl, perfformiad proffidiol ac adeiladu lle) ac mae'n canolbwyntio ar:<br>▪ Mwy o westai moethus a gwestai brand<br>▪ Mwy o gyfleusterau lles, megis sbaon<br>▪ Mwy o westai treftadaeth sy'n defnyddio adeiladau hanesyddol ac unigryw<br>▪ Mwy o atyniadau drwy gydol y flwyddyn, gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol<br>▪ Cynnyrch mwy arloesol, anarferol ac unigryw | Gall y CDLl ar y Cyd gefnogi'r strategaeth gyda darpariaethau tir priodol i ddarparu gwell cyfleusterau twristiaeth. |
| **Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: Datblygu Economaidd (2014)** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae'r Nodyn yn rhoi cyngor ar bolisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygu economaidd a nodir ym Mhennod 7 o Bolisi Cynllunio Cymru. Mae'r TAN yn darparu canllawiau i awdurdodau cynllunio lleol ar:<br>▪ Ddatblygu amcanion cynllunio economaidd ar lefel uchel<br>▪ Asesu manteision economaidd datblygiadau newydd<br>▪ Datblygu economaidd a'r economi wledig<br>▪ Paratoi sail dystiolaeth ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol<br>▪ Creu gweledigaeth datblygu economaidd ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol<br>▪ Penderfynu ar y cyflenwad tir cyflogaeth | Bydd angen i'r CDLl ar y Cyd gyd-fynd â'r TAN a throsi amcanion cenedlaethol i lefel leol. |

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

**Tai -** Dim diweddariad - gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, ac Atodiad 3 y Cynllun Adnau AC Chwefror 2015 yn dal yn berthnasol.

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

**Tirwedd -** Dim diweddariad - gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, ac Atodiad 3 y Cynllun Adnau AC Chwefror 2015 yn dal yn berthnasol.

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## Adnoddau Dŵr, Ansawdd a Risg Llifogydd

| **CENEDLAETHOL** | |
|---|---|
| **Strategaeth Ddŵr ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru (2015)** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae'r strategaeth yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru dros gyfnod y cynllun o 20 mlynedd. Y weledigaeth yw::<br><br>"Byddwn yn sicrhau bod Cymru yn parhau i gael amgylchedd dŵr ffyniannus sy'n cael ei reoli mewn modd cynaliadwy er mwyn cefnogi cymunedau iach, busnesau ffyniannus a'r amgylchedd. Rydym am i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf, gwerth am arian, gyda dŵr yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon, yn ddiogel ac yn barchus gan bawb".<br><br>Mae themâu allweddol yn nodi blaenoriaethau'r cynllun, sy'n cynnwys; rheoli'n gynaliadwy ansawdd a maint yr adnoddau dŵr; sicrhau gwasanaeth cadarn; sicrhau fforddiadwyedd; gwarchod a gwella ansawdd dŵr yfed; a rheoli integredig yng nghyswllt dŵr gwastraff a dŵr wyneb. | Mae'r Cynllun yn tynnu sylw at 8 maes blaenoriaeth ar gyfer ymdrin â llygredd gwasgaredig; sy'n cynnwys ystadau diwydiannol; draenio dŵr wyneb o ardaloedd datblygu; a rheoli tir. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi'r camau gweithredu a nodau tymor byr, canolig a hir a chyfredol i ymdrin â'r amcanion a nodwyd o fewn y themâu allweddol. Mae gan y CDLl ar y Cyd y potensial i effeithio ar feysydd blaenoriaeth fel rheoli tir, a draenio dŵr wyneb, a dylai hyn gael ei ystyried yn y broses o gyfeirio datblygiadau newydd. |
| **Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2, Haskoning UK Ltd (2012)** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Traethlin wedi'i ddiweddaru (SMP) 2 yn 2012, sy'n darparu asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig ag esblygiad arfordirol, ac sy'n cyflwyno fframwaith polisi i ymdrin â'r risgiau hyn i bobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae ardaloedd Arfordirol F a G yn ymwneud ag ardal y CDLl ar y Cyd. | Dylai'r CDLl ar y Cyd geisio ategu mesurau i ymdrin â'r materion a risgiau i gymunedau arfordirol presennol a datblygiad yn y dyfodol yn ardal y cynllun. |
| **Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru - Drafft Cychwynnol (2015)** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Pwrpas y Cynllun yw i arwain datblygiad cynaladwy yr ardal forol drwy rolaeth cynaladwy o adnoddau naturiol morol. Mae'n berthnasol i ddyfroedd gyda'r glannau (hyd at 12 morfilltir) a dyfroedd alltraeth (mwy na 12 morfilltir) mewn dogfen sengl. Maint tua'r tir y cynllun yw i ddyfroedd uchel. | Dylai'r CDLl ystyried amcanion a pholisiau'r cynllun ac mae angen i'r Awdurdod Lleol fod yn gwbl ymglymedig drwy'r broses i ymgorffori rheolaeth y môr a'r tir ar yr arfordir. |
| **Cyfarwyddyd Fframwaith y Strategaeth Forol (2008/56/EC) Rhan Tri y Strategaeth Forol: Rhaglen o Fesurau Morol y DU** | |
| | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |

| | |
|---|---|
| Mae' strategaeth yn pennu cyfres gynhwysfawr o fesurau sy'n weithredol ar hyn o bryd a mesurau bwriedig fydd yn helpu i gyflawni Statws Amgylcheddol Da yn ein moroedd erbyn 2020. Mae Strategaeth Forol y DU yn cwmpasu pob un o'r 11 o ddisgrifwyr Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae'r rhain yn cyfeirio at amrywiaeth biolegol, rhywogaethau tramor, pysgod a physgod cregyn sy'n cael eu masnachu, y gadwyn fwyd, ewtroffigedd dynol, cyflwr gwely'r môr, amodau hydrograffig, halogion, halogion mewn pysgod a bwyd môr arall, sbwriel morol a chyflwyno ynni (gan gynnwys sŵn tanfor). | Dylai'r CDL ystyried y mesurau a amlinellir yn y Strategaeth er mwyn fod yn gyson wrth geisio amddiffyn a mwyhau adnoddau morol a bioamrywiaeth. |
| **LLEOL** | |
| **Crynodeb Dalgylch Rheolaeth Ynys Môn, NRW (2015)** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae Crynodeb Dalgylch Rheolaeth Ynys Môn a gynhyrchwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn 2015 yn nodi'r amcanion canlynol:<br>- Atal dirywiad mewn statws<br>- Cyflawni'r amcanion ar gyfer ardaloedd gwarchodedig<br>- Anelu at gyflawni statws cyffredinol dda ar gyfer dyfroedd wyneb a daear<br><br>Nodwyd mesurau lleol i gyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn ac mae'r rhain yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i: rheolaethau allyriadau, ymdrin â llygredd tarddle pwynt, proses arfordirol briodol a rheoli gwaddodion, draenio a rheoli lefel y dŵr, carthu a rheoli silt, gwell llwybrau a chynefinoedd pysgod, gwella llif a lefelau dŵr, rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol, dŵr mwyngloddiau ac adfer tir halogedig, tir cynaliadwy a rheoli morol, lleihau llygredd o danciau septig, llai o lygredd o ollyngiadau carthffosiaeth ac arferion amaethyddol cynaliadwy. | Gall y CDLl ar y Cyd gefnogi cyflenwi nifer o fesurau lleol a amlinellir yn y crynodeb dalgylch, a dylai geisio macsimeiddio'r cyfleoedd i wella ansawdd dŵr a helpu i gyflawni amcanion a nodir yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. |

**ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni**

**Pridd, Mwynau a Gwastraff -** Dim diweddariad - gwybodaeth flaenorol a ddarparwyd yn yr Adroddiad Cwmpasu AC mis Gorffennaf 2011, ac Atodiad 3 y Cynllun Adnau AC Chwefror 2015 yn dal yn berthnasol.

## ATODIAD3: Diweddariad Gwaelodlin ac Adolygiad o Gynlluniau a Rhaglenni

## Trafnidiaeth

| **CENEDLAETHOL** | |
|---|---|
| **Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Cymru (Dogfen Ymgynghori Drafft, 2015)** | |
| **Amcanion a Gofynion** | **Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd** |
| Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol wedi cael ei ddatblygu yn unol â pholisïau ac amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer trafnidiaeth fel a nodir yn Strategaeth Drafnidiaeth Cymru[1], ac mae'n darparu'r fframwaith cyffredinol i nodi, asesu, cynllunio, darparu a gwerthuso ymyriadau trafnidiaeth..<br><br>Y pum blaenoriaeth allweddol ar gyfer y Cynllun yw:<br>▪ Twf economaidd: cefnogi twf economaidd a diogelu swyddi gyda ffocws penodol ar y Ddinas-Ranbarthau, Ardaloedd Menter a Pharthau Twf Lleol<br>▪ Mynediad i gyflogaeth: lleihau anweithgarwch economaidd drwy ddarparu mynediad diogel a fforddiadwy i gyflogaeth<br>▪ Ymdrin â thlodi: macsimeiddio'r cyfraniad y gall gwasanaethau trafnidiaeth effeithiol a fforddiadwy ei wneud i ymdrin â thlodi a thargedu buddsoddiad i gefnogi gwelliannau yn hygyrchedd ar gyfer y cymunedau mwyaf difreintiedig<br>▪ Teithio a diogelwch cynaliadwy: annog teithio mwy diogel, iachach a chynaliadwy<br>▪ Mynediad at wasanaethau: cysylltu cymunedau a galluogi mynediad i wasanaethau allweddol<br><br>Cyflwynwyd nifer o ymyriadau dan y pynciau, a gweler amcanion y rhain isod:<br>▪ Ffyrdd - gweithredu rhwydwaith ffyrdd diogel ac effeithlon a gwella mynediad i gyflogaeth<br>▪ Cludo Nwyddau - sicrhau bod gofynion cludo nwyddau yn cael ystyriaeth lawn wrth ddatblygu pob ymyriad trafnidiaeth<br>▪ Teithio llesol - cefnogi gweithrediad Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013<br>▪ seilwaith a gwasanaethau rheilffyrdd - cefnogi'r gwaith o gyflenwi cynlluniau seilwaith ymrwymedig a sicrhau gwasanaethau rheilffordd o ansawdd da yng Nghymru drwy reolaeth effeithiol Masnachfraint Cymru a'r Gororau, gan adeiladu perthynas waith gadarnhaol gyda gweithredwyr masnachfraint eraill sy'n gwasanaethu Cymru a nodi blaenoriaethau ar gyfer y fasnachfraint nesaf<br>▪ Cludiant bws a chymunedol - parhau i ddyrannu cyllid i gefnogi gwasanaethau cludiant cyhoeddus<br>▪ Plant a phobl ifanc - sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cymryd rhan wrth benderfynu ar flaenoriaethau | Bydd y CDLl ar y Cyd yn cynllunio ar gyfer datblygiad yr ardal yn y dyfodol sydd â'r potensial i effeithio'n sylweddol ar yr ardaloedd blaenoriaeth a amlinellir yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol, yn gadarnhaol ac yn negyddol. Bydd angen i'r CDLl ar y Cyd geisio lleoli datblygiadau newydd i facsimeiddio cyfleoedd i wella hygyrchedd. |

[1] Cymru'n Un: Cysylltu'r Genedl - Strategaeth Drafnidiaeth Cymru (2008) [ar-lein] http://wales.gov.uk/docs/det/publications/140909-transport-strategy-en.pdf [cyrchwyd Ionawr 2015]

<table>
<tr><td>

ar gyfer trafnidiaeth
- Gwybodaeth a dewisiadau trafnidiaeth – cefnogi gwelliannau i farchnata a gwybodaeth
- Porthladdoedd - darparu cysylltedd gwell, a sicrhau bod gan Gymru gysylltiadau cludiant o ansawdd uchel a'i bod wedi'i chysylltu yn dda â gweddill y DU ac yn rhyngwladol.
- Cludiant awyr - darparu cysylltedd gwell, a sicrhau bod gan Gymru gysylltiadau cludiant o ansawdd uchel a'i bod wedi'i chysylltu yn dda â gweddill y DU ac yn rhyngwladol
- Cynllun bathodyn glas – cadw gweithrediad y cynllun Bathodyn Glas o dan adolygiad
- Trafnidiaeth a metro Integredig - darparu cysylltedd gwell, gwella hygyrchedd a diogelwch hybiau a gwasanaethau trafnidiaeth, gan alluogi gwell mynediad at wybodaeth ac integreiddio gwasanaethau, tocynnau ac amserlennu, a sicrhau gweithrediad effeithiol ac effeithlon o'r rhwydwaith trafnidiaeth
- Arloesedd, ymchwil a datblygu tystiolaeth - cefnogi arloesedd a'r broses o gyflwyno technoleg newydd, a datblygu'r sail dystiolaeth i lywio atebion trafnidiaeth gwell.

Mae'r ymyriadau hefyd wedi eu mapio yn adran 4 o'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol.
</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">LLEOL</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Gogledd Cymru [Drafft ar gyfer Ymgynghori] Hyder Consulting (UK) Ltd. (2014)</td></tr>
<tr><td>Amcanion a Gofynion</td><td>Goblygiadau i'r CDLl ar y Cyd</td></tr>
<tr><td>

Yn cwmpasu ardaloedd gweinyddol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Gweledigaeth: Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru yn anelu at gael gwared ar rwystrau i dwf economaidd, ffyniant a lles drwy gyflwyno rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, cynaliadwy, fforddiadwy ac effeithiol.

Mae'r Cynllun yn nodi'r materion trafnidiaeth allweddol canlynol ar gyfer Gogledd Cymru:
- Gallu'r coridorau cefnffyrdd a rheilffyrdd strategol i ddarparu'r cysylltedd da angenrheidiol, ar gyfer pobl a nwyddau, o fewn Gogledd Cymru, i'r porthladdoedd ac i weddill y DU i gefnogi'r economi a swyddi, gan gynnwys twristiaeth;
- Diffyg gwydnwch y rhwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd i ddigwyddiadau wedi'u cynllunio a heb eu cynllunio, gan gynnwys tywydd eithafol;
- Yr angen am fynediad da at a rhwng y tair Ardal Fenter yng Ngogledd Cymru
- Diffyg dewisiadau amgen hyfyw a fforddiadwy, yn hytrach na'r car, i gael mynediad i safleoedd cyflogaeth allweddol a gwasanaethau eraill; ac
- Angen am gysylltiadau ffordd da i / o'r rhwydwaith cefnffyrdd i mewn i'r ardaloedd gwledig i helpu i gadw hyfywedd busnesau lleol a chefnogi'r iaith a'r diwylliant Cymraeg.

Canlyniadau (nid yn nhrefn eu blaenoriaeth):
</td><td>Bydd y CTLl ar y Cyd Drafft pan gaiff ei fabwysiadu yn darparu fframwaith lefel uwch ar gyfer cyflwyno gwelliannau trafnidiaeth yn y dyfodol, gall y CDLl ar y Cyd geisio macsimeiddio'r manteision sy'n deillio o'r CTLl ar y Cyd ar lefel leol a cheisio cyfuno manteision mentrau fel y CTLl ar y Cyd, MTT ac Ardaloedd Menter i sicrhau'r buddiannau mwyaf posibl i gymunedau a'r economi a thwristiaeth.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| ▪ Cysylltiadau i Gyrchfannau Allweddol a Marchnadoedd: cymorth ar gyfer twf economaidd trwy wella effeithlonrwydd, dibynadwyedd, gwydnwch, a chysylltedd symudiad, gan gynnwys cludo nwyddau, o fewn a rhwng Gogledd Cymru a rhanbarthau a gwledydd eraill (gyda ffocws arbennig ar hygyrchedd i'r ardaloedd menter a gwelliant ym mywiogrwydd a hyfywedd trefi a chanolfannau allweddol eraill)<br>▪ Mynediad i Gyflogaeth: darparu mynediad cynhwysol a fforddiadwy i gyflogaeth a hyfforddiant (gan ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig)<br>▪ Mynediad i Wasanaethau: Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles drwy fynediad cynhwysol a fforddiadwy i addysg, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau allweddol eraill a chyfleusterau (gan ganolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig)<br>▪ Cynyddu Lefel Cerdded a Beicio: ar gyfer teithio angenrheidiol a hamdden, gan drigolion ac ymwelwyr<br>▪ Gwell Diogelwch a Sicrwydd: diogelwch gwirioneddol a chanfyddedig teithio trwy bob dull<br>▪ Buddiannau a Llai o Effeithiau ar yr Amgylchedd: Bydd y potensial ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth i effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig lleol a byd-eang wedi cael ei facsimeiddio a'r effeithiau negyddol wedi eu lleihau, gan gynnwys addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. | |

# ATODIAD 4: Asesiad o Amcanion y CDLl

| MATRICS ASESU AMCANION Y CDLl | | AMCANION AC | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AMCANION Y CDLl | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| 1 | Darparu ar gyfer ystod ac amrywiaeth o dai a deiliadaeth i ddiwallu'r gofyniad tai trefol a gwledig ac anghenion amrywiol poblogaeth leol sy'n cynyddu ac yn heneiddio, gan ddarparu'r tai mewn mannau lle mae pobl yn dymuno byw. | +/- | ✓ | +/- | +/- | +/- | ✓ | ✓ | +/- | +/- | ✓ | +/- |
| 2 | Cydlynu'r ddarpariaeth tai â buddsoddi mewn cyflogaeth a gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys cyfleusterau iechyd, er mwyn sicrhau bod aneddiadau'n gynaliadwy, yn hygyrch a'u bod yn diwallu amrywiol anghenion eu cymunedau. | +/- | ✓ | ✓ | ✓ | +/- | ✓ | ✓ | +/- | +/- | ✓ | +/- |
| 3 | Amddiffyn, cryfhau a hybu defnyddio'r Gymraeg a'i diwylliant fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | +/- | +/- | 0 | 0 | +/- | 0 |
| 4 | Annog cymunedau diogel a saff a lliniaru eu hofnau ynglŷn â throseddu | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 |
| 5 | Sicrhau bod tir ac eiddo'n cael eu diogelu ac yn cael eu dynodi i ddenu buddsoddiad, cadw a chynyddu nifer y swyddi cynhenid a chreu cyflogaeth o safon, gan hyrwyddo gweithio gartref lle bo hynny'n briodol. | +/- | ✓ | +/- | +/- | +/- | ✓ | ✓ | +/- | +/- | +/- | +/- |
| 6 | Amrywio sylfaen economaidd cefn gwlad a'r trefi drwy ddarparu fframwaith cynllunio cadarnhaol ar gyfer datblygu twristiaeth, diwydiannau creadigol, sector gofal, a diwydiannau seiliedig ar wybodaeth, peirianneg arbenigol a'r sector ynni, gan gynnwys technolegau ynni adnewyddadwy. | +/- | ✓ | ✓ | +/- | ✓ | ✓ | ✓ | +/- | ✓ | ✓ | +/- |
| 7 | Darparu safleoedd sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o anghenion addysgu a hyfforddi. | +/- | ✓ | +/- | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | +/- | +/- | ✓ | +/- |
| 8 | Bydd nifer y graddedigion lleol sy’n byw a gweithio yn yr ardal yn uchel. | 0 | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 |
| 9 | Hybu canol trefi bywiog a bwrlwmus sydd wedi ailddarganfod eu pwrpas fel canolfannau gwaith a gwasanaethau, ac sy'n fannau bywiog a deniadol i drigolion ac i ymwelwyr | 0 | ✓ | +/- | +/- | +/- | ✓ | ✓ | +/- | +/- | ✓ | +/- |
| 10 | Annog a hybu sector twristiaeth drwy'r flwyddyn sy'n gynaliadwy ac yn garedig wrth yr amgylchedd ledled yr ardal a chyda sylfaen lety da'n ei gefn iddo | ✓ | ✓ | ✓ | +/- | +/- | ✓ | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ |
| 11 | Lliniaru ac addasu i effeithiau newid hinsawdd trwy, e.e. leihau risg llifogydd, ddylunio a lleoli adeiladau’n briodol, sefydlu patrwm anheddiad a thwf sy’n gostwng cynnyrch nwyon tŷ gwydr | +/- | ✓ | ✓ | 0 | 0 | +/- | +/- | ✓ | ✓ | +/- | ✓ |
| 12 | Cyfrannu'n sylweddol at leihau nwyon tŷ gwydr drwy gynorthwyo i ddatblygu technolegau ynni adnewyddadwy priodol, e.e. tyrbinau gwynt, pŵer dŵr | +/- | ✓ | ✓ | 0 | 0 | +/- | +/- | ? | ✓ | +/- | ✓ |
| 13 | Gwneud defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol priodol, ac adeiladau segur neu rai sydd ddim yn cael eu defnyddio’n llawn, lle mae’r rhain ar gael | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | +/- |
| 14 | Sicrhau cymunedau gwledig dirgrynol sy’n llefydd byw a gweithio | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 |
| 15 | Gwarchod a chyfoethogi tirwedd yr ardal gan gynnwys yr amgylchedd gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | +/- | +/- | ✓ | ✓ | +/- | ✓ |
| 16 | Atal colli bioamrywiaeth gan ei chryfhau a gwella'i chysylltedd ledled yr ardal, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd sy'n flaenoriaeth yn lleol, a chan wella ar yr un pryd allu pobl i fwynhau a deall bioamrywiaeth drwy eu hannog i ymweld â safleoedd o ddiddordeb cadwriaethol; ar yr amod bod modd diogelu eu dyfodol ecolegol. | ✓ | ✓ | +/- | 0 | ✓ | +/- | +/- | ✓ | ✓ | +/- | +/- |
| 17 | Sicrhau bod y seilwaith ffisegol a chymunedol yn ddigonol a'i fod wedi'i gynllunio e.e. rhaid darparu ffyrdd, cyfleusterau cymunedol, cyfleusterau gofal sylfaenol, cartrefi gofal ychwanegol, ysgolion, band eang, ac ati, ochr yn ochr â datblygiadau newydd. | +/- | ✓ | +/- | ✓ | +/- | ✓ | ✓ | +/- | +/- | ✓ | +/- |
| 18 | Darparu ar gyfer rheoli gwastraff ac adennill adnoddau mewn ffordd gynaliadwy, gan geisio sicrhau cyn lleied o amharu ar yr amgylchedd, ar iechyd pobl, ar nodweddion cymdeithasol ac economaidd, a sicrhau cymaint o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd â phosib, gan ddiwallu anghenion cymunedau a busnesau. | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | +/- | +/- | ✓ | ✓ | +/- | ✓ |
| 19 | Diwallu'r angen lleol a rhanbarthol am fwynau mewn ffordd gynaliadwy | +/- | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ |
| 20 | Gwella llwybrau at gyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg/ hyfforddi a hynny ar droed, ar feic ac ar gludiant cyhoeddus, a thrwy hynny, leihau nifer y teithiau mewn ceir preifat. | +/- | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | ✓ | +/- | ✓ | ✓ | ✓ |

**ATODIAD 4: Asesiad o Amcanion y CDLl**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ✓ | Amcanion yn Gydnaws | ✗ | Amcanion yn anghydnaws | ? | Ansicrwydd | +/- | Amrediad o ganlyniadau positifa negyddol posib | 0 | Dim perthynas |

| | AMCANION AC |
|---|---|
| **1** | Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd |
| **2** | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant ac iechyd a lles cymunedol |
| **3** | Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu |
| **4** | Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg |
| **5** | Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol |
| **6** | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol |
| **7** | Darparu tai cynaladwy yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol |
| **8** | Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun |
| **9** | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu |
| **10** | Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth a rhyngrwyd da i gefnogi'r gymuned a'r economi |
| **11** | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr ac isafu'r risg o lifogydd |

# ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

**ALLWEDD ARFARNU**






| | |
|---|---|
| ++ | **Positif Iawn** |
| + | **Positif Llai** |
| 0 | **Ardrawiad Niwtral** |
| +/- | **Yn ddibynnol ar weithredu'r opsiwn** |
| - | **Negyddol Llai** |
| -- | **Negyddol Iawn** |

**AMCANION AC**

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant ac iechyd a lles cymunedol |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu |
| 4 | **Yr Iaith Cymraeg** | Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg |
| 5 | **Treftadaeth / Diwylliant** | Gwarchod, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | Darparu tai cynaladwy yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol |
| 8 | **-Tirwedd a threfwedd** | Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth a rhyngrwyd da i gefnogi'r gymuned a'r economi |
| 11 | **Dŵr a Pherygl llifogydd** | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr ac isafu'r risg o lifogydd |

# ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o’r Opsiynau Gofodol

**Asesiad o'r Opsiynau Gofodol**

| AMCANION AC | Opsiwn D1 – Ffocws ar Fangor a’r Prif Aneddiadau Allweddol  | | Opsiwn D2 – Canolbwyntio ar Fangor, y Prif Aneddiadau Allweddol a’r Ardaloedd Ffocws Cynradd ac Eilradd a’u dalgylchoedd  | | Opsiwn D3 – Dosbarthiad cymesur i ardaloedd Trefol a Gwledig  | | Opsiwn D3a – Ffocws ar ardaloedd gwledig  | | Opsiwn D4 – Canolbwyntio ar ddatblygiadau defnydd cymysg mawr  | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Sylwebaeth** | | **Sylwebaeth** | | **Sylwebaeth** | | **Sylwebaeth** | | **Sylwebaeth** |
| **1. Bioamrywiaeth** | - | Yn gyffredinol, bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli a darnio cynefinoedd yn uniongyrchol gan ddatblygiadau. Mae cynnydd mewn datblygu yn debygol o arwain at golli cynefinoedd ac yn sgil hyn, bydd bioamrywiaeth yn yr ardal yn debygol o leihau. Fodd bynnag, dylid cofio bod llawer yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â’r ardaloedd gwarchodedig ac asedau bioamrywiaeth. | - | Yn gyffredinol, bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli a darnio cynefinoedd yn uniongyrchol gan ddatblygiadau. Mae cynnydd mewn datblygu yn debygol o arwain at golli cynefinoedd ac yn sgil hyn, bydd bioamrywiaeth yn yr ardal yn debygol o leihau. Fodd bynnag, dylid cofio bod llawer yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â’r ardaloedd gwarchodedig ac asedau bioamrywiaeth.<br><br>Dylid nodi y caiff safleoedd tir | - | Yn gyffredinol, bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli a darnio cynefinoedd yn uniongyrchol gan ddatblygiadau. Mae cynnydd mewn datblygu yn debygol o arwain at golli cynefinoedd ac yn sgil hyn, bydd bioamrywiaeth yn yr ardal yn debygol o leihau. Fodd bynnag, dylid cofio bod llawer yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â’r ardaloedd gwarchodedig ac asedau bioamrywiaeth.<br><br>Fodd bynnag, yr Opsiwn hwn sy’n debygol o gael yr ardrawiad | - | Yn gyffredinol, bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli a darnio cynefinoedd yn uniongyrchol gan ddatblygiadau. Mae cynnydd mewn datblygu yn debygol o arwain at golli cynefinoedd ac yn sgil hyn, bydd bioamrywiaeth yn yr ardal yn debygol o leihau. Fodd bynnag, dylid cofio bod llawer yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â’r ardaloedd gwarchodedig ac asedau bioamrywiaeth.<br><br>Yn gyffredinol mae | - | Yn gyffredinol, bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli a darnio cynefinoedd yn uniongyrchol gan ddatblygiadau. Mae cynnydd mewn datblygu yn debygol o arwain at golli cynefinoedd ac yn sgil hyn, bydd bioamrywiaeth yn yr ardal yn debygol o leihau. Fodd bynnag, dylid cofio bod llawer yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â’r ardaloedd gwarchodedig a’r asedau bioamrywiaeth. |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o’r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Yn gyffredinol, bydd yr opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn y defnydd o safleoedd tir glas a fydd yn lleihau amrywiaeth a maint y cynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau bywyd gwyllt.<br><br>Dylid nodi y caiff safleoedd tir llwyd ym Mangor a’r Prif Aneddiadau Allweddol eu datblygu yn ogystal. Efallai bod nifer o’r safleoedd hyn â gwerth bioamrywiaeth iddynt. Fodd bynnag, mae effaith datblygu safleoedd tir llwyd ar fioamrywiaeth yn dibynnu ar werth ecolegol y tir a’r ardal sy’n ei amgylchynu.<br><br>Fodd bynnag, gan fod tir wedi’i ddynodi ac ardaloedd o werth bioamrywiaeth uchel fel arfer wedi’u lleoli yng nghefn gwlad, mae’n debygol y bydd yr ardrawiad yn llai nag opsiynau eraill.<br><br>Dylai’r opsiwn hwn geisio sicrhau bod mesurau lliniaru wedi’u sefydlu er mwyn lleihau’r ardrawiad, megis darparu isadeiledd gwyrdd a chynefinoedd newydd. | | llwyd ym Mangor a’r Prif Aneddiadau Allweddol a’r Ardaloedd Ffocws Cynradd ac Eilaidd a’u dalgylchoedd eu datblygu yn ogystal. Efallai bod nifer o’r safleoedd hyn â gwerth bioamrywiaeth iddynt. Fodd bynnag, mae effaith datblygu safleoedd tir llwyd ar fioamrywiaeth yn dibynnu ar werth ecolegol y tir a’r ardal sy’n ei amgylchynu.<br><br>Dylai’r opsiwn hwn geisio sicrhau bod mesurau lliniaru wedi’u sefydlu er mwyn lleihau’r ardrawiad, megis darparu isadeiledd gwyrdd a chynefinoedd newydd. | | lleiaf ar fioamrywiaeth. Gan y bydd pob anheddiad, gan gynnwys y prif drefi a phentrefi, yn debygol o dderbyn nifer llai o ddatblygiadau, mae mwy o debygolrwydd y gellir osgoi ardrawiadau ar asedau bioamrywiaeth, h.y. gallai dosbarthiad y datblygiad arwain at golli llai o fioamrywiaeth. | | canolbwyntio datblygiadau mewn ardaloedd gwledig yn debygol o gael mwy o ardrawiad negyddol gan fod mwy o asedau bioamrywiaeth i’w cael yng nghefn gwlad. Mae llawer o ardaloedd gwarchodedig yn Ardal y Cynllun sydd wedi’u dynodi oherwydd eu gwerth bioamrywiaeth ac maent yn ymestyn dros ardaloedd eang.<br><br>Fodd bynnag, mae’r opsiwn hwn yn golygu bod datblygiad yn cael ei wasgaru ar draws yr ardal a gallai’r gwasgariad arwain at lai o diroedd bioamrywiaeth eang yn cael eu colli. Yn ogystal, bydd datblygu yn debygol o fod ar raddfa lai sy’n golygu llai o ardrawiad ar asedau.<br><br>Dylai’r opsiwn hwn geisio sicrhau bod mesurau lliniaru wedi’u sefydlu er mwyn lleihau’r ardrawiad, megis darparu isadeiledd gwyrdd a chynefinoedd newydd. | | Bydd yr opsiwn hwn yn debygol o arwain at ehangu canolfannau cyflogaeth allweddol a bydd yn arwain yn gyffredinol at gynnydd yn y defnydd o safleoedd tir glas a fydd yn lleihau amrywiaeth a maint y cynefinoedd bywyd gwyllt a rhywogaethau bywyd gwyllt. Dylai safleoedd datblygu mawr allu integreiddio’r mesurau gwella bioamrywiaeth a dylai’r mesurau lliniaru helpu i ddiogelu’r asedau sy’n bodoli. |
| **2. Cymuned** | - + | Yn gyffredinol, byddai’r opsiwn hwn yn cael effaith gadarnhaol a negyddol ar hyfywdra cymunedol, | - + | Yn debyg i Opsiwn D1. Fodd bynnag, mae’r effeithiau yn debygol o fod i raddau llai gan y byddai rhywfaint o dwf | + | Yn gyffredinol, byddai’r opsiwn hwn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar hyfywdra cymunedol, cydlyniad | + | Byddai gwasgaru datblygiadau ar draws Ardal y Cynllun gan gynnwys cefn gwlad yn integreiddio’r boblogaeth | - + | Mae’r opsiwn hwn yn darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiadau defnydd cymysg a chydbwysedd |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o’r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **ac lec hyd** | | | cydlyniad cymunedol ac iechyd a lles cymunedol yn holl ardal y Cynllun<br><br>Bydd yr opsiwn hwn yn debygol o arwain at rai effeithiau buddiol ym Mangor a’r Prif Aneddiadau Allweddol ac mae’r pwyntiau a ganlyn yn berthnasol:<br>i) Byddai canoli datblygiad yma yn lleoli tai yn agos at wasanaethau a chyfleusterau allweddol y gellir cael mynediad atynt drwy ddulliau trafnidiaeth cynaliadwy megis beicio a cherdded, gan gyfrannu at welliannau iechyd. Yn ogystal, byddai datblygiad wedi’i leoli ger y rhwydwaith cludiant cyhoeddus gan alluogi trigolion i gael mynediad at fwynderau yn rhywle arall.<br>ii) Gallai lleoli datblygiad yn agos at wasanaethau allweddol helpu i sicrhau bod gwasanaethau yn aros yn hyfyw.<br>iii) Mae’r opsiwn hwn yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddatblygwyr gyfrannu tuag at isadeiledd a chyfleusterau cymunedol er mwyn mynd i’r afael ag anghenion cymdeithasol ac economaidd.<br>iv) Gall tir llwyd o fewn | | | yn cael ei ddosbarthu tu hwnt i’r prif aneddiadau allweddol gan adlewyrchu cymeriad gwledig yr ardal. | | cymunedol ac iechyd a lles cymunedol yn holl ardal y Cynllun.<br><br>Gallai’r opsiwn hwn leihau anghydraddoldebau drwy hwyluso dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiad yn nhermau gofodol. Mae’n caniatáu datblygiad newydd cyfyngedig, yn enwedig tai yn y mwyafrif o aneddiadau ac yn cyfrannu at dwf organig yr anheddle na fydd wedyn yn effeithio’n andwyol ar hyfywdra cymunedol.<br><br>Er y byddai gwasgaru datblygiad yn gallu lleihau cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at isadeiledd a chyfleusterau cymunedol (e.e. tai fforddiadwy, mannau agored cyhoeddus, gwelliannau i gludiant ac ati) bydd hyn yn ddibynnol ar nifer y tai a gaiff eu hadeiladu. Os datblygir digon o dai, gall yr opsiwn hwn arwain at ddigon o adfywio neu gyfraniadau gan ddatblygwyr i wella’r ddarpariaeth gwasanaeth iechyd, e.e. cyfleusterau meddygol a llwybrau beicio neu gyfleusterau chwaraeon. | | wledig gan ganiatáu twf ymhob ardal fel bo'r angen. Byddai hyn yn gymorth i leihau gwahaniaethau rhwng ardaloedd trefol a gwledig.<br><br>Byddai’r opsiwn hwn yn creu cyfleusterau cymunedol ac addysg mwy hygyrch yn ogystal â chyfleoedd cyflogaeth gan ddarparu tai lle y mae eu hangen. Byddai hyn, yn ei dro, yn lleihau’r allfudo ymysg pobl ifanc gan greu cymunedau mwy cytbwys. Fodd bynnag, ystyriaeth bwysig yw bod buddion posib yr opsiwn hwn yn dibynnu ar leoliadau’r safleoedd am na fydd nifer o leoliadau gwledig efallai o fewn ardaloedd gwasanaethau iechyd allweddol na’r rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus.<br><br>Byddai lleoli tai mewn ardaloedd gwledig yn gwella mynediad at dir glas a chefn gwlad. Byddai hyn, yn ogystal â’r ffaith bod ansawdd aer yn well yn gyffredinol yng nghefn gwlad, yn gwella iechyd y boblogaeth.<br><br>Ar nodyn mwy negatif, fodd bynnag, oherwydd natur wasgaredig y datblygiad tai, mae’n annhebygol y byddai’r opsiwn hwn yn arwain at adfywio digonol neu at gael | | | priodol rhwng tai, manwerthu a chyfleusterau cymunedol. Yn ddibynnol ar faint y datblygiad, gallai’r estyniadau mawr hyn ar gyfer dibenion cymysg arwain at greu cymunedau cynaliadwy newydd.<br><br>Yn ogystal, byddai datblygiadau defnydd cymysg yn rhoi cyfleoedd i ddarparu gofod hamdden fel rhan o’r datblygiad. Byddai hyn, yn ogystal â darparu cyfleusterau gofal iechyd yn gallu arwain at effeithiau buddiol ar iechyd y boblogaeth.<br><br>Fodd bynnag, gallai estyniadau mawr newydd, yn dibynnu ar eu gweithrediad, newid cymeriad aneddiadau presennol yn ogystal, yn enwedig os oes gan y dref boblogaeth o faint cymharol fychan. Yn y pen draw mae’r effaith yn dibynnu ar faint y datblygiad mewn perthynas â'r anheddiad presennol yn ogystal â’r amrediad o wasanaethau a ddarperir.<br><br>Yn ogystal, gan nad yw datblygiad yn wasgaredig ar draws y Sir, nid yw'r opsiwn hwn yn gwneud llawer o ran |

# ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | aneddiadau trefol fel hyn, megis adeiladau gwag fod yn ganolbwynt ar gyfer trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Efallai y byddai datblygu tiroedd ac adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen yn gymorth i leihau'r potensial ar gyfer trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hyn.<br><br>Ar y llaw arall, mae'r opsiwn hwn yn debygol o gael yr effeithiau andwyol a ganlyn:<br><br>i) Mae prinder datblygiad a buddsoddiad mewn ardaloedd gwledig yn debygol o waethygu anghydraddoldebau rhwng cymunedau trefol a gwledig. Bydd hyfywdra a bywiogrwydd cymunedau gwledig yn cael eu heffeithio'n andwyol oherwydd bydd datblygiad yn gyfyngedig yn yr ardaloedd hyn.<br>ii) Byddai datblygiad cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys prinder darpariaeth tai fforddiadwy, yn debygol o arwain at gynnydd mewn allfudo yn enwedig ymysg grwpiau | | | | | | | digon o gyfraniadau gan ddatblygwyr i ddarparu cyfleusterau iechyd a chyfleusterau cymunedol. | | | cadw cymeriad a chydlyniad cymunedol mewn aneddiadau eraill, ac felly byddai'n cael effaith negyddol ar fwyafrif y boblogaeth. O fewn yr aneddiadau hyn, gallai prisiau tai gynyddu gan arwain at bobl yn allfudo yn enwedig pobl ifanc a theuluoedd ifanc. Byddai hyn yn y pen draw yn arwain at newid yn strwythur cymdeithasol a demograffig trefi a phentrefi. |

# ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o’r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | oedran iau. Byddai hyn yn golygu prinder amrywiaeth cymdeithasol a demograffig yn yr ardaloedd hyn, ac felly’n effeithio ar gymeriad presennol eu cymuned. Yn ei dro, gallai hyn effeithio ar hyfywdra busnesau a chyfleusterau cymunedol yn yr ardaloedd hyn, gan leihau hygyrchedd i weddill y trigolion.<br>iii) Gallai datblygiadau dwysedd uchel o fewn ardaloedd trefol gael effeithiau negyddol o ran sgil effeithiau'r adeiladu ar iechyd (yn enwedig llygredd sŵn) a gordyrru posib a straen ar yr isadeiledd presennol. | | | | | | | | | | |
| **3. Newid Hinsawdd** | + | | Mae cynnydd cyffredinol mewn datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau yn ogystal ag o’r traffig newydd a grëir.<br><br>Yn ogystal, mae ardaloedd eang, yn enwedig o fewn rhai o’r prif aneddiadau, e.e. Pwllheli sydd mewn perygl o lifogydd.<br><br>Yn ogystal, gallai’r diffyg tai yn ardal ehangach y Cynllun yn sgil yr opsiwn hwn orfodi rhai o’r bobl ifanc a | + | | Mae cynnydd cyffredinol mewn datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau yn ogystal ag o’r traffig newydd a grëir.<br><br>Fodd bynnag, yn debyg i Opsiwn D1, dylai’r opsiwn hwn alluogi lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gan nad oes cymaint o angen teithio am y byddai’r rhan fwyaf o’r tai wedi’u lleoli’n agos i’r prif aneddiadau i gael cyflogaeth, siopau, gwasanaethau a chyfleusterau eraill. Fodd | +/- | Mae cynnydd cyffredinol mewn datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau yn ogystal ag o’r traffig newydd a grëir.<br><br>Fodd bynnag, gallai’r opsiwn hwn alluogi lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gan nad oes cymaint o angen teithio am y byddai’r rhan fwyaf o’r tai wedi’u lleoli’n agos i’r prif ardaloedd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau eraill.<br><br>Er gwaethaf hyn, byddai nifer o | +/- | Mae cynnydd cyffredinol mewn datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau yn ogystal ag o’r traffig newydd a grëir.<br><br>Bydd maint yr effaith yn dibynnu ar leoliad cyflogaeth. Os yw’r rhan fwyaf o’r cyfleoedd cyflogaeth yn aros o fewn y prif aneddiadau, sy’n debygol, yna bydd angen i gyfran uwch o bobl deithio’n bellach mewn car at wasanaethau a chyflogaeth gan arwain at fwy o allyriadau | + | | Mae cynnydd cyffredinol mewn datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau yn ogystal ag o’r traffig newydd a grëir.<br><br>Fodd bynnag, yn gyffredinol byddai datblygiad defnydd cymysg fyddai’n cynnwys tai, gwasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth yn caniatáu i drigolion newydd a rhai presennol gael gwell mynediad at swyddi a gwasanaethau. Byddai hyn yn lleihau’r |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | theuluoedd lleol symud allan o'r ardal tra byddant yn parhau i weithio yng Ngwynedd a Môn, a bydd hyn yn arwain at batrymau teithio anghynaliadwy. Gallai hyn gynyddu'r angen i deithio a chynyddu'r pellter teithio gydag effeithiau niweidiol ar ansawdd yr aer.<br><br>Ar y llaw arall, byddai canoli'r datblygiadau ym Mangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol yn golygu y byddai trigolion yn nes at wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth, gan leihau'r angen i deithio. Gall hyn hwyluso datblygu rhwydwaith cludiant cynaliadwy. Yn ei dro, gallai hyn gynorthwyo i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â chludiant preifat.<br><br>Yn ogystal, byddai canoli twf yn y prif aneddiadau trefol yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael cynlluniau ynni adnewyddadwy gan y dylai datblygiad dwysedd uchel arwain at effeithlonrwydd ynni lefel uchel, am ei fod yn fwy tebygol o fod yn fwy hyfyw'n ariannol i integreiddio cynlluniau o'r fath mewn datblygiadau mawr yn hytrach nac mewn | | bynnag, ni fyddai'r opsiwn hwn yn arwain at gymaint o leihad yn yr angen i deithio o gymharu ag Opsiwn D1.<br><br>Yn ogystal, gallai canoli twf yn y prif aneddiadau trefol a'u dalgylchoedd roi mwy o gyfleoedd i gael cynlluniau ynni adnewyddadwy gan y dylai datblygiad dwysedd uchel arwain at effeithlonrwydd ynni lefel uchel, am ei fod yn fwy tebygol o fod yn fwy hyfyw'n ariannol i integreiddio cynlluniau o'r fath mewn datblygiadau mawr yn hytrach nac mewn nifer o gynlluniau llai.<br><br>Felly, yn gyffredinol ystyrir bod yr opsiwn hwn â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol o ran rheoli a lleihau'r ardrawiadau yn sgil newid hinsawdd. | | drigolion y tai newydd hyn yn parhau i orfod teithio i drefi mawr i weithio ac i gael gwasanaethau allweddol. Felly, dylai'r Cynllun sicrhau bod unrhyw dai a adeiladir mewn ardaloedd gwledig yn cael eu lleoli'n agos at wasanaethau a chyfleusterau.<br><br>Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd i safleoedd gael eu datblygu ar raddfa fawr yn enwedig ar dir glas, a gallai hyn gynyddu'r darbodion maint y gellir eu cyflawni o ran integreiddio technolegau sy'n ynni effeithlon i raddau llawer helaethach nag Opsiwn D1 a D2. Ar y llaw arall, efallai y bydd yn anodd ymgorffori cynlluniau ynni effeithlon ar safleoedd llai gan y gellid cael anawsterau yn seiliedig ar hyfywdra ariannol integreiddio cynlluniau o'r fath.<br><br>Byddai'r patrwm datblygu mwy gwasgaredig a gynigir gan yr opsiwn hwn yn cyfrannu tuag at wella ansawdd yr aer gan y dylai helpu i osgoi creu ardaloedd crynodol o ansawdd aer gwael. | | nwyon tŷ gwydr.<br><br>Yn ogystal â hyn, gall yr opsiwn hwn fod yn wannach o ran hwyluso cynlluniau ynni adnewyddadwy gan y byddai datblygiad ar raddfa fechan, fel y ceid yn yr opsiwn hwn, yn llai tebygol o gyfiawnhau datblygu cynlluniau o'r fath.<br><br>Ar yr ochr gadarnhaol, dylai patrwm datblygiad gwasgaredig a gyflwynir yn yr opsiwn hwn gyfrannu tuag at wella ansawdd yr aer a dylai helpu i osgoi creu ardaloedd crynodol o ansawdd aer gwael. | | angen i deithio mewn car preifat ac felly'n helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o geir a gwella ansawdd yr aer. Fodd bynnag, efallai y bydd yn rhaid i rai drigolion deithio â char beth bynnag i gael mynediad at wasanaethau allweddol ac ni fyddai'r opsiwn hwn yn datrys unrhyw un o'r patrymau teithio sy'n anghynaladwy mewn mannau eraill o Ardal y Cynllun.<br><br>Yn ogystal, byddai canoli twf yn y prif aneddiadau trefol yn rhoi mwy o gyfleoedd i gael cynlluniau ynni adnewyddadwy gan y dylai datblygiad dwysedd uchel arwain at effeithlonrwydd ynni lefel uchel, am ei fod yn fwy tebygol o fod yn fwy hyfyw'n ariannol i integreiddio cynlluniau o'r fath mewn datblygiadau mawr yn hytrach nac mewn nifer o gynlluniau llai.<br><br>Yn gyffredinol, ystyrir bod yr opsiwn defnydd cymysg hwn â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol o ran rheoli a lleihau'r ardrawiadau yn sgil newid hinsawdd. |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | nifer o gynlluniau llai.<br><br>Felly, yn gyffredinol ystyrir bod yr opsiwn hwn â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol o ran rheoli a lleihau'r ardrawiadau yn sgil newid hinsawdd. | | | | | | | | |
| **4. Yr Iaith Gymraeg** | **-** | Gall canoli datblygiad ym Mangor ac yn y Prif Aneddiadau Allweddol annog pobl ifanc i symud i'r ardal o gymunedau gwledig i chwilio am dai mwy fforddiadwy a gwell cyfleoedd cyflogaeth. Bydd hyn yn arwain at ostyngiad yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg mewn cymunedau gwledig a gall fod yn niweidiol i fywiogrwydd cymunedau.<br><br>Gweler Asesiad Effaith Ieithyddol – Yr Iaith Gymraeg am fwy o wybodaeth. | **-** | Fel opsiwn D1 ond i raddau llai.<br><br>Gweler Asesiad Effaith Ieithyddol – Yr Iaith Gymraeg am fwy o wybodaeth. | **+** | Gan fod yr opsiwn hwn yn caniatáu datblygiad drwy holl Ardal y Cynllun, yn cynnwys cefn gwlad, bydd yn gymorth i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau lleol, ble mae eu hangen. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth ac yn sgil hynny, hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg.<br><br>Gweler Asesiad Effaith Ieithyddol – Yr Iaith Gymraeg am fwy o wybodaeth. | **+** | Gan fod yr opsiwn hwn yn caniatáu datblygiad drwy holl Ardal y Cynllun, yn cynnwys cefn gwlad, bydd yn gymorth i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu tai, cyfleusterau a gwasanaethau lleol, ble mae eu hangen. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth ac yn sgil hynny, hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg, i raddau mwy nag yn Opsiwn D3.<br><br>Gweler Asesiad Effaith Ieithyddol – Yr Iaith Gymraeg am fwy o wybodaeth. | **-** | Gan nad yw datblygiad yn wasgaredig ar draws y Sir, nid yw'r opsiwn hwn yn gwneud llawer o ran cadw cymeriad a chydlyniad cymunedol mewn aneddiadau eraill, ac felly ni fyddai'n cael yr un effaith gadarnhaol (o'i gymharu ag Opsiwn D3 a D3a) ar y rhan fwyaf o'r boblogaeth.<br><br>Gweler Asesiad Effaith Ieithyddol – Yr Iaith Gymraeg am fwy o wybodaeth. |
| **5. Treftadaeth / Diwylliant** | **+/-** | Bydd yr union ardrawiad ar asedau treftadaeth hanesyddol yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â'r ased hanesyddol a graddfa'r datblygiad arfaethedig. Mae llawer o ardaloedd trefol yng Ngwynedd a Môn yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth dynodedig, Adeiladau Rhestredig a | **+/-** | Bydd yr union ardrawiad ar asedau treftadaeth hanesyddol yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â'r ased hanesyddol a graddfa'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Dylid ymgorffori mesurau lliniaru, megis dylunio o ansawdd da sy'n parchu golygfeydd presennol, yn y cynigion datblygu er mwyn | **+/-** | Bydd yr union ardrawiad ar asedau treftadaeth hanesyddol yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â'r ased hanesyddol a graddfa'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Gan y bydd yr opsiwn hwn yn debygol o arddangos patrwm datblygu sy'n fwy gwasgaredig, a llai o newidiadau ar raddfa fawr i unrhyw un anheddiad, ychydig | **+/-** | Bydd yr union ardrawiad ar asedau treftadaeth hanesyddol yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â'r ased hanesyddol a graddfa'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Gan y bydd yr opsiwn hwn yn debygol o arddangos patrwm datblygu sy'n fwy gwasgaredig, a llai o newidiadau ar raddfa fawr i unrhyw un anheddiad, | **+/-** | Bydd yr union ardrawiad ar asedau treftadaeth hanesyddol yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â'r ased hanesyddol a graddfa'r datblygiad arfaethedig.<br><br>Fodd bynnag, bydd unrhyw ddatblygiadau graddfa fawr defnydd cymysg a gynigir dan yr opsiwn hwn yn |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | safleoedd archeolegol.<br><br>Gall datblygiad dwysedd uchel sydd wedi'i ganoli ym Mangor a'r prif Aneddiadau Allweddol olygu bod adnoddau hanesyddol yn yr aneddiadau hyn dan fygythiad yn sgil dwysau datblygiad. Ar y llaw arall, gall yr opsiwn hwn ddiogelu adnoddau cyffelyb sydd y tu allan i ffiniau trefol, e.e. Henebion Cofrestredig (HC).<br><br>Dylid ymgorffori mesurau lliniaru, megis dylunio o ansawdd da sy'n parchu golygfeydd presennol, yn y cynigion datblygu er mwyn osgoi ardrawiadau sylweddol ar asedau diwylliannol a hanesyddol. | | osgoi ardrawiadau sylweddol ar asedau diwylliannol a hanesyddol. | | fydd y newidiadau cyffredinol i'r amgylchedd adeiledig.<br><br>Yn ogystal, gall datblygu o fewn aneddiadau llai ac yn agos iddynt, helpu i gadw cymeriad adeiledig y stryd fawr a chanol pentrefi.<br><br>Dylid ymgorffori mesurau lliniaru, megis dylunio o ansawdd da sy'n parchu golygfeydd presennol, yn y cynigion datblygu er mwyn osgoi ardrawiadau sylweddol ar asedau diwylliannol a hanesyddol. | | ychydig fydd y newidiadau cyffredinol i'r amgylchedd adeiledig. Bydd hyn yn fwy felly nag Opsiwn D3.<br><br>Yn ogystal, gall datblygu o fewn ac yn agos i aneddiadau llai helpu i gadw cymeriad adeiledig y stryd fawr a chanol pentrefi.<br><br>Dylid ymgorffori mesurau lliniaru, megis dylunio o ansawdd da sy'n parchu golygfeydd presennol, yn y cynigion datblygu er mwyn osgoi ardrawiadau sylweddol ar asedau diwylliannol a hanesyddol. | | debygol o arwain at newid yng nghymeriad adeiledig yr aneddiadau.<br><br>Dylid ymgorffori dylunio adeiladau safon uchel mewn cynigion datblygu er mwyn sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu tuag at gymeriad presennol yr ardaloedd hyn. |
| **6. » Economi a ch** | - | Mae ardrawiad cadarnhaol yr opsiwn hwn yn golygu y byddai economi'r prif aneddiadau yn cael ei chefnogi drwy ddarparu gweithlu, hwyluso datblygiad busnesau ac annog buddsoddiad yn yr aneddiadau hynny. Yn ogystal, yn dibynnu ar raddfa'r datblygiad, gallai'r opsiwn hwn arwain at fwy o gyfraniadau gan ddatblygwyr a mwy o adfywio er mwyn | - | Fel Opsiwn D1 ond ddim cymaint oherwydd natur fwy eang gwasgariad y datblygiadau. | + | Gan y byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu dosbarthu datblygiadau'n fwy cyfatebol, byddai'n caniatáu datblygiad economaidd y prif ganolfannau yn ogystal â'r aneddiadau mwy gwledig drwy annog buddsoddi mewnol cyfatebol, gwella gwasanaethau a chynnig cyfleoedd cyflogaeth trwy holl Ardal y Cynllun.<br><br>Byddai datblygu tai ar lefel is yn y prif ganolfannau yn gallu | + /- | Mae llawer yn dibynnu ar lefel y cyfleoedd cyflogaeth a gynhyrchir gan yr opsiwn hwn. Pe byddai'r opsiwn hwn yn arwain at dwf economaidd mewn ardaloedd gwledig, yna byddai economi leol yr ardaloedd hyn yn derbyn cefnogaeth a byddai'n lleihau'r angen i drigolion sy'n byw mewn ardaloedd gwledig gymudo.<br><br>Yn ogystal, byddai'n annog | + /- | Yn gyffredinol, byddai'r opsiwn hwn yn fwyaf tebygol o gael effeithiau cadarnhaol. Fodd bynnag, mae llawer yn ddibynnol ar raddfa'r datblygiad.<br><br>Byddai datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys tai, gwasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth yn caniatáu i drigolion gael mynediad hawdd at gyfleoedd cyflogaeth. |

# ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| yflogaeth « | | gwella gwasanaethau'n sylweddol yn y canolfannau hyn.<br><br>Ar y llaw arall, nid yw canoli'r datblygiad yn y prif ganolfannau yn annog twf economaidd lleol tu allan i'r ardaloedd hyn a byddai'n cyfyngu'r lefelau datblygu yma ac yn ei dro byddai hyn yn niweidiol i economïau gwledig. Gan y byddai gwasanaethau a buddsoddi'n cael eu denu i'r prif aneddleoedd, byddai hyn yn arwain at golli gwasanaethau mewn ardaloedd mwy gwledig.<br><br>O ganlyniad, byddai pobl ifanc sy'n economaidd weithgar yn debygol o adael ardaloedd gwledig am y canolfannau trefol neu hyd yn oed mynd y tu allan i Ardal y Cynllun i chwilio am gyfleoedd cyflogaeth a gwell gwasanaethau, ac yn sgil hynny cyflymu amddifadedd.<br><br>Byddai hyn i gyd yn golygu y byddai ardaloedd gwledig yn dod yn fwy difreintiedig ac felly yn cynyddu'r gwahaniaethau rhwng ardaloedd trefol a gwledig.<br><br>O ran addysg, byddai | | | | golygu bod mwy o dir ar gael ar gyfer datblygiad economaidd a allai annog buddsoddiad yn yr ardaloedd hyn.<br><br>Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof oherwydd natur mwy gwasgaredig y datblygiad, y gallai'r cyfleoedd cyflogaeth a ddaw yn sgil hyn fod mewn safleoedd nad ydynt yn hygyrch i rai rhannau o'r boblogaeth. | | pobl iau i aros o fewn eu cymunedau lleol ac yn sgil hynny, hwyluso poblogaeth fwy cytbwys.<br><br>Fodd bynnag, os na chynhyrchir digon o dwf economaidd a bod cyfleoedd gwaith yn aros yn y prif ganolfannau, yna byddai cyfran fwy o bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig yn gorfod teithio'n llawer pellach i'w man gwaith arferol. Yn ei hanfod byddai hyn yn anghynaladwy.<br><br>Ynghyd â hyn, byddai lefel llai o ddatblygiad yn y prif ganolfannau yn golygu y byddai twf economaidd yn edwino yn yr aneddiadau hyn a byddai'r cyfleoedd yn annigonol i ddiwallu galw'r boblogaeth. Gallai hyn arwain at amddifadedd yn y canolfannau hyn. | | Yn ogystal, gallai datblygu ardaloedd o'r fath helpu i ddenu mwy o fewnfuddsoddi.<br><br>Ar y llaw arall, nid yw canoli datblygiad o fewn ardaloedd o'r fath yn adlewyrchu natur wledig yr ardal ac nid yw'n annog twf economaidd lleol, fyddai'n cyfyngu ar lefelau datblygu y tu allan i'r ardaloedd hyn. Yn y pen draw byddai hyn yn niweidiol i economïau gwledig. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dwysáu'r datblygiad ym Mangor a'r Prif Aneddiadau Allweddol yn golygu y byddai'n rhaid gwella'r ddarpariaeth addysg bresennol. Gall hyn arwain at roi pwysau ar gapasiti'r ysgolion presennol i ymdopi. Yn ogystal â hyn, byddai canoli datblygiadau yn yr ardaloedd mwy trefol yn golygu mai dim ond ychydig o safleoedd fyddai ar gael ar gyfer cyfleusterau addysgol oherwydd diffyg tir y gellid ei ddatblygu. | | | | | | | |
| **7. Tai** | - | Byddai'r opsiwn hwn yn helpu i ddarparu tai fforddiadwy mewn lleoliadau hygyrch i breswylwyr y prif drefi. Fodd bynnag, nid yw'r dull hwn o angenrheidrwydd yn darparu tai mewn lleoliadau yn Ardal y Cynllun sy'n ddigon i ddiwallu anghenion lleol. Gall gael ardrawiad niweidiol ar y gallu i ddarparu tai fforddiadwy mewn trefi a phentrefi eraill llai, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ble mae fforddiadwyedd tai yn broblem sylweddol.<br><br>Oherwydd diffyg datblygiad tai gall y cymunedau mwy gwledig ddioddef oherwydd prisiau tai sy'n cynyddu ac | - | Fel Opsiwn D1 ond i raddau llai oherwydd dosbarthiad ehangach y datblygu yn nalgylchoedd y prif aneddiadau.<br><br>Dylai darparu tai mewn ardaloedd ehangach ddiwallu anghenion tai'r ardaloedd hynny ond ni fydd hyn yn diwallu'r galw yn Ardal ehangach y Cynllun. | + | Yn gyffredinol, byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith gadarnhaol o ran yr amcan AC dan sylw. Byddai canolbwyntio ar wasgaru datblygiad yn caniatáu dewis ehangach o dai drwy'r rhan fwyaf o Ardal y Cynllun a byddai'n diwallu'r angen am dai'n lleol. Byddai hyn yn gymorth i leihau gwahaniaethau rhwng ardaloedd trefol a gwledig.<br><br>Ar y llaw arall, gan y byddai'r opsiwn hwn yn rhoi lefelau is o ddatblygiadau tai yn y trefi a'r pentrefi mwyaf (o ganlyniad i'r dosbarthiad), gallai hyn gael ardrawiad ar ddarparu cartrefi i ddiwallu'r anghenion yn yr ardaloedd hyn ble mae'r galw mwyaf o bosib. | - | Yn gyffredinol, mae'r opsiwn hwn yn perfformio'n dda yn erbyn amcan yr AC. Mae'r dull hwn yn cynnig cyfleoedd am ddatblygiadau tai newydd sylweddol i fodloni targedau rhanbarthol a lleol.<br><br>Mae datblygu safleoedd tir glas, fel y byddai'n digwydd yn yr opsiwn hwn, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer darparu ystod o wahanol fathau o dai i ddiwallu anghenion lleol a chreu cymunedau cynhwysol a chymysg. Byddai defnyddio safleoedd tir glas yn hwyluso datblygu'r nifer angenrheidiol o unedau tai fforddiadwy hefyd.<br><br>Ar y llaw arall, ni fyddai canoli datblygiadau tai mewn ardaloedd gweledig yn mynd i'r | - | Byddai safleoedd datblygu defnyddiau cymysg yn darparu tai fyddai'n hygyrch i gyfleoedd cyflogaeth. Byddai safleoedd o'r fath fel arfer yn cynrychioli estyniadau i ffiniau aneddiadau sy'n bodoli. Felly, tra bod yr opsiwn hwn yn bodloni anghenion tai yn lleol, ni fyddai'n gallu bodloni'r galw yn rhywle arall, yn fwyaf penodol o fewn cymunedau gwledig. |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | sy'n arwain at newidiadau eraill yng nghymeriad y gymuned fel y bo pobl iau a theuluoedd lleol yn cael eu prisio allan.<br><br>Er bod yr isadeiledd yn bodoli yn y prif aneddiadau sy'n ganolbwynt i'r opsiwn hwn, efallai na fydd digon o safleoedd o fewn yr ardaloedd hyn i ddiwallu'r gofyn am dai. Efallai na fydd safleoedd bychain o faint addas ar gyfer y ddarpariaeth dai briodol neu y ddarpariaeth o dai fforddiadwy briodol. Byddai hyn yn ei dro yn cynyddu'r defnydd o safleoedd tir glas ar gyrion aneddiadau. | | | | | | afael â'r gofynion tai yn yr aneddiadau trefol mawr i'r fath raddau ag Opsiwn D3 a byddai mwy o risg na fyddai'r nifer o dai fyddai eu hangen yn cael eu darparu oherwydd y ddibyniaeth ar nifer fawr o safleoedd bychain. | | |
| **8. - Tirwedd a threfwedd** | + | Ar y cyfan, mae'n fwyaf tebygol y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith gadarnhaol ar dirweddau gwledig a thirweddau trefol.<br><br>Ar nodyn mwy cadarnhaol, efallai bod ym Mangor a'r prif aneddiadau allweddol eraill lefel uwch o safleoedd tir llwyd o gymharu ag ardaloedd eraill. Mae'r safleoedd tir llwyd hyn yn gyfle i wella'r drefwedd (e.e. drwy ailddatblygu safleoedd adfail ac adeiladau gwag). Yn ogystal, gan fod yr | **+ /-** | Fel Opsiwn D1 ond ddim cymaint oherwydd natur fwy eang gwasgariad y datblygu.<br><br>Byddai tywys datblygiad i ardaloedd ehangach fwy na thebyg yn golygu y byddai'n rhaid lleoli twf ar fwy o safleoedd tir glas a fyddai felly'n cael effaith fwy difrifol ar ba mor ddeniadol ydyw ardaloedd gwledig o gymharu ag Opsiwn D1.<br><br>Bydd llawer yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad datblygiadau o ran trefwedd o | **+ /-** | Gan y byddai'r opsiwn hwn yn galluogi dosbarthu'r datblygiad mewn modd mwy cymesur, byddai'r effaith posibl ar dirweddau a threfweddau yn fwy gwasgaredig ar draws Ardal y Cynllun.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu datblygiadau newydd cyfyngedig yn y rhan fwyaf o aneddiadau ac yn cyfrannu tuag at batrymau twf naturiol aneddiadau fyddai yn ei dro yn llai tebygol o effeithio ar nodweddion y dirwedd o gymharu ag opsiynau eraill. | **-** | Er bod yr opsiwn hwn yn golygu y byddai datblygiad dwysedd isel yn cael ei wasgaru ar draws ardal eang, gall canolbwyntio ar ddatblygu yn yr ardaloedd gwledig a chefn gwlad o bosib effeithio'n sylweddol ar gymeriad y dirwedd wledig a mwynderau gweledol. Yn ogystal, byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno datblygiad ar raddfa nad ydyw'n cyd-fynd â'r cymeriad lleol.<br><br>Mae patrwm defnydd tir o'r fath yn defnyddio llawer o dir a byddai'n cynyddu'r pwysau ar | **+ /-** | Gall yr opsiwn hwn arwain at ddatblygu safleoedd tir glas ar raddfa fawr ar gyrion aneddiadau. Gallai hyn gael effaith negyddol ar gymeriad tirweddau a threfweddau.<br><br>Fodd bynnag, effaith gadarnhaol yn deillio o'r opsiwn canolbwyntiedig hwn fyddai bod yr ardrawiadau ar dirweddau o werth y tu allan i'r prif safleoedd datblygu yn cael eu lleihau.<br><br>Byddai angen i ddatblygiad ar raddfa fawr (fyddai'n cael |

# ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o’r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | opsiwn yn tywys datblygiad i ardaloedd ble y ceir adeiladau’n barod, mae’n debygol y byddai’r effaith ar y drefwedd yn finimal, a dylai amddiffyn ardaloedd nad ydynt yn drefol rhag pwysau i ddatblygu helpu i ddiogelu cymeriad y dirwedd wledig. Byddai hefyd yn amddiffyn tirweddau gwledig rhag llygredd golau a grëir gan nifer uwch o ddatblygiadau, yn enwedig yn y nos.<br><br>Fodd bynnag, dylid cofio, er bod yr opsiwn hwn yn tywys datblygiadau newydd i’r aneddiadau mwy trefol megis Bangor a’r prif aneddiadau allweddol, ble y ceir adeiladau’n barod, y gallai cymeriad y drefwedd yn yr ardaloedd hyn gael ei heffeithio'r un fath pe caniateir datblygiad sy’n anaddas.<br><br>Hefyd, gall yr opsiwn hwn arwain at ddatblygu safleoedd tir glas ar gyrion aneddiadau. Gall hyn gael effaith negyddol ar gymeriad tirweddau gwledig.<br><br>Bydd llawer yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad datblygiadau o ran trefwedd o werth. Byddai’n rhaid | | werth. Byddai’n rhaid dylunio datblygiadau i safon uchel gan ymgorffori cymeriad a gwerthoedd presennol y drefwedd a’r cymeriad gwledig presennol. | | Fodd bynnag, bydd y gwir effaith ar yr amgylchedd adeiledig yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad y datblygiad o ran y trefweddau a thirweddau o werth. Byddai’n rhaid dylunio datblygiadau i safon uchel gan ymgorffori cymeriad a gwerthoedd presennol y drefwedd a’r cymeriad gwledig presennol. | | ryddhau safleoedd tir glas. Mae hyn yn ei dro yn debygol o gael effaith negyddol ar dirweddau gwledig.<br>Mae ardaloedd eang o Ynys Môn a Gwynedd wedi cael eu dynodi’n AHNE oherwydd nodweddion tirwedd arbennig. Mae’n debygol y byddai’n rhaid i safleoedd o fewn y dynodiad hwn gael eu rhyddhau i’w datblygu.<br><br>Yn ogystal â hyn, mae’r potensial i fwy o ddatblygu mewn ardaloedd o’r fath effeithio’n andwyol ar y dirwedd ac ar lonyddwch yr ardaloedd drwy gynyddu’r llygredd golau. | | ei hwyluso dan yr opsiwn hwn), gael ei ddylunio mewn modd sy’n adlewyrchu cymeriad yr ardal er mwyn lleihau’r ardrawiadau ar y dirwedd. |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | dylunio datblygiadau i safon uchel gan ymgorffori cymeriad a gwerthoedd presennol y drefwedd. | | | | | | | |
| **9. Tiroedd, mwynau, gwastraff** | + | Ar y cyfan, byddai'r opsiwn hwn yn fwyaf tebygol o gael effeithiau cadarnhaol.<br><br>Byddai sianelu datblygiad i ardaloedd twf wedi'u hadnabod yn diogelu cefn gwlad a lleihau pwysau datblygu mewn aneddiadau ymylol. Mae union faint yr ardrawiad a'i ddifrifoldeb yn ddibynnol ar argaeledd safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen o fewn yr aneddiadau presennol.<br><br>Os yw'r cyflenwad yn ddigon, byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i dir ac adeiladau a ddatblygwyd o'r blaen gael eu defnyddio. Golyga hyn bod adnoddau pridd a thir amaethyddol yn debygol o gael eu gwarchod ac y cynhelir eu hansawdd. Yn ogystal, byddai cyfle i adfywio tir wedi'i halogi sy'n debygol o fodoli o fewn yr aneddiadau hyn.<br><br>Fodd bynnag, os bydd diffyg safleoedd addas o fewn y prif ganolfannau, golyga hyn ychwaneg o bwysau ar ryddhau tir glas. | | Fel Opsiwn D1 ond ddim cymaint oherwydd natur mwy eang gwasgariad y datblygiadau.<br><br>Byddai'r Opsiwn hwn yn cyfeirio ychydig mwy o ddatblygiad i ardaloedd y tu allan i'r prif aneddiadau ac yn sgil hynny, gallai arwain at gynnydd yn y defnydd o safleoedd tir glas. Yn ei dro, gallai hyn gael effaith andwyol ar adnoddau pridd a thir amaethyddol da, yn dibynnu ar leoliad y datblygiad. | + | Gallai patrwm dosbarthiad gwasgaredig arwain at lai o safleoedd tir glas a thiroedd amaethyddol da yn cael eu colli o gymharu ag Opsiwn D3a.<br><br>Yn ogystal, gallai'r opsiwn hwn ganiatáu datblygu mwy o dir a ddatblygwyd o'r blaen gan y bydd ardal fwy eang ble y gellir cyfeirio datblygiad.<br><br>Yn ogystal, byddai'r Opsiwn hwn yn hwyluso datblygu safleoedd mwy a allai ymgorffori cynlluniau rheoli gwastraff cynaliadwy effeithiol. | - | Byddai'r opsiwn hwn yn debygol iawn o arwain tuag at gynnydd yn y defnydd o safleoedd tir glas yn Ardal y Cynllun. Byddai hyn yn arwain at y posibilrwydd o golli priddoedd a thir amaethyddol da.<br><br>O ran gwastraff, mae patrymau datblygu dwysedd isel fel y bwriedir dan yr opsiwn hwn yn annhebygol o gyflawni cynlluniau rheoli gwastraff a chynlluniau ailgylchu effeithiol gan y byddai cynlluniau fel hyn yn annhebygol o fod yn hyfyw gyda'r fath ddwysedd. | +/- | Byddai datblygu safleoedd ar gyfer datblygiad defnydd cymysg mwy na thebyg yn golygu y byddai'n rhaid ehangu ffiniau datblygu aneddiadau presennol ac yn sgil hynny, byddai'r posibilrwydd o gynnydd yn y defnydd o safleoedd tir glas.<br><br>O ran gwastraff, mae posibilrwydd y gellid ymgorffori cyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy o fewn y datblygiad. Byddai rhannu'r defnydd o adeiladau ac isadeiledd yn golygu y byddai llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu a byddai hynny'n rhoi mwy o botensial i ailgylchu llwyddiannus a chynlluniau rheoli gwastraff cynaliadwy. |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | O ran gwastraff, rhagwelir na fydd effeithiau sylweddol gyda'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, gallai cynnydd dwys mewn datblygu ac yn sgil hynny, cynnydd yn y boblogaeth breswyl arwain efallai at gynhyrchu mwy o wastraff. Ar y llaw arall, byddai rhannu'r defnydd o adeiladau ac isadeiledd yn golygu y byddai llai o wastraff yn cael ei gynhyrchu a byddai hynny'n rhoi mwy o botensial i ailgylchu llwyddiannus a chynlluniau rheoli gwastraff cynaliadwy. | | | | | | | |
| **10. Trafnidiaeth a Mynediad** | **+ /-** | Effeithiau cadarnhaol yr opsiwn hwn yw na fyddai angen cymaint o deithio gan y byddai tai wedi'u lleoli yn agos at y prif ardaloedd ar gyfer cyflogaeth, siopa a gwasanaethau a chyfleusterau eraill. Byddai canoli datblygiad yn agos at y prif ganolfannau yn ei hanfod yn gwella mynediad at y gwasanaethau hyn.<br><br>Ar y llaw arall, byddai canoli datblygiadau yn y prif ganolfannau yn effeithio'n andwyol ar hygyrchedd y rhan fwyaf o'r boblogaeth wledig gan y byddai gwasanaethau a | **+ /-** | Byddai effeithiau'r opsiwn hwn yn fwyaf tebygol o fod yn debyg i'r rheiny yn Opsiwn D1, ond i raddau llai.<br><br>Gan y byddai datblygu'n cael ei ganoli yn y prif ganolfannau a'u dalgylchoedd, byddai llai o angen teithio, er nid i'r un graddau â'r hyn a fyddai''n digwydd dan Opsiwn D1.<br><br>Mae cyflawni buddion yr opsiwn hwn felly'n dibynnu ar i gynlluniau cludiant fod yn effeithiol ym mhob datblygiad. | **+** | Ar y cyfan, dylai'r opsiwn hwn hwyluso llai o angen i deithio gan y byddai tai'n cael eu lleoli'n agos i'r prif ardaloedd ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau. Fodd bynnag, ni fyddai'r lleihad yn yr angen i deithio yn digwydd i'r un graddau â'r hyn a fyddai'n digwydd dan Opsiynau D1 a D2.<br><br>Ar y llaw arall, byddai natur wasgaredig y datblygiad yn gwella hygyrchedd i rai cymunedau gwledig gan y byddai peth datblygiad yn cael ei dywys yma. Byddai'r ddarpariaeth dai yn Ardal y Cynllun yn cyfrannu at greu a chynnal lefel poblogaeth sydd yn cefnogi gwasanaethau a | **+ /-** | Ar y cyfan, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn yr angen i deithio gan na fyddai'r tai'n cael eu lleoli ger y prif ganolfannau ble y lleolir y rhan fwyaf o'r cyfleoedd cyflogaeth, y cyfleusterau a'r gwasanaethau.<br><br>Byddai manteision yr opsiwn hwn yn dibynnu'n fawr ar hygyrchedd cludiant cyhoeddus ac ar greu datrysiadau cludiant addas mewn aneddiadau gwledig ac ar raddfa'r cyfleusterau, y gwasanaethau a'r cyfleoedd sy'n cael eu creu yn y trefi a'r pentrefi llai. | **+ /-** | Gall datblygiad defnydd cymysg newydd gynorthwyo i ddarparu swyddi a gwasanaethau sy'n hygyrch iawn ac felly lleihau'r angen i deithio.<br><br>Fodd bynnag, gallai cynlluniau defnydd cymysg newydd annog busnesau i ail-leoli o aneddiadau gwledig, gan effeithio'n andwyol ar hygyrchedd swyddi a gwasanaethau yn y lleoliadau hynny nad ydynt yn ganolbwynt ar gyfer twf. |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | chyfleusterau'n cael eu tywys i ffwrdd o'r cymunedau gwledig.<br><br>Yn ogystal, byddai canoli datblygiad yn y prif ganolfannau fwy na thebyg yn arwain at gynnydd cyfatebol mewn traffig a thagfeydd. Fodd bynnag, byddai'n creu cyfle i ymgorffori datrysiadau cludiant cynaliadwy o fewn y canolfannau hyn gan wella hygyrchedd yn y canolfannau hyn. Gall hyn gynnwys cyfnewidfeydd cludiant fyddai'n creu galw am gludiant cyhoeddus yn ogystal ag annog beicio a cherdded.<br><br>Mae cyflawni buddion yr opsiwn hwn felly'n dibynnu ar i gynlluniau cludiant fod yn effeithiol ym mhob datblygiad. | | | | busnesau lleol mewn trefi a phentrefi llai. Byddai hyn yn gwella hygyrchedd ac yn lleihau'r angen i bobl deithio.<br><br>Fodd bynnag, mae'n debygol y byddai rhai rhannau o'r boblogaeth wledig dal angen teithio i'r prif ganolfannau ar gyfer gwaith a gwasanaethau. | | | | |
| **11. Dŵr a Pherygl llifogydd** | **+/-** | Mae ardaloedd eang ym Mangor ac yn y prif aneddiadau allweddol dan fygythiad llifogydd. Efallai bod hyn yn cyfyngu ar yr ardaloedd datblygiadol o fewn y canolfannau hyn ac o'u hamgylch. Fodd bynnag, cyn belled ag y cedwir at y profion a amlinellir yn NCT 15, gellir dangos bod datblygiad | **+/-** | Byddai ardrawiadau'r opsiwn hwn yn fwyaf tebygol o fod yn debyg i'r rheiny yn Opsiwn D1, ond i raddau llai gan fod peth datblygiad wedi'i wasgaru i ardaloedd y tu allan i'r prif aneddiadau.<br><br>Mae union effaith yr opsiwn hwn yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas ag adnoddau dŵr (e.e. afonydd) | **+/-** | Gallai'r patrwm datblygu gwasgaredig gynorthwyo i atal cyfeirio datblygiadau newydd i leoliadau ble mae perygl o lifogydd. Mae'n rhoi hyblygrwydd i opsiynau D1 a D2 gan ei fod yn lleihau'r cyfyngiadau posib ar ddatblygu o gwmpas y prif ganolfannau oherwydd peryglon llifogydd.<br><br>Mae union effaith yr opsiwn hwn | **+/-** | Mae natur wasgaredig y datblygu, fwy na thebyg am gael llai o effaith ar yr amgylchedd dŵr o'i gymharu â'r opsiynau eraill. Mae rhwydwaith eang o gyrsiau dŵr ar draws Ardal y Cynllun y dylid eu gwrachod rhag effeithiau andwyol datblygu gan gynnwys llygru'r dŵr wyneb.<br><br>Ar y llaw arall, mae patrwm | **+/-** | Byddai effaith yr opsiwn hwn yn debygol o fod yn debyg i Opsiwn D1 oherwydd dwysedd uchel y datblygiad ar un safle.<br><br>Dylid ymgorffori SUDS mewn unrhyw ddatblygiad o'r fath a dylid sicrhau bod gallu'r isadeiledd presennol yn ddigonol i ymdopi â'r datblygiad ychwanegol. |

## ATODIAD 5: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Gofodol

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | mewn ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd yn cyflawni manteision cynaliadwyedd eraill, ac mai hwn yw'r lleoliad mwyaf addas ar gyfer datblygiadau.<br><br>O ran adnoddau dŵr, byddai poblogaeth grynodedig yn caniatáu rheoli dŵr yn gynaliadwy gan gynnwys defnyddio dŵr yn effeithiol a defnyddio systemau draenio cynaliadwy. Ar y llaw arall, byddai canoli datblygiad pellach o fewn y prif ganolfannau â'r potensial o dynnu mwy o ddŵr o gyflenwadau dŵr sydd efallai wedi cyrraedd hyd eithaf eu capasiti.<br><br>O ran ansawdd dŵr, byddai cynyddu datblygiadau o fewn y prif aneddiadau yn cynyddu'r nifer o arwynebau anhydraidd fyddai'n arwain at fwy o ddŵr ffo ar yr wyneb. Gallai hyn arwain at broblemau llifogydd neu beri i lygredd fynd i'r cyrsiau dŵr gan arwain at leihau ei ansawdd. Dylai systemau draenio trefol cynaliadwy gael eu manylu fel rhan o bob datblygiad newydd.<br><br>Fodd bynnag, ar yr ochr gadarnhaol, dylid nodi bod seilwaith wedi'i ddatblygu'n | | ac ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd; y capasiti dŵr ar hyn o bryd a pha mor addas yw'r seilwaith dŵr gwastraff i dderbyn mwy. | | yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas ag adnoddau dŵr (e.e. afonydd) ac ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd; y capasiti dŵr ar hyn o bryd a pha mor addas yw'r seilwaith dŵr gwastraff i dderbyn mwy. | | anheddiad gwasgaredig gofodol yn ei gwneud yn anodd hyrwyddo rheoli dŵr yn gynaliadwy gan na fyddai cynlluniau i gyflawni hyn yn hyfyw yn ariannol ar gyfer datblygiadau graddfa fechan.<br><br>Felly mae union effaith yr opsiwn hwn yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas ag adnoddau dŵr (e.e. afonydd) ac ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd; argaeledd cyflenwad digonol o ddŵr a pha mor addas yw'r seilwaith dŵr gwastraff i dderbyn mwy. | | Mae union effaith yr opsiwn hwn yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas ag adnoddau dŵr (e.e. afonydd) ac ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd; y capasiti dŵr ar hyn o bryd a pha mor addas yw'r seilwaith dŵr gwastraff i dderbyn mwy. |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | barod yn y prif aneddiadau a byddai canoli’r datblygu a’r twf yn y prif ardaloedd yn diogelu’r amgylchedd dŵr yn y cefn gwlad sy’n amgylchynu’r aneddiadau. Yn ogystal, oherwydd patrwm dwysedd uchel y datblygu o ganlyniad i’r opsiwn hwn, mae posibilrwydd ymgorffori technegau arbed dŵr mewn datblygiadau newydd yn yr ardaloedd hyn. | | | | | | | | |

**Crynodeb:**

Dengys yr asesiad o safbwynt amgylcheddol, yn gyffredinol mai opsiynau D1, D2 a D4 sy’n perfformio orau oherwydd y byddai canoli datblygiad mewn aneddiadau allweddol yn bodloni amcanion amgylcheddol o ran effeithlonrwydd ynni ac effeithlonrwydd adnoddau; y defnydd o dir a ddatblygwyd o’r blaen a hwyluso llai o angen teithio. « Fodd bynnag, er bod yr opsiynau hyn yn helpu i fynd i’r afael â’r amcanion economaidd a chymdeithasol mewn aneddiadau allweddol drwy ganolbwyntio ar gyfleusterau cymunedol, iechyd ag addysg mewn lleoliadau hawdd i’w cyrraedd ac ym mhle mae’r angen mwyaf amdanynt, yn ogystal ag annog arallgyfeirio economaidd mewn lleoliadau hygyrch ble y maent fwyaf eu hangen, yn ogystal ag annog arallgyfeirio economaidd mewn lleoliadau strategol, maent yn diystyru anghenion y boblogaeth ehangach mewn ardaloedd gwledig.

Ar y llaw arall, mae Opsiwn D3a, yn mynd i’r afael a gofynion y boblogaeth ehangach ac mae’r opsiwn hwn yn perfformio’n dda yn erbyn amcanion economaidd–gymdeithasol. »
Fodd bynnag, drwy gyfeirio datblygu i ffwrdd oddi wrth aneddiadau allweddol, mae’r opsiwn hwn yn debygol o gael ardrawiadau amgylcheddol negyddol ar y dirwedd, bioamrywiaeth ac ansawdd yr aer.

Yn gyffredinol, mae’r gwerthusiad wedi dangos mai Opsiwn D3 yw’r opsiwn mwyaf cynaliadwy ac yn sgorio orau yn erbyn y rhan fwyaf o’r dangosyddion cynaliadwyedd. Mae dosbarthiad cyfatebol datblygiad yn ardal y Cynllun yn diwallu anghenion cymdeithasol-economaidd y boblogaeth drefol yn ogystal â’r boblogaeth wledig tra ar yr un pryd yn lleihau’r ardrawiad posib ar yr amgylchedd oherwydd natur wasgaredig y datblygiad. Dylid cofio, fodd bynnag, fod gan bob opsiwn y potensial i gael effeithiau cadarnhaol ac effeithiau negyddol, er bod maint yr effeithiau hyn yn dibynnu’n llwyr ar weithrediad yr opsiwn a’r mesurau lliniaru.

# ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Twf

**ALLWEDD ARFARNU**

| | |
|---|---|
| ++ | **Positif iawn** |
| + | **Positif Llai** |
| 0 | **Ardrawiad Niwtral** |
| +/- | **Yn ddibynnol ar weithredu'r opsiwn** |
| - | **Negyddol Llai** |
| -- | **Negyddol Iawn** |

**AMCANION AC**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Bioamrywiaeth** | Cynnal a mwyhau buddion bioamrywiaeth a chysylltedd |
| **2** | **Cymuned ac Iechyd** | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniad, ac iechyd a lles cymunedol |
| **3** | **Newid Hinsawdd** | Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu |
| **4** | **Yr Iaith Cymraeg** | Cadw, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg |
| **5** | **Treftadaeth / Diwylliant** | Cadw, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol |
| **6** | **Economi a chyflogaeth** | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol |
| **7** | **Tai fforddiadwy** | Darparu tai cynaladwy yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol |
| **8** | **Tirwedd a threfwedd** | Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau trefol ardal y cynllun |
| **9** | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff |
| **10** | **Trafnidiaeth a Mynediad** | Cefnogi a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth a rhyngrwyd da i gefnogi'r gymuned a'r economi |
| **11** | **Perygl dŵr a llifogydd** | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd |

## ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Twf

**Tabl 1 - Asesiad o'r Opsiynau Twf**

| **Amcanion AC** | **Opsiwn T1 – 'Dosraniad isranbarthol'**<br><br>**445 o unedau tai yn flynyddol (270 yng Ngwynedd; 175 ym Môn)** | | **Opsiwn T2 – 'Twf ar sail tueddiadau mewn Twf Poblogaeth'**<br><br>**Tua 638 o unedau tai yn flynyddol (tua 370 yng Ngwynedd; 268 ym Môn)** | | **Opsiwn T3 – 'Tueddiadau adeiladu ' 10 mlynedd**<br><br>**416 o unedau tai yn flynyddol (196 yng Ngwynedd; 220 ym Môn)**<br>**(Agwedd 'Busnes fel Arfer')** | | **Opsiwn T4 – 'Twf ar sail economaidd yn unig'**<br><br>**389 o unedau tai yn flynyddol (264 yng Ngwynedd; 125 ym Môn)** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Sylwebaeth | | Sylwebaeth | | Sylwebaeth | | Sylwebaeth |
| **1. Bioamrywiaeth** | **+/-** | Ar y lefel hon o arfarnu mae'n anodd rhagweld yr effaith ar fioamrywiaeth, yn enwedig ble na wyddys ble mae'r lleoliadau twf. Fodd bynnag, bydd y cynnydd mewn tai a fwriedir yn yr opsiwn hwn dros amser yn rhoi pwysau cynyddol ar adnoddau dŵr a'u hansawdd (ac o ganlyniad bydd yn cael effaith ar fioamrywiaeth). Yn ogystal, yn sgil hyn, mae'n debygol y bydd cynnydd mewn llygredd aer a allai gael effaith andwyol ar safleoedd bioamrywiaeth (er bod hyn hefyd yn ddibynnol ar leoliad). Ardrawiad arall posib yw pwysau cynyddol ar gynefinoedd (drwy golled uniongyrchol neu dameidiog) ond nid yw hyn yn bendant gan y bydd yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad. Er mwyn cynorthwyo i leddfu, dylai'r ddau awdurdod geisio cynnwys polisïau grymus ynglŷn â diogelu a mwyhau bioamrywiaeth yn y CDLl. | **+/-** | O'r holl opsiynau, hwn fyddai'n debygol o gael effaith andwyol ar fioamrywiaeth yn sgil graddfa'r datblygiad arfaethedig. Tra bo lleoliad penodol y datblygiad yn ansicr nawr, byddai'r opsiwn hwn yn fwy tebygol o roi pwysau ar adnoddau dŵr a'u hansawdd ac yn sgil hynny, byddai'n creu mwy o lygredd aer gyda chanlyniadau i fioamrywiaeth. Pwysau cynyddol ar gynefinoedd (drwy golled uniongyrchol neu dameidiog) yn fwy tebygol yn yr opsiwn datblygiad uchel hwn ond nid yw hyn yn bendant gan y bydd yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad. Yn benodol os am fabwysiadu'r opsiwn hwn, dylai'r Cyngor geisio cynnwys polisïau grymus ynglŷn â diogelu a mwyhau bioamrywiaeth yn y CDLl. | **+/-** | Bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith tebyg i Opsiwn T1 gan mai'r bwriad yw cael nifer tebyg o dai er y bydd mwy o dai ym Môn. Dros amser, bydd yr opsiwn hwn yn cynyddu'r pwysau ar fioamrywiaeth yr Ynys. Mae'r argymhellion ynghylch polisïau bioamrywiaeth y CDLl yn gymwys waeth beth fo'r opsiwn a ddewisir. | **+/-** | Os y'i mabwysiadir ar ben ei hun, mae'r opsiwn hwn yr un sy'n lleiaf tebygol o gael effaith ar fioamrywiaeth oherwydd y nifer is o dai a fwriedir. Fodd bynnag, fel sy'n wir am yr opsiynau eraill, byddai'r effaith yn ddibynnol ar wybodaeth weithredol ond ni wyddys hyn nawr. Mae'r argymhellion ynglŷn â polisïau bioamrywiaeth y CDLl yn gymwys waeth beth fo'r opsiwn a ddewisir. |

## ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o’r Opsiynau Twf

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2. Cymuned ac Iechyd** | + | - | Bydd datblygiad newydd ar y raddfa hon yn debygol o arwain at fuddion sylweddol i’r gymuned ac i iechyd, fodd bynnag, gall fod effeithiau negyddol ar gydlyniad yn ei sgil ac yn sgil adeiladu.<br><br>Bydd datblygiad economaidd ychwanegol ac yn benodol cyflogaeth a grëir drwy’r opsiwn hwn (adeiladu a swyddi hirdymor) yn rhoi buddion cadarnhaol o ran lles corfforol a meddyliol.<br><br>Yn ogystal, mae’n bosib y caiff yr opsiwn hwn effaith negyddol ar gymunedau oherwydd lefelau sylweddol o adeiladu ond mae’r effeithiau hyn yn fwy tebygol mewn safleoedd wedi’u lleoli mewn ardaloedd trefol ble mae’r boblogaeth yn uwch. | ++ | - | Mae’r opsiwn hwn yn debygol o roi’r buddion mwyaf i’r gymuned ac i iechyd, e.e. cynnydd mewn datblygiad economaidd yn enwedig cyflogaeth yn rhoi buddion positif i les corfforol a meddyliol. Yn ogystal, bydd yn cynhyrchu’r refeniw mwyaf i gymunedau a phrosiectau iechyd drwy gyfraniadau 106.<br><br>Fodd bynnag, gall cydlyniad cymunedol fod dan fygythiad drwy fewnlif poblogaeth fawr a phe byddai atomfa’r Wylfa yn mynd rhagddi, byddai’n rhaid ystyried yr effaith ar gydlyniad cymunedol a’i liniaru yn enwedig os bydd yn rhaid lletya gweithlu mawr dros dro yn ystod y cyfnod adeiladu. | A’i « | - | Bydd yr opsiwn hwn yn cael effaith tebyg i Opsiwn T1 gan mai’r bwriad yw nifer tebyg o dai er y bydd mwy ohonynt ym Môn. Felly, bydd effeithiau cadarnhaol a negyddol a nodwyd yng ngwerthusiad opsiwn T1 yn cynyddu ym Môn dan yr opsiwn hwn (ac yn lleihau yng Ngwynedd). | + | - | Mae effeithiau cadarnhaol a negyddol o fabwysiadu lefel is o dai.<br>Yn gymharol, canlyniad yr opsiwn hwn fydd llai o’r effeithiau andwyol y gall datblygiad ei gael ar iechyd cyhoeddus (llygredd aer a sŵn a cholli llonyddwch).<br><br>Fodd bynnag, ni fydd lefelau llai o ddatblygiadau tai yn arwain at yr un lefel o ddatblygiad economaidd y bydd yr opsiynau eraill yn eu cynnig ac felly ni cheir yr ardrawiad cadarnhaol anuniongyrchol ar y gymuned ac ar iechyd a roddir gan gynnydd mewn gweithgarwch economaidd ac mewn cyflogaeth.<br>Gall cyfleusterau cymunedol a gwasanaethau ddioddef hefyd gan na fydd cyn gymaint o alw ac ni fydd cyn gymaint o gyllid ychwanegol ar gael (fel y bydd yn y senarios uwch). |

## ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Twf

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. Newid Hinsawdd | - | Bydd y cynnydd mewn tai a fwriedir yn yr opsiwn hwn yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr gan Ynys Môn a Gwynedd. Bydd hyn yn sgil defnyddio mwy o ynni a thrafnidiaeth sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn poblogaeth. Fodd bynnag, ble bynnag y bo pobl yn anheddu (ym Môn, Gwynedd neu yn unrhyw le arall ym Mhrydain), fe fydd cynnydd mewn allyriadau. Felly, rôl y CDLl yw lleihau'r effaith hwn drwy sicrhau bod datblygiadau mor ynni-effeithiol â phosib a lleihau allyriadau trafnidiaeth drwy leihau teithiau â moduron. | - | Bydd y cynnydd mewn tai yn yr opsiwn hwn yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr gan Ynys Môn a Gwynedd o'i gymharu â'r opsiynau eraill. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Opsiwn T1, ble bynnag y bo pobl yn anheddu fe fydd cynnydd mewn allyriadau. Felly, rôl y CDLl yw lleihau'r effaith hwn drwy sicrhau bod datblygiadau mor ynni-effeithiol â phosib, annog / ei gwneud yn ofynnol cael ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau trafnidiaeth drwy leihau teithiau â moduron. | - | Bydd y cynnydd mewn tai yn yr opsiwn hwn yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr gan Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag, fel y trafodwyd yn Opsiwn T1, ble bynnag y bo pobl yn anheddu (ym Môn, Gwynedd neu yn unrhyw le arall ym Mhrydain), fe fydd cynnydd mewn allyriadau. Felly, rôl y CDLl yw lleihau'r effaith hwn drwy sicrhau bod datblygiadau mor ynni-effeithiol â phosib, annog / ei gwneud yn ofynnol cael ynni adnewyddadwy a lleihau allyriadau trafnidiaeth drwy leihau teithiau â moduron. | - | Bydd y lefel ychydig yn is o dai a fwriedir yn yr opsiwn hwn yn cynhyrchu llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y ddwy ardal na'r opsiynau eraill. Waeth beth fo'r lefel o ddatblygiad, dylid defnyddio mesurau lliniaru fel yr awgrymir ar gyfer yr opsiynau eraill. |
| 4. Yr Iaith Cymraeg | **+/-** | Mae effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Gall fod yn bosib i'r cynnydd a fwriedir mewn tai yn opsiwn T1 gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg gan y gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy beri i'r boblogaeth bresennol aros. I'r gwrthwyneb, gall hefyd annog poblogaeth ddi-gymraeg i symud i mewn. | **+/-** | Mae effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Gall fod yn bosib i'r cynnydd mewn tai a fwriedir yn yr opsiwn hwn ac i ddiwallu angen y twf yn y boblogaeth gael effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg gan y gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy beri i'r boblogaeth bresennol aros. I'r gwrthwyneb, gall hefyd annog poblogaeth ddi-gymraeg i symud i mewn. | **+ /-** | Mae effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Bydd yr opsiwn hwn yn cael yr un effaith ag Opsiwn T1. | **+/-** | Mae effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Gall fod yn bosib i'r lefel twf llai a fwriedir yn yr opsiwn hwn gael effaith negyddol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg gan y gall cynnydd mewn prisiau tai orfodi'r boblogaeth leol i adael yr ardal. |

# ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Twf

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **5. Treftadaeth / Diwylliant** | **+/ -** | Gall y lefel twf a fwriedir yn yr opsiwn hwn arwain at effeithiau (unigol a chronnus) ar ddiwylliant a threftadaeth Gwynedd a Môn er bod hyn yn ddibynnol ar bolisïau'r CDLl a lleoliad / dosbarthiad gofodol y datblygiadau newydd.<br>Gall datblygiad newydd ar y raddfa hon arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol ar ddiwylliant a threftadaeth drwy ddarparu cyfleoedd cyllidol ar gyfer gofod diwylliannol (e.e. canolfannau cymunedol) ac adfywio ardaloedd ac adeiladau wedi dirywio gan gynnwys asedau treftadaeth. Felly, mae'n anodd rhagfynegi effeithiau unrhyw rai o'r opsiynau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, argymhellir y dylai'r CDLl gynnwys polisïau grymus er mwyn sicrhau y gellir diogelu a mwyhau treftadaeth a diwylliant. | **+/-** | Gall y lefel twf uwch a fwriedir yn yr opsiwn hwn arwain at gynnydd pellach yn yr effeithiau (unigol a chronnus) ar ddiwylliant a threftadaeth Gwynedd a Môn er, fel y datganwyd yn T1, mae hyn yn ddibynnol ar bolisïau'r CDLl a lleoliad / dosbarthiad gofodol y datblygiadau.<br>O ran T1, gall hefyd arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol ar dreftadaeth a diwylliant lleol ac felly mae'n anodd rhagfynegi'r effaith yn gyffredinol. Mae'r un argymhellion â T1 yn gymwys. | **+/-** | Gall y lefel datblygiad hwn arwain at gynnydd pellach yn yr effeithiau (unigol a chronnus) ar ddiwylliant a threftadaeth Gwynedd a Môn er, fel y datganwyd yn T1, mae hyn yn ddibynnol ar bolisïau'r CDLl a lleoliad / dosbarthiad gofodol y datblygiadau.<br>O ran T1, gall hefyd arwain at effeithiau cadarnhaol sylweddol ar dreftadaeth a diwylliant lleol ac felly mae'n anodd rhagfynegi'r effaith yn gyffredinol. Mae'r un argymhellion â T1 yn gymwys. | **+/-** | Mae'r opsiwn hwn yn debygol o gael effeithiau ansicr tebyg i'r opsiynau eraill. Fodd bynnag, mae'r posibilrwydd o gael effeithiau cadarnhaol a negatif yn lleihau gan y twf lefel isel a fwriedir yma. |

## ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Twf

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **6. Economi a chyflogaeth** | + | Mae'n debygol y bydd manteision economaidd cadarnhaol i'r opsiwn hwn ac y bydd yn helpu i greu a chefnogi datblygiad newydd.<br><br>Cefnogir economi'r anheddau allweddol drwy ddarparu gweithlu a bydd busnesau newydd a rhai sy'n bodoli yn cael eu cefnogi drwy'r cyfnod adeiladu a thrwy gynnydd yn y galw am nwyddau a gwasanaethau.<br>Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn y cyfraniadau gan ddatblygwyr ac yn arwain at gynnydd mewn adfywio.<br><br>Byddai'r lefelau tai yn yr opsiwn hwn yn lletya'r gweithwyr newydd fyddai eu hangen gan ddiwydiannau adnewyddadwy a diwydiannau ynni fyddai'n tyfu ym Môn.<br><br>Er hyn, mae peth amheuaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o ddarparu'r lefel hon o dai gan ystyried y cyfraddau adeiladu tai presennol.<br><br>Gallai'r opsiwn hwn fod yn anodd ei gyflawni gan ystyried y cyfraddau adeiladu tai presennol. | ++ | O safbwynt economaidd a chyflogaeth, dyma'r opsiwn a fyddai'n cael ei ffafrio gan mai hwn fyddai'n rhoi'r manteision mwyaf.<br><br>Fel yn Opsiwn T1, cefnogir economi'r anheddau allweddol drwy ddarparu gweithlu a byddai busnesau newydd a rhai sy'n bodoli yn cael eu cefnogi drwy'r cyfnod adeiladu a thrwy gynnydd yn y galw am nwyddau a gwasanaethau.<br>Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd yn y cyfraniadau gan ddatblygwyr ac yn arwain at gynnydd mewn adfywio.<br><br>Yn ogystal, byddai'r lefelau tai yn lletya'r gweithwyr newydd fyddai eu hangen gan ddiwydiannau adnewyddadwy a diwydiannau ynni fyddai'n tyfu ym Môn.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn ag effeithiau tebyg ar gyflogaeth a'r economi â'r opsiynau eraill ond byddai ar raddfa llawer mwy.<br><br>Er hyn, mae peth amheuaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o ddarparu'r lefel hon o dai gan ystyried y cyfraddau adeiladu tai presennol. | + | Fel yn Opsiwn T1, bydd manteision economaidd cadarnhaol i'r opsiwn hwn a bydd yn helpu i greu a chefnogi datblygiad newydd. Bydd yr effeithiau yn debyg iawn i Opsiwn T1, er y byddai'r manteision i Ynys Môn yn fwy dan yr opsiwn hwn (T3) oherwydd y lefelau uwch o dai ar yr Ynys. | + | Mae'r lefel isel o dwf mewn tai yn perfformio waethaf yn economaidd gan na fydd yn dod â'r un buddion o ran darparu gweithlu a chefnogi busnesau, ac ni fyddai'n golygu cymaint o gyfraniadau gan ddatblygwyr.<br>Er hyn, byddai'r effaith gyffredinol ar yr economi yn dal yn gadarnhaol. |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7. Tai** | + | Yn seiliedig ar y boblogaeth yng nghanol 2003 a rhagamcaniad o aelwydydd, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at **6,675** o dai ychwanegol yn ystod y 15 mlynedd rhwng 2011-2026, sef cynnydd o 8% yng nghyfanswm y tai.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi lefel dda o dai fforddiadwy yn y ddwy ardal ac yn enwedig yng Ngwynedd. | ++ | Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar ragdybiaethau ynglŷn â thwf poblogaeth mwy realistig ac yn seiliedig ar dueddiadau demograffig (tueddiadau mewn marwolaethau, genedigaethau a mudo yn y gorffennol). Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi **9,570** o unedau tai ychwanegol yn y 15 mlynedd rhwng 2011-2026, sy'n cynrychioli cynnydd o 11% yng nghyfanswm nifer y tai.<br>Mae ffigwr cyffredinol uwch yn y nifer o dai yn golygu y bydd cynnydd mewn tai fforddiadwy yn y ddwy ardal, felly'r opsiwn hwn sy'n perfformio orau o ran fforddiadwyedd tai.<br><br>Fodd bynnag, mae'r ffigwr hwn yn 35% yn uwch na'r nifer o dai a adeiladwyd yn ardal y CDLl ar y Cyd dros y 10 mlynedd ddiwethaf. Felly mae darparu'r lefel hon o dai yn amheus heb fod twf sylweddol mewn cyflogaeth yn yr ardal. | + | Mae'r opsiwn hwn yn seiliedig ar gyfraddau adeiladu tai yn y degawd diwethaf a byddai'n arwain at **6,240** o dai ychwanegol yn y 15 mlynedd rhwng 2011 -2026, sef cynnydd o 8% yng nghyfanswm y tai.<br><br>Byddai'r opsiwn hwn yn arwain at lefel debyg o dai fforddiadwy ond gyda chyfran lai i Wynedd a chyfran fwy i Fôn o'i gymharu ag Opsiwn T1. | + | Ar ben ei hun, byddai'r opsiwn hwn yn arwain at **5,835** o unedau tai yn y 15 mlynedd rhwng 2011 – 2026 sy'n gynnydd sylweddol mewn cartrefi.<br>Fodd bynnag, byddai'r opsiwn hwn ar ben ei hun yn darparu'r nifer lleiaf o gartrefi ac yn sgil hynny yn darparu llai o dai fforddiadwy yn enwedig ym Môn. |

## ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Twf

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **8. -Tirwedd a threfwedd** | - | +/- | Mae'n anodd rhagweld effaith yr opsiynau twf ar y dirwedd a'r drefwedd. Fodd bynnag, credir ei bod yn debygol y gallai lefel y datblygiad arfaethedig ym mhob opsiwn arwain at effeithiau andwyol unigol a chronnus oherwydd y cynnydd mewn adeiladu tai a gwaith adeiladu arall. Rhaid ystyried effeithiau o'r fath wrth roi sylw i opsiynau'r strategaeth ofodol, a phan fydd cynllunio mawl pellach yn digwydd, rhaid dewis lleoliadau addas ar gyfer datblygiadau.<br>Fodd bynnag, petai prosiectau yn cynnwys elfen sylweddol o adfywio safleoedd tir llwyd, mae posibilrwydd hefyd i hynny wella'r drefwedd (ond nid yw'r effaith hwn yn sicr). | -- | +/- | Mae'r lefel twf uchel yn yr opsiwn hwn yn debygol o waethygu ymhellach unrhyw effeithiau ar y dirwedd a'r drefwedd sydd wedi'u hadnabod ar gyfer gwerthuso T1, boed hwy yn effeithiau unigol neu gronnus. Fodd bynnag, fel y trafodir dan T1, y mae agweddau eraill o'r broses gynllunio a all helpu i liniaru'r effaith hwn. | - | +/- | Fel Opsiwn T1, credir ei bod yn debygol y gallai lefel y datblygiad arfaethedig ym mhob opsiwn arwain at effeithiau andwyol unigol a chronnus o ran effeithiau ar y dirwedd a'r drefwedd oherwydd y cynnydd mewn adeiladu tai a gwaith adeiladu arall. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod yn waeth ar gyfer Ynys Môn dan yr opsiwn hwn, oherwydd y bwriad i ddarparu rhagor o dai yno dan yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, fel y trafodir dan T1, y mae agweddau eraill o'r broses gynllunio a all helpu i liniaru'r effaith hwn. | - | +/- | Gallai'r opsiwn hwn hefyd arwain at effeithiau andwyol unigol a chronnus o ran y dirwedd a'r drefwedd drwy gael rhagor o dai a gwaith adeiladu arall (ond nid cyn gymaint ag yng nghyswllt yr opsiynau eraill). Fodd bynnag, fel y trafodir dan T1, y mae agweddau eraill o'r broses gynllunio a all helpu i liniaru'r effaith hwn. |
| **9. Tiroedd, mwynau, gwastraff** | - | | Bydd y cynnydd mewn tai yn cael effaith andwyol ar adnoddau tir ac adnoddau mwynau drwy greu angen am dir i adeiladu arno a'r mwynau a'r adnoddau fydd eu hangen ar gyfer y broses adeiladu.<br>Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at gynhyrchu rhagor o wastraff. Gellir lliniaru ardrawiadau o'r fath, er enghraifft gall y CDLl ei gwneud yn ofynnol cael (a monitro) cynlluniau rheoli gwastraff adeiladu a darparu cyfleusterau ailgylchu i bob datblygiad newydd. Gellir lleihau'r ardrawiadau drwy annog datblygiad dwysedd uwch (ble y bo'n briodol) a dewis y tir sydd â'r lleiaf o gyfyngiadau amgylcheddol ar gyfer datblygu. | -- | | Bydd y cynnydd twf uchel yn yr opsiwn hwn yn cael mwy o effaith andwyol ar dir ac ar adnoddau mwynau drwy greu mwy o angen am dir i adeiladu arno a'r mwynau a'r adnoddau fydd eu hangen ar gyfer y broses adeiladu.<br>Bydd yr opsiwn twf uchel hwn yn arwain at gynhyrchu rhagor o wastraff. Gellir lliniaru'r fath effeithiau fel y disgrifir yn Opsiwn T1. | - | | Yn debyg i Opsiwn T1, bydd y cynnydd mewn tai a fwriedir yn T3 yn cael effaith andwyol ar adnoddau tir ac adnoddau mwynau drwy greu angen am dir i adeiladu arno a'r mwynau a'r adnoddau fydd eu hangen ar gyfer y broses adeiladu.<br>Bydd yr opsiwn hwn yn arwain at gynhyrchu rhagor o wastraff.<br>Gellir lliniaru'r fath effeithiau fel y disgrifir yn Opsiwn T1. | - | | O'r holl opsiynau, hwn fydd yn cael yr ardrawiad lleiaf ar dir ac ar adnoddau mwynau oherwydd bydd angen llai o dir ar gyfer adeiladu (yn ddibynnol ar bolisïau eraill megis dwysedd datblygu). Yn ogystal, bydd yn arwain at gynhyrchu llai o wastraff.<br>Fodd bynnag, o'i gymharu â'r waelodlin, bydd effaith andwyol yn parhau, a dylid lliniaru hyn fel yr awgrymir ar gyfer T1. |

## ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Twf

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **10. Trafnidiaeth a Mynediad** | + | - | Mae'n debygol y bydd manteision sylweddol i'r lefel hon o ddatblygiad o safbwynt trafnidiaeth a hygyrchedd, gan leihau eithrio cymdeithasol trwy helpu i greu màs critigol o boblogaeth a fydd yn helpu i gefnogi gwasanaethau cludiant cyhoeddus presennol a newydd. Fodd bynnag, mae buddiannau'r lefel hon o dwf yn dibynnu ar yr opsiwn gofodol a ddewisir (byddai poblogaeth fwy gwasgaredig yn llai tebygol o greu digon o alw). Gallai'r cynnydd mewn datblygu a fwriedir yn yr opsiwn hwn (yn ddibynnol ar ei leoliad gofodol), arwain at gynnydd mewn cludiant a thagfeydd traffig. | + | - | Mae'r lefel uchel o dwf fel y bwriedir yn T2 yn debygol o arwain at fanteision i gludiant trwy helpu i greu màs critigol o boblogaeth a fydd yn helpu i gefnogi gwasanaethau cludiant cyhoeddus presennol a newydd. Byddai hyn yn helpu i gefnogi 'r cymunedau newydd a'r rhai sy'n bodoli yn ogystal â'r economi. Fodd bynnag, mae buddiannau'r lefel hon o dwf yn dibynnu ar yr opsiwn gofodol a ddewisir (byddai poblogaeth fwy gwasgaredig yn llai tebygol o greu digon o alw). I'r gwrthwyneb, gallai'r cynnydd mewn datblygu a fwriedir yn yr opsiwn hwn (yn ddibynnol ar ei leoliad gofodol), arwain at gynnydd mewn cludiant a thagfeydd traffig. | + | - | Bydd Opsiwn T3 yn cael canlyniadau tebyg i T1. Fodd bynnag, mae'r buddiannau cadarnhaol a negatif sydd wedi'u hadnabod yn debygol o fod yn well i Fôn oherwydd y gyfradd uwch o dwf a fwriedir ar gyfer Môn o'i chymharu â Gwynedd dan yr opsiwn hwn. | + | - | Bydd yr opsiwn hwn yn cael buddion tebyg i'r rhai a adnabuwyd yn Opsiwn 1 i Wynedd ond llai o fuddion o ran cludiant i Fôn gyda llai o dai ar gyfer yr ynys dan yr opsiwn hwn. Byddai problemau tagfeydd a thraffig yn llai o broblem i Fôn dan yr opsiwn hwn o'i gymharu â'r opsiynau eraill. |
| **11. Perygl dŵr a llifogydd** | +/- | | Byddai'r opsiwn hwn yn cael llai o effaith ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr nag Opsiwn T2 ac yn fwy tebyg i Opsiwn T3. Fodd bynnag, bydd yn dal yn cynyddu'r pwysau ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr yn sylweddol (e.e. cynnydd yn y dŵr gwastraff a ollyngir i gyrff dŵr) a thrwy gynnydd yn y defnydd o ddŵr. Dylid lleddfu'r effeithiau drwy sicrhau bod y CDLl â gofynion cadarn ar gyfer draeniad cynaliadwy, dŵr gwastraff a chadwraeth ddŵr. Mae Dŵr Cymru wedi nodi y byddai'n fodlon darparu ar gyfer y lefel hon o ddatblygiad. | +/- | | Byddai'r opsiwn hwn yn cael mwy o effaith ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr na'r opsiynau eraill gan y byddai mwy o dai yn arwain at fwy o bosibilrwydd i'r opsiwn hwn gael effaith ar yr ansawdd dŵr (e.e. drwy gynnydd yn yr arllwysiad dŵr gwastraff i gyrff dŵr) a thrwy gynnydd yn y defnydd o ddŵr. Gellir lleddfu'r effeithiau yn rhannol drwy sicrhau bod y CDLl â gofynion cadarn ar gyfer draeniad cynaliadwy, dŵr gwastraff a chadwraeth ddŵr. Mae Dŵr Cymru wedi nodi y byddai'n fodlon darparu ar gyfer y lefel hon o ddatblygiad. Mae lefel uwch o ddatblygu hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o safleoedd mewn perygl o lifogydd yn cael eu rhoi ymlaen. | +/- | | Byddai'r opsiwn hwn yn cael llai o effaith ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr nag Opsiwn T2 ac yn fwy tebyg i Opsiwn T3. Fodd bynnag, bydd yn dal yn cynyddu'r pwysau ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr yn sylweddol (e.e. cynnydd yn y dŵr gwastraff a ollyngir i gyrff dŵr) a thrwy gynnydd yn y defnydd o ddŵr. Dylid lleddfu'r effeithiau drwy sicrhau bod y CDLl â gofynion cadarn ar gyfer draeniad cynaliadwy, dŵr gwastraff a chadwraeth ddŵr. Mae Dŵr Cymru wedi nodi y byddai'n fodlon darparu ar gyfer y lefel hon o ddatblygiad. | +/- | | Byddai'r opsiwn hwn yn cael llai o effaith ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr na'r opsiynau eraill ond bydd yn dal i gynyddu'r pwysau ar ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr. Fel gyda'r opsiynau eraill, dylid lleddfu'r effeithiau drwy sicrhau bod y CDLl â gofynion cadarn ar gyfer draeniad cynaliadwy, dŵr gwastraff a chadwraeth ddŵr. Mae Dŵr Cymru wedi nodi y byddai'n fodlon darparu ar gyfer y lefel hon o ddatblygiad. |

## ATODIAD 6: Arfarniad Cynaliadwyedd o'r Opsiynau Twf

**Crynodeb:** Canfuwyd bod Opsiynau T1 a T3 yn cael effeithiau tebyg iawn i'w gilydd, gan y byddai'r ddau yn darparu lefel debyg o dai newydd yn flynyddol. Mae Opsiwn T3 yn cynnig cyfran uwch o dai arfaethedig yn Ynys Môn, felly mae'n debygol y byddai mwy o fanteision economaidd-gymdeithasol i Ynys Môn, ond hefyd mwy o effeithiau amgylcheddol dan yr Opsiwn hwn o'i gymharu ag Opsiwn T1. Yn Opsiwn T1 byddai'r un canlyniadau yn berthnasol i Wynedd. Er hynny, roedd yr opsiynau hyn wedi perfformio'n eithaf da ar ystod o amcanion AC, a nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer cymunedau ac iechyd; yr economi; tai a chludiant a hygyrchedd. Nodwyd effeithiau negyddol ar gyfer Opsiwn T1 a T3 o ran newid hinsawdd; y dirwedd a'r drefwedd; cymunedau a chludiant a hygyrchedd (canlyniadau negyddol a chadarnhaol wedi'u nodi) ac ansicrwydd o ran dŵr a newid hinsawdd.

Mae Opsiwn T4 yn cynnig lefel is o dwf ac mae'r opsiwn hwn â'r nifer isaf o effeithiau negyddol o ran y meini prawf cynaladwyedd amgylcheddol (e.e. bioamrywiaeth; y dirwedd a'r drefwedd; dŵr a pherygl llifogydd), ond nid oedd yn perfformio mor dda o ran y meini prawf cymdeithasol ac economaidd (yr economi, tai a chymunedau).

Roedd Opsiwn T2 yn cynnig lefel twf uwch, ond gyda'r potensial mwyaf o greu effaith andwyol ar yr amgylchedd, yn enwedig ar y tir, mwynau a gwastraff a'r dirwedd /drefwedd ond roedd yr opsiwn hwn yn rhoi effaith gadarnhaol sylweddol uwch ar ffactorau cymdeithasol ac economaidd, yn enwedig yr economi a thai (er y gallai greu problemau ynglŷn â chydlyniad cymunedau yn ogystal).

Ar y cyfan, mae Opsiynau T1 a T3 yn rhoi dull ymdrin â chynaladwyedd sy'n fwy cytbwys nag Opsiynau T2 a T4. Fodd bynnag, fel y canfuwyd drwy'r arfarniad, gellir lleddfu llawer o'r effeithiau negyddol (a adnabuwyd ym mhob opsiwn ond yn enwedig yn Opsiwn T2), drwy bolisïau cadarn yn y CDLl (e.e. ynglŷn â thirwedd a bioamrywiaeth) a lleoli'r datblygiad yn briodol.

## ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD

| **Abermaw** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Diwylliant Threftadaeth** | **Yr Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP937 Tir ger Bryn Glasfor** | 0 ? | - | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| **SP938 Tir ger Bryn Glasfor** | 0 ? | - | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| **SP943 Tir ger Wenallt** | 0 ? | - | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |

**Crynodeb**

Mae pob un o'r tri safle wedi'u lleoli ar dir sydd wedi'u neilltuo yn dir maes glas sydd ger ffin yr anheddiad yng ngogledd orllewin yr anheddiadd. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn nac wrth ymyl y safleoedd hyn. Gallai colli tir maes glas gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth drwy golli cyswllt a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod y polisïau lliniaru sy'n cael eu darparu drwy'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn addas ac ar gael ar lefel y prosiect, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae effaith niwtral bosibl yn erbyn AC Amcan 1 a 5, gydag elfen o ansicrwydd nes y bydd arolygon ac asesiadau lefel y prosiect wedi'u cynnal. Dylai unrhyw gynigion datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd. Nid yw'r safleoedd mewn ardal lle mae perygl o lifogydd, mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Mae lleoliad y safleoedd mewn cysylltiad ag Abermaw yn golygu nad ydynt o fewn pellter cerdded rhwydd (dros 1 cilomedr) i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y pentref. Felly, ystyrir bod posibilrwydd o effaith fach negyddol hirdymor yn erbyn AC Amcan 2. Fodd bynnag, dylid nodi bod llwybr troed addas ar hyd yr A496 o'r dewisiadau o ran safleoedd i'r pentref. Mae pob safle o fewn 800m o orsaf reilffordd Llanaber, ac o fewn 400m i safle bws. Er bod gwasanaeth bws rheolaidd i ganol Abermaw, mae posibilrwydd cryf y byddai'r datblygiad yn ddibynnol ar gerbydau preifat ac felly ni fyddai'n lleihau'r angen i deithio. Yn arbennig o ystyried bod Abermaw yn lleoliad cymharol ynysig yn y Sir. Mae posibilrwydd o effaith fach negyddol hirdymor yn erbyn AC Amcan 10 ar gyfer pob un o'r safleoedd, oherwydd ystyrir y byddai'n

annhebygol i'r datblygiad leihau'r angen i deithio.

Mae posibilrwydd o gynnydd yn lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y dewisiadau o ran safleoedd, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd arwyddocaol yn lefelau'r traffig. Dylai'r mesurau lliniaru sy'n cael eu darparu drwy bolisïau'r Cydgynllun Datblygu Lleol, a fydd ar gael ar lefel y prosiect, sicrhau'r effeithiau lleiaf posibl ar y rhwydwaith ffyrdd presennol. Fodd bynnag, er nad ydym yn rhagweld cynnydd sylweddol yn lefelau'r traffig, mae posibilrwydd y bydd cynnydd yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr, gydag effaith fach negyddol ar newid yn yr hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, yn cynnwys defnyddio cerbydau, yn lleihau o ganlyniad i reoliadau llym ar allyriadau cerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae ansicrwydd ynglŷn â hyn ar y cam hwn. Mae'r posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol ar AC Amcan 3 gydag elfen o ansicrwydd.

Bydd darparu amrywiaeth o dai hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol ar hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymdeithasol. Dylai gwella'r stoc o dai newydd fod yn fuddiol hefyd i iechyd trigolion lleol. Nid oes unrhyw wrthdaro o ran defnydd tir nac unrhyw broblemau arwyddocaol yn unrhyw un o'r safleoedd, sy'n debygol o effeithio ar iechyd pobl, mae posibilrwydd o effaith fach gadarnhaol yn erbyn AC Amcan 2, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd y cynigion manwl cyn cael eu cyflwyno.

Ar y cam hwn, nid yw'n hysbys a fydd unrhyw gyfleoedd cyflogaeth yn cael eu darparu ar y safleoedd. Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac mae'r ffaith bod y 3 opsiwn yn agos at ei gilydd yn golygu nad oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol yn nhermau mynediad at gyfleoedd cyflogaeth presennol. Mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Nid yw unrhyw un o'r safleoedd wedi'u diogelu gan ddynodiad tirwedd ac nid ydynt wedi'u nodi fel safleoedd â phwysigrwydd gweledol uchel. Mae posibilrwydd o golli tir maes glas yn sgîl datblygu'r tri safle, ac felly effaith fach negyddol hirdymor yn erbyn AC Amcan 8 drwy ddatblygu ardal heb ei datblygu. Mae elfen o ansicrwydd yn bodoli ar gyfer pob un o'r safleoedd, nes y bydd asesiadau lefel is mwy manwl yn cael eu cynnal. Mae posibilrwydd y bydd colli tir maes glas hefyd yn cael effaith fach negyddol hirdymor yn erbyn AC Amcan 9. Nodwyd hefyd y gallai materion topograffig, sy'n gysylltiedig â SP943 (natur lethrog y safle), effeithio ar ei hyfywedd. Ni fydd y datblygiad yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn unrhyw un o'r safleoedd.

Nid yw'r Arfarniad Cynaliadwyedd wedi nodi unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y dewisiadau safle yn erbyn Amcanion yr Arfarniad Cynaliadwyedd, ac nid yw hyn yn peri syndod, o ystyried pa mor agos yw'r safleoedd i'w gilydd.

## ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD

**Abersoch**

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) | Bioamrywiaeth | Cymuned a Iechyd | | Newid yn yr Hinsawdd | Yr Iaith Gymraeg | Diwylliant a Threftadaeth | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Trafnidiaeth | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| SP935 Tir ger Lon Garmon | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SPSP971 Tir ger Bryn Garmon | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| SP936 Tir ger Lon Sarn Bach | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 |

**Crynodeb**

Mae’r tri safle hyn yn safleoedd tir maes glas wedi’u lleoli’n ar gyrion ffin yr anheddiad. Dylid nodi bod SP935 ac SP971 yn gyfagos i'w gilydd yng ngogledd orllewin yr anheddiad tra bod SP936 yn y de ddwyrain. Nid oes unrhyw asedau treftadaeth wedi'u dynodi, nag unrhyw ddynodiad bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn neu yn gyfagos i'r safleoedd. Gallai colli tir maes glas gael ychydig o effaith negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir y gall polisïau’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC), sydd ar gael ar lefel y prosiect, leddfu digon fel nad oes effeithiau negyddol sylweddol. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcanion SA 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd tan i arolygon lefel prosiect ac asesiadau gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i’r seilwaith gwyrdd. Nid yw'r safleoedd o fewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Mae lleoliad y safleoedd yn golygu eu bod oll o fewn pellter cerdded i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y pentref. Mae yna felly botensial am rywfaint o effaith gadarnhaol hir dymor yn erbyn AC Amcan 2. O ystyried hyn, yn ogystal â mynediad hawdd at fodd cynaliadwy o drafnidiaeth (mae pob safle o fewn 400m i safle bws), mae posibilrwydd o rywfaint o effaith gadarnhaol hir-dymor yn erbyn AC Amcan 10 trwy leihau'r angen am deithio yn y pentref. Fodd bynnag, caiff ei gydnabod bod trigolion y dyfodol yn debygol o barhau i deithio i anheddiad fwy, sef Pwllheli, ar gyfer y dewis ehangach o wasanaethau/cyfleusterau a chyfleoedd swyddi sydd ar gael yno. Oherwydd hynny, ystyrir bod yna hefyd elfen o ansicrwydd ynghylch effeithiau cadarnhaol yn erbyn AC Amcan 10.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Mae posibilrwydd o lefelau traffig uwch; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd a gynigir mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd mewn traffig yn sylweddol. Mae polisïau'r Cynllun CDLlC (Adnau) ar gael ar lefel y prosiect a gallant liniaru digon i sicrhau bod yr effaith ar y rhwydwaith ffyrdd bresennol yn cael ei lleihau. Fodd bynnag, er nad oes disgwyl y byddai traffig yn cynyddu yn sylweddol, mae posibilrwydd o gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr allai gael rhywfaint o effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y dyfodol agos. Yn yr hir dymor mae'n debygol y byddai allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol (gan gynnwys defnyddio cerbydau) yn lleihau o ganlyniad i fesurau llym ar allyriadau o gerbydau newydd trwy gyfrwng safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch hyn. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 3 gydag elfen o ansicrwydd. Dylid nodi bod mân rwystrau yn nhermau mynediad i briffordd ar gyfer safleoedd SP935 ac SP971. Caiff ei ystyried yn annhebygol y bydd mesurau addas i ateb y mân rwystrau hyn ar lefel y prosiect.

Bydd darparu amrediad o dai hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar annog cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella darpariaeth y stoc dai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd trigolion lleol. Nid oes defnydd gwrthdrawiadol o dir na phroblemau sylweddol ynghylch unrhyw un o'r safleoedd sydd yn debygol o effeithio iechyd pobl, mae posibilrwydd o rywfaint o effaith gadarnhaol yn erbyn Amcan SA 2 gydag elfen o ansicrwydd nes bod cynigion manwl wedi eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd nid yw'n hysbys os y bydd unrhyw gyflogaeth ar gael ar y safleoedd. Ni fyddai datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth ac nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn y pentref. Mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Mae'r holl safleoedd o fewn AHNE Llŷn; fodd bynnag, mae tystiolaeth yn awgrymu nad oes pwysigrwydd uchel i'r un o'r safleoedd hyn ac na fyddai effeithiau negyddol ar olygfeydd pwysig. Mae potensial i golli tir maes glas o ddatblygu unrhyw un o'r safleoedd hyn ac felly mae effaith negyddol dymor hir yn erbyn AC Amcan 8 trwy ddatblygu ardal sydd heb ei datblygu'n barod. Oherwydd ei faint llai a'i berthynas gyda datblygiad presennol, ystyrir y byddai SP936 yn ymdoddi'n well gyda ffurf bresennol yr anheddiad. Ar y llaw arall, mae SP935 ac SP971 ychydig yn fwy ac o ystyried eu safleoedd mewn perthynas â'r anheddiad presennol maent yn fwy tebygol o gael eu gweld fel tresmasu ar gefn gwlad agored.

Mae elfen o ansicrwydd ynghylch pob safle tan i asesiadau lefel-is manylach gael eu cynnal. Mae colli tir maes glas hefyd yn golygu bod posibilrwydd o rywfaint o effaith negyddol hir dymor yn erbyn AC Amcan 9. Ni fydd datblygiadau yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ar unrhyw un o'r safleoedd. Pan gaiff yr opsiynau eu cymharu, ystyrir y byddai'r effaith negyddol ar dirwedd o ganlyniad i ddatblygiad ar safle SP936 yn llai arwyddocaol nag ar y safleoedd eraill.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Ni fydd datblygiadau yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ar unrhyw un o'r safleoedd.

Nid yw'r AC wedi nodi unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y safleoedd; fodd bynnag, mae rhai mân wahaniaethau y dylid eu nodi. Mae rhai mân rwystrau posibl yn nhermau mynediad priffordd i safleoedd SP935 ac SP971. Mae datblygiad ar safle SP936 yn debygol o gael llai o effaith negyddol ar dirwedd o'i gymharu â'r safleoedd eraill gan y byddai'n ymdoddi'n well gyda ffurf bresennol y sefydliad ac ychydig yn llai o faint.

**Bangor**

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) | Bioamrywiaeth | Cymuned ac Iechyd | | Newid yn yr Hinsawdd | Yr Iaith Gymraeg | Diwylliant Threftadaeth | Yr Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Trafnidiaeth | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **SP922 Tir ger yr Amlosgfa** | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | ? | + | ++ | - ? | - | + ? | 0 |
| **SP791 Tir ger Gerddi pen Lôn** | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | 0? | 0 | ++ | + | ++ | +? | 0 |
| **SP1004 Hen Depo Bysus** | 0? | +? | +? | 0? | 0 | 0? | 0 | ++ | + | ++ | +? | 0 |
| **SP1003 Ger Coleg Menai** | 0 ? | +? | +? | 0 ? | 0 | ? | + | ++ | - ? | - | + ? | 0 |

**Crynodeb**

Mae safleoedd SP922 a SP1003 wedi’u dynodi yn dir maes glas sydd ger ffin y datblygiad. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn nac wrth ymyl y safleoedd. Gallai colli tir maes glas gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth drwy golli cyswllt a darnio coridorau gwyrdd. Mae safle SP922 tua 700m o safleoedd Ewropeaidd; fodd bynnag, ystyrir bod y polisïau lliniaru sy’n cael eu darparu drwy’r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd yn addas ac ar gael ar lefel y prosiect, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae safleoedd SP791 a SP1004 ar y llaw arall yn cynrychioli tir llwyd a byddai

datblygiad fan hyn yn debygol o gael effaith bositif ar y dirwedd. Mae effaith niwtral bosibl yn erbyn AC Amcan 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd nes y bydd arolygon ac asesiadau lefel y prosiect yn cael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r seilwaith glas.

Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai safle SP922 gynnwys asedau archeolegol. Felly, ystyrir bod yr effaith bosibl ar dreftadaeth yn ansicr ar y cam hwn, nes y bydd asesiadau archeolegol lefel is, mwy manwl yn cael eu cynnal. Nid yw'r safle o fewn ardal lle mae perygl o lifogydd, mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Mae safle SP Coleg Menai a SP922 wedi eu lleoli gryn bellter (tua 1 km) o ganol Bangor a'r gwasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae SP922 o fewn pellter cerdded o ddwy ardal gyflogaeth bresennol, sef ystâd ddiwydiannol Llandygai a Phort Penrhyn. O ystyried yr amrywiaeth o wasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael ym Mangor, a'r ffaith bod gan y safle fynediad da i gyfleoedd cyflogaeth a thrafnidiaeth gynaliadwy bresennol (safle bws o fewn 400m), ystyrir y byddai posibilrwydd o effaith fach gadarnhaol hirdymor yn erbyn Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ogystal ag AC Amcan 10, drwy leihau'r angen i deithio. Mae SP791 a SP1004 ar y llaw arall wedi eu lleoli yn agosach at ganol Bangor ac maent o fewn pellter fwy cyfleus i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae elfen o ansicrwydd ynglŷn â'r ddau Amcan o'r Arfarniad Cynaliadwyedd, o ystyried y pellter i ganol Bangor.

Mae posibilrwydd o gynnydd yn lefelau traffig yn sgîl datblygu'r safle; fodd bynnag, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd arwyddocaol yn lefelau'r traffig. Dylai'r mesurau lliniaru sy'n cael eu darparu drwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, a fydd ar gael ar lefel y prosiect, sicrhau'r effeithiau lleiaf posibl ar y rhwydwaith ffyrdd presennol. Dylid nodi y gallai fod yn anodd cael mynediad i safle SP922 oherwydd byddai angen ymestyn y terfyn cyflymder o 30mya, pe byddai'r datblygiad yn mynd rhagddo. Fodd bynnag, er nad ydym yn rhagweld cynnydd sylweddol yn lefelau'r traffig, mae posibilrwydd y bydd cynnydd yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith fach negyddol ar newid yn yr hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, yn cynnwys defnyddio cerbydau yn lleihau, o ganlyniad i reoliadau llym ar allyriadau cerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Mae ansicrwydd ynglŷn â hyn ar y cam hwn. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 3 gydag elfen o ansicrwydd. Dylid nodi bod mân rwystrau yn nhermau mynediad i briffyrdd ar gyfer safleoedd SP935 ac SP971.

Bydd darparu amrywiaeth o dai hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol ar hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymdeithasol. Dylai gwella'r stoc o dai newydd fod yn fuddiol hefyd i iechyd trigolion lleol. Nid oes unrhyw wrthdaro o ran defnydd tir nac unrhyw broblemau arwyddocaol ar y safle, sy'n debygol o effeithio ar iechyd pobl, mae posibilrwydd o effaith fach gadarnhaol yn erbyn AC Amcan 2, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd y cynigion manwl wedi'u cyflwyno.

Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid yw'n hysbys ar y cam hwn a fydd unrhyw swyddi newydd yn cael eu

creu. Mae safle SP922 o fewn pellter cerdded i ddwy ardal gyflogaeth bresennol, felly mae posibilrwydd o effaith fach gadarnhaol yn erbyn AC Amcan 6.

Mae'r safleoedd tir glas yn bwysig iawn yn weledol, felly mae posibilrwydd o effaith fach negyddol hirdymor ar y tirlun. Fodd bynnag, ystyrir bod mesurau lliniaru addas ar gael drwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd, ar lefel y prosiect, a fyddai'n sicrhau nad yw'r effeithiau negyddol yn arwyddocaol. Er y gallai'r datblygiad newid cymeriad yr ardal dan sylw, ni ragwelir y bydd y newid yn cael effaith niweidiol iawn, oherwydd maint perthynol Bangor. Mae posibilrwydd o effaith mân negyddol weddilliol yn yr hirdymor ar y tirlun, gydag elfen o ansicrwydd nes y bydd asesiadau lefel is mwy manwl yn cael eu cynnal.

Dylid nodi na fydd datblygiad ar y safleoedd yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

**SP37 Pen y Ffridd, Bangor**

| Amcan AC | Bioamrywiaeth | Cymuned ac Iechyd | | Newid Hinsawdd | Yr Iaith Gymraeg | Treftadaeth a Diwylliant | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Trafnidiaeth | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| Sgôr AC | 0 ? | + | +? | - ? | 0 | 0 ? | + | ++ | - ? | - | + ? | 0 ? |

**Crynodeb**

Mae'r safle mawr hwn wedi'i ddosbarthu'n dir rhannol lwyd a rhannol las, y mae'r rhan helaeth ohono'n dir glas o fewn ffin ddatblygu'r CDU. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle neu'n gyfagos iddo. Mae posibilrwydd y gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bach ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltiadau a darnio coridorau gwyrdd. Mae'r safle'n tua 400m o SoDdGA Eithinog; fodd bynnag, fe'u gwahanir gan ddatblygiad presennol ac ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Yn unol â'r arfarniad safleoedd posib ar gyfer y safle hwn, mae'n bwysig y dylai unrhyw gynnig ar gyfer datblygu geisio cadw, gwella, yn ogystal â darparu coridorau bywyd gwyllt (sy'n cynnwys perthi) rhwng ardaloedd uchaf Bangor a llethrau is. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 1

gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r isadeiledd gwyrdd.

Nid oes unrhyw asedau treftadaeth sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol, yn genedlaethol neu'n lleol o fewn y safle, yn gyfagos neu'n agos iddo. Fodd bynnag, mae'r asesiad safle posib yn nodi y gall y safle gynnwys asedau archeolegol. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 5, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir astudiaethau ac asesiadau lefel is manylach. Nid yw'r safle o fewn ardal risg llifogydd, felly ceir hefyd y posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11. Dylid nodi y ceir digwyddiadau unigol o lifogydd yn y system garthffosiaeth gyhoeddus ym Mangor y bydd angen mynd i'r afael â hwy os bydd y dyraniad yn mynd yn ei flaen.

Lleolir y safle tua 3km i ffwrdd o ganol Bangor a mwyafrif y gwasanaethau/cyfleusterau sydd i'w cynnig. Fodd bynnag, mae o fewn pellter cerdded i'r Ysbyty a nifer o fusnesau allai gynnig cyfleoedd cyflogaeth ar hyd yr A4087. O ystyried ystod y gwasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael ym Mangor a bod gan y safle fynediad da i gyflogaeth bresennol, yr Ysbyty a thrafnidiaeth gynaliadwy (arhosfan bysiau o fewn 400m), ystyrir fod potensial am effaith cadarnhaol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 2, yn ogystal ag Amcan AC 10, drwy leihau'r angen i deithio. Ceir elfen o ansicrwydd yn erbyn y ddau Amcan AC o ystyried y pellter i ganol Bangor.

Mae'r arfarniad safle posib a gynhaliwyd gan y Cyngor yn nodi efallai bod problemau mewn perthynas â mynediad i'r rhwydwaith priffyrdd presennol yn ogystal â'i gapasiti. Mae'r problemau capasiti'n berthnasol iawn o ystyried hefyd y datblygiad o 245 uned ar dir gerllaw yn gyfagos i Ffordd Cynan. Dylai mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect, helpu i leihau effeithiau'r datblygiad ar y rhwydwaith priffyrdd presennol. Mae'r arfarniad safle posib yn nodi y byddai angen darparu ffordd gyswllt A o'r safle i Ffordd Caernarfon. O ystyried y cynnydd posibl mewn traffig a phroblemau presennol o ran capasiti, ystyrir bod potensial am effaith negyddol tymor hir bach gweddilliol yn erbyn Amcan AC 3. Ystyrir bod mesurau lliniaru addas i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol.

Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw fathau o ddefnydd tir sy'n gwrthdaro neu broblemau sylweddol yn y safle sy'n debygol o effeithio iechyd dynol, ceir posibilrwydd o effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl. Dylid nodi bod ffin dde orllewinol y safle yn gyfagos i'r ysbyty. Dylai unrhyw gynnig ar gyfer datblygu geisio lleihau effeithiau posibl ar y derbynnydd sensitif hwn, gan gynnwys sŵn, llygredd aer a golau, a darparu mesurau lliniaru addas ar ei gyfer. Dylai hefyd geisio darparu cysylltiadau cerdded a beicio addas i'r ysbyty.

Ni ddylai'r datblygiad arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol, ac ar hyn o bryd nid yw'n hysbys p'un a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu. Mae'r safle o fewn pellter cerdded i'r A4087, felly ceir potensial am effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 6.

ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD

| |
|---|
| Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd neu wedi'i nodi fel un o bwysigrwydd gweledol sylweddol. Byddai datblygu'n arwain at golli tir glas ac felly byddai potensial am effaith negyddol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 8 drwy ddatblygu ardal sydd heb ei datblygu'n flaenorol. Ceir potensial hefyd i adfywio tir llwyd allai gael effeithiau cadarnhaol; fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r safle'n dir glas, felly mae'n annhebygol o fod yn sylweddol. Gellid ystyried y byddai datblygu ar y safle yn gorgyffwrdd ag ardal gefn gwlad agored, a thra y gall arwain at newid cymeriad yr ardal, ni ragwelir y bydd y newid hwn yn cael effaith andwyol sylweddol, yn bennaf oherwydd maint cymharol Bangor. Dylai mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisiau'r CDLl ar y Cyd, ac sydd ar gael ar lefel prosiect, sicrhau nad yw effeithiau negyddol yn sylweddol. Potensial am effaith negyddol hirdymor bach yn erbyn Amcan AC 8, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is manylach. Dylid nodi bod potensial hefyd i ddatblygu ar y safle hwn gael effeithiau cronnol gyda'r datblygiad gerllaw ar dir cyfagos i Ffordd Cynan.<br><br>Mae gan golli tir glas hefyd y potensial am effaith negyddol bach yn erbyn Amcan AC 9. Dylid nodi na fydd datblygu ar y safle'n arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. |

| **Bethel** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned a Iechyd** | | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Diwylliant a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP788 Tir yn Saron** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP962 Tir ger B4366** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP963 Tir ger Bro Eglwys** | **0 ?** | **+** | **+?** | **- ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP282 Tir dros ffordd i Stad Rhoslan** | **0?** | **+** | **+?** | **0?** | **0** | **0?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+?** | **0** |
| **Crynodeb** | | | | | | | | | | | | |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Mae pob un o'r pedwar safle wedi'u lleoli ar dir a ddosbarthwyd fel tir maes glas o fewn neu'n agos at ffurf adeiledig Bethel. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol, neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn neu gerllaw'r safle. Gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bychan posib ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod lliniaru addas wedi'i ddarparu trwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd ac ar gael ar lefel prosiect er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Mae yno bosibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol yn erbyn AC Amcan 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect wedi cael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy wneud gwelliannau i'r seilwaith gwyrdd. Nid yw'r safleoedd o fewn ardal risg llifogydd, gyda phosibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Mae lleoliad y safleoedd yng nghanol Bethel yn golygu eu bod o fewn pellter cerdded i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y pentref. Mae posibilrwydd o effaith gadarnhaol bach hir dymor yn erbyn AC Amcan 2. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, ynghyd â mynediad da at foddau cludiant cynaliadwy (pob safle o fewn 400m i safle bws) mae posibilrwydd o effaith gadarnhaol hir dymor bychan yn erbyn AC Amcan 10 trwy leihau'r angen i deithio yn y pentref. Fodd bynnag, cydnabyddir bod preswylwyr yn y dyfodol yn debygol o ddal i deithio i Fangor ar gyfer yr ystod fwyaf o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael. Ystyrir felly fod yna hefyd elfen o ansicrwydd o ran yr effeithiau cadarnhaol yn erbyn yr AC Amcan 10.

Mae yna bosibilrwydd o lefelau uwch o draffig; fodd bynnag, o ystyried maint y dewisiadau safle mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn y traffig yn sylweddol. Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd (Adnau) sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau. Fodd bynnag, er nad ystyrir y bydd traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol bychan ar newid yn yr hinsawdd yn y tymor byr. Yn yr hir dymor mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnydd cerbydau yn lleihau o ganlyniad i reolaethau gollyngiadau llym ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Mae posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol Amcan AC 3 ar gyfer safleoedd SP282, SP788 a SP962 gydag elfen o ansicrwydd. Mae'r asesiad safleoedd posibl ar gyfer safle SP963 yn dangos bod problemau sylweddol o ran mynediad at y rhwydwaith priffyrdd presennol ac ansawdd y rhwydwaith honno. O'i gymharu ag opsiynau eraill y safle, ystyrir felly fod yna botensial am effaith negyddol fechan yn erbyn AC Amcan 3 ar gyfer safle SP963, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd astudiaethau lefel is mwy manwl wedi cael eu cynnal.

Bydd darparu amrywiaeth o dai hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod o fudd i iechyd y preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw wrthdaro defnydd tir neu faterion sylweddol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol, mae posibilrwydd o effaith gadarnhaol bychan yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd cynigion manwl wedi cael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod os bydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei ddarparu ar y safle. Ni fyddai datblygiad yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd cyflogaeth presennol yn y pentref. Mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Mae Safleoedd SP282, SP788 a SP962 yn cynrychioli tir glas yn gyfagos i'r ffin anheddiad tra bo SP963 yn dir mewnlenwi o fewn ffurf adeiledig yr anheddiad. O'i gymharu â SP962 a SP282, mae datblygu SP788 yn debygol o integreiddio'n well gyda ffurf adeiledig yr anheddiad. Mae datblygiad yn SP962 a SP282 yn fwy tebygol o gael ei weld fel estyniad i'r pentref a byddai'n ymwthio i gefn gwlad agored. Mae gan ddatblygu ym mhob un o'r safleoedd y potensial i golli tir glas, ac felly yn cael effaith negyddol hir dymor bychan yn erbyn AC Amcan 8 trwy ddatblygu ardal na chafodd ei datblygu o'r blaen. O'u cymharu yn erbyn ei gilydd, ystyrir bod llai o ansicrwydd o ran yr effeithiau negyddol posibl ar y dirwedd o ganlyniad i ddatblygiad ar safle SP962 a SP282. Argymhellir y dylai unrhyw gynnig ar gyfer datblygu ar safle SP788 ganolbwyntio ar ddatblygu ardal y safle ger Rhes y Swyddfa Bost a'r B4366, a fyddai'n ffurfio estyniad mwy rhesymegol i'r pentref.

Dylid nodi na fydd datblygiad yn unrhyw un o'r safleoedd yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

**SP942 Tir ger Maes Coetmor, Bethesda**

| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiae th** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Diwylliant Threftadaeth** | **Yr Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **?** | **0** |

**Crynodeb**

Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi fel safle maes glas sydd o fewn ffin ddatblygu Bethesda. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn nac wrth ymyl y safle. Gallai colli tir maes glas gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth drwy golli cyswllt a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod y polisïau lliniaru sy'n cael eu

darparu drwy'r Cydgynllun Datblygu Lleol yn addas ac ar gael ar lefel y prosiect, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae effaith niwtral bosibl yn erbyn AC Amcan 1 gydag elfen o ansicrwydd nes y bydd arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect wedi'u cynnal. Dylai unrhyw gynigion datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd. Dylid nodi bod y safle ychydig o dan 1 cilomedr o Ardal Gadwraeth Arbennig a SoDdGA Eryri; fodd bynnag, o ystyried lleoliad a maint y safle, ni ystyrir y bydd yn debygol o gael unrhyw effeithiau arwyddocaol.

Nid oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn na ger y safle. Fodd bynnag, dylid nodi bod dwy Ardal Gadwraeth ac Adeilad Rhestredig tua 160m i'r de-ddwyrain o'r safle. Mae'n annhebygol y bydd y datblygiad yn cael effaith ar leoliad yr asedau treftadaeth, o ystyried bod y coed oddi ar yr A5 yn cuddio'r safleoedd. Ystyrir bod mesurau lliniaru addas yn cael eu darparu drwy bolisïau'r Cydgynllun Datblygu Lleol, sydd ar gael ar lefel y prosiect, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar dreftadaeth. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 5, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect yn cael eu cynnal.

Nid yw'r safle o fewn ardal lle mae perygl o lifogydd, mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Mae'r safle o fewn 1 km i gyfleusterau a gwasanaethau presennol yn y pentref, felly mae o fewn pellter cerdded rhesymol. O ystyried maint y safle, mae posibilrwydd o ddarparu cyfleusterau/gwasanaethau newydd; fodd bynnag, mae ansicrwydd ynglŷn â hyn ar y cam hwn. Mae posibilrwydd o effaith fach gadarnhaol yn erbyn Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae gan y safle gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da (o fewn 400m i safle bws). O ystyried pellter y safle o gyfleusterau/gwasanaethau presennol a'r mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, mae posibilrwydd y bydd y datblygiad yn lleihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, mae goleddf bach o'r gwasanaethau/cyfleusterau presennol i'r safle hwn, a allai rwystro mynediad i rai preswylwyr. Cydnabyddir hefyd bod pobl yn debygol o barhau i deithio i'r aneddiadau mwy, megis Bangor, er mwyn cael mynediad i ystod ehangach o wasanaethau/cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth. Mae posibilrwydd o effaith ansicr yn erbyn AC Amcan 10.

Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar y cam hwn yn dangos bod unrhyw broblemau capasiti gyda'r rhwydwaith ffyrdd presennol. Mae proses asesu'r safle dan sylw wedi nodi y bydd angen rhai gwelliannau i briffyrdd yn nhermau mynediad, ond nad yw'r rhain yn arwyddocaol. Gallai'r gwaith datblygu ar y safle gynyddu traffig; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd yn gynnydd sylweddol, o ystyried y mesurau lliniaru sy'n cael eu darparu drwy bolisïau'r Cyynllun Datblygu Lleol ar y cyd, ac sydd ar gael ar lefel y prosiect. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 3. Er nad ydym yn rhagweld cynnydd sylweddol yn lefelau'r traffig, mae posibilrwydd y bydd cynnydd yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith fach negyddol ar newid yn yr hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, yn cynnwys defnyddio cerbydau yn lleihau, o ganlyniad i reoliadau llym ar allyriadau cerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Mae ansicrwydd ynglŷn â hyn ar y cam hwn.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

| |
|---|
| Bydd darparu amrywiaeth o dai hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol ar hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymdeithasol. Dylai gwella'r stoc o dai newydd fod yn fuddiol hefyd i iechyd trigolion lleol. Nid oes unrhyw wrthdaro o ran defnydd tir nac unrhyw broblemau arwyddocaol, sy'n debygol o effeithio ar iechyd pobl, mae posibilrwydd o effaith fach gadarnhaol yn erbyn Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd y cynigion manwl wedi'u cyflwyno.<br><br>Ni wyddom ar y cam hwn a fydd unrhyw gyfleoedd cyflogaeth ar gael ar y safle. Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol, mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.<br><br>Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd ac nid yw wedi'i nodi fel safle â phwysigrwydd gweledol uchel. Mae posibilrwydd o golli tir maes glas yn sgîl datblygu'r safle, ac felly effaith fach negyddol hirdymor yn erbyn AC Amcan 8 drwy ddatblygu ardal heb ei datblygu. Mae elfen o ansicrwydd yn bodoli oherwydd bydd maint, cynllun a dyluniad y datblygiad yn dylanwadu ar arwyddocâd yr effaith, a bydd angen cynnal asesiadau lefel is mwy manwl. Mae posibilrwydd y bydd colli tir maes glas hefyd yn cael effaith fach negyddol hir dymor yn erbyn AC Amcan 9. Dylid nodi nad yw'r safle yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf ac amlbwrpas. |

| **Blaenau Ffestiniog** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr iaith Gymraeg** | **Diwylliant & Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirwedau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP954 Tir ger Fronlas Terrace** | **0 ?** | **-- / +?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **--** | **0** |
| **Crynodeb**<br><br>Caiff y safle dan sylw ei ddisgrifio fel tir wedi ei leoli gerllaw y ffin ddatblygu. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, | | | | | | | | | | | |

cenedlaethol na lleol nac unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn na gerllaw'r safle. Gallai colli safle tir maes glas o bosibl gael ychydig effaith negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Dylid nodi bod y safle 700m i ffwrdd o SoDdGA Chwarel Gwenithfaen Madoc sydd wedi ei lleoli i gyfeiriad y gogledd ddwyrain. Ystyrir bod mesurau lliniaru digonol wedi eu darparu, ac ar gael ar lefel prosiect trwy bolisïau y CDLl ar y Cyd er mwyn sicrhau nad oes effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth na threftadaeth. Posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol yn erbyn AC Amcanion 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect wedi eu cwblhau. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu edrych am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy sicrhau gwelliannau i isadeiledd gwyrdd. Nid yw'r safleoedd o fewn ardal lle ceir perygl o lifogydd yn erbyn AC Amcan 11.

Mae'r safle wedi ei leoli dros 2km o ganol Blaenau Ffestiniog a'r gwasanaethau / cyfleusterau sydd ar gael yno. Felly mae posibilrwydd o effaith negyddol uchel yn erbyn AC Amcan 2 gan nad yw'r safle o fewn pellter cerdded oddi wrth y gwasanaethau / cyfleusterau sydd ar gael. Mae lleoliad Blaenau Ffestiniog o fewn y Sir yn golygu bod y dref wedi ei hynysu oddi wrth aneddiadau eraill a'r gwasanaethau / cyfleusterau sydd ar gael ynddynt. Mae'r safle o fewn 400m i safle bws; fodd bynnag, o ystyried y pellter o ganol Blaenau Ffestiniog ac ynysedd yr anheddiad ystyrir na fydd y datblygiad yn lleihau'r angen i deithio. Posibilrwydd o effaith negyddol uchel yn erbyn AC Amcan 10, gydag elfen o ansicrwydd.

Mae posibilrwydd y byddai cynnydd yn y lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safle, mae'n anhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn sylweddol. Dylai polisïau y CDLl ar y Cyd (Adnau) - sydd ar gael ar lefel prosiect – sicrhau bod unrhyw effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau i'r eithaf. Fodd bynnag, er nad ystyrir bod lefel y traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae posibilrwydd y bydd cynnydd mewn allyriadau nwy tŷ gwydr gydag ychydig o effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn yr hir dymor, mae'n debygol y bydd allyriadau nwy tŷ gwydr oddi wrth weithgareddau cyffredinol - yn cynnwys defnyddio peiriannau - yn lleihau oherwydd safonau Ewrop a rheolaeth gaeth ar allyriadau o beiriannau newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae ansicrwydd ynghylch hyn. Posibilrwydd o effaith weddilliol niwtral AC Amcan 3 gydag elfen o ansicrwydd o ystyried bod y datblygiad yn anhebygol o leihau'r angen i deithio.

Bydd darparu ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o safbwynt hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai cynyddu'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod o fudd i iechyd y preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw ddefnydd tir na materion arwyddocaol eraill ar y safle sydd yn wrthdrawiadol ac yn debygol o effeithio ar iechyd dynol, posibilrwydd o effaith gadarnhaol isel yn erbyn AC Amcan 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd cynigion manwl wedi eu cyflwyno. Mae'r safle gerllaw'r A470, felly argymhellir bod unrhyw gynnig am ddatblygu yn sicrhau bod tir clustog digonol rhwng y ffordd a'r datblygiad er mwyn lleihau i'r eithaf y llygredd sŵn oddi wrth beiriannau.

Ar y funud nid yw'n hysbys a fydd unrhyw swyddi ar gael ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o safbwynt mynediad at y cyfleoedd cyflogaeth presennol yn y pentref. Posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Nid yw'r safle wedi ei ddiogelu gan ddynodiad tirwedd nac wedi ei adnabod fel un sydd yn bwysig o safbwynt nodweddion gweledol. Mae datblygu'r safle yn creu'r posibilrwydd o golli tir maes glas ac oherwydd hynny effaith negyddol isel yn y tymor hir yn erbyn AC Amcan 8 oherwydd datblygu ardal nad oedd wedi ei datblygu yn flaenorol. Er y gall datblygu arwain at newid yng nghymeriad yr ardal agosaf at y safle, ni ragwelir y bydd y newid hwn yn sylweddol niweidiol oherwydd maint cymharol Blaenau Ffestiniog. Elfen o ansicrwydd i'r holl safleoedd hyd nes bydd rhagor o asesiadau lefel ïs wedi eu cwblhau. Mae colli tir maes glas hefyd yn golygu'r posibilrwydd o effaith negyddol isel yn erbyn AC Amcan 9.

Ni fydd datblygu'r safle yn arwain at golli tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

**SP918 Caeau Chwarae Blaenorol, Blaenau Ffestiniog**

| Amcan AC | Bioamrywiaeth | Cymuned ac Iechyd | | Newid Hinsawdd | Yr Iaith Gymraeg | Treftadaeth a Diwylliant | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Trafnidiaeth | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **Sgôr AC** | 0 ? | --? | ? | 0 ? | 0 | 0 ? | - | ++ | - ? | - | -- ? | 0 |

**Crynodeb**

Mae'r safle hwn wedi'i ddosbarthu'n dir glas a leolir o fewn y ffin ddatblygu. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle neu'n gyfagos iddo. Mae posibilrwydd y gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bach ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltiadau a darnio coridorau gwyrdd. Dylid nodi bod y safle'n 550m i ffwrdd o SoDdGA Tan Y Grisiau sy'n gorwedd i'r gogledd orllewin. Ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau Adneuo'r CDLl ar y Cyd ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth neu dreftadaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r isadeiledd gwyrdd. Nid yw'r safleoedd o fewn ardal risg llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Lleolir y safle dros 1.5km o ganol Blaenau Ffestiniog a'r gwasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael. Ceir felly botensial am effaith negyddol mawr yn erbyn Amcan AC 2 gan nad yw'r safle o fewn pellter cerdded i gyfleusterau/gwasanaethau presennol. Yn ogystal, ceir elfen o ansicrwydd gan fod y safle'n gyfagos i gyfleoedd cyflogaeth presennol yn ffatri Rehau. Mae lleoliad Blaenau Ffestiniog o fewn y Sir yn golygu ei fod wedi'i ynysu o aneddiadau eraill a'r cyfleusterau/ gwasanaethau sydd ar gael ynddynt. Mae'r safle o fewn 400m o arhosfan bysiau; fodd bynnag, o ystyried y pellter o ganol Blaenau Ffestiniog a bod yr anheddiad wedi'i ynysu, ystyrir na fydd datblygu'n lleihau'r angen i deithio. Potensial am effaith negyddol mawr yn erbyn Amcan AC 10, gydag elfen o ansicrwydd.

Ceir y potensial am gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safle, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn sylweddol. Dylai mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau Adnau'r CDLlC ar y Cyd, ac sydd ar gael ar lefel prosiect, sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau. Fodd bynnag, tra nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol bach ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, gan gynnwys y defnydd o gerbydau, yn lleihau o ganlyniad i fesurau rheoli allyriadau caeth ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd, o ystyried bod datblygu yn anhebygol o leihau'r angen i deithio.

Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw fathau o ddefnydd tir sy'n gwrthdaro neu broblemau sylweddol yn y safle sy'n debygol o effeithio iechyd dynol. Mae'r safle'n gyfagos i'r A496, felly argymhellir bod unrhyw gynnig ar gyfer datblygu yn sicrhau bod clustogfa briodol rhwng y ffordd a'r datblygiad i leihau'r llygredd sŵn a grëir gan gerbydau. Bydd datblygu'n arwain at golli caeau chwarae. Nid ystyrir bod hyn yn sylweddol oherwydd y gellid eu hadleoli a'u darparu yn rhywle arall. Mewn cydnabyddiaeth o golli caeau chwarae, ystyrir bod yr effaith posibl ar iechyd (Amcan AC 2) yn ansicr.

Lleolir y safle o fewn safle cyflogaeth dynodedig sy'n cael ei ddiogelu (CDU Gwynedd). Byddai datblygu'r safle felly'n arwain at golli tir cyflogaeth ac adlewyrchir hyn yn y sgôr negyddol bach yn erbyn Amcan AC 6.

Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd neu wedi'i nodi fel un o bwysigrwydd gweledol sylweddol. Byddai gan ddatblygu ym mhob un o'r safleoedd y potensial i golli tir glas ac felly effaith negyddol tymor hir bach yn erbyn Amcanion AC 8 drwy ddatblygu ardal sydd heb ei datblygu'n flaenorol. Tra gall datblygu arwain at newid yng nghymeriad yr ardal gyfagos, ni ragwelir y bydd y newid hwn yn amharu ar yr ardal yn sylweddol oherwydd maint cymharol Blaenau Ffestiniog. Ceir elfen o ansicrwydd o ran bob safle hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is manylach. Mae gan golli tir glas hefyd y potensial am effaith negyddol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 9.

| |
|---|
| Ni fydd datblygu ar y safle'n arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. |

| **Bontnewydd** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SA Objective** | **Biodiversity** | **Community & Health** | **Climate Change** | **Welsh Language** | **Cultural & Heritage** | **Economy** | **Housing** | **Landscapes** | **Waste & Minerals** | **Transport** | **Water** |
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP669** | **0?** | **+ +?** | **-?** | **0** | **0?** | **0** | **++** | **-?** | **-** | **+** | **0** |

**Summary**

Mae'r safle wedi ei leoli ar dir glas o fewn ffin datblygu'r CDU. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol nac asedau treftadaeth dynodedig yn y safle nac yn agos atynt. Gallai colli tir glas o bosib gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod digon o liniaru yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl a'i fod ar gael hefyd ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Mae potensial effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AG1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhaliwyd arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd.

Nid yw'r safle mewn ardal lle mae risg o lifogydd; potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11.

Ystyrir bod y safle o fewn pellter cerdded hawdd o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol yn y pentref. Mae modd cyrraedd cludiant cyhoeddus yn hawdd o'r safle (arosfan bws o fewn 400m) ac mae o fewn pellter gyfleus i Gaernarfon. Cydnabyddir y bydd trigolion yn dal i deithio i Gaernarfon ar gyfer rhai gwasanaethau/cyfleusterau ond gan fod Caernarfon mor agos, ni ystyrir bod arwyddocâd i hyn.

Mae mynediad i'r safle'n dda ac nid yw'n debygol o gynyddu lefelau traffig yn sylweddol. O gofio maint y safle a nifer fechan yr anheddau sydd eu hangen ar gyfer y pentref, nid yw'n debygol y byddai datblygiad yn cyfrannu'r sylweddol ar lefelau'r traffig. Mae mesurau lliniaru addas ar gael er mwyn sicrhau na fydd effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am effaith niwtral gweddilliol, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is mwy manwl. Y mae potensial am effeithiau cronnus gyda datblygu ar y dewisiadau safle eraill yn ardal y cynllun. Bydd angen ystyried hyn ymhellach trwy AG ar y CDLlC a Adneuwyd. Er nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i

gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd.

Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle sy'n debyg o effeithio ar iechyd dynol; potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ni fyddai datblygu ar y dewisiadau safle yn arwain at golli unrhyw waith presennol.

Nid yw'r safle wedi ei warchod gan ddynodiad tirwedd ac ni chawsant eu nodi fel rhai o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygu ar y safle botensial i golli tir glas ac felly mân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 8 trwy ddatblygu ardal nas datblygwyd o'r blaen. Nid yw'n debygol y bydd unrhyw ddatblygu ar y safle yn cael effeithiau negyddol arwyddocaol ar y tirwedd. Mae gan golli tir glas hefyd botensial am fân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 9.

Dylid nodi nad yw'r safle'n cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlochrog.

| **Botwnnog** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned a Iechyd** | | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Diwylliant a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP433 Cae Cefn Capel** | **0 ?** | **-** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- - ?** | **0** |
| **SP956 Tir gerllaw Llyn** | **0 ?** | **-** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **- - ?** | **0** |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

| **Alys** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SP957 Tir gerllaw Pentre** | **0 ?** | **-** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- - ?** | **0** |

**Crynodeb**

Mae pob un o'r tri safle wedi eu lleoli ar dir a ddosbarthwyd fel tir maes glas o fewn y ffurf adeiledig Botwnnog. Mae safleoedd SP433 a SP957 yn cynrychioli tir mewnlenwi addas o fewn ffurf adeiledig yr anheddiad. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol, neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn, gerllaw neu yn agos i'r safleoedd. Gallai colli tir maes glas gael effaith negyddol bychan ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, mae'r safleoedd o fewn ffurf adeiledig yr anheddiad a bernir bod yna liniaru addas wedi'i ddarparu trwy bolisïau CDLl ar y Cyd sydd ar gael ar lefel y prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae potensial ar gyfer effaith niwtral gweddilliol yn erbyn AC Amcan 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect wedi cael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy wneud gwelliannau i'r seilwaith gwyrdd. Nid yw'r safle o fewn ardal risg llifogydd, ac mae potensial ar gyfer effaith niwtral yn erbyn Arfarniad Cynaliadwyedd Amcan 11.

Mae pob un o'r opsiynau safle o fewn pellter cerdded i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael yn y pentref. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd yr amrediad gwael o gyfleusterau / gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth presennol yn ddigon i fodloni holl anghenion preswylwyr newydd. Bernir felly bod y potensial ar gyfer effaith negyddol hirdymor bychan yn erbyn AC Amcan 2. Mae'r opsiynau safle i gyd o fewn 400m i arosfan bws; fodd bynnag, o ystyried y diffyg presennol o gyfleusterau / gwasanaethau sydd ar gael a lleoliad cymharol ynysig Botwnnog, bernir na fydd datblygu yn lleihau'r angen i deithio. Bydd dal angen i breswylwyr deithio i aneddiadau mwy o faint i gael mynediad i ystod ehangach o gyfleusterau / gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth. Mae potensial ar gyfer effaith negyddol fawr yn erbyn AC Amcan 10, gydag elfen o ansicrwydd.

Mae potensial ar gyfer lefelau uwch o draffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safle, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn sylweddol. Dylai lLliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLl ar y Cyd Adnau ac sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau bod effaith ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael ei leihau. Fodd bynnag, er nad ystyrir y bydd traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol fechan ar newid yn yr hinsawdd yn y tymor byr. Yn yr hir dymor mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnydd o gerbydau yn lleihau o ganlyniad i reolaethau gollyngiadau llym ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Mae potensial ar gyfer effaith gweddilliol niwtral yn erbyn Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd, o ystyried bod datblygu yn annhebygol o leihau'r angen i deithio. Dylid nodi bod yna faterion mynediad posibl mewn perthynas â safle SP956; fodd bynnag, mae'r rhain yn annhebygol o fod yn sylweddol.

## ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD

Bydd darparu ystod o dai hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod o fudd i iechyd y preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw wrthdaro o ran defnydd tir neu faterion sylweddol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol, ac mae potensial am effaith gadarnhaol fechan yn erbyn AC Amcan 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd cynigion manwl wedi cael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod os bydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei ddarparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd cyflogaeth presennol yn y pentref. Ae potensial ar gyfer effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Nid yw'r opsiynau safle wedi cael eu diogelu gan ddynodiad tirwedd, neu wedi eu hadnabod fel rhai sydd â phwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygu ym mhob un o'r safleoedd y potensial i golli tir glas, ac felly cael effaith negyddol hirdymor bychan yn erbyn AC Amcan 8 drwy ddatblygu ardal sydd heb ei datblygu o'r blaen. Mae elfen o ansicrwydd ar gyfer pob safle hyd nes y bydd asesiadau lefel is yn fwy manwl wedi cael eu cynnal. Mae gan golli tir glas hefyd y potensial ar gyfer effaith negyddol hirdymor bychan yn erbyn AC Amcan 9.

Dylid nodi nad oedd yr un o'r safleoedd yn cynnwys y  tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Nid yw'r AC wedi nodi unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng yr opsiynau safle yn erbyn Amcanion yr Arfanriad Cynaliadwyedd, nad yw'n syndod o ystyried eu bod mor agos i'w gilydd.

| **Caernarfon** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr iaith Gymraeg** | **Diwylliant a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirwedau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP 707 Yng Nghefn Maes** | **0 ?** | **- +?** | **- ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- ?** | **0** |

ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD

| Gwynedd | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| SP 906 Cyn Randiroedd | 0 ? | - | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP 907 Tir yng Nghae Bold | 0 ? | - | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| SP 912 Cyn Ysgol yr Hendre | 0 ? | - | +? | - ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | + ? | ++ | - ? | 0 |

**Crynodeb**

Mae safle SP 907 yn golygu tir maes glas sydd yn ymestyn hyd at ffin anheddiad y CDU;  mae safle SP707 a SP 906 yn diroedd maes glas sydd wedi eu lleoli o fewn y ffin anheddiad; ac mae  SP 912 yn cynrychioli safle tir llwyd o fewn y ffin anheddiad. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn nac wrth ymyl y safleoedd hyn. Gallai colli tir maes glas ar safleoedd SP 707, SP 906 a SP 907 o bosibl gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd.  Mae ACA Glannau'r Fenai a Bae Conwy o fewn 1km i safleoedd SP 707, SP 906 & SP 907 ac ychydig dros 1km o safle SP 912. Mae SoDdGA Afon Seiont tua 350m o SP 912 a'r safleoedd eraill ychydig dros 1km i ffwrdd. Ystyrir bod polisiau y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn darparu mesurau lliniaru addas ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar fioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygu ar y dewisiadau hyn o safleoedd. Posibilrwydd y bydd effaith niwtral gweddilliol ar safleoedd SP 707, SP 906 a SP 907 yn erbyn AC Amcan 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd arolygon ac asesiadau lefel prosiect wedi eu cwblhau. Safle tir llwyd yw  SP 912 a gall hwn hefyd fod â gwerth uchel o safbwynt bioamrywiaeth. O safbwynt y safleoedd eraill, ystyrir bod polisiau y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn darparu mesurau lliniaru addas ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar fioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygu ar y dewisiadau hyn o safleoedd. Posibilrwydd y bydd effaith niwtral gweddilliol ar safle  SP 912  yn erbyn AC Amcan 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd arolygon ac asesiadau lefel prosiect wedi eu cwblhau. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu edrych am gyfleoedd i ddiogelu bioamrywiaeth trwy gyfrwng gwelliannau i'r seilwaith gwyrdd

Nid oes unrhyw ddynodiadau treftadaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn y safleoedd hyn nac yn agos iddynt. Mae nifer o Adeiladau Rhestredig yng Nghaernarfon ac mae Ardal Gadwraeth a dau o Henebion Rhestredig i'r gorllewin o'r safleoedd a ddewiswyd. O ystyried maint y safleoedd a'r mesurau lliniaru a ddarperir trwy bolisiau'r CDLl ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect, mae'n anhebygol y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar dreftadaeth. Er y gall datblygu arwain at newid yng nghymeriad  yr ardal sydd union gerllaw y safle, ni ragwelir y bydd y newid hwn yn niweidiol iawn i leoliad yr asedau treftadaeth oherwydd maint cymharol tref Caernarfon.  Posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol ar bob dewis o safle yn erbyn AC Amcan 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd arolygon ac asesiadau lefel prosiect wedi eu cwblhau.

Nid yw'r safleoedd o fewn ardal lle ceir perygl o lifogydd, posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Mae'r safleodd hyn i gyd wedi eu lleoli ar gyrion yr anheddiad ac nid ydynt o fewn pellter cerdded (1km) i'r holl gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael yng nghanol tref Caernarfon. Posibilrwydd o effaith negyddol isel yn erbyn AC Amcan 2. O ystyried yr ystod eang o gyfleusterau / gwasanaethau sydd ar gael a bod yr holl ddewisiadau o safleoedd o fewn 400m o safle bws, ystyrir bod posibilrwydd o effaith hir dymor gadarnhaol (ond isel) yn erbyn AC Amcan 10 trwy leihau'r angen am deithio.

Mae posibilrwydd y bydd cynnydd mewn lefelau traffig; er, o ystyried maint y safleoedd dan sylw, fesul un y maent yn anhebygol o arwain at gynnydd sylweddol. Mae gwybodaeth a geir yn yr asesiad ymgeisio manwl o'r safleoedd yn nodi bod y drefn priffyrdd bresennol yn is-safonol ac mai'r unig fodd i'w gwella fyddai trwy fuddsoddiad economaidd mawr a bod materion yn codi o safbwynt mynediad i'r holl safleoedd. Dylai mesurau lliniaru a ddarperir trwy bolisiau'r CDLl ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau nad yw'r effeithiau negyddol yn rhai sylweddol. Er na thybir bod lefelau traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae posibilrwydd y cynyddir allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol isel ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y hir dymorach, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr oddi wrth weithgareddau cyffredinol gan gynnwys y defnydd o beiriannau yn lleihau oherwydd safonau Ewrop a rheolaeth gaeth ar allyriadau o beiriannau newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch hyn. Posibilrwydd o effaith negyddol gweddilliol isel yn y hir dymor o dan AC Amcan 3 ond eto mae elfen o ansicrwydd.

Ar hyn o bryd nid yw'n wybyddus os bydd swyddi ar gael ar y safleoedd hyn. Nl fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o safbwynt mynediad at gyfleoedd gwaith yn y pentref. Posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Bydd darparu ystod o dai newydd yn cael effaith gadarnhaol o safbwynt hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai cynyddu'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod o fudd i iechyd y preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw ddefnydd tir gwrthdrawiadol nac unrhyw faterion arwyddocaol sydd yn debygol o effeithio ar iechyd dynol, posibilrwydd o effaith gadarnhaol isel yn erbyn AC Amcan 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd cynigion manwl wedi eu cyflwyno.

Nid yw'r dewis safleoedd wedi eu diogelu trwy ddynodiad tirwedd nac wedi eu nodi fel safleoedd o bwysigrwydd gweledol uchel. Gallai datblygu ar safleoedd SP 707, SP 906 a SP 907 arwain at golli tir maes glas ac oherwydd hynny mae iddynt effaith negyddol isel yn y hir dymor yn erbyn AC Amcan 8 trwy ddatblygu ar ardal nad oedd wedi ei datblygu yn flaenorol. Gellid galw datblygu ar safleoedd SP 707 a SP 907 yn dresmasu ar dir cefn gwlad agored ac felly gydag effaith negyddol mwy arwyddocaol; fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch hyn. Mae datblygu ar safle SP 912 yn golygu'r posibilrwydd o adnewyddu ardal tir llwyd ac felly mae yma'r posibilrwydd o effaith gadarnhaol isel ar y tirwedd yn y hir dymor. Elfen o ansicrwydd o safbwynt yr holl safleoedd hyd nes bydd arolygon ac asesiadau manwl lefel ïs wedi eu cwblhau. Byddai colli tir maes glas ar safleoedd SP 707, SP 906 a SP 907 hefyd yn golygu'r posibilrwydd o effaith negyddol isel yn y hir dymor yn erbyn AC Amcan 9. Mae datblygu ar safle SP 912 hefyd gyda'r posibilrwydd o effaith gadarnhaol uchel yn y hir dymor yn erbyn AC Amcan

9 gan ei fod i gyd yn dir llwyd.

Dylid nodi nad yw unrhyw un o'r safleoedd hyn yn cynnwys tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Mae'r AC wedi canfod bod rhai gwahaniaethau allweddol rhwng y safleoedd. O gymharu gydag opsiynau eraill o safleoedd, mae datblygu safle SP 912 yn golygu'r posibilrwydd o effeithiau cadarnhaol ar dirwedd a phriddoedd trwy ddefnyddio ac adnewyddu tir llwyd. Gellid gweld datblygu ar safleoedd  SP 707 a SP 907 fel tresmasu ar dir cefn gwlad agored ac felly gydag effaith negyddol mwy arwyddocaol na safleoedd SP 707 & SP 912; fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch hyn. Nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y safleoedd o safbwynt pellter cerdded i gyfleusterau a gwasanaethau presennol; fodd bynnag, dylid nodi mai safle SP 906 yw'r agosaf at ganol y dref.

| **SP911 Tir yn gyfagos i Stad Bryn Rhos, Caernarfon** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Treftadaeth a Diwylliant** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP707 Y tu ôl i Faes Gwynedd** | **0 ?** | **+?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **+** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |

**Crynodeb**

Mae'r safle mawr hwn wedi'i ddosbarthu'n dir glas sy'n gyfagos i ffin ddatblygu'r CDU. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle neu'n gyfagos iddo. Mae posibilrwydd y gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bach ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltiadau a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a threftadaeth lle bynnag y bo modd.

Nid yw'r safleoedd o fewn ardal risg llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Lleolir y safle cryn bellter i ffwrdd o ganol Caernarfon ac nid yw felly o fewn pellter cerdded i'r gwasanaethau/cyfleusterau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae o fewn pellter cerdded o ardal gyflogaeth fawr bresennol Stad Ddiwydiannol Cibyn. O ystyried yr ystod o wasanaeth/cyfleusterau sydd ar gael yng Nghaernarfon a bod gan y safle fynediad da i gyflogaeth bresennol a thrafnidiaeth gynaliadwy (arhosfan bysiau o fewn 400m) ystyrir bod potensial am effaith cadarnhaol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 2 yn ogystal ag Amcan AC 10 drwy leihau'r angen i deithio. Ceir elfen o ansicrwydd yn erbyn y ddau Amcan AC o ystyried y pellter i ganol Caernarfon.

Nid yw'r arfarniad safle posib a wnaed gan y Cyngor yn nodi unrhyw broblemau o ran capasiti mewn perthynas â'r rhwydwaith priffyrdd presennol. Gall fod rhai problemau yn nhermau mynediad ond nid ystyrir eu bod yn sylweddol. Mae hefyd yn nodi y byddai angen ymestyn y cyfyngiad cyflymder ar gyfer datblygiad yn y safle hwn. Ceir potensial am lefelau uwch o draffig o ganlyniad i ddatblygu yn y safle; fodd bynnag, dylai mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau Adnau'r CDLl ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau ac nid oes effeithiau sylweddol. Fodd bynnag, tra nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, ceir y potential i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol bach ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, gan gynnwys y defnydd o gerbydau, yn lleihau o ganlyniad i fesurau rheoli allyriadau caeth ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd.

Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw fathau o ddefnydd tir sy'n gwrthdaro neu broblemau sylweddol yn y safle sy'n debygol o effeithio iechyd dynol, ceir posibilrwydd o effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ni ddylai'r datblygiad arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol, ac ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys p'un a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu. Mae'r safle o fewn pellter cerdded i ardal gyflogaeth bresennol fawr felly ceir potensial am effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 6.

Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd neu wedi'i nodi fel un o bwysigrwydd gweledol sylweddol. Byddai datblygu'n arwain at golli tir glas ac mae'r arfarniad safle posib a wnaed gan y Cyngor yn nodi y gallai maint y safle fod yn ormesol ac arwain at amharu'n annerbyniol ar ardal gefn gwlad agored. Dylai mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisiau'r CDLl ar y Cyd, ac sydd ar gael ar lefel prosiect, sicrhau nad yw effeithiau negyddol yn sylweddol. Lleolir y safle'n gyfagos i ddatblygiad preswyl presennol yn ogystal ag ardal gyflogaeth bresennol fawr. O ystyried hyn oll, gwelir bod potensial am effaith negyddol bach gweddilliol yn erbyn Amcan AC 8. Ceir elfen o ansicrwydd, gan y bydd natur ac arwyddocâd y safle'n ddibynnol ar raddfa, cynllun a dyluniad datblygiad arfaethedig.

Mae gan golli tir glas hefyd y potensial am effaith negyddol bach yn erbyn Amcan AC 9. Dylid nodi na fydd datblygu ar y safle'n arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

**Chwilog**

| Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC) | Bioamrywiaeth | Cymuned a Iechyd | | Newid yn yr Hinsawdd | Yr Iaith Gymraeg | Diwylliant a Threftadaeth | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Trafnidiaeth | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **SP958 Tir ger Tyn Rhos** | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| **SP959 Tir ger Cae Capel** | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |
| **SP960 Tir ti cefn i Madryn Arms** | 0 ? | -? | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - ? | 0 |

**Crynodeb**

Mae'r tri safle dan ystyriaeth yn safleoedd tir maes glas ac yn cynrychioli dyraniadau tai CDU presennol o fewn ffin ddatblygu Chwilog. Fodd bynnag, dylid nodi bod safle SP959 yn cynrychioli estyniad y tu hwnt i ddyraniad tai CDU presennol. Nid oes unrhyw asedau treftadaeth wedi'u dynodi, nag unrhyw ddynodiad bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn neu'n gyfagos i'r safleoedd. Gallai colli tir maes glas gael ychydig o effaith negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir y gall polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLlC), sydd ar gael ar lefel y prosiect, leddfu digon fel nad oes effeithiau negyddol sylweddol. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd tan i arolygon lefel prosiect ac asesiadau gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd. Nid yw'r safleoedd o fewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Mae'r holl safleoedd sydd dan ystyriaeth o fewn pellter cerdded i'r cyfleusterau a gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael yn y pentref. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y dewis gwael o gyfleusterau/gwasanaethau a chyfleoedd swyddi sydd yn bodoli yn barod yn ddigon i ddiwallu anghenion y trigolion newydd. Caiff ei ystyried felly bod posibilrwydd o rywfaint o effaith negyddol hir dymor yn erbyn AC Amcan 2.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

| |
|---|
| Mae'r tri safle o fewn 400m i safle bws; fodd bynnag, o ystyried y diffyg cyfleusterau/gwasanaethau presennol a lleoliad cymharol ynysig Chwilog, ystyrir na fydd datblygu yn lleihau'r angen i deithio. Bydd yn dal angen i drigolion deithio i aneddiadau mwy er mwyn cael dewis gwell o gyfleusterau, gwasanaethau a chyfleoedd swyddi. Mae posibilrwydd o effaith negyddol sylweddol yn erbyn AC Amcan 10, gydag elfen o ansicrwydd.<br><br>Mae posibilrwydd o lefelau traffig uwch; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd mewn traffig yn sylweddol. Mae polisïau'r Cynllun Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Adnau) ar gael ar lefel y prosiect a gallant liniaru digon i sicrhau bod yr effaith ar y rhwydwaith ffyrdd bresennol yn cael ei lleihau. Fodd bynnag, er nad oes disgwyl y bydd traffig yn cynyddu yn sylweddol, mae posibilrwydd o gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr allai gael rhywfaint o effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y dyfodol agos. Yn yr hir dymor mae'n debygol y byddai allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol (gan gynnwys defnyddio cerbydau) yn lleihau o ganlyniad i fesurau llym ar allyriadau o gerbydau newydd trwy gyfrwng safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch hyn. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan SA 3 gydag elfen o ansicrwydd, gan ei bod yn annhebygol y bydd y datblygiad yn lleihau'r angen i deithio. Dylid nodi bod posibilrwydd o rai problemau ynghylch mynediad i safle SP956; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd rhain yn rhai sylweddol.<br><br>Bydd darparu amrediad o dai hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar annog cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella darpariaeth y stoc dai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd trigolion lleol. Nid oes defnydd gwrthdrawiadol o dir na phroblemau sylweddol ynghylch unrhyw un o'r safleoedd sydd yn debygol o effeithio ar iechyd pobl, mae posibilrwydd o rywfaint o effaith gadarnhaol yn erbyn Amcan SA 2 gydag elfen o ansicrwydd nes bod cynigion manwl wedi eu cyflwyno.<br><br>Ar hyn o bryd nid yw'n hysbys os y bydd unrhyw gyflogaeth ar gael ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth ac nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o ran mynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn y pentref. Mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.<br><br>Nid yw'r safleoedd yn cael eu hamddiffyn gan ddynodiad tirwedd neu'n cael eu hystyried yn safleoedd o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae posibilrwydd o golli tir maes glas o ddatblygu unrhyw un o'r safleoedd hyn ac felly mae rhywfaint o effaith negyddol dymor hir yn erbyn Amcan SA 8 trwy ddatblygu ardal sydd heb ei datblygu'n barod. Oherwydd ei faint mae posibilrwydd o ddatblygu ar safle SP959 gael effaith negyddol fwy sylweddol o'i gymharu â'r safleoedd eraill; fodd bynnag, nid oes sicrwydd ynghylch hyn ar hyn o bryd, ac mae'n dibynnu ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad. Mae elfen o ansicrwydd ynghylch yr holl safleoedd nes bod asesiadau manylach ar lefel is yn cael eu cynnal. O golli tir maes glas, mae posibilrwydd o rywfaint o effaith negyddol hir dymor yn erbyn AC Amcan 9.<br><br>Dylid nodi nad yw'r un o'r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. |

# ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD

Nid yw'r SA wedi nodi unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y safleoedd yn erbyn Amcanion AC. Nid yw hyn yn syndod o ystyried pa mor agos ydynt i'w gilydd. Oherwydd ei faint mae posibilrwydd o ddatblygu ar safle SP959 gael effaith negyddol fwy sylweddol ar y tirwedd o'i gymharu â'r safleoedd eraill; fodd bynnag, nid oes sicrwydd ynghylch hyn ar hyn o bryd, ac mae'n dibynnu ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad.

**Cricieth**

| Amcan AC | Bioamrywiaeth | Cymunedol ac Iechyd | | Newid Hinsawdd | Y Gymraeg | Diwylliannol a Threftadaeth | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Cludiant | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **SP379 Tir nesaf at North Terrace** | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | ? | 0 | ++ | -? | - | + ? | - ? |
| **SP735 Hen Safle Cronfa Ddŵr** | + ? | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | + ? | + ? | + ? | - ? |
| **SP944** | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | ? | 0 | ++ | - | - | + ? | 0 ? |
| **SP945** | 0 ? | + | +? | 0 ? | 0 | ? | 0 | ++ | - ? | - | + ? | 0 ? |
| **SP946 Hen Gwrt Tennis** | + | + | +? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | + ? | ++ | + ? | 0 ? |

**Crynodeb**

Mae safleoedd SP944 ac SP379 ar safleoedd maes glas yn ffin anheddiad Cricieth, ac mae SP945 yn cynrychioli maes glas sy'n agos at y ffin. Mae SP735 yn safle maes glas a thir llwyd ac mae SP946 yn dir llwyd yn gyfan gwbl. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn y safleoedd nac wrth eu hymyl. Gallai colli maes glas yn safleoedd SP379, SP375 (rhannol), SP944 ac SP945 gael effeithiau negyddol mân ar fioamrywiaeth yn sgil colli cysylltedd a darnio coridorau glas. Fodd bynnag, ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae potensial am effaith

niwtral weddilliol ar gyfer safleoedd SP379, SP944 ac SP945 yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau lefel prosiect. Mae safle SP735 yn dir llwyd yn rhannol, felly ystyrir bod potensial am effeithiau cadarnhaol tymor hir mân ar fioamrywiaeth. Mae gan ddatblygiad safle SP946 y potensial am effeithiau cadarnhaol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 1; fodd bynnag, ceir llai o ansicrwydd mewn perthynas â'r effeithiau cadarnhaol ar gyfer y safle hwn o gymharu â safle SP735 gan na fydd yn arwain at golli maes glas. Mae rhai o'r dewisiadau safle'n agosach at Benrhyn Llŷn ac ACA Sarnau a dau SoDdGA ar yr arfordir. O gofio maint a lleoliad y safleoedd, mae'n annhebygol y byddent yn cael unrhyw effaith negyddol sylweddol ar eu pen eu hunain ar y safleoedd bioamrywiaeth dynodedig hyn. Dylai unrhyw gynigion i ddatblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd.

Nid oes dynodiadau treftadaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn y safle nac wrth ei ymyl. Ceir nifer o Adeiladau Rhestredig yn Ardal Gadwraeth Cricieth sydd rhwng y pum dewis safle. Ni fyddai datblygiad ar y safleoedd yn cael unrhyw effeithiau uniongyrchol ar asedau treftadaeth dynodedig ond gallent effeithio'n uniongyrchol ar y lleoliad. Dynodwyd tri o'r safleoedd isod yn yr AC mewn perthynas ag AC Amcan 8 fel rhywbeth a chanddo'r potensial am effeithiau negyddol mân ar y dirwedd. Ystyrir felly y gallai datblygiad ar y safleoedd hyn (SP945, SP379 ac SP944) gael effeithiau negyddol mân o bosibl ar osod yr asedau treftadaeth dynodedig.  Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau nad yw'r effeithiau negyddol yn arwyddocaol. Ar hyn o bryd, ystyrir bod datblygiad ar safleoedd SP945, SP379 ac SP944 yn ansicr yn erbyn Amcan AC 5.  Mae datblygiad yn y safleoedd eraill (SP946 ac SP735) yn annhebygol o gael effeithiau negyddol ar dreftadaeth o gofio'r lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect. Mae potensial hefyd am effeithiau cadarnhaol ar osod treftadaeth trwy adfywio tir llwyd ac effeithiau cadarnhaol ar dirwedd/trefwedd; fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Mae gan ddatblygiad ar safleoedd SP946 ac SP735 y potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 5, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir astudiaethau lefel is manylach. Dylid nodi presenoldeb posibl gweddillion archeolegol ar safle SP379, sy'n golygu y dylid cael asesiadau archeolegol priodol i gydfynd ag unrhyw gynnig ar gyfer datblygu.

Nid yw safleoedd SP944, SP945 ac SP946 mewn ardal perygl o lifogydd, felly mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir rhagor o astudiaethau lefel is manwl. Dynododd NRM trwy'r broses asesu ymgeisydd fod safleoedd SP379 ac SP735 mewn perygl o lifogydd o gwrs dŵr (Afon Cwrt) sy'n llifo trwy'r safleoedd; ond, dylid nodi na luniwyd amlinelliad llifogydd yn sgil maint bach y dalgylch. Cafwyd achosion blaenorol o lifogydd yn arwain at gynllun lliniaru llifogydd ar ddiwedd yr 80au. O gofio'r dystiolaeth sydd ar gael a chan gymryd dull rhagofalus, ystyrir bod potensial am effaith negyddol fân yn erbyn Amcan AC 11, gydag elfen o ansicrwydd.

Golyga lleoliad y dewisiadau safle fod pob un ohonynt o fewn pellter cerdded i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael ym mhentref Cricieth. Dylid nodi bod safle SP735 ychydig ymhellach i ffwrdd o'r gwasanaethau/cyfleusterau ond nid ystyrir bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol. Ystyrir felly bod potensial am effaith gadarnhaol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC. Gan ystyried hyn ynghyd â mynediad da i ddulliau cludiant cynaliadwy (pob safle o fewn 400m i safle bysiau) mae potensial am effaith gadarnhaol tymor hir mân yn erbyn amcan AC 10 trwy leihau'r angen i deithio yn y pentref. Fodd bynnag, cydnabyddir bod trigolion y dyfodol yn debygol o barhau i deithio i anheddiad mwy o

faint Pwllheli a Phorthmadog ar gyfer yr ystod ehangach o wasanaethau/cyfleusterau a chyfleoedd gwaith a gynigir. Ystyrir felly fod yna elfen o ansicrwydd hefyd mewn perthynas ag effeithiau cadarnhaol yn erbyn Amcan AC 10.

Mae yna botensial am gynnydd yn lefelau traffig; fodd bynnag, o gofio maint y dewisiadau safle, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd mewn traffig o safle unigol yn arwyddocaol. Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau. Fodd bynnag, er nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, ceir potensial i gynyddu gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol fân ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, gan gynnwys y defnydd o gerbydau, yn lleihau o ganlyniad i ddulliau rheoli gollyngiadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Ceir potensial am effaith niwtral weddilliol Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd.

Bydd darparu ystod o dai'n cael effeithiau cadarnhaol hefyd i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd fod o fantais i iechyd y trigolion lleol hefyd. Nid oes defnyddiau tir na materion arwyddocaol gwrthdrawiadol yn unrhyw un o'r safleoedd sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd, ni wyddys a fydd unrhyw waith cyflog yn cael ei ddarparu ar y safleoedd. Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran mynediad i gyfleoedd gwaith presennol yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Nid oes yr un o'r dewisiadau safle'n cael eu diogelu gan ddynodiad tirwedd ac nid ydynt wedi'u dynodi o bwysigrwydd uchel ar gyfer tirwedd. Byddai datblygu ar safle SP944, SP945 ac SP379 yn arwain at golli maes glas ac felly byddai ganddo'r potensial am effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 8 yn sgil datblygu ardal oedd heb ei datblygu'n flaenorol. Gellir ystyried datblygiad ar safleoedd SP945 ac SP379 fel tresmasiad i'r cefn gwlad agored, lle mae SP944 yn yr ardal adeiledig. Dylid nodi, fodd bynnag, fod SP944 ychydig yn uchel a byddai unrhyw ddatblygiad gweddilliol felly'n amlwg o'r rhodfa lan môr. Ystyrir felly fod llai o ansicrwydd mewn perthynas â'r potensial am effeithiau negyddol tymor hir mân. Ceir elfen o ansicrwydd ar gyfer safleoedd SP945 ac SP379 hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is manylach. Gallai ailddatblygu tir llwyd ar safleoedd SP735 ac SP946 feddu ar y potensial am effaith gadarnhaol tymor hir mân ar dirwedd a threfwedd; bydd hyn yn dibynnu, fodd bynnag, ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad arfaethedig. Ceir effaith ansicr i'r safleoedd hyn hefyd hyd nes y cynhelir astudiaethau ac asesiadau lefel is manylach.

Mae gan golli maes glas yn safleoedd SP379, SP945 ac SP944 y potensial am effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 9. Ni fydd y datblygiad yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn unrhyw un o'r safleoedd. Gallai datblygiad ar safle SP735 arwain at

golli rhywfaint o faes glas ond byddai'n arwain hefyd at adfywio tir llwyd. Potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 9, gydag elfen o ansicrwydd gan fod natur yr effaith yn dibynnu ar gynllun y datblygiad arfaethedig. Mae gan y defnydd o dir a ddatblygwyd yn flaenorol ar safle SP946 y potensial am effaith gadarnhaol tymor hir mawr yn erbyn Amcan AC 9.

Ni fydd datblygiad yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn unrhyw un o'r safleoedd.

| **Deiniolen** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymunedol ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Y Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP964 Tir nesaf at Bentre Helen** | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| **SP966 Tir nesaf at Glandinorwic** | 0 ? | +? | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | + ? | 0 ? |

**Crynodeb**

Mae'r ddau safle ar faes glas. Mae SP964 yn ffin yr anheddiad, ac mae SP966 gerllaw ffin yr anheddiad. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac asedau treftadaeth dynodedig o fewn safleoedd neu wrth eu hymyl, ond dylid nodi fod Parc Cenedlaethol Eryri, SoDdGA ac ACA 350m i ffwrdd o safle SP964, a 600m i ffwrdd o safle SP966; fodd bynnag o gofio maint y safleoedd, mae'n annhebygol y byddai unrhyw effeithiau arwyddocaol ar eu pen eu hunain. Gallai colli maes glas gael effeithiau negyddol mân ar fioamrywiaeth yn sgil colli cysylltedd a darnio coridorau glas. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar fioamrywiaeth a threftadaeth. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcanion AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion i ddatblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd.

Nid oes yr un o'r safleoedd o fewn nac wrth ymyl ardal perygl llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11, ond dylid nodi bod safle SP966 ond wedi'i wahanu wrth ardal perygl llifogydd gan y ffordd ar hyd ffin ddeheuol y safle, felly mae yna elfen o ansicrwydd o ran y

safle hwn hyd nes i asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal.

Mae’r dewisiadau safle o fewn pellter cerdded rhesymol i’r gwasanaethau a’r cyfleusterau sydd ar gael yn Neiniolen, sy’n Bentref Gwasanaeth. Mae potensial am effaith gadarnhaol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 2, ond o ran safle SP966, ceir elfen o ansicrwydd gan fod y cysylltiad â’r stryd fawr yn llethr cymharol serth, a allai atal cerddwyr. Ceir safleoedd bysiau o fewn 400m i’r ddau safle, sy’n cynnig mynediad i aneddiadau mwy o faint Bangor (rhyw 9km i ffwrdd) a Chaernarfon (rhyw 10km i ffwrdd). Ym Mangor hefyd mae’r orsaf drenau agosaf at Ddeiniolen. O gofio’r pellteroedd o’r gwasanaethau a’r cyfleusterau presennol a’r cysylltiadau bysiau, mae yna botensial am effaith gadarnhaol fân ar Amcan AC 10 yn sgil lleihau’r angen i deithio. Fodd bynnag, ystyrir y bydd arwyddocâd yr effaith yn fân oherwydd mae’n debygol y bydd dal angen i bobl deithio i’r ystod ehangach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd gwaith mewn aneddiadau mwy o faint. Mae yna elfen o ansicrwydd yn erbyn SP966 oherwydd y llethr a allai olygu bod cerdded i’r gwasanaethau a’r cyfleusterau’n anodd i rai trigolion.

Mae gan ddatblygiad yn y naill ddewis safle neu’r llall y potensial i gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag, o gofio maint y safleoedd, mae’n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn arwyddocaol. Dylid nodi bod asesiad safle’r ymgeisydd yn gofyn am Asesiad Effaith ar Draffig ar gyfer safle SP966 i sicrhau y gall yr heol sy’n gwasanaethu (yn arwain o’r A4244) ymdopi, yn enwedig o ystyried yr effeithiau cronnol gan fod gan y safle gerllaw ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tai hefyd. Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod yr effeithiau ar draffig yn cael eu lleihau. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol ar Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd ar gyfer y ddau ddewis safle. Er nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu’n sylweddol, mae potensial i gynyddu gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol fân ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae’n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol sy’n cynnwys defnyddio cerbydau, yn gostwng o ganlyniad i ddulliau rheoli gollyngiadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Ceir potensial am effeithiau cronnol petai’r ddau ddewis safle’n cael eu datblygu, y byddai angen eu hystyried ymhellach trwy AC y CDLl Adneuo ar y cyd.

Bydd darparu ystod o dai’n cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella’r ddarpariaeth stoc tai newydd fod o fantais i iechyd y trigolion lleol hefyd. Nid oes defnyddiau tir na materion sylweddol gwrthdrawiadol sy’n debygol o effeithio ar iechyd dynol yn unrhyw un o’r dewisiadau safle. Mae potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd tan i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

Nid yw’n hysbys ar hyn o bryd a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu ar y safleoedd. Ni fyddai’r datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol ac nid oes gwahaniaethau arwyddocaol o ran cyfleoedd cyflogaeth presennol yn y pentref. Mae potensial am effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Ni ddiogelir dewisiadau’r safle gan unrhyw ddynodiadau tirwedd ac ni chânt eu dynodi fel rhai o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan

ddatblygiad ar y safleoedd y potensial i golli maes glas ac felly effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcanion AC 8 a 9 trwy ddatblygu ardal heb ei datblygu'n flaenorol, ond mae yna elfen o ansicrwydd ar gyfer tirwedd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno. Gallai datblygiad ar safle SP966 gael ei ystyried yn dresmasiad i gefn gwlad agored, a allai effeithio ar gymeriad yr ardal, o ystyried bod datblygiad tai wedi'i ganiatáu ar y safle cyfagos. Ceir potensial hefyd am effeithiau cronnol negyddol. Adlewyrchir hyn yn yr arfarniad fod llai o ansicrwydd yn erbyn Amcan AC 8 ar gyfer safle SP966. Dylid nodi na fydd datblygiad yn unrhyw un o'r safleoedd yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Er nad yw'r AC wedi dynodi unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y dewisiadau safle yn erbyn yr Amcanion AC, dylid nodi bod mwy o faterion potensial wedi'u dynodi yn erbyn safle SP966 na safle SP964. Mae'r materion hyn yn cynnwys; tresmasiad i gefn gwlad agored ac effeithiau traffig (yn enwedig o ystyried yr effeithiau cronnol pan fo datblygiad tai wedi'i ganiatáu yn y safle gerllaw), ac agosrwydd y safleoedd at ardal perygl llifogydd (mae'r ystyriaeth o berygl llifogydd yn debygol o gynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i newid mewn hinsawdd).

**Llanberis**

| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymunedol ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Y Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP941 Tir nesaf at y Victoria Hotel** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+?** | **0** |

**Crynodeb**

Mae'r safle ar faes glas o fewn ffin y datblygiad tuag at ymyl de-ddwyreiniol Llanberis. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn y safle neu wrth ei ymyl. Dylid nodi bod tri SoDdGA rhwng 250 a 310 metr i ffwrdd o'r safle. Gallai colli maes glas gael effeithiau negyddol mân o bosibl ar fioamrywiaeth yn sgil colli cysylltedd a darnio coridorau glas. Fodd bynnag, ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl ar y Cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes effeithiau negyddol arwyddocaol ar fioamrywiaeth.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

| |
|---|
| Mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygiad chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd. Nid yw'r safle mewn ardal perygl llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.<br><br>Nid oes asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle. Ceir Adeilad Rhestredig Gradd II (Royal Victoria Hotel) ac mae ei dir nesaf at ffin gogledd-orllewinol y safle. Ceir hefyd nifer o Adeiladau Rhestredig yn agos at ffin ddwyreiniol y safle yn ogystal â Heneb Gofrestredig (Castell Dolbadarn) rhyw 250m i'r gogledd-ddwyrain. Ceir potensial felly i ddatblygiad gael effeithiau negyddol ar leoliad yr asedau treftadaeth hyn. Bydd arwyddocâd yr effaith yn cael ei gysylltu'n agos â'r effeithiau ar y dirwedd. O gofio maint bach y safle ynghyd â thopograffi a'r sgrinio presennol a ddarperir gan goed, ystyrir ei bod hi'n annhebygol y byddai'r datblygiad yn effeithio'n sylweddol ar leoliad yr asedau treftadaeth. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes effeithiau negyddol arwyddocaol ar dreftadaeth. Er yr ystyrir bod mesurau lliniaru addas yn bodoli i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol, ystyrir ar hyn o bryd fod yr effaith botensial yn erbyn Amcan AC 5 yn ansicr. Bydd asesiadau lefel is a gynhelir fel rhan o gais cynllunio'n gallu penderfynu'n fwy cywir natur ac arwyddocâd yr effeithiau. Dylai unrhyw gynnig am ddatblygiad geisio cadw'r coed presennol o gwmpas ffin y safle. Mae cyfleoedd i ddatblygiadau wella mynediad cerdded i Gastell Dolbadarn, a allai gael effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 5; fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd.<br><br>Er bod lleoliad y safle tuag at ymyl ffin yr anheddiad, mae o fewn pellter cerdded rhesymol (1km) i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y pentref. Mae potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 2. Mae gan y safle fynediad da i gludiant cyhoeddus (o fewn 400m i safle bws) ac nid oes materion mewn perthynas â thopograffi a allai rwystro hygyrchedd i rai trigolion. O gofio pellter y safle o gyfleusterau/gwasanaethau presennol a chludiant cyhoeddus, ceir potensial am ddatblygiad i leihau'r angen i deithio gyda'r potensial am effaith gadarnhaol yn erbyn Amcan AC 10. Fodd bynnag, cydnabyddir bod Llanberis yn Ganolfan Wasanaeth Leol gymharol fach a bydd dal angen i'r trigolion deithio i aneddiadau mwy o faint i rai gwasanaethau/cyfleusterau e.e. archfarchnadoedd felly ceir rhywfaint o ansicrwydd hefyd. Y realiti yw bod trigolion yn dal i fod yn debygol o deithio yn eu cerbyd preifat i droi at gyfleoedd gwaith yn ogystal â gwasanaethau / cyfleusterau mewn aneddiadau mwy o faint. Mae potensial am effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 10, gydag elfen o ansicrwydd. Dylai unrhyw gynnig am ddatblygiad geisio cyfrannu at wella llwybrau cerdded a beicio i'r pentref.<br><br>O gofio maint bach datblygiad y safle, mae'n annhebygol o gynyddu traffig yn sylweddol ac nid oes materion gallu presennol mewn perthynas â'r rhwydwaith priffyrdd. Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd yn cael eu lleihau ac nad oes effeithiau negyddol. Cyflwynwyd potensial am effaith niwtral, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion ac asesiadau manwl gael eu cyflwyno. Er nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol fân ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau'n gostwng o ganlyniad i ddulliau rheoli gollyngiadau llym ar |

gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd.

Nid yw'n hysbys a fydd cyflogaeth yn cael ei darparu ar y safle ar hyn o bryd. Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol, ceir potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Bydd darparu tai'n cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella darpariaeth y stoc tai newydd fod o fantais i iechyd y trigolion lleol hefyd. Nid oes defnyddiau tir na materion arwyddocaol gwrthdrawiadol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol, potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

Ni ddiogelir y safle gan ddynodiad tirwedd ac ni chaiff ei ddynodi fel un o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygiad ar y safle'r potensial i golli maes glas ac felly effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 8 trwy ddatblygu ardal heb ei datblygu'n flaenorol. Ceir hefyd rhywfaint o ansicrwydd hyd nes i gynigion ac asesiadau manwl gael eu cyflwyno. Mae gan golli maes glas y potensial hefyd am effaith negyddol fân yn erbyn Amcan AC 9. Dylid nodi nad yw'r safle'n cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

| **Llanrug** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymunedol ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Y Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP243 Cae'r Eglwys** | **0 ?** | **+?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP292 Tir wrth gefn Pencae** | **0 ?** | **+?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP931 Tir nesaf at Dan Rhythallt** | **0 ?** | **+?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP932 Tir nesaf at A4086** | **0 ?** | **+?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **Crynodeb** | | | | | | | | | | | | |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Mae pob safle ar dir a ddosbarthwyd yn faes glas. Mae SP243 ac SP932 o fewn ffin datblygu'r anheddiad presennol, ac mae SP292 ac SP931 yn cyffwrdd â'r ffin yn uniongyrchol. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol, nac asedau treftadaeth dynodedig o fewn, nesaf at, neu'n agos at y safleoedd. Gallai colli maes glas gael effeithiau negyddol mân ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau glas. Fodd bynnag, ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd. Nid yw'r safleoedd mewn ardal perygl llifogydd ar gyfer effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Mae'r holl ddewisiadau safle o fewn pellter cerdded rhesymol i'r gwasanaethau/cyfleusterau presennol yn y pentref, sy'n ganolfan wasanaeth leol. Dylid nodi bod safleoedd SP243 ac SP292 yn agosach at ganol y pentref lle mae'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau. Mae potensial am effaith gadarnhaol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 2 ar gyfer pob dewis safle. O gofio'r pellter o gyfleusterau/gwasanaethau presennol a mynediad da i gludiant cyhoeddus, ceir potensial am effeithiau cadarnhaol yn erbyn Amcan AC 10 trwy leihau'r angen i deithio. Ystyrir mai dim ond mân fydd arwyddocâd yr effaith  gan ei bod hi'n debygol y bydd dal angen i bobl deithio ar gyfer yr ystod ehangach o wasanaethau/cyfleusterau a chyfleoedd gwaith yn yr aneddiadau mwy o faint. Mae'r pentref ar yr A4086, sy'n ffordd gymharol brysur a chanddi gysylltiadau da â Chaernarfon a Llanberis gerllaw. Ceir cysylltiadau cludiant cyhoeddus da â'r aneddiadau mwy o faint hyn ac mae gan bob dewis safle fynediad da i gludiant cyhoeddus gyda safle bws o fewn 400m iddynt. Mae potensial am effaith gadarnhaol tymor hir mân i bob dewis safle yn erbyn Amcan AC 10. Ystyrir mai mân fydd arwyddocâd yr effaith gan ei bod hi'n debygol y bydd dal angen i bobl deithio i'r ystod ehangach o wasanaethau/cyfleusterau a chyfleoedd gwaith yn yr aneddiadau mwy o faint. Mae SP292 ac SP243 yn fwy tebygol o annog beicio a cherdded o gymharu â dewisiadau safle SP931 ac SP243 gan eu bod yn agosach at y cyfleusterau/gwasanaethau presennol yn y pentref. Nid yw'r pellter yn ddigon arwyddocaol i gyfiawnhau gwahaniaeth yn y meini prawf arwyddocâd a ddynodwyd yn erbyn Amcan AC 10.

Bydd darparu ystod o dai hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd fod o fantais i iechyd trigolion lleol hefyd. Nid oes defnyddiau tir na materion arwyddocaol gwrthdrawiadol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol ar gyfer unrhyw un o'r dewisiadau safle, mae potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

O gofio maint bach y safleoedd, maen nhw'n annhebygol o gynyddu traffig yn sylweddol, naill ai ar eu pen eu hunain neu ar y cyd gyda'i gilydd. Nid yw'r dystiolaeth yn dangos fod unrhyw faterion o ran mynediad neu allu presennol mewn perthynas â'r rhwydwaith priffyrdd. Dylai lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith priffyrdd yn cael eu lleihau ac nad oes effeithiau negyddol. Mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 3, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion ac asesiadau manwl gael eu cyflwyno. Er nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae yna botensial i gynyddu gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag

effaith negyddol fân ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol sy'n cynnwys y defnydd o gerbydau'n lleihau o ganlyniad i'r dulliau rheoli gollyngiadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd.

Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd a fydd cyflogaeth yn cael ei darparu ar y safle. Ni fydd y datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol, ceir potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Ni ddiogelir unrhyw un o'r dewisiadau safle gan ddynodiad tirwedd ac ni chânt eu nodi fel rhai o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygiadau ym mhob un o'r safleoedd y potensial am golli maes glas ac felly effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 8 trwy ddatblygu ardal heb ei datblygu'n flaenorol. Elfen o ansicrwydd ar gyfer pob safle hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is manylach. Mae safleoedd SP292 ac SP243 o fewn ffin yr anheddiad felly gallai effeithiau negyddol o bosibl fod yn llai arwyddocaol o gymharu â dewisiadau SP931 ac SP932 sy'n agos at y ffin. Fodd bynnag, nid ystyrir bod y gwahaniaeth yn debygol o fod yn sylweddol ac nid yw'n cyfiawnhau gwahaniaeth yn y meini prawf arwyddocâd yn erbyn Amcan AC 8.

Mae gan golli maes glas y potensial hefyd am effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 9. Ni fydd y datblygiad yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn unrhyw un o'r safleoedd.

Nid yw'r AC wedi canfod unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y dewisiadau safle. Mae SP292 ac SP243 yn fwy tebygol o annog beicio a cherdded o gymharu â dewisiadau safle SP931 ac SP932 gan eu bod yn agosach at gyfleusterau/gwasanaethau presennol y pentref; fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaethu mewn pellter yn sylweddol. Mae safleoedd SP 292 ac SP243 o fewn ffin yr anheddiad felly gallai effeithiau negyddol fod yn llai arwyddocaol o gymharu â dewisiadau SP931 ac SP932 sy'n agos at y ffin. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ac yn dibynnu ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad.

**Nefyn**

## ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD

| Amcan AG | Bioamrywiaeth | Cymuned ac Iechyd | | Newid Hinsawdd | Iaith Gymraeg | Diwylliannol a Threftadaeth | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Trafnidiaeth | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **SP488 Tir gerllaw Helyg** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |
| **SP339 Tir gerllaw Bro Gwylwyr** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |
| **SP681 Cyn randiroedd** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0** | **0** | **?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |
| **SP933** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |

**Crynodeb**

Mae’r 4 safle ar dir glas; mae safle SP681 o fewn ffin yr annedd, a’r tri arall gerllaw iddo. Mae safle SP933 yn ddyraniad tai yn CDU presennol Gwynedd. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol yn y dewisiadau safle na gerllaw iddynt; fodd bynnag, mae SDdGA Porth Dinllaen i Borth Pistyll a Chlogwyni Môr ACA Llŷn ill dau o fewn 600m o’r holl safleoedd, gyda safle SP488 100m yn unig i ffwrdd. Ystyrir bod liniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLlC a Adneuwyd ac ar gael ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol yn unig; fodd bynnag, os datblygir pob safle, byddai’n rhaid ystyried yr effeithiau cronnus ymhellach trwy AG y CDLlC a Adneuwyd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan GA 1 gydag elfen o ansicrwydd. Dylai unrhyw gynigion datblygu geisio cyfleoedd i  gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i’r seilwaith gwyrdd.

Mae safle SP681 gerllaw Ardal Gadwraeth Nefyn; mae i ddatblygu yn y dewis safle hwn botensial am fân effaith negyddol ar Amcan GA 5. Dylai camau lliniaru a ddarperir trwy bolisïau’r CDLlC a Adneuwyd a’r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol; fodd bynnag, yn y cyfnod hwn, nid oes sicrwydd am hyn hyd nes y cyflwynir cynnig manwl a bod asesiadau wedi eu cynnal ar lefel prosiect. Nid yw safleoedd SP488, SP339 na SP933 yn cynnwys unrhyw asedau treftadaeth dynodedig ac nid oes rhai gerllaw iddynt chwaith. Potensial am effaith niwtral gweddilliol  gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir asesiadau ar lefel prosiect. Bydd angen gwerthusiad archeolegol ar yr holl ddewisiadau safle cyn i unrhyw ddatblygu ddigwydd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan

| |
|---|
| AG 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect.<br><br>Nid yw'r dewisiadau safle mewn ardal lle mae risg o lifogydd, nac yn agos at ardal felly; potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11. Mae'r asesiad o safle posibl wedi nodi fod y system garthffosiaeth gyhoeddus wedi gorlifo ambell waith, yn safle SP933; fodd bynnag, ystyrir bod polisïau'r CDLIC a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect yn lliniaru digon fel na fydd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol.<br><br>Mae'r dewisiadau safle oll o fewn pellter cerdded rhesymol (llai na 1km) o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn Nefyn, Canolfan Gwasanaeth Lleol. Potensial am a fân effaith cadarnhaol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 2. Mae Nefyn rhyw 9km o Bwllheli, ac y mae pob un o'r dewisiadau safle o fewn 400m o gysylltiadau bws i'r anheddfan fwy hon. Ym Mhwllheli hefyd y mae'r orsaf drenau agosaf i Nefyn. O ystyried y pellter o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol a'r cysylltiadau bws, mae potensial am fân effaith cadarnhaol ar Amcan AG 10 trwy leihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, nid ystyrir y bydd yr effaith yn arwyddocaol am y bydd pobl yn parhau i deithio i gyrraedd y dewis helaethach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd gwaith yn yr aneddfannau mwy.<br><br>Mae gan ddatblygu yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle botensial i gynyddu lefel y traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, ni fydd unrhyw gynnydd yn debyg o fod yn sylweddol. Ni ddengys y dystiolaeth fod unrhyw broblemau gallu i drin traffig ar y rhwydwaith priffyrdd presennol; fodd bynnag, dylid nodi fod yr asesiad safle posibl yn codi pryderon ynghylch safleoedd SP339 a SP933, er yr ystyrir bod mesurau lliniaru digonol ar gael trwy bolisiau'r CDLIC a Adneuwyd ac ar lefel y prosiect i sicrhau bod unrhyw effaith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol yn cael eu cadw mor isel ag sydd modd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol ar Amcan AG 3 ar gyfer yr holl ddewisiadau safle gydag elfen o ansicrwydd ar gyfer safleoedd SP339 a SP933 o gofio'r problemau posib o ran mynediad. Er nad ystyrir y bydd y traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd.  Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd. Mae potensial am effeithiau cronnus petai'r holl ddewisiadau safle yn cael eu datblygu, a byddai'n rhaid ystyried hyn ymhellach trwy AG y CDLIC a Adneuwyd.<br><br>Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle sy'n debyg o effeithio ar iechyd dynol; potensial  am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.<br><br>Ar hyn o bryd ni wyddys a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei ddarparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw waith sydd yno eisoes ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd am waith yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 6. |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Mae’r holl ddewisiadau safle o fewn AHNE Llŷn, felly mae potensial am effeithiau negyddol ar dirwedd. Bydd natur ac arwyddocâd yr effaith yn dibynnu ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, o gofio maint y dewisiadau safle a’r lliniaru oherwydd polisiau’r CDLIC ac ar lefel y prosiect, nid yw’n debygol y bydd datblygu ar y safleoedd unigol yn cael effaith negyddol fawr. Mae’r rhain yn fwy tebyg o ddigwydd gyda’i gilydd petai’r holl ddewisiadau safle yn cael eu datblygu. Potensial am fân effaith negyddol tymor hir yn erbyn Amcan AG 8. Mae i golli tir glas botensial am fân effeithiau negyddol tymor hir yn erbyn Amcan AG 9. Dylid nodi nad oes yr un o’r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlochrog.

Er na nododd yr AG unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y dewisiadau safle yn erbyn Amcanion y AG, dylid nodi y bydd angen gwerthusiad archeolegol o bob safle cyn i unrhyw ddatblygu ddigwydd, ac y bydd angen i safle SP933 hefyd ymdrin â phroblemau dŵr gwastraff sy’n gysylltiedig â’r safle. Bydd angen i safleoedd SP339 a SP933 hefyd fynd i’r afael a phryderon ynghylch effaith graddfa’r datblygiad. Mae mwy o ansicrwydd ynghylch effeithiau posib datblygu ar safle SP681 ar dreftadaeth gan ei fod gerllaw Ardal Gadwraeth Nefyn.

| **Penrhyndeudraeth** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AG** | **Bioamrywiae th** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Iaith Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP19 Cae Canol** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- ?** | **0** |
| **SP949 Tir gerllaw Cae Canol** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- ?** | **0** |
| **SP950 Tir gerllaw Ysbyty Minffordd** | **?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- ?** | **0** |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

| **SP986** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **- ?** | **0** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

Mae safleoedd SP949, SP950 ac SP986 yn dir glas gerllaw ffin yr anheddfan, tra bod SP19 yn ddynodiad presennol yn y CDU ac yn dir glas mewnlenwi. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol yn newisiadau safle SP19, SP986 ac SP949. Dylid nodi bod SDdGA a safleoedd Ewropeaidd o fewn 1km o'r tri dewis safle. Gallai colli tir glas o bosib gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. O ystyried graddfa fechan y datblygiad sy'n debyg o ddigwydd ar y safleoedd, nid yw'n debygol y bydd effeithiau arwyddocaol ar fioamrywiaeth dynodedig. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLIC a'i fod ar gael hefyd ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygu ar safleoedd SP19, SP986 ac SP949. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AG 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect. Mae rhan fechan o ffin ogledd-orllewinol dewis safle SP950 gerllaw SDdGA Ysbyty Bron y Garth. O ystyried graddfa'r datblygu, ni fydd hyn yn debyg o effeithio'n arwyddocaol ar nodweddion dynodedig na chyflwr y SDdGA. Dylai mesurau lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau'r CDLIC a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau na fydd effeithiau negyddol arwyddocaol. Dylai clustogi priodol rhwng datblygu adeiledig a'r SDdGA helpu i liniaru effeithiau. Dylai unrhyw gynnig am ddatblygu sicrhau bod yr effeithiau ar y SDdGA yn cael eu lleihau a bod camau lliniaru yn cael eu darparu lle bo angen er mwyn sicrhau na fydd effeithiau negyddol arwyddocaol. I gydnabod agosrwydd y SDdGA, nid oes sicrwydd am yr effaith posib, hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau lefel is mwy manwl. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd.

Nid oes yr un o'r dewisiadau safle mewn unrhyw asedau treftadaeth dynodedig, nac yn agos atynt. Mae rhai Adeiladau Rhestredig yn nes i lawr yr A487, sydd yn cynnwys Capel Gorffwysfa sydd yn Rhestredig Graddfa II. O ystyried pellter yr Adeiladau Rhestredig a'r camau lliniaru a ddarperir trwy bolisïau'r CDLIC a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect, nid yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am effaith niwtral gweddilliol gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir asesiadau mwy manwl ar lefel prosiect.

Nid yw'r dewisiadau safle mewn ardal lle mae risg o lifogydd nac yn agos at un; potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11.

Mae lleoliad y safleoedd ger canol Penrhyndeudraeth (Canolfan gwasanaeth Lleol) yn golygu eu bod o fewn pellter cerdded (o fewn 1km)i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael. Potensial am a fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2. Mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus da (arosfan bws o fewn 400m o'r holl ddewisiadau safle) i dref fwy Porthmadog gerllaw ac ymhellach. Er bod amrywiaeth o wahanol gyfleusterau a gwasanaethau yn y pentref, mae potensial am fwy o ddefnydd o geir wrth i'r trigolion deithio i aneddfannau mwy am wasanaethau mwy amrywiol a chyfleoedd am waith, e..e, ym Mhorthmadog. Potensial am effaith negyddol mawr yn erbyn Amcan AG 10, gydag elfen o ansicrwydd.

Mae potensial am lefelau uwch o draffig; fodd bynnag, o ystyried graddfa'r datblygu arfaethedig yn y pentref, nid yw hynny yn debyg o fod yn arwyddocaol. Dylai mesurau lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau'r CDLIC a Adneuwyd a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau bod unrhyw effaith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol yn cael eu cadw mor isel ag sydd modd. Fodd bynnag, er nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AG 3 gydag elfen o ansicrwydd, o ystyried nad yw'r datblygiad yn debyg o leihau'r angen i deithio. Dylid nodi fod proses fantoli safle posibl y Cyngor wedi nodi fod angen cadw nifer y dulliau newydd o gyrraedd yr A487 i'r isaf posib, felly mae angen mwy o wybodaeth.

Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn y naill na'r llall o'r dewisiadau safle. Potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ar hyn o bryd, ni wyddys a ddarperir unrhyw waith yn y safleoedd. Ni fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw waith sydd yno eisoes ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd am waith yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 6.

Nid yw'r dewisiadau safle wedi eu gwarchod gan ddynodiad tirwedd ac ni nodwyd fod iddynt bwysigrwydd gweledol uchel. Byddai datblygu ar unrhyw rai o'r safleoedd â photensial i golli tir glas a thrwy hynny gael mân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 8 trwy ddatblygu man nas datblygwyd cynt. Elfen o ansicrwydd ar gyfer pob safle hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is mwy manwl. Mae gan golli tir glas hefyd botensial am fân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 9.

Dylid nodi nad oes yr un o'r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau na mwyaf amlochrog.

Ni nododd yr AG unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng y dewisiadau safle yn erbyn y rhan fwyaf o Amcanion yr AG; nid yw hyn yn syndod o ystyried mor agos at ei gilydd y maent. Y gwahaniaeth allweddol rhwng y dewisiadau safle yw bod SP950 gerllaw SDdGA, sy'n golygu bod mwy o ansicrwydd ynghylch effeithiau negyddol posib.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

| **Penygroes** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AG** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Iaith Gymraeg** | **Diwylliant a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP597 Tir gerllaw Bryn Neuadd** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP953 Tir gerllaw Bro Llwyndu** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **+ ?** | **+** | **+** | **0** |
| **SP952/933 Tir gerllaw Maes Dulyn** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+** | **0** |

**Crynodeb**

Mae safle SP597 yn dir glas yn union ar ffin y pentref; mae safle SP953 o fewn y ffin ac yn dir llwyd yn bennaf gyda darn bychan o dir glas; tra bod SP952 yn dir glas o fewn ffin y pentref. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol nac asedau treftadaeth dynodedig yn y safleoedd nac yn agos atynt. Mae SDdGA ac AGA Glynllifon rhyw 800m o safle SP953; fodd bynnag, o ystyried maint y safle, a'r datblygu sydd eisoes rhwng y safle a'r ardal ddynodedig, mae'n annhebygol y ceid unrhyw effeithiau arwyddocaol. Gallai colli tir glas o bosib gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd, yn enwedig gan fod coed yn yr holl ddewisiadau safle. Gall tir llwyd hefyd fod yn bwysig i fioamrywiaeth ond yn y cyfnod hwn, nid yw gwerth safle SP953 yn hysbys. Ystyrir bod digon o liniaru yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLlC a Adneuwyd a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth. Potensial am effaith niwtral negyddol yn erbyn Amcanion AG 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd.
Nid yw'r safleoedd mewn ardal lle mae risg o lifogydd; potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11, fodd bynnag, dylid nodi fod y broses o asesu safleoedd posibl wedi nodi digwyddiadau lleol o lifogydd yn y system garthffosiaeth gyhoeddus ar safle SP597, a bod cwrs dŵr mewn

cwlfer yn rhedeg trwy safle SP953 lle byddai angen darpariaeth am lwybr diogel i lifogydd.

Er bod y tri dewis safle ar gyrion y pentref, maent oll o fewn pellter cerdded rhesymol (llai na 1km) i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael ym Mhenygroes, Canolfan Gwasanaeth Lleol. Potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2. Mae Penygroes rhyw 10km o Gaernarfon ac y mae gan bob safle fynediad da at gysylltiadau bws i'r dref fwy hon (safleoedd SP952 ac SP953 o fewn 400m i arosfannau bysus, a safle SP597 o fewn 800m); fodd bynnag, mae'r orsaf drenau agosaf dros 16km i ffwrdd yng Nghricieth. O ystyried y pellter o wasanaethau a chyfleusterau presennol a chysylltiadau bws, mae potensial am fân effaith cadarnhaol ar Amcan AG 10 i'r holl safleoedd trwy leihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, ystyrir mai bychan fydd arwyddocâd yr effaith gan ei bod yn debygol y bydd pobl yn dal i deithio i gyrraedd dewis ehangach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd am waith mewn aneddfannau mwy. Mae safle SP597 ymhellach oddi wrth arosfan bws felly adlewyrchwyd hyn yn yr arfarniad, sydd yn ychwanegu peth ansicrwydd yn erbyn Amcan AG 10.

Mae gan ddatblygu ar unrhyw un o'r dewisiadau safle botensial i gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn arwyddocaol. Ni ddengys y dystiolaeth unrhyw broblemau mynediad; fodd bynnag, dengys y broses o asesu safleoedd posib fod angen uwchraddio'r rhwydwaith priffyrdd lleol o gwmpas safle SP952. Dylai lliniaru trwy bolisïau CDLlC a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau y bydd effeithiau ar rwydwaith presennol y priffyrdd gael eu lleihau. Potensial am effaith niwtral gweddilliol ar Amcan AG 3 gydag elfen o ansicrwydd. Er nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd. Mae potensial am effeithiau cronnus petai'r holl ddewisiadau safle yn cael eu datblygu, a byddai angen ystyried hyn ymhellach trwy AG y CDLlC a Adneuwyd.

Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle sy'n debyg o effeithio ar iechyd dynol; potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ar hyn o bryd, ni wyddys a ddarperir unrhyw waith yn y safleoedd. Ni fyddai datblygu ar y dewisiadau safle yn arwain at golli unrhyw waith presennol ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd presennol am waith yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 6.

Mae'r holl ddewisiadau safle o fewn AHNE Llŷn felly mae potensial am effeithiau negyddol ar dirwedd. Bydd natur ac arwyddocâd yr effaith yn dibynnu ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad arfaethedig. Gellid ystyried y byddai datblygu ar safleoedd SP952 a SP597 fel llechfeddiant i

gefn gwlad agored, sydd â'r potensial i newid cymeriad yr ardal; fodd bynnag, o ystyried bod y safleoedd wedi eu hamgylchynu i raddau helaeth gan ddatblygiadau tai a seilwaith, nid yw'n debygol y bydd unrhyw newid yn sylweddol andwyol. Potensial am fân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 8 am safleoedd SP597 ac SP952. Mae gan adfywio tir llwyd ar safle SP953 botensial am effeithiau cadarnhaol ar dirwedd a chefndir yr AHNE. Mae gan golli tir glas ar safleoedd SP597 ac SP952 botensial am fân effeithiau negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 9, tra bod gan ddatblygu tir llwyd botensial am fan effaith cadarnhaol. Dylid nodi nad oes yr un o'r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlochrog.

O gymharu â safleoedd tir glas eraill, mae gan adfywio tir llwyd ar safle SP953 botensial am effeithiau cadarnhaol ar dirwedd yn ogystal â phridd.

| **Pwllheli** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AG** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Iaith Gymraeg** | **Diwylliant a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP116 Tir gerllaw Lôn Abererch** | **0 ?** | **-?** | **+?** | **?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **- ?** | **-** |
| **SP916 Tir gerllaw Ffordd Caernarfon** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP917 hen Gaeau Hoci** | **0 ?** | **?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **?** | **0** |
| **SP918 Cae Deinio** | **0 ?** | **?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **?** | **0** |
| **Crynodeb** | | | | | | | | | | | | |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

Mae safleoedd SP916, SP917 ac SP918 ar dir glas o fewn ffiniau Pwllheli. Mae SP116 ar y llaw arall yn dir glas yng nghefn gwlad agored. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol yn y safleoedd na gerllaw iddynt. Gallai colli tir glas o bosib gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod liniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLlC ac ar gael ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AG 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion datblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd. Dylid nodi bod AGA Penrhyn Llyn a'r Sarnau ar hyd yr arfordir; fodd bynnag, ystyrir nad yw datblygu ar y safleoedd hyn yn debyg o gael effaith negyddol sylweddol.

Nid yw dewisiadau safle SP916, SP917 ac SP918 mewn ardal lle mae risg o lifogydd, nac yn agos at ardal felly, ac o'r herwydd mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11. Dylid nodi fod CNC wedi nodi, trwy'r broses o asesu safle posib, fod cwrs dŵr cyffredin/ffynnon ar safle SP916. Ar lefel strategol, ystyrir bod mesurau lliniaru addas ar gael er mwyn sicrhau na fydd effeithiau andwyol; fodd bynnag, bydd angen cynnal mwy o asesiadau manwl ar lefel y prosiect. Mae rhan o safle SP116 o fewn ardal lle mae risg ganolig o lifogydd, gyda rhai ardaloedd o risg uchel o lifogydd. Argymhellodd CNC trwy'r broses o asesu safle posib, na ddylid cynnwys y safle fel safle posib i ddatblygu. Mae mannau ar y safle tua'r gorllewin nad ydynt o fewn ardal lle mae risg o lifogydd a mesurau lliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLlC ac sydd ar gael ar lefel y prosiect helpu i leihau arwyddocâd yr effaith. Potensial am fân effaith negyddol gweddilliol yn erbyn Amcan AG 11, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir Asesiad Canlyniad Llifogydd ar y Safle.

Nid oes asedau treftadaeth dynodedig yn y safleoedd na gerllaw iddynt. Fodd bynnag, dylid nodi fod yn y pentref nifer o Adeiladau Rhestredig yn ogystal ag Ardal gadwraeth ddynodedig. Gallai datblygu ar y dewisiadau safle gael effeithiau negyddol ar gefndir yr Ardal Gadwraeth; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn debyg o fod yn arwyddocaol unwaith yr ystyrir camau lliniaru tirwedd addas. Fodd bynnag, ystyrir bod mesurau lliniaru digonol ar gael trwy bolisïau'r CDLlC ac ar gael ar lefel y prosiect i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar dreftadaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol am fwyafrif y safleoedd yn erbyn Amcan AG 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect.

Mae lleoliad SP916, SP917, ac SP918 yn golygu eu bod o fewn pellter cerdded hawdd (llai na 1 km) i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn nhref Pwllheli. Fodd bynnag, mae SP 918 ac SP917 i fyny allt gweddol serth, a all ei gwneud yn anodd i rai trigolion eu cyrraedd. Potensial am fân effaith cadarnhaol am SP916 yn erbyn Amcan AG 2 ac ansicrwydd am SP 917 ac SP918 o ystyried y topograffeg a all ei gwneud yn anodd i rai trigolion eu cyrraedd. Mae SP116 ar gyrion y dref a heb fod o fewn pellter cerdded hawdd i'r gwasanaethau/ cyfleusterau ym Mhwllheli. Potensial am fân effaith negyddol yn erbyn Amcan AG 2. .

Mae SP116 ac SP916 o fewn 400m i arosfan bws, ac y mae SP917 a 918 rhyw 500m o arosfan bws. Nid oes gwahaniaethau sylweddol felly rhwng y dewisiadau safle o ran pellter at gludiant cyhoeddus. Fodd bynnag, y mae safleoedd SP917 ac SP918 i fyny allt gweddol serth a all ei

gwneud yn anodd i rai trigolion gyrraedd yr arosfannau bws. O'r holl ddewisiadau safle, ystyrir mai safle SP916 sydd yn cynnig y cyfle gorau i leihau teithio gan ei fod o fewn pellter cerdded i gludiant cyhoeddus a gwasanaethau/ cyfleusterau. Potensial am fân effaith cadarnhaol tymor-hir yn erbyn Amcan SA 10, gydag elfen o ansicrwydd. Tra bod safleoedd SP917 ac SP918 o fewn pellter cerdded i gludiant cyhoeddus yn ogystal â gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, gall y topograffeg ei gwneud yn anodd i rai trigolion eu cyrraedd. Ystyrir felly bod mwy o ansicrwydd ynghylch y potensial am effeithiau cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 10. Tra bod SP116 o fewn pellter cerdded i gludiant cyhoeddus nid yw o fewn pellter cerdded at wasanaethau/cyfleusterau. Ystyrir felly y bydd datblygu ar y safle yn lleihau'r angen i deithio. Potensial am fân effaith negyddol tymor-hir gydag elfen o ansicrwydd.

Ar hyn o bryd, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn amlygu unrhyw broblemau mynediad na gallu cynnwys traffig gyda'r rhwydwaith priffyrdd presennol. Mae gan ddatblygu ar y dewisiadau safle botensial i gynyddu traffig; fodd bynnag, nid yw hyn yn debyg o fod yn arwyddocaol o ystyried y mesurau lliniaru a ddarperir trwy bolisïau'r CDLIC a Adneuwyd ac ar lefel y prosiect. Dylid nodi fod safleoedd SP917 ac SP918 yn agos at lôn weddol gul; fodd bynnag, o ystyried mor fychan yw'r safleoedd, nid yw'n debygol y bydd traffig yn cynyddu yn sylweddol. O gymharu â'r dewisiadau safle eraill, SP116 sydd yn debygol o arwain at fwy o ddefnydd o gerbydau preifat o ystyried y pellter o wasanaethau a chyfleusterau. Er nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd.
Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AG 3 am safleoedd SP916, 917 a 918 gydag elfen o ansicrwydd. Ystyrir bod mwy o ansicrwydd am safle SP116 yn erbyn Amcan AG 3.

Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle sy'n debyg o effeithio ar iechyd dynol; potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ar hyn o bryd, ni wyddys a ddarperir unrhyw waith yn y safleoedd. Ni fyddai datblygu ar y dewisiadau safle yn arwain at golli unrhyw waith presennol ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd presennol am waith yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 6.

Nid yw'r dewisiadau safle wedi eu gwarchod gan ddynodiad tirwedd nac wedi eu nodi fel rhai o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae i ddatblygu ar bob safle botensial am golli tir glas ac felly mân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 8 trwy ddatblygu ardal das datblygwyd cynt. Mae i ddatblygu ar safle SP116 botensial am effaith negyddol mwy arwyddocaol na'r dewisiadau safle eraill am ei fod yng nghefn gwlad

agored. Ystyrir felly bod llai o ansicrwydd ynghylch y potensial am effeithiau negyddol yn erbyn Amcan AG 8. Elfen o ansicrwydd am y dewisiadau safle eraill hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is mwy manwl . Mae i golli tir glas hefyd botensial am fân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 9.

Dylid nodi nad oes yr un o'r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlochrog.
Canfu'r AG bod rhai gwahaniaethau allweddol rhwng y dewisiadau safle, yn ymwneud a hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau presennol, lleihau'r angen i deithio, a'r tirwedd. Nid yw safle SP116 o fewn pellter cerdded at y cyfleusterau presennol ac nid yw felly yn debyg o leihau'r angen i deithio o gymharu â'r dewisiadau eraill. Er bod safleoedd SP917 ac SP918 o fewn pellter cerdded i'r gwasanaethau/cyfleusterau presennol a chludiant cyhoeddus, y maent i fyny allt gweddol serth a all ei gwneud yn anodd i rai trigolion eu cyrraedd. Mae rhan o safle SP116 mewn ardal lle mae risg ganolig/uchel o lifogydd ac argymhellodd CNC na ddylid ei gynnwys fel dyraniad posib.

**SP922 Tir cyfagos i Ffordd Caernarfon, Pwllheli**

| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Treftadaeth a Diwylliant** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **Sgôr AC** | **0 ?** | **+?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+ ?** | **0** |

**Crynodeb**

Mae'r safle mawr hwn (3.69ha) wedi'i ddosbarthu'n dir glas sy'n union gerllaw ffin ddatblygu Pwllheli. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle neu'n gyfagos iddo. Mae posibilrwydd y gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bach ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltiadau a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth a threftadaeth drwy welliannau i'r isadeiledd gwyrdd. Dylid nodi bod Pen Llŷn ac ACA Sarnau'n bresennol ar hyd yr arfordir; fodd bynnag, nid ystyrir bod datblygu yn y safle hwn yn debygol

o gael effaith negyddol sylweddol ar ei ben ei hun o ystyried y pellter o’r ACA yn ogystal â’r datblygiad presennol a’r isadeiledd rhwng y safleoedd.

Nid oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn neu’n gyfagos i’r safle. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer o Adeiladau Rhestredig o fewn y pentref yn ogystal ag Ardal Gadwraeth ddynodedig. Gallai datblygu yn y safle gael effeithiau negyddol ar leoliad yr Ardal Gadwraeth; fodd bynnag, mae’n annhebygol o fod yn sylweddol ar ôl ystyried mesurau lliniaru addas ar gyfer dirwedd. Ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau’r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect, i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol ar dreftadaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect.

Nid yw’r safle o fewn ardal risg llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Mae’r safle ychydig o dan 1km i ffwrdd o gyfleusterau a gwasanaethau presennol y pentref ac felly o fewn pellter cerdded rhesymol. O ystyried maint y safle, ceir potensial i ddarparu cyfleusterau/gwasanaethau newydd; fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Potensial am effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2. Ceir mynediad rhesymol o’r safle i drafnidiaeth gyhoeddus (tua 480m i ffwrdd); fodd bynnag, mae’r arosfannau bysiau ar y ffordd i gyfleusterau/gwasanaethau presennol yn y pentref felly mae pobl yn debygol o naill ai barhau i gerdded neu ddewis gyrru. O ystyried pellter y safle o gyfleusterau/gwasanaethau presennol a thrafnidiaeth gyhoeddus, ceir potensial i ddatblygu i leihau’r angen i deithio. Dylai unrhyw gynnig ar gyfer datblygu geisio cyfrannu at wella llwybrau cerdded a beicio i mewn i’r pentref

Ar hyn o bryd, nid yw’r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod unrhyw broblemau o ran mynediad neu gapasiti o fewn y rhwydwaith ffyrdd presennol. Mae gan ddatblygu yn y safle’r potensial i gynyddu traffig; fodd bynnag, mae hyn yn annhebygol o fod yn sylweddol o ystyried y mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau’r CDLl ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect. Fodd bynnag, tra nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu’n sylweddol, ceir y potential i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol bach ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae’n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, gan gynnwys y defnydd o gerbydau, yn lleihau o ganlyniad i fesurau rheoli allyriadau caeth ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 3.

Mae gan y safle mawr hwn y potensial i ddarparu ystod o gyfleusterau ochr yn ochr â thai; fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni wyddys beth fydd maint a math y datblygu. Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella’r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol. Gall datblygiad o’r maint hwn hefyd ddarparu isadeiledd gwyrdd a all ddarparu man adloniant a hamdden a chael effeithiau cadarnhaol ar iechyd yn y tymor hir; fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw fathau o ddefnydd tir sy’n gwrthdaro neu broblemau sylweddol yn y safle sy’n debygol o effeithio iechyd dynol, ceir posibilrwydd o effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y

cyflwynir cynigion manwl.

Ar hyn o bryd, nid yw'r hysbys p'un a ddarperir cyflogaeth ar y safle. Ni fyddai datblygu'n arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd neu wedi'i nodi fel un o bwysigrwydd gweledol sylweddol. Ceir potensial y byddai datblygu yn y safle'n arwain at golli tir glas ac felly effaith negyddol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 8 drwy ddatblygu ardal sydd heb ei datblygu'n flaenorol. Ceir hefyd elfen o ansicrwydd gan y bydd graddfa, cynllun a dyluniad datblygiad yn dylanwadu ar ba mor sylweddol yw'r effaith, ac mae dal angen cynnal asesiadau lefel is manylach. Mae gan golli tir glas hefyd y potensial am effaith negyddol bach yn erbyn Amcan AC 9. Dylid nodi nad yw'r safle'n cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Ni fyddai datblygiad ar y safle'n integreiddio'n dda â ffurf yr anheddiad presennol a gellid ystyried ei fod yn gorgyffwrdd ag ardal gefn gwlad agored. Mae pa mor sylweddol yw'r effaith yn dibynnu ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad. Ar hyn o bryd, ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect, i sicrhau nad yw effeithiau negyddol yn sylweddol. Potensial am effaith negyddol gweddilliol yn erbyn Amcan AC 8.

| **Rachub** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AG** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Iaith Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP967 Tir gerllaw Maes Bleddyn** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+** | **0 ?** |
| **SP968 Tir gerllaw Bron Afon** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+** | **0 ?** |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

**Crynodeb**

Mae'r ddau safle ar dir glas gerllaw ffin y pentref. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol nac asedau treftadaeth dynodedig yn y safleoedd na gerllaw iddynt, er bod safle SP968 500m a safle SP967 800m o Barc Cenedlaethol Eryri, SDdG ac AGA; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, a'r parth clustogi datblygu presennol rhwng y safleoedd a'r dynodiadau bioamrywiaeth, nid yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau arwyddocaol ar eu pennau eu hunain. Gallai colli tir glas gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a choridorau gwyrdd, yn enwedig yn safle SP968 lle mae coed sydd wedi eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed. Ystyrir bod liniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLlC a Adneuwyd ac ar gael ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AG 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion datblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd.

Nid yw'r dewisiadau safle mewn ardal lle mae risg o lifogydd, nac yn agos at ardal felly, fodd bynnag, dengys yr asesiad o safleoedd posib fod ambell ddigwyddiad o lifogydd yn y system garthffosiaeth gyhoeddus yn y naill safle a'r llall, a bod rhan o safle SP968 yn dueddol o ddioddef gorlifo dŵr wyneb. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AG 11 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect.

Mae'r dewisiadau safle o fewn pellter cerdded ardderchog i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael yn Rachub, Pentref Gwasanaeth. Potensial am fân effaith cadarnhaol negyddol yn erbyn Amcan AG 2. Mae'r pentref rhyw 6km o Fangor, a rhyw 1.5km o Fethesda. Mae cysylltiadau bws i'r aneddfannau mwy hyn o fewn 400m i'r ddau safle; fodd bynnag, ym Mangor y mae'r orsaf drenau agosaf. . O ystyried y pellter o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol a'r cysylltiadau bws, mae potensial am fân effaith cadarnhaol ar Amcan AG 10 trwy leihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, nid ystyrir y bydd yr effaith yn arwyddocaol am y bydd pobl yn parhau i deithio i gyrraedd y dewis helaethach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd gwaith yn yr aneddfannau mwy.

Mae gan ddatblygu yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle botensial i gynyddu lefel y traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, ni fydd unrhyw gynnydd yn debyg o fod yn sylweddol. Dengys yr asesiad o safleoedd posib fod pryderon gweithredol a diogelwch ynghylch traffig ychwanegol yn defnyddio cysylltiadau o'r ffordd i'r A5 yn safle SP968 sydd yn golygu y byddai datblygu angen asesiad o'r traffig fyddai'n cael ei gynhyrchu ac Archwiliad o Ddiogelwch y Ffyrdd. Dylai mesurau lliniaru ar ddarperir trwy bolisïau'r CDLlC a Adneuwyd ac sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau bod unrhyw effaith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol yn cael eu cadw mor isel ag sydd modd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol ar Amcan AG 3 gydag elfen o ansicrwydd. Er nad ystyrir y bydd y traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy

| |
|---|
| safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd.<br><br>Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle sy'n debyg o effeithio ar iechyd dynol; potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.<br><br>Ar hyn o bryd ni wyddys a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei ddarparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw waith sydd yno eisoes ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd am waith yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 6.<br><br>Nid yw'r dewisiadau safle wedi eu gwarchod gan ddynodiad tirwedd ac ni nodwyd fod iddynt bwysigrwydd gweledol uchel. Byddai datblygu ar y naill safle neu'r llall â photensial i golli tir glas a thrwy hynny gael mân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcanion AG 8 a 9 trwy ddatblygu man nas datblygwyd cynt, er bod elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl. Gellid ystyried datblygu yn y naill safle neu'r llall fel llechfeddiant i mewn i gefn gwlad agored, sydd â'r potensial i newid cymeriad yr ardal; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd a'r lleoliadau gerllaw datblygiadau tai sydd yno eisoes, ni fyddai unrhyw newid yn cael effaith arwyddocaol andwyol. Dylid nodi nad yw'r naill na'r llall o'r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlochrog.<br><br>Nid yw'r AG wedi nodi unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y dewisiadau safle. Mae problemau gyda dŵr yn y ddau safle, a byddai angen ymdrin â'r rhain cyn i unrhyw ddatblygu ddigwydd. Awgryma'r dystiolaeth fod pryderon diogelwch o ran traffig ar safle SP968. Mae'r safle hefyd yn cynnwys GCC fyddai'n rhaid cael eu gwarchod a'u cadw gan unrhyw gynnig am ddatblygu. |

| **Tywyn** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Treftadaeth a Diwylliant** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP702 Cae** | **0 ?** | **+** | **+** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |

| Eithin | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SP952 Tir cyf i'r Stad Ddiw** | **0 ?** | **+** | **0 ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |

**Crynodeb**

Lleolir y ddau safle ar dir glas. Lleolir SP702 o fewn y ffin ddatblygu ac mae'n cynrychioli tir mewnlenwi, ac mae'r safle SP952 yn estyniad mawr i'r pentref, yn gyfagos i ffin yr anheddiad. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle neu'n gyfagos iddo, fodd bynnag, dylid nodi y lleolir safle SP702 400m i ffwrdd o Ben Llŷn a ACA Sarnau; fodd bynnag, o ystyried y datblygiad preswyl presennol rhwng y safle a'r ardal ddynodedig, ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Mae posibilrwydd y gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bach ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltiadau a darnio coridorau gwyrdd. Ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r isadeiledd gwyrdd. Nid yw'r safleoedd o fewn ardal risg llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Mae lleoliad y safleoedd yng nghanol Tywyn yn golygu y byddai datblygiad o fewn pellter cerdded rhesymol (llai na 1km) i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Ganolfan Gwasanaeth Lleol hon. Potensial am effaith cadarnhaol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 2. Mae'r ddau safle o fewn 400m o arosfannau bysiau, mae safle SP702 o fewn 400m, a safle SP952 o fewn 1km o Orsaf Drenau Tywyn. O ystyried y cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ardderchog a'r pellter i wasanaethau a chyfleusterau, ceir potensial am effeithiau cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 10 drwy leihau'r angen i deithio. Ystyrir na fydd yr effaith ond yn fach gan ei bod yn debygol y bydd pobl yn teithio ar gyfer yr ystod ehangach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau mwy.

Mae potensial i ddatblygiad yn unrhyw un o'r opsiynau o ran safleoedd gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn sylweddol. Nid yw'r dystiolaeth yn nodi bod unrhyw broblemau presennol o ran capasiti neu fynediad mewn perthynas â'r rhwydwaith priffyrdd. Mae potensial am effaith niwtral gweddilliol ar Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd. Tra nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, ceir potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol bach ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, gan gynnwys defnyddio cerbydau, yn lleihau o ganlyniad i fesurau rheoli allyriadau caeth ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd.

Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol. Ceir potensial am effeithiau negyddol ar iechyd yn codi o'r

stad ddiwydiannol gyfagos i safle SP952, er yr ystyrir bod mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol, potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd. Nid oes unrhyw ddefnydd tir sy'n gwrthdaro neu broblemau arwyddocaol sy'n debygol o effeithio iechyd dynol yn safle SP702, potensial am effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Nid yw'n hysbys ar hyn o bryd p'un a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu'n arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol ac nid oes gwahaniaethau o bwys yn nhermau mynediad i gyfleoedd cyflogaeth presennol yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Nid yw'r opsiynau ar gyfer y safleoedd wedi'u diogelu gan ddynodiad tirwedd neu wedi'u nodi fel rhai o bwysigrwydd gweledol sylweddol, ond dylid nodi y lleolir safle SP952 ddim ond 300m o Barc Cenedlaethol Eryri ac mae'r rhan fwyaf o'r pellter rhwng y safle a'r PC yn ardal gefn gwlad agored, gellid ystyried y byddai datblygu'r safle yn gorgyffwrdd ag ardal gefn gwlad agored gyda'r potensial i newid cymeriad yr ardal. Mae gan ddatblygu ym mhob un o'r safleoedd y potensial i golli tir glas a gaiff effaith negyddol bach yn erbyn Amcanion AC 8 a 9 drwy ddatblygu ardal nad yw wedi'i datblygu'n flaenorol, er bod elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl. Dylid nodi na fydd datblygu yn unrhyw un o'r safleoedd yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Mae gan ddatblygiad yn safle SP702 y potensial i integreiddio'n well i mewn i'r ffurf adeiledig bresennol na safle SP952. Gellir ystyried bod safle SP952 yn gorgyffwrdd ag ardal gefn gwlad agored yn lleoliad Parc Cenedlaethol Eryri, yn ogystal, byddai rhaid i'r safle fynd i'r afael â phroblemau iechyd posibl yn gysylltiedig â'r stad ddiwydiannol gyfagos.

| **Y Ffor** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Treftadaeth a Diwylliant** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP682 Tir cyfagos i'r ysg** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SP969 Tir cyfagos i Tyn Lôn** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |
| **SP980 tir cyfagos i Lôn Tŷ'r Gof** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **- ?** | **+** | **0** |
| **SP995 Hen ysgol Hafod Lon** | **0?** | **+** | **+?** | **0?** | **0** | **0?** | **0** | **++** | **+** | **-?** | **+** | **0** |
| **C10 Safle Cyflogaeth** | **0?** | **+** | **+?** | **0?** | **0** | **0?** | **++** | **0** | **-** | **-?** | **+** | **0** |

**Crynodeb**

Mae safleoedd SP980, SP682 a C10 (safle cyflogaeth) yn dir glas a leolir yn union gerllaw ffin yr anheddiad tra bo safle SP995 yn cynrychioli tir llwyd. Mae safle SP969 yn dir glas ac mae'n ddyraniad tai presennol o fewn y CDU o fewn ffurf adeiledig Y Ffor. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safleoedd neu'n gyfagos iddynt. Mae posibilrwydd y gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bach ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltiadau a darnio coridorau gwyrdd, yn enwedig gan fod SP682. SP969 ac SP980 yn cynnwys coed. Gall weithgaredd cyflogaeth ar safle C10 greu llygredd neu aflonyddwch i fioamrywiaeth. Fodd bynnag, ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r isadeiledd gwyrdd. Nid yw yr un o'r safleoedd wedi'u lleoli o fewn neu'n gyfagos i ardal risg llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Lleolir bob un o'r opsiynau o ran safleoedd o fewn pellter cerdded rhesymol (llai na 1km) i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael yn Y Ffor, sef Pentref Gwasanaeth. Ceir potensial am effaith cadarnhaol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 2. Lleolir y pentref tua 4.5km o Bwllheli a 25km o Gaernarfon, a cheir cysylltiadau bysiau i'r aneddiadau mwy hyn o fewn 400m o bob un o'r safleoedd, fodd bynnag, mae'r orsaf drenau agosaf ym Mhwllheli. O ystyried y pellter o wasanaethau a chyfleusterau a chysylltiadau bysiau presennol, ceir potensial am effaith cadarnhaol bach ar Amcan AC 10 drwy leihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, ni fydd effaith hyn ond yn fach gan ei bod yn debygol y bydd pobl yn dal i deithio i gael mynediad i'r ystod ehangach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau mwy.

Mae gan ddatblygu yn unrhyw un o'r opsiynau o ran safleoedd y potensial i gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, mae'n annhebygol y bydd unrhyw gynnydd yn sylweddol. Mae'r asesiad safleoedd posib yn nodi y byddai angen cynnal gwaith ar y ffordd yn

safle SP969 i symud y cyfyngiadau cyflymder presennol. Yn ogystal, byddai angen cyfleusterau parcio yn y safle hwn ar gyfer yr ysgol gyfagos. Byddai angen cyfleusterau parcio ar safle C10 hefyd. Lleolir safleoedd SP682 a SP995 yn agos i brif ffordd lle mae preswylwyr yn parcio ar hyn o bryd, mae priffyrdd wedi nodi y byddai'n fanteisiol pe gallai'r datblygiad hwn ddarparu lle parcio i gefnogi camau i leihau rhwystrau ar y briff ffordd. Dylai mesurau lliniaru sydd ar gael drwy bolisïau Adnau'r CDLl ar y Cyd, ac sydd ar gael ar lefel prosiect, sicrhau bod unrhyw effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau. Potensial am effaith niwtral gweddilliol ar Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd. Tra nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, ceir potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol bach ar newid hinsawdd yn y tymor byr.  Yn ddibynnol ar y defnydd cyflogaeth ar safle C10, mae yna botensial o lygredd ar lefel lleol. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, gan gynnwys defnyddio cerbydau, yn lleihau o ganlyniad i fesurau rheoli allyriadau caeth ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Ceir potensial am effeithiau cronnus pe bai pob un o'r opsiynau o ran safleoedd yn cael eu datblygu, y byddai angen eu hystyried ymhellach drwy AC o'r CDLl ar y Cyd Adnau.

Yn ogystal, bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol tra byddai'r ddarpariaeth o gyfleon cyflogaeth newydd yn debygol o gael yr un effaithb ar yr amcan hwn. Nid oes unrhyw fathau o ddefnydd tir sy'n gwrthdaro neu broblemau sylweddol ar y safleoedd tai sy'n debygol o effeithio iechyd dynol. Yn ddibynnol ar y defnydd cyflogaeth ar safle C10, fe all weithgaredd gael effaith negyddol ar amwynder cynhoeddus.  Ceir posibilrwydd o effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Fe fyddai datblygu ar safle C10 yn arwain at greu cyfleon cyflogaeth ychwanegol.  O ran safleoedd tai,  nid oes gwahaniaethau sylweddol yn nhermau mynediad i gyfleoedd cyflogaeth bresennol yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Mae potensial am effeithiau negyddol ar dirwedd ar safleoedd SP682, SP969, SP980 a C10. Bydd natur a graddau'r effaith yn ddibynnol ar raddfa, cynllun a dyluniad datblygiadau arfaethedig. Fodd bynnag, o ystyried maint yr opsiynau o ran safleoedd a'r mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect, fe'i hystyrir yn annhebygol y caiff datblygu yn y safleoedd unigol unrhyw effeithiau negyddol mawr. Mae'r rhain yn fwy tebygol o ddigwydd yn raddol, pe bai pob un o'r opsiynau arfaethedig o ran safleoedd yn cael eu datblygu. Potensial am effaith negyddol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 8. Mae gan golli tir glas y potensial am effeithiau negyddol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 9. Dylid nodi nad yw yr un o'r safleoedd yn cynnwys y tir gorau neu fwyaf amlbwrpas.

Gellid ystyried datblygu yn safleoedd SP969, SP980 a C10 i fod yn gorgyffwrdd ag ardal gefn gwlad agored, gyda'r potensial i newid cymeriad yr ardal, yn enwedig o ystyried maint y safleoedd. Mae datblygiad yn safleoedd SP682 ac SP995 yn fwy tebygol o integreiddio o fewn y ffurf adeiledig bresennol na safleoedd SP969, SP980 a C10, y gellid eu hystyried yn estyniadau mawr i'r pentref.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD GWYNEDD**

| |
|---|
| Ni chafodd unrhyw wahaniaethau sylweddol rhwng yr opsiynau tai o ran safleoedd eu nodi gan yr arfarniad. Mae gan ddatblygiad yn safleoedd SP682 a SP995 y potensial i integreiddio'n well â'r ffurf adeiledig bresennol na safleoedd SP969 a SP980 y gellid eu hystyried yn estyniadau mawr i'r pentref. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae hyn yn ansicr ac yn ddibynnol ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad arfaethedig. Ceir problemau traffig y byddai angen mynd i'r afael â hwy cyn datblygu yn safle SP969. |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| **Amlwch** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Diwylliant a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP245 Tir yn Madyn Farm** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP561 Tir ger Cae Rheinwas** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **- ?** | **0** | **++** | **- - ?** | **-** | **+ ?** | **0 ?** |
| **SP247 Tir ger Tan y Bryn** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP900 Tir ger Cae Pêl-droed** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP981 Tir ger Manyn Farm** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP985 Tir ger Maes Mona** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **+ ?** | **++** | **+ ?** | **0** |

**Crynodeb**

Mae pob safle ar wahân i SP985 wedi eu lleoli ar dir maes glas ger y ffin ddatblygu. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol o fewn neu gerllaw'r safle. Gallai colli tir maes glas gael mân effaith negyddol ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod lliniaru addas wedi ei ddarparu trwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Mae posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect wedi cael eu cynnal. Nodir bod yna bwll bridio Madfall Ddŵr Gribog ar safle SP245 sy'n golygu y byddai angen cynefin arall ar gyfer y rhywogaeth hon a warchodir pe bai datblygu yn digwydd yma. Nodir hefyd bod coed a gwrychoedd aeddfed yn bresennol ar safle SP247. Dylai unrhyw gynigion datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy wneud gwelliannau i'r seilwaith gwyrdd.

Nid oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn neu gerllaw'r safle. Yn achos y rhan fwyaf o safleoedd, ystyrir bod lliniaru addas wedi ei

ddarparu trwy bolisïau CDLl ar y Cyd sydd ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol ar gyfer y rhan fwyaf o safleoedd yn erbyn AC Amcan 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect wedi cael eu cynnal. Mae Ardal Gadwraeth Porth Amlwch wedi ei lleoli lai na km o ogledd ddwyrain y dref. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan ddatblygu tai ar safle SP561 botensial i niweidio a rhwystro golygfeydd tuag allan o'r Ardal Gadwraeth. Ystyrir felly bod yna botensial am effeithiau negyddol hir dymor bychain ar dreftadaeth, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd astudiaethau lefel is mwy manwl wedi cael eu cynnal.

Nid yw'r mwyafrif o safleoedd o fewn ardal risg llifogydd, felly mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11. Mae rhan fechan o safle SP561 mewn perygl yn ystod digwyddiad llifogydd eithafol. Ystyrir y gallai unrhyw gynnig ar gyfer datblygu osgoi'r rhan hon o'r safle. Mae posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 11, gydag elfen o ansicrwydd wrth gydnabod yr ardal fechan o berygl llifogydd.

Mae pob safle mewn lleoliadau cyfleus yn agos at ganol yr anheddiad gan eu gwneud yn hygyrch i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y pentref. Mae'r safleoedd i'r de (SP247, SP245 ac SP981) wedi eu lleoli ychydig ymhellach i ffwrdd o'r canol; fodd bynnag, ni ystyrir bod y gwahaniaeth mewn pellter yn sylweddol gan fod yr holl safleoedd yn dal i fod o fewn 1 km. Mae potensial am effaith hirdymor cadarnhaol bychan yn erbyn AC Amcan 2. Gan gymryd hyn i ystyriaeth ynghyd â mynediad da i ddulliau cludiant cynaliadwy (mae pob safle o fewn 400m i safle bws) mae potensial am effaith gadarnhaol hir dymor bychan erbyn AC Amcan 10 trwy leihau'r angen i deithio yn y pentref. Fodd bynnag, cydnabyddir bod preswylwyr y dyfodol yn debygol o barhau i deithio i'r anheddiad mwy yn Llangefni (14 milltir i ffwrdd) ar gyfer yr ystod uwch o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael. Ystyrir felly fod yna hefyd elfen o ansicrwydd o ran yr effeithiau cadarnhaol yn erbyn AC Amcan 10. Dylid nodi nad oes unrhyw lwybrau troed addas i mewn i'r pentref. o Safleoedd SP245 ac SP981 Byddai angen i unrhyw gynnig datblygu sicrhau bod llwybrau troed a llwybrau beicio addas yn cael eu darparu i geisio helpu i leihau'r angen i deithio mewn car.

Dylid nodi bod y Cyngor Tref yn pryderu am y lefelau posib o dwf a'r goblygiadau ar gyfer y gwasanaethau brys, y gwasanaeth iechyd a'r iaith Gymraeg. Mae'r AC yn rhagdybio y gall unrhyw gynnig ar gyfer datblygu wneud darpariaeth briodol ac amserol neu gyfraniadau ar gyfer seilwaith ategol angenrheidiol a chyfleusterau neu wasanaethau cymunedol eraill.

Mae posibilrwydd o lefelau uwch o draffig; fodd bynnag, o ystyried maint yr opsiynau safle, yn unigol maent yn annhebygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn traffig. Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd (Adnau) sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau. Pe bai pob safle yn cael ei ddatblygu, mae posibilrwydd o effeithiau negyddol hirdymor mân ar draffig; fodd bynnag, ar hyn o bryd mae hyn yn ansicr. Er nad ystyrir y bydd traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol hir dymor bychan ar newid yn yr hinsawdd yn y tymor byr. Yn yr hir dymor mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys y defnydd o gerbydau yn lleihau o ganlyniad i reolaethau

gollyngiadau llym ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Mae posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol yn erbyn AC Amcan 3 gydag elfen o ansicrwydd. Dylid nodi bod mân rwystrau o ran mynediad priffyrdd ar gyfer safleoedd SP935 a SP971. Ystyrir ei bod yn debygol y bydd mesurau addas yn cael eu rhoi ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r materion bychain hyn ar lefel y prosiect.

Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effaith gadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod o fudd i iechyd y preswylwyr lleol. Nid oes yna unrhyw wrthdaro o ran defnydd tir neu faterion sylweddol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol, mae potensial am effaith gadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y ydd cynigion manwl wedi cael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd nid ydym yn gwybod os bydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei ddarparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygiad yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid oes unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd cyflogaeth presennol yn y pentref. Mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Mae gan y rhan fwyaf o'r safleoedd bwysigrwydd isel neu ganolig ar gyfer tirwedd. Mae posibilrwydd o fân effaith negyddol yn yr hir dymor yn erbyn AC Amcan 8 ar gyfer safleoedd tir glas SP900, SP247, SP245 ac SP981 gan y bydd datblygu ar ardal sydd heb ei datblygu o'r blaen. Mae posibilrwydd o effaith gadarnhaol hir dymor bychan ar y dirwedd yn safle SP985 drwy adfywio safle tir llwyd. Mae safle SP561 wedi ei handbaod fel safle o pwysigrwydd gweledol uchel, ac felly ystyrir bod yna bosibilrwydd o effaith negyddol hir dymor sylweddol ar y dirwedd. Dylid nodi y byddai datblygu ar SP245 a SP981 â chysylltiad gweledol gwael gyda gweddill yr anheddiad a bod safleoedd SP900 a SP247 wedi eu lleoli'n dda o ran y patrwm yr anheddiad. Mae yna elfen o ansicrwydd ar gyfer pob safle hyd nes y bydd asesiadau lefel is mwy manwl wedi eu cynnal. Mae gan golli tir glas y posibilrwydd o effaith negyddol hir dymor bychan yn erbyn AC Amcan 9 ar gyfer y rhan fwyaf o'r safleoedd. Mae safle SP985 yn dir llwyd llwyr felly mae potensial am effaith gadarnhaol hir dymor mawr yn erbyn AC Amcan 9.

Ni fydd datblygu yn arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas ar unrhyw un o'r safleoedd.

Mae'r AC wedi canfod bod rhai gwahaniaethau allweddol rhwng y safleoedd. O'i gymharu â safleoedd eraill, datblygu yn SP561 sydd â'r posibilrwydd o fwy o effaith negyddol ar dirwedd o ystyried ei bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan hyn oblygiadau hefyd ar gyfer y lleoliad Ardal Gadwraeth Amlwch ac felly mae yna bosibilrwydd o o fân effaith negyddol ar dreftadaeth. O'i gymharu â safleoedd eraill, mae gan SP985 y posibilrwydd o effeithiau cadarnhaol ar y dirwedd a defnydd darbodus o dir gan ei fod yn dir llwyd.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| **Amlwch** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Treftadaeth a Diwylliant** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP378 Cae Syr Rhys** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **-** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **- ?** | **+** | **0** |

**Crynodeb**

Mae'r safle'n ardal gymharol fawr o dir glas (4.26ha) a leolir yn gyfagos i ffin yr anheddiad. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle neu'n gyfagos iddo. Mae posibilrwydd y gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bach ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltiadau a darnio coridorau gwyrdd, yn enwedig gan fod y safle'n cynnwys coed a pherthi. Ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau Adneuo'r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth neu dreftadaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r isadeiledd gwyrdd. Nid yw'r safle wedi'i leoli o fewn neu'n gyfagos i ardal risg llifogydd, fodd bynnag, dylid nodi y lleolir y tir sydd tua 150m i'r de o'r safle o fewn ardal risg llifogydd canolig. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Lleolir y safle o fewn pellter cerdded rhesymol (llai na 1km) i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau o fewn Amlwch, sy'n Ganolfan Gwasanaeth Trefol. Ceir potensial am effaith cadarnhaol mawr yn erbyn Amcan AC 2 oherwydd natur lleoliad Amlwch sy'n cynnig ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau, fodd bynnag, mae hyn yn cael ei leihau i effaith cadarnhaol bach gan fod pryderon yn bodoli ynghylch y pwysau y byddai twf yn ei roi ar wasanaethau brys ac iechyd presennol yn Amlwch. Ceir arosfannau bysiau o fewn 400m o'r safle, fodd bynnag, mae'r orsaf drenau agosaf dros 20km i ffwrdd yn y Fali. O ystyried y pellter o wasanaethau a chyfleusterau a chysylltiadau bysiau presennol, ceir potensial am effaith cadarnhaol bach ar Amcan AC 10 drwy leihau'r angen i deithio, fodd bynnag, fe'i hystyrir yn fach yng ngolau'r potensial am broblemau o ran capasiti mewn perthynas â gwasanaethau/cyfleusterau presennol.

Mae gan ddatblygu yn y safle y potensial i gynyddu lefelau traffig ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn enwedig o ystyried maint mawr y safle. Dylai mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau Adnau'r CDLl ar y Cyd, ac sydd ar gael ar lefel prosiect i sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau, ac yn y tymor hir, mae allyriadau nwyon tŷ gwydr yn debygol o leihau o ganlyniad i fesurau rheoli allyriadau caeth

ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae hyn yn ansicr. Potensial am effaith negyddol bach yn erbyn Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau lefel is.

Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw fathau o ddefnydd tir sy'n gwrthdaro neu broblemau sylweddol yn y safle sy'n debygol o effeithio iechyd dynol, ceir potensial am effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ni ddylai'r datblygiad arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol, ac ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys p'un a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd neu wedi'i nodi fel un o bwysigrwydd gweledol sylweddol, fodd bynnag, dylid nodi bod y safle o fewn 200m o SoDdGA Ynys Môn ac felly mae'n debygol o ffurfio rhan o leoliad y SoDdGA. Byddai gan ddatblygu ar y safle y potensial i i golli tir glas ac felly effaith negyddol tymor hir bach yn erbyn Amcanion AC 8 a 9 drwy ddatblygu ardal sydd heb ei datblygu'n flaenorol, er bod elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd cynigion manwl wedi'u cyflwyno. Gellid ystyried y byddai datblygu ar y safle yn gorgyffwrdd ag ardal gefn gwlad agored, a all arwain at newid cymeriad yr ardal, fodd bynnag, o ystyried bod datblygiad tai yn ffinio ar y safle i'r gogledd a'r de, mae'n annhebygol y bydd unrhyw newid yn amharu'n sylweddol arno. Nid yw'r safle'n cynnwys y tir gorau neu fwyaf amlbwrpas.

| **Benllech** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Diwylliant a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **TIrweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP233 Tir ger Pant y Cydun** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0 ?** |
| **SP792 Tir ger Tudno View** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0** |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SP924 Safle Wendon Cafe** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0 ?** |

**Crynodeb**

Mae safleoedd SP233 a SP792 wedi eu lleoli ar dir maes glas ger ffin datblygu'r anheddiad, tra bod SP924 yn dir maes glas o fewn y ffin. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac asedau treftadaeth dynodedig o fewn na gerllaw'r safleoedd. Gallai colli tir maes glas gael mân effaith negyddol ar fioamrywiaeth yn sgil colli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd, yn arbennig yn safle SP942 sy'n cynnwys coed, ac sy'n agos iawn at y draethlin arfordirol (tua 70m). Mae safle SP924 tua 400m o ACA Afon Menai a Bae Conwy ac AGA Bae Lerpwl; ond, o ystyried maint y safle mae'n annhebygol y byddai unrhyw effaith sylweddol yn sgil hyn.  Mae hyn yn llai tebygol ar gyfer safleoedd SP233 a SP792 o ystyried bod y safleoedd wedi eu hamgylchynu gan mwyaf ac yn ffinio â seilwaith a datblygiadau preswyl, yn cynnwys ffordd yr A5025. Ystyrir bod mesurau lliniaru addas trwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar fioamrywiaeth. Posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 1 gydag elfen o ansicrwydd nes bod asesiadau ac arolygon lefel prosiect wedi eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion datblygu edrych ar gyfleoedd i hybu bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd.

Nid oes yr un o'r safleoedd o fewn neu wrth ymyl ardal risg llifogydd, posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11, er y dylid nodi mai dim ond Bay View Road sy'n gwahanu SP924 oddi wrth yr ardal perygl o lifogydd. Nodir bod mân broblemau ynglŷn â dŵr wyneb yn gysylltiedig â safle SP233 sy'n golygu bod yna hefyd rywfaint o ansicrwydd yn erbyn amcan 11 AC. Yn sgil cynnal arfarniad o safleoedd posibl y Cyngor dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai'r drychiad isaf ar hyd ffryntiad y traeth mewn perthynas â safle SP942 olygu bod problemau llifogydd ynglŷn â chynnydd yn lefel y môr. O ystyried hyn credir bod elfen o ansicrwydd ar gyfer safle SP942 yn erbyn AC Amcan 11.

Mae SP792 a SP233 mewn lleoliadau cyfleus wrth ymyl canol Benllech, Canolfan Wasanaethau Lleol, sy'n golygu eu bod o fewn pellter cerdded rhesymol at wasanaethau a chyfleusterau cyfyngedig yn y pentref. Mae safle SP924 wedi ei leoli ymhellach tuag at ymyl dwyreiniol yr anheddiad ond mae'n dal o fewn 1km i'r brif stryd fawr. Posibilrwydd o fân effaith gadarnhaol hirdymor yn erbyn Amcan 2 AC. Mae'r pentref tua 7 milltir o brif anheddiad Llangefni, ac yn 10 milltir o Fangor. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da (safleoedd bysiau o fewn 400m i bob un o'r safleoedd dan sylw) â'r prif aneddiadau hyn, ond mae'r orsaf drenau agosaf dros 10k i ffwrdd yn Llanfairpwll. O ystyried y pellter oddi wrth wasanaethau a chyfleusterau presennol a chysylltiadau bysiau, mae posibilrwydd o fân effaith gadarnhaol ar AC Amcan 10 yn sgil lleihau'r angen i deithio. Ond ystyrir mai bach iawn fydd arwyddocâd yr effaith gan y bydd y bobl yn dal i orfod teithio i gael dewis ehangach o wasanaethau/cyfleusterau a chyfleoedd gwaith mewn prif aneddiadau.

Gallai datblygu unrhyw un o'r safleoedd yma gynyddu lefelau traffig; ond, o ystyried maint y safleoedd mae'n annhebygol y byddai unrhyw

gynnydd sylweddol. Nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod unrhyw broblemau capasiti presennol yn gysylltiedig â'r rhwydwaith priffyrdd. Dylid nodi bod problem mynediad o bosibl yn gysylltiedig â SP792 yn ardal yr A5025, er yr ystyrir ei fod yn debygol y gellid lliniaru hyn ar lefel prosiect. Dylai mesurau lliniaru trwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Adnau) ac ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod cyn lleied â phosibl o effaith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol. Posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol ar Amcan 3 AC ac elfen o ansicrwydd. Fodd bynnag, tra na ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae'n bosibl y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cynyddu gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hirach, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, yn cynnwys y defnydd gan gerbydau, yn lleihau, o ganlyniad i reolau allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewrop. Ond ar hyn o bryd nid oes sicrwydd o hyn. Mae'n bosibl y bydd effeithiau cronnus pe bai'r holl safleoedd hyn yn cael eu datblygu, a byddai angen ystyried hyn ymhellach trwy gynnal AC o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Adnau).

Bydd darparu dewis o dai'n cael effaith gadarnhaol i hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r stoc tai newydd a ddarperir hefyd fod o fudd i iechyd trigolion lleol. Nid oes unrhyw ddefnyddiau tir sy'n gwrthdaro na phroblemau sylweddol yn debygol o effeithio ar iechyd pobl yn unrhyw un o'r safleoedd. Dylid nodi bod safle SP924 ger maes parcio; ond mae hyn yn annhebygol o arwain at unrhyw effaith negyddol o bwys. Mae'n bosibl y bydd mân effaith gadarnhaol yn erbyn AC Amcan 2 gydag elfen o ansicrwydd nes bod cynigion manwl wedi eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd ni wyddys a fydd unrhyw swyddi'n cael eu darparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu'n arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd gwaith presennol yn y pentref. Mae'n bosibl y byddai effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Nid yw'r safleoedd hyn yn cael eu diogelu gan ddynodiad tirwedd nac wedi eu nodi fel safleoedd o bwysigrwydd gweledol uchel. Er hynny, byddai angen i ddatblygiadau ar safle SP942 fod yn ymwybodol o AHNE Traeth Coch. Mae posibilrwydd o golli tir maes glas pe datblygid unrhyw un o'r safleoedd hyn ac felly byddai mân effaith negyddol hirdymor yn erbyn Amcan 8 a 9 AC yn sgil datblygu ardal nas datblygwyd yn flaenorol, er bod elfen o ansicrwydd nes bod cynigion manwl wedi eu cyflwyno. Mae pob un o'r safleoedd wedi eu nodi fel tir amaethyddol Graddfa 3; ni wyddys ar hyn o bryd os yw'n Raddfa 3a neu 3b. Mae'r posibilrwydd o golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlddefnydd yn golygu o bosibl y byddai mân effaith negyddol yn erbyn Amcan 9 AC.

Er nad yw'r AC wedi nodi unrhyw wahaniaeth o bwys rhwng y safleoedd hyn yn erbyn Amcanion yr AC, dylid nod bod safle SP924 mewn amgylchedd mwy sensitif na safleoedd SP233 a SP792 oherwydd bod y safle wedi ei leoli ar ymyl arfordirol yr anheddiad, yn cynnwys coed ac fel rhan o AHNE Traeth Coch.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| **Bodedern** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr iaith Gymraeg** | **Diwylliant & Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirwedau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP59 Cae Sarn Garnau** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0** |
| **SP172/722/173/171 Tir ger Llwyn Angharad** | **0 ?** | **+** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0** |

**Crynodeb**

Mae’r ddau safle wedi eu lleoli ar dir maes glas union gerllaw y ffin anheddiad ar gyrion deheuol y pentref. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn nac wrth ymyl y safleoedd hyn, er y dylid nodi bod Ardal Gadwraeth Bodedern lai na 350m i ffwrdd. Gallai colli tir maes glas o bosibl gael effeithiau negyddol isel ar fioamrywiaeth oherwydd colli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod polisiau y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn darparu mesurau lliniaru addas ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau sylweddol ar fioamrywiaeth na threftadaeth. Posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol yn erbyn AC Amcan 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect wedi eu cwblhau. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu edrych am gyfleoedd i ddiogelu bioamrywiaeth trwy gyfrwng gwelliannau i’r seilwaith gwyrdd.
Nid yw’r safleoedd wedi eu lleoli o fewn ardal lle ceir perygl o lifogydd, posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Mae lleoliad SP172/722/173/171 wrth ymyl London Road - sef y ffordd sydd yn rhedeg trwy ganol Bodedern - yn golygu ei fod o fewn pellter cerdded hawdd i’r cyfleusterau a’r gwasanaethau sydd ar gael yn y pentref, sydd yn Ganolfan Gwasanaethau Lleol. Mae SP59 wedi ei leoli y tu ôl i stadau tai presennol ac er bod y safle wedi ei leoli ymhellach i ffwrdd oddi wrth brif ffyrdd y pentref, mae er hynny o fewn pellter cerdded rhesymol (llai nag1km) oddi wrth y gwasanaethau a’r cyfleusterau. Posibilrwydd o effaith gadarnhaol isel yn yr hir dymor yn erbyn AC Amcan 2. Mae’r pentref wedi ei leoli tua 7 milltir o Gaergybi, sydd yn anheddiad mwy o faint. Mae safleoedd bws o fewn 400m i’r ddau safle, fodd bynnag mae’r orsaf rheilffordd agosaf fwy na 4km i ffwrdd, yn Y Fali. O ystyried y pellter oddi wrth y gwasanaethau a’r cyfleusterau presennol a’r

rhwydwaith bysiau, mae posibilrwydd o effaith gadarnhaol isel ar AC Amcan 10 trwy leihau'r angen am deithio. Fodd bynnag, ystyrir mai bychan iawn fydd arwyddocâd yr effaith gan ei bod yn debygol hyd yn oed wedyn y bydd yn rhaid i bobl deithio er mwyn cyrraedd ystod ehangach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd gwaith o fewn aneddiadau mwy.

Mae datblygu ar unrhyw un o'r safleoedd a ddewiswyd yn golygu'r posibilrwydd o gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, mae'n anhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn sylweddol. Nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod unrhyw faterion ymarferol o safbwynt y rhwydwaith ffyrdd presennol, fodd bynnag, dylid nodi'r posibilrwydd y bydd mynediad yn fater i'w drafod yn achos safle SP59 (byddai mynediad i'r safle trwy'r datblygiad tai newydd yn Bron y Graig) er yr ystyrir y gellid lliniaru hyn ar lefel prosiect. Dylai'r mesurau lliniaru a ddarperir trwy bolisiau'r CDLl ar y Cyd (Adnau) ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd yn cael eu lleihau i'r eithaf. Posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol ar AC Amcan 3 gydag elfen o ansicrwydd. Er na thybir y bydd traffig yn cynyddu llawer, mae'n bosibl y bydd cynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol isel ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hirach mae'n debygol y bydd allyriadau oddi wrth weithgareddau cyffredinol, yn cynnwys defnydd o beiriannau, yn lleihau oherwydd safonau Ewrop a rheolaeth gaeth ar allyriadau o beiriannau newydd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch hyn.

Bydd darparu ystod o dai yn cael effaith gadarnhaol o safbwynt hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o dai newydd hefyd fod o fudd i iechyd y preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw faterion gwrthdrawiadol yn ymwneud â defnydd tir nac unrhyw faterion arwyddocaol sydd yn debygol o effeithio ar iechyd dynol mewn unrhyw un o'r safleoeddd dan sylw. Posibilrwydd o effaith gadarnhaol isel yn erbyn AC Amcan 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd cynigion manwl wedi eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd nid yw'n hysbys os caiff unrhyw swyddi eu creu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid oes unrhyw wahaniaethau arwyddocaol o safbwynt mynediad at gyfleoedd cyflogaeth presennol yn y pentref. Posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Nid yw'r safleoedd a ddewiswyd wedi eu diogelu trwy ddynodiad tirwedd nac wedi eu nodi fel safleoedd o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygu ar unrhyw un o'r safleoedd hyn y potensial o golli tir maes glas ac oherwydd hynny mae iddynt effaith negyddol isel yn y tymor hir yn erbyn AC Amcan 8 trwy ddatblygu ar ardal nad yw wedi ei datblygu yn flaenorol, er bod elfen o ansicrwydd hyd nes bydd cynigion manwl wedi eu cyflwyno. Gan fod y safleoedd wedi eu lleoli ar gyrion y ffin anheddiad, gellid ei weld fel tresmasu ar dir cefn gwlad agored gyda'r posibilrwydd o newid cymeriad yr ardal; fodd bynnag, o ystyried maint y safle a natur y safle sydd wedi ei leoli yn bennaf yng nghefn datblygiad newydd presennol, ni ragwelir y bydd y newid hwn yn niweidiol. Dylai mesurau lliniaru a ddarperir trwy bolisiau'r CDLl ar y Cyd (Adnau) ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau nad yw'r effeithiau negyddol yn rhai sylweddol. Posibilrwydd o effaith hir dymor isel negyddol yn erbyn AC Amcan 8, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bydd rhagor o asesiadau manwl lefel ïs wedi eu cwblhau. Mae colli tir maes glas hefyd yn golygu posibilrwydd o effaith negyddol isel yn erbyn AC Amcan 9, fodd bynnag dylid nodi na fydd datblygu ar unrhyw un o'r safleoedd hyn yn arwain at

golli tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Nid yw’r AC wedi nodi unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y dewis o safleoedd yn erbyn  Amcanion AC – nid yw hyn yn syndod o ystyried bod y ddau safle mor agos at ei gilydd..

**Cemaes**

| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Diwylliant a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP926 Tir ger Ffordd Caergybi** | **0 ?** | **+? +?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |

**Crynodeb**

Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn y safle na gerllaw iddo. Gallai colli tir maes glas gael mân effaith negyddol ar fioamrywiaeth yn sgil colli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod mesurau lliniaru addas trwy bolisïau’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol sylweddol. Posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 1gydag elfen o ansicrwydd nes bod asesiadau ac arolygon lefel prosiect wedi eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion datblygu edrych ar gyfleoedd i hybu bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd. Dylid nodi bod SoDdGA Tre’r Gof tua 700m i’r gogledd-orllewin o’r safle; fodd bynnag, ni ystyrir bod unrhyw lwybrau amgylcheddol i achosi unrhyw effaith.

Nid yw’r safle o fewn neu wrth ymyl ardal risg llifogydd, posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Nid oes asedau treftadaeth dynodedig o fewn neu wrth ymyl y safle. Fodd bynnag, dylid nodi bod Ardal Gadwraeth ddynodedig i’r gogledd o’r pentref. Gallai datblygu ar y safle gael effaith negyddol ar leoliad yr Ardal Gadwraeth; fodd bynnag, mae'n annhebygol o fod yn sylweddol unwaith y bydd mesurau lliniaru tirwedd wedi eu hystyried. Ystyrir bod mesurau lliniaru addas trwy bolisïau’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effaith negyddol ar dreftadaeth. Posibilrwydd o effaith niwtral gweddilliol yn erbyn AC Amcan 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes bod asesiadau ac arolygon lefel prosiect wedi eu cynnal.

Mae'r safle o fewn pellter cerdded (o fewn 1 km) at y cyfleusterau a'r gwasanaethau presennol sydd yn y pentref. O ystyried maint y safle mae'n bosibl darparu cyfleusterau/gwasanaethau newydd; fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw hyn yn sicr. Posibilrwydd o fân effaith negyddol ar AC Amcan 2. Mae gan y safle fynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus (o fewn 400m i safle bysiau) ac nid oes problemau o ran topograffi a allai atal mynediad i rai trigolion. O ystyried pellter y safle oddi wrth gyfleusterau/gwasanaethau presennol a thrafnidiaeth gyhoeddus mae posibilrwydd i ddatblygu i leihau'r angen i deithio gyda phosibilrwydd o effaith gadarnhaol yn erbyn AC Amcan 10. Fodd bynnag, mae'n cael ei gydnabod y bydd trigolion yn dal i orfod teithio i brif aneddiadau ar gyfer rhai gwasanaethau/cyfleusterau e.e. archfarchnadoedd, felly mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd. Dylai unrhyw gynnig datblygu edrych ar gyfleoedd i gyfrannu at wella llwybrau cerdded a beicio i'r pentref.

Ar hyn o bryd nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod unrhyw broblemau o ran mynediad na chapasiti o fewn y rhwydwaith priffyrdd presennol. Mae'n bosibl y bydd datblygu ar y safle'n cynyddu traffig; fodd bynnag, mae'n annhebygol o fod yn sylweddol o ystyried y mesurau lliniaru sydd ar gael trwy bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (Adnau) ac ar gael ar lefel prosiect 3. Tra ystyrir na fydd traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae'n bosibl y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr yn cynyddu gyda mân effaith hirdymor ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hirach, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, yn cynnwys y defnydd gan gerbydau, yn lleihau, o ganlyniad i reolau allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewrop. Ond ar hyn o bryd nid oes sicrwydd o hyn. Posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 3.

Mae posibilrwydd o ddarparu amryw o gyfleusterau ynghyd â thai ar y safle mawr hwn; fodd bynnag, ar hyn o bryd ni wyddys beth fydd graddfa na maint y datblygiad. Bydd darparu stoc tai'n cael effaith gadarnhaol i hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r stoc tai newydd a ddarperir hefyd fod o fudd i iechyd trigolion lleol. Gall datblygu ar y raddfa hon hefyd ddarparu seilwaith gwyrdd sy'n gallu darparu lle chwarae a hamdden a chael effaith gadarnhaol ar iechyd yn y tymor hir; fodd bynnag, nid oes sicrwydd o hyn ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw ddefnyddiau tir sy'n gwrthdaro na phroblemau sylweddol ar y safle sy'n debygol o effeithio ar iechyd pobl, posibilrwydd o fân effaith gadarnhaol yn erbyn AC Amcan 2 gydag elfen o ansicrwydd nes bod cynigion manwl wedi eu cyflwyno.

Bydd darparu stoc tai'n cael effaith gadarnhaol i hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r stoc tai newydd a ddarperir hefyd fod o fudd i iechyd trigolion lleol. Nid oes unrhyw ddefnyddiau tir sy'n gwrthdaro na phroblemau sylweddol ar y safle sy'n debygol o effeithio ar iechyd pobl, mân effaith gadarnhaol posib yn erbyn AC Amcan 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd cynigion manwl wedi eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd ni wyddys a fydd unrhyw swyddi'n cael eu darparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu'n arwain at golli unrhyw swyddi presennol ac nid oes unrhyw wahaniaeth sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd gwaith presennol yn y pentref. Effaith niwtral posib yn erbyn AC Amcan 6.

Nid yw'r safle'n cael ei ddiogelu gan ddynodiad tirwedd nac wedi ei nodi fel safle o bwysigrwydd gweledol uchel. Hefyd, mae haen weledol a thirwedd LANDMAP yn uchel. Mae posibilrwydd o golli tir maes glas pe datblygid y safle ac felly byddai mân effaith negyddol hirdymor yn erbyn AC Amcan 8 yn sgil datblygu ardal nas datblygwyd yn flaenorol. Hefyd mae elfen o ansicrwydd oherwydd bydd graddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad yn dylanwadu ar arwyddocâd yr effaith ac mae angen cynnal asesiadau lefel isel manwl o hyd. Mae'r safle wedi ei nodi fel tir amaethyddol Graddfa 3; ni wyddys ar hyn o bryd os yw'n Raddfa 3a neu 3b. Mae'r posibilrwydd o golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas yn ogystal â thir maes glas yn golygu o bosibl y byddai mân effaith negyddol yn erbyn Amcan 9 AC.

| **Gaerwen** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymunedol ac Iechyd** | **Newid Hinsawdd** | **Y Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP130 Tir nesaf at Fferm Gaerwen Uchaf** | **0 ?** | **- / +?** | **?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **-** | **-?** |
| **C38 Employment Site** | **0?** | **+ / +?** | **0?** | **0** | **0?** | **++** | **0** | **-** | **-** | **-** | **0** |

**Crynodeb**

Mae safle tai SP130 yn cynrychioli maes glas yn ffin anheddiad presennol Gaerwen tra bo safle C38 wedi ei ddynodi ar gyfer defnydd cyflogaeth ac wedi ei leoli ar dir glas y tu allan i'r ffin. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn, gerllaw neu'n agos at y safleoedd. Gallai colli maes glas gael effeithiau negyddol mân o bosibl ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau glas. Gall ddefnydd cyflogaeth ar safle C38 greu llygredd neu aflonyddu bioamrywiaeth. Fodd bynnag, ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Dylai

unrhyw gynigion am ddatblygiad chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd.

Nid oes asedau treftadaeth ddynodedig o fewn neu'n agos at y safleoedd. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer o Adeiladau Rhestredig yn y pentref yn ogystal ag Ardal Gadwraeth ddynodedig. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes effeithiau negyddol ar dreftadaeth. Mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal.

Nid yw'r safleoedd o fewn ardal perygl llifogydd; fodd bynnag, mae gan y Cyngor Sir bryderon mawr mewn perthynas â dŵr arwyneb yn rhedeg i lawr tuag at Bentre Braw ac o ran Afon Gors lle mae materion llifogydd yn bodoli (perthnasol i safle SP130). Mae ganddynt bryderon hefyd mewn perthynas â gallu'r system garthffosiaeth i ddarparu ar gyfer mwy o ddatblygiadau. Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect allu sicrhau nad yw materion llifogydd yn cael eu gwaethygu rywle arall ac nad oes effeithiau negyddol arwyddocaol. Er mwyn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan y Cyngor Sir trwy'r broses asesu safleoedd ymgeisydd, ystyrir bod potensial am effaith negyddol fân yn erbyn Amcan AC 11, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i asesiadau lefel is manylach gael eu cynnal.

Er gwaetha'r ffaith iddo gael ei ddosbarthu'n Ganolfan Wasanaeth Leol, nid oes llawer o wasanaethau/cyfleusterau ar gael yn y pentref ar hyn o bryd; fodd bynnag, dylid nodi bod Ystâd Ddiwydiannol Gaerwen o fewn pellter cerdded i'r safle. Mae potensial am effaith negyddol yn erbyn Amcan AC 2 o gofio'r diffyg cyfleusterau a gwasanaethau o fewn pellter cerdded. Mwy na thebyg, bydd pobl yn teithio i'r aneddiadau mwy o faint, fel Llangefni a Bangor, i ddiwallu eu hanghenion, yn enwedig o gofio pa mor agos ydyw i'r A55. Er gwaetha'r ffaith fod gan y safle fynediad da i gludiant cyhoeddus (safle bysiau o fewn 400m), mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o bobl yn gyrru i'r aneddiadau mwy o faint. Ystyrir felly na fydd y datblygiad yn lleihau'r angen i deithio gyda'r potensial am effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 10.

Mae gan y safle mawr hwn y potensial i ddarparu ystod o gyfleusterau ochr yn ochr â thai; fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r raddfa a'r math o ddatblygiad yn anhysbys. Bydd darparu ystod o dai'n cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod o fantais i iechyd y trigolion lleol hefyd. Gall datblygiad o'r raddfa hon hefyd ddarparu seilwaith gwyrdd a all ddarparu adloniant a lle hamdden a chael effeithiau cadarnhaol ar iechyd yn y tymor hir; fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Nid oes defnyddiau tir na materion sylweddol gwrthdrawiadol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol, ceir potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

Fel rhan o'r broses asesu safle ymgeisydd, mae Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru wedi datgan bod yna faterion gallu'n bodoli mewn perthynas â Phont Britannia ar adegau prysur. Gallai datblygiad ar y ddau safle waethygu'r mater hwn gan fod pobl yn teithio i fynd i'r gwasanaethau/cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael ym Mangor a'r cynnydd mewn cyfleon cyflogaeth ar safle C38. Ar hyn o bryd, nid yw'n gwbl hysbys faint o ddatblygu fydd yn cael ei gynnig yn safle SP130, sy'n ei gwneud hi'n anodd ystyried yr effeithiau ar draffig. Dylai

mesurau lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect, fel gwelliannau i'r seilwaith cludiant cyhoeddus a gwasanaethau/cyfleusterau newydd helpu i leihau'r effeithiau ar draffig. Fodd bynnag, mae eu darpariaeth yn ansicr ar hyn o bryd. O gofio'r materion gallu presennol, ystyrir bod potensial am effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 3. Mae potensial am effeithiau cronnol gyda datblygiadau mewn dewisiadau safle eraill yn ardal y cynllun. Bydd angen ystyried hyn ymhellach trwy AC y CDLl Adneuo ar y Cyd. Mae potensial i gynyddu gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol fân ar newid mewn hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol fân ar newid mewn hinsawdd yn y tymor byr. Yn ddibynnol ar y defnydd cyflogaeth ar safle C38, mae potensial i lygredd gynyddu ar lefel lleol. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol sy'n cynnwys defnyddio cerbydau yn gostwng o ganlyniad i ddulliau rheoli gollyngiadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 3.

Mae gan safle SP130 y potensial i ddarparu ystod o gyfleusterau ochr yn ochr â thai; fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw graddfa a math y datblygiad yn hysbys. Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol, tra bydd y ddarpariaeth o gyfleon cyflogaeth newydd gael yr un effaith ar yr amcan hwn. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd fod o fantais i iechyd y trigolion lleol hefyd. Gall datblygiad o'r raddfa hon hefyd ddarparu seilwaith gwyrdd a all ddarparu adloniant a lle hamdden a chael effeithiau cadarnhaol ar iechyd yn y tymor hir; fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Nid oes defnyddiau tir na materion sylweddol gwrthdrawiadol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol, potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

Bydd datblygiad ar safle C38 yn arwain at greu cyfleoedd cyflogaeth ychwanegol.  Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu ar safle SP130. Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol, mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Ni ddiogelir y safleoedd hwn gan ddynodiad tirwedd ac nid ydynt wedi'u dynodi fel rhai o bwysigrwydd gweledol uchel.  Mae safle C38 wedi ei leoli rhwng yr A5 a'r A55 sy'n gweithredu fel ffiniau parod a ddylai liniaru unrhyw effeithioau negyddol ar y tirwedd.  Byddai datblygiad y safle'n arwain at golli maes glas ac felly'n cael effaith negyddol tymor hir yn erbyn Amcan AC 8 yn sgil datblygu ar ardal heb ei datblygu'n flaenorol. O gofio maint y safle, mae potensial am effaith negyddol arwyddocaol ar y dirwedd; fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar ryw raddau ar raddfa, cynllun a dyluniad terfynol y datblygiad. Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLl ac sydd ar gael ar lefel prosiect helpu lleihau arwyddocâd yr effaith negyddol. Potensial am effaith negyddol tymor hir gweddilliol yn erbyn Amcan AC 8, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i fwy o asesiadau manwl gael eu cynnal.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| |
|---|
| Dynodir y safle'n dir amaethyddol Gradd 3 dros dro; ni wyddys ar hyn o bryd ai Gradd 3a neu 3b yw hwn. Mae gan golled botensial y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, yn ogystal â maes glas y potensial am effaith negyddol mân yn erbyn Amcan AC 9.<br><br>O ran unrhyw effeithiau potensial ar y dirwedd, mae'r safle o fewn ffurf adeiledig yr anheddiad ac yn cyfuno'n dda gyda'r amgylchedd adeiledig presennol. Fodd bynnag, ceir pryderon y byddai maint mawr y safle'n effeithio'n andwyol ar y dirwedd leol ac ar gymeriad yr anheddiad.<br><br>Dylid nodi bod Gaerwen wedi gweld achosion ar eu pen eu hun o lifogydd yn y system garthffosiaeth gyhoeddus y bydd angen eu datrys er mwyn caniatáu i ddatblygiad fynd yn ei flaen. O gofio maint y safle, hwyrach fod y system garthffosiaeth leol yn annigonol. Ceir materion dŵr arwyneb yn y pentref hefyd y byddai angen eu lliniaru cyn cynnal gwaith datblygu. |

| **Gwalchmai** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymunedol ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Y Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP316 Tir nesaf at Fron Deg** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0** |
| **SP411 Tir wrth Dyddyn Carrog** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0** |
| **SP481 Safle ger Wylfa Terrace** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0** |
| **Crynodeb**<br><br>Mae'r safleoedd ar faes glas yn uniongyrchol wrth law ffin yr anheddiad. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac asedau treftadaeth dynodedig yn y safleoedd neu nesaf atynt. Gallai colli'r maes glas gael effeithiau negyddol mân o bosibl ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau glas, yn enwedig gan fod coed a gwrychoedd yn y ddau safle. Mae safle SP316 a SP481 rhyw 600m o ymyl SoDdGA Cors Bodwrog, wrth i safle SP411 fod llai na 150m i ffwrdd. O gofio maint y safleoedd, mae'n annhebygol | | | | | | | | | | | | |

y byddai unrhyw effeithiau arwyddocaol. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl ar y Cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar fioamrywiaeth. Potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigon datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd. Nid yw'r un o'r safleoedd hyn mewn ardal perygl llifogydd na gerllaw iddynt, mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Mae'r safleoedd o fewn pellter cerdded rhesymol i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y pentref, sy'n Bentref Gwasanaeth. Ceir potensial am effaith gadarnhaol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 2. Mae'r pentref rhyw 6 milltir o anheddiad mwy o faint Llangefni ac mae'r ddau safle o fewn 400m i'r safleoedd bysiau sy'n cysylltu'r pentref gyda'r anheddiad mwy o faint hwn. Fodd bynnag, mae'r orsaf drenau agosaf dros 6km i ffwrdd yn Nhŷ Croes. O gofio'r pellter o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a'r cysylltiadau bws presennol, ceir potensial am effaith gadarnhaol fân ar Amcan AC 10 trwy leihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, ystyrir y bydd arwyddocâd yr effaith yn fân oherwydd mae'n debygol y bydd dal angen i bobl deithio i'r ystod ehangach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd gwaith cyflog mewn aneddiadau mwy o faint.

Mae gan y dewisiadau datblygu ar y safle'r potensial i gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag o gofio maint y safleoedd, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn sylweddol. Nid yw'r asesiadau safle ymgeisydd a gynhaliwyd gan y Cyngor yn dangos bod unrhyw faterion presennol o ran gallu neu fynediad mewn perthynas â'r rhwydwaith priffyrdd. Dylai lliniaru a ddarparwyd trwy'r polisïau CDLl Adneuo ar y cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol ar Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd. Er nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, ceir potensial i gynyddu'r gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol fân ar newid mewn hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau'n gostwng o ganlyniad i ddulliau rheoli gollyngiadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd.

Bydd darparu ystod o dai'n cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd fod o fantais i iechyd trigolion lleol hefyd. Nid oes defnyddiau tir na materion sylweddol gwrthdrawiadol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol yn unrhyw un o'r dewisiadau safle. Mae potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol ac nid oes gwahaniaethau arwyddocaol o ran mynediad i gyfleoedd gwaith presennol yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| |
|---|
| Ni ddiogelir y dewisiadau safle gan ddynodiad tirwedd ac ni chânt eu dynodi fel rhai o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygiad ar y naill safle neu'r llall y potensial i golli maes glas ac felly effaith negyddol tymor hir yn erbyn Amcanion AC 8 a 9 trwy ddatblygu ardal heb ei datblygu'n flaenorol, ond mae yna elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno. Gallai datblygiad ar safle SP411 gael ei ystyried yn dresmasiad ar gefn gwlad agored ac er y gallai arwain at newid yng nghymeriad yr ardal, nid yw'n rhagweld y bydd y newid hwn yn hynod andwyol, o gofio pa mor agos ydyw i ddatblygiad preswyl presennol. Dylai lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect sicrhau nad yw effeithiau negyddol yn arwyddocaol. Mae gan golli maes glas y potensial am effaith negyddol fân yn erbyn Amcan AC 9, ond dylid nodi na fydd y datblygiad hwnnw'n arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.<br><br>Er nad yw'r AC wedi nodi unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y dewisiadau safle yn erbyn yr Amcanion AC, dylid nodi bod safle SP411 mewn amgylchedd mwy sensitif na safle SP316 a SP481 oherwydd ei fod yn agos at y SoDdGA ac yn tresmasu ar gefn gwlad agored. |

| **Caergybi** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymunedol ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Y Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP228 Tir nesaf at Stad Waunfawr** | **0 ?** | **-?** | **+?** | **-?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP296 Tir nesaf at Tyddyn Bach** | **0 ?** | **-?** | **+?** | **- ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **SP66 Tir nesaf at Cae Rhos** | **0 ?** | **-?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+ ?** | **0 ?** |
| **SP190 Tir yn yr Ogof** | **0 ?** | **-?** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+ ?** | **0** |
| **Crynodeb** | | | | | | | | | | | | |

## ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN

| |
|---|
| Dosberthir safleoedd SP228 ac SP66 yn faes glas sy'n agos at ffin datblygu'r anheddiad, wrth i SP296 ac SP190 gynrychioli maes glas o fewn ffin yr anheddiad. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol yn y safleoedd neu gerllaw iddynt. Gallai colli maes glas yn y dewisiadau safle gael effeithiau negyddol mân o bosibl ar fioamrywiaeth yn sgil colli cysylltedd a darnio coridorau glas. Dylid nodi bod nifer o safleoedd SoDdGA ac Ewropeaidd wedi'u lleoli o gwmpas y dref. Fodd bynnag, o gofio lleoliad a maint y safleoedd, ystyrir y byddai'r datblygiad yn annhebygol o gael effeithiau arwyddocaol. Darperir lliniaru addas trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar fioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygiad ar y dewisiadau safle ar eu pen eu hunain. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol ar gyfer dewisiadau'r safle yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd.<br>Nid oes dynodiadau treftadaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol yn y safleoedd nac yn agos atynt. Ceir nifer o Adeiladau Rhestredig yn ogystal ag Ardal Gadwraeth yn y dref. O gofio'r lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau CDLl ac sydd ar gael ar lefel prosiect, mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol ar dreftadaeth. Er y gallai datblygiad arwain at newid yng nghymeriad yr ardal uniongyrchol, ni ragwelir y bydd y newid hwn yn sylweddol andwyol i osod asedau treftadaeth yn sgil maint cymharol Caergybi. Potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn pob dewis safle yn erbyn Amcan AC 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i'r arolygon a'r asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal.<br><br>Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi nad yw'r dewisiadau safle o fewn nac yn agos at ardal mewn perygl o lifogydd. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11. Mae'r Adran Briffyrdd wedi nodi trwy'r broses asesu safle ymgeisydd fod yna broblemau draenio mawr sy'n arwain at lifogydd ffyrdd cyfan yn safle SP66. I gydnabod hyn, ceir elfen o ansicrwydd ar gyfer safle SP66 yn erbyn Amcan AC 11.<br><br>Mae'r holl ddewisiadau safle ychydig dros 1km i ffwrdd o'r gwasanaethau/cyfleusterau presennol yn y dref. Er nad yw hyn o fewn pellter cerdded rhesymol, cydnabyddir bod Caergybi'n darparu ystod eang o gyfleusterau/gwasanaethau a chyfleoedd gwaith. Mae potensial am effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 2. Dylid nodi nad oes gwahaniaethau arwyddocaol o ran y pellter o'r cyfleusterau/gwasanaethau presennol rhwng y dewisiadau safle. Mae pob dewis safle o fewn 400m o safle bws ac nid oes yr un ohonynt o fewn 1km o'r orsaf drenau. Mae potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 10, yn sgil lleihau'r angen i deithio. Ceir elfen o ansicrwydd hefyd o gofio pellter y cyfleusterau/gwasanaethau presennol; fodd bynnag, o gofio'r ystod eang a gynigir gan gynnwys cyfleoedd gwaith yng Nghaergybi, ceir potensial o hyd i leihau'r angen i deithio. Dylai unrhyw gynnig i ddatblygu geisio gwella llwybrau cerdded a beicio i mewn i'r dref yn ogystal â chludiant cyhoeddus.<br><br>Mae'r Adran Briffyrdd wedi nodi trwy'r broses arfarnu safle ymgeisydd, y gallai fod materion gallu i'r rhwydwaith priffyrdd petai safleoedd SP228 ac SP296 ill dau'n cael eu datblygu. Mae arfarniad y safle ymgeisydd yn nodi hefyd fod mater posibl mewn perthynas â mynediad i safleoedd SP228 ac SP190. Mae gan ddatblygiadau ym mhob un o'r dewisiadau safle'r potensial i gynyddu traffig; fodd bynnag mae'n annhebygol o fod |

## ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN

yn sylweddol o gofio'r mesurau lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect. O gofio'r materion gallu potensial a ddynodwyd gan yr Adran Briffyrdd, ystyrir bod potensial am effaith negyddol fân yn erbyn Amcan AC 3 ar gyfer dewisiadau safle SP228 ac SP296. Ar hyn o bryd, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod unrhyw faterion gallu gyda'r rhwydwaith ffyrdd presennol ar gyfer dewisiadau safle SP66 ac SP190, mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 3. Ceir elfen o ansicrwydd ar gyfer pob safle hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is manylach. Er nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, ceir potensial i gynyddu gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol mân ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol sy'n cynnwys defnyddio cerbydau'n lleihau o ganlyniad i ddulliau rheoli gollyngiadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'n ansicr ar hyn o bryd.

Bydd darparu ystod o dai'n cael effeithiau cadarnhaol hefyd i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod o fantais i iechyd trigolion lleol.

Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol, ceir potensial am effaith niwtral ar gyfer pob dewis safle yn erbyn Amcan AC 6.

Ni ddiogelir yr un o'r dewisiadau safle gan ddynodiad tirwedd na'u dynodi trwy asesiad safle ymgeisydd fel rhai o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae dewisiadau safle SP66 ac SP190 yn agos at AHNE Ynys Môn ac mae'r asesiad safle ymgeisydd yn nodi bod safle SP190 yn uchel uwchlaw tir cyfagos a gallai gael ei ystyried yn lleoliad amlwg. Bydd datblygu ar bob dewis safle'n arwain at golli maes glas ac felly'n cael effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 8 yn sgil datblygu ardal sydd heb ei datblygu'n flaenorol. O gofio pa mor agos yw safleoedd SP66 ac SP190 i'r AHNE, ceir potensial am effeithiau ar ei leoliad ac felly effaith negyddol o arwyddocâd mwy ar dirwedd na dewisiadau safle SP228 ac SP296. Dylai lliniaru a ddarperir trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect helpu i sicrhau nad oes yr un o'r safleoedd yn cael effeithiau negyddol mawr ar y dirwedd. Ceir elfen o ansicrwydd hefyd gan y bydd graddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad yn dylanwadu ar arwyddocâd yr effaith ac mae dal angen cynnal asesiadau lefel is manylach. Wrth gydnabod agosrwydd yr AHNE, ystyrir bod llai o ansicrwydd mewn perthynas â'r effeithiau negyddol posibl ar dirwedd y datblygiad ar safleoedd SP 66 ac SP190.

Mae gan golli maes glas ym mhob un o'r dewisiadau safle'r potensial am effaith negyddol fân yn erbyn Amcan AC 9. Dylid nodi nad yw'r un o'r safleoedd hyn yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.
Mae'r AC wedi canfod bod y prif wahaniaethau rhwng y dewisiadau safle'n ymwneud â gallu'r rhwydwaith ffyrdd ac agosrwydd yr AHNE. Mae'r Adran Briffyrdd wedi nodi trwy'r broses asesu safle ymgeisydd y gallai fod materion gallu potensial ar gyfer y rhwydwaith priffyrdd presennol petai safleoedd SP228 ac SP296 yn cael eu datblygu. Ystyriwyd bod potensial am effaith negyddol fân yn erbyn Amcan AC 3 ar gyfer y safleoedd hynny, lle ystyriwyd bod safleoedd SP66 ac SP190 yn debygol o gael effaith niwtral weddilliol. Golyga agosrwydd safleoedd SP66 ac SP190 at AHNE Ynys Môn fod potensial am effaith negyddol o arwyddocâd mwy o gymharu â'r dewisiadau safle eraill. Fodd bynnag, mae hyn

| |
|---|
| yn ansicr ar hyn o bryd oherwydd bydd graddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad yn dylanwadu ar arwyddocâd yr effaith ac mae dal angen cynnal asesiadau lefel is manylach. |

| Caergybi | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Treftadaeth a Diwylliant** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP296 Tir cyfagos i Tyddyn Bach** | **0 ?** | **++** | **+ ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **- ?** | **++** | **0** |

| |
|---|
| **Crynodeb**<br><br>Mae’r safle hwn wedi’i ddosbarthu’n dir glas o fewn ffin yr anheddiad. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle neu’n gyfagos iddo. Fodd bynnag, dylid nodi bod y safle o fewn 1km o SoDdGA / ACA / AGA a SoDdGA Tre Wilmot er na ragwelir y bydd unrhyw effeithiau mawr o ystyried maint y datblygiad rhwng y safle a’r cynefinoedd dynodedig. Mae posibilrwydd y gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol bach ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltiadau a darnio coridorau gwyrdd, yn enwedig gan fod y safle’n cynnwys coed. Ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau Adnau’r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i’r isadeiledd gwyrdd. Nid yw’r safle wedi’i leoli o fewn ardal risg llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.<br><br>Lleolir y safle tua gogledd orllewin yr anheddiad, ac mae o fewn pellter cerdded rhesymol (llai na 1km) i’r amrywiaeth helaeth o gyfleusterau a gwasanaethau sydd ar gael yng Nghaergybi, sy’n Ganolfan Gwasanaeth Trefol. Potensial am effaith cadarnhaol tymor hir mawr yn erbyn Amcan AC 2. Ceir cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ardderchog, gyda chysylltiad bysiau o fewn 400m o’r safle, a gorsaf drenau tua 1km i ffwrdd. O ystyried y pellterau o ddarpariaethau gwasanaeth a chyfleusterau ardderchog, ac yng ngolau’r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus |

ardderchog, mae potensial am effaith cadarnhaol mawr yn erbyn Amcan AC 10 drwy leihau'r angen i deithio.

Mae potensial i ddatblygiad yn y safle gynyddu lefel y traffig ac allyriadau nwyon tŷ gwydr, fodd bynnag, o ystyried maint y safle, a'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ardderchog, ystyrir nad yw'n debygol y byddai unrhyw gynnydd yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn nodi bod problemau o ran capasiti presennol y rhwydwaith ffyrdd y bydd angen eu hystyried ar lefel prosiect. Dylai mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau Adnau'r CDLl ar y Cyd, ac sydd ar gael ar lefel prosiect, sicrhau bod effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd presennol yn cael eu lleihau, potensial am effaith niwtral gweddilliol ar Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd. Er bod allyriadau nwyon tŷ gwydr yn debygol o gynyddu yn y tymor byr, yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd y rhain yn lleihau o ganlyniad fesurau rheoli allyriadau caeth ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd, fodd bynnag, mae hyn yn dal yn ansicr ar hyn o bryd.

Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol. Nid oes unrhyw fathau o ddefnydd tir sy'n gwrthdaro neu broblemau sylweddol yn y safle sy'n debygol o effeithio iechyd dynol, ceir posibilrwydd o effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys p'un a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu ar y safle ac ni fyddai datblygu'n arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol. Potensial am effaith cadarnhaol bach yn erbyn Amcan AC 6.

Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd neu wedi'i nodi fel un o bwysigrwydd gweledol sylweddol. Mae gan ddatblygu ar y safle'r potensial i golli tir glas ac felly effaith negyddol bach yn erbyn Amcanion AC 8 a 9 drwy ddatblygu ardal sydd heb ei datblygu'n flaenorol, er bod elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd cynigion manwl wedi'u cyflwyno. Gellid ystyried y byddai datblygu ar y safle yn gorgyffwrdd ag ardal gefn gwlad agored, a all arwain at newid cymeriad yr ardal, fodd bynnag, ystyrir nad yw unrhyw newid yn debygol o amharu'n sylweddol arno o ystyried ei agosrwydd at ddatblygiadau a ffyrdd presennol. Nid yw'r safle wedi'i nodi fel un sy'n cynnwys y tir amaethyddol gorau neu fwyaf amlbwrpas.

**Llannerchymedd**

## ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN

| Amcan AC | Bioamrywiaeth | Cymunedol ac Iechyd | | Newid Hinsawdd | Y Gymraeg | Diwylliannol a Threftadaeth | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Cludiant | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **SP82 Tir nesaf at Tyn y Ffynnon** | 0 ? | - ? | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |
| **SP502 Tir wrth gefn Maes Athen** | 0 ? | - ? | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |
| **SP615 Tir nesaf at Eithinog** | 0 ? | - ? | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |
| **SP340 Tir nesaf at Hafod y Foel** | 0 ? | - ? | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - | - | - ? | 0 |

**Crynodeb**

Mae pob un o'r pedwar dewis safle'n faes glas sydd nesaf at ffin yr anheddiad. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac asedau treftadaeth dynodedig yn y safleoedd neu nesaf atynt. Gallai colli maes glas gael effeithiau negyddol mân o bosibl ar fioamrywiaeth drwy golli cysylltedd a darnio coridorau glas. Fodd bynnag, ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygiad geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd. Nid yw'r safleoedd mewn ardal perygl llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Mae pob un o'r dewisiadau safle o fewn pellter cerdded rhesymol i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael yn y Pentref Gwasanaeth hwn. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd ystod wael y cyfleusterau / gwasanaethau presennol a chyfleoedd gwaith yn ddigon i fodloni holl anghenion y trigolion newydd. Ystyrir felly fod potensial am effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 2. Mae safleoedd SP82 ac SP502 o fewn 400m i safle bws, mae safleoedd SP615 ac SP340 o fewn 800m i safle bws gyda chysylltiadau ag aneddiadau mwy o faint Llangefni (rhyw 7 milltir i ffwrdd) ac Amlwch (rhyw 5 milltir i ffwrdd); fodd bynnag, o gofio'r diffyg cyfleusterau a gwasanaethau presennol,

ystyrir na fydd datblygu'n gostwng yr angen i deithio. Mae potensial am effaith negyddol mân yn erbyn Amcan AC 10, gydag elfen o ansicrwydd.

Mae gan ddatblygiad mewn unrhyw un o'r dewisiadau safle'r potensial i gynyddu lefelau traffig, ond o gofio maint y safleoedd, mae'n annhebygol y byddai unrhyw gynnydd yn sylweddol. Nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod unrhyw faterion gallu'n bodoli o ran y rhwydwaith priffyrdd, fodd bynnag dylid nodi bod materion mynediad posibl o ran safle SP502 a fydd yn gofyn am gyswllt newydd i gerddwyr. Mae lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y cyd yn sicrhau na fydd effeithiau negyddol sylweddol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol. Er nad ystyrir bod traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, ceir potensial i gynyddu gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol fân ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol bod gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau'n lleihau o ganlyniad i ddulliau rheoli gollyngiadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol ar Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd, o gofio bod datblygiad yn annhebygol o ostwng yr angen i deithio. Ceir potensial hefyd am effeithiau cronnol petai'r holl ddewisiadau safle'n cael eu datblygu, y byddai angen ei ystyried ymhellach trwy AC y CDLl Adneuo ar y cyd.

Bydd darparu ystod o dai'n cael effeithiau cadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd fod o fantais i iechyd y trigolion lleol hefyd. Nid oes defnyddiau tir neu faterion arwyddocaol gwrthdrawiadol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol, mae potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu ar y safleoedd. Ni fyddai datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol ac nid oes gwahaniaethau arwyddocaol o ran mynediad i gyfleoedd gwaith presennol yn y pentref. Mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.

Ni ddiogelir y dewisiadau safle gan ddynodiad tirwedd ac ni ddynodir eu bod o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygiad ym mhob un o'r safleoedd hyn y potensial i golli maes glas ac felly effaith negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcanion AC 8 a 9 trwy ddatblygu ardal heb ei datblygu'n flaenorol, fodd bynnag, ni chaiff y safleoedd eu dynodi fel rhai sy'n cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.

Nid yw'r AC wedi dynodi unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng dewisiadau safle yn erbyn Amcanion AC, nad yw'n syndod o gofio pa mor agos ydynt at ei gilydd.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| **Llanfairpwll** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan Arfarniad Cynaliadwyedd (AC)** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | **Newid yn yr Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Diwylliant Threftadaeth** | **Yr Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| | **0 ?** | **+ +?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **0?** | **0** |

**Crynodeb**

Mae'r safle hwn wedi'i ddynodi fel safle maes glas sydd gyferbyn a ffin datblygu Llanfairpwll. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol nac unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn nac wrth ymyl y safle. Gallai colli tir maes glas gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth drwy golli cyswllt a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod y polisïau lliniaru sy'n cael eu darparu drwy'r Cydgynllun Datblygu Lleol yn addas ac ar gael ar lefel y prosiect, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae effaith niwtral bosibl yn erbyn AC Amcan 1 gydag elfen o ansicrwydd nes y bydd arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect wedi'u cynnal. Dylai unrhyw gynigion datblygu chwilio am gyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd.

Nid oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig o fewn na ger y safle. Ystyrir bod mesurau lliniaru addas yn cael eu darparu drwy bolisïau'r Cydgynllun Datblygu Lleol, sydd ar gael ar lefel y prosiect, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar dreftadaeth. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 5, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect yn cael eu cynnal.

Nid yw'r safle o fewn ardal lle mae perygl o lifogydd, mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 11.

Mae'r safle o fewn 1 km i gyfleusterau a gwasanaethau presennol yn y pentref, felly mae o fewn pellter cerdded rhesymol. Mae gan y safle gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da (o fewn 400m i safle bws). O ystyried pellter y safle o gyfleusterau/gwasanaethau presennol a'r mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus, mae posibilrwydd y bydd y datblygiad yn lleihau'r angen i deithio. Cydnabyddir hefyd bod pobl yn debygol o barhau i deithio i'r aneddiadau mwy, megis Bangor, er mwyn cael mynediad i ystod ehangach o wasanaethau/cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth. Mae posibilrwydd o effaith ansicr yn erbyn AC Amcan 10.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

Nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael ar y cam hwn yn dangos bod unrhyw broblemau capasiti gyda'r rhwydwaith ffyrdd presennol. Gallai'r gwaith datblygu ar y safle gynyddu traffig; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd yn gynnydd sylweddol, o ystyried y mesurau lliniaru sy'n cael eu darparu drwy bolisïau'r Cyynllun Datblygu Lleol ar y cyd, ac sydd ar gael ar lefel y prosiect. Mae posibilrwydd o effaith niwtral weddilliol yn erbyn AC Amcan 3. Er nad ydym yn rhagweld cynnydd sylweddol yn lefelau'r traffig, mae posibilrwydd y bydd cynnydd yn yr allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith fach negyddol ar newid yn yr hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, yn cynnwys defnyddio cerbydau yn lleihau, o ganlyniad i reoliadau llym ar allyriadau cerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Mae ansicrwydd ynglŷn â hyn ar y cam hwn.

Bydd darparu amrywiaeth o dai hefyd yn cael effeithiau cadarnhaol ar hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniant cymdeithasol. Dylai gwella'r stoc o dai newydd fod yn fuddiol hefyd i iechyd trigolion lleol. Nid oes unrhyw wrthdaro o ran defnydd tir nac unrhyw broblemau arwyddocaol, sy'n debygol o effeithio ar iechyd pobl, mae posibilrwydd o effaith fach gadarnhaol yn erbyn Amcan 2 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y bydd y cynigion manwl wedi'u cyflwyno.

Ni wyddom ar y cam hwn a fydd unrhyw gyfleoedd cyflogaeth ar gael ar y safle. Ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli unrhyw swyddi presennol, mae posibilrwydd o effaith niwtral yn erbyn AC Amcan 6.

Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd ac nid yw wedi'i nodi fel safle â phwysigrwydd gweledol uchel. Mae posibilrwydd o golli tir maes glas yn sgîl datblygu'r safle, ac felly effaith fach negyddol hirdymor yn erbyn AC Amcan 8 drwy ddatblygu ardal heb ei datblygu. Mae elfen o ansicrwydd yn bodoli oherwydd bydd maint, cynllun a dyluniad y datblygiad yn dylanwadu ar arwyddocâd yr effaith, a bydd angen cynnal asesiadau lefel is mwy manwl. Mae posibilrwydd y bydd colli tir maes glas hefyd yn cael effaith fach negyddol hir dymor yn erbyn AC Amcan 9. Dylid nodi nad yw'r safle yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf ac amlbwrpas.

**Llangefni**

| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymunedol ac Iechyd** | **Newid Hinsawdd** | **Y Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Cludiant** | **Dŵr** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SP657: Tir nesaf at Faes Derwydd** | 0 ? | - | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - | 0 ? |
| **SP658/SP58: Tir yng Ngwernhefin** | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | - ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| **SP833: Bodelis Fields** | 0 ? | - | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | - | 0 ? |
| **SP902: Tir nesaf at Ystâd Tŷ Hen** | 0 ? | - | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | - | 0 ? |
| **SP903: Tir yng Ngholeg Menai** | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 ? |
| **SP970: Tir nesaf at Tyn Coed** | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |
| **SP990** | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |
| **SP991** | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |
| **SP1000 Hen Ysgol y Bont** | 0? | + | +? | 0? | 0 | 0? | 0 | ++ | + | ++ | + | 0 |
| **SP1001 Tir ger Coleg Menai** | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - ? | + | 0 |

**Crynodeb**

Mae’r dewisiadau safle i gyd ar faes glas, heblaw am SP1000 sy’n cynrychioli tir llwyd. Mae’r rhan fwyaf o’r dewisiadau safle nesaf at ffin yr anheddiad, ar wahân i safleoedd SP991 ac SP903 sydd o fewn ffin yr anheddiad. Nid oes dynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol na lleol o fewn y dewisiadau safle neu nesaf atynt. Gallai colli tir glas gael effeithiau negyddol mân o bosibl ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau glas, yn enwedig gan fod pob safle’n cynnwys coed ac/neu wrychoedd. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygiad geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth trwy welliannau i seilwaith gwyrdd.

Nid oes asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safleoedd neu nesaf atynt. Fodd bynnag, dylid nodi bod safleoedd SP658/SP58 yn safle uchel, bod ei leoliad yn dderbynnydd pwysig a sensitif sy’n cyfrannu at ansawdd arbennig yr ardal, ceir potensial am effaith negyddol weddilliol fân ar

| |
|---|
| ddynodiad yr Ardal Gadwraeth gydag elfen o ansicrwydd gan y bydd yr effeithiau'n dibynnu ar raddfa, ffurf, cynllun a dwyster y datblygiad. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol arwyddocaol. Mae potensial am effaith niwtral weddilliol yn erbyn Amcan AC 5 ar gyfer pob safle arall, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.<br><br>Nid yw'r dewisiadau safle mewn ardal perygl llifogydd na nesaf ati, ceir potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11. Dylid nodi, fodd bynnag, fod yr asesiadau safle ymgeisydd wedi dynodi pryderon ynghylch achosion ynysig o lifogydd yn y system garthffosiaeth gyhoeddus yn safleoedd SP657, SP833, SP902 ac SP903, a materion dŵr arwyneb ar Lôn Penmynydd sy'n effeithio ar safle SP903. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau na fydd effeithiau negyddol sylweddol, ond ceir elfen o ansicrwydd hyd nes i'r arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal.<br><br>Mae'r rhan fwyaf o ddewisiadau safle o fewn pellter cerdded rhesymol (llai na 1km) i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn Llangefni, sy'n Ganolfan Wasanaeth Drefol, gyda photensial am effaith gadarnhaol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 2. Dylid nodi bod safle SP990 nesaf at ardal gyflogaeth fawr ac felly mae ganddo fynediad gwell i gyfleoedd cyflogaeth bresennol o gymharu â dewisiadau safle eraill. Fodd bynnag, mae safleoedd SP657, SP833 ac SP902 dros 1km o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol gyda'r potensial am effaith negyddol fân. Ceir safleoedd bysiau o fewn 400m i'r holl ddewisiadau safle, ond mae'r orsaf drenau agosaf ryw 8km i ffwrdd yn Llanfairpwll. Gan fod y pellteroedd o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a'r cysylltiadau bws presennol i'r safleoedd hynny wedi sgorio'n gadarnhaol, mae potensial am effaith gadarnhaol fân ar Amcan AC 10 trwy leihau'r angen i deithio. Mae gan y safleoedd hynny y tu allan i bellteroedd cerdded rhesymol y potensial am effeithiau negyddol mân ar Amcan AC 10, gan ei bod hi'n debygol y bydd yna bobl a fydd yn teithio mewn car preifat er mwyn mynd at wasanaethau a chyfleusterau.<br><br>Mae gan ddatblygiad yn unrhyw un o'r dewisiadau safle'r potensial i gynyddu lefelau traffig, yn enwedig yn y dewisiadau safle mwy o faint; SP657, SP658/SP58, SP833, SP970 ac SP990. Nid yw asesiadau safle'r ymgeisydd a gynhelir gan y Cyngor yn dangos unrhyw faterion gallu neu fynediad ar gyfer mwyafrif y safleoedd, ond byddai angen i safleoedd SP657 ac SP833 gael mynediad a gwelliannau priffyrdd cyn datblygu, ac mae safle SP903 mewn ardal gyda phroblemau traffig mawr a phroblemau parcio mawr. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLl Adneuo ar y cyd ac ar gael ar lefel prosiect i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol mawr ar y rhwydwaith priffyrdd presennol, ceir potensial am effaith niwtral weddilliol ar Amcan AC 3 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i arolygon ac asesiadau lefel prosiect gael eu cynnal. Er nad ystyrir bod y traffig yn debygol o gynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu gollyngiadau nwy tŷ gwydr gydag effaith negyddol fân ar newid mewn hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd gollyngiadau nwy tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, sy'n cynnwys defnyddio cerbydau, yn gostwng o ganlyniad i ddulliau rheoli gollyngiadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd. Ceir potensial am effeithiau cronnol sylweddol petai holl ddewisiadau'r safle'n cael eu datblygu, y byddai angen eu hystyried ymhellach trwy AC y CDLl Adneuo ar y cyd. |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

Bydd darparu ystod o dai'n cael effaith gadarnhaol i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd fod o fantais i iechyd y trigolion lleol hefyd. Nid oes defnyddiau tir na materion sylweddol gwrthdrawiadol sy'n debygol o effeithio ar iechyd dynol yn unrhyw un o'r dewisiadau safle. Mae potensial am effaith gadarnhaol fân yn erbyn Amcan AC 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno.

Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys a fydd unrhyw gyflogaeth yn cael ei darparu ar y safleoedd ac ni fyddai'r datblygiad yn arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol. Mae potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6 ar bob dewis safle. Dylid nodi bod safle SP990 nesaf at ardal gyflogaeth fawr ac felly mae ganddo fynediad gwell at gyfleoedd cyflogaeth bresennol o gymharu â dewisiadau safle eraill.

Ni ddiogelir y dewisiadau safle gan unrhyw ddynodiadau tirwedd ac ni ddynodwyd bod ganddynt bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygu'r potensial i golli maes glas ym mhob dewis safle, ac felly mae ganddo'r potensial am effaith negyddol tymor hir fân yn erbyn Amcanion AC 8 a 9 trwy ddatblygu ardal heb ei datblygu'n flaenorol, ond ceir elfen o ansicrwydd hyd nes i gynigion manwl gael eu cyflwyno. Gallai datblygiad yn safleoedd SP833, SP902, SP657, SP658/SP58, SP1002 ac SP990 gael ei ystyried fel tresmasiad i gefn gwlad agored, gyda'r potensial i newid cymeriad yr ardal. Mae hyn ar ei amlycaf yn safle SP658/SP58 sy'n safle uchel i gyfeiriad y de'r anheddiad. Gallai datblygiad yn safleoedd SP658/SP58, SP657 ac SP902 arwain at golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas, gyda photensial am effeithiau negyddol tymor hir mân yn erbyn Amcan AC 9.

Mae safleoedd SP970, SP991, SP903, SP1000 ac SP990 i gyd yn yr hyn a ystyrir yn lleoliadau mwy cynaliadwy oherwydd eu bod yn agos at ganol y dref, mae'r dewisiadau safle eraill ymhellach i ffwrdd ac felly'n llai tebygol o gyfrannu tuag at amcanion cynaliadwyedd. Ystyrir bod safle SP658/SP58 yn fwy sensitif i newid o gofio'i uchder a golygfeydd dylanwadol y safle. Oherwydd nifer y dewisiadau safle mawr yn yr anheddiad, ystyrir bod potensial am effeithiau cronnol cadarnhaol a negyddol mawr os datblygir yr holl ddewisiadau safle. Bydd angen ystyried hyn ymhellach trwy AC y CDLl Adneuo ar y cyd.

ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN

**Porthaethwy**

| Amcan AG | Bioamrywiaeth | Cymuned ac Iechyd | | Newid Hinsawdd | Iaith Gymraeg | Diwylliant a Threftadaeth | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Trafnidiaeth | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| **SP264 tir gerllaw Maes yr Hafod** | 0 ? | - | +? | 0? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | ? | 0 |
| **SP985 Tyddyn Mostyn** | 0 ? | + | +? | -? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| **SP289 Tŷ Mawr** | 0 ? | + | +? | -? | 0 | 0 ? | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 |
| **SP1002 Tir ger Lon y Gamfa** | 0? | - | +? | 0? | 0 | 0? | 0 | ++ | -? | - | ? | 0 |

**Crynodeb**

Mae'r pedwar dewis o safle ar dir glas; fodd bynnag, y mae, SP985, SP289 a SP1002 o fewn ffin datblygu'r CDU, tra bod SP264 yn dir sydd yn union ar y ffin. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol nac asedau treftadaeth dynodedig yn y safleoedd nac yn agos atynt. Gallai colli tir glas o bosib gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Fodd bynnag, ystyrir bod digon o liniaru yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLIC a'i fod ar gael hefyd ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Mae potensial effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AG1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhaliwyd arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd. Mae'r broses o asesu safle posibl wedi nodi y gall fod asedau archeolegol yn safle SP264. Ystyrir felly bod lefel uwch o ansicrwydd o gymharu â'r dewisiadau eraill o safle yn erbyn Amcan AG 5.

O ran Amcan AG 5, gallai datblygu yn SP264 o bosib gael effaith negyddol ar asedau archeolegol. Bydd angen asesiad archeolegol priodol cyn datblygu. Ar hyn o bryd, mae ansicrwydd ynghylch yr effaith yn erbyn AG5.

Nid yw'r safleoedd mewn ardal lle mae risg o lifogydd; potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

Ystyrir bod safleoedd SP289 ac SP985 o fewn pellter cerdded (llai nag1 km) o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol yn y pentref, ond nid yw safle SP264 a SP1002 (dros 1 km). Mae'r llwybr troed ar hyd y B5420 i'r pentref hefyd ar lethr, a allai olygu y byddai rhai trigolion yn cael trafferth mynd yno. Potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 am ddewisiadau safle SP 289 ac SP985. Potensial am fân effaith negyddol tymor-hir am safle SP269 yn erbyn Amcan AG 2. Dylid nodi fod safle SP264 gerllaw safle cyflogaeth bychan. Mae modd cyrraedd cludiant cyhoeddus yn hawdd o'r holl ddewisiadau safle (arosfan bws o fewn 400m). Potensial am fân effaith cadarnhaol tymor-hir am safleoedd SP289, SP985 ac SP1002 yn erbyn Amcan AG 10 am eu bod o fewn pellter cerdded i gyfleusterau/gwasanaethau sy'n bod eisoes a chludiant cyhoeddus. Mae mwy o ansicrwydd ynghylch y potensial i ddatblygu yn safle SP264 a SP1002 er mwyn lleihau'r angen i deithio, o gadw mewn cof y pellter o gyfleusterau/ gwasanaethau presennol a goledd y llwybrau troed. Cydnabyddir y bydd trigolion yn dal i deithio i Fangor ar gyfer rhai gwasanaethau/cyfleusterau ond gan fod Porthaethwy yn Ganolfan Gwasanaeth Lleol a bod Bangor mor agos, ni ystyrir hyn bod arwyddocâd i hyn.

Er nad yw'r un o'r safleoedd yn debygol o gynyddu lefelau traffig yn sylweddol, dengys y broses o asesu safle posibl nad yw'r rhwydwaith priffyrdd fel y mae yn addas i ymdrin â datblygu yn safleoedd SP289 ac SP985. Mae problemau posibl hefyd gyda mynediad at y rhwydwaith priffyrdd presennol i bob safle. Dylai lliniaru trwy bolisïau CDLIC a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau na fydd effeithiau negyddol arwyddocaol. Potensial am fân effaith negyddol yn erbyn Amcan AG 3 am safle SP289 ac SP985, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is mwy manwl. Fel rhan o'r broses o asesu safle posibl , dywedodd Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd Cymru fod problemau traffig ar Bont Britannia eisoes ar adegau prysur. Awgrymant y gallai datblygu yn SP264 wneud y problemau'n waeth. O gofio maint y safle a nifer fechan yr anheddau sydd eu hangen ar gyfer y pentref, nid yw'n debygol y byddai datblygiad yn cyfrannu'r sylweddol ar lefelau'r traffig. Mae mesurau lliniaru addas ar gael er mwyn sicrhau na fydd effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am effaith niwtral gweddilliol, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is mwy manwl. Y mae potensial am effeithiau cronnus gyda datblygu ar y dewisiadau safle eraill yn ardal y cynllun. Bydd angen ystyried hyn ymhellach trwy AG ar y CDLIC a Adneuwyd. Er nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd.

Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle sy'n debyg o effeithio ar iechyd dynol; potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ar hyn o bryd, ni wyddys a ddarperir unrhyw waith yn y safleoedd. Ni fyddai datblygu ar y dewisiadau safle yn arwain at golli unrhyw waith

presennol. Mae safle SP264 gerllaw man cyflogaeth bychan; fodd bynnag, mae safleoedd SP289 ac SP985 yn nes at y cyfleoedd am waith yn y pentref. Nid oes gwahaniaethau sylweddol rhwng y dewisiadau safle, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 6.

Nid yw'r dewisiadau safle wedi eu gwarchod gan ddynodiad tirwedd ac ni chawsant eu nodi fel rhai o bwysigrwydd gweledol uchel. Mae gan ddatblygu ar yr holl safleoedd botensial i golli tir glas ac felly mân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 8 trwy ddatblygu ardal nas datblygwyd o'r blaen. Mae safle SP264 rhwng safle cyflogaeth bach ac ardal breswyl, felly mae'n estyniad rhesymegol i'r annedd, gan na fyddai datblygu yn ymestyn adeiladau i gefn gwlad agored fel yw'r achos gyda SP1002. Mae safleoedd SP289 ac SP985 yn safleoedd mewnlenwi.  Nid yw'n debygol y bydd unrhyw ddatblygu ar unrhyw rai o'r dewisiadau safle yn cael effeithiau negyddol arwyddocaol ar y tirwedd. Elfen o ansicrwydd am y dewisiadau safle eraill hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is mwy manwl. Mae gan golli tir glas hefyd botensial am fân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 9.

Dylid nodi nad oes yr un o'r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlochrog.

Canfu'r AG fod rhai elfennau allweddol yn gwahaniaethu rhwng y dewisiadau safle, y mae a wnelont â hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau presennol, lleihau'r angen i deithio ac addasrwydd y rhwydwaith priffyrdd presennol. Mae safleoedd SP985 ac sp289 o fewn pellter cerdded i gyfleusterau/gwasanaethau'r pentref, ond nid yw safle SP264 a SP1002.  Y mae llethr hefyd o'r pentref i safle SP264 ar hyd y B5420 a allai ei gwneud yn anos i rai trigolion fyd ar ei hyd. Ystyriwyd felly byddai'r datblygiad yn llai tebygol o leihau'r angen i deithio. Er nad yw'r un o'r safleoedd yn debygol o gynyddu lefelau'r traffig yn sylweddol, dengys y broses o asesu safle posibl nad yw'r rhwydwaith priffyrdd presennol yn addas i ymdrin â datblygu yn safleoedd SP289 ac SP985 ac y gallai darparu mynediad addas fod yn broblem.

| **Niwbwrch** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AG** | **Bioamrywiae th** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Iaith Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP463 Cae Plas** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **-** | **+** | **0** |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **SP969 Tir gerllaw Stryd yr Eglwys** | **0 ?** | **+** | **+?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **- ?** | **+** | **+** | **0** |

**Crynodeb**

Mae safle SP969 ar dir glas a thir llwyd gyda'r rhan fwyaf y tu mewn i ffin yn aneddfan, tra bod safle SP463 oll yn dir glas yn union gerllaw ffin yr aneddfan. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol yn y safleoedd na gerllaw iddynt. Fodd bynnag dylid nodi fod safle SP463 o fewn 400m, a safle SP969 o fewn 550m i SDdGA Cwningar Niwbwrch ac ACA Abermenai i Aberffraw, a bod y ddau safle hefyd bellter o ryw 1km o ACA Arfordir Môn, cynefinoedd is-haen morfa heli a rhynglanwol, a GNG Cwningar Niwbwrch. O ystyried maint y dewisiadau safle, mae'n annhebyg y bydd unrhyw effeithiau arwyddocaol. Gallai colli tir glas o bosib gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLIC a Adneuwyd a'i fod ar gael hefyd ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AG 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd.

Nid oes unrhyw asedau treftadaeth dynodedig yn y naill safle na'r llall, ac nid ydynt yn agos at rai; fodd bynnag, bydd angen gwerthusiad archeolegol o safle SP969 (fel y datgelwyd gan gais datblygu sydd i mewn ar hyn o bryd); potensial am  effaith niwtral gweddilliol gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir asesiadau ar lefel prosiect. Nid yw'r naill safle na'r llall mewn ardal lle mae risg o lifogydd nac yn agos at un; potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11.

Mae'r dewisiadau safle o fewn pellter cerdded rhesymol i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael yn y pentref, sydd yn Bentref Gwasanaeth. Potensial am fân effaith cadarnhaol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 2. Mae'r pentref oddeutu 9 milltir o dref fwy Llangefni, ac y mae'r ddau safle o fewn 400m i gysylltiadau bws i'r dref hon. Fodd bynnag, y mae'r safleoedd dros 6km i ffwrdd o'r orsaf drenau agosaf ym Modorgan. O ystyried y pellter o wasanaethau a chyfleusterau presennol a'r cysylltiadau bws, y mae potensial am fân effaith cadarnhaol ar Amcan AG 10 trwy leihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, ystyrir mai bychan fydd arwyddocâd yr effaith gan y bydd pobl yn debygol o barhau i fod angen teithio er mwyn cyrraedd yr amrywiaeth ehangach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoed dam waith mewn aneddfannau mwy

Mae gan ddatblygu yn y naill neu'r llall o'r dewisiadau safle y potensial i gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, ni fydd unrhyw gynnydd yn debyg o fod yn sylweddol. Ni ddengys y dystiolaeth fod unrhyw broblemau gallu i drin traffig na mynediad ar y rhwydwaith priffyrdd presennol.  Dylai mesurau lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau'r CDLIC a Adneuwyd a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau bod unrhyw effaith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol yn cael eu cadw mor isel ag sydd modd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol ar Amcan AG 3 gydag elfen o ansicrwydd. Er nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ

| |
|---|
| gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd. Mae potensial am effeithiau cronnus petai'r ddau safle'r cael eu datblygu, a byddai angen ystyried hyn ymhellach trwy AG ar y CDLIC a Adneuwyd.<br><br>Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn y naill na'r llall o'r dewisiadau safle. Potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.<br><br>Ar hyn o bryd, ni wyddys a ddarperir unrhyw waith yn y safleoedd. Ni fyddai datblygu yn arwain at golli unrhyw waith sydd yno eisoes ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd am waith yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 6.<br><br>Mae safle SP969 o fewn AHNE Môn, a safle SP463 gerllaw iddi, felly mae potensial am effeithiau negyddol ar ei chefndir. Bydd natur ac arwyddocâd yr effaith yn dibynnu ar raddfa, cynllun a dyluniad datblygiad arfaethedig. Fodd bynnag, o gofio maint y dewisiadau safle a'r lliniaru oherwydd polisïau'r CDLIC a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect, nid yw'n debygol y bydd datblygu ar y safleoedd unigol yn cael unrhyw effeithiau negyddol mawr. Mae'r rhain yn fwy tebyg o ddigwydd yn gronnus, petai'r holl ddewisiadau safle posibl yn cael eu datblygu. Potensial am fân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 8 gydag elfen o ansicrwydd. Byddai datblygu ar safle SP969 yn defnyddio peth tir llwyd gyda photensial am fan effeithiau cadarnhaol; fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hyn ar hyn o bryd. Mae i golli tir glas ar safle SP463 botensial am fân effeithiau negyddol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 9. Gan mai tir llwyd yn bennaf yw safle SP969 mae potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 8. Dylid nodi nad oes yr un o'r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau na mwyaf amlochrog.<br><br>Ni welodd yr AG unrhyw wahaniaethau arwyddocaol rhwng y dewisiadau safle. Mae gan ddatblygu yn y naill safle neu'r llall y potensial i effeithio'n negyddol ar AHNE Môn ac felly ar y tirwedd. Er ei bod o fewn yr AHNE, mae gan ddatblygu ar safle SP969 botensial i asio'n well gyda'r adeiladau presennol gan mai tir llwyd yn rhannol ydyw, a bod datblygiadau o'i gwmpas eisoes. Tir glas yw safle SP463 i gyd, a gellid synied y byddai'n ymestyn i gefn gwlad. |

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| Pentraeth | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AG** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | | **Newid Hinsawdd** | **Iaith Gymraeg** | **Diwylliannol a Threftadaeth** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP773 Tir yng Nglanrafon** | **0 ?** | **+** | **+?** | **- ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **-** | **-** | **+** | **- ?** |
| **SPSP222 Meithrinfa Pentraeth** | **0 ?** | **+** | **+?** | **- ?** | **0** | **0 ?** | **- ?** | **++** | **+ ?** | **++** | **+** | **0** |

**Crynodeb**

Mae safle SP773 ar dir glas gerllaw ffin datblygu'r pentref. Mae safle SP222 ar dir llwyd o fewn ffin y pentref. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol nac asedau treftadaeth dynodedig yn y safleoedd na gerllaw iddynt; fodd bynnag, dylid nodi bod y ddau safle o fewn 1km i SDdGA Gwenfro a Rhos y Gad ac AGA Corsydd Môn. O ystyried maint y safleoedd, nid yw'n debygol, fodd bynnag, y ceid unrhyw effeithiau arwyddocaol. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLIC a'i fod ar gael hefyd ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AG 1 a 5, gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel y prosiect. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd.

Nid yw safle SP222 mewn ardal lle mae risg o lifogydd nac yn agos at un; potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11. Y mae safle SP773, fodd bynnag, gerllaw ardal o risg isel i ganolig o lifogydd, sydd hefyd yn cwmpasu ffin dde-ddwyreiniol y safle. Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLIC a Adneuwyd a'i fod ar gael hefyd ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am fân effaith negyddol yn erbyn Amcan AG 11 ar gyfer safle SP773 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Mae'r ddau safle gerllaw'r B5205 sydd yn rhedeg drwy'r pentref, ac o fewn pellter cerdded rhesymol (llai na 1km) o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y pentref, sydd yn Ganolfan Gwasanaeth Lleol. Potensial am fân effaith cadarnhaol tymor-hir yn erbyn Amcan AG

2. Mae'r pentref rhyw 5 milltir o dref fwy Llangefni. Mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus o fewn 400m o'r naill safle a'r llall i'r dref fwy hon; fodd bynnag mae'r orsaf drenau agosaf dros 7km i ffwrdd yn Llanfairpwll. O ystyried y pellter o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol a'r arosfannau bysus, mae potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 10 trwy leihau'r angen i deithio. Fodd bynnag, ystyrir mai mân yn unig fydd arwyddocâd yr effaith gan y bydd pobl yn debygol o deithio o hyd ar gyfer yr amrywiaeth ehangach o wasanaethau / cyfleusterau a chyfleoedd am waith yn yr aneddfannau mwy.

Mae i ddatblygu yn y naill neu'r llall o'r dewisiadau safle botensial i gynyddu lefelau traffig; fodd bynnag, o ystyried maint y safleoedd, nid yw'n debygol y bydd unrhyw gynnydd yn sylweddol. Dengys y broses o asesu safle posibl y gall fod problem o gynnwys traffig ar yr A55 ac y byddai nhagen asesiadau trafnidiaeth. O ystyried y materion cynnwys traffig posib, ystyrir bod potensial am fân effeithiau negyddol ar Amcan AG 3 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl. Dylai mesurau lliniaru a ddarparwyd trwy bolisïau'r CDLIC a Adneuwyd a'r hyn sydd ar gael ar lefel y prosiect sicrhau bod unrhyw effaith ar y rhwydwaith priffyrdd presennol yn cael eu cadw mor isel ag sydd modd. Mae potensial hefyd i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda man effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd. Mae potensial am effeithiau cronnus petai'r ddau safle'n cael eu datblygu, a byddai angen ystyried hyn ymhellach trwy AG ar y CDLIC a Adneuwyd.

Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn y naill na'r llall o'r dewisiadau safle. Potensial am fân effaith cadarnhaol fodd bynnag Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

Ar hyn o bryd, ni wyddys a ddarperir unrhyw waith yn y safleoedd. Gallai datblygu arwain at golli'r ganolfan arddio ar safle SP222 gyda'r potensial am fan effaith negyddol ar Amcan AG 6 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl. Nid oes gwahaniaethau arwyddocaol o ran mynediad at gyfleoedd eraill am waith yn y pentref.

Mae'r ddau ddewis o safle gerllaw AHNE Môn; fodd bynnag, awgryma tystiolaeth nad yw'r naill a'r llall o bwysigrwydd uchel nac yn debyg o gael effeithiau andwyol ar olygfeydd/weledfannau pwysig. Mae i ddatblygiad ar safle SP773 botensial am golli'r tir glas ac felly mân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcanion AG 8 a 9 trwy ddatblygu ardal nas datblygwyd o'r blaen. Gellid ystyried datblygu hefyd fel llechfeddiant i gefn gwlad agored ar y safle hwn, a allai arwain at newid yng nghymeriad yr ardal, er na ragwelir y bydd y newid hwn yn sylweddol andwyol oherwydd y cysylltiadau preswyl i'r gogledd a'r de o'r safle. Dylid nodi, fodd bynnag, y gallai topograffeg y safle, sydd ar lethr, wneud y datblygiad yn amlwg o rai mannau. Byddai datblygu ar safle SP222 yn defnyddio tir llwyd gyda'r potensial am fân effeithiau cadarnhaol yn erbyn Amcanion AG 8 a 9. Mae elfen o ansicrwydd am safle SP222 yn erbyn Amcan AG 8 gan y bydd effeithiau cadarnhaol yn dibynnu ar

raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad. Nid yw'r safleoedd yn cynnwys y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlochrog.
Er bod y ddau safle'n gyfagos i'w gilydd ac AHNE Môn, mae'r arfarniad wedi nodi rhai gwahaniaethau. Yn eu mysg mae ardal lle mae risg o lifogydd gerllaw safle SP773 a cholli safle cyflogaeth presennol yn safle SP222. Byddai datblygu ar safle SP773 yn arwain at golli tir glas gydag effeithiau negyddol posib ar dirweddau a phridd, tra byddai datblygu ar safle SP222 yn arwain at golli tir oedd gynt wedi ei ddatblygu, a allai gael effeithiau cadarnhaol.

**Rhosneigr**

| Amcan AG | Bioamrywiaeth | Cymuned ac Iechyd | | Newid Hinsawdd | Iaith Gymraeg | Diwylliannol a Threftadaeth | Economi | Tai | Tirweddau | Gwastraff a Mwynau | Trafnidiaeth | Dŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1 | 2 | | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 |
| SP241 Tir gerllaw Bwthyn Trewan | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - ? | - | + | 0 ? |
| SP928 Tir gerllaw'r ysgol | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - | - | + | 0 ? |
| SP927 Tir gerllaw Sisial y Môr | 0 ? | + | + ? | 0 ? | 0 | 0 | 0 | ++ | - | - | + | 0 |

**Crynodeb**

Mae'r tri dewis safle ar dir glas yn union ger ffin y pentref. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol nac asedau treftadaeth dynodedig yn y safleoedd nac yn agos atynt; fodd bynnag, mae'r holl ddewisiadau safle yn weddol agos at y tri SDdGA yn Rhosneigr. Mae safle SP241 rhyw 200m o SddGA Rhosneigr, safle SP927 yn fras 100m o SDdGA Llyn Maelog, a safle SP928 rhyw 350m o SDdGA Llyn Maelog a rhyw 400m SDdGA Rhosneigr. Mae'r tri safle o fewn 1km o SddGA Creigresi Rhosneigr . Ystyrir bod lliniaru addas yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLIC ac ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth na dynodiadau treftadaeth. Gallai colli tir glas gael mân effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth trwy golli cysylltedd a darnio coridorau gwyrdd; fodd

bynnag, ystyrir bod lliniaru addas ar gael trwy bolisïau CDLlC ac ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcanion AG 1 a 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion am ddatblygu geisio cyfleoedd i gyfoethogi bioamrywiaeth trwy welliannau i'r seilwaith gwyrdd.

Nid yw'r safleoedd o fewn ardal lle mae risg o lifogydd; potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 11. Dylid nodi, fodd bynnag, fod safleoedd SP241 ac SP928 wedi dioddef ambell ddigwyddiad o lifogydd yn y system garthffosiaeth gyhoeddus y byddai'n rhaid eu goresgyn cyn i unrhyw ddatblygu ddigwydd. Ystyrir bod digon o liniaru yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLlC ac ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol; fodd bynnag, mae elfen o ansicrwydd am y safleoedd hyn hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect.

Mae'r dewisiadau safle oll o fewn pellter cerdded rhesymol (ymhen 1km) i'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael yn y pentref, sydd yn Ganolfan Gwasanaeth Lleol. Potensial am fân effaith cadarnhaol tymor-hir yn erbyn Amcan AG 2. Mae gan yr holl ddewisiadau safle fynediad ardderchog at gludiant cyhoeddus gydag arosfan bws o fewn 400m o bob safle, a gorsaf reilffordd ychydig dan 1km i ffwrdd. O ystyried y pellter o'r cyfleusterau a'r gwasanaethau presennol a'r mynediad ardderchog at gludiant cyhoeddus, mae potensial am effeithiau cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 10 trwy leihau'r angen i deithio. Ystyrir mai bychan yn unig fydd arwyddocâd yr effaith gan ei bod yn debygol y bydd pobl o hyd eisiau teithio at y dewis ehangach o wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd am waith yn yr aneddfannau mwy.

O ystyried maint y safleoedd, nid yw datblygu yn debyg o gynyddu lefel y traffig ar y ffyrdd yn arwyddocaol. Ni ddengys y dystiolaeth unrhyw broblemau gallu cynnwys traffig o ran y rhwydwaith priffyrdd presennol; fodd bynnag, dylid nodi y gall problem fynediad godi gyda safle SP927 a allai gyfyngu ar raddfa'r datblygiad ar y safle (mae mynediad trwy stad Sisial y Môr). Ystyrir bod digon o liniaru yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLlC ac ar gael ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar draffig. Potensial am effaith niwtral gweddilliol ar Amcan AG 3 gydag elfen o ansicrwydd. Er nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, mae potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gyda mân effaith negyddol ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debyg mai lleihau wnaiff allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol gan gynnwys defnyddio cerbydau o ganlyniad i gamau rheoli allyriadau llym ar gerbydau newydd trwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd am hynny ar hyn o bryd. Mae potensial am effeithiau cronnus petai'r holl ddewisiadau safle yn cael eu datblygu, y byddai'n rhaid eu hystyried ymhellach trwy AG y CDLlC a Adneuwyd.

Bydd darparu amrywiaeth o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hybu cynhwysiant cymdeithasol a chydlyniad cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth stoc tai newydd hefyd fod yn llesol i iechyd y trigolion lleol. Nid oes gwrthdaro o ran defnydd tir na phroblemau arwyddocaol yn unrhyw rai o'r dewisiadau safle sy'n debyg o effeithio ar iechyd dynol; potensial am fân effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AG 2 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| |
|---|
| Ar hyn o bryd, ni wyddys a ddarperir unrhyw waith yn y safleoedd. Ni fyddai datblygu ar y dewisiadau safle yn arwain at golli unrhyw waith presennol ac nid oes gwahaniaethau sylweddol o ran mynediad at gyfleoedd presennol am waith yn y pentref. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AG 6.<br><br>Mae safle SP927 o fewn AHNE Môn, a safle SP928 gerllaw iddi. Mae gan ddatblygu y potensial am fân effaith negyddol ar y tirwedd; fodd bynnag, ystyrir bod digon o liniaru yn cael ei ddarparu trwy bolisïau CDLIC a Adneuwyd ac ar gael ar lefel y prosiect er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau negyddol mawr. Nid yw safle SP241 wedi ei gwarchod gan ddynodiad tirwedd ac ni chafodd ei nodi fel un o bwysigrwydd gweledol mawr, er bod y safle ger y traeth ac ochr arfordirol y pentref. Mae gan ddatblygu ar yr holl safleoedd y potensial i golli tir glas ac felly mân effaith negyddol tymor-hir yn erbyn Amcanion AG 8 a 9 trwy ddatblygu ardal na ddatblygwyd cynt, er bod elfen o ansicrwydd hyd nes y cyflwynir cynigion manwl. Nodwyd yr holl safleoedd fel tir amaethyddol Gradd 3 posib; ni wyddys ar yr adeg hon ai Gradd 3a neu 3b yw hyn. Mae gan y posibilrwydd o golli'r tir amaethyddol gorau a mwyaf amlochrog botensial am fân effaith negyddol yn erbyn Amcan AG 9.<br><br>Er nad oes gwahaniaethau sylweddol rhwng y dewisiadau safle, tybir fod safleoedd SP927 ac SP928 mewn cefndir tirwedd mwy sensitif na safle SP241. |

| **Y Fali** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Bioamrywiaeth** | **Cymuned ac Iechyd** | **Newid Hinsawdd** | **Yr Iaith Gymraeg** | **Treftadaeth a Diwylliant** | **Economi** | **Tai** | **Tirweddau** | **Gwastraff a Mwynau** | **Trafnidiaeth** | **Dŵr** |
| | **1** | **2** | **3** | **4** | **5** | **6** | **7** | **8** | **9** | **10** | **11** |
| **SP944 Marchnad flaenorol** | **0 ?** | **+? ?** | **0 ?** | **0** | **0 ?** | **0** | **++** | **+** | **++** | **+ ?** | **0** |
| **Crynodeb**<br><br>Mae'r safle'n dir llwyd sy'n gorwedd o fewn ffin ddatblygu'r anheddiad. Nid oes unrhyw ddynodiadau bioamrywiaeth rhyngwladol, cenedlaethol neu leol neu asedau treftadaeth dynodedig o fewn y safle neu'n gyfagos iddo. Mae'r safle'n dir llwyd, all fod â gwerth uchel hefyd yn nhermau | | | | | | | | | | | |

bioamrywiaeth. Ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar fioamrywiaeth o ganlyniad i ddatblygu. Dylid nodi bod safleoedd SoDdGA o fewn 1km o'r safle ond, o ystyried ei leoliad o fewn ffin anheddiad a'i fod wedi'i amgylchynu gan ddatblygiadau presennol, nid oes llwybrau i effeithiau ddigwydd. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 1 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect. Dylai unrhyw gynigion ar gyfer datblygu geisio cyfleoedd i wella bioamrywiaeth drwy welliannau i isadeiledd gwyrdd.

Nid oes unrhyw asedau treftadaeth o fewn neu'n gyfagos i'r safle . Ystyrir y darperir mesurau lliniaru addas drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd, ac maent ar gael ar lefel prosiect i sicrhau nad oes unrhyw effeithiau negyddol sylweddol ar dreftadaeth. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 5 gydag elfen o ansicrwydd hyd nes y cynhelir arolygon ac asesiadau ar lefel prosiect.

Nid yw'r safle o fewn ardal risg llifogydd, potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 11.

Mae lleoliad y safle ger canol y Fali yn golygu ei fod o fewn pellter cerdded hwylus i'r cyfleusterau a'r gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael yn y pentref. Potensial am effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AC 2, gydag elfen o ansicrwydd o ystyried y cyfleusterau cyfyngedig. Lleolir y pentref tua 4 milltir o anheddiad mwy Caergybi. Ceir cysylltiadau trafnidiaeth da i'r anheddiad mwy hwn gydag arhosfan bysiau o fewn 400m o'r safle. O ystyried yr agosrwydd i wasanaethau a chyfleusterau presennol yn ogystal â mynediad da i drafnidiaeth gyhoeddus, ceir potensial am effaith cadarnhaol yn erbyn Amcan AC 10. Mewn cydnabyddiaeth o'r cyfleusterau/gwasanaethau cyfyngedig sydd ar gael a bod pobl yn dal yn debygol o deithio i Gaergybi, nid yw maint yr effaith hwn ond yn debygol o fod yn fach. Ceir elfen o ansicrwydd hefyd.

Ar hyn o bryd, nid yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn dangos bod unrhyw broblemau o ran mynediad neu gapasiti mewn perthynas â'r rhwydwaith ffyrdd presennol. Mae potensial i ddatblygiad ar y safle gynyddu traffig; fodd bynnag mae hyn yn annhebygol o fod yn sylweddol o ystyried y mesurau lliniaru a ddarperir drwy bolisïau'r CDLl ar y Cyd ac sydd ar gael ar lefel prosiect. Potensial am effaith niwtral gweddilliol yn erbyn Amcan AC 3. Tra nad ystyrir y bydd traffig yn cynyddu'n sylweddol, ceir potensial i gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr gydag effaith negyddol bach ar newid hinsawdd yn y tymor byr. Yn y tymor hwy, mae'n debygol y bydd allyriadau nwyon tŷ gwydr o weithgareddau cyffredinol, gan gynnwys defnyddio cerbydau, yn lleihau o ganlyniad i fesurau rheoli allyriadau caeth ar gerbydau newydd drwy safonau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae hyn yn ansicr ar hyn o bryd.

Bydd y ddarpariaeth o ystod o dai yn cael effeithiau cadarnhaol o ran hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a chydlyniant cymunedol. Dylai gwella'r ddarpariaeth o stoc tai newydd hefyd fod yn fuddiol i iechyd preswylwyr lleol. Yn flaenorol, roedd y safle'n farchnad wartheg felly mae potensial i'r safle fod wedi'i halogi. Byddai rhaid atodi asesiad pridd gydag unrhyw gynnig ar gyfer datblygu ynghyd â nodi mesurau priodol i adfer unrhyw halogi os oes angen. Yn ogystal, ceir rheilffordd yn gyfagos i ffin ddeheuol y safle sy'n creu llygredd sŵn a all gael effeithiau negyddol ar iechyd. Potensial am effaith ansicr yn erbyn Amcan AC2 hyd nes y cynhelir asesiadau lefel is manylach.

**ATODIAD 7 – AC O SAFLEOEDD YNYS MÔN**

| |
|---|
| Ar hyn o bryd, nid yw'n hysbys p'un a ddarperir unrhyw gyflogaeth ar y safleoedd. Ni fyddai datblygu'n arwain at golli unrhyw gyflogaeth bresennol ac mae agosrwydd y 3 opsiwn yn golygu nad oes gwahaniaethau sylweddol yn nhermau mynediad i gyflogaeth bresennol. Potensial am effaith niwtral yn erbyn Amcan AC 6.<br><br>Nid yw'r safle wedi'i ddiogelu gan ddynodiad tirwedd neu wedi'i nodi fel un o bwysigrwydd gweledol sylweddol. Fel tir llwyd, ceir cyfle i wella'r dirwedd yn y pentref. Potensial am effaith cadarnhaol tymor hir bach yn erbyn Amcan AC 8, gydag elfen o ansicrwydd gan fod natur a maint yr effeithiau'n ddibynnol ar raddfa, cynllun a dyluniad y datblygiad. Ceir potensial am effaith cadarnhaol tymor hir mawr yn erbyn Amcan AC 9 gan fod y safle cyfan yn dir llwyd. |

# ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

## ALLWEDD ARFARNU

| | |
|---|---|
| ++ | **Cadarnhaol Mawr** |
| + | **Cadarnhaol Bach** |
| 0 | **Ardrawiad Niwtral** |
| +/- | **Yn ddibynnol ar weithredu'r opsiwn** |
| - | **Negyddol Bach** |
| -- | **Negyddol Mawr** |

## AMCANION YR AC

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | Rheoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu |
| 4 | **Yr Iaith Cymraeg** | Cadw, hyrwyddo a mwyhau'r iaith Gymraeg |
| 5 | **Treftadaeth / Diwylliant** | Cadw, hyrwyddo a mwyhau adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | Darparu tai cynaliadwy, gan gynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | Gwerthfawrogi, cadw a mwyhau tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | Hyrwyddo a mwyhau cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi |
| 11 | **Dŵr a pherygl llifogydd** | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd |

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS1 Datblygiad Cynaliadwy**

Cefnogir cynigion datblygu lle y gellir dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. Bydd gofyn i bob cynnig datblygu allu cyflawni pob un o'r amcanion perthnasol a ganlyn:

1. Lliniaru'r hyn sy'n achosi newid hinsawdd ac addasu i'r effeithiau hynny sy'n anochel;
2. Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol, gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen lle bynnag bo hynny'n bosib oddi mewn i'r Ganolfan Isranbarthol, y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y mannau mwyaf priodol y tu allan iddynt;
3. Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu tuag at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol; a dewis o ddulliau teithio;
4. Bod unedau tai, mewn achosion penodol, yn diwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran eu hansawdd, y mathau o ddaliadaeth a'u fforddiadwyedd;
5. Gwarchod, hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg;
6. Economi leol amrywiol ac ymatebol sy'n annog buddsoddiad ac sy'n gallu cynnal ein Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig;
7. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau;
8. Lleihau'r angen i deithio ac annog cyfleoedd sy'n golygu y gellir teithio pan fo angen mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus;
9. Hyrwyddo safonau dylunio uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol, mannau hygyrch ac sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofni trosedd;
10. Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at effeithlonrwydd egni; defnyddio egni adnewyddadwy; lleihau gwastraff / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd;
11. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastraffir; lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd y dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy a dilyn amcanion Cynllun Rheoli Dŵr Basn Afonydd Gorllewin Cymru;
12. Diogelu a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig ac asedau'r amgylchedd hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gwella'r defnydd cynaliadwy a wneir ohonynt a'u deall a'u gwerthfawrogi
13. Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y gwasanaethau cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu rhoi.

| Amcan AC | | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad a pharhad yr effeithiau a nodir ac a oes modd eu cildroi ai peidio) | Argymhelliad / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr drwy warchod a gwella'r amgylchedd naturiol. Peth ansicrwydd ynghylch maint yr effeithiau cadarnhaol gan y byddant yn | Awgrymir y gellir cryfhau amcan 12 drwy gynnwys cyfeiriad at wasanaethau ecosystemau gan adnabod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ddibynnol ar bolisïau eraill. | pwysigrwydd yr ecosystemau cefnogol a'u cydberthynas â ffactorau cymdeithasol-economaidd. Am ragor o wybodaeth, gweler CCGC[1]. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| **2** | **Cymuned ac Iechyd** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr drwy ddarparu gwasanaethau cefnogol – diwylliannol, chwaraeon ac adloniant gydag isadeiledd ffisegol a chymdeithasol i hyrwyddo pentrefi a threfi hunangynhaliol. Yn ogystal, bydd hyn yn cynorthwyo i leihau anghydraddoldebau iechyd a lles. Mae peth ansicrwydd gan fod ei weithredu yn ddibynnol ar bolisïau eraill ac yn ymwneud â ffactorau megis amseru a datblygu mewn camau.<br><br>Bydd ystod o gyflogaeth yn cynorthwyo i hyrwyddo hyfywedd cymdeithasol ac yn cael effaith anuniongyrchol cadarnhaol ar iechyd a lles drwy sicrwydd cyflogaeth leol.<br><br>Bydd dewis o ddulliau teithio yn cael peth effaith gadarnhaol ar iechyd drwy hwyluso ffordd o fyw iachach drwy feicio a cherdded.<br><br>Mae Amcan 9 yn sefydlu'r gofyn cyffredinol am fannau lleol nodedig sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n hygyrch ac yn ddiogel – caiff hyn oll effeithiau cadarnhaol ar hyfywedd cymunedol ac iechyd / lles cymunedol. Mae peth ansicrwydd gan fod ei weithredu'n ddibynnol ar bolisïau eraill ac ni wyddwn beth yw maint yr effeithiau cadarnhaol. | Gellir cryfhau'r polisi drwy gynnwys cymunedau *cymysg* neu *gytbwys* er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael â'r mater sydd wedi'i adnabod yn yr ardal, sef cymunedau sy'n anghytbwys o ran oedran. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi.<br><br>Nodir nad yw'r polisïau strategol yn cynnwys polisi yn ymwneud â dylunio ac adeiladu cynaliadwy, gweithrediad / meddiannaeth, er bod amcan rhif 10, PS1 yn gofyn am ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy. Awgrymir y byddai'r fath bolisi yn rhoi mwy o sicrwydd o effeithiau cadarnhaol; fodd bynnag, sylweddolir y gallai'r mater hwn gael ei gynnwys mewn polisi manwl yn ddiweddarach. |
| **3** | **Newid Hinsawdd** | ++ | Mae addasiadau a lliniaru effeithiau newid hinsawdd yn cyd-fynd yn gryf ag amcanion yr AC i reoli a lleihau effeithiau newid hinsawdd. | Dim |
| **4** | **Yr Iaith Gymraeg** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr drwy warchod, hyrwyddo a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Peth ansicrwydd gan fod ei weithredu'n ddibynnol ar bolisïau eraill ac ni wyddwn beth yw maint yr effeithiau cadarnhaol. | Dim |
| **5** | **Treftadaeth / Diwylliant** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr drwy warchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol. Peth ansicrwydd am faint yr effeithiau cadarnhaol gan y byddant yn ddibynnol ar bolisïau eraill. | Gellir cryfhau hyn drwy gynnwys asedau a lleoliadau. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| **6** | **Economi a chyflogaeth** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr. Peth ansicrwydd gan fod ei weithredu'n ddibynnol ar bolisïau eraill ac ni wyddwn beth yw maint yr effeithiau cadarnhaol. | Dim |

[1] http://www.ccgc.gov.uk/landscape--wildlife/managing-land-and-sea/sustaining-ecosystem-services.aspx

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 7 | **Tai fforddiadwy** | + | Effeithiau cadarnhaol drwy ddiwallu anghenion sydd wedi'u hadnabod yn y boblogaeth leol – ac yn yr hirdymor drwy gyfeirio at eu bywydau. Awgrymir hyblygrwydd a'r posibilrwydd o'i addasu drwy gynnwys mathau gwahanol o ddaliadaeth gydag effeithiau cadarnhaol. Peth ansicrwydd am faint yr effeithiau cadarnhaol gan y byddant yn ddibynnol ar bolisïau eraill – fforddiadwyedd ac ansawdd. | Gellir cryfhau'r polisi drwy gynnwys *ansawdd* a *fforddiadwyedd*. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr drwy warchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Peth ansicrwydd am faint yr effeithiau cadarnhaol gan y byddant yn ddibynnol ar bolisïau eraill. | Gellir cryfhau hwn drwy gynnwys asedau a lleoliadau'r dirwedd a'r drefwedd. Mae cyfeiriad at asedau tirwedd wedi ei ymgorffori i'r Polisi. |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | ++ | Dangosir effeithiau cadarnhaol ar gyfer ailddefnyddio tir ac adeiladau. Fodd bynnag, mae amcan 2 yn datgan "*ble bo'n bosib*" sy'n gadael peth ansicrwydd ynghylch maint cyffredinol yr effeithiau cadarnhaol gan y byddant yn ddibynnol ar bolisïau mwy manwl a dyraniad safleoedd.<br>Mae Amcan 10 yn gofyn am ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy gan gynnwys osgoi llygredd, cyfrannu tuag at effeithlonrwydd ynni, lleihau gwastraff, diogelu ansawdd y pridd – effeithiau cadarnhaol mawr ond mae peth ansicrwydd gan y byddant yn ddibynnol ar bolisïau mwy manwl a dyraniad safleoedd. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr drwy sefydlu bod angen lleihau'r angen i deithio ynghyd ag annog dulliau teithio iachach a chynaliadwy. Peth ansicrwydd gan fod ei weithredu'n ddibynnol ar bolisïau eraill ac ni wyddwn beth yw maint yr effeithiau cadarnhaol. | Dim |
| 11 | **Dŵr a pherygl llifogydd** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr gan y bydd gofyn am reoli dŵr yn gynaliadwy ond mae peth ansicrwydd gan y bydd hwn yn ddibynnol ar bolisïau mwy manwl a dyraniad safleoedd. | Awgrymir y gellir cryfhau amcan 11 drwy gynnwys ....*symud tuag at amcanion Cynllun Rheoli Dŵr Basn Afonydd Gorllewin Cymru* NEU drwy wneud hyn yn gwbl glir yn y testun cefnogol. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |

**Crynodeb**

Ar y cyfan bydd polisi cyffredinol PS1 yn cael effeithiau cadarnhaol mawr ar ddatblygiadau cynaliadwy a chymunedau'r ardal. Fodd bynnag, mae peth ansicrwydd gan fod gweithredu'r amcanion uchelgeisiol hyn yn ddibynnol ar bolisïau strategol a manwl eraill a byddant hwy yn rhoi canllawiau pellach gan gynnwys y safonau sydd angen eu cwrdd.

Nodir nad yw'r polisïau strategol yn cynnwys polisi sy'n ymwneud â dylunio ac adeiladu cynaliadwy, er bod amcan rhif 10, PS1 yn gofyn am gynnwys egwyddorion adeiladu cynaliadwy. Awgrymir y byddai'r fath bolisi yn rhoi mwy o sicrwydd y ceir effeithiau cadarnhaol; fodd bynnag, sylweddolir y gallai'r mater hwn gael ei gynnwys mewn polisi manwl yn ddiweddarach.

Awgrymodd yr AC y dylai'r Polisi gynnwys cyfeiriadau at wasanaethau ecosystemau, asedau a gosodiad treftadaeth ac amcanion Gorllewin Cymru CrhBA, sydd wedi eu hymgorffori erbyn hyn.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS2 Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddynt**

Er mwyn lliniaru effeithiau newid hinsawdd dylai pob datblygiad ymdrechu i:

1. wneud y defnydd mwyaf effeithiol a chynaliadwy o dir ac adeiladau, lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol drwy ddefnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy neu ailddefnyddio deunyddiau neu eu hailgylchu ble bynnag bo'n bosib.
2. ystyried yr hierarchaeth ynni drwy:
    a. Leihau'r angen am ynni;
    b. Defnyddio ynni'n fwy effeithiol;
    c. Cyflenwi ynni'n fwy effeithiol, a
    d. Defnyddio ynni carbon isel neu ynni adnewyddadwy lle bo hynny'n ymarferol, yn hyfyw ac yn gyson â'r angen i ymgysylltu ac ymwneud â chymunedau; gwarchod mwynderau gweledol, yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol a gwarchod y tirlun.
3. lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, cynorthwyo i leihau gwastraff ac annog teithio gan ddefnyddio dulliau eraill yn hytrach na defnyddio car.

Er mwyn addasu i effeithiau newid hinsawdd, dylai pob datblygiad ymdrechu i:

4. weithredu mesurau rheoli dŵr yn gynaliadwy yn unol â'r amcanion yng Nghynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru;
5. eu lleoli oddi wrth ardaloedd sydd â pherygl llifogydd er mwyn lleihau'r perygl cyffredinol o lifogydd o fewn ardal y Cynllun ac ardaloedd y tu allan iddo yn unol â Memorandwm o Ddealltwriaeth 2011 rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd;
6. gallu gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd cymaint â phosib oherwydd ei safonau dylunio cynaliadwy uchel; lleoliad, gosodiad a dulliau adeiladu cynaliadwy;
7. diogelu tir amaethyddol o ansawdd uchel a hyrwyddo rhandiroedd, cefnogi cyfleoedd i gynhyrchu bwyd yn lleol ac amaethu lleol er mwyn lleihau cyfraniad yr ardal i filltiroedd bwyd;
8. darparu mesurau ychwanegol megis cysgod naturiol a dulliau oeri naturiol a darparu rhwydweithiau o isadeiledd 'gwyrdd' a phlannu coed er mwyn gwneud iawn am yr allyriadau $CO_2$;
9. sicrhau nad yw gallu tirweddau, amgylcheddau a rhywogaethau i addasu i effeithiau niweidiol newid hinsawdd yn cael eu heffeithio a bod amgylcheddau cydadferol yn cael eu darparu pan fo angen;
10. anelu at y safon uchaf posib o ran effeithlonrwydd dŵr a gweithredu mesurau eraill i wrthsefyll sychder, cynnal y llif dŵr a chynnal neu wella ansawdd dŵr gan gynnwys defnyddio systemau draenio cynaliadwy;
11. gwarchod y pridd er mwyn sicrhau y gellir gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd;
12. ychwanegu at gyfleoedd i gerdded neu feicio er mwyn paratoi ar gyfer cyfnod pan fydd ynni'n mynd yn brinnach neu'n ddrytach.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad a pharhad yr effeithiau a nodir ac a oes modd eu cildroi ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Mwyhau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | + | Lleihau effaith datblygiadau newydd ar yr amgylchedd drwy ymgorffori safonau uchel ar gyfer mesurau effeithlonrwydd dŵr, SUDS, dyluniad ac adeiladu cynaliadwy a fydd yn cael effaith anuniongyrchol cadarnhaol ar fioamrywiaeth.<br>Mae gofyn cael mesurau ychwanegol megis darpariaeth o isadeiledd gwyrdd a phlannu coed a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol pellach ar fioamrywiaeth. | Dim |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | + | Bydd dull y polisi hwn yn cynorthwyo unigolion a chymunedau i addasu i, a gwrthsefyll effeithiau andwyol yn sgil newid hinsawdd. Bydd lles dynol yn gwella gan y ceir mwy o sicrwydd y gellir gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd cymaint â phosib a thrwy leihau'r perygl cyffredinol o lifogydd yn yr ardal. | Argymhellir bod y Cynghorau'n cynnwys pwynt ychwanegol yn yr hierarchaeth ynni i gefnogi cynigion am brosiectau ynni cymunedol[2]. Gallai hyn fod yn briodol yma yn PS2 neu yn PS16 Technoleg Ynni Adnewyddadwy. Byddai hyn yn symud yn eu blaen ymhellach yr amcanion DC sy'n ymwneud ag ymgysylltu a chyfranogiad. |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | ++ | Bwriad y polisi hwn yw creu lleoedd sy'n gallu addasu i newid hinsawdd ac sy'n gallu gwrthsefyll newid hinsawdd. Bydd hyrwyddo defnydd effeithiol a chynaliadwy o adnoddau a deunyddiau a'r gofyn am roi ystyriaeth i'r hierarchaeth ynni yn cael effeithiau cadarnhaol. Bydd ffynonellau cynhyrchu ynni adnewyddadwy mewn datblygiadau newydd mawr yn cael effaith cadarnhaol mawr ar yr amcan hwn. Wrth leihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ac annog teithio drwy ddulliau eraill heblaw defnyddio car, ceir effeithiau cadarnhaol cronnus yn yr hirdymor.<br><br>Bydd hyrwyddo gwytnwch drwy ddyluniad, lleoliad a gosodiad ynghyd ag adeiladu cynaliadwy yn cael effeithiau cadarnhaol yn yr hirdymor.<br><br>Bwriad y polisi yw lleihau'r perygl cyffredinol o lifogydd a lleoli datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle mae risg llifogydd. Bydd yr amcanion hyn yn cynorthwyo i liniaru effeithiau newid hinsawdd yn y dyfodol. Bydd y gofyn am y safonau uchaf posib o ran effeithlonrwydd dŵr a'r defnydd o SUDS yn cael effeithiau cadarnhaol yn yr hirdymor. | Noder bod PS2 yn gofyn am ynni adnewyddadwy neu ynni carbon isel "*ble bynnag bo hynny'n ymarferol*", tra bod PS17 yn ceisio *sicrhau bod ardal y cynllun yn gwireddu ei photensial fel ardal flaengar i'r fath dechnoleg*. Awgrymir bod y gydberthynas rhwng y ddau bolisi hwn yn cael ei wneud yn glir drwy groesgyfeiriadau.<br><br>Mae PS2 yn datgan "cyn gymaint â phosib"- gellid cryfhau hwn drwy ofyn am "safonau uchel" o ddyluniad cynaliadwy a gweithrediad cynaliadwy er mwyn gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd. |
| 4 | **Yr Iaith** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |

[2] Canllaw pellach yn http://www.tcpa.org.uk/pages/community-energy-urban-planning-for-a-low-carbon-future-.html

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Gymraeg** | | | |
| **5** | **Treftadaeth/diwylliant** | **0** | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| **6** | **Economi a chyflogaeth** | **+** | Bydd y polisi hwn yn cynorthwyo i sicrhau fod datblygiadau cyflogaeth yn y dyfodol yn gallu addasu i a gwrthsefyll effeithiau andwyol newid hinsawdd. Bydd lleihau milltiroedd bwyd ac annog cynhyrchu bwyd ac amaethu yn lleol yn cael effeithiau anuniongyrchol bychan cadarnhaol ar yr economi leol a chyflogaeth lleol. | Dim |
| **7** | **Tai fforddiadwy** | **0** | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| **8** | **Tirwedd a threfwedd** | **0** | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| **9** | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | **+** | Bydd gwneud y defnydd mwyaf effeithiol a chynaliadwy o'r tir, gan gynnwys gwarchod ansawdd y pridd ac annog ailddefnyddio deunyddiau a'u hailgylchu, yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr amcan AC hwn. | Dim |
| **10** | **Trafnidiaeth a Mynediad** | **+** | Dylai'r polisi hwn ychwanegu at y cyfleoedd i gerdded a beicio a bydd hyn yn cael effeithiau cronnus cadarnhaol bychan yn yr hirdymor. | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11 | **Dŵr a pherygl llifogydd** | ++ | Datgan y polisi y lleolir pob datblygiad i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle mae perygl llifogydd, gyda'r nod o leihau'r perygl cyffredinol o lifogydd i fyny ac i lawr yr afon. Bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol cronnus hirdymor ar yr amcan AC hwn.<br><br>Bydd y gofyn am gynnal llif ac ansawdd, gan gynnwys defnyddio systemau draenio trefol cynaliadwy (SUDS) mewn datblygiadau newydd yn cynorthwyo i leihau ardrawiad datblygiadau newydd ar berygl llifogydd. Mae peth ansicrwydd ynghylch hyd a lled effeithiau cadarnhaol o'r fath gan y bydd rhaid penderfynu ar ddefnyddio a gweithredu SUDS drwy Asesiadau Risg Llifogydd a Chynlluniau Rheoli ar sail safle, ac felly mae'n benodol i bob safle.<br><br>Bydd y gofyn am y safon uchaf posib o effeithlonrwydd dŵr yn cael effeithiau cadarnhaol ar reoli dŵr yn gynaliadwy.<br><br>Nid yw cynnal llif ac ansawdd dŵr yn symud yr amcanion yn eu blaen yn gadarnhaol er mwyn gwella ansawdd dŵr yng Nghynllun Rheoli Basn Afonydd Gorllewin Cymru[3] (AA, 2012). Mae'r angen i wella ansawdd dŵr wyneb, yn enwedig oddi wrth lygredd gwledig, wedi'i adnabod fel problem ac mae peth ansicrwydd gan y bydd hwn yn ddibynnol ar leoliad y safle. | Argymhellir y dylai'r polisi wneud yn eglur yr agwedd ddilyniannol i ddatblygu a pherygl llifogydd.<br><br>Gellir gwneud rôl rheoli dŵr yn gynaliadwy, megis drwy SUDS, yn eglur drwy groesgyfeirio at yr isadeiledd gwyrdd (a glas) a gwella bioamrywiaeth.<br><br>Bydd hyd a lled y posibiliadau yn cael eu gwneud yn fwy penodol drwy bolisïau manylach, megis polisïau dylunio, adeiladu cynaliadwy a gweithredu / meddiannu.<br><br>Argymhellir bod maen prawf rhif 9 y polisi yn cynnwys geiriad sy'n anelu at amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, er enghraifft – ... cynnal llif ac ansawdd y dŵr, gan gynnwys defnyddio systemau draenio cynaliadwy, yn *unol ag amcanion CRhBA Gorllewin Cymru* NEU drwy ychwanegu'r maen prawf cyffredinol (rhif 4 newydd) – i fodloni amcanion *CRhBA Gorllewin Cymru*. Mae'r argymhelliad wedi ei ymgorffori i'r Polisi. |

**Crynodeb**

Bydd dull y polisi hwn yn cynorthwyo unigolion a chymunedau i addasu i a bod yn fwy gwydn i effeithiau andwyol yn sgil newid hinsawdd. Mae'r polisi yn mynd i'r afael â'r holl ffactorau cydberthnasol – ailddefnyddio; yr hierarchaeth ynni; llifogydd; dyluniad a gosodiad; cynhyrchu bwyd yn lleol a phridd; cludiant a rheoli dŵr yn gynaliadwy – sydd oll yn gysylltiedig ag effeithiau newid hinsawdd.

Bydd lles dynol yn gwella gan fod mwy o sicrwydd y gellir gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd cyn gymaint â phosib ac y gellir lleihau'r perygl cyffredinol o lifogydd yn yr ardal. Datgan y polisi y lleolir pob datblygiad i ffwrdd oddi wrth ardaloedd lle mae perygl llifogydd, gyda'r nod o leihau'r perygl cyffredinol o lifogydd i fyny ac i lawr yr afon. Bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol cronnus hirdymor ar yr amcan AC hwn.

Bydd hyrwyddo defnydd effeithiol a chynaliadwy o adnoddau a deunyddiau a'r gofyn am roi ystyriaeth i'r hierarchaeth ynni yn cael effeithiau cadarnhaol. Bydd lleihau allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ac annog teithio drwy ddulliau eraill heblaw defnyddio ceir yn cael effeithiau cadarnhaol cronnus yn yr hirdymor.

[3] www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/floods/riverlevels/default.aspx

# ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

Bydd lleihau effaith datblygiadau newydd ar yr amgylchedd drwy gynnwys safonau uchel ar gyfer mesurau effeithlonrwydd dŵr, SUDS, dylunio ac adeiladu cynaliadwy, yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar fioamrywiaeth ac effeithiau cronnus cadarnhaol ar yr amgylchedd dŵr yn yr hirdymor. Byddai'r gofyn am fesurau ychwanegol megis gofyn am ddarpariaeth o isadeiledd gwyrdd a phlannu coed yn cael effeithiau cadarnhaol pellach ar fioamrywiaeth.

**Argymhellir** bod y Cynghorau yn cynnwys pwynt ychwanegol dan yr hierarchaeth ynni i gefnogi cynigion am brosiectau ynni cymunedol[4]. Gallai hyn fod yn briodol yma yn PS2 neu yn PS17 Technoleg Adnewyddadwy a Charbon Isel. Byddai hyn yn symud yr amcanion DC ymlaen ymhellach o ran ymgysylltiad ac ymglymiad.

**Argymhellir** y dylai'r polisi wneud yn eglur yr agwedd ddilyniannol i ddatblygu a pherygl llifogydd.

Datgan y polisi "cyn gymaint â phosib" o ran dylunio – gellir cryfhau hyn drwy ofyn am "safonau uchel" o ran dyluniad a gweithrediad cynaliadwy er mwyn gwrthsefyll effeithiau newid hinsawdd.

**Argymhellir** bod maen prawf rhif 9 y polisi yn cynnwys geiriad sy'n anelu at amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, er enghraifft - ... cynnal llif ac ansawdd dŵr yn amcanion CRhBA Gorllewin Cymru, gan gynnwys defnyddio systemau draenio cynaliadwy *yn unol ag amcanion CRhBA Gorllewin Cymru* NEU drwy ychwanegu maen prawf cyffredinol (rhif 4 newydd) – *bodloni'r amcanion a gynhwysir yn CRhBA Gorllewin Cymru* (a gweler isod). Mae'r argymhelliad wedi ei ymgorffori i'r polisi.

Mae'r polisi hwn ar effeithiau newid hinsawdd yn cynnwys polisi strategol ynglŷn a dŵr – llifogydd, llif, effeithlonrwydd yr adnodd, maint ac ansawdd. Mae'r gofynion ynghylch ansawdd dŵr, ac felly rheolaeth gynaliadwy o ddŵr, yn cael eu gyrru gan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE yn hytrach na dim ond effeithiau newid hinsawdd. Felly, **argymhellir** bod y Cynghorau yn cynnwys maen prawf cyffredinol (rhif 4 newydd) – *gweithredu rheolaeth gynaliadwy o ddŵr yn unol ag amcanion CRhBA Gorllewin Cymru.* Bydd hyn yn rhoi'r un statws i ddŵr ag ailddefnyddio / ailgylchu, yr hierarchaeth ynni a chludiant. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r Polisi.

[4] Canllaw pellach yn http://www.tcpa.org.uk/pages/community-energy-urban-planning-for-a-low-carbon-future-.html

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o’r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS3 Strategaeth Anheddiad**

Dosberthir datblygiad yn unol â’r strategaeth anheddiad isod sy’n seiliedig ar lefelau o ddarpariaeth, swyddogaeth a maint (poblogaeth) gwasanaethau’r anheddiad, ac yn amodol ar ei chapasiti amgylcheddol, cymdeithasol ac isadeiledd i ymdopi â datblygiad:

(i) Canolfan Isranbarthol

Bangor

Mae’n elwa ar goridor rheilffordd a phriffyrdd strategol cryf sy’n rhedeg drwy ogledd Cymru ac yn cysylltu’r canolfannau allweddol fel y’u cydnabyddir yng Nghynllun Gofodol Cymru. Mae’n ganolfan fanwerthu isranbarthol strategol ac yn gweithredu fel Canolfan drawsffiniol, yn darparu cyfleoedd cyflogaeth bychan, canolig a mawr ar safleoedd sefydledig a newydd; cyfleoedd/gwasanaethau addysg, addysg uwch, hamdden ac iechyd. Mae ganddi gysylltiadau cludiant cyhoeddus rhagorol gydag aneddiadau ar raddfa lai o fewn a thu allan i ardal y Cynllun.
Dros gyfnod y Cynllun, bydd cyfran uwch o ddatblygiad newydd sydd ei angen yn ardal y Cynllun yn digwydd o fewn ac wrth ymyl Bangor drwy gyfrwng cwblhau gwaith, ymrwymiadau, safleoedd ar hap a dyraniadau newydd. Bydd ffiniau aneddiadau yn cael eu diwygio er mwyn adlewyrchu’r datblygiadau arfaethedig. Bydd y Ganolfan yn darparu ar gyfer cyfuniad o dai ar y farchnad agored a thai fforddiadwy.

(ii) Canolfannau Gwasanaeth Trefol

<u>Ynys Môn</u>
Amlwch, Caergybi, Llangefni

<u>Gwynedd</u>
Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli

Disgrifiad o’r rôl

Mae’r Strategaeth yn cydnabod prif rôl y Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Maent yn cynnig yr amrediad da o gyflogaeth, cyfleusterau a gwasanaethau sy’n gwasanaethu eu poblogaeth eu hunain, ynghyd â’u dalgylchoedd ehangach. Cânt eu cydnabod yng Nghynllun Gofodol Cymru fel Prif Aneddiadau Allweddol, naill ai tu mewn i’r canolfannau a nodwyd, neu, fel yn achos Blaenau Ffestiniog, sydd â rôl drawsffiniol allweddol rhwng ardaloedd dau gynllun gofodol cenedlaethol. Mae gan y Canolfannau hyn, yn enwedig Caergybi, raddau uchel o fynediad o ran cludiant cyhoeddus a dulliau cynaliadwy eraill.

Yn ystod cyfnod y Cynllun, bydd cyfran uwch o ddatblygiad sydd ei angen yn ardal y Cynllun yn cael ei gyfeirio i'r Canolfannau hyn. Bydd y mwyafrif o ddatblygiadau newydd yn digwydd o fewn ac ar gyrion y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a bydd datblygiad yn cael ei wireddu drwy waith yn cael ei gwblhau, ymrwymiadau, safleoedd ar hap a dynodiadau newydd. Bydd ffiniau aneddiadau yn cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu'r datblygiadau arfaethedig. Bydd y Ganolfan yn darparu ar gyfer cyfuniad o dai ar y farchnad agored a thai fforddiadwy.

(iii) Canolfannau Gwasanaeth Lleol

Ynys Môn

Biwmares, Benllech, Bodedern, Cemaes, Gaerwen, Llanfairpwll, Porthaethwy, Pentraeth, Rhosneigr, Y Fali

Gwynedd

Abermaw, Abersoch, Bethesda, Criccieth, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn

Disgrifiad o'r rôl

Mae'r Strategaeth yn cydnabod rôl gyflenwol y Canolfannau Gwasanaeth Lleol, sy'n darparu ar gyfer anghenion gwasanaeth hanfodol eu poblogaeth eu hunain a thalgylchoedd gwledig cyfagos, ynghyd â rhywfaint o gyfleoedd cyflogaeth a manwerthu. Mae ganddynt radd dda o hygyrchedd gyda chludiant cyhoeddus i'r Canolfannau rheng uwch. Yn ystod cyfnod y Cynllun, bydd y twf mewn tai yn cael ei gyfeirio i dir o fewn ac ar ymylon y Canolfannau Gwasanaeth Lleol hyn. Bydd datblygiadau'n cael eu gwireddu drwy gwblhau gwaith, ymrwymiadau, safleoedd ar hap a, ble bo'n briodol, dynodiadau newydd. Bydd ffiniau aneddiadau yn cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu'r datblygiadau arfaethedig. Bydd y Canolfannau yn darparu ar gyfer cyfuniad o dai ar y farchnad agored a thai fforddiadwy, gan gynnwys angen lleol.

(iv) Pentrefi

Pentrefi Gwasanaeth

Ynys Môn

Gwynedd

Pentrefi Lleol

Ynys Môn

Gwynedd

Pentrefi Arfordirol/Gwledig
Ynys Môn

Gwynedd

Disgrifiad o’r rôl

Bydd graddfa datblygiadau arfaethedig y dyfodol yn adlewyrchu anghenion y Pentrefi o ran maint a swyddogaeth a’u perthnasau ffisegol a swyddogaethol gyda’r Canolfannau rheng uwch. Bydd hefyd yn adlewyrchu eu cymeriad cymdeithasol a statws y farchnad dai. Dros gyfnod y Cynllun bydd lefel uwch o dwf mewn tai yn cael eu cynnwys o fewn y Pentrefi Gwasanaeth. I adlewyrchu cymeriad y Pentrefi Lleol ac Arfordirol/Gwledig, bydd datblygiad tai yn cael ei gyfyngu i fath a graddfa er mwyn diwallu’r angen cymunedol am dai. Mewn Pentrefi Gwasanaeth, bydd datblygiad yn cael ei gyflawni drwy gwblhau gwaith, ymrwymiadau, safleoedd ar hap a, ble bo’n briodol, dynodiadau newydd ar gyfer cyfuniad o dai o werth y farchnad a’r angen lleol am dai fforddiadwy. Bydd mwy o ddatblygiadau cyfyngedig yn digwydd mewn Pentrefi eraill i warchod eu cymeriad, i gefnogi’r angen cymunedol am dai neu ar gyfer yr angen lleol am dai fforddiadwy. Ni fydd unrhyw safleoedd tai marchnad agored yn cael eu dynodi yn y math hwn o Bentrefi.

(v) Clystyrau

I’w gadarnhau

Disgrifiad o’r rôl

Dros gyfnod y Cynllun, ni fydd unrhyw ddynodiadau ar gyfer datblygiad o fewn y Clystyrau a enwir. Bydd yr angen lleol am unedau tai fforddiadwy yn cael eu caniatáu ar leiniau mewnlenwi neu leiniau sy’n ymestyn y clwstwr mewn lleoliadau derbyniol a chynaliadwy.

(vi) Patrwm dosbarthiad cyflenwol

Yn arferol, bydd lefelau uwch o dwf yn cael eu cyfeirio i’r Ganolfan Isranbarthol neu’r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a nodwyd ar y diagram allweddol. Pan fo’r Canolfannau hyn yn methu â dygymod â’r lefelau twf disgwyliedig, gellir diwallu’r diffyg mewn Canolfan Wasanaeth Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Lleol neu Bentrefi Gwasanaeth gerllaw sydd â chysylltiad swyddogaethol cydnabyddedig gyda’r Ganolfan Isranbarthol neu’r Ganolfan Wasanaeth Trefol.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Mae posib i'r polisi gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli a darnio cynefinoedd gan ddatblygiadau ynghyd â lefelau cynyddol o aflonyddwch. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar weithredu cynigion unigol.<br><br>Mae'r polisi yn canolbwyntio ar ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir y potensial lleiaf am effeithiau ar fioamrywiaeth. Gan y bydd lefelau uwch o dwf yn cael eu cyfeirio i'r aneddiadau mwy, bydd ardaloedd mwy gwledig Ardal y Cynllun, sydd fel arfer yn cynnwys gwerth uwch o fioamrywiaeth, yn cael eu harbed rhag lefelau gormodol o ddatblygiad. Mae Polisi PS15 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) yn ceisio diogelu bioamrywiaeth bwysig, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir. | Dylai'r polisïau mwy manwl geisio sicrhau bod mesurau lliniaru yn eu lle er mwyn lleihau unrhyw effaith andwyol ar fioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol yn gyffredinol, megis darparu isadeiledd gwyrdd a chynefinoedd newydd. |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | + | Mae potensial am effaith gadarnhaol oherwydd bydd y polisi'n cyfrannu tuag at gynnal cymunedau lleol drwy ddarparu datblygiadau newydd mewn lleoliadau ble mae eu hangen fwyaf. Dylai dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiad, a hwylusir gan y polisi, leihau anghydraddoldebau cymdeithasol drwy hwyluso dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiad yn nhermau gofodol. Mae'n caniatáu datblygiadau newydd cyfyngedig, yn enwedig tai, yn y mwyafrif o aneddiadau ac yn cyfrannu at dwf organig yr anheddiad nad yw wedyn yn effeithio'n andwyol ar hyfywdra cymunedol.<br><br>Byddai canoli datblygiadau mewn aneddiadau sefydledig yn lleoli tai yn agos at gyfleusterau a gwasanaethau allweddol y gellir cael mynediad iddynt drwy ddulliau cludiant cynaliadwy megis beicio a cherdded, gan gyfrannu at welliannau iechyd. Yn ogystal, byddai datblygiadau wedi'u lleoli ger y rhwydwaith cludiant cyhoeddus yn galluogi trigolion i gael mynediad i fwynderau yn rhywle arall. Effeithiau cadarnhaol hirdymor.<br><br>Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod datblygiadau'n adlewyrchu cymeriad presennol yr ardaloedd. | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **Newid Hinsawdd** | - | Mae cynnydd cyffredinol mewn datblygiad yn debygol o arwain at gynnydd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr o adeiladau yn ogystal ag o'r traffig newydd a grëir. Fodd bynnag, gall y polisi alluogi lleihad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr gan nad oes cymaint o angen teithio. Bydd dosbarthu datblygiad yn unol â fframwaith yr strategaeth a ffafrir yn cefnogi'r nod o ddiwallu anghenion yn lleol a chynorthwyo i leihau ôl-troed carbon Ynys Môn a Gwynedd oherwydd byddai'r mwyafrif o ddatblygiadau wedi'u lleoli ger y prif ardaloedd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau eraill, gan felly leihau'r angen i deithio.<br><br>Dylai'r patrwm datblygu gwasgaredig a hwylusir gan y Polisi hwn gyfrannu at wella ansawdd yr aer gan y dylai helpu i osgoi creu ardaloedd crynodol o ansawdd aer gwael. Mae gan leihad yn y nifer o deithiau mewn cerbydau hefyd y potensial am effeithiau cadarnhaol ar ansawdd yr aer. | Bydd angen i bolisïau manwl hwyluso datblygiadau ynni effeithlon er mwyn lleihau allyriadau carbon cyffredinol yn sgil defnyddio ynni, yn enwedig ar safleoedd llai gan y gellid cael anawsterau yn seiliedig ar hyfywdra ariannol integreiddio cynlluniau o'r fath. |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | + | Gan fod y Polisi hwn yn caniatáu datblygiadau drwy holl Ardal y Cynllun, bydd yn gymorth i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu cyfleusterau tai yn lleol, ble mae'r gofyn amdanynt. Yn ei dro, dylai hyn hyrwyddo cadw'r boblogaeth a chan hynny hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg.<br><br>Gweler Asesiad Effaith Ieithyddol am fwy o wybodaeth. | Dylai polisïau manwl fod yn gymorth i gefnogi hyfywdra cymunedol e.e. drwy ddarparu tai i bobl leol er mwyn cadw'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Hefyd, dylid rhoi ystyriaeth i'r math o dai a ddarperir. |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | +/- | Mae gan y lefel twf a fwriedir y potensial i gael effaith andwyol ar dreftadaeth a diwylliant, gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol a'i osodiad. Bydd yr union effaith ar ddatblygiadau'n dibynnu ar eu hunion leoliad mewn perthynas ag asedau hanesyddol a graddfa'r datblygiadau arfaethedig. | Dylai polisïau manwl yn y Cynllun hyrwyddo mesurau lliniaru gan sicrhau dylunio o ansawdd da sy'n parchu golygfeydd presennol er mwyn osgoi ardrawiadau sylweddol ar asedau diwylliannol a hanesyddol. |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | ++ | Bydd darparu safleoedd ar gyfer cyflogaeth yn gymorth i gefnogi trefi a phentrefi mwy hunan-gyfyngiad mewn trefi a phentrefi a mynediad lleol i swyddi heb yr angen i gymudo ymhellach.<br><br>Ceir potensial am effeithiau cadarnhaol mawr drwy hwyluso twf economaidd ym mhob anheddiad ar draws Ardal y Cynllun. Mae'r polisi'n annog buddsoddiad mewnol cyfatebol, gwasanaethau gwell | Dylai polisïau manwl sicrhau bod tir a ddyrennir er dibenion cyflogaeth mewn lleoliadau hygyrch ac yn cael eu gwasanaethu gan rwydwaith cludiant cynaliadwy effeithiol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | a'r ddarpariaeth o gyfleoedd cyflogaeth ledled Ardal y Cynllun.<br><br>Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof mai oherwydd natur y datblygiad gallai'r cyfleoedd cyflogaeth a ddaw yn sgil hyn fod mewn safleoedd nad ydynt yn hygyrch i rai carfannau o'r boblogaeth. | |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | ++ | Yn gyffredinol, byddai gan yr opsiwn hwn effaith gadarnhaol fawr hirdymor ar Dai. Byddai canolbwyntio ar wasgaru datblygiad yn caniatáu dewis ehangach o dai drwy'r rhan fwyaf o Ardal y Cynllun ac a fyddai'n diwallu'r angen am dai yn lleol. Byddai hyn hefyd yn gymorth i leihau gwahaniaethau rhwng ardaloedd trefol a gwledig. | Dylai polisïau manwl gefnogi darpariaeth tai sydd yn bodloni anghenion lleol. |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Gan y byddai'r polisi hwn yn galluogi dosbarthiad datblygiad mewn modd mwy cymesur, byddai'r effaith bosibl ar dirweddau a threfweddau yn fwy gwasgaredig ar draws Ardal y Cynllun. Byddai'r polisi'n caniatáu datblygiadau newydd wedi'u cyfyngu yn y rhan fwyaf o aneddiadau ac yn cyfrannu tuag at batrymau twf naturiol aneddiadau fyddai wedyn yn llai tebygol o effeithio ar nodweddion y dirwedd o'u cymharu ag opsiynau eraill.<br><br>Fodd bynnag, bydd y gwir effaith ar yr amgylchedd adeiledig yn dibynnu ar raddfa, natur a lleoliad y datblygiad o ran y trefweddau a thirweddau o werth. Byddai'n rhaid dylunio datblygiadau i safon uchel gan ymgorffori'r drefwedd a'r cymeriad gwledig presennol.<br><br>Mae gan y lefel twf a fwriedir y potensial i gael effaith andwyol ar dirweddau a threfweddau. Bydd angen i'r polisïau manwl yn y Cynllun ddarparu mesurau diogelwch a lliniaru priodol. | Dylai polisïau manwl hyrwyddo egwyddorion dylunio da a chaniatáu datblygiadau sy'n adlewyrchu graddfa a chymeriad yr amgylchedd presennol yn unig.<br><br>Ni ddylai datblygiadau gael ardrawiad arwyddocaol ar ardaloedd fel AHNE / Parc Cenedlaethol. |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | +/- | Gallai patrwm dosbarthiad gwasgaredig datblygiad, a hwylusir gan y Polisi hwn, arwain at lai o safleoedd tir glas a thiroedd amaethyddol da yn cael eu colli, yn dibynnu ar raddfa a lleoliad y datblygiad. | Ble bynnag y bo modd, bydd angen i bolisïau manwl hwyluso datblygiadau ar dir llwyd.<br><br>Mewn amgylchiadau priodol, bydd angen ymgorffori cynlluniau rheoli gwastraff cynaliadwy o fewn datblygiadau. |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | + | Drwy ganolbwyntio twf mewn ardaloedd sydd eisoes â gwasanaethau a chyfleusterau da, bydd y polisi hwn yn gwella mynediad i'r boblogaeth breswyl. | Dylai polisïau manwl hyrwyddo datblygiadau sydd yn agos at rwydweithiau trafnidiaeth presennol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Ceir potensial am effaith gadarnhaol sylweddol ar drafnidiaeth gan y byddai tai'n cael eu lleoli'n agos at y prif ardaloedd ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau, a allai leihau'r angen i deithio.<br><br>Byddai natur wasgaredig y datblygiad yn gwella mynediad i rai cymunedau gwledig gan y byddai peth datblygiad yn cael ei dywys yma. Byddai'r ddarpariaeth dai yn Ardal y Cynllun yn cyfrannu at greu a chynnal lefel boblogaeth sydd yn cefnogi gwasanaethau a busnesau lleol mewn trefi a phentrefi llai. | |
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | +/- | Mae yna botensial i ddatblygiadau effeithio'n andwyol ar yr amcan AC hwn. Bydd llawer yn dibynnu ar leoliad y safleoedd a'r ddarpariaeth o isadeiledd addas er mwyn osgoi ardrawiadau. Mae natur a maint penodol yr effaith yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas ag adnoddau dŵr (e.e. afonydd) ac ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd, y gallu i ddal dŵr ar hyn o bryd a pha mor addas yw'r isadeiledd dŵr gwastraff i dderbyn twf. | Dylai polisïau manwl hyrwyddo effeithiolrwydd dŵr a mesurau addasu mewn datblygiadau newydd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd (e.e. SUDS) |

**Crynodeb**

Yn gyffredinol, golyga'r dosbarthiad cymesurol, a hwylusir gan y Polisi hwn, fod y polisi'n ymdrin â gofynion y boblogaeth ehangach ac, yn gyffredinol, yn perfformio'n dda yn erbyn yr amcanion cymdeithasol-economaidd, gydag effeithiau cadarnhaol hirdymor. Bydd datblygiadau'n cael eu tywys i aneddiadau presennol, fydd felly'n cynnal cymunedau lleol drwy gyflwyno datblygiadau newydd mewn lleoliadau lle mae'r gofyn mwyaf amdanynt. O ran perfformiad y polisi yn erbyn yr amcanion amgylcheddol, bydd union raddfa a maint unrhyw effaith yn dibynnu ar leoliad a math y datblygiadau mewn perthynas ag asedau amgylcheddol pwysig. Bydd yn bwysig i'r polisïau mwy manwl, a gynhwysir yn y Cynllun Adneuo, ymdrin ag effeithiau andwyol posib ar wahanol agweddau o'r amgylchedd a darparu mesurau lliniaru addas i negyddu neu leihau unrhyw effaith.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS4 Datblygiad yng Nghefn Gwlad**

Mewn ardaloedd a ddynodir yn Gefn Gwlad, bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i'r hyn sydd angen lleoliad gwledig ac sydd ar gyfer un neu fwy o'r canlynol:

1. amaethyddiaeth;
2. coedwigaeth;
3. cadw Adeiladau Rhestredig;
4. ailddefnyddio ac addasu adeiladau at ddibenion pwrpasol;
5. amddiffyn yr arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd;
6. tai fforddiadwy yn unol â 'pholisi safle gwledig eithriedig' y CDLl ar y Cyd;
7. ymestyn adeiladau annedd a chodi rhai eraill yn eu lle;
8. estyniadau i fusnesau presennol;
9. safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr;
10. cynigion adeiladu newydd sy'n creu cyflogaeth lle mae cyfiawnhad penodol yn amgylcheddol neu o ran gweithredu;
11. gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol sy'n bodloni angen lleol wedi'i brofi;
12. datblygiadau gan ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus;
13. adloniant a thwristiaeth;
14. prosiectau ynni adnewyddadwy;
15. cludiant;
16. mwyngloddio;
17. cyfleusterau rheoli gwastraff, sydd wedi'u lleoli orau oddi wrth y canolfannau poblogaeth i leihau materion sy'n achosi poendod.

| Amcan AC | | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Mae'r polisi'n anelu at gyfyngu datblygiad mewn ardaloedd sydd wedi eu dynodi'n gefn gwlad agored oni bai fod y datblygiad o fath penodol. Mae gan y polis y potensial i arwain at ddatblygiad yng nghefn gwald. lle ceir y potensial mwyaf am effeithiau ar fioamrywiaeth. Felly, mae posib i'r polisi gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth oherwydd colli a darnio cynefinoedd gan ddatblygiadau ynghyd â lefelau cynyddol o aflonyddwch. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar weithredu cynigion unigol.<br><br>Mae gwahanol fathau o ddatblygiad yn debygol o gael gwahanol | Bydd mesurau lliniaru a gwella yn y Cynllun Adneuo yn bwysig i ddiogelu asedau bioamrywiaeth pwysig yn Ardal y Cynllun.<br><br>Byddai'r polisi'n well pe cynhwysir cafeat er mwyn sicrhau y diogelir nodweddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd yr ardal:<br><br>Mewn ardaloedd a ddynodir yn Gefn Gwlad, **<u>yn</u>** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | fathau o effeithiau ar asedau bioamrywiaeth o werth. Bydd yr union effaith yn dibynnu ar nifer o ffactorau gan gynnwys math, graddfa a lleoliad y datblygiadau mewn perthynas ag asedau bioamrywiaeth. Yn ogystal, bydd natur unrhyw effaith bosib yn ddibynnol ar y derbynnydd h.y. sensitifrwydd cynefin neu rywogaeth benodol sydd yn debygol o gael eu heffeithio.<br><br>Mae Polisi PS15 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) yn ceisio diogelu bioamrywiaeth bwysig, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir. | **amodol ar ei gapasiti amgylcheddol, cymdeithasol ac isadeiledd i ymdopi â newid**, bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i'r hyn sydd angen lleoliad gwledig ac sydd ar gyfer un neu fwy o'r canlynol |
| **2** | **Cymuned ac Iechyd** | **+** | Mae potensial am effaith gadarnhaol oherwydd bydd y polisi'n cyfrannu tuag at gynnal cymunedau lleol drwy ddarparu datblygiadau newydd mewn lleoliadau ble mae eu hangen fwyaf. Dylai cyfeirio swm cyfyngedig o ddatblygiadau i gefn gwlad leihau anghydraddoldebau cymdeithasol drwy hwyluso dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiadau yn nhermau gofodol a all helpu i leihau allfudo pobl oed gwaith. Mae'n cyfrannu at y datblygiad cymdeithasol-economaidd a fydd yn gwella hyfywdra cymunedol. Fodd bynnag, bydd yn bwysig bod datblygiadau'n adlewyrchu cymeriad presennol yr ardaloedd. | Gweler yr addasiad a awgrymir yn Amcan 1 AC uchod. |
| **3** | **Newid Hinsawdd** | **+** | Gall y ddarpariaeth o gyfleoedd tai a chyflogaeth yng nghefn gwald helpu i leihau'r angen i gymunedau gwledig i deithio.  Mae gan hyn y potensial i gael effaith bositif ar newid hinsawdd drwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o drafnidiaeth.  Mae'r polisi hefyd yn hwyluso datblygiad prosiectau ynni adnewyddol sydd hefyd â'r potensial i gael effaith bositif ar newid hinsawdd. | Dim |
| **4** | **Yr Iaith Gymraeg** | **+** | Gan fod y Polisi hwn yn caniatáu datblygiadau mewn ardaloedd gwledig, bydd yn gymorth i gefnogi bywiogrwydd cymunedol drwy ddarparu cyfleusterau tai yn lleol, ble mae'r gofyn amdanynt. Yn ei dro, dylai hyn helpu i gadw'r boblogaeth a chan hynny hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg.<br><br>Gweler Asesiad Effaith Ieithyddol am fwy o fanylion. | Dylai polisïau manwl fod yn gymorth i gefnogi hyfywdra cymunedol e.e. drwy ddarparu tai i bobl leol fel y cedwir y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. |
| **5** | **Treftadaeth/diwylliant** | **+/-** | Mae'r polisi, yn uniongyrchol, yn hwyluso datblygiadau sy'n anelu at gadw adeiladau rhestredig. Ar y llaw arall, bydd union effaith y datblygiadau ar dreftadaeth ac asedau diwylliannol yn dibynnu ar eu | Dylai polisïau manwl yn y Cynllun hyrwyddo mesurau lliniaru gan sicrhau dylunio o ansawdd da sy'n parchu golygfeydd presennol er mwyn osgoi ardrawiadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | lleoliad mewn perthynas ag asedau hanesyddol a graddfa'r datblygiadau arfaethedig. | sylweddol ar asedau diwylliannol a hanesyddol.<br><br>Gweler yr addasiad a awgrymir yn Amcan 1 AC uchod. |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | ++ | Bydd hwyluso amrediad o gyfleoedd cyflogaeth yn gymorth i gefnogi pentrefi a chymunedau gwledig mwy hunangynhaliol gan ddarparu mynediad i swyddi heb yr angen i deithio ymhellach. Potensial am effeithiau positif hir-dymor.<br><br>Fodd bynnag, dylid cadw mewn cof mai oherwydd natur wasgaredig y datblygiad gallai'r cyfleoedd cyflogaeth a ddaw yn sgil hyn fod mewn safleoedd nad ydynt yn hygyrch i rai carfannau o'r boblogaeth. | Dylai polisïau manwl sicrhau bod tir a ddyrennir er dibenion cyflogaeth mewn lleoliadau hygyrch ac yn cael eu gwasanaethu gan rwydwaith cludiant cynaliadwy effeithiol. |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | ++ | Mae'r polisi, yn uniongyrchol, yn hwyluso'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy a ddylai ddiwallu anghenion y boblogaeth mewn ardaloedd gwledig. Bydd y ddarpariaeth dai yn cael ei rheoli a'i chyfyngu i ofynion cymunedau penodol drwy gyfrwng y polisi 'safle gwledig eithriedig'. Potensial am effeithiau cadarnhaol hirdymor. | Dim |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | O bosib, gallai rhai math o ddatblygiad, a hwylusir gan y polisi, gael effaith andwyol ar y dirwedd a'r drefwedd yn sgil natur a graddfa'r datblygiadau hynny e.e. mwyngloddio. Fodd bynnag, bydd yr effaith gyffredinol yn dibynnu ar y math o ddatblygiad mewn perthynas â gwerth y dirwedd, a pha mor dda mae'r datblygiad wedi cael ei ddylunio fel nad yw'n effeithio'n andwyol ar yr adnodd hwn. | Dylai Polisi PS15 gyfrannu a ddiogelu asedau o'r fath. |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | +/- | Gallai caniatau ddatblygiadau yng nghefn gwlad, fel yr hwylusir gan y Polisi hwn, arwain at lai o safleoedd tir glas a thiroedd amaethyddol da yn cael eu colli, yn dibynnu ar raddfa a lleoliad y datblygiadau. Mae'r polisi hefyd, yn uniongyrchol, yn hwyluso'r datblygiad o gyfleusterau rheoli gwastraff. | Dylai Polisi PS15 gyfrannu a ddiogelu asedau o'r fath. |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | + | Byddai natur wasgaredig datblygiadau mewn ardaloedd gwledig yn gwella mynediad i rai cymunedau gwledig gan y byddai peth datblygiad yn cael ei dywys yma. Mae'r polisi hefyd, yn uniongyrchol, yn hwyluso datblygiadau trafnidiaeth yng nghefn gwlad. Potensial am effeithiau positif hir dymor. | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | +/- | Mae potensial effeithiau datblygiadau yn dibynnol ar leoliad y safleoedd a'r ddarpariaeth o isadeiledd addas er mwyn osgoi ardrawiadau. Mae natur a maint penodol yr effaith yn dibynnu ar leoliad y datblygiadau mewn perthynas ag adnoddau dŵr (e.e. afonydd) ac ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd, y gallu i ddal dŵr ar hyn o bryd a pha mor addas yw'r isadeiledd dŵr gwastraff i dderbyn twf. Ar nodyn cadarnhaol, mae'r Polisi, yn uniongyrchol, yn hwyluso datblygiadau i amddiffyn yr arfordir ac i amddiffyn rhag llifogydd. | Dylai polisïau manwl hyrwyddo effeithiolrwydd dŵr a mesurau addasu mewn datblygiadau newydd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau newid hinsawdd (e.e. SUDS).<br><br>Mae polisi PS1 (Datblygiad Cynaladwy) gyfrannu at ddiogelu adnoddau dŵr a rheoli peryg llifogydd. |

**Crynodeb**

Dylai arwain datblygiadau i gefn gwlad gael effeithiau cadarnhaol ar gyfer yr amcanion AC sy'n berthnasol i gymunedau gwledig a'r economi wledig drwy leihau angyhydraddoldebau cymdeithasol a gwella mynediad at dai a chyflogaeth yn ogystal â gwasanaethau a chyfleusterau. Mae gan y ddarpariaeth o dai, cyflogaeth a gwasanaethau yng nghefn gwlad y potensial i leihau'r angen i gymunedau gwledig i deithio. Mae gan hyn y potensial i gael effeithiau positif ar yr amcanion AC sy'n berthnasol i gymunedau, trafnidiaeth a newid hinsawdd. O ran perfformiad y polisi yn erbyn yr amcanion amgylcheddol, bydd union raddfa a maint unrhyw ardrawiadau yn dibynnu ar leoliad a math y datblygiad mewn perthynas ag asedau amgylcheddol pwysig. Yn gyffredinol, mae gan gefn gwlad fwy o werth yn nhermau amgylcheddol o'i gymharu ag aneddiadau a chanolfannau sefydledig. Mae asedau o'r fath yn cynnwys nodweddion tirwedd a bioamrywiaeth pwysig. Bydd yn bwysig i'r polisïau mwy manwl, a gynhwysir yn y Cynllun Adneuo, ymdrin ag ardrawiadau andwyol posib ar wahanol agweddau o'r amgylchedd a darparu dulliau lliniaru addas i isafu ardrawiadau posib.

**Polisi Strategol PS5 Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr**

Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol er mwyn gwella cynaliadwyedd ein cymunedau.

Bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau darpariaeth ddigonol o isadeiledd hanfodol i wneud y datblygiadau'n dderbyniol, unai drwy amod neu drwy rwymedigaeth cynllunio. Efallai bydd gofyn cael rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer taliadau cynnal er mwyn talu am gostau cychwynnol gwasanaethau a chyfleusterau ac i ddigolledu cymunedau am golled neu ddifrod a achosir gan ddatblygiadau.

Lle na ellir darparu'r isadeiledd hanfodol ar y safle ("mewn ffyrdd eraill"/"*in kind*"), gofynnir am gyfraniadau ariannol o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gael buddsoddiad hanfodol oddi ar y safle. Os yw effaith y datblygiadau'n gronnus, gellir cronni'r cyfraniadau ariannol er mwyn lliniaru'r effaith gronnus.

Mae'r isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol y gellid gofyn amdanynt fel a ganlyn, ond nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth:

<u>Isadeiledd ffisegol</u>

- Rhwydwaith cludiant cynaliadwy (gan gynnwys cludiant cyhoeddus, llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio)
- Mannau Parcio
- Isadeiledd Draenio
- Rheoli perygl llifogydd
- Rheoli gwastraff yn gynaliadwy
- Rheoli dŵr yn gynaliadwy
- Rhwydwaith band-eang a ffôn symudol
- Isadeiledd ynni carbon isel ac ynni adnewyddol

<u>Isadeiledd cymdeithasol</u>

- Tai fforddiadwy, gan gynnwys angen lleol
- Llecynnau agored cyhoeddus, cyfleusterau hamdden a chwarae
- Darpariaeth addysgol (gan gynnwys hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg i ddysgwyr)

- Cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys iechyd, llyfrgelloedd, canolfannau crefyddol)
- Mynwentydd
- Mentrau cyflogaeth a hyfforddiant lleol

Isadeiledd gwyrdd/glas

- Mesurau cadwraeth natur a lliniaru effeithiau, e.e. cynlluniau bioamrywiaeth
- Gwelliannau i'r rhwydwaith bresennol o isadeiledd gwyrdd/glas
- Gwelliannau amgylcheddol
- Cylch cyhoeddus

Mae'r Cyngor yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno Ardoll Isadeiledd Cymunedol (CIL), gan roi sylw i effaith hynny ar hyfywdra datblygiad. Bydd y CIL yn destun proses a dogfennau ar wahân i'r CDLl ar y Cyd.

| Amcan AC | | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Yng nghyd-destun y polisi hwn, mae isadeiledd yn cynnwys isadeiledd gwyrdd a mesurau ar gyfer gwarchod natur a ddylai wella bioamrywiaeth yn yr hirdymor. Fodd bynnag, gall unrhyw ddatblygiad gael effeithiau andwyol ar fioamrywiaeth a bydd yn bwysig cynnwys mesurau lliniaru manwl yn y Cynllun Adneuo. Dylai Polisi PS15 liniaru unrhyw effaith negyddol ar y lefel strategol hon. | Gellid cryfhau'r Polisi drwy gynnwys "**Cynlluniau bioamrywiaeth**" yn y rhestr o isadeiledd gwyrdd posib y gellid gofyn amdanynt.<br><br>Awgrymir hefyd y dylai'r rhestr o gyfleusterau isadeiledd fod yn berthnasol â diogelu a gwella gwasanaethau ecosystem.<br><br>Isadeiledd Gwyrdd **<u>a gwasanaethau ecosystem</u>** |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | ++ | Yng nghyd-destun y polisi, mae isadeiledd yn cynnwys cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau iechyd, mannau agored, cyfleusterau hamdden a chwarae a ddylai gynorthwyo i wella iechyd a lles trigolion a chyflawni effeithiau cadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn. Effaith gadarnhaol fawr. | Dylai gwasanaethau lleol fod yn eu lle ers dyddiau cynnar datblygiadau newydd er mwyn cynorthwyo trigolion newydd cyn gynted â phosib. |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | + | Yng nghyd-destun y polisi, mae isadeiledd yn cynnwys cyfleusterau cludiant cynaliadwy a ddylai gynorthwyo i wella ansawdd aer ar lefel lleol. Dylai hyn hefyd arwain at fuddion hirdymor ar gyfer newid | Gellid cryfhau'r polisi drwy bwysleisio'r angen am isadeiledd a gwasanaethau cludiant cynaliadwy: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hinsawdd. Yn ogystal, dylai isadeiledd gwyrdd gynorthwyo i wella ansawdd aer.<br><br>Gall datblygu cyfleusterau cymunedol ble mae'r gofyn amdanynt gynorthwyo i leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ar gyfer tripiau byr, a allai hefyd wella ansawdd aer.<br><br>Mae'r polisi hefyd yn hwyluso datblygiadau ynni adnewyddol a datblygiadau carbon isel. | • ~~Symudiadau traffig~~ **<u>Isadeiledd Cludiant Cynaliadwy</u>** |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | + | Gan fod y polisi'n amodi'r ddarpariaeth o gyfleusterau addysgol ac eraill, gallai hyn gefnogi a gwella'r defnydd o'r iaith Gymraeg ynghyd â chadw'r boblogaeth bresennol sy'n siarad Cymraeg yn eu cymunedau, a chael effaith gadarnhaol. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | +/- | Gall isadeiledd newydd, gan gynnwys adeiladau newydd, gynorthwyo i wella'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol. Fodd bynnag, mae llawer yn ddibynnol ar ddyluniad yr adeiladau newydd. Dylai unrhyw ddatblygiadau isadeiledd newydd wella a chyd-fynd â'r amgylchedd adeiledig presennol.<br><br>Er hynny, gallai darparu isadeiledd newydd uwchben ac islaw datblygiadau ar y ddaear darfu ar archaeoleg. | Dylai polisïau manwl yn y Cynllun ddiogelu asedau diwylliannol a threftadaeth bwysig, gan gynnwys archaeoleg. |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | + | Mae'r polisi hefyd, yn benodol, yn hwyluso datblygiadau mentrau cyflogaeth a hyfforddiant lleol. Yn ogystal, mae'n gofyn am ddarpariaeth o gyfleusterau addysgol i fod yn rhan o ddatblygiadau newydd priodol a ddylai gyflawni effeithiau cadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | + | Hwylusir yr angen am dai fforddiadwy gan y polisi a ddylai gael effeithiau buddiol ar yr amcan hwn. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd hyn yn cael ei gyflawni i ddiwallu'r angen lleol am dai fforddiadwy newydd. | Byddai'r Polisi'n cael ei gryfhau drwy amodi'r angen am dai ar gyfer anghenion lleol.<br><br>• Tai fforddiadwy, **<u>yn cynnwys ar gyfer anghenion lleol</u>** |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Dylai'r ddarpariaeth o isadeiledd gwyrdd drwy'r polisi hwn, gan gynnwys mannau agored, gefnogi ac amddiffyn elfennau'r dirwedd. Fodd bynnag, o ran datblygiadau isadeiledd eraill, bydd llawer yn | Dylai polisïau manwl sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u hintegreiddio'n briodol a sensitif gyda chymeriad y dirwedd a'r drefwedd yn ardal y cynllun. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | dibynnu ar ddyluniad yr adeiladau newydd. Dylai unrhyw ddatblygiadau isadeiledd newydd wella a chyd-fynd â nodweddion y dirwedd a'r drefwedd bresennol. | |
| **9** | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | **+/-** | Gallai isadeiledd newydd arwain at ddiraddiad tir a phridd. Bydd hyn yn ddibynnol ar weithredu polisïau eraill. Fodd bynnag, mae'r polisi'n hwyluso'r datblygiad o isadeiledd rheoli gwastraff. | Gellir gwella'r Polisi ymhellach drwy fynnu isadeiledd rheoli gwastraff cynaliadwy.<br>• Rheoli gwastraff **yn gynaliadwy** |
| **10** | **Trafnidiaeth a Mynediad** | **+** | Yng nghyd-destun y polisi, mae isadeiledd yn cynnwys cludiant cyhoeddus, llwybrau beicio a llwybrau troed. Felly, dylai'r polisi gynorthwyo i gyflawni datblygiadau hygyrch a lleihad yn yr angen i deithio drwy ddulliau cludiant preifat. Yn ogystal, dylai'r polisi alluogi gwell hygyrchedd i gefn gwlad drwy ddarparu isadeiledd newydd. Effaith gadarnhaol ar gludiant. | Dim |
| **11** | **Perygl dŵr a llifogydd** | **+/-** | Yng nghyd-destun y polisi, mae isadeiledd yn cynnwys isadeiledd draenio ac isadeiledd sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd sydd yn hanfodol wrth gynnal neu wella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.<br><br>Fodd bynnag, bydd unrhyw ddatblygiad yn cynyddu lefel y galw am gyflenwad dŵr a'r garthffosiaeth a gall datblygiadau mewn aneddiadau presennol roi ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd mewn perygl cynyddol. | Gellid cryfhau'r Polisi drwy alw am **gynlluniau rheoli dŵr cynaliadwy** yn y rhestr o isadeiledd corfforol. |

**Crynodeb**

Mae darparu isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol addas yn bwysig i gynnal a mwyhau bywiogrwydd cymunedol ynghyd â gwella iechyd a lles. Mae asesiad o'r Polisi hwn wedi dangos ei fod wedi perfformio'n gadarnhaol yn erbyn y mwyafrif o amcanion AC. Mae'r polisi'n hwyluso'r datblygiad o isadeiledd digonol a fydd o fudd i gymunedau drwy ddarparu, er enghraifft, dulliau cludiant digonol, tai fforddiadwy a chyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Fodd bynnag, mae'r asesiad wedi dangos bod datblygiad yn gallu effeithio'n andwyol ar asedau amgylcheddol a diwylliannol/treftadaeth, a bydd angen lliniaru effeithiau drwy ddarparu polisïau manwl yn y Cynllun Adneuo. Bydd hefyd yn bwysig i'r Cynllun Adneuo gynnwys mwy o fanylion ar fathau penodol o isadeiledd, ynghyd â sut y byddant yn cael eu cyflwyno'n raddol i ddatblygiad.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS6 – Cynigion am brosiectau isadeiledd mawr**

Yn rhinwedd eu swydd fel yr awdurdod sy'n caniatáu datblygiad cysylltiol neu fel rhan o broses ymgynghori ar geisiadau a wneir i gyrff eraill, o fewn cyd-destun datganiadau polisi cenedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd y Cynghorau'n sicrhau bod y datblygiad yn cyfrannu'n gadarnhaol tuag at gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion strategol a geir yn rhan 6 y ddogfen hon ac yn strategaeth ddatblygu'r Cynllun. Wrth wneud hyn, rhoddir ystyriaeth i natur, graddfa, amrediad ac effaith posib unrhyw ddatblygiad.

Bydd y Cynghorau felly'n anelu i sicrhau cydymffurfiad â'r hyn a ganlyn, cyn belled bod hynny'n briodol neu'n berthnasol:

1. Bydd y datblygiad a'r isadeiledd cysylltiol/ategol, gan gynnwys unrhyw gynigion am lety, cyfleusterau addysg a hyfforddiant, cyflogaeth, cadwyni cyflenwi ac isadeiledd trafnidiaeth, cymuned, amgylcheddol a gwyrdd yn cyfrannu at gydbwysedd o allbynnau cadarnhaol i gymunedau lleol, ymwelwyr ac i'r amgylchedd;
2. Y cyflwynir asesiad o sut y bu i'r gwaith o ystyried opsiynau amgen ddylanwadu ar y bwriad;
3. Y darperir asesiad cynhwysfawr o effeithiau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, hanesyddol a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd ac amwynder), ieithyddol a diwylliannol, trafnidiaeth ac economaidd y cynnig (boed hwy'n gadarnhaol, negyddol neu'n gronnus) yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu, digomisiynu ac adfer (os yn berthnasol), yn ogystal â mesurau i'w cyflawni (os yn briodol) i osgoi, lleihau, lleddfu a/neu wneud iawn am y niwed a berir;
4. Darparu cyfraniadau i'r Cyngor, neu sefydliad priodol arall y cytunir arno, i wneud iawn am unrhyw effeithiau andwyol a niwed a berir gan y prosiect drwy ymgysylltu'n effeithiol â'r cymunedau lleol a'r Cyngor yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais. Yr amcan yw adnabod mesurau, prosiectau a gwasanaethau i wella lles a chynaliadwyedd tymor hir y cymunedau a gaiff eu heffeithio;
5. I gydnabod y baich a'r aflonyddwch a ysgwyddir gan gymuned sy'n lletya prosiect isadeiledd o bwys cenedlaethol neu ranbarthol; gall y Cyngor ofyn am ddarpariaeth o becynnau priodol o fuddion cymunedol gan y datblygwr i wneud iawn ac i ddigolledu'r gymuned am y baich a gafwyd wrth letya'r prosiect;
6. Manteisir i'r eithaf ar fuddion economaidd a chymunedol pan fo hynny'n ddichonadwy, drwy ddod i gytundeb â'r Cyngor ar strategaethau ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio a hynny yn gynnar yn y gwaith o ddatblygu'r prosiect;
7. Diwallu gofynion darpariaethau deddfwriaethol Rheoliadau Cynefinoedd 2010;
8. Darparu mesurau amddiffyn rhag llifogydd i reoli risg llifogydd, ac i ddarparu gwelliannau yn y gymdogaeth pan fo hynny'n ddichonadwy. Darparu asesiad o effeithiau rhagweladwy'r cynnig ar yr amgylchedd morol a daearol a chyflawni mesurau i reoli a lleihau unrhyw niwed a berir.

Er mwyn cael digon o wybodaeth i asesu effeithiau'r cynigion, gall y Cyngor ofyn am baratoi cynlluniau cyflwyno neu reoli i nodi'r mesurau hyn er mwyn gwneud y mwyaf o'r buddion ac i leddfu a/neu ddigolledu am effeithiau, pan fo polisi cenedlaethol neu leol yn cyfiawnhau hynny. Dylai'r cynlluniau hyn nodi'r

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| amserlen gyflawni a'r systemau a'r adnoddau a ddefnyddir i weithredu'r mesurau arfaethedig. | | | | |
| **Amcan AC** | | **Asesiad** | **Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio)** | **Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella** |
| **1** | **Bioamrywiaeth** | **+/-** | Mae'n bosib y gall prosiectau isadeiledd mawr gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth; fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar fath, graddfa a lleoliad y cynigion unigol. | Dylai'r polisiau manwl gynnwys mesurau lliniaru priodol i negyddu unrhyw effeithiau posib ar fioamrywiaeth. Bydd angen cwblhau amrywiaeth o asesiadau amgylcheddol ecolegol ac ehangach i sicrhau na chaiff yr amgylchedd naturiol ei effeithio'n sylweddol. |
| **2** | **Cymuned ac Iechyd** | **+** | Gallai'r polisi hwn gael effaith gadarnhaol ar yr amcan hwn. Mae'n hwyluso'n uniongyrchol y gwaith o ddatblygu isadeiledd cymuned a dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar fywiogrwydd cymuned ac felly hefyd ar iechyd a lles. Bydd gwelliannau i'r isadeiledd yn gwneud cymunedau'n le gwell i fyw ac felly'n helpu i gadw'r boblogaeth bresennol. Mae'r Polisi hefyd yn nodi pwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol gyda'r cymunedau lleol o ran datblygu prosiectau isadeiledd newydd, yn ogystal â'r gofyn i'r datblygwr ddarparu buddion cymunedol priodol er mwyn digolledu'r gymuned am y baich a gafwyd o letya'r prosiect. Yn gyffredinol felly, dylai'r polisi hwn negyddu unrhyw effeithiau negyddol ar ddatblygiadau o'r fath a chael effaith gadarnhaol ar yr amcan hwn. | Dim |
| **3** | **Newid Hinsawdd** | **+/-** | Mae union effaith y Polisi ar yr amcan hwn yn aneglur ar y lefel strategol hon ac mae'n llwyr ddibynnol ar y prosiectau arfaethedig. Bydd prosiectau isadeiledd sy'n cynyddu lefel yr isadeiledd gwyrdd, er enghraifft, yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd aer ac ar newid hinsawdd yn yr hirdymor, tra bod prosiectau megis ffyrdd newydd efallai'n cynyddu lefelau llygredd yn yr aer ac felly'n cael effaith negyddol ar yr amcan. | Dim |
| **4** | **Yr Iaith Gymraeg** | **0** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| **5** | **Treftadaeth/diwylliant** | **+/-** | Bydd yr union effaith ar yr amcan hwn yn dibynnu ar fath, graddfa a lleoliad datblygiadau mewn perthynas ag asedau treftadaeth a diwylliant. | Gellid cryfhau'r polisi drwy gyfeirio at yr angen i asesu unrhyw effaith posib ar yr amgylchedd hanesyddol ym mhwynt 3: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 3. Y darperir asesiad cynhwysfawr o effeithiau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, **hanesyddol** a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd ac amwynder), ieithyddol a diwylliannol, trafnidiaeth ac economaidd y cynnig (boed hwy'n gadarnhaol, negyddol neu'n gronnus)... |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | + | Gall cynlluniau isadeiledd newydd sydd ar raddfa fawr effeithio'n gadarnhaol ar yr economi yn Ardal y Cynllun e.e. drwy hwyluso gwell mynediad i ganolfannau manwerthu, drwy ddarparu'r isadeiledd angenrheidiol i ddatblygu safleoedd cyflogaeth newydd ac ati. Mae'r polisi'n hwyluso datblygu prosiectau isadeiledd yn benodol a fydd yn gwella'r economi ac o fudd iddo. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod effeithiau posib prosiectau isadeiledd ar yr economi yn cael eu hasesu a'u lliniaru. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | + | Gall prosiectau isadeiledd mawr newydd hwyluso datblygiadau tai newydd yn uniongyrchol drwy ddarparu'r isadeiledd angenrheidiol i gefnogi datblygiadau o'r fath e.e. trydan, gwell mynediad o ffyrdd newydd ac ati. | Dim |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Mae'n bosib y gall prosiectau isadeiledd mawr gael effaith sylweddol ar y dirwedd; fodd bynnag, mae graddfa a maint yr effaith yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. Noda'r polisi'n glir y bydd angen asesiad i leddfu unrhyw effaith bosib ar y dirwedd ac i leihau, lliniaru a/neu wneud iawn am y niwed a berir. | Dim |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | +/- | Gall isadeiledd newydd arwain at ddiraddio tir a phridd. Bydd hyn yn ddibynnol ar weithredu polisïau eraill. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | + | Bydd prosiectau isadeiledd megis ffyrdd a rhwydweithiau a chysylltiadau cludiant cynaliadwy yn gwella hygyrchedd o fewn Ardal y Cynllun ac o ganlyniad yn cael effaith gadarnhaol ar yr amcan hwn. | Dim |
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | +/- | Gall datblygiadau isadeiledd ar raddfa fawr effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd dŵr gan waethygu problemau llifogydd. Bydd graddfa a maint unrhyw effeithiau yn dibynnu ar fath a lleoliad y prosiect. Er enghraifft, gall isadeiledd ffyrdd newydd gynyddu'r nifer o arwynebau anhydraidd, gan arwain at fwy o ddŵr ffo all beri llifogydd lleol a llygredd dŵr. Fodd bynnag, mae'r polisi'n cynnwys y gofyniad i ddarparu mesurau amddiffyn rhag | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | llifogydd i reoli risg llifogydd, ac i ddarparu gwelliannau yn y gymdogaeth pan fo hynny’n ddichonadwy. | |

**Crynodeb**

Mae pob math o isadeiledd, gan gynnwys cludiant, cymuned, gwyrdd ac addysg yn angenrheidiol i greu lleoedd cynaliadwy. Dylai’r polisi hwn helpu i gyflawni’r mathau priodol o isadeiledd er mwyn hwyluso mathau eraill o ddatblygiad e.e. tai. Mae’r effeithiau posib ar amcanion AC sy’n ymwneud â bioamrywiaeth, treftadaeth, y dirwedd a’r amgylchedd dŵr yn ansicr gan fod hyn yn dibynnu ar fath, graddfa a lleoliad y cynigion unigol. Dylai polisïau mwy manwl y Cynllun Adneuo gynnwys mwy o fanylion ynghylch mathau penodol o isadeiledd, gan gynnwys sut y byddant yn cael eu hymgorffori i’r datblygiad newydd.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS7 Datblygiad yn ymwneud â niwclear yn yr Wylfa**

Yn ei rôl naill ai fel yr awdurdod penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig, neu fel un i ymgynghori ag ef ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, ac o fewn darpariaethau polisi cenedlaethol, bydd y Cyngor, wrth asesu ac ymateb i gynigion sy'n dod yn amlwg ar gyfer datblygiad yn ymwneud â niwclear, yn cynnwys beth sy'n gysylltiedig gyda neu'n ategol at yr orsaf bŵer niwclear bresennol neu Orsaf Bŵer Niwclear Adeiladu Newydd yr Wylfa, yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n briodol neu'n berthnasol, gyda'r pwyntiau a ganlyn:

**1.** Dylai unrhyw bolisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac unrhyw ganllawiau cynllunio, fod yn siapio'r agwedd tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer datblygiad yn ymwneud â niwclear ac unrhyw ddatblygiad neu isadeiledd cysylltiedig; a hefyd

**2.** Er mwyn cael cyn lleied o ardrawiad ag y bo modd a chymaint ag y bo modd o ailddefnyddio'r cyfleusterau a deunyddiau sy'n bodoli'n barod, bod cyfleoedd wedi cael eu cymryd lle bo'n ymarferol i integreiddio gofynion adeiladu niwclear newydd yn yr Wylfa gyda'r bwriad i ddadgomisiynu'r orsaf bŵer bresennol; a hefyd

**3.** Bydd cynigion priffyrdd a chludiant ar gyfer adeiladu niwclear newydd yn yr Wylfa'n rhan o gynllun cludiant a logisteg cadarn sy'n ystyried Polisi Strategol PS 22 ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol o ran cludiant i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys y rhai'n codi yn ystod y cyfnodau adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu ac adfer. Dylai cynigion, lle bo'n ymarferol, wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion polisi cludiant yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio; a hefyd

**4.** Dylai gofynion gweithwyr adeiladu gael eu hateb mewn ffordd sy'n lleihau gymaint ag y bo modd yr effaith ar y farchnad dai leol i lawr i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys gallu rhai ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy neu wasanaethau tai eraill, neu na fydd yn arwain at effeithiau economaidd, cymdeithasol ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol; a hefyd

**5.** Dylid ystyried ffurfiau etifeddiaeth o ddefnyddio, a'r ystyriaeth honno ddarparu gwybodaeth ar gyfer lleoliad a dyluniad datblygiad cysylltiedig, fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir. Lle bo'n briodol, dylai cynlluniau darparu ar gyfer ffyrdd etifeddiaeth o ddefnyddio gael eu cytuno yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, a'r cynlluniau hynny ddarparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd o weithredu tuag at ddyluniad a chynllun y safleoedd datblygu cysylltiedig, yn ogystal â fframio cytundeb Adran 106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Isadeiledd Cymunedol (os yn gymwys); a hefyd

**6.** Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio a'i ddyluniad a graddfa'r isadeiledd gwyrdd arfaethedig osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach, yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Bydd disgwyl i gynigion fod yn gymesur gyda graddfa'r datblygiad, a maint ei ardrawiad; a hefyd

**7.** Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach; a hefyd

**8.** Lle bydd isadeiledd cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden, lle bo'n ymarferol dylai'r rheiny gael eu lleoli a'u dylunio fel eu bod ar gael i'r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo'n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle bydd ardrawiadau neu alwadau ychwanegol yn digwydd ar gyfleusterau sy'n

bodoli'n barod, bydd y Cyngor yn ceisio cael cyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle; a hefyd

**9.** Dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymunedol a diogelwch cymunedol; a hefyd

**10.** Dylai'r baich a'r tarfu at y gymuned oherwydd ei bod yn lleoliad i brosiect mawr cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud gyda'r diwydiant niwclear gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i wirfoddoli i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned am y baich a'r tarfu sy'n digwydd trwy fod yn lleoliad i'r prosiect.

**11.** Byddai angen i unrhyw gynnig (tu allan i Orchymyn Caniatâd Datblygu) ar gyfer trin, storio neu gael gwared â Gwastraff Lefel Isel Iawn, Lefel Isel neu Lefel Canolig neu i drin neu storio gweddillion tanwydd sy'n deillio o'r orsaf bŵer niwclear bresennol neu unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol neu o rywle arall tu mewn i neu du allan i ardal y Cyngor (angen checio hwn), mewn cyfleuster sy'n bodoli'n barod neu yn yr arfaeth ar neu du allan i'r safle niwclear fod:

a. Gyda chyfiawnhad cryf drosto
b. Yn dangos bod yr ardrawiadau cynllunio'n dderbyniol; a hefyd
c. Ddangos y byddai'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gryfach nag unrhyw effeithiau negyddol.

Mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld oddi wrth adeiladu a gweithredu adeiladu niwclear newydd yr Wylfa, y bydd y Cyngor angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo a gall, o ganlyniad i hynny, fod eisiau ail negodi unrhyw becyn lleddfu neu ddigolledu er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni. Dylai'r datblygwr gynnwys peirianweithiau adolygu er mwyn monitro'r amrediad llawn o ardrawiadau, ac adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lleddfu neu ddigolledu, a gwneud newidiadau fel bydd angen.

| Amcan AC | | Asesiad | Sylwadau (yn cynnwys maint, amseriad, hyd y cyfnod a dulliau gwrthdroi effeithiau os yn hysbys) | Argymhellion / Dulliau Lliniaru a Mwyhau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | - | Mae gan ddatblygiad o'r fath y potensial i gael effeithiau negyddol tymor hir ar fioamrywiaeth. Mae nifer o safleoedd Ewropeaidd a SoDdGA o fewn 2 km o'r safle arfaethedig. Mae'r Polisi'n sicrhau y dylai unrhyw gynnig osgoi, isafu, liniaru neu ddigolledu ardrawiadau ecolegol yn yr ardal leol a'r ardal ehangach. Ystyrir gall mesurau lliniaru gael eu hamlinellu ar lefel prosiect er mwyn delio gydag ardrawiadau ar fioamrywiaeth. | Fe fydd angen i unrhyw gynnig am Ddatblygiad Niwclear Newydd yn Wylfa gynnwys Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Effaith Amgylcheddol. |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | +/- | Mae gan ddatblygiad pwerdy niwclear yn Wylfa y potensial o gael effaith byr i hir dymor ar y gymuned drwy wella mynediad i gyfleon cyflogaeth a drwy ddarparu isadeiledd cymunedol newydd a / neu well. Fodd bynnag, mae yna botensial o effeithiau negyddol byr dymor ar gymunedau agos yn ystod y cyfnod adeiladu oherwydd aflonyddwch a phwysau ar wasanaethau. | Mae'r polisi'n cynnwys mesurau lliniaru addas ar gyfer effeithiau negyddol potensial, gan gynnwys yr angen i unrhyw gynnig i greu cynllun trafnidiaeth a logisteg cadarn a phecyn o fuddiannau cymunedol gwirfoddol |

# ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Mae peryg bach o effeithiau negyddol ar iechyd; fodd bynnag, oherwydd fframwaith rheoleiddio caeth y DU sy'n cyfyngu ar arllwysiad arferol o bwerdai niwclear ac hefyd amlygiad ymbelydredd uniongyrchol i weithwyr a'r cyhoedd, mae unrhyw effeithiau arwyddocaol yn anhebygol o ddigwydd. | |
| **3** | **Newid hinsawdd** | ++ | Mae ynni niwclear yn elfen hanfodol o strategaeth ynni glan ac mae'n helpu osgoi allyriad o nwyon tŷ gwydr niweidiol. Ystyrir, felly, fod gan y polisi y potensial i gael effaith positif mawr hir dymor. Mae yna botensial i allyriadau godi ar lefel lleol yn ystod y cam adeiladu; fodd bynnag, gellir lliniaru hyn drwy gynlluniau trafnidiaeth gwyrdd a gwelliannau i drafnidiaeth cyhoeddus. | Dim |
| **4** | **Yr Iaith Gymraeg** | **0** | Y prif fygythiad i'r iaith a'r diwylliant Gymreig yn gyffredinol yw'r mewnfudiad o weithwyr i'r ardal nad ydynt yn siarad Cymraeg a all gael ardrawiad andwyol ar yr iaith.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Polisi'n cynnwys cafeat sy'n nodi na ddylai unrhyw ddatblygiad achosi ardrawiad croes annerbyniol ar yr iaith Gymraeg. | Dylai polisiau manwl nodi'r angen i ymgymeryd ag Asesiad Effaith Ieithyddol mewn amgylchiadau perthnasol. |
| **5** | **Treftadaeth /Diwylliant** | **+/-** | Mae potensial i'r polisi gael effeithiau negyddol ar nifer o asedau traftadaeth o fewn yr ardal; fodd bynnag, gellir lliniaru hyn drwy ddyluniad da a thirlunio priodol. Bydd angen asesiad mwy manwl ar lefel prosiect. | Bydd rhaid i unrhyw gynnig ar gyfer pwerdy niwclear yn Wylfa ymgymeryd ag Asesiad Effaith Amgylcheddol. Bydd hwn yn ystyried ardrawiadau unrhyw gynnig ar dreftadaeth, gan gynnwys mesurau lliniaru potensial mewn mwy o fanylder. |
| **6** | **Economi a chyflogaeth** | ++ | Mae gan ddatblygiad Wylfa B y potensial o gael effaith bositif hir dymor ar economi Yny Môn a Gogledd Cymru drwy wella mynediad at gyflogaeth. Yn y tymor byr, gwell mynediad at waith adeiladu ac yn y tymor canolig a hir, gwell mynediad at waith sy'n ymwneud gyda gweithrediad a dadgomisiynu. Mae yna botensial ar gyfer effaith negyddol byr dymor bach oherwydd y posibilrwydd o brinder llafur adeiladu lleol ar gael i ddiwydiannau eraill. | Dim |
| **7** | **Tai** | **0** | Mae gan y Polisi oblygiadau arwyddocaol i'r amcan hwn. Byddai adeiladu | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Fforddiadwy** | | pwerdy nuwclear yn golygu fod angen nifer sylweddol o dai newydd ar gyfer gweithwyr adeiladu dros dro. Fodd bynnag, mae'r polisi'n delio gyda'r mater hwn drwy ei gwneud yn ofynnol i'r anghenion tai gael ei gwrdd mewn modd fyddai'n lleihau'r ardrawiad ar y farchnad dai lleol i lefel dderbyniol, gan gynnwys gallu'r rhai hynny ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy a gwasanaethau tai eraill. O ganlyniad, dylai'r ardrawiad fod yn un niwtreal. | |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | - | Mae yna botensial i ddatblygiad pwerdy niwclear newydd gael effaith hir dymor mawr ar y tirlun. Mae'r Polisi'n nodi y dylai'r datblygiad osgoi, minimeiddio neu liniaru'r effeithiau gweledol, tirlun ac ecolegol yn yr ardal leol ac ehangach a fydd yn ei dro'n lliniaru effeithiau negyddol. | Dylai unrhyw gynnig ar gyfer pwerdy niwclear yn Wylfa ymgymeryd ag Asesiad Effaith Amgylcheddol. Bydd hwn yn ystyried ardrawiad unrhyw gynnig ar y tirlun, gan gynnwys mesurau lliniaru potensial mewn mwy o fanylion. |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | - | Fe all gwastraff gweithredol (di-niwlclear) gael effeithiau negyddol ar wasanaethau rheoli gwastraff presennol; a all gael eu lliniaru gan weithrediad cynllun rheolaeth gwastraff gweithredol.<br><br>Ystyriodd Arfarniad o Gynaladwyedd (AoG) ar gyfer Datganiad Polisi Cenedlaethol Niwclear (EN-6) effaith cynaladwy trefniadau'r llywodraeth ar gyfer rheoli gwastraff actifedd uchel a gwastraff ymbelydrol peryglus a gynhyrchir gan bwerdai. Nododd yr AoG y gall effeithiau rheolaeth gwastraff godi ar safle pwerdy niwclear neu du allan i'r safle ble mae rheolaeth neu warediad gwastraff yn cymryd lle. Mae rheolaeth gwastraff ymbelydrol, tanwydd sydd wedi darfod a gwastraff peryglus yn weithgareddau trawsdoriadol ac mae potensial am effiethiau ar nifer o'r materion cynaladwyedd. Adnabodd yr AoG effeithiau negyddol sy'n gysylltiedig â rheolaeth a storio tanwydd sydd wedi darfod ynghŷd â gwastraff lefel canolradd. Gall effeithiau negyddol bach godi yn ystod adeiladu a dadgomisiynu cyfleusterau storio gwastraff er bydd rhaid asesu'r effeithiau hyn ar lefel prosiect.<br><br>Daeth i'r casgliad mai'r ystyriaeth bwysicaf ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff oddi ar y safle yw'r swm ychwanegol o danwydd sydd wedi darfod fydd angen ei waredu mewn Cyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) ac a fydd yn cael ei reoli gan yr Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear (NDA).<br><br>Mae'r polisi'n ei gwneud hi'n ofynnol i unrhyw gynnig i drin, storio neu waredu gwastraff ymbelydrol o unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol gael ei gyfiawnhau'n gryf. Dylai ddangos fod yr ardrawiadau cynllunio yn dderbyniol a dangos fod | Gall effeithiau gwastraff gweithredol (di-niwclear) ar wasanaethau rheolaeth gwastraff sy'n bodoli gael eu lliniaru drwy weithrediad cynllun rheolaeth gwastraff gweithredol.<br><br>Gellir lliniaru colled priddoedd a'r risg o halogi drwy ddefnyddio Cynlluniau Rheolaeth Amgylcheddol yn ystod cyfnodau adeiladu a dadgomisiynu'r pwerdy. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | y buddiannau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gorbwyso unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Mae gan ddatblygiad pwerdy niwclear newydd a'r isadeiledd cysylltiedig y potensial i arwain at golled uniongyrchol priddoedd ynghŷd â chynnydd yn y risg o lygredd a halogiad priddoedd. Gellir lliniaru'r risgiau hyn drwy ddefnyddio Cynlluniau Rheolaeth Amgylcheddol yn ystod cyfnodau adeiladu a dadgomisiynu'r pwerdy. | |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | - | Mae gan ddatblygiad pwerdy niwclear y potensial o gael ardrawiadau arwyddocaol ar lonydd lleol/rhanbarthol yn ystod bob cam, yn enwedig ar Bont Britania (A55). Gall gynllun rheolaeth trafnidiaeth fod o gymorth wrth liniaru'r effeithiau hyn.<br><br>Mae'r Polisi'n anelu i leihau'r ardrawiadau ar drafnidiaeth drwy ofyn am gynllun trafnidiaeth a logisteg sy'n ystyried Polisi Strategol PS22 fel rhan o unrhyw gynnig. Ble'n bosib, dylai cynigion gyfrannu'n bositif at amcanion polisi trafnidiaeth yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad fydd yn hybu trafnidiaeth cyhoeddus, cerdded a beicio. | Dylid cynnwys cynllun rheolaeth trafnidiaeth fel rhan o unrhyw gynnig ar gyfer datblygiad niwclear newydd yn Wylfa. Dylai unrhyw gynnig ystyried y potensial i gludo deunydd adeiladu gyda thren ac ar y môr.<br><br>. |
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | - | Mae potensial i dyniad ac oeri dŵr, ynghŷd ag arllwysiad dŵr gael effaith negyddol ar yr amgylchedd dŵr. Bydd mesurau lliniaru ar gael ar lefel prosiect er mwyn sicrhau nad yw ardrawiadau'n arwyddocaol.<br><br>Mae potensial am effeithiau negyddol ar risg llifogydd oherwydd cynnydd yn lefel y môr, yn enwedig yn ystod camau diweddarach yng ngweithrediad a dadgomisiyniad y pwerdy. Fodd bynnag, fe ytyriwyd fod y daeareg clogwyni caled a natur dyrchafedig Wylfa yn golygu fod diogelwch digonol yn cael ei gynnig, ac nad oes angen mesurau diogelu'r arfordir. | Dylai polisiau manwl y Cynllun geisio lleihau ardrawiadau ar yr amgylchedd dŵr. |

**Crynodeb**

Mae'r asesiad wedi dangos fod gan ddatblygiad pwerdy niwclear yn Wylfa y potensial o gael effaith sylweddol hir-dymor positif ar economi Ynys Môn a Gogledd Cymru. Mae potensial hefyd o effeithiau sylweddol hir-dymor positif ar newid hinsawdd gan na fydd pwerdy niwclear yn cyfrannu at allyriad nwyon tŷ gwydr. Dangosodd yr asesiad fod gan ddatblygiad pwerdy niwclear y potensial i gael efffeithiau sylweddol hirdymor negyddol ar amcanion AC sy'n berthnasol i fioamrywiaeth, tirwedd, dŵr / priddoedd, trafnidiaeth a'r amgylchedd dŵr. Mae'r Polisi'n cynnwys nifer o amodau sy'n anelu i ddiogelu a lleihau'r ardrawiad ar amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar weithrediad y datblygiad gan fod mesurau lliniaru priodol ar gael ar lefel prosiect. Mae'r polisi'n cynnwys nifer o amodau sy'n anelu i ddiogelu a lleihau ardrawiadau ar amcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Fodd bynnag, fe fydd yn bwysig i'r Cynllun roi mwy o fanylion ynglŷn â sut bydd ardrawiadau posib datblygiadau mawr o'r fath yn cael eu lliniaru.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS8 Darparu cyfle ar gyfer economi ffyniannus**

Tra'n anelu i amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig, bydd y Cynghorau'r hwyluso twf economaidd trwy:

1. alluogi mentergarwch ym mhob rhan o ardal y Cynllun, fydd yn ei dro'n cynorthwyo cynaliadwyedd cymunedau ac yn lleihau'r angen i deithio;
2. diogelu 168 ha o dir at ddibenion cyflogaeth a busnes fyddai angen neu'n cael budd oddi wrth fod mewn lleoliad parc busnes neu barc diwydiannol mewn perthynas â B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd *sui generis* ar safleoedd wedi'u cynnwys yn yr hierarchaeth tir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun;
3. dyrannu cyfanswm o 5 ha o dir at ddibenion cyflogaeth a busnes fyddai angen neu'n cael budd oddi wrth leoliad o fath parc busnes neu barc diwydiannol mewn perthynas â B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd *sui generis* ar safleoedd yn neu ger Canolfannau Gwasanaeth Trefol Pwllheli a Phorthmadog;
4. darparu safleoedd i gefnogi adeiladu isadeiledd cynhyrchu ynni ychwanegol ac isadeiledd arall, h.y. darparwyr cadwyn cyflenwi, datblygiad cysylltiedig oddi ar y safle, mewn lleoliadau sy'n gyson â'r strategaeth aneddiadau (a nodwyd ym Mholisi Strategol PS3), a gaiff eu dewis i leihau effeithiau annymunol (yn unol â Pholisïau Strategol PS1 a PS2), ac y gellir, ble bynnag sy'n bosib, darparu etifeddiaeth fuddiol i ardal y Cynllun;
5. cefnogi ffyniant economaidd a chynaladwyedd cymunedau gwledig drwy hwyluso twf a graddfa briodol mewn mentrau gwledig, ymestyn busnesau presennol ac arallgyfeirio trwy gefnogi'r ailddefnydd o adeiladu presennol, datblygiadau unedau 'byw a gweithio', gweithio gartref, a thrwy annog darparu safleoedd a thir ac adeiladau mewn lleoliadau hygyrch priodol tu mewn i'r strategaeth aneddiadau (Polisïau Strategol PS3 a PS4) ac yn unol â Pholisïau Strategol PS1 a PS2;
6. cefnogi swyddi'r sector sydd wedi'i seilio ar wasanaethau ymwelwyr a'r diwydiant twristiaeth lleol fel y nodir ym Mholisi Strategol PS8;
7. cefnogi gwella sgiliau'r gweithlu drwy weithio gydag asiantaethau addysg a sgiliau lleol, a sefydliadau busnes lleol i ddarparu'r cyfleusterau hyfforddi diweddaraf, ym Mangor a'r cyffiniau a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol, lle ceir mynediad da at y rhwydwaith ffyrdd strategol lle gellir defnyddio cymaint ag y bo modd ar gludiant cyhoeddus i sicrhau bod trigolion yn ennill y sgiliau maent eu hangen;
8. gwella cyfathrebu o fewn ardal y Cynllun yn ogystal ag yn genedlaethol a rhyngwladol, o ran isadeiledd cludiant a chysylltiadau ffôn symudol a band-eang;
9. gwella argaeledd a chapasiti isadeiledd ffisegol sylfaenol arall o fewn ardal y Cynllun;
10. negodi cytundebau llafur lleol gyda datblygwyr sy'n ymwneud yn benodol â datblygiad yn unol â Pholisi Strategol PS5, fel bod pobl leol yn gallu cael cyflogaeth a datblygu eu sgiliau, gan dargedu prif ardaloedd neu gymunedau fel sy'n briodol.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad a pharhad yr effeithiau a nodir ac a oes modd eu cildroi ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Mae posib y gall datblygu cyflogaeth effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth; fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. Mae Polisi PS15 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) yn ceisio diogelu bioamrywiaeth bwysig, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir. | Dylai'r Cynllun Adneuo gynnwys polisïau penodol ar gyfer gwarchod cynefinoedd a chynnal bioamrywiaeth.<br><br>Gellid cryfhau'r polisi drwy gyfeirio at yr angen i amddiffyn yr amgylchedd naturiol.<br><br>"**Wrth sicrhau y caiff yr amgylchedd natur a'r amgylchedd adeiledig eu gwarchod** bydd y Cynghorau'n hwyluso twf economaidd.... |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | + | Gallai'r Polisi hwn, wrth ei weithredu gyda'r Strategaeth a Ffafrir, leihau anghydraddoldebau drwy hwyluso dosbarthiad mwy cyfartal o ddatblygiad yn nhermau gofodol. Mae'n caniatáu datblygiadau newydd cyfyngedig, gan gynnwys cyflogaeth mewn aneddiadau gan gynnwys cymunedau gwledig ac yn cyfrannu at dwf organig yr aneddiadau nad yw wedyn yn effeithio'n andwyol ar hyfywdra'r cymunedau.<br><br>Bydd y polisi'n cynorthwyo i gyflawni'r nod hwn drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a thrwy hynny gynyddu lefelau incwm. Dylai lleihau'r lefelau diweithdra wella iechyd, lles a hyfywdra'r gymuned. Fodd bynnag, bydd llawer yn dibynnu ar leoliad y cyfleoedd cyflogaeth o ran ble mae'r angen. Gall gwell mynediad at gyfleoedd cyflogaeth hefyd gynorthwyo i leihau'r nifer o bobl ifanc sy'n gadael yr ardal[5]. Effeithiau cadarnhaol hirdymor. | Dim |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | - | Mae clustnodi tir er dibenion cyflogaeth yn digwydd yn unol â'r strategaeth a ffafrir a hierarchaeth yr aneddiadau. Bwriad rhain yw lleihau'r angen i deithio a thrwy hynny leihau allyriadau llygredd sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.<br><br>Fodd bynnag, mae cynnydd mewn datblygiad economaidd yn peri cynnydd yn y defnydd a wneir o ynni a gall hyn gynyddu'r cyfraniad at newid hinsawdd. Mae cynnydd cyffredinol mewn datblygu yn debygol o arwain at gynyddu allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r adeiladau eu hunain yn ogystal â'r traffig newydd fydd yn deillio o'r datblygiadau. Nid oes unrhyw gyfeiriad at | Bydd angen i bolisïau manwl y Cynllun Adneuo bwysleisio'r angen i ddefnyddio ynni cynaliadwy mewn datblygiadau. |

[5] Adroddiad Sgopio Arfarniad Cynaliadwedd, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (Gorffennaf 2011).

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | hyrwyddo effeithiolrwydd ynni na defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy.<br><br>Fodd bynnag, gall yr opsiwn hwn arwain at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan nad oes cymaint o angen i deithio gan y bydd y rhan fwyaf o ddatblygiadau tai wedi'u lleoli'n agos at y prif ardaloedd cyflogaeth a gwasanaethau a chyfleusterau eraill. | |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/ Diwylliant** | +/- | Mae'r polisi yn annog ailddefnyddio adeiladau sy'n debygol o annog defnyddio tir mewn modd mwy effeithlon ac o gyfrannu at wella bywiogrwydd a hyfywdra aneddiadau.<br><br>Bydd yr union effaith ar asedau treftadaeth hanesyddol yn dibynnu ar leoliad y datblygiad mewn perthynas â'r asedau hanesyddol ac ar raddfa'r datblygiad arfaethedig. | Bydd angen i bolisïau manwl y Cynllun sicrhau y bydd datblygiadau er dibenion cyflogaeth yn cael eu dylunio fel eu bod yn sensitif i'r amgylchedd adeiledig hanesyddol. |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | ++ | Bydd y polisi hwn yn cael effaith fawr a chadarnhaol o ran yr amcan hwn drwy warchod tir cyflogaeth presennol a darparu mwy o safleoedd cyflogaeth. Dylai hyn gynyddu cyfleoedd cyflogaeth i'r boblogaeth leol. Dylai'r polisi gynyddu gweithgarwch economaidd drwy ddarparu tir cyflogaeth a bydd yn creu cyfleoedd datblygu economaidd i ddiwallu anghenion yr economi drwy gydol oes y cynllun. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd y polisi yn hwyluso mewnfuddsoddiad. | Gellid cryfhau'r polisi drwy nodi lleoliadau allweddol ar gyfer cyflogaeth i sicrhau y ceir dosbarthiad priodol. |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Nid oes perthynas uniongyrchol rhwng y polisi a'r amcan. | Dim |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Mae'r union effaith ar y dirwedd yn ddibynnol ar leoliad, graddfa a natur y datblygiad. Mae union faint a difrifoldeb yr effaith yn ddibynnol ar faint o safleoedd priodol a ddatblygwyd o'r blaen sydd ar gael mewn aneddiadau. Fodd bynnag, dylai ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau presennol arwain at fuddion cadarnhaol yn erbyn yr amcan hwn.<br><br>Byddai sianelu datblygiadau i'r ardaloedd twf penodol yn gwarchod cefn gwlad ac yn lleihau'r pwysau datblygu ar aneddiadau ymylol. | Dylai'r polisïau manwl bwysleisio'r gofyn i ddatblygiad gael ei ddylunio i lefel uchel, gan adlewyrchu tirweddau a threfweddau lleol. |
| 9 | **Tir, mwynau,** | - | Gall unrhyw ddatblygiad beri colli neu ddiraddio tiroedd a phriddoedd o | Dylai'r polisïau manwl hwyluso'r angen am gyfleusterau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **gwastraff** | | ansawdd da. Ar y llaw arall, nid yw'r Polisi'n cyfeirio at yr angen i ailddefnyddio adeiladau presennol, dylai hyn leihau'r pwysau ar dir glas.<br><br>Nid oes cyfeiriad at faterion gwastraff. Bydd cynnydd mewn cyfleoedd cyflogaeth yn arwain at gynnydd mewn gwastraff. | rheoli gwastraff cynaliadwy dan yr amgylchiadau priodol. |
| **10** | **Trafnidiaeth a mynediad** | **+/-** | Mae'r polisi'n caniatáu gwella cysylltiadau band-eang ac yn annog darparu safleoedd ac eiddo mewn lleoliadau priodol yn y strategaeth aneddiadau. Dylai hyn wella mynediad at gyfleoedd cyflogaeth.<br><br>Dylai gofynion trafnidiaeth fod yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu polisïau cyflogaeth, yn arbennig materion sy'n berthnasol i hygyrchedd trafnidiaeth. Bydd hygyrchedd tir er dibenion cyflogaeth yn dibynnu ar ei leoliad. | Gellid gwella'r polisi drwy ychwanegu "hygyrch" ar ôl "lleoliadau priodol" ym mhwynt 4.<br><br>4. cefnogi ffyniant economaidd a chynaldwyedd cymunedau gweldig drwy hwyluso twf a graddfa briodol mewn mentrau gwledig, ymestyn busnesau presennol ac arallgyfeirio trwy gefnogi'r ailddefnydd o adeiladau presennol, datblygiadau unedau 'gwaith byw', gweithio gartref, a thrwy annog darparu safleoedd a thir ac adeiladau mewn lleoliadau **<u>hygyrch</u>** priodol tu mewn i'r strategaeth anheddiad; |
| **11** | **Dŵr a Risg Llifogydd** | **+/-** | Bydd effeithiau datblygu cyflogaeth ar yr amcan hwn yn dibynnu ar leoliad a math y datblygiad. Mae risg y bydd y lefel o ddatblygiad newydd yn peri cynnydd digonol mewn arwynebau anhydraidd fyddai'n arwain at risg uwch o lifogydd cyfyngedig yn deillio o ddŵr ffo. Gall dŵr ffo hefyd arwain at lygru dŵr daear. Yn gyffredinol, mae datblygiad ychwanegol yn arwain at gynyddu defnydd dŵr. | Dylai'r polisïau manwl anelu at warchod adnoddau dŵr ac at leihau'r tebygolrwydd o lifogydd drwy ymgorffori SuDS mewn datblygiadau newydd pan fo hynny'n briodol. |

**Crynodeb**

Mae'r Polisi hwn yn hwyluso twf economaidd yn uniongyrchol a dylai gynnig effeithiau manteisiol o ran cynnal / cynyddu gweithgarwch economaidd, a thrwy wneud hynny, dylai hefyd leihau tlodi ac eithrio cymdeithasol drwy warchod tir cyflogaeth presennol a darparu tir cyflogaeth ychwanegol. Bydd y polisi'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac felly'n cyfrannu at gynnal cymunedau bywiog. Ar y llaw arall, gall asedau amgylcheddol megis bioamrywiaeth gael eu heffeithio, yn ddibynnol ar raddfa, math a lleoliad y datblygiad newydd.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS9 – Economi'r Ymwelwyr**

Wrth sicrhau cysondeb â'r economi a chymunedau lleol a sicrhau y gwarchodir yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol, ac yn benodol yr ardaloedd hynny sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol, bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth lleol fydd yn fwrlwm trwy gydol y flwyddyn drwy:

1. ffocysu datblygiadau twristiaeth, diwylliannol a hamdden sy'n gynaliadwy, yn egnïol ac ar raddfa fwy yn y canolfannau isranbarthol, y canolfannau gwasanaeth trefol ac, os yn briodol, y canolfannau gwasanaeth gwledig;
2. cadw a gwella'r ddarpariaeth llety â gwasanaeth presennol a chefnogi darpariaeth newydd o lety â gwasanaeth o safon uchel yn y canolfannau isranbarthol, y canolfannau gwasanaeth trefol a gwledig ac yn y pentrefi;
3. rheoli'r ddarpariaeth o lety twristiaeth sydd o safon uchel a geir ar ffurf gwersylla, carafanau sefydlog neu deithiol neu barciau sialetau mewn lleoliadau ble mae modd cynnal niferoedd ychwanegol o ymwelwyr;
4. cefnogi darpariaethau a chynlluniau twristiaeth newydd ar raddfa briodol mewn lleoliadau cynaliadwy yng nghefn gwlad drwy ailddefnyddio adeiladau presennol, os yn briodol, neu fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd, yn enwedig os yw'r rhain hefyd o fudd i'r cymunedau lleol ac yn cefnogi'r economi leol, ac os ydynt yn unol â'r amcanion datblygu cynaliadwy;
5. atal datblygiad fyddai'n cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion ac ardaloedd sydd o ddiddordeb i dwristiaeth, neu ar eu gosodiad.

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Nis oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn, gan ei fod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. Mae'r polisi'n hwyluso darparu gweithgareddau twristiaeth ac ar yr un pryd yn sicrhau y gwarchodir bioamrywiaeth drwy sicrhau y gwarchodir yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig. | Mae cyfle yma i ddatblygiadau twristiaeth wella nodweddion bioamrywiaeth. Bydd hyn yn ddibynnol ar sut y gweithredir y polisi. |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | + | Bydd y polisi'n hwyluso mynediad i gyfleusterau twristiaeth a hamdden fydd yn cyfrannu at wella iechyd a lles y boblogaeth. Cyfeiria'r Polisi hefyd at ba | Gellir cryfhau'r Polisi drwy bwysleisio na ddylid caniatáu datblygiadau twristiaeth ar draul nodweddion |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | mor bwysig yw hi fod datblygiadau twristiaeth o fudd i'r cymunedau lleol.<br><br>Fodd bynnag, heb ei reoleiddio, gall twf poblogaeth mewn twristiaeth beri newid yn nodweddion cymdeithasol Ardal y Cynllun. | cymdeithasol yr Ardal.<br><br>'A sicrhau y gwarchodir yr amgylchedd **<u>cymdeithasol</u>**, naturiol ac adeiledig. |
| **3** | **Newid Hinsawdd** | **-** | Gall datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth arwain at fwy o deithiau gan gludiant preifat all effeithio ar ansawdd yr aer yn lleol a chyfrannu at newid hinsawdd yn yr hirdymor.<br><br>Fodd bynnag, mae'r fframwaith aneddiadau yn berthnasol i ddatblygiadau twristiaeth sy'n golygu y bydd y safleoedd datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy ac mewn ardaloedd sy'n hawdd i gludiant cyhoeddus gael mynediad atynt. | Gellir cryfhau'r polisi drwy ofyn yn benodol i ddatblygiadau twristiaeth fod yn hygyrch ac yn hawdd i gludiant cyhoeddus eu defnyddio i leihau cymaint â phosib ar lygredd aer.<br><br>4. cefnogi darpariaethau a chynlluniau twristiaeth newydd **<u>mewn lleoliadau cynaliadwy</u>** yng nghefn gwlad drwy ailddefnyddio adeiladau presennol, os yn briodol, neu fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd, yn enwedig os yw'r rhain hefyd o fudd i'r cymunedau lleol ac yn cefnogi'r economi leol, ac os ydynt yn unol â'r amcanion datblygu cynaliadwy; |
| **4** | **Yr Iaith Gymraeg** | **+/-** | Mae gan y polisi'r gallu i gael effaith andwyol anuniongyrchol ar gadwraeth yr iaith Gymraeg drwy gynyddu nifer y twristiaid. Gall cynnydd yn y nifer o weithwyr sy'n gysylltiedig â thwristiaeth waethygu'r broblem hon. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd ynghylch yr effeithiau yn ystod y cam strategol hwn, a gellir eu lleddfu wrth weithredu'r mesurau arfaethedig i warchod yr Iaith Gymraeg a nodir yn y Strategaeth a Ffafrir. | Dylai'r Cynllun Adneuo gynnwys polisi iaith Gymraeg cryf i warchod yr ased pwysig hwn. |
| **5** | **Treftadaeth/diwylliant** | **+/-** | Gall datblygu arwain at ddifrodi neu amharu ar nodweddion sydd o ddiddordeb diwylliannol a threftadaeth. Fodd bynnag, mae'r polisi'n cyfeirio'n uniongyrchol at yr angen i amddiffyn yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig rhag effeithiau andwyol sy'n deillio o gynigion twristiaeth. Bydd graddfa a maint unrhyw effeithiau yn dibynnu ar union leoliad datblygiadau newydd. | Gellid cryfhau'r polisi drwy gyfeirio at yr angen i gynigion amddiffyn yr amgylchedd hanesyddol.<br><br>...a sicrhau y gwarchodir yr amgylchedd naturiol, ~~ac~~ adeiledig **<u>a hanesyddol</u>**, ac yn benodol yr ardaloedd hynny sydd wedi'u dynodi'n rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol, bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth lleol fydd yn fwrlwm trwy gydol y flwyddyn drwy: |
| **6** | **Economi a** | **++** | Mae posib y gall datblygu'r diwydiant twristiaeth gyflawni twf economaidd | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **chyflogaeth** | | hirdymor yn Ardal y Cynllun. Bydd hyrwyddo twf twristiaeth yn creu cyfleoedd cyflogaeth lleol yn y sector gwasanaethu. Gall datblygu twristiaeth hefyd esgor ar fuddsoddi penodol cronnus ar hyd Ardal y Cynllun.<br><br>Cyfeiria'r polisi'n uniongyrchol at wella'r ddarpariaeth llety â gwasanaeth presennol a chefnogi darpariaeth newydd o lety â gwasanaeth o safon uchel yn y canolfannau isranbarthol, yn y canolfannau gwasanaeth trefol a gwledig ac yn y pentrefi. Dylai hyn gael effaith gadarnhaol fawr ar yr amcan hwn yn yr hirdymor. | |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Gall datblygiadau beri difrod posib i nodweddion y dirwedd. Fodd bynnag, mae'r polisi'n cefnogi datblygu twristiaeth gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd naturiol a dylai hyn negyddu unrhyw effeithiau andwyol ar y dirwedd. Mae'r polisi'n cyfeirio'n uniongyrchol at yr angen i amddiffyn yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig rhag effeithiau andwyol sy'n deillio o gynigion twristiaeth. | Dylai'r polisïau manwl liniaru yn erbyn effeithiau andwyol ar dirweddau a threfweddau pwysig. |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | - | Gall cynlluniau twristiaeth, fel pob datblygiad arall, arwain at golli pridd a thir o ansawdd da. Mae hi hefyd yn debygol y bydd datblygiadau twristiaeth yn peri cynnydd yn y gwastraff a gynhyrchir yn ystod y gwaith adeiladu a'r cyfnod y mae'r datblygiad yn weithredol.<br><br>Ar y llaw arall, mae'r polisi'n cefnogi ailddefnyddio adeiladau presennol fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd. | Dylai'r polisïau manwl annog ffafrio datblygu safleoedd tir llwyd yn hytrach na safleoedd tir glas. |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | +/- | Posib y bydd effaith gadarnhaol drwy ffocysu datblygiadau twristiaeth mwy yn y prif ganolfannau, a chan hynny, hwyluso datblygiadau mewn lleoliadau sydd â chysylltiadau cludiant da ac sy'n hawdd cael atynt. | Gellir cryfhau hyn drwy nodi'n benodol y dylid datblygu cyfleusterau twristiaeth mewn lleoliadau hygyrch:<br><br>4. cefnogi darpariaethau a chynlluniau twristiaeth newydd **mewn lleoliadau cynaliadwy a hygyrch** yng nghefn gwlad drwy ailddefnyddio adeiladau presennol, os yn briodol, neu fel rhan o arallgyfeirio ar ffermydd, yn enwedig os yw'r rhain hefyd o fudd i'r cymunedau lleol ac yn cefnogi'r economi leol, ac os ydynt yn unol â'r amcanion datblygu cynaliadwy; |
| 11 | **Perygl dŵr a** | +/- | Gall gweithgareddau twristiaeth effeithio'n negyddol ar yr amgylchedd dŵr, | Dylai'r polisïau manwl sicrhau bod adnoddau dŵr Ardal y |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **llifogydd** | | fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar sut y gweithredir y cynigion. Noda'r polisi'n glir y dylai cynigion sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei warchod. | Cynllun yn cael eu gwarchod. |
| **Crynodeb** | | | | |
| Yn aml, lleolir datblygiadau twristiaeth yng nghefn gwlad, ac mae'n bosib i hyn gael effaith negyddol ar yr amgylchedd naturiol. Bydd union natur yr effaith yn dibynnu ar fath y datblygiad a'i berthynas â'r asedau amgylcheddol all gael eu heffeithio. Ar y llaw arall, mae twristiaeth yn ddiwydiant pwysig iawn yn Ardal y Cynllun a byddai mwy o ddatblygiadau priodol yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr economi leol ac felly hefyd y cymunedau lleol. | | | | |

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS10 Canol Trefi a manwerthu**

Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda sefydliadau partner a'r gymuned leol i warchod a gwella hyfywdra a bywiogrwydd canol trefi Ardal y Cynllun i gydnabod eu swyddogaethau manwerthu, gwasanaethu a chymdeithasol.

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo hyfywdra a bywiogrwydd canol dinasoedd/trefi drwy:

1. annog cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau addas (fel y diffinnir yn PCC a NCT 4) mewn amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n denu amrediad eang o bobl ar wahanol amseroedd o'r dydd, sy'n ddiogel ac yn hygyrch i bawb;
2. sicrhau y bydd buddsoddiad newydd yn cyd-fynd â graddfa a swyddogaeth canol y ddinas/tref;
3. darparu ar gyfer 579 metr sgwâr net o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus a 8,091 metr sgwâr net o arwynebedd lawr nwyddau cymharol erbyn 2026;
4. gwrthsefyll yn erbyn datblygiadau sy'n tynnu oddi ar eu bywiogrwydd a'u hyfywdra a'u gwarchod rhag colli unedau manwerthu o fewn Prif Ardaloedd Siopa, fydd yn cael eu diffinio yn y Cynllun Drafft Adneuo;
5. gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ailddefnyddio adeiladau addas o fewn canol trefi;
6. gwrthsefyll ymestyn datblygiadau manwerthu a hamdden y tu allan i ganol trefi.

Amddiffynnir siopau a gwasanaethau mewn Canolfannau Gwasanaeth Gwledig a Phentrefi sy'n darparu ar gyfer anghenion dydd i ddydd cymunedau rhag unrhyw golled diangen a chefnogir cynigion am wasanaethau cymunedol amlbwrpas.

| Amcan AC | | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **Bioamrywiaeth** | **0** | Wrth ffocysu datblygiadau mewn canol trefi ac aneddiadau, gall y polisi hwn gyfrannu'n anuniongyrchol at amddiffyn rhag ymestyn aneddiadau, a thrwy hynny warchod yr amgylchedd naturiol rhag yr effeithiau andwyol a berir gan ddatblygiadau. Mae'n debygol felly y bydd yr effaith yn fwy niwtral. | Dim |

# ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | ++ | Drwy ddarparu cyfleoedd manwerthu o ansawdd da, mae'r polisi'n cyfrannu at gynnal cymunedau bywiog drwy ddarparu gwasanaethau lleol sy'n diwallu anghenion lleol fydd, yn anuniongyrchol, yn gwella bywiogrwydd a lles cymunedau. Noda'r Polisi'n benodol y gwarchodir siopau mewn canolfannau gwasanaeth gwledig a phentrefi.<br><br>Ar y llaw arall, gall ffocysu datblygiadau ar ganol trefi presennol arwain at ddiffyg buddsoddiad mewn ardaloedd eraill, ble mae angen buddsoddiad, a thrwy hynny, gall gynyddu amddifadedd. Fodd bynnag, gellid o bosib gosod Polisi PS7 yn erbyn hyn gan ei fod yn annog datblygu economaidd mewn cymunedau gwledig. Mae hi'n bosib y bydd yna effeithiau cadarnhaol eang. | Dylai'r polisïau manwl hyrwyddo mwy ar ba mor addas yw datblygu economïau'r ardaloedd gwledig. |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | + | Mae ffocysu datblygiadau mewn canolfannau manwerthu presennol yn lleihau'r angen i deithio a thrwy hynny'n cyfrannu at ymaddasu i newid hinsawdd yn y tymor hir, gan effeithio'n gadarnhaol ar yr amcan AC hwn. | Dim |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | + | Mae potensial y bydd effaith gadarnhaol drwy wella faint o wasanaethau sydd ar gael a gwneud y canol trefi'n fwy deniadol; gall darparu gwasanaethau manwerthu fod yn gymorth i gynnal y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg wrth i drigolion aros yn eu cymunedau. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | +/- | Er nad yw'r polisi'n ymdrin yn uniongyrchol â'r amcan hwn, gallai polisïau mwy manwl annog dylunio da o ran blaen siopau a gosodiad canol trefi. | Dylai pob datblygiad manwerthu newydd gyd-fynd â graddfa a chymeriad y ganolfan bresennol. |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | ++ | Mae potensial am effaith gadarnhaol sylweddol ar yr economi yn y tymor hir oherwydd bod y polisi'n hwyluso datblygiadau manwerthu mewn canol trefi yn uniongyrchol a bydd hyn yn annog mewnfuddsoddiad ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol. Gweler hefyd amcan 2 uchod. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | + | Dylai cadw siopau yn y canol trefi helpu i gynnal amgylchedd adeiledig yr ardaloedd hyn. Drwy ddefnyddio egwyddorion dylunio da, dylid gwella trefweddau yn ogystal. Yn ogystal, bydd tywys datblygiadau i ganolfannau presennol yn hytrach na chefn gwlad agored yn gwarchod adnodd y dirwedd. Posibilrwydd felly y bydd yna effaith gadarnhaol. | Gellid cryfhau'r polisi drwy annog trosi adeiladau presennol fyddai'n ychwanegu at sicrhau nad yw datblygiadau'n newid cymeriad canolfannau manwerthu a bod adeiladau hanesyddol yn cael eu cynnal.<br><br>**5. Annog trosi ac ailddefnyddio adeiladau presennol mewn canol trefi;** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | + | +/- | Bydd gan y polisi effaith gadarnhaol ar ddefnyddio tir yn effeithlon wrth iddo dywys datblygiadau i ganolfannau presennol sy’n annog ailddefnyddio adeiladau a defnyddio tir mewn modd effeithlon fydd yn lleihau colli priddoedd a thir amaethyddol da.<br><br>Fodd bynnag, drwy hwyluso mwy o ddatblygu, bydd hyn yn arwain at gynyddu’r gwastraff a gynhyrchir. | Mae hi’n bwysig fod y polisïau manylach yn y drafft Adneuo yn annog datblygu tir llwyd a hyrwyddo technegau rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy. |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | + | | Posibilrwydd o effaith gadarnhaol ar yr amcan AC hwn gan fod y polisi’n ffocysu ar ddatblygiadau mewn canolfannau manwerthu presennol, all leihau’r angen i deithio a chynyddu gallu pobl i gyrraedd canolfannau cadarn ar gludiant cyhoeddus. Mae’r polisi hwn hefyd yn cyfeirio’n uniongyrchol at yr angen i gael datblygiadau hygyrch. | Dim |
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | +/- | | Mae risg y bydd lefel y datblygiadau newydd yn peri cynnydd mewn arwynebau anhydraidd fyddai’n ddigon i beri risg uwch o lifogydd lleol yn deillio o ddŵr ffo. Gall dŵr ffo hefyd beri llygru dŵr daear. Yn gyffredinol, mae mwy o ddatblygiadau’n arwain at gynnydd yn y dŵr a ddefnyddir. | Dylai polisiau manwl anelu i warchod adnoddau dŵr a lleihau’r potensial i lifogydd ddigwydd drwy ymgorffori SuDS mewn datblygiadau newydd pan fo hynny’n briodol. |
| **Crynodeb** | | | | | |
| Mae’r polisi’n perfformio’n dda yn erbyn y rhan fwyaf o amcanion AC yn enwedig yr amcanion economaidd-gymdeithasol. Wrth dywys datblygiadau i’r canol trefi, bydd y polisi hwn yn helpu i gefnogi canolfannau manwerthu presennol a gwella’r cyfleusterau a’r gwasanaethau sy’n hygyrch i’r boblogaeth leol. Bydd ffocysu datblygiadau mewn canol trefi presennol hefyd yn helpu i warchod yr amgylchedd naturiol rhag datblygiadau. | | | | | |

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS11 Darpariaeth tai gytbwys**

Yn seiliedig ar lefel rhagdybiedig yr angen am dai, wedi'i phwyso a mesur yn erbyn y gallu i'w chyflawni, y cyfyngiadau amgylcheddol a chynhwysedd y dirwedd, bydd y Cynghorau'n darparu ar gyfer 7,665 o unedau tai rhwng 2011 a 2026. Bydd cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai yn cael ei gynnal.

Bydd y lefel hwn o dwf yn cael ei ddosbarthu'n unol â Pholisïau Strategol PS3 a PS4 a'r strategaeth aneddiadau a amlinellir ym Mholisi Strategol PS3.

Bydd y Cynghorau'n gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo cymunedau cymysg cynaliadwy drwy sicrhau bod pob datblygiad preswyl newydd yn cyfrannu at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan. Bydd y Cynghorau'n sicrhau bod cymunedau cymysg cynaliadwy'n cael eu datblygu drwy:

1. uchafu darpariaeth tai fforddiadwy (gan gynnwys angen lleol) ar draws ardal y Cynllun;
2. cyfrannu at wneud iawn am y diffyg cydbwysedd mewn marchnadoedd tai lleol;
3. sicrhau y defnyddir tir sydd wedi'i glustnodi ar gyfer tai mewn modd cynaliadwy, gan sicrhau dwysedd effeithlon o ddatblygu sy'n gweddu â'r mwynderau lleol;
4. sicrhau'r cyfuniad cywir o fathau o unedau tai ac o ddaliadaeth i ddiwallu anghenion cymunedau presennol ardal y Cynllun yn ogystal â chymunedau'r dyfodol;
5. darparu ar gyfer anghenion tai arbenigol megis llety myfyrwyr, llety â chefnogaeth, cartrefi nyrsio, preswyl a gofal ychwanegol.
6. gwella ansawdd ac addasrwydd y stoc tai bresennol;
7. annog safon dylunio uchel sy'n creu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol.

| Amcan AC | | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **Bioamrywiaeth** | **+/-** | Mae unrhyw fath o ddatblygiad yn rhoi'r adnodd bioamrywiaeth dan bwysau yn ardal y Cynllun. Mae'n bosib i ddatblygiad ffisegol aflonyddu ar gynefinoedd a rhywogaethau un ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn ogystal â cholli a darnio cynefinoedd. | Bydd datblygu polisiau addas i reoli lleoliad tai newydd yn bwysig i sicrhau bod yr amgylchedd naturiol yn cael ei warchod i'r eithaf.<br><br>Dylai'r Cynllun Adneuo annog datblygu safleoedd tir llwyd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Fodd bynnag, ar y lefel hon o arfarnu mae'n anodd rhagweld yr effaith ar fioamrywiaeth, yn enwedig ble nad yw lleoliadau'r datblygu'n wyddys. Fodd bynnag, bydd y cynnydd mewn tai a fwriedir yn yr opsiwn hwn, dros amser, yn rhoi pwysau cynyddol ar adnoddau dŵr a'u hansawdd (gydag effeithiau ar fioamrywiaeth o ganlyniad). Yn ogystal, mae'n debygol yn sgil hyn y bydd cynnydd mewn llygredd aer a allai gael effaith andwyol ar safleoedd bioamrywiaeth (er, mae hyn hefyd yn ddibynnol ar leoliad). Mae mwy o bwysau ar gynefinoedd (drwy golled uniongyrchol neu dameidiog) hefyd yn bosib; fodd bynnag, bydd hyn yn ddibynnol ar leoliad y datblygiad.<br><br>Ar y llaw arall, gall ffocysu twf mewn aneddiadau diffiniedig, yn unol â'r strategaeth aneddiadau, helpu i warchod bioamrywiaeth o fewn y cefn gwlad sy'n weddill.<br><br>Mae Polisi PS15 (Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol) yn ceisio diogelu bioamrywiaeth bwysig, gan gynnwys rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir. | ble bynnag y bo modd. |
| **2** | **Cymuned ac Iechyd** | **+ /-** | **+** | Bydd datblygiadau newydd ar y raddfa hon yn debygol o arwain at fuddion sylweddol i'r gymuned ac i iechyd, fodd bynnag, gall adeiladu hefyd effeithio'n negyddol ar gydlyniad.<br><br>Yn ogystal, mae'n bosib y caiff hyn effaith negyddol ar gymunedau oherwydd lefelau uchel o adeiladu, ond mae'r effeithiau hyn yn fwy tebygol mewn safleoedd wedi'u lleoli mewn ardaloedd trefol ble mae'r boblogaeth yn uwch.<br><br>Mae'r polisi yn hwyluso darparu tai priodol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, a dylai hyn gael effaith gadarnhaol ar gymunedau. Dylai diwallu anghenion pobl sy'n byw mewn tai anaddas wella iechyd a lles y trigolion. Yn ogystal, bydd darparu tai mewn lleoliadau sydd â chysylltiadau trafnidiaeth da yn darparu mynediad i'r boblogaeth at wasanaethau gofal iechyd. Ar y llaw arall, byddai'r lefel twf arfaethedig yn creu galw ychwanegol am wasanaethau gofal iechyd a bydd angen diwallu hyn.<br><br>Bydd lefel is a chymesur o ddatblygiad yn yr aneddiadau llai i warchod y cymunedau hyn rhag newid. | Dim |
| **3** | **Newid Hinsawdd** | **-** | | Bydd y cynnydd arfaethedig mewn tai yn yr opsiwn hwn yn arwain at fwy o allyriadau nwyon tŷ gwydr yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd. Bydd hyn yn sgil | Dylai'r polisiau manwl yn y Cynllun sicrhau bod datblygiadau mor ynni-effeithlon â phosib a dylent |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | mwy o ddefnydd o ynni a chludiant sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn poblogaeth.<br><br>Ar nodyn mwy cadarnhaol fodd bynnag, bydd datblygiad sy'n cydymffurfio â'r Strategaeth a Ffafrir yn golygu y bydd tai'n cael eu lleoli mewn ardaloedd cynaliadwy, gan leihau'r angen i deithio a chael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr aer. | annog/gofyn i gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy mewn datblygiad. |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | **+/-** | Mae effaith y twf mewn tai ar yr iaith Gymraeg yn ansicr ar hyn o bryd. Gall fod yn bosib i lefel y twf gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr iaith Gymraeg oherwydd gall prisiau tai is a mwy o dai fforddiadwy gynorthwyo i gadw gafael ar y boblogaeth bresennol. I'r gwrthwyneb, gallant hefyd annog poblogaeth Ddi-Gymraeg i symud i mewn.<br><br>Gall darparu tai fforddiadwy helpu i gadw'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn yr ardaloedd. Fodd bynnag, gellir cryfhau'r polisi drwy gyfeirio at yr angen i ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol mewn achosion priodol. | Gall y polisi gynnwys cyfeiriad at yr angen am dai fforddiadwy lleol:<br><br>1. Uchafu darpariaeth tai fforddiadwy (**gan gynnwys angen lleol)** yn ardal y Cynllun; |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | **+/-** | Gall lefel y twf a fwriedir yn y Polisi arwain at effeithiau cynyddol (yn unigol ac yn gronnus) ar ddiwylliant a threftadaeth Gwynedd ac Ynys Môn er bod hyn yn ddibynnol ar bolisïau manwl ac ar leoliad / dosbarthiad gofodol y datblygiadau newydd.<br><br>Gall datblygiad newydd ar y raddfa hon arwain at effeithiau positif sylweddol ar ddiwylliant a threftadaeth drwy ddarparu cyfleoedd cyllidol ar gyfer gofod diwylliannol (e.e. canolfannau cymunedol) ac adfywio ardaloedd ac adeiladau wedi dirywio gan gynnwys asedau treftadaeth. Felly, anodd iawn yw rhagweld yr union effaith ar hyn o bryd. | Dylai polisïau manwl yn y Cynllun gynnwys polisiau cryf i sicrhau y caiff treftadaeth a diwylliant eu gwarchod a'u gwella. Dylai'r polisiau ymdrin â'r angen i ystyried dyluniad, ansawdd a dwysedd unedau tai. |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | **+** | Gall gweithredu'r polisi hwn effeithio'n gadarnhaol ar yr economi. Byddai economi'r prif aneddiadau'n cael eu cefnogi drwy ddarparu gweithlu a byddai busnesau a busnesau newydd yn cael eu cefnogi drwy gydol y cyfnod adeiladu yn ogystal â chynnydd yn y galw am nwyddau a gwasanaethau. Fodd bynnag, dylid cael tir cyflogaeth i gyd-fynd â datblygiadau tai eang er mwyn cefnogi'r twf tai newydd ac i leihau'r angen i gymudo.<br><br>Bydd lefel arfaethedig y tai hefyd yn helpu i letya'r gweithwyr newydd fyddai eu hangen gan y diwydiannau adnewyddadwy a diwydiannau ynni sy'n tyfu yn Ynys Môn. | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Fodd bynnag, gall fod peth amheuaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o ddarparu'r lefel hon o dai gan ystyried y cyfraddau adeiladu tai presennol. | |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | ++ | Mae'r polisi, yn uniongyrchol hwyluso datblygiad tai newydd a dylai hyn sicrhau y caiff yr amcan ei gyflawni. Fodd bynnag, nid oes darpariaeth benodol yn y geiriad ar gyfer gwahanol fathau o dai sy'n diwallu anghenion lleol. Effeithiau cadarnhaol hirdymor. | Gweler amcan 4 uchod |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Mae'n anodd rhagweld effaith y Polisi ar y dirwedd a'r drefwedd. Fodd bynnag, credir ei bod yn debygol y gallai lefel y datblygiad arfaethedig arwain at effeithiau andwyol unigol a chronnus ar y dirwedd a'r drefwedd oherwydd y cynnydd mewn adeiladu tai ac adeiladu arall. Rhaid ystyried effeithiau o'r fath wrth i gynllunio manwl pellach ddigwydd i ddewis lleoliadau addas i'w datblygu.<br><br>Fodd bynnag, mae peth posibilrwydd o wella'r drefwedd, os yw prosiectau yn cynnwys elfen sylweddol o adfywio safleoedd tir llwyd. | Dylai'r Cynllun Adneuo gynnwys ffafrio safleoedd tir llwyd yn hytrach na safleoedd tir glas. |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | - | Mae datblygiad newydd yn peri defnyddio tir a cholli priddoedd. Bydd angen i rai datblygiadau tai fod ar dir glas oherwydd prinder tir a ddatblygwyd o'r blaen yn Ardal y Cynllun. Fodd bynnag, byddai datblygiad dwysedd uchel mewn aneddiadau yn arwain at ddefnyddio tir a phriddoedd yn fwy effeithiol gan fod gofyn ailddefnyddio tir ac adeiladau yn hytrach na defnyddio tir glas. Bydd y polisi hefyd yn arwain at gynhyrchu rhagor o wastraff. | Dylai'r Cynllun Adneuo annog datblygu rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy mewn datblygiadau tai newydd.<br><br>Dylai'r Cynllun Adneuo annog datblygu o ddwysedd uwch (ble y bo'n briodol). |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | +/- | Mae'n debygol y bydd manteision sylweddol i'r lefel hon o ddatblygiad o safbwynt cludiant a hygyrchedd, drwy helpu i greu màs critigol o boblogaeth a fydd yn helpu i gefnogi gwasanaethau cludiant cyhoeddus presennol a newydd. Fodd bynnag, gall y cynnydd mewn datblygu a hwylusir gan y polisi hwn (yn ddibynnol ar ei leoliad gofodol), arwain hefyd at gynnydd mewn cludiant a thagfeydd traffig.<br><br>Felly, dylai'r strategaeth a ffafrir leoli datblygiadau mewn aneddiadau sydd wedi'u sefydlu leihau'r angen i deithio a chynnig mynediad i ddulliau cludiant cynaliadwy. Fodd bynnag, yn yr aneddiadau llai, efallai y bydd mynediad i | Dylai polisiau penodol ymdrin â gosodiad, mynediad a chyfleoedd cludiant cyhoeddus, cerdded a beicio mewn datblygiadau newydd.<br><br>Dylid cryfhau'r Polisi drwy nodi'r angen i ddatblygu mewn lleoliadau hygyrch. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gludiant cynaliadwy yn fwy cyfyngedig. | |
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | **+/-** | Bydd y polisi hwn yn cynyddu'r pwysau ar ansawdd ac adnoddau dŵr (e.e. cynnydd yn y dŵr gwastraff a ollyngir i gyrff dŵr) a thrwy gynnydd yn y defnydd o ddŵr. | Dylid lleddfu'r effeithiau drwy sicrhau bod gan y CDLl ofynion cadarn ar gyfer draeniad cynaliadwy, dŵr gwastraff a chadwraeth dŵr. |

**Crynodeb**

Bydd darparu tai addas yn unol â'r polisi hwn yn arwain at fuddion mawr i'r trigolion. Gan y bydd y datblygiad wedi'i leoli'n bennaf yn y prif aneddiadau, ble y mae'r mwyafrif o'r boblogaeth yn byw, mae'n debygol o ddiwallu cyfran fawr o'r angen a nodwyd. Mae'r polisi hefyd yn darparu tai fforddiadwy ddylai ddiwallu anghenion sydd wedi'u hadnabod ar lefel leol. Mae darparu tai i ddiwallu gofynion tai hefyd yn debygol o fod o fudd i gymunedau yn eu cyfanrwydd drwy leihau eithrio cymdeithasol a gwella bywiogrwydd cymunedau. Yn yr un modd â phob math o ddatblygiadau, mae'r asesiad wedi adnabod effeithiau negyddol posib ar rai asedau amgylcheddol. Bydd angen lliniaru hyn yn y Cynllun Adneuo.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS12 Tai Fforddiadwy**

Bydd y Cynghorau'n ceisio sicrhau lefel briodol o dai fforddiadwy yn ardal y cynllun drwy weithio mewn partneriaeth â Darparwyr Cofrestredig, datblygwyr a chymunedau lleol (bydd targed dichonol a realistig ar gyfer tai fforddiadwy'n cael ei osod yn y Cynllun Adneuo).

I ymdrin ag angen amlwg am dai fforddiadwy, bydd y Cynghorau'n gofyn am gyfran o dai fforddiadwy gan ddatblygiadau preswyl, a hynny ar sail am byth. Bydd disgwyl i ddatblygiadau tai sydd â 5 uned neu fwy yn yr Is-ganolfannau Rhanbarthol, y Canolfannau Gwasanaeth Trefol, y Canolfannau Gwasanaeth Lleol a datblygiadau tai sydd â 3 uned neu fwy yn y Pentrefi Gwasanaeth ddarparu ar gyfer cyfran o dai fforddiadwy yn benodol ar gyfer pob Ardal Farchnad Tai. Disgwylir i'r gyfran fod rhwng 10% a 30%. Ni roddir ystyriaeth i symiau sy'n gyfnewid am hyn, oni bai nad yw'r ddarpariaeth ar y safle'n hyfyw neu'n realistig. Ni chaiff safleoedd ar gyfer 100% o dai fforddiadwy eu caniatáu oni bai eu bod mewn Clystyrau ac ar safleoedd eithrio gwledig.

Os yn briodol, bydd y Cynghorau yn gofyn i'r tai fforddiadwy gael eu dosbarthu ar hyd y datblygiad ac i adlewyrchu'r ddaliadaeth sydd wedi'i nodi mewn asesiadau marchnad tai lleol neu unrhyw asesiad arall a gwblheir gan y Cyngor neu gan bartner. Oni bai bod tystiolaeth yn awgrymu'n wahanol, bydd y cyfuniad o ddeiliadaeth a ddisgwylir ar gyfer pob Ardal Farchnad Tai fel a ganlyn:

75% Rhentu Cymdeithasol a 25% Tai (Rhent) Fforddiadwy Canolraddol

Os nad yw hyfywdra cynllun unigol yn diwallu'r gofynion polisi a nodir, cyfrifoldeb y datblygwr/perchennog tir yw dangos yn glir beth yw'r amgylchiadau dros gyfiawnhau cyfraniad neu gymysgedd deiliadaeth is o dai fforddiadwy.

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | + | Mae'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn debygol o arwain at wella bywiogrwydd cymuned, ac felly hefyd iechyd a lles. Bydd y polisi'n cyfrannu at leihau tlodi ac eithrio cymdeithasol wrth i fwy o bobl gael y cyfle i gael mynediad at dai fforddiadwy addas. Fodd bynnag, gall safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer 100% o dai fforddiadwy arwain at elfen o amddifadedd cymdeithasol oherwydd y diffyg amrywiaeth cymdeithasol. | Dylid cynllunio safleoedd i sicrhau mynediad i fannau agored ac i gyfleusterau hamdden. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 3 | **Newid Hinsawdd** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | + | Dylai'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy addas gynorthwyo i gadw trigolion sy'n siarad Cymraeg yn eu cymunedau eu hunain. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | + | Gall darpariaeth o dai fforddiadwy arwain at dwf yn yr economi drwy ddenu cymysgedd o bobl o wahanol gefndiroedd economaidd i fyw a gweithio yn yr ardal. | Dylai'r cynllun Adneuo sicrhau bod tai priodol ar gael i'r gweithlu, ac yn benodol ar gyfer gweithwyr allweddol mewn ardaloedd poblogaidd ble ceir prisiau tai uchel ar y farchnad agored. |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | ++ | Mae'r polisi yn uniongyrchol hwyluso'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy a ddylai ddiwallu anghenion y boblogaeth. Fodd bynnag, mae risg y gall y polisi hwyluso cyflwyno cyfran uwch o dai fforddiadwy na sydd ei hangen. Effeithiau cadarnhaol hirdymor. | Gellid cryfhau'r polisi drwy nodi y bydd tai fforddiadwy'n cael eu darparu pan fo angen am ddatblygiadau o'r fath.<br><br>Er mwyn ymdrin â'r angen am dai fforddiadwy a **phan fo tystiolaeth o'r angen**, bydd y Cynghorau'n ceisio cyfran o dai fforddiadwy gan ddatblygiadau preswyl a hynny ar sail am byth. **Bydd cyfraniadau datblygiadau llai'n cael eu trafod ar sail yr achosion unigol.** |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |

**Crynodeb**

Bydd y polisi'n ennyn buddion sylweddol ynghylch darparu digon o dai i alluogi pobl i fyw mewn tai addas y gallent eu fforddio. Bydd y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn cyfrannu'n anuniongyrchol at gynnal cymunedau bywiog ac at leihau eithrio cymdeithasol. Bydd angen sail dystiolaeth i gefnogi polisïau tai fforddiadwy mwy manwl i ddangos eu bod yn hyfyw.

# ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS13 Llety Sipsiwn a Theithwyr**

Bydd y Cynghorau yn gweithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â gofynion llety Sipsiwn a Theithwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol drwy:

1. Ddiogelu tir awdurdodedig presennol ar gyfer llety Sipsiwn a Theithwyr yn Llandygai, ger Bangor.
2. Darparu tir ar gyfer lleiniau ychwanegol er mwyn bodloni angen sydd heb ei ddiwallu am lety dros dro, teithiol neu barhaol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn ardal y Cynllun (yn ddibynnol ar waith cydweithredol).

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad a pharhad yr effeithiau a nodir ac a oes modd eu cildroi ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Mwyhau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | + | Bydd safleoedd wedi'u rheoli'n dda yn lleihau unrhyw bwysau ar hygrededd bioamrywiaeth a warchodir.<br><br>Yn ogystal, mae safleoedd awdurdodedig yn cynorthwyo i leihau safleoedd anawdurdodedig sy'n gallu codi mewn mannau gwyrdd agored a thrwy hynny yn anuniongyrchol bydd yn gwarchod ansawdd a'r ddefnydd gan bawb o'r llecynnau hyn. | Dim |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | + | Mae safleoedd sydd wedi'u rheoli'n dda yn osgoi tyndra cymunedol ac unigol a allai godi oherwydd y gwahaniaeth mewn diwylliant a ffordd o fyw y sipsiwn / teithwyr a'r cymunedau preswyl. Dylai'r polisi gynorthwyo i hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a rhyngweithiad cymdeithasol gan beri effaith gadarnhaol.<br><br>Mae safleoedd parhaol a sefydlog yn caniatáu mynediad at wasanaethau addysg a gofal iechyd sydd mor bwysig i'r gymuned Sipsiwn / Teithwyr sy'n dioddef problemau iechyd ac addysgol oherwydd diffyg mynediad rheolaidd i'r cyfleusterau hyn. Dylai byw â mwy o sicrwydd ddod ag effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol i les y sipsiwn/ teithwyr a lleihau anghydraddoldebau iechyd.<br><br>Ceir manylion pellach yng nghanllawiau cenedlaethol Cymru[6]. | Dylid ystyried lefelau sŵn o safleoedd oherwydd ffordd o fyw yn yr awyr agored a sŵn symudiadau traffig o gerbydau mawr yn gysylltiedig â rhai teithwyr yn enwedig y rhai sydd â sioeau teithiol.<br><br>Ni sonnir am ardaloedd chwarae i blant a gellid eu hystyried yn y polisïau cynllunio mwy manwl. |

[6] http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/ruraldevelopment/?lang=cy

# ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. Mae'r adnoddau a'r ynni sy'n cael eu defnyddio i gynhyrchu cartrefi symudol yn llai na'r hyn a ddefnyddir ar gyfer cartref confensiynol. Fodd bynnag, bydd gan y polisi ei hun effaith dibwys ar newid hinsawdd. | Dim |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. Mae cymunedau symudol yn rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol a bydd y polisi hwn yn cynorthwyo i ddiogelu ffyrdd o fyw a thraddodiadau er bod y rhain yn newid gydag amser. Yn ogystal, mae polisïau PS13 am y Diwylliant Cymreig a PS16 am asedau diwylliannol a threftadaeth hefyd yn cynorthwyo i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal. | Dim |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | + | Mae darparu lleoliad saff a diogel i bobl sy'n teithio a chaniatáu safleoedd defnydd cymysg ar gyfer defnydd preswyl a busnes yn cefnogi economi amrywiol. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | ++ | Adnabuwyd yr angen i ddiogelu safleoedd presennol a darparu safleoedd yn y dyfodol ac mae'r polisi yn sefydlu sut y bydd yn gweithio â phartneriaid er mwyn bodloni'r angen hwn.<br>Effeithiau cadarnhaol a chronnus mawr wrth fodloni anghenion unigol cymunedau. | Dim |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | + | Yn ogystal, mae safleoedd awdurdodedig yn cynorthwyo i leihau safleoedd anawdurdodedig a all godi mewn mannau gwyrdd agored cyhoeddus a thrwy hynny, diogelu ansawdd y mannau hyn a'u defnydd gan bawb – effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol. | Gellir adeiladu blociau cyfleusterau i wasanaethu safleoedd o ddeunyddiau cynaliadwy. |
| 9 | **Tiroedd, mwynau,** | + | Effaith gadarnhaol ar ansawdd y tir ac ansawdd y pridd drwy gynorthwyo i leihau sefydlu safleoedd anawdurdodedig. Fel gyda phob datblygiad, dylid | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **gwastraff** | | darparu cyfleusterau rheoli gwastraff addas ar safleoedd sipsiwn a theithwyr. Yn gyffredinol, ceir effeithiau cadarnhaol bychain drwy reoli gwastraff yn fwy cynaliadwy. | |
| **10** | **Trafnidiaeth a Mynediad** | **0** | Gofynnir am hygyrchedd at wasanaethau yn y fframwaith polisi cenedlaethol ar gyfer sipsiwn a theithwyr ac mae angen darparu mynediad i'r safle ar gyfer cerbydau a cherddwyr sy'n ddiogel a chyfleus  Mae gwella mynediad mewn ardaloedd gwledig yn fater allweddol yn ardal y Cynllun a chaiff ei gyfarch ym mholisi PS21. Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod yn gyffredinol. | Dim |
| **11** | **Dŵr a pherygl llifogydd** | **0** | Fel arfer, mae carthffosiaeth ar gyfer safleoedd parhaol drwy'r brif system garthffosiaeth ond efallai nad yw hyn yn bosib mewn rhai lleoliadau.<br><br>Mae cartrefi symudol a charafannau yn fathau o ddatblygiadau sy'n agored i lifogydd ac ni ddylid eu lleoli mewn gorlifdir. | Dylai'r Cynghorau ystyried cynnwys ystyriaethau pellach mwy manwl o anghenion safleoedd teithwyr, er enghraifft, caniatáu systemau carthffosiaeth corslwyni a gweithfeydd trin carthion sy'n cael eu caniatáu i ddatblygiadau bychain eraill. |

**Crynodeb**

Mae'r ddogfen genedlaethol 'Teithio at Ddyfodol Gwell' (LlC 2012) yn sefydlu fframwaith polisi manwl ar gyfer Cynghorau ac o ganlyniad mae'r polisi hwn, PS12 yn cael ei symleiddio er mwyn osgoi dyblygu.  Bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol ar ystod o amcanion AC, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rhyngweithio cymunedol a chynhwysiad cymdeithasol, lleihau anghydraddoldebau iechyd a thai.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS14 Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol**

Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd y Cynghorau yn rheoli datblygu er mwyn gwarchod a lle bo'n bosib, gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir nodedig ardal y Cynllun drwy:

1. Ddiogelu bioamrywiaeth, daeareg, cynefinoedd, hanes a thirweddau ardal y Cynllun drwy ddiogelu a gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a'u gosodiadau, gan ystyried arwyddocâd cymharol y dynodiadau wrth ystyried y pwysau ellir ei roi ar fuddiannau o bwys a gydnabyddir;
2. Ni cheisir colled net o fioamrywiaeth o fewn ardal y Cynllun a cheisir gwella ac / neu adfer rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol;
3. Diogelu a gwella gwasanaethau ecosystemau drwy rwydweithiau o isadeiledd gwyrdd / glas;
4. Dynodi Ardaloedd Tirweddau Arbennig er mwyn rheoli datblygu;
5. Diogelu gosodiad Parc Cenedlaethol Eryri;
6. Diogelu rhywogaethau a warchodir a gwella eu cynefinoedd;
7. Lleihau'r golled o dir amaethyddol Gradd 1, 2 a 3a i ddatblygiadau newydd;
8. Parchu, cadw a gwella cymeriad lleol a hynodrwydd Ardaloedd Cymeriad y Tirlun unigol;

| Amcan AC | | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | ++ | Effaith cadarnhaol mawr hirdymor ar fioamrywiaeth drwy warchod a gwella'r amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir nodedig yr ardal. Ceisia'r polisi ddiogelu, a ble bo'n bosib, wella safleoedd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi'u dynodi am eu bioamrywiaeth. | Mae posibilrwydd y bydd y polisi yn gwahaniaethu'n glir rhwng safleoedd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ac yn benodol y pwysau a roddir ar y gwahanol ddynodiadau. Dylid rhoi'r lefel uchaf o warchodaeth i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol ac wedi hynny safleoedd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.<br><br>Yn ogystal, argymhellir na ddylai'r polisi geisio unrhyw golled net o fioamrywiaeth yn ardal y Cynllun ac y dylai'r polisi geisio gwella ac/neu adfer rhwydweithiau o gynefinoedd naturiol[7].<br><br>Yn ogystal, argymhellir y dylai'r Polisi gynnwys maen prawf ychwanegol sy'n ymwneud â gwarchod a gwella gwasanaethau ecosystemau drwy rwydweithiau o Isadeiledd Gwyrdd (IG). Gall rhwydwaith amlswyddogaethol o fannau gwyrdd roi amrywiaeth o fuddion i'r amgylchedd yn ogystal ag i'r economi a chymunedau lleol. Tra bod cyfraniadau IG yn gynwysedig yn PS4 (Yr Isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr), ystyrir y byddai cynnwys maen prawf IG yn cynorthwyo i gryfhau'r polisi. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| **2** | **Cymuned ac Iechyd** | **+** | Mae posib i warchod a gwella'r amgylchedd naturiol gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol hirdymor ar iechyd a lles cymunedau drwy ddarparu ardaloedd i hamddena a mannau i bobl ymlacio. | Cyfeiriwch at yr argymhelliad IG uchod. Gall mannau gwyrdd ddarparu ardaloedd ar gyfer hamdden a llefydd i bobl ymlacio a gall hyn gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles unigolion a chymunedau.<br><br>Argymhellir y dylai'r polisi gynnwys diogelu llif gwasanaethau ecosystemau o'n cyfalaf naturiol[8] fel rhan o rwydweithiau IG er mwyn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd a lles dynol. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| **3** | **Newid Hinsawdd** | **+** | Mae posib i ddiogelu a gwella'r amgylchedd naturiol gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol hirdymor drwy wella gallu cynefinoedd i addasu i effeithiau newid hinsawdd. Yn ogystal, gall llystyfiant leihau dŵr ffo eithafol a chynyddu dal glawiad a thrwy hynny leihau'r perygl o lifogydd. | Cyfeiriwch at wasanaethau ecosystem a'r argymhelliad IG ar gyfer amcan I yr AC.<br><br>Gall gwella bioamrywiaeth drwy ddatblygu rhwydweithiau IG yn rhagweithiol ar gyfer cysylltedd ac i fynd i'r afael â darnio wella'r gallu i wrthsefyll newid hinsawdd ac addasu |

[7] NCT5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (2009).
[8] Sustaining Ecosystems Services for Human Well-Being CCGC (2011)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | iddo. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi.<br><br>Dylai polisïau hyrwyddo rheolaeth dalcgylchoedd uchel, yn enwedig ble bo ardaloedd mawn yn bwysig wrth storio carbon, rheoli level dŵr ac ansawdd dŵr. |
| **4** | **Yr Iaith Gymraeg** | **0** | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| **5** | **Treftadaeth/diwylliant** | **0** | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| **6** | **Economi a chyflogaeth** | **+** | Mae'r amgylchedd naturiol yn agwedd allweddol sy'n denu ymwelwyr i'r ardal. Mae'r polisi yn ceisio gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol hynod a allai gael effeithiau anuniongyrchol cadarnhaol bychan ar dwristiaeth a thrwy hynny, yr economi. | Cyfeiriwch at wasanaethau ecosystem a'r argymhelliad IG ar gyfer amcan I yr AC. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| **7** | **Tai fforddiadwy** | **0** | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| **8** | **Tirwedd a threfwedd** | **++** | Effaith cadarnhaol hirdymor mawr ar yr amcan AC hwn drwy warchod a gwella tirweddau pwysig a chymeriad lleol Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd pwysig, ynghyd â dynodi Ardaloedd Tirweddau Arbennig er mwyn rheoli datblygiadau. | Argymhellir y dylai'r polisi gynnwys …"**a'u gosodiadau**.." er mwyn gwella'r effeithiau cynaladwyedd cadarnhaol. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| **9** | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | **+** | Ceisia'r polisi leihau colli'r tir amaethyddol mwyaf defnyddiol i ddatblygiadau newydd fyddai'n cael effeithiau hirdymor cadarnhaol bychan ar yr amcan AC hwn. | Dim |
| **10** | **Trafnidiaeth a Mynediad** | **0** | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| **11** | **Dŵr a pherygl llifogydd** | **+** | Effaith gadarnhaol anuniongyrchol bychan gan y gall llystyfiant gynorthwyo i leihau dŵr ffo eithafol a chynyddu'r gallu i ddal y glawiad a thrwy hynny leihau'r perygl o lifogydd. Gall gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar ansawdd dŵr. | Cyfeiriwch at y gwasanaethau ecosystem ac argymhellion IG ar gyfer amcan 1 yr AC. Mae CCGC yn cydnabod bod yna rwydweithiau Isadeiledd Gwyrdd a Glas. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi.<br><br>Dylai polisïau hyrwyddo rheolaeth dalcgylchoedd uchel, yn enwedig ble bo ardaloedd mawn yn bwysig wrth storio carbon, rheoli level dŵr ac ansawdd dŵr. |

**Crynodeb**

Mae'r polisi'n ceisio gwarchod a gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun. Mae posibilrwydd i hyn gael effeithiau cadarnhaol hirdymor mawr ar fioamrywiaeth a'r dirwedd. Mae cynnal a gwella'r amgylchedd naturiol hefyd â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar iechyd a lles unigolion a

| |
|---|
| chymunedau drwy ddarparu ardaloedd ar gyfer hamdden a mannau i bobl ymlacio. Yn ogystal, gall yr amgylchedd naturiol gynorthwyo i leihau dŵr ffo eithafol a gwella'r gallu i ddal y glawiad, sy'n ei dro yn lleihau'r perygl o lifogydd ac addasu i effeithiau newid hinsawdd. Yn ogystal, mae posibilrwydd y bydd yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol ar yr economi gan fod yr amgylchedd naturiol yn agwedd allweddol sy'n denu ymwelwyr i'r ardal.<br><br>Mae argymhellion yr AC wedi eu hymgorffori i'r polisi; roedd rhain yn cynnwys gwahaniaeth fwy clir rhwng safleoedd bioamrywiaeth wedi eu diogelu, ceisio am ddim colled mewn bioamrywiaeth a gwarchod a mwyhau gwasanaethau ecosystemau ac Isadeiledd Gwyrdd. |

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| Polisi Strategol PS15 Diogelu a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth<br><br>Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd y Cynghorau yn diogelu, a lle bo hynny'n briodol, yn gwella'r asedau diwylliannol a threftadaeth unigryw drwy:<br><br>1. Ddiogelu a gwella'r asedau diwylliannol a threftadaeth a ganlyn, a ble bo'n briodol, eu gosodiad a'u golygfeydd arwyddocaol:<br><br>i. Ardaloedd Cadwraeth;<br>ii. Safleoedd Treftadaeth y Byd - Castell Biwmares a Chastell Caernarfon a Muriau'r Dref;<br>iii. Ymgeisydd Safle Treftadaeth y Byd – Diwydiant Llechi Gogledd Cymru;<br>iv. Tirweddau hanesyddol, Parciau a Gerddi cofrestredig;<br>v. Adeiladau Rhestredig;<br>vi. Henebion Hynafol Rhestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol;<br>2. Gwella asedau treftadaeth drwy fentrau treftadaeth ac adfywio. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Amcan AC** | **Asesiad** | **Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad a pharhad yr effeithiau a nodir ac a oes modd eu cildroi ai peidio)** | **Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella** |
| 1 | **Bioamrywiaeth** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 2 | **Cymuned ac iechyd** | + | Effaith gadarnhaol ar gymunedau cytbwys gan fod ardal y CDLl â threftadaeth gref sy'n rhan bwysig o gymeriad yr ardal. Gall hyn chwarae rôl a chreu'r ymdeimlad o gymuned a naws am le. Yn ogystal, gall adfywio a gwella adeiladau ac ardaloedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar y naws o hunaniaeth cymunedol ynghyd â lefelau cyfranogiad diwylliannol. | Dim |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/ Diwylliant** | ++ | Effeithiau cadarnhaol byrdymor i hirdymor mawr drwy ddiogelu a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth pwysig. | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | + | Gallai'r polisi gael effaith gadarnhaol ar amcan yr AC drwy hyrwyddo ystod o swyddi megis adeiladu, twristiaeth, cynnal a chadw a rheoli ac yn benodol, sgiliau yn y diwydiant treftadaeth ac atgyweirio. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 8 | **Y dirwedd a'r drefwedd** | + | Effaith gadarnhaol ar y drefwedd a'r dirwedd drwy ddiogelu a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth pwysig. | Dim |
| 9 | **Tir, mwynau, gwastraff** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a mynediad** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 11 | **Dŵr a Risg Llifogydd** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |

**Crynodeb**

Bydd y polisi yn cael effeithiau cadarnhaol byrdymor i hirdymor mawr drwy ddiogelu a gwella asedau diwylliannol a threftadaeth pwysig. Mae posibilrwydd y ceir effeithiau cadarnhaol ar gymunedau cytbwys gan fod ardal y CDLl â threftadaeth gref sy'n rhan bwysig o gymeriad yr ardal. Gall hyn chwarae rôl mewn creu'r ymdeimlad o gymuned a naws am le. Yn ogystal, gall adfywio a gwella adeiladau ac ardaloedd hanesyddol gael effaith gadarnhaol ar yr ymdeimlad o hunaniaeth gymunedol ynghyd â lefelau cyfranogiad diwylliannol.

Yn ogystal mae posibilrwydd y ceir effeithiau cadarnhaol ar yr economi drwy hyrwyddo ystod o swyddi megis adeiladu, twristiaeth, cynnal a chadw a rheoli ac yn benodol, sgiliau yn y diwydiant treftadaeth ac atgyweirio. Yn ogystal, mae posibilrwydd y ceir effaith gadarnhaol ar y drefwedd a'r dirwedd.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS16 Technoleg ynni adnewyddadwy**

Bydd y Cynghorau yn ceisio sicrhau bod ardal y Cynllun, ble bynnag y bo'n bosib ac yn hyfyw, yn cyflawni ei photensial fel ardal flaengar i fentrau'n seiliedig ar dechnolegau ynni adnewyddadwy neu ynni carbon isel drwy hyrwyddo:

a. ffynonellau ynni adnewyddadwy o fewn cynigion datblygu sy'n cefnogi cynhyrchu ynni o amrywiol ffynonellau sy'n cynnwys biomas, morol, gwastraff, dŵr, daear, solar a gwynt gan gynnwys micro gynhyrchu;
b. datblygiadau technoleg ynni adnewyddadwy ar wahân

Gellir sicrhau hyn trwy:

1. sicrhau nad yw gosodiadau mewn ardaloedd gaiff eu cynnwys mewn dynodiadau tirwedd rhyngwladol neu genedlaethol ac sy'n weladwy y tu hwnt i'w terfynau, neu ardaloedd â gwerth lleol i'r diwedd, yn unol â Pholisi Strategol PS15, yn peryglu amcanion y dynodiadau, naill ai'n unigol neu'n gronnus, yn enwedig o ran cymeriad y dirwedd, yr ardrawiad gweledol ac amwynder preswyl.

2. sicrhau nad yw gosodiadau mewn ardaloedd gaiff eu cynnwys mewn dynodiadau natur rhyngwladol, cenedlaethol neu leol, yn unol â SP14, yn peryglu amcanion y dynodiadau naill ai'n unigol neu'n gronnus.

3. cefnogi gosodiadau'r tu allan i ardaloedd dynodedig cyn belled nad yw'r gosodiad yn peri niwed sylweddol amlwg i gymeriad y dirwedd ac amwynder preswyl, naill ai'n unigol neu'n gronnus.

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Nis oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Mae'r polisi hwn yn cyfeirio'n benodol at yr effeithiau ar gymeriad tirweddau pwysig ond nid yw'n cyfeirio at fioamrywiaeth. Mae posibilrwydd y gellir cryfhau'r polisi drwy gynnwys cyfeiriad at gadwraeth natur pwysig, fodd bynnag, cydnabyddir y gall hyn fod wedi'i gynnwys mewn polisïau adneuo mwy manwl. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | +/- | Mae effaith posib y polisi hwn yn ansicr; fodd bynnag, gallai annog technolegau adnewyddadwy a thechnolegau ynni carbon isel gynorthwyo i | |

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gyflawni cyfran o ofynion isadeiledd ynni ar gyfer cymunedau presennol a rhai'r dyfodol. | |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | ++ | Sicrhau bod ardal y Cynllun yn cyflawni ei photensial fel ardal flaengar i fentrau'n seiliedig ar dechnolegau ynni adnewyddadwy neu fentrau ynni carbon isel ac yn cael effaith gadarnhaol fawr ar amcan yr AC hwn. | Gallai sicrhau cyflenwad diogel, glân o ynni ar gyfer y dyfodol yn ardal y Cynllun fod wedi'i sicrhau gan bolisi cryfach, wedi'i gydlynu fyddai'n ceisio annog datblygu technoleg adnewyddadwy a thechnoleg carbon isel. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effaith bosib y polisi hwn gan ei bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | + | Gallai annog cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel gynorthwyo i gynhyrchu busnesau lleol a gwaith yn y maes ynni adnewyddadwy. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Mae effaith bosib y polisi hwn yn ansicr er ei fod yn ceisio osgoi effeithiau negyddol ar y dirwedd. | Dim |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 11 | **Dŵr a pherygl llifogydd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |

**Crynodeb**

Sicrhau bod ardal y Cynllun yn cyflawni ei photensial fel ardal flaengar i fentrau'n seiliedig ar dechnolegau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau ynni carbon isel ac yn cael effaith gadarnhaol fawr ar newid hinsawdd. Awgrymodd yr AC gall yr economi gael ei wella drwy ymdrin ag ynni adnewyddadwy yn fwy cadarn a chyd-drefnus. Mae'r Polisi nawr yn hyrwyddo gwahanol fathau o ffynonnellau ynni adnewyddadwy o fewn cynigion datblygu ynghŷd â datblygiadau technoleg ynni adnewyddadwy yn sefyll ar ben ei hunain.

Aseswyd mai ansicr fyddai effaith y polisi ar fioamrywiaeth, cymunedau, treftadaeth / diwylliant, tirwedd a'r amgylchedd dŵr gan y byddai'n ddibynnol ar weithredu cynigion unigol.

**ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol**

| **Polisi Strategol PS17 Rheoli gwastraff**<br><br>Bydd y Cynghorau yn ceisio sicrhau bod digon o dir ar gael ar gyfer rhwydwaith o gyfleusterau gwastraff sy'n bodloni ymwymiadau rhanbarthol a lleol yn unol â gofynion Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru. Bydd y safleoedd a'r math o gyfleusterau a ddewisir yn hyrwyddo dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn seiliedig ar hierarchaeth o leihau, ailddefnyddio ac adfer. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | | **Asesiad** | **Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio)** | **Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella** |
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | + | Effaith gadarnhaol hirdymor ar yr amcan AC hwn drwy sicrhau bod digonedd o dir ar gael i ddiwallu'r gofyn[9] a hyrwyddo dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn seiliedig ar hierarchaeth o leihau, ailddefnyddio ac adfer. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn | Dim |

[9] Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd – Papur Testun: Isadeiledd

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad** | | ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | |
| 11 | **Dŵr a pherygl llifogydd** | **+/-** | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| **Crynodeb** | | | | |
| Mae'r polisi yn sicrhau bod digon o dir ar gael i ddiwallu'r galw gwastraff ac mae'r polisi'n hyrwyddo dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn seiliedig ar hierarchaeth o leihau, ailddefnyddio ac adfer, sydd â'r potensial o gael effeithiau cadarnhaol yn erbyn amcan AC gwastraff. Ystyriwyd bod effaith bosib y polisi yn ansicr yn erbyn y mwyafrif o'r amcanion AC gan ei bod yn ddibynnol ar weithredu cynigion rheoli gwastraff unigol. | | | | |

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS18 Mwynau**

Bydd y Cynghorau yn cyfrannu tuag at alw rhanbarthol a lleol am gyflenwad parhaus a diogel o fwynau drwy:

1. Diogelu adnoddau agregau y gwyddys amdanynt / posib oddi wrth ddatblygiad parhaol fyddai'n eu sterileiddio neu'n rhwystr i'w hechdynnu;
2. Cynnal banc tir o Dywod a Graean am 12 mlynedd a banc tir wrth gefn o agregau malurion cerrig am 15 mlynedd yn unol â chanllaw cenedlaethol;
3. Uchafu'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd a deunyddiau wedi'u hailgylchu a gwastraff mwynau;
4. Cydnabod ble y gellir cyflawni egwyddorion datblygiad cynaliadwy bydd yn debygol y gellir ymestyn chwareli agregau presennol.
5. Ble mae angen ardaloedd newydd o gyflenwad agregau, dylai'r rhain ddod o leoliadau ble mae cyfyngiadau amgylcheddol isel a ble cymerir i ystyriaeth yr oblygiadau i gludiant.
6. Cynnal cyflenwad o agregau morol sy'n gyson â gofynion ymarfer amgylcheddol da.
7. Sicrhau yr adferir y tir yn ddigonol a gwaith ôl-ofal digonol.

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | + | Mae gan ddiogelu adnoddau agregau a chefnogi ymestyn chwareli agregau presennol (ble bo'n briodol) y potensial i roi effeithiau cadarnhaol i'r economi. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | + | Effaith gadarnhaol hirdymor ar yr amcan AC hwn drwy ddiogelu adnoddau agregau a chynnal y defnydd o ddeunyddiau eilaidd a deunyddiau wedi’u hailgylchu a gwastraff mwynau. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| 11 | **Dŵr a pherygl llifogydd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |

**Crynodeb**

Aseswyd bod gan y polisi y posibilrwydd o gael effeithiau cadarnhaol hirdymor ar yr amcan AC sy’n ymwneud â mwynau drwy ddiogelu adnoddau agregau a mwyhau’r defnydd o ddeunyddiau eilaidd a deunyddiau wedi’u hailgylchu a gwastraff mwynau. Yn ogystal, mae gan ddiogelu adnoddau agregau a chefnogi ymestyn chwareli agregau presennol (ble bo’n briodol) y potensial o gael effeithiau cadarnhaol ar yr economi.

Ystyriwyd bod effaith bosib y polisi yn ansicr yn erbyn y mwyafrif o amcanion yr AC ac mae’n ddibynnol ar weithredu cynigion unigol.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

**Polisi Strategol PS19 Yr Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**

Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Gellir sicrhau hyn trwy:

1. Ddefnyddio mecanweithiau priodol i sicrhau y darperir mesurau addas sy'n lleddfu effeithiau negyddol neu i sicrhau y cyfrannir atynt;
2. Gwrthod datblygiadau a fyddai'n achosi niwed arwyddocaol i gydbwysedd cymeriad ac iaith cymuned oherwydd eu maint, eu graddfa neu eu lleoliad;
3. Annog pob corff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes i ymrwymo i ddarparu arwyddion dwyieithog;
4. Annog defnyddio enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, tai ac enwau strydoedd.

| | Amcan AC | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | + | Mae posib i'r polisi effeithio'n gadarnhaol ar yr amcan AC hwn drwy gynorthwyo i sicrhau strwythur poblogaeth cytbwys drwy sicrhau bod trigolion sy'n siarad Cymraeg yn aros yn eu cymunedau.<br><br>Drwy warchod yr iaith Gymraeg, bydd y polisi hwn yn anuniongyrchol yn cefnogi a gwella bywiogrwydd cymunedau, ac felly hefyd yn cael effaith hirdymor llesol ar iechyd a lles. Mae'r Polisi'n canolbwyntio ar anghenion pobl ifanc ac yn ceisio integreiddio pobl newydd gyda chynlluniau ieithyddol. | Dim |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | ++ | Mae'r polisi yn anelu'n uniongyrchol i warchod yr iaith Gymraeg drwy gyfrwng y broses gynllunio a dylai felly gael effaith gadarnhaol ar yr amcan hwn. Effeithiau cadarnhaol hirdymor. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | + | Bydd gwarchod yr iaith Gymraeg yn cefnogi'r angen i gynnal arwahanrwydd lleol gydag effaith bositif ar yr amcan AC hwn. | Dim |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | **0** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | **0** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | **0** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | **0** | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Dim |
| **Crynodeb** | | | | |
| Cyfeiria'r polisi hwn yn uniongyrchol at yr angen i hyrwyddo a chefnogi'r iaith Gymraeg, ac fe ddylai gynorthwyo i gynnal a chynyddu'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun. Mae'n bwysig i'r Cynllun Adneuo gynnwys mesurau lliniaru manwl i gynorthwyo i fynd gam ymhellach i warchod yr iaith. | | | | |

**Polisi Strategol PS20 Isadeiledd Cymunedol**

Bydd y Cynghorau'n sicrhau, er yn annog tai a thwf yn ardal y Cynllun, y darperir isadeiledd priodol i fodloni anghenion y boblogaeth bresennol a'r boblogaeth yn y dyfodol drwy:

1. wrthwynebu colli cyfleusterau presennol yr isadeiledd cymdeithasol a hyrwyddo eu gwella, yn enwedig y rheini sy'n bwysig i grwpiau bregus yn y gymuned;
2. gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ddarparu cyfleusterau ffisegol, cymdeithasol, gwyrdd/glas ychwanegol fel rhan o ddatblygiadau newydd mewn da bryd;
3. annog cyfleusterau cymdeithasol amlbwrpas sy'n darparu ystod o wasanaethau;
4. sicrhau bod cyfleusterau cymdeithasol newydd wedi'u lleoli'n briodol i ddiwallu anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a'u bod yn hygyrch drwy gerdded a beicio;
5. y gofyn i ddatblygiadau newydd gyfrannu tuag at ddarparu isadeiledd, gyda'r cyfraniadau naill ai ar y safle neu drwy gyfraniadau cynllunio, yn unol â Pholisïau Strategol PS5 a PS12;
6. gwella'r rhwydwaith isadeiledd gwyrdd/glas drwy greu a gwella mannau agored, mannau chwarae a gofod hamdden, yn enwedig mewn ardaloedd ble mae diffyg;
7. ceisio darpariaeth ddigonol o randiroedd a gofodau eraill a'u defnyddio'n effeithiol i dyfu bwyd a phlanhigion;
8. sicrhau bod isadeiledd ffisegol priodol (gan gynnwys gwasanaethau) yn cael ei ddarparu mewn da bryd ble bo'r gofyn gan ddatblygiadau newydd.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| Amcan AC | | Asesiad | Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad a pharhad yr effeithiau a nodir ac a oes modd eu cildroi ai peidio) | Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Mwyhau |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | + | Mae'r polisi yn gofyn am wella'r rhwydwaith isadeiledd gwyrdd (IG) a byddai hynny'n cael effeithiau cadarnhaol, yn enwedig effeithiau cronnus yn yr hirdymor. | Argymhellir y dylai'r Cynghorau ystyried paratoi Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd a Chynllun Gweithredu ar gyfer yr ardal i adnabod ardaloedd ble mae diffygion, adnabod y blaenoriaethau, datblygu mewn camau ac adnabod partneriaid posib ar gyfer y posibilrwydd o gydweithio a chydariannu.<br>Byddai polisi manwl penodol ynglŷn ag IG yn cynorthwyo i sicrhau gweithrediad a sicrhau effeithiolrwydd y gwelliant. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | ++ | Effeithiau cadarnhaol mawr drwy gadw a gwella isadeiledd cymdeithasol, megis tai fforddiadwy, ysgolion, gwasanaethau iechyd, cyfleusterau cymunedol, mannau agored, mynwentydd a mentrau gwaith / hyfforddiant lleol. Dylid annog cyfleusterau amlbwrpas er mwyn darparu ystod o wasanaethau i hyrwyddo rhyngweithio cymdeithasol a chyfrannu tuag at gymunedau sydd â gwell cydbwysedd oed.<br><br>Gallai'r polisi roddi effeithiau cadarnhaol drwy annog gwarchod, cadw neu wella mannau agored, gan gynnwys llecynnau chwarae a hamdden a allai gynorthwyo i ddarparu amgylchedd iach i'r gymuned leol.<br><br>Mae'r gofyn am ddarparu rhandiroedd a gofodau eraill i dyfu bwyd am gael effaith anuniongyrchol gadarnhaol ar iechyd pobl drwy annog ffordd o fyw iachach – gall hefyd annog rhyngweithio cymdeithasol.<br><br>Bydd y gofyn am hygyrchedd drwy gerdded a beicio yn cynorthwyo i annog ffordd o fyw iachach. | Ni sonnir yn benodol am lyfrgelloedd a chanolfannau crefyddol fel rhan o isadeiledd cymdeithasol yn PS4. Ni chyfeirir yn benodol at anghenion pobl ifanc a phobl hŷn – gallai hyn gynorthwyo i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag allfudo a mewnfudo yn ôl eu trefn. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi.<br><br>Argymhellir bod y Cynghorau yn ystyried yr amseriad neu ddatblygu isadeiledd cymdeithasol mewn camau a dylid ei ddarparu'n brydon. Bydd hyn yn bwysig o ran isadeiledd ffisegol a gwasanaethau ynghyd ag isadeiledd gwyrdd. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | +/- | Effeithiau ansicr, yn ddibynnol ar fanylion cynlluniau unigol. | Yn ddibynnol ar bolisïau manwl ynglŷn â dyluniad ac adeiladu cynaliadwy a gweithrediad / meddiannaeth. |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | + | Mae maen prawf rhif 5 yn gofyn am isadeiledd cymdeithasol yn unol â PS4 sy'n crybwyll darpariaeth addysgol yn benodol, gan gynnwys hyfforddiant yn yr iaith Gymraeg i ddysgwyr, ac felly effeithiau cadarnhaol. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | +/- | Effaith ansicr, yn ddibynnol ar fanylion cynlluniau unigol. | Dylai polisi PS16 a pholisïau manwl sicrhau bod asedau diwylliannol a threftadaeth yn cael eu gwarchod a'u |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | gwella. |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | +/- | Gallai'r polisi ddarparu ystod o gyfleoedd gwaith ond mae hyn yn ddibynnol ar faint o isadeiledd cymdeithasol newydd sy'n cael ei ddatblygu. Effaith ansicr, yn ddibynnol ar fanylion cynlluniau unigol. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | +/- | Bydd y polisi yn cael effaith gadarnhaol oherwydd darperir tai fforddiadwy, fodd bynnag, ni roddir manylion ac mae maint yr effeithiau yn ansicr. | Awgrymir bod maen prawf 5 yn cyfeirio at PS11 – tai fforddiadwy. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Effaith ansicr, yn ddibynnol ar fanylion cynlluniau unigol. | Mae PS14 yn cynnwys diogelu a gwella tirweddau a warchodir a diogelu a gwarchod cymeriad a hynodrwydd lleol. Dylai polisïau manwl sicrhau bod lleoliadau a threfweddau penodol yn cael eu diogelu a'u gwella. |
| 9 | **Tir, mwynau, gwastraff** | 0 | Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol. | Mae PS17 yn ymwneud â rheoli gwastraff. |
| 10 | **Trafnidiaeth a Mynediad** | + | Bydd y polisi hwn yn cael effaith gadarnhaol ar hygyrchedd lleol i gyfleusterau allweddol megis ysgolion, gwasanaethau iechyd, canolfannau cymunedol a llecynnau agored, chwarae a hamdden gan fod y polisi yn nodi y cânt eu darparu yn agos at y gymuned a'u bod yn hygyrch drwy gerdded a beicio. | Dim |
| 11 | **Dŵr a pherygl llifogydd** | +/- | Effaith ansicr, yn ddibynnol ar fanylion cynlluniau unigol. | Mae PS1 – Datblygiad Cynaliadwy yn rhoi polisi cyffredinol sy'n cynnwys llifogydd ac adnoddau dŵr ond nid yw'n cynnwys ansawdd dŵr. Awgrymir y gellid cael eglurder pellach drwy bolisi strategol neu fanwl yn benodol ar gyfer dŵr a mynd i'r afael a'r cyswllt rhwng adnoddau dŵr, ansawdd, bioamrywiaeth, isadeiledd gwyrdd a llifogydd. |

**Crynodeb**

Mae'r polisi yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar nifer o amcanion AC. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r lefel o fanylder gofynnol i edrych yn llawn ar ardrawiadau (er enghraifft ar y dirwedd, dŵr a'r economi) ar gael ar y lefel strategol hon a byddai angen eu hasesu ar lefel prosiect a lefel safle. Mae maint yr effeithiau'n ansicr a byddant yn rhannol ddibynnol ar bolisïau manwl pellach sy'n ymwneud ag ansawdd dylunio ac adeiladu cynaliadwy a gweithrediad / meddiannaeth.

Mae'r polisi yn debygol o gael effeithiau cadarnhaol ar gymunedau ac ar iechyd cyhoeddus. Bydd cymunedau yn derbyn effeithiau cadarnhaol uniongyrchol drwy ddarparu cyfleusterau newydd sydd wedi'u cynnal yn dda, megis tai fforddiadwy, ysgolion, gwasanaethau iechyd a chymunedol, mannau agored a llecynnau chwarae / hamdden. Dylai hyn gynorthwyo i annog cynhwysiad ac integreiddiad cymdeithasol ynghyd â chryfhau'r gymuned ag effeithiau cadarnhaol mawr.

Bydd adeiladu a chynnal cyfleusterau iechyd hygyrch yn cael effeithiau cadarnhaol uniongyrchol ar gymunedau. Dylai creu mannau agored, gan gynnwys llecynnau chawarae a hamdden, gael effeithiau cadarnhaol ar iechyd cyhoeddus a lles y cyhoedd yn yr ardal drwy ddarparu gofod sy'n annog adloniant a hamdden; mae'n bosib cael effeithiau cronnus yn yr hirdymor. Mae'r polisi yn nodi y dylai cyfleusterau cymunedol fod ar gael yn agos iawn i'r gymuned a dylent fod yn hygyrch drwy gerdded a beicio – gydag effeithiau cadarnhaol ar yr un pryd ar hygyrchedd a chludiant ac annog ffordd o fyw iachach. Mae maint yr effeithiau yn ddibynnol ar fanylion safleoedd penodol.

Cyfeiria'r polisi'n benodol at ddarparu cyfleusterau addysgol, gan gynnwys hyfforddiant i ddysgwyr Cymraeg, a bydd hyn yn cael effeithiau cadarnhaol ar yr amcan AC hwn.

Gallai'r polisi ddarparu ystod o gyfleoedd gwaith ond mae hyn yn ddibynnol ar faint o isadeiledd cymdeithasol newydd sy'n cael ei ddatblygu.

Awgrymodd yr AC bod y Cynghorau yn ystyried yr amseriad neu ystyried datblygu isadeiledd cymdeithasol mewn camau a dylid ei ddarparu yn brydon. Bydd hyn yn bwysig o ran isadeiledd ffisegol a gwasanaethau ynghyd ag isadeiledd gwyrdd. Mae'r argymhelliad hwn wedi ei ymgorffori i'r polisi. **Argymhellir** hefyd y dylai'r Cynghorau ystyried paratoi Strategaeth Isadeiledd Gwyrdd a Chynllun Gweithredu ar gyfer yr ardal i adnabod ardaloedd ble mae diffygion, adnabod y blaenoriaethau, datblygu mewn camau ac adnabod partneriaid posib ar gyfer y posibilrwydd o gydweithio a chydariannu. Byddai polisi manwl penodol ar IG yn cynorthwyo i sicrhau gweithrediad a sicrhau effeithiolrwydd y gwelliant. Awgrymodd yr AC, hefyd, y dylid ystyried anghenion penodol pobl ifanc a hŷn. Mae hyn wedi cael ymdriniaeth erbyn hyn drwy ystyried grwpiau bregus yn y gymuned.

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| **Polisi Strategol PS21 Technoleg Gwybodaeth a chyfathrebu**<br><br>Bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu isadeiledd sy'n ceisio ehangu neu wella cysylltedd drwy dechnoleg cyfathrebu presennol a thechnoleg sydd ar fin ei gyflwyno, h.y. band eang cyflymder uchel, ffonau symudol a datblygiadau ym mhob rhan o ardal y Cynllun yn ddibynnol ar ddulliau diogelu priodol. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | | **Asesiad** | **Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio)** | **Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella** |
| **1** | **Bioamrywiaeth** | **+/-** | Gallai gosod ceblau telegyfathrebu effeithio'n negyddol ar fioamrywiaeth; fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| **2** | **Cymuned ac Iechyd** | **+** | Bydd gwell cysylltedd drwy dechnoleg cyfathrebu yn cynorthwyo i leihau eithrio cymdeithasol drwy ganiatáu i bobl gyfathrebu'n fwy eang a darparu gwell mynediad at wasanaethau ar-lein. Caiff hyn effaith gadarnhaol hirdymor ar yr amcan AC hwn, yn enwedig i gymunedau gwledig. Yn ogystal, gallai'r polisi hwn gynorthwyo i leihau allfudiad pobl ifanc[10] drwy ganiatáu iddynt weithio o gartref ac efallai cychwyn eu busnesau eu hunain. | Dim |
| **3** | **Newid Hinsawdd** | **+** | Mae'n bosib y ceir effaith gadarnhaol anuniongyrchol ar yr amcan AC hwn gan y gall gwell technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ganiatáu i fwy o bobl weithio o gartref ac felly bydd y nifer o deithiau mewn cerbydau yn lleihau. | Dim |
| **4** | **Yr Iaith Gymraeg** | **+** | Mae'n bosib y gall gwell mynediad at fand eang cyflymder uchel gael effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol drwy roi cyfleoedd i fwy o bobl, yn benodol rhai mewn cymunedau gwledig, i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig ynghyd â hyrwyddo nwyddau a gwasanaethau. | Dim |
| **5** | **Treftadaeth/diwylliant** | **+/-** | Gallai gosod ceblau telegyfathrebu effeithio'n negyddol ar dreftadaeth / diwylliant; fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| **6** | **Economi a chyflogaeth** | **+/-** | Bydd gwella mynediad at fand eang cyflymder uchel yn rhoi cyfleoedd i bobl gychwyn busnesau yn seiliedig ar y we a gwerthu / marchnata eu nwyddau a/ neu eu gwasanaethau a bydd hyn o fudd i gymunedau gwledig. Ar y llaw arall, gall cynnydd mewn archebu ar-lein gael ardrawiad negyddol ar yr economi leol wrth i fwy o bobl brynu o siopau ar-lein yn hytrach na siopau lleol. Felly, mae'r ardrawiad cyffredinol yn ansicr. | Dim |

[10] Adroddiad Sgopio Asesiad Cynaliadwy, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (Gorffennaf 2011).

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **7** | **Tai fforddiadwy** | **0** | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| **8** | **Tirwedd a threfwedd** | **+/-** | Gallai gosod ceblau telegyfathrebu effeithio'n negyddol ar dirweddau pwysig, gan gynnwys AHNEau Llŷn ac Ynys Môn[11], fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar weithredu cynigion unigol. | Dim |
| **9** | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | **+/-** | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| **10** | **Trafnidiaeth a Mynediad** | **+** | Bydd gwella mynediad at fand eang cyflymder uchel yn rhoi cyfleoedd i fwy o bobl weithio o gartref a fydd o bosib yn cael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol drwy leihau'r nifer o deithiau mewn cerbydau. | Dim |
| **11** | **Dŵr a pherygl llifogydd** | **+/-** | Gallai gosod ceblau telegyfathrebu gael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd dŵr, fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar weithredu cynigion unigol. | Dim |
| **Crynodeb** | | | | |
| Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygu technolegau gwybodaeth a chyfathrebu sy'n caniatáu i bobl gyfathrebu'n haws a gwella mynediad at wasanaethau ar-lein a bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, drwy leihau eithrio cymdeithasol. Bydd gwella mynediad at fand eang cyflymder uchel yn rhoi cyfleoedd i bobl gychwyn busnesau yn seiliedig ar y we a gwerthu / marchnata eu nwyddau ac / neu eu gwasanaethau a gweithio o gartref a chael effeithiau cadarnhaol anuniongyrchol hirdymor ar yr economi. Bydd rhoi'r cyfle i bobl weithio o gartref hefyd o bosib yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol ar yr amcanion AC sy'n ymwneud â newid hinsawdd a chludiant gan y bydd yn cynorthwyo i leihau'r nifer o deithiau mewn cerbydau.<br><br>Ystyriwyd bod effaith y polisi ar fioamrywiaeth, treftadaeth / diwylliant, y dirwedd, yr amgylchedd dŵr a mwynau a gwastraff yn ansicr gan ei fod yn ddibynnol ar weithredu cynigion unigol. | | | | |

[11] Adroddiad Sgopio Asesiad Cynaliadwy, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (Gorffennaf 2011).

| **Polisi Strategol PS22 Cludiant cynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd**<br><br>Lleolir datblygiadau fel y gellir lleihau'r angen i deithio. Bydd y Cynghorau'n cefnogi gwelliannau i drafnidiaeth sy'n mwyhau hygyrchedd drwy'r holl ddulliau cludiant, ond yn enwedig ar droed, beicio a chludiant cyhoeddus. Cyflawnir hyn drwy sicrhau mynediad hawdd drwy droedffyrdd, isadeiledd beicio a chludiant cyhoeddus ble bo'n briodol ac felly annog y defnydd o'r dulliau cludiant hyn ar gyfer teithiau lleol a lleihau'r angen i deithio â char.<br><br>Bydd y Cyngor yn ceisio gwella hygyrchedd a cheisio newid ymddygiad teithio. Cyflawnir hyn drwy weithio gyda'n partneriaid er mwyn:<br><br>1. gwella cludiant cyhoeddus a chynyddu'r symudiad tuag at ddulliau cynaliadwy drwy hyrwyddo gwasanaeth cludiant cyhoeddus amlach a dibynadwy;<br>2. cynnal a chadw a gwella gorsafoedd, isadeiledd a gwasanaethau ar y prif Linellau Rheilffyrdd;<br>3. gwella'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a'r rhwydwaith llwybrau beicio er mwyn gwella hygyrchedd drwy'r dulliau teithio hyn;<br>4. cefnogi cynlluniau fydd yn gwella cludiant gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio / rhannu cerbydau mewn ardaloedd o ddiweithdra a datblygiadau newydd; cyfleusterau trosglwyddo llwythi a gwelliannau eraill yn seiliedig ar y rheilffordd;<br>5. pennu neu ddiogelu tir ble bo'n briodol er mwyn hwyluso'r cynlluniau cludiant strategol allweddol:<br><br>• A487 Ffordd Osgoi Dinas – Bontnewydd – Caernarfon<br>• Croesi Afon Menai<br><br>Yn ogystal, bydd y Cynghorau yn gofyn am gyflwyno'r elfennau isadeiledd cludiant allweddol a ganlyn fel rhan o gynlluniau datblygu isadeiledd mawr:<br><br>A5025 Y Fali i Wylfa / Amlwch i Wylfa a gwelliannau isadeiledd cludiant eraill sy'n gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa<br><br>Ceisir ymrwymiadau cynllunio neu fecanweithiau priodol eraill ar gyfer datblygu ym mhob safle datblygu mawr er mwyn lliniaru eu heffaith ar system cludiant yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi Strategol PS5 | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan AC** | **Asesiad** | **Sylwebaeth (gan gynnwys natur gronnus, maint, amseriad, parhad yr effeithiau a nodir ac a ellir cildroi'r effeithiau ai peidio)** | **Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella** |

## ATODIAD 8: Arfarniad Cynaladwyedd o'r Polisiau Strategol

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Bioamrywiaeth** | +/- | Mae posibilrwydd i gynigion unigol, megis ffordd osgoi yr A487 Dinas-Bontnewydd – Caernarfon[12],[13], gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar eu gweithredu. | Dim |
| 2 | **Cymuned ac Iechyd** | + | Mae'r polisi yn cefnogi gwelliannau trafnidiaeth ac yn ceisio mwyhau mynediad i ddulliau cludiant cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus. Bydd hyn yn cynorthwyo i integreiddio cymunedau newydd a rhai sy'n bodoli, gwella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau ac yn annog pobl i fyw bywydau iachach drwy wella llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio. Effeithiau cadarnhaol hirdymor ar gymunedau ac ar iechyd. Yn ogystal, mae cludiant hygyrch yn bwysig i bob carfan o'r gymuned, gan gynnwys yr ifanc, pobl hŷn a phobl ag anableddau | Mater cynaladwyedd allweddol a nodwyd yn Adroddiad Sgopio'r AC[14] yw'r angen i hwyluso rhwydwaith cludiant cynaliadwy mewn ardaloedd gwledig. Mae posibilrwydd y gellir cryfhau'r polisi drwy danlinellu pwysigrwydd gwella mynediad cymunedau gwledig at gludiant cyhoeddus. |
| 3 | **Newid Hinsawdd** | + | Mae posibilrwydd y bydd effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol gan y bydd gwella mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy yn cynorthwyo i liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr a grëir drwy ddatblygu cartrefi ychwanegol a mwy o geir ar y ffordd. | Dim |
| 4 | **Yr Iaith Gymraeg** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 5 | **Treftadaeth/diwylliant** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar weithredu cynigion. | Dim |
| 6 | **Economi a chyflogaeth** | + | Mae cludiant cynaliadwy yn bwysig er mwyn cefnogi canolfannau manwerthu a darparu mynediad at gyflogaeth. Yn ogystal, gall fod o fudd i economi ymwelwyr drwy wella mynediad i leoliadau ymwelwyr a datblygiadau ar gyfer ymwelwyr. Effeithiau cadarnhaol hirdymor ar yr economi. | Dim |
| 7 | **Tai fforddiadwy** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 8 | **Tirwedd a threfwedd** | +/- | Nid oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar weithredu cynigion. | Dim |
| 9 | **Tiroedd, mwynau, gwastraff** | 0 | Dim effeithiau arwyddocaol wedi'u hadnabod. | Dim |
| 10 | **Trafnidiaeth a** | ++ | Bydd y polisi yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor mawr ar gludiant a | Gweler yr Argymhellion / Mesurau Lliniaru a Gwella ar |

12 Taith (2009) Cynllun Teithio Rhanbarthol Gogledd Cymru
13 TraCC (200) Cynllun Teithio Rhanbarthol Canolbarth Cymru
14 Adroddiad Sgopio Asesiad Cynaliadwy, Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd (Gorffennaf 2011)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Mynediad** | | mynediad drwy gefnogi gwelliannau cludiant a cheisio mwyhau mynediad at ddulliau cludiant cynaliadwy. Bydd hyn yn gwella mynediad i swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau a lleihau’r angen i deithio â char[15]. | gyfer Amcan 2 yr AC (Cymuned ac Iechyd) |
| 11 | **Perygl dŵr a llifogydd** | +/- | Nis oes sicrwydd ynghylch effeithiau posib y polisi hwn gan eu bod yn ddibynnol ar sut y gweithredir cynigion unigol. | Dim |
| **Crynodeb** | | | | |
| Bydd y polisi yn cael effeithiau cadarnhaol hirdymor mawr ar gludiant a mynediad drwy gefnogi gwelliannau cludiant a cheisio mwyhau mynediad at ddulliau cludiant cynaliadwy. Bydd hyn yn cynorthwyo i wella mynediad at swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau a lleihau’r angen i deithio â char. Bydd gwella mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus yn cynorthwyo i integreiddio cymunedau newydd a rhai sy’n bodoli, gwella mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau a bydd yn annog pobl i fyw bywydau iachach drwy wella llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio. Yn ogystal, mae cludiant hygyrch yn bwysig i bob carfan o’r gymuned, gan gynnwys yr ifanc, pobl hŷn a phobl ag anableddau<br><br>Ystyriwyd bod posibilrwydd y ceir effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol ar yr economi gan fod cludiant cynaliadwy yn cefnogi canolfannau manwerthu ac yn rhoi mynediad i waith. Yn ogystal, gall fod o fudd i’r economi ymwelwyr drwy wella mynediad i leoliadau ymwelwyr a datblygiadau ar gyfer ymwelwyr. Effeithiau cadarnhaol hirdymor ar yr economi. Mae posibilrwydd y bydd effeithiau cadarnhaol hirdymor anuniongyrchol gan y bydd gwella mynediad at ddulliau teithio cynaliadwy yn cynorthwyo i liniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr a grëir drwy ddatblygu cartrefi ychwanegol a mwy o geir ar y ffordd.<br><br>Ystyriwyd bod effeithiau’r polisi ar fioamrywiaeth, treftadaeth / diwylliant, y dirwedd a’r amgylchedd dŵr yn ansicr gan ei bod yn ddibynnol ar weithredu cynigion unigol. | | | | |

[15] Cynghorau Sir Ynys Môn a Gwynedd – Papur Testun: Isadeiledd

# PENNOD 1 - 6

## Pennod 1 – Crynodeb gweithredol

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 1** | 1.32 tabl 3 | 1098 | **Cefnogi'r sector ynni** - trwy gefnogi datblygiad (e.e. niwclear, biomas, pŵer solar a datblygiadau gwynt) lle mae unrhyw effeithiau andwyol sylweddol wedi cael eu hosgoi (e.e. sŵn, ansawdd aer, traffig ac effaith weledol), **neu eu lleddfu i lefelau priodol.** | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'r effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## Pennod 3 - Cyd-destun Polisi (Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol)

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 2** | 3.7 – 3.9 | 1099, 1100, 1101 | 3.7 Mae safle ger gorsaf pŵer niwclear Wylfa, sydd yng ngogledd Ynys Môn, wedi cael ei adnabod gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol fel safle **sydd o bosib yn addas** ~~posib~~ ar gyfer gorsaf pŵer niwclear newydd, sef Wylfa Newydd **erbyn 2025**. **Oherwydd ei bwysigrwydd i'r DU** mae adeiladu'r atomfa niwclear newydd yn Brosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol o dan Ddeddf Cynllunio 2008. ~~Oherwydd ei bwysigrwydd i'r Deyrnas Unedig~~ **Fel Prosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol** fe fydd datblygiad **pwerdy niwclear newydd ar** y safle yma'n destun proses ganiatáu gwahanol i'r un mae awdurdod cynllunio lleol fel arfer yn | Er cywirdeb | Newid bach nad yw'r effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | mynd drwyddo. O dan y drefn ~~newydd~~ **wneud penderfyniadau ar Brosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn Neddf Cynllunio 2008,** fe gaiff cais am Rybudd Caniatâd Datblygu ei gyflwyno i'r ~~Adran Isadeiledd Cenedlaethol o fewn yr~~ Arolygiaeth Cynllunio. **Bydd yr Arolygiaeth cynllunio yn ystyried y cais a gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol am Ynni ynglŷn ag a** ~~, a fydd yn penderfynu os~~ ddylid caniatáu'r cais ai peidio. **Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yna'n penderfynu caniatáu'r cais a' pheidio.**<br><br>3.8A ~~Yn wahanol i'r drefn yn Lloegr,~~ **Yng Nghymru nid all y Caniatâd am Rybudd Datblygu roi caniatâd i ddatblygiad sy'n cael ei adnabod fel "datblygiad cysylltiedig" ar wahân i amgylchiadau prin iawn. Yn lle hynny, yng Nghymru mae datblygiadau cysylltiedig yn derbyn caniatâd o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan** yr Awdurdod Cynllunio Lleol ~~a fydd yn penderfynu ceisiadau am ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â'r prif safle~~. **Er nad ydynt yn ddatblygiadau cysylltiedig fel y'i diffinnir o dan y Ddeddf Cynllunio mae'r Cynllun yma yn defnyddio'r term yn gysylltiedig â datblygiad sy'n cefnogi'r Prosiect Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol.** Gall datblygiadau cysylltiedig **ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd** gynnwys:<br><br>• ~~Gwaith hwyluso ar y prif safle~~<br>• Gwelliannau ffyrdd **ar hyd yr A5025** ~~sydd ar neu oddi wrth y llwybr presennol~~<br>• **Logisteg cludiant a llwythi** ~~Isadeiledd logisteg a pharcio a theithio~~<br>• Llety i weithwyr adeiladu **dros dro**<br><br>3.9 Yng Ngorffennaf 2011, fe gymeradwywyd chwe Datganiad Polisi Cenedlaethol am Ynni. Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn rhoi'r polisi cenedlaethol a gaiff eu defnyddio i asesu cynigion am brosiectau mawr am | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ynni a gwneud penderfyniadau amdanynt **gan yr Ysgrifennydd Gwladol**. Datganiad Polisi Cenedlaethol EN1 **(Datganiad Trawsfwaol Polisi Cenedlaethol am Ynni)**, EN-3 (**Datganiad Polisi Cenedlaethol am Ynni Adnewyddol)**, EN-5 **(Datganiad Polisi Cenedlaethol am Isadeiledd Rhwydwaith Trydan)** a EN-6 **(Datganiad Polisi Cenedlaethol am Gynhyrchu Pŵer Niwclear)** yw'r rhai sy'n debygol o fod yn berthnasol i ardal y Cynllun oherwydd y prosiectau isadeiledd mawr sy'n debygol o fod ag oblygiadau defnydd tir i'r ardal, e.e. adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa Newydd, a gwelliannau i'r rhwydwaith trawsgludo trydan y Grid Cenedlaethol. Mae Cyfrol II o Ddatganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 yn adnabod ffin **ddangosol** y safle ar gyfer yr orsaf bŵer niwclear newydd yn Ynys Môn; **mae EN-6 fodd bynnag yn cydnabod y gallai ffiniau a welir yn y DPC fod yn wahanol i ffiniau'r safle a fydd yn cael ei gynnig ar gyfer caniatâd datblygu er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau a fydd eu hangen oherwydd cynllun manwl, tir adeiladu ychwanegol, ac yn y blaen.**<br><br>~~Er mai bwriad pennaf~~ **Mae Deddf Cynllunio 2008 a'r** Datganiadau Polisi Cenedlaethol **yn creu fframwaith y bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried a phenderfynu ar geisiadau am brosiectau isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol. Disgwylir i gynlluniau datblygu lleol gael eu paratoi yn unol â'r datganiadau polisi cenedlaethol ac felly** ~~yw rhoi arweiniad i'r Arolygaeth Cynllunio i wneud penderfyniadau ar brosiectau mawr perthnasol,~~ fe fydd angen i'r broses o baratoi'r Cynllun roi sylw llawn **i'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol** iddynt a'u dehongli wrth baratoi unrhyw bolisïau perthnasol. | | |
| **NF 3** | 3.10 Tabl 5 | 1081 | Cynllun Trafnidiaeth **Leol ar y Cyd** Gogledd Cymru<br>**Y weledigaeth ydi cael gwared o rwystrau i dwf economaidd, ffyniant a lles trwy greu rhwydwaith teithio ddiogel, gynaliadwy, fforddiadwy ac** | Er cywirdeb | Newid bach ar gyfer cysondeb nad |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **(2015)**<br><br>(TAITH) | **effeithiol. Mae'r Cynllun yn adnabod chwech o allbynnau, sef:**<br><br>**1. Cysylltiadau i gyrchfannau a marchnadoedd allweddol – o fewn a rhwng Gogledd Cymru a rhanbarthau a gwledydd eraill (gyda ffocws penodol ar hygyrchedd i'r Parthau Menter a gwelliannau i hyfywdra a bywiogrwydd trefi a chanolfannau allweddol eraill);**<br><br>**2. Mynediad i gyflogaeth;**<br><br>**3. Mynediad i wasanaethau;**<br><br>**4. Cynyddu lefelau cerdded a beicio;**<br><br>**5. Gwell diogelwch pobl ac eiddo;**<br><br>**6. Buddiannau ac ardrawiadau llai ar yr amgylchedd.**<br><br>~~Bwriad y cynllun yw cyflenwi rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, gynaliadwy ac effeithlon i gefnogi gweithgareddau economaidd a chymdeithasol cymunedau a busnesau amrywiol Gogledd Cymru gan roi ystyriaeth i'w rôl Ewropeaidd strategol.~~ | | yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ~~Bwriedir cyflawni'r weledigaeth hon drwy:~~<br><br>• ~~Optimeiddio hygyrchedd at gyflogaeth, addysg, iechyd a gwasanaethau ar gyfer holl gymunedau amrywiol Gogledd Cymru~~<br>• ~~Gwella ansawdd a darpariaeth trafnidiaeth teithwyr ar draws Gogledd Cymru ac i mewn ac allan o'r Rhanbarth~~<br>• ~~Hwyluso symudiad effeithlon nwyddau i gefnogi diwydiant a masnach y Rhanbarth a'i swyddogaethau Porth Rhyngwladol~~<br>• ~~Darparu, hyrwyddo a gwella ffurfiau trafnidiaeth a seilwaith cynaliadwy er mwyn isafu effeithiau negyddol trafnidiaeth ar yr amgylchedd lleol ac yn fyd-eang~~<br>• ~~Gwella diogelwch pob ffurf o drafnidiaeth~~<br>• ~~Gwella effeithlonrwydd a defnydd o'r rhwydwaith drafnidiaeth~~<br>• ~~Uwchraddio a chynnal y seilwaith trafnidiaeth, gan ddarparu seilwaith arwyddocaol newydd yn ôl yr angen~~ | | |
| | | | Cynllun Trafnidiaeth **Leol ar y Cyd** Canolbarth Cymru (TRACC) **(2015)** | **Y weledigaeth ydi cynllunio ar gyfer system deithio integredig a fforddiadwy yn y rhanbarth a'i wireddu mewn partneriaeth, er mwyn hyrwyddo datblygiad economaidd, sicrhau mynediad i bob gwasanaeth a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedau a gwneud cyfraniad go iawn i reoli carbon ac ansawdd yr amgylchedd. Mae'r Cynllun yn** | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **adnabod pump o allbynnau, sef:**<br><br>**1. Mynediad i gyrchfannau a marchnadoedd allweddol o fewn Canolbarth Cymru, ac i ac o gyrchfannau a marchnadoedd allweddol eraill;**<br>**2. Mynediad i gyflogaeth a gwasanaethau gan ganolbwyntio ar fynd i'r afael ar fynediad i'r Parth Menter a Pharthau Twf Lleol;**<br>**3. Gwella iechyd a lles trwy gynyddu cerdded a beicio;**<br>**4. Gwell diogelwch pobl ac eiddo;**<br>**5. Buddiannau ac ardrawiadau llai ar yr amgylchedd.**<br><br>~~Bwriad y Cynllun yw cynllunio ar gyfer, a darparu mewn partneriaeth, system drafnidiaeth integredig yn Rhanbarth Trac sy'n hwyluso datblygu economaidd, yn sicrhau mynediad i bawb i wasanaethau a chyfleoedd, cynnal a gwella ansawdd bywyd cymunedol ac yn parchu'r amgylchedd.~~<br>~~Blaenoriaethau Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol Trac yw:~~<br><br>• ~~Lleihau'r galw am deithio~~<br>• ~~Lleihau effaith mudo ar yr amgylchedd lleol a byd-eang.~~<br>• ~~Gwella diogelwch eiddo a diogelwch personol holl~~ | | |

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ~~ddefnyddwyr trafnidiaeth.~~<br>• ~~Gwella hygyrchedd teithio i wasanaethau, swyddi a chyfleusterau ym mhob sector o gymdeithas.~~<br>• ~~Gwella ansawdd ac integreiddiad y system drafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys swyddogaeth trafnidiaeth gymunedol.~~<br>• ~~Darparu, hyrwyddo a gwella dulliau cynaliadwy o deithio.~~<br>• ~~Cynnal a gwella'r seilwaith priffyrdd a thrafnidiaeth bresennol.~~<br>• ~~Sicrhau bod materion teithio a hygyrchedd yn cael eu hintegreiddio'n briodol mewn penderfyniadau defnydd tir.~~<br>• ~~Gwella effeithlonrwydd, dibynadwyedd a chydgysylltiad mudo o fewn Canolbarth Cymru a rhwng y canolbarth a rhanbarthau eraill yng Nghymru a Lloegr.~~<br>• ~~Darparu rhwydwaith cydgysylltiedig ac integredig o deithio a thrafnidiaeth trwy weithio'n effeithiol mewn partneriaeth.~~ | | |

## Pennod 5 – Gweledigaeth ac Amcanion Strategol

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 4** | 5.4 | 1103 | Yn achos Ynys Môn, mae Rhaglen Ynys Ynni Môn wedi adnabod y weledigaeth ganlynol yn y Canllaw Cynllunio Atodol: Gorsaf Niwclear | Er mwyn cynnal cysondeb | Newid bach nad yw'n |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Newydd yn y Wylfa (2014) i osod cyfeiriad ar gyfer hyrwyddo datblygiad Wylfa Newydd, sydd yn allweddol i drawsffurfio economi'r Ynys i'r dyfodol a darparu ansawdd bywyd hir dymor a chynaliadwy i drigolion Ynys Môn:<br><br>"Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol."<br><br>**<u>Mae'r Cynghorau yn ystyried bod Prosiect Wylfa Newydd yn rhoi cyfle unigryw a digynsail i Ynys Môn a hyrwyddwyr y prosiect i gydweithio i gyfrannu i drawsnewid cymdeithasol-economaidd Ynys Môn a rhanbarth Gogledd Cymru, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy, gwella ansawdd bywyd cenedlaethau presennol a'r dyfodol a chryfhau hunaniaeth a gwahanolrwydd lleol.</u>** | mewnol | effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 5** | Gweledigaeth – pwynt bwled 5 | 1104 | Erbyn 2026 …..<br><br>• lle sy'n brolio gweithlu medrus priodol<br>• lle ble mae'r preswylwyr a busnesau'n gallu achub ar y cyfleoedd trawsffurfiol economaidd newydd i ffynnu<br>• rhywle sydd yn hybu gweithgaredd economaidd ymysg pobl ifanc<br>• un sydd gan sail economaidd amrywiol, eang, gynaliadwy, gyda chysylltiadau da, ac sydd yn gwneud y defnydd gorau o gryfderau lleol a chyfleoedd a lle mae'r manteision sy'n deillio o'r sail economaidd amrywiol yn aros yn lleol.<br>• un sy'n cael ei adnabod fel lleoliad blaenllaw i sectorau ynni adnewyddol a charbon isel amrywiol a diwydiannau wedi eu selio ar wybodaeth a fydd wedi cyfrannu at drawsnewid yr economi leol, **<u>gan</u>** | Er mwyn cynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **<u>gynnwys bod yn gartref i bwerdy niwclear newydd a fydd yn cynhyrchu ynni carbon isel a chataleiddio adfywiad yn ardal y Cynllun.</u>** | | |
| **NF 6** | Thema 3 | 1105 | **<u>SO (x) cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.</u>** | Er eglurder ac er mwyn cynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 7** | Thema 4 SO14 | 116 | SO14 Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd **<u>er mwyn cefnogi twf economaidd.</u>** | Er eglurder ac er mwyn cynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 8** | Thema 5 Prif ganlyniadau | 306 | Prif ganlyniadau:<br><br>• bydd datblygiadau a gafodd ganiatâd mewn Ardaloedd Cadwraeth neu wrth ei ymyl wedi cynnal neu wella eu cymeriad hanesyddol;<br>• ni fydd unrhyw Heneb Gofrestredig wedi cael ei golli oherwydd datblygiad;<br>• ni fydd datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio wedi arwain at golli safle o werth cadwraeth natur ryngwladol neu genedlaethol **<u>neu ddifrodi unrhyw un o'u nodweddion</u>**; | Er mwyn cynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • bydd datblygiadau a gafodd ganiatâd o fewn neu wrth ymyl Safleoedd Treftadaeth Byd presennol neu rhai'r dyfodol wedi cynnal neu wella eu cymeriad hanesyddol. | | |

## Pennod 6 - Y Strategaeth

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 9** | 6.11 | 302 | Mae'n ceisio sefydlu rhwydwaith cryf o aneddleoedd sy'n gwneud ardal y Cynllun yn fwy hunangynhaliol o ran mynediad at swyddi, tai fforddiadwy, a gwasanaethau megis addysg a hyfforddiant, siopau, a hamdden. Y flaenoriaeth fydd cwrdd ag anghenion mor lleol ag y bo modd, a chadw cymaint o fanteision buddsoddi'n lleol ag sy'n bosibl, gan gydnabod bod gan swm y buddsoddiad yn Wylfa Newydd y potensial i fod o fudd i ardaloedd y tu hwnt i ardal y Cynllun. Mae'r Cynllun yn cydbwyso pwysigrwydd cynnal economïau gwledig gyda'r angen i ddiogelu cefn gwlad, **<u>gan gynnwys yr amgylchedd naturiol</u>**. Ceir rhestr lawn o aneddleoedd, lle maent yn eistedd yn y goeden aneddleoedd, a'r goblygiadau yn Atodiad 4. | Er mwyn cynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 10** | 6.24 & 6.25 | 959, 960, 972, 973, 985, Cyngor | 6.24 Mae Cynllun Integredig Sengl (2014) Gwynedd ac Ynys Môn yn nodi'r angen i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu. Mae Strategaeth Iaith Gymraeg Gwynedd (2013) a Pholisi Cynllunio Cymru yn cydnabod y gall y system cynllunio defnydd tir gyfrannu at gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg mewn cymunedau. **<u>Mae Deddf Cynllunio (Cymru) yn cyflwyno pwerau deddfwriaethol ar gyfer yr iaith Gymraeg yn y system gynllunio. Mae Adran 11 yn</u>** | Er mwyn cynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **gofyn i awdurdodau cynllunio lleol i roi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg wrth wneud asesiad cynaliadwyedd, fel rhan o'r broses paratoi Cynllun. Mae hyn yn sicrhau bod yr asesiad yn cynnwys asesiad o effeithiau posib y cynllun ar ddefnydd yr iaith Gymraeg yn y gymuned.**<br><br>**Felly, ar ôl ystyried dwysedd siaradwyr Cymraeg ar draws ardal y Cynllun, a'r cyd-destun deddfwriaethol a pholisi, credir ei fod yn fater sydd angen ei gyfarch yn y Cynllun.** Yn dilyn hynny, mae cynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg yn nod o fewn y fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEI) ailadroddol wedi hysbysu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae canlyniadau'r AEI yn cael eu cofnodi yn yr adroddiad sy'n cofnodi'r casgliadau sydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau. **Mae amcan strategol SO1 yn atgyfnerthu'r amcan cynaliadwyedd.**<br><br>6.25 Felly ystyrir ei bod yn angenrheidiol i'r Cynllun gynnwys polisi penodol i **ddweud am yr amgylchiadau lle bydd y Cynghorau angen rhoi ystyriaeth i ardrawiad datblygiad ar yr iaith Gymraeg a diwylliant** ~~ymdrin â'r iaith Gymraeg~~. Yn ogystal, hyrwyddir diogelu a gwella'r iaith o fewn ardal y Cynllun drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun. **Mae Tabl 7 ym Mhennod 3 yn tynnu sylw at y polisïau yma.** Mae'r polisïau'n hwyluso'r math o ddatblygiad sy'n gallu **cyfrannu i** greu'r amgylchiadau cywir i gyfrannu at gynnal a chreu cymunedau Cymraeg eu hiaith, e.e. cymysgedd o dai (daliadaeth a math), cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi a fydd yn ymhelaethu ar Bolisïau perthnasol yn y Cynllun er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy. | | |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws**

| **Cyf** | **Rhan** | **Rhif sylw** | **Newid â Ffocws** | **Cyfiawnhad** | **Sgrinio AC** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **NF 11** | 6.26 | 1113 | Y newid economaidd trawsnewidiol a ragwelir a fydd yn deillio o raddfa unigryw prosiectau isadeiledd ar Ynys Môn a statws yr Ynys fel Parth Menter fydd gyrrwr mwyaf y newid gofodol a chymdeithasol dros gyfnod y Cynllun. Mae'n bwysig bod y Cynllun yn gweithredu fel hwylusydd i ddatblygiad economaidd. Caiff hyn ei gyflawni drwy fframwaith polisi sy'n cefnogi egwyddorion Cynlluniau Strategol pob Awdurdod, Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn a Gwynedd, Cynlluniau Cyflogaeth a Rhaglen Ynys Ynni Môn. **Yn benodol, fe fydd y Cynllun yn hyrwyddo datblygiad amserol Prosiect Wylfa Newydd yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol.** | Er mwyn cynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 12** | 6.28 | 1114 | Bydd cyflenwi Wylfa Newydd a phrosiectau strategol mawr eraill yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol gan y sector preifat. Byddant angen buddsoddiadau mawr mewn seilwaith, gan ddod â chyfleoedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol o bwys, yn ogystal â heriau. Mae rôl bwysig gan y Cynllun o ran hwyluso datblygiad cynaliadwy'r prosiectau hyn wrth warchod diwylliant, treftadaeth ac amgylchedd naturiol unigryw'r ardal. Bydd y Cynghorau mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, **hyrwyddwyr prosiect** a sefydliadau busnes yn hyrwyddo a chefnogi datblygu economaidd cynaliadwy. Er mwyn hybu gweithgarwch economaidd ar Ynys Môn dynodwyd yr Ynys yn Ardal Fenter. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae dynodiad statws Ardal Fenter i Ynys Môn yn ategu'r Rhaglen Ynys Ynni Môn bresennol, a sefydlwyd i ddod â swyddi sgiliau uchel i'r ardal o fuddsoddiadau ynni mawr a sefydlu'r ynys fel canolfan ragoriaeth fyd-enwog mewn | Er mwyn cynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cynhyrchu ynni carbon isel. Mae naw o safleoedd allweddol ar yr Ynys wedi eu hadnabod mewn perthynas â bod yn destun i gymorth â ffocws. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dynodi Ardal Fenter Eryri, a allai, er ei bod wedi'i lleoli ym Mharc Cenedlaethol Eryri, helpu i ledaenu ffyniant y tu hwnt i ffiniau gweinyddol y Parc. | | |
| **NF 13** | 6.40 | 117, 218 | Mae'r gofyniad sylfaenol ar gyfer tai (y targed) i ardal y Cynllun, h.y. 7,184, **sy'n rhoi ystyriaeth i'r gyfradd llefydd gwag,** yn seiliedig ar y dystiolaeth i gyd ac mae ganddo berthynas uniongyrchol â rhagolygon twf ardal y Cynllun a dyheadau'r ddau Gyngor. Ystyrir bod cysylltu gofynion tai i ragolygon economaidd ehangach yn gwella cadernid a'r gallu i gyflenwi Strategaeth y Cynllun. Rhagwelir y bydd yn cyfrannu at roi cyfle a lle i fyw a gweithio yn ardal y Cynllun. Mae lefel y twf yn adlewyrchu effeithiau'r dirwasgiad, yn ogystal â'r rhagolygon economaidd trawsnewidiol a ddisgwylir yn nes ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun. Bydd y Cynllun yn hwyluso'r datblygiad sy'n ofynnol i ategu cynlluniau a rhaglenni strategol pob Cyngor. Dylai hyn olygu y bydd yr ardal yn dechrau dod yn fwy oedran cytbwys, yn fwy annibynnol ac yn llai dibynnol ar ffynonellau allanol o lafur, gyda chyfle i leihau'r lefelau cymudo allan, a bod ar ei ffordd i fod yn set o gymunedau mwy cynaliadwy a hunangynhaliol. | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

## Pennod 7.1 - Polisïau Strategol a Pholisïau Manwl - Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog

### Iaith Gymraeg a Diwylliant

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 14** | 7.1.3 | 120, 959, 960, 972, 973, 985 | 7.1.3 Lle mae bwriad i ddatblygu, rhaid ystyried gwella a diogelu'r iaith a diwylliant. **Mae cynnal cymunedau presennol yn allweddol i hyn. Mae'r Cynllun, ynghyd â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn cynnig nifer o bolisïau, er nad ydynt yn cyfeirio'n benodol at yr iaith Gymraeg, a fydd yng nghyd â mentrau gan bartneriaid yn cael effaith bositif. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod canran uchel o'r boblogaeth bresennol yn byw mewn aneddleoedd gwledig ac felly mae'n cefnogi cymunedau gwledig a threfol.**<br><br>**Mae'r angen i hyrwyddo economïau lleol iach yn debygol o fod yn bwysig iawn i gynnal cymunedau a chryfhau'r iaith. Mae'r ffordd yma yn darparu cyfleoedd i bobl aros o fewn ardal y Cynllun yn hytrach na mynd i chwilio am waith yn rhywle arall. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisïau a fydd yn hyrwyddo'r amcan yma, gan annog cyfleoedd economaidd yn agos i le mae pobl yn byw a fydd yn cael effaith bositif ar fywiogrwydd y gymuned a'r iaith Gymraeg. Yn ychwanegol i hynny disgwylir i unrhyw ddatblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol ddangos dealltwriaeth o gyfansoddiad ieithyddol yr ardal maent yn gwneud cais cynllunio ar ei gyfer a chydnabyddiaeth o statws y Gymraeg fel iaith swyddogol yng Nghymru. Dylid dangos ymrwymiad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Bydd polisïau yn cynorthwyo i sicrhau bod y lefel** | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **<u>gywir a math iawn o alw am gartrefi yn cael ei gyfarch a bod pryd fydd datblygiad yn digwydd yn galluogi iddo ddigwydd heb amharu yn arwyddocaol ar gymeriad y gymuned. Yn ychwanegol bydd polisïau yn anelu i gadw cyfleusterau cymunedol presennol a hyrwyddo cyfleusterau amgen neu gyfleusterau newydd, os yn briodol.</u>**<br><br>7.1.4 Mae Polisi Strategol PS1 yn gosod y cyd-destun ar gyfer asesu'r effaith y gallai cynigion ei chael ar yr iaith a'r diwylliant, a hefyd darparu gwybodaeth o ran graddfa a lleoliad datblygiad newydd fel sy'n cael ei fwriadu o fewn y strategaeth aneddleoedd. | | |
| **NF 15** | Polisi PS1 | 127, 800, 937, 955, 958, 1115, 959, 960, 972, 973, 985 | POLISI STRATEGOL PS1: YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG<br><br>Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:<br><br>1. **<u>Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig yn disgyn i mewn i un o'r categorïau canlynol:</u>**<br>**a.** **<u>Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m sg. neu fwy; neu</u>**<br>**b.** **<u>Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu</u>** | Er eglurder ac er mwyn sicrhau cysondeb mewnol | Mae'r polisi wedi cael ei gryfhau gyda chynnwys yr angen am Ddatganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Iaith Gymraeg ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau. Potensial i fwyhau effeithiau positif danran Treftadaeth Diwylliant yn atodiad 6 o'r Adroddiad Adnau AC (Chwef, |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **yn gronnol yn darparu mwy na'r targed tai dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 14 – 18; neu**<br>c. **Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap nad yw'n cynnig darparu ystod ddigonol o unedau tai o ran eu maint a mathau;**<br>2. **Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig:**<br>a. **Ar safle ar hap; ac**<br>b. **Yn mynd i ddenu neu roi llety i lawer mwy o bobl na ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisïau a chynigion y Cynllun;**<br>3. Ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad **i liniaru'r effeithiau hynny** ~~iddynt~~;<br>4. Wrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned;<br>5. **Gofyn i** ~~Annog bod~~ holl arwyddion **gweithredol** gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes yn ddwyieithog;<br>6. ~~Annog defnydd o~~ **Gosod disgwyliad y bydd** enwau ~~lleoedd~~ Cymraeg **yn cael eu defnyddio** ar gyfer datblygiadau | | 2015). Fodd bynnag, nid yw'r newidadau yn debygol o effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | newydd, enwau tai a strydoedd. | | |
| **NF 16** | 7.1.4 | 800, 937, 955, 958, 1115, 959, 960, 972, 973, 985 | **<u>Bwriedir y bydd yr holl fesurau a ddisgrifir yn fras yn y paragraffau o flaen y Polisi yma yn cefnogi cymunedau a'r iaith Gymraeg. Er hynny, er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus adeg cais cynllunio gofynnir am wybodaeth am geisiadau lle gall datblygiad ddigwydd, pe fyddai'n cael caniatâd cynllunio, ar gyflymder neu raddfa sy'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd adeg paratoi'r Cynllun, fel y gwelir ym maen prawf 1 a 2. Dylid gofyn am gyngor cynllunio cyn cyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i weld os fydd angen Datganiad neu Asesiad.</u>** ~~Bydd yr iaith Gymraeg hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun. Dylai'r holl ystod o gyfleoedd a ddarperir gan bolisïau strategol a manwl, gan gynnwys darparu amrywiaeth o fathau o dai, twf economaidd lleol a diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gyfrannu at wella bywiogrwydd yr iaith Gymraeg.~~ Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach am y mater. | Er eglurder ac er mwyn sicrhau cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 17** | 7.1.7 – 7.1.9 | 1118 | 7.1.7. Fe ddaeth ardoll cynllunio newydd i rym ar 6 Ebrill 2010 drwy Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010. Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru a | Er mwyn ychwanegu eglurder a | Newid bach nad yw'n effeithio ar |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws**

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1119<br><br>1120 | Lloegr godi arian oddi wrth ddatblygwyr i ymgymryd â phrosiectau adeiladu newydd yn eu hardal hwy. Bydd modd defnyddio'r arian i dalu am amrediad eang o isadeiledd mae angen amdano o ganlyniad i ddatblygiad. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau cludiant, amddiffynfeydd rhag llifogydd, ysgolion, ysbytai a chyfleusterau iechyd a gofal cymdeithasol eraill, parciau, llecynnau gwyrdd a chanolfannau hamdden.<br><br>~~7.1.8. Ar ôl 6ed o Ebrill 2015 dim ond 5 cyfraniad o gytundebau adran 106, ers 6ed Ebrill 2010, y gellir ei gynnwys mewn cronfa ar gyfer adnoddau a rannir, er enghraifft cyfraniadau ar gyfer gofodau chwarae yn sgil cyfres o ddatblygiadau mewn anheddle.~~<br><br>7.1.**8 Fe gafodd y gyfundrefn** ~~Mecanwaith gwirfoddol ydy'r~~ Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) **ei chyflwyno gyda'r nod i greu cyfundrefn doll fwy safonedig o ran isadeiledd adnabyddedig, er mwyn i ddatblygwyr a chynghorau weithio yn unol ag ef, ac felly i leihau'r amser a gymerir i negodi cytundebau rhwymedigaethau cynllunio unigol ar gyfer datblygiadau. Fe** gafodd y mecanwaith ei ddylunio, **felly,** i ddisodli'r system bresennol o gytundebau 106. **Fodd bynnag nid yw'r gyfundrefn CIL yn orfodol - mecanwaith gwirfoddol ydyw ac mae angen** ~~Fodd bynnag mae'n rhaid i'r~~ tystiolaeth **i** ddangos bod y farchnad yn ddigon hyfyw i ganiatáu hynny.<br><br>**7.1.9 Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau CIL yn cyfyngu'r defnydd o gytundebau adran 106 o'r 6ed o Ebrill 2015. O'r dyddiad hwn gall Gynghorau ond gronni cyfraniadau o i fyny i bum gytundeb adran 106 (a gytunwyd ers 6ed o Ebrill 2010) i ariannu neu i ddarparu isadeiledd. Fe ellir cynnwys** | chywirdeb i'r Cynllun. | ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **cyfraniadau anghyfyngedig cynt o fewn cronfa ar gyfer rhannu adnoddau, er enghraifft, gellir cronni cyfraniadau ar gyfer mannau chwarae o nifer o ddatblygiadau o fewn aneddleoedd.**<br><br>**7.1.9A** Bwriad y Cynllun yw sicrhau cyfraniadau drwy Gytundebau 106 lle **maent yn cwrdd â'r profion statudol o: fod yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio; fod yn uniongyrchol berthnasol i'r datblygiad; yn weddol a rhesymol berthnasol o ran graddfa a math i'r datblygiad; a'u bod o fewn y cyfyngiadau cronni** ~~mae'r Rheoliadau'n parhau i ganiatáu i hynny ddigwydd~~ (gweler paragraff uchod). Mae'r Cynghorau'n ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno CIL, gan roi sylw i effaith hynny ar hyfywdra datblygiad. Bydd y CIL yn destun proses a dogfennau ar wahân i'r Cynllun. Bydd gwybodaeth yn cael ei gasglu am gostau darparu isadeiledd strategol, y gwahanol ffynonellau i dalu am yr isadeiledd a hyfywdra safleoedd. Bydd trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd gyda datblygwyr a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb a gwybodaeth am yr ardal. | | |
| **NF 18** | Polisi PS2 | 1122,<br><br>119 | Bydd y Cynghorau'n disgwyl i ddatblygiadau newydd sicrhau bod darpariaeth ddigonol o isadeiledd (naill ai ar y safle neu i wasanaethu'r safle) sy'n angenrheidiol yn cael ei ddarparu yn amserol ar gyfer gwneud y cynnig yn dderbyniol trwy amod neu rwymedigaeth cynllunio. **Yn ddarostyngedig ar gwrdd â'r profion statudol, fe all fod yn ofynnol gofyn am daliadau cynnal yn unol â chytundebau adran 106** ~~Fe ellir fod angen~~ | Er mwyn ychwanegu eglurder a chywirdeb i'r Polisi yn unol â'r Rheoliadau. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer taliadau cynnal~~ er mwyn cwrdd â chostau dechreuol i redeg gwasanaethau a chyfleusterau ac i ddigolledu cymunedau am golled neu ddifrod achosir gan ddatblygiad.<br><br>Lle nad ellir darparu'r isadeiledd **sy'n galluogi bwriad, yn** angenrheidiol **a hanfodol o ganlyniad i'r bwriad** ar safle gofynnir am gyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, i gael y buddsoddiad angenrheidiol oddi ar y safle. Os yw effaith y datblygiad yn un cronnol fe ellir cronni'r cyfraniadau ariannol, o fewn cyfyngiadau deddfwriaethol, er mwyn lliniaru'r effaith cronnol. | | |
| **NF 19** | 7.1.10 – 7.10.12 | 697, 1115, 511, 959, 960, 972, 973, 985 | 1. Tai fforddiadwy<br>2. Cyfleusterau chwaraeon a hamdden<br>3. Cyfleusterau addysgol<br>4. **Cyfleusterau cyflogaeth a hyfforddiant**<br>5. Hamdden a llecynnau agored<br>6. Isadeiledd trafnidiaeth yn cynnwys cludiant cyhoeddus<br>7. Cyfleusterau gofal iechyd<br>8. Cadwraeth natur<br>9. Cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu<br>10. Isadeiledd adnewyddadwy a charbon isel<br>11. Cyfleusterau diwylliannol a chymunedol<br>12. **Mesurau Iaith Gymraeg**<br>13. Isadeiledd band llydan<br>14. ~~Adfywio~~ **Tir y cyhoedd** | I ddangos bod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws**

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 15. Mesurau rheoli risg llifogydd<br>16. Isadeiledd gwasanaethau, gan gynnwys cyflenwad dŵr, draenio, carthffosydd, nwy a thrydan<br>17. ~~Cyfraniad arall yr ystyrir sy'n briodol i'r cynnig.~~ **Asedau archeolegol a hanesyddol** | | |
| **NF 20** | Polisi ISA 1 | 1125,<br>1126,<br>1127,<br>121,<br>439,<br>469,<br>1060 | 7.1.10. Yn aml, bydd datblygiadau newydd angen isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau newydd, neu byddant yn ddibynnol ar rai presennol, i wneud cynigion yn dderbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir. **Nid yw'r rhestr sydd wedi ei chynnwys yn y Polisi yn un drwyadl neu gyfyngedig, ond mae'n rhoi syniad o'r cwmpas posib o isadeiledd a all fod yn ofynnol.** Mae modd ceisio cael buddion **statudol** ~~cymunedol~~, sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig ac yn angenrheidiol ar gyfer derbyn caniatâd cynllunio, gan y datblygwyr, cyn belled **â'u bod yn cwrdd â'r profion sydd wedi eu hamlinellu ym mharagraff 7.1.6 o'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol** ~~â bod graddfa a math y buddion hynny'n rhesymol gysylltiedig â'r cynnig~~. **Mae Papur Testun 13 ar Isadeiledd Cymunedol yn gwahaniaethu rhwng isadeiledd hanfodol a dewisol.** Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth isadeiledd ar gyfer safle datblygu yn cael ei lleoli a'i dylunio mewn modd sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig. Dylid gwarchod mwynderau'r trigolion lleol hefyd. Bydd **Buddion Statudol** ~~cyfraniadau at isadeiledd cymunedol~~ yn cael eu sicrhau un ai trwy rwymedigaethau ~~cynllunio~~ **Adran 106 dan** ~~fel y nodir yn Adran 106~~, Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, **fel amodau caniatâd cynllunio** neu, **mewn amgylchiadau pan fo cyfundrefn codi tâl CIL yn cael ei gyflwyno gan y** | I sicrhau eglurder a chysondeb. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Cynghorau,** trwy dderbynebion ~~ardoll~~ dan Reoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 ~~os dengys ei bod hi'n hyfyw i wneud hynny.~~<br><br>**Ble gall y gallu i ddarparu datblygiad gael ei roi yn y fantol gan raddfa ymrwymiadau cynllunio a chostau eraill, efallai bydd angen asesiad hyfywdra. Dylai hwn gael ei hysbysu gan yr amgylchiadau penodol o'r safle a'r datblygiad arfaethedig dan sylw. Mae'n angen dadansoddiad manylach wrth asesu hyfywdra safle penodol o gymharu â lefel cynllun.**<br><br>7.1.11. Mae **Buddion Statudol** ~~rhwymedigaeth gynllunio yn gytundeb cyfreithiol rhwng yr awdurdod lleol a datblygwr sy'n rhwymo'r naill ochr a'r llall. Mae rhwymedigaethau cynllunio~~ yn fodd o sicrhau cyfraniadau **ariannol a di-ariannol** er mwyn gwella ansawdd datblygiad, darparu ~~buddion~~ ~~ac~~ isadeiledd ~~cymunedol~~, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol a all godi o ganlyniad i'r datblygiad. Bydd math a gwerth y **Buddion Statudol** ~~rhwymedigaethau cynllunio~~ a geisir mewn perthynas â **datblygiad** ~~chaniatâd cynllunio~~ yn cael eu hystyried yn ôl pob achos unigol. **Fe fydd y Cynghorau yn edrych ar ddefnyddio Buddion Statudol er mwyn sicrhau cyfraniadau priodol gan ddatblygwyr ble** ~~Os~~ nad oes darpariaeth isadeiledd ar gael, neu os yw'n annigonol, ~~bydd y Cyngor yn disgwyl i'r datblygwr wneud cyfraniad priodol.~~<br><br>7.1.12 Bydd y profion a amlinellir yng Nghylchlythyr 13/97 ac yn Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol 2010 yn cael eu defnyddio i bennu pryd fyddai'n briodol ceisio **Buddion Statudol** ~~rhwymedigaethau cynllunio~~. Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach ar y mater. | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **NF 21** | 7.1.15 | 959, 960, 972, 973, 985 | 7.1.15 Mae Polisi ISA2 yn anelu i warchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Mae cyfleusterau hamdden a chymunedol lleol yn bwysig i anghenion iechyd, cymdeithasol, addysgol **<u>ieithyddol</u>** a diwylliannol ardal y Cynllun, yn ogystal â'i les economaidd. Er dibenion y polisi hwn, diffinnir cyfleusterau cymunedol fel cyfleusterau a ddefnyddir gan gymunedau lleol at ddibenion iechyd, hamdden, cymdeithasol ac addysgol ac maent yn cynnwys ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, darpariaeth gofal iechyd, theatrau, neuaddau pentref, mynwentydd, addoldai, tafarndai, ac unrhyw gyfleuster arall sy'n cyflawni'r rôl o wasanaethu'r gymuned. | | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 22** | Polisi ISA 5 | 304 | 2. Gwneud cyfraniad ariannol tuag at gyfleusterau newydd **<u>gan gynnwys offer, gwella cyfleusterau presennol ar safleoedd sydd â mynediad neu wella mynediad i fannau agored presennol.</u>** ~~neu well, yn cynnwys offer rywle arall.~~ | I ddangos fod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

**Trafnidiaeth gynaliadwy, datblygiad a hygyrchedd**

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| NF 23 | Polisi PS4 | 148, 664, 1131 | Caiff datblygiad ei leoli i leihau'r angen i deithio. Bydd y Cynghorau'n cefnogi gwelliannau trafnidiaeth fydd yn uchafu hygyrchedd ar gyfer pob dull o deithio, ond yn arbennig ar | I sicrhau eglurder. | Newid bach nad yw'n effeithio ar |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws**

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | droed, beic a chludiant cyhoeddus. Caiff hyn ei wireddu trwy gael mynediad hwylus ar lwybrau, isadeiledd beicio a chludiant cyhoeddus lle mae'n briodol, ac felly hyrwyddo'r defnydd o'r dulliau yma o deithio ar gyfer teithio lleol a lleihau'r angen i deithio yn y car.<br><br>Bydd y Cynghorau'n ceisio gwella hygyrchedd a cheisio newid ymddygiad teithio trwy weithio gyda phartneriaid i:<br><br>1 Gynnal gwasanaeth cludiant cyhoeddus priodol, gan gydnabod dulliau gwahanol o gynnal cyfleon teithio;<br>2. Gynnal a gwella gorsafoedd, isadeiledd a gwasanaethau ar y prif Linellau Rheilffordd gan gynnwys mynediad i bobl anabl **a gwelliannau eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd**;<br>3. **Lle'n bosib gwarchod,** gwneud ychwanegiadau, ~~neu~~ welliannau **a hyrwyddo** ~~i rwydwaith~~ llwybrau ~~cyhoeddus~~ a **hawliau tramwy (yn cynnwys llwybrau, llwybrau ceffyl a chilffyrdd)** llwybrau beicio er mwyn gwella diogelwch, hygyrchedd a mynediad (gan gynnwys defnyddwyr anabl) i'r dulliau yma o deithio **ac i gynyddu buddion iechyd, hamdden, lles a thwristiaeth i'r gymuned leol ac ymwelwyr**;<br>4. Cefnogi cynlluniau a fydd yn gwella trafnidiaeth trwy gyfleusterau parcio/ rhannu a theithio i ardaloedd cyflogaeth a datblygiad newydd **a** c**h**yfleusterau symud llwythau ~~a gwelliannau eraill sy'n gysylltiedig â rheilffyrdd~~;<br>5. Ddynodi neu warchod tir lle mae'n briodol er mwyn hyrwyddo cynlluniau trafnidiaeth strategol.<br><br>Bydd y Cynghorau'n disgwyl y bydd elfennau isadeiledd | | ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | allweddol **<u>priodol</u>** yn cael eu darparu fel rhan o gynlluniau datblygiadau isadeiledd mawr **<u>unai</u>** **<u>mewn nwyddau neu trwy oblygiadau cytundeb 106</u>** .<br><br>~~Defnyddir ymrwymiadau cynllunio neu fecanweithiau priodol eraill gyda phob datblygiad ar safleoedd datblygiadau mawr i leihau eu heffaith ar system trafnidiaeth ardal y Cynllun yn unol â Pholisi Strategol PS2 yn ogystal â hyrwyddo system integredig o drafnidiaeth.~~ | | |
| **NF** 24 | Polisi TRA 1 | 1132 | <u>1. Gwelliannau i Isadeiledd Presennol</u><br><br>Caniateir gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant presennol os gallir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:<br>i. Bydd y llwybr a/neu'r safle a ddewisir yn cael yr ardrawiad lleiaf posib ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol, y dirwedd ac eiddo; a<br>ii. Cedwir y tir a gymerir yn barhaol y lleiaf sydd ei angen a bydd yn gyson â dylunio da a thirweddu o ansawdd uchel; ac<br>iii. Yn achos llwybrau beicio, cynlluniau parcio a theithio, ardaloedd gwasanaeth ger y ffordd ac ochr y ffordd, bydd y cynllun yn helpu i wella diogelwch ffyrdd; ac Yn achos ffyrdd newydd, mae ystod lawn o ddatrysiadau ymarferol i broblem trafnidiaeth wedi'u hystyried ac mae gwella ffyrdd yn cynnig y datrysiad gorau; ac<br>v. Yn achos ardaloedd gwasanaeth ger ochr y ffordd, rhaid i'r cynllun ffinio'r rhwydwaith ffyrdd strategol a chanolbwyntio ar wasanaethu anghenion gyrwyr, peidio â rhwystro symudiad traffig strategol ac yn unol â Pholisi Strategol PS12, ni ddylent danseilio'r ddarpariaeth manwerthu yn y | I sicrhau eglurder. | Newid arfaethedig yn darparu eglurder pellach i helpu gryfhau'r polisi mewn perthynas â'r angen am asesiadau trafnidiaeth ar gyfer datblygiadau mawr. Newidiadau bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol neu Bentrefi.<br><br>2. Trosglwyddo Rhwng Dulliau Cludiant<br><br>Er mwyn hwyluso trosglwyddo rhwng dulliau cludiant a helpu i leihau'r galw am deithio a lleihau'r ddibyniaeth ar geir, caniateir y cynigion canlynol:<br><br>i. Gwelliannau i gyfnewidfeydd rheilffyrdd a bysus presennol, gan gynnwys mesurau i hwyluso mynediad drwy ddulliau teithio actif a phobl anabl gydag anghenion mynediad penodol;<br>ii. Cyfleusterau parcio a theithio wedi'u lleoli'n strategol a'u cefnogi gan wasanaethau bysus deniadol, aml a dibynadwy;<br>~~iv~~**iii**. Cyfleusterau parcio lorïau dros nos a chyfleusterau trosglwyddo llwythi wedi'u lleoli'n strategol;<br>**i**v. Cyfleusterau ansawdd uchel ar gyfer gyrwyr a theithwyr gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i seddau, gwybodaeth, cyfleusterau toiledau;<br>v~~i~~. Cyfleusterau ar gyfer parcio a rhannu mewn lleoliadau priodol ar y rhwydwaith priffyrdd strategol yn agos at aneddleoedd neu oddi mewn iddynt;<br>vi~~i~~. Cyfleusterau ar gyfer parcio bysus, tacsis a mannau gollwng teithwyr;<br>vii~~i~~. Cyfleusterau cyfnewidfa ar gyfer cludiant ar ddŵr.<br><br>3. Asesiadau Cludiant<br><br>**Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau graddfa fawr neu** | | |

### ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **ddatblygiad o fewn ardal sensitif sydd yn cynyddu'n sylweddol y nifer o deithiau trwy gerbydau preifat yn cael ei wrthod os nad ydynt yn cynnwys mesurau fel rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth ac/neu Gynllun Teithio.** ~~Yn unol â Pholisi PCYFF1, dylid darparu Asesiad Trafnidiaeth~~. Ble bo'r Asesiad Trafnidiaeth yn dangos bod angen Strategaeth Gweithredu Cludiant, bydd angen sicrhau hyn drwy rwymedigaeth cynllunio.<br><br>4. Cynlluniau Cludiant<br><br>Bydd gwelliannau i'r rhwydwaith cludiant strategol yn ardal y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy ddiogelu a darparu tir. Mae'r cynlluniau yn cynnwys:<br><br>i. A487 Caernarfon i Bontnewydd<br>ii. Ffordd gyswllt Llangefni<br>~~iii. A5025 Y Fail i Wylfa Newydd / Amlwch i Wylfa Newydd a gwelliannau eraill i'r isadeiledd cludiant sy'n gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa Newydd gan gynnwys Canolfan Gorfforaethol~~. | | |
| **NF** 25 | 7.1.44 | 1133 | 7.1.44. ~~Gellid lleihau'r nifer o deithiau ar y rhwydwaith ffyrdd i Wylfa Newydd drwy greu Canolfan Gorfforaethol. Gallai gweithwyr nad oes angen iddynt fynychu'r safle gynnal cyfarfodydd a hyfforddiant yn y Ganolfan Gorfforaethol a gellid ymgorffori hwn â chyfleuster parcio a theithio er mwyn caniatáu teithio ymlaen i safle Wylfa Newydd~~. **Bydd y Cynghorau yn gweithio efo hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd i ddatblygu cynllun priodol o ddatrysiad trafnidiaeth i liniaru'r effaith o adeiladu a gweithrediad yr orsaf bŵer newydd. Yn ogystal i'r gwelliannau a gyfeirir tuag atynt uchod bydd** | I sichau eglurder | Mae'r newidadau arfaethedig yn darparu eglurder pellach o ran lliniaru effeithiau traffig posib sy'n codi o'r prosiect Wylfa. Fodd bynnag, nid yw'r |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | <u>**datrysiad yn debygol o gynnwys datblygu cynllun parcio a rhannu datblygu canolfan logisteg i reoli'r niferoedd ac amseriad symudiadau trafnidiaeth i safle'r orsaf pŵer. Bydd yr hyrwyddwr a'r Cynghorau yn gweithio ar y cyd mewn partneriaeth i ddatblygu Strategaeth Trafnidiaeth a Chludiant wedi'i Integreiddio ar gyfer prosiect Wylfa Newydd.**</u> | | newidadau arfaethedig yn effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF** 26 | Polisi TRA 2 | 1096 | <u>**7.1.44A Yn unol â pholisi a chanllaw cenedlaethol dylid defnyddio safonau uchafswm parcio o fewn ardal y Cynllun fel ffurf o reoli'r galw.**</u><br><br>[Paragraff newydd i'w gynnwys cyn paragraff 7.1.45) | I ddangos fod sylw priodol yn cael ei wneud i bolisi cenedlaethol. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF** 27 | Polisi TRA 3 | 161 | Gwrthodir cynigion sy'n atal y posibilrwydd o ail agor isadeiledd hen reilffyrdd neu reilffyrdd segur i'w defnyddio at ddibenion rheilffyrdd neu ddibenion cludiant amgen. <u>**Ble'n berthnasol ac yn hyfyw, bydd y posibilrwydd o ail agor isadeiledd rheilffyrdd segur ar gyfer defnydd fel rheilffordd neu ddibenion cludiant amgen yn cael ei hyrwyddo a'i annog.**</u> | I sicrhau eglurder. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## Pennod 7.2 - Polisïau Strategol a Pholisïau Manwl - Byw'n Gynaliadwy

### Datblygiad cynaliadwy a newid hinsawdd

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 28** | Polisi PS5 | 1056, 167, 168, 852, 853, | PS5: DATBLYGU CYNALIADWY<br><br><u>**Cefnogir datblygiadau ble gellid**</u> ~~Gwrthodir cynigion oni bai y~~ | I sicrhau eglurder a chywirdeb yn y | Newid bach nad yw'n effeithio ar |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 768 | ~~gallir~~ dangos eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. ~~Mae'n rhaid i~~ **Dylai** bob cynnig:<br><br>1. Gydymffurfio â pholisi ac arweiniad cynllunio cenedlaethol yn unol â PCYFF 1;<br>2. Lliniaru'r hyn sy'n peri newid hinsawdd ac addasu i'r effeithiau hynny sy'n anochel yn unol â Pholisi Strategol PS6;<br>3. Rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio tir ac isadeiledd yn effeithiol, gan flaenoriaethu ailddefnyddio tir ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen lle bynnag bo hynny'n bosib oddi mewn i ffiniau datblygu'r Ganolfan Isranbarthol, y Canolfannau Gwasanaeth Trefol a Lleol, Pentrefi neu yn y mannau mwyaf priodol y tu allan iddynt yn unol â Pholisi Strategol PS15 **PS10 a PS11**;<br>4. Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith; isadeiledd ffisegol a chymdeithasol a dewis o ddulliau teithio;<br>5. Gwarchod, cefnogi a hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg yn unol â Pholisi Strategol PS1;<br>6. Cadw a gwella ansawdd asedau'r amgylchedd adeiledig a hanesyddol (gan gynnwys eu gosodiad), gwella'r ddealltwriaeth ohonynt, y gwerthfawrogiad ohonynt am eu cyfraniad cymdeithasol ac economaidd a gwneud defnydd cynaliadwy ohonynt | Cynllun<br><br>I ddangos fod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol. | ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn unol â Pholisi Strategol PS17;<br>7. Gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd naturiol, ei dirwedd a'i asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys eu deall a'u gwerthfawrogi am y cyfraniad cymdeithasol ac economaidd y maent yn eu darparu yn unol â Pholisi Strategol PS16.<br>8. Lleihau'r effaith ar adnoddau lleol, osgoi llygredd ac ymgorffori egwyddorion adeiladu cynaliadwy er mwyn cyfrannu tuag at gadwraeth ac effeithlonrwydd ynni; defnyddio ynni adnewyddadwy; lleihau / ailgylchu gwastraff; defnyddio deunyddiau o ffynonellau cynaliadwy; a diogelu ansawdd y pridd ;<br>9. Lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir ac a wastreffir; lleihau'r effaith ar adnoddau dŵr ac ar ansawdd y dŵr; rheoli perygl llifogydd ac uchafu'r defnydd o gynlluniau draenio cynaliadwy a dilyn amcanion Cynllun Rheoli Bas Afonydd Gorllewin Cymru.<br><br>Pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd:<br><br>10. Ddiwallu anghenion y boblogaeth leol drwy gydol eu hoes o ran ansawdd, y mathau o ddaliadaeth a fforddiadwyedd unedau tai yn unol â Pholisi Strategol PS13;<br>11. Hyrwyddo economi leol amrywiol ac ymatebol, sy'n annog buddsoddiad ac sy'n gallu cynnal ein Canolfannau, Pentrefi ac ardaloedd gwledig yn unol â Pholisi Strategol PS10;<br>12. Cefnogi'r economi leol a busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes a datblygu sgiliau yn unol â Pholisi Strategol PS10; | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 13. Lleihau'r angen i deithio **gyda thrafnidiaeth breifat** ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn ac mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen, gan roi pwyslais arbennig ar gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus yn unol â Pholisi Strategol PS4;<br>14. Hyrwyddo safonau dylunio uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r ardal leol, mannau hygyrch sy'n medru ymateb i ofynion y dyfodol ac sy'n lleihau trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ofni trosedd yn unol â Pholisi Manwl PCYFF 2.<br>15. **Hyrwyddo cyd-leoli datblygiadau er mwyn optimeiddio cyfleoedd ar gyfer ynni adewyddadwy ble'n berthnasol** | | |
| **NF 29** | Polisi PCYFF 1 | 1136, 774, 124, 123, 171, 172 | PCYFF 1: MEINI PRAWF DATBLYGU<br><br>**Rhaid i gynnig ddangos ei fod yn cydymffurfio gyda:**<br><br>1. ~~Rhaid i gynnig cydymffurfio â'r~~ holl bolisïau perthnasol yn y Cynllun;<br>2. ~~Rhaid i gynnig cydymffurfio a~~ pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.<br>**Dylai cynigion:**<br>3. ~~Caniateir~~ ~~cynigion~~ **roi blaenoriaeth i safleoedd y t**u mewn i ffiniau datblygu neu ffurf adeiledig y clystyrau cydnabyddedig restrir yn y goeden aneddleoedd a welir ym Mholisi Strategol PS15 **oni bai fod lleoliad gwledig yn hanfodol neu os oes angen am leoliad penodol,** yn ddarostyngedig i ystyriaethau cynllunio | | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | perthnasol.<br>4. wneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys dwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar o ran datblygiadau preswyl (oni bai bod yna amgylchiadau lleol **<u>neu gyfyngiadau ar y safle</u>** sy'n pennu dwysedd is);<br>5. ymgorffori gofod mwynderol ar gyfer ei feddianwyr presennol ac yn y dyfodol;<br>6. roi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff;<br>7. Rhaid i gynnig cynnwys, lle mae hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer trin a chael gwared â rhywogaethau ymwthiol yn effeithiol;<br><br>Yn ychwanegol, gwrthodir cynigion os fyddant yn cael effaith andwyol sylweddol ar:<br><br>8. Golygfeydd cyhoeddus amlwg i mewn, allan, neu ar draws unrhyw anheddle neu ardal cefn gwlad agored;<br>9. fynediad cerbydol i'r rhwydwaith priffyrdd ac ohono ac ar isadeiledd cludiant cyhoeddus, beicio a cherddwyr (yn unol â Pholisi TRA4)<br>10. y rhwydwaith priffyrdd o ganlyniad i faint neu'r math o draffig a grëir gan y cynnig (yn unol â Pholisi TRA4);<br>11. iechyd, diogelwch neu fwynderau meddianwyr eiddo lleol, defnyddiau tir neu eiddo arall neu nodweddion yr ardal leol oherwydd mwy o weithgareddau, aflonyddwch, dirgryniad, sŵn, llwch, mygdarth, sbwriel, dreiniau, llygredd golau, neu ffurfiau eraill o lygredd neu aflonyddwch;<br>12. ansawdd dŵr daear neu ddŵr wyneb;<br>13. dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas; | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 14. dir **<u>sydd wedi cael ei ddynodi</u>** ~~sy'n cael ei warchod~~ ar gyfer **<u>ddatblygiadau eraill</u>** ~~defnyddiau eraill, neu sy'n amharu datblygiad neu ddefnydd tir cyfagos~~. | | |
| **NF 30** | Polisi PCYFF 2 | 778 | 7.ii **<u>Dim yn</u>** atal y defnydd presennol o dir arall sydd gyfochrog oherwydd gosodiad a ffurf y datblygiad; | I sicrhau cywirdeb. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 31** | Polisi PCYFF 3 | 943 | 1. Ddangos sut mae'r datblygiad arfaethedig yn cydymffurfio gyda'r Asesiad Ardal Cymeriad Tirwedd neu'r Asesiad Ardal Cymeriad Tirwedd berthnasol **<u>neu asesiadau manwl eraill a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.</u>** | I sicrhau eglurder. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 32** | Polisi PCYFF 4 | 1057<br><br>1058 | Dylai datblygwyr roi ystyriaeth ofalus i'r mesur rheoli carbon mwyaf priodol, neu grŵp o fesurau, ar gychwyn cynllun datblygu. Gallai hwn fod yn fesur unigol neu'n gyfuniad o fesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy. Fe ddylid defnyddio'r dechnoleg sydd fwyaf priodol i'r safle a'r ardal o gwmpas. Ym mhob achos, fe ddylai'r cynlluniau fod o'r ansawdd esthetig uchaf yn unol â Pholisi PCYFF2 gan roi ystyriaeth i'r effeithiau cronnus posib o gyfuniad o fesurau rheoli carbon.<br><br>**<u>Gall asesiad ynni helpu i adnabod yr opsiynau rheoli carbon mwyaf priodol ar gyfer datblygiad a dylid ymgymryd ag ef cyn penderfynu ar y dull fwyaf addas i'w gymryd. Rhestrir yr opsiynau posib ar gyfer effeithlonrwydd ynni a chynhyrchiad ynni adnewyddadwy isod:</u>** | I sicrhau eglurder a chywirdeb. | Mae'r polisi wedi ei gryfhau drwy ei gwneud hi'n ofynnol am asesiad ynni. Ar y cyfan, nid yw'r newidadau arfaethedig yn effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

### Technoleg Adnewyddol

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 33** | 7.2.24 | Cyngor | 7.2.24 Yn 2012 fe gafodd Astudiaethau Capasiti Ynni Adnewyddol eu paratoi ar gyfer (Sir) Gwynedd ac Ynys Môn i asesu'r capasiti posibl ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddol. Pwrpas yr Astudiaethau oedd cynorthwyo'r Cynghorau i ddeall yr adnoddau oedd yn bosibl oddi wrth y gwahanol dechnolegau ynni adnewyddol. Fe fu'r Astudiaethau'n ystyried nifer o dechnolegau ar y tir e.e. gwynt ar y tir, pŵer dŵr, biomas. Roedd yr astudiaethau'n cydnabod technolegau yn y môr, ond nid yw'r rheiny'n cyfrannu at ffigyrau capasiti ynni adnewyddol ardal y Cynllun. **Yn Medi 2015 fe ddaru Lywodraeth Cymru gyflwyno diweddariad i 'arweiniad Ymarferol: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel - Llawlyfr i Gynllunwyr'. Mae'r llawlyfr yn cynnwys adran ar sut i asesu'r potensial ar gyfer datblygu ffermydd solar. Hefyd mae'n rhoi cyngor ynghylch troi'r asesiadau ynni adnewyddadwy yn bolisïau. Cafwyd llythyr dyddiedig y 10 Rhagfyr 2015 gan Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol yn datgan ei ddisgwyliad ar gyfer polisïau ynni mewn CDLl. Mae'n disgwyl dynodiadau neu adnabod ardaloedd chwilio ar raddfa awdurdod lleol (5MW i 25MW) ar gyfer ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel. Yng ngoleuni hyn mae'r Cynghorau wedi** | I ddangos bod ystyriaeth briodol wedi cael ei roi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | <u>**comisiynu gwaith ychwanegol i ganfod unrhyw ardaloedd posib ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Yn ogystal bydd asesiad yn erbyn Astudiaeth Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau yn canfod os oes unrhyw ardal graddfa awdurdod lleol y dylid ei adnabod o fewn y Cynllun.**</u> Fe welodd yr Astudiaethau, tra bod gan ardal y Cynllun adnodd naturiol uchel ar gyfer ynni adnewyddol, fod hefyd nifer fawr o dirweddau yn rhai o ansawdd uchel, sy'n lleihau beth mae modd ei ddefnyddio. Mae'r Polisi Strategol a ganlyn yn rhoi fframwaith cadarnhaol ar gyfer darparu ynni o ffynonellau adnewyddol. | | |
| **NF 34** | Polisi PS7 | 607, 765 | POLISI STRATEGOL PS7: TECHNOLEG ADNEWYDDADWY<br><br>Bydd y Cynghorau'n ceisio sicrhau bod ardal y Cynllun yn cyflawni ei botensial fel ardal arweiniol ar gyfer mentrau wedi'u seilio ar dechnolegau adnewyddadwy neu garbon isel lle bynnag y bydd hynny'n ymarferol a hyfyw trwy hybu:<br><br>1. technolegau ynni adnewyddol fel rhan o gynigion fydd yn cefnogi cynhyrchu ynni o ffynonellau amrywiol sy'n cynnwys, biomas, morol, gwastraff, dŵr, daear, haul, a ffynonellau gwynt, gan gynnwys micro gynhyrchu;<br>2. datblygiad technoleg ynni adnewyddol ar ben ei hun | I sicrhau cysondeb | Bydd y newidadau arfaethedig yn helpu lleihau ardrawiad gwifrau uwchben ar y tirwedd drwy eu gosod dan ddaear mewn ardaloedd sensitif oni bai y byddent yn achosi niwed i ddiddordebau cydnabyddedig. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Caiff hyn ei gyfarch trwy:<br><br>i. sicrhau nad yw cyfarpar mewn ardaloedd wedi'u cynnwys o dan ddynodiadau tirwedd ryngwladol neu genedlaethol ac i'w gweld tu draw i'w ffiniau, neu ardaloedd o werth lleol ar gyfer y dirwedd, yn unol â Pholisi Strategol PS16, ddim, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn cyfaddawdu amcanion y dynodiadau, yn enwedig o ran cymeriad y dirwedd, yr effaith weledol ac amwynder preswyl **a mwynder tai a ddefnyddir gan Ymwelwyr ar eu gwyliau;**<br>ii. sicrhau nad yw arsefydliadau yn unol â PS16, yn cyfaddawdu amcanion dynodiadau cadwraeth natur ryngwladol, genedlaethol a lleol unai'n unigol neu'n gronnus;<br>iii. cefnogi gosod cyfarpar tu allan i ardaloedd wedi'u dynodi, cyn belled nad yw'r cyfarpar yn achosi niwed sylweddol y gellir ei brofi i gymeriad y dirwedd, bioamrywiaeth, amwynder preswyl, **a mwynder tai a ddefnyddir gan Ymwelwyr ar eu gwyliau,** naill ai yn unigol neu gyda'i gilydd.<br><br>**I leihau effaith gweledol gwifrau newydd uwchben yn gysylltiedig efo fath gyfarpar, yn enwedig mewn mannau sensitif, fe ddylid gosod y gwifrau tan ddaear os na fod hyn yn achosi niwed sylweddol i ddiddordebau cydnabyddedig eraill neu hyfywedd y bwriad, na ellid ei negyddu neu liniaru.** | | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 35** | Polisi ADN 1 | 608, 711, 713, 894, | POLISI ADN1: YNNI GWYNT AR Y TIR | I sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn | Newid bach nad yw'n effeithio ar |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 950 | Gwrthodir unrhyw ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Fawr neu Fawr Iawn yn ardal y cynllun.<br><br>Caniateir cynigion ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt eraill ar y tir yn amodol ar asesiad o'u heffeithiau amgylcheddol a chynaladwyedd:<br><br>**1.** Caniateir ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ganolig ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol yn unig neu pan mae'r cynigion yn ymwneud ag ail bweru ffermydd gwynt / ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt presennol.<br>**2.** Caniateir cynigion ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ficro a Bychan y tu allan i'r AHNE, ATA a gosodiad y**r AHNE, ATA** Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd.<br>**3.** Yn yr AHNE, ATA a gosodiad y**r AHNE, ATA** Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd, dim ond datblygiadau ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ar Raddfa Ddomestig sy'n perthnasu'n dda gydag aneddleoedd / adeiladau presennol fydd yn cael eu caniatáu.<br><br>Dylai pob cynnig gydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:<br><br>i. ni fydd y cynnig yn cael effaith annerbyniol ar fwynderau gweledol neu gymeriad y dirwedd drwy: nifer, graddfa, maint, dyluniad a gosodiad ~~melinau~~ **tyrbinau** gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn enwedig mewn ardaloedd sydd wedi'u dynodi oherwydd eu gwerth hanesyddol neu werth y dirwedd; | rhwydd<br><br>I ddangos bod y Cynllun yn rhoi sylw llawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod allan. | ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ii. ni fydd y cynnig yn arwain at niwed i fioamrywiaeth yn cynnwys safleoedd a rhywogaethau wedi'u gwarchod yn statudol, yn enwedig ystlumod ac adar;<br>iii. ni fydd y cynnig yn arwain at niwed sylweddol i ddiogelwch neu fwynderau derbynyddion sensitif yn cynnwys **<u>effaith gan</u>** sŵn, taflu cysgod ac **<u>effaith ar</u>** iechyd cyhoeddus, ac ni fydd yn cael effaith annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd, rheilffyrdd nac awyrennau.<br>iv. ni fydd cynnig yn arwain at niwed sylweddol i fwynderau gweledol preswyl trigolion cyfagos;<br>v. ni fydd y cynnig yn arwain at ymyrraeth electromagnetig annerbyniol â chyfarpar cyfathrebu, systemau rheoli radar neu draffig awyr, systemau cyfathrebu'r gwasanaethau brys neu systemau telegyfathrebu eraill;<br>vi. ni fydd y datblygiad yn cael effeithiau cronnus annerbyniol mewn perthynas â ~~melinau~~ **<u>tyrbinau</u>** gwynt presennol, y rhai sydd wedi'u gweithredu a'r rhai sydd â chaniatâd, ac unrhyw nodweddion amlwg eraill yn y dirwedd;<br>vii. ar ddiwedd oes weithredol y cyfleuster, bydd ~~melinau~~ **<u>tyrbinau</u>** gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr a chytunir ar gynllun adfer tir ac ôl-ofal priodol.<br><br>Caiff cynnig ei ystyried fel un sy'n syrthio i'r categori sy'n cynrychioli'r math mwyaf o'r hyn y mae'n gymwys ar ei gyfer. | | |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws**

<table>
<tr><th>Cyfeirnod</th><th>Rhan</th><th>Rhif Sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td>NF 36</td><td>7.2.33</td><td>713, 950, 1066</td><td>7.2.33 Oherwydd nad oes unrhyw Ardal Chwilio Strategol wedi'i nodi yn yr ardal, ni fydd unrhyw ffermydd / <s>melinau</s> <u>tyrbinau</u> gwynt ar Raddfa Fawr neu Fawr Iawn yn cael eu cefnogi.<br><br>Tabl 13 : y deipoleg <s>felin</s> <u>tyrbin</u> gwynt a ddefnyddir ym mholisi ADN1<br><br>[Pob cyfeiriad tuag at felin / melinau yn y tabl yn cael ei newid i dyrbin / tyrbinau. Yr unig newid arall yw'r newid i'r Deipoleg Mawr Iawn a ddangosir isod]<br><br>
<table>
<tr><th>Teipoleg Felin Wynt</th><th>Allbwn Dangosol (categori allbwn eang)</th><th>Meini Prawf Atodol<br><br>(yn bodloni un neu fwy o'r meini prawf hyn) (yn pennu p'un a yw'r deipoleg hon yn gymwys neu p'un a oes angen un fwy)</th></tr>
<tr><td>MAWR IAWN</td><td>Dros 25MW</td><td><s>• Deg neu fwy o felinau gwynt o ran nifer</s><br><br>• <s>Melinau</s> <u>Tyrbinau</u> gwynt yn mesur</td></tr>
</table>
</td><td>I sicrhau eglurder.<br><br>I sicrhau cysondeb.</td><td>Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC.</td></tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | dros 110m i frig y llafn<br>• Yn cael ei ystyried fel fferm wynt ar raddfa fawr iawn | | |

**Rheoli Newid Arfordirol**

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 37** | 7.2.49 | 771 | Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddangos eu bod wedi ystyried Cynlluniau Rheoli Traethlin, sy'n darparu asesiad eang o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol, a'r rhain ddylai fod y brif ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer diffinio ardal rheoli newid arfordirol a phennu dynodiadau tir oddi mewn iddynt. Mae Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (SMP) 2 yn gosod ystod o bolisïau ar gyfer yr arfordir, sef 'cynnal y llinell', 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'ail-linio dan reolaeth', fesul cyfnodau gwahanol y polisi. Mae cyfnodau'r polisi fel a ganlyn: hyd at 2025, 2026 i 2055 a 2056 i 2105. Gallir gweld copi o'r Cynllun Rheoli Traethlin yn (<http://www.westofwalessmp.org/content.asp?nav=23&parent_directory_id=10&language=CYM&pagetype=&keyword>=). Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai Awdurdodau Lleol gynorthwyo i leihau'r risg o lifogydd ac effaith erydu arfordirol | Er eglurder ac i sicrhau cysondeb mewnol y cynllun | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | trwy osgoi datblygiadau amhriodol mewn ardaloedd bregus. Diffinnir Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA) lle mae'r polisi'r cynllun rheoli traethlin fabwysiedig yw 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'ail-linio dan reolaeth' yn ystod oes y Cynllun. Mae Atodiad 6 yn rhoi rhestr o ardaloedd a ddiffinnir fel yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA). **<u>Mae'r ardaloedd arfordirol sy'n cael eu cynnwys o fewn yr ARhNA yn rhai lle mae'r SMP 2 yn dweud 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'ail-lunio dan reolaeth' o fewn y cyfnod hyd at 2025 neu rhwng cyfnod polisi 2026 a 2055 neu'r ddau gyfnod polisi.</u>** | | |
| **NF 38** | Polisi ARNA 1 | 771, 864, 1070 | POLISI ARNA 1: ARDAL RHEOLI NEWID ARFORDIROL<br><br>Caiff Ardal Rheoli Newid Arfordirol (ARhNA) ei hadnabod yn Atodiad 6.<br><br>Datblygiad **<u>Preswyl</u>** newydd<br><br>Gwrthodir cynigion am dai newydd, i ail-adeiladu tai, isrannu adeiladau presennol i ddefnydd preswyl neu drosi adeiladau presennol i ddefnydd preswyl yn yr ARhNA.<br><br>Adleoli tai parhaol presennol yng nghefn gwlad<br><br>Caniateir cynigion i adleoli tai parhaol sy'n bodoli yng nghefn gwlad ac sydd wedi'u lleoli yn yr ARhNA **a <u>ragwelir y byddant yn cael eu heffeithio</u>** ~~effeithir~~ gan erydu arfordirol os ellir | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:<br><br>1. Mae'r datblygiad yn golygu ail-adeiladu tŷ parhaol sy'n cael ei effeithio gan erydiad neu sydd dan fygythiad o erydiad o fewn 20 mlynedd o ddyddiad y cynnig; a<br>2. Mae'r tŷ sy'n cael ei adleoli wedi ei leoli pellter priodol i mewn i'r tir o ran yr ARhNA a gwybodaeth arall yn y Cynllun Rheoli Traethlin, a lle byddo'n bosib mae mewn lleoliad sydd:<br>**i.** yn achos tŷ amaethyddol, oddi mewn i ddaliad y fferm neu oddi mewn i neu'n union gerllaw aneddleoedd presennol<br>**ii.** oddi mewn i neu'n union gerllaw aneddleoedd presennol yn agos at y lleoliad lle'r oedd yr adeilad gwreiddiol;<br>3. Caiff y safle presennol ei glirio a'i wneud yn ddiogel; **a**<br>4. Ni ddylai'r cynnig beri unrhyw effaith andwyol ar y dirwedd, y strydwedd neu'r fioamrywiaeth yn yr ardal.<br><br>**Adeiladau dibreswyl newydd neu bresennol**~~, estyniadau i dai presennol, cyfleusterau neu wasanaethau neu isadeiledd cymunedol~~<br><br>5. Gwrthodir adeiladau parhaol dibreswyl nad ydynt yn gysylltiedig â defnydd neu adeilad presennol mewn ardaloedd yn yr ARhNA a **ragwelir y byddant yn cael eu heffeithio** ~~sydd wedi cael eu hadnabod fel ardaloedd mewn~~ **oherwydd** perygl~~-~~newid arfordirol yn | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ystod y cyfnod polisi dangosol cyntaf hyd at 2025.<br><br>6. ~~(tu allan i'r cyfnod polisi dangosol hyd at 2025)~~ **Bydd cynigion am y mathau canlynol o** ddatblygiad dibreswyl newydd **yn cael eu caniatáu ar safleoedd o fewn yr ARhNA a ragwelir a fydd mewn perygl o newid arfordirol o fewn yr ail gyfnod polisi dangosol (2026 – 2055), yn ddarostyngedig i Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN15 neu Asesiad Sefydlogrwydd**:<br><br>i. **Datblygiad** sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r ardal arfordirol (e.e. cytiau traeth, caffis, ystafelloedd te, siopau, llety gwyliau ar osod am gyfnodau byr, safleoedd gwersylla, **safleoedd carafanau teithiol,** gweithgareddau hamdden), ac<br>ii. yn darparu buddion economaidd a chymdeithasol sylweddol i'r gymuned; a<br>iii. lle ellir dangos na fydd unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd, nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo; ac<br>iv. yn destun caniatâd cynllunio sydd naill ai'n cynnwys cyfyngiad amser, a/ neu'n cyfyngu'r tymor, fel sy'n briodol.<br><br>7. ailddatblygu neu estyniadau i eiddo dibreswyl presennol neu ddwysáu defnyddiau tir dibreswyl presennol **ar safleoedd du mewn i'r ARhNA,** lle ellir dangos **trwy Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n** | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **cydymffurfio â gofynion TAN15 neu Asesiad Sefydlogrwydd** na fydd unrhyw gynnydd yn y risg i fywyd, nac unrhyw risg arwyddocaol i eiddo ac yn amodol ar ganiatâd cynllunio sydd â chyfyngiad amser (pan fo hynny'n briodol);<br><br>Estyniadau i dai presennol, cyfleusterau neu wasanaethau neu isadeiledd cymunedol<br><br>Caniateir y mathau canlynol o ddatblygiad yn yr ARhNA, cyn belled ag y ceir Asesiad Canlyniadau Llifogydd sy'n cydymffurfio â gofynion TAN 15 **neu Asesiad Sefydlogrwydd:**<br><br>8. estyniadau preswyl cyfyngedig sy'n agos iawn at raddfa'r eiddo presennol ac felly nad ydynt yn peri cynnydd posib yn nifer y bobl sy'n byw yn yr eiddo;<br>9. datblygiad atodol tu mewn i gwrtil tai presennol y mae angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer, ~~yn amodol ar ganiatâd ymlaen llaw gan Gyfoeth Naturiol Cymru os yw wedi'i leoli oddi mewn i 7m o brif afon~~;<br>10. isadeiledd allweddol i'r gymuned, y mae'n rhaid ei leoli yn yr ARhNA i ddarparu'r budd a fwriedir i'r gymuned ehangach ac mae yna gynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol arno a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu;<br>11. isadeiledd hanfodol e.e. ffyrdd, cyn belled â bod yna gynlluniau clir i reoli effaith newid arfordirol arno, ac na fydd yn cael effaith andwyol ar gyfraddau newid arfordirol mewn llefydd eraill. | | |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws**

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu i amnewid rhai blaenorol<br><br>Caniateir cynigion am gynlluniau amddiffyn arfordirol newydd neu gynlluniau sy'n amnewid hen ddarpariaeth, os ellir dangos bod y gwaith yn gyson â'r dull rheoli ar gyfer y wyneb blaen a gyflwynir yn y Cynllun Rheoli Traethlin, ac na fydd yna effaith andwyol faterol ar yr amgylchedd.<br><br>Rheoli datblygiad<br><br>Bydd amodau cynllunio'n cael eu gosod neu caiff rhwymedigaeth gynllunio ei sicrhau pan fydd angen i: gyfyngu oes datblygiad neu ei gyfyngu i ddefnydd tymhorol; tynnu datblygiad sydd â chyfyngiad amser neu dai presennol pan ddaw eu defnydd i ben; adolygu caniatâd cynllunio perthnasol; rheoli meddiannaeth tŷ sy'n cael ei adleoli. | | |
| **NF 39** | 7.2.54 | 1070 | **<u>Yn nhermau datblygiad dibreswyl, y</u>**n amodol ar y cyfnod amser disgwyliedig i golli eiddo o ganlyniad i erydu arfordirol, gallai defnyddiau priodol gynnwys gosod fel eiddo gwyliau, cyfleusterau cymunedol, defnyddiau busnes, caeau chwaraeon a chaeau chwarae, safleoedd ar gyfer digwyddiadau megis marchnadoedd a meysydd sioe, yn amodol ar eu lleoliad a pha mor hygyrch ydynt. Byddai disgwyl i ddeiliaid a/neu berchnogion gydnabod y gallai defnydd fod am amser cyfyngedig neu dymor yn unig yn yr asesiad risg, ac ystyried y | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | buddion o gymharu â'r risgiau sy'n gysylltiedig â chymryd eiddo â ganddo hyd oes gyfyngedig. | | |

## Pennod 7.3 – Rheoli Twf a Datblygu – Economi ac Adfywio

### Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 40** | 7.3.1 – 7.3.9 | 866<br>1139<br>1156<br>1140<br>1141<br>1142<br>1143<br>1144 | ***Mae rhai o'r newidiadau sydd wedi ei wneud i'r adran yma'n ymwneud a ail-osod fersiwn y Cynllun Adnau***<br><br>**~~CYNIGION AM B~~PROSIECTAU ISADEILEDD O ~~MAWR~~ BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG**<br><br>7.3.1 **Cyd-destun**<br><br>• Mae gan y Deyrnas Unedig darged sy'n ymrwymiad cyfreithiol i gael toriad o 80% mewn allyriadau erbyn 2050, gyda tharged interim o leiaf o 34% yn is na'r lefelau blwyddyn sail erbyn 2020 (Deddf Newid Hinsawdd 2008)<br>• Mae'n nod allweddol o bolisi cenedlaethol i wella diogelwch ynni'r wlad | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol o fewn y Cynllun fe fydd yr adran yma'n cael ei ailstrwythuro a'i ail-eirio.<br><br>Ymhellach er mwyn eglurder fe fydd y derminoleg a ddefnyddir wrth gyfeirio at | Newidiadau arfaethedig yn darparu eglurder pellach ac yn ceisio sicrhau cysondeb. Ar y cyfan newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1145<br>1146<br>1147<br>1148<br>1149<br>1150<br>1151<br>1152<br>1153 | • Mae Datganiadau Polisi Cenedlaethol yn sefydlu'r angen am Brosiectau Isadeiledd ~~penodol~~ o Bwysigrwydd Cenedlaethol **(PIoBC – fel y'u diffinnir gan Ddeddf Cynllunio 2008), yn cynnwys yn benodol ar gyfer cynhyrchu ynni.**<br>• Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dewis safle ger y Wylfa fel safle **sydd o bosibl yn addas** ar gyfer adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. **Mae hwn yn ffurfio PIoBC, fel y mae'r PIoBC Grid Cenedlaethol ar wahân i ddarparu llinellau trosglwyddo o'r orsaf bŵer niwclear newydd.**<br>• Fe allai'r ~~prosiectau isadeiledd~~ **PIoBC** hyn ~~o bwysigrwydd cenedlaethol rydym yn gwybod amdanynt~~ fod ag oblygiadau isadeiledd mawr ar gyfer ardal y Cynllun, ar ffurf llinellau trawsgludo trydan newydd a datblygiad cysylltiedig.<br>Cyflwyniad<br><br>7.3.2 Mae **PIoBC** ~~Prosiectau Isadeiledd Mawr~~ yn brosiectau isadeiledd mawr o bwysigrwydd cenedlaethol fel cefnffyrdd newydd, meysydd awyr, porthladdoedd, gorsafoedd pŵer (yn cynnwys niwclear), llinellau trawsgludo trydan, gweithfeydd trin dŵr gwastraff a gweithfeydd cemegau.<br><br>~~7.3.3 Ar gyfer y Cynllun, mae Prosiectau Isadeiledd Mawr yn cynnwys y rhai wedi'u diffinio fel Prosiectau Mawr o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn Neddf Cynllunio 2008.~~ | Brosiectau Isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei ddiwygio. | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 7.3.3 **Amlinellir y broses gymeradwyo am orchymyn caniatâd datblygu (sef y ffurf o ganiatâd ar gyfer PIoBC) ym mharagraffau 3.7 – 3.10. Fel y nodwyd yn y paragraffau hynny, er mai'r sawl sy'n penderfynu yw'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol (yn dilyn archwiliad ac argymhelliad gan yr Arolygiaeth Gynllunio), awdurdodau lleol neu gyrff statudol eraill sy'n** ~~Bydd ceisiadau am Orchmynion Caniatâd Datblygu ar gyfer Prosiectau'n cael eu harchwilio gan yr Arolygiaeth Cynllunio, gyda'r Ysgrifennydd Gwladol am Ynni a Newid Hinsawdd yn gwneud y penderfyniad terfynol i roi neu wrthod caniatâd. Awdurdodau Lleol neu gyrff statudol eraill fyddai'n~~ penderfynu ar ddatblygiad cysylltiedig neu berthnasol nad ydynt yn y prif gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, a bydd polisi cenedlaethol yn ystyriaeth berthnasol fel sy'n briodol. Lle mae datblygiad cysylltiedig neu ategol yn ymwneud gydag adeiladu neu weithredu PIoBC, bydd y cynigion hyn yn dod o dan Bolisïau Strategol PS8 a PS9, yn ogystal â pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun.<br><br>7.3.4 Bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n edrych ar geisiadau am ddatblygiad Prosiect newydd, gan ddefnyddio'r meini prawf ar angen cenedlaethol, buddion ac ardrawiad, fel | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | sydd i'w gweld mewn polisi perthnasol. Ar gyfer isadeiledd ynni, bydd hyn yn cynnwys y Datganiadau Polisi Cenedlaethol ar gyfer Isadeiledd Ynni (EN-1- 6). **Mae'r DPCau ynni yn amlinellu polisi cenedlaethol yr asesir ac yr archwilir ceisiadau am brosiectau ynni mawr yn eu herbyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio.** Yn unol â'r Datganiad Polisi Cenedlaethol, gall yr Arolygiaeth Gynllunio hefyd ystyried materion eraill sy'n bwysig a pherthnasol i'w benderfyniadau, yn cynnwys y cynllun datblygu defnydd tir presennol, y Cynllun yma pan fydd yn ddigon pwysig fel ystyriaeth gynllunio berthnasol neu fod y Cynllun yn cael ei fabwysiadu, Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynlluniau Rheoli Cyrchfan, Cynllun Sengl Integredig, Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn y Wylfa a dogfennau perthnasol eraill. Ar gyfer cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, rôl ddewisol ar y cyfan fydd gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf **Gynllunio** **2008**, ond fe fyddant yn cael eu gwahodd i asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori a'r effeithiau lleol ac adrodd ar y rhain wrth yr Arolygiaeth Gynllunio mewn Adroddiad Ardrawiad Lleol. Yn yr un modd, bydd yn bosibl i geisiadau gael eu gwneud i gyrff **statudol** eraill**.** ~~,fel cais i'r Sefydliad Rheoli Morol i adeiladu glanfa, lle mae'r Awdurdod lleol hefyd yn un statudol i ymgynghori a hwy. Yng~~ Nghymru, yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau penderfynu ar gyfer unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda'r cais | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gorchymyn Rheoli Datblygiad, er enghraifft, llefydd byw i weithwyr adeiladu, canolfan logisteg, cyfleuster parcio a theithio.<br><br>7.3.5 ~~Gall graddfa ac ardrawiad Prosiect olygu bod angen pecyn priodol a chynhwysfawr o gyfraniadau oddi wrth ddatblygwr er mwyn lliniaru a digolledu am unrhyw lefelau newydd neu fwy o niwed. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu negodi fel rhan o'r broses gynllunio, yn cynnwys trwy gytundebau Adran 106 a'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol, os fydd hwnnw'n cael ei weithredu.~~ **Bydd graddfa ac ardrawiad PIoBC yn cael eu lliniaru drwy becyn priodol o amodau caniatâd cynllunio, cytundeb adran 106 a derbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (os gweithredir atodlen codi tâl ASC).**<br><br>7.3.6 Yn ogystal, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol gan y Cynghorau i'r datblygwr ddarparu pecynnau o fuddiannau cymunedol er mwyn cael eu gosod yn erbyn a digolledu'r gymuned am y baich o fod yn lleoliad i'r prosiect. Bydd unrhyw gronfa o'r fath yn cael ei defnyddio i'w rhoi yn erbyn y baich ar yr ardal, ac yn enwi ffyrdd etifeddiaeth posibl o'i ddefnyddio, yn cynnwys isadeiledd cludiant, cymdeithasol, economaidd a chymunedol fyddai o fudd i'r gymuned yn y tymor hir. | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 7.3.7 Gallai fod modd ceisio cael budd cymunedol trwy ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol, y Deddfau Cynllunio, neu ddeddfwriaeth arall, neu fel dewis arall trwy gytundeb gwirfoddol gyda darparwr y prosiect, neu'n unol gyda phrotocol y diwydiant.<br><br>7.3.8 Taliadau ariannol yw'r Taliadau Budd Cymunedol gan ddatblygwr er budd cymunedau sy'n lletya'r datblygiad. Mae Taliadau Budd Cymunedol yn wahanol ac yn hollol ar wahân i'r broses gynllunio. Nid ydynt yn ystyriaethau o bwys y gellir eu cymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd neu ymateb yn gadarnhaol neu fel arall i gais i ymgynghori. Ni fwriadwyd i unrhyw daliad a wneir wneud yn iawn am effeithiau uniongyrchol y datblygiad ac ni ellir dweud eu bod yn rhywbeth sydd ei angen i wneud datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio.<br><br>7.3.9 Ar hyn o bryd, mae dau **PIoBC** ~~Brosiect Cenedlaethol~~ arfaethedig yn y cyfnod cyn ymgeisio tu mewn i ardal y Cynllun:<br><br>i. Adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd ger yr Wylfa, sef Wylfa Newydd, bwriad gan Horizon Nuclear Power, fel sydd i'w weld yn y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cynhyrchu Pŵer Niwclear (EN-6);<br>ii. Gwelliannau / gwaith newydd gyda Llinellau Trawsgludo'r Grid Cenedlaethol yn cysylltu Wylfa Newydd gydag Is-orsaf Pentir a thu hwnt, wedi'u cynnig gan y Grid Cenedlaethol;<br><br>7.3.9 Mae'n bwysig bod y Cynllun yn rhoi'r fframwaith polisi er mwyn cynorthwyo'r Cynghorau i roi sylw i ac ymateb i gynigion ~~isadeiledd mawr~~ **<u>PIoBC</u>** sy'n dod ymlaen, yn cynnwys er enghraifft:<br><br>i. Darparu cyngor a gwybodaeth i hysbysu hyrwyddwyr prosiectau yn ystod datblygiad eu cynigion ar gyfer ymgynghori a datblygu prosiectau;<br>ii. ymateb i ymgynghoriadau ffurfiol yn ystod datblygiad prosiectau ac ar geisiadau i gyrff eraill sy'n penderfynu, ~~fel yr Arolygaeth Gynllunio a'r Sefydliad Rheoli Morol~~;<br>iii. awgrymu gofynion priodol i'w cynnwys yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac ymrwymiadau (fel Adran 106 ac Ardoll Seilwaith Cymunedol, os yn berthnasol);<br>iv. penderfynu ar geisiadau ar gyfer datblygiad cysylltiedig, ategol neu berthnasol tu allan i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu; | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | v. **gwneud sylwadau** ~~asesu~~ ar ba mor ddigonol yw'r ymgynghori;<br>vi. asesu ardrawiadau'r prosiect, yn gadarnhaol ac yn negyddol, yn yr Adroddiad Ardrawiad Lleol y bydd yr Arolygiaeth Cynllunio'n gwahodd y Cyngor/Cynghorau i'w gyflwyno ar ôl i unrhyw gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu gael ei gyflwyno;<br>vii. gwneud sylwadau fel rhan o drefn ffurfiol yr Arolygiaeth Gynllunio i archwilio'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu,<br>viii. wrth benderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth yn dilyn y caniatâd (yn cynnwys 'amodau' **caniatâd** cynllunio), ac wrth gyflawni swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi.<br><br>7.3.10 Mae Polisi Strategol PS8 yn bolisi trosfwaol yn ymwneud ~~â phob prosiect isadeiledd mawr~~ **ag unrhyw gais am PIoBC (heblaw am Wylfa Newydd) neu ag unrhyw geisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â chais PIoBC neu'n ategol iddo**, boed hwy'n cael eu penderfynu gan yr Ysgrifennydd Gwladol, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Gwynedd neu unrhyw asiantaeth arall | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 41** | Polisi PS 8 | 866<br>1139<br>1156<br>1140<br>1141<br>1142<br>1143<br>1144<br>1145<br>1146<br>1147<br>1148<br>1149<br>1150<br>1151<br>1152<br>1153 | POLISI STRATEGOL PS8: CYNIGION AM BROSIECTAU ISADEILEDD **O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG** ~~MAWR~~<br><br>Yn eu rôl fel yr awdurdodau sy'n rhoi caniatâd i ddatblygiad cysylltiol neu fel rhywun sy'n cael ei ymgynghori am geisiadau i gyrff eraill, o fewn cyd-destun datganiadau polisi cenedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd y Cynghorau'n anelu i sicrhau y bydd datblygiad yn gwneud cyfraniad positif i wireddu'r weledigaeth, amcanion strategol a strategaeth datblygu a welir yn y Cynllun. Rhoddir ystyriaeth i natur, graddfa, ystod ac ardrawiad posib unrhyw ddatblygiad wrth wneud hynny.<br><br>Bydd y Cynghorau felly'n amcanu i sicrhau cydymffurfiaeth, fel mae'n briodol neu berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol:<br><br>**1.** Bydd y datblygiad a'i isadeiledd cysylltiol/ ategol, gan gynnwys unrhyw gynigion am lety, gyfleusterau addysg a hyfforddiant, cyflogaeth, cadwynau cyflenwi, ac isadeiledd cludiant, cymunedol, amgylcheddol a gwyrdd yn cyfrannu at gydbwysedd o allbynnau positif i gymunedau lleol a'r amgylchedd; a<br>**2.** Bod asesiad o sut ddaru ystyriaeth o ddewisiadau amgen ddylanwadu ar y cynigion yn cael ei gyflwyno; a<br>**3.** Bod asesiad cynhwysfawr o ardrawiadau amgylcheddol (tirwedd, adeiledig, hanesyddol a naturiol), cymdeithasol (gan gynnwys iechyd a mwynderau), ieithyddol a diwylliannol, cludiant ac economaidd (positif, negyddol a chronnol) o'r cynnig | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol o fewn y Cynllun fe fydd yr adran yma'n cael ei ailstrwythuro a'i ail-eirio.<br><br>Ymhellach er mwyn eglurder fe fydd y derminoleg a ddefnyddir wrth gyfeirio at Brosiectau Isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol yn cael ei ddiwygio. | Newidiadau arfaethedig yn darparu eglurder pellach ac yn ceisio sicrhau cysondeb. Ar y cyfan newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredol a'r cyfnodau dadgomisiynu ac adferiad (os yw hynny'n berthnasol) yn cael ei ddarparu, yn ogystal â mesurau cyflawni lle mae'n briodol i osgoi, lleihau, lleddfu a/neu ddigolledu'r niwed a achosir; a<br>**4.** Darparu cyfraniadau i'r Cyngor neu gorff arall priodol a chytunedig er mwyn gwneud iawn am unrhyw effeithiau anffafriol a niwed wedi'u hachosi gan y prosiect trwy ymgysylltu'n effeithiol gyda chymunedau lleol a'r Cyngor yn yr adeg cyn cyflwyno'r cais. Yr amcan fydd canfod mesurau, prosiectau a gwasanaethau i wella lles a chynaladwyedd tymor hir y cymunedau mae'n effeithio arnynt; a hefyd<br>**5.** I gydnabod unrhyw faich a tharfu sy'n digwydd i'r gymuned wrth fod yn lleoliad i unrhyw brosiect isadeiledd ~~mawr~~ **<u>o bwysigrwydd cenedlaethol</u>,** gall fod yn ofynnol gan y Cyngor i'r datblygwr ddarparu pecynnau priodol o fuddiannau cymunedol er mwyn gwneud iawn am a digolledu'r gymuned am y baich sy'n dod gyda bod yn lleoliad i'r prosiect; a hefyd<br>**6.** Cael cymaint ag y bo modd o fudd economaidd a chymunedol lle bo hynny'n ymarferol, trwy gytuno gyda'r Cyngor yn gynnar yn ystod camau datblygu'r prosiect ar strategaethau ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio; a hefyd<br>**7.** Dylid cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, sy'n cwrdd â gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) gydag unrhyw gynnig am ddatblygiad, gan | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gynnwys pob datblygiad ategol ac anwythol; a hefyd<br>**8.** Darparu mesurau i amddiffyn rhag llifogydd i reoli risg llifogydd, a lle bo'n ymarferol, cael gwelliannau yn yr ardal honno. Darparu asesiad o'r ardrawiadau sy'n cael eu rhagweld oddi wrth y cynnig ar yr amgylchedd morol a thir o gwmpas a darparu mesurau i reoli a lleihau unrhyw niwed sy'n cael ei achosi.<br><br>Er mwyn cael digon o wybodaeth i fedru asesu effeithiau'r cynigion, gall y Cyngor ofyn am baratoi cynlluniau rheoli neu gynlluniau cyflawni, sy'n dangos y mesurau ar gyfer cael cymaint o fudd ag y bo modd ac i leddfu a/neu ddigolledu am ardrawiadau lle mae cyfiawnhad dros hyn mewn polisi cenedlaethol neu leol. Dylai'r cynlluniau hyn ddangos yr amserlenni ar gyfer darparu a'r systemau ac adnoddau fydd yn cael eu defnyddio i weithredu'r mesurau arfaethedig. | | |
| **NF 42** | 7.3.10 – 7.3.19 | 1139<br><br>1156<br><br>1140<br><br>1141<br><br>1142<br><br>1143<br><br>1144 | <u>WYLFA NEWYDD A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG</u><br><br>CYFLWYNIAD<br><br>7.3.11 Mae'r ddau Gyngor a'u partneriaid wedi cydnabod potensial arwyddocaol Wylfa Newydd yn arbennig i'r economi leol yn Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynllun Strategol/ Corfforaethol y ddau Gyngor a'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. Mae Pennod 3 o'r Cynllun yn rhoi dolen i'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa, syn rhoi gwybodaeth am weledigaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gysylltiedig â'r prosiect yma. Mae'r rhan hon o'r Cynllun | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol o fewn y Cynllun fe fydd yr adran yma'n cael ei ailstrwythuro a'i ail-eirio. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1145<br>1146<br>1147<br>1148<br>1149<br>1150<br>1151<br>1152<br>1153<br>1154 | yn delio gyda datblygiadau cysylltiol i Brosiectau Isadeiledd Mawr le mai naill ai Cyngor Sir Ynys Môn neu Gyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynllunio sy'n penderfynu ar gais cynllunio. ~~Mae hefyd yn berthnasol i'r datblygiadau Prosiectau Isadeiledd Cenedlaethol fel Wylfa Newydd lle mai'r Ysgrifennydd Gwladol fydd yn penderfynu yn ogystal â cheisiadau i asiantaethau eraill (fel i'r Sefydliad Rheoli Morol ar gyfer glanfa) lle mae'r Cyngor yn ymgynghorai statudol.~~<br><br>7.3.12 Er nad y Cynghorau yw'r awdurdodau i roi caniatâd ar gyfer y ~~Prosiect Isadeiledd Mawr~~ **Gorchymyn Caniatâd Datblygu** Wylfa Newydd, maent yn credu ei bod hi'n bwysig egluro'r ymagwedd a fyddant yn cymryd yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio pan fyddant yn derbyn ymgynghoriad am y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Fe fyddant hefyd yn sicrhau bod datblygiadau **cysylltiedig** ~~perthnasol~~ yn cyd-fynd â strategaeth a pholisïau perthnasol y Cynllun ~~pan gaiff ei fabwysiadu~~.<br><br>7.3.13 Hyd nes y caiff y Cynllun ei fabwysiadu neu bydd polisïau perthnasol yn cario digon o bwysau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bydd y dull o ymdrin â datblygiadau perthnasol yn gysylltiedig a Wylfa Newydd yn adlewyrchu polisïau'r Cynllun Datblygu presennol, y Cynllun Datblygu Unedol a stopiwyd, polisïau cynllunio cenedlaethol a'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa. ~~Boed yn eu rôl fel y rhai sy'n penderfynu, neu i ymgynghori â hwy ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, bydd y~~ | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~Cynghorau’n ceisio cyflawni’n eu blaenoriaethau statudol fel sydd i’w gweld yn eu Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Strategol a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.~~<br><br>**7.3.14 Mae’r Canllawiau Cynllunio Atodol Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa yn amlinellu gweledigaeth ac amcanion Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer yr Adeilad Niwclear Newydd ac mae’n ystyriaeth berthnasol bwysig wrth asesu ceisiadau cynllunio sy’n gysylltiedig â’r Prosiect.**<br><br>**7.3.15 Bydd y ddogfen CCA Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa yn helpu’r Cyngor Sir i:**<br><br>• **wneud penderfyniadau cadarn ar bob gwaith galluogi a cheisiadau cynllunio datblygu cysylltiedig**<br>• **sicrhau bod effeithiau posibl yr Adeilad Niwclear Newydd a’i ddatblygiadau cysylltiedig yn cael eu nodi a'u lliniaru lle bo'n bosibl**<br>• **sicrhau bod y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu gwireddu'n llawn.**<br><br>7.3.16 Ar sail y wybodaeth sydd i law ar hyn o bryd mae’n glir y bydd y Prosiectau yma’n ddatblygiadau arwyddocaol a fydd yn cael nifer o ardrawiadau arwyddocaol, sy’n rhai positif ac o bosib yn negyddol. Rhagwelir **ar hyn o** | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **bryd** y bydd gwaith adeiladu Wylfa Newydd yn digwydd **oddeutu** 12 mlynedd, ac fe fydd yna o gwmpas 8,500 o weithwyr adeiladu yn ystod y cyfnodau brig **(er cydnabyddir bod y Prosiect yn dal i fod am gan dylunio manwl**). Fe fydd yna symudiadau HGV arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu, yn arbennig ar hyd yr A55 a'r A5025. Ar ôl iddo gael ei adeiladu rhagwelir y bydd Wylfa Newydd yn cyflogi tua 1,000 o weithwyr. Mae'r angen am lety i weithwyr adeiladu yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd yn un mater mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi edrych arno'n fanwl. Rhagwelir dylifiad ~~sydyn~~ o nifer fawr o weithwyr i'r ardal yn ystod y cyfnod adeiladu. Credir ei bod hi'n bwysig bod llety'n gyson ag amcanion cyffredinol y Cynllun ac na fydd yn rhagfarnu gwireddu'r strategaeth ofodol. Rhagwelir y caiff gweithwyr adeiladu lety trwy gyfuniad o ddulliau, sef unedau tai preifat i'w prynu a'u rhentu, llety gwyliau a llety ~~gwyliau~~ pwrpasol a gaiff ei ddarparu trwy Horizon neu gan drydydd parti. Ceir mwy o wybodaeth am y safbwynt yma yn http://www.ynysmon.gov.uk/busnes/ynys-ynni/newyddion-ynys-ynni/atomfa-newydd-yr-wylfa-darparu-llefydd-aros-ar-gyfer-gweithwyr-adeiladu-safbwynt-y-cyngor-sir/114496.article?redirect=false ac yn y Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2014/08/11/q/k/h/Wylfa-NNB-SPG-Adopted-July-2014 | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 7.3.17 Rhagwelir y bydd angen llety ar gyfer nifer fawr iawn o weithwyr adeiladu a gaiff eu cyflogi yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Rhagwelir hefyd bydd angen tir yn gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd, e.e. safle(oedd) ar gyfer swyddfeydd, llety aros dros dro a defnyddiau eraill ar gyfer logisteg, storfa a gwneuthuriad oddi ar safle. Gallai mesurau lliniaru effaith y prosiect gael eu huchafu pe fyddai'r datblygiad yn cael ei leoli yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun, a welir ym Mhennod 6, a pholisïau perthnasol y Cynllun, yn dibynnu ar y math o ddefnydd, er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy.<br><br>7.3.18 Safbwynt y Cynghorau yw y dylid lleoli llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu **dros dro** ~~diflanedig~~ cyn belled ag sy'n bosib o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu Canolfannau a Phentrefi Gwasanaeth enwir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun, mewn lleoliadau sydd â chysylltiad da a'r prif lwybrau teithio a dulliau theithio, yn arbennig y rheilffordd. Fe ddylent hefyd gyfrannu i raglenni adfywio cynaliadwy a chefnogi bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi. Fe ddylai hyrwyddwr y prosiect ystyried ailddefnyddio adeiladau presennol lle'n ymarferol i wneud hynny. Bydd y Cynghorau hefyd yn ystyried y dylid edrych ar y posibilrwydd o ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau a ddefnyddir yn y lle cyntaf ar gyfer llety gweithwyr neu unrhyw ddefnydd tir arall dros dro | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | adeg cynllunio a dylunio'r cynllun, e.e. trwy osod y safle allan o'r cychwyn fel ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio eto, adeiladu adeiladau parhaol sy'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd amgen priodol. Bydd rhaid i ~~bob~~ ddefnydd etifeddiaeth **arfaethedig priodol** **gydymffurfio â'r polisïau perthnasol** ~~fod yn gyson a'r Cynllun yma~~ **yn y Cynllun hwn**. Mae defnyddiau etifeddiaeth posib yn cynnwys lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer tai fforddiadwy, llety ar gyfer yr henoed neu anghenion arbennig, llety myfyrwyr, swyddfeydd neu westai neu adeiladau a ellir eu haddasu i ddibenion tebyg. Os yw'r hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor yn cytuno nad yw defnydd ôl- ddatblygu'n ymarferol, rhaid cael gwared â'r adeiladau neu strwythurau dros dro a'r tir gael ei ddychwelyd i'w gyflwr blaenorol hyd fodlondeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn cyfnod penodol a fyddai'n cael ei reoli trwy amod cynllunio. **Mae Polisi TAI3 yn gosod yr arweiniad polisi ar gyfer llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu ac mae Polisi TAI8 yn gosod allan yr arweiniad polisi mewn perthynas â defnydd anheddol o lety gwyliau gan weithwyr adeiladu dros dro.** | | |
| | | | 7.3.19 | Mae Polisi Strategol PS9 yn gymwys ar gyfer ~~yr orsaf bŵer niwclear newydd,~~ **Prosiect** arfaethedig **Wylfa Newydd**, yn cynnwys unrhyw ddatblygiad yn gysylltiedig gyda hi. Dylai'r ARhC ar lefel prosiect gael ei hysbysu gan gasgliadau'r ARhC: Adroddiad Safle ar | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyfer Wylfa[1] yn ogystal â'r broses ARhC ar gyfer CDLl ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. | | |
| NF 43 | Polisi PS 9 | 1139<br>1156<br>1140<br>1141<br>1142<br>1143<br>1144<br>1145<br>1146<br>1147<br>1148<br>1149 | POLISI STRATEGOL PS9: DATBLYGIADAU SY'N ~~YMWNEUD~~ **GYSYLLTIEDIG Â PHROSIECT** WYLFA NEWYDD<br><br>Yn eu rôl naill ai fel yr awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad cysylltiedig, neu fel ymgyngoreion ~~ag ef~~ ar gyfer ceisiadau **GCD** a cheisiadau i gyrff eraill, ac o fewn darpariaethau polisi cenedlaethol, bydd y Cynghorau, wrth asesu ac ymateb i gynigion sy'n dod i'r amlwg ar gyfer **Wylfa Newydd** ~~datblygiad yn ymwneud â niwclear, yn cynnwys beth sy'n~~ a'i ddatblygiad cysylltiedig, yn ceisio sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n briodol neu'n berthnasol, gyda'r meini prawf canlynol:<br><br>**1.** Dylai unrhyw bolisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, ac unrhyw ganllawiau cynllunio, fod yn siapio'r **dull o ddatblygu'r orsaf bŵer niwclea**r ~~agwedd tuag at ddatblygu cynigion ar gyfer datblygiad yn ymwneud â niwclear~~ **ac unrhyw** ddatblygiad cysylltiedig ~~neu isadeiledd~~; ac<br>**2.** Er mwyn cael cyn lleied o ardrawiad ag y bo modd a chymaint ag y bo modd o ailddefnyddio'r cyfleusterau a deunyddiau sy'n bodoli'n barod, bod cyfleoedd wedi cael eu cymryd lle bo'n ymarferol i integreiddio gofynion | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol o fewn y Cynllun fe fydd yr adran yma'n cael ei ailstrwythuro a'i ail-eirio. | |

[1] Adran Ynni a Newid Hinsawdd (2010) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Adroddiad Safle ar gyfer Wylfa. EN-6 Datganiad Polisi Cenedlaethol Drafft Diwygiedig ar gyfer Cynhyrchiad Pŵer Niwclear

# ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1150<br>1151<br>1152<br>1153<br>1154 | Prosiect Wylfa Newydd gyda'r bwriad i ddadgomisiynu'r orsaf bŵer bresennol; a<br>**3.** Bydd cynigion priffyrdd a chludiant ar gyfer ~~adeiladu~~ Prosiect Wylfa Newydd yn ~~yr Wylfa'n~~ **ffurfio** rhan o ~~gynllun cludiant a logisteg gadarn~~ **strategaeth traffig a thrafnidiaeth integredig** sy'n ystyried Polisi Strategol PS4 a Pholisïau Manwl perthnasol ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol o ran cludiant i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys y rhai'n codi yn ystod y cyfnodau adeiladu a gweithredu ~~dadgomisiynu ac adfer~~. Dylai cynigion, lle bo'n ymarferol, wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion polisi cludiant yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio; a<br>**4.** Dylai gofynion am lety gweithwyr adeiladu gael eu hateb mewn ffordd sy'n lleihau gymaint ag y bo modd yr effaith ar y farchnad dai lleol , yn cynnwys gallu rhai ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy neu wasanaethau tai eraill, neu na fydd yn arwain at effeithiau economaidd, cymdeithasol ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol. Dylai cynigion ffurfio rhan o strategaeth gadarn ar gyfer llety gweithwyr adeiladu a fydd yn talu sylw i Strategaeth Ofodol y Cynllun ac unrhyw bolisïau perthnasol yn y Cynllun; a<br>**5.** Wrth ystyried lleoliad a dyluniad datblygiadau cysylltiol, dylid rhoi ystyriaeth i'r etifeddiaeth a fyddai'n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir yn ystod y cyfnod ôl adeiladu. Lle | | |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws**

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bo'n briodol, dylai cynlluniau darparu ar gyfer ffyrdd etifeddiaeth o ddefnyddio cael eu cytuno yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, a'r cynlluniau hynny ddarparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd o weithredu tuag at ddyluniad a chynllun y safleoedd datblygu cysylltiedig, yn ogystal â fframio cytundeb Adran 106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (os yn gymwys); a<br>**6.** Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio a'i ddyluniad a graddfa'r isadeiledd gwyrdd arfaethedig osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach, yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Bydd disgwyl i gynigion fod yn gymesur gyda graddfa'r datblygiad, a maint ei ardrawiad; a<br>**7.** Dylid ~~cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect sy'n cwrdd â gofynion~~ **sgrinio unrhyw gais datblygu, gan gynnwys bob datblygiad cysylltiedig, yn unol â** Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) ~~**gydag unrhyw gynnig am ddatblygiad, gan gynnwys pob datblygiad ategol ac anwythol ac hefyd;**~~ **a lle bo angen, dylid cael asesiad priodol i gyd-fynd ag ef; a**<br>**8.** Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a'r tymor hirach; a<br>**9.** Lle bydd isadeiledd cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden, lle bo'n ymarferol dylai'r rheiny gael eu lleoli a'u dylunio fel eu bod ar gael i'r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo'n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle byddai effeithiau neu alwadau ychwanegol ar gyfleusterau **<u>cymunedol</u>** presennol, bydd y Cyngor yn gofyn am **<u>naill ai</u>** gyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle **<u>neu am uwchraddio cyfleusterau presennol. Dylid ystyried defnydd etifeddiaeth o unrhyw gyfleusterau ychwanegol a ddarperir ble bo hynny'n briodol</u>; a**<br>**10.** Dylai cynigion gynnwys mesurau priodol i hyrwyddo cydlyniad cymunedol a diogelwch cymunedol; a<br>**11.** Dylai'r baich a'r tarfu at y gymuned oherwydd ei bod yn lleoliad i brosiect mawr cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud gyda'r diwydiant niwclear gael ei gydnabod; a bydd ymgais i gael y datblygwr i wirfoddoli i ddarparu pecynnau priodol o fuddion i'r gymuned er mwyn gwrthbwyso a digolledu'r gymuned am y baich a'r tarfu sy'n digwydd trwy fod yn lleoliad i'r prosiect; a<br>**12.** Byddai angen i unrhyw gynnig (tu allan i Orchymyn Caniatâd Datblygu) ar gyfer trin, storio neu gael gwared â Gwastraff Lefel Isel Iawn, Lefel Isel neu Lefel Canolig neu i drin neu storio gweddillion tanwydd sy'n deillio o'r orsaf bŵer niwclear bresennol neu unrhyw ddatblygiad niwclear yn y dyfodol du mewn i neu du allan i ardal y Cynllun, mewn cyfleuster sy'n bodoli'n barod neu yn yr | | |

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | arfaeth ar neu du allan i'r safle niwclear fod:<br>**i.** Gyda chyfiawnhad cryf drosto<br>**ii.** Yn dangos bod yr ardrawiadau cynllunio'n dderbyniol; a hefyd<br>**iii.** Ddangos y byddai'r buddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn gryfach nag unrhyw effeithiau negyddol.<br><br>Mae'n bosibl, wrth i'r prosiect ddatblygu, oherwydd canlyniadau na chawsant eu rhagweld oddi wrth adeiladu a gweithredu Prosiect Wylfa Newydd, y bydd y Cynghorau angen gwybodaeth ychwanegol oddi wrth y datblygwr, neu i waith gael ei wneud ganddo a gall, o ganlyniad i hynny, fod eisiau ail negodi unrhyw becyn lleddfu neu ddigolledu er mwyn gwneud iawn am unrhyw ardrawiadau neu feichiau ychwanegol ar y gymuned mae hynny'n effeithio arni. Dylai'r datblygwr gynnwys mecanweithiau adolygu er mwyn monitro'r amrediad llawn o ardrawiadau, ac adolygu pa mor ddigonol yw mesurau lleddfu neu ddigolledu, a gwneud newidiadau fel bydd angen. | | |

## Darparu Cyfleon ar gyfer Economi Ffyniannus

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 44** | 7.3.18 | 959 | Cyd-destun<br><br>• Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd trwy eu | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 960<br>972<br>973 | Strategaethau/ Cynlluniau Corfforaethol, gan gymryd i ystyriaeth yr adegau economaidd anodd, yn ceisio yn y tymor hir i drawsnewid ardal y Cynllun i fod yn un fentrus a hyfyw yn economaidd ac yn gymdeithaso. **Fe fyddai hyn yn golygu fod** ~~l, gyda ph~~ pobl o bob oed yn gallu cymryd y cyfleoedd newydd ac yn dewis aros yn yr ardal i fyw a gweithio, **gan hynny yn cynnal cymunedau gwledig a threfol, a fyddai yn ei dro yn hyrwyddo y defnydd o'r iaith Gymraeg**.<br>• Mae angen rhoi ystyriaeth briodol i effeithiau amgylcheddol datblygiadau yn erbyn y buddiannau cymdeithasol economaidd a fyddai'n deillio o'r datblygiad. | y Cynllun. | ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 45** | 7.3.20 – 7.3.22 | 1139<br>1156<br>1140<br>1141<br>1142<br>1143<br>1144<br>1145<br>1146 | 7.3.19 Mae'n amcan gan y Cynllun i hwyluso strategaethau'r ddau Gyngor i dyfu ac amrywio economi ardal y Cynllun.<br><br>7.3.20 Os gwneir penderfyniad ar lefel cenedlaethol i ddatblygu Wylfa Newydd, yna fe fydd hyn yn creu cyfleoedd gyflogaeth arwyddocaol yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae yna nifer o brosiectau isadeiledd mawr eraill ar y gweill a fydd hefyd yn cynnig cyfleoedd gyflogaeth arwyddocaol. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sefydlu Rhaglen Ynys Ynni sy'n brosiect cydweithio rhwng nifer o randdeiliaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat (yn cynnwys Llywodraeth y Deyrnas Unedig a | Er mwyn gwella eglurder cynigir fod geiriad yr elurhad yn cael ei ddiwygio. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 1147<br>1148<br>1149<br>1150<br>1151<br>1152<br>1153<br>1046 | Llywodraeth Cymru) i roi Môn ar y blaen o ran ymchwil a datblygiad, cynhyrchu a gwasanaethu ynni, a fydd yn fodd o ddylanwadu ar brosiectau isadeiledd ~~mawr~~ **o bwysigrwydd cenedlaethol** sydd i gael eu lleoli yn ardal y Cynllun neu ar y cyrion. Mae hyn yn cynnwys datblygu sgiliau preswylwyr lleol fel eu bod yn gallu manteisio ar y swyddi sydd ar gael o ganlyniad i'r ~~prosiectau mawr~~ **PIoBC** hyn, sydd yn eu tro'n debygol o fod yn ddeniadol i fusnesau newydd i leoli eu hunain yn yr ardal, gan gynnig swyddi o ansawdd uchel. Mae'n nod penodol i fod yn manteisio ar y buddsoddiad o £8 biliwn mewn cyfleuster niwclear newydd yn yr Wylfa Newydd, gan fod yn ganolbwynt i gynlluniau buddsoddi partneriaid sector cyhoeddus a phreifat, wrth drawsnewid ac amrywio economi'r ardal. Er mwyn annog a meithrin sgiliau lleol yn gysylltiedig â gweithio yn y sector ynni mae yna fuddsoddiad penodol wedi cael ei wneud yng Grŵp Llandrillo Menai, Llangefni, gyda chynlluniau ehangach ar y gweill. Nod arall o'r Rhaglen Ynys Ynni yw ceisio goresgyn cyfyngiadau isadeiledd, er mwyn ceisio hwyluso'r broses o atynnu buddsoddiad mewnol i'r ardal drwy annog twf economaidd ar gyfer y dyfodol. Ymhellach mae yna fwriad gan Brifysgol Bangor | | |

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygu Parc Gwyddoniaeth Menai. Y safle **sydd wedi ei ddewis** ~~a ffafrir~~ ar gyfer y datblygiad yw un o'r safleoedd Parth Menter yng Ngaerwen. Fe fydd y ~~fyddai'r~~ Parc Gwyddoniaeth yn gartref i ymchwil mewn nifer o feysydd gan gynnwys ynni a gwasanaethau amgylcheddol.<br><br>7.3.21 Yn yr un modd, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid yn ceisio canolbwyntio ar sectorau a gweithgareddau lle mae gan yr ardal fanteision cystadleuol, fydd yn dod â'r buddion economaidd mwyaf ac yn cynnig y potensial mwyaf o ran amrywiaeth. Bydd hyn yn golygu cyfuno cryfderau yn sefydliadau ymchwil yr ardal, ei phobl (a'u sgiliau) ac adnoddau naturiol toreithiog yr ardal. Mae'r sectorau penodol sy'n darparu cyfle i'r ardal yn cynnwys:<br><br>Adeiladu; Amgylcheddol – cynhyrchion a gwasanaethau sector Gwyrdd; Amaethyddiaeth – cynnyrch a chynhyrchion bwyd; Diwydiannau Creadigol – Cyfryngau a'r Celfyddydau; Gofal; Sectorau Technoleg Uchel a Digidol; Gwasanaethau a Masnach e.e. Manwerthu; Ynni Niwclear – Cynhyrchu, Gwasanaethau a Pheirianneg; | | |

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Twristiaeth; Ynni Amgen Adnewyddol - Cynhyrchu, Gwasanaethau a Pheirianneg.<br><br>7.3.22 Mae'n nod allweddol gan Gyngor Gwynedd i geisio sicrhau bod cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu taenu ar draws yr ardal. Mae gan yr economi wledig rôl bwysig yn yr ardal o ran y sector amaethyddol, twristiaeth a busnesau bychan gwledig.<br><br>7.3.23 Gwelodd yr Adolygiad Tir Cyflogaeth 2011~~/12~~ bod mwy na digon o dir cyflogaeth yn bodoli, fodd bynnag eu bod yn annhebygol o ddiwallu anghenion busnesau modern **a chan hynny fe ddiystyriwyd y safleoedd ar ddiwedd adolygiad Cam 1. Yna fe** ~~Yn ôl~~ amcangyfrif yr Adolygiad, **y** bydd angen 6ha bob blwyddyn o dir parc busnes neu barc diwydiannol yn ystod cyfnod y Cynllun ym mhob un o'r ddau Awdurdod Cynllunio. Mae hynny wedi'i seilio ar gyfuniad o ddangosyddion o ofynion i'r dyfodol ar gyfer gwahanol sectorau o gyflogaeth ac yn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd a dewis yn y farchnad, yn ogystal â chyflawni'r dyheadau i'r dyfodol gyda Rhaglen Ynys Ynni Môn a blaenoriaethau'r Cynghorau. Mae'r Adolygiad wedi sefydlu coeden o safleoedd cyflogaeth **presennol a newydd sydd a'r gallu i** ~~y gall~~ ateb | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | anghenion busnes modern, gyda gobeithion o gael eu datblygu yn ystod cyfnod y Cynllun, a dylent gael eu ~~diogelu~~ **gadw** cyn belled a phosib rhag eu hailddatblygu at ddibenion eraill. Mae angen darpariaeth ychwanegol at ddefnydd cyflogaeth (B1, B2 neu B8) yn neu ger **Llangefni, Gaerwen a Y Ffor. Ymhellach fe adnabuwyd yr Adolygiad fod angen safle newydd yn neu ger Canolfannau Gwasanaethol** Pwllheli a Phorthmadog er mwyn ateb yr anghydbwysedd presennol yn nhaeniad daearyddol tir cyflogaeth yng Ngwynedd. **Mae cyfyngiadau amgylcheddol yn y canolfannau yma'n golygu fod rhaid i'r Cynllun ddynodi safle yn Y Ffor. Ymhellach fe argymhellwyd yr Adolygiad fod angen** ~~ynghyd a~~ sicrhau fod yna gyflenwad priodol o dir wrth gefn yn gysylltiedig hefo prosiectau ~~isadeiledd mawr~~ **PIoBC** yn Ynys Môn. | | |
| **NF 46** | Polisi PS 10 | 1047<br>1046<br>826 | POLISI STRATEGOL PS10: DARPARU CYFLE AR GYFER ECONOMI FFYNIANNUS<br><br>Wrth anelu i amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig, bydd y Cynghorau'n hwyluso twf economaidd **yn unol â'r strategaeth ofodol** trwy'r **canlynol:** | Er mwyn gwella eglurder a chysondeb cynigir fod geiriad yr polisi yn cael ei | Bydd yr arfarniad a gyflwynwyd yn adran 6 o'r Adroddiad AC Adnau (Chwef 2015) yn cael ei |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **1.** Gwarchod ~~870~~ **638.7**ha o dir ac unedau presennol ~~at~~ i ddibenion cyflogaeth a busnes **(B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis).** ~~fyddai angen neu'n cael budd oddi wrth fod mewn lleoliad parc busnes neu ddiwydiannol mewn perthynas â B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis ar safleoedd wedi'u cynnwys yn y goeden tir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun ac wedi'u diogelu ar y mapiau cynigion (yn unol â Pholisi CYF1);~~<br>**2.** **Dyrannu 60ha o dir i ddibenion cyflogaeth a busnes a fyddai angen neu'n cael budd o leoliadau math parc diwydiannol neu fusnes yng nghyswllt B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis ar safleoedd a gynhwysir yn y goeden tir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun ac sydd wedi eu dyrannu ar fapiau cynigion (yn unol â Pholisi CYF1);**<br>**3.** Hwyluso safleoedd priodol a ddaw ar gael ar hap er mwyn diwallu anghenion ymhellach i'r hyn a nodir ym maen prawf 1 yn unol ag egwyddorion Polisi Strategol PS5 a Pholisi Strategol PS6 a Strategaeth Ofodol y Cynllun er mwyn sicrhau fod cyfleoedd economaidd yn cael eu huchafu;<br>**4.** Cefnogi ffyniant economaidd a chynaladwyedd cymunedau gwledig trwy hwyluso twf ar raddfa briodol mewn mentrau gwledig, estyn busnesau sy'n bodoli'n barod, ac arallgyfeirio trwy gefnogi ailddefnyddio adeiladau sy'n bodoli'n barod, datblygiad unedau 'byw a gweithio', gweithio o'r cartref, a thrwy annog darparu safleoedd a thir ac adeiladau mewn lleoliadau hygyrch priodol sy'n gyson a Strategaeth Ofodol y Cynllun ac yn | ddiwygio. | adolygu i ystyried newidadau arfaethedig i lefel tir cyflogaeth sydd wedi ei ddiogelu i'r ddynodi. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | unol â Pholisïau Strategol PS5 a PS6. | | |
| **NF 47** | Polisi CYF1 | 1046<br>1047<br>1048<br>826<br>1404<br>1284 | Gweler tudalen nesaf er mwyn archwilio'r Newid a Ffocws Arfaethedig sydd yn berthnasol i Polisi CYF1. | Er mwyn gwella eglurder a chywirdeb cynigir fod geiriad yr polisi yn cael ei ddiwygio. | Newidadau arfaethedig sy'n anelu i ddarparu eglurder pellach o ran pa safleoedd sydd wedi eu dynodi a pha rai sydd wedi eu diogelu ar gyfer cyflogaeth. Ar y cyfan newidiadau nad ydynt yn effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

**POLISI CYF1: GWARCHOD A DYNODI TIR AC UNEDAU AR GYFER DEFNYDD CYFLOGAETH**

**Gwarchodir tir ac unedau ar y safleoedd cyflogaeth presennol a restrir isod ar gyfer mentrau cyflogaeth / busnes~~. Dynodi'r~~ tir ychwanegol ar safleoedd ychwanegol fel y rhestrir isod ar gyfer mentrau cyflogaeth/busnes a dangosir pob safle ar y map cynigion.**

| | | Strategaeth ofodol | Safle | Cyfeirnod map | Arwynebedd tir gwag (ha)[2] | Cyfanswm Arwynebedd (ha) | Defnydd | Safle Parth Menter | Statws Cynllun Rhanbarthol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Prif Safleoedd | Gwynedd | Canolfan isranbarthol | Parc Bryn Cegin, Bangor | C1 | 36 | 36 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Safle Strategol Rhanbarthol |
| | | | Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor | C2 | 4 | 27.6 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Parc Britannia, Bangor | C3 | 0 | 7.9 | B1 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Parc Menai, Bangor | C4 | 13.2 | 32.9 | B1 | Ddim yn berthnasol | Safle Strategol Isranbarthol (Eilaidd) |
| | | Canolfan Gwasanaethau Trefol | Stad Ddiwydiannol Cibyn, Caernarfon | C5 | 7.3 | 37.7 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Safle Strategol Isranbarthol (Prif) |
| | | | Adwy'r Hafan, Pwllheli | C6 | 1.5 | 10.5 | B1, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Parc Busnes, Penrhyndeudraeth | C7 | 3.1 | 11.5 | B1 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Parc Busnes, Porthmadog | C8 | 4 | 13.5 | B1, B2 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | Canolfan Gwasanaethau Lleol | Stad Pendre, Tywyn | C9 | 2.7 | 7.9 | B1, B2 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | Pentref Gwasanaethau | Ger garej betrol, Y Ffôr | C10 | 1.7 | 1.7 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

[2] Ffigwr yn gywir yn ystod cynnal yr Arolwg Cyflogaeth, 2011

# ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ynys Môn | **Canolfan Gwasanaethau Trefol** | Parc Cybi, Caergybi | C11 | 53 | 109.2 | B1, B2, B8 | Ie | Safle Strategol Rhanbarthol (Prif) |
| | | | Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi | C12 | 2.69 | 5.8 | B2, B8 | Ie | Safle Strategol Isranbarthol (Eilaidd) |
| | | | Stad Ddiwydiannol Bryn Cefni, Llangefni | C13 | 18 | 59.5 | B1, B2, B8 | Ie | Ddim yn berthnasol |
| | | | Tir i'r gogledd o fferm Lledwigan, Llangefni | C14 | 20.3 | 20.6 | B1, B2, B8 | Ie | Safle Strategol Rhanbarthol (Prif) |
| | | | Tir yr Hufenfa, Llangefni | C15 | 4.9 | 4.9 | B1, B2, B8 | Ie | Safle Strategol Rhanbarthol (Prif) |
| Safleoedd eilaidd | Gwynedd | **Canolfan isranbarthol** | Bae Hirael, Bangor | C16 | 6.72 | 9.1 | B1 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | **Canolfan Gwasanaethau Trefol** | Peblig, Caernarfon | C19 | 2.2 | 6.7 | B2 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Cyn safle Friction Dynamex, Caernarfon | C20 | **3**~~7.4~~ | **14.67**~~.4~~ | B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Safle Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog | C18 | 2.7 | 7.4 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | **Canolfan Gwasanaethau Lleol** | Felin Fawr, Bethesda | C17 | 0.4 | 1.5 | B2 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Glyn Rhonwy, Llanberis | C21 | 3.3 | 29.8 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Stad Ddiwydiannol, Penygroes | C23 | 4.3 | 10 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Stad Ddiwydiannol, Nefyn | C25 | 1.7 | 3.5 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Cyn safle Ysbyty Bron y Garth, Penrhyndeudraeth | C22 | ~~1.5~~**<u>0.7</u>** | ~~16~~**<u>1.6</u>** | B1 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | | Stad Ddiwydiannol Griffin Penrhyndeudraeth | C39 | 0.9 | 4.9 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | **<u>Pentrefi Gwasanaethau</u>** | Stad Ddiwydiannol, Y Ffôr | C27 | 2.8 | 2.8 | B2 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | **<u>Pentrefi Lleol</u>** | Parc Amaeth, Llanystumdwy | C24 | 1.5 | 6.6 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | | **<u>Cefn Gwlad Agored</u>** | Safle Wynnstay Farmers, Rhosfawr | C26 | 1.4 | 4.9 | B2 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| | Ynys Môn | **<u>Canolfan Gwasanaethau Trefol</u>** | Cyn dir Shell, Amlwch | C28 | 7 | 19.3 | B2, B8 | Na | Ddim yn berthnasol |
| | | | Stad Diwydiannol Llwyn Onn, Amlwch | C29 | 3.16 | 15 | B1, B2, B8 | Na | Ddim yn berthnasol |
| | | | Tir Alwminiwm Môn, Caergybi | C30 | 81.7 | 90.5 | B1, B2, B8 | Ie | Safle Strategol Rhanbarthol (Prif) |
| | | | Cyn safle Eaton Electrical, Caergybi | C31 | 2 | 2 | B1, B2 | Na | Ddim yn berthnasol |
| | | | Safle Kingsland, Caergybi | C32 | 0.8 | 0.8 | B1, B2, B8 | Na | Ddim yn berthnasol |
| | | **<u>Cefn Gwlad Agored</u>** | Tir ger Awyrlu Mona, Mona | C34 | 8.9 | 20.5 | B2, B8 | Na | Ddim yn berthnasol |

**<u>Dyrennir tir ychwanegol fel y rhestrir isod ar gyfer cyflogaeth/mentrau busnes. Mae'r holl safleoedd i'w gweld ar y Map Cynigion.</u>**

| | **<u>Safle</u>** | **<u>Cyfeirnod map</u>** | **<u>Arwynebedd tir gwag (ha)</u>**[3] | **<u>Cyfanswm Arwynebedd (ha)</u>** | **<u>Defnydd</u>** | **<u>Safle Parth Menter</u>** | **<u>Statws Cynllun Rhanbarthol</u>** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

[3] Ffigwr yn gywir yn ystod cynnal yr Arolwg Cyflogaeth, 2011

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Canolfan Gwasanaethau Trefol | Tir i'r gogledd o fferm Lledwigan, Llangefni | C14 | 20.6 | 20.6 | B1, B2, B8 | Ie | Safle Strategol Rhanbarthol (Prif) |
| | Tir yn Hufenfa, Llangefni | C15 | 4.9 | 4.9 | B1, B2, B8 | Ie | Safle Strategol Rhanbarthol (Prif) |
| Canolfan Gwasanaethau Lleol | Stad Ddiwydiannol Gaerwen, Gaerwen | C33 | 25.2 | 58.1 | B1, B2, B8 | Ie | Safle Strategol Rhanbarthol (Prif) |
| | Parc Gwyddoniaeth Menai Gaerwen[4] | C38 | 7.6 | 7.6 | B1[4] | Ie | Safle Strategol Rhanbarthol (Prif) |
| Pentref Gwasanaethau | Ger garej betrol, Y Ffôr | C10 | 1.7 | 1.7 | B1, B2, B8 | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

**Dynodir y safleoedd canlynol fel 'safleoedd wrth gefn' yn gysylltiedig gyda Rhaglen Ynys Ynni. Cyn gallu rhoi ystyriaeth i ryddhau'r tiroedd hyn ar gyfer defnydd cyflogaeth fe fyddai rhaid derbyn cyfiawnhad o'r angen ynghyd a thystiolaeth fod y datblygiad arfaethedig ar y safle yn uniongyrchol gysylltiedig â gwireddu amcanion Rhaglen Ynys Ynni a bod yna ddim safle cyflogaeth a warchodir yn addas er mwyn diwallu'r angen.**

[4] Mae'r tir ym Mharc Gwyddoniaeth Menai, Gaerwen wedi ei ddyrannu ar gyfer y gwaith o ddatblygu Parc Gwyddoniaeth yn unig. Rhaid i unrhyw ddatblygiad ar y safle fod yn Ddefnydd B1 neu ddefnydd sy'n atodol neu'n gysylltiedig â defnydd B1. Dim ond defnyddiau sy'n cydymffurfio â'r diffiniad o 'Barc Gwyddoniaeth' a fydd yn cael eu cymeradwyo ar y safle.

### ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidadau Ffocws

| | Safle | Cyfeirnod Map | Arwynebedd (Cyfanswm) | Defnydd | Safle Parth Menter |
|---|---|---|---|---|---|
| Safleoedd Wrth Gefn | Porthladd Caergybi, Caergybi | C(wg)35 | 41.9 | B1, B2, B8 | Ie |
| | Estyniad i Stad Ddiwydiannol Gaerwen, Gaerwen | C(wg)36 | 20 | B1, B2, B8 | Na |
| | Cyn safle Shell, Rhosgoch | C(wg)37 | 82.2 | B1, B2, B8 | Ie |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 45** | 7.3.25 – 7.3.28 | 1046<br>1047<br>1048<br>826<br>1404 | 7.3.19 Er mwyn sicrhau fod yna ddarpariaeth gytbwys o dir cyflogaeth sydd yn debygol o ddiwallu yr anghenion cyflogaeth a'r cyfleon sydd yn cael eu hyrwyddo gan strategaethau'r Cyngor, gan gynnwys Rhaglen Ynys Ynni/ Ynys Fenter, a Pharth Menter Eryri bwriedir gwarchod tir cyflogaeth yn unol â'r goeden a gyfeirir ato ym Mholisi CYF1. Cydnabyddir fod gan y safleoedd hyn rôl bwysig wrth gynnal a sicrhau cyfleon gyflogaeth i'r dyfodol a chan hynny'r bwriad yw eu gwarchod ar gyfer y dibenion hynny. Diffinnir y gwahanol haenau o fewn yr hierarchaeth fel a chanlyn:-<br><br>**if Safleoedd** - Safleoedd sydd yn debygol o fod yn fwy deniadol farchnad ac yn debygol o gael eu datblygu yn tymor byr. **<u>Mae'r safleoedd hyn wedi eu lleoli bennaf yn yr aneddleoedd mwyaf cynaliadwy, unol â'r strategaeth ofodol a chanddynt fynedia wasanaethau cymunedol, cyfleusterau yn ogyst â chysylltiadau cludiant cynaliadwy.</u>**<br><br>**fleoedd Eilaidd** - Safleoedd sydd ddim yn y lleoliadau mwy deniadol o ran mynediad a phresenoldeb farchnad mewn cymhariaeth a'r prif safleoed Fodd bynnag maent yn cynnig cyfleodd pwysig sy yn cyfarch galw lleol ynghyd a'r galw posib deillio o Rhaglen Ynys Ynni/ Ynys Fenter. **<u>Ma safleoedd hyn wedi eu lleoli yn bennaf yn</u>** | Er mwyn gwella eglurder a chywirdeb cynigir fod geiriad yr eglurhad yn cael ei ddiwygio. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **<u>aneddleoedd mwyaf cynaliadwy, yn unol â'r strategaeth ofodol a chanddynt fynediad i wasanaethau cymunedol, cyfleusterau yn ogystal â chysylltiadau cludiant cynaliadwy.</u>**<br><br>**Safleoedd wrth gefn** - Safleoedd sydd a'r potensial i ddiwallu'r galw a fyddai'n deillio o Wylfa Newydd ynghyd a gweddill Rhaglen Ynys Ynni Môn/ Ynys Fenter.<br><br>**Safle Strategol Rhanbarthol** - Safleoedd o bwysigrwydd rhanbarthol sydd gyda rôl allweddol i gyflawni'r galw rhanbarthol ac i gyfrannu tuag at ddatblygiad economaidd cenedlaethol.<br><br>**Safle Isranbarthol** - Safleoedd gyda ffocws mwy cyffredinol a lleol ar gyfer datblygu'r economi na safleoedd strategol rhanbarthol, gyda ffocws ar atynnu cyflogwyr sy'n denu gweithle o ardal eang.<br><br>7.3.20 Mae'n bwysig fod y Cynllun yn darparu portffolio priodol o dir cyflogaeth o ran yr ystod, ansawdd a niferoedd er mwyn diwallu'r galw lleol am diroedd ac unedau cyflogaeth. Mae gwarchod y safleoedd a enwir uchod yn fodd o sicrhau fod yr angen hwn yn cael ei ddiwallu.<br><br>7.3.21 **<u>Cynhaliwyd Adolygiad Tir Cyflogaeth (ELR) i asesu safleoedd cyflogaeth presennol sydd wedi'u lleoli o fewn yr</u>** | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **<u>awdurdodau lleol. Asesodd yr ELR pa safleoedd sydd fwyaf tebygol o ateb y gofynion cyfredol ar gyfer tir cyflogaeth. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gydnaws ag amcanion cynaliadwy y Cynllun. Mae'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr Adolygiad Tir Cyflogaeth yn cyfateb i'r fethodoleg a amlinellir yn TAN 23: Datblygu Economaidd (2014).</u>**<br><br>7.3.22 Yn draddodiadol mae cyfradd cymryd i fyny tir cyflogaeth o fewn ardal y Cynllun wedi bod yn 4ha y flwyddyn. Er mwyn sicrhau fod yna ddarpariaeth o lithriad a hyblygrwydd i'r posibilrwydd o hwb economaidd a fyddai'n arwain at fwy o alw ar gyfer tir cyflogaeth mae'r Cynllun yn darparu ar gyfer cyfradd cymryd i fyny tir cyflogaeth o 6ha y flwyddyn. **<u>Mae'r safleoedd cyflogaeth newydd a ddyrannwyd yn cyfateb i 60ha; hefyd mae tir ychwanegol yn cael ei ddiogelu ar safleoedd cyflogaeth presennol sydd eisoes yn cynnwys datblygiad neu isadeiledd.</u>**<br><br>7.3.23 Disgwylir i'r rhan helaeth o ddatblygiadau cyflogaeth o fewn ardal ac oes y Cynllun gael ei leoli ar safleoedd sy'n cael eu hadnabod ym Mholisi CYF1. Bydd y warchodaeth hon yn caniatáu datblygiadau newydd ynghyd ag ymestyn a dwysau gweithgareddau cyflogaeth ar safleoedd presennol. | | |
| **NF 49** | 7.3.31 – 7.3.33 | 959 | 7.3.31 Ystyrir fod y Cynllun yn darparu ar gyfer ystod ddigonol - yn nhermau maint, cymysgedd, ansawdd a dosbarthiad o safleoedd diwydiannol/fusnes o fewn ardal y Cynllun er | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 960<br><br>972<br><br>973 | mwyn diwallu'r galw. Fodd bynnag, fe all achosion godi o fewn oes y Cynllun ble nad yw cyflogwr mawr yn gallu dod o hyd i safle addas ar safle diwydiannol/busnes sydd wedi ei ddynodi.. Yn yr achosion hyn fe fydd ceisiadau cynllunio ar gyfer defnydd diwydiannol neu fusnes, er yn cael ei hysbysebu fel gwyriad o'r Cynllun yn gallu cael eu hystyried ar safleoedd sydd heb eu dynodi, gan gymryd i ystyriaeth y meini prawf cynllunio arferol, **fel nodir er enghraifft ym Mholisi PS1 Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig**; **Polisi ISA 1 Darpariaeth Isadeiledd, Polisi PS5 Datblygu Cynaliadwy** ac os oes yna angen ar gyfer y datblygiad.<br><br>7.3.32 Bwriad y polisi hwn yw cefnogi mentrau busnes newydd ar raddfa fawr cyn belled â'u bod wedi lleoli mewn man priodol a chynaliadwy a bod ganddynt berthynas dda â'r aneddleoedd. Wrth ystyried mentrau o'r math, bydd yn hanfodol dilyn y broses prawf dilyniannol a'r arweiniad a roddir ym Mholisi Cynllunio Cymru ynghyd a'r Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 23: 'Datblygu Economaidd' sydd yn nodi'r angen i sicrhau nad oes yna opsiwn o ran lleoliad arall fwy addas a fyddai'n gallu diwallu'r angen, sicrwydd o ran faint o swyddi uniongyrchol a fyddai'n cael ei greu o'r fenter ac a fyddai'r datblygiad yn gwneud unrhyw gyfraniad arbennig at amcanion polisi. Mewn amgylchiadau eithriadol yn unig ganiateir mentrau newydd ar safleoedd sydd heb eu | y Cynllun. | ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | gwarchod a bydd angen derbyn cyfiawnhad cyflawn o'r bwriad a'r angen lleoliadol. Mae'n hanfodol fod tystiolaeth briodol yn cael ei gyflwyno yn profi nad oes yna opsiwn amgen o allu defnyddio safle sydd wedi ei warchod ar gyfer defnydd cyflogaeth neu fod yna ddim safle a ddatblygwyd o'r blaen a allai fod yn addas i ddiwallu'r galw.<br><br>7.3.33 Byddai angen argyhoeddi'r Cyngor fod y fenter dan sylw yn hyfyw ac y byddai yna fuddiannau cyflogaeth leol yn deillio ohono. Un modd o brofi hynny fyddai cyflwyno Cynllun Busnes proffesiynol wedi ei baratoi gan arbenigwr annibynnol. Ni fydd ceisiadau a fyddai'n creu ardrawiad **arwyddocaol annerbyniol** ar **iaith a chymeriad** a fwynderau'r ardal leol yn cael eu cefnogi. | | |
| **NF 50** | 7.3.36 | 959<br>960<br>972<br>973 | 7.3.36 Fe fyddai rhaid derbyn cyfiawnhad llawn ar gyfer newid defnydd uned neu tir sydd wedi ei warchod ar gyfer defnydd yn nosbarth defnydd B1- B8 ar gyfer defnydd amgen, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn a hyfywedd y defnydd cyflogaeth presennol, unrhyw ymgais sydd wedi ei wneud i farchnata'r uned/tir ar gyfer defnydd cyflogaeth, **effaith y lleihad yn y niferoedd o swyddi ar y gymuned leol** a gwybodaeth ynglŷn a'r ddarpariaeth o safleoedd cyflogaeth leol sydd yn diwallu'r galw. | Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

**Yr Economi Ymwelwyr**

| Cyf | Rhan | Cyfeirnod Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 51** | Polisi PS11 | 340, 456 & 761 | 3. Rheoli **a gwella'r** ddarpariaeth o lety twristiaeth o ansawdd uchel heb wasanaeth ar ffurf **bythynnod a fflatiau hunan arlwyo**, meysydd gwersylla, gwersylla moethus amgen, carafannau sefydlog neu deithiol neu barciau chalet; | I sicrhau cysondeb mewnol y cynllun. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 52** | 7.3.59 | 342 & 1072 | 7.3.59 Yn hanesyddol mae canllawiau cynllunio cenedlaethol a pholisi cynllunio lleol (yn arbennig yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd) wedi rhoi blaenoriaeth i drosi adeiladau presennol yng nghefn gwlad er defnydd economaidd. Mae hyn yn golygu bod nifer helaeth o adeiladau sydd wedi cael eu trosi i lety hunanwasanaeth mewn rhai ardaloedd. Yn amlwg, nid bwriad y canllaw cenedlaethol na'r Cynghorau yw i'r polisi hwn arwain at grynodiad gormodol o'r math hwn o lety gwyliau mewn lleoliad penodol. **Mae tystiolaeth mewn perthynas â chyfradd deiliadaeth yn awgrymu fod llety hunan arlwyo o safon dda yn parhau i fod yn ddewis poblogaidd gydag ymwelwyr. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hefyd yn amlygu fod yna gyfyngiadau yn gysylltiedig â 'r cyfleoedd i ddatblygu ychwaneg o lety hunanarlwyo o fewn rhannau o** | I sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn hawdd. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Cyfeirnod Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | <u>ardal y Cynllun. Mae yna amheuaeth ynglŷn â chynaliadwyedd economaidd o ran cynhwysedd presennol unedau hunan arlwyo a chan hynny fe ddylai'r Cynghorau fod yn eithriadol o wyliadwrus wrth ganiatáu ceisiadau ar gyfer ychwaneg o lety hunan arlwyo. Os yw cynigion yn seiliedig ar ragdybiaeth afrealistig o ran lefelau'r ddeiliadaeth o fewn farchnad a allai fod yn orlawn mae yna fygythiad y byddem yn parhau i wneud ychydig iawn o brofit neu hyd yn oed methu yn ariannol.  Bygythiad pellach yw drwy ychwanegu tuag at y ddarpariaeth o lety y bydd lefelau deiliadaeth a hyfywdra'r darparwyr yn cael ei danseilio, gan arwain at fygythiad ychwanegol i'r rhai mwyaf bregus a allai arwain tuag at fethiant. Fe fydd y Cynghorau yn parhau i geisio blaenoriaethu llety gwasanaethol o ansawdd uchel yn hytrach na llety hunan arlwyo ble mae'r cyfleoedd yn codi. Fodd bynnag, fe allai cyfleoedd godi ar raddfa fechan i ddatblygu llety hunan arlwyo gan ddefnyddio adeiladu presennol, er enghraifft, ar ymyl llwybr yr arfordir, neu ddatblygiad sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi fferm neu fenter wledig bwysig presennol. Fe fydd rhaid i ymgeiswyr gyflwyno un ai gwerthusiad llawn o'r farchnad neu gynllun busnes manwl. Fe fyddai hynny'n caniatáu'r Cyngor i ystyried y cynllunio ariannol sydd wedi ei gynnal a darparu tystiolaeth o ran lefelau'r ddeiliadaeth sydd yn angenrheidiol er mwyn</u> | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Cyfeirnod Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **gwneud y fenter yn hyfyw.** Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi mwy o arweiniad am y mater yma. | | |
| **NF 53** | 7.3.67 | 515 & 1052 | **7.3.67 Yn nghyd-destun y polisi yma llety gwersylla amgen parhaol yw unedau na ellir ei dynnu i lawr pan ddim mewn defnydd oherwydd graddfa'r cysylltiad ffisegol i'r tir a natur eu dyluniad. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi mwy o arweiniad ar y mater yma.** | Er mwyn sicrhau y gall y polisi gael ei ddehongli yn hawdd. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 54** | Polisi TWR3 & 7.3.62 | 519, 520, 739, 792 & 518, 865 | 3. Oddi mewn i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Arfordir Môn, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, bydd cynigion i wella safleoedd sefydlog a chalet sy'n bodoli eisoes trwy:<br><br>i. Estyniadau bychain i arwynebedd y safle, a/ neu<br>ii. Ail-leoli unedau o leoliadau amlwg i leoliadau llai amlwg,<br><br>yn cael eu caniatáu os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:<br><br>iii. Nid yw'r gwelliannau yn cynyddu nifer y carafannau sefydlog neu chalet ar y safle, **oni bai , mewn amgylchiadau eithriadol, bydd y cynigion yn golygu ail-leoli parciau presennol sydd wedi eu lleoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol**<br><br>7.3.62 Caniateir ail-leoli safleoedd presennol oddi mewn i'r Parth Rheoli Newid Arfordirol os yw'r datblygiad arfaethedig | Er mwyn sicrhau y gall y polisi gael ei ddehongli yn hawdd.<br>. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Cyfeirnod Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn cyd-fynd a Pholisi TWR3, Polisi ARNA1 a phob polisi perthnasol arall yn y Cynllun. **Rhoddir ystyriaeth i gynnydd bach mewn unedau os gyflwynir achos busnes / asesiad hyfywdra sy'n cyfiawnhau'r cynnydd er mwyn hwyluso parciau presennol sydd wedi ei leoli o fewn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol.** | | |

### Canol Trefi a Datblygiadau Manwerthu

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 56** | 7.3.83 | 1068 | ~~7.3.82 Mae Strategaeth Aneddiadau'r Cynllun yn cydnabod cymeriad a rôl unigryw amrywiol ganol Trefi yn ardal y Cynllun. Mae canol trefi a dinasoedd yn elfennau hanfodol o'r economi leol ac yn parhau i ddarparu pwynt canolog i gymunedau. Mae'n bwysig felly sicrhau fframwaith cynllunio sy'n diogelu a gwella sefyllfa'r canol trefi fel lleoliadau ar gyfer gwasanaethau manwerthu a masnachu. Mae canolfannau bywiog ac actif yn darparu amrywiaeth o ddefnyddiau gan gynnwys unedau preswyl, gweithgaredd busnes, darpariaeth gwasanaeth, unedau manwerthu, a chyfleusterau hamdden a diwylliannol. Mae gan y Cynllun rôl i'w chwarae wrth gefnogi datblygiadau fydd yn gwarchod ac yn hyrwyddo~~ | I sicrhau eglurder a cysondeb efo newidiadau eraill yn y Cynllun | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau sy'n bodoli.~~<br><br>**7.3.82 Nododd yr Astudiaeth Manwerthu (2013) a wnaed i hysbysu'r Cynllun y canolfannau hynny o fewn y goeden aneddleoedd sydd â swyddogaeth manwerthu sylweddol. Mae'r prif gategorïau yn y goeden manwerthu fel a ganlyn: Isranbarthol, Trefol, a Lleol. Nid yw'r Goeden Aneddleoedd yn y Cynllun yn yr un fath â'r Goeden Manwerthu am ei bod wedi ei seilio ar ystod ehangach o ffactorau gan gynnwys rhifau tai a nifer, math a graddfa'r cyfleusterau a gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli o fewn pob cymuned. Mae Atodiad 4 y Cynllun a Phapur Pwnc 5: Datblygu y Goeden Aneddleoedd yn esbonio'r rhesymeg dros Goeden Aneddleoedd y Cynllun.**<br><br>7.3.83 ~~Mae'r Astudiawth Manwerthu (2013) a wnaed i gyfrannu gwybodaeth i'r Cynllun yn nodi dylanwad cryf Bangor fel Canolfan Fanwerthu Isranbarthol.. Roedd yr astudiaeth hefyd yn adnabod bod yr ardal yn cael ei gwasanaethu gan hierarchaeth~~ **Cydnabu'r astudiaeth hefyd bod yr ardal yn cael ei gwasanaethu gan goeden manwerthu** sy'n cynnwys canolfannau y tu allan i ardal y Cynllun, e.e. Llandudno a Chaer. **Yn ôl yr astudiaeth, roedd yna angen meintiol cyfyngedig i ddarparu a dosbarthu** ~~Ystyriai'r astudiaeth fod angen meintiol cyfyngedig i ddarparu~~ ryw 372 metr sgwâr ~~o ofod llawr ar gyfer nwyddau cyfleus~~ ychwanegol o arwynebedd llawr nwyddau cyfleus, a'i ddosbarthu fel y nodir isod:<br>• **200 m.sg Caernarfon**<br>• **172 m.sg Pwllheli** | | |

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>Fodd bynnag, o ran nwyddau cymhariaeth, daeth yr Astudiaeth i'r casgliad bod potensial i ddarparu rhyw 9,353 metr sgwâr o arwynebedd llawr dros gyfnod y Cynllun <u>fel y nodir isod:</u>
<ul>
<li><u>7,913 m.sg Bangor</u></li>
<li><u>176 m.sg Caernarfon</u></li>
<li><u>772 m.sg Pwllheli</u></li>
<li><u>492 m.sg Llangefni</u></li>
</ul></td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
<tr>
<td>NF 57</td>
<td>Polisi PS12</td>
<td>1068</td>
<td>Bydd y Cynghorau’n gweithio gyda sefydliadau partner a’r gymuned leol i warchod a gwella bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi yn ardal y Cynllun gan gydnabod eu swyddogaethau manwerthu, gwasanaethu a chymdeithasol yn unol â’r goeden fanwerthu a ganlyn:
<table>
<tr><td rowspan="3">Gwynedd</td><td>Canolfan Fanwerthu Isranbarthol</td><td>Bangor</td></tr>
<tr><td>Canolfan Fanwerthu Drefol</td><td>Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli</td></tr>
<tr><td>Canolfan Fanwerthu Leol</td><td>Abersoch, Abermaw, Bethesda, Blaenau Ffestiniog, Criccieth, Llanberis, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Penygroes, Tywyn</td></tr>
<tr><td>Ynys Môn</td><td>Canolfan Fanwerthu Drefol</td><td>Caergybi, Llangefni</td></tr>
</table></td>
<td>I sicrhau eglurder a cysondeb efo newidiadau eraill yn y Cynllun</td>
<td>Newid bach nad yw’n effeithio ar ganfyddiadau’r AC.</td>
</tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td></td><td>Canolfan Fanwerthu Leol</td><td>Amlwch, Benllech, Biwmares, Cemaes, Llanfairpwll, Porthaethwy, Rhosneigr, Fali</td></tr>
</table>
Bydd y Cynghorau yn hyrwyddo bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi/dinasoedd yn y Ganolfan Fanwerthu Isranbarthol, y Ganolfan Fanwerthu Drefol a’r Ganolfan Fanwerthu Leol trwy:
1. Annog cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau addas (fel y diffinnir yn PCC a NCT 4) mewn amgylcheddau o ansawdd uchel sy’n denu ystod eang o bobl ar wahanol amseroedd o’r dydd, sy’n ddiogel ac yn hygyrch i bawb;<br>
2. Sicrhau y bydd buddsoddiad newydd yn cyd-fynd â graddfa a swyddogaeth ganol y ddinas/tref yn unol â’r hierarchaeth fanwerthu;<br>
<s>3. Hwyluso’r ddarpariaeth o gyfanswm o 372 metr sgwâr o ofod llawr newydd ar gyfer nwyddau cyfleus a chyfanswm o 9,353 metr sgwâr o ofod llawr ar gyfer nwyddau cymhariaeth erbyn 2026 mewn lleoliadau priodol;</s>
4. <u>Hwyluso darpariaeth o 372 m.sg o arwynebedd llawr cyfleustra nwyddau cyfleus newydd erbyn 2026 mewn lleoliadau priodol yn y canolfannau trefi manwerthu canlynol:</u>
<ul>
<li><u>200 m.sg. Caernarfon</u></li>
<li><u>172 m.sg. Pwllheli</u></li>
</ul>
<u>ac, o ran nwyddau cymharol, hwyluso darpariaeth y</u>
</td>
<td></td>
<td></td>
</tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **potensial am ryw 9,353 m.sg. o arwynebedd llawr yn y canolfannau manwerthu canlynol:**<br>• **7,913 m.sg. Bangor**<br>• **176 m.sg. Caernarfon**<br>• **772 m.sg. Pwllheli**<br>• **492 m.sg. Llangefni** | | |

## Pennod 7.4 – Rheoli Twf a Datblygu – Cyflenwad ac Ansawdd Tai

### Darpariaeth Tai Cytbwys

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 58** | 7.4.2 | 959, 960, 972, 973, 985, 903 | Disgwylir i'r Cynllun gyflawni un o amcanion tai allweddol y Llywodraeth, sy'n anelu at sicrhau bod mwy o dai o'r math cywir yn cael eu darparu, ac y dylid darparu mwy o ddewis. Mae creu marchnad dai iach a chytbwys hefyd yn amcan allweddol i'r ddau Gyngor, ac ynghyd â strategaethau a rhaglenni eraill y mae'r Cynghorau a sefydliadau eraill yn eu gweithredu, dylai'r Cynllun sicrhau bod defnydd tir yn hybu cymunedau cynaliadwy, **a fydd yn ei dro yn cynorthwyo i gynnal neu gryfhau lles yr iaith Gymraeg. Bydd methu gwneud hyn yn tanseilio strategaethau economaidd y Cynghorau a chyfyngu ar ein gallu trwy'r system gynllunio i gael tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion dwys nifer o'n cymunedau.** | I gynnal cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 59** | 7.4.3 | 130, 1062, 1063 | Gall awdurdodau lleol adnabod nifer y tai sydd eu hangen, ond bydd y nifer gaiff eu hadeiladu mewn gwirionedd yn cael eu dylanwadu'n gryf gan ffactorau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth. Mae cyfnod y Cynllun (2011 – | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2026) yn un lle mae ansicrwydd economaidd ac ariannol yn parhau. Mae cyflwr y farchnad yn dal i fod yn wan ac o'r herwydd mae'n debygol y bydd y gyfradd adeiladu tai yn y tymor byr yn parhau'n isel. Er mwyn cynorthwyo i wella'r sefyllfa dai yn y tymor byr, mae pob Cyngor a'i bartneriaid yn archwilio ac/neu'n gweithredu mentrau lleol. **Gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael mae Papur Testun X yn anelu i ddarparu tafluniad tai sy'n cynnwys datblygu gam wrth gam/ datblygiad cynlluniau tai a dangos y sefyllfa o ran cyflenwad tir ar gyfer tai trwy gydol cyfnod y Cynllun. Wrth wneud y gwaith dangosir hyd y gellir y bydd y galw i gynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai yn cael ei gyrraedd trwy gydol cyfnod y Cynllun. Defnyddir mecanwaith cynllunio fel caniatâd tymor byr i drio sicrhau y bydd safleoedd sydd gan ganiatâd cynllunio yn rhoi'r cartrefi angenrheidiol.** | | |
| **NF 60** | 7.4.4 | 130, 86, 1062, 1063, 903 | Er gwaethaf hyn, disgwylir y bydd rhannau o ardal y Cynllun yn profi cyfleoedd cyflogaeth sylweddol yn ystod ail ran cyfnod y Cynllun (ar ôl 2018) o ganlyniad i'r buddsoddiad arfaethedig yn Wylfa Newydd, dadgomisiynu Wylfa A a phrosiectau isadeiledd mawr eraill. Gellir disgwyl i Wylfa Newydd ddarparu cyfleoedd cyflogaeth i breswylwyr sydd eisoes yn byw yn ardal y Cynllun, cymunedau cyfagos a thu hwnt. Mae'r Cynllun yn rhoi ystyriaeth i'r cysylltiadau rhwng datblygiad economaidd a phreswyl. **Bydd ein targed, sef 7,184 o gartrefi newydd yn ystod oes y Cynllun, yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r rhagolygon demograffeg orau a ffactorau sy'n dylanwadu ar y marchnadoedd tai. Derbynnir y bydd hyn yn fater a fydd angen cadw golwg agos arno ac fe gaiff ei adolygu yn ôl y galw yn unol â'r Rheoliadau Cynllun Datblygu Lleol (Cymru).** | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **NF 61** | Polisi PS13 | 86 | POLISI STRATEGOL PS13: DARPARIAETH TAI<br><br>Yn seiliedig ar lefel y tai y disgwylir y bydd ei angen, a gan roi ystyriaeth i'r gallu i'w darparu, cyfyngiadau amgylcheddol, a chapasiti'r dirwedd **a chymunedau,** bydd y Cynghorau yn darparu ar gyfer y galw am 7,184 o unedau tai rhwng 2011 a 2026. Caiff y galw yma ei gwrdd trwy adnabod cyfleodd ar gyfer 7,902 o unedau tai i hwyluso lwfans llithriad o 10%.<br><br>Cynhelir isafswm cyson o werth 5 mlynedd o dir i gyflenwi tai trwy ddynodi tir a hyrwyddo datblygiad ar safleoedd ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol yn unol â'r targedi tai canlynol:<br><br>1. gofyniad sylfaenol, sydd gyfystyr a 2,604 unedau tai rhwng 2011 a 2018<br>2. darpariaeth ar gyfer twf, sydd gyfystyr a 5,298 o unedau tai rhwng 2018 a 2026<br><br>Bydd y lefel twf hwn yn cael ei ddosbarthu yn unol â Pholisi Strategol PS15 a pholisïau TAI14 i TAI18 ac fe gaiff ei fonitro'n flynyddol **trwy'r Astudiaethau Tir ar gyfer Tai blynyddol a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol.** | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 62** | Polisi newydd | 1062, 215, 959, 960, 972, 973, 985 | **Polisi TAI X newydd**<br><br>**Er mwyn sicrhau bod gwahanol gymunedau yn gallu ymdopi gyda datblygiadau preswyl, bydd y Cynghorau, lle bo'n briodol, yn gofyn am** | Er eglurder a chynnal cysondeb mewnol | Mae'r arfarniad a gyflwynwyd yn Adran 6 o'r Adroddiad Adnau |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **ryddhau tai fesul cam yn achos safleoedd a ddynodwyd neu mewn perthynas â safleoedd ar hap.**<br><br>**Er mwyn gwella cyflenwi cartrefi fel y nodir ym Mholisi PS13 a Pholisïau TAI 14 i TAI 18:**<br><br>• **Bydd caniatâd cynllunio byr yn cael ei roi yn ôl disgresiwn y Cynghorau; neu**<br>• **Gall datblygiadau tai fod ag amod dyddiadau cwblhau; neu**<br>• **Ni fydd caniatâd amlinellol, materion wrth gefn a chaniatâd llawn yn cael eu hadnewyddu ac eithrio bod cyfiawnhad cryf**.<br><br>**Eglurhad:**<br><br>**Noda Polisi Cynllunio Cymru efallai y bydd angen datblygu fesul cam, lle y bo'n briodol, mewn ymgynghoriad â'r darparwyr cyfleustodau/ isadeiledd perthnasol, er mwyn caniatáu amser i sicrhau y gall darpariaeth y cyfleustodau/ isadeiledd gael ei rheoli mewn ffordd sy'n gyson â pholisïau cyffredinol ar gyfer datblygu cynaliadwy. Efallai y bydd angen hefyd i ddatblygiadau ystyried gallu gwahanol gymunedau i gynnwys y datblygiad heb erydu eu cymeriad, gan gynnwys eu cymeriad ieithyddol.** | | AC (Chwef 2015) yn cael eu adolygu i ystyried y polisi newydd hwn. Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mae rhan gyntaf y polisi yn nodi y gall safleoedd a ddynodwyd a safleoedd ar hap o bwys gael caniatâd fesul nifer o gamau. Bydd y dull gweithredu fesul cam hwn yn caniatáu rhywfaint o reolaeth dros sicrhau bod y seilwaith a'r cymunedau yn gallu cynnwys y datblygiad. Penderfynir ar y nifer o gamau priodol i bob safle dyranedig neu hap-safle yn ystod y cam cyn ymgeisio, mewn trafodaeth gyda'r ymgeisydd, gan gymryd i ystyriaeth yr ymrwymiadau a chyflenwad presennol yn yr anheddiad ynghyd ag unrhyw ofynion penodol mewn perthynas â chyflenwi'r safle dyranedig dan sylw. Bydd y Cynghorau'n cydnabod y bydd rhai safleoedd lle na fydd rhyddhau fesul cam yn angenrheidiol, yn briodol na'n berthnasol, ac y bydd trafodaeth gynnar gyda'r Cynghorau cyn cyflwyno unrhyw gais yn helpu i sefydlu p'un a oes angen defnyddio rhyddhau fesul cam. Nid yw'r dull fesul cam yn atal yr angen, lle y bo'n briodol, i'r ymgeisydd gyflwyno prif gynllun clir ymlaen llaw ynglŷn â gosodiad cyffredinol y safle cyfan. Bwriad Polisi TAI X yw gwella'r cyflenwad o dai a gwblhawyd, yn hytrach na chaniatâd cynllunio. Bu tuedd i sicrhau caniatâd cynllunio mewn aneddiadau yn y gorffennol heb fwriad clir i weithredu neu gyflenwi'r unedau yn y dyfodol agos. Yn aml arweiniodd hyn at bwysau i sicrhau caniatâd cynllunio cyn i 'gwota adeiladu' y pentref gael ei ddisbyddu. Cafodd peth caniatâd cynllunio hefyd ei gadw fel un sy'n bodoli eisoes drwy rinwedd 'cychwyn technegol' sy'n cefnogi'r cymhellion, mewn rhai achosion, i gael caniatâd cynllunio yn hytrach na sicrhau bwriad masnachol i adeiladu. Mae'r holl ffactorau hyn yn tueddu i rwystro cyflenwi tai gwirioneddol ac ymatebolrwydd i anghenion uniongyrchol. | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Bydd y polisi yn cynorthwyo'r Cynghorau i sicrhau cyflenwad tir pum mlynedd ddilys yn ôl gofynion yr Asesiadau Tir ar gyfer Tai ar y Cyd a gyhoeddwyd gan y Cynghorau mewn ymateb i bolisi cynllunio cenedlaethol.** | | |
| **NF 63** | 7.4.13 | 1177 | 7.4.13 Mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio i drosi tŷ, fflat neu eiddo eraill i mewn i fflatiau ar wahân neu ystafelloedd byw a chysgu neu i adeiladu eiddo newydd o'r math hwn, oni bai bod y cynnig yn cynnwys darparu un fflat uwchben siop. Pan nad oes mwy na 6 o bobl yn rhannu'r cyfleusterau (h.y. ystafell ymolchi a chegin) ac yn gyfrifol am reoli'r aelwyd (h.y. talu rhent a bwyta gyda'i gilydd), tybir ei fod yn 'dŷ a rennir' ac fel arfer ni fydd angen caniatâd cynllunio. Mewn rhai achosion gall hyn gynnwys aelwydydd lle darperir ychydig o ofal neu lle mae nifer o fyfyrwyr yn byw gyda'i gilydd. Gall fflatiau hunangynhaliol neu dai amlfeddiannaeth helpu i fynd i'r afael ag anghenion y rheini sydd eisiau prynu neu rentu unedau llety bychain, a gallent hefyd ddarparu opsiwn tai cymharol rad i'r rheini sy'n dymuno prynu eu heiddo cyntaf. **Yn ogystal gallai defnyddio adeiladau gwag/ rhai sy'n cael eu tanddefnyddio fod yn un o'r opsiynau i gyfrannu at gyfarch rhan o'r galw am lety gweithwyr dros dro.** Ymdrinnir â chynigion am fflatiau / tai amlfeddiannaeth sy'n adeiladau newydd dan bolisïau TAI 3 a TAI 14 i TAI 18 [dynodiad a safleoedd ar hap] a rhoddir ystyriaeth i'r effaith bosib ar gymeriad a mwynderau'r ardal leol gan gynnwys yr effaith gronnus dan Bolisi PCYFF 1. | I sicrhau cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 64** | Polisi TAI 3 | 1178, Cyngor | (Newid i eiriad ac ail-osod meini prawf) | Er eglurder ac i sicrhau cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws**

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | POLISI TAI3: LLETY ~~PWRPASOL NEWYDD, TAI AMLFEDDIANNAETH A THAI ERAILL GYDA CHYFLEUSTERAU A'U RHENNIR~~ AR GYFER GWEITHWYR ADEILADU DROS DRO<br><br>Caniateir cynigion ar gyfer llety ~~pwrpasol newydd, tai amlfeddiannaeth a thai eraill gyda chyfleusterau a'u rhennir~~ ar gyfer gweithwyr adeiladu dros dro os **ydi o yn rhan o'r ateb cyflawn i ddarparu llety ar gyfer gweithwyr adeiladu dros dro ac y** gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:<br><br>1. Bod y safle wedi ei leoli o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol a'u hadnabyddir o fewn Coeden Aneddleoedd y Cynllun, **ac**<br>2. Ei fod yn gymesur o ran graddfa i'r Ganolfan neu'r Pentref Gwasanaethol, **ac**<br>3. Na fydd yn rhagfarnu gallu'r Cyngor i gynnal cyflenwad tir parhaus sydd o leiaf 5 mlynedd ar gyfer tai **parhaol** ~~hunangynhaliol~~, **neu**<br>4. mewn amgylchiadau eithriadol, ~~mewn man eraill~~ **ar Ynys Môn** os:<br>i. gall y datblygwr arddangos fod yna angen hanfodol a brofwyd ar gyfer y nifer a math o lety na ellir ei gwrdd o fewn neu yn gyfochrog i ffiniau datblygu Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaethol yn yr ardal leol unai drwy lety **neu safle** presennol neu drwy ail-ddefnyddio adeilad presennol; a<br>ii. bod y llety yn cael ei ddarparu er mwyn cwrdd ag anghenion llety dros dro gweithwyr;<br>iii. mae'r safle yn hygyrch i lwybrau ludiant cyhoeddus, mannau gwaith, a seilwaith cymdeithasol allweddol;<br>iv. bod llety o safon dderbyniol a chyfleusterau hamdden ac | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | adloniadol cyfunol digonol yn cael eu darparu ar y safle i gwrdd ag anghenion mwynderol y preswylwyr;<br>5. **Bod y llety** ~~Mae~~ wedi ei ddylunio ar gyfer defnydd etifeddiaeth ('legacy') parhaol, oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol, fod y Cyngor yn fodlon nad yw defnydd etifeddiaeth yn ddichonol **neu'n briodol;**<br>6. Mae'n gyson gyda Pholisi PCYFF 1 a pholisïau yn gysylltiedig â'r defnydd amgen yn y dyfodol;<br>~~7. Nad yw yn golygu colli safleoedd neu rannau o safleoedd a ystyrir i fod yn addas ar gyfer tai fforddiadwy neu dai ar gyfer pobl hŷn neu bobl eraill sydd ag anghenion penodol yn ystod oes y Cynllun, gan gynnwys safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai;~~<br>8. Os mai'r ddarpariaeth o dai **parhaol** ~~hunangynhaliol~~ yw'r defnydd etifeddiaeth bwriedir **o'r llety** ~~yr adeilad(au)~~, yna bod y cynnig yn **gwneud cyfraniad positif i amcanion tai fforddiadwy'r Cyngor yn** unol â gofynion Polisi TAI 9 a Pholisi TAI 10;<br>9. **Os yw'r cynnig yn arwain at ardrawiadau neu alw ychwanegol ar gyfleusterau cymunedol presennol, yn unol â Pholisi ISA 1, dylid darparu cyfleusterau ychwanegol neu gyfraniadau priodol ar gyfer y datblygiad neu welliannau i gyfleusterau presennol o fewn Canolfannau neu Bentrefi Gwasanaeth, oni bai y gellir dangos y dylid darparu cyfleusterau dros dro mewn lleoliad arall;**<br>10. Fod y llety, a'r defnydd etifeddiaeth a gytunir arno, yn cyfrannu i greu cymuned gymysg, gynhwysol a chynaliadwy, ac nad yw'n achosi gor-grynhoad o'r fath ddefnydd yn yr ardal leol neu niwed i fwynderau preswyl yr ardal gyfagos;<br>11. Os nad yw defnydd amgen yn ddichonol bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod yr adeiladau dros dro yn cael eu clirio o'r safle a<br>i. bod y tir a'i gwasanaethir yn cael ei gadw mewn cyflwr taclus yn dilyn clirio'r strwythurau, neu<br>ii. bod yr holl gyfleusterau gwaredu gwastraff, ffyrdd, mannau | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | parcio a chyfleusterau draenio yn cael eu clirio'n barhaus o'r safle a bod y tir yn cael ei ddychwelyd i'w gyflwr gwreiddiol i fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol.<br><br>Bydd caniatâd cynllunio wastad ond yn cael ei roddi yn ddarostyngedig i gyfnod amser penodol er mwyn galluogi'r Cyngor i adolygu'r tueddiad cyffredinol mae'r llety cysylltiol i'r prosiect adeiladu ei angen. Bydd mecanweithiau cynllunio priodol yn cael eu gweithredu er mwyn sicrhau'r defnydd etifeddiaeth a gytunwyd arno.<br><br>Bydd yn ofynnol i weithredwyr i gadw cofrestr o'r holl weithwyr sydd yn byw yn y llety ac i sicrhau fod y gofrestr hon ar gael ar unwaith i'r Cyngor os gofynnir amdano. | | |

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 65** | Polisi TAI 5 | 611, Cyngor | POLISI TAI5: TAI MARCHNAD LEOL<br><br>Caniateir datblygiadau preswyl newydd o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd penodol a nodir isod cyn belled bod:<br><br>1. Meddiannaeth yr eiddo yn cael ei gyfyngu i fod yn:<br>**i.** Dai marchnad leol; a/neu<br>**ii.** Tai fforddiadwy (yn unol â Pholisi Strategol PS14 a Pholisi TAI9) | I sicrhau cywirdeb. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2. Bod maint yr unedau yn cydymffurfio â'r uchafswm diffiniedig ar gyfer y math penodol o uned a fwriedir;<br>3. Bod trefniadau boddhaol ar gael i gyfyngu meddiannaeth unrhyw dŷ marchnad leol neu fforddiadwy yn y lle cyntaf ac am byth i sawl sy'n cydymffurfio â'r diffiniad meddiannaeth berthnasol.<br><br>Pan ganiateir datblygiad, defnyddir amod cynllunio i reoli Hawliau Datblygu a Ganiateir er mwyn sicrhau na fyddai estyniad neu addasiadau yn cynyddu maint eiddo yn uwch na'r uchafswm maint derbyniol a'i diffinnir.<br><br>Yr aneddleoedd perthnasol:<br><br>(i) Canolfannau Gwasanaeth Lleol<br><br>Ynys Môn<br>• Biwmares<br>• Rhosneigr<br><br>Gwynedd<br>• Abersoch<br><br>(ii) Pentrefi<br><br>Ynys Môn<br>Moelfre<br>Trearddur<br>Pont Rhyd y Bont<br><br>Gwynedd<br>• Aberdaron<br>• Mynytho<br>• Llanbedrog<br>• Sarn Bach | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Tudweiliog<br>• **Llangian**<br>• **Rhoshirwaun**<br>• **Borth-y-gest**<br>• **Morfa Bychan** | | |
| **NF 66** | Polisi TAI 5 | 1031, 611, Cyngor | Eglurhad:<br><br>(Pob geiriad arall yn yr eglurhad i'r polisi i aros yr un fath ag y nodwyd yn y cynllun adnau).<br><br>7.4.37 Rhaid i gynigion i ddarparu unedau preswyl newydd o fewn ffiniau datblygu Abersoch, Biwmares, Rhosneigr, Aberdaron, **Borth-y-gest**, Moelfre, **Morfa Bychan**, Mynytho, Llanbedrog, **Llangian, Rhoshirwaun,** Sarn Bach, Trearddur, Tudweiliog a Phont Rhyd y Bont gydymffurfio â Pholisi TAI5 mewn cyfuniad a Pholisi TAI9. Mae'r polisi hwn yn berthnasol ar gyfer pob math o ddatblygiad sydd yn creu uned neu unedau preswyl newydd ac mae'n berthnasol ar gyfer unrhyw raddfa o ddatblygiad. Tra bod yr elfen tai fforddiadwy yn cyd-fynd â'r hyn a hwylusir ym mholisïau TAI9, ni fydd tai marchnad agored yn cael eu caniatáu yn yr aneddleoedd a'u henwir o fewn y polisi hwn.<br>7.4.38 Mae tystiolaeth a welir ym Mhapur Testun 17 Tai Marchnad Leol yn cyfleu'n glir fod problemau dwys yn bodoli o fewn marchnadoedd tai'r aneddleoedd a'u henwir o fewn y polisi hwn a chaiff hyn sgil effaith cymdeithasol ac economaidd ar y | I sicrhau cywirdeb ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi'n rhwydd. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cymunedau hyn. Drwy hyrwyddo tai marchnad leol a thai fforddiadwy yn unig o fewn yr aneddleoedd hyn, amcan y polisi hwn ydyw i daclo'r anghydbwysedd o fewn y marchnadoedd tai lleol ac i gynnal a chryfhau cymunedau bregus. Mae'r polisi yn ymateb i ffactorau cydnabyddedig sy'n dylanwadu ar y marchnadoedd tai perthnasol. Mae'n ehangu cyfleoedd yn y marchnadoedd tai diffiniedig ac yn sicrhau darpariaeth o unedau sydd yn diwallu anghenion y gymuned. **<u>Nid yw'r Polisi hwn felly yn ceisio darparu tai fforddiadwy i bobl yn y gymuned leol sydd ag angen am dai o'r fath (gan mai dyma amcan y polisïau Tai Fforddiadwy), ond yn hytrach mae'n sicrhau cynaladwyedd cymunedau bregus, lle mae problemau dwys yn bodoli o fewn y farchnad dai.</u>** Gall cymhwyso'r polisi gynorthwyo i gyflawni nod polisi cymdeithasol ehangach, fel cynnal neu gryfhau cymunedau Cymraeg. Bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi arweiniad ar y mater.<br><br>7.4.39 ~~Bydd meddiannaeth tai marchnad leol yn cael ei gyfyngu i'r rai hynny sydd yn gymwys, drwy gytundeb cyfreithiol Adran 106. Ni fydd y cytundeb cyfreithiol yn cyfyngu gwerth yr eiddo fel yn achos tai fforddiadwy. Yn hytrach, bydd~~ **<u>Bydd</u>** y polisi hwn yn ceisio rheoli gwerth unedau marchnad leol drwy gyfyngu eu maint. Trwy reoli uchafswm maint unedau marchnad leol, bydd gwerth yr unedau yn fwy cydnaws gydag amcan y polisi o gynnal y cymunedau diffiniedig. | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

### Tai Fforddiadwy

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td>NF 67</td><td>Polisi PS14</td><td>1033, 1034</td><td>7.4.65A Ni fydd pob uned fforddiadwy newydd a adnabuwyd yn yr AMTLl yn cael eu hadeiladu o'r newydd a’n cael eu rheoli o fewn polisïau'r CDLl ar y cyd. Un teclyn yn unig i sicrhau bod y galw am dai fforddiadwy yn cael ei ddiwallu yw'r CDLl ar y Cyd. Mae’n bwysig fodd bynnag bod y Cynllun yn cyfrannu yn ddigonol i gwrdd â chyfran o’r angen hwn.<br><br>7.4.65B Mae’r ffigwr o ran y targed lleiafswm ar gyfer tai fforddiadwy newydd a’i nodir yn y Cynllun wedi ei seilio ar y wybodaeth ganlynol:<br><br>
<table>
<tr><th>Categori</th><th>Cyfanswm</th></tr>
<tr><td>Unedau wedi eu cwblhau[1]</td><td>206</td></tr>
<tr><td>Unedau fforddiadwy yn y banc tir[2]</td><td>471</td></tr>
<tr><td>Dynodiadau newydd[3]</td><td>404</td></tr>
<tr><td>Ar hap mewn Canolfannau Gwasanaeth</td><td>60</td></tr>
<tr><td>Ar hap mewn Pentrefi</td><td>30</td></tr>
<tr><td>Clystyrau</td><td>224</td></tr>
<tr><td>Isrannu adeiladau gwledig</td><td>10</td></tr>
<tr><td>Cefn gwlad agored</td><td>10</td></tr>
<tr><td>CYFANSWM</td><td>1,415</td></tr>
</table>
</td><td>I sicrhau eglurder</td><td>Mae’r newidiadau arfaethedig yn gosod y targedau isafswm newydd. Newid bach nad yw’n effeithio ar ganfyddiadau’r AC.</td></tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td><u>[1] Ers dyddiad sail y CDLl ar y Cyd</u><br><u>[2] Ffigwr tai fforddiadwy ar hap wedi ei seilio ar asesiad o ba safleoedd sydd yn debyg o gael eu hadeiladu.</u><br><u>[3] Ar sail 25% neu 15% o ddarpariaeth tai fforddiadwy (yn seiliedig ar Ardaloedd Pris Tai a nodir ym Mholisi TAI9).</u></td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>NF 68</td><td>Polisi TAI 9</td><td>288, Cyngor</td><td>POLISI TAI9: TROTHWY TAI FFORDDIADWY A’U DOSBARTHIAD<br><br>Bydd y Cynghorau’n ceisio sicrhau lefel briodol o dai fforddiadwy yn ardal y cynllun drwy weithio mewn partneriaeth â Darparwyr Cofrestredig, datblygwyr a chymunedau lleol i gwrdd â’r targed lleiafswm a gyflwynir ym mholisi strategol PS14.<br><br><u>1 Trothwy</u><br>Bydd disgwyl i ddatblygiadau tai, boed yn rhai newydd neu’n adeiladau wedi’u trosi, mewn aneddleoedd sydd wedi’u hadnabod yn yr hierarchaeth aneddleoedd fel y gwelir ym mholisi strategol i PS15, wneud cyfraniad at dai fforddiadwy yn unol â'r ffigyrau trothwy a gyflwynir yn y tabl isod:<br><br>
<table>
<tr><td>Categori’r Anheddle</td><td>Trothwy</td></tr>
<tr><td>Isranbarthol</td><td rowspan="3">5 neu fwy o unedau tai</td></tr>
<tr><td>Canolfannau Gwasanaeth Trefol</td></tr>
<tr><td>Canolfannau Gwasanaeth Lleol</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Gwasanaeth</td><td>3 neu fwy o unedau tai</td></tr>
</table>
</td><td>I sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli’r polisi yn rhwydd</td><td>Newid bach nad yw’n effeithio ar ganfyddiadau’r AC.</td></tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>
<table>
<tr><td>Pentrefi Gwledig / Arfordirol</td><td rowspan="2">2 neu fwy o unedau tai</td></tr>
<tr><td>Pentrefi Lleol</td></tr>
<tr><td>Clystyrau</td><td>Dim ond safleoedd sy'n 100% tai fforddiadwy fydd yn cael eu cefnogi mewn clystyrau.</td></tr>
<tr><td>Isrannu Annedd Gwledig</td><td>2 neu fwy o unedau ychwanegol</td></tr>
</table>
<br>
<u>2 Canran y Tai Fforddiadwy</u><br>
Disgwylir y ganran a ganlyn o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn yr Ardal Pris Tai a gyflwynir yn y tabl isod:<br>
<table>
<tr><td>Canran y Tai Fforddiadwy</td><td>Ardaloedd Pris Tai</td></tr>
<tr><td>O leiaf 25%</td><td>Arfordir Gwerth Uchel Gwyn Rhosneigr, Biwmares, Gogl orllewin Wledig, Ardal y Pont Trearddur a Rhoscolyn, De-orlle Gogledd-ddwyrain Wl Aneddleoedd Arfordirol N Canolfannau Gwledig, Y C Gwledig, Arfordir Gorllewinol a Arfon, Gorllewin Gwledig.</td></tr>
<tr><td>O leiaf 15%</td><td>Llangefni, Llŷn, Arfordir y Gorllew Arfon Wledig, Caergybi, Amlwch Cefnwlad, Y Mynyddoedd, Dwy Gwynedd a'r Parc Cenedlae Blaenau Ffestiniog.</td></tr>
</table>
</td><td></td><td></td></tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler y tabl yn yr eglurhad isod mewn perthynas â pha anheddle sy'n perthyn i'r ardaloedd hyn.<br><br>Pan fo'r gofyniad tai fforddiadwy mewn cynllun penodol yn disgyn o dan un annedd ar y safle, yna **<u>dylai darparu uned fforddiadwy o fewn y datblygiad hwnnw barhau i fod yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, os tybir nad yw hyn yn bosibl,</u>** byddai disgwyl taliad pro-rata yn hytrach na dim darpariaeth fforddiadwy ar y safle.<br><br><u>3 Materion Eraill</u><br><br>i. Bydd gofyn i bob datblygiad gyflawni cymysgedd briodol o ran mathau a maint y tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol yn y datblygiad, fydd yn cael eu pennu gan yr asesiad marchnad dai lleol neu unrhyw asesiad amgen gan y Cyngor neu bartner.<br>ii. Dylai unedau fforddiadwy gael eu hintegreiddio'n llawn mewn datblygiad, ac ni ddylai fod modd eu gwahaniaethu oddi wrth dai nad ydynt yn fforddiadwy.<br>iii. Os nad yw hyfywdra cynllun unigol yn diwallu'r gofynion polisi a nodir, cyfrifoldeb yr ymgeisydd / y datblygwr / tirfeddiannwr fydd dangos yn glir beth yw'r amgylchiadau dros gyfiawnhau cyfraniad neu gymysgedd deiliadaeth is o dai fforddiadwy ar bro-fforma asesiad hyfywdra.<br>iv. **<u>Pan, ar ôl cyflwyno pro-fforma hyfywedd, fod anghytundeb yn parhau rhwng yr ymgeisydd / datblygwr / tirfeddiannwr a'r Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch y ddarpariaeth o dai</u>** | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **ffforddiadwy o fewn cynllun, bydd asesiad allanol annibynnol o'r cynllun yn cael ei gynnal (e.e. gan y Gwasanaeth Prisiwr Dosbarth) ar gost yr ymgeiswyr. Bydd nifer y tai fforddiadwy a ddarperir yn adlewyrchu casgliadau'r asesiad hwn.**<br>v. Bod mecanweithiau addas mewn lle i reoli meddiannaeth yr uned(au) tai fforddiadwy pan gânt eu meddiannu yn y lle cyntaf, ac wedi hynny, i'r rheini sy'n gallu profi angen am dŷ fforddiadwy.<br>vi. Os gellir dangos nad oes meddianwyr cymwys o'r fath ar gyfer tai mentrau gwledig, yna caiff y tai eu meddiannu gan y rheini sy'n gymwys i gael eu hystyried am dai fforddiadwy.<br>vii. Caniateir estyniadau ac addasiadau i dai fforddiadwy cyn belled â bod y newidiadau neu'r addasiadau yn caniatáu i'r tŷ barhau fel tŷ fforddiadwy. Dylai unrhyw estyniad neu addasiad gydymffurfio â'r polisi manwl ar ddyluniad. | | |
| **NF 69** | Polisi TAI 9 | 728, 273, 68, Cyngor | Eglurhad:<br><br>7.4.68 Mae'r astudiaeth hyfywdra ynghyd â dadansoddiad o geisiadau hanesyddol wedi adnabod y lefelau trothwy perthnasol lle bydd y Cynghorau'n ceisio elfen o ddarpariaeth ffforddiadwy gan gynnig datblygu. Darpariaeth ar y safle yw'r dewis a ffafrir pan fo safle'n cyrraedd y trothwy, ond os yw graddfa'r cynllun yn golygu y byddai cyfraniad y tai fforddiadwy yn llai nag un uned fforddiadwy e.e. byddai 6 uned mewn ardal pris tai o 10% yn cyfateb i 0.6 tŷ, yna **gellir ceisio** ~~ceisir~~ cyfraniad pro-rata am ganran y tŷ newydd h.y. 60% yn yr enghraifft hon. | I sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>
7.4.69 Mae ardaloedd prisiau tai gwahanol wedi’u hadnabod yn yr astudiaeth hyfywdra. Mae’r tabl isod yn nodi i ba ardaloedd Pris Tai mae gwahanol aneddleoedd yn perthyn (nid yw Clystyrau wedi’u cynnwys gan y bydd yr holl ddatblygiadau mewn Clystyrau am dai fforddiadwy). <u>Bydd y gwaith o fonitro’r Cynllun yn ailasesu’r prisiau tai cyfartalog a nodwyd yn yr Astudiaeth Hyfywedd. Gallai hyn effeithio ar y ganran o dai fforddiadwy a geisir yn y gwahanol ardaloedd pris tai</u>:
<br><br>
Tabl 16 : Ardal Pris Tai
<table>
<tr><th>dal Pris Tai</th><th>Prif Aneddleoedd</th></tr>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">leiaf 25%</td></tr>
<tr><td>Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd</td><td>Abersoch</td></tr>
<tr><td>Rhosneigr</td><td>Rhosneigr</td></tr>
<tr><td>Biwmares</td><td>Biwmares</td></tr>
<tr><td>Gogledd-orllewin Wledig</td><td>Cemaes</td></tr>
<tr><td>Ardal y Pontydd</td><td>Llanfairpwll, Porthaethwy</td></tr>
<tr><td>Trearddur a Rhoscolyn</td><td>Dim Canolfan Gwasanaethol yn ardal.</td></tr>
<tr><td>De-orllewin</td><td>Niwbwrch</td></tr>
<tr><td>Gogledd-ddwyrain Wledig</td><td>Benllech, Pentraeth</td></tr>
<tr><td>Aneddleoedd Arfordirol Mwy</td><td>Bethel, Bontnewyc Caernarfon, Criccieth, Pwllhe</td></tr>
</table>
</td><td></td><td></td></tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Porthmadog, Tremadog | |
| | Canolfannau Gwledig | Ardal o fewn y Parc | |
| | Y Canol Gwledig | Gaerwen, Llannerchymedd | |
| | Arfordir Gogleddol a De Arfon | Bangor, Penygroes | |
| | Gorllewin Gwledig | Bodedern, Gwalchmai, Y Fali | |
| | | | |
| O leiaf 15% | | | |
| | Llangefni | Llangefni | |
| | Llŷn | Botwnnog, Chwilog, Nefyn, Y Ffor | |
| | Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig | Abermaw, Deiniolen, Penrhyndeudraeth, Tywyn | |
| | Caergybi | Caergybi | |
| | Amlwch a’r Cefnwlad | Amlwch | |
| | Y Mynyddoedd | Bethesda, Llanberis, Llanrug, Rachub | |
| | Dwyrain Gwynedd a’r Parc Cenedlaethol | Ardal o fewn y Parc | |
| | Blaenau Ffestiniog | Blaenau Ffestiniog | |

7.4.69 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at safleoedd eithrio tai fforddiadwy fel safleoedd tai bychain oddi mewn i neu gerllaw aneddleoedd sy’n bodoli ar gyfer darparu tai fforddiadwy i gwrdd ag anghenion lleol. Ceir eglurhad pellach ar hwn yn NCT2, sy’n datgan y dylai safleoedd eithrio gwledig fod yn fach (fel sy'n cael ei ddiffinio'n lleol yn y cynllun), ar gyfer tai fforddiadwy yn unig ac ar oddi mewn i neu gerllaw aneddleoedd gwledig presennol na

### ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | fyddai fel arall yn cael eu rhyddhau ar gyfer tai ar y farchnad.<br><br>7.4.70 Oherwydd natur wledig yr ardal bydd safleoedd eithrio yn cael eu hystyried ar gyfer yr holl aneddleoedd sydd wedi'u nodi yn y Cynllun, fodd bynnag dylent fod ar raddfa sy'n gydnaws â rôl y ganolfan. Yr unig eithriad i hyn yw os darperir cyfiawnhad i egluro sut mae cynnig yn gwasanaethu ardal ehangach na dim ond yr anheddle ei hun e.e. oherwydd diffyg cyfleoedd mewn aneddleoedd eraill yn yr un ardal. Ni ddylai safleoedd sydd gyfagos â'r ffin beri estyniad annerbyniol i mewn i gefn gwlad ac ni ddylent greu patrwm datblygu tameidiog.<br><br>7.4.71 Yn unol â pholisi cenedlaethol sydd yn ceisio cyfyngu ar ddatblygu tai yng nghefn gwlad agored, bydd caniatâd am Dai Mentrau Gwledig yn cynnwys amod fydd yn cefnogi eu defnydd fel tai fforddiadwy pan ellir dangos nad oes meddianwyr cymwys am dŷ menter wledig. | | |

**Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| NF **7** | 7.4.8 | 1028 | 7.4.89 **<u>Mae Tai (Cymru) 2014 Ddeddf yn gosod dyletswydd ar</u>** | I ddangos bod y | Newid bach nad yw'n |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **0** | 9 – 4.4.90 | | **awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle y nodwyd bod angen**. ~~Yn unol â Deddf Tai 2004 (a oedd yn bodoli ar y pryd), fe wnaethpwyd Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru a Sir y Fflint (2011) ar gyfer holl Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru heblaw am Wrecsam (oedd wedi gwneud astudiaeth ar wahân).~~ **Cynhaliwyd Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (AALlST) yn 2015 yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru i nodi'r angen heb ei ddiwallu dros gyfnod o 5 mlynedd.**<br><br>7.4.90 Mae canfyddiadau ~~uchod~~ **AALlST 2015** yn dangos bod angen am ~~11~~ **4** o leiniau preswyl **parhaol** yn lle'r safle presennol a oddefir ar hyn o bryd ~~ger~~ yn **Ffordd Pentraeth, Ynys Môn** ac angen am **11 o leiniau preswyl parhaol** ychwanegol yng Ngwynedd **dros y 5 mlynedd nesaf**. **Mae AALlST 2015 hefyd yn argymell dyrannu dau lecyn aros dros dro ar hyd yr A55 yn Ynys Môn (un yn ardal Caergybi ac un yng nghanol yr Ynys), ac un yng Nghaernarfon i ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi gwneud gwersylloedd diawdurdod yn rheolaidd yn yr ardal.** Ar hyn o bryd, does dim safleoedd teithiol awdurdodedig yng Ngogledd Cymru. Gall lleiniau 'teithiol' fod ar safleoedd ffurfiol tebyg i safleoedd preswyl parhaol ond bod preswylwyr ddim ond yn cael aros am hyd at 3 mis neu gallant fod yn fannau aros dros dro **lle gall deiliaid aros am gyfnodau byrrach**. ~~Deallir bod~~ **Mae** Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Chyngor Sir Ddinbych yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd i ~~gael~~ **datblygu** safle Sipsiwn a Theithwyr preswyl parhaol **ger Conwy**, **ac i ddarparu** ~~Teithwyr yn ogystal â~~ safle teithiol ffurfiol.<br><br>7.4.91 O dan y Ddeddf Tai (Cymru) 2014 newydd bydd angen gwneud | Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf | effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Astudiaeth Anghenion arall yn ~~2015~~ **2020**, fel yr un uchod, er mwyn cydymffurfio hefo gofynion Llywodraeth Cymru. Efallai bydd cwblhau'r asesiad newydd, **monitro blynyddol ac adolygiad o'r Cynllun** yn achosi newid yn nifer y lleiniau ychwanegol fydd eu hangen yn ystod cyfnod y Cynllun. | | |
| **NF 71** | Polisi TAI 11 | 1076 | POLISI MANWL TAI 11: GWARCHOD SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR<br><br>Mae'r safle Sipsiwn presennol yn Llandygai, Bangor, fel sydd i'w weld ar y Map Cynigion yn cael ei ddiogelu ~~fel safle preswyl parhaol i'w ddefnyddio ddim ond gan Sipsiwn.~~ i'w **ddefnyddio gan Sipsiwn yn unig.**<br><br>Bydd unrhyw safleoedd Sipsiwn a Theithwyr newydd a gafodd ganiatâd cynllunio ac a fu'n weithredol hefyd yn cael eu diogelu ar gyfer defnydd Sipsiwn a Theithwy**r yn unig.**<br><br>Gwrthodir cynigion ar gyfer defnydd arall ar safle sydd wedi'i ddiogelu heblaw am pan fydd safle arall yn ei le wedi cael ei adnabod a'i ddatblygu i ddarparu cyfleusterau o safon gyfatebol neu well (yn cynnwys o ran lleoliad) tra mae angen yn parhau am y fath safleoedd, yn ôl Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr neu'r dystiolaeth orau sydd ar gael. | I adlewyrchu data a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac i ddarparu mwy o eglurder a chysondeb. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr>
<td>NF 72</td>
<td>Polisi TAI 12</td>
<td>1074</td>
<td>
POLISI MANWL TAI 12: DYRANNU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR
Er mwyn cyfrannu at ateb yr angen am leiniau i Sipsiwn a Theithwyr fel y dangosir yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, mae’r <s>lleoliad a ganlyn</s>, safleoedd canlynol, fel y dangosir ar y Map Cynigion, yn cael eu dynodi at ddefnydd preswyl parhaol Sipsiwn a Theithwyr, a dim ond Sipsiwn neu Deithwyr a gaiff fyw arnynt <s>wedi cael ei adnabod ar gyfer datblygiad posib fel defnydd parhaol gan Sipsiwn neu Deithwyr, ac i’w feddiannu ddim ond gan Sipsiwn neu Deithwyr</s>
Safleoedd parhaol i Sipsiwn <s>neu</s> a Theithwyr
<table>
<tr><td>Lleoliad</td><td>Nifer y lleiniau</td><td>Presv</td></tr>
<tr><td>Estyniad i’r safle presennol yn Llandygai, Bangor</td><td><s>5</s><br>11</td><td>Sipsi</td></tr>
</table>
Mae’r Cynghorau’n cymhwyso Methodoleg Asesu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i adnabod safleoedd ar gyfer <s>16</s> 4 llain barhaol ychwanegol <s>yn ogystal â chyfres o leiniau aros dros dro</s> ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn unol â’r Astudiaeth Asesiad Angen Llety.
Mae’r Cynghorau’n cymhwyso Methodoleg Asesu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i adnabod cyfres o safleoedd ar gyfer y lleiniau aros dros dro i Sipsiwn a Theithwyr yn unol â’r Astudiaeth Asesiad Angen Llety.
</td>
<td>I adlewyrchu data a thystiolaeth sy’n dod i’r amlwg ac i ddarparu mwy o eglurder a chysondeb. Bydd yr holl safleoedd hyn a ddynodwyd yn cael eu dangos ar y Mapiau Cynigion.</td>
<td>Mae’r nifer o leiniau ar safle Llandygai wedi cynyddu o 5 i 11. Bydd yr arfarniad o’r CDLl ar y Cyd , yn adran 6, yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu’r newidadau arfaethedig.</td>
</tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 73** | 7.4.94 – 7.4.99 | 1075 | 7.4.94 Bydd rhai teuluoedd o Sipsiwn a Theithwyr, am wahanol resymau, yn byw mewn un lle am gyfnodau hirach o amser. Bydd llefydd byw preswyl parhaol yn cael eu darparu i'r teuluoedd ac unigolion hynny sy'n dangos bod ganddynt ~~gysylltiad mewn~~ **anghenion llety** ~~gwirionedd~~ ~~gydag Ardal y Cynllun~~ ac nad oes ganddynt le arall i fyw ynddo (gyda Gwasanaethau Tai yn gwneud yr asesiad hwn). Bydd preswylwyr yn cael lleiniau ar y sail o fod yno gydol y flwyddyn ac yn talu rhent a threthi'r cyngor i'r Awdurdod Lleol.<br><br>~~7.4.95 Er mwyn sicrhau bod digon o dir ar gael i ateb anghenion am lefydd byw yn ardal y Cynllun, fe wnaeth y Cynghorau 'alw am safleoedd' yn 2014, gan wahodd perchnogion tir i gyflwyno manylion tir i'w ystyried fel safle Sipsiwn a Theithwyr. Cyflwynwyd dau safle yn ardal Parc Cenedlaethol Eryri (sydd du allan i ardal y Cynllun yma) ond cawsant eu diystyru gan Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Eryri ar ôl defnyddio'r fethodoleg asesu safleoedd.~~ **Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu'r safleoedd sydd wedi cael eu dewis yn cael ei osod allan y Papur Testun perthnasol, - Papur Testun 18, Adnabod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.**<br><br>~~7.4.96Mae'r posibilrwydd o ehangu'r safle parhaol presennol yn Llandygai, Bangor yn cael ei archwilio. Rhagwelir y gallir cael 5 o leiniau preswyl parhaol ar yr estyniad i'r safle presennol. Felly ar hyn o bryd mae prinder o 5 o leiniau preswyl parhaol yng Ngwynedd ac 11 o leiniau preswyl parhaol ym Môn. Bydd y Cynghorau'n ymgynghori am opsiynau i ymateb i'r prinder yn ystod 2015.~~<br><br>**Bydd y dynodiad uchod yn cyfrannu tug at fodloni rhan o'r gofynion lleiniau ar gyfer y safleoedd preswyl parhaol a nodwyd yn AALlST** | i adlewyrchu data a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ac i ddarparu mwy o eglurder a chysondeb. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **cyfredol (2015) tan 2020. Cydnabyddir y bydd angen rhagor o leiniau i gyfarch y galw cyfredol (2015). Mae swyddogion Gwasanaethau Cynllunio a Thai yn parhau i edrych ar opsiynau amrywiol ac fe fydd y mater yn cael ei wyntyllu yn ystod yr Archwiliad. Cydnabyddir efallai y bydd angen rhagor o safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr wedi hynny, yn dibynnu ar fonitro blynyddol y Cynllun ac yn dilyn cwblhau'r AALIST nesaf. Os yw'r adroddiad monitro a'r AALIST nesaf ynghyd ag adolygiad angenrheidiol o'r Cynllun yn dangos prinder yn y ddarpariaeth ac/neu angen heb ei ddiwallu am leiniau pellach, yna bydd angen dynodi safleoedd eraill yn yr Adolygiad o'r Cynllun.**<br><br>Lleiniau preswyl parhaol<br><br>7.4.97 Mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol sicrhau bod safleoedd yn gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol. Er mwyn canfod y safleoedd mwyaf priodol, **aseswyd y safleoedd yn unol â'r fethodoleg a nodir ym Mhapur Pwnc 18 Diwygiedig (2016). Gweler prif gamau'r fethodoleg isod**<br><br>1. Adnabod ffynonellau data;<br>2. Penderfynu ar yr ardaloedd i'w chwilio, sy'n cynnwys ystyried beth ydi dewis y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr fel y dangoswyd yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Gogledd-orllewin Cymru a Sir y Fflint;<br>3. Hidlo'r safleoedd am y tro cyntaf, sy'n golygu ystyried maint safleoedd a'r prif gyfyngiadau, e.e. dynodiadau cadwraeth natur genedlaethol neu ryngwladol; | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 4. Asesiad manwl o safleoedd, sy'n edrych ar faterion amgylcheddol, mynediad, cefndir a chymeriad y safle ac asesiad yn erbyn amcanion yr Asesiad Cynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd;<br>5. ~~Rhestr derfynol o safleoedd~~ **Dewis terfynol o safleoedd addas ar gyfer eu dynodi i'w defnyddio gan Sipsiwn a Theithwyr.**<br><br>7.4.98 Yn ddelfrydol, dylai safle preswyl fod yn ddim mwy na 12 o leiniau (Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn-Teithwyr **2014** ~~2009~~; ~~mae'r Llywodraeth Cymru newydd ymgynghori ar fersiwn diwygiedig o'r canllawiau.~~<br><br>Safleoedd aros dros dro<br><br>7.4.99 Yn ôl cofnodion y Cyngor **a'r AALlST 2015**, mae hyd at 15 o garafanau wedi bod yn aros ar yr un safle ar yr un pryd yn ardal y Cynllun am gyfnodau cymharol fyr. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r llefydd diawdurdod wedi cael llawer llai na hynny o garafanau. **Byddai safle un safle aros dros dro angen 8 llain i allu ymdopi gyda 15 o garafanau (2 garafán deithiol fesul llain).** Edrychir i mewn i ddarparu un safle tramwy/aros gallai gymryd hyd at 15 o leiniau, a darparu nifer o safleoedd aros dros dro ar lwybrau trwy ardal y Cynllun sy'n cael eu defnyddio rhan amlaf gan Sipsiwn a Theithwyr, ac yn gallu cymryd hyd at 6 uned. | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Mantais gweithredu yn ôl yr ail ddewis ydi y bydd maint y safle'n cyfyngu ar nifer yr unedau ar un safle ac y bydd cyfres o safleoedd ar gael ar hyd y llwybrau sy'n cael eu defnyddio rhan amlaf. Beth bynnag fydd casgliadau'r gwaith chwilio bydd y safleoedd yn darparu ar gyfer anghenion sy'n digwydd o dro i dro am lefydd i aros ar safle, a bydd modd codi tâl fel mae'r Cynghorau yn penderfynu. Ni fydd Sipsiwn a Theithwyr yn byw ar y rhain gydol y flwyddyn ac ni chant aros am fwy na 5 diwrnod. Mae'r adran nesaf yn dangos y **prif f**eini prawf ~~i'w defnyddio wrth ddewis ar gyfer datblygu llefydd~~ **a ddefnyddiwyd i helpu adnabod 3 lle** aros dros dro **ar gyfer** ~~i~~ Sipsiwn a Theithwyr yn y Cynllun. | | |
| **74** | Polisi TAI 13 | 1077 | POLISI TAI13: SAFLEOEDD AR GYFER LLEINIAU I SIPSIWN A THEITHWYR<br><br>Caniateir cynigion am safleoedd preswyl parhaol ar gyfer Sipsiwn neu Deithwyr ac estyniadau i safleoedd sydd wedi cael eu hawdurdodi'n barod ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar dir na fyddai fel arall yn cael ei ryddhau ar gyfer datblygiad preswyl os gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:<br><br>1. Bod angen ~~lleo~~l **llety** gwirioneddol yn cael ei adnabod;<br>2. Bod mynediad ar gael at yr isadeiledd cludiant a chymdeithasol angenrheidiol, neu fod modd eu darparu'n rhwydd;<br>3. Does dim modd darparu ar eu cyfer ar safle awdurdodedig sy'n bodoli'n barod;<br>4. Nad yw ffactorau amgylcheddol, yn cynnwys risg o lifogydd, | I ddangos bod sylw priodol yn cael ei dalu i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | sefydlogrwydd y tir, tir wedi'i halogi, a bod yn agos at leoliadau peryglus yn gwneud y safle'n amhriodol ar gyfer datblygiad preswyl **<u>oni bai bod mesurau lliniaru yn bosibl ac yn gymesur</u>;**<br>5. Mae modd cael gwasanaethau dŵr, trydan a rheoli gwastraff i'r safle;<br>6. Bod **<u>safonau a</u>** dyluniad y datblygiad yn dangos y rhoddwyd ystyriaeth briodol i **<u>Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013</u>** <u>a</u> Chanllaw Arfer Da Llywodraeth Cymru, Arfer Da o ran Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru;<br>7. Nad oes effaith afresymol ar gymeriad ac ymddangosiad yr ardaloedd o gwmpas, yn cynnwys ar amwynder preswyl meddianwyr cyfagos neu amodau gweithredu busnesau sy'n bodoli'n barod;<br>8. Nad oes effeithiau niweidiol ar ardaloedd wedi'u dynodi o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol ar gyfer bioamrywiaeth a thirwedd;<br>9. Bod trefniadau boddhaol yn eu lle i gyfyngu ar feddiannaeth o'r lleiniau i Sipsiwn **<u>a</u>** ~~neu~~ Deithwyr. | | |
| **NF 75** | 7.4.102 – 7.4.105 | 1078, 1079 | 7.4.102 Mae Polisi Cynllunio Cymru'n caniatáu rhyddhau safleoedd ar gyfer tai fforddiadwy, yn cynnwys llefydd byw i Sipsiwn a Theithwyr, fel eithriad i bolisïau tai arferol. Mae'r polisi yma wedi cael ei lunio i ateb yr anawsterau y gallai Sipsiwn a Theithwyr eu hwynebu wrth geisio cael cyflenwad digonol o dir fforddiadwy ar gyfer eu hanghenion. Pwrpas y polisi hwn ydi galluogi rhyddhau tir tu allan i ffiniau datblygu, ar gyfer llefydd byw fforddiadwy i Sipsiwn neu Deithwyr, lle na fyddai llefydd byw preswyl fel arfer | I ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | yn cael eu caniatáu. Yn gyffredinol, bydd gwerth tir tu allan i ffiniau datblygu yn sylweddol is na gwerth tir tu mewn i ffiniau datblygu, sy'n gostwng costau datblygu cyffredinol er mwyn cynorthwyo i ddarparu lleiniau fforddiadwy. Gallai'r safleoedd hyn ddarparu ffynhonnell fechan ychwanegol o lefydd byw ~~fforddiadwy~~ i Sipsiwn a Theithwyr mewn ardaloedd gwledig, i ateb angen lleol.<br><br>7.4.103 Defnyddir y polisi hwn, wedi'i seilio ar feini prawf, yn ogystal â phob polisi perthnasol arall yn y Cynllun, i asesu cynigion a gyflwynir er mwyn ateb angen yn y dyfodol neu angen annisgwyl **<u>am lety Sipsiwn a Theithwyr.</u>**<br><br>7.4.104.Disgwylir tystiolaeth gyda'r cais cynllunio i ddangos bod angen lleol yn bodoli mewn gwirionedd am y math yma o lefydd byw. ~~Bydd angen i deuluoedd Sipsiwn a Theithwyr ddangos bod ganddynt gysylltiad lleol gwirioneddol ac angen gwirioneddol i leoli eu hunain yn yr ardal.~~ Bydd Polisïau cynllunio cyffredinol y Cynllun hefyd yn weithredol ar gyfer hyn.<br><br>~~7.4.105 Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol angen rhwymedigaeth gyfreithiol trwy Gytundeb Adran 106 yn cyfyngu meddiannaeth lleiniau i aelwydydd Sipsiwn neu Deithwyr lleol sy'n byw yn yr ardal neu gyda chysylltiadau teuluol neu gysylltiadau gwaith ac angen lleiniau fforddiadwy.~~ | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

### Lleoliad Tai

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 76** | Polisi PS15 | 868, 1030 | Diwygio'r rhannau canlynol ym Mholisi PS15<br><br>Prif Ganolfannau – ~~Hyd at~~ 55% o Dwf y Cynllun yn cael ei leoli yn:<br><br>Canolfannau Gwasanaeth Lleol - ~~o leiaf~~ 20% o Dwf y Cynllun yn cael eu lleoli yn:<br><br>Pentrefi a Chlystyrau – ~~Dim mwy na~~ 25% o Dwf y Cynllun yn cael ei leoli yn: | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 77** | Polisi TAI 14 | 104, 672, 1084, Cyngor | POLISI MANWL TAI14: TAI YN Y GANOLFAN ISRANBARTHOL A'R CANOLFANNAU GWASANAETH TREFOL<br>Yng Nghanolfan Isranbarthol Bangor a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a ganlyn:<br><br>Ynys Môn<br><br>Amlwch, Caergybi, Llangefni<br><br>Gwynedd<br><br>Blaenau Ffestiniog, Caernarfon, Porthmadog, Pwllheli<br><br>Bydd tai i fodloni strategaeth y Cynllun yn cael eu darparu trwy:<br><br>(i) Dynodiadau | I ddangos bod y Cynllun yn rhoi sylw llawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod allan. | Mae safle T4 wedi cael ei ddileu ar ol ymateb ion yn yr ymgynghoriad gan NRW. Bydd yr arfarniad o'r cynllun a'r safleoedd a ffefrir, sydd wedi eu cyflwyno yn Adran 6 o'r Adroddiad AC Adnau (Chwef 2015) ynghy ag arfarniad o'r opsiynau safleoedd yn Atodiad 7 yn cael eu diweddaru i |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws**

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>Mae’r safleoedd a ganlyn wedi’u hadnabod fel Dynodiadau Tai:<br><br>Canolfan Isranbarthol<br><br>
<table>
<tr><th>Canolfan</th><th>Cyfeirnod y Safle</th><th>Enw’r Safle</th><th>Lefel Twf Dangosol</th><th>Caniatâd (Ebr 2014)</th></tr>
<tr><td>Bangor</td><td>T1</td><td>Goetra Uchaf</td><td>~~245~~ **261**</td><td>Oes</td></tr>
<tr><td></td><td>T2</td><td>Caeau Chwarae Hen Ysgol Friars</td><td>43</td><td>Na</td></tr>
<tr><td></td><td>T3</td><td>Hen Safle Jewsons</td><td>17</td><td>Na</td></tr>
<tr><td></td><td>~~T4~~</td><td>~~Hen Safle Crossville~~</td><td>~~16~~</td><td>~~Na~~</td></tr>
<tr><td></td><td>T5</td><td>Tir dros ffordd i’r Amlosgfa</td><td>72</td><td>Na</td></tr>
</table>
</td><td></td><td>adlewyrchu diddymiad y safle a thystiolaeth diweddar. Ar y cyfan nid yw’n effeithio ar ganfyddiadau’r AC.</td></tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>[Dim newid yng ngweddill o bolisi TAI 14]</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>NF 78</td><td>Polisi TAI 16</td><td>1004, 369, 1230, 1254, 1256</td><td>
POLISI MANWL TAI16: TAI MEWN PENTREFI GWASANAETH
Yn y Pentrefi Gwasanaeth a ganlyn:
<u>Ynys Môn</u>
Gwalchmai, Niwbwrch, Llannerchymedd
<u>Gwynedd</u>
Bethel, Bontnewydd, Botwnnog, Chwilog, Deiniolen, Rachub, Tremadog, Y Ffôr
Bydd tai i fodloni strategaeth y Cynllun yn cael eu darparu trwy:
(i) Dynodiadau
Mae’r safleoedd a ganlyn wedi’u hadnabod fel Dynodiadau Tai:
<table>
<tr><th>Canolfan</th><th>Cyfeirnod y Safle</th><th>Enw’r Safle</th><th>Lefel Twf Dangosol</th><th>Caniatâd (Ebr 2014)</th></tr>
<tr><td>Gwalchmai</td><td>T55</td><td>Tir ger y A5</td><td>28</td><td>Na</td></tr>
</table>
</td><td>I ddangos bod y Cynllun yn rhoi sylw llawn i ddata a thystiolaeth sy’n dod allan.</td><td>Mae safle T58 wedi cael ei ddileu ac mae dau safle newydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun. Bydd yr arfarniad o’r cynllun a’r safleoedd a ffefrir, sydd wedi eu cyflwyno yn Adran 6 o’r Adroddiad AC Adnau (Chwef 2015) ynghyd ag arfarniad o’r opsiynau safleoedd yn Atodiad 7 yn cael eu diweddaru i adlewyrchu diddymiad y safleoedd. Fodd bynnag, nid yw’n debygol o effeithio</td></tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

<table>
<tr><th>Cyf</th><th>Rhan</th><th>Rhif sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td>
<table>
<tr><td>Niwbwrch</td><td>T56</td><td>Stâd Tyn Cae</td><td>12</td><td>Oes</td></tr>
<tr><td>Llannerchymedd</td><td>T57</td><td>Tir ger Tyn y Ffynnon</td><td>17</td><td>Na</td></tr>
<tr><td>Bethel</td><td>~~T58~~</td><td>~~Tir ger Saron~~</td><td>~~41~~</td><td>~~Na~~</td></tr>
<tr><td><u>Bethel</u></td><td><u>T70</u></td><td><u>Tir gyferbyn â Stâd y Cremlyn</u></td><td><u>28</u></td><td><u>Na</u></td></tr>
<tr><td><u>Bethel</u></td><td><u>T71</u></td><td><u>Tir gyferbyn â Stâd Rhoslan</u></td><td><u>12</u></td><td><u>Na</u></td></tr>
</table>
<br>[Dim newid yng ngweddill o bolisi TAI 16]</td><td></td><td>ar ganfyddiadau’r AC.</td></tr>
<tr><td>NF 79</td><td>Polisi TAI 17</td><td>Cyngor</td><td>POLISI TAI MANWL TAI17: TAI MEWN PENTREFI LLEOL, GWLEDIG AC ARFORDIROL<br><br>Caniateir cynigion am dai yn y Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol</td><td>I sicrhau cysondeb.</td><td>Newid bach nad yw’n effeithio ar ganfyddiadau’r AC.</td></tr>
</table>

| Cyf | Rhan | Rhif sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | canlynol os gallir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:<br><br>i. byddai'r cynnig yn bodloni angen y gymuned am dai neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol;<br>ii. byddai'r cynnig yn cynorthwyo i sicrhau hyfywdra'r gymuned leol, ac yn cryfhau'r gymuned a'r cymeriad ieithyddol;<br>iii. bod lefel y twf yn seiliedig ar y lefel dangosol a ddangosir yn nhabl 20 ac yn gyson a Pholisi Strategol PS15**;**<br>iv. **Bod y safle o fewn ffin datblygu'r anheddle**.<br><br>[Dim newid i'r rhestr o aneddleoedd yn y Polisi fodd bynnag newid i'r rhai a enwir fel rhai sydd yn berthnasol i bolisi TAI 5, rhain yn yr eirfa isod]<br><br>Bydd rhaid i ddatblygiadau yn Aberdaron, Moelfre, Mynytho, Llanbedrog, Sarn Bach, Trearddur, Tudweiliog**, Llangian, Rhoshirwaun, Borth-y-gest, Morfa Bychan** a Phont Rhyd y Bont gydymffurfio gyda pholisi TAI5 Y Farchnad Tai Lleol. | | |

## Pennod 7.5 – Rheoli Twf a Datblygu – Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

### Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 80** | 7.5.1 | 319 | • Mae'n rôl allweddol o ran y drefn gynllunio i sicrhau bod **yr** | I adlewyrchu | Newid bach nad |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **amgylchedd naturiol yn cael ei warchod yn effeithiol drwy reoli'r math, dyluniad a lleoliad datblygiad.** ~~gofynion cymdeithas am dir yn cael eu hateb mewn ffyrdd nad ydynt yn gosod cyfyngiadau diangen ar ddatblygiad, wrth sicrhau cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu neu wella'r amgylchedd~~<br>• **Mae gan y drefn gynllunio rhan bwysig i'w chwarae mewn ateb amcanion bioamrywiaeth trwy hyrwyddo agweddau tuag at ddatblygiad sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, atal colli bioamrywiaeth, neu ddigolledu am golledion lle nad oes modd osgoi difrod**<br>• Mae'n bwysig cymryd materion bioamrywiaeth a thirwedd i ystyriaeth yn gynnar yn y broses wrth baratoi cynllun datblygu a gyda rheoli datblygiad<br>• Dan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006, mae dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei swyddogaethau, i ystyried, cyn belled ag sy'n gyson gydag ymarfer y swyddogaethau hynny'n gywir, y diben o gadwraeth bioamrywiaeth<br>• Mae'r ddau Gyngor wedi paratoi Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol<br>~~• Mae gan y drefn gynllunio rhan bwysig i'w chwarae mewn ateb amcanion bioamrywiaeth trwy hyrwyddo agweddau tuag at ddatblygiad sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, atal colli bioamrywiaeth, neu ddigolledu am golledion lle nad oes modd osgoi difrod~~<br>• Mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i ystyried dibenion Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), sef cadwraeth a gwella eu prydferthwch naturiol | ymagwedd bositif y CDLl ar y Cyd tuag at warchod a gwella'r amgylchedd naturiol. | yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | • Mae'r ddyletswydd i ystyried dibenion y Parc Cenedlaethol a'r AHNE yn gymwys ar gyfer gweithgareddau sy'n effeithio ar yr ardaloedd hyn, boed y gweithgareddau hyn tu mewn neu ddu allan i'r ardaloedd sydd wedi'u dynodi | | |
| **NF 81** | 7.5.2 | 320 | 7.5.2 Cadwraeth Natur: Mae **cynefinoedd a** rhywogaethau o bwysigrwydd er mwyn gwarchod bioamrywiaeth yn cael eu cyfeirio atynt yn Adran 42 (Cymru) o'r Ddeddf NERC (2006). | I wella eglurder a manylder y paragraff. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 82** | Polisi Newydd | 805 | **Bydd angen, ble'n briodol, i gynigion sydd o fewn neu sy'n effeithio ar osodiad a/neu olygfeydd arwyddocaol i mewn neu allan o'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, roi ystyriaeth i'r Cynllun Rheolaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**<br>**Eglurhad**<br>**Bwriad y polisi yma yw sicrhau bod amcanion a nodau'r Cynlluniau Rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael eu hystyried yn llawn wrth ystyried cynigon ddatblygu. Bydd y Cynllun Rheoli yn darparu disgrifiad eglur a chytunedig o'r agweddau sy'n rhan o'r cymeriad, ymddangosiad a gwerth hanesyddol arbennig sy'n cyfrannu i'w prydferthwch naturiol. Bydd y Cynlluniau yn cario pwysau sylweddol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.** | Er tynnu sylw i bwysigrwydd y Cynlluniau Rheolaeth wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio. | Bydd Adran 6 o'r Adroddiad AC (Chwef, 2015) yn cael eu diweddaru i adlewyrchu cynnwys y polisi newydd hwn. |
| **NF 83** | Polisi AMG 1 | 892, 365 | POLISI AMG 1: ARDALOEDD O DIRWEDD ARBENNIG<br>Wrth ystyried cynigion o fewn Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) fel yr adnabyddir ar y Mapiau Cynigion a rhestrir isod, bydd angen rhoi ystyriaeth briodol i raddfa a natur y datblygiad gan sicrhau na fyddai'n cael effaith andwyol **sylweddol** ar y dirwedd. Ble'n bosib fe ddylai'r datblygiad ychwanegu tuag at **gynnal, gwella neu adfer y cymeriad cydnabyddedig** ~~nodweddion hanesyddol, gweledol, daearyddol, ecolegol a diwylliannol~~ yr ATA.<br>Dylai cynigion roi sylw i a bod yn gyson a'r 'Datganiad o Werth | Er mwyn i'r geiriad fod yn gyson â gweddill y polisi. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Arwyddocâd' pwrpasol sydd wedi ei baratoi.<br>Lle mae'n rhesymol i gredu y gall cynigion arwain i ardrawiad andwyol arwyddocaol ar ATA (un ai o fewn neu'n union du allan iddo) bydd y Cyngor yn disgwyl Asesiad Ardrawiad Tirwedd a Gweledol er mwyn gallu ystyried ardrawiad y datblygiad ar yr ardal ddynodedig ymhellach.<br>Mewn amgylchiadau eithriadol, lle mae'n rhaid cael y datblygiad ac y gallai arwain i ardrawiad arwyddocaol ar y dirwedd, bydd rhaid darparu mesurau lliniaru a digolledu priodol. | | |
| **NF 84** | Polisi AMG 2 | 1445, 893 | POLISI AMG2: GWARCHOD A GWELLA NODWEDDION A RHINWEDDAU SYDD YN **NODEDIG** ~~UNIGRYW~~ I GYMERIAD Y DIRWEDD LEOL<br>Fe fydd rhaid i ddatblygiadau a fyddai'n cael effaith **sylweddol** ar gymeriad y dirwedd fel y diffinnir gan yr Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd a gynhwysir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer yr awdurdod perthnasol, ddangos drwy asesiad tirwedd sut mae cymeriad y dirwedd wedi dylanwadu ar ddyluniad, maint, natur a'r broses o ddewis safle.<br>Caniateir cynnig ar yr amod na fyddai'n cael effaith andwyol **sylweddol** ar nodweddion a rhinweddau sydd yn unigryw i'r dirwedd leol yn nhermau agweddau gweledol, hanesyddol, daearegol, ecolegol a diwylliannol. Dylid cymryd mesurau er mwyn sicrhau na fyddai'r datblygiad yn:-<br>1. Cael effaith andwyol nodweddiadol ar gymeriad y ffurf adeiledig neu'r dirwedd naturiol; | Er mwyn rhoi gwell disgrifiad o sgôp y polisi. Yn ogystal gosod gosod gofyn cymhwyso ar gyfer y polisi, | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | 2. Methu harmoneiddio gyda, neu wella'r tirffurf a'r dirwedd;<br>3. Colli neu yn methu ymgorffori nodweddion traddodiadol, patrymau, strwythurau a gosodiad aneddleoedd a thirwedd yr amgylchedd adeiledig a naturiol.<br><br>Rhoddir sylw penodol i dirwedd sydd wedi ei adnabod gan yr Ardaloedd Cymeriad y Dirwedd fel bod o werth uchel neu ragorol oherwydd rhinwedd penodol yn y dirwedd neu gyfuniad o rinweddau. Bydd ystyriaeth bellach hefyd yn cael ei roddi i ddatblygiad sydd yn effeithio ar gymeriad tirwedd a gosodiad yr AHNEau neu'r Parc Cenedlaethol. | | |
| **NF 85** | Polisi AMG 2 | 805 | 7.5.2 Amcan y polisi yma yw gwarchod yr ystod o nodweddion tirwedd o fewn ardal y Cynllun sydd wedi cael eu hadnabod yn yr Ardal Cymeriad y Dirwedd. Gellir derbyn gwybodaeth bellach mewn perthynas â'r Ardal Cymeriad y Dirwedd drwy archwilio'r Strategaeth Tirwedd berthnasol ar gyfer naill awdurdod ynghyd ac yn y data LANDMAP perthnasol. Dylid rhoi ystyriaeth i'r ddwy ffynhonnell o wybodaeth wrth ystyried ardrawiad datblygiad ar gymeriad y dirwedd. **<u>Yn ogystal, ble'n briodol, bydd angen ystyried y Cynllun Rheolaeth AHNE perthnasol.</u>** | I sicrhau bod cyfeiriad priodol yn cael ei rhoi i'r Cynlluniau Rheolaeth yr AHNEau yn y CDLl ar y Cyd. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 86** | Polisi AMG 4 | 238, 239, 462, 897, 1073, 1440 | POLISI AMG4: CADWRAETH BIOAMRYWIAETH LEOL<br>Dylai cynigion warchod a, **<u>ble'n briodol</u>**, gwella bioamrywiaeth sydd wedi cael ei hadnabod fel bod yn bwysig i'r ardal leol **<u>trwy:</u>** | Ar gyfer gwella eglurder, osgoi ail adrodd polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu | Newidiadau arfaethedig yn cryfhau'r polisi drwy helpu lliniaru ardrawiadau drwy |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | a. **Osgoi ardrawiad niweidiol sylweddol trwy leoli datblygiad sensitif;**<br>b. **Ystyried cyfleon i greu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt , cherrig sarn, coed, gwrychoedd, coedlannau a chyrsiau dŵr.**<br><br>Gwrthodir cynigion **sy'n effeithio ar safleoedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth leol** oni bai gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:-<br>1. ~~Sicrhau~~ **N**ad oes yn**o** safle amgen arall ar gyfer y datblygiad.<br>~~2. Sicrhau fod y datblygiad wedi ei leoli'n briodol, gan osgoi lleoliadau sydd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol.~~<br>**2. Bod yr angen am y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd y safle i gadwraeth natur**<br>**3. Bod mesurau lliniaru neu ddigolledu priodol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r cynnig.**<br>~~3. Darparu mesurau er mwyn lliniaru effaith andwyol posib.~~<br>~~4. Gwarchod a chyfoethogi'r nodweddion cadwraeth natur.~~<br>~~5. Creu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirwedd naturiol gan gynnwys coridorau bywyd gwyllt a cherrig sarn.~~<br>~~6. Cyfrannu tuag at wireddu'r targedau a osodwyd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol.~~<br>Ble'n angenrheidiol dylid cynnwys gyda'r cais cynllunio Asesiad Ecolegol sydd yn nodi'r materion bioamrywiaeth berthnasol. | pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. | leoli datblygiad yn sensitif yn ogystal ac ystyried cyfleoedd i fwyhau. Newid nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~Pan na all datblygiad warchod a gwella bioamrywiaeth a ble fo'r angen am y datblygiad yn gorbwyso pwysigrwydd y safle i gadwraeth natur dylid dangos yn glir nad oes lleoliad arall priodol ar gael a bod mesurau lliniaru neu ddigolledu priodol mewn lle.~~<br>Eglurhad:<br><br>7.5.19 Nod y polisi hwn yw sicrhau gwarchodaeth a gwelliannau i fioamrywiaeth leol. Yn benodol bydd y polisi hwn yn fodd o warchod y rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny sydd wedi cael eu hadnabod o fewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Gwynedd a Môn.<br><br>7.5.20 Mae Adran 40 o'r Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 ("Deddf NERC") yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus i ystyried y dasg o warchod bioamrywiaeth, cyn belled ag y bo hynny'n gyson ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n briodol.<br><br>7.5.21 Bydd rhaid i unrhyw gais allai gael effaith andwyol ar rywogaethau sydd yn derbyn gwarchodaeth gael ei gefnogi gan Asesiad Ecolegol wedi'i ymgymryd gan berson proffesiynol cymwys. Bydd yn hanfodol sicrhau fod unrhyw arolwg yng nghysylltiedig â'r Asesiad Ecolegol yn cael ei gymryd ar yr adegau priodol o'r flwyddyn. Bydd y penderfyniad ynglŷn â'r angen i gynnal Asesiad Ecolegol yn dibynnu ar nifer o ffactorau cymhwyso bydd angen eu hystyried, gan gynnwys maint, math a lleoliad y datblygiad. Gellir derbyn arweiniad pellach ynglŷn â'r angen i gynnal | | |

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Asesiad Ecolegol drwy gysylltu â'r Swyddog Bioamrywiaeth berthnasol ar gyfer yr Awdurdod. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael ei gyhoeddi i roi arweiniad ar y mater.<br><br>7.5.22 Wrth ystyried cynigion allai gael effaith andwyol ar rywogaethau a warchodir a chynefinoedd a warchodir yn lleol, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ardrawiad dichonol y datblygiad ar statws cadwraethol y rhywogaeth a'r cynefin. Gall y Cyngor osod amodau cynllunio fel modd o oresgyn a lliniaru unrhyw effaith negyddol posib allai ddeillio o'r datblygiad be fyddai'r cais yn derbyn caniatâd. Ble nad yw'n bosib lliniaru'r effaith posib drwy sicrhau manteision oddi ar y safle neu ddigolledu fe fyddai'n briodol fod yna fuddiannau eraill gorbwysol i ganiatáu'r cais.<br><br>7.5.23 Mewn **rhai** amgylchiadau ~~eithriadol~~ gall mesurau lliniaru **ar gyfer rhywogaethau a chynefinoedd o ddiddordeb lleol** cynnwys mesurau priodol i leihau'r lefelau'r anghydfod, creu cynefinoedd eraill priodol er mwyn cynnal a gwella'r boblogaeth sydd yn cael ei effeithio neu hwyluso'r goroesiad o rywogaethau unigol. | | |

## Diogelu a gwella asedau treftadaeth

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 87** | 7.5.31 | 653 | Adeilad Rhestredig: | Er mwyn gwneud yn | Newid bach nad |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | (Tabl 25) | | • Mae rhestru yn golygu pan fo adeilad yn cael ei gynnwys ar gofrestr Adeilad Rhestredig mae'n hanfodol derbyn caniatâd adeilad rhestredig can yr ACLl cyn cynnal gwaith a fydda'i effeithio ar gymeriad adeilad sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.<br>• O dan Adran 9 o'r Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 mae'r drosedd dinistrio adeilad rhestredig, neu altro neu ymestyn adeilad mewn ffordd sydd yn effeithio ar gymeriad, heb ganiatâd, gall y ddirwy fod yn sylweddol.<br>• Mae angen Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer:<br>  • dymchwel neu unrhyw waith arall sydd ym marn yr Awdurdod yn cael effaith ar gymeriad yr adeilad rhestredig.<br>  • nid yw gwaith cynnal a chadw fel rheol angen caniatâd cyn belled fo'r defnyddiau, manylion a'r edrychiad yn union cyd-fynd a'r gwreiddiol.<br>Ardaloedd Cadwraeth:<br>• Mae yna ddyletswydd ar ACLl wrth ymarfer eu swyddogaeth cynllunio i roi ystyriaeth arbennig i'r dymunoldeb o ddiogelu a gwella cymeriad ac edrychiad yr ardal (Adran 72 o Ddeddf 1990)).<br>• Mae angen caniatâd ardal cadwraeth ar gyfer dymchwel adeilad anrhestredig yn yr ardal (Adran 74 o Ddeddf 1990).<br>• Mae unrhyw un sydd yn dymuno cynnal gwaith ar goeden, a fyddai angen caniatâd be fyddai yna orchymyn cadw coed wedi ei osod arno, angen rhoi rhybudd i'r awdurdod lleol chwe wythnos o flaen llaw o'r bwriad i wneud hynny. | eglur bod hyn yn seiliedig ar gyfraith achos. | yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Nid oes yna ddyletswydd statudol i roi ystyriaeth i'r ddarpariaeth a osodir yn y cynllun datblygu wrth ystyried ceisiadau ar gyfer caniatâd adeilad rhestredig neu ardal cadwraeth.*****<br><br>O ran ceisiadau cynllunio cysylltiol ar gyfer newid defnydd adeilad rhestredig neu ddatblygiad a fyddai'n cael effaith ar osodiad adeilad rhestredig fe fydd y Cyngor yn disgwyl i'r ymgeisydd ddangos sut mae eu cynigion wedi cael eu penderfynu arnynt yng nghyd-destun PCC a'r amcan i ddarganfod defnydd hyfyw gorau phosib sydd yn gweddu a chymeriad a gosodiad yr adeilad rhestredig, neu sydd yn rhoi ystyriaeth lawn i osodiad adeilad rhestredig o fewn y cyffiniau a bod y datblygwyr hefyd yn dangos na fydd unrhyw ddifrod yn cael ei wneud i'r gosodiad.<br><br>Mae Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu dangos ar y Map Cyfyngiadau ac wedi ei rhestru yn Atodiad 7 o'r Cynllun.<br><br>*** Mae'r Llysoedd wedi derbyn nad yw Adran 54A o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (Adran 38(6) o Ddeddf 2004) yn berthnasol i geisiadau am hawl Adeiladau Rhestredig (ARh) nac Ardaloedd Cadwraeth (AC) ond dylai cynlluniau gynnwys polisïau sydd yn berthnasol i reoli datblygu, sef polisïau y dylid eu hystyried wrth lunio barn ar geisiadau am ganiatadau ARh/AC.** | | |
| **NF 88** | Polisi AT 3 | 675 | POLISI AT3: ASEDAU TREFTADAETH NAD YDYNT WEDI'U DYNODI SYDD O ARWYDDOCÂD LLEOL NEU RANBARTHOL<br>Bydd angen i ddatblygiad ddiogelu a chwilio am gyfleoedd i wella adeiladau, strwythurau ac ardaloedd lle ceir asedau treftadaeth nad ydynt wedi'u dynodi sydd o arwyddocâd lleol neu ranbarthol **trwy** ~~er~~ | I wella eglurder sgôp y polisi | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~enghraifft~~:<br><br>1. Ailddefnyddio adeiladau ac ardaloedd hanesyddol segur nad oes digon o ddefnydd wedi bod arnynt yn sympathetig sy'n gyson a'u cadwraeth; ~~a~~<br>2. ~~chyfleoedd i wella stadau cyhoeddus hanesyddol ardal y Cynllun drwy~~ Sicrhau bod pob datblygiad, yn cynnwys gwaith trafnidiaeth ac isadeiledd, yn sympathetig i'r amgylchedd hanesyddol;<br>3. Gosodiad, crynswth, ffurf, uchder, graddfa, manylder a deunyddiau lleol priodol.<br><br>~~Bydd elfennau unigryw amgylchedd hanesyddol ardal y Cynllun, sy'n creu synnwyr o gymeriad a hunaniaeth leol ac amrywiaeth ar draws ardal y Cynllun, yn cael eu diogelu, eu gwella a gwneir y gorau o'u potensial i gyfrannu tuag at fuddion cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.~~<br><br>Eglurhad:<br><br>7.5.36 Er nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf arbennig i'w cynnwys ar y rhestr statudol mae yna nifer o asedau hanesyddol o werth i hunaniaeth ardal y Cynllun, oherwydd eu cyfraniad i'r cymeriad adeiledig lleol ac/neu gysylltiadau economaidd neu gymdeithasol. Mae'r rhain er enghraifft yn cynnwys*:<br><br>i. cymeriad ac edrychiad unigol ac unigryw trefi a phentrefi marchnad hanesyddol ardal y Cynllun; | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ii. adeiladau a strwythurau hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r diwydiant chwareli;<br>iii. strwythurau gwledig hanesyddol;<br>iv. safleoedd eglwysig yn cynnwys eglwysi, capeli a cherrig coffa;<br>v. rhwydwaith asedau trafnidiaeth.<br>*(Nid yw'r rhestr yma'n un cyflawn)<br><br>7.5.44 Er y byddai'n amhriodol rhoi'r un lefel o warchodaeth i'r 'asedau' hyn ag a roddir i'r rhai sydd wedi'u dynodi'n ffurfiol, mae'n werth eu cadw o hyd oherwydd eu cyfraniad i gymeriad a hunaniaeth leol. O ganlyniad, bydd Polisi AT3 yn sicrhau bod ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i gadwraeth a defnydd parhaol adeiladau o'r fath fel rhan o waith diogelu a gwella hunaniaeth arbennig ardal y Cynllun. **<u>Bydd yr ymagwedd yma yn sicrhau bod eu potensial i gyfrannu tuag at fendithion cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol ehangach yn cael ei optimeiddio.</u>** | | |
| **NF 89** | 7.5.46 | 494 | 7.5.46 Ystyrir y ffactorau a ganlyn wrth asesu cynigion datblygu sy'n effeithio ar olion archeolegol, sydd o bwysigrwydd lleol, neu eu gosodiad:<br>i. arwyddocâd yr olion;<br>ii. rhesymau am leoli'r datblygiad yn y lleoliad hwn; | I egluro anghenion y polisi. | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | iii. ymarferoldeb ymgorffori mesurau lliniaru i leihau effaith datblygiad a gwarchod gwerth archeolegol y safle.<br><br>**Lle nad ystyrir bod gweddillion o bwysigrwydd cenedlaethol ac nid ystyrir bod eu gwarchodaeth ('diogelwch in situ') yn briodol (gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'u hymgynghorwyr archeolegol) yna lliniaru amgen (diogelu trwy gofnod') fydd y camau priodol i'w cymryd yn unol â Chylchlythyr 60/96. Bydd arweiniad pellach yn cael ei darparu yn y CCA ar Asedau Treftadaeth.** | | |

### Rheoli gwastraff

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 90** | 7.5.56 | 1448 | **7.5.56 Er mwyn monitro'r cynnydd a wneir mewn ymgais i gael rhwydwaith boddhaol ac integredig o waredu gwastraff mae cyd-weithio rhwng awdurdodau cynllunio yn eithriadol o bwysig. Mae monitor yn fodd o sicrhau fod yna gynhwysedd digonol a fewn y rhanbarth lleol er mwyn trin y gwastraff yn ogystal ag asesu os yw'r ddarpariaeth bresennol yn addas.** | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 91** | Polisi GWA3 | 615<br>796 | **Gwastraff Lefel Isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol sydd â chynnwys ymbelydrol heb fod yn uwch na 4GB/yd (gigabecquerels y dunnell) o actifedd alffa neu 12 GB/yt o actifedd beta/gama. Mae GLI yn ffurfio 90% o gyfaint gwastraff ymbelydrol y DU ond yn cynnwys llai na 0.1%** | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **o gyfanswm yr ymbelydredd.**<br><br>[1] **Mae Gwastraff Lefel Isel Iawn (GLII) yn is-gategori o GLI ac yn cael ei ddiffinio fel unai cyfaint isel GLII neu gyfaint uchel GLII. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen ar gyfer rheoli cyfanswm y cyfaint o gyfaint uchel GLII sydd yn cael ei waredu i safle tirlenwi penodol neu gyfleusterau gwastraff eraill.** | | |

## Mwynau

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 92** | Polisi PS19 | 619 | **POLISI STRATEGOL PS19: MWYNAU**<br>**Bydd y Cynghorau yn cyfrannu tuag at alw rhanbarthol a lleol am gyflenwad mwynau parhaus, ~~diogel a chynaliadwy drwy~~ yn unol â'r amcanion allweddol ac egwyddorion cynaliadwyedd** | Er mwyn eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 93** | Polisi MWYN2 | 621 | ~~**POLISI MWYN2: CYFLENWAD CYNALIADWY O ADNODDAU MWYNOL**~~<br>~~**Cynhelir banc tir o gyflenwad wrth gefn o agregau a ganiateir yn unol â chanllawiau rhanbarthol a chenedlaethol.**~~<br>~~**Eglurhad:**~~<br>~~7.5.61 Dylai'r Cynllun sicrhau bod yna gyflenwad digonol a chynaliadwy o fwynau i ddiwallu anghenion yr ardal heb fygwth yr amgylchedd, mwynderau, daearamrywiaeth, nac anghenion y dyfodol am adnoddau. Yn ymarferol, bydd sicrhau cyflenwad digonol a chynaliadwy o agregau yn golygu gallu gwireddu'r dosraniad a amlinellir yn Adolygiad Cyntaf y DTRh. Yn unol ag arweiniad cenedlaethol, mae gofyn cynnal banc tir o Dywod a Graean am 7 mlynedd a banc tir wrth gefn o agregau cerrig mâl~~ | Gwella ffocws | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | am 10 mlynedd drwy gydol cyfnod y Cynllun. Os nad yw hi'n bosib cynnal y cronfeydd wrth gefn a ganiateir yn y banc tir, gellir defnyddio'r ardaloedd chwilio dethol sy'n cael eu hadnabod yn y Cynllun i gynnal darpariaeth o gronfa mwynau. | | |
| **NF 94** | Polisi MWYN4 | 505 | POLISI MWYN 4: DATBLYGIADAU MWYNAU<br>Caniateir cynigion datblygu ar gyfer chwilio am fwynau, mwyngloddio neu ymestyn gweithfeydd presennol i gynnal banc tir agregau ardal y Cynllun, neu i ddiwallu'r galw am fwynau eraill os gellir cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn:<br>1. Nid oes unrhyw niwed annerbyniol i fwynderau nac iechyd trigolion lleol o ran yr effaith weledol, lefelau llwch, sŵn, dirgrynu, arogleuon a golau o ganlyniad i'r gwaith ei hun neu'r symudiadau traffig a geir yn ei sgil.<br>2. Mae yna fyffer addas rhwng datblygiadau mwynau a datblygiadau sensitif.<br>3. Nid oes niwed annerbyniol i sefydlogrwydd a chynhaliaeth tir cyfagos.<br>4. Mae'r datblygiad wedi'i sgrinio a'i dirweddu mewn modd sensitif.<br>5. Ni fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol neu leol o ran yr amgylchedd, cadwraeth natur, y dirwedd ac /neu dreftadaeth.<br>6. Nid yw'r cynnig yn sterileiddio neu'n atal gweithio dyddodion mwynau eraill o bwys;<br>7. Nid yw'r cynnig yn cynyddu lefelau mwyngloddio gweithredol a geir mewn ardal benodol y tu hwnt i'w allu amgylcheddol. | Er mwyn sicrhau cywirdeb | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 95** | 7.5.70 | 254 | 7.5.70 Er mai defnydd tir dros dro yw mwyngloddio, fe all gael effaith | Er mwyn cywirdeb | Newid bach nad |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 255<br>317<br>380 | sylweddol ar fwynderau lleol ac ar yr amgylchedd. Gallai rhai effeithiau olygu fod y datblygiad yn cael ei ystyried yn annerbyniol. Mae'r polisi hwn yn ceisio nodi'r agweddau hynny o ddatblygiadau mwynau sydd angen eu rheoli er budd mwynderau lleol a'r amgylchedd. Roedd PCMC yn disgwyl i gynlluniau datblygu amlinellu'r meini prawf fydd yn cael eu defnyddio ar gyfer cynigion mwynau a rhestru'r materion sydd angen sylw. Mae polisïau eraill o fewn y Cynllun ac mewn Polisi Cenedlaethol yn ymdrin â nifer o'r materion hyn. Yn yr un modd â nifer o fathau eraill o ddatblygiadau, gall gweithfeydd mwynau gael effaith gronnus andwyol ar yr amgylchedd ac/neu fwynderau lleol. **Yn ogystal fe ddylid rhoi ystyriaeth briodol i'r buddiannau economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o weithio mwynau.** | | yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 96** | Polisi MWYN 6 | 258<br>259<br>318 | POLISI MWYN 6: CYLCHFEYDD RHAGOD SAFLEOEDD MWYNAU<br>Gwrthodir ceisiadau cynllunio i gloddio mwynau o fewn cylchfeydd rhagod a nodir ar y Map Cynigion oni bai y gellir darparu cylchfeydd rhagod newydd sy'n adlewyrchu'r isafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM 1: Agregau**, oni bai fod yna resymau clir a chyfiawnadwy dros leihau'r pellter, h.y. ble fo yna effaith bychan yn deillio o'r safle echdynnu mwynau.** | Er mwyn sicrhau eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 97** | 7.5.67 | 263 | 7.5.67 Gweithfeydd mwynau dros dro yw pyllau benthyg a ddatblygwyd i gyflenwi prosiect adeiladu penodol. Gall pyllau benthyg gynnig buddiannau amgylcheddol sylweddol o gymharu â chyflenwi mwynau o'r cronfeydd presennol gan ostwng y pellteroedd cludo. **Efallai y bydd cytundebau mawr angen swm mwy o fwynau dros gyfnod llai o amser a allai achosi effeithiau amgylcheddol sylweddol ac aflonyddwch i gymunedau lleol. Fe** | Er mwyn sicrhau eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **ddylid lleoli pyllau benthyg o fewn neu** ~~Dylid eu lleoli~~ gerllaw'r prosiect ac os yn bosib dylent gyflenwi deunydd yn uniongyrchol heb ddefnyddio ffyrdd cyhoeddus. Mae angen manteision amlwg i'r amgylchedd o ddefnyddio pwll benthyg **yn hytrach na chyflenwad o agregau eilaidd neu wedi eu hailgylchu, neu o weithfeydd mwynau presennol sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun**. ~~a d~~ **D**ylai gwaith adfer fod o safon uchel **sydd yn ddisgwyliedig ar safleoedd mwynau**. | | |
| **NF 98** | Polisi MWYN 10 | 381 | POLISI MWYN 10: ADFER AC ÔL-OFAL<br>Gwrthodir ceisiadau i gloddio mwynau oni bai eu bod yn cynnwys cynllun cynhwysfawr ar gyfer adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd ynghyd â manylion am y cyllid arfaethedig, yn ôl y gofyn. Dylai gwaith adfer gael ei wneud mewn dull blaengar, oni bai y gellir dangos nad yw hynny'n ymarferol heb sterileiddio adnoddau a ganiateir. Dylai'r cynllun roi sylw i'r materion canlynol:<br>1. Defnydd presennol y safle<br>2. Y defnydd a wneir o dir cyfagos<br>3. Ôl-ddefnydd arfaethedig y safle<br>4. Cymeriad y dirwedd o amgylch<br>5. Ffurf derfynol arfaethedig y tir<br>6. Yr adnodd pridd sefydlog, ei gadwraeth yn ystod gweithio'r safle, a'i ddefnydd yn yr adfer ar ôl-ddefnydd dilyniannol<br>7. Amserlen yn manylu ar adfer y safle i safon uchel<br>8. Y potensial ar gyfer ail-gytrefu naturiol neu wella neu ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, amaeth, coedwigaeth, geogadwraeth a defnydd mwynder<br>9. Y potensial ar gyfer budd **cymunedol, chyflogaeth a hamdden**<br>10. Polisïau eraill y Cynllun | Er mwyn sicrhau eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio ar ganfyddiadau'r AC. |

### ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf. | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |

## Pennod 8 – Monitro a Gweithredu

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| **NF 99** | 8.3 | 1065 | Cafodd y dangosyddion eu paratoi yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru am fonitro a lle mae'n bosib maent wedi cael eu selio ar ddangosyddion a gyfeirir ato yn y "Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol", **dangosyddion Datblygu Cynaliadwy penodedig (lle'n briodol)** yn ogystal â dangosyddion eraill sy'n cael eu hystyried fel rhai sy'n ddefnyddiol i asesu effeithiolrwydd polisïau. | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 100** | 8.5 & 8.6 | 1064, 1065 | Mae'r Adroddiad Sgopio'r Asesiad Cynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol yn adnabod y dangosyddion gaiff eu defnyddio i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd ac yn benodol datblygiad cynaliadwy. Gwelir y rhain **yn yr Adroddiad Asesiad Cynaliadwyedd** ~~mewn fframwaith ar wahân a gaiff ei ddefnyddio i fonitro datblygiad cynaliadwy yn ardal y Cynllun. Unwaith caiff y Cynllun ei fabwysiadu bydd y dangosyddion yma'n cael eu monitro hefyd~~ **a lle mae'n bosib maent wedi cael eu cynnwys o fewn y fframwaith a welir yn** | Er eglurder | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

<table>
<tr><th>Cyfeirnod</th><th>Rhan</th><th>Rhif Sylw</th><th>Newid â Ffocws</th><th>Cyfiawnhad</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td><u>y Cynllun</u>.<br><br>Caiff y wybodaeth a gesglir trwy’r fframwaith fonitro <u>a welir isod</u> <s>a’r fframwaith fonitro AC/ AAS</s> ei adrodd yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae’n rhaid i’r awdurdodau cynllunio lleol gynhyrchu AMB yn dilyn mabwysiadu’r Cynllun er mwyn adolygu cynnydd y Cynllun ac i asesu effeithiolrwydd y polisïau a’r cynigion. Bydd yr AMB yn adnabod y gweithredoedd fydd angen eu cymryd i ddatrys unrhyw faterion ddaw i’r amlwg trwy’r broses monitro. Gallai hynny gynnwys newidiadau i bolisïau er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd, ac mewn achosion mwy eithafol fe allai arwain i adolygiad rhan o’r Cynllun neu’r cyfan o’r Cynllun. Bydd yr AMB yn adrodd ar wybodaeth am y flwyddyn ariannol flaenorol a bydd yn cael ei gyflwyno i’r Llywodraeth erbyn 31 Hydref pob blwyddyn a bydd ar gael i’w weld ar wefan y ddau Gyngor.</td><td></td><td></td></tr>
<tr><td>NF 101</td><td>Thema 1</td><td>1699, 1700, 1696, 1697, 1702, 1703</td><td><table><tr><th>Dangosyddion</th><th>Targedau Polisi</th><th>Trothwyon</th></tr><tr><td>D8A Nifer o safleoedd hap a gyfyngir gan faterion sy’n ymwneud a seilwaith.</td><td>Dileu rhwystrau rhag datblygu safleoedd ar hap.</td><td>Safleoedd o fewn anheddle cyfan nad yw’n derbyn caniatâd cynllunio oherwydd materion seilwaith nad ellir eu goresgyn mewn</td></tr></table></td><td>I sicrhau cysondeb</td><td>Newid bach nad yw’n effeithio’n arwyddocaol ar ganfyddiadau’r AC.</td></tr>
</table>

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | **unrhyw flwyddyn.** | | |
| **NF 102** | Thema 1 | 1065 | **D1** % siaradwyr Cymraeg yn 2021<br><br>**D1A Unedau tai adeiladwyd ar safleoedd mewn aneddleoedd lle mae Polisi PS1 a Pholisi Newydd TAI X yn gofyn am ddatblygiad gam wrth gam**<br><br>**D1B Nifer o Gynlluniau Iaith Gymraeg a gyhoeddir o ganlyniad i ddatblygiad** | Er eglurder a chadw cysondeb mewnol | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| **NF 103** | Thema 1 | 847 | ~~**D3** Lefel o berchnogaeth breifat o geir~~ \| ~~Lefel gyson neu ddirywiad yn lefel o berchnogaeth breifat o geir~~ \| ~~Cynnydd mewn lefel o berchnogaeth breifat o geir.~~<br><br>~~**D5** Cyfartaledd Amseroedd Siwrne.~~ \| ~~Gostyngiad mewn cyfartaledd amser siwrne car ers dyddiad mabwysiadu'r Cynllun.~~ \| ~~Cynnydd blynyddol ar gyfartaledd amser siwrne car.~~ | Er eglurder | Ar y cyfan, newidiadau arfaethedig yn rai bach fydd ddim effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~**D6** Amlder gwasanaeth bws~~ | ~~Cynnydd mewn amlder gwasanaeth bws~~ | ~~Dim cynnydd mewn amlder gwasanaeth bws~~ | | |
| **NF 104** | Thema 1 | 847, 1065 | **D4A Datblygiad a ganiateir lle mae yna wrthwynebiad heb ei ddatrys gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth o ran o'r ddibyniaeth ar gar preifat a/ neu ddiffyg mentrau teithio cynaliadwy** | **Cynnydd mewn dulliau cynaliadwy o deithio trwy annog cerdded, beicio a chludiant cyhoeddus** | **1 (neu fwy) ganiatâd cynllunio lle mae yna wrthwynebiad heb ei ddatrys gan y Gwasanaeth Trafnidiaeth ar sail bod y datblygiad yn anghynaladwy.** | Er eglurder | Newidiadau arfaethedig yn ychwanegu eglurder ac yn sicrhau cysondeb. Ar y cyfan, newidiadau arfaethedig yn rai bach fydd ddim effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC |
| **NF 105** | | 1065 | **D11** ~~Llecynnau agored i'w gwarchod~~ **Yr arwynebedd o lecynnau agored cyhoeddus (ha) a fydd yn cael ei greu neu ei golli oherwydd** | Dim lleihad yn y llecynnau agored **cyhoeddus** ~~wedi eu gwarchod~~<br><br>**Bod llecynnau agored digonol yn cael eu** | Colli llecynnau agored wedi ei gwarchod heb fodloni meini prawf polisi ISA4 mewn unrhyw un | Er eglurder | Newidiadau arfaethedig yn ychwanegu eglurder ac yn sicrhau cysondeb. Ar y cyfan, newidiadau arfaethedig yn rai |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **datblygiad efo caniatâd cynllunio**<br><br>**D11A Cyfanswm y cyfraniadau ariannol (£) a gytunwyd o ddatblygiad newydd efo caniatâd cynllunio ar gyfer isadeiledd cymunedol** | **darparu i gyfarch datblygiad preswyl newydd**<br><br>**Dim targed polisi** | flwyddyn.<br><br>**Diffyg llecynnau agored cyhoeddus i gyfarch datblygiad preswyl newydd sydd ddim yn cwrdd efo gofynion y Cynllun mewn un flwyddyn benodol** | | bach fydd ddim effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC |
| **NF 106** | Thema 2 | 1065 | **D12** Nifer o ddatblygiadau sensitif (yn ôl diffiniad NCT15) a ganiateir o fewn parth llifogydd C1 ac C2 nad ydynt yn bodloni profion NCT 15 (paragraff 6.2 i-v) | Dim datblygiad wedi'i ganiatáu sy'n gwrthdaro â NCT 15 (heb gynnwys y rhai a ystyrir yn eithriadau yn NCT 15)<br><br>Unedau tai ar safleoedd a ddatblygwyd o'r | 1 neu fwy o ddatblygiadau mewn unrhyw flwyddyn<br><br>Llai nag 20% o unedau ar | Er eglurder | Newidiadau arfaethedig yn ychwanegu eglurder ac yn sicrhau cysondeb. Ar y cyfan, newidiadau arfaethedig yn rai bach fydd ddim effeithio'n |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **D13** Unedau tai newydd a gaiff eu darparu ar safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen **neu sy'n gwneud defnydd o adeiladu presennol** | blaen **neu yn defnyddio adeiladau presennol** = 25% o'r datblygiadau tai | safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen **neu'n defnyddio adeiladau presennol** mewn unrhyw flwyddyn | | arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC |
| | | | ~~**D14** Nifer a math o gynlluniau ynni adnewyddol a charbon isel ar ben eu hunain gaiff ganiatâd cynllunio pob blwyddyn~~<br>**D14A Caniatâd cynllunio wedi ei roi ar gyfer datblygiad ynni adnewyddol a charbon isel, yn ôl y math o dechnoleg a** | Dim targed polisi | Llai nag 1 datblygiad pob blwyddyn am 3 blynedd yn olynol. | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **<u>chyfanswm yr allbwn (MW)</u>**<br><br>**D15** Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio atodol ar faterion dylunio<br><br>**D16** Unedau tai newydd yn cael eu darparu neu efo caniatâd cynllunio yn unol â'r rhaniad canrannol ledled ardal y Cynllun erbyn diwedd oes y Cynllun | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol ar faterion dylunio o fewn 12 mis i ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun<br><br>~~Dim mwy na~~ 55% yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol;<br><br>~~O leiaf~~ 20% yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol;<br><br>~~Dim mwy nag~~ 25% yn y Pentrefi a'r Clystyrau | Dim Canllaw Cynllunio Atodol wedi cael ei fabwysiadu o fewn 12 mis i ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun<br><br>Llai neu fwy na'r % | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | cydnabyddedig mewn unrhyw flwyddyn | | |
| **NF 107** | Thema 3 | 1065 | **D17** Nifer o dir cyflogaeth ac arwynebedd llawr (dosbarth derbyn B1, B2 a B8) sydd wedi colli defnydd i ddefnyddiau eraill.<br><br>~~**D18** Nifer o ddatblygiadau cyflogaeth sydd wedi eu caniatáu ar ddynodiadau fel % o'r cyfanswm o ddatblygiadau a gynigir.~~<br><br>**<u>D18A Arwynebedd llawr (m sg) a ganiateir neu a wrthodir ar gyfer datblygiad</u>** | Dim colli tir cyflogaeth/arwynebedd llawr oni bai ei fod yn unol â Pholisi CYF2 neu Bolisi CYF4<br><br>Bod dynodiadau tir cyflogaeth yn cwrdd ag anghenion cyflogaeth yr ardal (yn nhermau niferoedd, safon a lleoliad) a'u bod wedi lleoli yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun. | Colli 1 neu fwy o adeiladau neu dir cyflogaeth o fewn defnydd B1, B2 a B8 sydd ddim yn unol â Pholisi CYF2 neu Bolisi CYF4.<br><br>Datblygiadau cyflogaeth mawr ar safleoedd sydd ddim wedi eu dynodi yn y Cynllun. | Er eglurder | Newidiadau arfaethedig yn ychwanegu eglurder ac yn sicrhau cysondeb. Ar y cyfan, newidiadau arfaethedig yn rai bach fydd ddim effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **economaidd ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cyflogaeth**<br><br>**D18B Nifer o swyddi a gaiff eu creu o fewn ardal y Cynllun**<br><br>**D19** Nifer o ddatblygiadau manwerthu, swyddfeydd a hamdden a ganiateir **(m sg) o fewn a thu allan i ffiniau canol tref sefydledig** ~~fel % o gyfanswm y datblygiadau a ganiateir.~~ | **Bod y nifer o swyddi a gaiff eu creu yn cyd-fynd a'r Adolygiad Tir Cyflogaeth**<br><br>Bod datblygiadau yn cael eu lleoli yn unol â Hierarchaeth Manwerthu'r Cynllun (Polisi MAN1) i sicrhau canol trefi bywiog a hyfyw. | **Graddfa creu swyddi yn disgyn o dan y lefelau cronnol disgwyliedig am 2 flynedd yn olynol o 2018 ymlaen**<br><br>1 neu fwy o ddatblygiadau manwerthu, | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | swyddfeydd a hamdden tu allan i ganol trefi **sefydledig** sydd ddim yn unol â pholisi MAN1. | | |
| **NF 108** | Thema 4 | 1065, 479 | **D25** Cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai<br><br>**D25A Cyfanswm yr unedau tai a gafodd caniatâd ar dir a ddynodwyd fel % o'r ddarpariaeth tai cyfan** | Cynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir sydd ar gael ar gyfer tai<br><br>**Cyd-fynd efo Polisi TAI 14 – TAI 16** | Y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai'n disgyn o dan y gofyniad o 5 mlynedd, **sy'n cael ei gymryd o'r Astudiaeth Tir ar gyfer Tai cyfredol** | Er eglurder | Newidiadau arfaethedig yn ychwanegu eglurder ac yn sicrhau cysondeb. Ar y cyfan, newidiadau arfaethedig yn rai bach fydd ddim effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC |
| **NF 109** | | | **D26** ~~Sawl caniatâd a roddir a thai newydd a~~ | Bod yna ddigon o unedau yn cael | **Y cyflenwad o dir sydd ar gael** | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~gwblheir yn flynyddol~~<br>**Y nifer net o dai marchnad agored ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun** | caniatâd cynllunio yn flynyddol i gadw cyflenwad digonol o dai yn y banc tir.<br><br>~~Bod y cynllun yn darparu 2,604 o unedau rhwng 2011 a 2018 a 5,298 rhwng 2018 a 2026 (h.y. unedau a gwblheir).~~<br><br>~~Nad yw graddfa datblygiad yn fwy na 2,604 o unedau yn y cyfnod 2011 i 2018.~~ | **ar gyfer tai'n disgyn o dan y gofyniad o 5 mlynedd, sy'n cael ei gymryd o'r Astudiaeth Tir ar gyfer Tai cyfredol**<br><br>~~Llai na 250 o unedau yn derbyn caniatâd cynllunio dwy flynedd yn olynol~~<br><br>~~Lefel twf yn is na 372 uned y flwyddyn am ddwy flynedd yn olynol ar gyfer 2011-18, neu 662 unedau'r flwyddyn ar gyfer 2018-2026.~~<br><br>~~Mwy na 500 o~~ | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | ~~unedau yn cael ei cwblhau am ddwy flynedd olynol ar gyfer y cyfnod 2011 i 2018~~ | | |
| | | | ~~**D27** Nifer yr unedau tai fforddiadwy sy'n cael caniatâd cynllunio'r flwyddyn~~ | ~~Dim targed yn y polisi~~ | ~~Llai na 45 o unedau newydd fforddiadwy yn cael caniatâd cynllunio dwy flynedd yn olynol.~~ | | |
| | | | **D28** Nifer **net o** unedau tai fforddiadwy a gwblheir y flwyddyn | O leiaf 1,400 o dai fforddiadwy newydd ar dir a'u hadnabuwyd yn y Cynllun. | Lefel twf yn is na 65 uned fforddiadwy'r flwyddyn am ddwy flynedd yn olynol ar gyfer 2011-18, neu 117 o unedau'r flwyddyn ar gyfer 2018-2026. | | |
| | | | **D31** ~~Gwaith i adnabod lleiniau parhaol a dros~~ | ~~Adnabod~~ lleiniau priodol i gyfarch yr | **Dim lleiniau preswyl wedi** | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | ~~dro i gyfarch y galw ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.~~<br>**Nifer o leiniau preswyl parhaol i Sipsiwn/ Theithwyr**<br><br>**D31A Nifer o leiniau aros dros dro i Sipsiwn/ Teithwyr** | angen o fewn ardal y cynllun. | **eu darparu hyd at 2020**<br>~~Bod lleiniau priodol wedi ei adnabod o fewn blwyddyn i fabwysiadu'r cynllun~~<br><br>**Dim lleiniau stopio dros dro wedi eu darparu hyd at 2020** | | |
| **NF 110** | Thema 5 | 361, 1069 | ~~**D35** Nifer o ddatblygiadau a ganiateir byddai'n cael effaith gwrthwynebus ar nodweddion safle sydd wedi ei warchod ar gyfer cadwraeth natur.~~<br><br>**D35A Datblygiad yn cael caniatâd sy'n arwain at golli GNL neu SBG nad yw'n cyd-fynd a gofynion** | ~~Dim datblygiad a fyddai'n cael effaith gwrthwynebus ar nodweddion safle wedi ei warchod ar gyfer cadwraeth natur~~<br><br>**Dim colled net yn arwynebedd GNL neu SBG i ddatblygiad (oni bai ei fod yn cyd-fynd a'r Cynllun)** | 1 neu fwy o ddatblygiadau a ganiateir lle bod gwrthwynebiad gan Uned Bioamrywiaeth yr Awdurdod, ~~a/neu CNC.~~<br><br>1 neu fwy o ddatblygiadau a ganiateir lle bod | Er eglurder | Newidiadau arfaethedig yn ychwanegu eglurder ac yn sicrhau cysondeb. Ar y cyfan, newidiadau arfaethedig yn rai bach fydd ddim effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC |

### ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyfeirnod | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **<u>polisïau'r Cynllun</u>**<br><br>**<u>D35B Datblygiad yn cael caniatâd sy'n arwain at golli cynefin CGBLl nad yw'n cyd-fynd a gofynion polisïau'r Cynllun</u>** | | gwrthwynebiad gan Swyddog Tirwedd yr Awdurdod, a /neu CNC | | |

## Atodiadau

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **TERMAU** | **ACRONYM (os yn berthnasol)** | **Disgrifiad** | | |
| **NF 111** | Rhestr Termau | Cyngor, 776,<br><br>184 & 185<br><br>186 & 187<br><br>190 & 193, 598, 743 | Tai fforddiadwy | | ~~Tai, p'un ai ar rent, perchenogaeth a re brynu'n gyfan gwbl, a ddarperir am gost ei bod yn fforddiadwy mewn perthynas a cyfartalog neu incwm llai na chyfarta mewn perthynas â phrisiau tai ar y gyffredinol.~~ | I sicrhau eglurder<br><br>Fel y gellir dehongli'r polisi yn hawdd. | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Tai a ddarperir i'r rheiny nad yw eu gofynion yn cael eu bodloni gan y farchnad agored.<br><br>Dylai tai fforddiadwy:<br><br>• ddiwallu anghenion cartrefi sy'n gymwys, gan gynnwys tai sydd ar gael ar gost ddigon isel iddynt hwy allu eu fforddio, wedi'i phennu gan ystyried incwm lleol a phrisiau tai lleol;<br>• cynnwys darpariaeth fod y cartref yn parhau yn fforddiadwy i bobl sy'n gymwys yn y dyfodol.<br><br>Mae'r term hwn yn rhannu'n ddau is-gategori:<br><br>• tai rhent cymdeithasol - darperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig lle mae'r rhenti'n ystyried rhenti canllaw a rhenti meincnod Llywodraeth Cymru;<br>• tai canolradd - lle mae'r prisiau neu'r rhenti'n uwch na rhenti tai cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu renti ar y farchnad agored. | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Tai Marchnad Agored** | | **Tai i'w rhentu neu sydd ar werth, a lle pennir y pris ar y farchnad agored. Byddai unedau o'r fath yn cwrdd ag anghenion tai'r rhai hynny o fewn ardal y Cynllun nad sydd yn gymwys i fyw mewn tai fforddiadwy.** | | |
| | | | **Tai Marchnad Leol** | | **Unedau tai o fewn aneddleoedd diffiniedig ble mae tystiolaeth yn dangos bod problemau dwys yn bodoli o fewn y farchnad dai, sydd ond yn gymwys i gael eu meddiannu gan bobl sydd yn dangos cysylltiad lleol penodol. Gellir gweld gwybodaeth bellach ym mharagraff 7.4.40 yn yr eglurhad i Bolisi TAI5.** | | |
| | | | **Cartrefi a'u rhennir (gweler polisi TAI 2)** | | **Gall fod un ai yn aelwydydd yn byw fel teulu neu pan nad oes mwy na 6 o bobl yn rhannu'r cyfleusterau (h.y. ystafell ymolchi a chegin) ac yn gyfrifol am reoli'r aelwyd (h.y. talu rhent a bwyta gyda'i gilydd).** | | |
| | | | **Tŷ a rennir (gweler polisi TAI 3)**<br><br>**Llety preswyl nad yw'n tŷ a rennir (gweler polisi TAI 2)** | | **Cartrefi efo cyfleusterau sydd wedi cael ei rhannu yn cael ei meddiannu gan fwy na 1 aelwyd a mwy na 2 berson sydd yn rhannu un neu fwy o gyfleusterau sylfaenol heb rannu rheolaeth (h.y. talu rhent ac yn bwyta efo'i gilydd) o'r aelwyd.** | | |

## ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | | | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | **Fflatiau hunangynhaliol** | | **Mae fflat yn adeilad ar wahân a hunangynhaliol sydd wedi ei adeiladu neu ei addasu i ddefnydd preswyl ac yn ffurfio rhan o adeilad o weddill yr adeilad ac sydd wedi cael ei rannu yn llorweddol.** | | |
| | | | **Niwed annerbyniol** | | **Ble mae niwed ar fater penodol e.e. mwynderau gweledol, cymeriad y tirwedd, effaith gronnol ayb. o ddatblygiad arfaethedig ar lefel annerbyniol na ellid ei liniaru i lefel derbyniol i alluogi rhoi cefnogaeth i'r bwriad.** | | |
| | | | **Diogelu drwy ddylunio** | | **Menter gyda'r amcan o ddylunio trosedd 'allan' o ddatblygiadau yn ystod y broses cynllunio, a gellir ei ymgorffori i stoc dai sydd eisoes yn bodoli.** | | |
| | | | **Tir a ddatblygwyd o'r blaen** | | **Tir a ddatblygwyd o'r blaen yw tir y mae arno neu yr oedd arno adeiladwaith parhaol (ac eithrio adeiladau amaethyddol neu goedwigaeth) a seilwaith wyneb sefydlog yn gysylltiedig ag ef. Cynhwysir cwrtil y datblygiad, ac adeiladau diogelwch hefyd, a thir a ddefnyddiwyd i gloddio mwynau a gwaredu gwastraff lle na wnaethpwyd darpariaeth ar gyfer ei adfer drwy weithdrefnau rheoli datblygu.**<br><br>**Ni chynhwysir y rhain yn y diffiniad:**<br><br>• **tir ac adeiladau a ddefnyddir ar hyn o** | | |

ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws

| Cyf | Rhan | Rhif Sylw | Newid â Ffocws | Cyfiawnhad | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | bryd at ddibenion amaethyddol neu goedwigaeth;<br>• tir mewn ardaloedd adeiledig nas datblygwyd o'r blaen – e.e. parciau, meysydd chwaraeon a rhandiroedd – hyd yn oed pe bai'r ardaloedd hyn yn cynnwys rhai nodweddion trefol fel llwybrau, pafiliynau ac adeiladau eraill;<br>• tir lle y mae olion unrhyw adeiladwaith neu weithgaredd wedi ymdoddi i'r dirwedd gydag amser fel gellir ystyried yn rhesymol eu bod yn rhan o'r amgylchedd naturiol;<br>• tir a ddatblygwyd o'r blaen sy'n cyfrannu at gadwraeth natur a hynny i raddau a allai fod yn drech na'r angen am ailddefnyddio'r safle;<br>• tir a ddatblygwyd o'r blaen a ddefnyddiwyd wedyn fel amwynder<br>(PCC, Argraffiad 8, Ionawr 2016, Ffigwr 4.4) | | |

**ATODIAD 9: AC Sgrinio Newidiadau Ffocws**

**ATODIAD 10A – AC O'R GOFRESTR O DDIWYGIADAU I'R NEWIDADAU MATERION SY'N CODI**

Roedd Cofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi (DA.039 & DA.040) yn destun ymgynghoriad cenedlaethol rhwng 23 Ionawr a 9 Mawrth 2017. Ystyriodd y Cynghorau y sylwadau ar y Newidiadau Materion sy'n Codi (NMC). Cynhaliwyd dau Sesiwn Gwrandawiadau ar y 26ain a'r 27ain o Ebrill er mwyn ystyried materion oedd yn berthnasol i'r sylwadau a gyflwynwyd ar yr NMC. Arweiniodd ystyriaeth o'r sylwadau ynghŷd â thrafodaeth yn y Sesiynau Gwrandawiadau at nifer o ddiwygiadau i'r Gofrestr o Newidiadau Materion sy'n Codi. Cyhoeddwyd Cofrestr terfynol ar yr 8fed Mai 2017 ac fe'i ystyriwyd gan yr Arolygwyr cyn cwblhau eu hadroddiad. Mae'r Gofrestr hon yn cofnodi canlyniadau'r sgwaith sgrinio Arfarniad Cynaladwyedd o'r diwygiadau uchod, sydd wedi eu marcio mewn coch.

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC022 | 3.7 – 3.9 | ***Cyfeiriad at Ddeddf Cymru 2017 wedi ei gynnwys er mwyn sicrhau fod y Cynllun mor ddiweddar â phosib.***<br><br>**Deddf Cymru 2017**<br><br>**Cyflwynodd Deddf Cymru 2017, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017, newidiadau i weithrediad Deddf Cynllunio 2008 yng Nghymru. Mae Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod prosiectau a ddiffinnir fel Prosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol, e.e. gorsaf pŵer niwclear Wylfa Newydd, angen proses gydsynio gwahanol wedi'i sefydlu, oherwydd eu pwysigrwydd posibl i'r DU. O dan y weithdrefn gwneud penderfyniad am Brosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol (PSoBC) yn Neddf Cynllunio 2008, mae cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) yn cael ei archwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio, sydd wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol. Mae adran 43 o Ddeddf Cymru yn caniatáu cynnwys datblygu cyfeirir ato'n gyffredin fel "datblygu cysylltiedig" o fewn y cais ar gyfer GCD. Gellir disgrifio datblygiad cysylltiedig fel, er enghraifft, datblygiad sy'n cefnogi darparu a gweithredu PSoBC, a allai gynnwys gwaith fel gwelliannau priffyrdd, llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu, cyfleuster parcio a theithio, canolfan logisteg, ayb. Mae'n golygu y gallai datblygwyr ddewis i gynnwys y math yma o ddatblygiad o fewn y cais GCD neu wneud cais ar wahân i Awdurdodau Cynllunio Lleol.** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | Mae PSoBC a'u "datblygiadau cysylltiedig" felly yn destun proses cynllunio ar wahan o fewn y gyfundrefn cynllunio ac nid oes gan y Cynllun yma'r un statws ar gyfer gwneud penderfyniad gan yr Ysgrifennydd Gwladol o'I gymharu ag o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, lle mae'r Cynghorau ydi'r awdurdod gwneud penderfyniad. Fodd bynnag, mae Deddf Cynllunio 2008 yn darparu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol roi sylw i unrhyw Adroddiad Effaith Lleol (AELl) a gaiff ei baratoi gan awdurdod cynllunio ynghyd ag unrhyw faterion eraill y mae'n credu yn bwysig ac yn berthnasol i'r penderfyniad. Mae Pennod 7 y Cynlun yn llywio'r AELl i gael eu cyflwyno gan y Cynghorau I'r Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â gwneud penderfyniad ar unrhyw gais am ganiatâd datblygu. | |
| NMC 28 | 5.4 | ***Diwygio'r testun i ychwanegu eglurder***<br><br>Yn achos Ynys Môn, mae Rhaglen Ynys Ynni Môn wedi adnabod y weledigaeth ganlynol yn y Canllaw Cynllunio Atodol: Gorsaf Niwclear Newydd yn y Wylfa ~~Diwygiedig~~**(2017)** ~~(2014)~~ er mwyn osod dyheadau'r Cyngor ar gyfer Wylfa Newydd, sydd yn allweddol i drawsffurfio economi'r Ynys i'r dyfodol a darparu ansawdd bywyd hir dymor a chynaliadwy i drigolion Ynys Môn: | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 43 | 6.32 | ***Diwygio'r testun er mwyn sicrhau cysondeb mewnol***<br><br>Mae'r Adolygiad Tir Cyflogaeth (2012)~~, a gyhoeddwyd fel Papur Cefndir ochr yn ochr â'r Cynllun Adnau,~~ a dadansoddiad o wybodaeth fwy diweddar yn arwain at yr angen i ddiogelu **642.9ha** **o dir cyflogaeth gyfredol yn ardal y Cynllun ac i** ~~a~~ dynodi tua ~~800~~ **55.1** ha **o safleoedd newydd** yn ardal y Cynllun, gyda 144.1 ha ychwanegol fel cyflenwad wrth gefn ar yr Ynys. Bydd y Cynllun yn:<br><br>i. diogelu ~~ardaloedd~~ **safleoedd** busnes a diwydiant sefydledig, lle bydd trosiant a phlotiau gwag yn lletya busnesau newydd; | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | ii. dynodi safleoedd newydd ar gyfer busnesau newydd neu alluogi busnesau presennol i ehangu **ac ail-leoli**;<br>***iii.*** darparu cyfleoedd i fusnesau ddatblygu ar safleoedd eraill os sefydlir angen penodol na ellir ei letya ar safle a ddiogelwyd neu a ddynodwyd; a<br>***iv.*** darparu cyfleoedd i fusnesau ddatblygu mewn ardaloedd gwledig. | |
| NMC052 | 6.43 | ***Diwygio er mwyn egluro'r sefyllfa o ran astudiaethau argaeledd tir yn ardal y cynllun yn ystod 2015.***<br><br>**Ar sail gwybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys Cyd Astudiaeth Tir ar gyfer Tai Gwynedd 2015 a'r Datganiad Monitro Tir ar gyfer Tai Ynys Mon 2015,** ~~mae~~ **gallai** oddeutu hanner y gofyniad cyffredinol ~~tir~~ ar gyfer tai ~~yn cael~~ **gael** ei ddiwallu o safleoedd tai sydd eisoes â budd caniatâd cynllunio arnynt o dan yr **hen** gynlluniau datblygu ~~presennol~~ neu o dan **hen Bolisïau Dros Dro** ~~ystyriaethau cynllunio materol eraill~~. Ceir mwy o fanylion am hyn yn Atodiad 5. ~~Caiff y diffyg ei gwrdd drwy hap-safleoedd, adeiladau sydd eisoes yn bodoli a safleoedd newydd a ddewiswyd er mwyn cynnig hyblygrwydd a dewis. Ceir mwy o fanylion am hyn ym Mhennod 7.~~ | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC056 | Polisi PS 1 | ***Diwygio'r testun er mwyn crynhoi maen prawf 3a a chynnwys cyfeiriad at bolisi Polisi TAI5.***<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 1: YR IAITH GYMRAEG A'R DIWYLLIANT CYMREIG**<br><br>**Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy:**<br><br>**1. Ofyn am Ddatganiad Iaith Gymraeg fydd yn dweud sut bydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig yn perthyn i un o'r categorïau canlynol:**<br>**a. Datblygiad manwerthu, diwydiannol neu fasnachol sy'n cyflogi mwy na 50 o weithwyr a/ neu gydag arwynebedd o 1,000 m. sg. neu fwy; neu**<br>**b. Datblygiad preswyl a fydd un ai ar ben ei hun neu yn gronnol yn darparu mwy na'r** ~~targed~~ **darpariaeth tai** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | dangosol a osodwyd ar gyfer yr anheddle ym Mholisi TAI 5 a Pholisïau TAI 14 – 18; neu<br>c. Datblygiad preswyl o 5 o unedau tai neu fwy ar safleoedd a ddynodwyd neu safleoedd ar hap du mewn i ffiniau datblygu nad yw'n mynd i'r afael â thystiolaeth o angen a galw am dai a gofnodir mewn Asesiad Marchnad Tai a ffynonellau tystiolaeth leol berthnasol eraill. ~~cynnig darparu ystod ddigonol o unedau tai o ran eu maint a mathau~~<br>~~2.~~ Ofyn am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg, a fydd yn dweud sut fydd datblygiad arfaethedig yn gwarchod, hyrwyddo a chryfhau'r iaith Gymraeg, pryd fydd y datblygiad arfaethedig ar safle ar hap annisgwyl ar gyfer datblygiad tai ar raddfa fawr neu ddatblygiad cyflogaeth ar raddfa fawr a fyddai'n golygu llif arwyddocaol o weithlu; ~~ac Yn mynd i ddenu neu roi llety i lawer mwy o bobl na ragwelwyd yn wreiddiol ym mholisïau a chynigion y Cynllun;~~<br>~~3. Ddefnyddio mecanwaith priodol i sicrhau bod mesurau lliniaru effeithiau negyddol addas yn cael eu darparu neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny iddynt;~~<br>~~4. Wrthod cynigion fyddai, oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned;~~<br>3a Wrthod cynigion a fyddai yn achosi niwed o sylwedd i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned nad allir ei osgoi neu ei liniaru yn foddhaol trwy ddefnyddio mecanwaith cynllunio priodol ~~i sicrhau mesurau lliniaru addas neu y gwneir cyfraniad i liniaru'r effeithiau hynny.~~<br>5. Gofyn am Gynllun Arwyddion dwyieithog i ymdrin â holl arwyddion gweithredol yn y parth cyhoeddus sy'n cael eu cynnwys mewn cais cynllunio gan gyrff cyhoeddus a chwmnïau masnachol a busnes ~~yn ddwyieithog~~;<br>6. Gosod disgwyliad y bydd enwau ~~lleoedd~~ Cymraeg yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd. | |
| NMC 58 | 7.1.4a | *Diwygio'r testun i gynnwys cyfeiriad at Bolisi TAI 5*<br><br>~~Er hynny,~~ Fel y gwelir ym maen prawf 1 a 2 ym Mholisi PS 1, er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus adeg cais cynllunio | Newid bach nad yw'n effeithio'n |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **gofynnir am wybodaeth am geisiadau lle gall datblygiad ddigwydd, pe fyddai'n cael caniatâd cynllunio, ar gyflymder neu raddfa sy'n wahanol i'r hyn a ragwelwyd adeg paratoi'r Cynllun.** ~~fel y gwelir ym maen prawf 1 a~~ 2. **Mae Polisi PS 1 yn atgyfnerthu polisïau perthnasol eraill yn y Cynllun sydd yn disgrifio'r rhagdybiaethau a wnaed, e.e. lefel twf tai fesul anheddle (Polisïau TAI 5, TAI 14 - TAI 18); bod datblygiad tai yn rhoi dewis priodol o dai marchnad a thai fforddiadwy (Polisi TAI 1). Os oes ansicrwydd, dylid gofyn am gyngor cynllunio cyn cyflwyno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol i weld os fydd angen Datganiad neu Asesiad. Mae cael arwyddion yn Gymraeg ac yn Saesneg ac enwau llefydd ac eiddo Cymraeg yn arwydd clir o gymeriad ardal, gan gynnwys ei chymeriad ieithyddol.** ~~Bydd yr iaith Gymraeg hefyd yn cael ei hyrwyddo drwy wahanol bolisïau yn y Cynllun. Dylai'r holl ystod o gyfleoedd a ddarperir gan bolisïau strategol a manwl, gan gynnwys darparu amrywiaeth o fathau o dai, twf economaidd lleol a diogelu a gwella treftadaeth ddiwylliannol, gyfrannu at wella bywiogrwydd yr iaith Gymraeg.~~ Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol **(CCA) Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy a Chanllawiau Cynllunio Atodol Math a chymysgedd o dai** i roi arweiniad pellach am y mater. **Byddant yn egluro'r math a lleoliad datblygiad sy'n debygol o fod yn dderbyniol yn ardal y Cynllun, gan egluro'r ystyriaethau cynllunio sy'n berthnasol. Bydd y CCA Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy yn disgrifio'r arwyddion a ddisgwylir iddynt fod yn ddwyieithog, e.e. arwyddion sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd, hysbysebion, hysbyseb arddangos. Bydd y Datganiad neu'r adroddiad am yr Asesiad yn rhoi cyfle i'r datblygwr egluro ei gais yn fwy manwl ac ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol posib ar y gymuned a'i chydbwysedd ieithyddol. Bydd y CCA, er enghraifft, yn chwilio am dystiolaeth i ddangos bod trafodaeth wedi bod gyda Chynghorau Cymuned, Dinas a Thref a grwpiau cymunedol lleol er mwyn cael gwybodaeth a gofyn am eu barn a bod ystyriaeth wedi rhoi i arolygon am y farchnad tai lleol, a/ neu'r farchnad lafur. Yn ogystal â hynny, byddant yn cyfeirio ymgeisydd at e.e. gymorth sydd ar gael gan Swyddfa Comisiynydd yr Iaith am ddylunio arwyddion a deunydd marchnata dwyieithog, y cyngor sydd ar gael i'r sector breifat gan Lywodraeth Cymru/Busnes Cymru ynglŷn â dwyieithrwydd.** | arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC068 | Polisi TRA 1 | ***Diwygio'r testun i roi eglurder***<br><br>**iii)A5025 Y Fali i Wylfa a gwelliannau eraill i isadeiledd trafnidiaeth yn gysylltiedig â datblygiad yn Wylfa Newydd, gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle mae'r galw am welliant ar y rhan hwnnw wedi cael ei adnabod yn dilyn asesiad ardrawiad trafnidiaeth o** ~~datblygu Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig ar gyfer~~ **Brosiect Wylfa Newydd ar yr** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **A5025.** | ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 070 | 7.1.41 | ***Diwygio'r testun i roi eglurder***<br><br>A5025 Y Fali i Wylfa Newydd ~~/ Amlwch i Wylfa Newydd~~ a gwelliannau eraill i'r isadeiledd cludiant sy'n gysylltiedig â datblygiad niwclear newydd yn Wylfa Newydd **gan gynnwys gwelliannau o Amlwch i Wylfa Newydd lle mae'r galw am welliant ar y rhan hwnnw wedi cael ei adnabod yn dilyn** asesiad ardrawiad trafnidiaeth **o** ~~ddatblygu Strategaeth Traffig a thrafnidiaeth Integredig~~ **Brosiect Wylfa Newydd** ar yr A5025. ~~gan gynnwys Canolfan Gorfforaethol sy'n angenrheidiol oherwydd cynllun isadeiledd sylweddol.~~ | Newid bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 72 | 7.1.44 | ***Diwygiad bach er mwyn sicrhau cysondeb menwol y Cynllun.***<br><br>Bydd y Cynghorau yn gweithio efo hyrwyddwr prosiect Wylfa Newydd i ddatblygu cynllun priodol o ddatrysiad trafnidiaeth i liniaru'r effaith o adeiladu a gweithrediad yr orsaf bŵer newydd. Yn ogystal i'r gwelliannau a gyfeirir tuag atynt uchod bydd datrysiad yn debygol o gynnwys datblygu cynllun parcio a rhannu datblygu canolfan logisteg i reoli'r niferoedd ac amseriad symudiadau trafnidiaeth i safle'r orsaf pŵer. **Bydd Polisïau PS 9B a PS 9C yn berthnasol i gyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu a chanolfannau logisteg arfaethedig, yn y drefn honno.** Bydd yr hyrwyddwr a'r Cynghorau yn gweithio ar y cyd mewn partneriaeth i ddatblygu Strategaeth Trafnidiaeth a Chludiant wedi'i Integreiddio (ITTS) ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd. | Newid bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 83 | Polisi Newydd | *Dileu'r amod gwreiddiol er mwyn ychwanegu eglurder i wella eglurder a chynnwys geiriad amgen er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.*<br><br>**Polisi Newydd – Ffiniau Datblygu**<br><br>**Mae'r Cynllun yn adnabod Ffiniau Datblygu ar gyfer y Ganolfan Isranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Lleol, Pentrefi Gwasanaeth a Phentrefi Lleol/ Gwledig/ Arfordirol. Caniateir cynigion du mewn Ffiniau Datblygu yn unol â pholisïau a chynigion y Cynllun yma, polisïau cynllunio cenedlaethol ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill.**<br><br>~~Bydd rhaid i gyngion ar safleoedd du allan i'r Ffiniau Datblygu gydymffurfio gyda Pholisiau'r Cynllun yma a pholisiau cynllunio cenedlaethol, ac, os nad oes cefnogaeth benodol ynddynt ar gyfer y datblygiad arfaethedig yng nghefn gwlad, bydd rhaid i'r cynnig ddangos bod lleoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol ar gyfer y datblygiad.~~ **Tu allan i ffiniau datblygu bydd cynigion yn cael eu gwrthod oni bai eu bod yn unol â pholisïau penodol yn y Cynllun hwn neu bolisïau cynllunio cenedlaethol neu bod y cynnig yn dangos bod ei leoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol.** | Newid bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 86 | Paragraff newydd<br><br>7.2.4c | *Diwygiad bach i ychwanegu eglurder*<br><br>**O fewn y cyd-destun o warchod cefn gwlad, mae'r polisi yma, fodd bynnag, yn cydnabod bod angen rhai mathau o ddatblygu os ydi'r cynllun am gyfarch anghenion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol yr ardal. Os ydi datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor, bydd y Polisi yma a Pholisïau manwl eraill yn y Cynllun neu bolisïau cynllunio cenedlaethol yn sicrhau na fydd datblygiad yn bygwth neu ddifrodi rhinweddau cefn gwlad ardal y Cynllun.** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 087 | Polisi PCYFF 1 | *Newidiadau bach i sicrhau cywirdeb a chysondeb mewnol*<br><br>**Dylau gynigion:**<br><br>~~roi blaenoriaeth i safleoedd y tu mewn i ffiniau datblygu neu ffurf adeiledig y clystyrau cydnabyddedig restrir yn y goeden aneddleoedd a welir ym Mholisi Strategol PS15 oni bai fod lleoliad gwledig yn hanfodol neu os oes angen am leoliad penodol, yn ddarostyngedig i ystyriaethau cynllunio perthnasol;~~<br><br>~~Rhaid i gynnig~~ **gwneud y defnydd gorau o dir, gan gynnwys dwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar o ran datblygiadau preswyl (oni bai bod yna amgylchiadau lleol neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is);**<br><br>~~Rhaid i gynnig rhoi sylw i gynhyrchu, trin a gwaredu gwastraff~~ **gynnwys darpariaeth ar gyfer storio, ailgylchu a rheoli gwastraff yn ystod y cyfnod adeiladu a chyfnod meddianaeth;**<br><br>~~Rhaid i gynnig~~ **gynnwys, lle mae hynny'n berthnasol, ddarpariaeth ar gyfer trin a chael gwared â rhywogaethau ymwthiol yn effeithiol;** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 090 | Polisi PCYFF 4 | *Diwygio'r trothwy sy'n sbarduno'r angen am Asesiad Ynni ar gyfer datblygiad di-breswyl*<br><br>**Bydd yn ofynnol i ddatblygiad preswyl ar safleoedd ar gyfer 100 o unedau tai neu fwy a datblygiad dibreswyl o ~~100~~ 1,000 metr sgwâr neu fwy** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC | Polisi ADN | *Diwygio maen prawf (vii) er mwyn egluro bod angen cytuno ar gynllun adferiad gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol* | Newid bach |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| 101 | 1 | i. **ar ddiwedd oes weithredol y cyfleuster, bydd tyrbinau gwynt ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu i lawr yn unol â chynllun adfer y tir ac ol-ofal a gyflwynir i a'i cytuno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol ~~chytunir ar gynllun adfer tir ac ôl-ofal priodol~~.** | nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 115 | Polisi ADN 2 | ***Diwygio maen prawf (vii) er mwyn egluro bod angen cytuno ar gynllun adferiad gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol***<br><br>**(7)lle bo angen, bydd y cyfarpar ac isadeiledd cysylltiedig yn cael eu tynnu oddi ar y safle yn unol â chynllun adfer y tir ac ol-ofal a gyflwynir ~~i~~ a'i gytuno gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC126 | 7.3.4 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wylfa Newydd a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.***<br><br>Ar gyfer cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu, rôl ddewisol ar y cyfan fydd gan awdurdod lleol o dan y Ddeddf Gynllunio 2008 **(fel y'i diwygiwyd gan Deddf Cymru 2017)**, ond fe fyddant yn cael eu gwahodd i asesu pa mor ddigonol yw'r ymgynghori a'r effeithiau lleol ac adrodd ar y rhain ~~wrth yr Arolygiaeth Gynllunio~~ mewn Adroddiad Ardrawiad Lleol. Yn yr un modd, bydd yn bosibl i geisiadau gael eu gwneud i gyrff statudol eraill**.** ~~Yng Nghymru,~~ Yr awdurdodau cynllunio lleol yw'r awdurdodau penderfynu ar gyfer **ambell** ~~unrhyw~~ ddatblygiad yn gysylltiedig gyda **Phrosiect Wylfa Newydd** ~~'r cais Gorchymyn Rheoli Datblygiad, er enghraifft, llefydd byw i weithwyr adeiladu~~. | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 127 | 7.3.5 | ***Diwygio er mwyn adlewyrchu newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wylfa Newydd a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.***<br><br>Bydd graddfa ac ardrawiad **PIoBC a datblygiadau perthynol gael eu lliniaru drwy pecynnau priodol o amodau caniatâd cynllunio, cytundebau cynllunio neu priffyrdd** ~~Prosiect olygu bod angen pecyn priodol a chynhwysfawr o gyfraniadau oddi wrth ddatblygwr er mwyn lliniaru a digolledu am unrhyw lefelau newydd neu fwy o niwed. Bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu negodi fel rhan o'r broses gynllunio, yn cynnwys trwy gytundebau Adran 106 a'r Ardoll Isadeiledd Cymunedol, os fydd hwnnw'n cael ei weithredu. Bydd graddfa ac ardrawiad PIoBC yn cael eu lliniaru drwy becyn priodol o amodau caniatâd cynllunio, cytundeb adran 106 a~~ **gofynion GCD, a** derbyniadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (os gweithredir atodlen codi tâl ASC). | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 128 | 7.3.6 | ***Diwygiad bach i wella eglurder***<br><br>Yn ogystal, ~~mae'n bosibl y~~ bydd yn ofynnol ~~gan y~~ Cynghorau **annog ddatblygwyr i ystyried** ~~i'r datblygwr~~ ddarparu pecynnau o fuddiannau cymunedol er mwyn cael eu gosod yn erbyn a digolledu'r gymuned am y baich o fod yn lleoliad i'r prosiect. Bydd unrhyw ~~gronfa~~ **becynnau** o'r fath yn cael ei defnyddio i'w rhoi yn erbyn y baich ar yr ardal, ac yn enwi ffyrdd etifeddiaeth posibl o'i ddefnyddio, yn cynnwys isadeiledd cludiant, cymdeithasol, economaidd a chymunedol fyddai o fudd i'r gymuned yn y tymor hir. | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC400 | 7.3.10 | ***Newid bach i wella eglurder***<br><br>viii wrth benderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth yn dilyn y caniatâd (yn cynnwys 'amodau' caniatâd cynllunio **a gofynion GCD**), ac wrth gyflawni swyddogaethau fel yr awdurdod gorfodi. | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | | |
| NMC 130 | Polisi PS 8 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.***<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 8: CYNIGION AM BROSIECTAU ISADEILEDD O BWYSIGRWYDD CENEDLAETHOL A DATBLYGIADAU ~~CYSYLLTIEDIG~~ PERTHYNOL**<br><br>**Yn eu rôl fel yr awdurdodau sy'n rhoi caniatâd i ddatblygiad ~~cysylltiol~~ perthynol neu fel rhywun sy'n cael ei ymgynghori am geisiadau i gyrff eraill, o fewn cyd-destun datganiadau polisi cenedlaethol a pholisi cynllunio cenedlaethol, bydd y Cynghorau'n anelu i sicrhau y bydd datblygiad yn gwneud cyfraniad positif i wireddu'r weledigaeth, amcanion strategol a strategaeth datblygu a welir yn y Cynllun. Rhoddir ystyriaeth i natur, graddfa, ystod ac ardrawiad posib unrhyw ddatblygiad wrth wneud hynny.**<br><br>**Bydd y Cynghorau felly'n amcanu i sicrhau cydymffurfiaeth, fel mae'n briodol ~~neu berthnasol~~, gyda'r meini prawf canlynol:** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 131 | 7.3.12 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu'r newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wylfa Newydd.***<br><br>**WYLFA NEWYDD A DATBLYGIAD PERTHYNOL ~~CYSYLLTIEDIG~~**<br><br>Mae'r ddau Gyngor a'u partneriaid wedi cydnabod potensial arwyddocaol Wylfa Newydd yn arbennig i'r economi leol yn Rhaglen Ynys Ynni Môn, Cynllun Strategol/ Corfforaethol y ddau Gyngor a'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd. ~~Mae Pennod 3 o'r Cynllun yn rhoi dolen i'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa, syn gosod allan cyngor ategol Cyngor Sir Ynys Môn ar faterion uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn perthynas â'r prosiect yma ac ei ymateb i bolisïau a strategaethau cenedlaethol a lleol ynghyd -destun y arhoi gwybodaeth am weledigaeth Cyngor Sir Ynys Mon~~ | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | ~~yn gysylltiedig â'r prosiect yma.~~ Mae'r rhan hon o'r Cynllun yn delio gyda datblygiadau **perthynol** ~~cysylltiol~~ i Brosiectau Isadeiledd Mawr ble mai naill ai Cyngor Sir Ynys Môn neu Gyngor Gwynedd yw'r awdurdod cynllunio sy'n penderfynu ar gais cynllunio. | |
| NMC 132 | 7.3.13 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wtlfa Newydd.***<br><br>Er nad y Cynghorau yw'r awdurdodau i roi caniatâd ar gyfer y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Prosiect Wylfa Newydd, maent yn credu ei bod hi'n bwysig egluro'r ymagwedd a fyddant yn cymryd yn eu rôl fel awdurdodau cynllunio pan fyddant yn derbyn ymgynghoriad am y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu. Fe fyddant hefyd yn sicrhau bod datblygiadau **perthynol** ~~cysylltiedig~~ **sy'n destun cais ar gyfer caniatâd gan y Cynghorau** yn cyd-fynd â strategaeth a pholisïau perthnasol y Cynllun. **Mae gweledigaeth Cyngor Sir Ynys Mon (fel yr awdurdod sy'n rhoi lle i'r datblygiad) ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd i'w weld ym Mhennod 5 o'r Cynllun hwn, ac mae o wedi hysbysu Gweledigaeth ac Amcanion y Cynllun.** ~~Hyd nes y caiff y Cynllun ei fabwysiadu neu bydd polisïau perthnasol yn cario digon o bwysau fel ystyriaethau cynllunio perthnasol bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn sicrhau bydd y dull o ymdrin â datblygiadau perthnasol yn gysylltiedig â Wylfa Newydd yn adlewyrchu polisïau'r Cynllun Datblygu presennol, y Cynllun Datblygu Unedol a stopiwyd, polisïau cynllunio cenedlaethol a'r Canllaw Cynllunio Atodol Gorsaf Niwclear Newydd yn Wylfa. Boed yn eu rôl fel y rhai sy'n penderfynu, neu i ymgynghori â hwy ar gyfer ceisiadau i gyrff eraill, bydd y Cynghorau'n ceisio cyflawni'n eu blaenoriaethau statudol fel sydd i'w gweld yn eu Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Strategol a chynlluniau a rhaglenni perthnasol eraill.~~ **Disgwylir i'r Prosiect gyfrannu i gyfarch Gweledigaeth y Cynllun trwy:**<br><br>• **gyfrannu i wireddu Rhaglen Ynys Ynni Môn a Pharth Menter Môn**<br>• **gyrru trawsnewid yr economi, uchafu cyfleoedd ar gyfer yr economi a gwella sgiliau pobl leol;**<br>• **cynnal a chryfhau ansawdd bywyd cymunedau lleol ac ymwelwyr;** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | • gwarchod a chryfhau hunaniaeth ardal y Cynllun;<br>• gwarchod, neu le'n briodol, gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw ardal y Cynllun, gan roi sylw i newid hinsawdd. | |
| NMC133 | 7.3.14 | *Diwygio'r testun eglurhaol i adlewyrchu newidiadau i'r broses gwneud penderfyniadau o ran Prosiect Wtlfa Newydd.*<br><br>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ~~Diwygiedig~~ Adeiladu Niwclear Newydd yn Wylfa yn nodi cyngor atodol Cyngor Sir Ynys Môn ar faterion lleol uniongyrchol neu anuniongyrchol bwysig mewn perthynas â Phrosiect **Wylfa Newydd** ac ymateb i strategaethau a pholisïau cenedlaethol a lleol yng nghyd-destun y Prosiect ac yn ystyriaeth faterol bwysig wrth asesu ceisiadau cynllunio yn gysylltiedig â **datblygiadau** ~~cysylltiedig~~ perthynol **arfaethedig ynghlwm â** Phrosiect **Wylfa Newydd**. **Ar y cyd efo pholisïau'r Cynllun,** bydd y CCA Adeiladu **Gorsaf** Niwclear Newydd Wylfa yn cynorthwyo'r Cygnor Sir i:<br><br>• rhoi canllawiau manwl ar gyfer datblygiad sy'n perthyn i'r Prosiect, e.e. llety gweithwyr adeiladu<br>• wneud penderfyniadau cadarn ar ~~bob gwaith galluogi a~~ geisiadau cynllunio datblygu perthynol ~~cysylltiedig~~<br>• sicrhau bod effeithiau posibl yr Adeilad Niwclear Newydd a'i ddatblygiadau perthynol ~~cysylltiedig~~ yn cael eu nodi a'u lliniaru lle bo'n bosibl<br><br>sicrhau bod y manteision economaidd-gymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer yn cael eu gwireddu'n llawn. | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 134 | 7.3.15<br><br>Paragraff | *Dileu'r paragraff, a'i symud i baragraff 7.3.13 (gweler NMC 132).*<br><br>~~Disgwylir i'r Prosiect gyfrannu i Weledigaeth y Cynllun trwy:~~<br>• ~~gyfrannu i wireddu Rhaglen Ynys Ynni Mon a Pharth Menter Mon~~ | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | Newydd | • ~~gyrru trawsnewid yr economi, uchafu cyfleoedd ar gyfer yr economi a gwella sgiliau pobl leol;~~<br>• ~~cynnal a chryfhau ansawdd bywyd cymunedau lleol ac ymwelwyr;~~<br>• ~~gwarchod a chryfhau hunaniaeth ardal y Cynllun;~~<br>• ~~gwarchod, neu le'n briodol, gwella amgylchedd ac adnoddau unigryw ardal y Cynllun, gan roi sylw i~~ | ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 136 | 7.3.17 | ***Dileu'r cyfeiriad at Bolisi TAI 3 o baragraff i wella egluro ei rôl***<br><br>Gallai mesurau lliniaru effaith y prosiect gael eu huchafu pe fyddai'r datblygiad yn cael ei leoli yn unol â Strategaeth Ofodol y Cynllun, a welir ym Mhennod 6, **Polisi PS 9, Polisiau PS 9A – 9C,** a pholisïau perthnasol y Cynllun **(gan gynnwys Polisi ~~TAI 3~~ TAI 8 a Pholisi PS 1)**, yn dibynnu ar y math o ddefnydd **a'i raddfa**, er mwyn bod yn gyson ag egwyddorion datblygiad cynaliadwy. | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 137 | 7.3.17a | ***Ail-leoli'r frawddeg mewn paragraff arall i wella eglurder***<br><br>**Dylai cynigion am ~~ofynion~~ lety gweithwyr adeiladu leihau'r effaith ar y farchnad dai lleol (gan gynnwys gallu'r rhai ar incwm isel i gael mynediad at y sector rhentu preifat, tai fforddiadwy a gwasanaethau tai eraill), a'r sector twristiaeth. ~~Dylai'r gweithlu adeiladu gael llety drwy ddulliau amrywiol gan gynnwys y stoc bresennol o dai (i'w prynu neu rentu), llety gwyliau a llety parhaol pwrpasol newydd neu fodiwlaidd a ddarparir gan Horizon neu drwy drydydd parti. Lle bo'n briodol.~~ Lle bo'n berthnasol, mae'r Cynghorau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Prosiect ddarparu budd etifeddiaeth i gymunedau lleol yn ystod cyfnod y Cynllun neu y tu hwnt i'r cyfnod adeiladu. Cafodd strategaeth llety gweithwyr adeiladu drafft ei baratoi a bydd yn cael ei gwblhau gan roi ystyriaeth i Strategaeth Ofodol y Cynllun a pholisïau perthnasol yn y Cynllun, gan gynnwys** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | cyfres o bolisïau sy'n rhoi arweiniad pellach ar reoli datblygiadau ~~sydd â chysylltiad efo'r Prosiect Cysylltiedig.~~ | |
| NMC 138 | 7.3.17b – 7.3.18b | *Cynnwys testun ychwanegol i egluro sefyllfa'r Cyngor o ran lletai ar gyfer y gweithwyr adeiladu.*<br><br>Dylai'r gweithlu adeiladu gael llety drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys y stoc bresennol o dai (i'w prynu neu rentu), llety gwyliau a llety parhaol pwrpasol newydd neu fodiwlaidd a ddarperir gan Horizon neu drwy drydydd parti. Ni ddylai defnydd o'r fath fodd bynnag arwain at ardrawiad annerbyniol ar argaeledd tai (hunan berchnogaeth a rhentu'n breifat) neu ar argaeledd llety ymwelwyr. Fe ddylai'r ardrawiadau fod yn dderbyniol. Mae twristiaeth yn sector economaidd pwysig ac mae angen iddo gael ystyriaeth ac asesiad penodol wrth gwblhau'r strategaeth llety gweithwyr.<br><br>Yn nhermau lleoliad, ~~safbwynt y Cynghorau yw y~~ dylid lleoli llety ar gyfer y gweithwyr adeiladu dros dro cyn belled ag sy'n bosib o fewn, ~~neu~~ wrth ymyl, neu â pherthynas dda gyda ffiniau datblygu Canolfannau a Phentrefi Gwasanaeth enwir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun (dibynnu ar raddfa'r datblygiad), ac mewn lleoliadau sydd â chysylltiad da a'r prif lwybrau teithio a dulliau theithio, yn arbennig y rheilffordd, a chan gymryd sylw o bolisi sy'n ffafrio defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen hefyd. Fe ddylent hefyd gyfrannu i raglenni adfywio cynaliadwy a chefnogi bywiogrwydd a hyfywdra canol trefi. Defnyddir y meini prawf canlynol i asesu os ydi safle arfaethedig efo perthynas dda gyda ffin datblygu:<br><br>• pellter corfforol / graddau'r gwahaniad gyda phellter a gwahaniad cynyddol yn llai ffafriol; a<br>• lleoliad y safle o ran cyfleusterau, gwasanaethau ac asedau cynaliadwyedd eraill (megis darparu gweithgareddau hamdden, cyfleoedd cyflogaeth, ac ati) yn y Ganolfan / Pentref Gwasanaeth; a<br>• hygyrchedd i'r Ganolfan / Pentref Gwasanaeth (yn bennaf gan ddulliau trafnidiaeth heblaw'r car) a'r gallu i wella ar | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. Bydd yr eglurder sy'n cael ei ddarparu gydag ychwanegiad o'r meini prawf i asesu perthynas safle gyda ffin datblygu yn cadarnhau fod mesurau lliniaru mewn lle i liniaru |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | hynny; ac<br>• effeithiau gweledol a gallu i integreiddio datblygiad y dirwedd a threflun.<br><br>Mae paragraff 7.3.17b a yn cyfeirio at y gwahanol fathau o lety. O ystyried maint y nifer disgwyliedig o weithwyr adeiladu sy'n ofynnol yn ystod y cyfnod adeiladu, ystyrir bydd datblygiadau modiwlaidd yn rhan o'r cyflenwad o lety ond nid hwn fydd y dewis cyntaf ac eithrio'r ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer gweithwyr hanfodol ar brif safle Prosiect Wylfa Newydd. Byddai darparu rhai llety modwlar mewn adeiladau dros dro ar safle Prosiect Wylfa Newydd yn dderbyniol pryd y caiff ei gefnogi gan lefel briodol o gyfleusterau cymunedol a pryd gellir dangos bod effaith trafnidiaeth (gan gynnwys mynediad gweithwyr a pharcio) yn dderbyniol. Mae Polisi PS 9 a Pholisi 9A yn nodi'r gofynion ar gyfer llety modiwlar o'r fath sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd.<br><br>Fe ddylai Mae'n rhaid i hyrwyddwr y prosiect ystyried ailddefnyddio ddangos ei fod wedi rhoi ystyriaeth lawn i ail-ddefnyddio adeiladau presennol lle'n ymarferol i wneud hynny a/ neu ddarparu adeiladau parhaol sydd yn gallu cael eu haddasu ar gyfer defnydd parhaol ar ôl cael eu defnyddio gan weithwyr adeiladu, defnydd cymesur o dai sector breifat ac ystyriaeth o ganiatad cyfredol, cyn argymell llety modwlar mewn adeiladau dros dro. | effeithiau negyddol posib. Ar y cyfan, dim effeithiau arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 139 | 7.3.18c – 7.3.18ch | *Cynnwys testun ychwanegol i egluro sefyllfa'r Cyngor o ran lletai i'r gweithlu adeiladu*<br><br>Dylai unrhyw lety modiwlaidd a ddarperir tu allan i safle Prosiect Wylfa Newydd ddarparu defnydd gwaddol cynaliadwy ar gyfer yr adeiladau neu'r safle a dangos sut y sicreir yr etifeddiaeth honno. Bydd y Cynghorau hefyd yn ystyried y dylid edrych ar y posibilrwydd o ailddefnyddio safleoedd ac adeiladau a ddefnyddir yn y lle cyntaf ar gyfer llety gweithwyr neu unrhyw | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | ddefnydd tir arall dros dro adeg cynllunio a dylunio'r cynllun, e.e. trwy osod y safle allan o'r cychwyn fel ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio eto, adeiladu adeiladau parhaol sy'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd amgen priodol. Bydd rhaid i ddefnydd etifeddiaeth arfaethedig priodol gydymffurfio â'r polisïau perthnasol yn y Cynllun hwn. Mae defnyddiau etifeddiaeth posib yn cynnwys lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer tai fforddiadwy, llety ar gyfer yr henoed neu anghenion arbennig, llety myfyrwyr, swyddfeydd neu westai neu adeiladu a ellir eu haddasu i ddibenion tebyg, **lleiniau wedi eu gwasanaethu ar gyfer defnydd tebyg neu ddefnyddiau cyflogaeth cysylltiedig**. **Fe ddylai etifeddiaeth defnydd preswyl parhaol gael ei ddylanwadu gan yr Asesiad Marchnad Tai Lleol a gyhoeddwyd er mwyn sicrhau bod y math o unedau tai sydd eu hangen i gyfarch angen lleol yn cael eu hymgorffori yn y cynnig ar y cam dylunio.** Os yw'r hyrwyddwr y prosiect a'r Cyngor yn cytuno **dangosir hyd fodd y Cyngor** nad yw defnydd ôl- ddatblygu'n ymarferol, rhaid cael gwared â'r adeiladau neu strwythurau dros dro a'r tir gael ei ddychwelyd i'w gyflwr blaenorol hyd fodlondeb yr Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn cyfnod penodol a fyddai'n cael ei reoli trwy amod cynllunio. **Mewn achosion o'r math yma bydd angen buddion gwaddol oddi ar y safle er mwyn gwneud yn iawn am ddiffyg etifeddiaeth ar y safle ac fe ddylid ei gynnwys o fewn y cynnig.** Mae Polisi TAI 3 yn gosod yr arweiniad polisi ar gyfer llety dros dro ar gyfer gweithwyr adeiladu ac mae Polisi TAI 8 yn gosod allan yr arweiniad polisi mewn perthynas â defnydd anheddol o lety gwyliau gan weithwyr adeiladu dros dro.<br><br>**Er mwyn lliniaru effeithiau Prosiect Wylfa Newydd ar y farchnad dai ac i helpu i gydlynu y defnydd gorau o bob math o lety, bydd yn ofynnol disgwylir i weithwyr adeiladu ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan Borth Rheoli Llety Gweithwyr Adeiladu, sef yr enw cyfredol am y gwasanaeth. Bydd y Porth yma yn cynnwys cofrestr o ystafelloedd neu eiddo a fydd ar gael i'w rhentu, a bydd angen i'r ymgeisydd gynnig a sicrhau dulliau lle bydd rhaid i weithwyr neu anogir nhw i drefnu eu llety trwy'r Porth. Caiff y Porth ei ddefnyddio hefyd i gadw golw ar nifer sy'n derbyn llety a darparu toriad fesul sector ac yn ofodol. Caiff y wybodaeth yma ei rannu efo'r Cynghorau yn unol a'r strategaeth llety gweithwyr er mwyn caniatau i'r Cynghorau a'r ymgeisydd i fonitro effeithiau ar sectorau a lleoliadau ac ymateb yn briodol pan na fydd rheini yn cyd-fynd efo'r ardrawiadau a ragwelwyd.** | |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 141 | Polisi PS 9 | *Diwygio geiriad yr amod agoriadol a meini prawf 1, 4, 5, 6, 7, 10 a 11 i wella eglurder*<br><br>**POLISI STRATEGOL PS9: WYLFA NEWYDD A DATBLYGIAD PERTHYNOL ~~GYSYLLTIEDIG Â PHROSIECT WYLFA NEWYDD~~**<br><br>**Yn eu rôl ~~naill ai~~ fel yr awdurdodau yn penderfynu ar gyfer datblygiad perthynol ar gyfer Wylfa Newydd ~~cysylltiedig~~, ~~neu fel un i ymgynghori ar gyfer ceisiadau GCD i gyrff eraill, ac o fewn darpariaethau polisi cenedlaethol~~, bydd y Cynghorau ~~, wrth asesu ac ymateb i gynigion sy'n dod yn amlwg ar gyfer Wylfa Newydd a'i datblygiad yn ceisio~~ yn sicrhau cydymffurfiaeth ~~lle bo'n briodol neu'n berthnasol,~~ gyda'r meini prawf yn y Polisi yma a Pholisiau PS 9A – 9C, lle bo'n berthnasol ~~canlynol~~:**<br><br>**Wrth ymateb i gynigion sy'n ffurfio rhan o gais am Ganiatad Datblygu i'r Ysgrifenydd Gwladol bydd y Cynghorau yn rhoi sylw i'r un ystyriaethau wrth baratoi'r Adroddiad Asesu Effaith.**<br><br>**1. Dylai unrhyw bolisïau perthnasol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun, ac unrhyw ganllawiau cynllunio, fod yn siapio'r dull o ddatblygu'r orsaf bŵer niwclear ~~ac~~ a chynigion am ~~unrhyw~~ ddatblygiad perthynol ~~cysylltiedig~~; ~~a~~**<br>**2. Er mwyn cael cyn lleied o ardrawiad ag y bo modd a chymaint ag y bo modd o ailddefnyddio'r cyfleusterau a deunyddiau sy'n bodoli'n barod, bod cyfleoedd wedi cael eu cymryd lle bo'n ymarferol i integreiddio gofynion adeiladu Prosiect Wylfa Newydd gyda'r bwriad i ddadgomisiynu'r orsaf bŵer presennol; ~~a~~**<br>**3. Bydd cynigion priffyrdd a chludiant ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn rhan o strategaeth traffig a thrafnidiaeth integredig sy'n ystyried Polisi Strategol PS 4 a Pholisïau manwl perthnasol ac yn lleihau'r effeithiau niweidiol o ran cludiant i lefel sy'n dderbyniol, yn cynnwys y rhai'n codi yn ystod y cyfnodau adeiladu, ~~a~~ gweithredu a dadgomisiynu ac adfer. Dylai cynigion, lle bo'n ymarferol, wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amcanion polisi cludiant yn yr ardal, a chynnwys atebion aml-foddol a buddsoddiad sy'n annog teithio gyda chludiant cyhoeddus, cerdded a beicio a dulliau trafnidiaeth cynaliadwy eraill; ~~a~~**<br>**4. Bydd gwaith cynnar neu baratoi ar gyfer datblygiad yr orsaf pŵer niwclear yn dangos eu bod yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir Prosiect Wylfa Newydd yn amserol ~~neu~~ ac wedi'u cynllunio i ddarparu mesurau lliniaru ar gyfer effeithiau adeiladu neu weithrediad Prosiect Wylfa Newydd. Rhaid unrhyw waith paratoi neu gynnar gael** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | strategaeth i alluogi'r safleoedd i gael eu hadfer i safon dderbyniol pe na fyddai'r Prosiect yn derbyn caniatâd neu gael ei adeiladu a sut y sicrheir y costau o gynnal gwaith adfer o'r fath, gan gynnwys drwy fondio.<br>5. Dylai gofynion am lety gweithwyr adeiladu gael eu hateb mewn ffordd sy'n lleihau gymaint ag y bo modd yr effaith ar y farchnad dai lleol , yn cynnwys gallu rhai ar incwm isel i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, tai fforddiadwy neu wasanaethau tai eraill, gan roi sylw i'r Asesiad Marchnad Tai Lleol a gyhoeddwyd, ~~neu~~ ac neu na fydd yn arwain at effeithiau economaidd (gan gynnwys y sector twristiaeth), cymdeithasol ieithyddol neu amgylcheddol niweidiol. Dylai cynigion ffurfio rhan o strategaeth gadarn ar gyfer llety gweithwyr adeiladu a fydd yn talu sylw i Strategaeth Ofodol y Cynllun ac unrhyw bolisïau perthnasol yn y Cynllun, gan gynnwys Polisi PS 9A; ~~Polisi TAI 3a~~ ~~a~~<br>6. Pan fydd y cynigion am gyfnod dros dro fe ddylai dewis y safle a manylion y cynnig ~~Wrth ystyried lleoliad a dyluniad datblygiadau cysylltiol, dylid rhoi~~ roi ystyriaeth i'r etifeddiaeth a fyddai'n deillio ohonynt fel bod buddsoddi mewn elfennau fel isadeiledd, adeiladau, gwaith ecolegol a thirlun yn dod â buddion tymor hir yn ystod y cyfnod ôl adeiladu. Lle bo'n briodol, bydd angen ~~dylai~~ cynlluniau darparu gyda'r cais cynllunio i ddangos sut roddwyd sylw i ddefnydd ~~ar gyfer ffyrdd~~ etifeddiaeth ~~o ddefnyddio cael eu cytuno yn ystod y cyfnod cyn gwneud cais, a'r cynlluniau hynny ddarparu gwybodaeth ar gyfer y ffordd o weithredu tuag at~~ ddylanwadu dyluniad a chynllun y safleoedd datblygu perthynol ~~cysylltiedig~~, yn ogystal â chyfrannu i fframio cytundeb Adran 106 a/neu gytundebau eraill a thaliadau Ardoll Isadeiledd Cymunedol (os yn gymwys); ~~a~~<br>7. Bydd cynigion ~~am ddatblygiad cysylltiedig~~ ar gyfer llety gweithwyr steil campws graddfa fawr, canolfannau logisteg, cyfleusterau parcio a theithio yn cael eu hasesu yn erbyn meini prawf ym Mholisiau PS 9A – 9C hefyd;<br>8. Dylai sut mae'r cynllun yn cael ei gynllunio a'i ddyluniad a graddfa'r llefydd agored, tirweddu, plannu (gan gynnwys gwrychoedd a choed), dyfrffordd a nodweddion tebyg ~~isadeiledd gwyrdd~~ arfaethedig osgoi, lleihau, lleddfu neu wneud iawn am ardrawiadau ar olygfa, tirwedd ac ecoleg yr ardal leol ac ehangach, yn ogystal ag ar agweddau diwylliannol a hanesyddol y dirwedd, yn y tymor byr a'r tymor hirach. Bydd disgwyl i gynigion fod yn gymesur gyda graddfa'r datblygiad, a maint ei ardrawiad; ~~a hefyd~~<br>~~9. Dylid cyflwyno Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect, sy'n cwrdd â gofynion sgrinio unrhyw gais datblygu, gan gynnwys bob datblygiad cysylltiedig, yn unol â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) gydag unrhyw gynnig am ddatblygiad, gan gynnwys pob datblygiad ategol ac anwythol; a hefyd a lle bo angen, dylid cael asesiad priodol i gyd-fynd ag ef; a~~ | |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | 10. Bydd angen i'r hyrwyddwr drafod yn fuan efo'r Cyngor ynglŷn â strategaethau caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a phenodi, gyda'r nod i uchafu cyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer cymunedau lleol yn y tymor byr a thymor hirach. ~~Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu strategaethau a chynlluniau darparu ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach.~~ Bydd angen i ~~Dylai'r Cyngor gytuno yn gynnar yn ystod datblygiad y prosiect ar ddarparu~~ strategaethau a chynlluniau darparu'r hyrwyddwr ar gyfer caffael, cyflogaeth, addysg, hyfforddiant a recriwtio, gael cyflwyno i'r Cyngor fel rhan o gais cynllunio cyn belled a'i fod yn berthnasol i'r cais; ~~gyda'r amcan o gael gymaint ag y bo modd o gyfleoedd cyflogaeth, busnes a hyfforddiant ar gyfer y cymunedau lleol, yn y tymor byr a'r tymor hirach; a~~<br>11. ~~Lle bydd~~ Bod isadeiledd cyfleusterau cymunedol yn cael ei ddarparu ar gyfer gweithwyr adeiladu, er enghraifft cyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu, siopau, gofal iechyd a chwaraeon a hamdden. Lle bo'n ymarferol dylai'r isadeiledd cyfleusterau cymunedol rheiny ar safleoedd ar wahan i Ardal Datblygu Wylfa Newydd gael eu lleoli a'u dylunio fel eu bod ar gael i'r gymuned eu defnyddio yn ystod y cyfnod adeiladu ac, ymhen amser, lle bo'n briodol, i wasanaethau defnydd etifeddiaeth. Lle bydd ardrawiadau neu alwadau ychwanegol yn digwydd ar gyfleusterau cymunedol sy'n bodoli'n barod, bydd y Cyngor yn ceisio cael naill ai cyfraniadau priodol ar gyfer cyfleusterau oddi ar y safle neu am uwchraddio cyfleusterau presennol. Dylid ystyried defnydd etifeddiaeth o unrhyw gyfleusterau ychwanegol a ddarperir ble bo hynny'n briodol; ~~a~~ | |
| NMC 142 | Paragraff 7.3.19a | ***Newid bach i ychwanegu eglurder a chywirdeb***<br><br>Ni fydd angen i ddatblygiadau perthynol ~~cysylltiedig~~ o dan Bolisïau PS 9A, PS 9B, neu PS 9C gydymffurfio gyda Pholisïau TAI 3, TAI 5, TAI 8, TAI 9, TAI 14, TAI 15, TAI 16 a TAI 17; PS 12 a PS 15; ISA 2 a ISA 5; a TWR 2 o fewn y Cynllun. | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | | |
| NMC 143 | Polisi PS 9A | *Diwygio'r Polisi i adlewyrchu fframwaith gwneud penderfyniadau newydd ac i egluro sefyllfa'r Cyngor o ran lletai ar gyfer gweithwyr adeiladu.*<br><br>**POLISI PS 9A - WYLFA NEWYDD – LLETY ARDDULL ~~GRADDFA FAWR~~ CAMPWS AR GYFER GWEITHWYR ADEILADU**<br><br>**Yn eu rôl fel yr awdurdodau yn penderfynu ynglyn â datblygiad llety arddull campws ar gyfer gweithwyr adeiladu Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n berthnasol, gyda'r meini prawf ym Mholisi PS 9 a gyda'r Polisi yma.**<br><br>**Wrth ymateb i gynigion sy'n ffurfio rhan o gais am Ganiatad Datblygu i'r Ysgrifenydd Gwladol bydd y Cynghorau yn rhoi sylw i'r un ystyriaethau wrth baratoi'r Adroddiad Asesu Effaith.**<br><br>**1. bod y datblygwr yn dangos yn gyntaf bod y cynnig yn diwallu angen a brofir am lety dros dro i weithwyr adeiladu nad allir ei ddiwallu trwy un ai lety preswyl presennol, neu ail-ddefnyddio adeiladau presennol, neu trwy ddarparu adeiladau parhaol a fyddai'n gallu cael eu haddasu i ddefnydd parhaol ar ol iddynt gael eu defndydio gan weithwyr adeiladu; a**<br><br>**2. lleolir y cynnig ar safle Prosiect Wylfa Newydd neu safle sy'n gyfagos neu sydd â pherthynas dda gyda ~~yn agos at~~ ffin datblygu Caergybi, Amlwch, Llangefni, Gaerwen neu Y Fali ~~Canolfan a nodwyd o fewn y Goeden Anheddleoedd yn y Cynllun~~, ac mae'n agos at y prif rwydwaith priffyrdd lle y gellir darparu mynediad digonol heb niwed sylweddol i gymeriad a nodweddion tirwedd, ac hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r polisi sy'n ffafrio defnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen; a** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | 3. rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru unrhyw effeithiau anffafriol y datblygiad arfaethedig ar yr iaith Gymraeg a diwylliant neu gwneir cyfraniad tuag at liniaru effeithiau hynny yn unol â Pholisi PS 1 a Pholisi ISA; ac<br><br>4. lle nad oes digon o gapasiti o fewn cyfleusterau hamdden, manwerthu a chyfleusterau gofal iechyd presennol oddi ar y safle i ddiwallu anghenion feddianwyr y safle neu le nad oes cyfleusterau o'r fath o fewn pellter derbyniol sy'n hwyluso mynediad iddynt ar droed neu feicio, rhaid i'r cynnig gynnwys mecanweithiau priodol i liniaru effeithiau negyddol a allai gynnwys darparu cyfleusterau ategol ar y safle ar gyfer defnydd y meddianwyr; ac<br><br>5. bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw gwybodaeth am feddianaeth er mwyn hwyluso monitro ardrawiadau y datblygiad, gan gynnwys y nifer o weithwyr adeiladu gaiff lety, cyfnod aros a chadw cofnod o ddata dienw o'r gweithwyr ~~cofresrtr o'r holl weitthwyr sy'n byw yn y llety~~ a gwneud y gwybodaeth yma ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor. | |
| NMC 144 | Polisi PS 9B | *Diwygio Polisi i adlewyrchu fframwaith gwneud penerdyniadau newydd*<br><br>**POLISI PS 9B - WYLFA NEWYDD– CANOLFANNAU LOGISTEG**<br><br>**Yn eu rôl fel yr awdurdodau yn penderfynu ynglyn â chanolfannau logisteg ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n berthnasol, gyda'r meini prawf ym Mholisi PS 9 a gyda'r Polisi yma.**<br><br>**Wrth ymateb i gynigion sy'n ffurfio rhan o gais am Ganiatad Datblygu i'r Ysgrifenydd Gwladol bydd y Cynghorau yn rhoi sylw i'r un ystyriaethau wrth baratoi'r Adroddiad Asesu Effaith.** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | 1. Bod y safle wedi ei leoli:<br><br>i. ar safle cyflogaeth sy'n cael ei warchod neu ei ddynodi; neu<br><br>ii. o fewn ffiniau datblygu Canolfannau a restrir yng Nghoeden Aneddleoedd y Cynllun; neu<br><br>iii. mewn lleoliadau eraill ger ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at ~~goridor~~ yr A5/ A55 lle mae'r ymgeisydd wedi dangos rhoddwyd ystyriaeth i ddechrau i safleoedd ym meini prawf 1 i a ii a'u bod nhw wedi cael eu rhoi o'r neilltu oherwydd ystyriaethau tirwedd ac amgylcheddol ac y gallir lleihau a lliniaru ardrawiadau'r datblygiad yng nghefn gwlad yn foddhaol.<br><br>1. Bod y cynigion yn cynnwys trefniadau trafnidiaeth gynaliadwy i staff gan gynnwys cysylltiadau i gludiant cyhoeddus, fel bo'n briodol;<br><br>2. Lleolir adeiladau a gweithgareddau, mynedfa a dulliau croesi safle a defnyddir mecanweithiau priodol i liniaru ardrawiadau negyddol y datblygiad arfaethedig ar fwynderau cymunedau lleol. | |
| NMC 145 | Polisi PS 9C | *Diwygio Polisi i adlewyrchu fframwaith gwneud penerdyniadau newydd*<br>POLISI PS 9C – WYLFA NEWYDD – ~~DATBLYGIAD CYSYLLTIEDIG~~ CYFLEUSTERAU PARCIO A THEITHIO A PHARCIO A RHANNU.<br><br>Yn eu rôl fel yr awdurdodau yn penderfynu ynglyn â chyfleusterau parcio a theithio a pharcio a rhannu ar gyfer Wylfa Newydd, bydd y Cynghorau yn sicrhau cydymffurfiaeth, lle bo'n berthnasol, gyda'r meini prawf ym Mholisi PS 9 a gyda'r Polisi yma. | Newid bach ar gyfer eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | Wrth ymateb i gynigion sy'n ffurfio rhan o gais am Ganiatad Datblygu i'r Ysgrifenydd Gwladol bydd y Cynghorau yn rhoi sylw i'r un ystyriaethau wrth baratoi'r Adroddiad Asesu Effaith.<br><br>1. Er mwyn lleihau'r angen i weithwyr adeiladu a gweithwyr sy'n gwasanaethu'r cyfleuster i deithio gyda char preifat, bod y safle wedi ei leoli:<br><br>i. o fewn neu wrth ymyl ffiniau datblygu Canolfannau sydd wedi eu lleoli ar hyd neu'n agos at goridor yr A5/ A55; neu<br><br>ii. mewn lleoliadau eraill sydd ar hyd coridor yr A5/ A55 lle mae'r safle yn rhan o ddull cynhwysfawr i liniaru effeithiau trafnidiaeth y Prosiect, wedi rhoi sylw i'r ffaith bod y Cynghorau yn ffafrio'r angen i roi ystyriaeth i safleoedd yn agosoach i'r Canolfannau, wedi cymryd sylw o ystyriaethau tirwedd ac amgylcheddol, a lle gallir darparu dulliau i deithio i'r safle mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys cludiant cyhoeddus a beicio;<br><br>2. Bod y cynigion yn gwneud darpariaeth ar gyfer llwybrau cerdded a beicio neu welliannau i rai presennol a gwelliannau i wasanaethau cludiant cyhoeddus;<br><br>3. Lleolir adeiladau a gweithgareddau, mynedfa a dulliau croesi safle a defnyddir mecanweithiau priodol i liniaru ardrawiadau negyddol y datblygiad arfaethedig ar fwynderau cymunedau lleol. | AC. |
| NMC 147 | Polisi PS 10 | *Diwygio'r testun i sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.*<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 10: DARPARU CYFLE AR GYFER ECONOMI FFYNIANNUS**<br><br>**Wrth anelu i amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig, bydd y Cynghorau'n hwyluso twf economaidd yn unol â'r** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r |

<table>
<tr><th>Rhif NMC</th><th>Polisi/ Para/ Map</th><th>Diwygiadau i’r Newidiadau Materion sy’n Codi (mewn coch)</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>

**strategaeth ofodol trwy’r canlynol:**

1. **Gwarchod ~~638.7ha~~ 642.9 o dir ac unedau presennol i ddibenion cyflogaeth a busnes (B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis;**
2. **Dyrannu ~~60ha~~ 55.1ha o dir i ddibenion cyflogaeth a busnes a fyddai angen neu’n cael budd o leoliadau math parc diwydiannol neu fusnes yng nghyswllt B1, B2, B8 a rhai mathau o ddefnydd sui generis ar safleoedd a gynhwysir yn y goeden tir cyflogaeth yn ystod cyfnod y Cynllun ac sydd wedi eu dyrannu ar fapiau cynigion (yn unol â Pholisi CYF 1);**
3. **Hwyluso safleoedd priodol a ddaw ar gael ar hap er mwyn diwallu anghenion ymhellach i’r hyn a nodir ym maen prawf 1 yn unol ag egwyddorion Polisi Strategol PS 5 a Pholisi Strategol PS 6 a Strategaeth Ofodol y Cynllun er mwyn sicrhau fod cyfleoedd economaidd yn cael eu huchafu;**
4. **Cefnogi ffyniant economaidd a chynaladwyedd cymunedau gwledig trwy hwyluso twf ar raddfa briodol mewn mentrau gwledig, estyn busnesau sy’n bodoli’n barod, ac arallgyfeirio trwy gefnogi ailddefnyddio adeiladau sy’n bodoli’n barod, datblygiad unedau ‘byw a gweithio’, gweithio o’r cartref, a thrwy annog darparu safleoedd a thir ac adeiladau mewn lleoliadau hygyrch priodol sy’n gyson a Strategaeth Ofodol y Cynllun ac yn unol â Pholisïau Strategol PS 5 a PS 6.**

</td><td>AC.</td></tr>
<tr><td>NMC 148</td><td>Polisi CYF 1</td><td>

***Diwygio ffigwr arwynebedd y safle***

<table>
<tr><td>Stad Ddiwydiannol Griffin, Penrhyndeudraeth</td><td>~~C39~~ C21</td><td></td><td>~~4.9~~ 4</td><td>B1, B2, B8</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td>Ddim yn berthnasol</td></tr>
</table>

</td><td>Newid bach nad yw’n effeithio’n arwyddocaol ar ganfyddiadau’r</td></tr>
</table>

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | | AC. |
| NMC 155 | 7.3.28a | *Cynnwys cyfeiriad i'r cyfanswm o dir sydd yn cael ei warchod yn unol â'r Polisi a testun mwyaf diweddar i gyfeirio at y wybodaeth yn fersiwn diweddaraf Mapiau Cyngor Datblygu (Mawrth 2017)*<br><br>**Eglurhad:**<br><br>**Mae Adwy'r Hafan yn safle cyflogaeth sefydledig (10.5ha) ym Mhwllheli, sy'n darparu cyflenwad pwysig o unedau ar gyfer busnesau lleol. Bydd diogelu ardaloedd cyflogaeth bresennol yn annog gweithgarwch yn y farchnad i gynnal cyflenwad o arwynebedd llawr cyflogaeth. Fodd bynnag, mae'r Stad Ddiwydiannol hon yn agored i lifogydd oherwydd ei leoliad o fewn ardal perygl llifogydd ~~C1~~ C2. Mae modelu llifogydd yn dangos, dros ei oes, byddai'r safle mewn perygl o lifogydd o ddŵr yn dod dros waliau'r wal harbwr i'r gorllewin ac fe fyddai'r safle mewn perygl o lifogydd o'r dwyrain pe fyddai'r twyni tywod yn cael eu torri. Mae polisi'r Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 ar gyfer epocau sy'n cwmpasu oes y Cynllun yn darparu un cadw'r llinell ar gyfer yr ardal polisi perthnasol sy'n cwmpasu Pwllheli. Prif nod y Cyngor drwy ei ymagwedd i berygl llifogydd yw sicrhau diogelwch y preswylwyr presennol ac yn y dyfodol a'i busnesau. Mae Adwy'r Hafan yn safle tir llwyd. Byddai parhau i ddefnyddio'r safle yn cyfrannu at gynnal anheddle allweddol presennol ac fe fyddai'n cyfrannu o amcanion cyflogaeth allweddol gan y Cyngor. Ar y cyfan, mae'r Cynghorau yn ystyried y dylai'r Cynllun hwyluso datblygu 'tebyg am eu tebyg' yn Adwy'r Hafan yn y tymor byr, ond, y dylid rheoli ei ddefnydd parhaus yn ystod oes y Cynllun yn llym ac y dylid ymchwilio i opsiynau i adnabod dewisiadau amgen ar gyfer y safle. Mae'r polisi hwn yn gweithredu fel yr ateb dros dro gorau i gynnal cyflenwad o unedau ym Mhwllheli o leiaf tan gallir ymchwilio'n fanwl i opsiynau amgen, gan gynnwys cyllid. Bydd ymgeiswyr yn cael eu hannog i fanteisio ar y gwasanaeth cyn ymgeisio a ddarperir gan y Cynghorau, a dylid hefyd yn trafod cynigion gyda Chyfoeth Naturiol Cymru.** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC | PS 11 | *Diwygiad bach i sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.* | Newid bach nad yw'n |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| 401 | | **POLISI STRATEGOL PS 11: YR ECONOMI YMWELWYR**<br><br>**Wrth sicrhau cysondeb â'r economi leol a chymunedau lleol a sicrhau bod yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol yn cael ei gwarchod, bydd y Cynghorau'n cefnogi datblygu diwydiant twristiaeth lleol fydd yn fwrlwm trwy gydol y flwyddyn drwy:**<br><br>**1. Ganolbwyntio datblygiadau twristiaeth, diwylliannol, celfyddydol a hamdden sy'n gynaliadwy, yn actif ac ar raddfa fwy yn neu'n agos at y canolfannau isranbarthol, y canolfannau gwasanaeth trefol ac, os yn briodol, y canolfannau gwasanaeth lleol;**<br>**2. Gwarchod a gwella'r ddarpariaeth llety â gwasanaeth presennol a chefnogi darpariaeth newydd o lety â gwasanaeth o ansawdd uchel yn neu'n agos at y canolfannau isranbarthol, y canolfannau gwasanaeth trefol a lleol ~~gwledig~~ ac yn y pentrefi;** | effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 164 | 7.3.66 | *Diwygio i wella eglurder*<br><br>Tu allan i'r Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig mae'n bosib y rhoddir caniatâd i gynnydd bychan yn nifer yr unedau ar safle os gellir dangos bod y bwriad yn cynnig gwelliannau **tirwedd a amgylcheddol** sylweddol i'r safle ac yn lleihau ei effaith ar y dirwedd **a'r amgylchedd**. Nid yw 'bychan' o safbwynt ymestyn arwynebedd safle wedi'i ddiffinio. **Fel arfer, byddai gwella gosodiad a lleoliad yr unedau, ynghyd â gwella cylchrediad mewnol, mannau parcio a thirlunio yn golygu yr un nifer neu ychydig llai o unedau ar y safle. Fodd bynnag, cydnabyddir y gall fod achosion lle gallai gwelliannau tirlunio arwain at gynnydd yn y nifer o unedau** ~~dim ond mewn perthynas â chynnydd yn nifer yr unedau~~. **cyn belled bod y cynnydd yn fach ac ni fydd y cynnydd yn y nifer o unedau yn creu niwed annerbyniol i edrychiad y safle. Fel rheol gyffredinol, ystyrir fod cynyddiad bras o** ~~na ddylai fod yn fwy na~~ 10% uwchlaw'r nifer **o unedau** pan wnaed y cais gwreiddiol **yn fychan**. **Fodd bynnag, wrth gyfeirio at y canllaw cyffredinol yma, bydd pob cais yn cael ei asesu yn ôl ei** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **deilyngdod** ~~Fodd bynnag,~~ oherwydd yr amrywiaeth sylweddol ym maint, natur a lleoliad y safleoedd ~~asesir pob cais yn ôl ei haeddiant o fewn y canllaw cyffredin hwn.~~ | |
| NMC 167 | PS 12 | ***Newid bach er mwyn cywirdeb (fersiwn Saesneg)*** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 176 | PS 13 | ***Newid bach er mwyn sicrhau cysondeb mewnol***<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 13: DARPARIAETH TAI**<br><br>**Yn seiliedig ar lefel y tai y disgwylir y bydd ei angen, a gan roi ystyriaeth i'r gallu i'w darparu, cyfyngiadau amgylcheddol a** ~~, a capasiti'r~~ **thirwedd,** ~~a chymunedau~~ **rhagolygon economaidd a demograffig, a phroffil demograffig posib, bydd y Cynghorau yn darparu ar gyfer y galw am 7,184 o unedau tai rhwng 2011 a 2026. Caiff y galw yma ei gwrdd trwy adnabod cyfleodd ar gyfer 7,902 o unedau tai i hwyluso lwfans llithriad o 10%.**<br><br>**Cynhelir isafswm cyson o werth 5 mlynedd o dir i gyflenwi tai trwy ddynodi tir a hyrwyddo datblygiad ar safleoedd ar hap a thrwy ddefnyddio adeiladau presennol.** ~~yn unol â'r targedi tai canlynol:~~<br><br>~~1. gofyniad sylfaenol, sydd gyfystyr a 2,604 unedau tai rhwng 2011 a 2018~~<br>~~2. darpariaeth ar gyfer twf, sydd gyfystyr a 5,298 o unedau tai rhwng 2018 a 2026~~ | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | ~~Bydd y~~ Mae'r lefel twf hwn yn cael ei ddosbarthu yn unol â Pholisi Strategol PS 15 a pholisïau TAI 5, TAI 14 i TAI 18 ac fe gaiff ei fonitro'n flynyddol trwy'r Astudiaethau Tir ar gyfer Tai blynyddol a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol. | |
| NMC 188 | 7.3.83 | *Dileu cyfeiriad at raddfa datblygiad a chynnwys maen prawf newydd a manylion o'r cofnodion mae'n rhaid i weithredwyr eu cadw.*<br><br>**POLISI TAI 3: LLETY ARDDULL CAMPWS AR GYFER GWEITHWYR ADEILADU ~~DROS DRO~~**<br><br>**Caniateir cynigion ar gyfer llety ~~graddfa bach~~ arddull campws ar gyfer gweithwyr adeiladu ~~(hyda at uchafswm 500 o lefydd gwlau)~~~~dros dro~~ ar yr amod eu bod yn ffurfio rhan o'r ateb cyflawn i ddarparu llety dros dro i weithwyr adeiladu ac y gellir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:**<br><br>**10a Bod Strategaeth Llety Gweithwyr yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor fel rhan o'r cais cynllunio**<br><br>**Bydd yn ofynnol i weithredwyr gadw gwybodaeth am feddiannaeth yr unedau er mwyn hwyluso monitro ardrawiadau'r datblygiad,, gan gynnwys nifer o weithwyr adeiladu gaiff lety, cyfnod aros, a chadw cofnod o ddata dienw ~~cofrestr~~ o'r holl weithwyr sy'n byw yn y llety (gan roi sylw i ofynion deddfwriaeth diogelu gwybodaeth) ac i wneud y wybodaeth yma ~~gofrestr hon~~ ar gael ar unwaith, ar gais, i'r Cyngor.** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 189 | 7.4.23 | *Diwygio'r testun eglurhaol i ychwanegu eglurder.*<br><br>~~Mae tai sydd â chyfleusterau sydd wedi eu rhannu yn aml yn cael eu hadnabod fel tai amlfeddiannaeth/ cartrefi a'u rhennir. Tai amlfeddiannaeth/ cartrefi a'u rhennir yw fflatiau neu dai sydd wedi eu meddiannu gan fwy nag un aelwyd, ble nad oes gan yr un aelwyd yr unig ddefnydd o'r holl gyfleusterau coginio, ymolchi a thoiledau. Mae'r Polisi hwn yn ymwneud ag adeiladu tai~~ | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | ~~amlfeddiannaeth/ cartrefi a'u rhennir o'r newydd yn hytrach na throsi adeiladau presennol (a fyddai'n berthnasol ar gyfer Polisi TAI2).~~ Mae'r Polisi hwn yn berthnasol ~~ar gyfer llety pwrpasol a'u hadeiledir o'r newydd~~ **i lety dros dro a ddarperir i weithwyr adeiladu** sydd ei angen mewn cysylltiad â phrosiectau adeiladu ar raddfa fawr~~, e.e.~~ **ar wahân i Brosiect** Wylfa Newydd neu unrhyw waith arall sy'n gofyn am nifer fawr o weithlu preswyl dros dro **/ symudol**. **Bydd Polisi PS 9 a Pholisi PS 9A yn berthnasol i gynigion ar gyfer llety gweithwyr adeiladau dros dro arddull campws a fydd yn angenrheidiol ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd.** | ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 192 | Paragraff newydd 7.4.23c | *Dileu'r testun i sicrhau cysondeb mewnol*<br><br>~~**Dim ond datblygiad hyd at uchafswm o 500 o wlau ynghyd a chyfleusterau atodol ar gyfer lles, hamdden mae'r Polisi yma yn gyfarch. Bydd cynigion mwy yn cael eu hysturied yn erbyn Polisi PS9A a pholisiau perthnasol eraill yn y Cynllun.**~~ | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 196 | 7.4.26 | ***Diwygio'r testun aglurhaol er mwyn egluro anghenion y Polisi ar gyfer tystiolaeth cefnogol.***<br><br>~~Gall y modd o greu cymunedau cymysg, cynaliadwy a chynhwysol gael ei effeithio'n andwyol ble mae llety pwrpasol, tai amlfeddiannaeth neu dai a rennir yn cael eu cynnig.~~ Mae'r math hwn o lety yn creu crynodiad o breswylwyr eithaf byrdymor, ac o bosib ni fydd hyn yn cael ei gefnogi mewn cymuned sefydledig. Mae pryderon penodol yn gallu cynnwys pwysau ar y gwasanaethau a chyfleusterau sydd yn cwrdd ag anghenion preswylwyr mwy hirdymor, yn enwedig felly cyfleusterau a gwasanaethau allweddol megis meddygfeydd, deintydd, canolfannau hamdden, llyfrgelloedd ac ysgolion. Mae'r Cynghorau wedi eu hymroddi i gefnogi cymunedau preswyl yn ardal y Cynllun. Bydd ~~asesiad ar gyfer y cynnig yn cael ei gynnwys~~ **angen Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu** ar gyfer pob cais ar gyfer llety gweithwyr dros dro, sydd yn cynnwys: | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | i. disgrifiad manwl o'r angen ar gyfer y cyfleuster<br>~~ii. sut mae'n cydymffurfio gyda Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu~~<br>iii. manylion o'r pwysau mae'r cynnig yn ei roddi ar seilwaith ffisegol a chymunedol<br>iv. maint y budd i'r gymuned leol o'r cynnig; a<br>v. datrysiad dangosadwy ar gyfer diwedd oes strwythur neu adeilad, oni bai y gellir dangos yn glir nad yw defnydd etifeddiaeth yn ddichonol. | |
| NMC 198 | Polisi TAI 5 | ***Diwygio'r geiriad i egluro anghenion y Polisi a sicrhau cosondeb mewnol y Cynllun***<br>**Yn amodol ar ofynion Polisi TAI 9 ynglŷn â darparu tai fforddiadwy, bydd tai marchnad leol (fel y'u diffinnir yn y Rhestr Termau) yn cael eu caniatáu o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd a'u henwir isod ~~ac eithrio lle mae'r cynnig yn cyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy yn unol a Pholisi TAI9~~ ar yr amod fod y cynnig yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol ac ar yr amod fod y cynnig yn cydymffurfio â'r meini prawf canlynol** ~~Caniateir datblygiadau preswyl newydd o fewn ffiniau datblygu'r aneddleoedd penodol a nodir isod cyn belled bod~~:<br><br>**(ii) Pentrefi Lleol, Gwledig / Arfordirol** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 203 | 7.4.40 | ***Diwygiad bach er mwyn sicrhau cysondeb.***<br><br>I bwrpas y cymal 'Tai Marchnad Leol', diffinnir 'lleol' fel y ganlyn: | Newid bach i sicrhau cysondeb nad yw'n effeithio'n |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **Canolfannau Gwasanaeth Lleol** - Cysylltiad gyda'r ward ~~benodol~~ ble lleolir yr anheddle neu unrhyw ward sydd yn ffinio yn union â hi.<br><br>**Pentrefi Lleol, Gwledig/ Arfordirol -** Cysylltiad gyda'r ward ~~benodol~~ ble lleolir yr anheddle yn unig.<br><br>Fe ddiffinnir cysylltiad gyda'r ward' fel y ganlyn:<br><br>i. Unigolyn sydd ar hyn o bryd yn byw oddi mewn i'r wardiau perthnasol ac sydd wedi byw yn barhaol yno am 5 mlynedd neu fwy; neu<br>ii. Pobl nad sydd ar hyn o bryd yn byw yn y wardiau perthnasol ond sydd â chysylltiad cryf a hir-sefydlog gyda'r gymuned leol gan gynnwys byw yn yr ardal am gyfnod o 5 mlynedd neu fwy yn y gorffennol; neu<br>iii. Pobl sydd ag angen hanfodol i symud i fyw yn agos i berthnasau sydd ar hyn o bryd yn byw yn wardiau perthnasol ag sydd wedi byw yno am o leiaf y 5 mlynedd flaenorol neu fwy ac sydd angen cefnogaeth oherwydd rhesymau oedran neu wendid; neu<br>iv. Pobl sydd angen cefnogaeth am resymau sy'n ymwneud ag oedran neu wendid ac sydd angen symud i fyw yn agos at berthnasau sydd yn byw ar hyn o bryd yn y wardiau perthnasol ac sydd wedi byw yno am y 5 mlynedd flaenorol neu fwy; neu<br>~~v. Pobl sydd wirioneddol angen byw o fewn y ward benodol o ganlyniad i'w sefyllfa gwaith; neu~~<br>~~vi. Unrhyw faen prawf arall a gytunir arno yn ysgrifenedig gan Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd Cyngor Gwynedd neu Bennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ynys Môn (i ba bynnag Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n berthnasol).~~ | arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i’r Newidiadau Materion sy’n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 214 | Polisi TAI 9 | ***Cynnwys maen prawf ychwanegol i Adran 3 o Bolisi Tai 9 fel newid sy’n deillio o newid i Bolisi TAI 17, sy’n gwella eglurder y Cynllun.***<br><br>**ix O fewn Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol bydd rhaid i’r ddarpariaeth tai fforddiadwy fod yn dai fforddiadwy angen lleol yn unig (fel y’i diffinnir yn y Rhestr Termau).** | Newid bach nad yw’n effeithio’n arwyddocaol ar ganfyddiadau’r AC. |
| NMC 259 | Polisi TAI 14 | ***Ail osod y term ‘Safleoedd Addas Heb eu Dynodi’ gyda ‘Safleoedd ar Hap’ er mwyn sicrhau cysondeb o’r Cynllun.***<br><br>**Yng Nghanolfan Isranbarthol Bangor a’r Canolfannau Gwasanaeth Trefol a ganlyn bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy’r dynodiadau tai a’u nodir isod ynghyd â safleoedd ar hap ~~nad sydd wedi eu dynodi~~ addas o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd ~~heb eu dynodi~~ ar hap** | Newid bach nad yw’n effeithio’n arwyddocaol ar ganfyddiadau’r AC. |
| NMC 260 | Polisi TAI 15 | ***Ail osod y term ‘Safleoedd Addas Heb eu Dynodi’ gyda ‘Safleoedd ar Hap’ er mwyn sicrhau cysondeb o’r Cynllun.***<br><br>**Yn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol a ganlyn bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy’r dynodiadau tai a’u nodir isod ynghyd â safleoedd ar hap ~~nad sydd wedi eu dynodi~~ addas o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd ~~heb eu dynodi~~ ar hap** | Newid bach nad yw’n effeithio’n arwyddocaol ar ganfyddiadau’r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 261 | Polisi TAI 16 | *Ail osod y term 'Safleoedd Addas Heb eu Dynodi' gyda 'Safleoedd ar Hap' er mwyn sicrhau cysondeb o'r Cynllun.*<br><br>**Yn y Pentrefi Gwasanaeth a ganlyn bydd tai i gwrdd â strategaeth y Cynllun yn cael eu sicrhau drwy'r dynodiadau tai a'u nodir isod ynghyd â safleoedd ar hap ~~nad sydd wedi eu dynodi~~ addas o fewn y ffin ddatblygu, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ddangosol yn y tabl isod:**<br><br>**(ii) Safleoedd ~~heb eu dynodi~~ ar hap** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC262 | Polisi TAI 17 | *Diwygio i wella eglurder*<br><br>**Yn amodol ar ofynion Polisi TAI 9 ynglŷn â darparu tai fforddiadwy (fel y'u diffinnir yn y Rhestr Termau) caniateir cynigion am dai marchnad agored ~~a thai fforddiadwy ar gyfer angen lleol (el y'u diffinnir yn y Rhestr termau)~~ yn y Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol canlynol os gallir cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 263 | 7.4.124 | *Cynnwys testun ychwanegol i wella eglurder*<br><br>I adlewyrchu **rôl** ~~cymeriad~~ y Pentrefi Lleol ac Arfordirol/Gwledig, ~~bydd~~ datblygiadau tai **ar raddfa fach, gan gynnwys mewnlenwi, addasu adeiladau neu newid defnydd safleoedd ddaw ar gael, fydd** yn cael eu **hyrwyddo** ~~cyfyngu i fath a graddfa sy'n diwallu'r angen cymunedol am dai~~. **Mae gymharol llai o ddatblygu yn cael eu hyrwyddo i'r** ~~Bydd datblygiadau mwy cyfyngedig yn digwydd yn y~~ Pentrefi hyn **er mwyn** ~~i~~ **g**warchod eu cymeriad~~,~~ **ac** i gefnogi angen y gymuned am dai neu am dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Ni**d**~~fydd~~ **oes** unrhyw safleoedd tai marchnad agored ~~yn~~ **wedi** cael eu dynodi yn y mathau hyn o Bentrefi~~,~~ ~~b~~**B**ydd y polisi manwl sy'n seiliedig ar feini prawf yn hyrwyddo datblygiad ar y raddfa gywir. **Dylai'r cynigion adlewyrchu cymeriad yr aneddleoedd unigol a bod yn gydnaws â darpariaethau'r Cynllun ar gyfer yr haen Pentrefi Lleol,** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | Gwledig ac Arfordirol a welir ym Mholisi PS 15. Rhoddir ystyriaeth i ddarparu unedau tai fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 9. | |
| NMC 271 | Polisi PS 16 | *Diwygiadau bach i ychwanegu eglurder*<br><br>**POLISI STRATEGOL PS 16: GWARCHOD A ~~NEU~~ LLE BO'N BERTHNASOL GWELLA'R AMGYLCHEDD NATURIOL**<br><br>**Bydd y Cynghorau'n rheoli datblygiad er mwyn gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella amgylchedd naturiol, cefn gwlad ac arfordir arbennig ardal y Cynllun a gwrthodir cynigion a fydd yn cael effaith sylweddol andwyol arnynt ~~arnydd~~ oni bai bod yr angen neu'r bendithion y datblygiad yn y lleoliad yna yn amlwg gorbwyso gwerth y safle neu'r ardal a pholisi gwarchodaeth cenedlaethol ar gyfer y safle a'r ardal dan sylw. Bydd yr Awdurdodau Cynllunio'n ystyried caniatáu cais byddant yn gwneud yn siŵr ei fod yn:**<br><br>**1. Diogelu cynefinoedd a rhywogaethau, daeareg, hanes, yr arfordir a thirweddau ardal y Cynllun;**<br>**2. Gwarchod a lle bo'n berthnasol gwella safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a ble'n berthnasol eu gosodiad yn unol â Pholisi Cenedlaethol;** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 283 | Polisi PS 17 | *Diwygiadau bach er mwyn ychwanegu eglurder.*<br><br>**POLISI PS 17: DIOGELU A LLE BO'N BERTHNASOL WELLA ASEDAU TREFTADAETH**<br><br>**Wrth geisio cefnogi anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach ardal y Cynllun, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **diogelu a lle bo hynny'n berthnasol, yn gwella'r asedau treftadaeth unigryw:**<br><br>**Caniateir cynigion a fydd yn diogelu a <u>lle bo'n berthnasol</u> wella'r asedau treftadaeth a ganlyn, eu gosodiad a golygfeydd pwysig i mewn ac allan o'r adeilad /ardal:**<br><br>**1. Henebion Rhestredig ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd archeolegol (yn unol â Pholisi AT 4).**<br>**2. Adeiladau Rhestredig a'u cwrtil.**<br>**3. Ardaloedd Cadwraeth (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>**4. Safleoedd Treftadaeth y Byd - Castell Biwmares a Chastell Caernarfon a Muriau'r Dref (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>**5. Ymgeisydd Safleoedd Treftadaeth y Byd.**<br>**6. Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig (yn unol â Pholisi AT 1).**<br>**7. Adeiladau o haeddiant pensaernïol/hanesyddol/diwylliannol nad ydynt wedi eu rhestru neu eu diogelu (yn unol â Pholisi AT3).** | AC. |
| NMC 402 | 7.5.51 | ***Diwygio'r testun eglurhaol i ychwanegu eglurder.***<br><br>Yn unol â'r hierarchaeth wastraff a nodir yn NCT 21, mae dull cynaliadwy o reoli gwastraff yn golygu y bydd rhaid cael mwy o bwyslais ar leihau, ailddefnyddio ac adfer gwastraff, a llai o ddibyniaeth ar waredu heb adfer. <u>**Mae rheoli gwastraff yn cynnwys, er enghraifft, cadw, trin, storio, derbyn/ trosglwyddo a gwaredu gwastraff.**</u> | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 294 | Polisi GWA 3 | *Diwygio'r polisi i ychwanegu eglurder.*<br>**POLISI GWA 3: ~~TRIN A STORIO~~ RHEOLI GWASTRAFF YMBELYDROL ~~LEFEL ISEL[1] AC ISEL IAWN[2]~~**<br>**Caniateir cyfleusterau ar gyfer ~~trin,~~ storio a/neu ~~waredu~~ rheoli gwastraff ymbelydrol ~~Lefel Isel ac Isel Iawn~~ a gynhyrchir o fewn y safle niwclear trwyddedig yn Wylfa/Wylfa Newydd ~~ar y safle i hwyluso busnes presennol,~~ cyn belled ei fod yn cydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol i gyd:**<br>1. **Mae'n gyson â~~'r~~ strategaethau a pholisiau c~~g~~enedlaethol ar gyfer rheoli gwastraff ac arllwysiadau ymbelydrol ~~Lefel Isel ac Isel Iawn a/neu'r cynlluniau dadgomisiynu ar gyfer Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa~~.**<br>2. **Mae canlyniad asesiadau cymdeithasol, economaidd a iechyd yr amgylchedd yn cyfiawnhau trin y gwastraff yn y lleoliad arfaethedig ~~ar y safle neu mewn lleoliadau priodol tu allan i'r prif safle niwclear~~.**<br>3. **Caiff cyfleusterau eu lleoli a'u dylunio er mwyn lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd a mae mesurau adfer amgylcheddol priodol ar gael.**<br>~~4. Bydd cynigion yn cydymffurfio â'r ystyriaethau cyffredinol a amlinellir ym Mholisi GWA 1.~~<br>~~5. Bod y cynnig yn cael ei gefnogi gan Asesiad Cynllunio Gwastraff (fel y'I diffinnir gan NCT 21: Gwastraff)~~ | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

~~[1] Gwastraff lefel isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol gyda chynnwys ymbelydrol dim mwy nag 4 GBg/te (gigabecuerels pob tunnell) o alpha neu 12 GB/te o weithgaredd beta/gamma. Mae GLI yn cyfrannu hyd at 90% o etifeddiaeth cyfaint gwastraff ymbelydrol y DU ond yn cynnwys llai na 0.1% o'r cyfanswm ymbelydredd.~~

~~[2] Gwastraff lefel isel iawn (GLII) yw is gategori o GLI ac wedi ei ddiffinio un ai fel GLII cyfaint isel neu GLII cyfaint uchel. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen am reolaeth dros y cyfanswm cyfaint o gyfaint uchel GLII sy'n cael ei waddod mewn unrhyw gyfleuster tirlenwi neu wastraff arall.~~

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| NMC 295 | 7.5.56 | *Cynnwys cyfeiriad at wastraff ymbelydrol canolraddol a diffiniad o'r gwhanol lefelau o wastraff ymbelydrol.*<br><br>Mae'r broses ddadgomisiynu yn debygol o ~~ddatgelu~~ **arwain at** llawer iawn o wastraff ymbelydrol Lefel Canolraddol (1) Isel **(2)** ac Isel Iawn **(3)**<br><br>Troednodyn:<br>**(1)** Mae gwastraff lefel canolradd yn fwy ymbelydrol na gwastraff ymbelydrol lefel isel (gweler isod), ond nid yw'n cynhyrchu digon o wres i'w wneud yn ofynnol i hyn gael ei ystyried mewn cyfleusterau storio neu ei waredu. Fodd bynnag, fel gwastraff ymbelydrol arall mae dal angen eu cadw i ddiogelu pobl a'r amgylchedd. Mae GLC yn deillio'n bennaf o ailbrosesu gweddillion tanwydd a gweithrediadau cyffredinol a chynnal a chadw ar safleoedd niwclear, a gall gynnwys eitemau metel fel cladin tanwydd a chydrannau adweithydd, graffit o greiddiau adweithydd, a slwtsh o driniaeth elifion ymbelydrol hylifol<br>**(2)** Gwastraff lefel isel (GLI) yw gwastraff ymbelydrol gyda chynnwys ymbelydrol dim mwy nag 4 GBg/te (gigabecuerels pob tunnell) o alpha neu 12 GB/te o weithgaredd beta/gamma. Mae GLI yn cyfrannu hyd at 90% o etifeddiaeth cyfaint gwastraff ymbelydrol y DU ond yn cynnwys llai na 0.1% o'r cyfanswm ymbelydredd.<br><br>(3) Gwastraff lefel isel iawn (GLII) yw is gategori o GLI ac wedi ei ddiffinio un ai fel GLII cyfaint isel neu GLII cyfaint uchel. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau ddiffiniad yw'r angen am reolaeth dros y cyfanswm cyfaint o gyfaint uchel GLII sy'n cael ei waddod mewn unrhyw gyfleuster tirlenwi neu wastraff arall. | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC300 | 7.5.62a | *Diwygio'r testun eglurhaol i ychwanegu eglurder.*<br><br>Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu sy'n effeithio ar adnoddau mwynau ddangos, drwy archwiliad priodol, na fydd yr adnodd yn cael ei sterileiddio neu ddangos na fydd echdynnu yn y dyfodol yn cael eu llesteirio gan y datblygiad arfaethedig. **Ble mae yno angen gorbwysol am y datblygiad, a fyddai fel arall yn sterileiddio'r adnodd, gosodir amod cynllunio ar y cais cynllunio** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | **fydd yn gwneud hi'n ofynnol i gloddio am yr adnodd cyn dechrau'r datblygiad, oni bai bod y datblygwr yn gallu profi'n foddhaol bod hynny'n anymarferol neu'n amgylcheddol annerbyniol.** | ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 322 | Fframwaith Fonitro D15 | *Diwygiadau bach i wella eglurder.*<br><br>**Ceisiadau ~~cynllunio~~ ar gyfer gwelliannau gofynnol i'r A5025 (ar lein neu oddi ar lein) wedi cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Mon neu fel rhan o'r cais am OCD (lle bo'n berthnasol) erbyn Rhagfyr 2017**<br><br>**Ceisiadau cynllunio ar gyfer gwelliannau i'r A5025 heb gael eu cyflwyno erbyn ~~Mai~~ Rhagfyr 2017** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 323 | Fframwaith Fonitro<br><br>D21 | *Diwygio'r testun i roi eglurder i'r targedau Polisi i Ddangosydd Lleol D21 yn y Fframwaith Fonitro.*<br><br>~~I gwrdd â 50% (1,123.35GWh) o'r galw a ragwelir am drydan drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2021.~~<br><br>~~I gwrdd â 100% (2,246.7GWh) o'r galw a ragwelir am drydan drwy ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2021.~~<br><br>~~I gwrdd 50% (26.397 GWh) o'r galw a ragwelir am wres drwy ffononellau ynni erbyn 2021.~~<br><br>~~I gwrdd 100% (26.397 GWh) o'r galw a ragwelir am wres drwy ffononellau ynni erbyn 2026.~~ | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (1,123.35 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am drydan<br><br>100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (2,246.7 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am drydan<br><br>50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (26.397 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres<br><br>100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (52.795 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am wres | |
| NM 326 | Fframwaith Fonitro<br><br>D26 – D28 | *Diwygiadau bach i wella eglurder a chysondeb gyda'r drefn cydsyniad*<br><br>**Cais am OCD i Wylfa Newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo erbyn ~~Mai~~ Rhagfyr 2017**<br><br>**Cymeradwyo'r cais am OCD i Wylfa Newydd erbyn ~~Mai~~ Rhagfyr 2018**<br><br>**Horizon Nuclear Power yn methu â chyflwyno cais am OCD erbyn ~~Mai~~ Rhagfyr 2017**<br><br>**Horizon Nuclear Power yn methu â chael cymeradwyaeth i'r cais OCD erbyn ~~Mai~~ Rhagfyr 2018**<br><br>**Prosiect Wylfa Newydd yn cael cymeradwyaeth/"cadarnhad" gan DECC erbyn Rhagfyr 2019**<br><br>**Horizon Nuclear Power yn methu â chael cymeradwyaeth/"cadarnhad" gan DECC erbyn ~~October~~ Rhagfyr 2019** | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | Ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd yn cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Mon erbyn Rhagfyr 2017<br><br>Horizon Nuclear Power yn methu â chyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol erbyn Rhagfyr 2017<br><br>Datblygiad perthynol Prosiect Wylfa Newydd heb gychwyn o fewn yr amserlen osodwyd yn y caniatâd cynllunio unigol a'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu (lle bo'n berthnasol) | |
| NMC 340 | Atodiad 5 Tabl 1 | *Diwygio ffigwr yn Nhabl 1 (Atodiad 5) i sucrhau cysondeb*<br><br>Lefel Cyflenwad Dangosol – Safleoedd Hap<br>~~36~~ 58<br>121 | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |
| NMC 341 | Atodiad 7 | *Diwygio Atodiad 7 er cynnwys 'rhybudd iechyd' ar ddechrau'r Atodiad gan fod y wybodaeth yn gyfyngedig i amser penodol h.y. gall safleoedd newydd gael eu hychwanegu yn ystod cyfnod y Cynllun, neu i'r gwrthwyneb, gall monitro ac adolygiad o'r dynodiadau arwain at dynnu'r dynodiant ac i gynnwys Rhestr o Warchodfeydd Natur Leol, Safleoedd Bywyd Gwyllt, Geoparc Môn, a Safle Treftadaeth y Byd:*<br><br>Noder bod y rhestr o safleoedd a welir o dan y penawdau unigol yn gywir ar dyddiad mabwysiadu'r Cynllun. I weld os cafodd | Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r |

<table>
<tr><th>Rhif NMC</th><th>Polisi/ Para/ Map</th><th>Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch)</th><th>Sgrinio AC</th></tr>
<tr><td></td><td></td><td>unrhyw safle ei ychwanegu neu ei ddileu ers hynny edrychwch ar Fap Cyfyngiadau rhyngweithiol y Cynllun (a fydd yn cael ei ddiweddaru yn ystod oes y Cynllun) a/ neu gwefan Cyfoeth Naturiol Cymru (https://naturalresources.wales/?lang=cy ) neu gwefan CADW (http://cadw.gov.wales )</td><td>AC.</td></tr>
<tr><td>NMC 343</td><td>Atodiad 9</td><td>Minor amendment to ensure internal consistency<br>
<table>
<tr><th>Enw</th><th>Polisïau perthnasol yn y Cynllun ~~Adnau~~</th><th>Amserlen i'w mabwysiadu</th></tr>
<tr><td>Ymrwymiadau cynllunio, sy'n cynnwys cyfraniadau gan ddatblygwyr ar gyfer ystod o isadeiledd</td><td>PS 2 a ISA 1 yn ogystal â pholisïau defnydd tir perthnasol, e.e. ISA 5 (llecynnau agored), TA1 9 ~~8~~ (tai fforddiadwy)</td><td>~~Bydd CCA cyfredol (Gwynedd a Mon) yn cael eu hadolygu, diweddaru a'u ymestyn. Bydd fersiwn drafft yn cael ei gyflwyno cyn/ neu adeg yr Archwiliad.~~ Chwarter ~~1~~ 3 2017/ 18</td></tr>
<tr><td>Cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy</td><td>PS 1, ISA 1, PS 5, TAI 1</td><td>~~Bydd CCA cyfredol (Gwynedd a Môn) yn cael eu hadolygu, diweddaru a'u hymestyn. Efallai bydd fersiwn drafft yn cael ei gyflwyno cyn/ neu adeg yr Archwiliad.~~ Chwarter ~~1~~ 3 2017/ 18</td></tr>
<tr><td>Tai fforddiadwy</td><td>PS 13, PS 14, TAI 9, TAI 10</td><td>~~Bydd CCA cyfredol (Gwynedd a Môn) yn cael eu hadolygu, diweddaru a'u hymestyn. Efallai bydd fersiwn drafft yn cael ei gyflwyno cyn/ neu adeg yr Archwiliad. Bydd materion arian~~</td></tr>
</table></td><td>Newid bach nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC.</td></tr>
</table>

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | | | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ~~cymudol yn cael eu cynnwys yn y CCA Ymrwymiadau Cynllunio.~~ **Chwarter ~~1~~ 3 2017/ 18** | |
| | | Math a chymysgedd o dai | TAI 1 | ~~CCA Newydd. I'w baratoi o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun.~~ **Chwarter ~~1~~ 3 2017/ 18** | |
| | | Type and mix of housing | TAI 1 | ~~New SPG. To be prepared within 18 months of the Plan's adoption.~~ **Quarter ~~1~~ 3 2017/ 18** | |
| | | Llecynnau agored of fewn datblygiad preswyl newydd | ISA 5 | ~~Bydd CCA cyfredol (Gwynedd) yn cael eu hadolygu, diweddaru a'u hymestyn o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. Bydd y CCA Ymrwymiadau cynllunio yn ymdrin gyda materion Adran 106.~~ **Chwarter 4 2017/ 18** | |
| | | Datblygiad twristiaeth – atyniadau a llety | TWR 2, TWR 3, TWR 4, TWR 5 | ~~Bydd CCA cyfredol (Gwynedd a Môn) yn cael eu hadolygu, diweddaru a'u hymestyn o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun.~~ **Chwarter ~~2~~ 3** | |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i'r Newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | | | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **2018/ 19** | |
| | | Wylfa Newydd | PS 9, **PS 9A, PS 9B, PS 9C, TAI 3** | ~~Ail ymweld â'r CCA cyfredol (Môn) ar ol mabwysiadu'r Cynllun. Bydd y CCA Ymrwymiadau Cynllunio yn ymdrin â materion Adran 106. Bydd CCA yn debygol o ymdrin a materion thema.~~ **Chwarter ~~1~~ 3 2017/ 18** | |

**ATODIAD 10B – AC O ARGYMHELLIAD YR AROLYGYDD (IMAC)**

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| IMAC 1 | 7.5.19 | ***Dileu'r paragraff yn gyfan gwbl a'i ddisodli â'r canlynol:***<br><br>**Mae Adran 6, Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn datgan bod rhaid i awdurdod cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau sy'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol.** | Newid bach i ychwanegu eglurder nad yw'n effeithio'n arwyddocaol ar ganfyddiadau'r AC. |

| Rhif NMC | Polisi/ Para/ Map | Diwygiadau i newidiadau Materion sy'n Codi (mewn coch) | Sgrinio AC |
|---|---|---|---|
| | | | |